Google

This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at http://books.google.com/

Rev. J. Thomas.

1823.

107. d. 2

AMSERYDDIAETH YSGRYTHYROL;

YN CYNNWYS HANESYDDIAETH

YR HEN DESTAMENT A'R NEWYDD,

MEWN SAITH DOSPARTH,

O Greadigaeth y Byd hyd y Flwyddyn 98ain o Oed Crist:

YNGHYD A

HANESYDDIAETH Y PEDAIR YMERODRAETH FAWR YN Y CYN OESOEDD:

HEFYD,

DAEARYDDIAETH GWLAD CANAAN, A'R GWLEDYDD CYMMYDOGAETHOL.

AT YR HYN Y CHWANEGIR,

CYSONDEB BYR O'R PEDWAR EFENGYLWR, GYDA SYLWADAU EGLURHAOL.

GAN Y DIWEDDAR BARCHEDIG SIMON LLOYD, B. A.
Gynt o Goleg yr Iesu, Rhydychen.

YR AIL ARGRAPHIAD.

BALA:

ARGRAPHEDIG AC AR WERTH GAN R. SAUNDERSON.

AR WERTH HEFYD

GAN H. HUGHES, ST. MARTIN'S-LE-GRAND, a D. WILLIAMS, HOLYWELL STREET, STRAND, LLUNDAIN; J. a J. PARRY, a T. CATHERALL, CAERLLEON; W. PRITCHARD, LLERPWLL; a CHAN HOLL LYFR-WERTHWYR CYMRU.

MDCCCXLII.

BODLEIAN
20·7·1897
LIBRARY

Y RHAGYMADRODD.

Y MAE y Gwaith canlynol a gynnygir i'm cydwladwyr yn cynnwys llawer mewn ychydig sym, ac yn rhoddi mwy nag a ellid ddisgwyl oddiwrth ei gyfenwad; canys heblaw AMSERYDDIAETH YSGRYTHYROL, ceir ynddo Elfenau Amseryddiaeth, a chymmaint o Seryddiaeth ag sydd yn perthyn i Gyfansawdd yr Haul; Hanesyddiaeth Ysgrythyrol a Phaganaidd; Hanesyddiaeth yr yspaid amser rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, yr hwn oedd dros 400 mlynedd. Y mae ynddo hanes am wasgariad a sefydliad meibion Noah yn yr amrywiol wledydd o'r byd yr arweiniwyd hwynt iddynt trwy ragluniaeth yr Hollalluog. Y mae yn cynnwys eglurhâd o lawer o brophwydoliaethau yr Hen Destament, a rhai yn llyfr Datguddiad; esponiad ar y rhan fwyaf o brophwydoliaethau Daniel, yn neillduol hòno ynghylch y 70ain wythnos; ac y mae yr Amseryddiaeth mewn cysondeb trwyadl â'r brophwydoliaeth hòno yn y gwaith hwn, yr hyn nid yw mewn un gwaith o'r natur yma a ddigwyddodd i mi weled. Ceir hefyd Ddaearyddiaeth gwlad Canaan, a'r gwledydd oddi amgylch a sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, a darluniad o deml Solomon; heblaw amryw draethodau ynghylch amryw bersonau a phethau, a arweiniai i ormod meithder i'w henwi. Y mae yn diweddu gyda Chysondeb y Pedwar Efengylwr, ynghyd â Sylwadau byrion ar amryw fanau ag oeddwn yn farnu oedd yn gofyn ychydig eglurhâd.

Pe gofynid pa beth a'm harweiniodd i ysgrifenu ac i gyhoeddi gwaith ar y testynau crybwylledig, fy ateb fyddai, mai hyny a fu yn rhan fawr o hyfrydwch fy oes, i ddarllen Hanesyddiaeth, Amseryddiaeth, a Daearyddiaeth; yn neillduol y rhanau hyny o honynt ag oedd yn tueddu i daflu goleuni ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ysgrifenais ar y cyntaf heb ddiben i gyhoeddi; ond wedi cael y gwaith i drefn, bernais mai buddiol i'm cydwladwyr fyddai eu gwneuthur yn gyfranog o'r hyn a lafuriais ynddo; yn neillduol wrth ystyried mor amddifad yr oedd y rhai hyny o honynt ag oedd heb ddeall ond eu hiaith eu hunain, o'r cynnorthwyon sydd mewn ieithoedd ereill tu ag at gael amgyffred cywir

o lythyren y Gair Dwyfol, heb ba un ni ellir dirnad, yn fynych, y synwyr ysprydol. Canys y mae yn rhaid cyfaddef nas gellir cael amgyffred cyson o unrhyw hanesyddiaeth, heb wybod pa bryd, ac ym mha le y gwnaethpwyd, neu y digwyddodd yr hyn a adroddir. Gan fod yr Yspryd Glân wedi nodi yr amseroedd yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd gyda mawr fanyldra a chywirdeb, ein dyledswydd yw craffu arnynt; ac oddiwrth hyny y daw budd mewn amryw ystyriaethau. Gwelir cyflawniad o air ac addewidion yr Arglwydd i'w bobl, ac o'i fygythion i'w elynion; fel y gellid dangos trwy grybwyll amryw fanau yn y Gair Dwyfol. Y mae Amseryddiaeth yn anhebgorol angenrheidiol i ddeall cyflawniad y prophwydoliaethau hyny ag sydd yn cynnwys amserau pennodol; megys y 70ain mlynedd o gaethiwed yn Babilon, 70ain wythnos Daniel, 1260 mlynedd, sef parhâd teyrnasiad Anghrist, y 390 niwrnod a'r 40 niwrnod y bu y prophwyd Ezeciel yn gorwedd ar ei ystlys aswy a dehau, y rhai sydd yn arwyddocau cynnifer o flynyddoedd; *Ezec.* 4. 4, 5, 6. heblaw amryw o'r cyffelyb a grybwyllir am danynt yn y traethawd hwn. Heb gynnorthwyon o'r fath a roddir yma, buasent yn hollol annealladwy; ond trwyddynt gwelir cyflawniad manwl o air yr Arglwydd yn dra eglur i'r sawl a graffo arnynt. Fel y mae y goleuni yn felus, ac yn hyfryd i'r llygaid i weled yr haul, felly y mae gwirionedd pan ganfyddir ef; canys heblaw y gwirionedd dwyfol ag sydd yn dwyn iechydwriaeth i'r sawl a'i caffo ac a'i credo, y mae amryw fath o wirionedd i'w gael mewn amrywiol ganghenau o ddysgeidiaeth; megys gwirionedd hanesyddol, gwirionedd rhifyddol, gwirionedd seryddol; ac ym mhlith ereill, gwirionedd amseryddol, yn ol rheolau sylfaenol a sicr. Rheol a sylfaen gwirionedd amseryddol ysgrythyrol yw yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ynghyd â'r cyfryw dystiolaethau mewn hanesyddiaeth Iuddewig a Phaganaidd ag sydd mewn cysondeb â hwynt. Nid all fod yr un Amseryddiaeth o'r Hen Destament yn gywir ag sydd heb gytuno â'r Ysgrythyrau Hebreaidd, a'r amrywiol gyfieithiadau cywir o honynt; ac mewn cyffelyb fodd y gellir dywedyd am yr Amseryddiaeth ag sydd berthynol i amserau y Testament Newydd.

Nid oes un gangen o ddysgeidiaeth wedi bod mewn mwy o ddyryswch, ammherffeithrwydd, ac anghysondeb, tros lawer o oesoedd maith, na hon; gan fod yr ysgrifenwyr, gan mwyaf, yn dilyn eu dychymygion eu hunain, neu ereill, heb lynu yn hollol, ond mewn rhan, wrth yr unig reol gywir, sef Ysgrythyr y gwirionedd. Canys dilyn yr Ysgrythyr

mewn rhan, heb ei gyflawn ddilyn, a fydd sicr o arwain i gyfeiliorni, fel ym mhob peth arall, felly hefyd yn y gangen hon o ddysgeidiaeth. Y mae y Dr. *Hales (Chronology, pp.* 3—7.) wedi rhoddi cofrestr o 120 o enwau amrywiol Amseryddion a ysgrifenasant o'r flwyddyn o oed Crist 130, hyd y flwyddyn 1809 (a gallasai eu chwanegu i 300) a'u gwahanol dybiau ynghylch rhifedi y blynyddoedd o greadigaeth y byd hyd enedigaeth Crist. Y mae *Alphonsus* brenin Castile, a ysgrifenodd yn y flwyddyn o oed Crist 1252, yn gwneuthur yr yspaid hwnw yn 6984 o flynyddoedd; a *Rabbi Lipman*, a ysgrifenodd yn 1559, yn ei wneuthur yn 3616 o flynyddoedd: felly, ymddengys fod gwahaniaeth rhyngddynt o 3368 o flynyddoedd! O'r 120 hyny, y mae dau, sef *Playfair* a *Walker*, Amseryddion diweddar, yn gwneuthur yr yspaid hwnw yn 4008, fel y mae yn y Traethawd canlynol, er na ddigwyddodd i mi weled eu gwaith, ond yn unig cymmaint o eiddo y cyntaf o'r ddau, yn Amseryddiaeth y Dr. *Hales*, ag sydd yn dangos, er fod swm yr amser o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist yr un fath, etto fod gwahaniaeth mawr yn y cyfraniad o hono, yn neillduol mewn dau Ddosparth, sef o'r diluw hyd alwad Abraham, ac o'r dyfodiad o'r Aipht hyd orpheniad teml Solomon. Yn y cyntaf o'r ddau nid oes gan *Playfair* ond 367 mlynedd yn lle 426; ac yn yr olaf y mae ganddo 540 mlynedd yn lle 487. Yn y Dosparthiadau ereill nid yw yn amrywio fawr oddiwrth y gwaith hwn. Pe gofynid pwy sydd i benderfynu y ddadl, ac i ddangos pwy sydd yn rhoi cyfrif cywir yn y ddau Ddosparth a enwyd, fy ateb fyddai, Ysgrythyr y gwirionedd wedi ei iawn ddeall yn y fath fodd ag i wneuthur y naill ran yn gyson ac yn gytun â'r llall.

Y mae y Dr. *Hales* wedi rhoddi byr olygiad ar Amseryddiaeth yr Iuddewon, ac ar waith wyth o'r Amseryddion enwocaf yn yr oesoedd diweddar; sef, *Scaliger, Petavius, Usher, Marsham, Sir Isaac Newton, Kennedy, Playfair, a Jackson.* Ni ellir sylwi yn fanwl ar ei olygiadau, gan yr arweiniai hyny i ormod meithder.

1. Amseryddiaeth yr Iuddewon a gasglwyd ac a drefnwyd gan un *Dafydd Ganz;* ond pa bryd, nid yw y Dr. *Hales* yn dywedyd. Nid yw *Ganz* yn rhoddi dim mwy na 3760 o flynyddoedd rhwng y greadigaeth a genedigaeth Crist. Sylwyd yn fynych gan amryw o'r dysgedigion mai yr Amseryddion gwaethaf o bawb oedd yr Iuddewon; ond yn y pedwerydd Dosparth o amser y maent yn gywir, trwy gyfrif 480 mlynedd o'r dyfodiad o'r Aipht hyd sylfaeniad teml Solomon, yn ol

1 *Bren.* 6. 1. ond yn anghywir yn y cyfraniad o'r yspaid hwnw o amser, gan nad ydynt yn rhoddi ond 7 mlynedd i lywodraeth Josua, ac 11eg mlynedd i lywodraeth Samuel, a dim ychwaneg na 2 flynedd i lywodraeth Saul; yr hyn a ellir ei wrthbrofi oddiwrth eu hysgrythyrau eu hunain.

2. *Scaliger* a ysgrifenodd ei waith Amseryddol, a enwir *De Emendatione Temporum* (Diwygiad yr Amserau) yn y flwyddyn 1596. Y mae yn cyfrif 3950 o flynyddoedd o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist, yr hyn sydd rhy fyr. Y mae yn gamsyniol ym mhob Dosparth ond y cyntaf o 1656 o flynyddoedd o'r greadigaeth hyd y diluw; ac yn neilldual trwy derfynu 70ain wythnos Daniel yn ninystr Jerusalem, yn y flwyddyn 70ain o oed Crist, fel y mae llawer o'i ddilynwyr; ac, ym mhlith ereill, y Dr. *Hales* ei hunan.

3. *Dionysius Petavius* oedd Jesuit dysgedig yn Ffraingc; cyhoeddwyd ei Amseryddiaeth yn Paris, yn y flwyddyn 1652. Y mae yn cyfrif o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist 3984 o flynyddoedd. O'r dyfodiad o'r Aipht hyd sylfaeniad teml Solomon, y mae yn gwneuthur 519 o flynyddoedd, trwy chwanegu blynyddoedd y barnwyr at flynyddoedd y gorthrymder; ac felly yn gwyro oddiwrth y gwirionedd, fel y gwelir yn eglur yn y sylwadau ar y pedwerydd Dosparth o'r gwaith canlynol.

4. *James Usher*, archesgob Armagh, yn yr Iwerddon, oedd yn un o'r rhai a ysgrifenodd gyntaf ar y gangen hon o ddysgeidiaeth yn Saesonaeg, ac a ddechreuodd ddwyn y gelfyddyd o Amseryddiaeth i drefn, a gradd mwy o gysondeb nag oedd adnabyddus o'r blaen. Cyhoeddodd ei waith amseryddol, a elwir *Annals*, oddeutu yr un amser a *Petavius*. Ac fel y dilynwyd *Petavius* yn Ffraingc, felly *Usher*, gan mwyaf, yn Lloegr a'r Iwerddon, hyd oni wyrodd y Dr. *Hales* oddi wrtho yn ei Amseryddiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Y mae *Usher* yn cyfrif 4004 o flynyddoedd o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist. Y mae yn cyfrif yn gywir 480 o flynyddoedd o'r dyfodiad o'r Aipht hyd sylfaeniad teml Solomon, ond yn anghywir yn y cyfraniad o'r yspaid hwnw. Nid yw yn rhoddi dim mwy na 6 blynedd i lywodraeth Josua, yr hyn ni chytuna â'r hanes yn llyfr Josua, a'i oed yn marw, sef 110 mlynedd, fel y gwelir ym mlaen yn y sylwadau ar y pedwerydd Dosparth. Y mae *Usher*, fel *Petavius*, yn gamsyniol yn ei esponiad ar 70ain wythnos Daniel, trwy eu dechreu yn yr 20fed flwyddyn o Artaxerexes Longi-

manus, yn lle ei 7fed, fel y mae *Prideaux* yn profi trwy resymau anwrthwynebol. *Connect. P.* 1. *pp.* 283—286.

5. *Syr John Marsham* sydd yn cyfrif 4000 o flynyddoedd o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist. Y mae yn cyfrif yn gywir yn y pedwar Dosparth cyntaf, sef hyd sylfaeniad teml Solomon, o ran swm y blynyddoedd; ond nid felly yn ol barn y Dr. *Hales*, gan eifod ef, sef y Dr. *H.* yn dilyn *Josephus* yn lle y Bibl. Y mae *Marsham*, yn y cyfraniad o'r pedwerydd Dosparth, yn ol tystiolaeth *Bedford* (*p.* 480) yn dychymmygu fod amryw o'r barnwyr yn gyfoedion â'u gilydd; i ba dŷb nid oes un sail yn yr hanes ysgrythyrol. Yn y 5ed a'r 6ed Dosparth, sef o sylfaeniad y deml hyd enedigaeth Crist, y mae ganddo rhy fychan o flynyddoedd i gyfateb i'r gwir amser.

6. *Syr Isaac Newton*, y philosophydd enwog, ar ol ysgrifenu yn gywrain ac yn gymmeradwy ar bob rhan o Seryddiaeth, yn niwedd ei oes a ysgrifenodd Amseryddiaeth Ysgrythyrol a Phaganaidd; yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn ar ol ei farwolaeth gan ei nai Mr. *Conduitt*, sef yn 1728. Y mae un diffyg yn ei waith o gryn bwys, gan nad yw yn crybwyll mewn un man o hono pa faint o flynyddoedd oedd o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist. Y mae y Dr. *Hales* yn casglu oddiwrth y gwaith mai ynghylch 3988 o flynyddoedd oedd rhwng y ddau yn ol barn *Newton*. Ei gyfeiliornad sylfaenol oedd barnu mai yr un oedd Sesostris, y buddugoliaethwr Aiphtaidd, a Sisac brenin yr Aipht, a ddaeth yn erbyn Rehoboam mab Solomon. Er ei fod, yn ei ysgrifeniadau seryddol, wedi gosod pob peth ar sylfeini sicr ac eglur, y mae wedi sylfaenu ei waith amseryddol, mewn llawer o bethau, ar ei ddychymmygion ei hun; a thrwy hyny, mewn amryw fanau, wedi syrthio i gyfeiliorni.

7. Y mae Amseryddiaeth *Kennedy*, fel y mae yn cael ei ddarlunio gan y Dr. *Hales*, yn cyfrif o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist 4007 o flynyddoedd; ac felly yn cyfateb i swm y blynyddoedd yn y gwaith canlynol o fewn un flwyddyn. Er hyny y mae cryn wahaniaeth o ran y cyfraniad. Y mae yn rhoddi mwy o flynyddoedd mewn rhai Dosparthau, a llai mewn ereill, na'r gwir amser.

8. *Playfair*, blaenor athrofa St. Andrews yn Iscoed Celyddon (*Scotland*) a gyhoeddodd ei Amseryddiaeth mewn llyfr mawr, unplyg, yn y flwyddyn 1784. Er ei fod yn cyfrif 4008 o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist, y mae yn gamsyniol trwy roddi llai o 60 mlynedd na'r gwir

amser yn yr ail Ddosparth, sef o'r diluw hyd alwad Abraham, a mwy o 60 mlynedd na'r gwir amser yn y 4ydd Dosparth, sef o'r dyfodiad o'r Aipht hyd sylfaeniad teml Solomon.

9. Y mae Amseryddiaeth *Jackson*, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1752 mewn tri llyfr pedwar-plyg, yn fwy derbyniol gan y Dr. *Hales* nag un o'r rhai a enwyd, am ei fod yn ymadael â gwirionedd yr ysgrythyrau Hebreaidd, ac yn dilyn, o ran amser, cyfieithiad Groeg y LXX, yr hwn sydd yn cyfrif o'r greadigaeth hyd y diluw 2256 mlynedd; yr hyn sydd 600 mlynedd yn fwy na'r gwir amser. Ar ol y diluw y mae, yn ol y LXX, yn priodoli 389 mlynedd i'r ail Gainan, yr hwn, fel y mae y dysgedigion goreu yn unfryd yn cytuno, oedd berson dychymmygol, na fu erioed mewn bod; a 470 mlynedd i deyrnasiad Nimrod, heb yr un sail ysgrythyrol. Y mae *Jackson* yn cyfrif 5426 mlynedd o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist; yr hyn sydd ddigon o sail i'w wrthod, am nad yw yn gyson â gwirionedd yr ysgrythyrau Hebraeg, a'r Cyfieithiadau cyffredin o honynt.

Gan nad yw yr Amseryddiaethau uchod genyf, ni ellais ond rhoddi byr olwg arnynt, yn ol sylwadau y Dr. *Hales;* gwaith amseryddol pa un, yn y cyffredin, sydd yn fwy dychymmygol a chamsyniol na'r cwbl y mae efe wedi sylwi arnynt, ond yr olaf, sef *Jackson.* Camsyniad y Dr. *H.* oedd dilyn Amseryddiaeth *Josephus,* a Chyfieithiad y LXX yn fwyaf neillduol yn y ddau Ddosparth cyntaf, sef o'r greadigaeth hyd y diluw, ac o'r diluw hyd alwad Abraham. Yn y Dosparth cyntaf y mae yn ychwanegu 600 mlynedd at y gwir amser, trwy gyfrif 2256 mlynedd yn lle 1656; ac yn yr ail 576 mlynedd, trwy gyfrif 1002 flynedd yn lle 426 mlynedd, yr hyn yw y gwir amser o'r diluw hyd alwad Abraham. Y mae yn cyfrif o'r greadigaeth hyd enedigaeth Crist 5411 mlynedd, yr hyn sydd 1403 blynedd yn fwy na'r gwir amser. Yr hyn a arweiniodd y gwr dysgedig hwn i'r cyfryw gyfeiliornadau o ran amser, ag sydd wedi rhoddi dymchweliad arswydus i'w waith hirfaith a llafurus, oedd dychymmygu ar ol rhyw rai ereill fod y LXX wedi cyfieithu o ryw hen *gopi* Hebraeg heb ei lygru, a bod yr holl *gopïau* o'r ysgrythyrau Hebraeg yn y byd, heblaw hwnw, wedi eu llygru trwy dwyll bwriadol yr Iuddewon, o'u gelyniaeth i Gristionogaeth: yr hyn sydd dyb mor ddisail, mor ynfyd, ac mor anghredadwy, fel nad rhaid ond ei grybwyll i'w wrthbrofi. Y mae y Dr. *H.* nid yn unig yn ceisio profi, trwy y rhesymau gwanaf a mwyaf dychymmygol a ysgrifenwyd erioed, fel yr wyf

yn tybied, fod yr ysgrythyrau Hebraeg wedi eu llygru mewn amryw fanau o ran yr amserau, ond y mae yn dychymmygu fod ei hoff awdwr ei hun, *Josephus*, wedi cael eí lygru o ran yr amserau yn awr ac eilwaith, trwy ddiofalwch ei ad-ysgrifenwyr; gan hyny, y mae yn cymmeryd arno ei ddiwygio yn y fath fodd ag i ateb i'w feddwl a'i drefn ddychymmygol ei hun. Ond y mae un peth hynod yn cyhuddo y cyfieithwyr sydd yn myned dan enw y LXX o dwyll ac anffyddlondeb yn eu cyfrif o'r amserau o flaen y diluw; a hyny yw, bod Methuselah, yn ol eu Hamseryddiaeth hwy, wedi byw 14eg blynedd ar ol y diluw; er eu bod yn dywedyd, fel yr ysgrythyrau Hebraeg, fod pob cnawd wedi cael eu dinystrio, ond Noah a'i deulu ag oedd yn yr arch. Yr oedd *Awstin* o Hippo wedi sylwi ar yr anghysondeb hwn. Y mae *Bedford* (*Chron. p.* 47.) tybygid, yn iawn farnu am yr achos o lygriad yr ysgrythyrau Hebraeg, o ran amser, yn Nghyfieithiad y LXX, yn y ddau Ddosparth cyntaf; gan fod yr Aiphtiaid, y Caldeaid, y Phœniciaid, a'r Groegiaid, fel y Chinese presennol, o dymher wag-ogoneddgar yn ymffrostio o hynafiaeth eu cenedloedd, ac yn gosod eu dechreuad rai miloedd o flynyddoedd o flaen creadigaeth y byd; gan hyny, yr oeddynt yn gwrthod ac yn gwawdio Amseryddiaeth Moses, ac yn cyfrif yr Iuddewon megys cenedl a godasai yn ddiweddar. A chan fod y Cyfieithwyr Iuddewig mor wag-ogoneddgar a hwythau, o ran eu sêl dros hynafiaeth eu cenedl, chwanegasant yn fwriadol 1466 o flynyddoedd at y gwir amser ag oedd yn yr ysgrythyrau Hebraeg. *Bedford, ibid.* Ond er fod Dr. *H.* yn canmol ac yn ceisio amddiffyn Cyfieithiad y LXX o ran yr amserau o'r greadigaeth hyd alwad Abraham, nid yw yn dewis eu dilyn yn gyflawn ddim mwy na'i hoff awdwr *Josephus*, gan nad yw yn dewis chwanegu dim mwy yn y ddau Ddosparth crybwylledig at y nifer sydd yn yr ysgrythyrau Hebraeg nag 1476 o flynyddoedd, yr hyn sydd gym maint a hyny yn fwy nag sydd yn y gwirionedd Hebreaidd ag y mae efe mor fynych yn ei wawdio ac yn ei gablu. Ond ar yr un pryd gwnaem gam â Dr. *H.* pe na chydnabyddem ei ddwfn ddysgeidiaeth, ei gywreinrwydd, a'i fanyldra yn y gelfyddyd Amseryddol mewn amryw bethau. Cyn ymadael âg ef, y mae yn angenrheidiol i roddi amddiffyniad byr o wirionedd ysgrythyrau Hebraeg yr Hen Destament: y rhai, fel ysgrythyrau Groeg y Testament Newydd, ydynt sylfaen ein ffydd a'n gobaith am fywyd tragywyddol. Os llygrwyd hwynt o ran yr amserau, pa fodd y gallwn fod yn sicr na lygrwyd hwynt o ran peth-

au ereill o fwy pwys? Bod gwallau wedi llithro i mewn iddynt mewn rhai llythyrenau, a rhyw ychydig eiriau, sydd eglur oddiwrth ddiwygiadau y beirniaid Masoretaidd* *(Masoretical critics)* yn yr holl Fiblau Hebraeg ar ymyl y ddalen. Diben y diwygiadau hyny oedd adferu yr ysgrythyrau Hebraeg i'w purdeb dechreuol. Ond y mae digon o resymau i brofi, yn erbyn pob gwrthwynebwyr, na lygrwyd hwynt mewn dim o bwys trwy fwriad nac esgeulusdra, o ran amser na dim arall. Y rhai hyn oedd yn gwneuthur *Kennedy* mor hyf ag i ddywedyd, 'Yr wyf yn anturio i sicrhau na lygrwyd yr ysgrythyrau Hebraeg o ran yr Amseryddiaeth, gan nac Iuddew na Phagan, yn ddamweiniol nac yn fwriadol.' *Kennedy's Chron. p.* 141, *quoted by* Dr. *H.* 'Nid yw yn fwy sicr fod haul a lleuad yn y nefoedd na bod yr ysgrythyrau Hebraeg heb gymmaint ag un bai (o bwys) wedi llithro i mewn i'r *copïau* argraphedig, neu ysgrifenedig, i lygru yr Amseryddiaeth.' *p.* 277. Y mae gofal yr ysgrifenyddion Iuddewig yn rhoddi cyfrif, nid yn unig o lyfrau yr Hen Destament, ond hefyd o'r geiriau a'r llythyrenau ym mhob llyfr, yn profi eu bod wedi eu trosglwyddo i ni gyda phob ffyddlondeb, yn bur, ac yn ddilwgr. Y mae Cyfieithiad Lladin *Jerome*, a'r Cyfieithiad Persiaidd, yn cadarnhau Amseryddiaeth yr Hen Destament, gan ei fod yr un ynddynt hwy ag yn yr ysgrythyrau Hebraeg. Felly hefyd y mae y Cyfieithiad Lladin a elwir *Vulgate*, a'r Cyfieithiad Arabaeg o bum Llyfr Moses. Gwel lawer iawn mwy o dystiolaethau ar y pen hwn yn *Bedford's Chron. p.* 46—51.

Bellach, disgwylir i mi roddi ychydig hanes am y gwaith a ganlyn, ac am y cynnorthwyon a ddefnyddiais yn ei gyfansoddiad. Elfenau Amseryddiaeth a gasglwyd, gan mwyaf, o *Newberry's Chronology*, o *Bedford*, a Dr. *Hales*. Yr hyn a ysgrifenwyd ar Gyfansawdd yr Haul, a dynwyd o *Martin's Philosophical Grammar*, *Butler on the Globe*, ac ereill. Y Ddaearyddiaeth a gymmerwyd o *Fuller's Pisgah View*, ac ereill. Y'nghorph y gwaith, yr wyf, gan mwyaf, yn cydnabod fy hun yn ddyledus i *Bedford*, *Prideaux*, *Petavius*, a *Josephus*. Ond ni

---

* Y mae *Masora* yn arwyddocâu *traddodiad;* gwaith y beirniaid Iuddewig ydoedd o amser Ezra hyd ddinystr Jerusalem, ac wedi hyny, yn diwygio y gwallau ag oedd wedi dyfod i mewn i gopïau yr ysgrythyrau Hebraeg trwy ddiofalwch yr ad-ysgrifenwyr; gwaith yw hwn ag sydd wedi ei draddodi o oes i oes hyd yr amser presennol. Y digwyddiadau ar ymyl y ddalen a alwent *Ceri*, hyny yw, *fel y dylai y gair gael ei ddarllen*; a'r gwallau yn y testun a alwent *Cetib*, hyny yw, *fel y mae wedi ei ysgrifenu,*

chanlynais yr un o honynt heb chwilio yn fanwl, cyn belled ag y gallwn, a oeddynt yn sefyll ar y gwirionedd; a gwelais achos weithiau i wahaniaethu oddi wrthynt. Cedwais y Bibl o ran ei Amseryddiaeth, ei hanesyddiaeth, a chynnifer o'r prophwydoliaethau a ddaeth dan fy sylw, yn wastad yn fy ngolwg. Ac yr wyf yn hyderu fod y gwaith hwn, nid yn unig mewn cysondeb trwyadl â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, cyn belled ag y mae yn eu golygu, ond hefyd fod yr amrywiol ranau o hono yn gyson â'u gilydd. Y mae crynodeb o waith *Bedford (Scripture Chronology)* mewn llyfr mawr unplyg, a *Prideaux (Connection of the Old and New Testament)* mewn tri llyfr wyth-plyg, i'w gael yn y gwaith canlynol. Y mae gwaith *Prideaux* yn cael ei gyfrif gan bawb ag sydd yn ei adnabod megys yr arweinydd goreu o neb a ysgrifenodd mewn un iaith i ddeall Amseryddiaeth a hanesyddiaeth Ysgrythyrol a Phaganaidd; yn neillduol hanesyddiaeth y pedair Ymerodraeth. Ond nid yw ei waith yn cynnwys ond o'r 12fed i Jotham, a'r flwyddyn 747 cyn geni Crist, hyd ei farwolaeth. Mewn perthynas i'r esponiad a roddir ym mlaen ar 70ain wythnos Daniel, y mae yn rhaid i mi gyfaddef fod y golygiadau ar yr 'un wythnos' yn newydd; ond nid ydynt gwaeth er hyny os ydynt yn gywir, fel ag yr wyf yn barnu eu bod. Er chwilio a darllen llawer o esponiadau, ni chefais gymmaint ag un ag oedd yn rhoddi boddlonrwydd i mi trwy gysoni geiriau y brophwydoliaeth â gwir Amseryddiaeth.

Y mae Cysondeb y Pedwar Efengylwr yn ddiwedd-glo i'r gwaith hwn. Cefais beth cynnorthwy yn ei gyfansoddiad oddiwrth waith a gyhoeddwyd gan y Dr. *White*, yn Rhydychain, dan yr enw *Diatessaron*, neu yr Efengyl yn ol y Pedwar Efengylwr, yn yr iaith Roeg. Y mae y Pedwar Efengylwr mewn un llyfr, yn ol trefn amser, yn y gwaith hwnw, ynghyd âg amser a lle ar ymyl y ddalen. Yn ei ddiwedd y mae Cysondeb byr o'r Pedwar Efengylwr, yn yr iaith Lladin. Ni cheir dim llawer o sylwadau athrawiaethol yn y gwaith hwn, gan na fernais yn addas eu cymmysgu âg Hanesyddiaeth, Amseryddiaeth, a Daearyddiaeth, ac y buasai y gwaith yn chwyddo yn ormodol. Gadewais rai pethau a ysgrifenais heb eu hargraphu, a thalfyrais ereill, o herwydd amgylchiadau cyfyng y rhan fwyaf o'r wladwriaeth yn yr amserau gwasgedig hyn. Bwriedais, ac yr wyf yn gobeithio ac yn hyderu y bydd y gwaith hwn, fel porth y deml, yn arwain i'r cyssegr, ac i'r cyssegr sancteiddiolaf.

Yn olaf, dymunwn yma wneuthur fy nghydnabyddiaeth gyhoeddus i goffadwriaeth y diweddar Barchedig *Thomas Charles*, o'r Bala, fy nghymmydog a'm cyfaill, am ei gynnorthwy yn golygu ac yn diwygio y rhanau cyntaf o ysgrifen-law y gwaith hwn; yn fwyaf neillduol o ran yr iaith ac iawn-ysgrifenyddiaeth; ac am ei gymmeradwyaeth o hono, a'r annogaeth a gefais ganddo i'w gyhoeddi. Chwanegiad ei afiechyd a'i rhwystrodd i olygu y cwbl. Gan obeithio y bydd y gwaith hwn, trwy fendith yr Arglwydd, o les a budd i'm cenedl, yr ydwyf fel ag yr wyf yn gobeithio y byddaf tra byddwyf byw, eu hufudd wasanaethwr yn yr Arglwydd,

SIMON LLOYD.

Bala,
Awst 20*fed*, 1817.

Y CYNNWYSIAD.

ELFENAU AMSERYDDIAETH.

		Tu dal.
PEN. I.	*Am natur a diben Amseryddiaeth*	1
II.	*Am Amser a'i Ranau*	*ib.*
III.	*Am Wythnosau*	4
IV.	*Am Fisoedd a Blynyddoedd*	5
V.	*Am Flynyddoedd Lleuadol*	10
VI.	*Am y Flwyddyn Iuliaidd* (Julian Year)	11
VII.	*Am Amserau Hynod (oddiwrth ba rai y dechreuir cyfrif Blynyddoedd) y rhai a elwir Epochs, neu Eras*	13
VIII.	*Am yr Yspaid Iuliaidd* (Julian Period)	18

AMSERYDDIAETH YSGRYTHYROL.

Y DOSPARTH CYNTAF.

PEN. I.	*Am y Greadigaeth*	22
II.	*Am Sefyllfa Paradwys, neu Ardd Eden*	25
III.	*Am Cain ac Abel, a'r Patrieirch cyn y Diluw*	27
IV.	*Am y Diluw, ac Arch Noah*	29

YR AIL DDOSPARTH.

PEN. I.	*Ychydig Sylwadau ar y pethau mwyaf hynod yn yr Ail Ddosparth*	34
II.	*Ararat*	35
III.	*Y Bwa yn y Cwmwl, neu yr Enfys*	*ib.*
IV.	*Prophwydoliaeth Noah*	36
V.	*Rhanu y Ddaear—adeiladu Dinas a Thŵr Babel—cymmysgu yr Iaith yno—Nimrod*	38
VI.	*Gwasgariad y Cenedloedd, a'u Sefydliad yn eu hamryviol Wledydd*	41

Y TRYDYDD DOSPARTH.

		Tu dal.
PEN. I.	*Galwad Abraham*	50
II.	*Rhyfel Cedorlaomer a'i Gyfeillion*	53
III.	*Dinystr Sodom a Gomorrah, a Dinasoedd y Gwastadedd*	54
IV.	*Jacob, a'i Oed ar amryuiol amserau*	56
V.	*Rhifedi meibion Jacob yn myned i'r Aipht*	57
VI.	*Gorthrymder Israel yn yr Aipht*	58
VII.	*Job, a'i adfyd*	59

Y PEDWERYDD DOSPARTH.

PEN. I.	*Ynghylch Cyfraniad yr Amser yn y Pedwerydd Dosparth*	65
II.	*Am Wlad yr Aipht*	69
III.	*Mynediad Israel trwy y Môr Coch*	72
IV.	*Y Môr Coch*	*ib.*
V.	*Yr Anialwch a Theithiau Israel*	73
VI.	*Midian, Amalec, Edom, Moab, Ammon*	75
VII.	*Canaan, a'i Rhanau mewn amryuiol Amserau*	77
VIII.	*Am Gyfraniad Gwlad Canaan i Dair Talaeth; sef, Judea, Samaria, a Galilea*	84
IX.	*Am Gyfraniad Gwlad Canaan a'i Thaleithiau Cymmydogaethol, yn Bedair Llywodraeth* (Tetrarchies)	85
X.	*Syria a Damascus*	87
XI.	*Sylwadau ar y Pedwerydd Dosparth*	102
XII.	*Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol o Ddyfodiad Israel i Ganaan hyd Farwolaeth Josua*	105
XIII.	*Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol o Farwolaeth Josua hyd Goroniad Saul*	114
XIV.	*Hanes Teyrnasiad y Brenin Saul*	129
XV.	*Hanes Teyrnasiad Dafydd*	140
XVI.	*Hanes Teyrnasiad Solomon hyd oni chyssegrwyd y Deml*	153

Y PUMMED DOSPARTH.

PEN. I.	*Yr Ymraniad rhwng Israel a Judah*	173
II.	*Pechod Israel*	174
III.	*Assyria, a'i Breninoedd*	177
IV.	*Arbaces, a Breninoedd Syria o'i Hiliogaeth ef*	180
V.	*Am Freninoedd Babilon ar ol Belesis; sef, y gyntaf o'r Pedair Breniniaeth*	187

Tu dal.

PEN. VI. *Breninoedd yr Aipht* 193
VII. *Sylwadau ar y Pummed Dosparth, i eglurhau a chysoni rhai anhawsderau perthynol i Amserau Breninoedd Israel a Judah* 213
VIII. *Am y Prophwydi, Elias ac Eliseus* 218
IX. *Am Farwolaeth Ahaziah, Brenin Judah* 225

Y CHWECHED DOSPARTH.

PEN. I. *Sylwadau ar y Daflen* 1*af o'r Dosparth hwn* 228
II. *Dilyniad o Freninoedd Babilon* 229
III. *Dilyniad o Freninoedd yr Aipht* 242
IV. *Sylwadau ar y Caethiwed yn Babilon, a'r Dychweliad oddi yno* 248
V. *Am Daniel y Prophwyd* 251
VI. *Am Sefydliad yr Iuddewon yn eu Gwlad, ar ol dychwelyd o Babilon* 254
VII. *Am Ezra, a'i Waith yn trefnu Ysgrythyrau yr Hen Destament* 259
VIII. *Am y Deng Wythnos a Thriugain*, Dan. 9. 24—27..... 263
IX. *Am y Samariaid* 271
X. *Am Deyrnas y Mediaid a'r Persiaid; sef, yr Ail o'r Pedair Breniniaeth* 275
XI. *Hanes Dymchweliad Breniniaeth y Mediaid a'r Persiaid, a Sylfaeniad Breniniaeth y Groegiaid* 302
XII. *Eglurhâd o'r Prophwydoliaethau perthynol i'r Mediaid a'r Persiaid, ac Alexander Fawr* 321
XIII. *Breniniaeth y Groegiaid* 325
XIV. *Am Syria dan y Groegiaid* 328
XV. *Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid* 329
XVI. *Prophwydoliaeth Daniel*, Pen. 11 334
XVII. *Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid* 335
XVIII. *Am Gyfieithiad y* LXX 336
XIX. *Dilyniad o'r Hanesyddiaeth* 338
XX. *Dilyniad o Eglurhâd Prophwydoliaeth Daniel*, Pen. 11. 342
XXI. *Dilyniad o'r Hanesyddiaeth* 343
XXII. *Eglurhâd o Brophwydoliaeth Daniel*, Pen. 11. 7, 8, 9.. *ib.*
XXIII. *Dilyniad o'r Hanesyddiaeth* 344
XXIV. *Eglurhâd o'r Brophwydoliaeth* 356
XXV. *Dilyniad o'r Hanesyddiaeth* 359
XXVI. *Antiochus Epiphanes, Brenin Syria* 360

Tu dal.

PEN. XXVII. *Dechreuad y Maccabeaid.* 376
XXVIII. *Divedd gresynol Antiochus Epiphanes*..... 379
XXIX. *Cyfatebolrwydd y Ddau Gorn Bychan*..... 381
XXX. *Dilyniad o'r Hanesyddiaeth* 385
XXXI. *Dilyniad o Hanesyddiaeth y Maccabeaid*..... 392
XXXII. *Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid yn yr Aipht a Syria*..... 393
XXXIII. *Am Deml Onias yn yr Aipht*..... 395
XXXIV. *Terfysg rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid*..... 396
XXXV. *Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid yn Syria* *ib.*
XXXVI. *Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid yn yr Aipht a Syria*..... 397
XXXVII. *Am y Pleidiau Crefyddol y'mhlith yr Iuddewon* 402
XXXVIII. *Dilyniad o Hanes yr Asmoneaid a Breninoedd yr Aipht*..... 405
XXXIX. *Aristobulus a Hyrcanus* 407
XL. *Dilyniad o'r Hanesyddiaeth*..... 409
XLI. *Antigonus a Hyrcanus.* 410
XLII. *Dechreuad Dyrchafiad yr Herod Cyntaf* ..... *ib.*
XLIII. *Herod yn dechreu teyrnasu* 413
XLIV. *Herod yn adgyweirio yr ail Deml*..... 418
XLV. *Augustus Cæsar yn trethu'r Ymerodraeth Rufeinig* 420
XLVI. *Marwolaeth Herod, &c*..... 421
XLVII. *Archelaus Mab Herod*..... 423

Y SEITHFED DOSPARTH.

PEN. I. *Ynghylch gwir amser Marwolaeth Herod Fawr* 434
II. *Ynghylch y 15fed Flwyddyn i Tiberius Cæsar*..... 435
III. *Ynghylch yr amser o'r Flwyddyn ym mha un y ganed Crist ac Ioan Fedyddiwr* 436

CYSONDEB Y PEDWAR EFENGYLWR.

Am y Pedwar Efengylwr. 453
Am y Deuddeg Apostol..... 459
Am Mair a gyfenwid Magdalen 462
Cysondeb y Pedwar Efengylwr 464
Sylwadau Eglurhaol..... 482

ELFENAU AMSERYDDIAETH.

(ELEMENTS OF CHRONOLOGY.)

PENNOD I.

Amseryddiaeth yw y rhan hyny o ddysgeidiaeth ag sydd yn dangos y gwahanol ddull o gyfrif amser, a fu ac sydd arferedig mewn amrywiol wledydd a chenedlaethau—yn sylwi ar bob dull camsyniol o gyfrif amser, ac yn cymmeradwyo hwnw yn unig ag sydd mewn cyssondeb â'r gwirionedd.

II. Diben Amseryddiaeth yw pennodi digwyddiadau mewn hanesyddiaeth, fel y byddo yn fwy dealladwy, wrth weled y naill beth yn dilyn y llall yn ol trefn amser. Heb hyn nid yw hanesyddiaeth yn ymddangos fawr well nâ phentwr o annhrefn.

PENNOD II.

Am Amser a'i Ranau.

Amser yw mesur symudiadau y cyrph nefol wybrenol yn eu cylchoedd, yn fwyaf neillduol y ddaear a'r lleuad. Y mae amser yn cael ei fesur hefyd gan gywreinwaith o gelfyddyd ddynol, megys awr-leisiau *(clocks)* oriorau *(watches)* &c.

II. Rhenir amser i ddyddiau, wythnosau, misoedd, a blynyddoedd. ——1. Diwrnod naturiol yw yr yspaid hwnw o amser y mae y ddaear yn gymmeryd i wneuthur un cylchdro ar ei phegynau, trwy ba un y mae y rhan hono ag sydd ar gyfer yr haul yn oleu, tra byddo y llall yn dywyll. Y mae y cylchdro hwn yn cael ei wneuthur mewn 24 awr, yr hyn sydd un dydd ac un nos.*——2. Yr Iuddewon a'u henafiaid o'r

* Heblaw cylchdro beunyddiol y Ddaear ar ei phegynau, y mae yn gwneuthur cylchdro blynyddol oddi amgylch yr haul mewn 365 o ddyddiau, 5 awr, a 49 mynyd. Y trydydd Planed y'nghyfansawdd yr haul (*solar system*) yw ein Daear ni. Y mae Astronomyddion diweddar pob gwlad, yn neillduol Syr Isaac Newton, ein cydwladwr, wedi profi trwy resymau anwrthwynebol, mai yr haul yw y canolbwynt (*centre*) oddi amgylch pa un y mae y planedau yn troi yn eu cylchoedd. Ac na fydded i un darllenydd syml o'r Ysgrythyrau Sanctaidd dramgwyddo wrth y ddysgeidiaeth hon, fel pe bai yn eu gwrthddywedyd, gan fod yr Arglwydd yn yr Ysgrythyrau yn ymostwng i lefaru am godiad, symudiad, a machludiad yr haul, yn ol iaith dynion, ac fel y mae pethau yn ymddangos iddynt. Felly y mae Astronomyddion, o ran ymostyngiad i iaith a rhagfarn cyffredin, yn son yn eu llyfrau am godiad a machludiad yr haul, er eu bod, ar yr un pryd, yn gwybod mai y ddaear sydd yn symud, a'r haul

dechreuad a gyfrifent eu diwrnodau o fachlud haul un diwrnod hyd fachlud haul dranoeth, neu o hwyr i hwyr. *Gen.* 1. 5. *Lef.* 23. 32.

---

yn sefydlog. Er mwyn y Cymro uniaith, rhoddir yr hanes byr canlynol o gyfansawdd yr haul.

Yr haul sydd gorph sylweddol, yn gweini gwres a goleuni i'r planedau a'u gosgorddion, neu leuadau, ynghyd à'r cometau, neu y ser cynffonog, sydd yn perthyn i'w gyfansawdd. Y mae tryfesur yr haul yn cael ei gyfrif yn fwy na 888,000 milltir, a'i gylch oddeutu tri chymmaint. Bernir fod ei faintioli yn 1,000,000, sef miliwn o weithiau yn fwy nâ'n daear ni.

Wrth sylwi ar y *smotiau* a welir trwy ddrychau priodol ar gorph yr haul, cesglîr ei fod yn troi ar ei begynau mewn oddeutu 26 diwrnod.——*Martin's Philos. Gram.*

Barnwyd dros lawer oes nad oedd ond chwech prif blaned yn troi oddi amgylch yr haul, sef Mercuri, Fenus, y Ddaear, Mars, Jupiter, a Sadwrn. Ond ar y 13eg o Fawrth, 1781, canfu y Dr. *Herschel*, Astronomydd y brenin, blaned newydd, yr hon a alwyd er anrhydedd i'r brenin, Georgium Sidus, neu Seren Sior. Wedi hyny canfu chwech o osgorddion, neu leuadau perthynol iddi. Ar ol hyny, yn y ganrif bresennol, canfuwyd pedair o brif blanedau yn ychwaneg, y rhai a elwir Ceres, Pallas, Juno, a Festa.

1. Canfuwyd Ceres gan Mr. *Piozzi*, Astronomydd o Palermo yn Sicili, ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1801. Y mae yn symud rhwng Mars a Jupiter yn ei chylchdro oddi amgylch yr haul mewn oddeutu pedair blynedd. Nid yw ei thryfesur ond 200 milltir.

2. Pallas a welwyd gyntaf gan y Dr. *Olbers* o Bremen, Mawrth 28, 1802; ac efe a roddodd iddi ei henw. Y mae yn troi yn ei chylch oddi amgylch yr haul mewn oddeutu tair blynedd; ei thryfesur sydd oddeutu 140 milltir.

3. Juno a ganfuwyd gyntaf gan Mr. *Harding* o Lilienthal, gerllaw Bremen, Medi 1, 1804. Nid wyf yn cael dim sicrwydd am ei hamserau na'i mesurau.

4. Y blaned Festa a ganfuwyd gan y rhagddywededig Dr. *Olbers*, Mawrth 29, 1807, yr hwn a roddodd iddi ei henw. Ond am ei sefyllfa a'i mesurau, nid wyf yn cael dim yn y llyfr sydd o'm blaen. *Butler on the Globes.*

Mewn perthynas i'r chwech prif blaned, ynghyd à Georgium Sidus, neu Herschel, fel ei galwyd gan rai, chwanegir yr hyn a ganlyn:—

1. Mercuri yw y nesaf at yr haul; er hyny y mae mwy na deuddeg miliwn ar hugain o filltiroedd rhyngddynt â'u gilydd. Ei thryfesur yw 2460 milltir; ei maintioli yn 30 waith llai na'r ddaear. Y mae yn troi oddi amgylch yr haul mewn 88 niwrnod. Ei thaith yn yr yspaid hwnw yw 201,024,000 o filltiroedd. Y mae ei symudiad mor chwyrn, ag i deithio 105,000 o filltiroedd mewn awr.

2. Fenus, neu Gwener, yw y nesaf. Galwyd hi gan y beirdd Groegaidd, Phosphoros, a Lucifer (rhagflaenydd y dydd) gan y Lladinwyr, pan byddai yn seren fore; a Hesperus, neu Fesperus, pan byddai yn seren hwyr. Nid yw un amser i'w gweled dros 48 gradd oddiwrth yr haul. Y mae yn agos o'r un maintioli a'r ddaear. Ei thryfesur yw 7906 milltir. Y mae oddeutu 59 o filiynau o filltiroedd rhyngddi a'r haul, oddi amgylch pa un y mae yn gwneuthur ei chylchdro mewn 225 niwrnod, ac yn symud 76,000 milltir mewn awr. Y mae iddi gylchdro beunyddiol ar ei phegynau mewn 23 awr ac 21 mynyd.

3. Y Ddaear, preswylfa dyn, yw y drydedd blaned y'nghyfansawdd yr haul. Am amserau ei chylchdro beunyddiol a blynyddol soniwyd eisoes. Ei thryfesur yw 7964 milltir; ei llinyn-gylch yw 25,020 milltir. Ei phellder oddiwrth yr haul yw 81,000,000 o filltiroedd. Y mae yn teithio yn ei chylchdro blynyddol yn agos i

III. Y mae rhai yn dechreu eu diwrnodau o godiad haul, megys y Groegiaid o'r oes hon, yr hen Babiloniaid, y Persiaid, y Syriaid, a'r rhan fwyaf o'r gwledydd dwyreiniol. Y mae trigolion yr Ital a China yn

---

509,000,000 o filltiroedd (a mwy yn ol barn ereill) a 68,000 o filltiroedd mewn awr. Y mae i'r Ddaear un gosgorddydd ag sydd yn gweini iddi, sef y Lleuad, yr hon sydd yn troi oddi amgylch y Ddaear unwaith bob mis lleuadol, ac ar ei phegynau ei hunan yn yr un faint o amser. Y mae'r lleuad yn gorph crwn sylweddol. Ei thryfesur yw 2175 milltir; ei llinyn-gylch 6829 milltir; ei phellder oddiwrth y Ddaear oddeutu 238,920 milltir, a'i thaith bob mis oddi amgylch y Ddaear yn ol hyny fydd 1,500,418 milltir.

4. Mars, neu Mawrth. Ei thryfesur yw 4444 milltir. Ei phellder oddiwrth yr haul yw 123 o filiynau o filltiroedd. Y mae yn teithio yn ei chylch oddi amgylch yr haul 773,686,000 o filltiroedd mewn 687 o ddyddiau. Y mae yn troi ar ei phegynau mewn 24 awr a 40 mynyd.

5. Jupiter, neu Iau. Ei thryfesur yw 81,155 milltir. Ei phellder oddiwrth yr haul yw 424 o filiynau o filltiroedd. Y mae ei thaith oddi amgylch yr haul yn 2,662,280,000 o filltiroedd, yr hon y mae yn gwblhau mewn agos i 12 mlynedd. Y mae yn troi ar begynau mewn oddeutu 10 awr. Y mae iddi bedwar o osgorddion, neu leuadau. Y mae ar gorph y blaned hon ryw ymddangosiadau fel gwregysau *(Jupiter's belts.)* Bernir ei fod oddeutu mil o weithiau yn fwy na'r Ddaear.

6. Sadwrn, a farnwyd gynt y bellaf o'r holl blanedau y'nghyfansawdd yr haul, sydd â'i thryfesur yn 67,870 milltir. Ei phellder oddiwrth yr haul yw 777 o filiynau o filltiroedd. Y mae yn teithio oddi amgylch yr haul 4,881,891,000 o filltiroedd mewn 29 a hanner o flynyddau. Y mae yn troi ar ei phegynau mewn 10 awr ac 16 mynyd. Y mae iddi saith o osgorddion, neu leuadau, a math o gylch neu fodrwy ddisglaer *(Saturn's ring)* oddi amgylch ei chorph, o faintioli aruthr, gan ei bod, fel y bernir, yn 30,000 o filltiroedd o led, ac 21,000 o filltiroedd rhyngddi a chorph Sadwrn. Gwel *Martin's Phil. Gram. & Butler on the Globes.* Ond dylid sylwi fod Astronomyddion diweddar yn cyfrif cylchoedd y chwech planed olaf hyn yn fwy nag y mae Mr. *Martin.*

7. Georgium Sidus, neu Herschel, yw y bellaf o'r planedau y'nghyfansawdd yr haul a ganfuwyd etto. Bernir fod ei phellder oddiwrth yr haul oddeutu 1800 o filiynau o filltiroedd. Y mae yn teithio ei chylch oddi amgylch yr haul mewn 83 blynedd a 146 niwrnod; ac y mae iddi chwech o osgorddion, neu leuadau, yn gweini goleuni iddi.

Y mae y Ser Cynffonog hefyd yn perthyn i gyfansawdd yr haul: ond chwyddai y sylwad hwn yn ormodol i roddi hanes am danynt.——Mewn perthynas i'r Ser Sefydlog sydd mewn pellder afrifed tu hwnt i gyfansawdd yr haul, bernir fod pob un o honynt yn haul yn goleuo i'w briodol gyfansawdd.

Bernir, ar seiliau da, fod preswylwyr yn y cyrph nefol wybrenol, gan fod gan y planedau pellaf oddiwrth yr haul eu lleuadau i weini iddynt trwy lewyrchu arnynt â goleuni benthyciol oddiwrth yr haul. Gwelir daioni a doethineb Duw yn hyn. Y mae yn debygol hefyd fod eu preswylwyr yn gynnwysedig o greaduriaid rhesymol a direswm, fel ein daear ni: ond rhyfyg fyddai i ni anturio dychymygu dim am ddull, ansawdd, a chyflwr y trigolion. Y mae ein hamgyffrediadau yn rhy fyr i blymio i'r dyfnderau hyn. Yr ydym yn boddi mewn syndod. 'Wele, dyma ranau ei ffyrdd ef; ond mor fychan ydyw'r peth yr ydym ni yn ei glywed am dano! Ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?' *Job* 26. 14. Gwel *Ps.* 19. *Rhuf.* 1. 20.

cyfrif eu diwrnod o fachlud haul, fel yr oedd yr hen Iuddewon, yr Atheniaid, y Bohemiaid, a'r Silesiaid. Y mae Astronomyddion diweddar, fel yr hen Umbri, yn dechreu eu diwrnod ddeuddeg o'r gloch prydnawn. Yr oedd yr hen Aiphtiaid a'r Rhufeiniaid yn dechreu eu diwrnod ddeuddeg o'r gloch o'r nos, fel y mae etto y rhan fwyaf o wledydd y byd.——*Newb. Chron.*

IV. Bernir fod yr Efengylwyr, Matthew, Marc, a Luc, yn dechreu oriau y dydd o 6 o'r gloch y bore, yn ol arfer y Groegiaid; a'r Efengylwr Ioan o 12 o'r gloch y nos, yn ol arfer y Rhufeiniaid. Cymhar. *Mat.* 27. 45, 46. *Marc* 15. 25, 33, 34. . *Luc* 23. 44. *Act.* 2. 15. gyda *Ioan* 19. 14. y'mha le y mae'r 'chweched awr' yn cyfateb i 6 o'r gloch y bore.

V. Fel y rhanai yr Iuddewon y dydd i ddeuddeg awr, wedi dyfod dan lywodraeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, (*Ioan* 11. 9. *Mat.* 20. 1—6.) felly y rhanent y nos i bedair o wyliadwriaethau, am fod y wyliadwriaeth filwraidd yn cael ei newid bob tair awr. Yr oedd y wyliadwriaeth gyntaf yn dibenu am 9 o'r gloch y nos, a'r 4edd am 6 o'r gloch y bore; gan hyny oddeutu 3 o'r gloch y bore y rhodiodd Crist ar y môr. *Mat.* 14. 25. Gwel *Crud. Concord.*

PENNOD III.

Am Wythnosau.

Y MAE mewn wythnos* 7 niwrnod, sef 6 i weithio, ac i wneuthur ein gorchwylion cyffredinol, ac un i orphwys oddiwrth waith, i orphwys yn Nuw. Yr oedd cyfranu amser yn wythnosau o osodiad dwyfol. Gan fod Duw wedi creu y byd mewn 6 diwrnod, a gorphwys ar y 7fed dydd, nid yn unig oddiwrth ei waith, ond hefyd gyda gorphwysfa o foddlonrwydd yn yr hyn oll a wnaethai, efe a sancteiddiodd neu a neillduodd y 7fed dydd at ei addoliad, ac a roddodd hysbysrwydd o hyny i'n rhïeni cyntaf yn fuan ar ol eu creadigaeth. *Gen.* 2. 1---3. Felly y sefydlwyd y rhan hyn o amser ag sydd wedi bod yn dyfod ar gylch bob yn 7 niwrnod, o'r greadigaeth hyd adgyfodiad Crist, pan newidiwyd, nid y gorchymyn, ond y diwrnod o'i gadw, o'r 7fed i'r dydd cyntaf o'r wythnos. O'r blaen ar ei Sabbothau yr oedd yr eglwys yn coffâu am Dduw megys Creawdwr a Chynnaliwr y byd, ac yn disgwyl am y bendithion ysprydol ag oedd i'w chymhwyso i'r orphwysfa dragywyddol yn y nefoedd. Yr oedd hefyd yn disgwyl am gyflawniad o'r addewid o Had y Wraig. Ond wedi iddo ddyfod, a gorphen gwaith mwy nâ chreadigaeth y byd, cedwir coffadwriaeth am orpheniad y gwaith hwnw, trwy gadw y Sabboth ar y dydd cyntaf yn lle y seithfed.

---

* Pa fodd bynag y daeth y gair wythnos i gael ei arfer am 7 niwrnod, y mae yn eglur nad eill fod ond 7 dydd a 7 nos yn yr yspaid hwnw o amser.

II. Nid oes le i ammeu na chadwyd y Sabboth yn llin Seth hyd y diluw, ac yn llin Sem hyd Abraham, ac hyd onid aeth Jacob a'i feibion i'r Aipht, a thros hir amser wedi hyny. Ond tybygid nad oedd fawr o drefn ganddynt yn cadw y Sabboth pan drymhaodd eu gorthrymder yn yr Aipht. Yn y diffeithwch adnewyddwyd yn fynych y gorchymyn am gadw y Sabboth. *Exod.* 16. 23—30. a 20. 8, &c.

III. Pan lygrwyd y Cenedloedd gan eilun-addoliaeth yn yr oesoedd ar ol y diluw, cyssegrwyd dyddiau yr wythnos i'r gau dduwiau oedd yn cael eu haddoli ganddynt. Y dydd cyntaf i'r Haul—yr ail ddydd i'r Lleuad—y trydydd i Fawrth, neu Mars, duw rhyfel—y pedwerydd i Mercher, neu Mercurius, yr hwn a ddychymmygwyd ei fod megys yn genad i wneuthur negesau y duwiau ereill—y pummed dydd i Iau, Jove, neu Jupiter, prif dduw y Cenedloedd—y chweched i Gwener, neu Venus,* un o dduwiesau y Cenedloedd, yr hon oedd ryw bendefiges gynt, hynod am lendid a thrythyllwch—y seithfed i Sadwrn, neu Saturn. I'r un duwiau yr oedd y Saeson ac ereill yn cyssegru dyddiau yr wythnos, ond tan enwau ereill, gan mwyaf. Dywedir mai yr Aiphtiaid oedd y cyntaf i gyssegru dyddiau yr wythnos i'r duwiau hyn, gan briodoli iddynt y saith blaned, a alwyd o hyny allan ar eu henwau, ac ydynt adnabyddus i Astronomyddion dan yr enwau hyny. A'r Aiphtiaid a ddilynwyd yn hyn gan y Groegiaid, y Rhufeiniaid, y Brytaniaid, yr Hindoos, y Gothiaid, yr Ellmyn, y Saeson, ac ereill. Dr. *Hales' Elements of Chron. Vol.* I. *p.* 118.

IV. Er fod y cyfraniad hwn o amser i wythnosau yn adnabyddus unwaith ym mhlith y rhan fwyaf o Genedloedd y byd, fel ag y mae Philo yr Iuddew yn galw y 7fed dydd yn 'wyl pob cenedl,' (ιορτη πανδημος); ac Hesiod, un o'r hynaf o'r beirdd Groegaidd, yn dywedyd fod y 7fed yn ddydd sanctaidd (Εβδομη ιερον ημαρ)—etto nid yw yn ymddangos fod y Cenedloedd yn gyffredin yn sancteiddio y dydd Sabboth. Y Groegiaid a gadwent y degfed, a'r Rhufeiniaid y nawfed dydd. (Δεκαδις, *Nundinæ*) Dr. *Hales' Chron. Vol.* I. *p.* 119. Y mae yn hysbys fod y traddodiad o ranu amser yn wythnosau, ac o sancteiddio un diwrnod o saith, wedi colli yn llwyr o blith y rhan fwyaf o'r Cenedloedd Paganaidd sydd yn y byd yn bresennol. Gwel *Llythyr Mr. Marsden* yn 10*th Report of the Society for Missions to Africa & the East, p.* 118.

PENNOD IV.

Am Fisoedd a Blynyddoedd.

Mis yw un cylchdro o'r lleuad oddi amgylch y ddaear. Y mae yr yspaid hwnw o amser sydd rhwng dau gyssylltiad o'r lleuad gyd â'r haul,

* Pan oedd gair Lladin yn dechreu â'r llythyren *v*, yr oedd yr hen Frytaniaid yn arfer troi y *v* i *gw*, megys *vitrum*, gwydr; *verus*, gwir; *vacuus*, gwag; *viduus*, gweddw; *Venus, Veneris*, Gwener, a Gwen, &c.

fel y dywedir, sef rhwng dau leuad newydd a'u gilydd, yn 29 diwrnod, 12 awr, 44 mynyd, a 3 *second.*

II. Yr oedd misoedd y Patriarchiaid cyn y diluw yn cynnwys 30 diwrnod, fel yr ymddengys wrth gymharu *Gen.* 7. 11. â *Gen.* 8. 3, 4. lle mae 150 o ddyddiau yn ateb i 5 mis. A'r misoedd a alwyd yn ol rhifyddiaeth, Y 1af, yr 2il, a'r 3ydd, &c. Nid ellir casglu oddiwrth un man o'r Hen Destament, tybygaf, fod dim cyfnewidiad wedi cael ei wneuthur yn y misoedd gan y genedl Iuddewig, oddiwrth y dull a arferwyd gan y Patrieirch, o leiaf cyn ei symudiad i Babilon. Yr oedd y Caldeaid, yr Aiphtiaid, y Groegiaid, a Chenedloedd ereill yn y prif oesoedd, yn cyfrif 30 o ddyddiau i eu misoedd.

III. Ond pan gafwyd allan trwy sylwadau mwy manwl, nad oedd mis lleuadol ddim ychwaneg nag oddeutu 29½ diwrnod, cyfrifwyd y misoedd gan y rhai a arferent flwyddyn leuadol, yn 29 a 30 o ddiwrnodau bob yn ail fis: ond pa bryd y dechreuwyd cyfrif dyddiau y misoedd fel hyn ym mhlith yr Iuddewon sydd anhysbys.

IV. Ar ymadawiad yr Israeliaid o'r Aipht, newidiwyd trefn y misoedd trwy orchymyn Duw. *Exod.* 12. 2. Cyfrifwyd Abib neu Nisan, yr hwn oedd o'r blaen yn 7fed mis, o hyny allan yn fis cyntaf o'r flwyddyn. Tisri, neu Ethanim, yr hwn oedd o'r blaen yn fis cyntaf, a gyfrifwyd yn 7fed yn ol y drefn newydd.

V. Arferai yr Iuddewon, ar ol y cyfnewidiad hwn, gyfrif Tisri yn fis cyntaf o'r flwyddyn ddinesig *(civil year)* fel ag y maent hyd heddyw. Hono sydd yn dechreu yn Abib a elwir yn flwyddyn eglwysig, neu sanctaidd. Enwau y misoedd Hebraeg, a'u harwyddocâd, cyn belled ag y medrais gael, a ganlyn:

1. Nisan, neu Abib *(ffoedigaeth--tywysenau irion)* yn ateb i ran o Fawrth ac Ebrill.
2. Iiar, neu Sif *(efe a oleua—gogoniant)* yn ateb i ran o Ebrill a Mai.
3. Sifan (*draenen*) yn ateb i ran o Mai a Mehefin.
4. Tammuz (*gorphen gwres*) yn ateb i ran o Mehefin a Gorphenaf.
5. Ab *(ffrwythau newydd)* yn ateb i ran o Gorphenaf ac Awst.
6. Elul (*galar*) yn ateb i ran o Awst a Medi.
7. Tisri, neu Ethanim (*cynhauaf*) yn ateb i ran o Medi a Hydref.
8. Marchesfan, neu Bul (*cwympiad y dail*) yn ateb i ran o Hydref a Thachwedd.
9. Cisleu (*rhyndod*) yn ateb i ran o Tachwedd a Rhagfyr.
10. Tebeth (*ymchwydd dyfroedd*) yn ateb i ran o Ragfyr ac Ionawr.
11. Sebat (*teyrnwialen*) yn ateb i ran o Ionawr a Chwefror.
12. Adar (*mantell ardderchog*) yn ateb i ran o Chwefror a Mawrth.

VI. 1. Galwyd y mis cyntaf Nisan, *ffoedigaeth*, am mai y pryd hyn y ffôdd Israel o gaethiwed yr Aipht; Dr. *Hales*---neu yn ol ereill, arwydda, *baner*, neu *luman*, am fod byddinoedd yn arfer myned allan i ryfel yn y mis hwn. Galwyd y mis hwn Martius (oddiwrth Mars, *duw rhyfel)* gan y Rhufeiniaid. Galwyd ef Abib, *tywysenau irion*, am mai

Y FLWYDDYN HEBREAIDD A'R FLWYDDYN IULIAIDD.

TAFLEN *o'r Flwyddyn Hebreaidd wedi ei chymharu â'r Flwyddyn Iuliaidd* (Julian Year.)

1 Nisan	1	21
	2	22
	3	23
	4	24
	5	25
	6	26
	7	27
	8	28
	9	29
	10	30
	11	31
	12	1
	13	2
	14	3
	15	4
	16	5
	17	6
	18	7
	19	8
	20	9
	21	10
	22	11
	23	12
	24	13
	25	14
	26	15
	27	16
	28	17
	29	18
	30	19
2 Iiar, Sif.	1	20
	2	21
	3	22
	4	23
	5	24
	6	25
	7	26
	8	27
	9	28
	10	29
	11	30
	12	1
	13	2
	14	3
	15	4
	16	5
	17	6
	18	7
	19	8
	20	9
	21	10
	22	11
	23	12
	24	13
	25	14
	26	15
	27	16
	28	17
	29	18
	30	19
3 Sifan	1	20

Sifan	2	21
	3	22
	4	23
	5	24
	6	25
	7	26
	8	27
	9	28
	10	29
	11	30
	12	31
	13	1
	14	2
	15	3
	16	4
	17	5
	18	6
	19	7
	20	8
	21	9
	22	10
	23	11
	24	12
	25	13
	26	14
	27	15
	28	16
	29	17
	30	18
4 Tammuz	1	19
	2	20
	3	21
	4	22
	5	23
	6	24
	7	25
	8	26
	9	27
	10	28
	11	29
	12	30
	13	1
	14	2
	15	3
	16	4
	17	5
	18	6
	19	7
	20	8
	21	9
	22	10
	23	11
	24	12
	25	13
	26	14
	27	15
	28	16
	29	17
	30	18
5 Ab	1	19
	2	20

Ab	3	21
	4	22
	5	23
	6	24
	7	25
	8	26
	9	27
	10	28
	11	29
	12	30
	13	31
	14	1
	15	2
	16	3
	17	4
	18	5
	19	6
	20	7
	21	8
	22	9
	23	10
	24	11
	25	12
	26	13
	27	14
	28	15
	29	16
	30	17
6 Elul	1	18
	2	19
	3	20
	4	21
	5	22
	6	23
	7	24
	8	25
	9	26
	10	27
	11	28
	12	29
	13	30
	14	31
	15	1
	16	2
	17	3
	18	4
	19	5
	20	6
	21	7
	22	8
	23	9
	24	10
	25	11
	26	12
	27	13
	28	14
	29	15
	30	16
Y5niwr.	1	17
chwan.	2	18
	3	19

Y5n.ch.	4	20
	5	21
7 Tisri	1	22
	2	23
	3	24
	4	25
	5	26
	6	27
	7	28
	8	29
	9	30
	10	1
	11	2
	12	3
	13	4
	14	5
	15	6
	16	7
	17	8
	18	9
	19	10
	20	11
	21	12
	22	13
	23	14
	24	15
	25	16
	26	17
	27	18
	28	19
	29	20
	30	21
8 Bul	1	22
	2	23
	3	24
	4	25
	5	26
	6	27
	7	28
	8	29
	9	30
	10	31
	11	1
	12	2
	13	3
	14	4
	15	5
	16	6
	17	7
	18	8
	19	9
	20	10
	21	11
	22	12
	23	13
	24	14
	25	15
	26	16
	27	17
	28	18
	29	19

Bul	30	Ta. 20
9 Cisleu	1	21
	2	22
	3	23
	4	24
	5	25
	6	26
	7	27
	8	28
	9	29
	10	30
	11	31
	12	1
	13	2
	14	3
	15	4
	16	5
	17	6
	18	7
	19	8
	20	9
	21	10
	22	11
	23	12
	24	13
	25	14
	26	15
	27	16
	28	17
	29	18
	30	19
10Tebeth	1	21
	2	22
	3	23
	4	24
	5	25
	6	26
	7	27
	8	28
	9	29
	10	30
	11	31
	12	1
	13	2
	14	3
	15	4
	16	5
	17	6
	18	7
	19	8
	20	9
	21	10
	22	11
	23	12
	24	13
	25	14
	26	15
	27	16
	28	17
	29	18
	30	19

11 Sebat	1	20
	2	21
	3	22
	4	23
	5	24
	6	25
	7	26
	8	27
	9	28
	10	29
	11	30
	12	31
	13	1
	14	2
	15	3
	16	4
	17	5
	18	6
	19	7
	20	8
	21	9
	22	10
	23	11
	24	12
	25	13
	26	14
	27	15
	28	16
	29	17
	30	18
12 Adar	1	19
	2	20
	3	21
	4	22
	5	23
	6	24
	7	25
	8	26
	9	27
	10	28
	11	1
	12	2
	13	3
	14	4
	15	5
	16	6
	17	7
	18	8
	19	9
	20	10
	21	11
	22	12
	23	13
	24	14
	25	15
	26	16
	27	17
	28	18
	29	19
	30	20
	365	365

yn y mis hwn yr oedd yr ŷd yn y tywysenau, yn rhai o'r gwledydd dwyreiniol, ac yn dechreu addfedu oddeutu y Pasc.——2. Galwyd yr ail fis Iiar, neu Sif, *efe a oleua, neu gogoniant, neu ddisgleirdeb*, am fod y dydd yn myned yn fwy goleu, ac yn disgleirio gyd âg ychwaneg o ogoniant y pryd hyn nag yn y misoedd o'r blaen.——4. Tammuz, *gorphen gwres*, am, fe allai, fod y gwres mwyaf yn darfod gyd â'r mis hwn. *Parkhurst*.——6. Elul, *galar;* hwyrach, am eu bod yn y mis hwn yn parotoi erbyn dydd mawr y cymmod, yr hwn oedd ar y 10fed dydd o'r 7fed mis. Dr. *Hales*.——7. Ethanim, cynhauafau *(harvests)* am mai yn y mis hwn yr oeddent arferol o gasglu ffrwythau coedydd. *Exod.* 23. 16.——8. Bul, a alwyd felly, fel y bernir, am mai yn y mis hwnw y mae y coed yn bwrw eu dail. Dr. *Hales*.——9. Cisleu, *rhyndod*, neu *oerfel*. *Park.* כסל V.——10. Tebeth, *ymchwydd dyfroedd*. *Park.* טבת——11. Sebat, *teyrnwialen;* ond paham y galwyd y mis hwn wrth yr enw yma, nid yw hysbys.——12. Adar, *mantell ardderchog*, am fod y blodau yn tòri allan yn y mis hwn mewn gwledydd cynnes, a'r ddaear yn cael ei gwisgo megys â mantell odidog o amryw liwiau. *Park.* אדר IV.

VII. Yr oedd y rhan fwyaf o'r gwledydd dwyreiniol yn y cyn-oesoedd yn arfer blwyddyn o 12 mis, a phob mis yn cynnwys 30 o ddyddiau; felly mewn blwyddyn yr oedd 360 o ddyddiau. Oddiwrth Noah a'i feibion, yn ddiammeu, y cafodd y Caldeaid, yr Aiphtiaid, y Phœniciaid, y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, yr Indiaid, a'r Chineaid y dull hwn o gyfrif eu blynyddoedd.

Y mae Diodorus Siculus, Plutarch, a Q. Curtius, yn dywedyd fod breninoedd Persia yn arfer cadw 360 o ordderchadon, un am bob dydd yn y flwyddyn, y rhai a ddeuent bob un ar gylch at y brenin yn yr hwyr, ac a ddychwelent yn y boreu i dŷ y gwragedd. *Herodot. Lib.* 3. 69. *Est.* 2. 12—14. Dr. *Hales' Chron. Vol.* I. *p.* 134.

Yr oedd y Mexicaniaid, trigolion Mexico yn America, yn rhanu eu blwyddyn i 18 o ranau, pob un o 20 niwrnod, yr hyn oedd 360.

VIII. Yr oedd y flwyddyn yn dechreu ar amryw amseroedd ym mhlith amrywiol Genedloedd. Yr hen Galdeaid, y Mediaid, y Persiaid, yr Armeniaid, y Syriaid, a'r Chineaid yn y Dwyrain, a'r hen Rhufeiniaid yn y Gorllewin, a ddechreuent y flwyddyn gynt oddeutu Cyhydedd y Gwanwyn *(Vernal Equinox)*. Yr Aiphtiaid a'r Iuddewon ar y cyntaf a ddechreuent eu blwyddyn oddeutu Cyhydedd Hydref *(Autumnal Equinox)*. Y Groegiaid yn gyffredin a ddechreuent eu blwyddyn oddeutu Hir-ddydd Hâf *(Summer Solstice)*. A'r Chineaid diweddar, a'r Rhufeiniaid, ar ol Numa, oddeutu Byr-ddydd y Gauaf *(Winter Solstice)*.

IX. Y mae hir ddadl wedi bod ym mhlith y dysgedigion ynghylch amser dechreuad y flwyddyn yn y greadigaeth. Y mae rhai gwyr

enwog yn barnu mai yn Cyhydedd y Gwanwyn, ac y mae ereill mor enwog o'r farn mai yn Cyhydedd Hydref y dechreuodd y flwyddyn. Ond, tybygid, fod hanes creadigaeth 'llysiau yn hadu hâd, a phrenau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth yn ol eu rhywogaeth,' *Gen.* 1. 11, 12. a 2. 15, 16, yn profi mai oddeutu Cyhydedd Hydref y crewyd y byd. Y pryd hyny y mae ffrwythau coed yn dyfod i addfedrwydd yn gyffredin yn y rhan fwyaf o'r byd. Wedi cael eu creu, tybygid, mewn cyflwr o addfedrwydd, yr oeddent yn addfed ym mhen y flwyddyn ar ol y greadigaeth, ac felly yn olynol hyd yr amser presennol. Gellir profi oddiwrth sefyllfa gardd Paradwys, yr hon oedd yn agos i darddiad y pedair afon, (*Gen.* 2. 10—14.) ac oddeutu canol y Cylch Cymhedrol (*Temperate Zone*) nad oedd ffrwythau coedydd yn addfed yn gyffredin yn y sefyllfa hòno, ac ereill o gyffelyb bellder oddiwrth linyn y cyhydedd, cyn oddeutu Medi yr 21, pan y mae yr haul yn dyfod i Gyhydedd Hydref. Y mae arferiad yr Iuddewon, a drosglwyddwyd iddynt oddiwrth eu hynafiaid, cyn ac wedi y diluw, o ddechreu y flwyddyn yn mis Tisri, a'r hwn oedd yn cyfateb i ran o Fedi a Hydref, yn profi yn gryfach na dim a ellir ei ddwyn i'r gwrthwyneb, mai oddeutu Cyhydedd Hydref y dechreuodd y flwyddyn yn y greadigaeth. Y mae tystiolaeth Moses yn profi hyn ym mhellach; yr hwn, wrth sôn am amser gŵyl y pebyll, neu ŵyl y cynnull, sydd yn arfer gwahanol eiriau ag sydd yn arwyddo yr un peth. Yn *Exod.* 23. 16. y mae yn dywedyd mai 'yn niwedd y flwyddyn' y bydd eu hamser, בצאת השנה (*betsoth hashana*) hyny yw, yn mynediad allan y flwyddyn. Yn *Exod.* 34. 22. y mae yn arfer gair arall, תקופת השנה (*tecuphat hashana*) yr hwn a gyfieithir fel y llall, 'yn niwedd y flwyddyn, ond a ddylai gael ei gyfieithu, 'yn nhroiad y flwyddyn, fel y mae yn rhai Biblau Saesonaeg ar ymyl y ddalen. Y mae yn eglur fod Moses yn y ddau le hyn yn golygu y flwyddyn oedd arferedig cyn ei newid ar yr ymadawiad o'r Aipht. Yn ol y flwyddyn hòno, yr oedd gŵyl y cynnull, ag oedd yn dechreu y 15fed o fis Tisri, oddeutu amser mynediad allan, neu ddiwedd y flwyddyn—neu, yn ol dull mwy manwl o lefaru, 'yn nhroiad y flwyddyn;' hyny yw, 15 niwrnod wedi troiad y flwyddyn.

X. Mewn amser cafwyd allan fod 360 o ddyddiau yn rhy fyr i ateb i flwyddyn yr haul o 5 diwrnod cyfan. Pa bryd y cafwyd hyn allan gyntaf nid yw hysbys. Hwyrach ei fod yn adnabyddus i'r cyn-ddiluwiaid; y mae yn sicr nad eill neb brofi i'r gwrthwyneb. Y mae yn eglur nad oedd yn bosibl iddynt gadw y flwyddyn mewn trefn, heb chwanegu bob blwyddyn 5 niwrnod at y 360. Y mae rhai wedi sylwi fod oed Enoch yn 365 o flynyddoedd pan symudwyd ef, yr hyn yw rhifedi dyddiau mewn blwyddyn; ond nid ellir casglu dim yn benderfynol oddiwrth hyny. Cafodd y Caldeaid, yr Aiphtiaid, a'r Chineaid, adnabydd-

iaeth gynnar o'r 5 diwrnod chwanegol hyn. Dywedir eu bod yn adnabyddus i'r Aiphtiaid yn amser Assis, yr olaf o freninoedd bugeilaidd yr Aipht, yr hwn (yn ol *Bedford's Chron.* p. 63) a ddechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn o oed y byd 2131, cyn geni Crist 1878, oddeutu 48 mlynedd ar ol galw Abraham. Dr. *Hales' Chron.* p. 139.

XI. Dywedir ym mhellach fod y 5 niwrnod chwanegol hyn, yn cael eu cysegru bob blwyddyn gan amryw genedloedd i lawenydd a gloddest, yn neillduol gan y Mediaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, ac hyd yn nod gan y Mexicaniaid yn America. Gan y Babiloniaid y galwyd hwynt Sakea, Σακιαι ημιεραι, *dyddiau o feddwdod*, oddiwrth y gair *Heb.* שקה *(shacah)* hyny yw, *efe a yfodd*, a dywedir mai yn y dyddiau hyn y cymmerwyd Babilon gan Cyrus, megys y rhagddywedwyd gan y prophwyd *Jeremiah* 25. 26. a 51. 39,—57.—*Herodot. Lib.* 1. *Cyropæ. Lib.* 7. Dr. *Hales' Chron.* p. 140.

XII. Y mae Berosus yn cyfrif Abraham yn Astronomydd cywrain, ac y mae yn hysbys iddo fyned i'r Aipht cyn amser Assis, pan chwanegwyd y 5 niwrnod at y 360 o ddyddiau a gyfrifwyd gynt i'r flwyddyn. Hwyrach i Abraham roddi addysg i'r Aiphtiaid yn hyn, neu gael ei addysgu ganddynt.—Yr oedd 'Moses yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aipht,' *Act.* 7. 22. ac, yn ddiammeu, nid oedd ddiffygiol yn y rhan hyny o ddysgeidiaeth, sef trefnu y flwyddyn yn y modd mwyaf celfyddgar, yn ol yr hyfforddiadau a gafodd efe gan yr Aiphtiaid, a chan yr Arglwydd. Y mae y gwyliau arbenig a sefydlwyd gan Moses, ar amserau pennodol, sef ar yr un dyddiau (bob blwyddyn) o'r amrywiol fisoedd, ar ba rai yr oeddent yn disgyn, yn profi, tybygaf, mai blwyddyn yr haul oedd yr un a arferwyd gan Moses a'r Iuddewon dros lawer o oesoedd. Y mae yn anhysbys pa bryd y dechreuodd yr Iuddewon arfer blwyddyn leuadol. Y mae yn anhawdd deall pa fodd y gallent gadw y Pasc yn ol blwyddyn leuadol yn gyson â'r gosodiadau a ordeiniodd Moses. Yr oedd y Pasc i gael ei ladd ar y 14 dydd o'r mis cyntaf, pan ddechreuai y cryman ar yr ŷd, sef yr haidd, yr hyn oedd ar yr un amser bob blwyddyn yn y gwledydd hyny. Dranoeth wedi y Sabboth y'ngwyl y Pasc, yr hwn oedd yr 16 dydd, ac yn ateb i'r dydd cyntaf o'r wythnos, yr oedd ysgub y cyhwfan o ŷd newydd i gael ei gyhwfanu i'r Arglwydd, i gydnabod ei ddaioni, ac i fod yn gysgod o adgyfodiad Crist. O'r Sabboth y'ngwyl y Pasc, yr hwn oedd y 15fed dydd o'r mis cyntaf, cyfrifwyd saith wythnos hyd wyl yr wythnosau, neu y Pentecost, yr hwn oedd bob amser 49 diwrnod ar ol Sabboth y Pasc, neu y 50 dydd a chyfrif hwnw. Y pryd hyn y dechreuai cynhauaf y gwenith yn Judea a'r Aipht, pan offrymid dwy dorth gyhwfan i'r Arglwydd, yn flaen-ffrwyth y cynhauaf gwenith. Gwel *Deut.* 16. 9, 10. *Exod.* 9. 31, 32. *Lef.* 23. 5, 6, 10, 11, 15, 16, 17. *Num.* 28. 16, 17, 26. *Exod.* 34. 22. Os

creffir ar yr adnodau hyn, gwelir fod y Pasc a'r Pentecost yn cael eu cadw bob blwyddyn ar yr un amser o'r flwyddyn, ac nid weithiau fis yn gynt, ac weithiau yn fwy diweddar o fis, fel yn yr eglwysi Cristionogol, y rhai sydd yn sefydlu y Pasc yn ol y lleuad wanwyn.

XIII. Yn y tu dalen nesaf rhoddir darluniad o'r flwyddyn Hebreaidd eglwysig, gyd â'r 5 niwrnod chwanegol yn niwedd y flwyddyn, fel ag yr oedd hi cyn iddi gael ei newid gan Moses o Gyhydedd Hydref, i Gyhydedd y Gwanwyn—wedi ei chymharu â'r flwyddyn Iuliaidd, ag sydd arferol yn ein plith ni. Y mae hi yn dechreu yn Cyhydedd y Gwanwyn, sef yr 21 o Fawrth, fel ag y sefydlwyd ef yn amser Cynghor Nicea, yn y flwyddyn o oed Crist 325.—Nid ellir penderfynu yn sicr pa bryd yr oedd Moses a'r Israeliaid yn chwanegu y 5 niwrnod at eu blwyddyn, nac ychwaith y diwrnod y dechreuent eu blynyddoedd eglwysig: cymmaint ag a ellir ei ddisgwyl, yw dyfod mor agos ag a allwn at y gwirionedd, mewn pethau o gymmaint hynafiaeth ag sydd wedi cael eu tywyllu yn hytrach na'u heglurhau trwy ddadleuon y dysgedigion.

Pob pedair blynedd yr oedd yn angenrheidiol i chwanegu un diwrnod yn rhagor i gadw y flwyddyn mewn trefn, a'r gwyliau gosodedig yn eu hamserau priodol. Hyn oedd arfer yr hen Bersiaid, yr Ethiopiaid, yr Aiphtiaid, ac ereill, tebygol o wledydd y Dwyrain, i gadw eu blynyddoedd mewn trefn.* Blwyddyn fel hyn, medd y dysgedig Usher, oedd arferedig gan y cyn-ddiluwiaid, yr Aiphtiaid, a'r Hebreaid, ac nis gellir profi fod yr Iuddewon yn arfer misoedd lleuadol anwastad o flaen caethiwed Babilon.†

PENNOD. V.

Am Flynyddoedd Lleuadol.

Deuddeg cylchdro o'r lleuad oddi amgylch y ddaear yw blwyddyn leuadol, yr hyn yw 354 o ddyddiau, 8 awr, 48 mynyd, 38 *second;* a chan fod blwyddyn yr haul yn cynnwys 365 o ddyddiau, 5 awr, 48 mynyd, 57 *second,* ymddengys fod blwyddyn yr haul yn fwy na blwyddyn leuadol o 10 niwrnod, 21 awr, 19 *second,* neu yn agos i 11 diwrnod. Y gwahaniaeth hwn a elwir yr epact, yr hwn a chwanegir, weithiau bob dwy flynedd, ac weithiau bob tair, i gysoni blwyddyn y lleuad i flwyddyn yr haul. Mewn cylch o 19 mlynedd, y mae y chwanegiadau hyn yn eu cysoni â'u gilydd o fewn oddeutu awr a hanner.‡ Dywedir fod yr hen Rufeiniaid, y Groegiaid, a'r Macedoniaid, am rai oesoedd, yn arfer blynyddoedd lleuadol; ac y mae yr Iuddewon, y Tyrciaid, a'r Arabiaid,

* Bedford's Chron. p. 26, 27. † Usserii Annales Lectori p. 4. quoted by Bedford. ‡ Newberry's Chron. p. 59.

yn bresennol yn arfer blwyddyn leuadol: ond y mae yn eglur nad eill fod dim trefn na buddioldeb ynddi fel rheol amser, oddi eithr ei chysoni trwy yr Epact â blwyddyn yr haul.

PENNOD VI.

Am y Flwyddyn Iulïaidd (Julian Year.)

Julius Cæsar, wedi sylwi ar annhrefn y flwyddyn leuadol Rufeinig, a sefydlwyd gan Numa Pompilius, ail frenin y Rhufeiniaid, a'i diwygiodd, ac a'i sefydlodd bron yn yr un drefn ag sydd arferedig etto yn Mrydain, a'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Yr oedd Sosigenes, Astronomydd o Alexandria yn yr Aipht, ac ereill, yn gynnorthwyol iddo yn y gorchwyl hwn. Yn gyntaf, lluniodd un flwyddyn barotôawl o 15 mis, neu 445 o ddyddiau, yr hon, yn ol ein Calendar ni, a ddechreuodd y 13 o Hydref, yn y flwyddyn 708 er adeiladu Rhufain, a 46 mlynedd cyn geni Crist; yr hyn sydd yn dangos fod y flwyddyn Rufeinig wedi symud ym mlaen o'i lle priodol 80 niwrnod. Galwyd y flwyddyn hon, blwyddyn yr annhrefn; etto trwy hon y dygwyd y flwyddyn i iawn drefn i ateb i gylch blynyddol yr haul. Y flwyddyn ddiwygiedig gyntaf oedd yn dechreu Ionawr 1af, yn y flwyddyn 709 er adeiladu Rhufain, a 45 cyn geni Crist, yn ol y cyfrif cyffredin. A chan ei fod yn deall fod blwyddyn yr haul yn cynnwys 365 o ddyddiau, ac yn agos i 6 awr, ordeiniodd chwanegu diwrnod unwaith bob pedair blynedd, a'i osod yn niwedd Chwefror, yr hwn mewn blynyddoedd cyffredin oedd, fel ag y mae etto, yn cynnwys 28 o ddyddiau, ond bob pedair blynedd, 29.* Y flwyddyn ag sydd â'r diwrnod chwanegol ynddi, a elwir yn flwyddyn naid, am ei bod megys yn neidio un diwrnod ym mlaen. Y mae rheol hawdd wedi cael ei rhoddi mewn llyfrau o amseryddiaeth, i wybod pa un yw blwyddyn naid, neu pa faint fyddo ar ol blwyddyn naid. Rhenwch unrhyw flwyddyn wrth 4, ac os na bydd dim gweddill, y mae yn flwyddyn naid; neu os bydd 1, 2, neu 3 y'ngweddill, y 1af, yr 2il, neu y 3edd flwyddyn ar ol y flwyddyn naid ydyw. Megys siampl, rhenwch y flwyddyn bresennol, 1815,† wrth 4, a'r gweddill yw 3, yr hyn sydd yn dangos mai y drydedd flwyddyn ar ol y flwyddyn naid ddiweddaf ydyw y flwyddyn hon. Yn yr 2 flwyddyn Iulïaidd, 710 er adeiladu Rhufain, cyn geni Crist 44, ar y 15fed dydd o Fawrth, y lladdwyd Julius Cæsar yn y Senedd-dy.

II. Er fod y diwygiad yn y flwyddyn a wnaed gan Julius Cæsar yn dangos cywreinrwydd hynod, wrth ystyried yr oes y'mha un y gwnaed;

---

* The 23rd day of February, which in the Roman Calendar was called *Sextus ante Calendas Martias*, in leap year was reckoned twice. *Bis. Sextus, hence Bissextile, or leap year.* † Sef y flwyddyn y cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf.

etto pan ddaeth dynion dysgedig i gyrhaedd at ychwaneg o fanyldra mewn Astronomyddiaeth, deallasant fod 365 o ddyddiau a 6 awr, yn fwy na gwir flwyddyn yr haul, o 11 mynyd, 3 *second;* yr hyn mewn 130 o flynyddoedd, a wna un diwrnod cyfan. Y Pab Gregori y XIII. oedd y cyntaf, yn ol dim hanes ag sydd genym, a sylwodd yn y flwyddyn 1582, fod Cyhydedd y Gwanwyn yn y flwyddyn hono yn disgyn ar yr 11 dydd o Fawrth, yr hyn oedd yn gynarach o 10 niwrnod nag yn amser Cynghor Nicea yn y flwyddyn 325, pan ordeiniwyd y byddai rhagllaw ' i Ddydd Pasc fod y Sul cyntaf a ddigwyddai ar, neu ar ol y llawn lloer gyntaf a ddeuai ar ol yr 21ain o Fawrth,' ar ba ddiwrnod yr oedd Cyhydedd y Gwanwyn yn disgyn y flwyddyn hono. Wrth sylwi ar hyn fe welodd fod gwir amser y flwyddyn mewn 1257 o flynyddoedd er Cynghor Nicea, wedi myned o'i le, trwy symud yn ol 10 niwrnod. I ddiwygio hyn, ac i ddwyn y Cyhydedd fel o'r blaen i'r 21ain o Fawrth, efe a ddïlëodd 10 niwrnod yn Hydref yn y flwyddyn 1582, trwy beri cyfrif y 5ed o Hydref yn y flwyddyn hòno, yn 15fed dydd o'r mis hwnw. A'r 22ain dydd o Ragfyr canlynol a gyfrifwyd yn ddydd cyntaf o Ionawr, 1583. Ac am fod Cyhydedd y Gwanwyn yn syrthio yn ol 3 diwrnod yn ol y Calendar Iulïaidd mewn 390 o flynyddoedd, penderfynwyd i adael allan 3 diwrnod rhagllaw mewn pob 400 mlynedd, h. y. bod y blynyddoedd cyntaf yn y tair canrif gyntaf o'r pedair yn flynyddoedd cyffredin; y rhai, heb y drefn newydd, a fyddent yn flynyddoedd naid; ac i bob pedwaredd flwyddyn ganrifol i aros yn flwyddyn naid. Fel hyn yr oedd y blynyddoedd o oed Crist, 1700, 1800, 1900, a 2100, 2200, 2300, i fod yn flynyddoedd cyffredin, ond 1600, 2000, a 2400, oedd i aros yn flynyddoedd naid. Trwy y diwygiad cywrain hwn, cedwir y flwyddyn Iulïaidd mewn trefn am 6000 o flynyddoedd, pe bae'r byd yn parhâu cyhyd, gan na fyddai y flwyddyn, ym mhen yr yspaid hwnw o amser, wedi ennill ym mlaen ddim ychwaneg na 25 awr.—Dr. *Hales' Chron.* p. 154, 155.

III. Er fod y diwygiad hwn o'r flwyddyn wedi cael derbyniad yn yr holl wledydd Pabaidd er pan wnaed ef, ni dderbyniwyd ef yn Lloegr hyd y flwyddyn o oed Crist 1751, pan ymddangosodd fod yn angenrheidiol i adael allan 11 diwrnod o'r Calendar; trefnwyd trwy Act o Barliament fod i'r 3ydd o Fedi yn y flwyddyn hòno gael ei gyfrif yn 14 o'r mis hwnw; ac felly, trwy y cyfnewidiad hwn, cyfrifwyd yr 21ain o Ragfyr canlynol, yn Ionawr 1af, 1752, yr hon a gyfrifir yn gyntaf o'r cyfrif newydd (*new style.*) Oni buasai i'r cyfnewidiad hwn gymmeryd lle, y mae yn eglur y buasai Ionawr 1af, 1752, yn Ionawr 12fed, yr hwn yn bresennol a elwir yn hen ddydd Calan. Trwy ddilëu 11 diwrnod yn y flwyddyn o'r blaen, dechreuodd hon yn gynt o 11 diwrnod.—Gwel Dr. *Hales, a Newberry's Chron.*

PENNOD VII.

Am Amserau Hynod (oddiwrth ba rai y dechreuir cyfrif Blynyddoedd) y rhai a elwir Epochs, neu Eras.

Y MAE Epoch yn air Groeg (ἐποχη) yn arwyddo *attalfa*, am fod rhyw amser hynod oddiwrth ba un y dechreuir cyfrif blynyddoedd, megys yn attal rhag cyrchu yn uwch, neu ddechreu yn is nâ rhyw amser pennodol; megys creadigaeth y byd, amser genedigaeth Crist, &c. Y mae Era yn air Hispaeniaeg, ac a arwydda *amser*; sef rhyw amser hynod, o herwydd digwyddiad o fawr bwys a chanlyniad i ddynolryw; megys Era sylfaenu Rhufain, Era Nabonassar, &c. o'r rhai hyn, yr un a arferir yn fwyaf cyffredin, a thwy gymhariaeth â pha un y trefnir y lleill, yw,

Y cyfrif Cristionogol Cyffredinol *(The Vulgar Christian Era)* neu amser genedigaeth Crist yn ol y cyfrif cyffredin. Ond cyn sylwi ar hyn, crybwyllir am rai a arferid o'i flaen.

Yr oedd amryw brif-nodau, neu amserau hynod, oddiwrth ba rai yr oedd amryw wledydd yn y dwyrain a'r gorllewin yn arferol o gyfrif eu blynyddoedd; megys,

I. *Yr Olympiadau.* Yr oedd pob Olympiad yn cynnwys yspaid o bedair blynedd. Cawsant eu henw oddiwrth Olympia, dinas yn Peloponnesus, yn nhir Groeg, lle yr oedd chwareuyddiaethau cyffredin yn cael eu cynnal yn nechreu pob pummed flwyddyn. Y mae y flwyddyn gyntaf o'r Olympiad cyntaf yn cyfateb i'r flwyddyn 776 cyn geni Crist. Yn ol y rhai hyn yr oedd y Groegiaid yn arferol o gyfrif eu blynyddoedd dros amryw oesoedd.

II. *Amser, neu Era adeiladu neu sylfaenu Rhufain.* Y mae dau gyfrif o sylfaeniad Rhufain. Yn ol y Ffasti Capitolini (llyfr yn cynnwys cofrestr o amseroedd, a gedwid yn y Capitol yn Rhufain) sylfaenwyd Rhufain yn y flwyddyn 752 cyn geni Crist, yr hon oedd yr 2fed flwyddyn o'r 6fed Olympiad: ond yn ol Varro (hanesydd Rhufeinig) yn y flwyddyn 753 cyn geni Crist. Yr olaf a gymmeradwyir yn gyffredin megys y cyfrif cywiraf o'r ddau. Felly blwyddyn enedigol Crist, sef y 1af o'r cyfrif cyffredin, oedd y 754 er adeiladu Rhufain (neu *Annus Urbis Conditæ. A. U. C.*) Yr oedd y Rhufeiniaid, a'r gwledydd dan eu llywodraeth, gan mwyaf, yn arfer cyfrif eu blynyddoedd oddiwrth yr Era hon. A phan ddiwygiwyd y Calendar Rhufeinig gan Julius Cæsar yn y flwyddyn 45 cyn geni Crist, yr oedd rhai ysgrifenyddion a hanesyddion yn cyfrif blynyddoedd er y diwygiad hwnw yn nghyd â'r llall.

III. *Amser, neu Era Nabonassar.* Y mae yr Era hon yn cymmeryd ei henw oddiwrth Nabonassar, neu Belesis, yn gyntaf yn llywodr-

aethwr yn Babilon, ac wedi hyny, trwy wrthryfel llwyddiannus yn erbyn ei arglwydd, yn frenin ar Babilon, Caldea, ac Arabia, y rhai a drosglwyddodd efe i restr o freninoedd a'i dilynasant yn y llywodraeth. Yr un yw efe a Baladan, tad Merodac Baladan, yr hwn a ddanfonodd genadwri at Hezeciah. (*Esa.* 39. 1.) Dywedir iddo gasglu ynghyd y Croniclau oedd yn hysbysu am weithredoedd y rhai a'i rhagflaenasant, y rhai a ddinystriodd efe, fel y byddai i gyfrif teyrnasiadau breninoedd Caldea ddechreu gyd âg ef ei hun?* Y mae Era Nabonassar yn dechreu gyd â'r flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, yn y flwyddyn 747 cyn geni Crist. Blynyddoedd o 365 o ddyddiau, heb yr oriau chwanegol, oedd y rhai arferwyd gan y rhai a arferent yr Era hon. Trwy hyny yr oedd y dull hwn o flwyddyn yn ennill diwrnod y'mlaen bob pedair blynedd; ac mewn 1460 o flynyddoedd, yr oedd yn ennill blwyddyn gyfan. Felly y mae 1460 o flynyddoedd Iuliaidd, yn gwneuthur 1461 o flynyddoedd Nabonassar. Arferir yr Era hon gan Ptolemy, yr Astronomydd a'r Amserydd, i Amseryddiaeth pa un yr ydym yn ddyledus am yr hyfforddiadau goreu i iawn ddeall Amseryddiaeth yr amserau olaf o'r Hen Destament, a'r yspaid hwnw rhwng yr Hen a'r Newydd, o amser Nehemiah a Malachi, hyd enedigaeth Crist, yr hwn oedd yspaid o oddeutu 424 blynedd.

IV. *Era y Seleucidæ.*† Y mae hon yn dechreu yn yr amser y dechreuodd Seleucus Nicator (un o gadbeniaid Alexander Fawr) deyrnasu yn mreniniaeth Syria; yr hyn, yn ol yr hanesion goreu, oedd y flwyddyn 312 cyn geni Crist. Arferwyd yr Era hon dros lawer o oesoedd yn ngwledydd y dwyrain, gan Baganiaid, Iuddewon, Cristionogion a Mahometaniaid. Arferir hi etto gan yr Arabiaid, a rhai o'r Iuddewon, y rhai a gyfrifent eu blynyddoedd yn ol Era y greadigaeth, ac hefyd yn ol Era y Seleucidæ, yr hon weithiau a elwir Era *bargeiniau*, (*Era of contracts*) am eu bod yn arferol o bennodi amser pob *bargain*, neu gytundeb, a fyddai mewn ysgrifen, yn ol blynyddoedd yr Era hon. Galwyd hi hefyd Era breniniaeth y Groegiaid, am ei bod yn arferedig yn mhlith deiliaid y breninoedd Groegaidd, a dilynwyr Alexander Fawr, y rhai a ranasant ei freniniaeth ef yn eu plith.‡ Y mae amserau yn cael eu pennodi yn ol yr Era hon yn llyfrau y Maccabeaid, ac yn ngwaith yr hanesydd Iuddewig Josephus.§

V. *Era Dioclesian, neu Era y Merthyron.* Dioclesian oedd yr Ymerawdwr Rhufeinig hwnw a gododd y 10fed erlidigaeth yn erbyn yr eglwysi Cristionogol trwy yr holl Ymerodraeth, yn y flwyddyn o oed Crist 303; yr hon a barhaodd dros 10 mlynedd, ac a fu yn fwy gwaed-

---

* Dr. Hales's quoting Syncellus, p. 260. † Y rhai hyn oedd ddilynwyr Seleucus Nicator. ‡ 1 Maccab. 1. 10. § Prideaux Conn. 1. Ann. 312.

lyd nâ'r 9 cyntaf gyd â'u gilydd. Arferwyd yr Era hon gan yr eglwysi Cristionogol, i goffâu yr anrhaith a'r dinystr a wnawd arnynt gan yr Ymerawdwr creulon hwnw. Y mae yn dechreu yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Dioclesian, yr hon oedd y flwyddyn o oed Crist 284. Parhawyd i gyfrif yn ol yr Era hon dros 247 o flynyddoedd, hyd y flwyddyn o oed Crist 532, ym mha flwyddyn y dechreuodd Dionysius Exiguus, Abbad Rhufeinig, a Scythiad o genedl, gyfrif blynyddoedd oddiwrth enedigaeth ein Hiachawdwr Crist.

VI. Yr achos o ddechreu cyfrif blynyddoedd o enedigaeth Crist, a roddir gan Dionysius mewn llythyr at un Petronius, yr hwn oedd Esgob, yn y geiriau canlynol: 'Wedi gorphen y flwyddyn 247, ac yn nechreu y flwyddyn 248, o Era Dioclesian, nid oeddwn foddlawn i gadw coffadwriaeth am ormesdeyrn creulawn ac erlidigaethus; ond dewisais yn hytrach i gyrchu yn ol at amser cnawdoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist, i gyfrif y blynyddoedd oddi yno; fel y byddai dechreuad ein gobaith gael ei wneuthur yn fwy hysbys i ni; ac fel y byddai i achos adferiad dynolryw, sef dioddefaint ein Prynwr, ymddangos yn fwy eglur.'* Wrth chwanegu y flwyddyn o oed Crist 284 pan ddechreuodd Era Dioclesian, at 247, nifer y blynyddoedd y parhaodd, bydd 531 o oed Crist; a'r flwyddyn ganlynol, pan ddechreuodd Dionysius gyfrif oddiwrth enedigaeth Crist, oedd y flwyddyn 532 o oed Crist, yn ol ei gyfrif ef, yr hwn a ganlynir gan bawb, ac a elwir y Cyfrif Cyffredin (*Vulgar Era of Christ's birth*). Y mae rhai Amseryddion yn dywedyd mai yn y flwyddyn o oed Crist 527 y dechreuodd Dionysius ei gyfrif newydd, 'ond ni wn ar ba sail,' medd y Dr. *Hales*.

Sefydlodd Dionysius flwyddyn enedigol Crist yn y flwyddyn 753, er pan adeiladwyd Rhufain, a'r 45 flwyddyn o'r Era Iuliaidd. Yr oedd Panodorus, Monach o'r Aipht, wedi penu yr un flwyddyn megys blwyddyn enedigol Crist, oddeutu 137 o flynyddoedd o'r blaen, sef yn y flwyddyn 395 o oed Crist, yn amser teyrnasiad Arcadius yr Ymerawdwr. Dr. *Hales' Chron. p.* 189.

Yn y ganrif nesaf, sef y 7fed, y dechreuodd Beda ym Mrydain gyfrif blynyddoedd yn ol genedigaeth Crist, yn ei ysgrifeniadau. Sefydlodd flwyddyn enedigol Crist yn y flwyddyn er adeiladu Rhufain 753, megys y gwnaethai Dionysius, ond er mwyn cyssoni blwyddyn enedigol Crist â'r flwyddyn Iuliaidd ag oedd arferedig y pryd hyny, efe a osododd ei dechreuad Ionawr 1, *U. C.* 754, blwyddyn Iuliaidd 46, ac felly mae wedi sefyll hyd heddyw.

Ni ddechreuodd y cyfrif oddiwrth enedigaeth Crist i fod yn gyffredin

---

* Dr. Hales' Chron. Vol. 1. p. 118. Y mae y llythyr i gyd yn Petavius, Tom. 2. Append. p. 498.

yn ngwledydd Ewrop hyd amser Charles Martel, brenin Ffraingc, a'r Pab Gregory yr ail, oddeutu y flwyddyn o oed Crist 730; ac ni arferwyd mewn dim ysgrifeniadau cyhoeddus hyd y Synod Germanaidd gyntaf, yn y flwyddyn o oed Crist 742. Ond ni sefydlwyd trwy gyfraith hyd amser y Pab Eugenius y pedwerydd, yn y flwyddyn o oed Crist 1431, yr hwn a orchymynodd arfer y cyfrif hwn yn yr holl goffadwriaethau cyffredin, fel y dywed Mariana, ac ereill. Dr. *Hales' Chron. Vol.* I. *p.* 189.

Ond pan ddaeth Amseryddion diweddar i chwilio yn fanylach am wir flwyddyn enedigol Crist, gwelwyd fod Dionysius, ac ereill a'i dilynasant, yn dechreu yr Era o enedigaeth Crist yn ddiweddarach na'r gwir amser o oddeutu pedair blynedd.

Y ffordd a gymmerodd Dionysius i gael allan flwyddyn enedigol Crist, oedd, fel y bernir, yn gyntaf, i wybod pa flwyddyn er sylfaenu Rhufain oedd y 15fed flwyddyn o Tiberius Cæsar, ym mha un y dechreuodd Ioan Fedyddiwr ar ei weinidogaeth. Wrth chwilio yr Hanesyddion Rhufeinig, fe gafodd fod y 15fed flwyddyn i Tiberius ar ol marwolaeth Augustus Cæsar, ei Ragflaenor yn yr Ymerodraeth, yn cyfateb i'r flwyddyn er sylfaenu Rhufain 782, a'r flwyddyn Iuliaidd 74. Yn ail, gan fod Crist yn ieuengach nag Ioan Fedyddiwr o 6 mis, *Luc* 1. 36. fe farnodd, y mae yn debygol, na chyrhaeddodd Crist ei 30 mlynedd hyd y flwyddyn ganlynol, sef yr 16eg i Tiberius (gan gyfrif blynyddoedd ei deyrnasiad o farwolaeth Augustus Cæsar) yr hon oedd y flwyddyn *U. C.* 783, Bl Iul. 75. Wrth gyfrif 30 mlynedd yn ol oddiwrth y flwyddyn hon, cafodd fod blwyddyn enedigol Crist yn cyfateb i'r flwyddyn *U. C.* 753, (hyny yw, er adeiladu Rhufain) a'r flwyddyn Iul. 45—a bod 532 o flynyddoedd wedi myned heibio, er pan anwyd Crist, pan feddyliodd efe am gyfrif blynyddoedd yn ol genedigaeth Crist. Soniwyd eisoes pa fodd y bu i Beda ym Mrydain gyfnewid y flywyddyn hon am y flwyddyn *U. C.* 754, Bl. Iul. 46, yr hon a gyfrifir gan yr holl Amseryddion goreu, y gyntaf o flynyddoedd cnawdoliaeth Crist yn ol y cyfrif cyffredin. Gelwir hon Era Genedigaeth Crist, neu yr Era Gyffredinol (*Vulgar Era*) ac y mae yn cyfateb i'r flwyddyn 4714 o'r *Julian Period*, y 31ain o deyrnasiad Augustus ar ol mor-frwydr Actium, a'r 4edd flwyddyn o deyrnasiad Archelaus, yr hon oedd hefyd y 4edd flwyddyn ar ol marwolaeth Herod Fawr, yr hwn a laddodd y plant yn Bethlehem. *Mat.* 2. 16.

Oddiwrth hyn, yr ymddengys fod Dionysius wedi sefydlu blwyddyn enedigol Crist, oddeutu tair blynedd ar ol marwolaeth Herod, yr hyn nid yw gytunol â hanes Matthew, pen. 2, yr hwn sydd yn dangos fod Crist wedi cael ei eni o flaen ei farwolaeth ef.

Yr ydys yn barnu mai yr hyn a arweiniodd Dionysius i'r cyfeiliornad hwn, oedd cyfrif y 15fed flwyddyn i Tiberius Cæsar, o'r amser y de-

chreuodd efe deyrnasu ei hun, ar ol marwolaeth Augustus, yr hwn a fu farw yn Nola yn Campania, Awst 19, yn y flwyddyn *U. C.* 767; yn lle o'r amser y dechreuodd Tiberius gyd-deyrnasu gyd âg Augustus, yr hyn oedd ynghylch 3 blynedd o flaen marwolaeth Augustus. Dywedir i Tiberius gael ei wneuthur yn gyfranog o lywodraeth y taleithiau Rhufeinig, o ba rai yr oedd Syria yn un, Awst 28, *U. C.* 764, Bl. Iul. 56, a'r 41 flwyddyn o deyrnasiad Augustus, yr hyn oedd 3 blynedd o fewn 9 diwrnod o flaen marwolaeth Augustus. *Macknight's Harmony quoting Vell. Paterc. lib.* 2. *c.* 21. *Bedford's Chron. p.* 736. Dr. *Hales' Chron. Vol.* I. *p.* 189, 190. Yn ol y dechreuad hyn o gyd-deyrnasiad Tiberius, yn ol pa un y mae yn sicr y cyfrifodd Luc, bydd ei 15fed flwyddyn yn cyfateb i'r flwyddyn U. C. 779, Bl. Iul. 71. a'r cyfrif cyffredin 26. Oddeutu Cyhydedd y Gwanwyn yn y flwyddyn hon, yr oedd Ioan Fedyddiwr yn 30 mlwydd pan ddechreuodd ar ei weinidogaeth yn ol y gyfraith, *Num.* 4. 3. ac oddeutu Cyhydedd Hydref yn yr un flwyddyn, yr oedd ein Hiachawdwr Crist yn 30 mlwydd oed, pan fedyddiwyd ef gan Ioan yn yr Iorddonen, ac y dechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus.

Wrth gyfrif 30 mlynedd yn ol oddiwrth y flwyddyn hon, deuir at y flwyddyn U. C. 749; Bl. Iul. 41; o flaen y Cyfrif Cyffredin 5; o deyrnasiad Augustus Cæsar 26; o deyrnasiad Herod 33; ac mai hon oedd gwir flwyddyn enedigol Crist, a brofir, o herwydd mai wrth sefydlu ar hon y cyssonir yr Amseryddiaeth â hanes yr Efengylwyr, Josephus, ac amryw o Hanesyddion Paganaidd, sydd yn crybwyll am bethau perthynol i amserau y Testament Newydd. Rhoddaf Daflen ar ei phen ei hun, i brofi y pethau hyn yn fwy amlwg, yn niwedd y Taflenau, gyd âg eglurhad o amryw bethau perthynol iddo.

VII. *Era yr Hegira.* Er nad yw yr Era hon yn disgyn o fewn cylch yr amser a gynnwysir yn yr Amseryddiaeth ganlynol, etto gan fod rhan fawr o'r byd yn cyfrif blynyddoedd yn ol hon, rhoddir hi yma at y lleill. Arferir yr Era hon gan y Tyrciaid, yr Arabiaid, ac ereill sydd yn proffesu y grefydd Fahometanaidd. Y mae yn dechreu Gorphenaf 16, yn y flwyddyn o oed Crist 622. Gair Arabaidd yw Hegira, yn arwyddo *ffoedigaeth*, neu *erlidigaeth*. Yr hyn a roddodd achlysur i'r Era hon, oedd ffoedigaeth y twyllwr Mahomet o Mecca, dinas yn Arabia; canys pan ddeallodd llywodraethwyr y ddinas hono, fod ei gyfeiliornadau yn tueddu i aflonyddu yr heddwch cyffredinol, penderfynasant i dori ymaith yr awdwr o honynt, fel na thaenai y drwg ym mhellach: ond Mahomet wedi cael rhybydd o'u bwriad, a ffôdd yn y nos i Medina, dinas arall yn Arabia, yn y flwyddyn a grybwyllwyd uchod.

Blynyddoedd lleuadol o 354 o ddyddiau a arferir gan y rhai sydd yn arfer yr Era hon. I'w chyssoni â blwyddyn yr haul, y maent yn

chwanegu mis ati bob 2fed, 5ed, 7fed, 10fed, 13eg, 15fed, 18fed, 21ain, 24ain, 26ain, a 29ain flwyddyn, mewn cylch o 29 mlynedd.

PENNOD VIII.

Am yr Yspaid Iuliaidd (Julian Period.)

Yr Yspaid Iuliaidd, a ddefnyddir gan rai Amseryddion, a luniwyd gan Julius Scaliger. Y mae yn cynnwys 7980 o flynyddoedd, gan ddechreu mewn pwngc dychymmygol 705 mlynedd cyn creadigaeth y byd. Yr oedd 705 mlynedd o'r yspaid dychymmygol hwn wedi myned heibio pan grewyd y byd, a'r flwyddwn 1 o oed y byd sydd yn cyfateb i'r flwyddyn 706 o'r Yspaid Iuliaidd. Yn y gwaith hwn y mae blwyddyn y Diluw, sef 1657 o oed y byd yn cyfateb i'r flwyddyn o'r Yspaid Iuliaidd 2362; a blwyddyn genedigaeth Crist, sef y gyntaf o'r Cyfrif Cyffredin, yr hon oedd y 4009 o oed y byd, sydd yn cyfateb i'r flwyddyn 4714 o'r yspaid hwn. Ym mhellach, y flwyddyn o oed y byd 4034, pan ddechreuodd Crist ar ei weinidogaeth gyhoeddus, sydd yn cyfateb i'r flwyddyn 4739 o'r Yspaid Iuliaidd. Y flwyddyn o oed y byd 4038, pan groeshoeliwyd Crist, sydd yn cyfateb i'r flwyddyn 4743 o'r un yspaid. Yn olaf, y flwyddyn o oed y byd 4041, a 33 o'r Cyfrif Cyffredin o oed Crist, pan ddibenodd 70 wythnos Daniel, sydd yn cyfateb i'r fl. 4746 o'r Yspaid Iuliaidd. Y defnydd a wneir o'r yspaid dychymmygol hwn, yw cymharu gwaith amryw Amseryddion â'u gilydd, i weled eu cytundeb, neu, ynte, eu hamrywiaeth oddiwrth eu gilydd. Ond gan fod blynyddoedd oed y byd, a chyn geni Crist, a osodir i lawr yn ofalus yn y Taflenau Amseryddol yn y gwaith hwn yn llawn digon, ni wnaeth y cyfansoddwr ddefnydd o'r Yspaid Iuliaidd: ond os ewyllysia neb ag sydd gyfarwydd yn yr iaith Lladin i wybod mwy am yr yspaid hwn, edryched *Petavius Ration. Temp. Pars Secund. Lib.* 1.— Gwelir gwirionedd y sylwadau uchod trwy chwanegu oed y byd at 705, a'u cytundeb â Thaflenau Amseryddol *Prideaux* a *Bedford*, yn neilldnol yr olaf, yr hwn sydd yn dechreu yn y greadigaeth.

AMSERYDDIAETH YSGRYTHYROL.

Y MAE yr Amseryddiaeth canlynol yn cynnwys yspaid o 4106 mlynedd, sef 4008 o greadigaeth y byd hyd enedigaeth Crist yn ol y Cyfrif Cyffredin, a 98 mlynedd ar ol ei enedigaeth, pan orphenwyd ysgrifenu yr Ysgrythyrau Sanctaidd, fel y bernir, trwy waith Ioan yn ysgrifenu ei Efengyl ar ddeisyfiad Esgobion Asia, ddwy flynedd wedi iddo ysgrifenu llyfr y Datguddiad yn ynys Patmos. *Bedford's Chron. p.* 768.

Dosperthir yr yspaid hwn o amser yn Saith Rhan, fel y canlyn:—

	Blyn.
1. O'r Greadigaeth hyd ddiwedd y Diluw	1657
2. O'r Diluw hyd roddiad yr addewid i Abraham.....	426
3. O roddiad yr addewid hyd ymadawiad Israel o'r Aipht.....	430
4. O hyny hyd orpheniad Teml Solomon	487
5. O orpheniad y Deml hyd ei llosgiad gan Nebuchodonozor	421
6. O hyny hyd enedigaeth Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin	587
7. Oed Crist pan orphenwyd yr Ysgrythyrau Sanctaidd.....	98
	4106

Yn y Daflen ganlynol, er mwyn dangos cyssondeb y Taflenau Amseryddol yn y gwaith hwn â'u gilydd, rhoddir y flwyddyn gyntaf a'r olaf o oed y byd, ym mhob Dosparth, ar gyfer y blynyddoedd cyn geni Crist sydd yn cyfateb iddynt. Yn y Taflenau Amseryddol perthynol i'r chwe Dosparth cyntaf, wrth chwanegu blynyddoedd cyn geni Crist at flynyddoedd oed y byd sydd ar eu cyfer, y mae y swm ym mhob man yn 4009, yr hyn sydd un flwyddyn fwy na'r gwir amser o'r Greadigaeth hyd flwyddyn enedigol Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin: Eglurir hyn mewn Taflen o 20 mlynedd. Ond yn Nhaflenau y 7fed Dosparth, wrth dynu y blynyddoedd ar ol Crist o flynyddoedd oed y byd, y gweddill o hyd fydd 4008.

Taflen Eglurhaol o'r holl Daflenau.			
Dosparth 1. 1657	Oed y Byd 1 1657	yn cyfateb i 4008 2352	Cyn geni Crist.
Dosparth 2. 426	O. B. 1658 2083	yn cyfateb i 2351 1926	Cyn geni Crist.
Dosparth 3. 430	O. B. 2084 2513	yn cyfateb i 1925 1496	Cyn geni Crist.
Dosparth 4. 487	O. B. 2514 3000	yn cyfateb i 1495 1009	Cyn geni Crist.
Dosparth 5. 421	O. B. 3001 3421	yn cyfateb i 1008 588	Cyn geni Crist.
Dosparth 6. 587	3422 O. B. 4008	yn cyfateb i 587 1	Cyn geni Crist. Cyn geni Crist.
.....	4009	yn cyfateb i'r flwyddyn o'r Cyfrif Cyffredin o Oed Crist..... 1	
Dosparth 7. 98	4106	yn cyfateb i'r flwyddyn ar ol geni Crist..... 98	
4106	D. S. *Yr ail Daflen o'r Dosparth cyntaf, ynghyd â'r rhai a ganlyn, sydd yn cyfateb i'r Daflen hon.*		

Dangosir trwy y Daflen ganlynol fod 4009 mlynedd, sef y swm a geir wrth chwanegu blynyddoedd oed y byd at y blynyddoedd cyn geni Crist ar eu cyfer, yn fwy o un flwyddyn nâ'r gwir amser, er fod y blynyddoedd yn y ddwy rif res yn gywir. Y golofn gyntaf sydd yn cyfateb i golofn blynyddoedd oed y byd yn y Taflenau Amseryddol, a'r llall i golofn y blynyddoedd cyn geni Crist. Os chwanegir y flwyddyn gyntaf, neu yr olaf, neu unrhyw arall, yn un o'r colofnau hyn, at y flwyddyn ar ei chyfer yn y llall, bydd y swm yn 21, yr hyn sydd un flwyddyn yn ychwaneg nâ'r gwir amser. Yr achos o hyny yw, mai yr un flwyddyn sydd yn cael ei chyfrif ddwywaith. Ond wrth dynu y blynyddoedd ar ol geni Crist o flwyddyn oed y byd, y gweddill fydd 4008 mlynedd, sef yr yspaid rhwng creadigaeth y byd a'r flwyddyn ym mha un y ganwyd Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin. Megys siampl o hyn, y flwyddyn bresennol, 1815, yw 5823 o oed y byd, yn ol yr Amseryddiaeth hwn; wrth gymmeryd 1815 o 5823, y gweddill fydd 4008.

Oed y B.	*Cyn Cr.*
1	20
2	19
3	18
4	17
5	16
6	15
7	14
8	13
9	12
10	11
11	10
12	9
13	8
14	7
15	6
16	5
17	4
18	3
19	2
20	1

D. S. Gan fod yn angenrheidiol i gyssoni y Taflenau Amseryddol yn y gwaith hwn â'r Calendar Iuliaidd (*Julian Calendar*) y sydd arferedig yn ein plith ni, fel yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, dylid sylwi fod y blynyddoedd yn dechreu Ionawr 1af, a chan fod y byd

wedi cael ei greu (fel yr ydys yn barnu) oddeutu Cyhydedd Hydref, ymddengys fod yr yspaid rhwng y greadigaeth a genedigaeth Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin, sef 4008 mlynedd, yn fwy nâ'r gwir amser o ychydig mwy na hanner blwyddyn.

Er mwyn dangos y cytundeb sydd yn yr Amseryddiaeth hwn â rhai, a'r ychydig wahaniaeth oddiwrth ereill, o'r Amseryddion enwocaf a fu mewn unrhyw oes, rhoddir yma yr yspaid y maent yn barnu oedd o'r greadigaeth hyd flwyddyn enedigol Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin.

Playfair, a *Walker*	4008
Kennedy, *Bedford*, a *Ferguson*	4007
Usher, *Bishop Lloyd*, *Simpson*, *Spanheim*, *Calmet*, *Le Chais*, *Blair*, ac ereill	4004

Gwel Dr. *Hales' Chron. p.* 5.

Y DOSPARTH CYNTAF.

O Greadigaeth y Byd hyd ddivedd blwyddyn y Diluw, y cyfrifir o flynyddoedd, fel y gwelir yn y Daflen ganlynol. 1657

Taflen. 1. *o'r Dosparth Cyntaf.*

Y Patriarchiaid cyn y Diluw.	Eu hoed ar Enedigaeth eu Meibion.	Buont fyw wedi hyny.	Eu cyflawn oed.	Profiadau Ysgrythyrol.
Adda	130	800	930	*Gen.* v. 3——5.
Seth	105	807	912	..... 6——8.
Enos	90	815	905	..... 9—11.
Cenan	70	840	910	..... 12—14.
Mahalaleel	65	830	895	..... 15—17.
Jered	162	800	962	..... 18—20.
Enoch	65	300	365	..... 21—24.
Methuselah	187	782	969	..... 25—27.
Lamech	182	595	777	..... 28—31.
Noah—pan ddaeth y Diluw	600	—	—	Pen. vii. 6—11.
Blwyddyn y Diluw	1	—	—	..... 11. a'r viii. 13.
	1657			

Y PETHAU MWYAF HYNOD YN Y DOSPARTH CYNTAF, AC YCHYDIG O SYLWADAU ARNYNT.

PENNOD I.

Am y Greadigaeth.

Cynnwysir yr holl bethau a welodd yr Arglwydd yn dda i drosglwyddo i ni am y cynfyd a'r diluw yn yr 8 bennod gyntaf o Genesis.*

Y Duw Hollalluog, Tad, Mab, ac Yspryd, er ei fod er tragywyddoldeb yn gyflawn ddedwydd ynddo ac o hono ei hun, a welodd yn dda, yn unol â'i arfaeth dragywyddol, i gyfranu o'r cyflawnder oedd ynddo, i ryw filiynau maith o greaduriaid rhesymol a direswm, i greaduriaid byw, ac i rai heb fywyd ganddynt; er mwyn amlygu gogoniant ei allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni.—Y mae rhai wedi barnu fod Duw wedi bod ynghylch y gwaith o greu bydoedd ereill, er oesoedd maith cyn creu ein daear ni, a'r planedau sydd yn perthyn i'r hyn a elwir Cyfansawdd yr Haul *(Solar System)* ac nad yw yr hanes yn y bennod gyntaf o Genesis, ond hanes am greadigaeth y ddaear a'r cyrph nefol wybrenol sydd yn perthyn i'r Gyfansawdd hòno. *Bedford's Chron. p.* 118.—Ond ni feiddiaf gredu na dywedyd dim yn y mater hwn, am na ellir ei brofi allan o'r gair dwyfol. Y mae y manau canlynol o'r gair yn fy nhueddu i gredu mai yn yr un amser ag y creodd Duw y ddaear, y creodd efe hefyd yr holl gyrph nefol a welir, ynghyd â'r rhai hyny, o herwydd eu pellder, ni welir. *Gen.* 1. 1. a 2. 1, 4. *Exod.* 20. 11. A phan ddyfethir y ddaear, o herwydd drygioni ei thrigolion, y dyfethir yr holl gyrph nefol wybrenol sydd yn gweini iddi, yr hyn sydd yn profi mai yn yr un amser y crewyd hwynt a hithau. *Gen.* 1. 16, 17. *Mat.* 24. 29. *Dat.* 6. 13. *Mat.* 5. 18. *Dat.* 20. 11. *Esa.* 34. 4. Hwyrach y gall rhyw un ddadleu mai am ddymchweliad llywodraeth wladol ac eglwysig yr Iuddewon y mae Crist yn prophwydo yn *Mat.* 24. 29. ac mai am ddymchweliad yr Ymerodraeth Rufeinig Baganaidd, y mae Ioan yn rhag-ddywedyd, *Dat.* 6. 13. ac mai am ddinystr yr hen Fabilon y mae Esaiah yn dywedyd, *pen.* 34. 4. ac mai geiriau cyffelybiaethol a arferir; etto y mae yn rhaid cyfaddef mai cyffelybiaethau ydynt wedi eu benthycio oddiwrth y dinystr a ddaw yn y dydd olaf ar y ddaear a'i thrigolion, ynghyd â'r holl lu nefol sydd yn gweini iddynt.

II. Gwaith y greadigaeth, fel y ceir yr hanes yn *Gen.* i. oedd yn y drefn ganlynol:

1. Gwaith Duw y dydd cyntaf, oedd, fel y bernir, 1. Creu angelion, ynghyd â nefoedd y gogoniant, a elwir nef y nefoedd, 1 *Bren.* 8. 27. y drydedd nef, 2 *Cor.* 12. 2. paradwys, *Luc* 23. 43. *Mat.* 25. 34.——

* Gair Groeg yw Genesis (a roddodd y LXX. ar y llyfr hwn) yn arwyddo *cenedliad*, am ei fod yn cynnwys hanes am genedlaethau Adda, ac am greadigaeth y byd.

2: Creu o ddim sylwedd, neu ddefnydd, yr holl fyd gweledig, yr hwn a ddygodd Duw yn raddol i'r drefn ogoneddus ym mha un y gwelwyd ef ar ol iddo orphen ei waith arno.——3. Creu goleuni, cyn bod na haul, na lloer, na ser, y rhai ni chrewyd hyd y pedwerydd dydd. Nid ellir gosod creadigaeth angelion yn yr un o'r chwe diwrnod yn well nag yn y cyntaf. Cymhar. *Gen.* 1. 1. a 2. 1. â *Job* 38. 7.—Pa fath oleuni oedd hwnw cyn creu haul, y mae yn anhawdd dywedyd—ond yr ydym yn deall mai goleuni ydoedd, ag oedd yn goleuo yr hanner olaf o'r dydd cyntaf. Yr oedd y ddaear wedi derbyn gan y Creawdwr ei symudiad, neu gylchdro beunyddiol ar ei phegynau *(Poles of its Axis)* ac wedi rhoddi hanner tro dros 12 awr, pan ymddangosodd y goleuni yn y dwyrain, yr hwn a oleuodd dros y 12 awr olaf o'r dydd cyntaf. *Wollebius, Bedford.*

2. Yn yr ail ddydd y gwnaed ffurfafen y nefoedd, neu yr awyr y sydd wedi ei daenu oddi amgylch y ddaear i wahanu rhwng y dyfroedd wybrenol, sef y cymylau, a'r dyfroedd sydd yn y moroedd. O herwydd uchder yr wybren, fe all, am a wyddom ni, fod cymmaint o ddwfr yn y pledrenau bychain anweledig ag sydd yn nghrog ynddi, ag sydd o ddwfr yn y moroedd.

3. Y trydydd dydd y casglwyd y dyfroedd oedd ar hyd wyneb yr holl ddaear i'r lle a barotowyd iddynt, fel yr ymddangosodd y sychdir. Casgliad y dyfroedd a alwyd yn foroedd, a'r sychdir yn ddaear. Felly y mae ein byd ni yn belen gron yn gynnwysedig o ddwfr a thir—y dwfr oddeutu tair gwaith cymmaint a'r tir, ac er ei bod yn troi yn chwyrn yn ei chylchdro beunyddiol a blynyddol, nid yw na daear na dwfr yn chwalu i'r ëangder maith. Wedi i'r sychdir ymddangos, parodd yr Arglwydd i'r ddaear ddwyn pob rhywogaeth o lysiau yn hadu hâd, a'u hâd arnynt, a phob math o brenau at ddefnyddiau ac i ddwyn ffrwyth, a'u ffrwyth arnynt, cyn bod haul i gynhesu y ddaear: er mwyn rhyw lïaws mawr o greaduriaid oedd etto heb eu creu, yn neillduol y dyn, yr hwn oedd i fod yn Arglwydd ar y cwbl.

4. Ar y pedwerydd dydd y creodd Duw y goleuadau mawrion yn ffurfafen y nefoedd, sef yr haul a'r lleuad, ynghyd â'r planedau, a'r ser sefydlog. Y goleuni yr hwn a grewyd y dydd cyntaf, a roddwyd yn yr haul ar y dydd hwn, ynghyd â gwres, i gynhesu, i oleuo, ac i ffrwythloni y greadigaeth. Y lleuad hefyd a luniwyd yn belen gron o fater tywyll, ynddi ei hun, i amgylchu y ddaear bob mis, ac i oleuo y nos, gyda goleuni ad-lewyrchol oddiwrth yr haul. Y dydd hwn, tebygol, y dechreuodd y ddaear ar ei chylchdro blynyddol oddi amgylch yr haul, fel canol-bwynt *(centre)* gyd â'r planedau ereill sydd yn perthyn i Gyfansawdd yr Haul *(Solar System)*. *Ps.* 19. 1. a 8. 3, 4.

5. Ar y pummed dydd y parodd Duw i bysgod heigio yn y moroedd, ac yn yr holl ddyfroedd ereill, rhai o faintioli anferth ac arswydus; ac ereill mor fychain na welir mo honynt heb gymmorthwy *microscope*, yr

hwn sydd fath o ddrych i ddangoss pethau bychain yn fawr i'r llygad a edrycho trwyddo. Y mae mawredd a gallu Duw yn ymddangos, os yr un, yn fwy rhagorol yn nghyfansoddiad y rhai bychain nâ'r rhai mawr, wrth ystyried fod holl ranau corph byw yn perthyn iddynt. Y dydd hwn hefyd y crewyd pob math o ehediaid, ac adar asgellog.

6. Ar y chweched dydd y creodd yr Arglwydd bob math o anifeiliaid, a bwystfilod ac ymlusgiaid y ddaear, yn ol eu rhywogaethau. Wedi hyn, cawn y Drindod yn yr Undod, megys pe byddent yn ymgynghori wrth fyned ynghylch prif waith y greadigaeth, sef creu dyn, yr hwn a grewyd o ran ei gorph o bridd y ddaear, i ba un yr anadlodd Duw fywyd anianol, ac hefyd enaid rhesymol, anfarwol, a thragywyddol. Felly, wedi parotoi tŷ llawn o bob angenrheidiau a chysuron, dygwyd y preswylydd i mewn wedi ei lunio ar ddelw ei Greawdwr, mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a sancteiddrwydd, gyda dawn ymadrodd.—Y dydd hwn y dygwyd yr anifeiliaid, y bwystfilod, yr ehediaid, a'r ymlusgiaid, bob yn ddau at Adda i gael enwau, yr hyn oedd arwydd o'r wybodaeth a'r arglwyddiaeth a roddasai yr Arglwydd iddo arnynt. Adda, wedi sylwi fod pob creadur a'i gymhares ganddo, a welodd ei eisieu o ymgeledd gymhwys, ac nad oedd hi i'w chael ym mhlith yr holl greaduriaid a greasai Duw. Gan fod meddwl Adda yn hyn yn gydsain â meddwl ac amcan Duw, parodd i drwm-gwsg syrthio arno; a thra yr oedd yn cysgu, cymmerodd un o'i asenau (nesaf at ei galon, hwyrach) ac a gauodd y fan i fynu â chig, heb ddim poen iddo. A'r asen a luniodd Duw yn wraig, ac a'i dygodd at y dyn; hon oedd y briodas gyntaf, a thrwy hon yr ordeiniodd Duw yr ystâd briodasol, ac a hysbysodd i Adda ei harwyddocâd, fel y byddai iddo yntau hysbysu hyny i'w blant ar ei ol. *Gen.* 2. 23, 24. Yn ganlynol, bendigodd Duw Adda ac Efa, a rhoddodd orchymyn iddynt ffrwytho a llenwi y ddaear, ac arglwyddiaethu arni, a'r holl greaduriaid; ond gwaharddodd yn unig un pren a'i ffrwyth, i arwyddo iddynt fod Duw yn Arglwydd arnynt hwy, a bod ufudd-dod, addoliad, a gwasanaeth, yn ddyledus iddo oddi wrthynt. Dangosodd hefyd fod marwolaeth yn nglŷn wrth anufudd-dod.

Gellir sylwi, I. Fod yr Arglwydd yn ngwaith y greadigaeth, yn dyfod yn raddol â phethau mwy ardderchog a gogoneddus, y naill ar ol y llall, i'r golwg. Yn gyntaf, mater difywyd—gwedi hyn, mater â bywyd llysieuog ynddo *(vegetative life)*—yn ganlynol, mater â bywyd anianol ynddo *(animal life)*—ac yn olaf, mater (heblaw bywyd aniauol) â sylwedd ysprydol, rhesymol, ac anfarwol yn nglŷn wrtho.——2. Fod yr Arglwydd yn gwneuthur yn gyffelyb yn y greadigaeth ysprydol, sef yr ail enedigaeth, yn peri i oleuni lewyrchu i'r enaid—yn dwyn pob peth yn yr enaid i iawn drefn, ac yn dwyn y gwaith ym mlaen o ogoniant i ogoniant, hyd oni orpheno Duw ei waith, ac y dygo yr enaid grasol i orphwys gyd âg ef mewn gorphwysfa o foddlonrwydd yn y Sabboth tragywyddol.

7. Y mae yr Árglwydd yn neillduo ac yn cysegru y seithfed dydd at addoliad cyhoeddus, er lles i'r dyn, a'i hiliogaeth, holl ddyddiau y ddaear. Duw a roddodd y siampl a'r gorchymyn. Efe a orphwysodd, hyny yw, efe a beidiodd a gweithio, wedi gorphen gwaith y chwe diwrnod—gorphwysodd ei feddwl hefyd mewn boddlonrwydd, am iddo weled mai da iawn oedd yr hyn oll a wnaethai, ac nad oedd yn bossibl i wneuthur dim yn well nag a wnaethai.

8. a 9. Ar yr wythfed a'r nawfed dydd, bernir i'n rhïeni cyntaf ddilyn eu goruchwylion yn yr ardd, lle gosodai Duw hwynt.

10. Ar y degfed dydd y syrthiodd ein rhïeni cyntaf, yn ol barn rhai gwyr enwog,* ond nid wyf yn penderfynu fod eu barn yn gywir, nac i'r gwrthwyneb. Y sail sydd ganddynt am eu barn yw, fod gŵyl y cymmod yn cael ei chadw bob blwyddyn yn ol gorchymyn yr Arglwydd trwy Moses, ar y degfed dydd o'r seithfed mis, yr hwn oedd gynt yn fis cyntaf, cyn newid y flwyddyn ar yr ymadawiad o'r Aipht. Dydd oedd hwn i alaru, i ymostwng, i gystuddio eu heneidiau, ac i offrymu ebyrth tanllyd i'r Arglwydd, i wneuthur cymmod. Ar y dydd hwn yr oedd y Jubilee, pan ddeuai ar gylch bob 50 mlynedd, pan fyddai pawb yn dychwelyd i'w etifeddiaeth, os byddai wedi ei werthu gan neb; ac yr oedd rhyddhad a gollyngdod yn cael ei gyhoeddi trwy sain udgyrn, i'r tiroedd ac i'r caeth-weision o Israel, ar ddydd y Jubilee.† Gellir casglu yr achos o'r holl wyliau Iuddewig heblaw hon: ond yr achos o gadw hon nis gwyddom, os nad oedd yn goffadwriaeth am gwymp galarus dyn, a'r gobaith a roddwyd iddo yn yr un diwrnod, o waredigaeth trwy Grist, hâd y wraig. I ragddangos marwolaeth pa un, a'r cymmod oedd i gael trwy hyny, dysgodd yr Arglwydd i'n rhïeni cyntaf i aberthu anifeiliaid glân yn ebyrth dros bechod, ac i wisgo eu crwyn, megys arwydd o gyfiawnder Crist.

PENNOD II.

Am sefyllfa Paradwys, neu Ardd Eden.

Y MAE amryw wedi ysgrifenu llawer i geisio profi fod gardd Eden mewn amrywiol fanau; ond ni fyddai fuddiol i adrodd eu tybiau, gan nad yw yn debygol y gall neb gyrhaedd at sicrwydd mewn mater mor dywyll.—Cymmaint a ellir ei gasglu oddiwrth eu hysgrifeniadau, gan mwyaf, ydyw yr hyn a roddir, mewn byr eiriau, yn y gair (*Gen.* 2. 10—14.) Gwlad, tybygid, oedd Eden, hynod am ei hyfrydwch (fel y mae y gair yn arwyddo) a'i ffrwythlondeb; ac yn y fan mwyaf hyfryd o'r wlad hon yr oedd yr ardd, lle y gosododd Duw ein rhïeni cyntaf. Y

* Usher's Annals. Bedford's Chron. p. 16. & 122. † Lef. 23. 28—32. a 25. 8—13.

mae yn bur debygol mai y rhan ddeheuol o Mesopotamia oedd Eden, sef y wlad hòno oedd rhwng y ddwy afon, Hidecel neu Tigris, ac Euphrates, ynghyd â rhan o'r wlad ag oedd o'r tu dwyrain i'r afon Hidecel. Yn agos i'r fan lle gosodwyd ein rhïeni cyntaf, yr ydys yn barnu, fod Hidecel ac Euphrates yn myned yn un afon; ac ychydig o'r tu isaf i hyny, eu bod yn ymranu yn ddwy drachefn, ac yn cael enwau ereill, sef Pison a Gihon. Pison oedd y gangen orllewinol, a Gihon oedd y gangen ddwyreiniol. *Bedford's Chron.* 102, 103. Y mae Bedford yn dywedyd ei fod yn cytuno yn hyn â Chalfin, Bochart, ac ereill. Y mae sefyllfa gardd Eden yn y *mapiau* yn *Bedford's Chron.* o du y dwyrain i'r fan hòno, lle mae y pedair afon yn ymranu yn ddwy, sef Euphrates ac Hidecel tu ag i fynu, a dwy, sef Pison a Gihon, tu ag i waered tu a'r môr (sef gagendor Persia.)

I. Pison sydd yn tarddu oddiwrth air Hebräeg, yn arwyddo, *i daenu*, neu *ymledu;* gan fod yr afon hon yn ymdaenu dros lawer o'r wlad sydd yn terfynu ar gagendor Persia *(Persian Gulph)* o herwydd llanw y môr sydd yn dyfod i fynu iddi. Gwlad Hafilah, yr hon y mae yn amgylchu, oedd, fel y bernir, y rhan ogledd-ddwyreiniol o Arabia Ddedwydd; canys dywedir fod Hafilah yn un terfyn i wlad yr Ismaeliaid, a'r Amaleciaid; a Sur yn ymyl gwlad yr Aipht oedd y terfyn arall, (*Gen.* 25. 18. 1 *Sam.* 15. 7.) oddiwrth ba ddarluniad yr ymddengys mai Arabia Garegog oedd gwlad yr Ismaeliaid a'r Amaleciaid, ac mai y rhan ogleddol o Arabia Ddedwydd oedd gwlad Hafilah, un o feibion Joctan; ac yn terfynu arno yr oedd amryw o'i frodyr, yn neillduol Seba ac Ophir, y rhai a roddasant enw i ddwy wlad hynod am aur. *Gen.* 20. 28, 29. *Job* 22. 24. *Ps.* 72. 15. Yn y wlad yma yr oedd Bedelium hefyd, sef math o berl (neu *mother of pearl*) y rhai ydynt fath o feini gwerthfawr, a geir mewn cregyn y môr. Y maen Onix hefyd a gafwyd yma, yr hwn oedd faen gwerthfawr o liw 'sglodyn o garn anifail, yn llwyd-oleu. Y mae lluaws o dystion yn profi fod yr holl bethau hyn i'w cael yn Arabia Ddedwydd.

II. Wrth fyned tu a'r dwyrain oddiwrth Pison, deuir at Gihon (oddiwrth גיא *dyffryn*, a חון *hon*, *cyfoeth)* yr hon oedd yn amgylchu gwlad Cus, sef y rhan hyny a briodolir iddo, sydd o du y dwyrain i afon Tigris, a elwir yn bresennol Chuzestan, oddiwrth enw Cus.

III. Wedi croesi yr afon Gihon, ac esgyn i fynu heibio'r fan lle mae y pedair yn un, fe ddeuir at y drydedd afon, sef Hidecel, arwyddocâd pa air yw Tyger, yn Syriaeg ac Arabaeg. Rhoddwyd yr enw arni, o herwydd ei chyflymdra a'i hanrhaith. Am hyny galwyd hi gan y Rhufeiniaid, Tigris, yn ol ystyr y gair.

VI. Euphrates, oddiwrth air Hebräeg yn arwyddo i *ffrwythloni*, oedd mor hysbys i'r Iuddewon, fel nad yw Moses yn gweled dim achos i ddangos ei sefyllfa. Yr oedd gwlad helaeth rhwng yr afon hon a

Hidecel, a alwyd Padan-Aram, gwlad Aram, ym mha un yr oedd Haran, yr hon a alwyd hefyd Charran, a Carræ, gan y Rhufeiniaid. Yma y bu farw Terah, ac y sefydlodd Nachor, brawd Abraham, ac yr ymdeithiodd Jacob 20 mlynedd, yn ngwasanaeth Laban. Yr un wlad yw Padan-Aram a Mesopotamia, yr hon sydd yn arwyddo y wlad rhwng y ddwy afon.* Y mae yr afonydd hyn mewn treigl oesoedd, fel pob afonydd ereill, wedi cyfnewid llawer oddiwrth y darluniad a roddir o honynt gan Moses. Dr. *Hales, Vol.* I. *p.* 325. 326.

PENNOD III.

Am Cain ac Abel, a'r Patrieirch cyn y Diluw.

Nid yw yr hanes ysgrythyrol am y ddau frawd hyn ond byr; etto yn gymmaint ag a welodd yr Arglwydd yn angenrheidiol i drosglwyddo i ni. Y mae Josephus, yr hanesydd Iuddewig, ac ereill, wedi ysgrifenu llawer o bethau dychymmygol am danynt, na fyddai fuddiol i adrodd. Hwy oedd y ddau gyntaf o feibion Adda. Yr oedd chwiorydd iddynt, ond pa bryd y ganwyd hwy, neu pa beth oedd eu henwau, nid yw y gair yn hysbysu. Ganwyd Cain, fel y bernir, yn y flwyddyn o oed y byd 2, ac Abel yn y flwyddyn ganlynol. Tebygol fod Efa wedi meddwl ar enedigaeth Cain ei bod wedi cael cyflawniad o'r addewid am hâd y wraig, *Gen.* 3. 15. gan ei bod wedi rhoddi enw arno ag sydd yn arwyddo, *meddiant*, neu *gaffaeliad: Gen.* 4. 1. ond cyn geni Abel, hwyrach iddi gael argyhoeddiad o'i chamsyniad, gan iddi roddi enw arno ag sydd yn arwyddo *gwagedd. Gen.* 4. 2. Adda wedi cael ei greu ar ddelw Duw, ar ol ei gwymp, a genedlodd feibion ar ei ddelw ei hun. *Gen.* 5. 3. Yr ydys yn barnu ar sail dda, i'n rhïeni cyntaf gredu yr addewid, a thrwy hyny iddynt gael eu dwyn i'r cyfammod gras, a'u gwared oddiwrth holl effeithiau niweidiol y cwymp. Gwel *Gen.* 3. 15. Abel hefyd, trwy gredu yr addewid o Grist i ddyfod, a dderbyniodd ras, ac a waredwyd: *Heb.* 11. 4. ond Cain, heb gredu, a arosodd yn ei gyflwr naturiol, ac a ddangosodd trwy ei weithredoedd mai delw diafol oedd arno, yr hwn oedd leiddiad dyn o'r dechreuad. *Ioan* 8. 44. Dangosodd fod yr hwn a aned yn ol y cnawd yn erlid yr hwn a aned yn ol yr Yspryd. *Gal.* 4. 29.—Nid ellir bod yn sicr am y flwyddyn ym mha un y lladdodd Cain ei frawd Abel, ond gan ei fod yn beth megys newydd ddigwydd pan anwyd Seth yn y flwyddyn 130 o oed Adda, gosodir y weithred waedlyd hon yn y flwyddyn o'r blaen, sef 129 o oed Adda, a'r byd.

---

* Y mae y wlad hon oddeutu 50 milltir o led rhwng y ddwy afon mewn amryw fanau; ond rhwng Bagdat a Babilon nid yw y lled ond 25 milltir. *Gibbon's Hist.*

Cafodd Seth ei enw, am fod ei fam, trwy ffydd, yn gweled mai efe oedd yr hwn oedd wedi ei osod gan yr Arglwydd i fod yn gyff-cenedl i'r Messïah. Yr oedd wedi meddwl, hwyrach, mai Abel a fuasai hwnw, ond wedi ei golli ef yn ddiblant, fel y mae yn debygol, hi a gafodd olwg mwy cywir ar enedigaeth Seth, enw pa un sydd yn arwyddo *gosodiad*, neu *appwyntiad*.

Ar enedigaeth Enos, cafodd Seth, tybygid, olwg mwy cyflawn o drueni dyn syrthiedig, nag oedd ganddo o'r blaen, oddiwrth y llwgr ag yr oedd yn weled yn y byd, ac yn ei galon ei hun. Y mae Enos yn arwyddo *gwaeledd, trueni, afiechyd*, a *marwoldeb*. Yr ydys yn barnu fod diwygiad wedi cymmeryd lle yn yr eglwys oddeutu amser genedigaeth Enos. *Gen.* 4. 26. *Edwards' Hist. of Redemption.*

Y mae yn anhawdd pennodi gwir ystyr yr enw Cenan, gan y gall, am a wyddom ni, darddu oddiwrth un gair *Heb.* ag sydd yn arwyddo *meddiant*, neu oddiwrth un arall a arwydda *galar*, neu oddiwrth air arall a arwydda *nythu*.

Mahalaleel a gafodd ei enw, tybygid, gan ei fam pan oedd ei henaid ar ei enedigaeth mewn hwyl i foliannu yr Arglwydd. Y mae yr enw yn arwyddo *moliant Duw*, neu *moliannus* (yw) *Duw*. Ystyr yr enw Jered yw, *efe a lywodraetha;* ond ym mha olygiad i'w gymmeryd sydd anhysbys.

Enoch sydd yn arwyddo *cyssegriad:* nid yw yn annhebygol y gallai ei dad, pan anwyd ef, ei roddi, neu megys ei gysesgru i'r Arglwydd a'i wasanaeth. Yr oedd gan Cain fab o'r un enw, yr hwn a gyssegrodd efe, hwyrach, i eilun-addoliaeth, neu ryw gau-dduw. Am Enoch mab Jered, y mae y gair yn dywedyd iddo genedlu Methuselah, pan oedd yn 65 mlwydd oed; ac ar ol hyny iddo rodio gyda Duw, sef byw yn dduwiol 300 mlynedd. Yr oedd wedi rhodio gyda Duw o flaen genedigaeth ei fab, tebygol, gan iddo gael ei gyssegru i'r Arglwydd o'r groth. Wedi byw mewn gradd mwy o dduwioldeb, tybygid, na neb o'r cyn-ddiluwiaid, gwelodd yr Arglwydd yn dda ei drosglwyddo i'r nefoedd heb archwaethu marwolaeth, yn y flwyddyn o oed y byd 987, yr hyn oedd 57 mlynedd wedi marw Adda.

Methuselah, yr 8fed o Adda, a enwyd felly gan ei dad Enoch, yr hwn oedd y 7fed, mewn yspryd prophwydoliaeth. Ystyr yr enw yw, *efe yn marw* (Duw) *a ddenfyn;* hyny yw, y dyfroedd diluw, yn ol barn y rhan fwyaf o esponwyr. Hwyrach mai ar enedigaeth Methuselah y prophwydodd Enoch am ddinystr y byd annuwiol, yn gyntaf trwy ddwfr, yr hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn y bu farw Methuselah; ac yn ail trwy dân, yr hyn a gyflawnir yn ei amser priodol. Traddodwyd coffadwriaeth o'r brophwydoliaeth hon o oes i oes yn yr eglwys, ac nid, tybygid, trwy un llyfr ysgrifenedig, fel y mae rhai wedi dychymmygu. *Judas* 14, 15.

Lamech, y 9fed o Adda, a enwyd felly gan ei dad, gyda golygiad, tebygol, at y tlodi, y lleihad, a'r darfodedigaeth ag oedd i ddyfod trwy y diluw. Arwydda yr enw, *i dlodi*, neu *leihad*.

Noah, y 10fed o Adda, a enwyd felly gan ei dad Lamech, am ei fod yn cael ei gysuro gan yr Arglwydd yn ngwyneb y drygfyd yr oedd yn ragweled a ddeuai ar y byd trwy y diluw. Hysbysodd yr Arglwydd iddo y gwaredid ei fab Noah rhag cael ei ddifetha yn y dinystr hwnw, ac y byddai yn gyff-cenedl i genedlaethau y ddaear ar ol y diluw; ond yn neillduol, mai o hono ef y deuai y Messïah, yr hwn yw sylfaen pob gwir obaith a chysur i ddynolryw syrthiedig. Ystyr yr enw Noah yw *llonyddwch, gorphwysdra, cysur*.

Y mae rhai yn barod i betruso am hir oed y cyn-ddiluwiaid, ac i ofyn, Ai blynyddoedd o'r un hyd a blynyddoedd presennol oedd eu blynyddoedd hwy? I'r hyn y gellir ateb, nad oes dim ammheuaeth o hyny wedi bod ym mhlith y dysgedigion ag oedd fwyaf cymhwys i farnu yn y mater hwn.—1. Y mae blwyddyn, yn yr holl ysgrythyrau, yn arwyddo un cylchdro o'r haul oddi amgylch y ddaear* (fel y dywedir) neu ei ddychweliad at yr un pwngc yn y wybren, o ba un y cychwynodd; yr hyn, yn awr ni a wyddom, oddiwrth dystiolaeth astronomyddion cywrain, a wneir mewn 365 o ddyddiau, ac yn agos i 6 awr.—2. Ymddengys fod 5 o fisoedd cyn y diluw yn 150 o ddyddiau, yr hyn sydd yn dangos fod eu misoedd yn cynnwys 30 o ddyddiau. *Gen.* 7. 11, 24. a 8. 3, 4.—3. Y mae sôn am 12 o fisoedd yn y gair, a dim yn rhagor. *Esther* 3. 7. *Ezec.* 32. 1. Oddiwrth hyn yr ymddengys fod ganddynt flynyddoedd o 360 o ddyddiau o leiaf. Ond buan y buasai eu blynyddoedd yn myned allan o drefn, heb ychwanegu 5 diwrnod, ac yn agos i 6 awr; gan hyny y mae yn resymol i farnu eu bod yn gwneuthur hyny, gan fod ganddynt fantais neillduol oddiwrth eu hir oes, i wneuthur sylwadau astronomyddol i osod y flwyddyn mewn trefn.—4. Y mae byrhad graddol oes dyn ar ol y diluw hyd amser Moses, yn rhoddi boddlonrwydd i bawb a sylwo ar hyny, nad oes dim camsyniad yn yr hanes a roddir am oed y cyn-ddiluwiaid, a bod eu blynyddoedd o'r un hyd a'r blynyddoedd cyffredin.

PENNOD IV.

Am y Diluw, ac Arch Noah.

Gan fod y byd yn cynnyddu mewn annuwioldeb, hysbysodd yr Arglwydd ei feddwl i Enoch ar enedigaeth ei fab Methuselah, am ei fwriad o ddinystrio y genedlaeth ddrygionus hòno; ond pa un a gafodd efe ddatguddiad trwy ba foddion y dinystrid y byd, nid yw hysbys. Cafodd

---

* Annus שנה dicitur ab *Iteratione*: quod, sole ad punctum, unde digredi cæparet, redeunte, *iteratur*, et in se sua per vestigia semper volvatur, et *redeat*, *Buxt. Heb. Lex.*

Lamech, ar enedigaeth ei fab Noah, ddatguddiad o'r un peth, 187 mlynedd wedi hyny, a 600 mlynedd cyn y cyflawniad. Ym mhen 413 mlynedd wedi hyny, a 120 mlynedd o flaen y diluw, y cafodd Noah hysbysrwydd mwy amlwg o fwriad yr Arglwydd i ddinystrio yr holl genedlaeth annuwiol hòno, ynghyd â phob peth byw ar wyneb yr holl ddaear, oddieithr y rhai a gedwid yn yr arch, yr hon a gafodd Noah orchymyn i wneuthur, yn ol y mesurau a'r portreiad a roddasai yr Arglwydd o honi. Yr oedd y byd wedi ymhalogi o'r naill gwr i'r llall; gan hyny, dangosodd Duw, trwy y farn a ddygodd, ei fod fel pe buasai am ei lanhau am unwaith oddiwrth halogedigaeth ei breswylwyr, trwy ddyfroedd y diluw. Y mae llawer o feddyliau dychymmygol wedi bod gan rai gwyr dysgedig, am y moddion trwy ba rai y gorchuddiwyd y ddaear gan y diluw, y rhai ni fyddai fuddiol i'w hadrodd. I gael cymmaint o amgyffred ag, hwyrach, a ellir ei gael yn y mater hwn, ni raid ond sylwi ar yr hyn a wnaed yr ail a'r trydydd dydd o'r greadigaeth. Cyn hyny yr oedd y ddaear, tybygid, wedi ei gorchuddio â dwfr. Ar yr ail ddydd, gwnaeth Duw yr awyr, neu yr wybren ag sydd yn amgylchu y ddaear, ac a gyfododd ran o'r dyfroedd i fynu iddi i grogi mewn cymylau, ac mewn gronynau, neu bledrenau bychain anweledig. Ar y trydydd dydd, casglodd y rhan arall o'r dyfroedd i'r manau a elwir yn foroedd, ac a roddodd ddeddf iddynt, na ddychwelent i orchuddio y ddaear, ac i'r cymylau, na wlawient, ond yn ol ei orchymyn ef. Ond yn y diluw, tynodd ymaith y ddeddf hon, ynghyd â'i law attaliol a chynnaliol; ac nid oedd y ffurfafen mwyach yn gallu gwahanu rhwng y dyfroedd uchod a'r rhai isod; ond y dyfroedd a ddychwelasant i orchuddio y ddaear, fel yn y dechreuad cyn creu y ffurfafen, a dosparthu y dyfroedd i gymylau a moroedd. Ond yr oedd gan yr Arglwydd, tybygid, ddiben doeth yn dwyn dyfroedd diluw yn raddol, rhag iddynt, wrth ruthro yn ddisymmwth, ddryllio yr arch, a dinystrio yr hyn oedd ynddi; yr hyn a fuasai yn debygol o ddigwydd, pe buasai y dyfroedd uchod ac isod yn dylifo dros y byd mewn cyn lleied amser ag bu yr Arglwydd yn eu dosparthu yn y greadigaeth.

Cyn i'r diluw ddyfod, casglodd yr Arglwydd Methuselah, a'r holl dduwiolion oedd y pryd hyny ar y ddaear, i'r nefoedd trwy farwolaeth, ond Noah a'i deulu, y rhai a achubwyd yn yr arch. Diweddir y bennod hon trwy roddi ychydig hanes am yr arch, ei defnydd, a'i maintioli, a rhai pethau ereill perthynol iddi.

Ei defnydd oedd coed gopher, yr hwn, fel y mae dysgedigion yn gyffredin yn barnu, oedd y cypres-wydden, pren caled a pharhaus, ac yn aml gynt y'ngwastadedd Babilon, o ba un y gwnaeth Alexander Fawr lynges, ar ol iddo ddyfod i Babilon.—Yr oedd yr arch ar lun cist (fel y mae y gair Lladin *arca* yn arwyddo) a'i tho yn lled debyg i do tŷ, ond bod lled cufydd o wastad ar ei chrib. Os oedd mesur cufydd yn amser

Noah yn gyffelyb i gufydd y prif oesoedd, yr oedd ynghylch 21 modfedd.* Gan fod yr arch yn 300 cufydd o hŷd—yn 50 o led, ac yn 30 ei huchder—yn ol 21 modfedd i'r cufydd, yr oedd yr arch yn 175 o latheni ei hŷd; ac yn 29 llath a 6 modfedd ei lled; ac yn 17½ llath ei huchder. Pe buasai cufydd Noah ond 18 modfedd, buasai yr arch yn cynnwys 42,413 o dunelli. Nid yw y llongau rhyfel o'r maintioli mwyaf yn cynnwys ond o 2200 i 2300 o dunelli. Gan hyny, cynnwysai yr arch gymmaint a 18 o'r fath longau. Dr. *Hales' Chron. p.* 328. Yr oedd o dri uchder, sef yr oedd tri o loriau ynddi; a phob un o honynt wedi ei ranu yn gelloedd i'r amrywiol anifeiliaid a'r adar a gadwyd yn fyw gyda Noah a'i deulu. Yr oedd hefyd ddigon o bob math o ymborth angenrheidiol yn yr arch i deulu Noah, ac i'r holl greaduriaid, dros 370 o ddyddiau, tra buont ynddi. *Gen.* 7. 11. wedi ei gymharu â *Gen.* 8. 14. —Yr oedd wedi ei phygo â bitumen, math o byg (neu *pitch*) oddi mewn ac oddi allan. Dywedir bod llawer o bitumen gynt yn Babilonia, a'i fod yn tarddu allan o'r ddaear yn ffynonau, a'i fod yn caledu mewn dwfr. Byddent arferol o'i ddefnyddio yn lle morter mewn adeiladau, yn gystal ac i bygo llongau. Llosgent ef wedi iddo galedu yn lle tanwydd; ac yr oedd o arogl peraidd ac iachusol. Gan hyny, y mae yn eglur ei fod yn addas iawn oddi allan i gadw rhag y dwfr—ac oddi fewn i attal yr effeithiau niweidiol a allasent darddu oddiwrth ddrygsawr cynnifer o greaduriaid o bob math. Yn y llawr uchaf, yr ydys yn barnu fod amryw o dyllau i gau ac agor, er mwyn cael gwynt i'r creaduriaid oedd ar y llawr hwnw, ac oddiyno i'r holl gelloedd yn y lloriau ereill. Y mae yr hanes ysgrythyrol mor fyr am waith mor fawr, wedi ei lunio a'i drefnu gyda mwy na doethineb dynol, fel nad oes dim lle i ammeu, fod ynddo gynnifer o ranau ac o gyfleusderau o bob math ag a fuasai yn cymmeryd cryn lyfr i roddi darluniad manwl o honynt. Bu Noah 120 mlynedd yn adeiladu yr arch. *Gen.* 6. 3. *Heb.* 11. 7. 1 *Petr* 4. 20.

Gwnaeth y diluw lawer o gyfnewidiadau ar wyneb y ddaear, wrth i'r dyfroedd lenwi a threio; megys dynoethi mynyddoedd o lawer o ddaear, a pheri i fwy o greigiau ymddangos nag o'r blaen, bwrw clogwyni i'r gwastadedd—gwneuthur mwy o ynysoedd nag oedd o'r blaen; peri llawer o lynoedd mawrion a bychain, y rhai, er eu bod yn hallt ar y cyntaf, a groywasant mewn amser; dwyn cregyn ac esgyrn pysgod y môr, a'u claddu mewn dyfnder daear, ym mhob gwlad yn y byd; ac amryw o bethau ereill a ellid eu henwi, y rhai, ynghyd â'r hanesion Paganaidd, sydd yn cadarnhau tystiolaeth ddwyfol y gair am ddyfroedd y diluw.

---

* Bedford's Chron. p. 39. & 143.

Taflen 2. *o'r Dosparth Cyntaf, yn cynnwys y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant ynddo.*

O. y B.	Cyn Cr.	
1	4008	Y flwyddyn ym mha un y crewyd y byd. *Gen.* i.
2	4007	Yn y flwyddyn hon yr oedd Adda yn un mlwydd oed.
3	4006	Genir Cain, hwyrach, yn y flwyddyn hon. *Gen.* iv. 1.
4	4005	Genir Abel, tebygol, yn y flwyddyn hon.
129	3880	Y mae Cain yn lladd Abel oddeutu yr amser hwn.
130	3879	Genir Seth yn y flwyddyn hon. *Gen.* v. 3.
235	3774	Genir Enos. *Gen.* v. 6. Diwygiad, fel y bernir, yn yr eglwys. *Gen.* iv. 26.
325	3684	Genir Cenan mab Enos. *Gen.* v. 9.
395	3614	Genir Mahalaleel mab Cenan. *Gen.* v. 12.
460	3549	Genir Jered mab Mahalaleel. *Gen.* v. 15.
622	3387	Genir Enoch mab Jered, yr hwn, tybygid, yn ol ei enw, a gyssegrwyd i'r Arglwydd ar ei enedigaeth. *Gen.* v. 18.
687	3322	Genir Methuselah mab Enoch, ar enedigaeth pa un y mae ei dad yn prophwydo. *Gen.* v. 21. *Jud.* 14, 15.
874	3135	Genir Lamech mab Methuselah. *Gen.* v. 25.
930	3079	Y mae Adda yn marw. *Gen.* v. 4, 5.
987	3022	Symmudir Enoch. *Gen.* v. 22, 23, 24. *Heb.* xi. 5.
1042	2967	Y mae Seth yn marw. *Gen.* v. 7, 8.
1056	2953	Genir Noah mab Lamech. *Gen.* v. 28, 29.
1140	2869	Y mae Enos yn marw. *Gen.* v. 10, 11.
1235	2774	Y mae Cenan yn marw. *Gen.* v. 13, 14.
1290	2719	Y mae Mahalaleel yn marw. *Gen.* v. 16, 17.
1422	2587	Y mae Jered yn marw. *Gen.* v. 19, 20.
1536	2473	Y mae 120 mlynedd tra y darperid yr arch yn dechreu. *Gen.* vi. 3. 1 *Petr* iii. 20.
1556	2453	Genir Japheth mab hynaf Noah 100 mlynedd cyn y diluw. *Gen.* v. 32. a x. 21.
1559	2450	Genir Sem ail fab Noah 97 mlynedd cyn y diluw. *Gen.* xi. 10.
1562	2447	Genir Cam mab ieuengaf Noah, tybygid, oddeutu y flwyddyn hon. *Gen.* ix. 22. 24.
1651	2358	Y mae Lamech yn marw 5 mlynedd cyn y diluw. *Gen.* v. 30, 31.
1656	2353	Y mae Methuselah yn marw ychydig cyn y diluw. *Gen.* v. 26, 27.
1657	2352	Blwyddyn y diluw.

Am y patrieirch cyn y diluw, gellir sylwi ym mhellach i Noah y 10fed gael ei eni 126 ar ol marw Adda; ac i Methuselah fyw 243 mlynedd gyd âg Adda, ac yn agos i 600 mlynedd gyda Noah. Ar ol y diluw, bu Noah fyw o fewn dwy flynedd i enedigaeth Abraham, a 128 gyda Terah tad Abraham, yr hwn a fu fyw 75 mlynedd gyd â'i dad Terah. Felly y mae yn eglur y gallai Terah, Noah, a Methuselah, drosglwyddo gwybodaeth o bethau o ddechreuad y byd hyd amser Abraham, yr hwn

a ofalodd i ddysgu ei blant bob peth buddiol, a ddysgasai yntau gan ei hynafiaid; ond pa un ai trwy draddodiad yn unig, neu trwy ysgrifeniadau, y traddodwyd yr holl bethau yn y Bibl hyd amser Moses, ni ellir gwybod yn sicr; ond gan fod amryw o gelfyddydau ereill wedi cael eu dwyn allan cyn y diluw, nid yw yn annhebygol i'r gelfyddyd o ysgrifenu gael ei harfer cyn hyny, ïe, o'r dechreuad, fel y gellir casglu oddiwrth amryw ranau o'r gair. *Gen.* 5. 1.

YR AIL DDOSPARTH.

O'r Diluw hyd oni roddwyd yr Addewid i Abraham yn Ur y Caldeaid y cyfrifir 426 o flynyddoedd, fel y gwelir yn y Daflen ganlynol.

Taflen. 1. *o'r Ail Ddosparth.*

Enwau y Patriarchiaid.	Eu hoed pan anwyd eu meibion.	Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Oed y Patriarchiaid yn marw.	Profiadau Ysgrythyrol.
Sem a genedlodd Arphaxad ddwy flynedd wedi y Diluw.*	Y flwyddyn ar ol y Diluw. 2	1658 1659	2351 2350	600	*Gen.* xi. 10, 11.
Arphaxad	35	1694	2315	438	..... 12, 13.
Selah	30	1724	2285	433	..... 14, 15.
Heber	34	1758	2251	464	..... 16, 17.
Peleg	30	1788	2221	239	..... 18, 19.
Reu	32	1820	2189	239	..... 20, 21.
Serug	30	1850	2159	230	..... 22, 23.
Nachor	29	1879	2130	148	..... 24, 25.
Terah†	130	2009	2000	205	..... 26, 32. a Pen. xii. 4.
Abraham, pan gafodd yr addewid.	74	2083	1926		Pen. xii. 4. a xi. 31.
	426				

* Yr oedd Sem yn 100 mlwydd oed pan genedlodd Arphaxad, ond gan fod 97 o honynt cyn y diluw, ni ellir rhoddi yn y Daflen ond 2 flynedd o honynt.

† Gan fod Terah yn 205 pan fu farw yn Haran, ac Abraham yn 75 mlwydd ar ei ymadawiad o Haran yn fuan ar ol marwolaeth ei dad, fel y mae yn rhesymol i farnu, ymddengys fod Terah yn 130 mlwydd oed ar enedigaeth Abraham. Bernir gan yr Amseryddion goreu fod Abraham yn 74 mlwydd pan gafodd yr addewid yn Ur y Caldeaid. Yr oedd Abraham a'i holl deulu ar eu taith i fyned i wlad Canaan yn ol gorchymyn Duw. *Gen.* 11. 31. a 12. 1, 2, 3. Wedi dyfod i Haran, yr oedd rhai amgylchiadau yn gofyn iddynt i aros a thrigo yno dros ychydig amser, megys

Ychydig Sylwadau ar y pethau mwyaf hynod yn yr Ail Ddosparth.

PENNOD I.

Hebiaw yr hyn a ddywedwyd am ddyfroedd y diluw, gellir sylwi fod y dysgedigion yn barnu, ar sail dda, tybygaf, mai o'r moroedd yn y parthau deheuol a gorllewinol o'r byd, gan mwyaf, y daeth y dyfroedd, y rhai, ynghyd â'r gwlawogydd am 40 niwrnod, a gyfodasant yr arch, ac a'i dygasant yn ei rhedfa tu a'r dwyrain-ogledd, hyd oni ddanfonodd yr Arglwydd wynt *(Gen.* 8. 1.) i chwythu y dyfroedd yn eu hol i'w lle priodol; y rhai, wrth dreio, a ddygasant yr arch hyd oni orphwysodd ar un o fynyddoedd Ararat. Y sail am y dyb hon yw, 1. Am mai tir sydd, gan mwyaf, yn cyrhaedd yn uchel i fynu, os nad o hyd at begwn y gogledd; ac mai môr sydd, gan mwyaf, os nid o hyd, at begwn y dehau. Y mae y diweddar Gadben Cook, yn ei longwriaethau oddi amgylch y byd, wedi profi nad oes yr un cyfandir deheuol *(southern continent)* yn y moroedd maith tua phegwn y dehau. *Dr. Hales, p.* 348. Ac mae pob un sydd yn gwybod dim am ansawdd y byd daear-ddyfrog *(terraqueous globe)* yn gwybod fod y grym mwyaf o foroedd o lawer yn y parthau deheuol o'r byd. Gan hyny, pan " rwygwyd holl ffynhonau y dyfnder mawr," er fod moroedd y gogledd yn tywallt eu dyfroedd ar hyd y ddaear, etto gan eu bod yn hwy cyn cyrhaedd yr arch yn ngwledydd Babilonia, ac yn llai eu nerth nâ dyfroedd y moroedd mawr deheuol (sydd gyssylltiedig â gagendor Persia) a'r moroedd gorllewinol, sef y Canoldir a'r Atlantic, nid oes fawr ammheuaeth fod rhedfa yr arch tu a'r dwyrain-ogledd, a'i bod yn cychwyn o le oedd yn y dehau-orllewin i fynydd Ararat, yr hon, yn ol barn gyffredinol y dysgedigion, oedd un o wledydd Babilonia. 2. Y mae cyrch gogleddol yr arch, a rhediad cyffredinol dyfroedd y diluw tu a'r gogledd, yn brofedig oddiwrth fod gweddillion anifeiliaid, a phethau ereill perthynol i barthau deheuol y ddaear, a'r cylch gwresog *(torrid zone)* megys yr elephant, y rhinoceros, y crocodile, ac ereill, i'w cael yn y parthau gogleddol o'r byd, mewn amryw fanau, yr hyn nid allai ddigwydd oni bai fod rhediad y dyfroedd o'r dehau tu a'r gogledd.* *Dr. Hales, p.* 332, 333. *Bedford,* 772.

Barnwyd eisoes yn ol y tystiolaethau goreu a ellid eu cael, fod blwydd-

---

henaint ac aflechyd Terah, a genedigaeth rhai plant o'r gwragedd yn mintai Abraham. *Gen.* 12. 5. Ar ol i'r gwragedd gryfhau, a'r galar am Terah fyned heibio, prysurodd Abraham i fyned y'mlaen i wlad Canaan.

* Y mae digon o dystiolaethau credadwy yn profi fod elephantiaid, ac amryw greaduriaid o faintioli anferth, a'u crwyn a'u blew arnynt, wedi eu cael mewn clogwyni o rew, y rhai a ryddhawyd, ac a dafiwyd i'r làn yn y gwledydd sydd yn taro ar y môr rhewlyd gogleddol: tebygol iawn mai yn amser y diluw y dygwyd hwynt yno. *Dr. Hales.*

yn y cyn-ddiluwiaid yn dechreu oddeutu yr amser y mae yr haul yn dyfod at linyn Cyhydedd yr Hydref; yn ol hyny, yr oedd yr 17 dydd o'r ail mis pan aeth Noah i'r arch, yn cyfateb i'r 7fed o fis Tachwedd, yn ol y daflen ragflaenorol o'r flwyddyn Hebreaidd. Ac wrth ystyried nad oedd dim lluniaeth ar wyneb y ddaear i Noah a'i deulu, a'r holl anifeiliaid, pan ddaethant allan o'r arch, ymddengys oddiwrth hyny ei fod wedi darparu digon, nid yn unig tra byddent yn yr arch, ond wedi hyny hyd oni tharddai lluniaeth o'r ddaear.

PENNOD II.—*Ararat.*

Dywedir (*Gen.* 8. 4.) i'r arch orphwys ar fynyddoedd Ararat, sef ar un o honynt, y'mhen 150 o ddyddiau ar ol i Noah fyned i mewn iddi. *Gen.* 7. 11. O'r pryd hyn dechreuodd y dyfroedd dreio a dychwelyd yn ol i'r manau a osododd yr Arglwydd iddynt yn y greadigaeth; ond yn fwy graddol nag y codasant. Cododd y dyfroedd 15 cufydd uwchlaw y mynyddoedd uchaf, tybygid, mewn 40 niwrnod; arosasant yn eu grym cyn dechreu treio 110 niwrnod; bu Noah wedi hyn yn yr arch 220 o ddyddiau. *Gen.* 7. 17—20, 24. a 8. 3, 4, 14—19.

Y mae y dysgedigion yn unfryd yn cytuno, fod y gair Ararat, yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yn arwyddo y wlad a elwir Armenia, a bod mynyddoedd Ararat yr un peth a mynyddoedd Armenia. Yr Armenia fwyaf a feddylir, ym mha un y mae rhes neu gadwyn o fynyddoedd yn estyn o'r gorllewin tu a'r dwyrain, ond ar ba un o honynt y gorphwysodd yr arch, y mae llawer o ddadl anhawdd i'w benderfynu.

PENNOD III.

Y Bwa yn y Cwmwl, neu yr Enfys.

Rhoddodd yr Arglwydd y bwa yn y cwmwl yn arwydd o gyfammod dros oesoedd tragywyddol, sef, tra parhâai y ddaear, rhyngddo ef a Noah a phob peth byw, na ddyfethai efe y ddaear mwyach trwy ddyfroedd diluw.—Y mae rhai yn barnu nad oedd y fath beth ag enfys o flaen y diluw, gan fod yr Arglwydd wedi hyny yn ei wneuthur yn arwydd cyfammod. *Bedford.*—Ond y mae ereill yn barnu, gyda mwy o debygolrwydd, ei fod o ddechreuad y byd, gan nad oes un sail i feddwl fod dim cyfnewidiad parhaus yn yr un o ddeddfau natur a sefydlwyd yn y greadigaeth. Nid oedd yn arwydd cyfammod cyn hyny, ond wedi hyny, gosodwyd ef i arwyddo bod Duw mewn cymmod â'r byd yn Nghrist.* *Gen.* 9. 8—17. *Dat.* 4. 3.

---

* Quæ sunt naturalia iridi, ante diluvium quoque fuere, sed vis significandi et promissiones obsiguandi ex institutione divinâ illi super accessit. *Witsius*, De iride.

PENNOD IV.

Prophwydoliaeth Noah.

Y BROPHWYDOLIAETH hon, a'r achlysur a gafodd Noah i'w thraethu, a geir yn *Gen.* 9. 22—29.—Noah wedi dechreu bod yn llafurwr ar ol y diluw, i lafurio y ddaear yn unig am ymborth angenrheidiol iddo ef a'i deulu, ac wedi llwyddo, tebygol, i gael amlder o angenrheidiau bywyd; efe, fel y mae natur dyn mewn cyffelyb amgylchiadau, a feddyliodd am gysuron bywyd, ac a blanodd winllan, yr hyn a fu yn fagl iddo; canys efe a yfodd o'r gwin hyd oni feddwodd; ac wedi cysgu, collodd ei ddillad oddi am dano, fel yr ymddangosodd ei noethni, sef y rhanau hyny y mae gwylder yn eu cuddio. Y mae yr hanes mor fyr, fel y mae yn angenrheidiol i ni gasglu un peth, yr hyn ni adroddir, sef, fod Canaan, mab ieuengaf Cam, wedi gweled ei daid mewn ystum anweddaidd, ac wedi gwneuthur rhyw weithred, neu ddywedyd rhyw eiriau ammharchus, nad oedd addas i'w traddodi; (*Gen.* 9. 24.) ac iddo ddywedyd yn wawdlyd am Noah wrth ei dad Cam, yr hwn, yn lle ceryddu ei fab am ei fai, a unodd gyd âg ef, tebygol, yn ei wawd; ac yn lle cuddio noethni ei dad ar ol ei weled, a fynegodd yn wawdlyd i'w ddau frodyr, Sem a Japheth, yr hyn a welsai, ynghyd â'r hyn a wnaethai ei fab Canaan. Oni buasai fod Canaan yn euog o ryw fai anaddas i'w adrodd, y mae yn anhawdd deall paham y cyhoeddodd Noah felldith mor drom yn ei erbyn ef a'i hiliogaeth. O'r ochr arall, gweithred barchus Sem a Japheth a roddodd achlysur i Noah i gyhoeddi bendith iddynt hwy, ac i'w hiliogaeth. Er na sonir am enw Cam yn y felldith mwy nag am fai Canaan, etto yr ydys yn barnu, fod y felldith yn cynnwys Cam a'i hiliogaeth. Ar ol i Noah ddeffroi o'i win, a galaru am ei bechod; ac wedi dwys ystyried trosedd ei fab ieuengaf, sef ei ŵyr Canaan, ynghyd â'i dad Cam, meddyliodd mai nid ei le oedd i'w adael i fyned heibio yn ddigerydd, mwy na gweithred dda ei ddau fab hynaf heb ganmoliaeth. Ac hwyrach yn meddwl hyn, daeth Yspryd yr Arglwydd arno, fel y prophwydodd efe, fel amryw o'r Patriarchiaid cyn ac wedi hyny, yr hyn a ddigwyddai i'w feibion dros lawer o oesoedd a chenedlaethau, ïe, hyd y dyddiau presennol; gan fod y felldith ar hiliogaeth Cam a Chanaan yn para etto; a hi a bery, tebygol, hyd oni ddelont gyda chyflawnder y Cenedloedd i mewn i'r eglwys. Ac y mae bendith Sem a Japheth yn parhau etto, ac ni chaiff lawn gyflawniad hyd oni ddelo holl deuluoedd Japheth i drigo ym mhebyll Sem, sef hyd oni ddygir hwynt i mewn i eglwys Crist.

II. Diweddir y bennod hon trwy ddangos yn fyr pa fodd y cyflawnwyd y felldith a'r fendith a gynnwysir yn y brophwydoliaeth hon.—— Mewn perthynas i Cam, a'i fab Canaan, nid oes le i ammeu na chyrhaedd-

odd y felldith hwynt yn bersonol, er na wyddom, trwy hanesion credadwy, pa fodd; ond disgynodd yn fwyaf neillduol ar eu hiliogaeth, y rhai a ddarostyngwyd gan hiliogaeth Sem a Japheth. 1. Hiliogaeth Canaan a ddyfethwyd, neu, ynte, a ddarostyngwyd, gan feibion Israel, y rhai oeddynt o hil Sem. Ac wedi hyny y gweddillion o honynt a ddarostyngwyd gan yr Assyriaid a'r Caldeaid oedd o hil Sem, a chan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid y rhai oeddynt o hil Japheth. A pha le bynag y gwladychasant, megys Carthage yn Affrica, er iddynt lwyddo dros amser, etto yr oedd y felldith yn eu dilyn, ac yn eu goddiweddyd; canys llwyr ddinystriwyd Carthage fel dinas ac fel teyrnas gan y Rhufeiniaid, y rhai hefyd a'u darostyngasant yn yr holl fanau lle darfu iddynt wladychu. Yr oedd, tybygid, rhyw draddodiad y'mhlith y Carthaginiaid (y rhai, fel y gŵyr pawb, oeddynt haid o Phæniciaid o hil Canaan) o'r felldith a gyhoeddodd Noah yn erbyn hil Canaan. Hyn a barodd i Hannibal, un o'r rhai olaf o dywysogion y Carthaginiaid, pan oedd cyflwr ei wlad yn anobeithiol, waeddi allan, 'Yr wyf yn cydnabod tynged Carthage.'*——2. Y rhan arall o hiliogaeth Cam a ddarostyngwyd gan hil Sem a Japheth. Misraim y'nghyd â'i feibion a boblodd, nid yn unig yr Aipht, ond hefyd holl Affrica, gan mwyaf. Yr Aipht a orchfygwyd lawer o weithiau gan yr Assyriaid, y Caldeaid, a'r Persiaid, y rhai oedd o hil Sem; a chan y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a'r Tyrciaid, o hil Japheth. A pha le bynag y gwladychodd un rhan o hil Cam, dygwyd hi dan deyrnged i hil Sem, neu ynte Japheth. Hil Cam yw y bobl dduon sydd yn cyfanneddu yn Affrica; ac nid oes neb bron na ŵyr am y masnach sydd wedi bod dros amryw oesoedd trwy brynu a gwerthu y rhai hyn. Y cylch poeth o'r ddaear, gan mwyaf, a syrthiodd i ran Cam, yn gyfatebol i arwyddocad ei enw. Y mae y dysgedig Mr. Mede wedi sylwi, 'na bu erioed fab i Cam a ysgydwodd deyrnwialen uwch ben un o feibion Japheth. Sem a ddarostyngodd Japheth; a Japheth a ddarostyngodd Sem; ond ni orchfygodd Cam un o'r ddau.'*

III. Mewn perthynas i fendith Sem a Japheth, gellir sylwi, 1. Fod Noah yn bendithio yr Arglwydd am y gras a roddasai, yn neillduol i Sem. ——2. Trwy ei fod yn ei alw yn Arglwydd Dduw Sem, y mae yn dangos mai yn hyny y byddai rhagoriaeth Sem a'i hiliogaeth yn gynnwysedig, sef trwy gael yr Arglwydd yn Dduw iddynt mewn cyfammod y'Nghrist. Etifeddodd Abraham a'i hâd y fendith hon, yn enwedigol y rhai sydd blant ysprydol i Abraham, ac yn ganlynwyr ei ffydd ef. Ystyr y gair Sem yw *enw;* a'i enwogrwydd a'i ragoriaeth ef a'i deulu oedd eu duwioldeb, sef, cynnifer o honynt ag a rodiasant yn ei lwybrau ef.——3. Bendith Japheth oedd, y byddai i'r Arglwydd helaethu arno (yn ol arwydd-

---

* Bedford's Chron. p. 290, quoting Liv. lib. 27, in fine.

† Mede's Works, p. 358, as quoted by Bedford.

ocâd ei enw) a'i ddwyn i drigo y'mhebyll Sem. Y rhan gyntaf a gyflawnwyd yn lliosogrwydd ei hiliogaeth, ac ëangder eu preswylfëydd; canys cawsant y rhanau gogleddol o Asia, holl Ewrop, ac America. Ond y rhan oreu o fendith Japheth oedd, y byddai i'w hiliogaeth 'drigo ym mhebyll Sem,' sef cael eu gwneuthur yn gyfranog o'r breintiau yspryd-ol oedd wedi cael eu rhoddi i Sem, a'r duwiolion yn ei linach ef. Dechreuwyd cyflawni hyn yn fwyaf neillduol pan bregethwyd yr efengyl yn Asia Leiaf, a thrwy holl Ewrop, gan yr apostolion a'u dilynwyr. Hiliogaeth Japheth wedi dyfod i drigo y'mhebyll Sem, sydd yn y dyddiau presennol yn cael eu defnyddio i ymofyn am hiliogaeth Sem i ddyfod i breswylio yn eu pebyll eu hunain.—Ammhosibl yw penu yr amser pan ddigwyddodd yr aflwydd hyn i Noah, ac y cyhoeddodd y pethau hyn, gyda sicrwydd; er hyny, tebygol, mai nid yn fuan ar ol y diluw, gan fod i Cam bedwar o feibion, a Chanaan yr ieuengaf o honynt wedi tyfu i fynu i oedran gwr, fel y bernir, y pryd hwnw. Y mae Bedford wedi ei roddi yn y ganfed flwyddyn wedi y diluw,* ac felly y rhoddir ef yn y Daflen ganlynol.

PENNOD V.

Rhanu y Ddaear—Adeiladu Dinas a Thwr Babel—Cymmysgu yr Iaith yno—Nimrod.

Rhanwyd y ddaear yn yr amser y ganwyd Peleg mab Heber; am hynny y galwyd ei enw Peleg, sef *rhanu*. *Gen.* 10. 25. Ganwyd Peleg yn y flwyddyn 101 ar ol y diluw: rhanwyd y ddaear y pryd hyn gan Noah, tebygol, rhwng ei feibion a'u teuluoedd, yn rheolaidd trwy gynghor ac addysg yr Arglwydd; hwyrach, trwy goelbren, fel y gwnawd wedi hyny wrth ranu gwlad Canaan rhwng meibion Israel. Heb hyn ni fuasai neb, tybygid, yn foddlon i gymmeryd gwledydd oerion anffrwythlawn y gogledd, na'r gwledydd poethion. Bernir fod dau beth wedi rhoddi achlysur i'r rhaniad cyffredinol hwn o'r ddaear; 1. Yr oedd y wlad y'nghyffiniau mynyddoedd Ararat, wedi myned yn rhy gyfyng i deuluoedd Noah. 2. Yr oedd anghydfod wedi cyfodi yn eu plith o achos prophwydoliaeth Noah. Yr oedd Japheth, yr hynaf, yn anfoddlawn, tebygol, am fod Sem wedi cael ei osod o'i flaen; a Cham a'i deuluoedd wedi chwerwi, oblegid y felldith drom a gyhoeddwyd yn eu herbyn. Heblaw y pethau hyn, dylid ystyried amcan a bwriad Duw o bobli y ddaear a wnaeth efe i'r diben hyny. Gellir casglu oddiwrth hyn, nad eill fod fawr o gamsynied wrth osod prophwydoliaeth Noah, ynghyd

* Sylwed y darllenydd, na roddir i lawr yn yr Amseryddiaeth hwn ddim amserau ansicr heb hysbysu hyny, a'r lleill a brofir.

â'r amgylchiadau a arweiniodd ati, yn y flwyddyn 100 ar ol y diluw, sef y flwyddyn o flaen rhaniad y ddaear.

II. Yr hanes o'r canlyniadau a ddigwyddasant ar ol rhanu y ddaear, a geir yn *Gen.* 11. 1—9. Yr oedd y rhan fwyaf o deuluoedd Noah yn ymdaith o'r dwyrain tu a'r gorllewin, i gymmeryd meddiant o'r amrywiol ranau oedd wedi digwydd iddynt; ond wedi dyfod hyd wastadedd ëang a ffrwythlawn yn nhir Sinar, newidiasant eu bwriad, ac a feddyliasant adeiladu dinas i drigo ynddi, fel na wasgerid hwynt 'ar hyd wyneb yr holl ddaear;' a thŵr a'i nen hyd y nefoedd, i wneuthur iddynt 'enw,' oddiwrth fawredd eu gwaith, i drosglwyddo eu coffadwriaeth i oesoedd a chenedlaethau. Gwnawd adeiladau a gweithiau aruthr o faintioli i'r un diben mewn amryw oesoedd, megys Pyramidau yr Aipht, y Colossus yn Rhodes, &c. fel pe bai dyn yn deimladwy o'i farwoldeb, yn chwennych cael rhyw fath o anfarwoldeb trwy y gwaith y mae yn ei adael ar ei ol. Y mae rhai wedi barnu, mai eu diben yn gwneuthur y tŵr oedd i ddringo iddo rhag rhyw ddiluw arall a allai yr Arglwydd ddanfon i foddi y ddaear fel cynt. Ond pe hyny a fuasai eu diben, tebygol y buasent yn ei adeiladu ar ben mynydd, ac nid mewn gwastadedd. Y mae yn eglur eu bod yn hyn yn gwrthryfela yn erbyn yr Arglwydd, ac yn gwrthsefyll ei amcan o bobli y byd.

III. Pa hyd y trigasant yn ngwastadedd Sinar cyn dechreu adeiladu, a pha hyd y buant yn adeiladu cyn cael eu rhwystro trwy y gwyrthiau rhyfeddol a weithredodd yr Arglwydd trwy gymmysgu eu hiaith, anhawdd yw penderfynu gyda sicrwydd. Y mae Bedford, yn ol Amseryddion ereill, yn barnu mai 40 mlynedd oedd o'u dyfodiad cyntaf i wlad Sinar, hyd eu gwasgariad oddi yno, *p.* 280. Wedi bod rhyw yspaid o amser yn gweithio, dywedodd y Drindod yn yr Undod, 'Deuwch, disgynwn, a chymmysgwn yno eu hiaith, fel na ddeallont iaith eu gilydd.' A hyn a wnaeth yr Arglwydd mewn modd gwyrthiol a rhyfeddol. Gwnaeth iddynt anghofio yr un iaith ag oedd gyffredin yn y byd er y greadigaeth; ac yn ddisymmwth i lefaru cynnifer o ieithoedd ag oedd o deuluoedd, neu benau cenedl.—Y mae iaith ac ymadrodd oddiwrth yr Arglwydd, ac sydd briodol yn unig i ddyn o'i holl greaduriaid ef; ac efe a eglurodd ei allu yn eu cyfranu ar amrywiol achosion mewn gwahanol amgylchiadau. Rhoddodd allu i'n rhïeni cyntaf i hysbysu eu meddyliau i'w gilydd trwy eiriau llafar a dealladwy, a hyny yn ddisymmwth. Ganwyd eu plant hwy, fel plant pawb wedi hyny, yn fudion, ond â pheiriannau ymadrodd ganddynt *(organs of speech)* i ddysgu yn raddol gan eu rhïeni i ddatgan eu meddyliau mewn geiriau. Y mae rhai yn parhau yn fudion am fod rhyw ddiffyg neu attalfa yn y peiriannau ymadrodd. *Exod.* 4. 11. *Luc* 1. 20. Dangosodd Crist ei allu creadigol trwy wneuthur i'r mudion lefaru. *Mat.* 15. 31. Dangosodd Duw y gallasai, pe mynasai, roddi dawn ymadrodd i'r creaduriaid direswm, trwy wneuthur hyny unwaith i ger-

yddu ynfydrwydd y prophwyd Balaam. *Num.* 22. 27—30. 2 *Petr* 2. 16. Rhoddodd yr Arglwydd i'r apostolion ar ddydd y Pentecost, ac i amryw yn y brif eglwys, ddawn disymmwth a gwyrthiol i lefaru amryw ieithoedd dïeithr, er mwyn pregethu yr efengyl i'r Cenedloedd, ac i fod yn arwydd i'r digred; ond nid anghofiasant yr ieithoedd yr oeddent wedi ddysgu o'r blaen, fel y digwyddodd yn y tro rhyfedd hwnw yn Babel, yr hwn sydd air yn arwyddo cymmysgedd. Hwyrach i'r cyfnewidiad mawr hwn beri dychryn a syndod aruthr y'mhlith teuluoedd meibion Noah. Nis gallent lai na chydnabod llaw yr Arglwydd yn hyn; a chael eu plygu i roddi heibio eu gwaith, ac ufuddhau i'w drefn ef, i ymadael oddiwrth eu gilydd, i gymmeryd meddiant o'r rhanau hyny o'r ddaear a bennodwyd iddynt. A chan fod pob teulu oedd yn perthyn i'r penau cenedl a enwir, *Gen.* x. yn llefaru bob un iaith wahanol, yr oedd hyny yn cylymu pob teulu wrth eu gilydd rhag cymmysgu dros amser âg ereill.—Gan fod rhifedi y penau cenedl yn *Gen.* x. yn 72, trwy gyfrif tri mab Noah, oddiwrth hyn, tebygol, y tarddodd traddodiad mai 70 neu 72 oedd rhifedi ieithoedd Babel.* O'r ieithoedd hyn, yr ydys yn cytuno fod yr iaith Hebraeg yn un, yr hon a lefarwyd wedi hyny, yn ddiammeu, fel cynt gan Noah, Sem, a Heber, tad yr Hebreaid, yr hwn a drosglwyddodd ei enw gyd â'i iaith i'r genedl. Y mae tystiolaeth y gair yn dangos nad yw y traddodiad hwnw yn sefyll ar dyb disail. Y mae Moses (yn *Deut.* 32. 7, 8) yn adgoffa rhaniad y ddaear rhwng meibion Adda, sef teuluoedd Noah ar ol y diluw: 'Cofia y dyddiau gynt—pan gyfranodd y Goruchaf etifeddiaeth y Cenedloedd, pan neillduodd efe feibion Adda, y gosododd efe derfynau y bobloedd yn ol rhifedi meibion Israel.'—Deg a thriugain oedd rhifedi teulu Jacob y rhai a ddaethant i'r Aipht. *Gen.* 46. 27. Nid yw hyn, tebygol, heb ddirgelwch ynddo, sef bod teuluoedd y Cenedloedd o'r un rhifedi a meibion Jacob. Y mae yn arwyddo, tybygid, y byddai i'r lleiaf lyngcu i fynu y mwyaf—sef y byddai i deuluoedd y Cenedloedd gael eu himpio i mewn i deulu Israel trwy yr efengyl—a thrwy hyny gael meddyginiaeth i'r anghydfod a'r annhrefn a ddaeth, mewn rhai ystyriaethau, trwy y cymmysgedd yn Babel, trwy ddychwelyd yn ol (mewn ystyr ysprydol) i fod o un iaith, a hòno yn iaith Canaan. *Esa.* 19. 18. *Zeph.* 3. 9. Yr oedd dewisiad Crist o 12 apostol, a 70 disgybl, yn arwyddo, hwyrach, ei fod am ddwyn y Cenedloedd i mewn i lwythau a theuluoedd Israel; a hyn a gwblha efe yn ei amser da ei hun, yn ol tystiolaeth yr holl brophwydi.—Y mae yn ammhosibl (fel y dywedwyd) i benderfynu amser y gwasgariad o Babel gyda sicrwydd diammheuol; ond bernir y gallai fod oddeutu 141 mlynedd wedi y diluw, pan oedd Peleg yn 40 oed.†

---

* Bedford's Chron. p. 217. quoting Eutychii Annales, p. 52.——† Y mae llawer o dystiolaethau a ellid eu casglu o ysgrifeniadau y Cenedloedd, sydd yn profi fod traddodiad mewn amryw wledydd o'r pethau a ddigwyddasent yn Babel.

IV. Nimrod mab Cush oedd un o'r rhai cyntaf a dorodd dros ben y terfynau a sefydlwyd y'mhlith meibion Noah. 'Efe a ddechreuodd fod yn gadarn ar y ddaear,' (*Gen.* 10. 8.) trwy draws-feddiannu gwledydd nad oeddynt eiddo iddo. Sefydlodd deyrn-gadair ei freniniaeth yn Babel, ac a adeiladodd ddinasoedd ereill y'ngwlad Sinar, oedd, tebygol, yn perthyn, yn ol y sefydliad cyntaf, i Assur mab Sem, ynghyd â'i deuluoedd. Parodd gormes Nimrod i Assur gilio o'r wlad hono dros yr afon Tigris, lle yr adeiladodd Ninifeh, a dinasoedd ereill. *Gen.* 10. 11, 12. Y pryd hyn y sylfaenwyd, trwy adeiladu y dinasoedd hyn, deyrnas yr Assyriaid, yr hon a deyrnasodd dros lawer o oesoedd ar lawer o wledydd y dwyrain. Pa hyd y cadwodd Nimrod* a'i deulu eu traws-feddiant, nid yw yn hawdd dywedyd. Y mae yn lled sicr mai nid yn hir, am y ceir y Caldeaid mewn meddiant o wlad Sinar ychydig o oesoedd wedi hyn. Gelwir y Caldeaid yn Hebraeg dan yr enw Casdim, a bernir eu bod yn tarddu o Chesed mab Nachor brawd Abraham. *Gen.* 22. 20, 21, 22. Teulu Chesed, tybygid, a ragorodd ar ereill, mewn amldra, nerth, a mawredd, ac a roddodd enw i'r cwbl o deuluoedd y wlad, fel Ephraim i'r 10 llwyth. Yn wir nid yw yn annhebygol fod teulu Nimrod wedi colli yr oruchafiaeth cyn amser Abraham, gan fod ei deulu ef, gyd âg ereill o hiliogaeth Sem, tebygol, y'ngwlad Sinar, yn Ur y Caldeaid, pan alwyd Abraham. Pa fodd bynag, ymddengys fod y Caldeaid o deulu Sem, mewn meddiant o'r gwledydd hyn, ac o Babel y pen dinas, yn yr oesoedd canlynol. *Ezec.* 23. 23. Y mae yr hanesion cenedlig yn dra ansicr, a'r hanes ysgrythyrol mor fyr am yr amseroedd cynnar hyn, fel y mae yn rhaid cyfaddef na ŵyr neb ond ychydig am danynt.

PENNOD VI.

Gwasgariad y Cenedloedd, a'u Sefydliad yn eu hamryw iol Wledydd.

Wedi enwi penau cenedl meibion Noah (*Gen.* x.) y mae y gair yn dywedyd, *Gen.* 10. 32. 'Dyma deuluoedd meibion Noah, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu cenedloedd, ac o'r rhai hyn yr ymranodd y cenedloedd ar y ddaear wedi y diluw.' Y mae yn ddiammeu yn fater o gryn bwys i ddeall amryw ranau o'r Ysgrythyrau, i gael amgyffred cyffredinol o'r manau lle y sefydlodd y rhai hyny o honynt a grybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau. Enwyd y gwledydd, gan mwyaf, ar ol enwau y penau cenedl cyntaf (*Ps.* 49. 11.) ac y mae hyny wedi bod o gryn

* Ystyr yr enw Nimrod yw *gwrthryfelwr*. Gelwir ef dan yr enw Bacchus mewn ysgrifeniadau cenedlig, sef Bar Cus, mab Cus. Cyfrifwyd ef yn dduw, ac yn fab i Jupiter, yr hwn oedd Cam. Galwyd Bacchus gan y Groegiaid dan yr enw Zagreus, sef *heliwr*.

gynnorthwy i wyr dysgedig* a fu yn llafurio yn y maes hwn, i gael allan y gwledydd ym mha rai y sefydlodd y rhan fwyaf o honynt. Yn gyffredinol gellir sylwi fod Japheth wedi cael rhanau gogleddol Asia, ynghyd âg Ewrop, a'r ynysoedd perthynol iddi, y rhai a elwir 'Ynysoedd y môr,' *Esa.* 11. 11. ond y mae rhai yn cymmeryd 'Ynysoedd y môr,' mewn ystyr mwy helaeth, gan gynnwys yn yr enw y gwledydd yn y cyfandiroedd ar eu cyfer.—Cam a gafodd Affrica, a rhai o'r gwledydd oedd yn arwain iddi, megys Arabia Ddiffaith ac Arabia Garegog; ond trawsfeddiannodd ei deuluoedd ef amryw wledydd nad oeddynt yn perthyn iddynt; y'mhlith ereill, gwlad Canaan, yn ol barn rhai.† Sem a'i deuluoedd a gafodd y parthau dwyreiniol a deheuol o Asia.

I. Mab hynaf Japheth oedd Gomer, teuluoedd pa un a adawsant goffadwriaeth o enw eu pen cenedl ar amryw fanau a phobloedd yn eu treigliad, hyd oni chyrhaeddasant i'r parthau mwyaf gorllewinol o Ewrop. Enwau lleoedd a alwyd oddiwrth Gomer, fel y bernir, yw Cimmeris, dinas yn amser Pliny, yn Phrygia yn Asia Leiaf; Cimmerion, dinas a phenrhyn yn yr un wlad; Cimmerius Bosphorus, un o enwau y môr cul rhwng Asia leiaf a Chaer Cystenyn. Enwau pobl a darddasant o Gomer oedd y Cimerii, fel y bernir; cenedl a drigodd yn gyntaf yn y wlad fynyddig Albania yn Asia Fwyaf, wedi hyny yn Phrygia yn Asia Leiaf. *Heylin's Geog.* Wedi hyny, tybygid, i haid o honynt wladychu yn Albania, rhwng Macedonia a môr Adria. Daeth haid, tybygid, o'r un genedl i Ffraingc, y rhai, yn amser Julius Cæsar, a alwyd dan yr enw Cimbri. Haid o'r Cimbri, fel y bernir, a wladychasant yn gynnar yn Brydain, ac oddi wrthynt hwy y mae llawer wedi barnu y daeth ein cenedl ni, sef y Cymry. Gan fod cenedl Gomer wedi trigo yn gyntaf yn Albania, darfu i rai canghenau o honi, hwyrach, ddwyn enw eu gwlad gyntaf gyda hwy yn eu treigliadau tu a'r gorllewin. Oddiwrth hyn, hwyrach, y cafodd yr ynys hon yr enw Albion, a'r rhan ogleddol o honi yr enw Alban. Y mae y gair Albania yn arwyddo *gwyn*, oddiwrth yr eira oedd yn parhau yn hir ar benau mynyddoedd y wlad hono. Oddiwrth yr amgylchiad hyny y cafodd yr Alps, y mynyddoedd uchel sydd yn terfynu rhwng Ffraingc a'r Ital, eu henw.

Ascenas, mab hynaf Gomer, a sefydlodd yn Asia Leiaf, lle y gadawodd goffadwriaeth o'i enw yn y môr Euxin, fel y bernir; ac yr oedd yr enw Ascanius yn lled gyffredin gynt ar dywysogion yn y wlad hono, megys Ascanius mab Æneas o Gaer Droia, ac ereill. Y mae yr Iuddewon yn galw Germani yn wlad Ascenas, ac ereill yn barnu mai Togarmah

---

* Bochart, Mede, Wells, Heylin, ac amryw ereill, a ysgrifenasant ar sefydliad cyntaf y Cenedloedd. Gwel hefyd Ancient Univ. Hist.

† Os yw y dyb hono yn gywir, mai traws-feddiant oedd y wlad a alwyd ar enw Canaan a'i feibion, oddiar feibion Sem, yr oedd gan Israel hawl dau ddyblyg iddi, trwy y cyfraniad cyntaf, ac ail roddiad.

oedd tad yr Ellmyn, neu'r Germaniaid. Am Riphath ail fab Gomer, nid oes dim traddodiad sicr, mwy nag am rai ereill o feibion teuluoedd Noah.

II. Magog, ail fab Japheth, oedd tad y genedl liosog hòno a elwid gynt dan yr enw Scythiaid, fel y bernir yn gyffredin, o ba un y tarddodd y Tyrciaid a'r Tartariaid. Sefydlodd Magog gyd â'i frodyr Mesech a Thubal, *Ezec.* 38. 2. yn nes at y gogledd na Gomer a'i feibion. Ymledodd teuluoedd Magog ar hyd y rhanau gogleddol o Asia; ond nid oes coffadwriaeth sicr am ei enw mewn un wlad. Ei frawd Mesech, yn ol barn amryw, a adawodd goffadwriaeth am ei enw yn y wlad ogleddol helaeth hòno, Moscovia, neu Rwssia yn Ewrop, prif ddinas pa un oedd Moscow, ond yn awr Petersburgh. Hiliogaeth y tri brawd hyn, gan mwyaf, a fu yn fflangell i'r rhanau deheuol o Asia ac Ewrop mewn amryw oesoedd. A hwynt-hwy a gyflawnant, hwyrach, brophwydoliaeth Ezeciel, *pen.* xxxviii, xxxix. a *Dat.* 20. 8, 9. yn y dyddiau diweddaf, ar ol cyflawni y mil blynyddoedd.

III. Madai, trydydd mab Japheth, oedd tad y Mediaid; ac yn wir mae genym y sail oreu i farnu hyny, gan mai Madai yw yr enw ar ba un y gelwir y Mediaid ym mhob man lle sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau Hebraeg. *Heylin.* Haid oddiwrth Madai oedd y Macedoniaid a'r hen Sarmatiaid, y rhai a boblasant Poland.*

IV. Jafan, pedwerydd mab Japheth, oedd tad y Groegiaid. Y mae coffadwriaeth o'i enw yn Iones neu Iaones, un o'r enwau hynaf ar y Groegiaid; ac Ionia, gwlad yn Asia Leiaf. Jafan, neu yn hytrach Iafan, yw y gair Hebraeg am Groeg a Groegiaid ym mhob man lle darllenir am danynt yn yr Hen Destament.

V. Tiras yw yr olaf o feibion Japheth. Oddiwrth Tiras y tarddodd y Thrasiaid yn Ewrop, a Troas yn Asia Leiaf, Caer Droia, a'i thrigolion. *Bedford.*

VI. Mab hynaf Iafan oedd Elisa. Gadawodd goffadwriaeth o'i enw yn Elis, yn Peloponesus, neu 'r Morea. Tebygol mai ynysoedd Elisa oedd enw cyffredinol ar yr holl ynysoedd yn y moroedd sydd yn taraw ar dir Groeg, ynghyd â Pheloponesus, ag sydd bron yn ynys. *Ezec.* 27. 7. Yr oedd rhai o'r ynysoedd hyn yn enwog am borphor, yr hwn a gaed o sug rhyw fath o bysgodyn crogenog. *Heylin.*

VII. Tarsis oedd ail fab Iafan, yr hwn yr ydys yn barnu a sefydlodd yn Cilicia, gwlad yn Asia Leiaf, lle yr adeiladwyd wedi hyny ddinas a alwyd Tarsus, lle ganwyd Paul yr apostol. Galwyd Cilicia gynt dan yr enw Tarsis, medd Josephus. Yma y ffôdd Jonah.

VIII. Trydydd mab Iafan oedd Cittim. Sefydlodd yn ynys Cyprus,† ar gyfer ei frawd Tarsis, a rhai o'i deuluoedd a wladychasant yn Caria,

---

* Y mae Bochart yn barnu fod yr enw Sarmatiaid yn arwyddo gweddill, neu hiliogaeth Madai.

† Galwyd Cyprus gynt Cetima. *Josephus.*

Lycia, a rhan o Pamphylia. Wedi cyfyngu arnynt yn y gwledydd hyny, aeth haid o honynt ac a sefydlodd yn ymyl teuluoedd Madai, oedd o'u blaen yn y rhanau gogleddol o dir Groeg. O deuluoedd Madai a Cittim, wedi ymuno, y daeth y Macedoniaid. Rhan arall o hil Cittim a boblasant y rhan hyny o'r Ital sydd ar gyfer Macedonia; o honynt hwy y tarddodd cenedl enwog y Rhufeiniaid. *Num.* 24. 24. *Dan.* 11. 30. Bernir mai y Rhufeiniaid a feddylir yn y ddau le hyn. Un o enwau y Lladinwyr oedd Cetteii. *Newton on the Proph. Vol. I. p.* 154. *Prideaux, Conn. Ann.* 164.

IX. Dodanim, pedwerydd mab Iafan, a sefydlodd, fel y bernir, yn yr ynys Rhodes, yn Môr y Canoldir.

X. Meibion Cam oedd Cus, Misraim, Phut, a Chanaan. *Gen.* 10. 16. Cus a'i feibion a sefydlasant yn Arabia Ddiffaith, Arabia Garegog, a'r rhan ogleddol o Arabia Ddedwydd, ar hyd làn y Môr Coch, yr hwn y darfu rhai o deuluoedd Cus groesi i wladychu yn Affrica, yn y wlad a alwyd wedi hyny Ethiopia. Y mae y ddwy wlad, sef yr un ag oedd ar yr ochr ddwyreiniol o'r Môr Coch yn Asia, a'r llall oedd ar yr ochr orllewinol yn Affrica, yn cael eu galw dan yr enw Cus, yn yr Ysgrythyrau. Yr oedd Zerah yr Ethiopiad a'i lu yn dyfod o Arabia (2 *Cron.* 14. 9.) gan fod rhai o'i ddinasoedd o amgylch Gerar yn terfynu ar ddeheubarth gwlad Canaan. Ond Tirhacah brenin Ethiopia, a sonir am dano yn 2 *Bren.* 19. 9. oedd frenin ar Ethiopia yn Affrica. *Prideaux, Ann.* 710. Gwlad Cus, tybygid, oedd yr enw cyntaf ar y rhan fwyaf o'r tair Arabia, a'r enw hwnw a safodd arnynt, er i amryw o genedloedd ereill, megys Midian, Ismael, ac Amalec, &c. wladychu yno. Yr oedd pob un o'r cenedloedd hyny yn cael eu galw weithiau dan yr enw Cus, am eu bod yn byw yn ei wlad ef, ac, hwyrach, wedi cymmysgu mwy neu lai â'i deuluoedd. Y mae Cus wedi gadael ei enw ar un dalaeth sydd mor bell oddiwrth ei randir yn Arabia, fel y mae amryw wedi barnu mai trawsfeddiant ydoedd, a hòno yw Chusestan, neu Susiana yn rhandir Elam mab Sem, a alwyd wedi hyny, ac etto, dan yr enw Persia.

XI. Misraim, ail fab Cam, a gafodd yr Aipht i'w ran, a gelwir hi yn gyffredin yn yr Ysgrythyrau Hebraeg wrth ei enw ef, a chan yr Arabiaid hyd heddyw. Gelwir yr Aipht yn wlad Ham* (yr hwn oedd yr un a Cam) am iddo, fel y bernir, breswylio a theyrnasu yno yn gyntaf, a throsglwyddo y freniniaeth i Misraim. *Ps.* 105. 27. a 106. 22.

XII. Phut, trydydd mab Cam, a sefydlodd hefyd yn Affrica, tu a'r gorllewin, ar hyd glàn Môr y Canoldir, tu a'r môr cyfyng ar gyfer Gibraltar, ac ar hyd yr afon Niger i Cape Verd ar y Mor Werydd, neu yr Atlantic. Yr oedd gynt yn amser Ptolemy, y Daear-ddarlunydd, afon

* Yr un gair *Heb.* sydd am Cam a Ham, sef חם yr hwn a swnir Cam gan rai, gan ereill Ham; a'r achos o'r gwahaniaeth yw, am fod dadl ynghylch gwir sain y llythyren ח *cheth*, neu *heth*. Gan rai y mae yn *h*, gan ereill yn *ch*.

yn Mauritania yn Affrica, a'i henw Phut; ac mae Josephus yn sôn am wlad Phut, a chenedl a alwyd Phutiaid, yn agos i'r afon hòno. Y mae Jerome yn dywedyd fod gwlad Phut yn y rhan hyny o Affrica, a alwyd gynt Mauritania, yn ol tystiolaeth hen ysgrifenwyr Groegaidd a Rhufeinaidd. *Heylin, Bedford.* Yr oedd Mauritania gynt yn cynnwys y gwledydd a elwir yn bresennol, Morocco, Algiers, a Thunis. Bernir fod Affrica wedi cael ei rhanu yn lled wastad rhwng Misraim a Phut; canys yr Aipht, a rhanau ereill cyn belled a'r llyn mawr Trilonides,* sydd yn rhanu Affrica yn agos i ddwy ran union, a syrthiodd i ran Misraim. A'r rhan arall tu hwnt i'r llyn hwnw at y Môr Werydd *(Atlantic)* i Phut. *Bedford.*

XII. Meibion Misraim oedd chwech, sef Ludim, Ánamim, Lehabim, Naphtuhim, Pathrusim, a Casluhim. Y mae yr enwau hyn yn y rhif lïosog, yn arwyddo, tybygid, y cenedloedd a ddaeth o feibion Misraim; gan hyny, tebygol, mai rhif unigol y geiriau oedd enwau ei feibion, sef, Lud, Anam, Lehab, &c. Felly, pan ddywedir i Canaan genedlu y Jebusiad, yr Amoriad, a'r Girgasiad, &c. yr ystyr yw, iddo genedlu tadau yr amrywiol genedloedd hyny, sef Jebus, Amor, Girgas, &c. Y mae Lud, tad y Ludim, yn cael ei enwi yn ol ei enw priodol. *Ezec.* 30. 5. *Bibl Hebraeg.*

1. Preswylfa y Ludim oedd yn Ethiopia yn Affrica, fel y mae Bochart yn profi trwy ddeg o resymau. *Bedford.* Cyssylltir hwy â chenedloedd ereill yn Affrica, ag oedd arferol o ymladd ym myddinoedd breninoedd yr Aipht, sef Cus a Phut, y rhai a gyfieithir yr Ethiopiaid a'r Libiaid. *Jer.* 46. 9.

2. Ail fab Misraim oedd Anam, tad yr Anamim. Y mae Anam yn iaith yr Aiphtiaid a'r Arabiaid yn arwyddo *defaid.* Dywedir mai oddiwrth Anamim y daeth Nomades, neu fugeiliaid defaid ag oedd gynt yn yr Aipht, oddeutu Ammon a Nasmonitis yn Lybia, lle yr oedd teml ac oracl Jupiter Ammon.

3. Trydydd mab Misraim, Lehab, oedd tad y Lehabim. Y mae y gair Hebraeg yn arwyddo fflam, neu wres mawr. Nid oes neb yn ammeu nad Lybia oedd gwlad y Lehabim, gwlad boeth iawn yn ol arwyddocâd yr enw.

4. O bedwerydd mab Misraim y daeth Naphtuhim. Dywedir iddynt breswylio yn Cyrenaica, neu yn Marmarica, gwledydd yn Affrica yn agos i'r Aipht, o du y gorllewin. Bernir i'r duw cenedlig Neptune, yr hwn a gyfrifwyd yn dduw y môr, gael ei enw a'i darddiad oddiwrth Naphtuhim. *Bedford.*

5. O bummed mab Misraim y daeth Pathrusim. Y mae coffadwr-

---

* Nid wyf yn cael un llyn o'r enw yn y *mapiau*, ac nis gwn pa un ydyw. Hwyrach mai llyn Borneo, a wneir gan yr afon Niger, a feddylir.

iaeth am enw y rhai hyn yn Pathros, gwlad yn yr Aipht Uchaf, neu Thebais, lle yr ydys yn barnu iddynt sefydlu. *Jer.* 44. 1.

6. Yr olaf o feibion Misraim oedd hwnw, o ba un y daeth y Casluhim. Bernir iddynt sefydlu yn y rhan hyny o wlad yr Aipht oedd nesaf at Canaan, a alwyd gynt Casiotis, lle yr oedd mynydd Casius. O'r Casluhim y daeth y ddwy genedl hyny, sef Philistim a Caphtorim, neu y Philistiaid a'r Caphtoriaid. Y Philistiaid, gan ba rai yr oedd pum tywysog, a sefydlasant yn ngwlad Canaan, ar hyd glàn Môr y Canoldir. A'r Caphtoriaid a ddifethasant yr Afiaid oedd yn trigo yn Hazerim hyd Azza (Gaza) ac a drigasant yn eu lle hwynt. *Deut.* 2. 23.

XIV. Canaan, pedwerydd mab Cam, a'r olaf a enwir, a genedlodd un-ar-ddeg o feibion. *Gen.* 10. 15—18. Sefydlodd y chwech cyntaf o honynt, tybygid, o fewn y terfynau a roddwyd wedi hyny i feibion Israel; sef Sidon, Heth, y Jebusiad, yr Amoriad, y Girgasiad, a'r Hefiad. *Gen.* 10. 19. Ymwasgarodd y lleill dros y terfynau hyny; *Gen.* 10. 18. o ba rai, ceir fod tri, sef yr Hamathiad, yr Arfadiad, a'r Arciad, wedi sefydlu yn y gogledd i wlad Canaan, sef Hamath tua Damascus; ac Arfad mewn ynys fechan yn y môr, a alwyd Aradus, yn agos at geg yr afon Eleutherus yn Syria, ac yn y cyfandir ar gyfer yr ynys, yr hwn a alwyd Antaradus. Hwyrach mai yr un yw Arfad ac Arpad. *Esa.* 37. 13. Yr Arciad, tybygid, a sefydlodd yn agos i'w frodyr yn Cælo-Syria, lle yr oedd dinas gynt, a alwyd Archa, rhwng Damascus a Môr y Canoldir. Sefydlodd y Siniad, tebygol, yn y dehau, yn agos i'r ddyfodfa i wlad yr Aipht, tu a'r fan lle yr adeiladwyd Pelusium, yr hon yn Hebraeg yw Sin. Y mae yn anhysbys pa le sefydlodd y Semariad. Y mae rhai yn barnu y gall fod coffadwriaeth o'r enw yn Semarim, dinas yn rhandir llwyth Benjamin. *Jos.* 18. 22. O'r chwech cyntaf, yr oedd pump wedi eu diofrydu i ddinystr, sef,

1. Yr Hethiad, yr hwn oedd yn preswylio oddeutu Hebron a Beerseba, yn neheubarth Canaan. *Gen.* 23. 2, 3.

2. Y Jebusiad oedd yn cyfanneddu oddi amgylch y fan lle yr adeiladwyd Jerusalem wedi hyny. 2 *Sam.* 5. 6.

3. Yr Amoriad oedd yn meddiannu mynydd-dir Judea. *Num.* 13. 29. Rhai o'r Amoriaid a aethant dros yr Iorddonen, ac a ryfelasant yn erbyn y Moabiaid a'r Ammoniaid, ac a feddiannasant yr holl wlad rhwng afonydd Jabboc ac Arnon, lle teyrnasodd wedi hyny Sehon brenin yr Amoriaid. *Jos.* 12. 2. *Deut.* 2. 24. Gan fod yr Amoriaid yn gadarnach, a hwyrach yn lliosocach nag un o genedloedd Canaan, y maent weithiau yn cael eu rhoddi fel enw cyffredinol am y cwbl o honynt. *Gen.* 15. 16. a 48. 22. *Jos.* 10. 12.

4. Y Girgasiad, o ba un yr oedd rhyw weddill yn amser ein Hiachawdwr, yn Gerasa a Gadara, tu hwnt i'r Iorddonen, yn ymyl llyn Genesareth, y rhai a alwyd Gergesiaid. *Mat.* 8. 28.

5. Yr Hefiad, wrth fynydd Hermon, yn y dwyrain i wlad Canaan (*Jos.* 11. 3.) O herwydd sefyllfa y genedl hon, gelwir hwynt weithiau Cadmoniaid, sef *dwyreiniaid.* Haid o'r Hefiaid oedd y Gibeoniaid a'r Sichemiaid, y rhai oedd yn preswylio yn y dehau-orllewin o fynydd Hermon, mewn rhan o'r wlad a syrthiodd i lwyth Benjamin a llwyth Ephraim. *Fuller's Pisgah View. Bedford.*

Sonir am ddwy genedl ereill heblaw y pump hyn *(Deut.* 7. 1.) sef y Phereziaid a'r Canaaneaid o hil Canaan; gelwir y Phereziaid felly am eu bod yn trigo mewn pentrefydd (*villages),* ac nid mewn trefydd caerog, fel y cyffredinolrwydd o'r pump cenedl ereill; bugeiliaid oeddynt, gan mwyaf, ac o herwydd hyny, tybygid, yn cyfyngu ar Lot ac Abraham, *Gen.* 13. 7. yn neheubarth gwlad Canaan. Y Canaaneaid oedd bobl gymmysg o hiliogaeth Canaan, wedi ymgasglu at eu gilydd o'r amrywiol lwythau ereill, a sefydlu mewn dinasoedd ar làn Môr y Canoldir, yn y dehau, yn agos i derfyn yr Amaleciaid, er mwyn masnachaeth ar y môr, fel y bernir, gan mai ystyr y gair Canaan yw *masnachwr. Num.* 14. 25. *Bedford.*

XV. 1. Mab hynaf Sem oedd Elam, yr hwn a sefydlodd yn y wlad hono a alwyd ar ol ei enw, ac wedi hyny Persia.

2. Ail fab Sem oedd Assur, yr hwn wedi cael ei yru o wlad Sinar gan Nimrod, a sefydlodd o du y dwyrain i'r afon Tigris neu Hidecel, ac a adeiladodd Ninifeh, a dinasoedd ereill yno. Efe, neu ei feibion, a sylfaenodd Ymerodraeth fawr Assyria, yr hon, dros lawer o oesoedd, a fu y benaf yn y dwyrain.

3. Arphaxad oedd trydydd mab Sem. Bernir ei fod wedi gadael cof am ei enw yn Arrapachitis, gwlad yn Mesopotamia.

4. Lud oedd y pedwerydd o feibion Sem, am ba un nid oes dim coffadwriaeth sicr, oddieithr i rai o'i hiliogaeth sefydlu yn Asia leiaf, a rhoddi enw i Lydia yn y wlad hono.

5. Pummed mab Sem oedd Aram, yr hwn a breswyliodd yn Mesopotamia, neu Aram-Naharaim, sef Aram, rhwng y ddwy afon, sef yr Euphrates a'r Tigris. Oddi yno ei hiliogaeth a estynasant eu preswylfëydd dros yr Euphrates, cyn belled a therfynau gogleddol gwlad Canaan; eu gwlad a alwyd tan yr enw Syria, o ba un yr oedd Sobah (2 *Sam.* 8. 3.) yr hon wedi hyny a alwyd Palmyra, yn un dalaeth; Rehob, Istob, a Maachah, oeddynt, tybygid, yn terfynu arni. 2 *Sam.* 8. 12.

Yr ydys yn barnu hefyd i rai o deuluoedd Aram ddringo i fynu hyd ochr yr afon Euphrates hyd ei tharddiad, a sefydlu yn Armenia, a chymmysgu yno â chenedl a alwyd Minni; ac oddiwrth hyny i'r wlad gael ei galw Aram-Minni, ac wedi hyny Armenia. *Jer.* 51. 27.

XVI. Us mab hynaf Aram, a adeiladodd Damascus, fel y bernir. Hul neu Chul ei ail fab, a roes enw i Cholabetene, rhan o Armenia. Am Gether, trydydd mab Aram, nid yw yn hysbys ym mha le y sefydlodd.

Bernir i bedwerydd mab Aram, sef Mas, yr hwn a elwir Mesech, 1 *Cron.* 1. 17. roddi enw i fynydd Masius yn Mesopotamia, a'r trigolion oddi amgylch, sef y Masieni.

XVII. Selah, mab Arphaxad, meddant, a adawoddei enw ar ddinas yn Susiana, talaeth o Persia, a alwyd Selah, neu Salah, yn amser Ptolemy y Daear-ddarlunydd. Am Heber mab Selah, nid rhaid helaethu yma. Peleg mab Heber a sefydlodd, tybygid, yn agos i'r afon Euphrates, gan fod dinas ar ei glàn yn amser Ptolemy, a alwyd Phalga. *Heylin.* Joctan mab arall i Heber, gyd â'i feibion, 13 o rifedi, a sefydlodd yn y rhan ddeheuol o Arabia Ddedwydd, o Mesa neu Musa, porthladd y'ngwaelod y Môr Coch, hyd Sephar mynydd y dwyrain. *Gen.* 10. 30. Gelwir y mynydd hwn yn bresennol Climax, ar ochr ddeheuol pa un, yn amser Ptolemy, yr oedd dinas a alwyd Saphar, yn y canol rhwng y Môr Coch a Llyngclyn Persia. *Heylin, Bedford.*—Y mae Arabia Ddedwydd, ynghyd â'r ddwy ereill hyd derfyn yr Aipht, yn fynych yn yr Ysgrythyrau yn cael eu galw yn wlad Ethiopia, neu wlad Cus. *Gen.* 2. 13. *Num.* 12. 1. 2 *Cron.* 14. 9. a 21. 16. Bernir i Cus ac Hafilah, ac hwyrach ereill o'i feibion, fyned o'r wlad yma, a thrawsfeddiannu Chusestan, neu Susiana, yn rhandir Elam, ychydig o flynyddoedd ar ol i Nimrod drawsfeddiannu Babel a gwlad Sinar. Y rhuthr hwn o eiddo Cus a'i feibion, a gyfyngodd ar Joctan a'i feibion, fel y gorfu arnynt gilio i'r manau hyny a adawyd yn wag yn Arabia Ddedwydd. *Bedford.* O feibion Joctan nid oes ond tri, am a wyddom, wedi gadael eu henwau ar leoedd yn y wlad hon, sef Seba, Ophir, a Hafilah. Seba a wladychodd yn y rhan ddeheuol o Arabia Ddedwydd, ar làn y Môr Coch. O'r wlad hon y bernir i Frenines Seba ddyfod. 1 *Bren.* 10. Dywedir i Ophir sefydlu yn ymyl ei frawd. Ond y mae yn anhawdd barnu mai yn y wlad hon yr oedd yr Ophir hwnw, yr oedd llongau Solomon a Hiram yn arferol o gyrchu iddo o Esiongeber (1 *Bren.* 10. 22.) os ydoedd y llongwriaeth yn cymmeryd tair blynedd o amser i fyned ac i ddyfod. Gan hyny, bernir mai rhyw le yn yr India Ddwyreiniol oedd yr Ophir hwnw. Ond os unwaith bob tair blynedd yr oedd y llongau yn myned, tebygol mai Ophir yn Arabia a feddylir. Yr oedd ynys fechan yn y Môr Coch, a alwyd gynt Urphre, yr hon y mae rhai yn barnu oedd Ophir; ac fe allai hyny fod, os oedd yno borthladd, a marsiandwyr yn cael yr aur, &c. o fanau ereill. Ac hwyrach nad oedd digon o lwythau i'w llongau i'w gael yn amlach nag unwaith bob tair blynedd. Am Hafilah a adawodd enw ar y rhan ogleddol o'r wlad hon, nid ellir bod yn sicr, tybygid, pa un ai Hafilah mab Cus, neu Hafilah mab Joctan ydoedd. A chan fod gan Cus fab ac ŵyr o'r un enw a Seba mab Joctan, y mae yn anhawdd penderfynu yn bresennol pa un o honynt a roddodd enw i wlad Seba, a'i thrigolion y Sabeaid; ond yn amser y brenin Dafydd, gwahaniaethwyd rhyngddynt, trwy alw un Sheba, a'r llall Seba: *Ps.* 72. 10. o ba rai yr oedd Sheba yn fab Joctan, fel y bernir,

a'i breswylfa lle y dywedwyd uchod—a Seba yn fab Cus, a'i breswylfa yn yr ochr ddwyreiniol i Arabia Ddedwydd, yn agos i Lyngclyn Persia, yn ymyl ei frodyr Hafilah, Sabta, Raamah, a Sabtecah; o ba rai, gadawodd Raamah (neu Ragmah, fel y mae ei enw yn swnio, yn ol barn rhai) goffadwriaeth am dano yn Rhegama, dinas yn amser Ptolemy ar Lyngclyn Persia; lle hefyd yr oedd dinas a alwyd Saphtha, ar ol enw Sapta. Seba a Dedan oedd feibion Raamah (*Gen.* 10. 7.) pa rai oeddynt farchnadyddion Tyrus (*Ezec.* 27. 15, 22.) a'u preswylfa, fel y mae yn rhesymol i farnu, yn agos at eu tad ar fôr Persia. *Bedford.*

Taflen 2, o'r Ail Ddosparth.

Oed y Byd.	Cyn Crist.	Ar ol y Diluw.	
1658	2351	1	Y mae'r dyfroedd yn sychu, a Noah a'i deulu yn dyfod allan o'r arch.
1659	2350	2	Genir Arphaxad mab Sem.
1694	2315	37	Genir Selah mab Arphaxad.
1724	2285	67	Genir Heber mab Selah.
1757	2252	100	Noah, wedi deffroi o'i feddwdod, yn melldithio Cam a Chanaan, ac yn bendithio Sem a Japheth.
1758	2251	101	Genir Peleg mab Heber, pan ranwyd y ddaear. Yn fuan wedi hyny y dechreuwyd adeiladu dinas a thŵr Babel.
1788	2221	131	Genir Reu mab Peleg.
1798	2211	141	Gwasgerir adeiladwyr Babel oddeutu y flwyddyn hon, fel y bernir.
1820	2189	163	Genir Serug mab Reu.
1850	2159	193	Genir Nachor mab Serug.
1879	2130	222	Genir Terah mab Nachor.
2009	2000	352	Genir Abraham mab Terah.
2010	1999	353	Oddeutu y pryd hwn y bernir i Nimrod dechreu teyrnasu yn Babel, ac Assur yn Ninifeh. *Gen.* 10. 10, 11.
2019	1990	362	Genir Sarah gwraig Abraham.
2083	1926	426	Abraham, pan oedd yn 74 mlwydd oed, yn cael gorchymyn i fyned o Ur y Caldeaid i wlad Canaan; ac yn cael addewid o fendith iddo ef a'i hâd. *Gen.* 12. 1, 2, 3. Y mae yn cychwyn gyda Terah ei dad, a Lot mab Haran ei nai, ac yn dyfod ar eu taith i Haran, lle trigasant oddeutu yspaid blwyddyn; a lle y bu farw Terah yn 205 mlwydd oed. O roddiad yr addewid y mae yr Apostol yn cyfrif 430 mlynedd hyd roddiad y ddeddf, oddeutu dau fis ar ol i Israel fyned allan o'r Aipht. *Exod.* 12. 41. *Gal.* 3. 17.

Y TRYDYDD DOSPARTH.

O roddiad yr Addewid i Abraham yn Ur y Caldeaid, hyd ymadawiad Israel o'r Aipht, yr oedd 430 *o flynyddoedd. Gellir rhanu yr yspaid hwn yn ddwy ran; sef,* 1. *O roddiad yr Addewid hyd onid aeth Jacob a'i deulu i'r Aipht,* 216 *o flynyddoedd.—*2. *O'r mynediad i'r Aipht, hyd yr ymadawiad oddi yno,* 214 *o flynyddoedd. Neu fel hyn, O amser yr Addewid, hyd oni ddechreuodd Ismael mab Hagar yr Aiphtes watwar ac erlid Isaac yn bump oed,* 30 *o flynyddoedd; ac o hyny hyd yr ymadawiad o'r Aipht,* 400 *o flynyddoedd.* Gen. 21. 9, 10. *a* 15. 13, 14. Act. 7. 6. Gal. 4. 29. *Gellir rhanu yr yspaid hwn fel yn y Daflen ganlynol.*

Taflen 1, *o'r Trydydd Dosparth.*

Oed y Byd.	Cyn Crist.	Ar ol yr Addew.	
2084	1925	1	O roddiad yr addewid i Abraham hyd ei ymadawiad o Haran, pan oedd yn 75 mlwydd oed, (*Gen.* 11. 31. a 12. 4.) yr oedd un flwyddyn.
2109	1900	26	O hyny hyd enedigaeth Isaac yr oedd 25 mlynedd. *Gen.* 21. 5.
2169	1840	86	Yr oedd Isaac yn 60 mlwydd oed pan anwyd Jacob ac Esau. *Gen.* 25. 26.
2299	1710	216	Oed Jacob yn myned i'r Aipht oedd 130 mlwydd. *Gen.* 47. 9.
2387	1622	304	O'r mynediad i'r Aipht hyd farwolaeth Lefi yr oedd 88 mlynedd, fel y dangosir ym mlaen. Pen. 4. 3. Dos. 3.
2433	1576	350	O farwolaeth Lefi hyd enedigaeth Moses yr oedd 46 mlynedd, yr hyn a brofir yn Pen.4.4. Dos.3.
2513	1496	430	O enedigaeth Moses hyd yr ymadawiad o'r Aipht yr oedd 80 mlynedd.* *Exod.* 7. 7.

RHAI O'R PETHAU MWYAF HYNOD YN Y TRYDYDD DOSPARTH.

PENNOD I.

Galwad Abraham.

Amser-nod (*Epoch*) hynod yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac mewn ysgrifeniadau ereill, yw galwad Abraham o wlad ei enedigaeth i wlad nad adwaenai nes iddo gael datguddiad y'mhellach gan yr Arglwydd

* Os chwanegir yr amrywiol rifon hyn at eu gilydd, ceir hwy yn 430.

mai gwlad Canaan ydoedd. Ni gawn ystyried, yn y bennod hon, yr achos a'r dibenion o'i alwedigaeth.

I. Yr achos, tybygid, oedd cynnydd gau-dduwiaeth ac eilun-addoliaeth, nid yn unig yn nheulluoedd Cam a Japheth, ond hefyd yn nheuluoedd Sem.*

1. Bernir i gau-dduwiaeth ddechreu cyn y diluw yn nheulu Cain, trwy addoliad yr haul a'r lloer; y rhai, wedi y diluw, yn gyntaf a addolwyd yn nheuluoedd Cam, ac wedi hyny gan bawb bron, oddieithr rhyw ychydig nifer, fel y bernir, yn nheuluoedd Sem. *Job* 31. 26.

2. Yr ail radd o gau-dduwiaeth, oedd addoli dynion meirw, sef penau cenedl enwog, ac ereill, megys rhyfelwyr cadarn, meddygon, dychymmygwyr celfyddydau buddiol, &c. at y rhai hyn y byddent arferol o gyflwyno eu gweddïau a'u haberthau. *Ps.* 106. 28. *Esa.* 8. 19. 1 *Bren.* 18. 25—29. Gelwid hwy ar amryw enwau, megys Bel, Baal, sef arglwydd—a Jupiter, neu y tad Iah, gan roddi iddo enw a phriodoliaethau y Duw byw. Llenwai enwau yr holl dduwiau cenedlig ran fawr o'r llyfr. —Yr oedd rhai o honynt yn wrrywiaid, a rhai yn fenywiaid. Ac yr oedd eu haddolwyr yn dychymmygu fod un o honynt yn ben ar y duwiau ereill, ac ar yr holl greadigaeth, a bod gan y lleill awdurdod ar amrywiol ranau a phethau yn y byd. Gwel *Homer, Virgil, Hesiod's Theogonia,* neu, *Cenedliad y duwiau.*

3. Y trydydd gradd, tybygid, o gau-dduwiaeth, oedd priodoli yr haul, y lloer, a phump o'r planedau, yn breswylfeydd i saith o'u duwiau penaf, a chyssegru diwrnodau yr wythnos iddynt. Y Caldeaid a'r Aiphtiaid, ar ol iddynt gyrhaedd i ryw radd o seryddiaeth, oeddynt gyd â'r cyntaf, fel y bernir, i ddychymmygu y pethau hyn; oddiwrth ba rai y daethant at y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a holl wledydd y gorllewin. *Act.* 7. 43.†

---

* Bu Sem fyw 502 o flynyddoedd wedi y diluw, a 600 yn y cwbl. Yr oedd yn 524 mlwydd pan alwyd Abraham. Bu Sem fyw wedi hyny 76 mlynedd, ond ym mha le nid yw hysbys.

† 1. Sul *(Sol)* yw yr haul, cyssegrwyd ef i Apollo, neu Phut mab Cam, yr hwn oedd a'i breswylfa o bob tu Llinyn y Cyhydedd, lle mae yr haul yn taflu ei wres mwyaf.——2. Llun *(Luna)* yw y lleuad, yr un a Diana, duwies yr Ephesiaid, *Act.* 19. 27, 28. *Jer.* 44. 17. ac Astarte, neu Astoreth, duwies y Sidoniaid. 1 *Bren.* 11 33. Galwyd hi dan amryw enwau gan amrywiol genedloedd. Baal ac Astaroth, *Barn.* 2. 13. tybygid, yw yr haul a'r lleuad. Cyssegrwyd y lleuad i wraig un o'r penau cenedl ar ol y diluw, hwyrach i wraig Cam, gan mai yn ei deulu ef y dechreuodd eilun-addoliaeth ar ol y diluw. *Bedford.*——3. Mawrth (neu *Mars)* oedd duw rhyfel gan y Rhufeiniaid; ond a enwyd yn wahanol gan amryw genedloedd. Rhyfelwr llwyddiannus un o'r penau cenedl ydoedd, ond pa un ai Nimrod, neu ryw un arall, nid yw hysbys.——4. Mercher (neu *Mercurius)* oedd Canaan mab Cam, fel y tybir, i ba un y cyssegrwyd y blaned Mercher. Ystyr y gair Mercher, fel Canaan, yw marsiandwr. Dychymmygwyd am Mercher mai gwas neu genad y duwiau ydoedd. Felly yr oedd Canaan i fod yn was gweision i'w frodyr. Y mae Bedford yn enwi deg o bethau, ym mha rai yr oedd Mercher yn

4. Y pedwerydd gradd o gau-dduwiaeth, oedd gwneuthur eilunod i'w duwiau, i'w haddoli yn eu temlau, eu tai, eu gerddi, ac yn heolydd eu dinasoedd. Yr oedd rhai o honynt ar lun dyn, ac ereill o luniau cymmysgedig o ddyn ac anifel, neu bysgod, neu adar. Yr oeddynt yn dychymmygu fod y duw yn preswylio yn yr eilun; gan hyny, yr oedd rhai o'r eilunod yn gau oddimewn, megys delw Moloch.

5. Y pummed gradd o gau-dduwiaeth, oedd addoli creaduriaid byw, megys ychain, crocodiliaid, seirph, &c. *Rhuf.* 1. 23.

6. Y chweched gradd, oedd addoli pethau difywyd, megys cenin yn y gerddi, afonydd, &c. *Juvenal Sat. Bedford. Esa.* 65. 3. a 66. 17.

Gan fod yr Arglwydd yn rhagweled yr ymdaenai gau-dduwiaeth ac eilun-addoliaeth ar hyd y byd, tynodd Abraham megys pentewyn o'r tân, rhag na byddai ganddo neb i'w wasanaethu yn yr holl fyd.

II. Dibenion o fawr bwys oedd gan yr Arglwydd y'ngalwad Abraham.

1. Fel y byddai yn gŷff cenedl i bobl briodol, cyfammodol iddo ei hun, yn neillduol i'r Messiah, ym mha un yr oedd, nid yn unig hâd Abraham, ond hefyd holl deuluoedd y ddaear, i gael eu bendithio. *Gen.* 12. 3.

2. Fel y byddai i'r Arglwydd, yn ei amser da ei hun, roddi i genedl Abraham y ddeddf foesol, i fod o rwymedigaeth tragywyddol iddi hi ac i bawb, a seremoniau a defodau cysgodol i ddal allan y Messiah hyd oni ddeuai.

3. Fel y byddai iddo gyfodi prophwydi o oes i oes, i ragfynegi am Grist a'i eglwys, a gelynion ei eglwys, a'r pethau mwyaf hynod oedd i ddigwydd i'r naill a'r llall o honynt hyd ddiwedd y byd—ac i gadw coffadwriaeth o'r pethau mwyaf hynod oedd yn digwydd mewn ffordd o drugaredd a barn i'r eglwys a'i gelynion dros lawer o oesoedd. *Rhuf.* 9. 3—5.

4. Fel y byddai iddo yn nghyflawnder yr amser, o'r genedl hono, gyfodi Efengylwyr i ysgrifenu hanes am fywyd, gweinidogaeth, a marwolaeth Crist, fel yr eglurid ei fod o hâd Abraham ac o lwyth Judah yn ol y cnawd—a chyfodi apostolion i bregethu yr efengyl yn gyntaf i genedl

---

cyfateb i Canaan.——5. Iau (neu *Jupiter)* oedd pen duw y Paganiaid gynt. Priodolwyd iddo, trwy gyssegr-ledrad cableddus, yr enw Iah, yr hwn a berthyn yn unig i Dduw y duwiau. Bernir mai Cam ydoedd, i ba un y cyssegrwyd y blaned ddisglaer Jupiter.——6. Gwener (neu *Venus)* oedd fenyw yn rhagori mewn glendid a thrythyllwch, ond pa un ydoedd, nid yw hysbys. Cyssegrwyd y blaned Venus iddi.——7. Sadwrn (neu *Saturn)* yw Noah, fel y bernir. Gelwir Sadwrn oddiwrth air yn *Heb.* ag sydd yn arwyddo, *i guddio*, am iddo gau ei hun yn yr arch, ac am nad oes fawr o hanes am dano ar ol y diluw, ac yn yr ystyr hyny, megys yn guddiedig. Y mae yr ysgrifenyddion Paganaidd yn dywedyd fod gan Sadwrn dri o feibion o'i wraig Ops, sef Pluto, Jupiter, a Neptune, y rhai, fel y bernir, sydd yn cyfateb i Sem, Cam, a Japheth; am ba rai y maent yn dywedyd amryw bethau sydd yn cytuno â'r Ysgrythyr; gan hyny y mae yn debygol mai i Noah y cyssegrwyd y blaned Sadwrn.

Abraham, ac wedi hyny i'r holl Genedloedd. Felly trwy y rhai hyn, sef y prophwydi, yr efengylwyr, a'r apostolion o genedl Abraham, y trefnodd Duw i roddi datguddiad o'i feddwl yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, nid yn unig i'r Iuddewon, ond hefyd i'r holl Genedloedd hyd ddiwedd amser.

5. Fel y byddai i Abraham gael ei osod yn siampl o ffydd ac o ufuddod i bawb a glywai am dano; ac yn yr ystyr yma y mae Abraham yn dad i bob un sydd yn dilyn llwybrau ei ffydd ef, ym mhlith Iuddewon a Chenedloedd. *Rhuf.* 4. 12, 13. *Mat.* 3. 9. Felly y mae yn eglur fod pethau pwysfawr a gogoneddus, yn tarddu oddiwrth alwad Abraham, gan fod yr Arglwydd trwy hyny yn bwriadu lles cyffredinol i'r byd. Symudodd ef o'i wlad ei hun, ac a'i planodd yn ngwlad Canaan fel olew-wydden, gan fwriadu, mewn amser, dori ymaith rai o'r canghenau naturiol anffrwythlawn, ac impio y Cenedloedd yn eu lle; etto, heb feddwl gwrthod yn llwyr y canghenau naturiol, ond yn ei amser ei hun, eu himpio hwy drachefn yn eu holew-wydden eu hun. *Rhuf.* 11. 17—24, 29, 33.

Pa un a ddaeth Nachor brawd Abraham ar yr un amser ag Abraham o Ur y Caldeaid, nid yw hysbys; pa fodd bynag, y mae yn sicr i'w deulu sefydlu yn Haran, neu Charran, ym Mesopotamia (a alwyd wedi hyny Carræ) canys yma y ceir fod ei deulu dros ddwy neu dair o genedlaethau wedi hyny. Mab ac ŵyr iddo ef oedd Bethuel a Laban. Mab iddo ef oedd Chesed, tad, fel y bernir, i'r Caldeaid. *Gen.* 25. 20—23.

PENNOD II.

Rhyfel Cedorlaomer a'i gyfeillion.—Gen. xiv.

Hwn oedd y rhyfel cyntaf ag sydd genym hanes credadwy am dano; a'r hanes hwnw mor fyr, fel nad ellir casglu ond ychydig i gadarnhau y dyb mai brenin Assyria oedd un o'r breninoedd hyn a sonir am danynt yn *Gen.* 14. 1. Yr ydym yn deall, oddiwrth *Gen.* 10. 10. i Nimrod, heblaw Babel, draws-feddiannu, neu ynte adeiladu Erech ac Accad, y rhai, meddant, oeddent ddinasoedd y'ngwlad Elam, ar yr afon Euphrates, yn agos i Lyngclyn Persia, yn un o ba rai, yr oedd Cedorlaomer yn llywodraethu megys rhaglaw dan Tidal brenin y Cenedloedd, yr hwn, fel y bernir, oedd yn preswylio yn Ninifeh, prif ddinas ei deyrnas. Bernir fod y ddau ereill, sef Amraphel brenin Sinar, ac Arioch brenin Elasar, yn rhaglawiaid dan Tidal. Oddeutu pedair blynedd cyn symudiad Abraham o Ur, dywedir i Zameis brenin Ninifeh, orchfygu y pum brenin a sonir am danynt, *Gen.* 14. 2. trwy rymusder Cedorlaomer, yr hwn a gafodd y rhaglawiaeth ar y gwledydd a ennillodd, megys gwobr am ei wasanaeth. Deuddeg mlynedd y talodd y breninoedd yn ngwlad Canaan deyrnged i Cedorlaomer—yn y drydedd-ar-ddeg y gwrthryfel-

ant, ac yn y bedwaredd-ar-ddeg y daeth Cedorlaomer gyd âg Arius neu Tidal (yr hwn oedd y pryd hyn yn frenin yn lle ei dad Zameis) ynghyd â'r ddau ereill; ac wedi gorchfygu amryw genedloedd yn y dehau a'r dwyrain i wlad Canaan, dygasant eu byddinoedd yn erbyn y pum brenin oedd yn teyrnasu yn nyffryn Sidim (yn awr môr Sodom) ac wedi ennill y fuddugoliaeth ac anrheithio y dinasoedd, a chymmeryd llawer yn gaeth-weision, ym mhlith ereill, Lot nai Abraham, aethant gyd â'u hyspail tu ag adref. Abraham, wedi clywed fod Lot y'mhlith y gaethglud, a arfogodd ei weision hyfforddus mewn rhyfel, 318 o rifedi, ac wedi cael cynnorthwyon chwanegol gan Aner, Escol, a Mamre, y rhai oedd mewn cynghrair âg ef, a ymlidiodd ar ol y breninoedd, ac wedi rhanu ei fyddin yn bedair rhan, fel y bernir, a syrthiodd arnynt liw nos; ac wedi gwneuthur lladdfa fawr yn eu plith, efe a ddug drachefn y gaethglud, a Lot yn eu plith, ynghyd â'r holl yspail. Gerllaw Damascus y bu y frwydr hon, ag oedd yn lled debyg i frwydr Gedeon a'i 300 wedi hyny. *Barn.* vii. Ar ol hyn ni chlywir sôn am un o freninoedd Assyria yn dyfod dros yr afon Euphrates i wneuthur rhyfel hyd amser Pul brenin Assyria, yr hwn a ddaeth i gynnorthwyo Menahem brenin Israel (2 *Bren.* 15. 17—20.) oddeutu y bedwaredd flwyddyn i Uzziah, yn y flwyddyn 3241 o oed y byd, ac ynghylch 1149 o flynyddoedd ar ol buddugoliaeth Abraham, yn y flwyddyn o oed y byd 2092.

PENNOD III.

Dinystr Sodom a Gomorrah, a Dinasoedd y Gwastadedd.—Gen. xix.

Yn yr un flwyddyn ag y cafodd Abraham yr enwaediad yn arwydd cyfammod rhyngddo a'r Arglwydd (*Gen.* xvii.) y dinystriwyd Sodom, a dinasoedd y gwastadedd, sef pan oedd Abraham yn 99 oed, a Sarah yn 89;

---

* Bedford's Chron. p. 318, &c. quoting Josephus, Lib. 1. c. 10. and referring to Marshall's Chron.—Y mae yr hanes sydd genym am amseroedd cyntaf Ymerodraeth Assyria, wedi eu tynu o waith un Ctesias o Cnidus yn Asia Leiaf, yr hwn a gymmerwyd yn garcharor gan Artaxerxes Mnemon, i ba un y bu efe yn feddyg yn ei lys yn Persia dros 17 o flynyddoedd, ym mha yspaid o amser yr ysgrifenodd chwech o lyfrau, yn cynnwys hanesion am yr Assyriaid a'r Babiloniaid, o Ninus hyd Cyrus. Un Photius a ysgrifenodd ryw ranau o waith Ctesias, y rhai ydynt gymmaint ag a drosglwyddwyd o'i waith i ni. Diodorus Siculus, a Trogus Pompeius (o ba un y mae Justin yn dalfyriad) a gymmerasant o Ctesias gymmaint a ysgrifenasant ynghylch yr Assyriaid. Er fod Plutarch ac Aristotl yn cyfrif Ctesias fel hanesydd ofer-goelus; etto, y mae efe ei hun yn tystio na ysgrifenodd ond yr hyn a gawsai yn hen Groniclau breninoedd Persia. Ac y mae yn sicr fod ei hanes yn cyd-gordio â'r hanesion ysgrythyrol yn well na dim ereill. Y mae Diodorus Siculus yn dywedyd fod breninoedd Assyria wedi ymroddi i esmwythdra a moethau dros 30 cenedlaeth.

hono oedd y flwyddyn nesaf o flaen geni Isaac; a'r 24ain ar ol i Abraham ddyfod i wlad Canaan.—Yr oedd y pedair dinas hyny a ddinystriwyd gan yr Arglwydd, mewn modd rhyfedd ac anghyffredin am ddrygioni eu trigolion, yn sefyll mewn gwastadedd, yr hwn, o ran ei hyfrydwch a'i ffrwythlondeb, a gyffelybwyd i ardd Paradwys a thir yr Aipht (*Gen.* 13. 10.) yr hwn a alwyd dyffryn Sidim. *Gen.* 14. 3. Yr oedd afon yr Iorddonen yn rhedeg trwyddo, ac yn ymdywallt naill ai i'r Môr Coch, neu Môr y Canoldir. Dywedir fod y trigolion yn dra phechadurus pan aeth Lot i ymdaith yn eu plith yn y flwyddyn y daeth Abraham ac yntau i wlad Canaan, ar ol eu dychweliad o'r Aipht, *Gen.* 13. 13. yr hyn oedd 24 o flynyddoedd o flaen eu dinystr. Yr oeddent wedi ymlygru â phob math o halogedigaeth, yn neillduol trwy wyniau gwarthus yn erbyn anian. *Rhuf.* 1. 27. *Gen.* 19. 5. *Judas* 7. 2 *Petr* 2. 7, 8.—Y mae yr hanes rhagflaenol a chanlynol i ddinystr dinasoedd y gwastadedd, yn *Gen.* xviii, xix. fel nad rhaid sylwi yma ond ar y pethau canlynol:

1. Y moddion a arferodd yr Arglwydd i'w dinystrio, oedd trwy wlawio tân a brwmstan o'r nefoedd; sef, hwyrach, trwy ddanfon mellt mor aml, nes oeddynt megys cafodydd o dân. Y mae amryw wedi sylwi fod mellt yn gadael arogl brwmstanaidd ar eu hol. A chan fod bitumen (math o bŷg llosgadwy) yn aml yn nyffryn Sidim, tebygol i'r holl ddaear gael ei thanio gan y mellt: wedi hyny, gellir barnu i'r holl ddyffryn gael ei lyngcu i fynu gan ddaear-gryn, ac i'r llyn presennol ddyfod yn ei le. Y mae y gair *Heb.* a arferir yn *Amos* 4. 11. ac a gyfieithir *dymchwelais*, yn arwyddo dymchweliad trwy ddaear-gryn, sef hono yn nyddiau Uzziah, *Amos* 1. 1. ym mha un y dymchwelwyd rhai dinasoedd, tybygid, yn nheyrnas y deg llwyth. Arferir yr un gair yn *Gen.* 19. 29. wrth sôn am ddinystr y dinasoedd hyn.* Gwel hefyd 2 *Petr* 2. 6.

2. Y mae Môr Sodom yn cael ei alw dan amryw enwau yn yr Ysgrythyrau, megys y Môr Heli, *Gen.* 14. 3. oblegid ei halltrwydd; y Môr Marw, am nad oes pysgodyn yn gallu byw yn ei ddyfroedd, o herwydd ei natur brwmstanaidd; Môr y Rhôs, *Jos.* 3. 16. (*sea of the plain. Bibl Saes.*) yn arwyddo y gwastadedd a drowyd yn ddwfr, neu y gweddill a arbedwyd. Gelwir ef mewn ysgrifeniadau ereill, llyn As-

---

* Y mae y gair הפך a gyfieithir *efe a ddinystriodd*, *Gen.* 19. 25. yn hytrach yn arwyddo, *efe a ddymchwelodd.* Dymchweliad trwy ddaear-gryn a olygir, fel y gwelir oddiwrth y manau canlynol, *Deut.* 29. 23. *Job* 28. 9. *Jer.* 49. 18. *Galar.* 4. 6. *Amos* 4. 11. lle yr arferir yr un gair *Heb.* Llawer o ddinasoedd a ddymchwelwyd gan ddaear-grynfâau mewn amrywiol oesoedd a gwledydd; a rhai o honynt a lyngcwyd i fynu yn llwyr fel Sodom, &c. a llynoedd o ddwfr yn llenwi y manau lle safasent. Guatimala, dinas boblog yn America Ddeheuol, a lyngcwyd i fynu trwy ddaear-gryn, gyd â'i holl drigolion, Mehefin 7, 1773, a llyn o ddwfr a lanwodd y fan lle safasai. Felly hefyd y dymchwelwyd llawer o dref yn Calabria yn yr Ital, yn y flwyddyn 1638, yn neillduol y ddinas Euphemia gyd â'i holl drigolion, ac nid oedd ond llyn o ddwfr brwmstanaidd lle safasai. *Goldsmith.*

phaltitis, oddiwrth y bitumen sydd weithiau yn nofio ar ei wyneb, ac i'w gael ar ei lenydd, yr hwn a gesglir ac a werthir i'r marsiandwyr. Dywedir rhai pethau anhygoel ac ofer-goelus am y ffrwythau oddi amgylch y llyn hwn, sef eu bod yn hawddgar ac yn ddymunol i'r golwg, ond wrth gyffwrdd â hwynt yn diflanu yn fŵg a lludw. *Josephus, Bell. Jud. Lib.* 5. *c.* 5. Dywed yr un awdwr, ac yn yr un fan, fod y llyn hwn yn 580 o ystadau o hyd, ac yn 150 o led. Wrth gyfrif wyth ystad i filltir, bydd yr hyd oddeutu 70 o filltiroedd, a'r lled oddeutu 18. Dywedir fod yr afonydd yr Iorddonen, Jabboc, ac Arnon, yn tywallt eu hunain iddo; etto nad yw ddim llawnach, ac nad oes un afon yn rhedeg o hono; gan hyny, bernir fod llwngc i'r dwfr oddi tan y ddaear naill ai i'r Môr Coch, neu i Fôr y Canoldir.

3. Dywedir i wraig Lot am edrych drach ei chefn yn hiraethlawn am y pethau a adawodd ar ei hol yn Sodom, gael ei throi yn golofn halen, *adn.* 26. sef wrth oedi ac aros ar ol Lot, hi a oddiweddwyd gan y gafod danllyd, ac a aeth yn golofn o halen; hwyrach yn golofn o goffadwriaeth dragywyddol. *Luc* 17. 32. Gan fod halen yn arwyddo anllygredigaeth, y mae y cyfammod halen o'r un ystyr, tybygid, a chyfammod tragywyddol. *Num.* 18. 19. 2 *Cron.* 13. 5. Y mae yr hyn y mae Josephus yn ddywedyd am y golofn hon, sef ei bod i'w gweled yn ei ddyddiau ef, yn sawru o hygoeledd.

PENNOD IV.

Jacob, ei Oed ar amryw iol Amserau, &c. i eglurhau y Daflen Gyntaf o'r Trydydd Dosparth.

Nid ellir penderfynu yr amser pan werthodd Esau ei enedigaeth-fraint i'w frawd Jacob. Y mae Bedford (*p.* 341.) yn barnu ei fod oddeutu 30 mlwydd oed. Bernir fod yr enedigaeth-fraint, yn nheulu Abraham, yn cynnwys hawl i ddeuparth o eiddo y tad. Gellir casglu gyda chwaneg o sicrwydd yr amser y cafodd efe y fendith; yr hon, tybygid, oedd yn cynnwys y pethau a gafodd Abraham mewn addewid, sef i fod yn gŷff cenedl i'r Messiah, ac etifeddiaeth gwlad Canaan. *Gen.* 12. 1, 2, 3. *Deut.* 6. 10.

II. Cesglir fod Jacob yn 77 pan gafodd efe y fendith, ac, (ar ol myned i Padan-Aram) y priododd ei wragedd, fel y canlyn:

Yr oedd Joseph yn 30 mlwydd oed pan safodd y tro cyntaf o flaen Pharaoh. *Gen.* 41. 46. Wedi hyny y saith mlynedd o amldra a aethant heibio, a dwy flynedd o newyn, cyn i Jacob a'i deulu ddyfod i'r Aipht, (*Gen.* 45. 11.) pan oedd Joseph yn 39, a'i dad yn 130. *Gen.* 47. 9. Os tynir 39 o 130, y gweddill fydd 91, sef oed Jacob pan anwyd Joseph. —Ond y mae yn eglur i Joseph gael ei eni yn niwedd y 14 flwyddyn o

wasanaeth Jacob gyda Laban. *Gen.* 30. 25, 26. Cymmerweh 14 o 91, y gweddill fydd 77, sef oed Jacob pan briododd efe ei ddwy wraig ar ol gwasanaethu 2 wythnos fel gwystl am 14 blynedd o wasanaeth. *Gen.* 29. 21, 27. Y mae yn eglur fod Rahel yn briod â Jacob cyn geni Reuben, a'i bod yn ammhlantadwy; ond Leah a blantodd, yn ol pob tebygolrwydd, yn y flwyddyn gyntaf ar ol priodi. Y mae enwau y tri mab cyntaf a blantodd Leah, sef Reuben, Simeon, a Lefi, yn profi fod Rahel yn briod â Jacob y pryd hyny. *Gen.* 29. 31—34.

III. Nid all fod fawr o gamsyniad, od oes dim, fod Leah wedi planta ei thri mab cyntaf mewn pedair blynedd ar ol ei phriodas â Jacob. Yn ol hyny, yr oedd Jacob yn 81 pan anwyd Lefi. Cymmerwch 81, ei oed ar enedigaeth Lefi, o 130, ei oed pan aeth efe a'i deulu i'r Aipht, y gweddill fydd 49, sef oed Lefi y pryd hyny. Dywedir fod Lefi yn 137 pan fu farw. *Exod.* 6. 16. Cymmerwch 49 o 137, bydd yn ol 88, sef rhifedi y blynyddoedd o ddyfodiad Israel i'r Aipht, hyd farwolaeth Lefi, yr hyn oedd i'w brofi. Gwel y Daflen o'r trydydd Dosparth.

IV. Y 46 flwyddyn o farwolaeth Lefi hyd enedigaeth Moses yw yr unig ran o'r 430 mlynedd nad ellir eu profi o'r Ysgrythyrau. Ond gan fod pob rhan arall o'r 430 mlynedd, yn brofedig allan o honynt, ac nad oes eisieu ond 46 i wneuthur y diffyg i fynu, y mae hyny yn ddigon o sail i farnu mai 46 mlynedd oedd yr yspaid o farwolaeth Lefi hyd enedigaeth Moses.

PENNOD V.

Rhifedi meibion Jacob yn myned i'r Aipht.

Dywedir, *Gen.* 46. 26, 27. 'Yr holl eneidiau, y rhai a ddaethant gyda Jacob i'r Aipht, yn dyfod allan o'i lwynau ef, heblaw gwragedd meibion Jacob, oeddynt oll chwe enaid a thriugain.'—'Holl eneidiau tŷ Jacob, y rhai a ddaethant i'r Aipht, oeddynt ddeg a thriugain.' Y mae peth anhawsdra i gysoni y ddwy adnod hyn â'u gilydd, ac â'r rhan flaenorol o'r bennod, ac hefyd â'r rhifedi yn *Act.* 7. 14 lle dywedir fod Jacob a'i genedl a aeth i'r Aipht yn bymtheg enaid a thriugain.—Wrth rifo plant ac ŵyrion Jacob o'i wragedd, a'u dwy law-forwyn (*Gen.* 46. 8—25.) ceir hwynt yn 71 trwy gyfrif Dinah—ac os tynir o 71 Er ac Onan a fuont feirw y'ngwlad Canaan, a Joseph a'i ddau fab oedd yn yr Aipht, fe a'u ceir yn 66. Ond y mae holl eneidiau tŷ Jacob a ddaethant i'r Aipht, yn cynnwys Jacob ei hun, a Joseph a'i ddau fab, ynghyd â'r 66, yr hyn a wna 70. Mewn perthynas i'r rhifedi yn *Act.* 7. 14. sef pymtheg a thriugain, y maent yn cynnwys, tybygid, y 66, *Gen.* 46. 26. y'nghyd â naw o wragedd meibion Jacob.

PENNOD VI.

Gorthrymder Israel yn yr Aipht.

'Yn ol a ellir ei gasglu o ysgrifeniadau yr Iuddewon, a Manetho yr hanesydd Aiphtaidd,* dechreuodd gorthrymder Israel yn yr Aipht oddeutu 87 mlynedd cyn eu hymadawiad oddi yno, yn y 6ed flwyddyn o deyrnasiad Rameses Miamun, oddeutu yr amser y ganed Miriam chwaer Moses ac Aaron.—Y mae Manetho yn dywedyd i Pharaoh Amenophis (yr hwn, fel y bernir, a foddwyd yn y Môr Coch) deyrnasu 19 mlynedd a 6 mis; a'i ragflaenor Rameses Miamun 66 mlynedd a 2 fis. Hwn oedd y brenin, fel y bernir, oedd heb adnabod Joseph (*Exod.* 1. 8.) gan fod Joseph wedi marw oddeutu 57 mlyuedd cyn ei ddyrchafiad i'r orsedd. Wrth chwanegu blynyddoedd y ddau frenin yma at eu gilydd, ceir hwynt yn agos i 86 mlynedd, yr hyn nid yw ond ychydig yn fyr o gyfrif yr Iuddewon o barhad y gorthrymder yn yr Aipht. Gan hyny, ganwyd Moses oddeutu y chweched flwyddyn o deyrnasiad Rameses Miamun.† Yr oedd gorthrymder Israel dan y brenin hwn, a'i ganlynwyr, o dri math, 1. Trwy osod arnynt feistriaid gwaith, i wneuthur caeth-weision o honynt, ym mhob rhyw wasanaeth caled. Hwy a adeiladasant ddwy o ddinasoedd trysorau, i gadw arfau a pheiriannau rhyfel, sef Pithom a Raamses; yr olaf, tybygid, ar ol enw y brenin.——2. Trwy roddi gorchymyn i'r byd-wragedd (Aiphtesau, tebygol) i ladd y plant gwrrywàidd newydd eu geni. Rhai o honynt, tebygol, a ufuddhasant i'r gorchymyn gwaedlyd hwn, gan nad oes ond dwy a ganmolir am arbed y plant, sef Siphra a Puah (*Exod.* 1. 15.) y rhai a wobrwywyd trwy fod yr Arglwydd yn peri llwyddiant iddynt yn eu teuluoedd a'u meddiannau. *Adn.* 20, 21. Y mae yr hanes mor fyr, fel y mae yn anhawdd penderfynu pa un ai y ddwy fyd-wraig benaf oedd y rhai hyn, a chanddynt ereill danynt, neu ynte, ai dwy oeddynt y'mhlith y byd-wragedd oedd yn rhagori mewn tosturi at y babanod, ac at Israel.——3. Pan welodd y brenin nad oedd y ddyfais waedlyd hon yn llwyddo wrth ei fodd, newidiodd y gorchymyn, gan beri 'i'w holl bobl' (*adn.* 22.) fwrw pob mab a'r a enid i'r afon Nilus, ond cadw pob merch yn fyw. Tebygol fod llawer o'r plant wedi cael eu boddi trwy rym y gorchymyn gwaedlyd hwn, gan fod troi y dyfroedd yn waed, wedi hyny, gan Moses, yn arwyddo hyny. *Exod.* 7. 19. Gwel *Dat.* 16. 4—6. Pan oedd y gorchymyn hwn yn ei rym y ganwyd Moses, ac a guddiwyd dri mis gan ei rieni. *Exod.* 2. 2. *Heb.* 11. 23. Hon, yn ol y casgliad uchod, oedd y chweched flwyddyn o'r gorthrymder, pan oedd Miriam yn 7 oed. Y mae yr hanes am wared-

* Josephus contra Appion. Lib. I. † Bedford's Chron. p. 363.

igaeth Moses y pryd hyn, yn *Exod.* 2. 3—10. Tebygol i'r Arglwydd roddi tynerwch yn nghalon merch Pharaoh, nid yn unig tu ag at Moses, ond hefyd at blant yr Israeliaid yn gyffredinol, ac i'r brenin, trwy ei hannogaeth hi, laesu yn ei fwriadau gwaedlyd tu ag atynt;—ond nid oddiwrth orthrymu y genedl, gan fod y gorthrymder yn parhau pan oedd Moses yn 40 mlwydd oed, ac ym mhen 40 mlynedd wedi hyn, pan ddychwelodd efe o wlad Midian, trwy orchymyn yr Arglwydd, i waredu Israel. *Exod.* 2. 11. a 7. 7.

PENNOD VII.

Job a'i Adfyd.

Ar ol ystyried yr amrywiol farnau ynghylch Job, sef am ei genedl, yr amser, a'r wlad lle yr oedd efe a'i gyfeillion yn byw, a rhai amgylchiadau ereill perthynol iddynt hwy, a'r llyfr sydd yn rhoddi hanes am danynt, fe allai fod y sylwadau canlynol mor agos at y gwir a dim a ellir ei gael.

I. Tebygol mai o hiliogaeth Uz, mab hynaf Nachor, brawd Abraham, yr oedd Job; am ei fod yn byw y'ngwlad Uz,* ac am fod un o'i gyfeillion, o leiaf, o'r un teulu, sef Elihu mab Barachel y Buziad o genedl Ram, neu Aram. Bernir fod Elihu o hiliogaeth Buz, ail fab Nachor; fe allai mai am fod Elihu, neu ei dad, yn byw y'ngwlad Aram, y dywedir ei fod o genedl Aram, fel ag y gelwir Laban yn Syriad (Aramiad yn ol yr *Heb.*) am ei fod yn byw yn Padan-Aram, neu gwlad Aram. Y tri chyfaill ereill, oedd Eliphaz y Temaniad, Bildad y Suhiad, a Sophar y Naamathiad. Y mae rhai yn barnu fod Eliphaz y Temaniad, o hiliogaeth Esau, sef o Teman mab Eliphaz, mab hynaf Esau, *Gen.* 36. 10, 11. ond y mae ereill yn barnu hyny yn annhebygol, i Eliphaz cyfaill Job ddyfod cyn belled ffordd ag oedd o Edom (yn y dehau i wlad Canaan) i Uz yn y dwyrain; ac mai tebycach yw ei fod o hiliogaeth Tema, un o feibion Ismael, *Gen.* 25. 15. yr hwn, gyda meibion Cetura, a anfonwyd tu a'r dwyrain i dir y dwyrain, gan Abraham, yn amser ei fywyd. *Gen.* 25. 6. Ac wrth gymmysgu a chyfeillachu gyda theulu Nachor, gallai rhai o honynt gael adnabyddiaeth o Dduw Nachor ac Abraham.—Bildad y Suhiad, oedd, fel y bernir, o hiliogaeth Suah, mab Abraham, o Cetura. *Gen.* 25. 2. Nid yw hysbys o ba genedl yr oedd Sophar: ond o ran ei dduwioldeb, gellir barnu ei fod yn perthyn i Abraham a Nachor.

II. Am sefyllfa gwlad Uz y mae dadl; y mae rhai yn barnu iddi gael ei henw oddiwrth Uz, neu Us, mab Disan, mab Seir, yr Horiad; *Gen.* 36. 28. ond os oedd gwlad Uz yn rhan o wlad Edom, lle yr oedd Seir

---

* Yr un enw yw Uz, *Job* 1. 1. yn Hebraeg, a mab hynaf Nachor, *Gen.* 22. 21. lle dylasai yr enw fod yn Uz, neu Us, yn lle 'Hus.'

gynt yn trigo, ni chytunai ei sefyllfa yn y dehau i wlad Canaan â'r darluniad a roddir o wlad Uz, *Job* 1. 1. yr hon oedd yn y dwyrain, *adn.* 3. Bèrnir fod gwlad Uz, lle yr oedd Job a'i gyfeillion yn byw, yn rhan o Arabia Ddiffaith, yn terfynu o du y dwyrain, ar Caldea; o du y gorllewin, ar Arabia Garegog; o du y gogledd, ar yr afon Euphrates a rhan o Syria; o du y dehau, ar Arabia Ddedwydd, lle yr oedd y Sabeaid. *Job* 1. 15.

III. Y mae yn anhawdd penderfynu ym mha amser y bu Job fyw, a pha bryd y bu farw; cymmaint a ellir ei ddisgwyl yw, cael gwybod ynghylch pa amser y bu efe byw a marw. Gellir casglu i Job fyw rhwng amserau Abraham a Moses, ac yn nes at Moses nag Abraham.——1. Am fod gwlad Uz, lle yr oedd Job yn byw, yn cael ei henw oddiwrth Uz, mab hynaf Nachor, ac am fod Job a'i gyfeillion o hiliogaeth Nachor ac Abraham, fel y bernir.——2. Am fod llyfr Job wedi sôn am y dinystr a ddaeth ar y 'gwyr enwir' trwy y diluw, yn ganlynol i hyny, yn cyfeirio at ddinystr Sodom a Gomorrah. *Job* 22. 15—20. At y dinystr olaf hefyd y mae cyfeiriad yn *Job* 18. 15—19.——3. Am nad oes yn yr holl lyfr un golygiad at y gweithredoedd nerthol a wnaeth yr Arglwydd dros Israel yn eu gwaredigaeth o'r Aipht, ac yn yr anialwch.

Cytunir yn gyffredinol gan yr ysgrifenwyr Iuddewig, a'r rhan fwyaf o'r Lladinwyr, fod Job yn 70 oed pan ddibenodd ei adfyd; ac wrth chwanegu 140 mlynedd at hyny, sef ei ddyblu fel pethau ereill, yr oedd ei oes i gyd, yn ol y cyfrif hwnw, yn 210 o flynyddoedd. Y mae yr athrawon Iuddewig yn barnu i Job gael ei eni oddeutu amser mynediad Israel i'r Aipht, ac iddo farw cyn eu dyfodiad oddi yno. *Caryl, Job* 42. 16.—Gosodir ei farwolaeth yn y Daflen ganlynol, yn ol *Bedford*, yn y flwyddyn o flaen mynediad Israel o'r Aipht, a'i enedigaeth yn gyfatebol i hyny, yn y 3edd flwyddyn ar ol iddynt fyned yno.

Yr ydys yn barnu na pharhaodd adfyd Job fawr gyda mis, oddiwrth yr amgylchiadau canlynol. Nid yw yn debygol i'w adfyd ddechreu fawr o amser cyn i'w gyfeillion ymweled âg ef. Yna buant ddistaw saith niwrnod. *Job* 2. 13. Nid allai yr ymddiddanion sydd yn llyfr Job barhau fawr o ddyddiau. Nid yw yn ymddangos i gyfeillion Job ymadael âg ef, trwy'r cwbl, nes iddynt ddibenu trwy aberth. *Job* 42. 8, 9. Yr oedd ganddynt deuluoedd, tebygol, achosion pa rai oedd yn rhwystr iddynt i aros yn hir yn absennol oddi wrthynt. *Bedford, p.* 296.

IV. Nid yw hysbys pwy oedd ysgrifenydd llyfr Job. Y mae rhai yn ei briodoli i Moses; ac ereill, gyda mwy o debygolrwydd, i Elihu, un o gyfeillion Job, am na enwodd ei hunan, pan enwodd y cyfeillion ereill—a'i fod yn llefaru *(Job* 32. 7—17.) fel un a ysgrifenodd yr hanes. Nid yw chwaith yn ymddangos pa bryd gyntaf y cafodd yr eglwys y trysor hwn. Y farn gyffredinol yw iddo gael ei wneuthur yn adnabyddus gan Moses i Israel, tra yr oeddynt yn yr anialwch, i ddysgu iddynt amynedd dan eu hamrywiol wasgfäon. *Bedford, p.* 297.

Taflen 2, o'r Trydydd Dosparth.

Oed y Byd.	Cyn Crist.	Ar ol yr Addew.	Hanes o'r pethau mwyaf Hynod, a'r Profiadau.
2084	1925	1	Y mae Abraham yn fab 75 mlwydd yn myned o Haran i Ganaan, ac oddi yno i'r Aipht; ar ei ddychweliad i Ganaan y mae Lot ac yntau yn ymadael â'u gilydd. *Gen.* 12. 4, 10. *Gen.* xiii.
2091	1918	8	Bera brenin Sodom ac ereill yn gwrthryfela yn erbyn Cedorlaomer, ar ol ei wasanaethu 12 mlynedd. *Gen.* 14. 1—4. Abraham yn 82 mlwydd.
2092	1917	9	Y mae Cedorlaomer yn eu gorchfygu—yn cymmeryd Lot yn garcharor, yr hwn a waredir trwy ffuddugoliaeth Abraham. *Gen.* 14. 5—24.
2093	1916	10	Y mae Sarah yn rhoddi Hagar i Abraham wedi iddo drigo 10 mlynedd yn Nghanaan. *Gen.* 16. 2, 3.
2095	1914	12	Genir Ismael pan oedd Abraham yn 86. *Gen.* 16. 16.
2108	1901	25	Ordeiniwyd yr Enwaediad. *Gen.* 17. 7—14, 23—27. Abraham yn cael addewid o fab. *Gen.* 17. 16—22. Dinystr Sodoma, &c. *Gen.* 19. 1—29. Abraham yn 99 mlwydd, ac Ismael yn 13.
2109	1900	26	Genir Isaac. *Gen.* 21. 1—5. Abraham yn 100 oed. Genir Moab ac Ammon i Lot. *Gen.* 19. 31—38.
2114	1895	31	Ismael yn gwatwor neu yn erlid Isaac, ac efe yn 5 oed —Ismael yn 19—ac Abraham yn 105. Hon yw y gyntaf o'r 400 mlynedd o orthrymder hâd Abraham. *Gen.* 21. 9. *Gal* 4. 29. *Gen.* 15. 13. *Act.* 7. 6.
2142	1867	59	Y mae Abraham yn offrymu Isaac. *Gen.* xxii. Yr oedd Abraham, tybygid, y pryd hwnw, yn 133 mlwydd, ac Isaac yn 33. Fel y mae Isaac yn gysgod o Grist yn ei offrymiad, hwyrach ei fod hefyd o ran amser ei fywyd y pryd hwnw.
2146	1863	63	Sarah yn marw yn 127 mlwydd oed, pan oedd Abraham yn 137, ac Isaac yn 37. *Gen.* 23. 1, 2.
2149	1860	66	Y mae Isaac yn 40 oed yn priodi Rebecca. *Gen.* 25. 20.
2159	1850	76	Y mae Sem yn marw, 502 mlynedd wedi y diluw. *Gen.* 11. 11.
2169	1840	86	Genir Jacob ac Esau, pan oedd Isaac yn 60 mlwydd oed. *Gen.* 25. 26.
2184	1825	101	Y mae Abraham yn marw yn 175 oed, pan oedd Isaac yn 75, (*Gen.* 25. 7) a Jacob ac Esau yn 15 oed.
2246	1763	163	Jacob yn cael y fendith, yn 77 mlwydd oed, a'i dad yn 137; yn ffoi at Laban; yn cytuno am Leah a Rahel i wasanaethu 14 blynedd, ac yn priodi y ddwy o fewn pythefnos. *Gen.* 27. 27. a 29. 15—30.
2247	1762	164	Genir Reuben o Leah. *Gen.* 29 32. Jacob yn 78 oed.
2248	1761	165	Genir Simeon o Leah. *Gen.* 29. 33. Jacob yn 79 oed.
2250	1759	167	Genir Lefi o Leah. *Gen.* 29. 34. Jacob yn 81 oed.
2252	1757	169	Genir Judah o Leah. *Gen.* 29. 35. Jacob yn 83.

Oed y Byd	Cyn Crist.	Ar ol yr Addew.	Hanes o'r Pethau mwyaf Hynod, a'r Profiadau.
2253	1756	170	Genir Dan o Bilha llaw-forwyn Rahel. *Gen.* 30. 6.
2254	1755	171	Genir Naphtali o Bilha. *Gen.* 30. 7, 8. Jacob yn 85 oed.
2255	1754	172	Genir Gad o Zilpah llaw-forwyn Leah. *Gen.* 30. 11.
2256	1753	173	Genir Aser o Zilpah. *Gen.* 30. 12, 13. Oed Jacob 87.
2257	1752	174	Genir Issachar o Leah. *Gen.* 30. 18. Oed Jacob 88.
2258	1751	175	Genir Zabulon o Leah. *Gen.* 30. 20. Oed Jacob 89.
2259	1750	176	Genir Dinah o Leah. *Gen.* 30. 21. Oed Jacob 90.
2260	1749	177	Genir Joseph o Rahel, tua diwedd y 14 flynedd o wasanaeth Jacob gyda Laban. *Gen.* 30. 23—26. Oed Jacob 91.
2266	1743	183	Jacob wedi gwasanaethu 6 blynedd yn ychwaneg yn ymadael â Laban. *Gen.* 31. 1—41. Yn cyfarfod âg Esau; yn dyfod i Sichem ac yn trigo yno. *Gen.* xxxii. a xxxiii. Oed Jacob 97.
2267	1742	184	Judah, oddeutu 14 oed, yn priodi Canaanees. *Gen.* 38. 1, 2.
2275	1734	192	Treisir Dinah, a hi oddeutu 16 mlwydd. *Gen.* xxxiv. Oed Jacob 106.
2276	1733	193	Jacob yn myned o Sichem i Bethel, ac oddi yno i Hebron at Isaac. Geni Benjamin, a Rahel yn marw. *Gen.* 35. 16—20, 27. Oed Jacob 107. Joseph yn 16, Isaac yn 167.
2277	1732	194	Joseph yn 17 oed a werthir gan ei frodyr. *Gen.* 37. 2, 28.
2281	1728	198	Er mab Judah, a gwr Tamar, yn marw oddeutu 14 oed. *Gen.* 38. 7.
2282	1727	190	Onan yn priodi Tamar, ac yn marw oddeutu yr un oed a'i frawd. *Gen.* 38. 10.
2283	1726	200	Geni Pharez a Zarah i Judah o Tamar. *Gen.* 38. 12—30.
2288	1721	205	Joseph wedi bod 11 mlynedd yn yr Aipht rhwng tŷ Putiphar a'r carchar, yn dehongli breuddwydion i'w gyd-garcharorion. *Gen.* xl. a 41. 1. Joseph yn 28, a Jacob yn 119.
2289	1720	206	Isaac yn marw yn 180 mlwydd oed (*Gen.* 35. 28, 29.) 23 mlynedd wedi dyfod Jacob o Padan-Aram.
2290	1719	207	Joseph yn dehongli breuddwydion Pharaoh. *Gen.* 41. 1—32. Joseph y pryd hwn yn 30 mlwydd. *Gen.* 41. 46. a Jacob yn 121.
2292	1717	209	Y mae Joseph yn priodi merch Potipherah. *Gen.* 41. 45.
2294	1715	211	Genir Manasseh i Joseph. *Gen.* 41. 51.
2296	1713	213	Genir Ephraim i Joseph. *Gen.* 41. 52.
2297	1712	214	Y flwyddyn olaf o amldra. *Gen.* 41. 50.
2298	1711	215	Y flwyddyn gyntaf o newyn, a deg o frodyr Joseph yn myned i'r Aipht i brynu lluniaeth. *Gen.* 42. 1---3.

Oed y Byd.	Cyn Crist.	Ar ol yr Addew.	Hanes o'r Pethau mwyaf Hynod, a'r Profiadau.
2299	1710	216	Yr ail flwyddyn o newyn. Dygir Benjamin i'r Aipht yn 23 oed. *Gen.* 43. 15. a 45. 6. Oddeutu diwedd y flwyddyn y mae Jacob a'i deulu yn myned yno. *Gen.* 45. 29. a xlvi. a 47. 9. Joseph yn 39 oed, a Jacob yn 130.
2302	1707	219	Genir Job oddeutu y pryd hwn. *Job* i. a 42. 10.
2316	1693	233	Y mae Jacob yn marw 17 mlynedd wedi dyfod i'r Aipht (*Gen.* 47. 28.) yn 147 mlwydd oed. Joseph yn 56 mlwydd.
2370	1639	287	Y mae Joseph yn marw yn 110 oed, 54 blynedd ar ol ei dad. *Gen.* 50. 26.
2371	1638	288	Meibion Ephraim wrth wneuthur rhuthr i wlad Canaan cyn yr amser, a leddir oddeutu y pryd hwn, fel y bernir, gan wyr Gath. 1 *Cron.* 7. 20—23. *Bedford's Chron. Tables, p.* 385.
2372	1637	289	Genir Beria (hyny yw, mewn drygfyd) i Ephraim. 1 *Cron.* 7. 23.
2387	1622	304	Y mae Lefi yn marw, yn 137 mlwydd oed; 17 mlynedd ar ol Joseph, *Exod.* 6. 16. a 46 mlynedd cyn geni Moses. Gwel tu dalen 57.
2426	1583	343	Genir Miriam 87 mlynedd o flaen yr ymadawiad o'r Aipht, yn ol barn gyffredinol yr ysgrifenwyr Iuddewig.
2427	1582	344	Ramases Miamun yn dechreu teyrnasu yn yr Aipht, ac yn gorthrymu Israel; 57 mlynedd wedi marw Joseph, *Exod.* 1. 8—14. a 86 cyn eu gwared.
2430	1579	348	Genir Aaron, *Exod.* 7. 7. 83 mlynedd cyn yr ymadawiad o'r Aipht.
2433	1576	350	Genir Moses, *Exod.* 7. 7. 80 mlynedd cyn yr ymadawiad o'r Aipht.
2473	1536	390	Moses yn 40 mlwydd oed yn gadael y llys i ymweled â'i frodyr; yn lladd yr Aiphtwr, ac yn ffoi i Midian. *Exod.* 2. 11—15. *Act.* 7. 15. *Heb.* 11. 24—26.
2493	1516	410	Ramases Miamun brenin yr Aipht yn marw, wedi teyrnasu 66 mlynedd, a Pharaoh Amenophis yn frenin yn ei le.
2512	1497	429	Job yn marw yn y flwyddyn o flaen yr ymadawiad o'r Aipht, yn ol barn yr ysgrifenwyr Iuddewig.
2513	1496	430	Israel yn dyfod allan o'r Aipht, wedi bod yno 214 mlynedd er mynediad Jacob a'i deulu yno; a 430 ar ol yr addewid i Abraham. *Exod.* 12. 40, 41. *Act.* 7. 6, 7. *Gal.* 3. 17.

D. S. Er mwyn cysondeb y Taflenau Amseryddol, y mae y blynyddoedd i gyd ynddynt yn dechreu yn Ionawr; ond ni ddaeth Israel o'r Aipht hyd y 15fed o Nisan, sef y 4ydd o Ebrill yn y flwyddyn ganlynol.

Y PEDWERYDD DOSPARTH.

O ymadawiad Israel o wlad yr Aipht, hyd oni sylfaennyd y Deml, yn y 4edd flwyddyn o deyrnasiad Solomon, yr oedd 480 *o flynyddoedd. O sylfaeniad y Deml hyd ei gorpheniad, yr oedd 7 mlynedd.* 1 *Bren.* 6. 1, 37, 38. *Felly yr holl amser a gyfrifir i'r Dosparth hwn, yw* 487 *o flynyddoedd, y rhai a gyfrenir yn ol yr amryviol ranau ag sydd yn y Daflen ganlynol.*

Taflen 1, *o'r Pedwerydd Dosparth.*

Oed y Byd.	Cyn Crist.	Ar ol yr Ymada.	Cyfraniadau y Pedwerydd Dosparth, a'r Pofiadau.
2553	1456	*40	Yn yr anialwch 40 mlynedd. *Jos.* 5. 6. *Exod.* 7. 7. *Deut.* 34. 7.
2578	1431	65	Tan lywodraeth Josua 25 mlynedd. *Josephus.*
2590	1419	77	Tan yr Henuriaid 12 mlynedd. *Jos.* 24. 31.
2630	1379	117	Hyd ddiwedd gorphwysdra Othniel 40 mlynedd. *Barn.* 3. 11.
2710	1299	197	Hyd ddiwedd gorphwysdra Ehwd, 80 mlynedd. *Barn.* 3. 30.
2750	1259	237	Hyd ddiwedd gorphwysdra Deborah, 40 mlynedd. *Barn.* 5. 31.
2790	1219	277	Hyd ddiwedd gorphwysdra Gedeon, 40 mlynedd. *Barn.* 8. 28.
2793	1216	280	Llywodraeth Abimelec, 3 blynedd. *Barn.* 9. 22.
2816	1193	303	Tolah o lwyth Issachar, 23 blynedd. *Barn.* 10. 2.
2838	1171	325	Jair y Gileadiad, 22 blynedd. *Barn.* 10. 3.
2844	1165	331	Jephthah y Gileadiad, 6 blynedd. *Barn.* 12. 7.
2851	1158	338	Ibsan y Bethlehemiad, 7 mlynedd. *Barn.* 12. 11.
2861	1148	348	Elon y Zabuloniad, 10 mlynedd. *Barn.* 12. 11.
2869	1140	356	Abdon mab Hillel y Pirathoniad, 8 mlynedd. *Barn.* 12. 14.
2909	1100	396	Samson ac Eli, 40 mlynedd. *Barn.* 15. 20. 1 *Sam.* 4. 18. *Barn.* 13. 1.
2949	1060	436	Samuel a Saul, 40 mlynedd. *Act.* 13. 20, 21.
2989	1020	476	Dafydd a deyrnasodd 40 mlynedd. 2 Sam. 5. 4.
2993	1016	480	Sylfaenwyd y Deml yn y 4edd flwyddyn i Solomon, yn yr 2il mis. 1 *Bren.* 6. 1.
3000	1009	487	Gorphenwyd y Deml yn yr 11 flwyddyn i Solomon, yn yr 8fed mis. 1 *Bren.* 6. 37, 38. Ond ni chyssegrwyd hi hyd y 7fed mis o'r flwyddyn ganlynol. 2 *Cron.* 7. 10, 11.

* Y mae y flwyddyn olaf o'r 40 yn yr anialwch, yn cyfateb i'r flwyddyn 2553 o oed y byd, a'r flwyddyn 1456 cyn geni Crist, ac felly yn unol â hyny, y mae y flwyddyn olaf o lywodraeth y Barnwyr, &c. yn cyfateb i flwyddyn oed y byd, a chyn geni Crist ar ei gyfer yn niwedd y Daflen.

PENNOD I.

Ynghylch Cyfraniad yr Amser yn y Pedwerydd Dosparth.

Yr ydys yn cyfaddef, yn gyffredinol, fod mwy o anhawsder yn y Dosparth hwn nac un arall yn yr holl Amseryddiaeth Ysgrythyrol. Yr anhawsder sydd yn hyn, sef cysoni blynyddoedd y Barnwyr, ynghyd â blynyddoedd yr amrywiol orthrymderau a grybwyllir am danynt yn llyfr y Barnwyr, â rhifedi y blynyddoedd a roddir yn 1 *Bren.* 6. 1. sef 480 o flynyddoedd. Ac y mae yr hyn ag y mae yr Apostol Paul yn ddywedyd, *Act.* 13. 20. yn chwanegu yr anhawsder. Geiriau yr Apostol yn y lle crybwylledig ydynt fel hyn: 'Ac wedi y pethau hyn, dros yspaid ynghylch pedwar cant a deng mlynedd a deugain, efe a roddes farnwyr iddynt hyd Samuel y prophwyd.' Y mae yn eglur fod yr Apostol Paul (oedd wedi cael ei ddwyn i fynu wrth draed Gamaliel, ac yn hyddysg yn holl ddysgeidiaeth yr Iuddewon) yn chwanegu blynyddoedd y Barnwyr at flynyddoedd y gorthrymderau yn yr yspaid hwn, fel yr oedd yr Iuddewon yn gwneuthur yn gyffredinol, fel y gellir casglu o Josephus yr Hanesydd Iuddewig, o waith pa un y tynwyd y Daflen ganlynol.

		Bl.
Llyfr V. Pen. 3.	Gorthrymder dan Cushan. *Barn.* 3. 8.....	8
Llyfr V. Pen. 4.	Othniel yn barnu. *Barn.* 3. 11.....	40
Llyfr V. Pen. 5.	Gorthrymder dan Eglon. *Barn.* 3. 14....	18
	Ehwd yn barnu. *Barn.* 3. 15—30.....	80
Llyfr V. Pen. 6.	Gorthrymder dan Jabin. *Barn.* 4. 3.....	20
	Deborah a Barac. *Barn.* 5. 31.....	40
Llyfr V. Pen. 7.	Gorthrymder dan Midian. *Barn.* 6. 1....	7
Llyfr V. Pen. 8.	Gideon yn barnu. *Barn.* 8. 28.....	40
Llyfr V. Pen. 9.	Abimelech yn teyrnasu. *Barn.* 9. 22.....	3
	Tolah mab Puah yn barnu. *Barn.* 10. 1, 2.	23
	Jair y Gileadiad yn barnu. *Barn.* 10. 3...	22
	Gorthrymder dan Ammon. *Barn.* 10. 8...	18
	Jephthah yn barnu. *Barn.* 12. 7.....	6
	Ibsan o Bethlehem. *Barn.* 12. 8, 9.....	7
	Elon y Zabuloniad. *Barn.* 12. 11, 12.....	10
	Abdon y Pirathoniad. *Barn.* 12. 13, 14...	8
Llyfr V. Pen. 10.	Gorthrymder dan y Philistiaid. *Barn.* 13. 1.	40
	Samson yn barnu. *Barn.* 16. 31.....	20
Llyfr V. Pen. 12.	Eli yn barnu. 1 *Sam.* 4. 18.....	40
		450

Os chwanegir at y 450 mlynedd, allan o'r un Hanesydd, y 40 mlynedd yn yr anialwch, y 25 mlynedd y mae efe yn eu cyfrif i lywodraeth Josua, a 40 mlynedd i Saul (Llyfr VI. Pen. 15.) 40 mlynedd i Dafydd, a 4 blynedd o deyrnasiad Solomon pan sylfaenwyd y Deml, bydd y cwbl yn 599 o flynyddoedd o'r mynediad o'r Aipht hyd sylfaeniad Teml Solomon, yr hyn yw 119 o flynyddoedd yn fwy na'r gwir amser, sef 480 o flynyddoedd. 1 *Bren.* 1. 6.

II. Geill rhyw un wrthddadleu a gofyn, Paham y mae Paul yn dywedyd fod 450 o flynyddoedd dan lywodraeth y Barnwyr hyd Samuel y Prophwyd?—I hyn gellir ateb, ei fod yn cyfrif fel yr oedd yr Iuddewon yn yr oes hòno yn arferol o gyfrif yr amseroedd yn yr ysbaid hwn; ac yr oedd yn gyfrif cywir o ran yr amrywiol ranau fel y dangoswyd; ond yn anghywir o ran y swm o'r cwbl, fel y dangosir. Heblaw hyny, nid yw yn ymddangos fod Paul yn ei roddi fel cyfrif manwl, ond yn hytrach yn y gwrthwyneb, gan ei fod yn dywedyd, 'ynghylch 450 o flynyddoedd.' Yn y Groeg, ως, megys, hyny yw, megys y dywedwch, neu megys y cyfrifwch.

III. Ymddengys yn eglur nad yw yr ysbaid o 450 o flynyddoedd yn gyfrif manwl, am y gellir profi fod blynyddoedd rhai o'r gorthrymderau yn cyd-gerdded, neu yn gyfamserol â blynyddoedd rhai o'r Barnwyr, megys 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid, a'r amser y bu Samson ac Eli yn barnu Israel. Cymherwch *Barn.* 13. 1. a 15. 20. 1 *Sam.* 4. 18. a 6. 1. â'u gilydd; ac fe ddeallir fod 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid yn gyfamserol âg 20 mlynedd Samson, a 40 mlynedd Eli, oddieithr y 7 mis y bu yr arch yn ngwlad y Philistiaid. Gwel *Mynegai y Bibl ar gyfer y blynyddoedd cyn geni Crist* 1156 *a* 1155 *a* 1116, *a'r Ail Daflen o'r Pedwerydd Dosparth, ym mlaen.*

IV. Ni eill fod fawr o ammheuaeth, nad oedd y 18 mlynedd gorthrymder oddiwrth feibion Ammon, i gyd yn gynnwysedig yn amser Jair y Gileadiad; dywedir, *Barn.* 10. 8. 'A hwy (sef meibion Ammon) a flinasant ac a ysigasant feibion Israel y flwyddyn hòno: tair blynedd ar bymtheg (sef) holl feibion Israel y rhai oedd tu hwnt i'r Iorddonen yn ngwlad yr Amoriaid, yr hon sydd yn Gilead.' Os gofynir pa flwyddyn oedd 'hòno' a sonir am dani yn yr adnod—gellir ateb, mai y flwyddyn ym mha un y bu Jair farw, yn ol pob tebygolrwydd. Hòno oedd, tybygid, y ddeunawfed flwyddyn er pan ddechreuasai Ammon flino Israel y tu hwnt i'r Iorddonen y'ngwlad Gilead, sef gwlad y ddau lwyth a hanner. Tra bu Jair fyw, gallwn feddwl iddo ef a'i ddeg mab ar hugain yn eu deg dinas ar hugain, eu hattal rhag croesi yr Iorddonen. Ond ar ol ei farwolaeth, ac yn yr un flwyddyn y bu efe farw, tybygid, yr aethant dros yr Iorddonen, i ymladd yn erbyn Judah, Benjamin, ac Ephraim. Ar yr un pryd, tebygol, y daeth y Philistiaid o'r ochr orllewinol i'r wlad i derfynau Israel, fel y bu 'gyfyng iawn ar Israel.' *Adn.* 9. Yn yr amgylchiadau

cyfyng hyn, y dewiswyd Jephthah yn dywysog. *Barn.* 10. 18. a 11. 1—10. *Petavius Ration. Temp. lib.* 2.

V. Y mae yr hanes am y pedwar gorthrymder cyntaf (*Barn.* 3. 8. a 3. 14. a 4. 3. a 6. 1.) yn ymddangos fel pe byddai blynyddoedd y gorthrymderau yn amserau gwahanol oddiwrth flynyddoedd y llonyddwch, ac y dylai amser y naill gael ei chwanegu at amser y llall. Ond pe gwnaid felly, ni fyddai amserau llyfr y Barnwyr yn cyfateb i 1 *Bren.* 6. 1. Er mwyn cysoni y naill â'r llall, y mae yn angenrheidiol i farnu fod blynyddoedd y gorthrymderau yn gyunwysedig ym mlynyddoedd y llonyddwch. Pan ddywedir, *Barn.* 3. 11. 'A'r wlad a gafodd lonydd ddeugain mlynedd,' y mae yn angenrheidiol i ni ddeall i'r wlad gael llonydd ar ol gorthrymder Chusan, hyd oni chyflawnwyd deugain mlynedd er amser y llonyddwch yn amser Josua, a'r henuriaid a fu fyw ar ei ol. *Jos.* 24. 31. Yn yr un modd y deallwn yr hyn a ddywedir am flynyddoedd gorphwysdra Ehwd, 'A'r wlad a gafodd lonydd bedwar ugain mlynedd,' sef, hyd oni chyflawnwyd pedwar ugain mlynedd ar ol diweddu y llonyddwch yn amser Othniel. Ac felly am y lleill. Gwel *Mynegai y Bibl, 4edd oes y byd, cyn Crist* 1405, *&c.*

VI. Cyfrifir 25 mlynedd i lywodraeth Josua, ar ol marwolaeth Moses, am na fyddai yn gyson â swm y blynyddoedd yn yr yspaid hwn i gyfrif mwy neu lai iddo. Y mae Josephus yn cyfrif 25 mlynedd i Josua yn ei lywodraeth. Sylwyd eisoes fod yr Iuddewon yn cyfrif yn gywir o ran yr amrywiol ranau yn yr yspaid hwn a grybwyllwyd uchod; ac y mae lle i farnu fod Josephus yn gywir yn y blynyddoedd a gyfrifir i Josua, wrth gymharu oed Josua yn marw, sef 110, ac oed Caleb pan aeth gyda Josua i edrych ansawdd gwlad Canaan, oddeutu canol yr ail flwyddyn ar ol dyfod allan o'r Aipht. Y mae Caleb yn dywedyd (*Jos.* 14. 7.) ei fod y pryd hwnw yn 40 mlwydd oed. Ym mhen 45 mlynedd wedi hyn, sef oddeutu canol y 7fed flwyddyn ar ol dyfod i wlad Canaan, y mae yn dywedyd ei fod yn 85 mlwydd oed. *Jos.* 14. 10. Wrth ystyried fod Josua yn 110 pan fu farw, a thrwy gyfrif 25 mlynedd i'w lywodraeth, a chymharu hyny âg oed Caleb—ymddengys fod Josua yn 46 pan aeth i edrych ansawdd y wlad; gan fod 39 blynedd yn yr anialwch, a 25 yn ei lywodraeth, at 46 yn gwneuthur i fynu flynyddoedd ei oes, sef 110. *Jos.* 24. 29. Yn ol y cyfrif hwn, pan oedd Caleb yn 85 mlwydd y'nghanol y 7fed flwyddyn ar ol dyfod i Ganaan, yr oedd Josua yn 91, ac ar ol hyny y mae yn llywodraethu 19 blynedd, a Chaleb yn 104 mlwydd oed pan fu Josua farw. Tebygol fod Josua wedi llywodraethu yn hŵy nag y mae rhai wedi barnu*—oddiwrth yr hyn a ddywedir yn *Jos.* 23. 1. Y mae Bedford yn cyfrif 25 mlynedd i lywodraeth Josua. *Page* 450, *in the margin.*

* Nid yw Lightfoot yn cyfrif ond 10 mlynedd i lywodraeth Josua, a 7 i'r henuriaid ar ol Josua. Nid yw yr Archesgob Usher yn cyfrif ond 46 i ennill y wlad, llywodraeth Josua, a gorphwysdra Othniel. *Bedford's Chron. p.* 47.

VII. Cyfrifir 12 mlynedd i'r henuriaid a fu byẁ i lywodraethu ar ol Josua; *Jos.* 24. 31. sef Caleb ac ereill. Nid ellir rhoddi mwy na llaí iddynt yn gyson â'r swm yn y Daflen. Yn ol y cyfrif hwn nid allai yr hynaf o'r henuriaid hyny, heblaw Caleb, fod yn hynach na 97 mlwydd, gan fod yr holl feibion a ddaethant o'r Aipht, yn 20 mlwydd ac uchod, wedi meirw yn yr anialwch, ond Caleb a Josua. *Num.* 14. 29, 30. Hwyrach fod y ddau hyn wedi cael eu bendithio âg oes hŵy nag oedd gyffredin yn y dyddiau hyny, am eu ffyddlondeb i'r Arglwydd.

VIII. Cyfrifir 40 mlynedd rhwng Samuel a Saul, sef 21 i Samuel, a 19 i Saul. Nis gellir rhoddi fawr lai i Samuel nag 21 mlynedd, wrth ystyried yr amgylchiadau canlynol. Nid eill fod dim ammheuaeth na ddechreuodd Samuel lywodraethu ar ol marwolaeth Eli. 1 *Sam.* 3. 19, 20. Bu yr arch 7 mis yn ngwlad y Philistiaid, ac 20 mlynedd wedi hyny yn Ciriath-jearim, sef tra y parhaodd Israel i alaru ar ol yr Arglwydd. 1 *Sam.* 7. 2. Bu yr arch 50 mlynedd o gwbl yn Ciriath-jearim, hyd oni chyrchodd Dafydd hi oddi yno yn 11eg flwyddyn o'i deyrnasiad, 2 *Sam.* vi. ond o'r holl amser y bu yr arch yno, yr oedd achos neillduol, tybygid, i sylwi ar yr 20 mlynedd cyntaf, am fod y diwygiad a ddechreuodd gyda llywodraeth Samuel, wedi parhau cyhyd a hyny, ac oddeutu cyhyd ag y bu efe yn llywodraethu.—Ar ol dychweliad yr arch o wlad y Philistiaid, galwodd Samuel holl Israel i Mispeh i gymmanfa grefyddol, lle yr annogodd hwynt i edifeirwch, ac y gweddïodd drostynt. 1 *Sam.* 7. 5, 6. Clybu y Philistiaid am y gymmanfa yn Mispeh, a thybiasant fod Israel am daflu yr iau a ddygasent er's 40 mlynedd, gan hyny, casglasant eu byddinoedd, gan feddwl syrthio arnynt; ond o herwydd bod Israel y pryd hyn mewn cyflwr edifeiriol, a thrwy weddi Samuel, rhoddodd yr Arglwydd iddynt fuddugoliaeth fawr ar y Philistiaid yn Ebenezer, sef yr un man lle collodd Israel y frwydr oddeutu blwyddyn o'r blaen. 1 *Sam.* 4. 1, 10. Y mae amryw Amseryddion yn rhoddi y fuddugoliaeth hon yn Ebenezer yn y flwyddyn olaf o'r 20 mlynedd y bu yr arch yn Ciriath-jearim, tua diwedd llywodraeth Samuel; ond pwy bynag a ystyrio yn fanwl yr holl amgylchiadau o flaen ac wedi y fuddugoliaeth hòno, a'r hyn a ddywedir yn 1 *Sam.* 7. 13. sef, bod 'llaw yr Arglwydd yn erbyn y Philistiaid holl ddyddiau Samuel'—a gaiff ei dueddu, hwyrach, i farnu mai yn y flwyddyn gyntaf o arosfa yr arch yn Ciriath-jearim y bu y fuddugoliaeth ar y Philistiaid yn Ebenezer. 1 *Sam.* 7. 9—12. Tybygid fod Paul yn *Act.* 13. 21. yn cyfrif 40 mlynedd rhwng Samuel a Saul, gan ei fod yn dywedyd, *adn.* 20. fod 450 mlynedd hyd Samuel y prophwyd, hyny yw, hyd ddechreuad ei lywodraeth, 'ac yn ol hyny,' fod Saul yn teyrnasu hyd oni chyflawnwyd 40 mlynedd rhyngddo ef a Samuel, fel y gallwn ei ddeall, gan nad yw yn pènu dim amser i lywodraeth Samuel, yr hwn, y mae yn eglur, a lywodraethodd hyd oni heneiddiodd. 1 *Sam.* 8. 1.

IX. Geill rhaniad yr amseroedd yn nechreu Taflenau y pedwerydd dosparth ymddangos fel pe byddai yn anghytunol â geiriau Jephthah wrth feibion Ammon, *Barn.* 11. 26. lle mae yn dywedyd fod 300 mlynedd er pan ddaethai gwledydd Og a Sehon i feddiant y ddau lwyth a hanner, yn niwedd y 40 mlynedd o'u teithiau yn yr anialwch. Yn y Taflenau hyn, ni chyfrifir ond 286 mlynedd o'r flwyddyn olaf o'r 40 yn yr anialwch hyd y flwyddyn gyntaf o lywodraeth Jephthah. Hwyrach fod Jephthah yn arfer nifer crwn, neu union, am nad oedd fawr yn eisiau o'r 300 mlynedd, fel y mae dynion yn dueddol o wneuthur pan ddadleuant gyda sel a gwresogrwydd. Nid yw *Usher's Annals* yn cyfrif dim yn ychwaneg na 264 mlynedd o'r dyfodiad i Ganaan hyd Jephthah; na *Lightfoot* ddim yn ychwaneg na 265; am ba achos nis gellir cymmeradwyo eu rhaniad o'r amser yn y dosparth hwn. *Bedford's Chron. p.* 478, 479.

PENNOD II.

Gwlad yr Aipht.

Rhoddir yn y bennod hon ddarluniad byr o wlad yr Aipht, lle bu Israel yn ymdeithio 214 o'r blynyddoedd a gynnwysir yn y dosparth hwn, ac am ba un y mae mynych sôn yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Bernir fod tarddiad yr enw Aipht (Ægyptus, Egypt) oddiwrth yr hen enw, Ai Caphtor, gwlad, neu ynys Caphtor, *Jer.* 47. 4. *Amos* 9. 7. trwy gyfnewidiad cyffredin o'r llythyren C, i G, a gadael allan y sill olaf o'r gair, yn ol arfer yr iaith Gymraeg; felly y gwneir Aigapht, ac Aipht. Gwel *Dr. Hales's Chron. p.* 367.

II. Terfynir yr Aipht o du y dwyrain gan y Môr Coch, a elwir tafod Môr yr Aipht, *Esa.* 11. 15. am ei fod ar lun tafod—o du y gorllewin gan Cyrene, a diffeithwch Lybia—o du y gogledd gan Fôr y Canoldir—o du y dehau gan Ethiopia yn Affrica, yr hon yn bresennol a elwir Nubia. *Heilyn's Geog.* Y mae terfynau gogleddol a deheuol gwlad yr Aipht yn cael eu darlunio, *Ezec.* 29. 10. 'O dŵr Syene hyd yn nherfyn Ethiopia;' yr hyn yn ol barn *Prideaux,* ac ereill, a ddylai gael ei gyfieithu, 'O Migdol i Syene hyd yn nherfyn Ethiopia.' Yr oedd Migdol yn ddinas gerllaw y Môr Coch, yn agos i derfyn gogleddol yr Aipht; *Exod.* 14. 2. *Jer.* 44. 2. yr hon a elwir Magdolus gan y LXX. *Exod.* 14. 2. Pawb a gydunant yn unfryd mai y ddinas fwyaf deheuol yn ngwlad yr Aipht oedd Syene, yn awr Assuan, yn agos i derfyn Ethiopia, neu Nubia. Y mae yr Aipht o'r gogledd i'r dehau, oddeutu 500 milltir o hyd, ac oddeutu 140 o led, ar hyd làn Môr y Canoldir. Y mae y rhan oreu a ffrwythlonaf o wlad yr Aipht yn gynnwysedig o ddyffryn bras, trwy ganol pa un y mae afon Nilus* yn rhedeg o'r dehau i'r go-

* Y mae *Nahal* yn arwyddo afon yn *Heb.* trwy roddi terfyniad Lladin i'r gair y lluniwyd yr enw Nilus.

gledd, yr hon yn uchel i fynu nid yw dros 4 milltir o led, ac wedi hyny y mae yn lledu i 8, ac yn raddol i'w lled mwyaf, sef 140. O bob tu y dyffryn hwn, y mae dwy res o fynyddoedd ar gyfer eu gilydd yn rhedeg yn ddidor oddi fynu hyd yn agos ar gyfer Cairo (Memphis gynt) ac oddi yno y mae y rhes sydd o du y dwyrain i'r dyffryn yn troi tu a'r Môr Coch. Ychydig o filltiroedd islaw Cairo yr oedd yr afon Nilus yn ymranu, ac wedi hyny yn ymdywallt i Fôr y Canoldir yn saith ffrwd; *Esa.* 11. 15. o ba rai nid oes yn bresennol ond dwy. *Heylin's Geog. p.* 853. Y wlad trwy ba un yr oedd yr afon Nilus gynt yn rhedeg yn saith ffrwd, a alwyd tan yr enw Delta, o ran ei thebygolrwydd i'r llythyren Groeg o'r enw hwnw, yr hon sydd driongl o'r llun canlynol, Δ.

III. Y mae gwlad yr Aipht wedi bod erioed yn ddyledus am ei ffrwythlondeb i lifeiriant blynyddol yr afon Nilus, yr hon sydd yn dechreu oddeutu canol Mehefin, ac yn codi yn gyffredin oddeutu 17 droedfedd dros wyneb y dyffryn. Y mae prinder weithiau yn digwydd oddiwrth rhy fychan, ac weithiau oddiwrth ormod o ddwfr. Y mae y cynhauaf i fewn oddeutu yr 20fed o Fai. Tra parhao y llifeiriant, y mae y tai a'r dinasoedd, ag sydd wedi eu hadeiladu i gyd ar uchelderau, yn ymddangos fel ynysoedd y'nghanol y môr, a'r holl fasnach rhwng y trigolion â'u gilydd a ddygir y'mlaen trwy lestri o amrywiol faintioli.—Un effaith ragorol heblaw ffrwythlondeb, sydd yn tarddu oddiwrth lifeiriant yr afon, a hyny yw iechyd i'r trigolion, gan fod y cornwyd sydd yn aml yn yr Aipht yn lleihau ac yn darfod fel y cyfodo yr afon.—Ar fin yr afon Nilus y mae y papyrfrwyn yn tyfu, ar ddail pa un yr arferwyd ysgrifenu gynt; ac oddi wrthynt y tarddodd y gair papyr. O'r defnyddiau hyn y gwnaeth Ptolemy Philadelphus y llyfrau ag oedd ganddo yn ei lyfr-gell yn Alexandria, oddeutu 284 mlynedd cyn geni Crist. *Heylin's Geog.*

IV. Rhanwyd yr Aipht yn ddwy ran; sef, 1. Yr Aipht Uchaf, a alwyd Thebais gan y Groegiaid, oddiwrth Thebes (neu No Amon) ei phrif ddinas. Hoń, fel y bernir, oedd gwlad Pathros. *Ezec.* 30. 14. *Jer.* 44. 2.——2. Yr Aipht Isaf, yr hon oedd yn dechreu ryw faint o filltiroedd o'r tu uchaf i flaen y Delta, lle yr oedd y dyffryn yn ymledu. Hon, fel y bernir, oedd gwlad neu ynys Caphtor, yr hon, gan mwyaf, oedd yn cael ei hamgylchynu gan yr afon a Môr y Canoldir. *Dr. Hales.* Rhan o'r Aipht Isaf oedd gwlad Gosen, ar ochr ddwyreiniol i'r Delta, ar làn y Nilus, rhwng hyny a'r Môr Coch, ar y cyfyngdir sydd yn uno Asia âg Affrica, yr hwn a elwir Isthmus Sues. Gelwir Gosen dan yr enw Tir Rameses, neu Raamses, y cwr goreu o wlad yr Aipht, *Gen.* 47. 11. oddiwrth un o'r ddwy ddinas a adeiladodd meibion Israel, *Exod.* 1. 11. yn amddiffynfeydd rhag rhuthr gelynion o Asia, ac, hwyrach, i gadw Israel tanodd rhag gwrthryfela, neu ddiangc o'r wlad.

V. Y gaingc fwyaf dwyreiniol o saith ffrwd Nilus, a alwyd gynt y Pelusiaidd, oddiwrth y ddinas gadarn Pelusium, neu ' Sin, cryfder yr

Aipht;' *Ezec.* 30. 15. a adeiladwyd rhwng yr afon Nilus ac Isthmus Sues. Hwyrach fod anialwch Sin, i ba un y daeth Israel o Elim, yn cael ei enw oddiwrth y ddinas hon. *Exod.* 16. 1.——Y gaingc nesaf o'r afon a alwyd y Tanitaidd, oddiwrth Tanis, neu Soan, un o'r dinasoedd breninol a adeiladwyd ar ei glàn.

VI. On, lle yr oedd tad yn nghyfraith Joseph yn offeiriad, a elwir Heliopolis gan y LXX, sef, *dinas yr haul,* yn *Heb.* Beth-semes, o'r un ystyr. *Jer.* 43. 13. Cyfrifwyd ei thrigolion yn amser Herodotus yn fwyaf dysgedig o'r Aiphtiaid. Yr oedd, fel y bernir, yn agos i Soan, ac oddeutu dwy filltir oddiwrth y môr. Gelwir On dan yr enw Afen, *(gwagedd) Ezec.* 30. 17. o herwydd ei delw-addoliaeth, tebygol, fel y galwyd Bethel, tŷ Dduw, yn Beth-afen, tŷ gwagedd, o herwydd addol iad y llo aur. *Hos.* 10. 5.

VII. Pibeseth, *(Ezec.* 30. 17.) a alwyd Bubastos gan y Groegiaid oedd ar yr un gaingc o'r afon a Phelusium; am hyny y galwyd y gaingc hon, weithiau dan yr enw Bubastaidd, ac weithiau Pelusiaidd.

VIII. Teyrnas gadarn oedd yr Aipht dros lawer o oesoedd, hynod am ei chyfoeth, ac amldra ei dinasoedd a'i thrigolion, am rifedi pa rai y mae yr hanesion bron yn anghredadwy. Yn yr oes bresennol, nid oes ynddi ond pedair dinas o ddim cyfrif, sef, Alexandria, Damiata, Rosetta, a Cairo. Cafodd yr Aipht ergyd trwm trwy y plâau, a thrwy foddi Pharaoh a'i fyddin yn y Môr Coch, fel nad ydym yn clywed sôn am danynt yn yr Ysgrythyrau, nac mewn hanesion credadwy ereill, hyd amser Solomon a'i fab Rehoboam. Y'mhen oddeutu 400 mlynedd wedi hyny, tua diwedd teyrnasiad Josiah, y cyrhaeddodd yr Aipht i'w maintioli a'i nerth mwyaf, pan oedd Pharaoh Necho yn bwriadu, tybygid, gwneuthur yr afon Euphrates yn derfyn dwyreiniol i'w deyrnas. *Jer.* 46. 2. Yr oedd amryw o wledydd yn Affrica mewn cyngrair, neu dan lywodraeth Necho y pryd hyny heblaw yr Aipht. Am hyny, meddyliodd dynu y dorch a'r Babiloniaid, y rhai oedd y pryd hyny yn dechreu dan Nebuchodonosor, i sylfaenu yr ymerodraeth gadarnaf a fuasai erioed cyn hyny yn Asia. *Jer.* 25. 18—33. Ond ni thyciodd iddo; canys gorchfygwyd ef yn Carchemis, wrth afon Euphrates; ac oddeutu 35 mlynedd wedi hyny y darostyngwyd yr Aipht gan yr un Nebuchodonosor, pan oedd Pharaoh Hophra yn frenin. Wedi hyny ni chododd yr Aipht byth mwy i ddim enwogrwydd fel teyrnas dan ei thywysogion ei hun. Gorchfygwyd hi agos gan bawb a ymosododd arni; gan y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, y Saraceniaid, y Tyrciaid, y Mamaluciaid, a'r Tyrciaid yr ail waith, tan lywodraeth pa rai y mae yn bresennol, yn griddfan tan dlodi a gorthrymder o bob math, er ei bod yn un o'r gwledydd brasaf dan haul. Ac yn hyn y cyflawnwyd prophwydoliaeth Noah, *Gen.* ix. a phrophwydoliaethau Jeremiah ac Ezeciel mewn perthynas i ddinystr a darostyngiad yr Aipht, megys cospedigaeth gyfiawn am ei gau-dduw-

iaeth a'i heilun-addoliaeth, a'i gelyniaeth yn erbyn yr Arglwydd a'i bobl. Bu eglwysi blodeuog yn yr Aipht dros rai cannoedd o flynyddoedd ar ol genedigaeth Crist, ond yn bresennol y mae wedi ei gorchuddio gan dywyllwch Mahometanaidd.

PENNOD III.

Mynediad Israel trwy y Môr Coch.

Y MAE cryn ddadl rhwng daear-ddarlunyddion a theithwyr ynghylch y fan lle croesodd Israel y Môr Coch. Y mae rhai yn ei osod yn agos i Sues y'mlaen y Môr Coch. Ereill, gyda mwy o debygolrwydd, wrth Clysma, neu ddyffryn Bedea, oddeutu taith deng awr yn îs i waered. Y mae enwau amryw fanau y'nghymmydogaeth Clysma, yn tueddu i gadarnhau y dyb, mai yno yr aeth Israel trwy y môr. Yn agos yma y mae rhes o fynyddoedd a elwir yn bresennol Attaka *(gwaredigaeth);* a phentir a elwir Ras Musa *(penrhyn Moses);* ychydig yn îs i waered y mae Hamam Ffaraun *(ffynonau Pharaoh);* ac enw cyffredin y rhan hwn o'r Môr Coch yw Bahral Kolsum *(bay y boddiad).* Oddeutu y fan lle bernir iddynt fyned trwodd, y mae y môr ynghylch 12 milltir o lêd, a 14 gwrhyd o ddyfnder yn ei ganol. *Dr. Hales' p.* 387. *quoting Niebuhr, and Bruce's Travels.*

PENNOD IV.

Y Môr Coch.

CAFODD y môr hwn ei enw oddiwrth ei sefyllfa, gan ei fod unwaith yn derfyn deheu-orllewinol i wlad Edom. Am hyny y galwyd yn Fôr Edom, a'r Groegiaid heb wybod yr hanes Ysgrythyrol am Edom, ond wedi deall fod Edom yn arwyddo *coch,* a'u galwasant, θαλασση ερυθρος, *y* Môr Coch; a'r Rhufeiniaid, *mare rubrum,* o'r un arwyddocâd. Yn Hebraeg ei enw yw *Yam suph,* yr hyn a gyfieithir y Môr Gwmanog gan rai, ond yn y Bibl Cymraeg, y Môr Coch. Y mae lle i ammeu, a yw y Môr Gwmanog yn iawn gyfieithiad o *Yam suph,* gan fod Bruce a welodd bob cwr o hono, yn tystio na welodd un math o chwyn ynddo. Y *Dr. Hales* 394. Y mae *suph* yn yr ystyr blaenorol yn arwyddo *terfyn,* ac mewn ystyr benthyciol, y cyrs ag sydd yn tyfu ar fin afonydd. Gan hyny, fe allai fod *Yam suph,* yn arwyddo Môr y Terfyn, am ei fod yn terfynu rhwng Asia ac Affrica, ac yn ei gŵr uchaf rhwng Arabia Petrea neu Garegog, a gwlad yr Aipht.—Y mae y Môr Coch yn agos i'w flaen

yn ymranu yn ddwy gaingc, o ba rai yr un ddwyreiniol a elwir *Elanitic*, a'r un orllewinol, *Hieropolitic.* Yn agos i flaen y gaingc orllewinol, y croesodd Israel. *Yn ol y Map yn Dr. Hales' Chron.*

PENNOD V.

Yr Anialwch, a Theithiau Israel.

Yr anialwch, y'mha un y teithiodd Israel yn agos i 40 mlynedd, oedd ran o Arabia Garegog, yr hon a derfynir o du y dwyrain gan Arabia Ddiffaith—o du y gorllewin gan y Môr Coch—o du y gogledd â gwlad Canaan, a rhan o Fôr y Canoldir—o du y dehau gan res o fynyddoedd sydd yn gwahanu rhyngddi ag Arabia Ddedwydd. *Heylin's Geog.* Gelwir hi Caregog am fod yn y rhanau dwyreiniol a gogleddol o honi lawer o fynyddoedd creiglyd—ond yn y rhanau gorllewinol, ar gyffiniau y Môr Coch, y mae llawer o ddiffeithfaoedd tywodog, heb ddim dwfr na gwyrddlesni—am hyny yn cael ei alw yn ddiffeithwch gwag erchyll. *Deut.* 32. 10.

Bu Israel yn teithio ac yn gwersyllu yn yr anialwch tan arweiniad y golofn gwmwl 40 mlynedd. Buont o'u hymadawiad o Rameses hyd eu dyfodiad i Ganaan mewn 42 wersyllfa. *Num.* xxxiii. Y mae hanes am amgylchiadau Israel, fwy neu lai, mewn 14 gwersyllfa dros oddeutu blwyddyn a hanner ar ol eu hymadawiad o'r Aipht. Rithma, yn agos i Cades Barnea, oedd y 14eg ar derfyn deheuol gwlad Canaan. *Num.* 33. 18. a 13. 26. a 32. 8. Buont wedi hyny mewn 18 gwersyllfa, dros oddeutu dwy flynedd ar bymtheg ar hugain a hanner hyd oni ddaethant drachefn i Cades yn anialwch Sin, yr hwn hefyd a elwir yn anialwch Paran. *Num.* 13. 21, 26. a 12. 16. *Deut.* 32. 51. *Dr. Hales' Chron. p.* 401. Daethant i Cades yr ail waith yn y mis cyntaf o'r 40fed flwyddyn, fel y bernir yn gyffredin. *Num.* 20. 1. a 33. 38. Buont mewn deg gwersyllfa ar ol ymadael o Cades yn y flwyddyn olaf o'r 40. Buont oddeutu 6 mis yn teithio ac yn gwersyllu, o Cades hyd onid aethant dros yr afon Zared, ar ol croesi pa un y daethant, tybygid, i Dibon-Gad, eu 38 gwersyllfa. *Num.* 33. 45. wedi ei gymharu â *Num.* 21. 11, 12. Yr oedd 38 o flynyddoedd er pan ymadawsant y tro cyntaf o Cades, hyd onid aethant dros yr afon Zared. *Deut.* 2. 14. Felly ymddengys fod oddeutu 39½ o flynyddoedd o'u hymadawiad o'r Aipht, hyd onid aethant dros yr afon Zared, yr hon oedd afon fechan yn rhedeg trwy gwr gwlad Moab i'r Môr Marw. *Num.* 21. 11—13. Buont mewn pedair gwersyllfa o'u hymadawiad o Dibon-Gad wrth afon Zared, hyd onid aethant dros yr Iorddonen. *Num.* 33. 46—51.——Yma y canlyn enwau y gwersyllfaoedd, fel y maent wedi eu gosod i lawr yn *Num.* xxxiii. gyd âg arwydd-

ocâd y rhan fwyaf: 1. Succoth, *bythod.*——2. Etham.——3. Pihahiroth, *genau Hiroth*, yr hwn oedd res o fynyddoedd wrth y Môr Coch, y'mha un y mae megys adwy neu fwlch yn arwain tu a Cairo. *Dr. Hales' Chron.* Baal-Sephon, *Baal y gogledd*, neu *arglwydd cuddiedig.*—Migdol, *tŵr*, neu *amddiffynfa*——4. Marah, chwerwder.——5. Elim, *coed.*——6. Y Môr Coch.——7. Sin, *perth* neu *Pelusiam*, oddiwrth ba un, hwyrach, y cafodd anialwch Sin ei enw.——8. Dophcah, *curo, gyru.*——9. Alus, *pobi*, hwyrach mai yma y pobasant y rhan ddiweddaf o'r blawd a ddygasant o'r Aipht. *Exod.* 16. 1. a 17. 1.——10. Rephidim, *gwelyau.*——11. Sinai, *perthi.*——12. Cibroth Hattaafah, *beddau y blys.*——13. Haseroth, *cynteddau* neu *llanerchi.*——14. Rithma, *pren meryw (Juniper);* bernir fod Cades-Barnea yn agos i Rithma, o ba le y danfonwyd yr yspiwyr.——15. Rimmon Pares, *rhwng y pomgranad-bren*, neu *gyfraniad y pomgranadau. Num.* 13. 23.——16. Libnah, *y boplysen wen*, neu *y pren Thus.*——17. Rissa, *diferiad.*——18. Cehelathah, *ymgynnulliad.*——19. Sapher, *harddwch.*——20. Haradah, *dychryn.*——21. Macelloth, *ymgynnulliadau.*——22. Tahath, *oddi tanodd, lle isel.*——23. Tarah.——24. Mithca, *melusder.*——25. Hasmonah, *cenadwri y penaethiaid.*——26. Moseroth, *ceryddon.*——27. Bene-Jaacan, *meibion Jaacan.* Gelwir y wersyllfa hon, Beeroth meibion Jaacan, sef pydewau meibion Jaacan. *Deut.* 10. 6.——28. Horagidgad, *mynydd yr ymfyddino;* yr un ydyw, tebygol, a Gudgodah, *byddino. Deut.* 10. 7.——29. Jothbathah, *daioni.*——30. Ebronah, *sain y cwmwl.*——31. Esion-Gaber, *asgwrn cefn dyn;* porthladd ar y Môr Coch, lle yr oedd rhes o greigiau yn rhedeg i'r môr, tebyg i asgwrn cefn dyn, peryglus i longau. Gwel 2 *Bren.* 22. 48.——32. Cades, *sanctaidd;* yr un, fel y bernir, a Cades Barnea, lle y dangosodd yr Arglwydd sancteiddrwydd ei gyfiawnder yn y ddedfryd a roddes ar Israel i grwydro yn yr anialwch nes darfod cymmaint o'r holl genedlaeth hono ag oedd dros ugain oed, ond Caleb a Josua. Ystyr Barnea yw, *y mab crwydredig*, sef Israel. Gwel *Num.* 14. 29, 30. a *Deut.* 2. 14. Dygodd yr Arglwydd hwynt drachefn, tybygid, i'r wersyllfa hon, yn nechreu y 40fed flwyddyn, fel y cydnabyddent gyflawniad ei air.——33. Hor, *y mynydd;* ar gŵr deheuol gwlad Edom. Yma y bu farw Aaron. *Num.* 20. 28. Tra bu Israel yn y wersyllfa hon, ymosododd Arad brenin y Canaaneaid arnynt. Dywedir fod y Canaaneaid hyn yn preswylio yn neheubarth gwlad Canaan, (*Num.* 21. 1. a 33. 40.) yn agos, tybygid, i Cades Barnea. Ymlidwyd Arad a'i wŷr gyda lladdfa fawr hyd Hormah, dinas wedi hyny a roddwyd i lwyth Simeon, allan o randir llwyth Judah (*Jos.* 19. 1, 4.); galwyd hi Hormah y waith gyntaf o herwydd y lladdfa a gafodd Israel yno, oddeutu 38 mlynedd o'r blaen, oddiar law yr Amaleciaid, a'r Canaaneaid. *Num.* 14. 40—45. Pan oedd byddin Israel yr ail waith yn Hormah, yr oedd o fewn terfynau gwlad Canaan—ond nid y pryd hyn, nac ar hyd y ffordd hon,

yr oedd yr Arglwydd am eu dwyn i mewn i'r wlad. Yr oedd raid iddynt amgylchu gwlad Edom, a Moab, a'r Môr Marw, dros oddeutu 7 mis yn ychwaneg. *Num.* 33. 38.——34. Salmonah, *llun*, neu *ddelw*. Tebygol mai yn y wersyllfa hon y dyrchafwyd y sarph bres. Canys ymddengys oddiwrth yr hanes yn *Num.* 21. 4—9. mai yn union ar ol eu hymadawiad o fynydd Hor, y danfonodd yr Arglwydd y seirph tanllyd, ac y gwnaed y sarph bres.——35. Punon, *cyfyng gynghor*, hwyrach mai o herwydd y seirph y cafodd y wersyllfa hon hefyd ei henw.——36. Oboth, *poteli lledr i gario dwfr*.——37. Ije Abarim, *carneddau Abarim*.——38. Dibon-Gad.——39. Almon Diblathaim, *cuddfa y ddau swp ffigys*.——40. Mynyddoedd Abarim.——41. Beth Jesimoth, *tŷ yr anghyfannedd-dra*, yr hwn oedd yn rhosydd Moab.——42. Abel Sittim, *galar y rhai a wyrasant;* tebygol mai o herwydd eu godineb a'u heilun-addoliaeth gyda merched Moab a Midian, a'r gospedigaeth am hyny, a'r galar a ganlynodd, y cafodd y lle hwn yr enw Abel Sittim. Nid yw y gair 'gwastadedd' yn gyfieithiad cywir, *Num.* 33. 49. am y gair *Heb.* Abel, yr hwn sydd y'mhob man fel enw cadarn, yn arwyddo galar. Gwel *y Cyf. Saes.*

Er fod amryw wedi bod yn llafurio i wneuthur darluniadau o deithiau Israel yn yr anialwch, a'u hamrywiol wersyllfaoedd, etto y mae yn rhaid cyfaddef nad ydynt, gan mwyaf, yn rhoddi ond ychydig o foddlonrwydd eu bod yn rhoddi gwir sefyllfa y gwersyllfaoedd. Gan fod Israel yn teithio y rhan fwyaf o'r 40 mlynedd trwy ddiffeithwch anghyfanneddol, nid rhyfedd fod sefyllfa amryw o'r lleoedd yn anhysbys. Ond cynnifer o honynt ag oedd ar gyffiniau gwledydd cyfanneddol, a'r Môr Coch, sydd haws i'w holrhain a'u cael allan.

PENNOD VI.

Midian, Amalec, Edom, Moab, Ammon.

Midian oedd un o feibion Abraham o Ceturah (*Gen.* 25. 2.) yr hwn a gyrhaeddodd i gymmaint cadernid ac enwogrwydd, tybygid, uwchlaw ei frodyr, ac i roddi enw i genedl y Midianiaid. Dywedir (*Gen.* 25. 6.) i Abraham sefydlu meibion ei ordderch-wragedd, Ceturah, a Hagar, yn nhir y dwyrain, sef o du y dwyrain i'r Môr Marw. Yno yr oedd y Midianiaid yn gymmydogion i'r Moabiaid o du y dehau yn cyrhaedd, tybygid, tu a phen isaf y môr hwnw, pan ddaeth Israel o'r Aipht. *Num.* xxv. a xxxi. Symmudodd rhai o'r Midianiaid oddiwrth eu cenedl, ac a sefydlasant tu a godre mynydd Sinai. Canys gelwir y wlad yn nghymmydogaeth y mynydd hwnw, lle ffodd Moses, yn wlad Midian. *Exod.* 2. 15. a 3. 1. Yma yr oedd Jethro offeiriad Midian yn byw, yr hwn, hwyrach, o ran ei swydd ysbrydol a elwir Reuel, Bugail Duw. Dechreuodd y

Midianiaid wrth y Môr Marw ymlygru o flaen y rhai hyn wrth fynydd Sinai, gan fod yma ryw nifer yn addoli y gwir Dduw, yn ol yr addysgiadau a gafodd eu hynafiaid gan Abraham. Ond er fod Jethro yn ngwlad Midian, yr oedd o genedl arall, sef y Ceneaid, ag oedd mewn rhan wedi cymmysgu â'r Midianiaid, a'r Amaleciaid. 1 *Sam.* 15. 6. O'r Ceneaid daeth rhai i wlad Canaan gyda meibion Israel. *Barn.* 1. 16. O'r rhai hyn y daeth Heber y Cenead, *Barn.* 4. 17. a'r Rechabiaid, fel y bernir. 1 *Cron.* 2. 55.—Yr oedd yr Ismaeliaid hefyd ar y cyntaf yn genedl gymmydogaethol i'r Midianiaid, ac mewn rhan wedi cymmysgu â hwynt, fel y galwyd hwy weithiau yn Fidianiaid, ac weithiau yn Ismaeliaid. *Gen.* 37. 25, 28, 36. Ond ymddengys fod yr Ismaeliaid yn genedl wasgarog a chrwydredig, fel eu hiliogaeth yr Arabiaid, gan fod eu preswylfa yn yr ystyr helaethaf yn cynnwys, tybygid, holl Arabia Garegog, hyny yw, 'o Hafilah (Arabia Ddedwydd) i Sur o flaen yr Aipht.' *Gen.* 25. 18. Cus mab Cam oedd y cyntaf a feddiannodd, ac a roddes enw i'r holl wlad hon.

II. Yr oedd Amalec yn preswylio yn y dehau i wlad Canaan, rhwng hyny a gwlad yr Aipht, a rhwng Edom a Môr y Canoldir. 1 *Sam.* 27. 8. Amalec oedd ŵyr Esau. *Gen.* 36. 12. Yr Amaleciaid oedd y cyntaf o'r Cenedloedd a ymosododd ar Israel ar ol dyfod o'r Aipht, ac fe allai mai hyny yr oedd Balaam yn ei olygu. *Num.* 24. 20. *Exod.* 17. 8—14. Diofrydwyd hwynt am hyny i ddinystr, yr hyn ni chyflawnwyd hyd amseroedd Saul a Dafydd, yr hyn oedd ychwaneg na 400 mlynedd ar ol y bygythiad cyntaf gan Moscs.

III. Gwlad Edom oedd rhwng y cŵr isaf o'r Môr Marw a'r Môr Coch, neu Fôr Edom, fel y sylwyd o'r blaen. Gelwir y wlad hon dan amryw enwau, megys mynydd Seir, Dumah, ac Idumea. *Gen.* 32. 3. *Esa.* 21. 11. a 34. 5. Yr Horiaid oedd yn preswylio yn y wlad hon cyn i feibion Esau ei difetha. *Deut.* 2. 22. Ni chaniatäodd Edom ffordd i Israel i fyned trwy ei fro. *Num.* 20. 20, 21. Ni chyflawnwyd yr amser o'u darostyngiad yn ol prophwydoliaeth Isaac (*Gen.* 27. 29, 37.) hyd amser Dafydd. 2 *Sam.* 8. 14. Yn amser Joram annuwiol, mab Jehosaphat, y gwrthryfelodd Edom yn erbyn Judah, ac felly y cafodd y rhan arall o brophwydoliaeth Isaac ei chyflawni. *Gen.* 27. 40. 2 *Bren.* 8. 20.

IV. Gwlad Moab oedd yn terfynu ar ochr ddwyreiniol y Môr Marw, ac yn cyrhaedd yn uwch i fynu gyda glàn afon yr Iorddonen. Ond cafodd y Moabiaid eu difeddiannu gan Sehon brenin yr Amoriaid o gymmaint o'u gwlad ag oedd o du y gogledd i Arnon, afon yr hon oedd yn rhedeg i gŵr uchaf y Môr Marw. Ac felly y bu afon Arnon yr hon oedd o'r blaen ynghanol Moab, yn derfyn gogleddol iddi. *Num.* 21. 26. *Barn.* 11. 13—23. *Deut.* 2. 24—37. *Fuller's Pisgah View. Heylin's Geog.* Galwyd gwlad Moab dan yr enw Ar. *Num.* 21. 28. Ond

tybygid fod Ar yn yr ystyr helaethaf yn cynnwys hefyd gwlad meibion Ammon. *Deut.* 2. 9. Yr Emiaid oedd yn preswylio yn Ar Moab, cyn i'r Moabiaid eu difetha. *Deut.* 2. 10.

V. Gwlad meibion Ammon oedd o du y dwyrain-ogledd i Jabboc, afon ag oedd yn rhedeg i'r Iorddonen ym mhen ychydig ar ol iddi ymadael â Môr Genesareth. Y Zamzummiaid oedd yn trigo yno cyn i'r Ammoniaid eu dinystrio. *Deut.* 2. 20, 21. Yr oedd gwlad meibion Ammon yn cynnwys y rhan ogleddol o'r wlad rhwng Jabboc ac Arnon, cyn i Sehon brenin yr Amoriaid eu difeddiannu ar yr un amser ag y difeddiannodd efe y Moabiaid o'u rhan hwythau, gan wneuthur yr afon Arnon yn derfyn gogleddol i'r Moabiaid. Y wlad rhwng Arnon a Jabboc oedd gwlad Sehon brenin yr Amoriaid, a orchfygodd Israel cyn myned dros yr Iorddonen, ac a ranwyd rhwng Reuben a Gad; y rhan ddeheuol i Reuben, a'r rhan ogleddol i Gad. *Deut.* 3. 16. Ym mhen oddeutu 286 o flynyddoedd wedi hyny, pan oedd llwythau Israel mewn amgylchiadau cyfyng, meddyliodd yr Ammoniaid feddiannu y wlad hon drachefn yn amser Jephthah, ond ni lwyddasant. *Barn.* 11. 13, 23. Dywedir fod Jabboc ac Arnon yn codi yn agos i'w gilydd, a chan eu bod yn rhedeg wahanol ffyrdd, yr oeddent yn amgylchu gwlad Sehon, a thrwy fod yr Iorddonen o un tu yn ei gwneuthur agos yn ynys. *Josephus lib.* 4. *c.* 4.

Gwlad Og brenin Basan oedd yn cynnwys hanner Gilead, holl Basan hyd fynydd Hermon, ar hyd ystlys Môr Genesareth a'r Iorddonen hyd ei tharddiad, y rhai oedd ar yr ochr orllewinol iddi, a'r Ammoniaid ar yr ochr ddwyreiniol. Ei therfyn deheuol oedd gwlad Sehon, terfyn gogleddol pa un oedd yn cyrhaedd i hanner Gilead, fel pe buasai Og a Sehon wedi cytuno i ranu gwlad Gilead rhyngddynt. Gwlad Og a roddwyd i hanner llwyth Manasseh. *Jos.* 12. 1—6.——Tybygid fod gwlad Gilead o bob tu i'r afon Jabboc, a bod yr afon hòno yn ei rhanu yn ei hanner. Y rhan ddeheuol o Gilead a ddigwyddodd i Gad, ym mha un yr oedd Ramoth-Gilead *(Jos.* 20. 8.); a'r rhan ogleddol i hanner llwyth Manasseh, ynghyd â Basan hyd Hermon, a Gessur, a Maachah, cyn uched agos a Dan yn ngogledd-dir Canaan. *Jos.* 12. 5. *Fuller's Pisgah View.* Yr oedd tair dinas noddfa yn ngwlad y ddau lwyth a hanner, sef Beser, Ramoth-Gilead, a Golan. *Jos.* 20. 8.

PENNOD VII.

Canaan a'i Rhanau mewn amryviol Amserau.

Canaan, yn yr ystyr priodol o'r enw, oedd yn cynnwys y wlad hòno ag oedd yn cyrhaedd o Hamath yn y gogledd, i afon yr Aipht yn y dehau, ac o Fôr y Canoldir yn y gorllewin, i afon yr Iorddonen, Môr

Genesareth, a'r Môr Marw yn y dwyrain. *Num.* 34. 2—12. Yr oedd oddeutu 200 o filltiroedd o hŷd, a 50 o led. Ond os cymmerir lled gwlad y ddau lwyth a hanner i mewn, yr oedd lled y cwbl oddeutu 80 milltir. *Fuller & Heylin.*

1. Rhanwyd gwlad Canaan yn amser Moses rhwng saith o genedloedd y Canaaneaid, *Deut.* 7. 1. ar ba rai yr oedd 31 o freninoedd yn teyrnasu. *Jos.* 12. 9—24.

2. Rhanwyd y wlad hon gan Josua rhwng y naw llwyth a hanner.

3. Yn amser Rehoboam mab Solomon, rhwygwyd y wlad yn ddwy deyrnas, sef Judah ac Israel.

4. Ar ol caethiwed Babilon, cyfrifwyd hi yn dair talaeth, sef Judea, Samaria, a Galilea; am ba rai y mae mynych sôn yn y Testament Newydd.

5. Ar ol marwolaeth Herod, y cyntaf o'r enw, rhanwyd y wlad hon, ynghyd â'r taleithiau perthynol iddi, yn bedair llywodraeth; y penllywiawdwr ar bob un a alwyd yn Detrarch, hyny yw, llywydd ar bedwaredd ran gwlad. *Luc* 3. 1.

I. Wedi sôn ychydig dan yr Ail Ddosparth, am y saith genedl oedd yn meddiannu gwlad Canaan yn amser Moses, y rhai a orchfygodd Josua, ni soniaf yn ychwaneg am danynt yma.

II. Y naw llwyth a hanner, rhwng pa rai y rhanodd Josua wlad Canaan, oedd Judah, Ephraim, a hanner llwyth Manasseh (i ba rai y rhanwyd yn gyntaf, *Jos.* 15. 16, 17.) a Benjamin, Simeon, Zabulon, Issachar, Aser, Naphtali, a Dan. Wrth roddi darluniad byr o sefyllfa rhandiroedd y llwythau hyn, dechreuwn yn y gogledd.——1. Rhandir llwyth Naphtali oedd yr uchaf yn y gogledd o lwythau Israel, yn terfynu ar fynydd Libanus, gan mai hwnw oedd terfyn gogleddol gwlad Canaan. *Jos.* 1. 4. Yr oedd Naphtali yn cyrhaedd Zabulon o du y dehau, ar gŵr uchaf Môr Cinnereth, neu Genesareth—o du y gorllewin yr oedd yn terfynu ar Aser, yr hwn oedd ym mhob man yn gwahanu rhyngddo a Môr y Canoldir—ac o du y dwyrain ar yr Iorddonen, o'i tharddiad hyd ei mynediad i Fôr Cinnereth. Oddeutu canol Naphtali y mae yr Iorddonen yn gwneuthur llyn, yr hwn a elwir dyfroedd Merom; *Jos.* 11. 7. mewn hanesion creill, llyn Semecon. Gwel *Jos.* 19. 33—39. lle mae hanes am derfynau a dinasoedd Naphtali. Bernir fod Naphtali oddeutu 35 milltir o hŷd, o droed Libanus i Fôr Cinnereth, a chymmaint a hyny o led. *Fuller.* Yr oedd y rhan uchaf o Galilea yn y llwyth hwn.

2. Aser a derfynwyd o du y gogledd gan fynydd Libanus—o du y dehau gan Zabulon—o du y gorllewin gan Fôr y Canoldir—o du y dwyrain gan Naphtali, a rhan o Zabulon. Ei hŷd oddeutu 40 milltir, ond rhy brin 16 o led. *Jos.* 19. 24—31. Yn rhandir Aser yr oedd gwlad Phenicia yn llain gul ar hyd glàn Môr y Canoldir, ac yn cyrhaedd i'r gogledd yn uwch nag Aser cyn belled a'r afon Canis, i gyd oddeutu 100 milltir

o hŷd. Yn agos i gŵr uchaf Aser yr oedd Sidon, porthladd enwog, ac yn îs i waered yr oedd Tyrus ei merch, a gynnyddodd i gyfoeth a chadernid mwy na'i mam. Adeiladwyd Tyrus yn gyntaf ar y cyfandir, yr hon a ddinystriwyd gan Nebuchodonosor; *Ezec.* 29. 18. wedi hyn hi a adeiladwyd ar ynys fechan oddeutu hanner milltir o'r làn, yr hon a gymmerwyd gan Alexander Fawr, trwy wneuthur sarn o ddefnyddiau yr hen Dyrus. *Prideaux Connect. Ezec.* 26. 12. Yn bresennol nid yw ond coppa craig, ac yn daenfa rhwydau, yn ol amryw dystiolaethau *Ezec.* 26. 14. Yn neheubarth Aser, yn agos i fynydd Carmel, y mae porthladd Ptolemais (*Act.* 21. 7.) a alwyd gynt Accho (*Barn.* 1. 21.) yn bresennol Acre.

3. Zabulon a derfynwyd o du y gogledd-orllewin gan Aser—o du y gogledd-ddwyrain gan Naphtali—o du y gorllewin gan Fôr y Canoldir—ac o du y dwyrain gan Fôr Galilea. *Jos.* 19. 10—16. Gelwir ef hefyd yn Fôr Tiberias, yn Fôr Cinnereth (*Jos.* 13. 27.) ac yn Fôr Genesareth. Yr oedd oddeutu 12 milltir o hŷd, a 5 o led; ond y mae rhai yn ei gyfrif yn fwy, a rhai yn llai. Yr ocdd afon yr Iorddonen yn rhedeg iddo o'r gogledd, ac yn myned allan i'r dehau. Ar y llyn hwn yr oedd amryw o ddinasoedd a sonir am danynt yn yr Efengylwyr, megys y manau lle bu Crist a'i apostolion yn gweinidogaethu.——1. Capernaum yn ei gŵr uchaf, lle yr oedd yr Iorddonen yn myned i'r llyn, yn llwyth Naphtali. ——2. Yr oedd Chorazin yr ochr arall i'r Iorddonen yn ymyl y llyn yn union ar gyfer Capernaum yn Basan ag oedd y perthyn i hanner llwyth Manasseh.——3. Bethsaida yn Naphtali yn nghŵr uchaf y llyn ar y gongl orllewinol. Gadara yn ngwlad y Gergesiaid yn Basan ar fin y llyn o du y dwyrain, yn agos i'w gŵr isaf.——4. Magdala ym mharthau Dalmanutha, ar fin y llyn, yn llwyth Zabulon, oddeutu 4 neu 5 milltir yn îs i waered na Bethsaida.——5. Tiberias yn llwyth Zabulon, ar gyfer canol y llyn, oddiwrth pa un y cafodd un o'i enwau. Dywedir i'r ddinas hon gael ei henw gan Herod y Tetrarch er anrhydedd i Tiberias Cæsar, yr hyn oedd un esampl o lawer o gyffelyb weniaith yn nheulu Herod i Ymerawdwyr Rhufain. Yn llwyth Zabulon yr oedd Nazareth, lle dygwyd i fynu ein Hiachawdwr Crist. Yr oedd yr afon Cison yn rhedeg trwy y llwyth hwn i Fôr y Canoldir. Ac yma yr oedd mynydd Tabor, ychydig o filltiroedd oddiwrth gŵr isaf llyn Tiberias, ac ar gyfer Hermon.* A mynydd Carmel ar fin Môr y Canoldir, yn agos i'r fan lle mae Cison yn ymdywallt i'r môr. *Fuller's Pisgah View.*

4. Issachar a derfynwyd gan Fôr y Canoldir o du y gorllewin; gan yr Iorddonen o du y dwyrain; gan Zabulon ac Aser o du y gogledd, a'r

---

* Yn *Ps.* 89. 12. y mae Tabor a Hermon yn arwyddo gorllewin a dwyrain, o ran eu sefyllfa y naill ar gyfer y llall. Ond y mae yn rhaid deall yma y cŵr isaf neu mwyaf dehcuol o Hermon.

cŵr isaf o Fôr Tiberias; gan hanner llwyth Manasseh o'r tu yma i'r Iorddonen, o du y dehau. *Jos.* 19. 17—23. Yr oedd rhandir y llwyth yma yn cynnwys peth o'r tir brasaf yn holl wlad Canaan. *Fuller quoting Biddulph's Travels.* *Gen.* 49. 15.

Y mae afon Cison yn rhedeg trwy ganol Issachar o'r dehau i'r gogledd, ac ychydig cyn myned i Zabulon yn ymrannu yn ddwy gaingc, o ba rai y mae un yn tueddu i'r dwyrain, ac yn syrthio i Fôr Galilea, a'r llall tu a'r gorllewin, ac yn myned i Fôr y Canoldir. Rhoddodd Cison enw (fel y bernir) i Cision, un o ddinasoedd Issachar, *Jos.* 19. 20. neu cafodd ei henw oddi wrthi. *Fuller.* Yn y rhan ddwyreiniol o Issachar y mae mynyddoedd Gilboa. Yn y llwyth hwn yr oedd Jezreel yn y cŵr deheuol, a Sunem ac Endor yn y rhan ogleddol. Yr oedd rhanau o'r llwyth yma yn perthyn i hanner llwyth Manasseh, sef Bethsean (neu Scythopolis) ar yr Iorddonen; Ibleam, Dor, ac Endor, Taanach a Megido, ynghyd â'u trigolion a'u trefydd. *Jos.* 17. 11. Fel hyn yr oedd helaethrwydd rhandir Issachar ac Aser yn gweini i angen amlder trigolion hanner llwyth Manasseh.

5. Yr oedd hanner llwyth Manasseh o'r tu yma i'r Iorddonen, yn terfynu ar Issachar o du y gogledd; ar Ephraim o du y dehau; ar afon yr Iorddonen o du y dwyrain; ac ar Fôr y Canoldir o du y gorllewin.* *Jos.* 17. 7—11. *Fuller & Bedford's Maps.* Rhanwyd tir yr hanner llwyth hwn rhwng chwech o deuluoedd o wrrywiaid, a merched Salphaad ag oedd yn *amddifad* o'u tad. *Jos.* 17. 2, 3. *Num.* 27. 1—11. Yn y rhandir hwn y gosodir Cæsarea, dinas ar làn Môr y Canoldir. Cyfenwyd hi weithiau Stratonis, i wahaniaethu rhyngddi a Cæsarea Philippi yn ngogledd-barth llwyth Naphtali, am ba un y sonir y'mhellach y'mlaen, yn nghyfraniad Canaan rhwng y Tetrarchiaid. Yn y rhandir hwn yr oedd Ophra yr Abiesriaid, sef dinas teulu Abiezer, *Jos.* 17. 2. lle genedigol Gedeon mab Joas, a waredodd ac a farnodd Israel. *Barn.* 6. 7, 8.

Yma yr oedd bryn Moreh, gwersyllfa y Midianiaid, *Barn.* 7. 1. a'r lleoedd a enwir yn llwybr eu ffoedigaeth, sef Bethsittah, Sererath, Abelmeholah, a Tabbath, yn ymyl yr Iorddonen. *Barn.* 7. 22.

Yn rhandir Manasseh, yr oedd hefyd fynydd Gilead, lle yr oedd byddin Gedeon yn gwersyllu, a alwyd felly i gadw coffadwriaeth, tybygid, am Gilead ŵyr Manasseh. *Barn.* 7. 3. 1 *Cron.* 2. 21. Dylid gwahaniaethu rhwng hwn a Gilead tu hwnt i'r Iorddonen, a ddigwyddodd i ran yr hanner arall o lwyth Manasseh.

---

* Y mae yn anhawdd deall pa fodd yr oedd Ephraim a Manasseh yn cyfarfod yn Aser 'o'r gogledd, ac yn Issachar o'r dwyrain,' *Jos.* 17. 10. gan fod Issachar a Zabulon (a phob un o'r ddau yn cyrhaedd at Fôr y Canoldir) rhwng Manasseh ac Aser. I geisio cysoni hyn, bernir fod i Aser ran allan o'i derfynau priodol yn Issachar, ar ba un yr oedd Manasseh ac Ephraim yn terfynu â'u gilydd, gan fod rhai o ddinasoedd Ephraim ym mhlith dinasoedd Manasseh. *Jos.* 17. 9.

6. Ephraim a derfynwyd o du y gogledd â hanner llwyth Manasseh, o du y dehau gan Benjamin a Dan; o du y gorllewin gan Fôr y Canoldir; ac o du y dwyrain gan yr Iorddonen. *Jos.* 16. 1—8. *Bedford's Map.* Yn rhandir llwyth Ephraim yr oedd Siloh, lle bu y tabernacl dros 300 mlynedd, hyd oni symmudwyd ef, tybygid, gan Saul i Nob, dinas, fel y bernir, yn rhandir Anathoth yn llwyth Benjamin. *Jos.* 18. 1. 1 *Sam.* 21. 1—6. *Neh.* 11. 32. *Esa.* 10. 32. Wedi lladd yr offeiriaid, a'r holl drigolion yn Nob, 1 *Sam.* 22. 19. symmudwyd y tabernacl, tybygid, i Gibeon, dinas arall yn llwyth Benjamin; canys yno yr oedd gyd ag allor y poeth-offrwm yn nyddiau diweddaf Dafydd. 1 *Cron.* 21. 29. Ond safodd yr arch o hyd yn Ciriath-Jearim, hyd oni chyrchwyd hi oddi yno gan Dafydd i Jerusalem. 1 *Sam.* 6. 21. 2 *Sam.* 6. 2. Ond i ddychwelyd at Siloh, bernir iddi gael ei henw gyda golygiad at Grist (un o enwau pa un oedd Siloh, *Gen.* 49. 10.) am fod y tabernacl, ei ddodrefn, a'i wasanaeth yn ei gysgodi. *Fuller.*

Yn y llwyth hwn yr oedd Tirsah, lle yr oedd llys breninoedd Israel, hyd oni adeiladwyd Samaria yn yr un llwyth, gan Omri tad Ahab. 1 *Bren.* 16. 23, 24. Yma hefyd yr oedd Sichem, a elwir Sichar. *Ioan* 4. 5.—Ar fynydd Gerizim, gerllaw Sichem, yr adeiladwyd teml gan Sanbalat yr Horoniad i'w fab yn nghyfraith Manasseh mab Joiada yr archoffeiriad Iuddewig, yn nheyrnasiad Darius Nothus brenin Persia, oddeutu 408 mlynedd cyn geni Crist. Gwel *Neh.* 13. 28. a *Prideaux Conn. part* 1. *p.* 413.

Y mae y cwbl o ddeg llwyth Israel weithiau yn myned dan yr enw Ephraim, o herwydd lluosogrwydd ac enwogrwydd y llwyth hwn, ac am fod y breninllys yma. *Hos.* 9. 11, &c.

7. Benjamin a gafodd ei randir 'rhwng meibion Judah a meibion Joseph,' hyny yw, yr oedd Ephraim o du y gogledd, a Judah o du y dehau iddo; o du y dwyrain terfynwyd ef gan yr Iorddonen a chwr uchaf y Môr Marw; o du y gorllewin yr oedd yn cael ei amgylchu gan derfynau Ephraim a Judah. *Jos.* 18. 11—20. Yr oedd Jerusalem ar derfyn Benjamin a Judah, am hyny y cyfrifir hi weithiau i'r naill ac weithiau i'r llall, *Jos.* 15. 63. a 18. 28. *Barn.* 1. 8, 21. I gysoni hyn, deallwn fod terfyn y ddau lwyth yn cyfarfod y'nghanol Jerusalem. Ar ol y caethiwed, cyd-drigodd meibion Judah a meibion Benjamin yn Jerusalem. *Neh.* 11. 4.—Yn llwyth Benjamin yr oedd Jericho, a elwir dinas y palmwydd, *Deut.* 34. 3. *Bibl Saes.* a *Heb.*—Yma yr oedd Bethel, lle gosododd Jeroboam un o'r lloi aur i fynu; a'r llall yn Dan, yn y gogledd. 1 *Bren.* 12. 29. Yma yr oedd Gibea, o achos pechod pa un y dinystriwyd holl lwyth Benjamin ond chwe chanwr. *Barn.* xx. a xxi. Yr oedd yn enwog wedi hyny am fod yn lle genedigaeth i Saul, y brenin cyntaf ar Israel. Un o ddinasoedd Benjamin oedd Anathoth a roddwyd i'r offeiriaid. *Jos.* 21. 18. Yn y ddinas hon y ganwyd y

prophwyd Jeremiah. Ac yn ei meusydd pentrefol y bernir fod Nob, dinas yr offeiriaid a ddinystriwyd gan Saul. *Fuller.*

8. Judah, yn yr ystyr helaethaf, oedd yn cynnwys yr holl ran ddeheuol o wlad Canaan, o'r Môr Marw yn y dwyrain, i Fôr y Canoldir yn y gorllewin; ac o Benjamin ac Ephraim yn y gogledd, i anialwch Paran neu Sin, ac afon yr Aipht yn y dehau. Ond wedi i Dan a Simeon gael eu rhanau allan o randir Judah, yr oeddynt yn ei gau allan oddiwrth Fôr y Canoldir yn y gorllewin, fel pe buasai yr Arglwydd, trwy hyny, am ei ddysgu i lafurio am fasnach ysprydol yn lle masnach y moroedd. *Jos.* 15. 1—12.

Yr oedd y llwyth hwn oddeutu 40 milltir o led o'r dwyrain i'r gorllewin, ac oddeutu 66 o hyd o Jerusalem i Cades-Barnea. *Fuller.* Yr oedd mwy o ddinasoedd yn llwyth Judah nac yn un o'r llwythau ereill, ac amryw o honynt yn hynod am eu cadernid, eu hynafiaeth, a'r hanesion perthynol iddynt—ond nid yw y byrdra yr wyf yn amcanu ato, yn caniatau i ddechreu arnynt.

9. Dan a gafodd ei ran allan o lwyth Judah, fel y bernir, gan fod rhai o ddinasoedd Dan yn cael eu henwi yn rhan Judah, ac y dywedir fod terfyn Judah yn cyrhaedd o Ecron i'r môr, yr hwn oedd ei derfyn gorllewinol hyd Gaza ac afon yr Aipht. *Jos.* 15. 12, 46, 47.

Rhandir Dan a derfynwyd o du y gogledd gan Ephraim; o du y dwyrain gan Judah; o du y gorllewin gan y Môr Mawr, a rhan o wlad y Philistiaid; o du y dehau gan Simeon. *Jos.* 19. 41—46. Bernir ei fod oddeutu 30 milltir o hyd ac o led. Dywedir fod terfyn meibion Dan yn rhy fychan iddynt, a'r achos, tybygid, oedd, am fod yr Amoriaid yn cadw meddiant o'r rhanau goreu, ac yn gyru y Daniaid i'r mynydd-dir; *Jos.* 19. 47. *Barn.* 1. 34. ac am fod gwlad y Philistiaid yn cyfyngu arnynt ar eu terfyn gorllewinol, fel nad oedd y môr yn agored iddynt ond dros ychydig o filltiroedd oddeutu Japho, neu Joppa, yn y cŵr gogleddol o'u rhandir. Hyn a barodd iddynt fyned i ogledd-dir gwlad Canaan, i gymmeryd Lais, neu Lesem (*Jos.* 19. 47.) y'nghŵr uchaf rhandir Naphtali. Enw Lais a drowyd yn Dan, ac a gyfrifwyd yn derfyn gogleddol y wlad, megys yr oedd Beer-seba yn derfyn deheuol. *Barn* 20. 1, &c. Yn Dan yn y gogledd y gosodwyd i fynu eilunaddoliaeth cyhoeddus gyntaf yn y wlad. Yma yr oedd un o loi Jeroboam, a'r llall yn Bethel. Am hyn y bernir i Dan gael ei adael allan o rifedi llwythau Israel, yn *Dat.* vii.

O'r llwyth hwn y ganwyd Samson mab Manoah yn Sorah, yr hwn oedd gysgod o Grist yn ei berson fel Nazaread, ac yn ei fuddugoliaethau a ennillodd yn ei fywyd a'i farwolaeth—ond yn ei bechodau a'i wendidau, o gredadyn wedi syrthio i afael ei elynion, yr hwn, er hyny, yn y diwedd, sydd yn cael adnewyddiad o'i nerth, ac yn ymddial arnynt.

Ar derfyn gorllewin Dan, yr oedd tair o bum dinas y Philistiaid,

ynghyd â'r wlad berthynol iddynt, sef Gath yn y gogledd, Ecron, ac Asdod, neu Azotus. *Act.* 8. 40. Y ddwy ddinas ereill oedd Ascalon, a Gaza yn y dehau, y rhai y'nghyd â'r wlad berthynol iddynt, oeddynt gan mwyaf yn derfyn gorllewinol i randir llwyth Simeon. Bernir fod holl wlad y Philistiaid oddeutu 50 milltir o hyd ar làn Môr y Canoldir, ac oddeutu hanner hyny o led. Nid oedd y Philistiaid o nifer y 7 genedl oedd wedi eu diofrydu i ddinystr yn amser Josua: am hyny, er cyfrif eu dinasoedd yn rhandir Judah, gyda golygiad prophwydoliaethol at eu darostyngiad yn amser Dafydd, nis rhoddwyd hwynt i Dan nac i Simeon, er eu bod yn cael eu rhanau o ran Judah. Gelwir gwlad y Philistiaid dan yr enw Palestina, *Esa.* 14. 29. ond yn bresennol cynnwysir holl wlad Canaan dan yr enw hwnw, y'nghyd â gwlad y ddau lwyth a hanner.

10. Simeon, fel y soniwyd, a gafodd ei ran o randir Judah. Yr oedd melldith ei dad Jacob, (*Gen.* 49. 7.) yn hyn yn cael ei throi yn fendith; fel y mae y felldith ag sydd yn gorwedd ar bechadur yn cael ei throi yn fendith pan gaffo ran y'Nghrist yr hwn oedd o lwyth Judah. Terfynwyd Simeon gan lwyth Dan o du y gogledd—o du y dehau gan afon yr Aipht, yr hon oedd afon fechan, yn rhedeg trwy yr anialwch i Fôr y Canoldir, heibio Rhinocorura, dinas ar làn y môr hwnw—o du y gorllewin gan y Philistiaid, a Môr y Canoldir—ac o du y dwyrain gan Judah. O du y dehau i Gaza, yr oedd Môr y Canoldir yn agored i Simeon hyd Rhinocorura. *Jos.* 19. 1—9.

Bernir i Simeon gael lles mewn dwy ystyriaeth, trwy fod ei ran yn llwyth Judah:—1. Mewn ystyr ysprydol; canys pan aeth deg llwyth Israel ar ol lloi Jeroboam mab Nebat, llawer o Simeon a lynasant, tybygid, wrth wir addoliad yr Arglwydd, ac wrth deulu Dafydd yn amser Asa brenin Judah. 2 *Cron.* 15. 9.—2. Mewn ystyr tymhorol; canys pan ddygwyd deg llwyth Israel i gaethiwed yn amser Hosea brenin Israel, a'r 6ed flwyddyn i Hezecïah, tebygol fod llawer o'r Simeoniaid wedi aros yn eu gwlad, trwy eu bod yn trigo o fewn rhandir llwyth Judah.

Yn llwyth Simeon yr oedd Siclag, a gymmerwyd oddi arnynt gan y Philistiaid, tebygol, ac a roddwyd wedi hyny i Ddafydd gan Achis brenin Gath. 1 *Sam.* 27. 6. Ac afon Besor, lle yr arosodd y 200 gyd â'r dodrefn, o herwydd eu blinder. 1 *Sam.* 30. 9. Y mae yr afon hon yn rhedeg i'r Môr Mawr heibio Gaza, o du y dehau. Yn Gaza, ar làn Môr y Canoldir, y tynodd Samson deml Dagon, ac a fu farw gyd â'r Philistiaid. *Barn.* 16. 21—30. *Fuller's Map of Simeon.*

Y dinasoedd noddfa perthynol i'r naw llwyth a hanner oeddynt, Cedes yn Naphtali, Sichem yn Ephraim, a Hebron yn Judah. *Jos.* 20. 7.

Rhan llwyth Lefi oedd 48 dinas, a'u meusydd pentrefol, allan o ddinasoedd y llwythau ereill. O'r 48 dinas yr oedd 13 yn perthyn i

feibion Aaron yr offeiriad o lin Eleazar ac Ithamar, a 35 i'r Lefiaid o hiliogaeth Gerson, Cohath, a Merari. *Jos.* xxi.

PENNOD VIII.

Am Gyfraniad Gwlad Canaan i Dair Talaeth, sef Judea, Samaria, a Galilea.

Yr oedd Judea yn cynnwys rhandiroedd Judah, Benjamin, Simeon, Dan, a Reuben, tu hwnt i'r Iorddonen. Fod y dalaeth hon yn cynnwys rhan o'r wlad tu hwnt i'r Iorddonen, sydd yn eglur oddiwrth dystiolaeth Matthew, *pen.* 19. 1.

II. Samaria oedd yn cynnwys rhandir llwyth Ephraim, a hanner llwyth Manasseh, y tu yma i'r Iorddonen. Yr oedd y trigolion o hiliogaeth y cenedloedd eilun-addolgar hyny a ddygodd Esarhadon brenin Assyria, o Babilon, Cutha, Afa, Hamath, a Sepharfaim, ac a'u cyfleodd yn ninasoedd Samaria, yn lle yr Israeliaid a gaethgludodd Salmaneser, taid Esarhadon, i Halah a Habor, wrth afon Gozan, a dinasoedd y Mediaid. 2 *Bren.* 17. 6—24. *Ezra* 4. 2. Eilun-addolwyr yn y dechreuad oedd y cenedloedd a gyflewyd yn ninasoedd Samaria. Wedi lladd rhai o honynt gan lewod, a amlhawyd trwy anghyfannedd-dra y wlad, hwy a ddeisyfasant gael un o'r offeiriaid a gaethgludwyd, i ddysgu iddynt ddefod Duw y wlad. Ond ni wnaeth ond ychydig, neu ddim, gwir ddiwygiad yn eu plith. Wedi hyny, ar ol derbyn pum llyfr Moses, gwrthodasant eu heilunod; ond nid ymunasant â'r Iuddewon i addoli yn Jerusalem, gan fod ganddynt deml, ac addoliad sismaticaidd a chyfeiliornus ar fynydd Gerizim. Yr oedd gelyniaeth barhaus rhyngddynt a'r Iuddewon. *Ioan* 4. 9. Yr oeddent bob amser yn hòni perthynas â'r Iuddewon yn eu hawddfyd a'u llwyddiant, ond yn eu hadfyd a'u darostyngiad yn ymwadu â hwynt yn hollol. *Josephus, Fuller.*

III. Yr oedd Galilea yn cynnwys Aser, Naphtali, Zabulon, ac Issachar, ynghyd â Gad, a hanner llwyth Manasseh, tu hwnt i'r Iorddonen. Galwyd y rhan uchaf yn Galilea y cenedloedd, am eu bod yn terfynu ar y cenedloedd. *Mat.* 4. 15. Ystyr y gair yw *terfyn.* Nid oedd caethgludiad y deg llwyth, tybygid, mor llwyr fel na adawyd llawer o drigolion yn Galilea, neu a ddychwelasant o'u hymguddfëydd ar ol i Salmaneser droi ei gefn. 2 *Bren.* xvii, xviii. Eglur yw, fod Galilea yn llawn o drigolion (a'r rhai hyny o genedl Israel) yn amser ein Hiachawdwr, gan hyny, gellir penderfynu eu bod o'r rhai hyny a adawyd, neu a ddiangodd o ddwylaw breninoedd Assyria, neu ynte a ddychwelodd o'u caethiwed. Y mae hanes am rai o feibion Ephraim a Manasseh ag oedd yn trigo yn Jerusalem ar ol y caethiwed. 1 *Cron.* 9. 3. Ac fe allai i

amryw o'r llwythau ereill ddychwelyd, er nad oes genym hanes am eu dychweliad. Yn amser Paul, tybygid, yr oedd rhai o ddeuddeg llwyth Israel yn ngwlad Canaan. *Act.* 26. 7.

PENNOD IX.

Am Gyfraniad Gwlad Canaan, a'i Thaleithiau Cymmydogaethol, yn Bedair Llywodraeth (Tetrarchies).

Ar ol marwolaeth Herod y cyntaf, a gyfenwyd Mawr, oddeutu blwyddyn a hanner ar ol geni ein Hiachawdwr Crist, rhanwyd ei freniniaeth yn dair rhan, rhwng tri o'i feibion, gan Augustus Cæsar yr ymerawdwr. Archelaus mab Herod o'i wraig Malthace, a gafodd Judea, Idumea, a Samaria, dan enw brenin; ond wrth Idumea ni ddylem ddeall gwlad Edom, ond deheubarth Judea, ag oedd yn terfynu ar y wlad hòno. *Prideaux, part* 2. *p.* 657.

2. Philip, mab arall i Herod o Cleopatra, a gafodd Iturea, Trachonitis, Paneas, a Batanea, dan enw tetrarch.

3. Herod Antipas, mab Herod o Malthace, a gafodd Galilea a Pheræa, dan enw tetrarch. *Luc* 3. 1. *Josephus's Antiq. l.* 17. *c.* 13.

4. Lysanias, yr hwn nid oedd o deulu Herod, a wnaed yn detrarch Abilene, rhan o Cælo-Syria, yr hon oedd y tu allan i derfynau gwlad Canaan, tu a'r gogledd, unwaith tan lywodraeth Herod, ond pa un a oedd pan fu farw, nid yw hysbys. *Luc* 3. 1.

I. Nid rhaid darlunio y rhanau a ddigwyddodd i Archelaus, gan fod hyny wedi ei wneuthur eisoes. Ar ol iddo deyrnasu deng mlynedd ar ol ei dad, cafodd wŷs i fyned i Rufain i ateb am ei ddrwg lywodraeth; diorseddwyd ef, aeth ei holl gyfoeth yn ddirwy, ac yntau a ddeolwyd i Vienne yn Ffraingc. Gwnaed ei freniniaeth yn dalaeth Rufeinig dan Coponius y rhaglaw, yn y flwyddyn 8 ar ol geni Crist, yn ol y cyfrif cyffredin. Ond ni wnaed Pontius Pilat yn rhaglaw ar Judea hyd y flwyddyn 26 ar ol geni Crist, yr hon oedd y 30 o'i wir oed. *Prideaux's Conn. part* 2. *p.* 659, 668. *Luc* 3. 1—23.

II. Rhan Philip, brawd Herod Antipas, oedd Iturea, a Trachonitis; y mae *Josephus* yn chwanegu Paneas a Batanea; ond yr oedd y rhai hyn yn gynnwysedig yn y ddau gyntaf. Iturea a gafodd ei henw oddiwrth Ietur, un o feibion Ismael (*Gen.* 25. 15.) a sefydlodd yma. Yr oedd yn cynnwys y rhan ogleddol o freniniaeth Og brenin Basan, a rodded i hanner llwyth Manaseh, o du y dwyrain i'r Iorddonen. Yn y gogledd yr oedd yn terfynu ar Syria, a cheingciau o fynydd Libanus.

Trachonitis oedd hefyd ran o freniniaeth Og, a ddigwyddodd i hanner llwyth Manasseh, yn cynnwys mynydd-dir creigiog (fel y mae yr enw yn arwyddo yn yr iaith Roeg, τραχυς, *asper*, garw, τραχονες, lleoedd

geirwon). Bernir ei fod yn cynnwys mynydd Hermon, a mynyddoedd Galeed: Batanea oedd yr un a Basan, trwy gyfnewidiad y llythyrenau S a T; Paneas oedd ardal yn ngogledd-dir llwyth Naphtali, lle yr oedd y ddwy ffynon o ba rai y mae yr Iorddonen yn tarddu. Yn yr ardal yma yr oedd dinas Lais, neu Lesem, neu Dan; yr hon a chwanegwyd ac a harddwyd gan Philip, ac a alwyd Cæsarea Philippi, er anrhydedd i Tiberius Cæsar, ac iddo ei hun, ac i wahaniaethu rhyngddi a Cæsarea ar làn Môr y Canoldir, yn hanner llwyth Manasseh tu yma i'r Iorddonen.

III. Rhan Herod, a gyfenwyd Antipas, oedd Galilea, at ba un y mae *Josephus* yn chwanegu Perea. Soniwyd eisoes am Galilea mewn rhan; ond ni fydd yn afreidiol i chwanegu yma, mai yn Galilea yr oedd gwlad Decapolis (*Mat.* 4. 25.) a alwyd felly o herwydd deg o ddinasoedd ag oedd ynddi. Yr oedd y wlad yma yn perthyn, gan mwyaf, i lywodraeth Herod Antipas, ond y cŵr uchaf o honi i Philip. Y dinasoedd oeddynt, 1. Cæsara Philippi.—2. Hazor.—3. Cedes Naphtali.—4. Sephet.—5. Chorazin.—6. Capernaum—7. Bethsaida.—8. Jotapa, neu Japhia, yn rhandir Zabulon, ar lyn Genesareth.—9. Tiberias.—10. Bethsan, neu Scythopolis. *Heilyn, Fuller.* Pan wahaniaethir, *Mat.* 4. 25. rhwng Decapolis a Galilea, wrth y cyntaf, tybygid, y meddylir yr hyn a alwyd weithiau Galilea uchaf, ac wrth yr olaf, Galilea isaf.

Perea oedd y wlad tu hwnt i'r Iorddonen ag oedd yn perthyn i Reuben a Gad. Y mae Perea yn arwyddo y wlad tu draw, oddiwrth y gair Groeg πέρα, *pera, tros.* Yn ei helaethrwydd mwyaf yr oedd yn cynnwys yr holl wlad o du y dwyrain i'r Iorddonen a'r Môr Marw, o Pella yn y gogledd i Petra yn ngwlad Edom yn y dehau. Ond pa faint o honi a gafodd Herod Antipas, anhawdd yw dywedyd.

IV. Rhan Lysanias oedd Abilene, yn Cælo-Syria, ardal fechan rhwng Libanus ac Anti-Libanus, pen dinas pa un a alwyd Abila.

Oddeutu y flwyddyn 42 ar ol geni Crist, unwyd yr holl wledydd hyn tan lywodraeth Herod Agrippa, mab Aristobulus, mab Herod y cyntaf. Yr oedd Herod Agrippa yn frawd i Herodias, yr hon a ymadawodd â'i gwr cyntaf Philip, i briodi ei frawd, Herod Antipas. *Mat.* 14. 3. Cafodd Herod Agrippa y dyrchafiad hwn am iddo wneuthur llawer o wasanaeth buddiol i Claudius Cæsar ar ei ddyfodiad i'r orsedd. Heblaw holl wledydd ei daid Herod, cafodd hefyd Abilene, tywysogaeth Lysanias; ac a deyrnasodd ar y cwbl tan enw brenin dros dair blynedd. Efe oedd yr hwn a laddodd Iago, a garcharodd Petr, ac a fu farw yn druenus yn Cæsarea. *Act.* xii. *Josephus Bell. Jud. l.* 2. *c.* 10. Gwel yr Ail Daflen o'r 7fed Dosparth. Ar ol ei farwolaeth, gwnaed ei freniniaeth yn dalaeth Rufeinig dan Cuspius Fadus. Gadawodd Herod Agrippa bedwar o blant, sef Agrippa, a'i dair chwaer, Bernice, Mariamne, a Drusila. Agrippa a wnaed yn frenin ar Chalcis, gwlad fechan

yn Cælo-Syria. Ger bron y brenin Agrippa yma, a'i chwaer Bernice, yr amddiffynodd Paul ei hun. Yr oedd Drusila, chwaer arall, yn wraig i Ffelix y Rhaglaw. *Act.* 24. 24. a 25. 13. *Josephus, Ibid.*

PENNOD X.

Syria, a Damascus.

Wedi rhoddi darluniad byr o'r gwledydd yn y dehau a'r dwyrain i wlad Canaan, rhoddir yn y bennod hon ychydig hanes am Syria, a'i phrif ddinas Damascus.—Bernir i wlad Syria gael ei henw oddiwrth Tyrus, yr hon yn Hebraeg yw *Tsor*, neu *Sor*. Yr oedd rhan o wlad Tyrus a Sidon, a elwir weithiau Phenicia,* yn rhedeg gyda glàn Môr y Canoldir ym mhell i Syria, ac am hyny, tebygol, y gallai roddi enw yn gyntaf i ran, ac wedi hyny i'r holl wlad. Yr oedd Syria yn ei heangder mwyaf, yn cynnwys yr holl wlad rhwng Môr y Canoldir yn y gorllewin, a'r afon Euphrates yn y dwyrain; a Cilicia ac Armenia Leiaf yn y gogledd, a gwlad Canaan, a rhyw ranau o Arabia, yn y dehau. Ond nid oedd Syria, a sonir am dani yn yr Hen Destament, ond rhan fechan o Syria yn yr ystyr mwyaf helaeth; ond pa faint ydoedd, nid yw yn hawdd dywedyd. Terfynwyd hi o du y gorllewin gan Fôr y Canoldir; o du y dwyrain gan Palmyrene; o du y gogledd gan Cilicia; ac o du y dehau gan wlad Canaan. Hon oedd gwlad Hamath (un o feibion Canaan, *Gen.* 10. 18.) terfyn deheuol gwlad Canaan. Yn y wlad hon yr oedd rhes o fynyddoedd a elwid Libanus, am ba un, ac am ei chedrwydd, y mae mynych sôn yn y gair sanctaidd. Ar gyfer pa un y mae Anti-Libanus, rhes arall o fynyddoedd, a rhwng y ddwy res fynyddoedd y mae cymoedd dyfnion, oddiwrth ba rai y cafodd y rhan yma o'r wlad ei galw Cælo-Syria, neu Syria gau. Sefydlodd rhai o feibion Canaan yn y rhanau deheuol o Syria ar y môr, sef yr Hamathiaid, yr Arfadiaid, a'r Sidoniaid: sefydlodd rhai o deuluoedd Aram hefyd ynddi, y rhai a gynnyddasant gymmaint, fel y galwyd y wlad ar enw Aram gan yr Hebreaid.——Yr hanes cyntaf a gawn am Syria fel teyrnas, sydd yn 1 *Bren.* 11. 23, 24, 25. lle dywedir i Rezon mab Eliadah ffoi oddiwrth ei arglwydd brenin Sobah (Palmyrene) a myned yn dywysog ar fyddin, a theyrnasu yn Damascus. Parhaodd y deyrnas hon yn agos i 300 mlynedd, o amser Dafydd hyd ei dymchweliad gan Tiglath-pileser, yn y 4edd flwyddyn i Ahaz. 2 *Bren.* 16. 9. Cymmerodd yr Arglwydd y deyrnas hon fel fflangell yn ei law yn fynych i geryddu teyrnas Israel, a Judah hefyd yn amser Ahaz.

---

* Phenicia a alwyd felly oddiwrth y palmwydd oedd yn aml yn y wlad, neu yntê, oddiwrth y porphor oedd yn rhan o farsiandiaeth Tyrus. *Ezec.* 27. 16. Y mae y gair Groeg *Phoinix*, yn arwyddo palmwyddeu, a phorphor.

Taflen 2, o'r Pedwerydd Dosparth, yn dechreu gyd â'r 40 mlynedd yn yr Anialwch.

Misoedd Hebraeg.	Misoedd Iulïaidd.	Y flwyddyn gyntaf o'r 40 yn yr Anialwch, yw 2514 o oed y byd, a 1495 cyn geni Crist. Gosodir y misoedd Hebraeg ar gyfer y misoedd Iulïaidd, yn ol y Dafien a roddwyd o'r blaen.
Adar	Chwefror	
3	21	Moses ac Aaron yn myned y tro cyntaf at Pharaoh, oddeutu 6 wythnos o flaen yr ymadawiad, fel y bernir, a 40 mlynedd o flaen marwolaeth Moses. *Exod.* 5. 1. a 7. 7. *Deut.* 34. 7.
	Mawrth	
17	7	Y pla 1af, sef troi y dyfroedd yn waed. *Ex.* 7. 19—24.
24	14	Yr ail bla, sef y llyffaint. *Exod.* 7. 25. a 8. 5, 6, 7.
26	16	Y 3ydd pla, sef y llau. *Exod.* 8. 16—19.
28	18	Y 4ydd pla, sef y cymmysgbla, neu yr heidiau ednog. *Exod.* 8. 20—24.
Nisan 1	21	Y 5ed pla, neu haint yr anifeiliaid. *Exod.* 9. 1—7.
3	23	Y 6ed pla, neu y cornwyd llinorog. *Exod.* 9. 8—11.
6	26	Y 7fed pla, neu y cenllysg gyda mellt a tharanau. *Exod.* 9. 22—26.
9	29	Yr 8fed pla, sef y locustiaid. *Exod.* 10. 4—15.
11	31	Y 9fed pla, sef tywyllwch dros dridiau. *Exod.* 10. 21—23.
14	Ebrill 3	Y 10fed pla, sef lladd y cyntaf-anedig yn y nos rhwng y 14eg a'r 15fed dydd o fis Abib, neu Nisan. *Exod.* 11. 4, 5, 6. a 12. 30.
15	4	Ar y cynddydd aeth Israel o Ramases i Succoth. *Exod.* 12. 37.
16	5	Ar yr ail ddydd o ŵyl y bara croyw, daethant i Etham. *Exod.* 13. 20.
17	6	Y trydydd dydd gwersyllasant o flaen Piahiroth. *Exod.* 14. 2.
18	7	Y pedwerydd dydd, fel y bernir, y mynegwyd i Pharaoh fod Israel yn ffoi, *Exod.* 14. 5. gan nad oeddynt yn dychwelyd y'mhen tridiau. *Exod.* 5. 3.
21	10	Ar y seithfed dydd o ŵyl y bara croyw, fel y bernir, aeth Israel trwy y Môr Coch, a boddwyd yr Aiphtiaid. *Exod.* 14. 15—31. Ar ol tridiau daethant i Marah, lle pereiddiwyd y dyfroedd trwy bren ag oedd yn gysgod o Grist, Pren y Bywyd. *Exod.* 15. 22—25.
29	18	Oddeutu y pryd hyn daethant i Elim. *Exod.* 15. 27.
Sif 6	25	Oddeutu y pryd hyn gwersyllasant yn eu 6ed gwersyll'fa, wrth y Môr Coch. *Num.* 33. 10.
15	Mai 4	Ar y 15fed dydd o'r ail mis daethant i anialwch Sin. *Exod.* 16. 1. *Num.* 33. 11.
19	8	Y soflieir yn cael eu danfon yn yr hwyr. *Exod.* 16. 8.
20	9	Y manna yn cael ei wlawio yn y bore. *Exod.* 16. 12, 13.
26	15	Y 6ed Sabboth er ymadawiad Israel o'r Aipht, ar ba un yr aeth rhai i gasglu manna, ond ni chawsant. *Exod.* 16. 27.

Sif 27	Mai 16	Gwersylloedd Israel yn Nophcah, yn eu 8fed gwersyllfa. *Num.* 33. 12.
28	17	Daethant i Alus, eu 9fed gwersyllfa. *Num.* 13. 33.
29	18	Daethant i Rephidim, lle tynodd Moses ddwfr o'r graig yn Horeb. *Num.* 33. 14. Galwyd y lle Massah, *profedigaeth;* a Meribah, *cynen.* *Exod.* 17. 6, 7.
Sifan 1	20	Amalec yn ymladd yn erbyn Israel, ac yn cael ei orchfygu trwy weddiau Moses, a chleddyf Josua. *Exod.* 17. 8—16.
2	21	Israel yn dyfod at fynydd Sinai yn nechreu y 3ydd mis ar ol dyfod o'r Aipht, *Exod.* 19. 1, 3. a thra-
3	22	noeth yn sancteiddio eu hunain, neu yn cadw Sabboth. *Exod.* 19. 10, 11.
4	23	Hwn oedd dydd y Pentecost, neu y 50ain ar ol eu hymadawiad o'r Aipht, pan gyhoeddodd yr Arglwydd y gyfraith foesol, neu y dengair deddf, oddiar ben mynydd Sinai, trwy weinidogaeth Moses. *Exod.* 19. 25. a 20. 1—17. Ar yr un diwrnod wedi hyny y tywalltwyd yr Yspryd Glân ar yr apostolion. *Act.* ii.
5	24	Y mae Moses yn codi allor, a 12 colofn, i gynnrychioli 12 llwyth Israel, yn aberthu aberthau hedd, a thrwy hyny yn gwneuthur cyfammod rhwng yr Arglwydd a'r bobl. Wedi hyny y mae Moses ac Aaron, Nadab ac Abihu, a 70 henuriaid Israel, yn esgyn i'r mynydd, yn gweled gogoniant yr Arglwydd, yn bwyta ac yn yfed ger ei fron. *Exod.* 24. 1—11.
11	30	Ar y dydd hwn, fel y bernir, yr aeth Moses gyda Josua i dderbyn y llechau, ac addysgiadau, tybygid, ynghylch y babell, a'r holl bethau sydd gynnwysedig mewn 7 o bennodau, sef *Exod.* xxv. xxvi, xxvii, xxviii, xxix, xxx, xxxi. Bu Moses y pryd hyn yn y mynydd yn ymprydio 40 niwrnod a 40 nos. *Exod.* 24. 12—18.
Tammuz 20	Gorphen. 8	Ym mhen 40 niwrnod y mae Moses yn dyfod i lawr, ac yn tòri y llechau wrth droed y mynydd. *Exod.* 32. 1—19.
21	9	Ar y dydd hwn, tybygid, yr arfogwyd y Lefiaid, y rhai a laddasant 3000 o'r eilun-addolwyr. *Exod.* 32. 26—29.
23	11	Ynghylch y pryd hyn y tarawyd rhai o'r bobl â phla am eu heilun-addoliaeth. *Exod.* 32. 35.
26	14	Pabell Moses, a fuasai yn lle cyssegr, yn cael ei symud allan o'r gwersyll halogedig, a chwmwl gogoniant yr Arglwydd yn myned ar ei hol. *Exod.* 33. 7—10.
29	17	Oddeutu y pryd hyn y cafodd Moses addewid o bresennoldeb yr Arglwydd i arwain Israel, ac y gwelodd ei ogoniant. *Exod.* 33. 12—23.

Ab 20	Awst 7	Moses wedi parottoi dwy lech faen, ac arch o goed Sittim, yn esgyn i'r mynydd, ac wedi ymprydio 40 niwrnod a 40 nos fel y waith gyntaf, yr Arglwydd yn ysgrifenu y deg gair ar y llechau. *Exod.* 34. 1, 2, 28. *Deut.* 10. 1—4.
Elul 29	Medi 15	Moses yn disgyn o'r mynydd gyd â'r llechau, a'i wyneb yn disgleirio, fel y gorfu iddo wisgo llengudd, pan lefarai wrth y bobl. *Exod.* 34. 29—35.

Y pryd hyn yr annogodd Moses y bobl i ddwyn eu hoffrymau gwirfodd o amryw fath, tu ag at wneuthur y Tabernacl, a'i berthynasau (*Exod.* 35. 4—29.) hyd onid oedd amldra y rhoddion yn fwy na digon i'r gwaith. *Exod.* 36. 5, 6. O'r pryd hyn hyd ddiwedd y flwyddyn eglwysig, y treuliwyd oddeutu 6 mis yn gwneuthur yr amrywiol ranau o'r tabernacl, &c. am ba rai y mae hanes o *Exod.* 36. 8. i 39. 32. Yr oedd pob rhan o honi i fod yn barod i'w gosod at eu gilydd, fel y cyfodid y tabernacl y dydd cyntaf o'r mis cyntaf o'r ail flwyddyn ar ol dyfod o'r Aipht. *Exod.* 40. 2. *Bedford's Chron.* 427.

Yr ail flwyddyn ar ol yr ymadawiad o'r Aipht oedd 2515 *o Oed y Byd, a* 1494 *cyn geni Crist.*

Nisan	Mawrth	
1	21	Gosodir y tabernacl i fynu. *Exod.* 40. 2, 17.
2	22	Ar y dydd hwn, tebygol, y llefarodd yr Arglwydd wrth Moses o babell y cyfarfod (*Lef.* 1. 1.) gymmaint o'r gyfraith seremoniol a gynnwysir yn y saith bennod gyntaf o Lefiticus. A'r cyfreithiau yn y pennodau canlynol a roddwyd, tybygid, o fewn y mis hwn. *Lef.* 26. 46. *Num.* 1. 1.
3	23	Moses yn dechreu cyssegru Aaron a'i feibion. *Lef.* viii.
10	30	Ar yr wythfed dydd, ar ol 7 niwrnod y cyssegriad, y mae Aaron yn dechreu gweinidogaethu. Tân o'r nefoedd yn ysu y poeth-offrwm. *Lef.* 9. 24. Y dydd hwn, fel y bernir, y lladdwyd Nadab ac Abihu, am arogl-darthu â thân dieithr. *Lef.* 10. 1—7. Y mae yr oen yn cael ei neillduo at y Pasc. *Exod.* 12. 3. *Num.* 9. 1—5.
14	Ebrill 3	Lladdwyd y Pasc. *Num.* 9. 5. Y pryd hyn y rhoddwyd gorchymyn i'r rhai fyddent wedi ymhalogi, neu mewn ffordd bell, i gadw y Pasc ar y 14eg dydd o'r ail fis. *Num.* 9. 6—12. 2 *Cron.* 30. 1—4.
Jair neu Sif 1	20	Moses yn cael gorchymyn i rifo y bobl, o fab ugain mlwydd ac uchod; eu rhifedi oedd 603,550, heblaw y Lefiaid, y rhai oeddent o fab 30 mlwydd hyd yn fab 50 mlwydd, 8580. Yr oedd cyfrif arall o'r Lefiaid o fab misyriad ac uchod, sef 22,000, y rhai a gymmerwyd yn lle y cyntaf-anedig. *Num.* 1. 1, 2. a 2. 32. a 4. 48. a 3. 39.
2	21	Y mae Israel yn gwersyllu mewn trefn yn ol eu llwythau oddi amgylch y babell, er mwyn eu rhifo, a dysgu iddynt y drefn o wersyllu. *Num.* 2. 1—34.

Jair 3	Ebrill 22	Purwyd y gwersyll, a rhoddwyd cyfreithiau perthynol i gamwedd, eiddigedd, a'r Nazareaid. *Num.* v, vi.
4	23	Y mae y 12 tywysog yn offrymu dros 12 niwrnod wrth gyssegru y tabernacl. *Num.* vii.
14	Mai 3	Y rhai oedd aflan yn y mis cyntaf a gadwasant y Pasc.
15	4	Gorphenwyd offrymau y 12 tywysog. *Num.* vii.
16	5	Y mae y Lefiaid yn cael eu cyssegru oddeutu yr amser yma. *Num.* 8. 5—22.
17	6	Ynghylch y pryd hyn y daeth Hobab, mab Raguel, chwegrwn Moses, i ymweled âg ef o flaen ymadawiad Israel oddiwrth fynydd Sinai. *Num.* 10. 29—32.
20	9	Y mae y cwmwl yn cyfodi oddiar y tabernacl, ac Israel yn myned oddiwrth fynydd Sinai, wedi bod yn gwersyllu yn ei ymyl 354 o ddyddiau. *Num.* 10. 11, 12.
23	12	Y maent yn gwersyllu yn anialwch Paran. *Num.* 10. 12, 33. Hon oedd eu 12fed gwersyllfa, a elwir Taberah, am y llosgiad, *Num.* 11. 3. a Cibroth-Hattaafah, neu beddau y blys, *Num.* 11. 34. am iddynt flysio cig, a chael sofl-ieir dros fis o ddyddiau. *Num* 11. 20.
Sifan 26	Mehefin 14	Oddeutu y pryd hyn y daethant i Haseroth y 13 wersyllfa. *Num.* 11. 35. Y mae Miriam ac Aaron yn edliw i Moses iddo briodi Sephorah, yr hon y maent yn alw yn Ethiopes. Miriam a darawir â gwahan-glwyf, ac a gauir allan o'r gwersyll dros saith niwnod. *Num.* xii.
Tammuz 4	22	Y maent yn cychwyn o Haseroth, ac yn gwersyllu yn Rithmah, yn agos i Cades-Barnea, yn anialwch Paran; yr hon oedd eu 14eg gwersyllfa. *Num.* 12. 16. a 13. 26. a 33. 18. Oddi yma y danfonwyd 12 o wyr i edrych ansawdd gwlad Canaan, dros ddeugain niwrnod. *Num.* 13. 25.
Ab 17	Awst 4	Oddeutu y pryd hyn y mae yr yspiwyr yn dychwelyd, ac yn rhoddi anair i'r wlad i gyd, ond Caleb a Josua. *Num.* 13. 26—33. Ar ol dychweliad yr yspiwyr, arosasant yn Cades 'ddyddiau lawer,' megys y dyddiau yr arosasant o'r blaen. *Deut.* 1. 46. Os cyfrifir y dyddiau o'r blaen o 40 i 44, ymddengys fod eu harosfa yn Cades i gyd oddeutu 88 niwrnod, o'r 22 o Fehefin, hyd 18 o Fedi canlynol, yn yr ail flwyddyn ar ol eu hymadawiad o'r Aipht. Gellir cyfrif y 40 mlynedd yn yr anialwch, heb gamsynied llawer, fel hyn: O'r ymadawiad o'r Aipht, hyd eu hymadawiad o Cades Barnea y waith gyntaf, oddeutu blwyddyn a hanner—o'u hymadawiad o Cades Barnea, hyd onid aethant dros yr afon Zared, yr oedd 38 mlynedd; *Deut.* 2. 14. a 6 mis wedi hyny hyd oni chadwasant y Pasg yn Gilgal. *Jos.* 5. 10. Yn Cades Barnea, tybygid, y bu gwrthryfel Corah, Dathan, ac Abiram. *Num.* xvi. Nid oes hanes neillduol am ddim a ddigwyddodd i feibion Israel o'u hymadawiad o Cades, hyd oni ddaethant i wersyllu yno drachefn, ym mhen oddeutu 37½ flynedd, sef yn y mis cyntaf o'r 40fed flwyddyn. *Num.* 20. 1, 28. a 33. 38.

Y flwyddyn olaf o deithiau Israel yn yr Anialwch, sef y 40fed, oedd 2553 o Oed y Byd, a 1456 cyn geni Crist.

Nisan	Mawrth	
1	21	Y mae y flwyddyn Iuddewig yn dechreu; oddeutu y pryd hyn y mae Israel yn dyfod o Ezion-Gaber i Cades drachefn, yr hon oedd y pryd hyn yn 32 gwersyllfa iddynt. *Num.* 20. 1. a 33. 36. Yma y bu farw Miriam, oddeutu 126 oed. Yma yr ymgynhenodd y bobl am ddwfr, y pallodd amynedd Moses ,y tarawodd y graig ddwywaith, ac a gamddywedodd â'i wefusau. *Ps.* 106. 33. Oddi yma y danfonwyd at frenin Edom, i ofyn ffordd trwy ei wlad, yr hon ni chaniatäwyd. *Num.* 20. 1—21. Buant, tybygid, yn y wersyllfa hon o dri i bedwar mis. Cymhar. *Num.* 20. 1. â 33. 38.
Ab 1	Mai 20	Wedi ymadael o Cades, a dyfod i fynydd Hor, y mae Aaron yn marw ar ben y mynydd, y dydd cyntaf o'r 5ed mis o'r 40fed flwyddyn ar ol dyfod o'r Aipht, yn 123 mlwydd oed. *Num.* 20. 22—29. a 33. 36—39. Y maent yn aros yma, ac yn galaru am Aaron fis o ddyddiau, hyd ddiwedd y 5ed mis, sef Ab. Yn Hor yr oedd Israel pan orchfygwyd Arad a'i Ganaaneaid yn Hormah. Cymh. *Num.* 21. 1, 2, 3. â 33. 40.
Elul 1	Awst 18	Oddeutu y pryd hyn, ar ol i'r galar am Aaron fyned heibio, y daethant o fynydd Hor i Salmonah, eu 34 gwersyllfa. Yma y grwgnachasant o herwydd meithder y ffordd wrth amgylchu gwlad Edom, y prinder o ddwfr, a laru ar y manna. Danfonir y seirph tanllyd, a chyfododd Moses y sarph bres, am ba achos y bernir i'r wersyllfa hon gael ei galw Salmonah. *Dr. Hales. Num.* 21. 4—9. a 33. 41. O Salmonah daethant i Punon, ac oddi yno i Oboth, ac oddi yno i Ije-Abarim, neu garneddau Abarim, ar derfyn dwyreiniol gwlad Moab. *Num.* 21. 10, 11. a 33. 42—44. Treuliodd Israel yn y pedair gwersyllfa hyn, ac yn eu teithiau o fynydd Hor hyd onid aethant dros yr afon Zared i Dibon-Gad, eu 38 gwersyllfa, oddeutu dau fis o amser.
Tisri 1	Medi 22	Israel yn croesi afon Zared, ac yn gwersyllu yn Dibon-Gad yn ymyl yr afon hòno, oddeutu dechreu y 7fed mis o'r 40fed flwyddyn. Gwel *Deut.* 2. 13, 14. *Num.* 21. 12. Yr oedd hyny ym mhen 38 mlynedd ar ol eu hymadawiad o Cades-Barnea, oddeutu canol yr ail flwyddyn ar ol eu hymadawiad o'r Aipht. O Dibon-Gad, daethant i Almon-Diblathaim, wrth ryd Arnon, terfyn gogleddol gwlad Moab, yn terfynu rhyngddynt a gwlad Sehon brenin yr Amoriaid. Oddiyno daethant i fynydd oedd Abarim eu 40fed gwersyllfa, yr hon, yn *Num.* 21. 20. a elwir 'Pen y bryn sydd yn edrych tu â'r diffaethwch.' Rhwng Almon-Diblathaim a mynyddoedd Abarim, y mae sôn am bedwar o fanau yn

nhaith Israel o'r naill wersyllfa i'r llall, sef, 1. Beer, *ffynon*, yr hon a gloddiodd Moses a'r tywysogion â'u ffyn.—2. Mattanah, *rhodd*.—3. Nahaliel, *afonydd Duw*.—4. Bamoth, *uchelfeydd*. *Num*. 21. 16—20. O fynyddoedd Abarim y danfonwyd i ofyn cenad i Sehon i fyned trwy ei wlad; ei nacâd a roddodd achlysur i Israel i'w goresgyn. *Num*. 21. 20—25. Goresgynwyd hefyd gwlad Og brenin Basan, ag oedd yn terfynu ar wlad Sehon o du y gogledd. *Num*. 33. 21, 33—35. Cychwynasant o fynyddoedd Abarim, a gwersyllasant yn rhosydd Moab, am yr Iorddonen a Jericho. *Num*. 22. 1. a 33. 48. Hon oedd eu 41 wersyllfa, ac, hwyrach, eu holaf cyn croesi yr Iorddonen, er ein bod uchod wedi cyfrif 42 o wersyllfaoedd, gan gyfrif Beth-Jesimoth yn 41, ac Abel-Sittim yn 42. Ond, hwyrach, mai y ddau le hyn oedd terfynau eu gwersyllfa ar hyd yr afon. Yn rhosydd Moab y digwyddodd yr holl bethau a adroddir am Balaam y dewin, a Balac brenin Moab; godineb llawer o Israel gyda merched Moab, a Midian, &c. *Num*. xxii. xxiii. xxiv. xxv. xxxi. Yn y wersyllfa hon hefyd y llefarodd Moses lyfr Deuteronomium, ac yr ysgrifenwyd yn yr un amser, oddieithr y bennod olaf a chwanegwyd ato ar ol marwolaeth Moses. *Deut*. 1. 3—5. Bu Moses farw, tybygid, yn niwedd yr unfed mis ar ddeg o'r 40fed flwyddyn, a galarasant am dano 30 niwrnod, sef hyd ddiwedd y 12fed mis o'r un flwyddyn. Yr oedd 40 mlynedd, tybygid, o ymddangosiad cyntaf Moses o flaen Pharaoh, hyd ei farwolaeth; ond nid oedd y 40 mlynedd o ymadawiad Israel yn gyflawn, hyd oni chynnaliwyd y Pasc yn Gilgal. *Deut*. 34. 8. *Jos*. 5. 10.

Y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant ar ol darfod y galar am Moses hyd oni chynnaliwyd y Pasc yn Gilgal: yn cynnwys dwy wythnos o amser.

Nisan	Mawrth	
1	21	Yr Israeliaid yn dechreu y flwyddyn newydd gyda chadwraeth y Sabboth, fel y bernir, un wythnos cyn sancteiddio y Sabboth, a olygir, tybygid, yn *Jos*. 3. 5.
2	22	Josua yn danfon dau ŵr i edrych Jericho. *Jos*. 2. 1—21.
5	25	Yr yspïwyr yn dychwelyd yn yr hwyr o'r 4ydd dydd. *Jos*. 2. 22, 23.
6	26	Israel yn parotoi lluniaeth i fyned dros yr Iorddonen ym mhen tridiau. *Jos*. 1. 11. a 3. 2.
7	27	Yn cychwyn o Sittim, ac yn llettya wrth yr Iorddonen. *Jos*. 3. 1.
8	28	Yn ymsancteiddio, tybygid, trwy gadw y Sabboth. *Jos*. 3. 15.
9	29	Yn dechreu myned trwy yr Iorddonen. *Jos*. 3. 5.
10	30	Ar y 10fed dydd daethant oll i fynu o'r Iorddonen. *Jos*. 4. 19. Y maent yn neillduo yr ŵyn at y Pasc. *Exod*. 12. 3.
11	31	Y dydd hwn yr enwaedwyd yr holl rai ag oedd heb eu henwaedu yn yr anialwch. *Jos*. 5. 2—9. Am ba achos y galwyd y lle Gilgal, sef treiglad.

Nisan	Ebrill	
14	3	Y maent yn cadw y Pasc yn rhosydd Jericho. *Jos.* 5. 10. Ar y dydd hwn y mae y deugain mlynedd o deithiau Israel yn yr anialwch yn dyfod i ben. Y mae y manna yn peidio dranoeth wedi y Pasc, gan eu bod yn bwytta bara croyw o hen ŷd y wlad. *Jos.* 5. 11, 12.

Dylid sylwi yma, cyn dechreu ar y Daflen ganlynol, fod cryn anhawsdra yn Amseryddiaeth llyfr Josua, am nad oes ond ychydig sôn am yr amserau y gwnaed y pethau a adroddir ynddo. Felly y gellir dywedyd am lyfr y Barnwyr, a llyfr cyntaf Samuel. Nid ellais ddilyn *Bedford* (fy arweinydd, gan mwyaf, yn y rhan gyntaf o'r gwaith hwn) yn hollol yn y Taflenau perthynol i'r Pedwerydd Dosparth. Amcenir gwneuthur y Daflen ganlynol i gyfateb i'r Daflen gyntaf o'r Dosparth hwn.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er yr ymadaw. o'r Aipht.	Dilyniad o Ail Daflen y 4ydd Dosparth, yn cynnwys y pethau mwyaf hynod o ddyfodiad Israel i wlad Canaan, hyd oni orphenwyd Teml Solomon, gyd â'r proffadau.
2554	1455	41	Wedi croesi yr Iorddonen, a gwneuthur y pethau a soniwyd eisoes, y mae Josua yn cymmeryd Jericho ac Ai, yn adeiladu allor ar fynydd Ebal, yn cyhoeddi y fendith ar fynydd Garizim, a'r felldith ar fynydd Ebal. *Jos.* vi, viii. *Deut.* 27. 11—13. Y mae yn yr haf cyntaf, tybygid, yn gorchfygu y rhan fwyaf o'r breninoedd yn neheubarth gwlad Canaan, wedi heddychu â'r Gibeoniaid. *Jos.* ix, x.
2555	1454	42	Yn y flwyddyn hon, a'r pedair blynedd ganlynol, y gorchfygwyd Jabin brenin Hasor, a holl freninoedd gogledd-dir gwlad Canaan, *Jos.* 11. 1—18. ynghyd â'r Anaciaid yn y dehau. *Jos.* 11. 19—23.
2560	1449	47	Rhenir y wlad rhwng y naw llwyth a hanner. Y mae Caleb yn cael Hebron, ac efe yn 85 mlwydd, ym mhen 45 mlynedd wedi bod yn yspïo y wlad, yn yr ail flwyddyn wedi dyfod o'r Aipht. *Jos.* 14. 6—10. a xiv, xv, xvi, xvii, xviii, xix, xx, xxi. Y mae rhyfelwyr y ddau lwyth a hanner yn dychwelyd i'w gwlad. —Yr allor. Edr. *Jos.* xxii.
2578	1431	65	Josua yn cynghori y bobl, ac yn marw yn 110 mlwydd oed. *Jos.* xxiii, xxiv.
2579	1430	66	Llwyth Judah, trwy gynnorthwy llwyth Simeon, yn gorchfygu Adoni-bezec, brenin Bezec. *Barn.* 1. 7.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er yr ym adaw. o'r Aipht.	Dilyniad o Ail Dafien y 4ydd Dosparth.
2590	1419	77	Y mae yr holl henuriaid a welsant waith yr Arglwydd yn yr Aipht, y Môr Coch, &c. yn marw, tybygid, o fewn 12 mlynedd ar ol Josua (*Jos.* 24. 31.) yr hynaf oddeutu 97 mlwydd oed.
2591	1418	78	Oddeutu y pryd hyn, tybygid, y mae meibion Dan yn ennill Lais, ac yn sefydlu eilunaddoliaeth yno. *Barn.* 18. 1. wedi ei chymharu â *Jos.* 34. 31. Oddeutu yr un pryd y bu rhyfel rhwng Benjamin a'r llwythau ereill o achos pechod Gibeah. *Barn.* xix, xx. Tua diwedd y flwyddyn hon, tybygid, y dechreuodd gorthrymder Cusan-Risathaim, yr hwn a barhaodd 8 mlynedd. *Barn.* 3. 8.
2599	1410	86	Othniel yn gwaredu Israel, a'r wlad yn cael llonydd nes cyflawni 40 mlynedd er amser yr henuriaid. *Barn.* 3. 10, 11. wedi eu cymharu â *Jos.* 24. 31.
2624	1385	111	Oddeutu y flwyddyn hon, y mae newyn o 10 mlynedd yn dechreu yn ngwlad Israel. *Ruth* 1. 1—4.
2631	1378	118	Gorthrymder Eglon yn dechreu, ac yn parhau 18 mlynedd. *Barn.* 3. 12, 13, 14.
2648	1361	135	Ehwd yn gwaredu Israel, a'r wlad yn cael llonydd nes cyflawni 80 mlynedd, o'r flwyddyn 117 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht pan ddibenodd gorphwysdra Othniel. *Barn.* 3. 15—30.
2710	1299	197	Gorphwysdra Ehwd yn darfod, a'r Philistiaid yn dechreu aflonyddu Israel, a Samgar yn lladd o honynt 600 âg irai ychain, ac yn gwaredu Israel. *Barn.* 3. 31.
2711	1298	198	Gorthrymder Jabin brenin Canaan yn dechreu, ac yn parhau 20 mlynedd. *Barn.* 4. 1—3.
2731	1278	218	Deborah a Barac yn gwaredu Israel, a'r wlad yn cael llonydd nes diweddu 40 mlynedd o orphwysdra Ehwd. *Barn.* iv, v.
2751	1258	238	Gorthrymder y Midianiaid yn dechreu, ac yn parhau 7 mlynedd. *Barn.* 6. 1—6.
2757	1252	244	Gedeon yn gwaredu Israel, a'r wlad yn cael llonydd yn ei ddyddiau ef nes cyflawni 40 mlynedd, er yr orphwysdra yn amser Deborah. *Barn.* vi, vii. a 8. 1—28.
2790	1219	277	Diwedd gorphwysdra Gedeon. *Barn.* 8. 28.
2791	1218	278	Abimelech, mab ordderch Gedeon, yn llywodraethu dros dair blynedd. *Barn.* 9. 22.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er yr ymadaw. o r Aipht.	Dilyniad o All Dafien y 4ydd Dosparth.
2793	1216	280	Dryllir penglog Abimelech, a'i yswain yn ei drywanu â'i gleddyf. *Barn.* 9. 34, 35.
2794	1215	281	Llywodraeth Tola yn dechreu, ac yn parhau 22 mlynedd. *Barn.* 10. 1, 2.
2811	1198	298	Genir Eli yn y flwyddyn hon. 1 *Sam.* 4. 15.
2817	1192	304	Llywodraeth Jair yn dechreu, ac yn parhau 22 mlynedd. *Barn.* 10. 3.
2820	1189	307	Yr Ammoniaid yn dechreu, ac yn parhau i flino gwlad Gilead dros 18 mlynedd, hyd farwolaeth Jair. *Barn.* 10. 8.
2825	1184	312	Caer Droia a gymmerir gan y Groegiaid ar ol gwarchae o 10 mlynedd. *Bedford's Chron. p.* 583.
2838	1171	325	Jair yn marw, a'r Ammoniaid yn croesi yr Iorddonen, ac, ynghyd â'r Philistiaid, yn anrheithio Benjamin ac Ephraim. *Barn.* 10. 5, 7, 8, 9.
2839	1170	326	Jephthah yn gwaredu Israel, ac yn barnu chwe blynedd. *Barn.* xi. a 12. 1—7.
2845	1164	332	Ar ol Jephthah, y mae Ibsan yn barnu 7 mlynedd. *Barn.* 12. 9.
2849	1160	336	Genir Samuel, fel y bernir, oddeutu y flwyddyn hon. 1 *Sam.* 1. 20.
2852	1157	339	Elon yn dyfod ar ol Ibsan, ac yn barnu deng mlynedd. *Barn.* 12. 11.
2862	1147	349	Abdon yn dyfod yn lle Elon, ac yn barnu wyth mlynedd. *Barn.* 12. 14.
2870	1139	357	Eli yn dechreu, ac yn parhau i farnu dros 40 mlynedd. 1 *Sam.* 4. 18. Y mae 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid yn dechreu 7 mis wedi i Eli ddechreu barnu. *Barn.* 13. 1. 1 *Sam.* 6. 1. Genir Samson, tybygid, yn y flwyddyn hon. *Barn.* 13. 5.
2889	1120	376	Samson oddeutu 20 mlwydd oed yn caru un o ferched y Philistiaid, ac yn dechreu gwaredu Israel. *Barn.* 14. 1, 19.
2909	1100	396	Samson, trwy dynu i lawr deml Dagon yn Gaza, yn lladd ei hun, a thros 3000 o'r Philistiaid. *Barn.* 16. 21—31. Ar hyn, tybygid, y mae yr Israeliaid yn cymmeryd calon, yn ymladd â'r Philistiaid, ac yn cael eu gorchfygu. Y maent yn ymladd eilwaith, yn colli y dydd, ac arch yr Arglwydd. Eli yn marw wrth glywed y newydd. Ar ddychweliad yr arch, y mae 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid yn darfod. 1 *Sam.* iv, v, vi.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er yr ymadaw. o'r Alpht.	Saul.	Dilyniad o Ail Dafien y 4ydd Dosparth.
2910	1099	397		Genir Isboseth mab Saul. 2 *Sam.* 2. 10, 11. ——Samuel yn dechreu llywodraethu oddeutu 60 mlwydd oed. 1 *Sam.* 7. 3. Yn ennill buddugoliaeth fawr ar y Philistiaid yn Ebenezer. 1 *Sam.* 7. 4—15.
2919	1090	406		Genir Dafydd mab Jesse. 2 *Sam.* 5. 4, 5.
2931	1078	418	1	Y mae drwg lywodraeth meibion Samuel, a bygythiad Nahas brenin yr Ammoniaid, yn achos o ddewis Saul yn frenin. 1 *Sam.* 8. 1—5. a 12. 12. Saul yn gwaredu Jabes Gilead. 1 *Sam* 11. 1—11. Samuel yn tystio ei ddiniweidrwydd, pan oedd Saul yn fab un flwyddyn yn ei deyrnas. 1 *Sam.* xii. a 13. 1.
2933	1076	420	3	Saul yn dewis 3000 o Israel; 2000 yn osgordd iddo ei hun, a 1000 i Jonathan. 1 *Sam.* 13. 1, 2. Jonathan yn taraw sefyllfa y Philistiaid yn Geba, yr hyn a fu yn foddion i ddwyn Israel i gaethiwed a chyfyngder mawr. 1 *Sam.* 13. 3—23.
2934	1075	421	4	Jonathan, wedi ymgynghori â'r Arglwydd (1 *Sam.* 14. 3.) yn ymosod, gyd â'i langc, ar sefyllfa y Philistiaid, ac yn cael ei wneuthur yn offeryn i ennill buddugoliaeth fawr, a gwaredigaeth i Israel. 1 *Sam.* 14. 1—46. Y pryd hyn, tybygid, yr helaethodd y Reubeniaid a'r Gadiaid eu terfynau. 1 *Sam.* 14. 47. 1 *Cron.* 5. 10—22.
2940	1069	427	10	Yn y flwyddyn hon, tybygid, y danfonwyd Saul i ddinystrio Amalec, oddeutu blwyddyn o flaen eneinio Dafydd. 1 *Sam.* xv. a 16. 1—12.
2941	1068	428	11	Eneinir Dafydd, ac efe yn 22 mlwydd oed (fel y dangosir ym mlaen). Y mae yn canu telyn o flaen Saul; ac yn lladd Goliath. 1 *Sam.* 16. 13—23. a xvii.
2942	1067	429	12	Dafydd yn priodi Michal merch Saul, 1 *Sam.* 18. 22—27. Rhyfel yn erbyn y Philistiaid. 1 *Sam.* 19. 8.
2943	1066	430	13	Saul yn ceisio lladd Dafydd, yr hyn a barodd i Dafydd ffoi at Samuel i Naioth, lle daeth Saul i blith y prophwydi, a Dafydd at Jonathan, yr hwn a fyn-

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er yr ym adaw. o'r Aipht.	Saul.	Dilyniad o Ail Dafen y 4ydd Dosparth.
				egodd iddo am fwriadau gwaedlyd ei dad. 1 *Sam.* xix, xx.—Dafydd yn ffoi i Nob, yn meusydd pentrefol Anathoth, ac oddi yno at Achis brenin Gath, y tro cyntaf. 1 *Sam.* xxi.
2944	1065	431	14	Genir Mephiboseth. 2 *Sam.* 4. 4.
2945	1064	432	15	O Gath y mae yn myned i ogof Adulam, ac yn casglu 400 o wyr. Saul yn lladd Ahimelech, ac offeiriad Nob. 1 *Sam.* 22. 1—19. Dafydd yn gwaredu Ceilah, ac Abiathar mab Ahimelech, yn dyfod yno. 1 *Sam.* 23. 1—6. Saul yn cael ei alw o ymlid ar ol Dafydd i wrthwynebu y Philistiaid. 1 *Sam.* 23. 28.
2946	1063	433	16	Dafydd mewn ogof yn tòri cŵr mantell Saul. 1 *Sam.* xxiv.
2947	1062	434	17	Samuel yn marw, oddeutn 98 mlwydd oed, fel y bernir (*Bedford's Chron. p.* 520.) 2 flynedd o flaen Saul. Nabal yn cam-ymddwyn tu ag at Dafydd. 1 *Sam.* xxv. Dafydd yn cymmeryd y wayw-ffon a'r llestr dwfr oddiwrth obenydd Saul. 1 *Sam.* xxvi.
2948	1061	435	18	Dafydd yn ffoi yr ail waith at Achis brenin Gath, yn cael Siclag, ac yn aros yno flwyddyn a 4 mis. 1 *Sam.* xxvii.
2949	1060	436	19	Lleddir Saul a'i feibion yn Gilboa. 1 *Sam.* xxxi. Mae y pethau rhagflaenol a chyfamserol i gyd yn gynnwysedig yn 1 *Sam.* xxviii, xxix, xxx, xxxi.
2950	1059	437	Dafydd. 1	Isboseth. 1 — Tŷ Judah yn gwneuthur Dafydd yn frenin yn Hebron, ac Abner yn gosod Isboseth yn frenin ar Israel yn Mahanaim. 2 *Sam.* 2. 4—10. Yr oedd yn 40 mlwydd oed pan ddechreuodd deyrnasu, a Dafydd yn 30.
2952	1057	439	3	3 — Ar ol i Isboseth deyrnasu 2 flynedd, y mae rhyfel yn dechreu rhyngddo â Dafydd, ac yn parhau dros 5 mlynedd a 6 mis, hyd oni laddwyd Isboseth. 2 *Sam.* 2. 10, 11, 12. a 3. 1.
2956	1053	443	7	7 — Abner yn cilio at Dafydd, ac yn cael ei ladd gan Joab. 2 *Sam.* 3. 6—39. Lleddir Isboseth gan ei weision. 2 *Sam.* iv.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er yr ymadaw. o'r Aipht.	Dafydd.	Dilyniad o Ail Daflen y 4ydd Dosparth.
2957	1052	444	8	Gwneir Dafydd yn frenin ar holl Israel, wedi iddo deyrnasu yn Hebron 7 mlynedd a 6 mis. 2 *Sam.* 5. 1—5. Dafydd yn cymmeryd amddiffynfa Sion oddiar y Jebusiaid. Dafydd yn nechreu y flwyddyn hon yn 37 mlwydd oed. 2 *Sam.* 4. 4—8.
2958	1051	445	9	Dafydd yn gorchfygu y Philistiaid y tro cyntaf. 2 *Sam.* 5. 17—21.
2959	1050	446	10	Yn eu gorchfygu drachefn. 2 *Sam.* 5. 22—25.
2960	1049	447	11	Dafydd yn dwyn yr arch o Ciriath-jearim i Jerusalem. 2 *Sam.* vi.
2961	1048	448	12	Dafydd yn amcanu codi teml i'r Arglwydd, ac yntau yn addaw sicrhau tŷ ysprydol iddo yn Nghrist. 2 *Sam.* vii. Y mae etto yn trechu y Philistiaid. 2 *Sam.* 8. 1. 1 *Cron.* 18. 1.
2962	1047	449	13	Dafydd yn gorchfygu y Moabiaid. 2 *Sam.* 8. 2. 1 *Cron.* 18. 2.
2963	1046	450	14	Ac yn darostwng Hadadezer, a'r Syriaid o Damascus. 2 *Sam.* 8. 3—10. 1 *Cron.* 18. 3—8. Y pryd hyn y ciliodd Reson oddiwrth Hadadezer; aeth yn dywysog ar fyddin, ac yn amser Solomon a sefydlodd yn Damascus. Hyn oedd dechreuad y deyrnas hòno a flinodd gymmaint ar Israel a Judah. 1 *Bren.* 11. 23, 24, 25.
2964	1045	451	15	Dafydd mewn brwydr gyd â'r Philistiaid mewn perygl o gael ei ladd gan Isbibenob. 2 *Sam.* 21. 15, 16, 17. Joab yn lladd 12,000 o Edomiaid; *Ps.* lx. yn y Titl; ac Abisai wedi hyny 18,000 yn yr un dyffryn. 2 *Sam.* 8. 13. 1 *Cron.* 18. 12. Y mae Sibbecai yn lladd Saph. 2 *Sam.* 21. 18.
2965	1044	452	16	Oddeutu y pryd hyn, tybygid, y dinystriodd Dafydd yr Amaleciaid. 2 *Sam.* 8. 12. 1 *Cron.* 18. 11. Mewn brwydr yn Gob yn erbyn y Philistiaid, y mae Elhanan yn lladd Lami brawd Goliath. 2 *Sam.* 21. 19. 1 *Cron.* 20. 5.
2966	1043	453	17	Mewn brwydr yn erbyn y Philistiaid yn Gath, y mae Jonathan yn lladd brawd arall i Goliath. 2 *Sam.* 21. 20, 21.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er yr ymadaw. o'r Aipht.	Dafydd.	Dilyniad o All Dafien y 4ydd Dosparth.
2967	1042	454	18	Dafydd yn dangos caredigrwydd i Mephiboseth. 2 *Sam.* ix. Hanun mab Nahas brenin Ammon, yn ammharchu cenadon Dafydd, ac yn cael ei orchfygu gyd a'i gynnorthwywyr. 2 *Sam.* x. 1 *Cron.* 19. 1—15.
2968	1041	455	19	Dafydd yn gorchfygu y Syriaid o amryw wledydd a ddaethai yn gynnorthwy i Ammon. 2 *Sam.* 10. 15—19.
2969	1040	456	20	Joab yn gwarchae ar Rabbah. Dafydd yn godinebu gyda Bathseba, pan oedd 50 mlwydd oed. Lladd Urias, a chymmeryd Rabbah. 2 *Sam.* xi. a 12. 26—31.
2970	1039	457	21	Nathan yn argyhoeddi Dafydd. 2 *Sam.* 12. 1—23.
2971	1038	458	22	Genir Solomon. 2 *Sam.* 12. 24, 25.
2972	1037	459	23	Amnon yn halogi Tamar. 2 *Sam.* 13. 1—22.
2974	1035	461	25	Lleddir Amnon, ac Absalom yn ffoi dros 3 blynedd. 2 *Sam.* 13. 23—38.
2977	1032	464	28	Absalom a gyrchir yn ol i Jerusalem. 2 *Sam.* 14. 1—24.
2979	1030	466	30	Ym mhen 2 flynedd, y mae yn dyfod i ŵydd ei dad. 2 *Sam.* 14. 28—33.
2980	1029	467	31	Absalom yn lladrata serchiadau y bobl. 2 *Sam.* 15. 1—6.
2981	1028	468	32	Ac yn gwrthryfela ym mhen 40 mlynedd ar ol eneinio Dafydd gan Samuel. 2 *Sam.* 15. 7—37. a 16. 17. a xviii. Gwrthryfel Seba. 2 *Sam.* 20. 1—22.
2982	1027	469	33	Newyn yn dechreu, ac yn parâu 3 blynedd, o achos lladd y Gibeoniaid gan Saul, (hwyrach yn Nob. 1 *Sam.* xxii.)
2984	1025	471	35	Dielir ar dŷ Saul, a'r newyn yn peidio. 2 *Sam.* 21. 1—6.
2985	1024	472	36	Dafydd yn rhifo y bobl. 2 *Sam.* 24. 1—9. 1 *Cron.* 21. 1—5.
2986	2023	473	37	Haint mewn tridiau yn lladd 70 mil o'r bobl. 2 *Sam.* 24. 15. Attelir y pla trwy aberthau, y rhai a losgir gan dân o'r nefoedd. 2 *Sam.* 24. 18—25. 1 *Cron.* 21. 26. Dafydd yn parotoi defnyddiau, ac yn rhoi gorchymyn i Solomon i adeiladu y deml. 1 *Cron.* xxii. Corph Dafydd wedi oeri, a

Oed y Byd.	Cyn geni - Crist.	Er yr ymadaw. o'r Aipht.	Dafydd.	Dilyniad o Ail Daflen y 4ydd Dosparth.
				gynhesir gan Abisag. Adoniah yn ei wneuthur ei hun yn frenin, a Solomon yn cael ei wneuthur trwy orchymyn Dafydd. 1 *Bren.* i. 1 *Cron.* 23. 1.
2987	1022	474	38	Dafydd yn sefydlu cylchoedd yr offeiriaid, &c. i wasanaeth y deml pan adeiladid hi. 1 *Cron.* xxiii, xxiv, xxv. xxvi.
2989	1020	476	40	Yn rhoddi i Solomon bortreiad o amrywiol ranau y deml, &c. Y tywysogion a'r swyddogion yn offrymu eu rhoddion at waith y deml. Yr holl dyrfa yn aberthu ebyrth hedd, ac yn gwledda ger bron y brenin. Solomon yn cael ei eneinio yr ail waith yn frenin yn ngwydd y dyrfa, ac efe oddeutu 19 mlwydd oed. Dafydd yn marw yn 70 mlwydd oed. 1 *Cron.* xxviii. xxix.
			Solomon.	
2990	1019	477	1	Solomon yn teyrnasu, yn rhoddi Adoniah a Joab i farwolaeth, yn diswyddo Abiathar o hil Eli a theulu Ithamar, ac yn gwneuthur Sadoc, o deulu Eleazar, yn arch-offeiriad yn ei le. 1 *Bren.* 2. 12—35.
2991	1018	478	2	Solomon yn priodi merch Pharaoh; yn aberthu yn Gibeon, yn gofyn doethineb, ac yn penderfynu y ddadl yn nghylch y plentyn byw a'r marw. 1 *Bren.* iii.
2992	1017	479	3	Solomon yn danfon at Hiram brenin Tyrus am gedrwydd o Libanus, ac yn parotoi meini i adeiladu y deml. 1 *Bren.* 5. 2—18.
2993	1016	480	4	Rhoddir Simei i farwolaeth. 1 *Bren.* 2. 39—46. Sylfaenir y deml yn yr ail mis o'r 4edd flwyddyn i Solomon. 1 *Bren.* 6. 1. 2 *Cron.* 3. 2.
3000	1009	487	11	Gorphenwyd y deml yn yr 8fed mis o'r 11 flwyddyn i Solomon; 1 *Bren.* 6. 38. ond gan fod gŵyl y pebyll wedi myned heibio yn y flwyddyn hon, fe oedwyd y cyssegriad hyd wŷl y pebyll yn y flwyddyn ganlynol, sef y 12fed o deyrnasiad Solomon, ac yn y 7fed mis. Gan gymmaint oedd rhifedi yr aberthau, dechreuodd y cyssegriad 7 niwrnod o flaen yr amser cyffredinol, sef o'r 8fed hyd y 15fed, ac a barhâodd hyd y 23ain. 2 *Cron.* 7. 8—10. Awd heibio i ddwy ŵyl, sef y Pasc a'r Pentecost, fel y cyssegrid y deml ar ŵyl y pebyll, a hyny, tybygid, am achosion neillduol; canys er fod yr ŵyl hon yn coffau trigfa Israel mewn pebyll yn yr anialwch, yr oedd hefyd yn golygu

dyfodiad Crist yn y cnawd i dabernaclu yn ein plith. *Ioan* 1. 11. 1 *Bren.* 8. 27. Yr oedd y deml yn gysgod o deml ei gorph ef. *Ioan* 2. 19. Nid oes lle i ammeu mai Crist a'i aberth, a'r iawn mawr a dalwyd trwyddo, oedd o hyd yn ngolwg Solomon, yn ei weddi ragorol a wnaeth wrth gyssegru y deml; ac mai o herwydd hwnw yn unig yr oedd yn disgwyl gwrandawiad ac atebiad grasol gan yr Arglwydd, ac nid er mwyn y deml ei hun, yr hon, er godidoced oedd, nid oedd ond cysgod gwael o Arglwydd y deml. Gwel 1 *Bren.* 8. 27. 2 *Cron.* 6. 18.

PENNOD X.

Sylwadau ar y Pedwerydd Dosparth.

Y MAE yn angenrheidiol gwneuthur ychydig sylwadau ar y daflen ragflaenol: 1. Gan nad yw yr amserau yn cael eu pennodi yn yr ysgrythyrau ag sydd yn crybwyll rhai pethau a ddigwyddodd yn y Dosparth hwn, y mae yn eglur nad eill neb fod yn sicr o'r flwyddyn ym mha un y digwyddasant; gan hyny y mae yn rhaid dywedyd, mai oddeutu, neu ynghylch, y pryd a'r pryd y gwnaethpwyd, neu y bu y pethau a sonir am danynt.

2. Y mae ymgyrch meibion Dan yn erbyn Lais, a rhyfel Gibeah, yn cael eu gosod ar ol marwolaeth yr Henuriaid, a chyn i un o'r Barnwyr ddechreu llywodraethu, am fod genym sail dda oddiwrth yr ysgrythyrau. Cymh. *Jos.* 19. 47. a 24. 31. *Barn.* 18. 1. a 19. 1. Ac felly yn yr un modd y gosodir hwynt ym mhob Amseryddiaeth a ddigwyddodd i mi weled.

3. Mewn perthynas i oed Samuel yn marw, nid oes genym sicrwydd; ond gan fod y gair yn dywedyd ei fod 'wedi heneiddio,' pan osododd ei feibion yn farnwyr i'w gynnorthwyo, pan nad allai deithio fel cynt; ac yn hen ŵr yn gwisgo mantell, fel yr ymddangosodd efe, neu y diafol ar ei lun, i'r ddewines yn Endor; yr ydys yn barnu y gallai fod wedi cyrhaedd ynghylch oedran Eli pan fu farw, sef 98, ac iddo farw oddeutu 2 flynedd o flaen Saul. Bu Saul farw 51 mlynedd cyn gorphen teml Solomon. Gellir profi oddiwrth dystiolaeth y gair i'r deml gael ei gorphen yn y flwyddyn o oed y byd 3000—os tynir 51 o 3000, ymddengys fod Saul yn marw yn y flwyddyn o oed y byd 2949. Ac os bu Samuel farw ddwy flynedd cyn hyny, ac oddeutu 98 mlwydd oed, fel y cesglir, ganwyd ef yn y flwyddyn o oed y byd 2849, a bu farw yn y flwyddyn o oed y byd 2947. Gwel 1 *Sam.* 7. 15, 16, 17. a 8. 1. a 28. 3, 14. a *Bedford's Chron. p.* 520.

4. Mewn perthynas i'r newyn o 10 mlynedd, ac ymdeithiad Elimelech yn ngwlad Moab (am ba un y dylesid sôn o flaen Samuel) nid oes dim sicrwydd ym mha amser y digwyddasant, ond yn unig pan 'oedd y

brawdwyr yn barnu.' *Ruth* 1. 1, 2. Ond wrth ystyried fod Boaz yn fab i Salmon o Rahab, yr hon a guddiodd yr yspïwyr, *Jos.* ii. *Mat.* 1. 5. y mae yn rhaid mai yn nechreuad y barnwyr, y bu y newyn hwnw, pan oedd Boaz yn henafgwr. *Ruth* 3. 10. Am hyny gosodir ef (ar ol *Bedford)* yn amser Othniel, y cyntaf o'r barnwyr.

5. Gellir casglu oed Dafydd pan eneiniwyd ef gan Samuel fel y canlyn: Yr oedd hyny 40 mlynedd o flaen bradwriaeth Absalom, (1 *Sam.* 16. 1. 2 *Sam.* 15. 7.) yr hyn oedd, cyn nesed ag y gellid casglu, 8 mlynedd o flaen marwolaeth Dafydd. Os tynir 48 mlynedd o 70, oed Dafydd yn marw, y gweddill fydd 22 mlynedd, sef ei oed pan eneiniwyd ef, pan ganodd delyn gyntaf o flaen Saul, a phan laddodd Goliath, tua diwedd y flwyddyn. 1 *Sam.* xvi, xvii. *Bedford's Chron. p.* 536.

6. Dylid sylwi fod 2 *Sam.* 21. 15—21. o ran trefn amser, yn dyfod yn union ar ol 2 *Sam.* 8. 8. Y mae cyffelyb siamplau yn fynych yn y gair, o adrodd pethau allan o drefn amser, ac y mae rhesymau da yn cael eu rhoddi gan wyr dysgedig am rai o honynt. Pa beth oedd yr achos o dori ar drefn amser yn y lle crybwylledig y mae yn anhawdd dywedyd, oddieithr fod yr hanes am bedwar o feibion y cawr yn Gath, y rhai, ynghyd â Goliath eu brawd, a laddwyd gan Dafydd a'i weision, yn cael ei roddi megys rhagymadrodd i'r bennod ganlynol, sef 2 *Sam.* xxii. yr un â *Ps.* xviii. Lladd Goliath oedd ffrwyth y frwydr gyntaf y bu Dafydd ynddi, a lladd yr olaf o feibion y cawr yn Gath oedd yr olaf o'r brwydrau a fu gan Dafydd a'i weision law ynddynt, pan gyfansoddodd efe y 18fed Psalm. Wedi hyny yn y flwyddyn ganlynol y bu y rhyfel yn erbyn Hanun brenin meibion Ammon, yr hwn oedd ei ryfel olaf yn erbyn gelynion estronol, yr hwn nid oedd Dafydd yn ei ddisgwyl pan yr ysgrifenodd y 18fed Psalm.

7. Pan anfonodd yr Arglwydd newyn o dair blynedd yn amserau olaf Dafydd am weithred waedlyd Saul yn lladd y Gibeoniaid, oddeutu 37 mlynedd o'r blaen, yn Nob, fel y bernir, crogwyd 7 o'i feibion i gael cymmod i'r wlad. Ond y mae yn anhawdd, ar y golwg cyntaf, i ddeall paham y gadawyd y cyrph yn nghrog, nes diferu arnynt ddwfr o'r nef-oedd, gan fod cyfraith bennodol yn gorchymyn claddu celain y neb a grogid yn yr un diwrnod cyn nos. *Deut.* 21. 22, 23. Yr achos, tybygid, oedd hyn; gan fod sychder wedi peri y newyn, yr oedd y gospedigaeth ar feibion Saul i barhau, trwy eu gadael yn nghrog nes y dangosai yr Arglwydd ei fod mewn cymmod â'r wlad, trwy ddanfon gwlaw. Gwel 2 *Sam.* 21. 1—11. *Bedford's Chron. p.* 558.

8. Pan rifodd Dafydd y bobl yn y flwyddyn ganlynol ar ol darfod y tair blynedd newyn o achos y Gibeoniaid, danfonwyd Gad y prophwyd ato i hysbysu iddo na ddiangai heb arwydd o anfoddlonrwydd yr Arglwydd. Y mae yn peri iddo ystyried pa un o dair drygfarn a ddewisai, sef saith mlynedd o newyn—tri mis o ryfel aflwyddiannus—ai tridiau o

haint. 2 *Sam.* 24. 13. Ond yn yr un gennadwri fel yr adroddir hi yn 1 *Cron.* 21. 12. y mae Gad, yn lle saith, yn dywedyd 'tair blynedd o newyn.' I gyssoni hyn, yr ydys yn barnu fod Gad yn gofyn, a fynai estyn y tair blynedd o newyn o achos y Gibeoniaid, hyd oni fyddent yn saith, trwy y flwyddyn ym mha un y rhifodd Dafydd y bobl, yr hon, fel y dangoswyd, oedd y flwyddyn ganlynol ar ol i'r newyn beidio. Felly ni buasai ond 3 blynedd i wneuthur y 7 mlynedd i fynu. Yn y golygiad hwn, nid oes dim gwahaniaeth rhwng y ddau le. *Bedford's Chron. p.* 559.

9. O'r amrywiol ddosparthiadau a wnaeth Dafydd o'r offeiriaid, y Lefiaid, &c. tu ag at wasanaeth y deml, ni gawn sylwi yn unig ar gylchoedd yr offeiriaid. Rhanwyd yr offeiriaid o ddau dŷ Aaron, sef Eleazar ac Ithamar, yn 24 o ddosparthiadau, o ba rai yr oedd 16 o deulu Eleazar, ac 8 o deulu Ithamar. Pa faint oedd eu rhifedi, nid yw yn ymddangos. Ond y mae yn eglur fod pob dosparthiad i weini ar gylch, pob un ei wythnos, gan ddechreu ar y Sabboth, a myned allan o flaen y Sabboth canlynol. Yr oedd yr holl ddosparthiadau yn gweini i gyd, gyd â'u gilydd, ar y tair gŵyl arbenig yn ol y gyfraith, (*Ex.* 23. 17.) ac o herwydd lliosogrwydd yr aberthau, i ladd pa rai nid oedd gyfreithlawn i neb ond yr offeiriaid. Er i Dafydd drefnu dosparthiadau yr offeiriaid, ynghyd â phob peth arall at wasanaeth y deml, oddeutu 2 flynedd cyn ei farwolaeth, etto ni ddechreuasant weini yn ol trefn Dafydd, hyd oni chyssegrwyd teml Solomon, yn y 12fed flwyddyn o'i deyrnasiad, ar ŵyl y pebyll, yr hon a gedwid ar y 15fed dydd o'r 7fed mis, sef Tisri, hyd yr 22ain mewn blynyddoedd cyffredin, *Num.* 29. 12. ond ar gyssegriad y deml cadwyd gŵyl am 14 niwrnod. 1 *Bren.* 8. 65. Gwel 1 *Cron.* 24. 1—19. 2 *Bren.* 11. 5, 8. Yr oedd, fel y sylwyd, yr holl ddosparthiadau yn gweini gyd â'u gilydd ar ŵyl y pebyll, ac ar y Sabboth cyntaf wedi yr ŵyl honno, dechreuodd y dosparthiad cyntaf, sef eiddo Jehoiarib, ar ei gylch. Yr oedd y 24 cylch yn darfod ar y Sabboth cyn gŵyl y Pasc, pan fyddai y cwbl yn cydweini. Ar y Sabboth canlynol ar ol gŵyl y Pasc, yr oedd dyddgylch Jehoiarib yn dechreu yr ail waith; a'r holl gylchoedd, olynol, yn dilyn eu gilydd yn ol y drefn a sefydlodd Dafydd, hyd ŵyl y cymmod, pan fyddent yn dyfod at eu gilydd, ac yn aros nes diweddu gŵyl y pebyll; ar ol darfod pa un yr oedd y dosparthiadau ereill i gyd yn dychwelyd adref i'w dinasoedd, ond yr eiddo Jehoiarib, yr hwn oedd yn aros i ddechreu ar y dyddgylch cyntaf. Felly yr ymddengys fod y 24 dosparthiad yn myned trwy eu cylchoedd ddwy waith mewn blwyddyn, sef mewn 48 wythnos; heblaw hyny yr oeddynt gyd â'u gilydd yn cydweini 4 wythnos, sef un ar ŵyl y Pasc, un ar ŵyl y Pentecost, a phythefnos, fel y bernir, o'r Sabboth o flaen gŵyl y cymmod, hyd y Sabboth ar ol gŵyl y pebyll. Gellir casglu fod yr holl offeiriaid yn bresennol ar ŵyl y cymmod. *Lef.* 16. 29—34. Parhaodd y cylchoedd hyn yn ddi-

ammeu o hyd, hyd losgiad y deml gan Nebuchodonosor; (oddieithr iddynt gael eu rhwystro, fe allai, gan rai o'r breninoedd eilun-addolgar) ac ar ol y dychweliad o Babilon, pan adeiladwyd yr ail deml, adferwyd cylchoedd yr offeiriaid yn ol eu sefydliad dechreuol. *Ezra* 6. 18. O'r 24 dosparthiad o'r offeiriaid a gaethgludwyd i Babilon, ni ddychwelodd ond pedwar gyda Zorobabel, yn cynnwys 4289. *Ezra* 2. 36—39. Er hyny rhanwyd y rhai hyn yn 24 o ddosparthiadau, a rhoddwyd arnynt yr enwau gynt. *Prideaux's Conn. Part I. p.* 136. Dydd-gylch Abiah (*Luc* 1. 5. 1 *Cron.* 24. 10.) oedd yr 8fed o'r cylchoedd hyn. Ac yr ydys yn barnu ar seiliau da (fel y dangosir tua diwedd y gwaith hwn) ei fod yn ei eilfed tro, yn y flwyddyn yr ymddangosodd yr angel i Zachariah yn y deml, i hysbysu iddo am enedigaeth Ioan Fedyddiwr. Wrth gael gwybodaeth o'r amser pan oedd dyddgylch Abïah yn ei ail dro yn y flwyddyn hono, gellir sefydlu amserau genedigol Ioan a Christ o fewn ychydig; canys gwell, tybygaf, yw dywedyd felly na phenu diwrnodau eu genedigaeth, fel y mae rhai yn gwneuthur. *Bedford's Chron.* 403—411.

PENNOD XI.

Yr Hanesiaeth Ysgrythyrol o ddyfodiad Israel i Ganaan hyd farwolaeth Josua.

Bernais yn afreidiol i ysgrifenu yr hanesyddiaeth o greadigaeth y byd hyd farwolaeth Moses, gan fod y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant yn yr yspaid hwnw i'w cael yn y taflenau rhagflaenol. Oddeutu 25 mlynedd yw yr yspaid o ddyfodiad Israel i Ganaan hyd farwolaeth Josua. Pwy oedd ysgrifenydd llyfr Josua sydd anhysbys, hwyrach mai Eleazar yr offeiriad. Ar ol marw Moses cymmerodd Josua y llywodraeth ar Israel trwy orchymyn yr Arglwydd, ordeiniad Moses, a chydsyniad meibion Israel. Parhaodd y galar am Moses 30 niwrnod, sef hyd ddiwedd mis Adar, fel y dywedwyd, yr olaf yn y flwyddyn eglwysig. *Deut.* 34. 8.

II. Y mae y pythefnos cyntaf o'r flwyddyn Hebreaidd nesaf, sef hyd oni chynnaliwyd y Pasc yn Gilgal, pedwar diwrnod ar ol croesi yr Iorddonen, wedi ei ranu yn y fath fodd yn y daflen ragflaenol, fel y mae yn eglur nad eill fod fawr o gamsyniad ynddo, os oes dim. Yr ail ddydd o'r mis cyntaf o'r flwyddyn Hebreaidd, yr hon sydd yn cyfateb i'r flwyddyn 2554 o oed y byd, gan mwyaf, danfonodd Josua ddau yspiwyr i edrych y wlad a Jericho, y rhai a lettyasant yn nhŷ Rahab a fuasai yn buteinwraig, ond y pryd hyny oedd wedi cael ei hadferu oddiwrth halogedigaeth ei buchedd, fel y cesglir oddiwrth arwyddion ei ffydd. Ond mae rhai yn cyfieithu *lletty-wraig*, yn lle *puteinwraig*, fel y mae y gair *Heb.* yn

goddef. Y mae yr yspiwyr wedi cael eu gollwng wrth raff ar hyd y mur, ac ymguddio tridiau yn y mynyddoedd rhag yr erlidwyr, yn dychwelyd at Josua y pedwerydd dydd er pan aethent. Cyn ymadael â thŷ Rahab yr oeddynt wedi cyfammodi i'w hachub, ynghyd â'i holl deulu, os byddai y llinyn coch, trwy ba un, tybygid, y gollyngwyd hwy i waered, yn rhwym wrth y ffenestr. Yr oedd y llinyn coch, fel gwaed yr oen pasc, yn gysgod o waed Crist, trwy rinwedd pa un y gwaredwyd ac y gwaredir pob un a gredodd, ac a gred ynddo. *Jos.* ii.

III. Ar y 6fed dydd o Nisan, sef y mis cyntaf, yr hwn oedd yn cyfateb i'r 26ain o Fawrth, y mae Israel, yn ol gorchymyn Josua, yn parotoi lluniaeth i fyned tros yr Iorddonen ym mhen tridiau; (*Jos.* 1. 11. wedi ei chymharu â *Jos.* 3. 2.) a thranoeth yn llettya wrth yr Iorddonen. *Jos.* 3. 1. Ar yr 8fed o Nisan, y maent yn ymsancteiddio, tybygid, trwy gadw y Sabboth. Ar y 9fed o Nisan, yn cyfateb i'r 29ain o Fawrth, yr offeiriaid yn dwyn arch cyfammod yr Arglwydd ar eu hysgwyddau, a safasant yn nghŵr dyfroedd yr Iorddonen, yr hon oedd y pryd hyn, yn ol ei harfer yn amser cynhauaf yr heiddiau, wedi llifo dros ei glànau.* Pan gyffyrddodd traed yr offeiriaid â'r dyfroedd, yr Iorddonen a drodd yn ol, a'i dyfroedd a safasant yn bentwr 'ym mhell iawn' oddiwrth y fan lle yr aeth Israel trwodd ar dir sych. Y mae yn eglur y dylid cyfieithu *wrth*, yn lle *oddiwrth*, y ddinas Adam, yr hon oedd o ystlys Saretan. *Jos.* 3. 16. Yr oedd y ddau le hyn yn uchel i fynu i'r afon tua llyn Genesareth, yn adnabyddus pan ysgrifenwyd llyfr Josua, ac wedi hyny; ond y mae eu sefyllfa yn bresennol yn anhysbys, am nad oes sôn am danynt mewn un man arall o'r Bibl. Yr oedd un rhan o'r dyfroedd yn rhedeg i waered, yn ol deddf natur, i'r Môr Marw, a'r rhan arall, yn groes i ddeddf natur, trwy allu gwyrthiol yr Arglwydd, yn rhedeg i fynu tua llyn Genesareth. Bu Israel ran o'r 9fed a'r 10fed dydd o Nisan, tybygid, yn myned trwy yr Iorddonen, yr hyn sydd yn mawrhau y wyrth. *Jos.* 4. 19. Yr oedd 12 o wyr, un o bob llwyth yn Israel, wedi eu neillduo i ddwyn 12 o gerig ar eu hysgwyddau, o wely yr afon, o'r fan lle safodd yr offeiriaid oedd yn dwyn yr arch. Y cerig hyn, y rhai oeddynt, tebygol, bob un yn fwy na baich un dyn, a osododd Josua i fynu yn Gilgal, gerllaw glàn yr Iorddonen. Deuddeg o gerig hirion ereill a osododd Josua yn ngwely yr afon lle safodd traed yr offeiriaid oedd yn dwyn yr arch. Y rhai hyn, cystal a'r rhai hyny yn Gilgal, oedd i fod yn goffadwriaeth i'r cenedlaethau a ddeuai o'r weithred ryfedd hon a wnaeth yr Arglwydd i'w bobl Israel. Ar ol i'r holl bobl fyned trwodd, yn olaf daeth yr offeiriaid i fynu o wely yr afon, yn dwyn

---

* Yr achos, tybygid, o'r llif-ddyfroedd blynyddol hyn yn yr Iorddonen, oedd toddiad yr eira ar fynyddoedd Libanus a Hermon, &c. a gwlawogydd cyhydedd y gwanwyn.

yr arch, a phan gyffyrddodd eu traed â'r tir sych, 'yna dyfroedd yr Iorddonen a ddychwelasant i'w lle, ac a aethant, megys cynt, dros ei holl geulenydd.' Milwyr y ddau lwyth a hanner, 40,000 o rifedi, oedd yn blaenori byddin Israel. *Jos.* 4. 11, 12.

IV. Wedi dyfod i fynu o'r Iorddonen yn gynnar ar y 10fed dydd o'r mis cyntaf, y mae Israel, yn ol y gyfraith, *Exod.* 12. 3. yn neillduo yr ŵyn at y Pasc. Ar yr 11eg yr enwaedwyd yr holl wrrywiaid oedd heb eu henwaedu yn yr anialwch ar ol dyfod o'r Aipht; am hyny y galwyd enw y lle hwnw Bryn y blaen-grwyn, a Gilgal, sef treiglad, am fod gwaradwydd yr Aipht, sef y dienwaediad, yn cael ei dreiglo, neu ei symud oddi arnynt trwy enwaediad. Yr oedd gwaradwydd yr Aipht yn gynnwysedig yn y pethau gwaradwyddus a phechadurus a arwyddir gan y dienwaediad. Yr oedd Josua am i Israel gael sylwedd yr enwaediad, ac i'r holl arferion gwaradwyddus a ddysgasent yn yr Aipht gael eu treiglo, neu eu symud oddi arnynt. Rhagluniaeth ddaionus yr Arglwydd oedd, na syrthiodd y Canaaneaid ar Israel pan oeddent ddolurus ar ol eu henwaedu. Gwel *Gen.* 34. 25. *Jos.* iv. a 5. 3—9.

V. Ar y 14eg dydd y cynnaliasant y Pasc yn y gwersyll yn Gilgal, gerllaw yr Iorddonen, ar y gwastadedd rhwng Jericho a'r afon hòno. Yr oedd 40 mlynedd o'r dydd y cynnaliwyd y Pasc, y nos o flaen ymadawiad Israel o'r Aipht, hyd y Pasc yn Gilgal. Y mae y manna yn peidio dranoeth wedi y Pasc, ac Israel yn bwyta bara croyw o hen ŷd y wlad. *Jos.* 5. 10, 11, 12.

VI. Ar ol darfod saith niwrnod gwyl y bara croyw, arweiniodd Josua fyddin Israel i roi gwarchae ar Jericho, gan adael y gwragedd a'r plant, y clud a'r anifeiliaid, dan ofal gwarchawdlu yn y gwersyll yn Gilgal. Pan oedd yn nesâu at Jericho, ymddangosodd yr Arglwydd iddo, sef angel y cyfammod, mewn dull fel rhyfelwr, â'i gleddyf noeth yn ei law. Pan adnabu Josua ef, ar ol iddo hysbysu mai Tywysog llu yr Arglwydd ydoedd, efe a ymgrymodd ger ei fron, ac a'i haddolodd, gan ddiosg ei esgidiau oddi am ei draed. *Jos.* 5. 13, 14, 15.

VII. Yr oedd Josua, yn ol gorchymyn yr Arglwydd a Moses, wedi diofrydu Jericho, fel y Canaaneaid yn gyffredinol, i ddinystr, gan fod eu hanwiredd yn gyflawn y pryd hyn, yr hyn nid oedd yn amser Abraham. *Gen.* 15. 16. Gan fod trigolion Jericho wedi cynnyddu, hwyrach, i raddau mwy o annuwioldeb na'r Canaaneaid ereill, yr oedd eu dinystr yn fwy llwyr nag un o'r dinasoedd ereill. Difethwyd, nid yn unig yr holl drigolion o bob oedran, oddieithr Rahab a'i theulu, ond yr anifeiliaid hefyd; a llosgwyd eu holl ddodrefn; a'r arian a'r aur, a'r llestri pres a haiarn, a ddygwyd i drysor yr Arglwydd. Adroddir y dull rhyfedd a gwyrthiol o gymmeryd Jericho yn *Jos.* vi. yr hyn sydd gysgod o lwyddiant yr efengyl trwy foddion ac offerynau gwael yn llaw yr Arglwydd, i orchfygu holl gadernid teyrnas y diafol yn y byd. Cyf-

lawnwyd melldith Josua ar adeiladydd Jericho 545 o flynyddoedd wedi hyny. *Jos.* 6. 26. 1 *Bren.* 16. 34.

VIII. Bu Israel yn aflwyddiannus yn eu hymosodiad cyntaf yn erbyn Ai, dinas oedd yn sefyll o fewn ychydig filltiroedd i Jericho, yn y dehau-orllewin. Y mae yr enw yn arwyddo pentwr; yr un ydyw ag Aiath. *Esa.* 10. 28. Ffôdd Israel o flaen gwyr Ai, hyd le a elwir Sebarim, sef drylliadau, i goffâu dryllio Israel gan eu gelynion. Pan symudwyd yr achos o'r aflwydd a'r digofaint yn erbyn Israel, trwy roddi Achan i farwolaeth, ynghyd â'i deulu oedd gyfrin o'i bechod; cymmerwyd a llosgwyd Ai, lladdwyd ei thrigolion, a chrogwyd ei brenin, a rhoddwyd carnedd fawr o gerig ar ei gelain; a hyn, hwyrach, oedd yr achos o alw y ddinas Ai, pan adeiladwyd hi drachefn. *Jos.* vii. a 8. 1—29.

IX. Wedi hyny, aeth Josua, a holl gynnulleidfa Israel, i fynydd Ebal i adeiladu allor i'r Arglwydd, yn ol gorchymyn Moses, ac i gyhoeddi y melldithion a'r bendithion a gynnwysir yn *Deut.* 27. 15—26. a xxviii. Gwel hefyd *Deut.* 11. 26—30. Yr oedd Ebal a Gerizim yn ddau fynydd ar gyfer eu gilydd, a dyffryn rhyngddynt, gerllaw Sichem, yn llwyth Ephraim. Yr achos o ddewis y lle hwn, tybygid, oedd am ei fod cyn nesed ag a ellir barnu yn nghanol gwlad Canaan, fel y gallai yr holl lwythau yn yr oes hòno, a'r rhai a ddeuai, ddeall fod y cyfammod a seliwyd trwy y poeth-offrymau a'r ebyrth hedd, a'r cyhoeddiad o'r fendith a'r felldith, yn perthyn iddynt trwy eu holl genedlaethau.

Gellir casglu, tybygid, fod y gwersyll, ynghyd â'r tabernacl ac arch y dystiolaeth, wedi cael eu symud o Gilgal i'r lle yma, er mwyn cyflawni y gwasanaeth pwysfawr arbenig hwn. Ar ol adeiladu allor ar fynydd Ebal, yn ol y gorchymyn, *Exod.* 20. 25, 26. gorchuddiwyd ei hystlysau â phridd-galch *(morter)* i'r diben o ysgrifenu arnynt y fendith a'r felldith a orchymynodd Moses yn *Deut.* 27. 15—26. a xxviii. Ar ol aberthu y poeth-offrymau a'r ebyrth hedd, a gwledda arnynt, a llawenychu, hwyrach, rai dyddiau ger bron yr Arglwydd, cyn ymadael oddi yno, dosparthwyd yr holl lwythau, sef holl gynnulleidfa Israel, yn wyr, gwragedd, a phlant, ynghyd â'r dieithr oedd yn eu mysg, yn ddwy rês yn y dyffryn rhwng Ebal a Gerizim.

Yr oedd chwech o'r llwythau mewn un rhês, ar gyfer neu o dan fynydd Gerizim, sef Simeon, Lefi, Judah, Issachar, Joseph, a Benjamin, ynghyd â rhan o'r Lefiaid oedd mewn oedran i weini, i gyhoeddi â llef uchel y melldithion a gynnwysir yn *Deut.* 27. 15—26. Y llwythau ereill, sef Reuben, Gad, Aser, Zabulon, Dan, a Naphtali, oedd yn y rhês arall ar gyfer mynydd Ebal, ynghyd â'r rhan arall o'r Lefiaid, y rhai a gyhoeddasant y bendithion a gynnwysir yn *Deut.* 28. 1—14. Yna y Lefiaid, y rhai a gyhoeddasant y melldithion cyntaf, a chwanegasant y rhai hyny a gynnwysir yn *Deut.* 28. 15—68. Yn y canol rhwng y ddwy rês y safodd yr offeiriaid gyd âg arch y dystiolaeth, megys tyst-

ion o'r cyfammod rhwng yr Arglwydd ac Israel, i ba un yr oeddent oll yn ymrwymo, trwy ddywedyd, *Amen*. *Jos.* 8. 30—35.

X. Ar ol cyflawni y gwasanaeth wrth Ebal a Gerizim, dychwelodd Josua gyd âg Israel i'w gwersyllfa gyntaf yn Gilgal, tebygol, oddeutu amser gŵyl y Pentecost.* Y pryd hyn y daeth cenadwri at Josua oddiwrth gangen o genedl yr Hefiaid ag oedd yn trigo yn Gibeon, Cephira, Beeroth, a Ciriath-Jearim, dan rith eu bod yn dyfod o wlad bell i wneuthur cyfammod a chyngrair âg Israel, wedi clywed am eu llwyddiant a'u grymusder. Er fod chwedl ac ymddangosiadau y cenadon hyn yn dra ammheus yn ngolwg Josua a thywysogion y gynnulleidfa, etto, cafodd eu meddyliau eu tueddu i wneuthur cyfammod â hwynt. Fel hyn yr oedd dirgel a daionus ragluniaeth yr Arglwydd yn goruwchlywodraethu, nid yn unig i arbed rhyw ychydig weddill o genedloedd Canaan oedd wedi eu diofrydu i ddinystr, ond hefyd i roddi iddynt wasanaeth yn ei dŷ a'i addoliad cyhoeddus, i barotoi coed a dwfr at wasanaeth y tabernacl tra y parhaodd, a'r deml wedi hyny. Galwyd y Gibeoniaid dan yr enw Nethiniaid yn yr oesoedd canlynol, sef rhai wedi eu rhoddi i'r Arglwydd. Er y mynai y gynnulleidfa eu lladd pan gawsant allan eu twyll y'mhen tridiau, etto, Josua a'r tywysogion a gadwasant eu cyfammod â hwy. A'r Arglwydd a ddangosodd ei fod am gadarnhau y cyfammod hwn lawer o oesoedd wedi hyny. Pan laddodd Saul fab Cis rai o'r Gibeoniaid, tybygid, yn Nob, o'i serch a'i gau zel i feibion Israel a Judah, dïalodd yr Arglwydd hyny trwy ddanfon newyn ar y wlad, ac ni symudwyd y digofaint nes crogi saith o feibion Saul. 1 *Sam.* 22. 19. 2 *Sam.* 21. 1—10. Cymhar. â *Jos.* ix.

XI. Pan glybu Adonisedec brenin Jerusalem i drigolion Gibeon heddychu âg Israel, gwnaeth gynghrair â phedwar o'r breninoedd cymmydogaethol i ryfela yn erbyn Gibeon i ddial arnynt am hyny. Gan fod y Gibeoniaid yn analluog i wyrthwynebu y fath gadernid, daethant ar frys i ddeisyf cynnorthwy gan Josua, yr hwn a aeth yn ddiattreg ar hyd y nos o Gilgal gyd â'r fyddin, ac yn y boreu a ymosododd ar fyddinoedd y pum brenin cynghreiriedig wrth Gibeon, ac a'u dymchwelodd â lladdfa fawr. A'r Arglwydd a fwriodd ar y ffoaduriaid gerig cenllysg mawrion, y rhai a laddasant fwy na'r cleddyf. Pan welodd Josua fod yr haul yn agos i'w fachlud, a'r lleuad hefyd, ac y byddai i'r gelynion ddiangc o'i ddwylaw o herwydd y tywyllwch, cafodd ei annog gan Yspryd yr Arglwydd i beri i'r haul sefyll yn Gibeon, a'r lleuad yn nyffryn Ajalon. 'Felly yr haul a safodd yn nghanol y nefoedd, ac ni frysiodd i fachludo dros ddiwrnod cyfan;' sef hyd y pryd hyny pryd-

* Nid oedd y gwasanaeth wrth Ebal a Gerizim yn ammherthynol i ddibenion gŵyl y Pentecost, sef cadw coffadwriaeth o roddiad y gyfraith yn Sinai, ac nid yw yn debygol i Josua esgeuluso cadw yr ŵyl hono fel ereill, am ei fod yn ofalus i gadw yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd trwy Moses. *Deut.* 34. 9. *Jos.* 8. 35.

nawn dranoeth.* Pan lefarodd Josua wrth yr haul a'r lleuad, yr oedd, tybygid, tu a'r deheu-ddwyrain oddiwrth Gibeon, ac wrth droi ei olwg yn ol yn y prydnawn, gwelai yr haul fel pe buasai wrth ben Gibeon yn prysuro tu a'i fachlud yn y gorllewin-ogledd y pryd hyny o'r flwyddyn —a'r lleuad wrth ben dyffryn Ajalon, yn llwyth Dan yn y gorllewin, ac yn agoshau at ei machlud. I beri yr ymddangosiad hwn yn yr haul a'r lleuad, yr oedd raid fod y ddaear yn sefyll heb droi yn ei chylch-dro beunyddiol am un diwrnod. Y mae traddodiad yn hanesyddiaeth y Chinese am y wyrth hon; ond mwy na'r gwir, fel y mae yn aml yn hanesion cenedloedd y cyn-oesoedd. Y mae hanes y Chinese yn dywedyd na fachludodd yr haul am ddeng niwrnod, yn nheyrnasiad Yao eu 7fed Ymerawdwr, a bod trigolion y ddaear yn ofni y llosgid y byd, gan fod tanau mawrion y pryd hyny mewn amryw fanau. Ond y gwirionedd, tybygid yw, fod yr haul wedi machludo i drigolion China yn y parth dwyreiniol o Asia pan lefarodd Josua, ac fel y bu un diwrnod yn hŵy nac arferol heb fachludo yn Nghanaan, ei fod cymmaint a hyny heb godi yn China. Gan fod y wyrth yn hysbys yn yr holl fyd, nid oes le i ammeu na ddarfu i'r Chinese glywed mai gwir achos o estyniad y tywyllwch yn eu gwlad hwy oedd, na fachludodd yr haul yn ol ei arfer yn ngwlad Canaan, trwy waith yr Arglwydd yn gwrandaw ar lais Josua. Gallent glywed hefyd am losgi dinasoedd y Canaaneaid, a bod arswyd Israel ar yr holl genedloedd oddi amgylch.

Safodd yr haul yn amser Josua yn y flwyddyn ar ol y diluw 897, o oed y byd 2554, ac y mae yn deilwng o sylw, fod hanesyddiaeth y Chinese yn gosod y wyrth hon yn yr un flwyddyn. Dywedant mai Ffohi neu Noah oedd eu Hymerawdwr cyntaf, yr hwn a fu fyw ar ol y diluw 350 mlynedd.

	Bl.	
Ffohi	350	*Gen.* 9. 28.
Xinnum.....	140	
Hoamti	100	
Xaohao	84	
Chuenhio	78	
Co neu Tico	70	
Chi a ddiorseddwyd ar ol teyrnasu	8	
Yn y 67 fl. i Yao y safodd yr haul	67	
	897†	

Nid ellais gymmeradwyo barn Bedford (*p.* 490.) yr hwn sydd yn tybied mai oddeutu 11 o'r gloch y boreu y llefarodd Josua 'O haul

---

* Y mae Parkhurst Heb. Lex. yn cyfieithu *bahatsi hashamaim* (*Jos.* 10. 13.) 'yn nghyfraniad y nefoedd,' yn lle 'yn nghanol y nefoedd'—'*In the division of the heavens.*' Yr oedd yr haul y pryd hyny yn agos i'r terfyn-drych *(horizon)* sydd yn gwahanu rhwng y rhan honno o'r nefoedd sydd weledig a'r rhan ni welir.

† Bedford's Chron. p. 489. quoting Martinii Historia Sinica, Lib. 1. p. 37.

áros yn Gibeon;' am nad oedd yr angenrheidrwydd am barhad o'i oleuni yn ymddangos, tybygid, mor gynar yn y diwrnod, a chan fod Parkhurst yn rhoddi, tybygaf, wir esponiad o'r geiriau *Heb. bahatsi hashamaim*, fel y sylwyd eisoes. Trwy fod yr haul yn sefyll yn agos i'w fachlud, cafodd Israel ei oleuni heb ei wres i ddial ar eu gelynion.

Ar ol taraw ei elynion ' â lladdfa fawr iawn,' dychwelodd Josua, ac wedi lladd y pum brenin a gafwyd yn nghudd yn Maccedah, crogodd eu celaneddau ar bum pren. Yn ganlynol i hyny cymmerodd Maccedah, Libnah, Lachis, Eglon, Hebron, a Debir, chwech o ddinasoedd yn neheubarth gwlad Canaan, ac a ddifethodd eu breninoedd, a'u holl drigolion a syrthiodd i'w ddwylaw. Heblaw hyn gorchfygodd yr holl wlad o Cades-Barnea hyd Gaza, sef terfyn deheuol y wlad, a holl wlad Gosen* yn y deheu, ac oddi yno hyd Gibeon. Gwaith yr haf cyntaf, tybygid, i Josua, oedd darostwng deheubarth Canaan. Ar ol hyny, dychwelodd Josua ac Israel i'r gwersyll yn Gilgal. *Jos.* x.

XII. Yn y flwyddyn o oed y byd 2555, a 1454 cyn geni Crist, a'r pedair blynedd canlynol, y gorchfygodd Josua y breninoedd yn ngogledd-dir Canaan, sef Jabin a'i gynghreiriaid, ynghyd â'r Anaciaid yn y deheu, oddi eithr rhyw weddillion o honynt a adawyd yn Gaza, Gath, ac Asdod, tair o ddinasoedd y Philistiaid. Y mae sail dda i farnu mai oddeutu chwe' blynedd y bu Josua yn darostwng Canaan, oddiwrth oedran Caleb pan ddechreuwyd rhanu y wlad rhwng y naw llwyth a hanner. *Jos.* 14. 7. Ymddengys fod 31 o freninoedd wedi cael eu darostwng yn yr yspaid hyny o amser. *Jos.* xii. Dywedir i Josua gynnal rhyfel yn erbyn yr holl freninoedd hyny ddyddiau lawer, yr hyn a all arwyddocau amryw flynyddoedd. *Jos.* 11. 18.

Ar ol rhoddi Hebron i Caleb yn ol addewid Moses, *Jos.* 14. 9. a rhanu y wlad rhwng y llwythau, rhoddwyd Timnath Heres yn llwyth Ephraim i Josua. Gan fod yr enw yn arwyddo delw yr haul, tebygol yw, fod yr hen drigolion yn cynnal eilun-addoliaeth i'r haul yn y lle hwn. Ac fel na byddai coffadwriaeth o'u harferion gwaradwyddus, galwyd y lle Timnath Serah, trwy ddarllen Heres yn y gwrthwyneb. Gwel *Bibl Heb.* Y mae Serah yn arwyddo ymostyngiad, mynediad y'mlaen, neu lwyddiant, yr hyn yr oedd Josua yn ddisgwyl iddo ei hun ac i Israel trwy lynu wrth yr Arglwydd. Rhoddwyd i Caleb wobr ei ffydd yn gyntaf un, ond arosodd Josua yn olaf un cyn gael ei ran, gan roddi siampl hynod o hunan-ymwadiad a chymmedrolder, teilwng i'w ganlyn gan flaenoriaid a llywodraethwyr gwladol. *Jos.* 19. 49, 50.

XIII. Ar ol rhoddi trwy goelbren eu rhandiroedd i ddau lwyth a hanner, sef Judah, Ephraim, a hanner llwyth Manasseh, o'r tu yma i'r

---

* Yr oedd gwlad yn neheudir Canaan a alwyd Gosen, oddiwrth ba un y cafodd Gosen yn yr Aipht ei henw, neu ynte cafodd Gosen Canaan ei henw oddiwrth Gosen yr Aipht.

Iorddonen, dygwyd y babell a'i dodrefn i Siloh, yn llwyth Ephraim, tybygid, am ei fod yn nghanol y wlad, ac o herwydd hyny yn gyfleus i'r holl lwythau ymgyfarfod ar y gwyliau arbenig. Tebygol yw, i Siloh gael yr enw hwn gyda golygiad at Grist, un o enwau pa un yw Siloh, fel y dywedwyd eisoes. *Gen.* 49. 10. Gan fod y babell ac arch y dystiolaeth, y llestri, a'r holl wasanaeth, yn gysgodol o Grist, yr oedd enw Siloh yn addas i'r lle, ac yn gynnorthwy iddynt i edrych trwy yr holl gysgodau hyny at y sylwedd mawr o honynt. Bu y babell yn Siloh o'r pryd hyn hyd ddiwedd llywodraeth Eli 349 mlynedd. Ar ol hyny cafodd y saith llwyth ereill eu rhandiroedd. Cafodd yr offeiriaid o Eleazar ac Ithamar 13 dinas; a'r Lefiaid 35 dinas, gyd â'u meusydd pentrefol, o holl lwythau Israel. *Jos.* xviii. a 19. 1—48.

XIV. Fel ag yr oedd tair dinas wedi cael eu neillduo gan Moses yn ddinasoedd noddfa, yn ngwlad y ddau lwyth a hanner, o'r tu hwnt i'r Iorddonen, sef Bezer o lwyth Reuben, yn y gwastadtir, Ramoth yn Gilead o lwyth Gad, a Golan yn Basan o hanner llwyth Manasseh; felly Josua, yn ol ei orchymyn ef, a neillduodd dair ereill yn ngwlad Canaan, sef Cedes yn Galilee, yn mynydd Naphtali, Sichem yn mynydd Ephraim, a Chaer-Arba, neu Hebron, yn mynydd Judah; fel y ffoai pawb iddynt ar a laddai neb mewn amryfusedd, heb ei gasâu o'r blaen, i gael noddfa rhag dialydd y gwaed. Yr oedd raid i'r llofrudd drigo yn ei ddinas noddfa hyd farwolaeth yr arch-offeiriad a fyddai y pryd hyny; ar ol hyny gallai ddychwelyd yn ol i'w etifeddiaeth. Ond nid oedd diogelwch ynddynt i'r neb a laddai ei gymmydog yn fwriadol ac yn faleisus. *Num.* 35. 10—34. *Exod.* 21. 13, 14. *Deut.* 4. 41, 42, 43. *Jos.* xx. Yr oedd y dinasoedd noddfa yn gysgodol o Grist, gwir noddfa pechaduriaid llofruddiog, sydd nid yn unig yn dinystrio eu hunain, ond eu cymmydogion hefyd yn fynych, trwy eu cynghorion a'u siamplau drwg. Trefnwyd noddfa yn Nghrist i ddynion, ond nid i'r angelion syrthiedig. Pechodd y dyn trwy gael ei temtio, ond yr angelion yn fwriadol ac yn faleisus. *Heb.* 2. 16. 1 *Tim.* 1. 13.

XV. Tua diwedd y 7fed flwyddyn ar ol dyfod i Ganaan, danfonwyd rhyfelwyr y ddau lwyth a hanner yn ol i'w gwlad. Ar eu dychweliad, adeiladasant allor, yn ol cynllun allor y poeth-offrwm yn Siloh, ar ymyl yr Iorddonen, i fod yn dystiolaeth eu bod yn perthyn i'r llwythau ag oedd yr ochr arall i'r afon hòno, ac yn addoli yr un Duw, â'r un addoliad a gwasanaeth a hwythau. Parodd hyn i ammheuaeth gyfodi yn meddyliau rhai o'r llwythau hyny, rhag mai allor oedd hon i aberthu i'r gau dduwiau, neu mewn dull anghyfreithlon i'r gwir Dduw. Ond wedi i Phinees mab Eleazar yr arch-offeiriad, a'r rhai oedd gyd âg ef, chwilio i mewn i'r peth, cawsant foddlonrwydd mai nid o gau ddiben yr adeiladwyd yr allor hon a alwyd Ed, sef tyst. *Jos.* xxii.

XVI. Nid oes hanes am ddim hynod a ddigwyddodd yn y 19 blyn-

edd olaf o fywyd Josua. Tybygid mai y cynghor olaf a roddodd i Israel mewn cymmanfa gyffredinol, a gynnwysir yn *Jos.* xxiii. Rhyw bryd cyn hyny y bu y gymmanfa yn Sichem (pen. xxiv.) pan annogodd Josua holl Israel i ymwrthod âg eilun-addoliaeth yr Amoriaid, ac i lynu wrth yr Arglwydd mewn cyfammod tragywyddol. Bu farw yn 110 mlwydd oed, gan adael arogl peraidd ar ei goffadwriaeth. Y mae ei enw o'r un arwyddocâd ag enw yr Iesu, sef iachawdwr neu waredwr. Bu farw Eleazar mab Aaron oddeutu yr un amser a Josua, a Phinees ei fab a'i dilynodd fel arch-offeiriad.

XVII. Er mai ar ol marwolaeth Josua y crybwyllir am gladdedigaeth esgyrn Joseph yn Sichem, tebygol yw, iddynt gael eu claddu yno cyn gynted ag y daeth y lle i feddiant llwyth Ephraim. Y mae cryn anhawsdra i gysoni y manau canlynol â'u gilydd, *Gen.* 23. 16. a 33. 19. a 50. 13. *Jos.* 24. 32. ynghyd âg *Act.* 7. 15, 16. 'Felly yr aeth Jacob i waered i'r Aipht, ac a fu farw, efe a'n tadau hefyd. A hwy a symudwyd i Sichem, ac a ddodwyd yn y bedd a brynasai Abraham er arian, gan feibion Emmor tad Sichem.' Gellid meddwl oddiwrth yr adnodau olaf hyn, ar y golwg cyntaf, fod Jacob a'i feibion, sef y deuddeg patriarch, wedi cael eu claddu yn Sichem, yr hyn ni chytunai â'r hanes yn *Gen.* 50. 13. yr hwn sydd yn dangos i Jacob gael ei gladdu yn ogof maes Macpelah, yr hwn oedd yn llwyth Judah gerllaw Hebron, yn agos i derfyn deheuol gwlad Canaan; ond yr oedd Sichem yn llwyth Ephraim, oddeutu canol gwlad Canaan, lle claddwyd esgyrn Joseph. Heblaw hyny y mae yn ymddangos fel pe byddai Stephan yn priodoli i Abraham, yr hyn y mae Moses yn briodoli i Jacob, sef pryniad y maes yn Sichem gan Hemor tad Sichem. Ond os craffwn ar *Act.* 7. 16. cawn weled fod Stephan yn sôn am ddau le lle claddwyd y patrieirch, sef Sichem, a'r bedd a brynasai Abraham, ym mha rai y dodwyd hwy, sef rhai yn y naill, a rhai yn y llall; Joseph yn Sichem, ynghyd â'i feibion, tybygid, sef Ephraim, a Manasseh; a Jacob yn ogof maes Macpelah, ynghyd â'r rhan arall o'i feibion, fel y mae lle i gasglu, er nad ocs hanes neillduol am eu claddedigaeth. Mewn perthynas i'r rhan olaf o'r adnod, dylid rhoddi i mewn ddau neu dri o eiriau i eglurhau y synwyr, sef, '*ac a brynasai Jacob*,' fel y mae yn *Jos.* 24. 32. ac fel y mae cyfieithwyr y Bibl yn fynych yn gwneuthur, trwy roddi geiriau mewn llythyrenau Italaidd, i wneuthur yr ystyr yn gyflawn. Yn ol hyny, darllenai *Act.* 7. 16. fel hyn: 'A hwy a symudwyd i Sichem, ac a ddodwyd yn y bedd a brynasai Abraham, *ac a brynasai Jacob* er arian, gan feibion Emmor tad Sichem.' Felly bydd Stephan mewn cysondeb cyflawn â Moses. Y mae eisieu attaliad ar ol 'Abraham' yn y cyfieithiadau Cymraeg a Saesonaeg, y diffyg o ba un sydd yn dyrysu ystyr yr adnod. Neu, fel hyn, 'a brynasai Abraham er arian, *ac a brynasid* gan feibion Emmor tad Sichem.'

PENNOD XII.

Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol o Farwolaeth Josua hyd Goroniad Saul.

Yn yr yspaid hwn yr oedd 353 o flynyddoedd, fel y gwelir yn yr ail Daflen o'r pedwerydd Dosparth. Ar ol marwolaeth Josua, tybiodd y Canaaneaid ei bod yn amser cyfleus i daflu yr iau, ac i wneuthur cais i ennill eu gwlad yn ol, neu ryw ranau o honi, oddiar Israel. Ond ni lwyddasant yn ol eu disgwyliad, canys llwyth Judah trwy gynnorthwy y Simeoniaid a orchfygodd Adonibesec, arglwydd neu frenin Besec, dinas, tybygid, yn llwyth Benjamin (1 *Sam.* 11. 8.) gan ladd deng mil o'i fyddin, a'i gymmeryd yntau yn garcharor, a gwneuthur iddo fel y gwnaethai yntau i ereill. Tybygid mai Caleb oedd blaenor byddin Judah y pryd hyn, er ei fod yn 105 mlwydd oed yn y flwyddyn ar ol marw Josua, am ei fod ychydig ar ol hyn yn cynnyg ei ferch Achsah i bwy bynag a darawai ac a ennillai Debir neu Ciriath-Sepher. Othniel ei nai a wnaeth y gwaith, ac ennillodd y wobr. *Barn.* 1. 1—15. Ar ol hyny, cafodd Simeon gynnorthwy Judah i helaethu ei derfynau hyd Hormah, ar derfyn deheuol gwlad Canaan. *Barn.* 1. 17. Judah hefyd a ennillodd dair o bum dinas y Philistiaid, sef Gaza, Ascalon, ac Ecron, ond ni buant yn hir, tybygid, yn eu meddiant, gan fod yr hanes ysgrythyrol yn dangos eu bod yn meddiant y Philistiaid yn yr oesoedd canlynol.

Yr hyn a wnaeth y llwythau ereill, a'r hyn ni allasant gwblhau, a adroddir yn y rhan olaf o *Barn.* i.

II. Dywedir *(Jos.* 24. 31.) i Israel wasanaethu yr Arglwydd holl ddyddiau Josua, a holl ddyddiau yr henuriaid a fu fyw ar ol Josua, ac a wybuasant holl waith yr Arglwydd a wnaethai efe er Israel yn yr Aipht, y Môr Coch, a'r anialwch. Yr henuriaid hyn oedd agos i 20 mlwydd oed yn dyfod o'r Aipht, gan fod y cwbl oedd dros 20 mlwydd oed wedi marw yn yr anialwch. Bernir i'r holl henuriaid hyny farw o fewn oddeutu 12 mlynedd ar ol Josua, fel y dangoswyd o'r blaen yn y sylwadau ar y Daflen gyntaf o'r pedwerydd Dosparth. Yr oedd yr hynaf o honynt yn 97 mlwydd yn y flwyddyn 77 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, yr hon sydd yn cyfateb i'r flwyddyn 2590 o oed y byd, a 1419 cyn geni Crist.

III. Ar ol marw yr henuriaid, dechreuodd Israel ymlygru, 'ac angel (neu genad) yr Arglwydd a ddaeth i fynu o Gilgal i Bochim,' lle yr oedd Israel wedi ymgynnull mewn cymmanfa gyffredinol, ac a lefarodd wrthynt yn enw yr Arglwydd, am ei holl ddaioni tu ag atynt er pan ddygasai hwynt o'r Aipht, ac edliwiodd iddynt eu heilun-addoliaeth a'u han-

ffyddlondeb tu ag at yr Arglwydd, ac a fygythiodd y byddai iddo eu gadael yn ddigymmorth i gael eu blino a'u gorthrymu gan eu gelynion. Cafodd y genadwri hon y fath effaith ar y gynnulleidfa, fel y tywalltasant ddagrau o edifeirwch. I goffâu hyn y galwyd y lle Bochim, sef lle y rhai a wylasant. Ac yno yr adnewyddasant eu cyfammod â'r Arglwydd, trwy aberthu poeth offrymau ac ebyrth hedd, fel y gellir barnu.

Pa le oedd Bochim, pa un ai Siloh, neu Sichem, neu ryw le arall, sydd anhysbys. *Barn.* 2. 1—6. Y mae y rhan arall o'r bennod yn cynnwys hanes o ymddygiad yr Arglwydd ac Israel tu ag at eu gilydd, o amserau olaf Josua hyd ddiwedd llywodraeth y Barnwyr.

IV. Oddeutu y flwyddyn o oed y byd 2591, a 1418 cyn geni Crist, yr hon oedd y 78fed er yr ymadawiad o'r Aipht, yr ennillodd y Daniaid Lais neu Lesem, fel y gelwir yn *Jos.* 19. 47. Yr oedd rhandir llwyth Dan wedi digwydd iddynt yn neheubarth gwlad Canaan; ond gan fod yr Amoriaid yn cyfyngu arnynt, a hwythau yn analluog i'w gorthrechu, gorfu iddynt ymofyn am drigfanau ereill, y rhai a gawsant yn ngogleddir y wlad, dan fynydd Libanus, yn agos i ffynonau yr Iorddonen. Wedi cymmeryd a llosgi Lais, a lladd y trigolion, adeiladasant ddinas yn yr un lle, yr hon a alwasant Dan, yn ol enw eu tad. Ar eu ffordd i'r ymgyrch hwn, cymmerasant yr ephod a'r teraphim, sef math o ddelwau bychain, o dŷ Micah, yn mynydd Ephraim, ac a annogasant Jonathan y Lefiad i fyned gyda hwynt i fod yn offeiriad iddynt. Felly gosodwyd eilun-addoliaeth i fynu yn y rhan hyn o lwyth Dan, yr hwn a barhaodd yno hyd gaeth-gludiad y deg llwyth gan Salmaneser; a meibion Jonathan y Lefiad oedd yno yn offeiriaid yn olynol. O herwydd eu heilun-addoliaeth ni roddwyd enw Dan y'mhlith y llwythau. *Dat.* vii. *Barn.* xvii, xviii. Oddeutu yr un amser, tybygid, ag ymgyrch y Daniaid, y bu pechod Gibeah, a dinystr y Benjaminiaid, pan nad oedd frenin neu lywydd ar Israel. *Barn.* xix, xx, xxi. Gan fod, nid yn unig Gibea, ond holl lwyth Benjamin, wedi ymlygru i radd anarferol y'mhob math o halogedigaeth ac aflendid buchedd, syrthiodd dialedd yr Arglwydd mor drwm arnynt, fel y difethwyd pob perchen anadl ond y chwe chanwr a ddiangasant i graig Rimmon. Ac er fod byddin y llwythau ereill agos i bymtheg am un i fyddin Benjamin, etto, lladdwyd o honi mewn dau ddydd ddeugain mil gan y Benjaminiaid, heb fawr o golled iddynt eu hunain. Oddiwrth hyn gellir barnu nad oedd y llwythau ereill yn lân oddiwrth bechodau cyffelyb i bechod Gibea. Yr un achos a ddygodd ac a ddwg yr un effaith farnol yn yr oesoedd a aeth heibio, ac hyd ddiwedd amser. Dywedir fod rhyfelwyr llwyth Benjamin yn chwe mil ar hugain a saith gant, *Barn.* 20. 15. ac na ddiangodd o honynt ond chwe chanwr. Ond wrth chwanegu yr amrywiol rifoedd a laddwyd o Benjamin at eu gilydd, nid ydynt ond pum mil ar hugain, *adn.* 46. ond yn *adn.* 35. dywedir eu bod yn bum mil ar hugain a chanwr. Y mae cant

o wahaniaeth yn y ddau gyfrif hyn, a mil yn fyr yn y mwyaf i ateb i swm y lladdedigion o Benjamin. I gysoni yr hanes, mae yn rhaid barnu fod mil o Benjaminiaid wedi cael eu lladd y ddau ddydd cyntaf, gan nad allent ennill dwy fuddugoliaeth o'r fath heb golled. A chanwr, tybygid, a laddwyd yn Gibea gan y cynllwynwyr. *Bedford's Chron. p.* 507. Gwel yr hanes ysgrythyrol yn y pennodau crybwylledig, ac yn yr olaf, y moddion trwy ba rai yr adferwyd llwyth Benjamin.

V. Yr oedd Israel y pryd hyn yn teimlo y sarhad a wnawd i butain yn Gibea, ond yn esgeulus o'r dianrhydedd a wnawd i'r Arglwydd trwy eilun-addoliaeth y Daniaid, a ymdaenodd dros amryw o'r llwythau ereill; gan hyny, gan eu bod wedi gwerthu yr Arglwydd am eilunod, efe a'u gwerthodd hwythau i law Cusan-Risathaim brenin Mesopotamia, yr hwn a'u gorthrymodd 8 mlynedd. Y mae *Bedford* yn barnu mai brenin Assyria oedd Cusan, o hiliogaeth Cus, a bod Risathaim yn arwyddo y ddwy (deyrnas) ddrygionus, sef Ninifeh a Babilon; ond nid oes sicrwydd o hyn.

VI. Yn y flwyddyn 2599 o oed y byd, a 1410 cyn geni Crist, yr hon oedd y 86 ar ol y dyfodiad o'r Aipht, tybygid, y gwnawd Othniel mab yn nghyfraith Caleb yn offeryn i waredu Israel o law Cusan, a'r wlad a gafodd lonydd nes cyflawni 40 mlynedd er diwedd y gorphwysdra yn amser yr henuriaid a fu fyw ar ol Josua. *Barn.* 3. 9—11. Gan hyny, oddeutu 32 mlynedd oedd parhad gorphwysdra Othniel. Dangoswyd eisoes nad ellir chwanegu blynyddoedd y gorthrymder at y blynyddoedd o orphwysdra, gan na byddai swm y cwbl yn cyfateb. 1 *Bren.* 6. 1. Y mae dull ysgrifenydd llyfr y Barnwyr yn cyfrif y pedair gorphwysdra, yn amser Othniel, Ehwd, Deborah, a Gedeon, yn debyg i ddull Moses yn rhoddi cyfrif o arosfa meibion Israel yn yr Aipht, *Exod.* 12. 40. lle mae yn dywedyd, 'A phreswyliad meibion Israel yn yr Aipht oedd ddeng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd.' Dangoswyd eisoes mai oddeutu hanner yr yspaid hyny o amser y bu Israel yn yr Aipht. Gwel *Taflenau y Trydydd Dosparth.* Gan hyny, dylid deall fod preswyliad Israel yn yr Aipht *hyd oni chyflawnwyd* 430 *mlynedd* o'r amser y rhoddwyd yr addewid i Abraham, fel y mae yr apostol yn cadarnhau. *Gal.* 3. 17. wedi ei chymharu â *Gen.* 15. 13. Ac yn yr un modd y deallir i'r wlad gael llonydd yn amser Othniel *hyd oni chyflawnwyd* 40 *mlynedd* er diwedd y gorphwysdra yn amser yr henuriaid. Felly hefyd am yr yspaid amser yn y tair gorphwysdra a ganlynodd, fel y dangoswyd yn yr ail Daflen o'r Pedwerydd Dosparth.

VII. Oddeutu y flwyddyn 2624 o oed y byd, 1385 cyn geni Crist, a 111 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, y dechreuodd y newyn o 10 mlynedd, pan aeth Elimelech a'i wraig Naomi a'u dau fab o Bethlehem Judah i ymdeithio yn ngwlad Moab, lle priododd y meibion ddwy o'r Moabesau, ac y buont feirw ynghyd â'u tad. Oddeutu diwedd llywodraeth Othniel,

tybygid, y bu hyn. Pan glybu Naomi yn ngwlad Moab i'r Arglwydd ymweled â'i bobl trwy roddi iddynt amlder o fara, dychwelodd i Bethlehem, gyd â'i merch yn nghyfraith Ruth, yr hon, trwy addysgiadau ei chwegr, a ymadawodd âg eilun-addoliaeth ei chenedl, i addoli Duw Israel, ac i ymuno â'i bobl. Cafodd ei gwobrwyo hyd yn nod yn y bywyd hwn, canys priodwyd hi â Boaz, gwr goludog o dylwyth Elimelech, yr hwn a genedlodd o honi Obed, tad Jesse, tad Dafydd. Diben penaf ysgrifenydd llyfr Ruth, yr hwn, fel y bernir, oedd Samuel, oedd dangos achau y Messiah, o Phares, un o feibion Judah, hyd Dafydd. Y mae cryn anhawsder yn ymddangos yn y rhan olaf o'r achau hyn, wrth ystyried nad oes ond pedair cenedlaeth yn cael sôn am danynt o ddyfodiad Israel i Ganaan hyd enedigaeth Dafydd, yr hyn oedd yspaid o 365 mlynedd. Y pedair cenedlaeth hyny, oeddynt, 1. Salmon a briododd Rahab.——2. Boaz a briododd Ruth.——3. Obed mab Boaz o Ruth.——4. Jesse mab Obed, a thad Dafydd. Ac yn yr yspaid hwnw o amser, byddai 91 mlynedd i bob un o'r cenedlaethau hyny at eu gilydd.

Er fod hyn yn anghyffredin, ar ol byrhad oes dyn yn amser Moses, i oddeutu 80 mlynedd, etto nid yw yn anghredadwy, os ystyriwn fod Jehoiada yr arch-offeiriad wedi byw 130 mlynedd lawer o oesoedd ar ol hyn, a bod siamplau agos ym mhob gwlad o wyr yn cenedlu plant ar ol myned dros 91 mlynedd, a dywedir fod Thomas Parr, ein cydwladwr, yn dad i blentyn pan oedd yn 105 mlwydd oed. Ymddengys hefyd fod Boaz yn hen pan briododd Ruth, a bod Jesse 'yn henafgwr' pan oedd Dafydd yn llangc. 1 *Sam.* 17. 12. Y mae gan *Bedford* ffordd arall o gysoni yr anhawsder hwn, trwy dybied y gallai pedair cenedlaeth ar ol Obed gael eu gadael allan o'r achau, o herwydd eu heilun-addoliaeth, fel y gadawyd allan dair cenedlaeth yn achau Crist wedi hyny, am yr un achos, sef Ahaziah, Joas, ac Amasiah, breninoedd Judah. *Scrip. Chron. p.* 481.

VIII. Oddeutu y flwyddyn o oed y byd 2631, 1378 cyn geni Crist, a 118 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, y dibenodd gorphwysdra Othniel, ac y dechreuodd gorthrymder Eglon brenin Moab, yr hwn trwy gynnorthwy yr Ammoniad a'r Amaleciaid, wedi gorchfygu byddinoedd Israel a gymmerodd Jericho, a gosododd ynddi warchawdlu. Parhaodd y gorthrymder hwn 18 mlynedd. Yr achos o hono oedd am fod Israel wedi gwneuthur drygioni yn ngolwg yr Arglwydd. Wedi griddfan yn hir dan yr iau drom heb ddim golwg o ollyngdod, pan waeddasant ar yr Arglwydd, ac y dychwelasant ato trwy edifeirwch, trefnodd waredigaeth iddynt mewn ffordd annisgwyliadwy trwy offeryn gwael, sef Ehwd, mab Gera, o lwyth Benjamin, gwr a'i law ddehau wedi diffrwytho, fel y mae y geiriau *Heb. (itter yad yemino)* yn arwyddo. Ymddengys fod Ehwd wedi llunio ym mlaen llaw y drefn trwy ba un yr oedd yn ancanu dinystrio Eglon a'i fyddin, a llwyddodd y cwbl yn ol eithafei ddisgwyl-

iad. Yr oedd wedi annog Ephraim, ac ereill o'r llwythau cymmydogaethol, i arfogi eu hunain yn ddirgel, ac i fod mewn parodrwydd i syrthio ar y Moabiaid, pan glywent sain yr udgorn. Gwnaeth ddagr ddau finiog o gufydd o hyd, ac a'i gwregysodd dan ei ddillad ar ei glun ddehau. Gan fod yr holl lwythau, tybygid, dan rwymau i anfon at Eglon y cyfryw drethau neu anrhegion a bennodid ganddo, pan ddaeth at dro llwyth Benjamin i ddanfon eu hanrheg, aeth Ehwd yn flaenor ar y gwyr oedd yn ei dwyn. Ac wedi ei chyflwyno, gollyngwyd hwynt i fyned tu a'u gwlad. Ond wedi dyfod cyn belled a'r delwau cerfiedig* a osodasid i fynu gan y Moabiaid yn Gilgal, dychwelodd Ehwd ei hunan yn ol at y brenin, dan rith fod ganddo ryw gyfrinach o bwys i fynegi iddo. Gan hyny, parodd Eglon i'w weision fyned allan, gan nad oedd achos i ammeu niwed oddiwrth wrthddrych mor wael ag oedd Ehwd yn ymddangos, yn ddiffrwyth o'i law ddehau. 'Gair oddiwrth Dduw sydd genyf atat ti,' meddai Ehwd; a phan gyfododd Eglon oddiar ei orseddfa i ddyfod i'w gyfarfod, efe a'i brathodd â'i ddagr â'i law aswy yn ei boten, gyd â'r fath egni, fel y glynodd y blaen, tybygid, yn asgwrn ei gefn, fel nad allai Ehwd ei dynu allan, a chauodd y brasder am y carn, a'r dom a ddaeth allan trwy yr archoll. Yna Ehwd a aeth allan ac a glodd y drws ar ei ol, ac a aeth yn dawel i'w daith. Pan ddaeth gweision Eglon at y drws, a'i gael yn gloedig, meddyliasant, hwyrach oddiwrth y ddrygsawr, ei fod yn esmwythâu ei gorph; gan hyny, dychwelasant at eu gorchwylion. Ond wedi hir aros, a gwaeddi heb neb yn ateb, agorasant y drws, ac wele eu harglwydd wedi cwympo i lawr yn farw. Yn y cyfamser, Ehwd wedi diangc yn rhy bell i'w oddiweddyd, a udganodd yn mynydd Ephraim, casglodd y fyddin a barotoisai, ac wedi ei rhanu yn ddwy ran, tybygid, aeth un at rydau yr Iorddonen, a chyd â'r llall, syrthiodd ar fyddin y Moabiaid yn Jericho, mor annisgwyliadwy, fel yr ennillodd fuddugoliaeth hawdd arnynt. Y ffoaduriaid a laddwyd wrth rydau yr afon. O oddeutu deng mil o ryfelwyr ni ddiangodd un, a Moab a ddarostyngwyd dan law Israel. A'r wlad a gafodd lonydd nes cyflawni 80 mlynedd o ddiwedd gorphwysdra Othniel, sef 62 flynedd, yr hyn oedd yr yspaid mwyaf o heddwch a gafodd Israel tra bu yn preswylio yn ngwlad Canaan. *Barn.* 3. 12—30.

IX. Yn y flwyddyn y bu farw Ehwd, daeth y Philistiaid yn finteioedd i wlad Israel i yspeilio, fel nad oedd ddiogel i neb gerdded y ffyrdd cyffredin. *Barn.* 5. 6. Yn y cyfyngder hwn, defnyddiodd yr Arglwydd Samgar mab Anath fel offeryn i waredu Israel. Lladdodd o'r Philistiaid, ar amryw droiau, chwe chanwr âg irai ychain, a bu ei siampl, hwyrach, yn achlysur i ereill syrthio arnynt, fel y peidiasant ruthro i wlad Israel. *Barn.* 3. 31.

---

* Y mae y gair *Heb.* a gyfieithir "chwarelau," *Barn.* 3. 19. yn arwyddo delwau cerfiedig, ac felly y cyfieithir ef ym mhob man arall o'r Bibl.

X. Yn y flwyddyn ar ol marw Ehwd, tybygid, y dechreuodd 20 mlynedd gorthrymder oddiwrth Jabin brenin Canaan, yr hwn oedd yn teyrnasu yn Hazor, yn ngogledd-barth y wlad. Yr oedd y Jabin hwn, tebygol, o hiliogaeth hwnw a laddwyd gan Josua. *Jos.* 11. 10. Ar ol yspaid hir o heddwch yr oedd Israel wedi ymlygru i radd fawr, yn neilldual trwy fod eilun-addoliaeth y Daniaid yn y gogledd wedi ymdaenu dros amryw o'r llwythau ereill. *Barn.* 5. 8. Am hyny, gwerthodd yr Arglwydd hwynt i ddwylaw eu gelynion. Yr oedd yn ymddwyn tu ag atynt fel pe buasai yn rhoddi ei hawl ynddynt i fynu i ereill. Yn yr yspaid maith hwn, ni chafwyd gwr yn Israel a welai yr Arglwydd yn dda i ddatguddio ei feddwl iddo, neu i eistedd i farnu rhwng pleidiau â'u gilydd, neu i wneuthur dim tu ag at ryddhau ei wlad o'r caethiwed blin dan ba un yr oedd yn griddfan. Megys arwydd o gerydd ar y gwyr, cynnysgaeddodd yr Arglwydd wraig âg yspryd prophwydoliaeth, a chymhwysiadau i farnu pob achos gwladol, sef Deborah, gwraig Lapidoth, yr hon oedd yn cartrefu yn mynydd Ephraim, rhwng Ramah a Bethel. Wedi galaru yn hir am orthrymder Israel, meddyliodd am ffordd i'w gwaredu; defnyddiodd yr Offeiriaid a'r Lefiaid ag oedd wedi eu gwasgaru ym mhlith y llwythau, i'w hannog yn ddirgel i barotoi arfau, ac i daflu yr iau. *Barn.* 5. 9. Ond ni lwyddodd gan mwyaf ond gyda thri o'r llwythau, sef Naphtali, Zabulon, ac Issachar, ag oedd yn cael eu gorthrymu fwyaf. Safodd y ddau llwyth a hanner o'r neilldu, heb roddi dim cynnorthwy yn y rhyfel, ac am hyny, a gospwyd gyd â'r cyntaf yn y gorthrymder nesaf oddiwrth Midian. *Barn.* 5. 15—17. a 6. 1. Rhoddodd llawer o lwyth Dan yn y dehau eu teuluoedd a'u heiddo gwerthfawrocaf mewn llongau, gan feddwl hwylio i chwilio am breswylfeydd ereill, os Jabin a gai y goreu yn y rhyfel. Aser yn y gogledd a giliasant i'w hamddiffynfeydd ar làn Môr y Canoldir. *Barn.* 5. 17. Er hyny, ennillwyd buddugoliaeth drwyadl gan Barac, mab Abinoam, o Cedes Naphtali, ar Sisera, tywysog llu Jabin, wrth ddyfroedd Megido, yn rhan o hanner llwyth Manasseh ag oedd o fewn Issachar (*Jos.* 17. 11.) er ei fod mor ofnus nad ai i'r maes heb Deborah. Drylliwyd a boddwyd byddin Sisera, ac ef ei hun a laddwyd gan Jael, gwraig Heber y Cenead, un o hiliogaeth Jethro, chwegrwn Moses. Jabin a ddarostyngwyd, a Deborah a Barac, ynghyd âg Israel, a ganasant yn orfoleddus y gân ardderchog hòno a gyfansoddwyd, tebygol, gan Deborah. A'r wlad a gafodd lonydd nes cyflawni 40 mlynedd o ddiwedd gorphwysdra Ehwd. *Barn.* iv, v.

XI. Yn y flwyddyn 2751 o oed y byd, 1258 cyn geni Crist, a 238 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, dechreuodd y gorthrymder oddiwrth Midian, a'u cyngreiriaid, sef yr Amaleciaid, a meibion y dwyrain, sef amryw o genedloedd ag oedd o du y dwyrain i wlad Canaan, megys hiliogaeth Moab, Ammon, Ismael, ac ereill. Parhaodd y gorthrymder blin hwn dros 7 mlynedd, dros ba amser y bu holl wlad Israel mewn cyfyngder

mawr o herwydd anrhaith y gelynion yn yspeilio yr holl ŷd, yr anifeiliaid, a phob peth a fedrent gael. Yr oeddynt cyn amled a locustiaid yn dylifo dros yr holl wlad, ac nid llai dinystriol. Bu y rhuthrau hyn yn achos i feibion Israel guddio eu hunain, a chymmaint ag a fedrent o'u meddiannau, mewn llochesau yn y mynyddoedd, ac mewn ogfeydd ac amddiffynfaoedd. Gwaeddodd Israel yn ol eu harfer ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder, yr hwn yn gyntaf a'u hatebodd trwy anfon prophwyd atynt i ymresymu â hwynt, am eu hymddygiad anffyddlon tu ag ato ar ol cynnifer o waredigaethau. Wedi hyny, ymddangosodd angel yr Arglwydd, sef angel y cyfammod, i Gedeon, mab Joas, o deulu Abiezer, yn Ophrah, lle yn hanner llwyth Manasseh, yn Nghanaan. *Jos.* 17. 2. Yr oedd Gedeon y pryd hyn yn dyrnu ŷd i'w guddio rhag y Midianiaid. Annogodd yr angel ef i arfer moddion i waredu Israel; a chafodd Gedeon foddlonrwydd trwy arwydd ryfeddol mai yr Arglwydd ei hun oedd yn ymddiddan âg ef, canys wedi iddo gyffwrdd â'r myn gafr a'r bwyd offrwm a barotoisai â blaen y ffon oedd yn ei law, dyrchafodd tân (megys) o'r graig, ac a ysodd yr hyn a offrymasai. Yr oedd hyn yn arwydd o gymmeradwyaeth ei berson, ac o'i lwyddiant yn y gorchwyl at ba un yr oedd yr Arglwydd yn ei ddanfon. Yno yr adeiladodd Gedeon allor, ac a'i galwodd Jehofah-shalom, sef yr Arglwydd (a rydd) heddwch, neu lwyddiant. Ar ol hyn, bwriodd Gedeon allor Baal ag oedd yn Ophrah i lawr yn y nos, trwy orchymyn yr Arglwydd, ac wedi tòri coed y llwyn ag oedd gyssegredig i Baal, aberthodd ail fustach ei dad ar yr allor a wnaethai. Yn y bore, pan wybu y dinasyddion yr hyn a wnaethai Gedeon, yr oeddent am i'w dad ei ddwyn allan i'w roddi i farwolaeth; ond safodd Joas o blaid ei fab, a'r hyn a wnaethai, gan fwgwth lladd yn y fan pwy bynag a ddywedai air o blaid Baal. 'Os duw yw efe (meddai) dadleued drosto ei hun.' Oddiwrth y gair hwn cafodd Gedeon yr enw Jerubbaal, sef, '*Dadleued Baal;*' ac mewn man arall, Jerubbeseth, sef, '*Dadleued y peth gwarthus.*' 2 *Sam.* 11. 21. Clywodd y Midianiaid, tybygid, am weithredoedd Gedeon, a'i fod yn annog y llwythau i daflu yr iau drom oedd arnynt; gan hyny, wedi casglu eu lluoedd, daethant dros yr Iorddonen, a gwersyllasant yn nyffryn Jezreel, yn hanner llwyth Manasseh, gan feddwl attal y gwrthryfel yn y rhan hòno o'r wlad, lle yr oedd yn dechreu tòri allan. Yn y cyfamser, Gedeon wedi casglu byddin o 32,000, o Manasseh, ac amryw o'r llwythau ereill, a ofnodd ddechreu y rhyfel heb gael ychwaneg o sicrwydd o lwyddiant trwy arwyddion gwyrthiol oddiwrth yr Arglwydd; yr hyn hefyd a gafodd, yn gyntaf, trwy fod y gwlith ar y cnu gwlan, a'r ddaear yn sych; ac yn ail, trwy fod y cnu yn sych, a'r ddaear yn wlyb. Ond fel y cai yr Arglwydd yr holl ogoniant o'r fuddugoliaeth, lleihawyd byddin Gedeon i dri chanwr, sef cynnifer ag a godasant ddwfr â'u dwylaw at eu geneuau, gan eu bod trwy hyny yn dangos amryw

rinweddau, megys cymmedrolder, gwyliadwriaeth, a pharodrwydd meddwl i ymladd â'u gelynion. Bu y rhai hyn gyd â'u pisserau, y lampau, a'r udgyrn, yn offerynau i yru gwersyll y Midianiaid i ffoi yn ddychrynedig, ac yn eu dychryn i ladd llawer o'u gilydd. Yr oedd gan Gedeon ran o'i fyddin mewn parodrwydd i achub blaen y ffoaduriaid wrth rydau yr Iorddonen, gerllaw Beth-bara, neu Bethabara, sef Tŷ y rhyd, neu y mynediad trwodd; a'r rhan arall i erlid ar ol y ffoaduriaid. Daliwyd a lladdwyd Oreb a Zeeb, dau o dywysogion Midian, ynghyd â chwech ugain mil o ryfelwyr—ond diangodd Zebah a Salmunna, gyda phymtheg mil o wyr, dros yr Iorddonen. Gallai hyn, ynghyd â chenfigen, fod yn achos o gynhen yr Ephraimiaid yn erbyn Gedeon, fel pe buasent yn dywedyd wrtho, 'Pe dygasit ni i'r frwydr gyd â'th dri chanwr, ni ddiangasai Zebah a Salmunua;' heb ystyried mai trefn a gorchymyn yr Arglwydd a ganlynasai Gedeon. Ond ei ateb call arafaidd, yn rhoddi mwy o glod iddynt hwy nag oedd yn gymmeryd iddo ei hun, a lonyddodd eu dig, fel y buont gynnorthwyol i ddal a difetha y ddau dywysog a ddiangasai. Ond triniodd wyr Succoth a Phenuel yn wahanol, fel yr haeddasant. Bu yr ephod a wnaeth Gedeon yn achos i Israel i wyro oddiwrth drefn yr addoliad a ordeiniasai yr Arglwydd trwy Moses, ac yn dramgwydd iddo ef, sef yn bechod, ac yn ddinystr i'w dŷ ar ei ol. Cafodd y wlad lonydd yn nyddiau Gedeon, nes cyflawni 40 mlynedd o ddiwedd gorphwysdra Deborah a Barac. *Barn.* vi, vii, viii.

XII. Ar ol marw Gedeon, arweiniodd amryfusedd yr ephod a wnaethai i eilun-addoliaeth mwy noeth, canys puteiniodd Israel ar ol Baalim (yn y rhif lliosog) sef llawer o gau-dduwiau, ac ym mhlith ereill, addolasant Baal-berith, sef Arglwydd y cyfammod. Gallai yr eilun hwn fod yn ddelw o Dduw Israel, yr hwn a wnaethai gyfammod â'u tadau hwynt. Dygodd hyn farn drom ar y wlad; canys Abimelech, mab ordderch Gedeon, wedi lladd 70 o'i frodyr, sef meibion ei dad i gyd, ond Jotham yr ieuengaf, a lwyddodd gyda gwyr Sichem i'w ddewis yn frenin, gan fod ei fam yn un o'r ddinas hòno. Dewiswyd ef yn frenin gan wyr Sichem, ond tybygid mai gormesdeyrn ydoedd ar y rhan arall o Israel; gan hyny, llogodd fyddin o oferwyr gwammal i amddiffyn ei drawsfeddiant. Ymddengys fod dirywiaeth mawr wedi cymmeryd lle yn y wladwriaeth ym mhob ystyriaeth y pryd hyn, gan na ddarfu y llwythau, yn ol y siamplau o'r blaen, mewn yspaid tair blynedd, ddïal ei greulondeb a'i ormes. Ond yn ol prophwydoliaeth Jotham, cyfododd drwg yn ei erbyn oddiwrth y Sichemiaid, a derfynodd yn eu dinystr hwy ac yntau, ar ol iddo deyrnasu tair blynedd. *Barn.* 8. 29—35. a ix.

XIII. Ar ol Abimelech, bu Tola, o lwyth Issachar, yn farnwr ar Israel 23 blynedd. Ei drigfa oedd yn Samir, yn mynydd Ephraim. Bu amser ei lywodraeth, tybygid, yn heddychlon, gan nad yw yr hanes

yn dywedyd dim amgen. Ar ei ol ef llywodraethodd Jair ddwy flynedd ar hugain. Yr oedd yn un o drigolion Gilead, yr hon, weithiau, sydd yn arwyddo gwlad y ddau lwyth a hanner o'r tu hwnt i'r Iorddonen, ac weithiau y rhan ganol o honi. Yr achos, tybygid, o ddewis Jair yn flaenor gwladol, oedd rhyw ymddangosiadau fod yr Ammoniaid am derfysgu ac aflonyddu Israel. Yr oedd yn ŵr goludog a galluog, o herwydd amlder ei feibion; canys yr oedd ganddo 30 o honynt yn llywodraethu ar 30 o ddinasoedd Gilead, y rhai a alwyd Hafoth-Jair, sef trefi neu drigfëydd Jair, a thebygol mai lleoedd cadarn, neu amddiffynfëydd, oeddent, a wnaethai i attal rhuthrau yr Ammoniaid. Gelwir Jair wrth yr enw Bedan, 1 *Sam.* 12. 11. canys, fel y sylwyd eisoes, y mae sail dda i farnu fod 18 mlynedd gorthrymder yr Ammoniaid wedi dechreu yn y 4edd flwyddyn o lywodraeth Jair, a diweddu yn y flwyddyn y bu farw. Y mae yr hanesydd wedi crybwyll am yr achos o'r cerydd, sef eilun-addoliaeth Israel, yn dywedyd, 'Ac efe a'u gwerthodd hwynt yn llaw y Philistiaid, ac yn llaw meibion Ammon. A hwy a flinasant ac a ysigasant feibion Israel y flwyddyn hòno: tair blynedd ar bymtheg, (sef) holl feibion Israel y rhai oedd tu hwnt i'r Iorddonen.' *Barn.* 10. 7, 8. 'Y flwyddyn hòno' oedd, tybygid, y flwyddyn ym mha un y bu farw Jair, sef y 18fed er pan ddechreuasai gorthrymder Ammon. Yr oedd ef a'i feibion wedi eu hattal rhag croesi yr Iorddonen tra fu byw. Ond ar ol ei farwolaeth (gan nad oedd un o'i feibion yn meddu ar ei ragoriaethau ef) aeth yr Ammoniaid trwy yr Iorddonen i ymladd yn erbyn Judah, Benjamin, ac Ephraim; a'r Philistiaid o'r gorllewin a gynnorthwyasant y niwed, 'fel y bu gyfyng iawn ar Israel.' *Adn.* 9. Ond pan lefasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder, efe a'u gwaredodd oddiwrth eu gorthrymwyr. Yr Israeliaid a godasant fyddinoedd o bob tu yr Iorddonen, a'r Ammoniaid a giliasant yn ol dros yr afon hòno, ac a wersyllasant yn Gilead, gan farnu fod yn angenrheidiol i ennill y wlad oedd nesaf atynt cyn ymosod ar y wlad o'r tu hwnt i'r Iorddonen. Yn y cyfamser, yr oedd byddin Israel yn Mispah, lle cadarn yn ngwlad Gilead. Yr oedd amryw ddinasoedd o'r enw mewn amryw fanau. Un yn Judah, ac un yn Benjamin, ac un arall yn ngwlad Moab, a alwyd Mispah Moab. 1 *Sam.* 22. 3. Y mae y gair yn arwyddo amddiffynfa ar le uchel, neu warch-dŵr i yspïo oddi arno. Er fod Israel wedi casglu byddin, nid oedd ganddynt benaeth milwraidd i'w blaenori; gan hyny, gwahoddasant Jephthah, mab ordderch Gilead, i fod yn flaenor, ac ymrwymasant i'w ddewis yn llywydd, os darostyngai yr Ammoniaid. Cyn ymladd, bu cenadon o bob tu yn tramwy o'r naill wersyll i'r llall, i geisio heddychu heb dywallt gwaed. Dangoswyd eisoes fod Israel y pryd hyn wedi bod mewn meddiant o wlad Gilead yn agos i 300 mlynedd. Ar ol aflwyddo yn y gynnadledd, ymosododd Jephthah ar feibion Ammon, ac a'u gorchfygodd gyda 'lladdfa fawr

iawn,' ac ennillodd oddi arnynt ran o'u gwlad, sef o Aroer hyd Minnith, ym mha un yr oedd ugain dinas. Ond yr hyn a daflodd gwmwl ar y fuddugoliaeth, oedd adduned fyrbwyll Jephthah, a wnaethai o flaen y frwydr, sef, os rhoddai yr Arglwydd feibion Ammon yn ei law, yr aberthai yr hyn a ddeuai allan o ddrysau ei dŷ i'w gyfarfod yn boeth-offrwm i'r Arglwydd. I'w fawr alar ei ferch a'i unig blentyn oedd y gyntaf a ddaeth allan o'i dŷ i'w gyfarfod ar ei ddychweliad, gyda thympanau a dawnsiau, i'w groesawu adref ar ol ei fuddugoliaeth. Wrth ystyried yr amrywiol amgylchiadau yn yr hanes, y mae yn debygol na losgwyd hi, yn ol llythyren yr adduned, ond iddi gael ei chyssegru i'r Arglwydd trwy wyryfdod, yr hyn nid oedd i'w amddiffyn fawr fwy na phe buasai yn ei llosgi yn fyw. Ac nid oes, am a wn, un siampl gyffelyb yn amserau yr Hen Destament. Y mae yn anhawdd gwybod pa un i ryfeddu fwyaf, ai byrbwylldra ac annoethineb y tad, ai hunan-ymwadiad ac ymroddiad y ferch i gyflawni yr adduned. Y mae ffyddlondeb yr hanesydd ysgrythyrol yn deilwng o sylw, yr hwn, er ei fod yn Iuddew, sydd yma, fel ereill mewn manau ereill, yn nodi beiau un o'r buddugoliaethwyr enwocaf o'i genedl.

Yr oedd ymddygiad yr Ephraimiaid tu ag at Jephthah, ar ol gorphen y rhyfel yn erbyn Ammon, yn dra annheilwng; canys yn lle llawenhau am ei lwyddiant, ymroddasant i genfigen, eiddigedd, a gelyniaeth agored yn ei erbyn. Yr amgylchiadau, tybygid, oedd fel y canlyn. Yr oedd Ephraim wedi casglu byddin liosog o'i lwyth ei hun, a'r llwythau ereill, i gymmeryd rhan yn y rhyfel yn erbyn Ammon, ond pan ddeallasant fod Jephthah wedi cael ei ddewis gan y Gileadiaid yn flaenor y fyddin, ni fynent ymladd dan un mor wael yn eu golwg, er iddo anfon atynt am eu cynnorthwy. *Barn.* 12. 2, 3. A phan ddeallasant fod Jephthah wedi dibenu y rhyfel yn llwyddiannus hebddynt, a'i fod yn debyg o fod yn llywydd ar holl wlad Israel, i'r hyn nid oeddynt foddlon, penderfynasant i arwain byddin i wlad Gilead i'w ddifetha. Eu hesgus oedd am na anfonasai Jephthah atynt, fel y caent ran o'r yspail a chlod y fuddugoliaeth. Y mae yn eglur mai esgus disail oedd hwn, a'r canlyniad fu warthus a dinystriol i'r Ephraimiaid, canys lladdwyd o honynt, yn y frwydr, yr ymlid, ac wrth rydau yr Iorddonen, ddwy fil a deugain. Yr oedd digofaint Jephthah yn y rhyfel hwn yn fwyaf yn erbyn yr Ephraimiaid, gan mai hwynt-hwy oedd y gwreiddyn o hono, a hwy yn unig, tybygid, o'r ffoaduriaid a laddwyd wrth y rhydau, a'r lleill a ollyngwyd trwodd. Ni fedrai yr Ephraimiaid swnio y gair Shibboleth* yn groyw, ond dywedent Sibboleth, ac felly eu lleferydd a'u cyhuddai, a milwyr Jephthah a'n lladdasant. Parhaodd llywodraeth Jephthah 6 blynedd. *Barn.* x, xi. a 12. 1—7.

---

* Shibboleth, *ffrwd ddwfr*. Sibboleth, *baich*. Y rhai a fedrent swnio Shibboleth a gaent fyned trwy y ffrwd ddwfr; ond yr oedd Sibboleth yn faich trwm.

XIV. Ar ol Jephthah, barnodd Ibsan y Bethlehemiad 7 mlynedd; Elon y Zabuloniad 10 mlynedd; ac Abdon y Pirathoniad o lwyth Ephraim 8 mlynedd. Yn y 25 mlynedd hyn, nid oes hanes am un digwyddiad o bwys. Gorchwylion heddwch oedd yn myned ym mlaen; gan hyny, tebygol, mai amser heddychlon ydoedd, er fod ereill yn dychymmygu, ar seiliau rhy wan, tybygaf, fod 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid wedi dechreu o flaen y cyntaf o'r tri barnwr hyn. *Bedford's Chron. p.* 523, 584. *Barn.* 12. 8—15.

XV. Ar ol marw Abdon, dechreuodd 40 mlynedd llywodraeth Eli yn y flwyddyn o oed y byd 2870, 1139 cyn geni Crist, a 357 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht. Yr oedd Eli yn arch-offeiriad o dŷ Ithamar mab Aaron. Yr oedd yn 58 mlwydd oed pan ddechreuodd lywodraethu fel barnwr gwladol gyd â'i swydd eglwysig. 1 *Sam.* 4. 18. Oddeutu 7 mis ar ol dechreu llywodraeth Eli, dechreuodd 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid. *Barn.* 13. 1. 1 *Sam.* 5. 11. a 6. 1. Gwel *Mynegai y Bibl.* Heblaw fod llygredigaethau Israel yn galw am farnedigaethau trymion, meddyliodd y Philistiaid, tebygol, fod amgylchiadau pethau y pryd hyn yn fanteisiol i ddwyn Israel dan yr iau; gan eu bod dan lywodraeth offeiriad anfilwraidd o gryn oedran, a'r wladwriaeth ar ol yspaid hir o heddwch yn anhyddysg i drin arfau rhyfel.

XVI. Yn y flwyddyn gyntaf, tybygid, o lywodraeth Eli y ganwyd Samson mab Manoah, o lwyth Dan, o wraig a fuasai yn ammhlantadwy. Cawsai ei rïeni addewid o hono gan angel yr Arglwydd, sef angel y cyfammod, a ymddangosasai iddynt mewn dull fel gwr, yr hwn a losgodd eu haberth, megys arwydd o'i dderbyniad, o gymmeradwyaeth eu personau, a chyflawniad ei air; ac esgynodd yn rhyfeddol yn fflam yr allor i'r nefoedd. *Barn.* xiii. Pan oedd Samson oddeutu 20 mlwydd oed, fel y bernir, priododd un o ferched y Philistiaid yn Timnath. *Jos.* 19. 43. Wrth fyned yno gyd â'i dad a'i fam, tybygid, i wneuthur dydd dyweddi, a hwy ychydig ar ei ol, neu o'i flaen, cyfarfu llew âg ef wrth winllanoedd Timnath, ac a ruthrodd iddo; ond Yspryd yr Arglwydd a ddaeth yn rymus arno, a chan afaelu yn ei ddwy ên, efe a'i rhwygodd mor hawdd a phe buasai fyn gafr; ond ni fynegodd i neb y pryd hyny yr hyn a wnaethai. Ceir hanes o'r amgylchiadau a ragflaenasant enedigaeth Samson, gweithredoedd ei fywyd, a'i farwolaeth, yn *Barn.* xiii, xiv, xv, xvi.——Yr oedd Samson yn gysgod o Grist, 1. Yn ei enw, yr hwn sydd yn arwyddo haul, neu was.——2. Yn ei enedigaeth wyrthiol.——3. Yn ei Nazareaeth, gan ei fod wedi ei neillduo i'r Arglwydd o'r groth, i wneuthur gwasanaeth neillduol iddo.——4. Yn ei waith yn priodi gwraig o blith ei elynion.——5. Yn ei gryfder gwyrthiol.——6. Yn ei waith yn lladd y llew, a'r amgylchiadau perthynol iddo.——7. Yn ei fuddugoliaeth â gên àsyn, o lwyddiant yr efengyl trwy offerynau gwael a ffolineb pregethu. ——8. Yn ei waith yn dwyn pyrth Gaza i ben y bryn, o waith Crist yn

adgyfodi, ac yn esgyn i'r nefoedd, megys â phyrth y bedd gyd âg ef.—— 9. Yn ei farwolaeth, trwy ladd mwy o'i elynion nag yn ei holl fywyd, ac yn ei ymroddiad ewyllysgar i farw er dial ar ei elynion ei hun a'i bobl. Ond yn ei wendidau a'i gwympiadau, y mae Samson yn siampl o gredadyn wedi syrthio i ddwylaw ei elynion.

1. Dylid sylwi mewn perthynas i waith Samson yn lladd mil o'r Philistiaid â gên asyn, mai oddiwrth hyny y cafodd y lle yr enw Lehi, neu Ramath Lehi, sef, *cyfodiad yr ên;* ac nad oedd yr enw hwnw ar y lle o'r blaen, fel y gellid meddwl ar y golwg cyntaf wrth ddarllen *Barn.* 15. 14.

2. Fod lle i farnu fod eisieu diwygiad yn y cyfieithiad Cymraeg o'r rhan gyntaf o'r 19 adnod o *Barn.* xv. 'Ond Duw a holltodd y cilddant oedd yn yr èn, fel y daeth allan ddwfr o hono.' Y mae yn ymddangos, yn ol y cyfieithiad hwn, fod y dwfr wedi tarddu o'r cilddant: ond y mae cryn anhawsder i amgyffred pa fodd y gallai y cilddant barhau i roddi dwfr rai oesoedd wedi hyny, fel y mae y rhan olaf o'r adnod yn dywedyd. Ond y mae sail dda i farnu nad yw y gair Hebraeg *mactes* yn arwyddo 'cilddant,' ond geudwll, neu forter; ac yn lle 'yn yr ên,' y dylid cyfieithu, yn Lehi, fel ar ymyl y ddalen yn rhai Biblau Saesonaeg. Ac yn ol hyny cyfieithid fel hyn, 'Ond Duw a holltodd y twll morter yn Lehi, fel y daeth dwfr allan o hono.' Yr oedd yn beth arferol yn yr oesoedd hyny, ac etto yn ngwledydd y dwyrain, i fwydo ŷd, a'i bwnio i ymadael â'i blisg, mewn geu-dyllau, tebyg i forter, wedi eu cafnu, tebygol, mewn creigiau. Gwel *Parkhurst Lex.* כתש a רפח a *Diar.* 27. 22.

Pan ddywedir i Samson farnu Israel 20 mlynedd, ni ddylem ddeall, tybygid, iddo gyflawni swydd barnwr gwladol, gan nad ydym yn darllen am un weithred a wnaeth, a all ein tueddu i feddwl ei fod yn meddu un math o awdurdod dinesig. Gan hyny, wrth farnu Israel, dylem ddeall, tybygid, mewn perthynas i Samson, ei waith yn cyflawni barn yr Arglwydd ar elynion Israel; a thrwy hyny yn gwaredu Israel mewn rhan; canys dywedir am dano, 'Efe a ddechreu waredu Israel o law y Philistiaid.' *Barn.* 13. 5. Bernir fod 20 mlynedd Samson a 40 mlynedd Eli yn diweddu yn yr un flwyddyn; canys ar ol i Samson ladd ei hun gyd â'r Philistiaid, trwy dynu i lawr deml Dagon, anturiodd Israel i ymladd y frwydr gyntaf yn Ebenezer, pan laddwyd pedair mil o wyr Israel, 1 *Sam.* 4. 1, 2. ac wedi hyny, yr ail, oddeutu yr un fan, pan laddwyd meibion Eli, a deng mil ar hugain o wyr, ac y cymmerwyd yr arch, ac y bu farw Eli wrth glywed y newydd. Y pryd hyn yr anrheithiwyd ac y dinystriwyd Siloh, lle buasai y tabernacl a'r addoliad cyhoeddus hyd yn hyn er amser Josua. Gwel *Ps.* 78. 60. *Jer.* 7. 14. *Bedford's Chron. p.* 526, quoting *Usher's Annals.*

XVII. Ar ol marw Eli cymmerodd Samuel y llywodraeth wladol a'r arch-offeiriadaeth hefyd yn lle Ahiah, gorŵyr Eli, a mab Ahitub, mab

Phinees, gan ei fod dan oed i weini. 1 *Sam.* 14. 3. Nid oedd Samuel o deulu Aaron, ond offeiriad o dylwyth y Cohathiaid. 1 *Cron.* 6. 33—35. Yr oedd yr amgylchiad yn gofyn i ymadael oddiwrth lythyren y gyfraith, hyd oni byddai Ahiah yn 30 mlwydd oed. Os cyrhaeddodd Samuel oed Eli, sef 98 mlwydd, ac os bu farw oddeutu 2 flynedd o flaen Saul, fel y bernir gan yr ysgrifenwyr Iuddewig, yr oedd raid ei fod yn 60 mlwydd oed yn dechreu ar ei lywodraeth. Gan ei fod yn ŵr mor ragorol am ei dduwioldeb, ni fydd yn anfuddiol i roddi cymmaint o hanes a ellir ei gasglu am dano o'r Bibl. Ac yn yr hanes bydd raid crybwyll am rai pethau perthynol i Eli, ei feibion, ac arch Duw, a fu 7 mis yn ngwlad y Philistiaid, ac eneiniad Saul.* Elcanah, tad Samuel, oedd Lefiad o hiliogaeth Corah, mab Isar neu Izhar, mab Cohath, mab Lefi. *Num.* 16. 1. 1 *Cron.* 6. 33—38. Yr oedd Elcanah yn cartrefu yn Ramathaim Sophim, (sef, *dwy uchelfa y gwylwyr)* yn llwyth Ephraim, lle yr oedd dau fryn, tybygid, yn ymyl eu gilydd, wedi eu gwneuthur yn lleoedd cedyrn. Gan mai Ramah yw y rhif unigol o Ramathaim, gellir barnu fod Ramah, preswylfa Samuel, yn un o'r ddwy uchelfa hyny, lle buasai ei dad yn byw o'i flaen. 1 *Sam.* 7. 17. Yr oedd i Elcanah ddwy o wragedd, Hannah a Peninnah; a hyn oedd chwerwder ei fywyd ef a hwythau. Gan fod Hannah yn ammhlantadwy, a hyny yn achlysur i'r llall i'w chythruddo, gweddïodd am fab, yn benaf, fel y byddai yn Nazaread i'r Arglwydd, wedi ei neillduo i wasanaeth y tabernacl yn Siloh. Atebwyd ei gweddi; am amgylchiadau pa un a'i chân o ddiolchgarwch ar ol geni Samuel, adroddir yn 1 *Sam.* i. a 2. 1—11. Os oedd Samuel oddeutu oedran Eli, sef 98 mlwydd, pan fu farw, ac os bu farw 2 flynedd o flaen Saul, fel y bernir, ganwyd ef oddeutu y 4edd flwyddyn o lywodraeth Ibsan, pan oedd Eli oddeutu 38 mlwydd oed. Gwel ail Daflen y 4ydd Dosparth. Pan oedd Samuel o oedran cymhwys i ymadael â'i rïeni, dygodd Hannah ef at Eli i Siloh, i gael ei ddysgu ganddo yn y cyfryw ddysgeidiaeth ag oedd angenrheidiol iddo gael i'w addasu fel Lefiad i wasanaeth yr Arglwydd yn y tabernacl, i fod yno yn sefydlog, yr hyn nid oedd ofynol gan y Lefiaid yn gyffredinol. Yr oedd cynnydd Samuel mewn gwybodaeth, doethineb, a duwioldeb, yn amlwg i bawb, fel yr 'aeth yn dda gan Dduw a dynion hefyd.' Ond yn y cyfamser yr oedd meibion Eli, Hophni a Phinees, yn cynnyddu mewn annuwioldeb, a phob ysgelerder, y rhai a geryddwyd gan eu tad yn esmwythach nag yr oedd yr achos yn gofyn: yr hyn a roddes achlysur i brophwyd gyhoeddi barn yn erbyn Eli a'i dŷ, yr hyn a gyflawnwyd mewn rhan trwy ladd ei feibion pan gymmer-

---

* Y mae *Bedford*, yn y rhan hyny o'i Amseryddiaeth sydd yn perthyn i'r 4ydd Dosparth, yn fynych yn anghyson âg ef ei hun, ac â'r Bibl; gan hyny, nid ellais ei ganlyn mewn amryw bethau.

wyd yr arch, ac wedi hyny pan laddwyd yr offeiriaid yn Nob, gan Saul, ac y diswyddwyd Abiathar gan Solomon. 1 *Sam.* 2. 22—36. a 22. 17—23. 1 *Bren.* 2. 35.

Tua dyddiau diweddaf Eli, pan oedd ei lygaid ef yn dechreu tywyllu, cafodd Samuel ddatguddiad digyfrwng o enau yr Arglwydd o'r farn yr oedd yn bwriadu ei dwyn ar dŷ Eli, yn ol yr hyn a gyhoeddasai o'r blaen. Dywedir fod 'gair yr Arglwydd yn werthfawr yn y dyddiau hyny,' ac nad 'oedd weledigaeth eglur.' Yr oedd llygredigaethau yr offeiriaid a'r cyffredin mor aml, fel nad oedd yr Arglwydd yn codi i fynu brophwydi, ond i gyhoeddi ei farnedigaethau. Yr oedd gair yr Arglwydd yn brin, ac am hyny yn werthfawr; nid oedd un weledigaeth am bethau daionus yn tòri allan i eglurdeb, fel y mae yr Hebraeg yn arwyddo. Pa faint oedd oed Eli a Samuel y pryd hyn, sydd anhawdd i benderfynu. Os caniateir y gallai Eli fod oddeutu 80 mlwydd, byddai Samuel ynghylch 42 mlwydd. Dylid sylwi fod y gair *Heb.* (*naar*) a gyfieithir 'bachgen,' 1 S*am.* 3. 1. yn cael ei briodoli i Josua, *Exod.* 33. 11. pan oedd yn 45 mlwydd oed, ac nid oedd yn anaddas i Samuel, yr hwn nid oedd ond megys llangc, mewn cymhariaeth âg Eli. 1 *Sam.* iii.

Ym mhen oddeutu 18 mlynedd wedi hyny, y cyflawnwyd gair yr Arglwydd yn erbyn Israel a thŷ Eli, a draethasai efe wrth Samuel. Gorchfygwyd Israel mewn dwy frwydr gan y Philistiaid, lladdwyd Hophni a Phinees, cymmerwyd arch Duw, bu farw Eli wrth glywed yr hanes; a gwraig Phinees, pan glybu am yr arch, ei chwegrwn, a'i gwr, a syrthiodd i wewyr esgor, ac a fu farw, ar ol geni mab, yr hwn a alwodd Ichabod, gyda golwg at yr amgylchiadau alaethus a ddaethai ar Israel. Y mae yr enw yn arwyddo, *Pa le y mae y gogoniant?* Y mae arogl peraidd ar goffadwriaeth y wraig hon, a alarodd, fel ei chwegrwn, am aflwyddiant achos Duw mor drwm, fel y bu yn angeu iddi. 1 *Sam.* iv.

XVII. Ond byr fu gorfoledd y Philistiaid am ennill arch Duw; canys ei law fu drom arnynt, ac ar eu duwiau, hyd oni anfonasant yr arch adref.——1. Syrthiodd Dagon i lawr o flaen yr arch ddwy waith. Delw oedd Dagon, ar lun dyn o'i hanner i fynu, ac ar lun cynffon pysgodyn o'i hanner i waered.——2. Bu farw llawer trwy bla dinystriol.——3. Tarawyd hwy â phla y marchogion (*emerods*, neu *hemeroids*) yn eu dirgel-leoedd.——4. Difawyd ffrwyth y maesydd gan lygod, y rhai amlhasant yn ddirfawr. Ym mhen saith mis, danfonwyd yr arch yn ol ar fên newydd, yr hon a dynwyd gan ddwy fuwch flith heb un arweinydd, er fod eu lloi ar ol. Y Philistiaid, wedi eu taraw yn eu cydwybodau, a anfonasant offrymau i Dduw Israel, sef pump o ffolenau aur, ar lun y doluriau yn eu dirgel-leoedd, a phump o lygod aur, sef un dros bob un o arglwyddi y Philistiaid: heblaw hyny, danfonwyd

llygod aur oddiwrth bob dinas a thref trwy yr holl wlad. Dygwyd yr arch ar hyd y ffordd uniawn i Bethsemes, un o ddinasoedd yr offeiriaid yn llwyth Judah, ar derfyn gwlad y Philistiaid. *Jos.* 21. 16. Tröwyd llawenydd-y Besemesiaid, am ddychweliad yr arch, yn alar, trwy y farn drom a syrthiodd arnynt am eu rhyfyg yn agor yr arch i hyll-dremu ar y pethau oedd ynddi; canys daeth pla yn eu mysg, o ba un y bu feirw 'ddengwr a thriugain, a deng mil a deugain.' Y mae amryw esponwyr yn barnu mai 70 oedd y cwbl a laddwyd. Y mae *Bochart* yn cyfieithu fel hyn, 'Tarawodd o'r bobl ddengwr a thriugain, sef deg a deugain o fil o wŷr.' Bernir fod yr holl wŷr yn Bethsemes yn bedwar cant ar ddeg, ac i un am bob ugain gael eu lladd, yr hyn oedd 50 o fil a 70 yn y cwbl. *Bedford's Chron. p.* 527. 1 *Sam.* v, vi. Pan ddychwelodd yr arch, diweddodd 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid. *Barn.* 13. 1. a 15. 20.

XIX. Yn y flwyddyn o oed y byd 2910, 1099 cyn geni Crist, a 397 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, y dechreuodd Samuel lywodraethu ar Israel, ac i weini fel arch-offeiriad yn lle Eli, gan fod Ahiah mab Ahitub mab Phinees dan oed. Yr oedd Samuel y pryd hyn oddeutu 60 mlwydd oed, ac o'r 40 mlynedd a gyfrifir rhyngddo ef a Saul, (*Act.* 13. 20, 21.) rhoddir 21 mlynedd i lywodraeth Samuel. O'r holl amser y bu yr arch yn Ciriath-Jearim, nid yw yr hanesydd ysgrythyrol yn crybwyll ond am yr 20 mlynedd cyntaf; am ddau achos, tybygid, yn gyntaf, am mai hyny oedd parhad y diwygiad a ddechreuodd oddeutu amser dychweliad yr arch, ar ol darfod 40 mlynedd gorthrymder y Philistiaid. Yn yr 20 mlynedd hyn, 'holl dŷ Israel a alarasant ar ol yr Arglwydd.' 1 *Sam.* 7. 2.——Yn ail, am i lywodraeth Samuel ddibenu yn niwedd y blynyddoedd hyny. Ar ol dychweliad yr arch, llwyddodd Samuel, trwy fendith neillduol yr Arglwydd ar ei weinidogaeth, i wneuthur diwygiad crefyddol cyffredinol trwy yr holl wlad. Bwriasant ymaith eu heilunod, a'r Arglwydd yn unig a wasanaethasant. 1 *Sam.* 7. 4. Ac er mwyn eu cadarnhau yn eu bwriadau da, casglodd Samuel yr holl lwythau i Mispah, tybygid, yn llwyth Benjamin, gan fod y lle hwnw yn gyfleus, megys lle canolig i holl Israel. Dangoswyd arwyddion neillduol o edifeirwch ac ymostyngiad yn y gymmanfa hon, tywalltasant ddagrau o edifeirwch am eu pechodau, ac ymprydiasant ger bron yr Arglwydd y diwrnod hwnw. Yr oedd gan Samuel ddiben arall o gasglu y gymmanfa yn Mispah, sef codi byddin lïosog i daflu iau y Philistiaid, a ddygasant 40 mlynedd. Pan glybu y Philistiaid am yr ymgynnulliad i Mispah, casglasant eu byddinoedd ar frys i syrthio ar Israel; ond pan oedd Samuel yn offrymu y poeth-offrwm, taranodd yr Arglwydd â tharanau mawr yn erbyn y Philistiaid, y rhai, gyd â'r mellt yn eu gwynebau, a barodd y fath ddychryn iddynt fel y ffoisant yn ol tu a'u gwlad, ac Israel a aeth allan o Mispah, i erlid ar eu hol, ac a'u tarawsant â

lladdfa fawr, hyd oni ddaethant dan Bethcar. Yma y gosododd Samuel golofn gareg i goffâu y fuddugoliaeth, ac a'i galwodd Ebenezer, sef *maen y cymhorth*, gan ddywedyd, 'Hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyni.' Yr un lle oedd hwn ag yr ymladdwyd y gyntaf o'r ddwy frwydr yn y flwyddyn o'r blaen; ond buddugoliaeth Samuel oedd yr achos o'r enw. Cafodd y Philistiaid y fath ergyd y tro hwn, fel y gorfu iddynt roddi yn ol y dinasoedd a ennillasent oddiar Israel, ac ni ddaethant mwyach o'u gwlad, tra bu Samuel yn llywodraethu, a bu heddwch rhwng Israel a gweddillion yr Amoriaid yn Tyrus a Sidon, a manau ereill yn ngogleddbarth Canaan. 1 *Sam.* 7. 14. Y mae yn gamsyniad mawr mewn amseryddiaeth i roddi y fuddugoliaeth hon yn niwedd llywodraeth Samuel (fel y mae *Bedford* ac ereill), canys felly buasai gorthrymder y Philistiaid yn lle 40 mlynedd, wedi parhau 60 mlynedd. Dywedir fod 'llaw yr Arglwydd yn erbyn y Philistiaid holl ddyddiau Samuel,' sef holl amser ei lywodraeth, ac nid holl ddyddiau ei fywyd. Ni fyddai cysondeb yn y geiriau hyn pe caniateid mai yn y flwyddyn olaf o'i lywodraeth yr ennillodd efe y fuddugoliaeth yn Ebenezer. Ar ol sefydlu y wlad mewn heddwch, aeth Samuel o flwyddyn i flwyddyn yn ei gylch blynyddol i ymweled âg ysgolion meibion y prophwydi, tybygid, ag oedd yn Bethel, Gilgal, a Mispah, ac i farnu achosion gwladol, ac eglwysig; a'i ddychwelfa oedd i Ramah, lle ei enedigaeth, lle yr oedd wedi adeiladu allor i'r Arglwydd, ar ol dinystrio Siloh. 1 *Sam.* 7. 17. Yn Ramah hefyd, tybygid, yr oedd y tabernacl, hyd oni symudodd Saul ef i Nob, yn llwyth Benjamin; ac wedi hyny i Gibeon yn yr un llwyth, lle bu hyd oni adeiladwyd y deml.

XX. Pan oedd Samuel yn agos i 80 mlwydd oed, ac yn analluog i deithio i gyfranu barn, gosododd ei feibion, Joel ac Abïah, yn farnwyr yn Beerseba: ond gan nad oeddynt yn rhodio yn ffyrdd eu tad, ond wedi troi ar ol cybydd-dra, ac yn gwyro barn am wobr, dymunodd llwythau Israel gael brenin i'w barnu, fel y cenedloedd ereill. Yr oedd achos arall o'u dymuniad, sef am fod Nahas brenin meibion Ammon yn parotoi i ryfela yn erbyn gwlad y ddau lwyth a hanner tu hwnt i'r Iorddonen. 1 *Sam.* 12. 12. Adroddir yr amgylchiadau perthynol i urddo Saul yn frenin ar Israel yn 1 *Sam.* viii, ix, x.

PENNOD XIII.

Hanes Teyrnasiad y Brenin Saul.

Yn y flwyddyn o oed y byd 2931, 1078 cyn Crist, a 418 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, y gosodir dechreuad teyrnasiad Saul yn y taflenau perthynol i'r 4ydd Dosparth o'r gwaith hwn. Ac hwyrach fod yn anhawdd ei roddi mewn un flwyddyn arall i fod mewn cysondeb âg amryw

fanau o'r Ysgrythyrau. Gellir casglu oed Saul pan ddechreuodd deyrnasu, o fewn ychydig, wrth ystyried parhad ei deyrnasiad, ac oed ei fab Isboseth pan ddechreuodd ei deyrnasiad yntau. O'r 40 mlynedd a roddir i Samuel a Saul, y mae sail dda i farnu na theyrnasodd Saul ond 19 blynedd, fel y dangoswyd. Yr oedd Isboseth yn 40 mlwydd oed pan laddwyd ei dad a'i frodyr yn Gilboa: (2 *Sam.* 2. 10.) wrth hyny, ymddengys fod Isboseth, neu Esbaal, yn 21 mlwydd oed pan ddechreuodd Saul deyrnasu. Ac os ystyriwn fod gan Saul dri o feibion hynach nag Isboseth, sef Jonathan, Abinadab, a Malcisua, nid ellir barnu fod Jonathan yr hynaf yn llai na 25 mlwydd oed, pan ddechreuodd ei dad deyrnasu, gan ei fod yn flaenor byddin, ac yn meddu y fath wroldeb a chryfder ag i wneuthur gorchestwaith rhagorol yn erbyn y Philistiaid. Ac os bernir fod Saul yn hŷn na'i fab Jonathan o 18 mlynedd, yna oed Saul yn dechreu teyrnasu fyddai 43 blynedd, a'i oed yn marw 62 flynedd. Y mae yn eglur oddiwrth oed Isboseth a Jonathan, nad allai Saul fod fawr lai na 43 blwydd yn dechreu teyrnasu; a phe chwanegid at hyny 38 mlynedd, sef parhad ei deyrnasiad, yn ol *Bedford*, neu 40 mlynedd, yn ol ereill, byddai Saul dros 80 mlwydd yn marw; yr hyn ni chytunai â'i waith yn erlid ar ol Dafydd, yn blaenori byddinoedd, ac yn dioddef y lludded a'r caledfyd perthynol i ryfel yn y flwyddyn olaf o'i fywyd. Heblaw hyny, nid oes air o sôn fod Saul wedi heneiddio pan laddwyd ef, ac nid oes sail i farnu fod ei deyrnasiad mor faith, gan i'r Arglwydd ei rybuddio ddwywaith na safai ei freniniaeth, ac y bwrid ef ymaith o fod yn frenin. 1 *Sam.* 13. 14. a 15. 26. Gwel 2 *Sam.* 2. 10. 1 *Cron.* 8. 33. Ar yr un pryd dylid sylwi fod swm y blynyddoedd, yn y 4ydd Dosparth o'r gwaith hwn, yr un faint ag yn *Bedford*, *Lightfoot*, ac *Usher's Annals*, ac mai yn y cyfraniad o hono yn unig y mae y gwahaniaeth.

II. Y weithred gyntaf o deyrnasiad Saul oedd cynnorthwyo gwyr Jabes Gilead; yr hyn a wnaeth gyd â'r fath gyflymdra, fel y daeth yn annisgwyliadwy ar yr Ammoniaid, fel yr ennillodd fuddugoliaeth fawr arnynt. Y mae *Josephus* yn dywedyd mai ym mhen mis ar ol urddo Saul yn frenin y bu hyn. Rhwymodd y gymmwynas hon wyr Jabes at Saul yn y fath fodd fel nad anghofiasant hi ar ol ei farw. 1 *Sam.* 11. 1—11. a 31. 11—13.

III. Ym mhen blwyddyn ar ol urddo Saul yn Mispah yn llwyth Benjamin, casglodd Samuel benaethiaid y llwythau, a chymmaint o'r bobl ag a allai ddyfod, i Gilgal, i gadw dydd-gwyl ei urddiad, ac i adnewyddu a chadarnhau yr urddiad hwnw, mewn modd mwy arbenig nag oedd amgylchiadau yn caniatau y waith gyntaf, o herwydd ymgyrch Nahas, a diystyrwch rhai o'r bobl tu ag at Saul. Bwriad Samuel, tybygid, oedd urddo Saul y waith gyntaf yn Gilgal, (1 *Sam.* 10. 8.) ond rhyfel Nahas, hwyrach, oedd y rhwystr. Wedi symud y rhwystr, ym-

gasglodd trigolion y ddau lwyth a hanner, ynghyd â'r llwythau ereill, i Gilgal, ac urddwyd Saul yr ail waith yn frenin, trwy gydsyniad cyffredinol. Ar yr un amser, cymmerodd Samuel achlysur i amddiffyn ei enw da, a gablesid, tybygid, gan rai o honynt; ac i dystio ei ddiniweidrwydd, ac anllygredigaeth ei lywodraeth; ac i edliw iddynt eu gwan hyder yn yr Arglwydd, ar ol cynnifer o waredigaethau, yn eu gwaith yn dewis brenin. Ac er i'r Arglwydd ddangos arwyddion o'i anfoddlonrwydd, trwy ddanfon taranau a gwlaw mawr yn amser cynhauaf gwenith, yr hyn oedd anarferol; etto gan fod Samuel yn gweled arwyddion o edifeirwch, efe a'u cysurodd, efe a'u hannogodd i fod yn ffyddlon i'r Arglwydd ac i'w brenin. 1 *Sam.* 11. 14, 15. a xii. Yr oedd Saul wedi teyrnasu un flwyddyn pan fu y gymmanfa hon yn Gilgal; gan hyny, tybygid, y dylasai y geiriau, ' Saul a deyrnasodd un flwyddyn,' 1 *Sam.* 13. 1. ddiweddu y bennod o'r blaen. Gellir casglu mai oddeutu gŵyl y Pentecost, pan oedd cynhauaf y gwenith yn dechreu, (*Exod.* 34. 22.) yr urddwyd Saul y waith gyntaf yn Mispah, ym mhen 21 mlynedd o'r cynhauaf hwnw pan ddychwelwyd yr arch. Pa un a gynnaliwyd gŵyl y Pentecost yn Mispah pan urddwyd Saul y waith gyntaf, ac yn Gilgal ym mhen blwyddyn wedi hyny, nid ellir penderfynu; ond nid yw annhebygol, gan fod y ddwy gymmanfa oddeutu amser yr ŵyl hono. Nid yw yn ymddangos fod un man wedi ei sefydlu i gadw y gwyliau arbenig ar ol dinystrio Siloh, hyd oni adeiladwyd teml Solomon. Yn nechreuad teyrnasiad Saul y gosodwyd y babell a'r addoliad cyhoeddus yn Nob, yn meusydd pentrefol Anathoth, yn llwyth Benjamin, fel y bernir. Gallai Nob fod yn enw arall am Anathoth, yr hon oedd un o ddinasoedd yr offeiriaid yn Benjamin. *Jos.* 21. 18. Ar ol dinystrio Nob, symudwyd y babell i Gibeon, un arall o ddinasoedd yr offeiriaid yn yr un llwyth: 1 *Bren.* 3. 4. ond bu yr arch yn Ciriath-jearim, sef *dinas y coed,* yn llwyth Judah, nes i Dafydd ei symud i'w ddinas ei hun. 2 *Sam.* vi.

IV. Ar ol i Saul orchfygu yr Ammoniaid, gallai y Philistiaid feddwl mai arnynt hwy y disgynai yr ergyd nesaf; gan hyny, i fod ym mlaen llaw âg ef, rhuthrasant i wlad Israel, a chymmerasant Geba, neu Gaba, yn llwyth Benjamin, ac ni adawsant, tybygid, i Saul gadw ond tair mil o filwyr, o ba rai yr oedd dwy fil gyda Saul yn Michmas a mynydd Bethel, a mil gyda Jonathan yn Gibeah. Yr oedd Jonathan yn ofidus o herwydd gorthrymder a darostyngiad ei wlad; gan hyny, ymosododd ar warchawdlu y Philistiaid yn Geba, ac a'i rhoddodd i'r cleddyf. Yn y 3edd flwyddyn o deyrnasiad Saul y bu hyn. Parodd hyn i'r Philistiaid ddyfod yn erbyn Israel gyd â'u holl luoedd, a dygasant y wlad y pryd hyn i'r cyflwr iselaf, tybygid, y bu Israel ynddo, er pan ddaethant o'r Aipht. Diarfogwyd ac anrheithiwyd y wlad, a lladdwyd neu caethgludwyd y gofaint, fel na byddai iddynt wneuthur arfau i'r Israeliaid. Yn yr amgylchiadau cyfyng hyn, casglwyd y bobl, trwy gynghor Samuel, i

gymmanfa grefyddol i Gilgal, i ymofyn â'r Arglwydd, tybygid, a'r bobl yn crynu, ac yn ymadael oddiyno, rhag i'r Philistiaid syrthio arnynt. Gan fod Samuel yn oedi dyfod yn ol ei addewid, anturiodd Saul yn rhyfygus i swydd yr offeiriad, ac offrymodd boeth-offrwm, yr hyn a barodd i'r Arglwydd a Samuel ddigio wrtho, a dywedyd na safai ei freniniaeth. Y mae yn anhawdd barnu mai cymmanfa oedd hon i lunio rhyfel, gan fod y Philistiaid mewn cyflawn feddiant o'r wlad, ac Israel heb arfau, ond cleddyf Saul a'r eiddo ei fab Jonathan. Heblaw hyny, nid oedd gan Saul ond chwe chan ŵr ychydig ar ol y gymmanfa yn Gilgal. Er nad oedd fawr o obaith gan frenin Israel i allu taflu iau y Philistiaid, etto daeth rhyddhâd i Israel ym mhen ychydig wedi hyny mewn ffordd ryfedd ac annisgwyliadwy. 1 *Sam.* xiii.

V. Yn y 4edd flwyddyn o deyrnasiad Saul, pan oedd Ahiah mab Ahitub wedi dyfod i oed i weini fel arch-offeiriad, Jonathan, wedi ymgynghori, tybygid, â'r Arglwydd, (1 *Sam.* 14. 3.) a syrthiodd ar amddiffynfa y Philistiaid, heb fod neb gyd ag ef ond cludydd ei arfau. Ar ol i Jonathan a'i yswain ladd ynghylch ugeinwr o honynt, parodd yr Arglwydd i fraw disymmwth syrthio ar wersyll y Philistiaid, ac ar yr anrheithwyr oedd yn y meusydd, ac i'r ddaear grynu, fel y dychrynodd y Philistiaid yn aruthrol, ac y syrthiasant i'r fath wallgof ag i ladd eu gilydd yn eu ffoedigaeth. Cododd Saul a'r holl wlad i ymlid ar ol y ffoaduriad, y rhai a laddwyd â lladdfa fawr, a'u harfau eu hunain a daflasant wrth ffoi. Ar ol y waredigaeth ryfeddol hon, ni ddaeth y Philistiaid allan o derfynau eu gwlad dros rai blynyddoedd. Am amgylchiadau ereill y fuddugoliaeth wyrthiol hon, gwel 1 *Sam.* 14. 1—46.

Ar ol hyn cadarnhâwyd Saul yn y deyrnas, fel na feiddiodd neb ymosod arno. Buddugoliaethodd dros amryw flynyddoedd ar yr holl wledydd oddi amgylch; ar Moab, Ammon, Edom, breninoedd Sobah yn y gogledd, a'r Philistiaid yn y gorllewin. 1 *Sam.* 14. 17. Gallai Saul dreulio oddeutu 5 mlynedd yn darostwng yr amrywiol genedloedd hyn, yr hyn a'n dwg i ddiwedd y 9fed flwyddyn o'i deyrnasiad. Yn y cyfamser y Reubeniaid, y Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh, a helaethasant eu terfynau tu a'r dwyrain, trwy orchfygu yr Hagareniaid neu yr Ismaeliaid, ac ereill o'r cenedloedd cymmydogaethol, ac a anrheithiasant eu hanifeiliaid, heblaw caethgludo can mil o ddynion. 1 *Cron.* 5. 10, 18—22.

VI. Yn y 10fed flwyddyn o deyrnasiad Saul, tybygid, y gwnaeth ryfel yn erbyn Amalec; ac yn yr 11eg yr eneiniwyd Dafydd, fel y profwyd yn y sylwadau ar yr 2 Daflen o'r 4ydd Dosparth, tu dal. 97 a 103. 1 *Sam.* xv. a 16. 1—13. Yr oedd Dafydd, y pryd hyn, yn 22 flwydd oed, yr ieuengaf o feibion ei dad Jesse, ac yn fugail ei ddefaid. Fel na bu eneiniad Saul ar y cyntaf heb ei briodol effeithiau arno oddiwrth yr Arglwydd i'w addasu i'w swydd freninol, (1 *Sam.* 10. 9.) felly ni bu eneiniad Dafydd, tybygid, heb effeithiau grymus arno yntau, a gwroldeb

mwy nag a brofodd o'r blaen. 1 *Sam.* 17. 34, 35. Oddeutu amser eneiniad Dafydd, collodd Saul ei ddoniau i lywodraethu, ei rinweddau breninol, a'i lwyddiant yn erbyn ei elynion, mewn mesur mawr; yr hyn a barodd iddo fod yn sarug, yn bendrist, ac yn greulawn, hyd ddiwedd ei deyrnasiad. Barnodd rhai o wyr ei lŷs mai da fyddai cerddoriaeth i yru ymaith ei brudd-glwyf; a chyrchwyd Dafydd i ganu telyn.*

VII. Yn yr un flwyddyn, sef yr 11eg i Saul, torodd rhyfel allan rhyngddo â'r Philistiaid. Y pryd hyn, tua diwedd y flwyddyn, fel y bernir, y lladdwyd Goliath gan Dafydd. Yr oedd Goliath, tebygol, wedi tarddu o un o weddillion yr Anaciaid a ffoisent i Gaza, Gath, ac Asdod, yn amser Josua. *Jos.* 11. 22. Ei uchder oedd chwe chufydd a rhychwant, yr hyn, yn ol hanner llath i'r cufydd, a wnai yn agos i ddeg troedfedd; ond os cyfrifir 21 fodfedd i'r cufydd, fel y mae *Bedford*, yr oedd yn fwy nag un droedfedd ar ddeg. A'i arfogaeth oedd gyfatebol. Trwy gyfrif sicl o bres yn hanner *ovns*, yr oedd ei lurig yn 156¼ pwys, a blaen ei waywffon yn 18¾ pwys. Bernir y gallai y rhan arall o arfogaeth gyda hyn, fod yn y cwbl yn 243 pwys.

VIII. Ffodd y Philistiaid pan laddwyd eu rhyswr, a byddin Israel a'u hymlidiodd hyd Gath ac Ecron gyda lladdfa fawr, ac a ddychwelodd i anrheithio eu gwersylloedd. Y mae yn ymddangos yn beth go ryfedd fod Dafydd y pryd hyn yn anadnabyddus i Saul ac Abner, ar ol bod, ychydig o fisoedd o'r blaen, yn y llys yn canu telyn, ac wedi cael ei wneuthur yn gludydd arfau i'r brenin. Ond os ystyriwn holl amgylchiadau yr hanes, ni bydd cymmaint achos i ryfeddu. Nid yw yn ymddangos fod Dafydd wedi bod yn hir yn y llys cyn i'r rhyfel dori allan rhwng Israel a'r Philistiaid, pan ddychwelodd at ei dad Jesse i edrych ar ol y praidd. Gallai Abner fod yn absenol yn parotoi i ryfel pan oedd Dafydd yn y llys, a gallai Saul ei anghofio wedi bod oddi wrtho rai misoedd, yn enwedig os ystyriwn ei wallgof. Gallai gwisg fugeilaidd Dafydd pan laddodd y cawr wneuthur ymddangosiad Dafydd yn ddieithr i Saul. Y mae ereill yn barnu nad oedd Saul wedi anghofio Dafydd, ond pwy oedd ei dad, gan mai ei ofyniad oedd, 'Mab i bwy yw y gwr ieuangc hwn?' Yr oedd wedi addaw rhoddi ei ferch i bwy bynag a laddai Goliath, a gwneuthur tŷ ei dad yn rhydd yn Israel. Ac er y gwyddai, hwyrach, pwy oedd Dafydd, yr oedd arno eisieu gwybod pwy oedd ei dad, er mwyn cwblhau ei addewid. 1 *Sam.* xvii.*

---

* Pan ddywedir (1 *Sam.* 16. 14.) i Yspryd yr Arglwydd gilio oddiwrth Saul, ac i yspryd drwg oddiwrth yr Arglwydd ei flino, deallwn i'r Arglwydd attal oddi wrtho effeithiau a dylanwadau cyffredinol ei Yspryd, a roddasid iddo o'r blaen, a'i roddi i fynu i lywodraeth y diafol, a nwydau afreolus ei galon, y rhai ar amserau oedd yn gweithredu mor gryf arno ag i'w yru i fath o wallgof. Llarieiddiwyd ef ar y cyntaf trwy waith Dafydd yn canu, ond wedi hyny, pan chwanegodd ei anhwyl, yr oedd ei gerddoriaeth yn ddieffaith. 1 *Sam.* 16. 23. a 18. 10, 11.

† Ymddengys fod Dafydd yn 22 flwydd oed yn y flwyddyn yr eneiniwyd ef, ac y

IX. Y pryd hyn y dechreuodd cyfeillach Jonathan a Dafydd. Gan fod cyffelyb anian yn y ddau, o ran gras, gwroldeb, a mawrfrydwch calon, yr oedd yn naturiol iddynt garu eu gilydd; a pharhaodd eu ffyddlondeb y naill tu ag at y llall yn ddiysgog tra bu Jonathan byw, ac estynodd Dafydd ei garedigrwydd tu ag at ei fab Mephiboseth lawer o flynyddoedd ar ol ei farw. Ond pan oedd Dafydd yn myned gyda Saul i gartrefu yn ei lys yn Gibeah, ar ol lladd Goliath, daeth y gwragedd o'r dinasoedd i'w cyfarfod âg offer cerdd, dan ganu caniad o foliant; geiriau cyntaf yr hon, tybygid, oedd 'Lladdodd Saul ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn.' Parodd y blaenoriaeth a roddwyd i Dafydd i feddwl drwg-dybus Saul gynhyrfu gan genfigen ac eiddigedd tu ag ato. Yr oedd yn llawn ofnau ac ammheuon, rhag iddo gael ei ddiorseddu, ac i'r goron gael ei throsglwyddo i Dafydd, (er nas gwyddai etto am ei eneiniad gan Samuel) gan hyny, ceisiodd o hyn allan, trwy bob moddion, dirgel a chyhoedd, i'w roddi i farwolaeth. Er nad oedd ond megys cam rhyngddo a marwolaeth aneirif weithiau dros 8 mlynedd, etto cadwodd rhagluniaeth ddaionus yr Arglwydd ef, mewn modd rhyfeddol, rhag Saul a'r Philistiaid, gwyr Ceilah, a'i wyr ei hun, hyd oni wnawd ef yn frenin ar Israel.——Yn y 12fed flwyddyn i Saul, fel y bernir, rhoddwyd Michal, ail ferch Saul, yn wraig i Dafydd, ar ol cael ei siomi am Merab yr hynaf. Y cytundeb rhwng Saul a Dafydd oedd, i Dafydd ladd cant o'r Philistiaid cyn cael Michal, a dwyn eu blaen-grwyn megys arwydd o gwblhad y gorchwyl. Yr oedd Saul yn gobeithio y buasai y Philistiaid yn lladd Dafydd. Ond yn lle cant, dygodd Dafydd ddau cant o flaen-grwyn y Philistiaid a laddesid ganddo ef a'i wyr, a rhoddwyd y ferch yn wraig iddo megys gwobr am ei waith. 1 *Sam.* xviii.

X. Pan welodd Saul na syrthiasai Dafydd trwy ddwylaw y Philistiaid, rhoddodd orchymyn i Jonathan a'i holl weision i'w ladd, er ei fod y pryd hyny yn ddaw iddo. Pan wybu Dafydd hyn, ffôdd o'r llys: ond ar eiriolaeth Jonathan, a llŵ Saul na roddid ef i farwolaeth, anturiodd i ddychwelyd, a byw yno fel cynt. Yn fuan wedi hyny torodd rhyfel allan yn erbyn y Philistiaid, yr hwn, yn y daflen ragflaenorol, a osodir dan y 12fed flwyddyn i Saul. Bu Dafydd, fel arferol, yn dra llwyddiannus yn eu herbyn, ac a'u gorchfygodd gyda lladdfa fawr. Ond ar ei ddychweliad i'r llys, yr oedd llywodraeth y drwg yspryd wedi cynnyddu ar Saul i'r fath radd, fel y ceisiodd ei ladd â'i waywffon pan oedd yn canu telyn o'i flaen. Ffôdd Dafydd at ei wraig Michal, yr hon, gan ei bod yn gwybod am fwriadau gwaedlyd ei thad, a bod rhai, tybygid, yn gwylio drws y tŷ oddi allan, a'i gollyngodd trwy ffenestr o'r tu cefn, y noson hono. Ac er

---

lladdodd Goliath. Wrth chwanegu 40 mlynedd, sef amser gwrthryfel Absalom, at 22, ni fydd eisieu ond 8 mlynedd i wneuthur 70 mlynedd, sef oed Dafydd yn marw. 2 *Sam.* 5. 4. a 15. 7. Nid eglir cyfrif y 40 mlynedd hyn gyda dim priodoldeb ond o amser eneiniad Dafydd.

mwyn iddo gael amser i ddiangc yn ddigon pell rhag ei oddiweddyd, cymmerodd arni ei fod yn glaf yn ei wely bore dranoeth. Adroddir ei ddichell yn 1 *Sam.* 19. 13—17. Ffôdd Dafydd at Samuel i Ramah, i ymgynghori âg ef yn ei gyfyngder. A mynegwyd i Saul ei fod yn Naioth o fewn Ramah, sef yn y trigfeydd (fel y mae y gair *Heb.* yn arwyddo) o fewn y ddinas hono. Rhyw drigfeydd neillduol a olygir, tybygid, lle yr oedd meibion y prophwydi yn trigo dan olygiad Samuel. Danfonodd Saul genadau dair gwaith i Ramah i ddal Dafydd, ond daliwyd y cenadau, a Saul ei hun wedi hyny, â rhyw effeithiau neillduol oddiwrth Yspryd Duw, fel y prophwydasant gyd â'r prophwydi oedd yno. Tebygol yw, iddynt ymuno â'r prophwydi yn yr addoliad cyhoeddus, i ganu mawl i'r Arglwydd, ac i'w calonau brofi rhyw raddau o dynerwch a gwresogrwydd, fel y cyfaddefasant ger bron pawb nad allent gyflawni eu hamcan o ddal Dafydd, gan awdurdod y gwirioneddau a glywsent ar eu cydwybodau. *Ioan* 7. 45, 46, 47. Mewn perthynas i waith Saul yn prophwydo, yn diosg ei ddillad ger bron Samuel, ac yn syrthio i lawr ddiwrnod a noswaith, y mae yn rhaid barnu fod grym y gwirionedd wedi gafaelu ar ei gydwybod yntau, fel amryw o droiau cyn ac ar ol hyn. 1 *Sam.* 15. 24—30. a 24. 16—19. Pan ddaeth Saul i ŵydd Samuel, nid yw yn annhebygol iddo gael y cyfryw gerydd a haeddodd ei ymddygiad tu ag at Dafydd, ac i Saul, fel arferol, gyfaddef ei bechodau, ac addaw diwygio, gyd âg arwyddion neillduol o ymostyngiad ac edifeirwch. Diosgodd ei wisg freninol, ymgrymodd ac ymbiliodd ger bron Samuel am adferiad o'i gyfeillach a'r parch a'r anrhydedd a gawsai gynt; ac hwyrach iddo eiriol â'r Arglwydd drosto. Y mae y gair *Heb.* a gyfieithir 'prophwydodd,' yn arwyddo nid yn unig i ragddywedyd pethau i ddyfod, ond i draethu geiriau mewn modd difrifol a neillduol, yn enwedigol mewn addoliad cyhoeddus. Tebygol fod cyffes Saul a'i genadau yn cael ei alw yn brophwydo. Gwel *Parkhurst Heb. Lex.* נבא 1 *Sam.* 19.

XI. Y mae lle i farnu fod Saul wedi gwneuthur rhyw addewidion wrth Samuel a Dafydd yn Naioth yn Ramah, a'i fod yn disgwyl am ddychweliad Dafydd i gymmeryd ei le yn y llys fel o'r blaen. Ond yr oedd Dafydd am gael gwybod yn gyntaf gan ei gyfaill Jonathan a oedd arwyddion fod edifeirwch Saul yn ddiffuant, a bod diogelwch iddo am ei fywyd os dychwelai. A phan glybu fod Saul yn sychedu am ei waed gymmaint ag erioed, penderfynodd i ffoi am ei einioes, yn ol cynghor Jonathan, oddeutu diwedd y 13eg flwyddyn i Saul.* 1 *Sam.* 20.

Ffôdd yn gyntaf i Nob yn llwyth Benjamin, at Ahimelech yr arch-

---

* Y mae yn rhaid cyfaddef fod yn ammhosibl i fod yn sicr o'r holl amserau yn nheyrnasiad Saul. Ond y mae yn eglur nad yw y cyfrifiad o honynt a roddir yn y Daflen flaenorol ym mhell oddiwrth y gwirionedd.

offeiriad, yr hwn oedd yn gweini yno ar ol marw ei frawd Ahiah mab Ahitub. Mab Abimelech oedd Abiathar a ddiangodd at Dafydd wedi hyn, pan laddwyd ei dad ac offeiriaid Nob am ddangos caredigrwydd i Dafydd yn ei ffoedigaeth. Y mae yr Iuddewon wedi cymmeryd achlysur i gablu geiriau Crist yn *Marc* 2. 25, 36. fel pe buasai wedi dywedyd yn anghywir, trwy briodoli i Abiathar yr hyn a ddigwyddodd yn amser ei dad Ahimelech. Ond y mae yn ddigon o ateb fob Abiathar y pryd hyny mewn oed i offeiriadu, a'i fod yn gynnorthwyol i'w dad yn ei swydd, fel meibion Eli iddo yntau. O Nob, ffôdd Dafydd o derfynau Saul at Achis brenin Gath, lle bu mewn perygl o gael ei ladd; cymmerodd arno ynfydu, yr hyn a barodd i Achis farnu na wnai niwed mwyach i'r Philistiaid, ac a'i gollyngodd ymaith gyda gwawd a dystyrwch. 1 *Sam.* xxi.

XII. Yn y 14eg flwyddyn i Saul, genir Mephiboseth mab Jonathan, 5 mlynedd o flaen y frwydr yn Gilboa. 2 *Sam.* 4. 4. O Gath aeth Dafydd a'i wŷr i ogof Adùlam yn llwyth Judah, lle yr aeth ei frodyr a thŷ ei dad, ac ereill ato, hyd oni wnawd rhifedi ei wŷr yn 400. Ond er mwyn ychwaneg o ddiogelwch, symudodd Dafydd ei dad a'i fam i wlad Moab, ac a'u rhoddodd dan nodded brenin y wlad, yr hwn oedd barotach i wneuthur cymmwynas i Dafydd, gan ei fod yn ymddangos fel pe buasai wedi syrthio allan â Saul.* Dychwelodd Dafydd a'i wŷr i wlad Judah, trwy gynghor Gad y prophwyd: a phan wybu Saul trwy gyhuddiad Doeg am garedigrwydd Ahimelech i Dafydd, cyrchwyd ef a'r offeiriaid yn Nob, yn 85 o nifer, o flaen y brenin, y rhai a laddwyd gan Doeg, a llwyr-ddinystriwyd Nob, a'i holl drigolion o bob oedran, heb arbed hyd yn nod yr anifeiliaid. Y pryd hyn y lladdwyd y Gibeoniaid oedd yn gweini i'r tabernacl yn Nob, fel y bernir; a dialwyd ar dŷ Saul am y weithred waedlyd yn niwedd teyrnasiad Dafydd. 2 *Sam.* 21. 1—6. Ond diangodd Abiathar gyd â'r ephod at Dafydd. 1 *Sam.* xxii.

XIII. Yn y 15fed flwyddyn i Saùl, fel y bernir, pan oedd y Philistiaid wedi ymosod ar Ceilah yn llwyth Judah, ac yn anrheithio y wlad, syrthiodd Dafydd a'i wŷr arnynt, trwy gynghor yr Arglwydd, a gwaredodd Ceilah. Pan glybu fod Saul yn amcanu ei ddal ef yma, ciliodd i anialwch Ziph yn llwyth Judah, lle yr aeth Jonathan ato i'w gysuro, a'i gadarnhau yn ffyrdd yr Arglwydd. Pan ddaeth Saul, ar annogaeth y Ziphiaid, i chwilio am Dafydd, ciliodd i anialwch Maon, lle buasai Saul yn ei amgylchu a'i ddal, oni buasai i genad hysbysu iddo fod y Philistiaid wedi rhuthro i'r wlad. 1 *Sam.* xxiii.

---

* Diben Dafydd yn symud ei rïeni y pryd hyn i wlad Moab, heblaw ei ofnau rhag Saul, oedd ei ofnau rhag y Philistiaid, y rhai a wersyllasant yn Bethlehem ychydig ar ol i Dafydd ddyfod i ogof Adùlam, pan ruthrodd tri o'i gedyrn i dynu dwfr o ffynon Bethlehem. 1 *Cron.* 11. 16—19.

XIV. Yn yr 16eg flwyddyn i Saul, ar ol iddo gael hamdden oddiwrth y rhyfel yn erbyn y Philistiaid, daeth i chwilio am Dafydd yn anialwch Engedi yn llwyth Judah, wrth y Môr Marw. Yma yr oedd ogof ddigon ëang i gynnwys Dafydd a'i wŷr, yn nghilfachau yr hon yr oeddynt yn llechu yn ddiarwybod i Saul, pan drodd i mewn i wasanaethu ei gorph, ac i gysgu yn ngwres y dydd. Yr oedd rhai o wŷr Dafydd am ladd Saul, ond ni wnaeth Dafydd ond tori cwr ei fantell. Pan gyfoddodd Saul i fyned ymaith, gwaeddodd Dafydd ar ei ol, ac ymresymodd mor effeithiol âg ef ynghylch ei ddiniweidrwydd, fel y toddodd calon haiarnaidd Saul, ac yr addefodd anghyfiawnder ei ymddygiad tu ag at Dafydd; yr hwn, er ei fod y pryd hyn, tybygid, yn ei law, a achubwyd trwy fod gelyniaeth Saul yn cael ei orchfygu gan rym argyhoeddiad ei gydwybod, fel y dychwelodd adref gan addunedu gadael llonydd i Dafydd rhagllaw. 1 *Sam.* xxiv.

XV. Yn y flwyddyn gynlynol, fel y bernir, y bu farw Samuel, ac a gladdwyd yn Ramah, oddeutu dwy flynedd o flaen marwolaeth Saul. *Bedford, p.* 540. Gan fod Dafydd yn barnu yr ail ennynai gelyniaeth Saul yn ei erbyn ar ol symud Samuel, aeth i anialwch Paran yn y cwr mwyaf deheuol o'r wlad. Yma yr oedd Nabal yn byw. Adroddir yr amgylchiadau perthynol iddo, ac am briodas Dafydd âg Abigail, ac wedi hyny âg Ahinoam o Jezreel, ar ol clywed fod Michal wedi cael ei rhoddi i Phalti, yn 1 *Sam.* xxv.

XVI. Gan fod Dafydd yn ol ei amgylchiadau dan angenrheidrwydd o newid ei sefyllfa yn aml, daeth drachefn i wlad y Ziphiaid, gan y rhai, am na roddent o'u bodd, yr oedd, tybygid, yn cymmeryd o'u hanfodd yr hyn oedd eisieu arno ef a'i wyr. Parodd hyn iddynt achwyn wrth Saul, yr hwn a ddaeth i chwilio am dano. Y tro hwn yr anturiodd Dafydd gyda dau o'i wyr i wersyll Saul yn y nos; a phan oedd pawb yn eu trwmgwsg cymmerodd ymaith y waywffon a'r llestr dwfr oedd wrth obenydd Saul. Pan aeth Dafydd i ben rhyw fynydd oedd oddiar y gwersyll, gwaeddodd ar Abner fel y dihunodd. Y pryd hyn drachefn y cafodd ei arbediad gan Dafydd y fath effaith ar Saul fel nad allai lai na chyfaddef ei bechod yn ërlid ar ol Dafydd; gan hyny, ar ol ei fendithio, a rhagfynegu ei lwyddiant, dychwelodd i Gibeah: ac ni chafodd gyfleusdra ar ol hyn i fyned mwyach ar ol Dafydd. 1 *Sam.* xxvi.

XVII. Yn y 18fed flwyddyn i Saul, pan ddeallodd Dafydd nad oedd diogelwch iddo yn un cwr o wlad Israel, am ei fod wedi cael digon o brawf nad allai ymddiried yn addewidion Saul, cytunodd âg Achis brenin Gath ar ammodau i gael aros gyd â'i wyr yn ngwlad y Philistiaid. Rhoddodd Achis Siclag i Dafydd a'i wyr i gyfanneddu ynddi, (yr hon yn nghyfraniad y wlad, a roddasid i Judah, ond oedd y pryd hyn ym meddiant y Philistiaid) gan dybied nad oedd achos i ammeu ei ffyddlondeb iddo ei hun, a'i elyniaeth i Saul. Oddi yma y gwnaeth

fynych ruthriadau ar yr Amaleciaid a chenedloedd cymmydogaethol ereill oedd yn cyfanneddu yn y wlad rhwng deheubarth llwyth Judah a'r Aipht, ac a laddodd y trigolion mor llwyr yn y manau lle y deuai fel nas gadewid neb i achwyn chwedlau i Achis. Yr oedd y cenedloedd hyn yn gwbl haeddiannol o'r driniaeth a gawsant, gan mai lladron yn byw ar yspail oeddynt, bob cyfleusdra a gaent; ond pan ofynai Achis i Dafydd, o dro i dro, yn erbyn pwy y buasai yn cyrchu, atebai yn ochelgar yn y fath fodd ag i beri iddo gredu mai yn erbyn deheubarth llwyth Judah y cyrchasai; etto yn ei ddull o ateb, ni wyrodd oddiwrth y gwirionedd. Bu Dafydd flwyddyn a 4 mis yn ngwlad y Philistiaid, sef hyd ddiwedd teyrnasiad Saul. 1 *Sam.* xxvii.

XVIII. Yn y 19eg flwyddyn, a'r olaf o deyrnasiad Saul, casglodd y Philistiaid eu lluoedd i ymladd brwydr benderfynol âg ef. Yr oedd Saul wedi bod mewn rhyfel â hwynt er ys 8 mlynedd; ac o'r braidd yr oedd yn gallu amddiffyn ei derfynau oddiwrth eu mynych ruthrau. A chan ei fod wedi colli ei barch a'i awdurdod i gryn radd ym mhlith ei ddeiliaid, trwy ei ymddygiad creulawn ac annaturiol tu ag at Dafydd, meddyliodd y Philistiaid fod amgylchiadau pethau y pryd hyn o'u hochr i wneuthur rhyfel llwyddiannus yn ei erbyn, a darostwng yr holl wlad dan eu llywodraeth. Gan hyny treiddiasant i berfedd y wlad ym mhell oddiwrth eu terfynau, ac a wersyllasant yn gyntaf gerllaw Sunem yn llwyth Issachar, ac wedi hyny yn Aphec, tybygid, yn yr un llwyth; a Saul a wersyllodd yn Gilboa. Yr oedd Dafydd a'i wŷr gyd âg Achis; ond trefnodd rhagluniaeth ddaionus yr Arglwydd iddynt gael eu hanfon yn ol, fel na bu raid iddo wneuthur dewisiad o dri pheth, sef, ymladd yn erbyn Israel, neu yn erbyn Achis, neu ffoi o'r frwydr. A diammeu fod yn gyfyng arno pa un i ddewis. Ond trwy eiddigedd tywysogion y Philistiaid, gwaredwyd ef o'r cyfyngder hwn. Gan fod Saul wedi sylwi ar luosogrwydd byddin y Philistiaid, ofnodd yn ddirfawr am ganlyniad y frwydr; a chan nad oedd yr Arglwydd yn ei ateb trwy un o'r moddion cyffredin, aeth at y ddewines yn Endor yn llwyth Issachar, yr hon, trwy ei chelfyddyd uffernol, a gododd Samuel ei hunan, yn ol barn rhai, neu y cythraul yn rhith Samuel, yn ol barn ereill, yr hyn sydd debycaf. O blaid y dyb gyntaf yr oedd rhai o dadau y brif eglwys, y rhai a ddilynwyd gan amryw ysgrifenwyr enwog yr oesoedd diweddar a phresennol; o blaid yr olaf, ym mhlith tadau yr eglwys yr oedd Jeromẽ, Tertulian, ac Awstin o Hippo, ynghyd âg amryw esponwyr a'u dilynasant yn yr eglwysi Cristionogol, mewn llawer o wledydd. Gwel *Thilon. Medulla* ar 1 *Sam.* 28. 13, 14. Tranoeth wedi bod gyd â'r ddewines, ymladdwyd y frwydr olaf rhwng Saul a'r Philistiaid, yr hon, tybygid, a ddechreuwyd yn Jezreel lle yr oedd gwastadedd ëang. Ffôdd Israel o flaen eu gelynion, hyd oni ddaethant i fynydd Gilboa, yn Issachar, lle meddyliasant sefyll i adferu y frwydr; ond ni thyciodd iddynt, canys

heblaw lladdfa fawr o wyr Israel, lladdwyd Jonathan, Abinadab, a Malcisua, meibion Saul; ac yntau ei hun, wedi ei glwyfo yn drwm gan y saethyddion, a geisiodd gan ei yswain ei ladd, ac am na wnai, amcanodd ladd ei hun trwy syrthio ar ei gleddyf, ond ni allodd gwblhau ei fwriad yn hollol, gan fod modrwyau ei lurig, fel y bernir, yn rhy fychain i'r cleddyf fyned trwyddynt yn ddigon pell i'w ladd: gan hyny, galwodd ar un o'i filwyr, yr hwn a ddigwyddodd fod yn Amaleciad, ac a ddeisyfodd arno i sefyll arno a'i ladd, yr hyn hefyd a wnaeth yn ewyllysgar (os meddyliodd am yr holl ddrwg a wnaethai Saul i'w genedl) ac a ddygodd ei goron a'i freichledau at Dafydd i Siclag. Pan welodd yswain Saul, yr hwn, medd yr Iuddewon, oedd Doeg, fod ei feistr wedi marw, yntau a syrthiodd ar ei gleddyf, a bu farw. Felly daeth barn drom a chyfiawn ar y lleiddiaid hyn. Ar yr un pryd nid ellir lai na gresynu fod un ag oedd wedi dechreu ei deyrnasiad gyd â'r fath arwyddion gobeithiol ag oedd Saul, wedi addfedu trwy falchder a chalon-galedwch i'r fath ddiwedd arswydus. Ond er fod gwell sail i alaru am farwolaeth Jonathan, cyfaill ffyddlawn a charedig Dafydd, a'r milwr dewr a duwiol; etto mae lle i ammeu a fuasai yn gallu cwblhau ei addewidion a'i addunedau i Dafydd, sef boddloni i fod yn ail yn y deyrnas pe buasai fyw ar ol ei dad, gan nad yw dyn ond dyn os gadewir ef iddo ei hun. Trwy farwolaeth Jonathan, symudwyd pob achlysur o anghydfod rhwng y cyfeillion hoff ac anwyl hyn.

XIX. Ond i ddychwelyd at Dafydd, pan ddaeth yn ol gyd â'i chwe chan ŵr o fyddin y Philistiaid, cawsant Siclag wedi ei hanrheithio a'i llosgi, a'r holl wragedd a'r plant wedi eu caethgludo; yr hyn a barodd iddynt wylo hyd nad oedd ynddynt nerth i wylo. Hon, hwyrach, oedd y brofedigaeth lemaf a ddaeth i gyfarfod Dafydd yn ei oes; canys heblaw ei golled fel ereill yn gyffredinol, yr oedd ei filwyr wedi chwerwi wrtho, a meddwl ei labyddio, am na fuasai, tybygid, yn aros yn Siclag yn lle myned gyd âg Achis. Yn yr amgylchiadau cyfyng hyn yr oedd angen neillduol arno am gynnorthwyon oddi uchod, a chafodd hwynt i'r fath radd fel y galluogwyd ef i ymgysuro yn ei Dduw. *Rhuf.* 5. 3. Erlidiasant ar ol yr Amaleciaid a anrheithiasant Siclag, ac a'u lladdasant oll ond 400; cawsant eu gwragedd a'u plant a holl anrhaith Siclag a manau ereill; a danfonodd Dafydd roddion i henuriaid Judah, ac i'w gyfeillion mewn amryw fanau a ddangosasent garedigrwydd iddo yn ei adfyd. Ym mhen deuddydd ar ol dychweliad Dafydd i Siclag, y daeth yr Amaleciad a'r hanes cyntaf, tybygid, at Dafydd o farwolaeth Saul, gyd a'i goron yn ei law. Rhoddwyd ef i farwolaeth yn ol ei haeddiant, nid yn unig am ladd Saul, ond am ei fod o'r genedl oedd wedi ei diofrydu i ddinystr, ac oddiwrth ba un y cawsai Dafydd y gofidiau mwyaf chwerw. 1 *Sam.* xxviii—xxxi. 2 *Sam.* i.

PENNOD XIV.

Hanes Teyrnasiad Dafydd.

Yn y flwyddyn o oed y byd 2950, 1059 cyn geni Crist, a 437 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, yr aeth Dafydd i Hebron trwy gynghor yr Arglwydd, lle yr eneiniwyd ef yn frenin ar lwyth Judah; ac Abner, tywysog milwriaeth Saul, a wnaeth Isboseth yn frenin ar y rhan arall o'r llwythau. Eisteddle ei freniniaeth oedd Mahanaim, yn llwyth Gad, y tu hwnt i'r Iorddonen. Ar ol i Isboseth deyrnasu 2 flynedd, torodd rhyfel allan rhyngddo a Dafydd, yr hwn a barhaodd dros 5 mlynedd, hyd oni laddwyd Isboseth gan ei weision Rechab a Baanah, pan oedd yn cysgu ar ei wely. Dywedir (2 *Sam.* 3. 1.) fod rhyfel hir rhwng tŷ Saul a thŷ Dafydd; ond nid oes hanes ond am y frwydr gyntaf yn Gibeon yn llwyth Benjamin, pan gyd-syrthiodd 24, sef 12 o bob tu, yn Helcath Hassurim, neu *rhandir y cedyrn.* Nid yw yn annhebygol i'r ddwy blaid gytuno er mwyn attal tywallt llawer o waed, i 12 o bob tu ymladd, a phenderfynu y ddadl, ac i ochr y buddugoliaethwyr gael meddiant o'r rhan hyny o'r wlad. Ond gan iddynt gyd-syrthio, yr oedd raid i'r ddwy fyddin ymladd cyn penderfynu y ddadl, a'r canlyniad a fu i Joab a gweision Dafydd ennill buddugoliaeth drwyadl ar Abner a gwŷr Isboseth. Yn y 'rhyfel hir' a fu rhwng y ddwy blaid, gellir casglu fod Isboseth yn cael y gwaethaf o hyd, gan fod 'tŷ Dafydd yn myned gryfach gryfach,' a 'thŷ Saul yn wanach wanach.' Bu drwg lywodraeth, llyfrdra, ac annoethineb Isboseth yn foddion iddo golli serchiadau ei ddeiliaid; a pheth oedd fwy, i beri i Abner ymadael ag ef, ac ochri gyda Dafydd, a bod yn offeryn i ddwyn holl Israel dan ei lywodraeth. Yn fuan wedi hyny, lladdwyd Abner yn fradychus gan Joab tywysog milwriaeth Dafydd, i ddial gwaed Asahel ei frawd. Adroddir y pethau hyn a'r amgylchiadau perthynol iddynt yn 2 *Sam.* ii, iii, iv. Yn union ar ol marwolaeth Isboseth, eneiniwyd Dafydd yn Hebron yn frenin ar holl lwythau Israel. Yr oedd yn 30 mlwydd oed pan ddechreuodd deyrnasu, a 7 mlynedd a 6 mis y teyrnasodd yn Hebron ar lwyth Judah, a 33 blynedd y teyrnasodd ar holl Israel a Judah yn Jerusalem. 2 *Sam.* 5. 1—5. Ond gan nad yw yr hanes ysgrythyrol yn y cyffredin yn son am ranau blynyddoedd, dywedir mai 40 mlynedd oedd amser teyrnasiad Dafydd yn y cwbl. 1 *Bren.* 2. 11. Yn ol yr un rheol, tybygid, os byddai ychydig yn fyr neu dros ben y flwyddyn olaf o lywodraeth y barnwyr neu freninoedd Israel a Judah, cyfrifwyd hi yn flwyddyn gyfan yn yr amgylchiad cyntaf, ac nid dim mwy na blwyddyn yn yr olaf. Trwy y dull hwn o gyfrif y mae y gor-

modedd yn y naill yn cyflawni y diffyg yn y llall, fel y mae swm y blynyddoedd mewn unrhyw Ddosparth o amser mor agos at y gwirionedd ag a ellir ei wneuthur.

II. Yn y flwyddyn o oed y byd 2957, 1052 cyn geni Crist, a 444 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, yr hon oedd yr 8fed flwyddyn i Dafydd, yr ennillodd efe dŵr y Jebusiaid neu amddiffynfa Sion yn Jerusalem, a fuasai yn eu meddiant er dyfodiad Israel i Ganaan. Cadarnhaodd ac helaethodd yr amddiffynfa hon, a galwodd hi ar ei enw ei hun, dinas Dafydd: ac yma bu eisteddle ei freniniaeth am weddill ei oes. Yr oedd y lle mor gadarn fel y meddyliodd y Jebusiaid nad allai Dafydd ei gymmeryd; dirmygasant ei ymgais, gan ddywedyd na ddeuai i mewn atynt pe na byddai ganddynt ond 'cloffion a deillion' i amddiffyn y muriau. Trodd Dafydd eu geiriau arnynt mewn ystyr ysprydol, tybygid, gan eu cyfrif yn gloffion heb fedru rhodio yn ffyrdd yr Arglwydd, a deillion heb weled eu trueni, a gogoniant pethau ysprydol; am hyny yr oeddynt yn gas ganddo. Ac o herwydd hyny, dywedodd Dafydd y pryd hwnw, 'Y dall a'r cloff ni ddaw i mewn i'r tŷ,' gyda golygiad at y gyfraith yn *Lef.* 22. 22. a *Deut.* 15. 21. ac at ei fwriad, tebygol, o adeiladu tŷ iddo ei hun yn Sion, a thabernacl i wasanaeth yr Arglwydd, yr hyn, wedi hyny, a gyflawnodd: fel pe buasai yn dywedyd, Mynaf droi y Jebusiaid, sef y cloff a'r dall, o'r fan yr wyf yn bwriadu gwneuthur yn dŷ i'r Arglwydd, ac ni chant hwy na'u cyffelyb ddyfod yno. A'r gair hwn, o eiddo Dafydd, a aeth megys diareb yn Israel. 2 *Sam.* 5. 6—9.

III. Oddeutu y 9fed flwyddyn i Dafydd, gwnawd Abibalus yn frenin cyntaf y Tyriaid, yr hwn a elwir Hiram (2 *Sam.* 5. 11.). Y mae ei enw yn arwyddo, Bydded fyw yr hwn a ddyrchafwyd. Teyrnasodd mab iddo o'r un enw yn Tyrus yn amser Solomon. 2 *Cron.* 2. 11, 12, 13. *Bedford.*

Pan glybu y Philistiaid eneinio Dafydd yn frenin ar Israel, ofnasant ei gadernid; gan hyny, i fod ym mlaen llaw âg ef, rhuthrasant i lwyth Judah, cyn belled a dyffryn Rephaim, neu y Cawri (*Jos.* 15. 8.) o du y gorllewin i Jerusalem. Pan oeddent wedi ymdaenu i anrheithio y wlad, ymosododd Dafydd arnynt trwy gynghor yr Arglwydd, ac ennillodd fuddugoliaeth hawdd arnynt, a galwyd y lle Baal Perasim, sef Awdwr y Gwahaniadau, am i'r Arglwydd wahanu a dryllio ei elynion o'i flaen, y rhai a ddaethent fel dyfroedd cryfion yn ei erbyn.——Yn y flwyddyn yr ymladdwyd y frwydr hon, fel y bernir, danfonodd Hiram goed cedr, a seiri, i adeiladu tŷ i Dafydd yn amddiffynfa Sion. 2 *Sam.* 5. 11.

Gorchfygodd Dafydd y Philistiaïd eilwaith y flwyddyn ganlynol yn nyffryn Rephaim, ac ymlidiodd hwynt o Gibeah yn Benjamin hyd Gazer, ar derfynau eu gwlad eu hunain; ac ni chafodd ei aflonyddu ganddynt am ddwy flynedd. 2 *Sam.* 5. 22—25.

IV. Yn yr 11eg flwyddyn i Dafydd, fel y bernir, defnyddiodd yr yspaid heddwch a roddasai yr Arglwydd iddo, i gyrchu yr arch o Ciriath-jearim, neu *ddinas y coed,* yn llwyth Judah, a fuasai yn un o ddinasoedd y Gibeoniaid. *Jos.* 9. 17. a 18. 14. Buasai yr arch yno ar ol dychwelyd o wlad y Philistiaid 20 mlynedd yn amser Samuel, a 30 mlynedd wedi hyny, sef 50 mlynedd yn y cwbl. Gelwir y ddinas hon Baale-Judah. Yr oedd yr arch yma yn nhŷ Abinaḍab yn y bryn, neu Gibeah. Gwel 1 *Sam.* 7. 1. Ystyr Gibeah yw *bryn.* Ar yr achos arbenig hwn, casglodd Dafydd ddeng mil ar hugain o'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a phenaethiaid y llwythau. Gosodwyd yr arch ar fèn newydd, yr hon a yrwyd gan Uzzah ac Ahïo, meibion Abinadab. A Dafydd a'r holl gynnulleidfa oedd yn llawenhau ger bron yr Arglwydd gyda phob rhyw offer cerdd, ac yn canu Psalmau priodol ar yr achos, ac y'mhlith ereill, yr lxviii, a'r cxxxii, fel y bernir. *Bedford.* Pan ddaethant at ryw lawr dyrnu agored yn y maes, yr ychain a dramgwyddasant, a'r arch a ysgydwyd, a phan estynodd Uzzah ei law mewn modd anystyriol a rhyfygus at yr arch, tarawodd yr Arglwydd ef yn farw yn y fan; am hyny galwyd y lle, Llawr dyrnu Nachon, sef *taraviad,* a Peres Uzzah, neu *rhwygiad Uzzah.* Ond yn 1 *Cron.* 13. 9. gelwir y lle hwn, Llawr dyrnu Cidon, sef *dinystr.* O herwydd yr ymweliad galarus hwn, ofnodd Dafydd ddwyn yr arch i'w ddinas ei hun y pryd hyn, a chan fod tŷ rhyw offeiriad a alwyd Obed-Edom gerllaw, dodwyd hi yno, lle bu, er mawr lwyddiant iddo ef a'i deulu mewn pethau tymhorol ac ysprydol, dros dri mis; a'r holl gynnulleidfa a ollyngwyd i'w cartrefi. Deallodd Dafydd nad oedd yr arch wedi cael ei dwyn o'r blaen yn ol y drefn a orchymynasai yr Arglwydd trwy Moses (1 *Cron.* 15. 13. *Exod.* 25. 14, 15. *Num.* 4. 5—15.) gan hyny, wedi casglu y gynnulleidfa ynghyd ym mhen tri mis, dygwyd yr arch ar ysgwyddau y Cohathiaid i'r babell a barotoisai Dafydd iddi yn ei ddinas ei hun, gyd â'r cyffelyb orfoledd ag y cychwynasid hi o Ciriath-jearim. Yr oedd Dafydd wedi ei wisgo âg ephod lïan ar yr achos, a chan fod ei enaid yn llawn gorfoledd ysprydol, dangosodd arwyddion neillduol o lawenydd, trwy neidio a llemain o flaen arch yr Arglwydd. Gwelodd Michal merch Saul ef trwy ffenestr, ac a'i dirmygodd yn ei chalon, ac wedi hyny mewn geiriau. Am hyn y ceryddwyd hi â dieppiledd. 2 *Sam.* vi. 1 *Cron.* xiii, xv. Sefydlodd Dafydd addoliad cyhoeddus yn y babell a wnaethai, a phoeth-offrymau fore a hwyr, yn ol cyfraith Moses. 1 *Cron.* 16. 1, 40. Yn y cyfamser, yr oedd y babell a wnelsai Moses yn Gibeon, yn llwyth Benjamin, er pan ddinystriasid Nob gan Saul. 2 *Cron.* 1. 3.

V. Yn y 12fed flwyddyn i Dafydd, bwriadodd gyfodi teml i'r Arglwydd, ond hysbyswyd iddo trwy Nathan y prophwyd, er fod ei fwriad yn gymmeradwy gan yr Arglwydd, mai mab a enid iddo a'i cyflawnai. 2 *Sam.* vii. 1 *Cron.* xvii. Yn yr un flwyddyn gorchfygodd y Philist-

iaid, ac a gymmerodd Gath a'i phentrefydd (1 *Cron.* 18. 1.) yr hon a elwir Metheg Ammah, neu *ffrwyn Ammah* (2 *Sam.* 8. 1.) am fod Gath wedi ei hadeiladu ar fynydd a alwyd Ammah, ac wedi bod megys ffrwyn i attal rhuthriadau Israel dros lawer o oesoedd.

VI. Yn y flwyddyn ganlynol, darostyngodd Dafydd y Moabiaid, (2 *Sam.* 8. 2. 1 *Cron.* 18. 2.) ac yn ei 14eg flwyddyn, buddugoliaethodd ar Hadadeser, neu Hadareser, brenin Sobah (sef rhan o Syria, i'r gogledd-ddwyrain o Damascus) ynghyd â'i gynghreiriaid y Syriaid o Damascus, gyda lladdfa fawr. Yr oedd Dafydd y pryd hyn am helaethu ei derfynau at yr afon fawr Euphrates, yn ol addewid yr Arglwydd i Abraham. *Gen.* 15. 18. A bu yr holl wledydd o afon yr Aipht hyd Euphrates, dan ei lywodraeth ef, a Solomon ar ei ol; ond collwyd hwynt, gan mwyaf, yn amser Rehoboam mab Solomon. 2 *Sam.* 8. 3—12. 1 *Cron.* 18. 3—8. Y pryd hyn yr aeth Rezon, mab Eliadah, un o gadpeniaid Hadadeser, yn dywysog ar fyddin, gan adael ei arglwydd yn ei aflwyddiant. Bu fyw, tybygid, ar anrhaith, yn ol dull yr Arabiaid, tra parhaodd gweddill teyrnasiad Dafydd, a'r rhan fwyaf o deyrnasiad Solomon; ond pan oedd Solomon yn ei henaint, trwy ymddyrysu â gwragedd dieithr, yn esgeuluso gorchwylion ei deyrnas, cymmerodd Rezon y cyfleusdra i draws-feddiannu Damascus. Hyn oedd dechreuad y deyrnas hòno yn Syria, a barhaodd hyd y 4edd flwyddyn i Ahaz, brenin Judah (oddeutu 252 mlynedd, os cyfrifir o'r 30 flwyddyn i Solomon) ac a fu yn fflangell drom i ddau dŷ Israel. 1 *Bren.* 11. 23, 24, 25.

Pan glybu Toi (neu Tou) brenin Hamath, ar derfyn gogleddol gwlad Canaan, am lwyddiant Dafydd yn erbyn Hadadeser, danfonodd anrhegion gwerthfawr iddo, am ddarostwng ei elyn rhyfelgar ag oedd yn rhy gadarn iddo. Y rhai hyn, ynghyd â'r aur, yr arian, a'r pres, a anrheithiasai Dafydd oddiar ei holl elynion, a gyssegrwyd at waith y deml oedd i gael ei hadeiladu. 2 *Sam.* 8. 9—12.

VII. Yn y 15fed flwyddyn i Dafydd, fel y bernir, gwnaeth ryfel yn erbyn y Philistiaid. Yr oedd wedi helaethu ei deyrnas hyd yr afon Euphrates yn y ddwy flynedd o'r blaen, ac nid oes un amser tebycach iddo ddechreu y rhyfel hwn yn erbyn y Philistiaid, na'r flwyddyn hon; fel y gallai sefydlu terfyn deheuol ei deyrnas, yn ol addewid yr Arglwydd i Abraham. Y pryd hyn bu Dafydd mewn perygl o gael ei ladd gan Isbibenob, ond Abisai, brawd Joab, a'i cynnorthwyodd, ac a laddodd y Philistiad, yr hwn oedd frawd i Goliath y Gethiad; a thyngedwyd Dafydd gan ei wyr nad anturiai i beryglu ei berson mwyach mewn rhyfel. 2 *Sam.* 21. 15—17. Yn yr un flwyddyn, tybygid, y lladdodd Joab 12 mil o Edomiaid yn nyffryn yr halen; ac Abisai ei frawd 18 mil yn yr un dyffryn. *Ps.* lx. *Titl.* 2 *Sam.* 8. 13. 1 *Cron.* 18. 12. Tra bu Joab a'i frawd Abisai yn Edom, rhuthrodd y Philistiaid i derfynau Israel mor belled a Gezer yn llwyth Ephraim; yr hyn a barodd i Joab

brysuro yn ol i'w gwrthwynebu. Y pryd hyn yr ymladdwyd y frwydr gerllaw Gezer a Gob, ym mha un lladdodd Sibbechai yr Husiad, Saph, neu Sippai, un o feibion y cawr, sef tad Goliath a'i frodyr. 2 *Sam.* 21. 18. 1 *Cron.* 20. 4. Ar ol y frwydr hon, fel y bernir, dychwelodd Joab i Edom i gladdu y lladdedigion (a adawsid pan aethai gyda brys yn erbyn y Pnilistiaid) ac i ladd pob gwrryw yn y wlad hòno a fedrai gael gafael arno. Diangodd Hadad, mab brenin Edom, o ganol y lladdfa i wlad yr Aipht. Bu Joab chwe mis yn Edom yn cwblhau yr holl wasanaeth hwn. 1 *Bren.* 11. 15—18.

VIII. Yn y flwyddyn ganlynol, tebygol, y dinystriodd Dafydd yr Amaleciaid, y rhai, fel y mae sail dda i farnu, a fuasai gynnorthwyol i'r Edomiaid yn y flwyddyn o'r blaen, gan eu bod yn gymmydogion mor agos iddynt. 2 *Sam.* 8. 12. 1 *Cron.* 18. 11. Ar ol hyn ni chlywir sôn am yr Amaleciaid fel cenedl; ac felly y cyflawnwyd bygythiad yr Arglwydd yn eu herbyn. *Deut.* 25. 19. Ar ol dychweliad byddin Dafydd o wlad yr Amaleciaid trwy wlad y Philistiaid, bu eilwaith frwydr yn Gob, ym mha un y lladdodd Elhanan mab Jair (neu Jaareoregim) y Bethlehemiad Lami frawd Goliath y Gethiad. 2 *Sam.* 21. 19. 1 *Cron.* 20. 5.

IX. Yn yr 17eg flwyddyn i Dafydd, tybygid, yr ymladdwyd y frwydr yn Gath, ym mha un y lladdwyd yr olaf o feibion y cawr gan Jonathan mab Simea, neu Shammah, trydydd mab Jesse. Hon oedd y frwydr olaf a ymladdwyd yn erbyn y Philistiaid yn amser Dafydd. 2 *Sam.* 21. 20, 21. Dylid sylwi nad yw hanes y brwydrau a osodir yma yn y 15fed, yr 16eg, a'r 17eg i Dafydd wedi cael ei roddi yn ol trefn amser yn 2 *Sam.* xxi. a 1 *Cron.* xx: a phan ddywedir, 'Ac ar ol hyn,' 1 *Cron.* 20. 4. ni ddylem ddeall mai ar ol cymmeryd Rabbah gan Joab y bu y brwydrau hyn, ond ar ol rhyfel Dafydd yn erbyn Hadareser. Y mae mynych siamplau yn hanesiaeth y Bibl o adrodd pethau allan o drefn amser; ac er fod yn hawdd rhoddi rhesymau da am rai o honynt, y mae cryn anhawsdra mewn perthynas i ereill.

X. Yn y 18fed flwyddyn i Dafydd, pan farnodd ei fod wedi gorphen ei ryfeloedd, meddyliodd am ei gyfammod â Jonathan, a dangosodd garedigrwydd i'w fab Mephiboseth. 2 *Sam.* ix. Yn yr un flwyddyn danfonodd Dafydd i gysuro Hanun am farwolaeth ei dad Nahas, brenin Ammon. Bu yr ammharch a ddangosodd Hanun i genadau Dafydd yn achos o ryfel yn ei erbyn. I amddiffyn ei hun danfonodd Hanun fil o dalentau arian, a chyflogodd o Syriaid Bethrehob yn Mesopotamia tu hwnt i'r afon Euphrates, ac o Syriaid Sobah, deiliaid Hadareser, ugain mil o wyr traed, o wyr Tob* ddeuddeng mil, a chan frenin Maachah fil o wyr. Heblaw y rhai hyn yr oedd holl gadernid Hanun yn

---

* Dau air yw Istob yn yr *Heb.* yn arwyddo gwyr Tob. Gwel *Barn.* 11. 3, 5.

y maes i wrthwynebu byddin Israel dan Joab a'i frawd Abisai. Rhanodd Hanun ei fyddin yn ddwy ran, gan fwriadu ymosod ar Israel gyd â'i wyr ei hun yn eu gwynebau, ac i'r milwyr llôg syrthio arnynt yn eu cefnau. Pan sylwodd Joab ar hyn, rhanodd yntau ei fyddin yn ddwy ran. Gyd âg un rhan y gwynebodd yn erbyn y milwyr llôg, a'r rhan arall a roddodd dan law Abisai i ymosod ar Ammon, a chytunwyd ar iddynt gynnorthwyo eu gilydd, os byddai achos. Y canlyniad a fu i'r milwyr llôg ffoi o flaen Joab, a phan welodd yr Ammoniaid hyny, hwythau a ffoisant i'w dinas gadarn Rabbah; a Joab a ddychwelodd gyd â'i fyddin i Jerusalem. 2 *Sam.* 10. 1—14. 1 *Cron.* 19. 1—15.

XI. Gan fod Hadareser yn ofni dial Dafydd am y cynnorthwy a roddasai i Hanun, yn y flwyddyn ganlynol casglodd fyddin lïosog o'i wyr ei hun, ac o Mesopotamia (yn cynnwys, yn ol Josephus, bedwar ugain mil o wyr traed, a saith mil o wyr meirch) dan Sophach, tywysog ei filwriaeth, yr hwn a wersyllodd yn Helam (*Alamtha Ptolemy*, y Daear-ddarlunydd) ar gyffinion hanner llwyth Manasseh, tu hwnt i'r Iorddonen. Yr oedd y wlad hon, gan mwyaf, yn greigiog, ac o herwydd hyny yn anfanteisiol i wyr meirch, o ba rai yr oedd gan Sophach lawer yn ei fyddin, gan hyny, gellir barnu, mai ei fwriad oedd ymladd mewn rhyw wastadedd; ond gan i fyddin Dafydd ddyfod arno yn gynt na'i ddisgwyliad yn Helam, bu raid i'w wyr meirch ymladd ar draed, a'r canlyniad a fu i fyddin Israel ladd deugain mil o honynt, heblaw saith mil oedd yn perthyn i saith cant o gerbydau, gyda Sobach, neu Sophach, tywysog y llu. Fel hyn y cysonir 2 *Sam.* 10. 18. lle dywedir mai deugain mil o wyr meirch o fyddin Hadareser a laddwyd gan wyr Dafydd, â 1 *Cron.* 19. 18. lle dywedir mai deugain mil o wyr traed a laddwyd. Ar ol hyn heddychodd Hadareser â Dafydd, a thalodd deyrnged. 2 *Sam.* 10. 19.

XII. Yn nechreu y flwyddyn ganlynol, yr hon oedd yr 20fed i Dafydd, danfonwyd Joab â byddin lïosog i ddistrywio Ammon, ac i warchae ar Rabbah, eu pen dinas. Yn y cyfamser, godinebodd Dafydd gyda Bathseba, gwraig Urias yr Hethiad. Y mae yr amgylchiadau a'r canlyniadau o'r weithred ysgeler hon mor hysbys agos i bawb fel nad rhaid eu hadrodd. Y mae gelynion eglwys Dduw, sydd anhyddysg yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yn gyffredin yn hyddysg yn yr hanes am gwymp Dafydd, gan eu bod, fel cigfranod, yn barotach i ymborthi ar furgynod na bwyd iach. Er na thorodd yr Arglwydd ei gyfammod oddiwrth Dafydd, etto ni ddiangodd rhag cerydd trwm, yr hwn a hysbyswyd iddo gan Nathan y prophwyd ar ol geni y plentyn i Bathseba, ac a gyflawnwyd arno yn ei deulu ei hun, yn neillduol trwy losgach Amnon, a gwrthryfel Absalom, ynghyd â'r amgylchiadau perthynol iddynt. Pan oedd y gweithiau o flaen Rabbah wedi eu gorphen, a phob peth yn barod i'w chymmeryd trwy ruthr, danfonodd Joab at Dafydd

i ddyfod yno, fel y cai yr anrhydedd o'r fuddugoliaeth. Ar ol cymmeryd Rabbah, rhoddwyd y trigolion i farwolaethau poenus, i ddial, tebygol, am gyffelyb driniaeth a gawsai Israel ar law Ammon. 2 *Sam.* xi, xiii.

XIII. Yn yr 22ain flwyddyn i Dafydd y ganwyd Solomon o Bathseba (2 *Sam.* 12. 24, 25.) yr hon a briodasai Dafydd ar ol marwolaeth Urias; ac wedi hyny ganwyd Nathan mab arall i Dafydd o Bathseba. Yn ol y llin-ach yn *Mat.* i. ymddengys fod Joseph, gwr dyweddïedig Mair, yn tarddu o Solomon, a bod Crist yn etifedd teyrn-gadair Dafydd yn ol y gyfraith; ac yn ol y llin-ach yn *Luc* iii. fod Crist yn etifedd Dafydd, yn ol y cnawd, gan fod ei fam Mair o hiliogaeth Nathan mab Dafydd.——Yn y 23ain flwyddyn i Dafydd, fel y bernir, dechreuodd y drwg dori allan yn ei deulu a fygythiasai y prophwyd, trwy waith Amnon ei fab hynaf yn halogi ei chwaer Tamar, o'r un fam ag Absalom. Ym mhen dwy flynedd wedi hyny lladdwyd Amnon mewn gwledd yn nhŷ Absalom, trwy ei orchymyn. Ffôdd Absalom at Talmai, brenin Gesur, ei daid o du ei fam. Yr oedd Gesur yn rhan o Syria ar derfyn gogleddol hanner llwyth Manasseh, tu hwnt i'r Iorddonen. *Jos.* 12. 5. Yma bu Absalom dair blynedd. 2 *Sam.* xiii.

XIV. Yn yr 28ain flwyddyn i Dafydd, cyrchwyd Absalom o Gesur i Jerusalem, lle bu 2 flynedd heb ddyfod i wŷdd ei dad i gael cymmod. 2 *Sam.* xiv.——Y mae cryn anhawsdra mewn perthynas i bwysau gwallt Absalom. 2 *Sam.* 14. 26. Dywedir ei fod yn 200 sicl neu 12 pwys ac 8 *owns*, yn ol hanner *owns* i'r sicl. Ond y mae y dysgedig *Bochart* wedi profi nad oedd y siclau hyn yn fwy na 3 phwys a 2 *owns*, yn ol pwys y brenin. Byddai hyn yn ormod i roddi i bwys y gwallt; gan hyny (yn ol *Bedford*, p. 554.) tybygid, fod eisieu diwygiad yn y cyfieithiad o'r 26 adnod, yr hon, yn llythyrenol, a gyfieithir fel y canlyn: 'A phan eilliodd ei ben, yr oedd [*hyny*] yn niwedd y dyddiau, [*sef*] dyddiau [*ei alltudiaeth*] pan eilliodd [*ef*]; canys yr oedd yn drwm arno; ac eilliodd a phwysodd wallt ei ben yn ddau can sicl gyd â'r maen breninol.' Yn ol hyn gellir barnu i Absalom wneuthur adduned o Nazarëaeth na eilliai ei ben yn ei alltudiaeth: ac er iddo ddychwelyd i Jerusalem, nid oedd yn cyfrif ei alltudiaeth ar ben hyd oni chymmodwyd ef â'r brenin. Wedi hyny eilliodd ei ben megys arwydd o gyflawniad ei adduned. Ar ol pum mlynedd o amser gallai ei wallt bwyso cymmaint ag y mae *Bochart* yn ddywedyd, gyd â'r meini gwerthfawr oedd wedi eu·plethu ynddo.

XV. Yn yr 31ain flwyddyn i Dafydd, lluniodd Absalom wrthryfel yn erbyn ei dad, yr hwn a dorodd allan yn y flwyddyn ganlynol, ym mhen 40 mlynedd ar ol eneinio Dafydd gan Samuel, fel y gwelir yn y Daflen ragflaenorol. Yr oedd Dafydd y pryd hyn yn 62 flwydd oed. Ymunodd Ahitophel, cyfaill a chynghorydd Dafydd, âg Absalom yn y gwrth-

ryfel. Pan gyhoeddwyd Absalom yn frenin yn Hebron, ymgasglodd ei bleidwyr ato; a Dafydd gyd â'i osgordd, y Cerethiaid, a'r Pelethiaid, a giliodd ar frys o Jerusalem, ac aeth dros yr Iorddonen i Mahanaim yn llwyth Gad, a gwlad Gilead. Cafodd bob cynnaliaeth angenrheidiol yma gan Sobi mab Nahas brenin meibion Ammon, a Machir mab Ammiel o Lo-debar, a Barzilai y Gileadiad. Rhoddodd yr yspaid amser a gymmerodd Absalom i lïosogi ei fyddin, yn ol cynghor Husai yr Arciad, yn groes i gynghor Ahitophel, hamdden i Dafydd i chwanegu ei filwyr o bob parth o'r wlad. Ymladdwyd y frwydr rhyngddo a'i fab gwrthryfelgar mewn rhan o wlad Gilead a alwyd coed Ephraim. Lladdwyd ugain mil o fyddin y gwrthryfelwyr, a mwy o honynt yn y coed nag yn y wlad agored, fel y dylid deall 2 *Sam.* 18. 8. Glynodd pen Absalom mewn tewfrig derwen, a gadawodd ei ful ef yn nghrog rhwng nefoedd a daear, dan arwydd neillduol o farn a melldith Duw. Yn yr ystum hwn brathwyd ef gan Joab â thair picell trwy ei galon. Felly dibenodd y gwrthryfel hwn, ond nid heb alar mawr gan Dafydd am farwolaeth Absalom. Gwel yr amgylchiadau o'r gwrthryfel, a dychweliad Dafydd i Jerusalem, yn 2 *Sam.* xv, xvi, xvii, xviii, xix.——Yn yr un flwyddyn, ar ol darostwng gwrthryfel Absalom, gwrthryfelodd Seba mab Bichri o lwyth Benjamin, a chân agos i Saul, fel y bernir, ond ei breswylfa oedd ym mynydd Ephraim. Gan fod Joab wedi digio Dafydd trwy ladd Absalom yn groes i'r gorchymyn a roisai (2 *Sam.* 18. 5.) a chan fod Amasa, tywysog byddin Absalom, wedi gwneuthur ei ymostyngiad, tybygid, i Dafydd, a chael cymmod, cawsai addewid o fod yn dywysog y llu yn lle Joab. Pan dorodd gwrthryfel Seba allan, cafodd Amasa orchymyn i gynnull gwyr Judah (i ba rai yn unig y gallai Dafydd y pryd hyn ymddiried) i erlid ar ol y gwrthryfelwr. Ond pan oedd Amasa yn myned o flaen y fyddin, lladdwyd ef yn fradychus gyd âg amgylchiadau anghymharol o greulondeb, gan Joab, yr hwn a gymmerodd arno flaenoriaeth y fyddin trwy ei awdurdod ei hun, ac wedi ymlid ar ol Seba trwy holl lwythau Israel, gwarchaëodd arno yn Abel-bethmaachah, yn llwyth Naphtali (1 *Bren.* 15. 20.) yn agos i derfyn gogleddol gwlad Canaan. Pan oedd Joab yn curo mur y ddinas âg offerynau rhyfel, gwaeddodd rhyw wraig oddiar y mur fod arni eisieu ymddiddan âg ef; a phan ddaeth o fewn clyw, hysbysodd iddo fod trigolion y ddinas wedi dywedyd wrth eu gilydd, yn nechreu y gwarchae, 'Diau yr ymofynant âg Abel am heddwch, (yn ol y gorchymyn, *Deut.* 20. 10, 11.) ac felly dibenant y rhyfel.' Atebodd Joab nad oedd ganddo ewyllys i ddifetha neb yn y ddinas ond Seba yn unig; a phan dorwyd a thaflwyd ei ben dros y mur at Joab, yn ol cynghor doeth y wraig, cyfodwyd y gwarchae, a dychwelodd Joab i Jerusalem at y brenin. Er fod Dafydd wedi cael gofid blin i'w galon o herwydd gwaith Joab yn lladd Amasa, megys Abner o'r blaen, etto yr oedd amgylchiadau pethau y pryd hyn yn gofyn

iddo adael Joab yn flaenor ar y fyddin; ond cafodd ei holl weithredoedd ysgeler argraph parhaus ar ei feddwl tra fu byw, ac un o'i orchymynion olaf i Solomon, oedd dial ar Joab y gwaed gwirion a dywalltasai. 2 *Sam.* xx. 1 *Bren.* 2. 5, 6.

XVI. Yn y 33ain flwyddyn i Dafydd, dechreuodd newyn, yr hwn a barhaodd dair blynedd. Gallai Dafydd feddwl fod digofaint yr Arglwydd heb ei symud o achos Urias; ond pan ymofynodd âg ef, hysbyswyd iddo mai o herwydd Saul a'i dŷ gwaedlyd yr oedd y farn ar y wlad, yn neillduol o herwydd gwaith Saul yn lladd y Gibeoniaid yn Nob, fel y bernir, odddeutu 37 o flynyddoedd o'r blaen. Gellir barnu oddiwrth ymddygiad Simei tu ag at Dafydd, pan oedd yn ffoi rhag Absalom, fod tylwyth Saul â chryn law yn ngwrthryfel Absalom a Seba, a bod y farn ar y wlad am fod cynnifer o'r llwythau o'r un meddwl a thŷ Saul tu ag at Dafydd yn y ddau wrthryfel diweddar. Ac er mai Saul yn unig a laddodd y Gibeoniaid, nid oedd Israel yn ddieuog o'u gwaed, am mai cu dyledswydd a fuasai rhwystro ei ddibenion gwaedlyd, neu o leiaf, gwyno a galaru yn gyhoeddus am dori y cyfammod a wnaethai Israel â hwynt. *Jos.* ix. Symudwyd y farn pan ddialwyd ar dŷ Saul trwy waith y Gibeoniaid yn crogi saith o wyr, sef dau fab Rispah, gordderchwraig Saul, a phum mab Michal ei ferch a blantodd hi i Adriel; ac nid yw annhebygol fod ganddynt law yn y gwrthryfeloedd diweddar. Tra bu y cyrph yn nghrôg hyd oni ddanfonodd yr Arglwydd wlaw, megys arwydd ei fod wedi cymmodi â'r wlad, gwyliodd Rispah, neu ryw rai, drosti, nos a dydd, gan eu gorchuddio â sach-lïan, rhag i adar neu fwystfilod gyffwrdd â hwynt. Pan fynegwyd i Dafydd am weithred garedig Rispah, cafodd ei argyhoeddi na buasai yn rhoddi cyn hyn gladdedigaeth anrhydeddus i Saul a Jonathan; gan hyny, danfonodd am eu hesgyrn o Jabes-Gilead, ynghyd âg esgyrn Abinadab a Malcisua, ac a'u claddodd yn meddrod Cis, yn ngwlad Benjamin. 2 *Sam.* 21. 1—14. Y pryd hyn, ar ol cael heddwch a helaethrwydd, y canodd Dafydd gyd â'r gynnulleidfa y 18fed Psalm, a gyfansoddasai ac a arferasai yn fynych o'r blaen ar gyffelyb achosion. 2 *Sam.* xxii.——Nid yw 2 *Sam.* xxiii. wedi ei gosod yn ol trefn amser, gan fod y rhan gyntaf yn cynnwys y geiriau olaf, tybygid, a ysgrifenodd Dafydd ychydig cyn ei farwolaeth. Y mae yn rhoddi cynghor, fel y gellir meddwl, i Solomon i lywodraethu yn ofn Duw, ac yn dangos y canlyniadau cysurus o hyny; ac er fod ei deyrnasiad ef wedi bod yn gymylog a thymhestlog tu a'r diwedd, o herwydd ei bechodau, etto y mae yn tystio fod yr Arglwydd wedi gwneuthur cyfammod tragywyddol â'i enaid, a'i fod yn mwynhau cysur a chynnaliaeth oddi wrtho wrth wynebu marwolaeth. Y mae y rhan olaf o'r bennod (8—39.) ynghylch cedyrn Dafydd, yn perthyn gan mwyaf i'r amser y bu Dafydd yn ffoi rhag Saul.

XVII. Yn yr 36ain flwyddyn i Dafydd, a phedair blynedd o flaen ei

farwolaeth, annogwyd ef, o ryw ddiben nad oedd gymmeradwy gan yr Arglwydd, i rifo y bobl ag oedd gymhwys i ryfel. Gan fod Dafydd y pryd hyn mewn heddwch â'i holl gymmydogion, nid oedd Joab yn gweled angenrheidrwydd am y peth; a chan ei fod yn barnu, hwyrach, mai ymchwydd calon y brenin oedd yn ei annog i gael gwybod ei gadernid; a chan iddo sylwi o'r blaen na ddiangasai yn ddigerydd am ei bechodau yn erbyn yr Arglwydd, rhybuddiodd ef o'i berygl y waith hon. Ond gan fod gorchymyn Dafydd yn drech na gwrthddadleuon Joab, gorfu iddo fyned gyd â'i gynnorthwywyr at y gorchwyl. Dechreuodd o'r tu hwnt i'r Iorddonen, yn neheubarth llwyth Reuben, ac wedi rhifo y ddau lwyth a hanner, daethant i Dan-jaan, yn llwyth Naphtali, yn ngogleddbarth gwlad Canaan. Wedi hyny, amgylchodd i Sidon, yn llwyth Aser, a dychwelodd yn ol i Jerusalem ym mhen naw mis ac ugain niwrnod. Nifer y rhifedi a rifodd Joab, yn ol 2 *Sam.* 24. 9. oedd o Israel wyth gan mil, ac o Judah bum can mil o wyr grymus yn tynu cleddyf, trwy gyfrif trigolion dinasoedd y Canaaneaid, y Philistiaid, ac ereill ag oedd o fewn terfynau gwlad Canaan, a gwleddydd y ddau lwyth a hanner tu hwnt i'r Iorddonen. Ond eu rhifedi, yn ol 1 *Cron.* 21. 5. oedd o Israel fil o filoedd, a chan mil o wyr; ac o Judah bedwar can mil a deng mil a thriugain.

Yn y ddau gyfrif hyn, y mae gwahaniaeth yn ngwyr Israel o dri chan mil, a deng mil ar hugain yn ngwyr Judah. Y mae yn anhawdd i gysoni hyn yn bresennol i gyflawn foddlonrwydd o herwydd byrdra yr hanes. Ond nid oes achos i ammeu nad oedd y ddau gyfrif yn gywir, a bod hyny yn eglur yn yr amserau yr ysgrifenwyd yr hanes. Y gwahaniaeth yn y cwbl o'r ddau gyfrif yw dau cant o filoedd a deng mil a thriugain. Ond gan i Joab ddechreu cyfrif, ac heb orphen am fod y pla wedi dechreu, ni roddodd i'r brenin ond y cyfrif am y rhai a rifasai, ym mhlith pa rai nid oedd llwythau Lefi a Benjamin; a hwn, tybygid, oedd y cyfrif yn 2 *Sam.* 24. 9. Ond pan wybuwyd wedi hyny pa faint oedd rhifedi Lefi a Benjamin, chwanegwyd hyny gan ysgrifenydd 1 *Cron.*

XVIII. Yn niwedd yr 36 flwyddyn, neu yn nechreu ei 37 flwyddyn, ar ol i galon Dafydd ei daro am gyfrif y bobl, daeth y prophwyd Gad ato, gan ddywedyd yn enw yr Arglwydd, 'A fyni ddyfod i ti saith mlynedd o newyn yn dy wlad; neu ffoi dri mis o flaen dy elynion a hwy yn dy erlid; ai ynte bod haint yn y wlad dri diwrnod?' Dewisodd Dafydd yr olaf; 'a bu farw o'r bobl o Dan hyd Beerseba ddeng mil a thriugain o wyr.' 2 *Sam.* 24. 1—15. Ond yn 1 *Cron.* 21. 12. y mae Gad yn dywedyd, 'tair blynedd o newyn.' Cysonwyd hyn yn y sylwadau ar y 4ydd Dosparth. Pan ddechreuodd yr haint ddifetha trigolion Jerusalem, gwisgodd Dafydd sachlïan am dano ynghyd â'r henuriaid. Y pryd hyn dyrchafodd Dafydd ei lygaid, a gwelodd angel yr Arglwydd

rhwng nefoedd a daear, â'i gleddyf noeth yn ei law; a syrthiodd, ynghyd â'r henuriaid, ar ei wyneb, ac ymbiliodd â'r Arglwydd i arbed ei bobl, ac i ddial yn hytrach arno ef a bechasai, ac ar dŷ ei dad. Yna archodd yr angel i Gad beri i Dafydd fyned i fynu i lawr-dyrnu Ornan y Jebusiad (ond y pryd hyn yn broselyt i'r grefydd Iuddewig) i gyfodi allor, ac offrymu ebyrth i'r Arglwydd. Yr oedd y llawr-dyrnu hwn ar ben mynydd Moriah,* lle yr offrymodd Abraham ei fab Isaac o ran bwriad, a lle, wedi hyny, yr adeiladodd Solomon y deml. Wedi parotoi ei boeth-offrwm, gweddïodd Dafydd, a rhoddodd yr Arglwydd ateb trwy ddanfon tân o'r nefoedd i losgi yr aberth. Yr angel a roes ei gleddyf yn ei wain, trwy orchymyn yr Arglwydd; peidiodd y pla, a bu cymmod rhwng yr Arglwydd â'r wlad trwy rinwedd yr aberth a gysgodwyd, sef Crist. Am yr amgylchiadau ereill perthynol i Ornan a'r llawr-dyrnu, gwel 2 *Sam.* 24. 16—24. a 1 *Cron.* 21. 13—27.

XIX. Cafodd Dafydd hysbysiad y pryd hyn mai mynydd Morïah oedd y lle yr oedd yr Arglwydd wedi dewis i adeiladu y deml, ac mai yn y fan y codasai efe yr allor ar lawr-dyrnu Ornan y byddai allor y poeth-offrwm. Gan hyny, wedi prynu y llawr-dyrnu a'r ychain o'r blaen am ddeg a deugain o siclau arian, (oddeutu chwe phunt o arian Lloegr) prynodd yr holl fynydd am chwe chant o siclau aur, oddeutu 1130 o bunnau. 2 *Sam.* 24. 24. 1 *Cron.* 21. 25.——O hyn allan treuliodd Dafydd weddill ei ddyddiau yn parotoi defnyddiau at y deml; portreiad pa un, ynghyd â'i holl ranau a'i pherthynasau, a roddodd efe i Solomon, fel y cawsai trwy ysprydoliaeth yr Arglwydd, ynghyd â dosparthiadau yr offeiriaid a'r Lefiaid, &c. ag oedd i wasanaethu yn eu cylchoedd pan orphenid y deml. 1 *Cron.* xxii. a 28. 11—21. Oddeutu y pryd hyn tarawyd Dafydd â'r parlys, neu ryw glwyf cyffelyb, fel nad allai gynhesu yn y gwely er ei anhuddo mewn llawer o ddillad. Yn ol cynghor rhai o'i weision, ceisiwyd trwy holl fro Israel am forwyn dêg yr olwg ac addas i wneuthur ymgeledd i'r brenin, a chafwyd Abisag o Sunem, yn llwyth Issachar, i orwedd yn ei fynwes, i'w wresogi â gwres naturiol; 'ond ni bu i'r brenin a wnaeth â hi.' 1 *Bren.* 1. 1—4. Meddyliodd Adoniah, mab hynaf Dafydd, tybygid, o'r rhai oedd y pryd hyn yn fyw, y byddai ei dad farw o'r clefyd oedd arno; gan hyny, wedi gwneuthur Joab ac Abiathar yn wyr ei gyfrinach, gwnaeth wledd fawr yn En-rogel, gerllaw Jeruslem,† ym mha un y cyhoeddwyd ef yn frenin. Pan glybu Nathan y prophwyd am hyn, hysbysodd yn gyntaf i Bathseba, ac wedi hyny i'r

---

* Y mae Morïah yn arwyddo *dysgeidiaeth*, neu *weledigaeth yr Arglwydd*. Tybygid mai Abraham a roddodd yr enw i'r mynydd hwn, neu ynte iddo gael ei alw wrth yr enw gyda golwg at yr amgylchiadau o aberthiad Isaac.

† Y mae *Josephus* (Antiq. l. 7. c. 11.) yn dywedyd fod y maen Zoheleth wrth En-rogel, lle bu y wledd hon, o'r tu allan i gaerau Jerusalem, wrth y ffynon yn ngardd y brenin.

brenin. Y canlyniad a fu i Solomon gael ei eneinio yn frenin gan Sadoc yr offeiriad, a'r holl ddinas a waeddodd, 'Bydded fyw y brenin Solomon.' Pan glybu Adoniah a'i wahoddedigion dwrf y ddinas, a'r achos o hono, trôdd llawenydd y wledd yn ddychryn; aeth pawb i'w ffordd, ac Adoniah at gyrn yr allor; ond maddeuodd Solomon iddo y waith hon, ac yntau a ymgrymodd iddo. Yn yr 37 flwyddyn i Dafydd y bu hyn, fel y bernir, pan oedd Solomon oddeutu 16 mlwydd oed. 1 *Bren.* 1, 5—53. 1 *Cron.* 23. 1.

XX. Yn y flwyddyn ganlynol, tybygid, y rhifwyd y Lefiaid o fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, a dosparthwyd hwynt i gyflawni yr amrywiol wasanaeth a bennodwyd iddynt pan adeiladid tŷ yr Arglwydd. Rhifodd hefyd y Lefiaid o fab ugain mlwydd hyd ddeng mlwydd ar hugain, i fod yn gynnorthwyol i'r offeiriaid yn ngwasanaeth y deml. 1 *Cron.* xxiii. Rhanodd yr offeiriaid, sef meibion Aaron, yn 24 o ddosparthiadau. Yr oedd pob dosparthiad i weini ei wythnos ar gylch dan olygiad yr arch-offeiriad, yr hwn oedd i ofalu am gadw y drefn osodedig. Yr oedd pob dosparthiad i ddyfod i mewn un Sabboth a myned allan y nesaf cyn llosgi yr arogl-darth ar y boreuol aberth, pan oedd y bara gosod yn cael ei osod ar y bwrdd. 1 *Cron.* xxiv. 2 *Bren.* 11. 5, 7. Wedi hyny neillduodd 24 dosparthiad o gantorion o blith y Lefiaid i ganu gyd âg offer cerdd, neu i ddatganu, yr hyn a elwir yn brophwydo. Rhifedi pob dosparthiad o'r cantorion oedd deuddeg, a 288 yn y cwbl. Yr oeddent i wasanaethu yn yr un drefn a'r offeiriaid. O'r cantorion enwir tri ag oedd yn rhagori mewn doniau a duwioldeb, sef Asaph, Jeduthun, a Heman. Ac yr oedd dau o honynt, tybygid, sef Asaph a Heman, yn awdwyr rhai o'r Psalmau. Priodolir i Asaph un-ar-ddeg o Psalmau sydd ar ei enw, sef y 73, a'r deg Psalm ganlynol. Gwel 2 *Cron.* 29. 30. Yr oedd Heman yn ŵyr i Samuel y prophwyd, ac yn brophwyd ei hun, o hiliogaeth Corah, gorŵyr Lefi. 1 *Cron.* 6. 33. Priodolir iddo *Ps.* lxxxviii. Ac i Ethan yr Ezrahiad (1 *Bren.* 4. 31.) priodolir *Ps.* lxxxix. 1 *Cron.* xxv. *Bedford. p.* 561.——Yn nesaf, ceir hanes am ddosparthiadau y porthorion i gadw gwyliadwriaeth ar byrth y deml pan adeiledid hi. Pennodwyd ereill o'r Lefiaid i fod yn oruchwylwyr ar drysorau y deml, sef y degymau a'r offrymau o bob rhyw a ddygid i mewn tu ag at gynnal yr offeiriaid a'r Lefiaid oedd i weini yn y deml. Heblaw y rhai hyn, neillduwyd ereill o'r Lefiaid i fod yn farnwyr a swyddogion gwladol yn neuddeg llwyth Israel, ym mhob gorchwyl Duw a gorchwyl y brenin. Ond ni orphenwyd trefnu eu gosodiad hyd y 40fed flwyddyn, sef yr olaf o deyrnasiad Dafydd. 1 *Cron.* xxvi. Tybygid fod dosparthiadau y milwyr a grybwyllir, 1 *Cron.* 27. 1—22. a'r swyddogion ereill, *adn.* 23—24. wedi cael eu sefydlu yn nechreuad teyrnasiad Dafydd yn Jerusalem; ond rhoddir hwynt yma ym mhlith y dosparthiadau ereill. Gallai y trefniadau hyn gymmeryd i fynu y rhan fwyaf o'r 38 flwyddyn a'r 39 flwyddyn i Dafydd.

XXI. Yn y 40fed flwyddyn, a'r olaf o deyrnasiad Dafydd, cynnullodd holl dywysogion Israel i Jerusalem, a chan ei fod wedi gwellhau i ryw radd o'i afiechyd, safodd ar ei draed, a chyfarchodd y gynnulleidfa mewn araeth ddwys a phwysig. 1 *Cron.* 28. 1—8. Yna, cyfeiriodd ei ymadrodd at Solomon, ac wedi ei gynghori ef i wasanaethu Duw ei dad 'â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar,' annogodd ef i adeiladu y deml, ac a roddodd iddo bortreiad o honi, ac o'i hamrywiol ranau, a'r gwasanaeth perthynol iddi. 1 *Cron.* 28. 9—21. Yna hysbysodd i'r dyrfa ei fod wedi parotoi at y deml, aur, arian, pres, haiarn, a meini gwerthfawr, y rhai a gawsai o anrhaith y gwledydd a ddarostyngasai, sef can mil o dalentau aur, a mil o filoedd o dalentau arian; a'r fath amlder o bres a haiarn, fel nad oedd na phwys na chyfrif arnynt. 1 *Cron.* 22. 14. Ac heblaw hyny, dywedodd ei fod yn rhoddi o'i eiddo ei hun, dair mil o dalentau aur, a saith mil o dalentau arian. Yn ol yr esampl a'r annogaeth a roddodd Dafydd, y tywysogion a'r penau teuluoedd a offrymasant yn ewyllysgar bum mil o dalentau aur, deng mil o sylltau, a deng mil o dalentau arian, heblaw pres a haiarn. 1 *Cron.* 29. 1—9. Gellir dywedyd pa faint yn ol arian Lloegr oedd y cwbl, ond sylwi ar y rheolau canlynol:—Yr oedd pob talent o arian yn cynnwys tair mil o siclau. Ymddengys hyn oddiwrth swm yr arian a offrymwyd at y tabernacl yn yr anialwch, yr hwn oedd gan talent, a mil a saith cant a phymtheg sicl a thriugain. Nifer y bobl oedd yn offrymu *becah*, neu hanner sicl, oedd 603,550, yr hyn a wna 301,775 o siclau, a chan fod hyn yn gan talent, a 1775 o siclau dros ben, ymddengys fod tair mil o siclau yn dalent o arian. A chan fod pob sicl yn cael ei chyfrif yn hanner *owns*, yr oedd talent o arian, yn ol 12 *owns* i'r pwys *Troy*, yn pwyso 125 pwys, yr hyn yn ol pum swllt yr *owns*, a wna 375 o bunnau o arian Lloegr. A thrwy gyfrif yr aur yn 16 gwaith cymmaint gwerth, sef pedair punt yr *owns*, bydd talent o aur yn 6000 o bunnau. Yn ol y cyfrif hwn byddai yr aur yn unig a barotowyd ac a offrymwyd at waith y deml yn 648 o filiynau o bunnau o arian Lloegr. A chan y byddai yr arian wedi eu chwanegu at hyn yn gwneuthur swm bron anghredadwy, digon hwyrach, i adeiladu y cyssegr sancteiddiolaf o aur pur, a'r lle sanctaidd o arian; gan hyny, y mae *Bedford* yn gwahaniaethu rhwng talent yn ol pwysau y cyssegr, a thalent yn ol pwys y brenin, ac yn hanner pwys y llall. Ond mwy tebygol mai aur ac arian yn y mŵn a feddylir ym mhob man lle na ddywedir eu bod yn 'buredig,' fel y saith mil talentau arian a offrymodd Dafydd. 1 *Cron.* 29. 4.

Bernir y gallai yr aur a'r arian wedi eu puro fod yn un rhan o saith o'u pwysau yn y mŵn; a thrwy gyfrif pob talent yn 63 pwys yn y mŵn, byddai pob un yn naw pwys wedi eu puro. Yn ol hyn byddai y cwbl o'r aur a'r arian a barotowyd yn gyntaf, ac a offrymwyd wedi hyny, yn 75,249,384 o bunnau o arian Lloegr. *Bedford's Chron.* p. 563,564.

——Ar ol i'r brenin sylwi ar barodrwydd y bobl i offrymu, llawenychodd, a bendithiodd yr Arglwydd mewn yspryd gorfoleddus, a dibenodd gyda gweddi dros Solomon, yr hwn a eneiniwyd y pryd hyn mewn modd mwy arbenig a chyhoeddus nag oedd amgylchiadau yn caniatau y tro o'r blaen. Ar ol hyn eisteddodd Solomon ar orseddfaingc ei dad, ac a gymmerodd y llywodraeth arno ei hun tra bu ei dad fyw. Ar ol tawelu yr holl ystormydd, a chael mawr lwyddiant yn ei deyrnas ym mhob ystyriaeth, a pheth oedd fwy, adferiad o heddwch a phresennoldeb yr Arglwydd, a gorfoledd yr iachawdwriaeth; bu Dafydd farw mewn henaint teg, fel yr haul yn machludo heb gwmmwl. 1 *Cron.* 29. 10—30. Pan ddeallodd fod ei farwolaeth yn nesâu, galwodd am Solomon, ac wedi ei gynghori i lywodraethu ac i rodio yn ol gorchymynion yr Arglwydd, archodd iddo ddial ar Joab y gwaed gwirion a dywalltasai; i wobrwyo caredigrwydd Barzilai ar ei feibion; ac i ymddwyn tu ag at Simei yn ol ei haeddiant. 1 *Bren.* 2. 1—9.

PENNOD XIII.

Hanes Teyrnasiad y Brenin Solomon hyd oni chyssegrwyd y Deml.

Yn y flwyddyn o oed y byd 2990, 1019 cyn geni Crist, a 477 ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, dechreuodd Solomon deyrnasu ar ol marwolaeth ei dad. Y gweithredoedd cyntaf o'i deyrnasiad oedd rhoddi Adoniah a Joab i farwolaeth, a diswyddo Abiathar o'r arch-offeiriadaeth, a rhoddi Sadoc o hiliogaeth Eleazar yn ei le. Adroddir yr amgylchiadau yn 1 *Bren.* 2. 13—35. Rhoddodd orchymyn i Simei i adeiladu tŷ iddo ei hun yn Jerusalem, ac aros heb ymadael oddi yno dan boen marwolaeth; ond ym mhen tair blynedd wedi hyny, aeth Simei ar ol dau was a ffoisent at Achis brenin Gath, ac ar ei ddychweliad, rhoddwyd ef i'r farwolaeth a haeddasai. 1 *Bren.* 2. 36—46.

II. Yn yr 2fed flwyddyn o'i deyrnasiad, fel y bernir, priododd Solomon ferch Pharaoh brenhin yr Aipht. Yr oedd wedi priodi Naamah yr Ammonees o'r blaen, o ba un y ganwyd Rehoboam, oddeutu blwyddyn o flaen marwolaeth Dafydd. 1 *Bren.* 3. 1. 2 *Cron.* 12. 13. Gan ei fod wedi ei sicrhau yn ei freniniaeth, aeth i Gibeon, lle yr oedd y babell a'r allor a wnaethai Moses, i ddeisyfu bendith a chynnorthwyon yr Arglwydd i lywodraethu mewn modd dyladwy. A chan fod cymmanfa fawr wedi ymgynnull yno, trwy ei orchymyn, o holl Israel, aberthodd fil o boeth-offrymau. Yma yr ymddangosodd yr Arglwydd i Solomon mewn breuddwyd liw nos, ac a ddywedodd wrtho am ofyn y peth a fynai. Gofynodd yntau am ddoethineb a gwybodaeth i lywodraethu ei bobl, sef yr hyn oedd ar ei feddwl o'r blaen. Atebodd yr Arglwydd, y cai nid yn unig yr hyn a ofynasai, ond hefyd yr hyn ni ofynasai, sef

at y gwaith, a rhifedi y gweithwyr, ynghyd â'r amser a gymmerodd Solomon i orphen y gwaith.——2. Gwastadhad pen y mynydd i gael cymmaint o le ag oedd anghenrheidiol i adeiladu yr hyn a elwir yn briodol y deml, allor y poeth-offrwm, ynghyd â'r cynteddau oddi amgylch iddynt.——3. Y muriau ar bedwar ochr y mynydd wedi eu sylfaenu yn y gwaelod, yn bedronglog, y naill ochr o'r un lled ac uchder a'r llall, ynghyd â'r cyfyngiadau a'r rhodfëydd yn ol cynllun allor y poeth-offrwm, fel y bernir.——4. Yr adeiladau ar ben y mynydd, yn neilldnol y deml, ei mesurau, a'i pherthynasau oddi allan ac oddi mewn.—— Yn gyntaf, Nid oes le i ammeu, na ddechreuodd Solomon barotoi y defnyddiau tu ag at adeiladu y deml yn union ar ol marwolaeth ei dad. Rhifedi y gweithwyr oedd 180,000, a 3600 yn oruchwylwyr arnynt, heblaw gweision Hiram oedd yn gynnorthwyol i weision Solomon i gymynu coed a naddu cerig yn mynydd Libanus. 1 *Bren.* 5. 13—16. 2 *Cron.* 2. 2. Yn 1 *Bren.* 5. 16. nid yw rhifedi y goruchwylwyr ond 3300. I gysoni hyn, dylid ystyried, nad oedd o'r Israeliaid ond deng mil bob mis ar gylch, yn Libanus, ac ugain mil gartref, ynghyd â'u goruchwylwyr, sef tri chant. Ond i'r dieithriaid, sef y Canaaneaid oedd yn y gwaith, yr oedd ychydig dros bedwar cant o oruchwylwyr, tybygid, am bob ugain mil o weithwyr. Ar ol tair blynedd o barotoad, bu Solomon saith mlynedd a chwe mis yn adeiladu hyd oni orphenodd y deml a'r holl bethau perthynol iddi, yn yr 11eg o'i deyrnasiad. Ond ni chyssegrwyd hi hyd ŵyl y pebyll yn y flwyddyn ganlynol, un mis ar ddeg ar ol ei gorphen. 1 *Bren.* 6. 1, 37, 38. a 8. 2, 63.

VII. Yn yr ail le, yr oeddym i ystyried y gwaith mawr o ostwng a gwastadhau pen mynydd Morïah, i gael digon o le i adeiladu arno, yr hyn oll a arfaethasai Solomon yn ol y portreiad a roddasai ei dad iddo. Yr oedd pen y mynydd ar ol ei ostwng yn ysgwâr, o 800 cufydd neu 1200 troedfedd ym mhob ystlys, fel y bernir; a dygwyd ochrau y mynydd i ysgwâr pedrongl union, a phob ochr yn y gwaelod oddeutu 1067 cufydd, a'r ystlysau yn gwynebu tu a'r dwyrain, y gorllewin, y gogledd, a'r dehau. Yr uchder o waelod y mynydd hyd ei wastad oedd 400 cufydd, yn ol tystiolaeth *Josephus* (Antiq. l. 20. c. 8.) ac yn ol barn amryw sydd wedi ysgrifenu ar deml Solomon. *Bedford's Chron. p.* 568, in note *x.** Y mae yn hawdd deall fod yn angenrheidiol i sylfaenu adeiladau y deml yn ngwaelod y mynydd, gan na buasai cadernid i'r sylfaen mewn un man arall, tybygid, gan amledd y pridd a'r cerig oedd yn dylifo i'r ystlysau wrth wastadhau pen y mynydd. Wrth wastadhau pen y mynydd dechreuwyd llunio, fel y gellir barnu, yr esgynfa

* Bernir fod cufydd yr henafiaid yn agos i 22 fodfedd; ond er mwyn gwneuthur mesurau y deml yn fwy dealladwy i'r darllenydd Cymreig, cyfrifir yn ol cufyddau o 18 modfedd, neu droedfedd a hanner bob cufydd.

i dŷ yr Arglwydd (1 *Bren.* 10. 5.) o du y dwyrain, yr hon oedd fuddiol nid yn unig ar ol gorphen y gwaith i fyned ar hyd-ddi i'r deml, ond hefyd i gael defnyddiau i'r gwaith tra buant yn adeiladu. Y mae *Bedford* yn barnu y gallai allor y poeth-offrwm, yr hon oedd yn nghyntedd yr offeiriaid o flaen porth y deml, fod yn gynllun bychan o'r gwàliau a'r rhodfëydd oedd ar ystlysau y mynydd, a bod cysondeb a chyfatebolrwydd ym mesurau y naill i'r llall. Ac nad yw hon yn dyb hollol ddisail sydd eglur, gan fod yr allor nid yn unig yn cael ei galw Ariel, sef llew Duw, am fod y tân yn difa yr ebyrth, ond hefyd Harel, sef mynydd Duw, am ei bod, tybygid, o ran ei llun, a'i chyfyngiadau, ei huchder, a'i lled yn y gwaelod ac ar ei phen, ynghyd â'i hesgynfa, yn fath o gynllun bychan, yn cyfateb i lun a mesurau y gwàliau a'r rhodfëydd ar ystlysau mynydd y deml, ei huchder, a'i lled yn y gwaelod ac ar ei phen, a hŷd a lled yr esgynfa oedd yn arwain iddi. 1 *Bren.* 10. 5. Edrych *Ezec.* 43. 15. ar ymyl y ddalen.

VIII. Yr allor bres a wnaeth Solomon yn y cyntedd o flaen y deml oedd 20 cufydd o hŷd a lled ar ei phen, sef y llawr pres ar ba un y llosgid y poeth-offrymau, ac yn ddeg cufydd o uchder. 2 *Cron.* 4. 1. Os cyfrifir 22 fodfedd i'r cufydd, bydd 20 cufydd yn cyfateb i 24 o gufyddau cyffredin, a 10 cufydd i 12 o'r un cufyddau. Y mae *Prideaux* yn y darluniad y mae yn roddi allan o'r ysgrifeniadau Iuddewig, o allor y poeth-offrwm (*Conn. Part.* 1. *p.* 140, 141.) yn anghyson mewn rhan yn ei mesurau; canys wedi iawn gyfrif yr 20 cufydd, sef lled a hŷd y llawr pres ar ben yr allor, yn 24 cufydd, y mae yn cyfrif yr uchder yn 40 cufydd, yn lle 12, fel y dylasai. Ac y mae *Bedford* yn ei ddilyn yn hyn heb sylwi ar ei gamsyniad. Yr oedd yr allor yn 32 cufydd yn y gwaelod ym mhob ystlys, a'r esgynfa iddi yn 32 cufydd, sef yr un hŷd a lled yr allor yn y gwaelod, a hanner hyny o led, sef 16 cufydd. Canys nid oedd gyfreithlawn i fyned i fynu i'r allor ar hyd risiau. *Exod.* 20. 26. Yr oedd tri chyfyngiad yn yr allor o'i gwaelod i'w phen uchaf:—1. Yr oedd yn codi un cufydd o lawr y cyntedd, yn cyfyngu un cufydd, ac yn gadael rhodfa o un cufydd o led oddi amgylch yr allor, oddieithr ar gyfer yr esgynfa; ar ol hyn yr oedd yr allor yn 30 cufydd ysgwâr.—2. Yr oedd yr allor yn codi chwe chufydd, yn cyfyngu un cufydd, ac yn gadael rhodfa o un cufydd oddi amgylch, oddi eithr ar gyfer yr esgynfa; ar ol hyn yr oedd yr allor yn 28 cufydd ysgwâr.—3. Oddi yno yr oedd yr allor yn codi pedwar cufydd, a rhodfa o ddau gufydd o led oddi amgylch y llawr pres ag oedd ar ben yr allor. O'r rhodfa hon yr oedd yr allor yn codi un cufydd at y llawr pres. Ar y rhodfa hon, byddai yr offeiriaid yn sefyll pan byddent yn gweini; ac ar ei phedair congl yr oedd cyrn yr allor, yn gufydd o led, hŷd, ac uchder; ac yn gau oddi mewn, i dderbyn rhan o waed yr aberthau, i arwyddocau fod ar bedwar cŵr y byd angen am gymhwysiad o waed Crist at eu heneid-

iau. Yn y rhodfa hon yr oedd yr esgynfa i'r allor, yr hwn a elwid Cibbesh, yn dibenu. Yr oedd llwybr o gufydd o led o bob tu yr esgynfa yn arwain i'r ail gyfyngiad o'r allor.* Yr oedd pedwar ystlys yr allor yn gwynebu at y gogledd, y dehau, y dwyrain, a'r gorllewin, a'r esgynfa iddi o du y dwyrain yn ol *Bedford;* ac y mae sail dda i farnu fod ei dyb yn hyn yn gywir. Edr. *Ezéc.* 43. 17. Wrth sylwi ar fesurau yr allor, a'u cymharu â'u gilydd, ceir gweled y pethau canlynol:—1. Fod yr uchder yn hanner y lled ar ei phen.—2. Fod y lled yn y gwaelod yn un rhan o bedair yn fwy na'i lled ar ei phen.—3. Fod yr esgynfa o'r un hyd a'i lled yn y gwaelod.—4. Fod ei chyfyngiadau i gyd yn 8 cufydd, sef y drydedd ran o'i lled ar ei phen, a'r bedwaredd ran o'i lled yn y gwaelod.

IX. Yn ol y darluniad a roddir gan *Bedford* o'r gwàliau ar ystlysau mynydd Morïah, ymddengys fod cysondeb ynddynt i fesurau yr allor. Yr oedd uchder y gwàliau yn 400 cufydd, a lled pen uchaf y mynydd, lle yr oedd yr adeiladau ardderchog yn dechreu, yn 800 cufydd ym mhob ystlys, a'r uchder yn hanner y lled ar ei ben. Yr oedd lled gwaelod y mynydd ym mhob ystlys yn 1067 cufydd, sef un rhan o bedair yn fwy nag oedd ar ei ben, a'r esgynfa fawr o'r un hŷd a lled y mynydd yn y gwaelod, a hanner hyny o led, sef 533½ cufydd. Y mae un cufydd yn uchder a lled yr allor yn ateb i 33⅓ cufydd yn uchder a lled gwàliau mynydd y deml. Gan hyny, os yw y dyb hono yn gywir, fod allor y poeth-offrwm yn gynllun bychan o'r gwàliau ar ystlys mynydd Morïah, nid oes achŏs i ni gamsynied wrth roddi darluniad o honynt ac o'u mesurau. Gan fod yr allor yn codi un cufydd, yn cyfyngu, ac yn gadael rhodfa o un cufydd o led; felly, yn gyfatebol, yr oedd y gwàliau ar ystlysau y mynydd yn codi 33⅓ cufydd, yn cyfyngu, ac yn gadael rhodfa o 33⅓ o led oddi amgylch, a mur-ganllaw hardd ar yr ymyl nesaf allan. Wedi hyny, yn gyfatebol i chwe chufydd o godiad yn yr allor, yr oedd gwàliau y mynydd yn codi 200 cufydd, ac yn gadael rhodfa fel o'r blaen o 33⅓ cufydd. Ar ol hyny, i ateb i'r codiad o bedwar cufydd yn yr allor, yr oedd y gwàliau ar ystlysau y mynydd yn codi 133⅓ cufydd, yn cyfyngu, ac yn gadael rhodfa lydan o 66⅔ cufydd oddi amgylch pen y mynydd; ac ar yr ymyl nesaf allan yr oedd mur-ganllaw o 20 troedfedd o uchder, a phum troedfedd o drwch, a ffenestri yn aml ynddo, tebyg i rwydwaith o edafedd aur, i edrych trwyddynt ar Jerusalem a'r wlad oddi amgylch. Yr oedd y rhodfa hon yn cyfateb i'r rhodfa o ddau gufydd o led oddi amgylch aelwyd bres yr allor, ac wedi ei phalmantu fel ag yr

---

* Wrth droed yr allor yn ymyl y gongl ddeheu-ddwyreiniol, yr oedd lle o gufydd ysgwâr, ychydig îs na'r palmant, ym mha un yr oedd dau dwll yn arwain i gwter ag oedd yn myned odditan y palmant. Yma y tywelltid gwaed yr aberthau. *Exod.* 29. 12. *Lef.* 4. 7, 18, 25, 30, &c.

oedd y rhodfëydd cyntaf, â llechau hardd o faen marmor. Yn y rhodfa lydan hon y bernir fod y rhai ag oedd yn gwerthu ychain, defaid, a cholomenod, a'r newidwyr arian, yn eistedd, y rhai a yrodd yr Iesu allan â fflangell o fân reffynau. *Ioan* 2. 14, 15, 16. Ac yn y rhodfa hon, tybygid, yr oedd yr esgynfa fawr i'r deml yn dibenu, (1 *Bren.* 10. 5.) fel ag yr oedd yr esgynfa i'r allor yn dibenu yn y rhodfa uchaf, o ddau gufydd o led. O ochrau tumewnol y rhodfa lydan yr oedd y pedwerydd codiad o 33⅓ cufydd i wastad mynydd y deml, yn cyfateb i'r codiad o un cufydd o rodfa uchaf yr allor i'r aelwyd bres. Y mae y pedwar codiad hyn a ddarluniwyd yn ystlysau mynydd y deml, sef y cyntaf, o 33⅓ cufydd; yr ail, o 200 cufydd; y trydydd, o 133⅓ cufydd; a'r pedwerydd, o 33⅓ cufydd; gyd â'u gilydd yn 400 cufydd, sef yr uchder, yn ol tystiolaeth Josephus, ac ereill, o'r gwaelod hŷd wastad mynydd Morïah.

X. Ond cyn myned ym mlaen, dylid sylwi fod chwech o attegiadau *(buttresses)* yn ngwàliau mynydd y deml ym mhob ystlys o'r gwaelod i'r rhodfa lydan, yn dyfod allan o wyneb y gwaith maen i'w gadarnhau oddi amgylch. Yr oedd yr attegiadau hyn gyd â'u gilydd oddeutu y bummed ran o led y gwàliau ym mhob ystlys. Yr oedd dwy o honynt ym mhob congl, a phedwar yn y canol, ac yspaid cyfartal rhyngddynt a'u gilydd. O'r tu mewn i'r attegiadau, bernir fod deubar o risiau tröedig, a therfyn rhyngddynt, fel y gallai rhai esgyn i'r deml, ac ereill ddisgyn yn ddirwystr i'w gilydd. Yr oedd y grisiau hyn yn arwain o'r naill rodfa i'r llall yn olynol. Heblaw y grisiau, yr oedd dwy ffordd o bob tu yr esgynfa fawr, sef pedair yn y cwbl, yn arwain i'r ddwy rodfa gyntaf ag oedd oddi amgylch mynydd y deml, yn cyfateb i'r cyffelyb yn yr allor. Y mae yn eglur fod yr esgynfa fawr, a'r pedair ffordd ag oedd yn arwain o honi, ynghyd â'r rhodfëydd a ddarluniwyd, yn bur ddefnyddiol i adeiladu y gwàliau ar ystlysau y mynydd: hebddynt y mae yn anhawdd amgyffred pa fodd y buasai yn bosibl i adeiladu i'r fath uchder. Yr oedd y dull hwn o adeiladu yn gweini hefyd i harddwch a chadernid.

XI. Ar yr ochrau nesaf i mewn o'r rhodfa lydan, sef yr uchaf o'r tair, yr oedd yr adeiladau ardderchog, a elwir Porth Solomon, sef pedair rhes yn y pedair ystlys oddi amgylch pen gwastad mynydd y deml, yr hwn, fel y dywedwyd, oedd bedrongl o 800 cufydd ym mhob ochr.* Dywedir fod adeiladau porth Solomon yn 50 cufydd o uchder o wastad y mynydd, ac yn 50 cufydd o led, ac oddeutu hanner eu lled yn cael eu cynnal gan bedair rhes o golofnau o 20 cufydd o hŷd. Ac ar ganol nen yr adeiladau hyn, yn y pedair ystlys, yr oedd rhodfa orchuddiedig, a'r gorchudd

---

* Dylid sylwi wrth ddarllen am borth Solomon, nad yw y gair Cymraeg *porth* na'r gair Saesonaeg *porch*, yn rhoddi gwir ystyr y lle hwnw, gan ei fod yn hytrach yn debyg i'r hyn a elwir gan yr Italiaid *Portico*, neu *Piazza*, sef math o adeilad a rhodfëydd gorchuddiedig y'nglŷn wrtho, a rhesi o golofnau yn cynnal yr hyn a fyddo oddi arnynt. *Ioan* 10. 23. *Act.* 3. 11.

uwch ben yn cael ei gynnal gan dair rhes o golofnau uchel, a chanllawiau o bob tu, a grisiau tröedig ym mhedair congl y bedrongl yn arwain iddi. O'r rhodfa ddyrchafedig hon, yr oedd nid yn unig Jerusalem a'r wlad oddi amgylch i'w gweled, ond hefyd, fel y mae yn debygol, y rhanau tumewnol o gynteddau yr offeiriaid a'r Lefiaid, ynghyd âg allor y poeth-offrwm. Nid yw annhebygol mai hyny oedd diben penaf y rhodfa orchuddiedig hon, sef fel y gallai yr Iuddewon pan gyssegrid y deml, ac wedi hyny ar y gwyliau arbenig, sefyll ac addoli wrth weled yr ebyrth yn cael eu llosgi ar yr allor. Nid oes le i ammeu nad oedd adeiladau porth Solomon, o ran addurniadau cywrain a chadernid, yn un o'r gweithiau godidocaf a wnawd yn y byd erioed, ac yn gwbl deilwng o enw Solomon. Yn yr ystafelloedd perthynol iddo yr oedd y porthorion, y cantorion, a'r Nethiniaid. Yn ei bedair ystlys, yr oedd y pyrth ag oedd yn arwain i'r deml. O du y dwyrain nid oedd ond un porth, a alwyd Porth Shushan, neu borth y brenin, ar gyfer yr esgynfa fawr. I hwn yr aid i fynu ar hŷd risiau o'r rhodfa lydan, megys ag i'r pyrth yn yr ystlysau ereill. 1 *Cron.* 9. 18. Gerllaw y porth hwn yr oedd raid bod ffordd i'r anifeiliaid a aberthid ar allor y poeth-offrwm, am ba un y mae *Bedford* yn ddistaw. O du y gorllewin yr oedd pedwar porth, am fod y tu hwnw o borth Solomon yn gwynebu tu a'r rhan fwyaf o'r ddinas. Yr oedd dau o'r pyrth hyn yn cael ei galw wrth yr enw Asuppim, a'r ddau ereill wrth yr enwau Parbar a Saleceth.* 1 *Cron.* 26. 16, 17, 18. O du y gogledd nid oedd ond un porth, a alwyd porth y gogledd, ac weithiau Teddi, neu Tadde. *Ezec.* 44. 4. O du y dehau yr oedd dau borth, a alwyd wrth yr enw Huldah. Bernir fod pyrth cyfatebol i'r rhai hyn yn arwain i mewn i gynteddau yr offeiriaid a'r Lefiaid.

XII. O'r tu mewn i borth Solomon yr oedd cyntedd y cenedloedd, yr hwn oedd rodfa agored oddeutu 100 cufydd o led, a 600 cufydd ym mhob ystlys oddi amgylch cynteddau yr offeiriaid a'r Lefiaid. I'r cyntedd hwn, yn gystal a rhodfëydd porth-Solomon, y gallai dieithriaid o blith y cenedloedd ddyfod ar ddyddiau cyffredin i weled y rhanau allanol o adeiladau y deml, ond nid i'r cynteddau tumewnol, oddieithr eu bod yn broselytiaid enwaededig. Edrych *Act.* 21. 28, 29. a *Dat.* 11. 2. O ymylau allanol y bedrongl o 800 cufydd, sef gwastad mynydd y deml, hyd y mur ag oedd yn amgylchu y cyntedd nesaf i mewn (yr hwn a ranwyd yn gynteddau i'r offeiriaid a'r Lefiaid) cyfrifir 150 o gufyddau o bob tu, neu 300 yn y cwbl. Y mur hwnw oedd yn gwahanu

---

* Y mae Asuppim yn y rhif lïosog, ac yn arwyddo casgliadau, neu ymgynnulliadau. Trwy y pyrth hyn, tybygid fod y rhan fwyaf o'r addolwyr yn dyfod i mewn i'r deml; ac yn myned allan trwy y ddau ereill, sef Parbar, yn arwyddo y porth allan, neu y porth tu a'r parth allan; a Saleceth, y tafliad, neu y bwriad allan. Yr oedd hon yn drefn pur gyfleus, fod pyrth gwahanol i ddyfod i mewn ac i fyned allan o'r deml.

rhwng y 'cyssegr a'r digyssegr.'* *Ezec.* 42. 20. Y gweddill fydd pedrongl o 500 cufydd, ac mai oddeutu hyn oedd mesur y rhan gyssegredig o fynydd y deml, sef y cyntedd nesaf i mewn, sydd yn cael ei gefnogi oddiwrth *Ezec.* 42. 15—20. Er mai 500 corsen, a phob un yn chwe chufydd o'r cufyddau mwyaf, oedd mesur y bedrongl a fesurodd yr angel yn ei phedair ystlys, etto nid yw annhebygol fod golygiad at 500 o gufyddau, sef y mesur a gyfrifir i gynteddau yr offeiriaid a'r Lefiaid, gan *Bedford* a *Lightfoot.* Yr oedd pedair rhes o adeiladau ardderchog ym mhedair ystlys y bedrongl, yr hon, o'r tu mewn, oedd yn cael ei rhanu gan ddwy res o adeiladau a groeswyd gan ddwy res ereill yn y fath fodd ag i lunio saith o gynteddau cyfartal, heblaw cyntedd yr offeiriaid lle yr oedd y deml a'r allor, yr hwn oedd cymmaint a dau o'r cynteddau hyn o ran hŷd, ond o'r un lled ag un o honynt. Yr oedd rhesi yr adeiladau tumewnol i gyd ar golofnau, fel y gellid gweled allor y poeth-offrwm bron o bob rhan o lawr y cyntedd. Gwel ym mlaen gynllun o wastad mynydd y deml. Yr oedd pyrth yn arwain i'r cynteddau tumewnol, yn cyfateb, fel y bernir, i'r rhai hyny ym mhorth Solomon, a ddarluniwyd eisoes. O du y dwyrain yr oedd porth prydferth y deml, (*Act.* 3. 10.) yr hwn a elwir y porth uchaf, a ail adeiladwyd gan Uzziah, (2 *Bren.* 15. 35.) ac yn borth newydd. *Jer.* 36. 10. Bernir fod esgynfa o 15 o raddau neu risiau o flaen y porth hwn, ar ba rai y byddai y Lefiaid, ar achosion arbenig, yn canu yr 120 Psalm, a'r pedair ar ddeg a ganlyn.

XIII. Y gwaith a briodolir i Solomon yn 1 *Cron.* 28. 6. oedd 'y tŷ a'r cynteddau,' sef y deml a'r ddau gyntedd oddi amgylch iddi.† Rhoddwyd eisoes ddarluniad ammherffaith o'r cynteddau, ac yn y rhan sydd etto yn ol sonir am 'y tŷ,' neu yr adeilad a elwir mewn ystyr priodol y deml, ei sefyllfa, ei rhanau, a'i pherthynasau.—1. Yr oedd y deml yn sefyll yn agos i ystlys orllewinol y cyntedd nesaf i mewn, yn y rhan hyny o hono a briodolwyd i'r offeiriaid; *Ezec.* 42. 13. a 46. 19. mewn pedrongl o 250 o gufyddau ei hŷd, a 100 cufydd o led. Yr oedd allor y poeth-offrwm o flaen porth y deml, mewn pedrongl agored o 100 cufydd bob ffordd. Yr esgynfa i'r allor oedd o du y dwyrain, yn cyfateb i'r esgynfa fawr ag oedd yn myned i dŷ yr Arglwydd. Yr oedd

---

* Nid ellais gymmeradwyo *Bedford*, lle y mae yn ymadael â chynllun allor y poeth-offrwm yn ei ddarluniad o wàliau mynydd y deml, yn neillduol ei waith yn cyfrif y rhodfa lydan, sef yr uchaf o'r tair a ddarluniwyd, yn rhan o wastad y mynydd, ac yn gynnwysedig yn yr 800 cufydd.

† Cynteddau yr offeiriaid a'r Lefiaid oedd yr un a'r cyntedd nesaf i mewn. Dywedir ei fod wedi ei adeiladu 'â thair rhes o gerig nadd, ac â rhes o drawstiau cedrwydd,' (1 *Bren.* 6. 36.) hyny yw, tybygid, o dri uchder, a rhes o drawstiau rhwng pob dau uchder. Y mae hyn yn golygu yn unig y pedair rhes o adeiladau oddi amgylch y cyntedd. Y mae yn eglur fod adeiladau cyffelyb yn amgylchu y cyntedd nesaf allan, yr hwn a elwir 'y cyntedd mawr.' 1 *Bren.* 7. 12. Adeiladau porth Solomon oedd y rhai hyn, sef y rhai a ddarluniwyd eisoes.

hŷd y deml i'w gyfrif o'r dwyrain i'r gorllewin, a'r unig fynediad i mewn iddi yn y pen dwyreiniol. *Ezec.* 8. 16.—2. Rhanwyd y deml yn dair rhan, sef y porth, y cyssegr, a'r cyssegr sancteiddiolaf, a'r ddau olaf yn cyfateb i'r tabernacl a wnaeth Moses yn yr anialwch, yr hwn oedd oddeutu hanner eu hŷd, lled, ac uchder. *Exod.* 26. 15—23. *Crud. Concord.* Ond nid oedd y cynteddfa, ym mha un yr oedd y tabernacl, ond y bummed ran o gyntedd yr offeiriaid, lle yr oedd y deml a'i pherthynasau. *Exod.* 27. 18.* Yr oedd y deml i'w chyffelybu i eglwys blwyfol, y porth yn y pen dwyreiniol, yn debyg i dŵr neu gloch-dŷ, yn ddau cymmaint o uchder a chorph y deml, yr hwn oedd yn cyfateb i gorph yr eglwys, a'r cyssegr sancteiddiolaf i'r gafell. Ond y mae hyn o wahaniaeth, sef bod y gafell mewn eglwysi plwyfol yn gyffredin yn y pen dwyreiniol.——3. Mesurau y deml oedd fel y canlyn:—1. Y porth ym mha un yr oedd yr unig fynediad i'r deml ' oedd ugain cufydd ei hŷd, yn un hŷd a lled y tŷ, ac yn ddeg cufydd ei led, o flaen y tŷ. 1 *Bren.* 6. 3. Uchder y porth oedd chwech ugain cufydd; 2 *Cron.* 3. 4.; yr hyn pe cyfrifid ef o wastad cyntedd yr offeiriaid, a fuasai yn uchder aruthrol, ac anghyfatebol i gorph y deml; gan hyny nid yw yn annhebygol fod cymmaint o'r tŵr hwnw a alwyd y porth yn y ddaear, ag oedd uwchlaw wyneb y ddaear, yn cynnwys celloedd a selerau i'r ŷd a'r gwin a'r olew, a phethau ereill perthynol i wasanaeth y deml a chynaliaeth yr offeiriaid a'r Lefiaid. Ac hwyrach fod y rhan hono o dŵr porth y deml ag oedd oddiar wyneb y ddaear, sef 60 cufydd, yn ateb i'r un dibenion; neu gallai gynnwys ystafelloedd i'r offeiriaid. 1 *Cron.* 28. 11, 12. Gan fod yn debygol fod yr ail deml a adeiladwyd ar ol y caethiwed o'r un mesurau a theml Solomon, gall yr hyn a sylwyd mewn perthynas i'r celloedd a'r selerau oddi tan borth y deml fod yn gynnorthwy i gysoni y gwahaniaeth yn y ddau hanes. Dywedir (*Ezra* 6. 3.) mai 60 cufydd oedd uchder yr ail deml; yr hyn a gadarnheir gan *Josephus* (Antiq. l. 15. c. 14.) yr hwn sydd yn dywedyd am yr ail deml a adgyweiriwyd gan Herod ei bod yn îs na theml Solomon o 60 cufydd, gan farnu, tebygol, fod yr uchder o 120 cufydd i'w gyfrif o wyneb y tir, yn lle o waelod y selerau. Nid allaf gymmeradwyo ffordd *Bedford* o geisio cysoni y gwahaniaeth hwn, trwy farnu mai o'r rhodfa uchaf o'r tair a ddarluniwyd y mae 120 cufydd i'w gyfrif i uchder porth y deml, a 60 o lawr cyntedd yr offeiriaid; ond yn ol hyny gellid dywedyd fod corph y deml a'r cyssegr sancteiddiolaf yn dri chymmaint o uchder ag oeddent, pe cyfrifid o'r rhodfa hòno, yr hon, yn ol darluniad *Bedford*, oedd 60 cufydd yn îs na llawr cyntedd yr offeiriaid.—2. O fewn y porth yr oedd

---

* Yr oedd cynteddfa y tabernacl yn 100 cufydd o hŷd, ac yn 50 cufydd o led, yr hyn oedd 5000 o gufyddau ysgwâr; ond yr oedd cyntedd yr offeiriaid yn 25000 o gufyddau ysgwâr.

y cyssegr, neu y lle sanctaidd, ynghyd â'r cyssegr sancteiddiolaf, neu y gafell, y ddau gyd â'u gilydd yn 60 cufydd o hŷd, 20 cufydd o led, a 30 o cufydd o uchder.* 1 *Bren.* 6. 2. Ond mesurau pob un ar ei ben oedd fel y canlyn: y cyssegr yn 40 cufydd o hŷd, 20 o led, a 30 o uchder; a'r cyssegr sancteiddiolaf oedd 20 cufydd o hŷd, lled, ac uchder, ac yn ol hyny yn ddeg cufydd yn îs na'r lle sanctaidd. 1 *Bren.* 6. 2, 17, 20. Yr oedd tô hanner crwn, fel bwa, yn gorchuddio y deml, ac yn uwch na'r llogelau o ddeg cufydd yn y cŵr uchaf, yr hyn oedd yn gwneuthur uchder y cyssegr oddimewn o'r llawr i'r nen yn 40 cufydd, ac uchder y cyssegr sancteiddiolaf yn 30 cufydd. Oddi amgylch muriau y deml oddi allan ac yn nglyn wrthynt yr oedd tair rhes o ystafelloedd, y naill oddiar y llall, i'r offeiriaid; yr isaf yn bum cufydd o led, y canol yn chwe chufydd, a'r uchaf yn saith cufydd o led, trwy fod mur y deml yn cyfyngu un cufydd yn ei drwch ar gyfer y rhes ganol, a thrachefn un cufydd yn ychwaneg ar gyfer yr uchaf. Yr oedd yr ystafelloedd bob un yn bum cufydd o uchder. Yr oedd grisiau tröedig oddi allan i fyned i'r rhes ganol, a'r cyffelyb i fyned o'r ganol i'r uchaf, ynghyd â rhodfa orchuddiedig o flaen y ganol a'r uchaf, fel y bernir. 1 *Bren.* 6. 5, 6, 8, 10. *Ezec.* 41. 6, 7. Oddiar yr ystafelloedd, yn muriau y tŷ, yr oedd ffenestri yn llydain oddimewn, ac yn gyfyng oddi allan. 1 *Bren.* 6. 4. Gan hyny nid oedd y deml ond lle go dywyll oddimewn, yn cysgodi tywyllwch yr oruchwyliaeth hòno, mewn cymhariaeth â goruchwyliaeth yr efengyl. Fel y goleuwyd y lle sanctaidd gan y llusernau oedd yn llosgi yno yn wastadol, felly y goleuwyd y cyssegr sancteiddiolaf gan y Shecinah, neu gwmwl disglaer, yr hwn oedd arwydd o bresennoldeb neillduol yr Arglwydd, ac a lanwodd yr holl dŷ pan gyssegrwyd y deml. 1 *Bren.* 8. 10, 11, 12.——4. Perthynasau y deml oeddent, 1. Oddi allan, ac yn 2. Oddimewn iddi.—1. Oddi allan yr oedd allor y poeth-offrwm yn nghanol cyntedd yr offeiriaid o flaen talcen dwyreiniol y deml, yr hwn a alwyd y porth. Yr oedd yr esgynfa i'r allor o du y dehau, yn ol *Prideaux* a *Lightfoot*, ond yn ol *Bedford*, o du y dwyrain, yr hyn sydd fwyaf tebygol, gan ei fod felly yn cyfateb yn well i'r esgynfa fawr ag oedd yn arwain i'r deml o waelod mynydd Moriah. Yr offeiriaid oedd yn

---

* Yr oedd yr ail deml, a adeiladwyd gan y gaethglud a ddychwelodd o Babilon, o'r un maintioli a'r gyntaf a adeiladwyd gan Solomon. Nid am fod yr ail yn llai ei mesurau yr wylodd yr henuriaid a welsent y gyntaf, ond am eu bod yn gwybod nad oedd gan y gaethglud fodd i'w hadeiladu gyd â'r fath gywreinrwydd ac addurniadau gogoneddus ag oedd yn harddu y gyntaf. Gellid meddwl oddiwrth orchymyn Cyrus fod yr ail deml yn lletach na'r gyntaf dair gwaith, gan fod yr ail yn 60 cufydd o led, a'r gyntaf yn 20 cufydd o led. Ond dywedir fod y 60 cufydd o led yn cynnwys, heblaw trwch gwàliau y deml, ac ystafelloedd yr offeiriaid o bob tu ag oedd yn nglyn wrthi, y grisiau oddi allan ag oedd yn arwain i res ganol yr ystafelloedd; a'r 20 cufydd oedd lled y cyssegr o fewn y gwàliau yn unig. *Ezra* 6. 3. *Prid. Conn. Anno* 534.

lladd yr ebyrth yn y cyffredin o du y gogledd i'r allor (*Lef.* 1. 10.) trwy dynu eu penau i lawr â rhaffau at fodrwyau wedi eu sicrhau ym mhalmant cyntedd yr offeiriaid. Rhoddwyd eisoes y cyfryw ddarluniad a gefais o'r allor a'i mesurau, oddieithr yr alch ag oedd ar ganol ei haelwyd bres, tebyg i hwnw ar ben allor y tabernacl. *Exod.* 27. 4. Y mae yn wir nad oes hanes am dano yn 2 *Cron.* iii. mwy nag am lawer o bethau eraill perthynol i'r allor; er hyny nid eill fod dim ammheuaeth nad oedd yn perthyn i allor poeth-offrwm y deml, ynghyd â'r holl offer tân ag oedd yn perthyn i allor y tabernacl. Bernir fod tân yr allor i'w gadw i mewn heb ddiffoddi na dydd na nos. *Lef.* 6. 9. O du y gogledd i'r allor hefyd yr oedd y byrddau marmor, ar ba rai y byddent yn rhoddi yr ail olchiad i ymysgaroedd yr ebyrth, ar ol eu golchi yn gyntaf yn yr ystafell olchi oedd gerllaw; ac wedi hyny llosgid hwy ar yr allor, ynghyd â'r gwer, yr afu, a'r barwyden, neu 'r bustl oedd ar yr afu, fel y mae rhai yn barnu. *Parkhurst.* *Exod.* 29. 17. O'r un tu i'r allor yr oedd y pilerau, a thri o fachau ym mhob un, y naill oddiar y llall, a thrawstiau â bachau ynddynt i grogi yr ebyrth i'w blingo; ac os poeth-offrymau fyddent, torid hwy yn ddarnau, yn ol y ddefod, i'w llosgi ar yr allor; ond os aberthau hedd, torid hwy yn ddarnau i wledda arnynt yn ystafelloedd y deml. Ond pan fyddai lliosogrwydd yr ebyrth yn ormodol i du y gogledd o'r allor, yr oedd y cyffelyb fyrddau a pilerau ar y tu dehau, i'w harfer at yr un dibenion. Rhwng y porth a'r allor o du y dehau, yr oedd y môr tawdd, yn cyfateb i'r noe bres yn y tabernacl. *Exod.* 30. 18. 1 *Bren.* 7. 23. A gerllaw i'r môr tawdd yr oedd y deg noe bres ar eu hystolion, sef pump o bob tu o flaen porth y deml. Yr oedd y môr tawdd ar lun cwpan (*goblet*) yn grwn yn y cwr uchaf, ac yn cyfyngu i'r gwaelod. Ac fel yr oedd troed neu golofn o bres yn cynnal y noe yn y babell; felly, yn ol y darluniad y mae Josephus (*Antiq. l.* 8. *c.* 2.) yn ei roddi o'r môr pres yn yr ail deml, yr oedd colofn nydd-dröedig (*twisted pillar*) o gufydd o drwch oddi tano yn ei gynnal, heblaw deuddeg o ychain pres, a'u penau blaen allan, yn gwynebu tri tu a'r gogledd, tri tu a'r gorllewin, tri tu a'r dehau, a thri tu a'r dwyrain, a'u penau ol yn cynnal y môr oddimewn. Yr oedd yn ddeg cufydd o ymyl i ymyl, yn bum cufydd o ddyfnder, a llinyn o ddeg cufydd ar hugain a'i hamgylchai yn y cwr uchaf, a dwy fil o fathau a annai ynddo, yn ol un cyfrif, (1 *Bren.* 7. 26.) a thair mil, yn ol cyfrif arall. 2 *Cron.* 4. 5. Yn ol y cufydd mwyaf, sef 22 fodfedd o fewn ychydig, yr oedd y môr tawdd oddeutu chwe llath o led, a thair llath o ddyfnder. A chan fod bath yn cynnwys ynghylch wyth galwyn, yr oedd dwy fil o fathau yn 16,000 o alwyni, a thair mil o fathau yn 24,000 o alwyni. Ond nid oedd y môr tawdd, yn ol cyfrif *Bedford*, o hono ei hun yn gallu cynnwys mwy na 1684 o fathau; gan hyny, y mae yn barnu fod y golofn dröedig a'r ychain yn gau oddimewn, a'u bod gyd â'u gilydd yn cynnwys 316 o fathau, yr hyn a wna i fynu y ddwy fil.

Yn ol yr hanesion Iuddewig, yr oedd dwselau *(cocks)* yn ngwaelod y môr tawdd, ac yn nhraed yr ychain pres, i ollwng y dwfr allan. Bernir fod yr ychain pres yn sefyll o fewn cylch o bres, neu o waith maen llydan a lled fas *(bason, or reservoir)* yr hwn a ddaliai fil o fathau pan fyddai yn llawn o ddwfr: yn hwn y byddai yr offeiriaid yn golchi eu traed a'u dwylaw, a'u cyrph hefyd yn ol yr ysgrifenwyr Iuddewig, ac yn cael dwfr at olchi amrywiol bethau perthynol i'r gwasanaeth· beunyddiol a chynteddau y deml. *Lightfoot.* Yr oedd pydew neu ffynon, gerllaw porth y deml, ac olwyn neu fath o beiriant (a alwyd *Mukene*, Μηχανη, *machina*) i godi dwfr i lenwi y môr tawdd a'r deg noe. Y mae Ezeciel, tybygid, (47. 1.) a Ioan (*Dat.* 22. 1.) yn cyfeirio at y ffynon hon. Yr oedd y dwfr yn y môr tawdd yn cael ei newid bob boreu. Yr oedd yr offeiriaid dan rwymau i olchi nid yn unig eu traed a'u dwylaw, ond eu holl gorph, cyn myned y boreu at eu gwasanaeth, a bod yn droed-noeth ar lawr marmor y deml mewn gwisgoedd lliain teneuon, yr hyn sydd yn profi mai gwasanaeth lled chwerw i natur, yn enwedigol yn y gauaf, oedd dan yr oruchwyliaeth hòno. *Lightfoot.* Yr oedd y deg noe bres ar eu hystolion o bedwar cufydd o uchder, 'yn cynnwys pob un ddeugain bath, neu 320 galwyn. Yr oedd pob noe yn bedwar cufydd o uchder ac o led, fel y bernir, yn rhol gyfartal *(cylinder)* o'r gwaelod i'r cwr uchaf. Fel yr oedd allor y poeth-offrwm yn dangos dioddefiadau Crist, a'r iawn a·dalodd dros ei eglwys i'w dwyn i gymmod a'r Tad, ac i'w chyfiawnhau a'i sancteiddio ger ei fron trwy ffydd yn ei waed ef— felly yr oedd dyfroedd y môr tawdd, a'r noeau, yn dal allan yr un gwaed yn gymmwysiadol at eneidiau credinwyr yn y gwaith o gyfiawnhad a sancteiddhad. Yr ychain, yn gwynebu tua phedwar parth y byd, oedd gysgodol o'r deuddeg apostol, a'u canlynwyr yn yr unrhyw weinidogaeth, yn dwyn yr efengyl a'i rhinweddau i'r holl fyd. Y pethau nesaf mwyaf teilwng o'n sylw o'r tu allan i'r deml, oedd y ddwy golofn bres, un o bob tu i borth y deml, wrth y drws trwy ba un yr aid i mewn iddi. Eu henwau oedd Jachin, *(efe a sicrha)* a Boaz *(ynddo y mae nerth).* Yr oedd uchder pob un yn ddeunaw cufydd, a llinyn o ddeuddeg cufydd a amgylchai bob un o'r ddwy. Yr oedd tewder y pres ym mhob un yn bedair modfedd, a gau oeddynt oddi mewn. *Jer.* 52. 21. Ar eu pennau yr oedd cnapiau o bum cufydd o uchder, wedi eu haddurno â rhwydwaith, pomgranadau, a gwaith lili. Bernir fod y rhwyd-waith yn cuddio dau gufydd o bob un o'r cnapiau, fel nad oedd ond tri chufydd o honynt yn y golwg, ac felly cysonir 1 *Bren.* 7. 16. âg 2 *Bren.* 25. 17. Bernir hefyd fod tenwm o hanner cufydd ym mhen uchaf pob colofn yn myned i fortais yn y cnap, fel nad oedd o'r colofnau yn y golwg ond pymtheg cufydd ar hugain trwy gyfrif hŷd y ddwy; ac yn ol hyny, bydd 2 *Bren.* 25. 17. mewn cysondeb âg 2 *Cron.* 3. 15. Y mae rhifedi y pomgranadau ar rwyd-waith y cnapiau yn wahanol mewn amrywiol fanau lle y

mae hanes am danynt. Yn 2 *Cron.* 3. 16. ni sonir ond am gant o bomgranadau. Yn 1 *Bren.* 7. 20. y maent yn ddau cant; ac yn 1 *Bren.* 7. 42. yn bedwar cant; ond yn *Jer.* 52. 23. dywedir eu bod yn gant onid pedwar mewn ystlys, ac er hyny eu bod yn gant ar y rhwyd-waith o amgylch.—Ar y golwg cyntaf y mae cryn anhawsder yn ymddangos yn yr amrywiol hanesion hyn; ond byddent yn ddealladwy ac mewn cysondeb â'u gilydd os ystyriwn mai pedwar cant oedd rhifedi y cwbl o'r pomgranadau, sef dau cant ar bob cnap mewn dwy res, a chant ym mhob rhes; ond gan fod pedwar pomgranad ym mhob rhes allan o'r golwg yn yr ochr hwnw o'r cnap oedd wrth fur y porth, y mae Jeremiah yn dywedyd mai cant onid pedwar oeddynt, sef yn y golwg, er eu bod yn gant i gyd ym mhob rhes. *Lightfoot.* Yr oedd y colofnau hyn yn gysgodau o Grist, yn yr hwn yn unig y mae holl gadernid a chynnaliaeth yr eglwys, ac o ba un y mae ei holl ogoniant a'i phrydferthwch, gyd â'r holl ffrwythau peraidd sydd yn tyfu ar bren y bywyd, y rhai a ymborthir arnynt trwy ffydd yn unig.

5. Y pethau sydd i ddyfod dan ein sylw oddimewn i furiau y deml, ydynt: —1. Y porth.—2. Y cyssegr, neu y lle sanctaidd a'i ddodrefn.—3. Y cyssegr sancteiddiolaf, a'i berthynasau ynghyd â'r llen oedd yn gwahanu rhyngddo a'r cyssegr.——1. Yr oedd y porth yn lle ëang a gogoneddus iawn, gan ei fod yn ugain cufydd o hŷd yn cyfateb i led y deml, ac yn ddeg cufydd o led, fel yr elid trwyddo i'r cyssegr. Yr oedd y porth wedi ei wisgo oddimewn âg aur pur, mor uched, tybygid, a llogail muriau y deml, wedi ei ddodi yn ddalenau ar fyrddau cedrwydd.——2. Yr oedd dau ddrws, medd *Lightfoot,* i'r ail deml, y naill o flaen y llall, a dwy ddalen i bob un, a phum cufydd o wag, sef trwch y mur, rhynggddynt, ac nid yw yn annhebygol fod y cyffelyb yn nheml Solomon, yn arwain o'r porth i'r cyssegr. Yr oedd gogoniant ac ardderchowgrwydd y cyssegr yn dra rhagorol tu hwnt i ddim a glywyd sôn am dano mewn un oes neu genedl, gan fod ei lawr wedi ei wisgo â dalenau o aur pur, wedi eu gosod ar blangciau o ffynnidwydd gyd â'r fath gywreinrwydd, fel nad oedd y cyssylltiadau i'w gweled. 1 *Bren.* 6. 15, 30. Yr oedd y parwydydd hefyd wedi ei byrddio âg ystyllod o gedrwydd, a'u haddurno o bob tu â cherfiadau o balmwydd, cerubiaid, a blodau agored; a'r llofftydd,* sef y nen, tybygid, yr hwn oedd fel bŵa, a harddwyd â chyffelyb addurniadau, a'r cwbl a wisgwyd âg aur, ynghyd â meini gwerthfawr o amryw liwiau, wedi eu gosod yn y palmwydd, y cerubiaid a'r blodau, yn y fath fodd ag i weini i harddwch a godidowgrwydd y lle, ac i ateb i'r pethau ysprydol a arwyddoceid trwyddynt. 2 *Cron.* 3. 5—7. 1 *Bren.* 6. 18. Yn ystlysau y cyssegr yr oedd deg o fyrddau, pump ym mhob ystlys, heblaw bwrdd y bara gosod, wedi ei gwisgo i

* Y mae y gair *Heb.* a gyfieithir "llofftydd," yn arwyddocàu, *y rhanau uchaf, uwch ben;* ac felly y dywed *Lightfoot, Vol.* 1. *p.* 1086.

gyd âg aur. Y deg bwrdd i ddal yr amrywiol lestri aur i wasanaeth y deml, a bwrdd y bara gosod ag oedd yn dal deuddeg o dorthau, y rhai a newidiwyd am ereill unwaith bob wythnos—wedi eu crasu y dydd o flaen y Sabboth, hwy a ddodwyd ar y bwrdd bob bore Sabboth, a'r hen rai a ddygid ymaith gan yr offeiriaid i'w bwytta. Y dull o'u gosodiad ar y bwrdd oedd mewn dwy res ar draws ei led, chwech ym mhob rhes ar eu gilydd, a gwïail aur tebyg i gecsen wedi ei hollti ar ei hŷd, rhwng pob dwy dorth, i ddwyn gwynt i mewn i attal llwydni a llygredigaeth. Yr oeddynt yn arwyddo fod bara ysprydol yn nhŷ Dduw i bawb sydd yn dyfod i mewn iddo trwy yr adenedigaeth, y rhai oll ydynt offeiriaid i Dduw ac i Grist. *Dat.* 20. 6. 1 *Petr* 2. 5. Ar ben uchaf pob un o'r ddwy res yr oedd dyrnaid o thus pur, ar ddwy ddysgl aur, yr hwn a losgid ar allor yr arogl-darth bob tro y newidient y bara—yr hyn oedd yn arwyddo, yn y rhan hon, fel ym mhob rhan arall o'r gwasanaeth cysgodol hwnw, mai trwy haeddiant cyfryngdod ac eiriolaeth Crist, y mae rhinwedd a bendith yn tarddu oddiwrth ordeinhadau Duw.

Yn y tabernacl nid oedd ond un canwyllbren aur ar gyfer bwrdd y bara gosod, yr hwn oedd ar yr ystlys ogleddol; ond yn y deml yr oedd deg o ganwyllbrenau aur, pump o bob tu y cyssegr, mewn pellder cyfartal oddiwrth eu gilydd, a saith llusern ym mhob un yn llosgi yn wastadol. Ym mhob un o honynt yr oedd chwe chaingc yn dyfod allan o'r paladr, sef dwy ar gyfer eu gilydd o'r gogledd i'r dehau, yn uwch uwch, ac un llusernaa ar ben y paladr. Y llusern a oleuwyd âg olew yr olewydden pur coethedig. *Exod.* 25. 31—37. a 27. 20. *Zech.* 4. 2. *Dat.* 1. 12. Yr oedd y llusernau yn arwyddo y goleuni ysprydol sydd yn tarddu oddiwrth athrawiaethau yr efengyl, i oleuo y rhai hyny a ddygir o'r byd tywyll i eglwys Crist; a'r olew, y gras a'r doniau dwyfol a weithredir gan yr Yspryd Glân yn eneidiau y rhai a gedwir i fywyd tragywyddol. Y peth olaf a sonir am dano perthynol i'r cyssegr oedd allor yr arogldarth yn sefyll yn nghanol y tŷ, yn agos i'r llen oedd yn gwahanu rhwng y lle sanctaidd a'r cyssegr sancteiddiolaf. Yr oedd yn bedrongl, yn gufydd ysgwâr ar ei ben, ac yn ddau gufydd o uchder. Yr oedd pedwar corn ar ben uchaf ei phedair congl, a choron, neu fath o ymyl-ddellten o waith cywrain, ar ei gwrr uchaf oddi amgylch. Arni y byddai yr offeiriaid oedd yn gweini ar gylch yn llosgi arogl-darth ddwywaith bob dydd pan fyddai y poeth-offrwm gwastadol yn cael ei losgi ar yr allor bres, sef oddeutu 9 o'r gloch y bore, a 3 o'r gloch y prydnawn. Yr oedd rhyw gyfran o waed yr aberth yn cael ei daenellu ar gyrn yr allor hon bob tro yr aberthid. Defnydd yr allor yn y tabernacl oedd coed Sittim* wedi ei wisgo âg aur; ond gwnawd yr allor yn y deml o goed cedr

* Y mae *Buxtorff* yn dywedyd mai cedrwydd o'r rhywogaeth oreu oedd y coed Sittim. Sittah y gelwid y pren yn y rhif unigol. *Esa.* 41. 19.

wedi ei wisgo âg aur. 1 *Bren.* 6. 22. *Exod.* 30. 1—10. 1 *Bren.* 7. 48. Yr oedd y gwaed ar bedwar corn yr allor hon, a'r arogl-darth peraidd yn arwyddo yr angenrheidrwydd o rinwedd gwaed Crist, ei eiriolaeth, a'i gyfryngdod, i drigolion pedwar cŵr y byd; ac o gyfeirio eu gweddiau at Dduw fore a hwyr, gan ddisgwyl am dderbyniad a chymmeradwyaeth trwy haeddiant Crist yn unig, yr hwn yw yr angel sydd yn offrymu arogl-darth lawer ar yr allor aur, gyda gweddïau y saint, (*Dat.* 8, 3, 4.) sef cyflawni, yn y nefoedd trwy ei eiriolaeth, sylwedd y gwasanaeth cysgodol yn y deml.

3. Wrth fyned o'r lle sanctaidd i'r cyssegr sancteiddiolaf, y peth cyntaf i'w ystyried yw y wahanlen, yr hon yn y tabernacl oedd yn crogi wrth fachau ym mhen uchaf pedair colofn o goed Sittim wedi eu gwisgo âg aur. Nid oes hanes wedi ei roddi o fesurau gwahanlen y deml, na dim arall perthynol iddi, ond ei defnydd, sef sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llïan main, a llun cerubiaid wedi eu gweithio, tybygid, trwy waith edau a nodwydd ynddi. 2 *Cron.* 3. 14. *Exod.* 26. 31—33. Cysgod o gorph Crist oedd y wahanlen, yr hon a rwygwyd yn ddau oddi fynu hyd i waered, pan ddioddefodd efe. *Mat.* 27. 51. Yr oedd hefyd yn arwyddo y gyfraith seremoniol, yr hon er ei bod fel llen yn cuddio y pethau ysprydol oedd oddi tani neu o'r tu ol iddi (*Can.* 2. 9.) oddiwrth yr Iuddewon anghrediniol, etto yr oedd rhai o honynt trwy ffydd yn gweled pethau gogoneddus yr efengyl trwyddi, fel y mae pawb hyd heddyw a oleuir gan y gair a'r Yspryd Glân. Yr oedd y llen ynghyd â'r canol-fur oedd o'r tu ol iddi yn gysgod hefyd o'r gyfraith seremoniol, fel yr oedd dros lawer oes yn gwahanu rhwng Iuddewon a Chenedloedd. *Eph.* 2. 14. Yr oedd drws y gafell neu y cyssegr sancteiddiolaf wedi ei wneuthur o goed olewydd a ffynnidwydd, hyny yw, tybygid, y capan a'r gorsingau o olewydd, a'r dorau plygedig o ffynnidwydd. Y mae dadl ynghylch maintioli drws y gafell anhawdd i'w phenderfynu. Y mae y drws yn profi fod mur rhwng y gafell a'r lle sanctaidd, a bernir ei fod yn gufydd o drwch. *Lightfoot.* Yr oedd y drws a'r canol-fur hwn wedi eu gwisgo âg aur, a'r un lluniau wedi eu cerfio arnynt ag ar barwydydd a nen y cyssegr. Yr oedd y gafell yn ugain cufydd bob ffordd; sef cymmaint arall a hwnw yn y tabernacl. Yr oedd ei lawr, ei barwydydd, a'i nen, wedi eu gwisgo âg aur, a'u haddurno â'r cyffelyb gerfiadau a ddarluniwyd eisoes yn y cyssegr. 1 *Bren.* 6. 31—35. Yn ochr gorllewinol y gafell yr oedd arch y dystiolaeth a'r cerubiaid. Yr oedd yr arch wedi ei gosod ar faen, yn ol tystiolaeth yr ysgrifenwyr Iuddewig. Yr un ydoedd yn nheml Solomon ag a wnawd gan Moses o goed Sittim, wedi ei gwisgo âg aur oddi mewn ac oddi allan. Math o gist oedd yr arch, fel y mae y gair *arca*, a *chest*, yn arwyddo, yn ddau gufydd a hanner ei hŷd, a chufydd a hanner ei lled, a chufydd a hanner ei huchder, a choron neu ymyl-ddellten gywrain o aur yn codi ychydig

uwch na'i chauad. Ym mhob pen y cauad, yr hwn a elwir y drugareddfa, yr oedd dau gerub o aur, y rhai oeddynt ynglyn wrth y drugareddfa, ac wedi eu bwrw a'u gweithio yn un dryll gyda hi. Yr oedd, tybygid, ddau bâr o adenydd i bob un o'r ddau gerub, dwy aden i bob un yn codi yn syth i fynu, a dwy yn estynedig y naill ar gyfer y llall yn y fath fodd ag i orchuddio y drugareddfa. Yr oedd gwynebau y cerubiaid at eu gilydd ac at y drugareddfa; i arwyddo cariad y llu angylaidd at eu gilydd, a'r ewyllys sydd ganddynt i dreiddio i mewn i ddirgelwch mawr duwioldeb, sef Duw wedi ymddangos yn y cnawd, a'r dibenion pwysfawr a gogoneddus o'i ymddangosiad. Yr oedd yr arch yn gysgod o Grist yn ei ddwy natur; y coed Sittim, pren caled heb lygru, o'i ddynoliaeth anllygredig, a'r aur o'i Dduwdod. Fel yr oedd y llechau a'r deng air deddf yn yr arch, felly yr oedd y gyfraith yn nghalon Crist. Heblaw y cerubiaid oedd ynglyn wrth y drugareddfa, gwnaeth Solomon ddau gerub un o bob tu yr arch, a phob un yn ddeg cufydd o uchder, o waith cywrain, ac a'u gwisgodd âg aur. Yr oedd eu hadenydd yn cyrhaedd at barwydydd y gafell o bob tu, ac yn cyfarfod â'u gilydd yn y canol, ac yn cysgodi y drugareddfa. Yr oedd yr holl gerubiaid ag oedd wedi eu darlunio yn y ddau gyssegr yn arwyddo gwasanaeth angylion tu ag at yr eglwys ar y ddaear, a'u haddoliad o Grist y Cyfryngwr yn y nef. Nid âi neb i'r cyssegr sancteiddiolaf ond yr arch-offeiriad, unwaith yn y flwyddyn, ar ŵyl y cymmod, i arogldarthu a thaenellu gwaed yr aberth â'i fys ar y drugareddfa. *Lef.* 16. 12—14. *Heb.* 9. 7. Cysgod oedd hyn o fynediad Crist i'r nefoedd fel pen ac arch-offeiriad mawr ei eglwys, lle y mae yn cyflawni sylwedd y defodau cysgodol hyny, trwy ddadleu gwerth ei waed, ac eiriol dros y troseddwyr. *Dat.* 8. 3, 4. Cysgodau o Grist a'r eglwys mewn gwahanol ystyr oedd y deml a'i pherthynasau; ond nid yw y byrdra yr wyf yn amcanu ato yn caniatau ymhelaethu yn bresennol ar y testunau hyfryd hyn.

Ar ol gorphen y deml yn yr 11eg flwyddyn i Solomon, yn y mis Bul, sef yr wythfed, oedwyd ei chyssegriad hyd ŵyl y pebyll, yn y flwyddyn ganlynol, tybygid, am achosion neillduol. Bernir fod Solomon yn ragweled mai oddeutu gŵyl y pebyll y genid Crist, ac y deuai i drigo yn nheml ei gnawdoliaeth. Edrych 1 *Bren.* 8. 27. *Ioan* 1. 14.

Mewn perthynas i'r darluniadau a roddwyd o rodfëydd a chynteddau y deml, y mae yr ysgrifenydd dan rwymau i gyfaddef nad ydynt yn gorphwys ar y fath dystiolaethau sicr a diammheuol ag yw y rhan hyny o'r darluniadau a ellir eu profi o'r gair dwyfol.——Ni chrybwyllwyd am rai pethau perthynol i'r deml rhag bod yn rhy faith.

Cynllun Bychan o Ddau Gyntedd Teml Solomon.



A. Porth Shushan, ar gyfer yr esgynfa fawr, i ba un yr esgynid ar hyd risiau o'r rhodfa lydan. B. Porth Solomon, sef pedair rhes o adeiladau ardderchog ym mhedair ystlys y pedrongl, o 800 cufydd, a'r rhanau tufewnol yn cael eu cynnal gan bedair rhes o golofnau, *Ioan* 10. 23. *Act.* 3. 11. C. Cyntedd y cenedloedd, sef rhodfa lydan, dan yr awyr, o'r tu fewn i borth Solomon, ac oddi amgylch y cyntedd nesaf i mewn. D. Porth prydferth y deml. E. Y cyntedd nesaf i mewn, wedi ei ranu yn saith o ranau, neu gynteddau i'r Offeiriaid a'r Lefiaid. EE. Cyntedd y gwragedd. EH. Cyntedd yr offeiriaid, ym mha un yr oedd y deml ac allor y poeth-offrwm. F. Y deml, sef y porth, y cyssegr, a'r cyssegr sancteiddiolaf. G. Allor y poeth-offrwm.——D. S. Bernir fod ystafelloedd yn yr holl adeiladau ag oedd yn nheml Solomon i 12,000 o Lefiaid ac offeiriaid.

Y PUMMED DOSPARTH.

Er pan orphennyd Teml Solomon, yn yr 11*eg flwyddyn o'i deyrnasiad, hyd oni losgwyd hi, ynghyd â Jerusalem, a chaethgludo yr Iuddewon i Babilon, gan Nebuchodonosor, yn yr* 11*eg flwyddyn o deyrnasiad Sedecïah, yr oedd* 421 *o flynyddoedd. Rhenir yr yspaid hwn yn dair rhan:* 1. *Er pan orphenwyd y Deml, hyd yr Ymraniad rhwng Judah ac Israel,* 29 *o flynyddoedd.*——2. *O'r Ymraniad hyd gaethgludiad* 10 *llwyth Israel, yn y* 6*ed flwyddyn i Hezeciah,* 259 *o flynyddoedd.*——3. *O hyny hyd Gaethgludiad y ddau lwyth,* 133 *o flynyddoedd.*

Neu, gellir cyfranu yr yspaid hwn yn wahanol fel hyn: 1. 31 *o flynyddoedd cr pan orphennyd y Deml, hyd oni osododd Jeroboam y ddau Lo Aur i fynu, yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, yr hyn yn neillduol oedd 'anwiredd tŷ Israel.'* Ezec. 4. 5.——2. *O hyny hyd ddinystr Jerusalem, a chaethgludiad Judah a gweddillion Israel,* 390 *o flynyddoedd.*

Y mae Esponwyr yn cytuno, tybygaf, yn lled gyffredin, mai 390 *o flynyddoedd a feddylir wrth gynnifer o ddyddiau, yn* Ezec. 4. 5. *a'u bod yn dechreu ac yn diweddu lle dynodwyd. Y mae y* 40 *niwrnod y gorweddodd y Prophwyd ar ei ystlys ddehau am 'anwiredd tŷ Judah,'* adn. 6. *yn dechreu, fel y bernir, yn y* 13*eg flwyddyn o deyrnasiad Josiah, ac yn diweddu yn ninystr Jerusalem, a chaethgludiad y ddau lwyth, yn yr un amser a'r* 390 *mlynedd. Er fod ereill* (Usher, Marshall, a Prideaux) *yn barnu fod y* 40 *mlynedd a arwyddoceir wrth y* 40 *niwrnod, yn diweddu* 4 *blynedd yn ddiweddarach, pan gaethgludwyd y* 745 *a sonir am danynt yn* Jer. 52. 30.

Yr wyf yn cael fy nhueddu i ddilyn Bedford *yn hyn, i osod diwedd y ddau yspaid hyn yn ninystr Jerusalem, am fod yr Amseryddiaeth a'r brophwydoliaeth trwy hyny mewn cysondeb â'u gilydd.* Chron. p. 596.

Dangosir amserau y Dosparth hwn yn y Daflen ganlynol, wrth flynyddoedd breninoedd Judah, am mai hwy a barhausant hyd eu diwedd.

Y Daflen 1. *o'r Pummed Dosparth.*

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Blynydd. Brenin. Judah.	Y flwyddyn olaf o deyrnasiad y breninoedd yn y Daflen, sydd yn cyfateb i flwyddyn o oed y byd, a chyn geni Crist.
3001	1008	1	Blwyddyn cyssegriad y deml, sef y 12fed i Solomon.
3029	980	28	Solomon a deyrnasodd wedi hyny 28 mlynedd. 2 *Cron.* 9. 30.
3046	963	17	Rehoboam a deyrnasodd 17 flynedd. 1 *Bren.* 14. 21.
3049	960	3	Abiam, mab Rehoboam, a deyrnasodd 3 blynedd. 1 *Bren.* 15. 2.
3089	920	40	Asa, mab Abiam, a deyrnasodd 41 mlynedd. 1 *Bren.* 15. 10. ond gan iddo glafychu o'i draed yn y 39 flwyddyn o'i deyrnasiad, a'i glefyd yn chwanegu (2 *Cron.* 16. 12.) dygodd ei fab i mewn i'r freniniaeth, yn y flwyddyn olaf o'i deyrnasiad. Felly nid ellir cyfrif ond 40 mlynedd i Asa. Gwel yr ail Daflen o'r Pummed Dosparth.
3110	899	21	Jehosaphat, mab Asa, a deyrnasodd 25 mlynedd, 1 *Bren.* 22. 42. ond gan iddo ddwyn ei fab Jehoram i ran o'r freniniaeth 4 blynedd cyn ei farwolaeth, nid ellir cyfrif iddo yn y Daflen hon, ond 21 mlynedd. Gwel yr ail Daflen o'r Pummed Dosparth.
3118	891	8	Jehoram, mab Jehosaphat a deyrnasodd 8 mlynedd. 2 *Bren.* 8. 17.
		0	Ahaziah, mab Jehoram, a deyrnasodd un flwyddyn, ond hòno oedd mewn rhan y flwyddyn olaf i'w dad Jehoram. Wrth edrych ar yr 2il Daflen o'r Pummed Dosparth, a'i chymharu âg 2 *Bren.* 8. 25. gwelir nad ellir rhoddi i lawr y flwyddyn a gyfrifir i Ahaziah yn y Daflen hon.
3124	885	6	Athaliah, gwraig Jehoram, mam Ahaziah, a merch Ahab, wedi lladd ei hŵyrion, plant Ahaziah, i gyd ond Joas, a deyrnasodd chwe blynedd. 2 *Cron.* 22. 12.
3161	848	37	Joas, mab Ahaziah, a deyrnasodd 40 mlynedd, 2 *Bren.* 12. 1. ond yn ei 38 flwyddyn, cymmerodd ei fab Amaziah i ran o'i freniniaeth (2 *Bren.* 13. 10. wedi ei chymharu âg 2 *Bren.* 14. 1.) pan oedd Hazael brenin Syria yn cyrchu yn erbyn Judah. 2 *Bren.* 12. 17, 18. 2 *Cron.* 24. 23, 24, 25.
3190	819	29	Amasiah, mab Joas, a deyrnasodd 29 mlynedd. 2 *Bren.* 14. 1, 2.
3201	808	11	Ymddengys wrth gymharu 2 *Bren.* 14. 23. gyda 2 *Bren.* 15. 1, 2. fod teyrnas Judah dan oruchwylwr 11eg mlynedd, gan nad oedd Azariah mab Amasiah ond 5 mlwydd oed pan laddwyd ei dad. Gwel yr 2il Daflen o'r Dosparth hwn.
		201	

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Blynydd. Brenin. Judah.	
		201	
3253	756	52	Azariah, yr hwn hefyd a elwir Uzziah, yn cael ei wneuthur yn frenin, yn 16 mlwydd oed, ac yn teyrnasu 52 mlynedd. 2 *Bren.* 15. 1.
3268	741	15	Jotham a deyrnasodd 16 mlynedd, 2 *Bren.* 15. 33. ond yn ei flwyddyn olaf, gellir casglu iddo gymmeryd ei fab Ahaz i'r freniniaeth, pan oedd Resin a Phecah yn parotôi i ddyfod yn erbyn Judah. 2 *Bren.* 15. 37.
3282	727	14	Ahaz, mab Jotham, a deyrnasodd 16 mlynedd, 2 *Bren.* 16. 2. ond yn ei 15fed flwyddyn, cymmerodd ei fab Hezeciah i ran o'i freniniaeth. 2 *Bren.* 17. 1. a 18. 2.
3311	698	29	Hezeciah a deyrnasodd 29 mlynedd. 2 *Bren.* 18. 2.
3366	643	55	Manasseh, mab Hezeciah, a deyrnasodd 55 mlynedd. 2 *Bren.* 21. 1.
3368	641	2	Amon, mab Manasseh, a deyrnasodd 2 flynedd. 2 *Bren.* 21. 19.
3399	610	31	Josiah, mab Amon, a deyrnasodd 31 mlynedd. 2 *Bren.* 22. 1.
		0	Joachaz, mab Josiah, a deyrnasodd dri mis. 2 *Bren.* 23. 31.
3410	599	11	Joacim, mab Josiah, a deyrnasodd 11 mlynedd. 2 *Bren.* 23. 36.
		0	Joachin, mab Joacim, a deyrnasodd dri mis. 2 *Bren.* 24. 8.
3421	588	11	Sedeciah, mab ieuengaf Josiah, a deyrnasodd 11 mlynedd, 2 *Bren.* 24. 17, 18. ac a gaethgludwyd i Babilon.
		421	

D. S. Y mae yr ail Daflen o'r Dosparth hwn yn eglurhau pa bethau bynag sydd yn anhawdd i'w deall ar y golwg cyntaf yn hwn.

PENNOD I.

Yr Ymraniad rhwng Israel a Judah.

Gellir olrhain yr achosion o'r rhwyg anfad a gymmerodd le yn y flwyddyn gyntaf i Rehoboam mab Solomon, mor belled a 80 mlynedd yn ol, cyn iddo ddigwydd, sef dechreuad teyrnasiad Dafydd, yn Hebron, ar lwyth Judah, a theyrnasiad Isboseth, mab Saul, ar y llwythau ereill, yn Mahanaim, yn Gilead. 2 *Sam.* 5. 5. a 2. 8, 9. Y pryd hyny y dechreuodd y cenfigen a'r elyniaeth yn Israel yn erbyn Judah; ac ymddangosodd ar amrywiol achlysuron wedi hyny, megys yn amser gwrthryfel Absalom, a Seba mab Bichri, ac yn amserau olaf Solomon. Gwel 2 *Sam.* 19. 41, 42, 43. 1 *Bren.* 11. 26—40.

II. Y llonyddwch a'r llwyddiant, ynghyd â'r cyfoeth a'r amldra o bob moethau a ddylifasant i'r wlad yn amser Solomon, a barasant i gnwd o chwyn niweidiol i'w gorchuddio, a'r gwaethaf o honynt oedd eilun-addoliaeth. Gan fod Solomon ei hun wedi myned ar ol eilunod, 1 *Bren.* 11. 4—8. a phriodi llawer o wragedd dieithr, nid oes le i ammeu, na ddarfu i lawer o'i ddeiliaid ddilyn ei siampl yn y pethau hyn; ond ychydig, y mae lle i ofni, yn ei edifeirwch. Yr oedd y wlad wedi addfedu i'r farn a ddaeth arni, ac o hyny y rhybuddiwyd Solomon cyn ei farw, gan un o brophwydi yr Arglwydd, fe allai, Ahiah y Siloniad. Ond oedwyd y farn hyd ddechreuad teyrnasiad Rehoboam ei fab, 1 *Bren.* 11. 9—13. lle y dywedir mai un llwyth a gai mab Solomon, sef dim ond un llwyth cyfan, sef Judah; etto y mae yn eglur oddiwrth fanau ereill o'r gair fod Benjamin, gan mwyaf, wedi glynu wrth deulu Dafydd; 2 *Cron.* 15. 2, 8. a 25. 5, &c. etto nid Benjamin yn gyfan, onidê ni fuasai y prophwyd yn dywedyd, 'Un llwyth fydd iddo ef.' 1 *Bren.* 11. 32. Heblaw hyny, cafodd Rehoboam y rhan fwyaf o lwyth Simeon, gan fod ei randir ef o fewn rhandir llwyth Judah—a rhan o Dan, sef Sorah, Ajalon, a Gath, (*Jos.* 19. 41—45.) tair o'r 15 dinas a gadarnhaodd efe yn amser y rhwyg. 2 *Cron.* 11. 5—10. Heblaw yr holl offeiriaid a'r Lefiaid, a gyrchasant ato o'u holl ddinasoedd a'u meusydd pentrefol. 2 *Cron.* 11. 13, 14.

III. Y deg rhan a gafodd Jeroboam mab Nebat (1 *Bren.* 11. 31.) a wnaethant i fynu deyrnas Israel, oedd y ddau lwyth a hanner tu hwnt i'r Iorddonen, a hanner llwyth Manasseh, o'r tu arall i'r afon, yr hyn a wna bedair rhan; Aser, Zabulon, Naphtali, Issachar, ac Ephraim, sef pum rhan. A'r ddegfed oedd rhan o lwyth Dan, a rhan o lwyth Benjamin. Yr oedd Bethel lle gosododd Jeroboam un o'r lloi yn Benjamin. *Jos.* 18. 22.

IV. Bu y ddwy deyrnas hyn yn fflangell drom y naill i'r llall mewn amrywiol amserau, fel y mae yn digwydd yn gyffredin ym mhob rhwyg gwladol ac eglwysig. Ond anfoddlonrwydd yr Arglwydd a amlygwyd yn fwyaf neillduol yn erbyn teyrnas Israel mewn llawer o ryfeloedd gwaedlyd, a barnedigaethau trymion ar ei breninoedd a'r wladwriaeth, hyd oni ddarfu i'r wlad megys chwydu ei thrigolion, yn ol prophwydoliaethau Moses, ac amryw o'r prophwydi.

PENNOD II.

Pechod Israel. 1 Bren. 15. 26, &c.

Pechod Israel yn fwyaf neillduol oedd ymadawiad âg addoliad yr Arglwydd yn Jerusalem, ac eilun-addoliaeth y lloi aur. Y rhai hyn oedd pechodau Jeroboam, mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu, y rhai a ddilynodd holl freninoedd Israel, tra bu y lloi aur ganddynt.—Fel y dealler yr achlysur a gafodd Israel i gydsynio âg eilun-addoliaeth

y lloi aur, dylid ystyried yr amgylchiadau a arweiniasant iddo.—Yr oedd Jeroboam unwaith mewn cymmeradwyaeth gyda Solomon, ac a wnaed yn oruchwyliwr ar holl faich tŷ Joseph, sef llwythau Ephraim a Manasseh, hyny yw, tybygid, yn un o'r deuddeg tywysog ar bedair mil ar hugain, ag oedd i wasanaethu y brenin yn Jerusalem, pob un gyd â'i ddosparthiad, am fis ar gylch. 1 *Cron.* 27. 1—15. Yr oedd pechodau Solomon a'i bobl wedi bod yn achos i'r Arglwydd godi dau wrthwynebwr iddo yn ei ddyddiau diweddaf, sef Hadad yr Edomiad, a Rezon mab Eliadah; a'r olaf y pryd hyn wedi traws-feddiannu Damascus, a dechreu teyrnasu yno. Gan fod y gelynion estronol hyn yn bwgwth Solomon, un ym mhob pen i'w deyrnas, ac yntau heb wybod pa faint yn ychwaneg a allai gyfodi yn ei erbyn o barthau ereill, meddyliodd fod yn bryd i barotôi erbyn y gwaethaf, ac i gadarnhau Jerusalem rhag rhuthr disymmwth. Am hyny yr adeiladodd, neu yr adgyweiriodd Milo, amddiffynfa, neu fath o gastell, yn ninas Dafydd, ac a gadarnhaodd ddinas Dafydd, lle yr oedd yn angenrheidiol. Yr oedd hir heddwch wedi gwneuthur i Solomon esgeuluso amddiffynfëydd ei deyrnas. Digwyddodd i Jeroboam mab Nebat ddyfod gyd â'i ddosparthiad at y gorchwyl hwn i Jerusalem; a chan fod y gwasanaeth, tybygid, yn ymddangos iddo ef yn galed, yn orthrwm, ac, fe allai, yn afreidiol, magodd hyn ynddo feddyliau bradwriaethus yn erbyn y brenin, y rhai a dòrodd allan mewn geiriau, os nid mewn gweithredoedd gwrthryfelgar yn ei erbyn. Pan ddaeth y pethau hyn i glustiau Solomon, ynghyd â gweithred a phrophwydoliaeth Ahiah y Siloniad, ceisiodd Jeroboam i'w ladd, yr hyn a barodd iddo ffoi i'r Aipht, lle bu hyd farwolaeth Solomon. 1 *Bren.* 11. 14—40.

Yr oedd teulu arall, gwahanol oddiwrth hwnw â pha un yr ymgyfathrachodd Solomon, wedi meddiannu y freniniaeth yn yr Aipht, oddeutu y flwyddyn ym mha un y gorphenwyd y deml. Semendis oedd enw y brenin a gafodd yr orsedd y pryd hyny, yr hwn a fu farw oddeutu blwyddyn o flaen Solomon. Ei fab Sisac a deyrnasodd yn ei le yn y flwyddyn olaf i Solomon. Gan fod Sisac, fel ei dad, yn elynol i deulu tad yn nghyfraith Solomon yn yr Aipht, yr oedd, o ganlyniad, yn elynol i Solomon, ac i'w fab Rehoboam; ac am hyny yr oedd yn rhoddi derbyniad croesawus i Hadad yr Edomiad, a Jeroboam mab Nebat, yr hwn ni fu yn hir yn yr Aipht cyn cael gwahoddiad gan y blaid ag oedd, y mae yn debygol, yn gyfrin o'i fradwriaeth, i ddyfod adref i'r diben o gwtogi awdurdod freninol Rehoboam, mewn ymddangosiad; ond mewn gwirionedd i draws-feddiannu deg rhan o ddeuddeg o'r deyrnas. Rehoboam hefyd yn gwybod, tybygid, am y cynghrair a luniwyd i'w erbyn, a aethai i Sichem yn llwyth Ephraim, i gael ei urddo yn frenin yno, ac er mwyn attal y gwrthryfel ag oedd yn barod i dòri allan yno, megys o lygad y ffynon. Ond nid oedd y cyfryw ddoethineb ganddo ag oedd yn

angenrheidiol mewn amgylchiadau mor ddyrys, gan hyny wedi llabyddio Adoram, yr hwn oedd ar y dreth, gorfu i Rehoboam brysuro i fyned i'w gerbyd i ffoi i Jerusalem, onidê, yntau hefyd a laddesid, pe buasai yn aros yn hŵy. Wedi hyny Jeroboam a wnaed yn frenin yn Sichem yn ddioed, tybygid, ar ol ffŏedigaeth Rehoboam. 1 *Bren.* 12. 1—20. *Bedford's Chron. p.* 609. *& Usher's Annals.* 1. *p.* 58.

Ond er fod Jeroboam yn frenin, yr oedd llawer o anhawsderau yn perthyn i'w sefyllfa newydd, y rhai, gan mwyaf, oedd yn tarddu oddiwrth y grefydd sefydledig.—1. Pe buasai yn myned yn ol cyfraith Moses i ymddangos ger bron yr Arglwydd yn Jerusalem, yr oedd yn gweled fod ei fywyd mewn perygl, megys gwrthryfelwr.—2. Pe buasai yn aros gartref ei hun, ac yn gadael i'w ddeiliaid i fyned yno, yr oedd yn ofni y buasent yn cael eu hennill yn ol at deulu Dafydd. 2 *Bren.* 12. 26, 27. Gan hyny, ymgynghorodd, ond nid â'r Arglwydd, ac a luniodd grefydd newydd, cynddelw pa un a welsai ac a ddysgasai yn amser ei ffŏedigaeth yn yr Aipht. Yr oedd yr Aiphtiaid, er's llawer o oesoedd, yn arferol o addoli dau ŷch byw; un a alwyd Apis, yr hwn oedd yn Memphis, pen dinas yr Aipht uchaf, a'r llall a elwid Mnefis, yn Hierapolis, neu On, yn yr Aipht isaf. Pan fyddai y rhai hyn feirw, yr oeddent yn ceisio ereill o'r un nodau yn eu lle. Ond yn lle yr ychain byw, gwnaeth Jeroboam ddau lo aur, i ddynwared ychain cyssegredig yr Aipht, ac fel y byddent yn fwy cymmeradwy gan y bobl, arferodd eiriau Aaron wrth eu cyssegru (*Exod.* 32. 4.) 'Wele dy dduwiau di, O Israel, y rhai a'th ddug di i fynu o wlad yr Aipht.' Fel pe buasai yn dywedyd, 'Y mae genym siampl Aaron, yr arch-offeiriad cyntaf o'n cenedl, yr hwn, mewn pethau crefyddol, oedd yn debygol o wybod yn well na Moses.' Ac ym mhlith amryw o resymau ereill ag oedd yn barod ganddo, dywedodd mai gormod blinder a gorthrymder oedd iddynt gyrchu deir-gwaith yn y flwyddyn i Jerusalem, o gyrau eithaf y wlad; gan hyny, er mwyn gwneuthur ei grefydd newydd mor esmwyth ag allai i'w ddeiliaid, rhoddodd un o'r lloi yn Dan, yn ngogledd-dir gwlad Canaan, yn nghŵr uchaf llwyth Naphtali, a'r llall yn Bethel, yn llwyth Benjamin. Newidiodd drefn pob peth mewn crefydd, ynghyd âg amserau rhai o'r gwyliau gosodedig, ac yn lle yr offeiriaid a'r Lefiaid, arogl-darthodd ei hunan, ac a wnaeth offeiriaid o wehilion y bobl, y rhai nid oeddent o feibion Lefi. Traws-feddiannodd iddo ei hun holl feddiannau yr offeiriaid a'r Lefiaid, ac a'u gwerthodd, neu a'u rhoddodd, i esmwythâu ar ei ddeiliaid o ran y trethau, er mwyn cadarnhau ei hun yn ei orsedd, fel y mae yn debygol. 1 *Bren.* 12. 28, 29. Gellir gweled yn eglur, mai teyrn-ystryw (*state policy*) a dibenion bydol a hunanol, oedd yr achos o sefydlu a chynnal i fynu yr eilun-addoliaeth hwn yn neg llwyth Israel tra parhaodd: canys aeth y lloi i gaethiwed o flaen eu haddolwyr; hwnw yn Dan a gymmerwyd ymaith gan Tiglath-pileser, oddeutu dechreuad

teyrnasiad Ahaz, pan ddaeth yn erbyn Resin brenin Syria, a Phecah brenin Israel. 2 *Bren.* 15. 29. Ac yn y 14eg flwyddyn i Ahaz, dygodd Salmaneser y llall ag oedd yn Bethel, oddeutu saith mlynedd cyn caethgludo trigolion Samaria, a'r gweddillion a gafwyd o'r deg llwyth. (*Hos.* 10. 5, 6. 2 *Bren.* 17. 3. *Prideaux's Conn. pt.* 1*st. p.* 14. *referring to Seder Olam Rabba.)* Felly, ar ol symud yr eilunod, aeth llawer o'r deg llwyth i gadw y gwyliau yn Jerusalem, ac a wnaethant gryn lawer o ddiwygiad mewn pethau crefyddol; canys pan ddaeth cenadon Hezeciah i wahodd y llwythau ag oedd y pryd hyny dan lywodraeth Hosea, brenin Israel, i gadw y pasc yn Jerusalem, yn yr ail flwyddyn i Hezeciah, llawer a ufuddhasant, ac ar eu dychweliad i'w cartrefi, hwy a ddrylliasant y delwau, y llwyni, yr uchelfëydd, a'r allorau, pa le bynag y cawsant. Ac nid yw yn ymddangos fod y brenin Hosea wedi ceisio eu rhwystro. (2 *Cron.* 30. 1, 11, 18. a 31. 1.) Am hyny, mae gwell gair i Hosea, nag i un o freninoedd Israel a fuasai o'i flaen. 2 *Bren.* 17. 2. Ceir byr hanes o'r rhan fwyaf o weithredoedd breninoedd Israel a Judah, yn ol trefn amser, ac mewn cysondeb â'r Ysgrythyrau, yn yr ail Daflen o'r Pummed Dosparth; gan hyny, ni chwanegir at y bennod hon.

PENNOD III.

Assyria, a'i Breninoedd.

Gan mai tua diwedd amseroedd y Pummed Dosparth, y mae mynych sôn yn yr hanesion ysgrythyrol am freninoedd Assyria, rhoddir yn y bennod hon ychydig hanes am y wlad, a'i breninoedd.——Assyria, yn yr ystyr priodol, a derfynwyd o du y dwyrain, gan Media; o du y gorllewin, gan Mesopotamia, neu Aram-naharaim, oddiwrth ba un y gwahanwyd gan yr afon Tigris, neu Hidecel; o du y dehau, gan Susiana; ac o du y gogledd, gan ran o Armenia fwyaf, a elwir yn bresennol Turcomania. Y wlad a gafodd ei henw oddiwrth Assur mab Sem. Ond pan ddarfu i freninoedd y wlad hon helaethu eu terfynau i'r dwyrain ac i'r gorllewin, yr oedd llawer yn ychwaneg o wledydd ëang yn cael eu cynnwys dan yr enw Assyria. *Heylin's Geog.*

Ninifeh oedd pen dinas Assyria (*Seph.* 2. 13.) ar fin yr afon Tigris, o du y dwyrain, ar gyfer y fan lle yr adeiladwyd Mosul wedi hyny, ar yr ochr arall i'r afon. Adeiladwyd hi gan Assur, ynghyd â'r dinasoedd ereill a enwir, *Gen.* 10. 11, 12. pan giliodd efe dros yr afon Tigris, oddiar ffordd y gormeswr Nimrod; er fod ereill, ar sail annigonol, tybygid, yn priodoli y gwaith hwnw i Nimrod. Yr oedd Ninifeh yn ddiuas fawr, o 480 o ystadau oddi amgylch, ynghylch 60 milltir, neu daith tri diwrnod. *Jonah* 3. 3. Nid oedd yn bedrongl union, gan ei bod yn hŵy un ffordd na'r llall, ac o herwydd hyny yn cynnwys llai o dir o

fewn y gwàliau na Babilon, yr hon oedd 60 milltir oddi amgylch, ac yn bedrongl union. *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 48.

Y mae cryn lawer o wahaniaeth rhwng yr haneswyr Paganaidd a'u gilydd yn yr hanes y maent yn ei roddi am freninoedd Assyria a'u gweithredoedd. Y mae yr hyn a ganlyn yn grynodeb byr o'r hanesion a roddir am y deyrnas hòno gan *Bedford* a *Prideaux*, y rhai sydd wedi rhoddi cymmaint o'r hanesion Paganaidd ac Iuddewig ag sydd heb fod yn anghytunol, neu ynte yn gytunol, â'r Ysgrythyrau.

Y mae haneswyr yn cytuno yn unfryd fod breninoedd Assyria, ar ol eu buddugoliaethau a'u llwyddiant dechreuol, wedi gorphwys heb helaethu eu terfynau, na gwneuthur dim a dalai ei adrodd, dros lawer o oesoedd. Yr Ysgrythyrau Sanctaidd sydd yn rhoddi yr unig hanes credadwy am y breniniaethau cyntaf yn y cyn-oesoedd. Y mae yr hanesion ysgrythyrol am danynt, y mae yn rhaid cyfaddef, yn fyr, am nad ydynt, gan mwyaf, yn adrodd ond y rhan hyny o'u gweithredoedd ag oedd yn berthynol i helynt gwlad Canaan, a phobl briodol yr Arglwydd oedd ynddi.

O amser Abraham, pan ennillodd efe fuddugoliaeth ar y pedwar brenin, *Gen.* xiv. yn y flwyddyn o oed y byd 2092 (o ba rai, bernir fod Tidal yn frenin Assyria) hyd amser Pul brenin Assyria, yr hwn a ddaeth yn erbyn teyrnas Israel, yn nechreuad teyrnasiad Menahem, a'r 39 o deyrnasiad Uzziah, yn y flwyddyn o oed y byd 3240, yr oedd 1148 o flynyddoedd; ym mha yspaid nid oes dim hanes yn yr Ysgrythyrau, neu hanesion credadwy ereill, am weithredoedd breninoedd Assyria. Yr ydys yn barnu mai Pul (neu ei ragflaenor) oedd y brenin a edifarhaodd wrth bregeth Jonah, oddeutu y flwyddyn cyn geni Crist 787. Prophwydoliaeth Jonah oedd, 'Deugain niwrnod fydd etto, a Ninifeh a gwympir;' *Jonah* 3. 4. yr hon, er na chyflawnwyd ym mhen deugain niwrnod, yn ol disgwyliad Jonah, etto cafodd gyflawniad ym mhen deugain mlynedd, yn y flwyddyn olaf o Sardan Pul, ei fab, yr hwn a elwir Sardanapulus. Y mae yn debygol fod rhyw ddrwg yn barod i dòri allan ym mhen deugain niwrnod, a fuasai er dinystr i Ninifeh, oni buasai iddi ymostwng ac edifarhau. Oddeutu 19 blynedd wedi bod Jonah yn Ninifeh, y daeth Pul yn erbyn teyrnas Israel, yn y flwyddyn gyntaf i Menahem, yr hwn a roddodd iddo fil o dalentau arian er mwyn cael ei sicrhau yn y freniniaeth. 2 *Bren.* 15. 19, 20. Y pryd hyn y caethgludwyd rhai o'r ddau lwyth a hanner gan Pul i Assyria; ond nid y cwbl, gan i Tiglath-pileser gaethgludo rhai o drigolion Gilead, oddeutu 28 mlynedd wedi hyny, yn yr 20fed flwyddyn i Pecah fab Remaliah. 1 *Cron.* 5. 26. 2 *Bren.* 15. 29. Dywedir i Pul farw yn y flwyddyn ganlynol wedi dychwelyd o wlad Israel, ac i'w fab Sardanapulus deyrnasu yn ei le dros 20 mlynedd, yn niwedd pa rai y cyflawnwyd prophwydoliaeth Jonah. Gwel 2il Daflen y Pummed Dosparth, ar gyfer oed y

byd 3222, a 3262. Yr amgylchiadau a arweiniodd i gwymp Ninifeh a dadymchweliad breniniaeth gyntaf Assyria oedd fel y canlyn. Y mae yr holl haneswyr yn unfryd yn dywedyd fod Sardanapulus wedi myned tu hwnt i'w holl ragflaenwyr mewn syrthni, a moethau, ac ymddygiad mursenaidd ac anwraidd. Hyn a roddes achlysur i ddau o lywodraethwyr y taleithiau i gyd-fwriadu i wrthryfela yn ei erbyn; ac, os llwyddent, i ranu yr Ymerodraeth rhyngddynt. Y ddau hyn oedd Arbaces, rhaglaw Media, yr hwn yn yr ysgrythyrau a elwir Tiglath-pileser, neu Pilneser, a Belesis, rhaglaw Babilon, yr hwn oedd Baladan, tad Merodach-Baladan. 2 *Bren.* 20. 12. Sardanapulus, wedi deall am y cynghrair ag oedd wedi ei lunio yn ei erbyn, a ymysgydwodd o'i syrthni, ac a ennillodd dair buddugoliaeth fawr ar ei elynion; yr hyn a barodd y fath ddigalondid ym myddinoedd y gwrthryfelwyr fel ag yr oeddynt yn barod i ymwasgaru, ac i ddychwelyd adref. Yr oedd Belesis, trwy seryddiaeth, yn cymmeryd arno rag-ddywedyd pethau i ddyfod: a phan oedd y fyddin ar ymwahanu oddiwrth eu gilydd, efe a ddywedodd, os arosent ond pum niwrnod yn ychwaneg, fod y duwiau wedi addaw cyfnewidiad er gwell. Yn y cyfamser, daeth y gair fod cynnorthwyon lïosog yn dyfod o Bactria i uno â byddin Sardanapulus, yr hyn a chwanegodd yr anfoddlonrwydd ym myddin y gwrthryfelwyr. Yn yr amgylchiadau cyfyng hyn aeth Arbaces â byddin yn erbyn y Bactriaid; ond yn lle ymladd, efe a lwyddodd tu hwnt i'w ddisgwyliad i gael ganddynt ymuno à'i blaid ef; a phan ddeallodd fod byddin y brenin yn gloddesta mewn glythineb a meddwdod am eu llwyddiant diweddar, efe a ymosododd yn ddisymmwth ar eu gwersyll yn y nos, ac wedi lladd y rhan fwyaf, efe a yrodd y gweddill i mewn i'r ddinas. Ar hyn pallodd gwroldeb Sardanapulus; gan hyny, rhoddodd y fyddin dan arweiniad ei frawd y'nghyfraith Salamenus, ac a gymmerodd arno ei hun i amddiffyn y ddinas. Ar ol hyn ennillodd Arbaces ddwy frwydr, un yn y maes, ac un arall o flaen muriau y ddinas. Yn yr olaf, lladdwyd Salamenus, a'r rhan fwyaf o'i fyddin a laddwyd, neu a foddwyd yn yr afon Tigris, yr hon a gochwyd gan eu gwaed, fel y dywedir, dros yspaid hir.

Y brenin, wedi ei guro o'r maes, a barotôdd i amddiffyn ei hun yn y ddinas, ac yn hyn yr oedd yn fwy hyderus, gan fod hen ddaroganau wedi rhag-ddywedyd na chymmerid Ninifeh trwy orthrech, hyd oni thröai yr afon yn elyn iddi; ac o hyn nid oedd yn gweled dim tebygolrwydd, gan fod caerau o 100 troedfedd o uchder o'i hamgylch, a digon llydain o drwch i dri cherbyd fyned ochr yn ochr ar hyd-ddynt; a digon o bob angenrheidiau o'i mewn i ddioddef hir warchae, hyd oni ddeuai y cynnorthwyon a anfonasai am danynt o'r taleithiau. Parhaodd y gwarchae ddwy flynedd heb ddim ymwared i'r ddinas, ac heb ddim golwg gan y gwrthryfelwyr o lwyddiant yn ei herbyn. Yn y drydedd flwyddyn, trwy hir wlawogydd, chwyddodd yr afon Tigris i'r fath radd ag i dynu i lawr

20 ystad o fur y ddinas ar ymyl yr afon. Ar hyn, Sardanapulus, gan farnu fod y daroganau wedi cael eu cyflawni, a anobeithiodd i allu amddiffyn y ddinas; ac fel na syrthiai i ddwylaw ei elynion, gwnaeth grug mawr o goed yn nghyntedd ei balas, ac yn ei ganol ystafell, i ba un wedi dwyn ei holl drysorau o aur, arian, a gwisgoedd, ynghyd â'i eunuchiaid a'i ordderchadon, rhoddes orchymyn i roddi y pentwr ar dân, ac felly y llosgwyd ef a'r rhai oedd gyd âg ef. Wedi hyny aeth Arbaces a'i fyddin trwy yr adwy a wnaeth yr afon, ac a gymmerodd y ddinas. Y pryd hyn y cwympodd Ninifeh y tro cyntaf, a hen freniniaeth Assyria, wedi parhau dros 1300 o flynyddoedd—deugain mlynedd wedi i Jonah brophwydo yn ei herbyn, yn y flwyddyn o oed y byd 3262, cyn geni Crist 747, a'r 9fed flwyddyn o deyrnasiad Jotham,* a saith mlynedd wedi dechreu adeiladu Rhufain.

Rhanasant yr Ymerodraeth yn ol y cytundeb. Cafodd Belesis Babilon, Caldea, ac Arabia; ac Arbaces a gafodd Ninifeh, Assyria, Media, a thaleithiau ereill ag oedd yn perthyn i'r freniniaeth. Parhaodd breniniaeth Assyria fel hyn yn ddwy ran dros 67 mlynedd, pan aeth y cwbl yn unbenaeth drachefn dan Esarhadon ar ol iddo deyrnasu yn Ninifeh 26 blynedd, ac a barhaodd felly dros oddeutu 54 blynedd, hyd oni ddarfu i Nabopolasar wrthryfela yn erbyn Chyniladanus, a thrawsfeddiannu Babilon iddo ei hun. Ym mhen 13 blynedd wedi hyny, y cymmerwyd ac y llwyr ddinystriwyd Ninifeh gan y Mediaid a'r Babiloniaid. Trwy hyny yr unwyd Assyria â Babilon, gan mwyaf, yn unbenaeth drachefn, yr hon a barhaodd 73 blynedd, hyd oni chymmerwyd Babilon gan y Mediaid a'r Persiaid, dan arweiniaid Cyrus. Dangosir y pethau hyn yn y pennodau canlynol.†

PENNOD IV.

Arbaces, a Breninoedd Assyria o'i Hiliogaeth ef.

Arbaces, neu Tiglath-pileser, neu Pilneser, wedi darostwng Ninifeh yn y modd yr adroddwyd, a deyrnasodd yno ar y rhan a gafodd o Ymerodraeth Assyria 19 blynedd. Yn yr 8fed flwyddyn o'i deyrnasiad, danfonodd Ahaz, brenin Judah, genadau ato yn y 3edd flwyddyn gyd âg anrheg o aur ac arian o'r deml, ac o'i drysorau ei hun, gan ddeisyf

---

* Y mae *Prideaux*, yn ei Daflenau Amseryddol, yn rhoddi y flwyddyn cyn geni Crist 747, ar gyfer y 12fed i Jotham, ond yn y Daflen ganlynol y mae y flwyddyn hòno o angenrheidrwydd ar gyfer y 9fed i Jonathan.

† Cymmerwyd yr hanes rhagflaeuol am Sardanapulus, a chwymp cyntaf Ninifeh, o waith *Bedford Script. Chron. p.* 662. yr hwn sydd yn cyfeirio at *Athenæus Deipnosophista*, Hanesydd Groegaidd.—Yr hyn a ganlyn a gymmerwyd o waith *Prideaux's Connect. p.* 1st.

arno ddyfod i'w gynnorthwyo yn erbyn Resin, brenin Syria, a Phecah, mab Remaliah, brenin Israel, y rhai oedd wedi dwyn teyrnas Judah bron i'r gradd isaf o ddarostyngiad. 2 *Cron.* 28. 1—16. 2 *Bren.* 16. 5—7.

Gwrandawodd Tiglath-pileser ar Ahaz, ac a ddaeth, nid cymmaint er mwyn ei gynnorthwyo, ag i chwanegu Syria a Phalestina at ei freniniaeth. Wedi ennill Damascus, a lladd Resin, caethgludodd y trigolion i Cir, neu Media. Felly y rhoddwyd terfyn ar deyrnas Syria, yr hon oedd wedi parhau dros ddeg o genedlaethau er pan sylfaenwyd hi gan Rezon, mab Eliadah, yn amserau olaf Solomon.

Wedi hyny, daeth yn erbyn teyrnas Pecah, ac a'i hanrheithiodd, ac a gaethgludodd lawer o drigolion Galilea, a gwlad Gilead, tu hwnt i'r Iorddonen, i Assyria, ynghyd â'r llo aur ag oedd yn Dan.* 2 *Bren.* 15. 29. 1 *Cron.* 5. 26. *Esa.* 9. 1. Y pryd hyn y daeth teyrnas Judah gyntaf dan deyrnged i freninoedd Assyria.

II. Yn y 14eg flwyddyn i Ahas, y bu farw Tiglath-pileser, a'i fab Salmaneser a deyrnasodd yn ei le. Gelwir ef dan yr enw Enemesser, *Tobit* 1. 2. a Salman, *Hos.* 10. 14. Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, daeth yn erbyn Samaria, yn y 4edd flwyddyn i Hosea, mab Elah, brenin Israel, yr hwn, y mae yn debygol, oedd heb anfon ei deyrnged a'i anrhegion, fel cynt. Ac y mae yn anhawdd deall paham yr oedd ar fedr taflu iau brenin Assyria, os nad oedd yn disgwyl cael ei gynnorthwyo gan Sabacon, neu So, brenin yr Aipht, ag oedd y pryd hyn wedi dechreu teyrnasu yn y wlad hono. Pa fodd bynag, cafodd Hosea, ar ei ymostyngiad, ac ar ol talu y deyrnged ag oedd ddyledus, ac anrhegion ychwanegol at hyny, ganiatad i deyrnasu yn Samaria. 2 *Bren.* 17. 3.

Oddeutu dwy flynedd wedi hyny, y gwnaeth Hosea gynghrair â So, brenin yr Aipht, ac a wrthryfelodd yn erbyn brenin Assyria, yr hyn a ddygodd Salmaneser yn ei erbyn, yn y 4edd flwyddyn i Hezeciah. Ar ol rhoddi gwarchae ar Samaria dros dair blynedd, cymmerodd y ddinas, ac a gaethgludodd drigolion y wlad i Assyria; yr hyn a roddes derfyn ar deyrnas y deg llwyth yn niwedd y 6ed flwyddyn i Hezeciah. 2 *Bren.* 17. 4—6. a 18. 9—11. Y pryd hyn y gofynodd Salmaneser am y deyrnged ag oedd ddyledus oddiar Hezeciah, yn ol cytundeb ei dad Ahaz â Thiglath-pileser; ond ni wrandawodd Hezeciah arno, am ei fod yn ymddiried yn ei Dduw. 2 *Bren.* 18. 7. Buasai hyn yn debygol o ddwyn holl gadernid Salmaneser yn ei erbyn, oni buasai fod ganddo ryfel arall mewn llaw yn erbyn y Tyriaid.—Yr amgylchiadau a arweiniodd i'r rhyfel hwn oedd hyn: Elulæus, brenin Tyrus, yn gweled fod y Philistiaid wedi cael eu gwanhau trwy y rhyfel a wnaethai Hezeciah arnynt, (2 *Bren.* 18. 8.) a ddygodd Gath drachefn dan ei awdurdod,

---

* *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 141, referring to *Seder Olam Rabba.*

yr hon a wrthryfelasai yn ei erbyn. Hyn a barodd i drigolion Gath gyrchu at Salmaneser i ofyn ei gymhorth yn erbyn y Tyriaid. Pan ddeallodd Sidon, Ace, a phorthladdoedd ereill, ei fod am wneuthur rhyfel yn erbyn Tyrus, hwy a daflasant iau y Tyriaid, ac ymunasant â Salmaneser, yr hwn, wedi cael ei orchfygu mewn brwydr ar y môr, gan y Tyriaid (er nad oedd ganddynt ond 12 o longau, yn erbyn 60 o eiddo y brenin) a roddes warchae aflwyddiannus ar Tyrus, ac a ddychwelodd i Ninifeh. Ar ol i'r gwarchae barhau bum mlynedd, bu farw Salmaneser, ar ol teyrnasu 14 blynedd, a'r fyddin o flaen Tyrus a ddychwelodd adref heb allu menu dim ar y ddinas. *Prideaux's Connect. part* 1. *p.* 19.

III. Senacherib, mab Salmaneser, a ddaeth yn lle ei dad, ac a deyrnasodd ynghylch wyth mlynedd. Gelwir ef Sargon, *Esa.* 20. 1. Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, yr hon oedd y 14eg i Hezeciah, daeth â byddin lïosog i Judea. Hon oedd y flwyddyn ym mha un y clafychodd Hezeciah, ac y trôdd y cysgod yn ol ddeg o raddau ar ddeial Ahaz, ac y cafodd addewid o estyniad o 15 mlynedd at ei einioes. Gan fod dysgedigion yr oes bresennol yn unfryd yn cytuno fod yr haul yn sefydlog, a bod y ddaear yn troi unwaith mewn 24 awr ar ei phegynau, ac oddi amgylch yr haul unwaith mewn blwyddyn, yr oedd dychweliad y cysgod yn ol ar hyd y graddau yn arwyddocâu fod yr Arglwydd, i ba un nid oes dim yn ammhosibl, wedi troi y ddaear yn ol yn ei chylchdro beunyddiol, gymmaint ag oedd yn cyfateb i ddeg o raddau ar y deial, fel yr estynwyd y dydd yn hŵy o gymmaint a hyny ym mhob man o'r byd, lle yr oedd hi yn ddydd y pryd hyny. Yr oedd yr haul yn ymddangos fel pe buasai yn troi yn ol, pan oedd agos i'w fachlud, ac yn codi cymmaint yn y ffurfafen ag oedd yn ateb i ddeg o raddau ar y deial. Felly y gwnawd y diwrnod hwnw yn hŵy nag un o'i flaen, neu ar ei ol (oddieithr hwnw yn amser Josua, pan safodd yr haul dros ddiwrnod cyfan yn hŵy nag arferol, *Jos.* x.) a'r nos ym mhob man, lle yr oedd hi y pryd hyny yn nos, yn hŵy o gymmaint ag yr oedd y dydd hwnw yn hŵy na dyddiau cyffredin. Yr oedd yr arwydd gwyrthiol hwn yn weledig yn Babilon, a'r hanes wedi cyrhaedd yno, mai o herwydd ei was Hezeciah yr oedd yr Arglwydd wedi ei wneuthur. Gan hyny, anfonodd Merodach-Baladan, brenin Babilon, a mab Baladan, neu Belesis, genadau at Hezeciah, i ymofyn am ychwaneg o hysbysrwydd ynghylch yr arwydd gwyrthiol, ac am iechyd y brenin, ac, fe allai, i wneuthur cynghrair âg ef yn erbyn Senacherib. 2 *Bren.* xx. 2 *Cron.* 32. 31. *Esa.* xxxviii, xxxix.

Yn niwedd y 14eg flwyddyn i Hezeciah, fel y bernir, y cymmerodd Senacherib amryw o ddinasoedd caerog Judah, ac a roddes warchae ar Lachis, dinas gadarn o du y dehau i Jerusalem. Yn y cyfamser, ni esgeulusodd Hezeciah gadarnhau Jerusalem, ac a ddanfonodd at Sefechus, mab So, brenin yr Aipht, am gynnorthwy, yr hyn a roddes achlysur i'r

prophwyd Esaiah i'w geryddu. Ond wedi yr holl barotôad, barnodd mai doethach oedd prynu heddwch, os medrai; gan hyny, danfonodd at Senacherib i geisio heddwch, yr hyn a gafodd trwy dalu 300 o dalentau arian, a 30 o dalentau aur.* 2 *Bren.* 18. 13—16. 2 *Cron.* 32. 1—8. *Esa.* 30. 1—7. a xxxi.

Wedi heddychu â Hezeciah, parotôdd Senacherib i fyned yn erbyn gwlad yr Aipht, ac er mwyn rhwyddhau ei ffordd yno, danfonodd Tartan, un o'i gadbeniaid, i gymmeryd Asdod, un o ddinasoedd cedyrn y Philistiaid ar Fôr y Canoldir, o gymmeriad pa un y prophwydodd Esaiah, y byddai i frenin Assyria, sef Senacherib, neu Sargon, gael ei wneuthur yn offeryn i ddwyn barnedigaethau trymion dros dair blynedd ar yr Aipht, ac ar Ethiopia. *Esa.* xx. Y tair blynedd hyn oedd y 15fed, yr 16eg, a'r 17eg i Hezeciah. Y mae tystiolaeth Josephus (*Antiq. l.* 10. *c.* 1.) ac Herodotus, yr hanesydd Groegaidd, yn cadarnhau fod Senacherib wedi cyrchu y pryd hyn yn erbyn yr Aipht, pan gyflawnwyd, fel y bernir, yr hyn y mae y prophwyd Nahum (*pen.* 3. 8—11.) yn adrodd yn hanesiol, megys am bethau wedi eu cyflawni eisoes ar No Amon, neu Thebes, yn yr Aipht uchaf, er rhybydd i Ninifeh, ag oedd yn nghanol ei rhwysg a'i llwyddiant.

Ond ni orphenodd Senacherib ei ryfel yn erbyn yr Aipht gyd â'r un llwyddiant ag a gafodd yn y dechreuad. Canys pan glywodd fod Tirhacah, brenin Ethiopia, yn dyfod â byddin gref yn ei erbyn, ymadawodd oddiwrth Pelusium, neu Sin, ar ba un yr oedd y pryd hyny yn gwarchae; ac a ddaeth drachefn i Judea, yn y 18fed flwyddyn i Hezeciah, ac a roddes warchae yr ail waith ar Lachis, gan dori yr ammodau o heddwch a wnaethai âg Hezeciah. Oddi yma y danfonodd Tartan, Rabsaris, a Rabsaceh, â llu dirfawr yn erbyn Jerusalém. Yr oedd Rabsaris, yn ol arwyddocâd ei enw, yn benaeth eunuchiaid y brenin, a'r oɩaf yn ben-trulliad, yn ol ystyr ei enw, ac yn Iuddew, fel y bernir, gan ei fod yn llefaru, yn yr iaith Hebraeg. Ond ni wnaethant ddim ond traddodi y genadwri gableddus hòno a geir yn 2 *Bren.* 18. 17—37. Wedi dychwelyd at eu harglwydd, hwy a'i cawsant wedi ymadael o Lachis, yn ymladd yn erbyn Libnah. Pan oedd Senacherib o flaen Libnah, clywodd fod Tirhacah, brenin Ethiopia, a châr agos i Sefechus, yn erlid ar ei ol, megys ffoadur; gan hyny, arweiniodd ei fyddin yn ei erbyn, ac ennillodd fuddugoliaeth fawr arno, trwy ba un y cyflawnwyd prophwydoliaeth Esaiah yn erbyn yr Ethiopiaid. *Esa.* xx.† Ond cyn

---

* Yr oedd talent arian yn cynnwys tair mil o siclau, (*Exod.* 38. 25—27.) a phob sicl yn dri swllt. Yn ol hyny, yr oedd y 300 talent yn cynnwys o'n harian ni 135,000 o bunnau. Yr oedd y 30 talent aur yn 216,000 o bunnau. Y cwbl oedd 351,000 o bunnau o'n harian ni. *Prideaux's Connect. pt.* 1*st. p.* 22. Y mae ereill yn cyfrif sicl yn hanner coron.

† *Prideaux's* Connect. pt. 1st. p. 24.

ymadael o Libnah, danfonodd ei genadwri olaf, ynghyd â llythyrau, at Hezeciah. 2 *Bren.* 19. 8—14.

Ar ol ennill ei fuddugoliaeth ar Tirhacah, trôdd Senacherib, tybygid, yn erbyn Dumah, yn ngwlad Edom, a chenedloedd cymmydogaethol iddi yn Arabia Garegog, sef Dedanim, Tema, a Chedar, yn erbyn pa rai yr oedd Esaiah wedi cyhoeddi barn, oddeutu blwyddyn o'r blaen. *Esa.* 21. 11—17. Wedi hyny, amgylchynodd y Môr Marw o du y dwyrain, a chyflawnodd yr hyn ag oedd yr un prophwyd wedi gyhoeddi yn erbyn Moab dair blynedd o'r blaen. *Esa.* xv. a 16. 6—14. Croesodd yr Iorddonen, daeth i Aiath, neu Ai, a thrwy amryw fanau yn llwyth Benjamin, hyd Nob, yn ngolwg Jerusalem, lle cododd efe ei law fygythiol yn ei herbyn. *Esa.* 10. 28—32. Ond yn y nos hòno, tybygid, yn Nob, y lladdwyd 185,000 o'i filwyr; a ffôdd yn waradwyddus gyda gweddill ei fyddin i'w wlad ei hun. Y rhesymau am farnu mai hwn oedd llwybr Senacherib yn ei gyrch olaf yn erbyn Jerusalem, ydynt:—1. Am fod Esaiah, *pen.* x. yn prophwydo am ddyfodiad Senacherib i Judea, 'yn ol ffordd yr Aipht:' hyny yw, ar ei ffordd o'r Aipht, neu, y byddai iddo fwgwth gwneuthur i Jerusalem fel y gwnaethai yn yr Aipht. Canys y mae yn eglur fod y 10fed bennod o *Esaiah*, o'r bummed adnod hyd y diwedd, yn brophwydoliaeth am Senacherib yn dyfod yn erbyn Jerusalem.——2. Gan fod y prophwyd yn darlunio ei lwybr tua Jerusalem, yn *Esa.* 10. 28—32. y mae yn anhawdd deall paham y mae yn sôn am ei ddyfodiad yn gyntaf i Ai, oni ddarfu iddo groesi yr Iorddonen wedi bod yn ngwlad Moab.——3. Pe buasai yn dyfod o'r Aipht y ffordd yr aeth yno, sef heibio Asdod, ni fuasai ei lwybr heibio Ai i ddyfod at Jerusalem, gan fod Ai, a holl lwyth Benjamin, o du y gogledd i Jerusalem a llwyth Judah. Yn wir, y mae *Prideaux* yn barnu* fod prophwydoliaethau Esaiah yn y 15fed a'r 16eg wedi cael cyflawniad gan Salmaneser, tad Senacherib, cyn iddo roddi gwarchae ar Samaria; ond gan fod trefn amser yn cael ei gadw yn gyffredin gan y prophwydi yn eu prophwydoliaethau, y mae yn annhebygol fod Esaiah yn y 15fed a'r 16eg, yn cyrchu yn ol at amserau Salmaneser, wedi prophwydo am Senacherib yn y 10fed a'r 14eg, *adn.* 24—27.

Pan glywodd y Mediaid am ddinystr byddin Senacherib yn Judea, gwrthryfelasant yn ei erbyn, a gwnaethant Deioces yn frenin arnynt yn y 19eg flwyddyn i Hezeciah, ar ol, yn gyntaf, cael prawf o annhrefn gwerin-lywodraeth *(republic)*. Parhaodd breniniaeth y Mediaid, a osodwyd i fynu y pryd hyn, dros 173 o flynyddoedd, hyd ddiwedd teyrnasiad Cyaxæres, neu Darius y Mediad, *Dan.* 5. 31. pan ddaeth Cyrus y Persiad, a'i ganlynwyr o'r un genedl, i lywodraethu, nid yn unig ar y Mediaid a'r Persiaid, ond ar y rhan fwyaf o'r byd ag oedd adnabyddus y pryd hyny.

---

* *Prideaux's* Connect. pt. 1st. p. 18.

Pan ddychwelodd Senacherib i Ninifeh, ymddygodd yn greulawn tu ag at ei ddeiliaid, yn neillduol tu ag at genedl Israel, fel pe buasai am ddial ar eu Duw am ddinystr ei fyddin. Parodd i'w lawer o honynt gael eu lladd bob dydd yn ddiachos, a'u cyrph eu bwrw i'r heolydd; yr hyn a'i gwnaeth yn annioddefol, nid yn unig i'w ddeiliaid yn gyffredinol, ond hefyd i'w deulu ei hun; canys lladdwyd ef o'r diwedd gan ddau o'i feibion, Adramelech a Sareser, pan oedd yn addoli yn nheml Nisroch ei dduw; a hwy a ddiangasant i wlad Armenia, ac Esarhadon ei fab a deyrnasodd yn ei le. 2 *Bren.* 19. 37. *Prideaux. Hez.* 19. *Ann.* 709. Gwel y llyfr Apocryphaidd *Tobit* 1. 15—21.

IV. Esarhadon a ddechreuodd deyrnasu oddeutu yr 22ain flwyddyn i Hezeciah. Gelwir ef yn *Ezra* 4. 10. dan yr enw 'Asnappar mawr ac enwog;' yr hyn sydd yn arwyddocâu ei fod yn dywysog rhagorol o ran helaethrwydd a chadernid ei deyrnas, ac, fe allai, o ran ei rinweddau moesol tu hwnt i bawb ag oedd wedi teyrnasu o'i flaen yn Assyria, neu Babilon. Wedi iddo deyrnasu 19 blynedd, bu farw Mesessimordacus, brenin Babilon, heb adael mab ar ei ol, yr hyn a barodd i'r deyrnas hòno syrthio i annhrefn, yr hwn a barhaodd dros wyth mlynedd, yr hyn a roddes achlysur i Esarhadon i gymmeryd Babilon, a'r taleithiau perthynol iddi, a'u chwanegu at yr hyn oedd ganddo o'r blaen, yn y 27ain flwyddyn o'i deyrnasiad yn Ninifeh; wedi hyny teyrnasodd ar y ddwy deyrnas dros 13 blynedd.

Yn yr 22ain flwyddyn i Manasseh, ac yn y 4edd flwyddyn o'i deyrnasiad yn Babilon, meddyliodd Esarhadon am ennill yn ol yr hyn a gollasai ei dad Senacherib yn Syria a Phalestina, oddeutu 32 mlynedd o'r blaen. Yn y flwyddyn hon y daeth i wlad Israel, ac wedi caethgludo gweddillion caethglud Salmaneser (oddieithr y rhai a ymguddiasant, neu a ddiangasant i wledydd cymmydogaethol) dygodd bobl o Babilon, Cutha, Afa, Hamath, a Sepharfaim, 'ac a'u cyfleodd yn ninasoedd Samaria, yn lle meibion Israel.' 2 *Bren.* 17. 24. *Ezra* 4. 2. Fel hyn y cyflawnwyd prophwydoliaeth Esaiah, *pen.* 7. 8. yr hon a draddododd efe oddeutu dechreu y flwyddyn gyntaf i Ahaz, brenin Judah: 'O fewn pum mlynedd a thriugain y torir Ephraim rhag bod yn bobl.'

O'r cenedloedd eilun-addolgar hyny a sefydlodd Esarhadon yn ninasoedd Samaria, y daeth cenedl y Samariaid, y rhai a ddangosasant eu gelyniaeth yn erbyn yr Iuddewon ar amryw achosion a grybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau, ac mewn hanesion ereill.

Wedi hyny, yn yr un flwyddyn, fel y bernir, danfonodd Esarhadon ran o'i fyddin i ddarostwng teyrnas Judah; ac ar ol gorchfygu Manasseh mewn brwydr, efe a ddaliwyd, wedi ymguddio, mewn dyrysni, ac a ddygwyd mewn cadwyni i Babilon. 2 *Cron.* 33. 11. Yn yr un amser, fel y bernir, y caethgludwyd Sebnah ei drysorydd, a'i ben-teulu, yr hwn nid oedd ond ysgrifenydd yn amser Hezeciah, ac Eliacim yn ben-teulu;

(*Esa.* 36. 22. 2 *Bren.* 18. 37.) ond yn nechreu teyrnasiad Manasseh, cafodd Eliacim ei ddiswyddo, fel y tybir, o herwydd ei dduwioldeb, a Sebnah annuwiol ei ddyrchafu yn ei le. Bu Sebnah farw, tybygid, yn ngwlad ei gaethiwed, yn ol y brophwydoliaeth a draddodwyd yn ei erbyn gan Esaiah, *pen.* 22. 15—19. ond Manasseh, ar ei edifeirwch, a ddychwelwyd yn ol i'w freniniaeth yn y flwyddyn ganlynol, fel y bernir; yr hwn, wedi galw Eliacim yn ol i'w swydd, a ddiwygiodd grefydd hyd eithaf ei allu. 2 *Cron.* 33. 12—16. *Esa.* 22. 20—24.

Yr ydys yn barnu, pan adferwyd Manasseh i'w freniniaeth, iddo gael ei deyrnas dan ammodau o dalu teyrnged i freninoedd Assyria, ac o gadarnhau ei ddinasoedd caerog rhag ymgyrch yr Aipht. Gwel 2 *Cron.* 33. 14. Canys yr oedd gwlad Canaan fel asgwrn y gynhen rhwng breninoedd Assyria a breninoedd yr Aipht mewn amrywiol oesoedd, ac weithiau y naill, ac weithiau y llall a'i meddiannai, er mawr niwed i'r trigolion. Tybygid fod llywodraeth Manasseh yn cyrhaedd, heblaw teyrnas Judah, yr hyn a fuasai yn perthyn i freninoedd y deg llwyth; gan fod y cwbl gan Josiah ei wyr. 2 *Cron.* 34. 6, 33. *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 30—35.

V. Yn yr 21ain flwyddyn i Manasseh, bu farw Esarhadon, a'i fab Saosduchinus a deyrnasodd yn ei le dros 20 mlynedd.

Nid oes dim hanes am Saosduchinus yn yr Ysgrythyrau; ond yn ol barn *Prideaux*, efe oedd y brenin hwnw a elwir yn y llyfr Apocryphaidd Judith dan yr enw Nebuchodonosor, yr hwn a wnaeth ryfel yn erbyn Arphacsad, neu Deioces, brenin Media, yr hwn oedd yn teyrnasu yn Ecbatana, pen dinas y wlad hòno; ac a orchfygwyd ac a laddwyd yn mynyddoedd Ragau, ar ol teyrnasu 53 blynedd. Ond gan fod cryn ddadl ym mhlith y dysgedigion mewn perthynas i wirionedd y pethau a adroddir yn llyfr Judith, awn rhagom at bethau sydd yn sefyll ar well sail.

VI. Bu farw Saosduchinus yn yr 51ain flwyddyn i Manasseh, a Chyniladanus a deyrnasodd yn ei le.* Pa un ai mab oedd i Saosduchinus, nid yw yn ymddangos. Yn y 13eg flwyddyn i'r brenin hwn, yr hon oedd y 6ed i Josiah, Phraortes, mab Deioces brenin Media, wedi darostwng y Persiaid, a'r holl wlad o Media at yr afon Halys yn Asia uchaf, a roddes warchae ar Ninifeh, er mwyn dial marwolaeth ei dad ar yr Assyriaid, ond difethwyd ef a'i holl fyddin yn yr ymgais aflwyddiannus.†

Yn yr 22ain flwyddyn, a'r olaf o deyrnasiad Chyniladanus, yr hon oedd y 15fed i Josiah, gwrthryfelodd Nabopolasar, tywysog ei filwriaeth, yn ei erbyn, yr hwn, gan ei fod yn Fabiloniad o enedigaeth, a gafodd trwy hyny gyfleusdra i gadarnhau ei blaid, ac i draws-feddiannu Babilon iddo ei hun, lle y teyrnasodd 21ain mlynedd.

---

* *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 34—42. † *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 43.

Yn y 29ain flwyddyn i Josiah, yr hon oedd y 23ain flwyddyn o deyrnasiad Cyaxæres, mab Phraortes, brenin Media y gwnaeth Nabopolasar brenin Babilon (yn ei 14eg flwyddyn) gyfathrach âg Astyages mab hynaf Cyaxæres, trwy briodas ei fab Nebuchodonosor âg Amyitis merch Astyages. Wrth lunio y briodas hon gwnawd cynghrair rhwng y Mediaid a'r Babiloniaid i roddi gwarchae ar Ninifeh, hyd oni byddai iddynt ei chymmeryd a'i llwyr ddinystrio; yr hyn a ddarfu iddynt gwblhau, gan ladd Saracus y brenin, yr hwn oedd olynwr i Chyniladanus, neu efe ei hun dan enw arall. Cafodd Ninifeh y pryd hyn ei llwyr ddinystrio, er mwyn rhyngu bodd i'r Mediaid, am yr aml ddrygau a gawsant ar law yr Assyriaid; ac o hyny allan Babilon yn unig a gyfrifwyd yn ben dinas ymerodraeth Assyria. Fel y cafodd prophwydoliaeth Jonah gyflawniad trwy gymmeryd Ninifeh gan Tiglath Pileser a Baladan, yn y flwyddyn cyn geni Crist 747, pan roddwyd terfyn ar y rhes gyntaf o freninoedd Assyria; felly trwy y llwyr ddinystr a gafodd Ninifeh y pryd hyn yn y flwyddyn cyn geni Crist 612, ym mhen 135 mlynedd wedi hyny y cyflawnwyd prophwydoliaethau Nahum, a Sephaniah 2. 13—15. yn ei herbyn.*

PENNOD V.

Am Freninoedd Babilon ar ol Belesis, sef y gyntaf o'r pedair Breniniaeth. Dan. 2. 36—40. *a* 7. 3—7.

Nid oes ond ychydig o hanesion credadwy am Babilon a'i breninoedd, o flaen yr amser y dechreuodd Arbaces, neu Tiglath-pileser, deyrnasu yn Ninifeh, a Belesis, neu Baladan, yn Babilon, yn y flwyddyn cyn geni Crist 747.—Gelwir Belesis dan yr enw Nabonassar gan *Ptolemy* yn ei Ganon Amseryddol, gyda theyrnasiad pa un y mae yn dechreu ei gofrestr o freninoedd Babilon. Yn yr un amser y mae *Prideaux* yn dechreu ei waith rhagorol, a elwir, *Connection of the History of the Old & New Testament*. Gan nad oes ond ychydig hanes am weithredoedd breninoedd Babilon, cyn Nabopolasar, a'i fab Nebuchodonosor, ni fydd genym fawr fwy i wneuthur ond coffâu eu henwau, a blynyddoedd eu teyrnasiad.

1. Nabonassar a deyrnasodd 14 blynedd. Yr oedd ei fab Mardoc Empadus, neu Merodach-Baladan, yn rhy ieuangc i deyrnasu pan fu efe farw: gan hyny, bu ei freniniaeth dan lywodraeth ereill dros 12 mlynedd, y rhai hyn oeddynt:—2. Nadius, dros 2 flynedd.——3. Chinzerus a Porus, gyd â'u gilydd dros 5 mlynedd.——4. Jugæus 5 mlynedd.——5. Mardoc Empadus, yr hwn, yn yr Ysgrythyrau a elwir Merodach-Baladan, yr hwn a anfonodd genadau at Hezeciah. 2 *Bren.* 20. 12.

---

* *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 48. referring to Alexander Polyhistor & others.

Wedi teyrnasu 12 mlynedd, bu farw yn y 18fed flwyddyn i Hezeciah.——6. Arcianus a deyrnasodd 5 mlynedd, ac a fu farw yn ddieppil, yr hyn a barodd wag-deyrn (*Interregnum*) o 2 flynedd.——7. Belibus, wedi cael ei ddewis yn frenin, a deyrnasodd 3 blynedd.——8. Apronadius 6 blynedd. Yn yr un flwyddyn ag y dechreuodd efe deyrnasu yn Babilon, y gorphenodd Hezeciah ei deyrnasiad yn Jerusalem.——9. Regilibus a deyrnasodd un flwyddyn.——10. Mesessi-Mordacus a deyrnasodd 4 blynedd, a chan ei fod yn marw heb adael mab ar ei ol, bu gwag-deyrn ac annhrefn yn y deyrnas dros 8 mlynedd, yr hyn a annogodd Esarhadon i gymmeryd Babilon.——11. Esarhadon a deyrnasodd ar Babilon 13 blynedd.——12. Saosduchinus ei fab 20 mlynedd.——13. Chyniladanus 22 flynedd.——14. Nabopolasar a wrthryfelodd, fel y dywedwyd, yn erbyn Chyniladanus, ac a deyrnasodd 21 mlynedd. Dangoswyd eisoes pa fodd y darfu iddo, wedi cyfathrachu â theulu breninol Media, trwy fyddinoedd cyssylltiedig o Fediaid a Babiloniaid, ddinystrio Ninifeh.

Gan fod y llwyddiant hwn wedi cyffroi ofnau ac eiddigedd yr holl deyrnasoedd cymmydogaethol, ym mhlith ereill Pharaoh-Necho, brenin yr Aipht, a feddyliodd ei bod yn bryd attal cynnydd ei fawredd, yn enwedig i geisio rhwystro Nabopolasar rhag ymgadarnhau i'r fath radd ag i beryglu gwlad yr Aipht. Amcanodd Necho wneuthur yr afon Euphrates yn derfyn rhyngddo a brenin Babilon. Yn yr 31 flwyddyn, a'r olaf o deyrnasiad Josiah brenin Judah, y cyrchodd Necho trwy Judea i ryfela yn erbyn Nabopolasar brenin Babilon, yr hwn a elwir brenin Assyria, yn 2 *Bren.* 23. 29. Diben Necho yn yr ymgyrch hwn oedd cymmeryd Carchemis, dinas gadarn ar yr afon Euphrates, (2 *Cron.* 35. 20.) yr hon oedd y pryd hyny ym meddiant y Babiloniaid. Barnodd Josiah mai ei ddyledswydd oedd gwrthwynebu Necho, gan ei fod ef, fel ei dad Manasseh, dan rwymau i wrthsefyll gelynion brenin Babilon, fel y mae yn rhesymol i farnu, gan fod yr holl wlad dan ei lywodraeth, fel y dangoswyd eisoes; a chan nad oes hanes iddo ennill un man trwy ryfel, y mae yn debygol mai trwy ganiatad breninoedd Assyria a Babilon y cafodd efe yr awdurdod ar wledydd y deg llwyth, yn gystal a'r ddau lwyth. Ond er fod diben Josiah yn dda, ni lwyddodd yn ei ymgais, canys efe a laddwyd mewn brwydr yn erbyn Necho, yn nyffryn Megido, dinas yn Issachar, yn perthyn i hanner llwyth Manasseh, o'r tu yma i'r Iorddonen; ac er iddo farw mewn rhyfel, bu farw mewn heddwch gyda Duw, heb weled y drygfyd a ddaeth ar Jerusalem ym mhen ychydig flynyddoedd ar ol ei farwolaeth. (2 *Bren.* 22. 15—20. *Esa.* 57. 1, 2.)——Y mae sail dda i farnu fod Pharaoh-Necho wedi llwyddo y pryd hyn yn erbyn Carchemis a'r Babiloniaid, ac iddo ddwyn Syria a Phalestina dan ei lywodraeth, gan iddo, ar ei ddychweliad, ddiorseddu Joachas mab Josiah, a dyrchafu Joacim, mab hynaf Josiah, yn ei le, Yr oedd pobl y wlad, tybygid, wedi myned heibio i Joacim, yr hynaf, o herwydd ei

ddryg-naws, ac urddo Joachas, neu Salum, y nesaf ato. Ond gan fod Necho wedi llwyddo wrth Euphrates, barnodd hyn yn rhyfyg ac yn wrthryfel yn Joachas, i gymmeryd ei wneuthur, ac ym mhobl y wlad i'w wneuthur yn frenin heb ei ganiatad ef; gan hyny, cospodd Joachas, yr hwn oedd wedi myned i gyfarfod Necho i Riblah, yn ngwlad Hamath, i wneuthur ymostyngiad iddo, ac i ofyn y goron, tybygid; ond yn lle cael coron, arweiniwyd ef mewn gefynau i'r Aipht, ar ol iddo deyrnasu dri mis yn Jerusalem; (*Jer.* 22. 10—12.) a'r wlad a gospwyd trwy dalu treth o gan talent o arian, a thalent o aur. (2 *Bren.* 23. 33.)——Y mae Josephus, yr Hanesydd Iuddewig, yn dywedyd fod Pharaoh-Necho yn gwneuthur y rhyfel hwn yn erbyn y Mediaid a'r Babiloniaid, ag oedd newydd ddadymchwel Ymerodraeth Assyria, a bod holl Syria ym meddiant Necho pan adnewyddwyd y rhyfel ym mhen oddeutu pedair blynedd wedi hyny.*

Gan fod Nabopolasar, brenin Babilon, yn gweled ei fod wedi colli Syria a Phalestina, trwy waith Necho yn cymmeryd Carchemis, a chan ei fod wedi heneiddio, ac yn analluog i arwain byddinoedd fel cynt, gwnaeth ei fab Nebuchodonosor yn gyfranog o'r freniniaeth, ac a'i danfonodd gyda byddin gref i gymmeryd Carchemis, ac i adferu yr holl wledydd o du y gorllewin i'r afon Euphrates drachefn dan ei lywodraeth. Yr oedd hyn tu a diwedd y drydedd flwyddyn i Joacim (*Dan.* 1. 1.)—ond gan fod y 4edd flwyddyn i Joacim yn cael ei chyfrif yn 1af i Nebuchodonosor (*Jer.* 25. 1.) y mae yn angenrheidiol i ddeall, er mwyn cysoni Daniel a Jeremiah, fod Nebuchodonosor yn cychwyn o Babilon i Jerusalem yn niwedd y 3edd flwyddyn i Jehoiacim, ond i'w 4edd flwyddyn ddechreu cyn ymladd y frwydr waedlyd yn Carchemis. (*Jer.* 46. 2.) Cymmerwyd Jerusalem wedi hyny, yn niwedd yr un flwyddyn.

Fel ag yr oedd llwyddiant Necho yn Carchemis yn yr 31ain flwyddyn, a'r olaf o deyrnasiad Josiah, wedi bod yn foddion i drosglwyddo Syria a Phalestina i'w feddiant; felly, colli y frwydr a difetha ei fyddin yn yr un man, oddeutu pedair blynedd wedi hyny, a fu yn achos iddo golli y gwledydd hyny hyd y mynediad i'r Aipht. Nid ellir cael gwell hanes am y frwydr yn Carchemis na'r darluniad prophwydoliaethol o honi gan Jeremiah, *pen.* xlvi.

Ar ol y frwydr hòno, daeth Nebuchodonosor yn ddioed, ac a roddes warchae ar Jerusalem, ac a'i cymmerodd yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim, yr hwn a rwymodd frenin Babilon mewn gefynau pres i'w ddwyn i Babilon; ond ar ei ymostyngiad, a'i addewid o fod yn was iddo, cafodd ei ryddhau, a'i adferu i'w deyrnas.

Cymmerwyd Jerusalem y tro hwn yn y 9fed mis, sef Cisleu, a'r 18fed dydd o'r mis; ac y mae yr Iuddewon etto yn cadw ympryd blynyddol

---

* *Josephus'* Antiq. *l.* 10. *c.* 6, 7. *Prideaux's* Conn. *part* 1. *p.* 51—58.

i adgoffa yr aflwydd hwnw. Y pryd hyn y cymmerwyd rhan o lestri y deml, ac y caethgludwyd i Babilon rai o'r hâd breninol ac o dywysogion Judah, ac yn eu plith Daniel a'i dri chyfaill; ac yn hyn y cyflawnwyd gair yr Arglwydd trwy Esaiah y prophwyd, oddeutu 107 o flynyddoedd o'r blaen. *Esa.* 39. 5—7. Gwel *Dan.* 1. 1—3. 2 *Bren.* 24. 1. 2 *Cron.* 36. 6. *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 62.

O'r flwyddyn hon, sef y 4edd i Jehoiacim, pan wnawd y caethgludiad cyntaf gan Nebuchodonosor, rhaid cyfrif y 70 mlynedd o gaethiwed yn Babilon, yn ol prophwydoliaeth Jeremiah, *pen.* 25. 1, 11. a 29. 10. canys o'r flwyddyn hon hyd y flwyddyn laf i Cyrus, pan ddychwelwyd yr Iuddewon o Babilon, y mae 70 mlynedd. Yn y flwyddyn ganlynol, sef y 5ed i Jehoiacim, cyhoeddwyd a chadwyd ympryd yn Jerusalem ar y 18fed dydd o'r 9fed mis, i goffâu yr adfyd, fel y bernir, a ddigwyddodd iddynt ar y dydd hwnw yn y flwyddyn o'r blaen. *Jer.* 36. 9, 10.

Bernir i Nebuchodonosor dreulio y rhan fwyaf o'r 5ed flwyddyn i Jehoiacim, yn dwyn y rhyfel ym mlaen yn erbyn Necho, brenin yr Aipht, yn yr hwn y cafodd y fath lwyddiant ag i ennill yr hyn oll ag oedd ganddo, o afon yr Aipht hyd afon Euphrates, hyny yw, y cwbl ond gwlad yr Aipht, a manau ereill yn terfynu arni yn Affrica. 2 *Bren.* 24. 7. Ond bu raid iddo roddi attalfa y pryd hyn ar ei fuddugoliaethau yn y parthau hyn; canys tua diwedd y flwyddyn hon, clywodd fod ei dad Nabopolasar wedi marw ar ol teyrnasu 21ain mlynedd. Gan hyny, prysurodd i fyned trwy yr anialwch y ffordd nesaf i Babilon, lle y cymmerodd y freniniaeth, ac a deyrnasodd gyda mawr lwyddiant 43ain blynedd, yn ol cyfrif y Babiloniaid (y rhai oeddynt yn cyfrif o farwolaeth ei dad); ond 45ain mlynedd yn ol cyfrif yr Iuddewon, y rhai oedd yn dechreu blynyddoedd ei deyrnasiad o'r amser cyntaf y daeth i Judea, yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim. Y mae y prophwyd Daniel yn canlyn y cyfrif Babilonaidd. *Dan.* 2. 1. Ond ym mhob man arall o'r Ysgrythyrau, lle y crybwyllir am flynyddoedd Nebuchodonosor, arferir y cyfrif Iuddewig, yr hwn sydd yn dechreu ddwy flynedd o flaen y llall.

Yn y 7fed flwyddyn i Jehoiacim, yr hon oedd yr 2fed flwyddyn i Nebuchodonosor, yn ol y cyfrif Babilonaidd, y mynegodd Daniel, trwy ysprydoliaeth Duw, freuddwyd brenin Babilon, a'i ddehongliad, yn nghylch y ddelw fawr o amryw ddefnydd, yr hon oedd yn dal allan y pedair Ymerodraeth fawr, sef, 1. Y Babiloniaid.——2. Y Mediaid a'r Persiaid.——3. Y Groegiaid.——4. Y Rhufeiniaid: a'r gareg fechan a'i chynnydd, sydd yn arwyddocâu Crist, a chynnydd ei deyrnas ysprydol ef yn y byd.—Daniel a'i gyfeillion, o herwydd y dehongliad hwn, a ddyrchafwyd i sefyllfaoedd anrhydeddus yn nhalaeth Babilon. *Dan.* ii.

Cadwodd Jehoiacim ei lw o ffyddlondeb i frenin Babilon dros dair blynedd, sef y 5ed, y 6ed, a'r 7fed flwyddyn o'i deyrnasiad, ac yn yr 8fed flwyddyn gwrthryfelodd, trwy adnewyddu ei gynghrair â Pharaoh-

Necho, a nacâu talu y deyrnged arferol, fel y gellir casglu.—Gan nad oedd gan Nebuchodonosor hamdden, tybygid, i fyned ei hun yn erbyn Jehoiacim y pryd hyn, neu ynte nad oedd yn gweled angenrheidrwydd, danfonodd orchymyn i lywodraethwyr y taleithiau cymmydogaethol i ryfela yn ei erbyn, y rhai a anfonasant dorfoedd o Galdeaid, Syriaid, Moabiaid, ac Ammoniaid, yn erbyn Judah i'w hanrheithio; yr hyn, yn ddiammeu, a barodd ddygn adfyd i'r trigolion. 2 *Bren.* 24. 2—4.

Wedi dwyn y rhyfel ym mlaen yn ei erbyn fel hyn dros dair blynedd, yn y 4edd, sef yr 11eg i Jehoiacim, eu byddinoedd a ymunasant, ac a warchaeasant arno yn Jerusalem. (2 *Bren.* 24. 10.) Y mae yn debygol i Jehoiacim y pryd hyn wneuthur rhuthr yn erbyn y gwarchaewyr, a chael ei ladd, ac i'w gelain gael ei thaflu gan y gelynion o'r tu allan i un o byrth Jerusalem, lle y gadawyd heb gladdedigaeth ar wyneb y maes, i gyflawni prophwydoliaeth Jeremiah, *pen.* 22. 18, 19.

A'r gwarehae etto yn parhau, urddwyd Joachin, neu Jehoiachin, yn frenin yn lle ei dad, yn y 18fed flwyddyn o'i oed, ac yn yr 8fed flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor, yn ol y cyfrif Iuddewig. Ar ol i Joachim deyrnasu tri mis, daeth brenin Babilon ei hun â byddin gref o flaen Jerusalem, gan ei fod, hwyrach, wedi blino ar feithder y rhyfel. Gan nad oedd gan Joachin obaith i allu gwrthsefyll, barnodd mai doethach oedd ymostwng, a rhoddi ei hun, ei fam, a'i dywysogion, yn llaw Nebuchodonosor, yr hwn a'i dygodd gyda chaethglud lliosog i Babilon, ynghyd â'i drysorau, a thrysorau a llestri y deml. Heblaw y tywysogion, dygwyd ymaith y pryd hyn ddeng mil o gedyrn nerthol o Jerusalem yn unig, heblaw y seiri a'r gofaint—ac o'r rhan arall o'r wlad, saith mil o gedyrn nerthol, a mil o seiri a gofaint—heblaw tair mil a thri ar hugain a gaethgludwyd y flwyddyn o'r blaen (sef y 7fed i Nebuchodonosor) cyn dechreu y gwarchae. Gwel 2 *Bren.* 24. 8—16. *Jer.* 52. 28.

Hwn oedd yr ail gaethgludiad, ym mha un y caethgludwyd Ezeciel, mab Buzi, o deulu Aaron, pan oedd efe, tybygid, oddeutu 25 mlwydd oed. Y mae Ezeciel o hyd yn ei brophwydoliaeth yn cyfrif y blynyddoedd o'r caethgludiad hwn.—Y pryd hyn hefyd y caethgludwyd Cis, hen daid Mordecai. *Esth.* 2. 5, 6.

Cyn ymadael o Jerusalem, gwnaeth brenin Babilon Mattaniah, mab ieuengaf Josiah yn frenin yn lle Joachin ei nai, ac a drodd ei enw ef yn Sedeciah, hyny yw, *cyfiawnder yr Arglwydd;* i'w rybuddio am y gospedigaeth gyfiawn a ddeuai arno, os torai ei lw o ffyddlondeb. Yr oedd Sedeciah yn 21 mlwydd pan wnawd ef yn frenin, a theyrnasodd 11 mlynedd. 2 *Bren.* 24. 17, 18. Gelwir ef yn frawd i Joachin, 2 *Cron.* 36. 10. ond dylid sylwi fod brawd ym mhlith yr Iuddewon, weithiau, yn arwyddocâu câr agos. Y flwyddyn gyntaf i Sedeciah oedd y 9fed i Nebuchodonosor, a'i 11eg oedd y 19eg i Nebuchodonosor, yn ol y

cyfrif luddewig, yr hwn, fel y sylwyd, oedd yn dechreu ddwy flynedd o flaen y cyfrif Babilonaidd. Tua diwedd ei 6ed flwyddyn, gwnaeth Sedeciah gynghrair dirgel â Pharaoh-Hophra, mab Psammis, brenin yr Aipht, ac â'r Ammoniaid, i wrthryfela yn erbyn brenin Babilon. (*Ezec.* 17. 15. wedi ei chymharu âg *Ezec.* 8. 1. a 20. 1.) Ac yn ei nawfed flwyddyn, yn y degfed mis, ac ar y degfed dydd o'r mis, y daeth Nebuchodonosor, a gwarchaeodd ar Jerusalem. 2 *Bren.* 25. 1. Gellir casglu fod' yr Ammoniaid wedi uno â Sedeciah yn y gwrthryfel hwn, gan na wyddai brenin Babilon yn erbyn pwy yr âi gyntaf; canys pan ddaeth at y fan lle yr oedd dwy ffordd, sef un yn myned tua gwlad Ammon, a'r llall i Judea, arferodd ddewiniaeth trwy saethau, ymofynodd â delwau, ac edrychodd ar afu anifeiliaid, fel y gallai benderfynu i ba wlad yr âi gyntaf. Nid oes le i ammeu nad oedd yr Arglwydd yn goruwch-lywodraethu ei ddewiniaeth a'i goel-grefydd i'w arwain yn erbyn Jerusalem. *Ezec.* 21. 18—23. Cymmerasid holl ddinasoedd caerog Judah, ond Lachis ac Azecah, cyn i Nebuchodonosor roddi gwarchae ar Jerusalem. *Jer.* 34. 7.

Yn y 10fed flwyddyn i Sedeciah, pan oedd y gwarchae ar Jerusalem, cyhoeddwyd rhyddid i'r caeth-weision yn ol y gyfraith, *Exod.* 21. 2. *Jer.* 34. 8.—ond pan ddaeth Pharaoh-Hophra o'r Aipht â byddin ar fedr cynnorthwyo Jerusalem, a phan gododd brenin Babilon y gwarchae oddi arni i fyned i'w gyfarfod ef, meddyliodd Sedeciah a'i dywysogion na ddychwelai y Caldeaid mwyach yn erbyn Jerusalem, gan hyny, edifarhasant am eu tynerwch tu ag at y caeth-weision, ac a fynasant wasanaeth ganddynt drachefn. *Jer.* 34. 11. Ond dychwelodd yr Aiphtiaid heb ymladd, a'r Caldeaid hwythau i roddi gwarchae drachefn ar Jerusalem. *Jer.* 37. 7, 10. *Ezec.* 29. 1—7.

Cyn myned yn erbyn yr Aiphtiaid, danfonodd Nebuchodonosor yr holl garcharorion a syrthiasai i'w ddwylaw yn y gwarchae, i Babilon, sef 832. *Jer.* 52. 29.

Cymmerwyd y ddinas yn yr 11eg flwyddyn o deyrnasiad Sedeciah, yn y 4ydd mis, ar y 9fed dydd o'r mis; ac yn y 19eg flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor, yn ol y cyfrif Iuddewig, a'r 17eg flwyddyn yn ol y cyfrif Babilonaidd.

Sedeciah, wedi ffoi gyd â'i feibion a'i bendefigion, a ddaliwyd yn rhosydd Jericho, ac a ddygwyd at frenin Babilon, yr hwn oedd y pryd hyny yn Riblah, yn ngwlad Hamath, neu Syria, lle y lladdwyd ei feibion a'i bendefigion o flaen ei lygaid; ac wedi hyny, tynwyd ei lygaid, ac arweiniwyd ef mewn cadwynau i Babilon, lle y bu farw mewn carchar. *Jer.* 39. 1—7. *Ezec.* 12. 13. *Josephus Antiq. l.* 10. *c.* 11.

Yn y 5ed mis, ar y 7fed dydd o'r mis (hyny yw, oddeutu diwedd Gorphenaf) daeth Nebusaradan, penaeth y milwyr, i Jerusalem; ac wedi casglu llestri y deml, a'r holl gyfoeth a gafodd yn y deml, a thŷ y brenin,

ac yn Jerusalem, efe a losgodd y deml a'r ddinas ar y 10fed dydd o'r un mis; ac a ddymchwelodd y caerau, a phob adeilad yn Jerusalem, gan wneuthur y cwbl yn gyd-wastad â'r llawr. (2 *Bren.* 25. 8—10.) Parhaodd yr anghyfannedd-dra hwn dros 52ain mlynedd, hyd y dychweliad o Babilon, yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus, pan gyflawnwyd y 70ain mlynedd o'r caethiwed a rag-fynegwyd gan Jeremiah, *pen.* 25. 11, 12. a 29. 10. *Dan.* 9. 2. *Ezra* 1. 1.

Y mae y 70 mlynedd yn dechreu, fel y dywedwyd, yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim, pan ddygwyd y gaethglud gyntaf i Babilon. Fel ag yr oedd 19 blynedd o'r 4edd flwyddyn i Jehoiacim hyd oni losgwyd y deml, yn 11eg flwyddyn i Sedeciah, trwy gyfrif y gyntaf a'r olaf; felly, trwy gyfrif yn yr un modd, yr oedd 19 blynedd o'r flwyddyn 1af i Cyrus, hyd y 4edd flwyddyn i Darius Hystaspis, pan gadarnhawyd y gorchymyn am fyned â gwaith y deml ym mlaen, ag oedd wedi sefyll dros lawer o flynyddoedd. O losgiad y deml, hyd y 4edd flwyddyn i Darius, pan gafwyd y gorchymyn hwn, yr oedd 70 mlynedd. Gan hyny, yr Iuddewon ag oedd yn aros yn Babilon, a farnasant fod y 70 mlynedd yn diweddu y pryd hyn, yn hytrach nag yn y flwyddyn 1af i Cyrus, gan fod grym y gelynion ag oedd hyd yma wedi attal gwaith y deml wedi cael ei dori. Gwel *Zech.* 7. 1—7. *Ezra* 6. 1—13.

Wedi i Nabuzaradan losgi y deml (ar yr un dydd o'r flwyddyn ag y llosgwyd yr ail deml gan y Rhufeiniaid, yn ol tystiolaeth Josephus, *Bell. Jud. l.* 7. *c.* 10.) caethgludodd yr holl bobl a gafodd yn y ddinas. O'r rhai hyn efe a gymmerodd Seraiah yr arch-offeiriad, a Sephaniah yr ail offeiriad, a 70 ereill, at frenin Babilon yn Riblah, yr hwn a orchymynodd eu rhoddi i farwolaeth.

Yr holl Iuddewon a allai tywysogion brenin Babilon gael gafael arnynt, a gaethgludwyd y pryd hyn i Babilon, oddieithr rhyw ychydig o dlodion y wlad, a adawyd dan lywodraeth Gedaliah, mab Ahicam, gyda pha rai y dewisodd Jeremiah y prophwyd a'i was Baruch aros. 2 *Bren.* 25. 18—22. *Jer.* 39. 11—14. Am yr hyn a ddigwyddodd i'r gweddillion hyn hyd onid aethant i'r Aipht, ac wedi myned yno, y mae hanes yn 2 *Bren.* 25. 23—26. a *Jer.* lx—lxiv.

Gan fod y Pummed Dosparth o'r gwaith hwn yn terfynu yn ninystr Jerusalem, gorphenir hanes breninoedd Babilon yn ei le priodol, dan y Chweched Dosparth.

PENNOD VI.

Breninoedd yr Aipht.

Ar ol boddi Pharaoh Amenophis yn y Môr Coch, nid oes dim sôn yn yr Ysgrythyrau am un o freninoedd yr Aipht yn dyfod allan o'i wlad i ryfela hyd oni ddaeth Sisac yn erbyn Rehoboam, yn y 5cd flwyddyn

o'i deyrnasiad, yr hyn oedd yspaid o 511 o flynyddoedd. Y mae hyn yn brawf, tybygid, fod teyrnas yr Aipht mewn cyflwr isel y rhan fwyaf o'r yspaid hwnw. Nid oes air o sôn am dani yn amser y Barnwyr, nac yn amser Saul a Dafydd. Y mae yn debygol ei bod yn dechreu ymgryfhau tua diwedd teyrnasiad Solomon, gan fod Hadad yr Edomiad, a Jeroboam mab Nebat, yn barnu fod cryfder brenin yr Aipht yn ddigon i'w diogelu rhag Solomon. 1 *Bren.* 14. 25—27. a 11. 14, 40.

Y mae cryn ddadl wedi bod ym mhlith gwyr dysgedig ynghylch Sesostris, brenin yr Aipht, ac ym mha amser yr oedd yn byw. Y mae rhai yn barnu mai mab ydoedd i Pharaoh Amenophis, yr hwn gyd â'i fyddin a foddwyd yn y Môr Coch, ac iddo yn union wedi dyfod i'r orsedd gyfodi byddin o chwe chan mil o wyr traed, pedair mil ar hugain o wyr meirch, a saith mil ar hugain o gerbydau rhyfel, ac iddo yn gyntaf ddarostwng yr Ethiopiaid yn Affrica, ac wedi hyny, holl Asia, hyd yr afon Ganges, ac ym mhellach; ac iddo amgylchu trwy barthau gogleddol Asia i Ewrop, gan orchfygu y Scythiaid a'r Thrasiaid.* Hyn a llawer mwy a adroddir am dano, y rhai, pe byddent wir, a'u gwnaent yn fuddugoliaethwr penaf a glywyd erioed sôn am dano. Ond y mae yn dra annhebyg y gallasai yr Aipht wneuthur y fath wyrthiau yn union ar ol boddi ei byddin yn y Môr Coch, a lladd y cyntaf-anedig, a'r effeithiau trwm a adawodd yr holl bläau arni, ac ar ei hanifeiliaid a'i thrigolion. Tebycach yw yr holl hanes i ddychymmyg *(romance)* a luniodd rhyw Aiphtwr er mwyn mawrhau ei wlad yn nhyb dieithriaid.

Y mae ereill yn barnu mai Sisac oedd Sesostris, ac ym mhlith ereill yr Hanesydd Iuddewig Josephus; yr hwn, er ei fod yn credu hyny, fel y gellir casglu oddiwrth ei waith, etto nid yw yn crybwyll am ddim a wnaeth, ond yspeilio Jerusalem yn amser Rehoboam.†

Nid oes hanes yn yr Ysgrythyrau am ddim a wnaeth breninoedd yr Aipht o'r cyrch hwn o eiddo Sisac, hyd Sabacon, neu So yr Ethiopiad, yr hyn oedd yspaid o 249 o flynyddoedd. Y mae digon o sail i farnu na ddaeth breninoedd yr Aipht fawr dros derfynau eu gwlad tra parhaodd yr yspaid hwn, a 117 o flynyddoedd wedi hyny hyd amser Necho, yn y flwyddyn olaf i Josiah. Yr oedd gwlad Canaan wedi ymranu yn ddwy deyrnas, y rhai oeddynt yn fynych mewn rhyfel â'u gilydd—ond er hyny, nid oes diin hanes bod breninoedd yr Aipht wedi gwneuthur ymgais tu ag at ddarostwng y wlad hyd yr amser a grybwyllwyd. O amser Sabacon, y mae y dysgedig *Prideaux* yn dechreu rhoddi hanes am freninoedd yr Aipht, y rhai, yn ol ei drefn ef, a grybwyllir am danynt yn yr hyn a ganlyn.

1. Sabacon, yr hwn a elwir So, (2 *Bren.* 17. 4.) oedd yn frenin yn Ethiopia yn Affrica, yr hwn, wedi goresgyn gwlad yr Aipht, a ddaliodd

---

* Bedford's Chron. p. 434—443. † Josephus Antiq. l. 8. c. 4.

ac a losgodd Boccaris y brenin yn fyw, oddeutu dechreuad teyrnasiad Hezeciah, ac a deyrnasodd ar yr Aipht wyth mlynedd. At So y danfonodd Hosea, yr olaf o freninoedd Israel, genadau, pan wrthryfelodd efe yn erbyn Salmaneser; ond nid oes hanes iddo gael cynnorthwy ganddo pan aeth hi yn gyfyng arno. Fe ymddengys mai ffon gorsen oeddynt bob amser i'r rhai oedd yn pwyso arnynt.

II. Ar ol Sabacon, teyrnasodd Sethon ei fab, yr hwn hefyd a elwir Sefechus. Efe a deyrnasodd 14 blynedd.* Yn amser y brenin hwn y bu Senacherib yn anrheithio gwlad yr Aipht. Y mae Herodotus yn dywedyd mai brenin annoeth ydoedd, a'i fod wedi mynu cael ei wneuthur yn arch-offeiriad i Fulcan, un o'r duwiau Paganaidd.

III. Ar ol Sefechus y teyrnasodd Tarachus, neu Tirhacah, brenin Ethiopia, ei gar, yr hwn oedd y trydydd a'r olaf o'r breninoedd o'r wlad hono a deyrnasodd yn yr Aipht. Tirhacah oedd y brenin a ddaeth yn gynnorthwy i Sefechus yn erbyn Senacherib, ac a lwyddodd mor bell ag i'w hymlid allan o'r Aipht; ond collodd y frwydr wedi hyny, fel y dangoswyd eisoes yn hanes Senacherib. 2 *Bren.* 19. 9. Teyrnasodd yn yr Aipht 18 mlynedd. Ar ol ei farwolaeth, bu y wlad mewn anghydfod ac annhrefn dros 2 flynedd, hyd oni ddarfu i 12 o'r pendefigion gytuno gyd â'u gilydd i ranu y wlad yn 12 rhan; ac felly y llywodraethwyd y wlad dros 15 mlynedd: ond yn y flwyddyn olaf o'r 15, difeddiannwyd Psammiticus, un o'r 12 tywysog, o'i ran gan y lleill, a gyrwyd ef o'r wlad.

IV. Psammiticus, wedi ffoi o'r wlad, a gasglodd fyddin o Arabiaid crwydraidd ag oedd yn byw ar yspail, ac o fôr-ladron o Caria ac Ionia, gwledydd yn Asia leiaf, ac mewn brwydr a orchfygodd ac a laddodd amryw o'r tywysogion, a'r lleill a yrodd o'r wlad, yr hon a draws-feddiannodd iddo ei hun, ac a deyrnasodd gyda mawr lwyddiant dros 54 blynedd. Ei flwyddyn gyntaf oedd y 29 flwyddyn i Manasseh. Ar ol ei sefydlu ar yr orsedd, rhyfelodd yn erbyn Esarhadon, brenin Assyria; ei amcan oedd dwyn Syria a Phalestina oddi arno. Canys yr oedd y gwledydd hyn yn wrthddrychau mor ddymunol i freninoedd yr Aipht, fel nad oedd bron neb o honynt, ag oedd yn meddwl ei hun yn ddigon cryf i'w hennill, yn esgeuluso gwneuthur cais at hyny. O'r ochr arall, yr oedd breninoedd Assyria a Babilon dros lawer o oesoedd, a breninoedd Groegaidd Syria wedi hyny, yn gwneuthur eu goreu i ddal eu gafael arnynt. A'r canlyniad oedd, mai weithiau y naill ac weithiau y lleill a'u meddiannent. Tybygid fod y gwledydd hyn, gan mwyaf, ym meddiant breninoedd Assyria, o amser Tiglath-pileser hyd y flwyddyn olaf o deyrnasiad Josiah, yr hyn oedd yspaid o 127 mlynedd, pan ddaeth yr Aiphtiaid dan Pharaoh-Necho i'w meddiannu dros oddeutu 4 blynedd. Wedi hyny,

---

* Mae *Prideaux* yn ei hanes am freninoedd yr Aipht, yn dilyn *Herodotus*, yr Hanesydd Groegaidd, *Africanus*, *Josephus*, ac ereill.

ni chafodd un brenin o'r Aipht, ag oedd yn Aiphtwr o genedl, byth feddiant arnynt.

Dechreuodd Psammiticus y rhyfel hwn trwy roddi gwrchae ar Asdod, yn yr hon yr oedd milwyr i frenin Assyria, fel y mae yn debygol, er pan gymmerwyd hi gan Tartan. *Esa.* 20. 1. Ond nid allodd ei chymmeryd hyd onid oedd y gwarchae wedi parhau 29 mlynedd, ac ni bu o fawr les iddo, gan nad oedd hi wedi hyny ond gweddill Asdod, fel y gelwir gan y prophwyd. *Jer.* 25. 20. Ac nid oes hanes fod Psammiticus wedi gwneuthur dim mwy yn y rhyfel hwn na chymmeryd Asdod. Yr oedd Manasseh, ar ei adferiad i'w freniniaeth, wedi adgyweirio amddiffynfëydd Jerusalem, a holl ddinasoedd caerog Judah, trwy annogaeth Esarhadon, fel y mae sail dda i farnu, rhag ymgyrch yr Aipht, fel nas gallodd Psammiticus fenu fawr ar y wlad. Gwel 2 *Cron.* 33. 14.

V. Ar ol marw Psammiticus, daeth ei fab Necus, neu Pharaoh-Necho, yn ei le, yn y 25ain flwyddyn i Josiah, ac a deyrnasodd 16 mlynedd. Dywedir iddo wneuthur cais am gydio y Môr Coch âg afon Nilus, trwy *ganal,* neu ddyfr-ffos, o'r naill i'r llall; ond wedi difa chwech ugain mil o wyr yn y gwaith, gorfu iddo ei roddi i fynu. Ond cafodd well llwyddiant mewn llongwriaeth; canys wedi cael i'w wasanaeth rai o longwyr mwyaf medrus y Phœniciaid, danfonodd hwynt trwy y Môr Coch, i amgylchu ac i chwilio arfordiroedd Affrica, y rhai, yn y drydedd flwyddyn, a ddychwelasant adref heibio i gyfyng-fôr Gibraltar, trwy Fôr y Canoldir, yr hyn oedd fôr-daith anghyffredin yn y dyddiau hyny, cyn ġwybod am ddefnyddioldeb y maen-tynu *(loadstone).* Yr oedd hyn oddeutu 2100 o flynyddoedd cyn i Fasques de Gama, o Portugal, fyned heibio i'r *Cape of Good Hope,* yn gyntaf un o Ewrop, i'r India Ddwyreiniol. Soniwyd eisoes am y rhyfel a fu rhwng Pharaoh-Necho a Nabopolasar, brenin Babilon, gan hyny, nid oes achos i'w ail-adrodd yma. Bu Necho farw yn y 9fed flwyddyn i Jehoiacim.

VI. Psammis, mab Necho, a ddaeth yn lle ei dad, ac a deyrnasodd chwe blynedd. Bu farw mewn rhyfel yn erbyn yr Ethiopiaid.

VII. Apries, neu Pharaoh-Hophra, a ddilynodd ei dad Psammis, yn y 5ed flwyddyn i Sedeciah, ac a deyrnasodd 25 mlynedd. Gan fod yr un awydd ynddo ag oedd yn amryw o'i ragflaenwyr i feddiannu Syria a Phalestina, annogodd Sedeciah i daflu iau brenin Babilon, i'r diben o roddi arno ei iau ei hun. Bu hyn, fel y dangoswyd, yn ddinystr i Sedeciah ac i'w ddeiliaid. Ac er cymmaint o addewidion teg a wnaeth Hophra, etto, pan ddaeth cyfyngder ar frenin Judah, ni chafodd ganddo ond rhith gynnorthwy; canys wedi dyfod allan o'i wlad â byddin i ymladd â'r Babiloniaid, fe ofnodd y canlyniad, ac a ddychwelodd yn ol heb daro ergyd. *Jer.* 35. 5, 7. Adroddir y rhan sydd yn ol o hanes Pharaoh-Hophra dan y Chweched Dosparth.

Taflen 2, o'r Pummed Dosparth.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Blyn. Solomon.	Y pethau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
3001	1008	12	Blwyddyn cyssegriad y deml. 1 *Bren.* 6. 38. 2 *Cron.* 7. 10. Cyssegrwyd hi ar ŵyl y pebyll yn y flwyddyn hon, ym mhen un mis ar ddeg ar ol ei gorphen.
3013	996	24	Y mae Solomon yn gorphen ei adeiladau yn Jerusalem. 1 *Bren.* 9. 10. Y mae yn rhoddi ugain dinas yn Galilea i Hiram. 1 *Bren.* 9. 12, 13.
3020	989	31	Y mae brenines Seba yn ymweled â Solomon, fel y bernir yn y flwyddyn hon. 1 *Bren* 10. 1,—13. *Bedford's Chron.*
3029	980	40	Sisac yn dechreu teyrnasu yn yr Aipht; Jeroboam yn ffoi atto. *Usher's Annals.* 1 *Bren.* 11. 40. Y mae Solomon yn marw, oddeutu 60 mlwydd oed, (1 *Bren* 11. 42, 43.) a'i fab Rehoboam yn teyrnasu yn ei le.

Er anwir. tŷ Israel.	Reho-boam.	Jero-boam.	
3030	979	1	1	Y rhwyg yn y freniniaeth—deg llwyth yn dewis Jeroboam yn frenin, a 2 lwyth yn glynu wrth Rehoboam. 1 *Bren.* xii.
3031	978	2	2	Y mae Jeroboam tu a diwedd y flwyddyn, tybygid, yn gosod i fynu y ddau lo aur. 1 *Bren.* 12. 28—30.
3032	977	1	3	3	Hon oedd y flwyddyn gyntaf o'r 390 mlynedd y dioddefodd Duw anwiredd tŷ Israel. *Ezec.* 4. 4.
3034	975	3	5	5	Y mae Sisac, brenin yr Aipht, yn dyfod yn erbyn Rehoboam. 2 *Cron.* 12. 2—4.
3046	963	15	17	17	Y mae Rehoboam yn marw. 1 *Bren.* 14. 31.
			Abiam		
3047	962	16	1	18	Abiam, mab Rehoboam, yn dechreu teyrnasu yn y 18fed flwyddyn i Jeroboam. Y mae yn lladd ac yn clwyfo mewn brwydr bum can mil o Israel. 1 *Bren.* 15. 1. 2 *Cron.* 13. 17.
3049	960	18	3	20	Y mae Abiam yn marw, 1 *Bren.* 15. 8. a'i fab
			Asa		
3050	959	19	1	21	Asa yn dyfod yn ei le yn niwedd yr 20fed flwyddyn i Jeroboam; felly

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd. Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
			Asa	Nadab	y flwyddyn gyntaf i Asa oedd gan mwyaf yr 21ain i Jeroboam. 1 *Bren.* 15. 9.
3051	958	20	2	1 | 22	Y mae Jeroboam yn clafychu, ac yn cymmeryd ei fab Nadab i'r freniniaeth, fel y gellir casglu, gan fod Nadab yn dechreu teyrnasu yn yr ail flwyddyn i Asa. 2 *Cron.* 13. 20. 1 *Bren.* 15. 25.
3052	957	21	3	2 | Baasa 1	Y mae Baasa yn lladd Nadab a holl dŷ Jeroboam, ac yn dechreu teyrnasu yn y 3edd flwyddyn i Asa. 1 *Bren.* 15. 27—33.
3060	949	29	11	9	Terah yr Ethiopiad a orchfygir gan Asa, ar ol i wlad Judah gael llonydd 10 mlynedd, yn nechreu teyrnasiad Asa. 2 *Cron.* xiv.
3064	945	33	15	13	Y mae Asa ar wyl y Pentecost yn y flwyddyn hon yn dwyn y bobl i gyfammod â'r Arglwydd. 2 *Cron.* 15. 10.
3065	944	34	16	14	Yn yr 16eg flwyddyn o freniniaeth Asa, yr hon oedd y 36 flwyddyn o'r rhwyg yn y llwythau, y daeth Baasa yn erbyn Judah, ac adeiladodd Rama. 2 *Cron.* 16. 1. Gwel Sylwadau ar y 5ed Dosparth ym mlaen.
				Elah	
3075	934	44	26	1 | 24	Y mae Elah, mab Baasa, yn dechreu teyrnasu ym mlwyddyn olaf ei dad, sef y 26ain i Asa. 1 *Bren.* 16. 8.
3076	933	45	27	2 | Zimri Tibni | Omri 1 | 1	Zimri yn lladd Elah. Y mae yr ail flwyddyn i Elah, 7 niwrnod Zimri, a'r flwyddyn gyntaf o'r ymryson rhwng Tibni ac Omri, i gyd yn cyfatteb mewn rhan i'r 27ain flwyddyn i Asa. 1 *Bren.* 16.
3077	932	46	28	2 | 2	8—23. Parhaodd yr ymryson
3078	931	47	29	3 | 3	rhwng Tibni ac Omri oddeutu 4
3079	930	48	30	4 | 4	blynedd, gan fod dechreuad teyrnasiad Omri yn yr 31 flwyddyn i Asa.
3080	929	49	31	5	Omri wedi lladd Tibni yn teyrnasu nes cyflawni 12 mlynedd ar ol marwolaeth Zimri.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
			Asa	Omri	
3082	927	51	33	7	Ar ol teyrnasu 6 blynedd yn Tirsah, y mae Omri yn prynu mynydd gan Semer, ac yn adeiladu Samaria. 1 *Bren.* 16. 23, 24.
				Ahab	
3087	922	56	38	1 12	Y mae Omri yn cymmeryd ei fab Ahab i'r freniniaeth, ac yn marw. 1 *Bren.* 16. 23—29.
3088	921	57	Jehosaphat 39	2	Asa yn clafychu o'i draed, 2 *Cron.* 16. 12., a chan fod ei glefyd yn parhau, cymmerodd ei fab
3090	919	59	1 41	4	Jehosaphat i ran o'i freniniaeth, yn y flwyddyn olaf o'i deyrnasiad, yr hon oedd y 4edd flwyddyn i Ahab. 1 *Bren.* 22. 41.
3092	917	61	3	6	Mae Jehosaphat yn ei 3edd flwyddyn yn gwneuthur diwygiad mewn crefydd. 2 *Cron.* 17. 7, 8, 9.
3094	915	63	5	8	Y mae Jehosaphat yn cymmeryd Athaliah, merch Ahab, yn wraig i'w fab Jehoram. 2 *Cron.* 18. 1.
3095	914	64	6	9	Genir Ahaziah, mab Jehoram, o Athaliah. 2 *Bren.* 8. 26.
3098	911	67	9	12	Y 3½ blynedd o sychder a newyn yn dechreu, fel y bernir, yn yr Hydref (*Autumn*) o'r flwyddyn hon. 1 *Bren.* 17. 1. *Iago* 5. 17.
3099	910	68	10	13	Oddeutu y pryd hyn yr ail-adeiledir Jericho, ynghylch 546 mlynedd ar ol ei dinystrio gan Josua, 1 *Bren.* 16. 34. Porthir Elias gan gigfrain. 1 *Bren.* 17. 2—7.
3100	909	69	11	14	Y mae y 3edd flwyddyn o'r sychder yn dechreu yn yr Hydref (*Autumn*). Yn y Gwanwyn o'r blaen aethai Elias i Sarephtah, lle porthwyd ef, a'r teulu lle yr oedd, yn wyrthiol, oddeutu dwy flynedd, fel y mae y gair *Heb.* yn arwyddocau. 1 *Bren.* 17. 8—16.
3101	908	70	12	15	Y mae Elias yn adgyfodi mab y wraig weddw. 1 *Bren.* 17. 17—24.
3102	907	71	13	16	Yn y drydedd flwyddyn er pan aethai Elias i Sarephtah, y mae yn aberthu ar ben Carmel, yn lladd prophwydi Baal, ac yn cael gwlaw trwy weddi. 1 *Bren.* xviii. *Iago*

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Proffadau Ysgrythyrol.
			Jehosaphat	Ahab	5. 17, 18. Y mae yn ffoi rhag Jezebel, yn dychwelyd, ac yn enneinio Eliseus. 1 *Bren.* xix.
3104	905	73	15	18	Y mae Ahab yn ennill buddugoliaeth fawr ar Benhadad brenin Syria. 1 *Bren.* 20. 1—21.
3105	904	74	16	19	Y mae yn ennill buddugoliaeth fwy, ac yn heddychu â'r Syriaid; a'r heddwch yn parhau 3 blynedd. 1 *Bren.* 20. 22—34. a 22. 1.
3106	903	75	17	20	Naboth a labyddir. 1 *Bren.* xxi. Ahaziah, mab Ahab, a Jehoram, mab Jehosaphat, a wneir yn rhaglawiaid o flaen y rhyfel yn Ramoth-Gilead, tua diwedd yr 17eg flwyddyn i Jehosaphat. Y mae y flwyddyn gyntaf i Ahaziah a Jehoram yn cyfatteb gan mwyaf i'r 18fed i Jehosaphat. 1 *Bren.* 22. 51. 2 *Bren.* 1. 17.
3107	902	76	Jehoram mab Jehosaphat 1	18	Ahaziah mab Ahab 1 / Jehoram mab Ahab 1 / 21	Y mae Ahab a Jehosaphat yn parotoi i fyned i Ramoth-Gilead, yn niwedd y 3edd flwyddyn o heddwch. 1 *Bren.* 22. 1—30.
3108	901	77	2	19	2 / 2 / 22	Ahab a leddir. 1 *Bren.* 22. 34, 35. Jehoram, mab Jehosaphat, yn lladd ei frodyr yn absennoldeb ei dad, ac Elias yn ei geryddu trwy lythyr. 2 *Cron.* 21. 2, 3, 4, 12--15. (Gwel Sylwadau ar y 5ed Dosparth, ym mlaen, lle y cysonir y pethau olaf hyn.) Yn yr un flwyddyn, sef y 19eg i Jehosaphat, a'r 2fed i Jehoram, mab Ahab, y trosglwyddwyd Elias, ac Eliseus a ddechreuodd weinidogaethu a gwneuthur gwyrthiau. 2 *Bren.* 2. 1—18. Y mae Mesa, brenin Moab, yn gwrthryfela yn erbyn Jehoram, mab Ahab. 2 *Bren.* 3. 4, 5. Y mae Eliseus trwy weddi yn cael mab i'r Sunamees. 2 *Bren.* 4. 17.
3109	900	78	20	3	Y rhyfel yn myned y'mlaen rhwng Israel a'r Syriaid. 2 *Bren.* 5. 2. Naaman a lanheir. 2 *Bren.* 5. 14.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Proffadau Ysgrythyrol.
			Jehosaphat	Jehoram	
3110	899	79	21	4	Adnewyddir y rhyfel rhwng Israel a Syria. Gwarchaeir ar Samaria. Y newyn tost a'r waredigaeth wyrthiol. 2 *Bren.* 6. 24—33. 2 *Bren.* vii.
			Jehoram mab Jehosaphat		
3111	898	80	1 22	5	Eliseus yn adgyfodi mab y Sunamees, yr hon yn amser newyn sydd yn myned i ymdeithio dros saith mlynedd yn ngwlad y Philistiaid. 2 *Bren.* 4. 18—37. 2 *Bren.* 8. 1—5. Y rhyfel yn erbyn Moab. 2 *Bren.* iii. Jehoram, mab Jehosaphat, a ddygir i'r freniniaeth yr ail waith. 2 *Bren.* 8. 16, 17. O'r pryd hwn y cyfrifir iddo wyth mlynedd. 2 *Cron.* 21. 5.
3112	897	81	2 23	6	Y mae Jehosaphat yn gwneuthur ail ddiwygiad mewn gwlad ac eglwys, 2 *Cron.* 19. 4—11.; ac yn cael goruchafiaeth ryfedd heb ymladd. 2 *Cron.* 20. 1—30.
3114	895	83	4 25	8	Jehosaphat yn marw, ac Edom a Libnah yn gwrthryfela yn erbyn ei fab Jehoram. 2 *Bren.* 8. 20—22. 2 *Cron.* 21. 8, 9, 10.
3115	894	84	5	9	Y mae y Philistiaid a'r Arabiaid yn anheithio Judah a Jerusalem, ac yn caethgludo gwragedd a holl feibion Jehoram, ond Ahaziah yr ieuangaf. 2 *Cron.* 21. 16, 17.
3116	893	85	6	10	Jehoram, brenin Judah, yn cael ei daraw â chlefyd anaele, yn ei ymysgaroedd, dwy flynedd cyn ei farwolaeth. 2 *Cron.* 21. 18, 19.
3117	892	86	7	11	Y mae Eliseus yn hysbysu i Hazael y byddai yn frenin ar Syria. 2 *Bren.* 8. 7—15.
			Ahaziah		
3118	891	87	1 8	12	Y Sunamees yn cael ei thir yn ol gan Jehoram, brenin Israel. 2 *Bren.* 8. 1—6. Cymmerir Ahaziah i'r freniniaeth gan ei dad, Jehoram, oddeutu blwyddyn cyn ei farw. 2 *Bren.* 8. 24—27. Lleddir Ahaziah a Jehoram gan Jehu. 2 *Bren.* ix.
			Athaliah	Jehu	
3119	890	88	1	1	Athaliah, mam Ahaziah, yn lladd holl feibion teulu breninol Judah,

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
					ond Joas, mab Ahaziah, ac yn teyrnasu ar Judah chwe blynedd. 2 *Bren.* 11. 1, 2, 3.
			Athaliah	Jehu	
3120	889	89	2	2	Jehu yn lladd addolwyr Baal, ac yn arbed y lloi aur. 2 *Bren.* 10. 15—31.
3121	888	90	3	3	Hazael yn ennill gwlad y ddau lwyth a hanner oddiar Jehu. 2 *Bren.* 10. 32, 33.
3124	885	93	6	6	Lleddir Athaliah ar ol teyrnasu chwe blynedd, ac
			Joas		
3125	884	94	1	7	Urddir Joas, mab Ahaziah, yn frenin ar Judah yn 7 mlwydd oed. 2 *Bren.* 11. 4—16. a 12. 1. 2 *Cron.* 23. 1—15.
3146	863	115	22	28	Y mae Jehu yn marw, a'i fab Joacas yn teyrnasu yn ei le. 2 *Bren.* 13. 1, 2.
				Joacas	
3147	862	116	23	1	Er i Joas roddi gorchymyn i adgyweirio y deml, etto nid oedd y gwaith yn cael ei wneuthur, nes i Jehoiada barotoi cist, yn y 23ain flwyddyn i Joas, i dderbyn rhoddion y bobl, a mynu gorphen y gwaith. 2 *Bren.* 12. 6—15. 2 *Cron.* 24. 8—14.
3150	859	119	26	4	Y mae Hazael yn anrheithio ac yn gorthrymu gwlad Israel, fel y dygir Joacas i gyflwr isel, yr hyn a barodd iddo weddïo ar yr Arglwydd. Cafodd ei wrandaw fel na lwyr ddifethwyd. 2 *Bren.* 13. 3—7.
				Joas	
3161	848	130	37	1 15	Dygir Joas, mab Joacas, i ran o freniniaeth Israel. 2 *Bren.* 13. 10.
		Amasia			
3162	847	131	1 38	2 16	Dygir Amasia hefyd i mewn i freniniaeth Judah, gan ei dad Joas, yn yr ail flwyddyn i Joas, mab Joacas, tybygid, pan oedd Hazael yn bygwth Jerusalem. 2 *Bren.* 14. 1. a 12. 17, 18. Jehoiada yn marw, a'i fab Zechariah yn cael ei labyddio. 2 *Cron.* 24. 15—22. *Mat.* 23. 35.
3163	846	132	2 39	3 17	Y Syriaid ym mhen y flwyddyn yn

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
			Amasia 3 | Joas 40	Joas 4	dyfod drachefn yn erbyn Judah a Jerusalem. 2 *Cron.* 24. 23, 24. Y mae Joacas yn marw. 2 *Bren.* 13. 1, 9.
3164	845	133			Joas, brenin Judah a leddir ar ei wely. 2 *Cron.* 24. 25, 26. Amasia yn lladd lleiddiad ei dad. 2 *Bren.* 14. 5.
3165	844	134	4	5	Y mae Hazael yn marw, a'i fab Benhadad yn teyrnasu ar Syria yn ei le. 2 *Bren.* 13. 54.
3167	842	136	6	7	Y mae Joas, brenin Israel, yn ymweled âg Eliseus ychydig cyn ei farw, ac yn cael addewid o 3 buddugoliaeth ar y Syriaid. 2 *Bren.* 13. 14—19.
3168	841	137	7	8	Y Moabiaid yn cyrchu yn erbyn gwlad Israel, a dyn marw yn adgyfodi wrth gyffwrdd âg esgyrn Eliseus. 2 *Bren.* 13. 20, 21.
3169	840	138	8	9	Joas y flwyddyn hon, a'r ddwy ganlynol, yn gorchfygu y Syriaid dair gwaith. 2 *Bren.* 13. 5, 23, 25.
3172	837	141	11	12	Amasia, wedi cyflogi can mil o Israeliaid, ar gerydd gwr Duw, yn eu hanfon yn ol. 2 *Cron.* 25. 6—13.
3174	835	143	13	14	Amasia yn gorchfygu yr Edomiaid, ac yn cael ei faglu gan eu duwiau. 2 *Cron.* 25. 14—16.
3175	834	144	14	15	Amasia mewn ymffrost yn rhyfela yn erbyn Joas, ac yn cael ei orchfygu. 2 *Cron.* 25. 17—24.
3176	833	145	15	16 | Jeroboam yr ail 1	Jeroboam yr ail a ddygir i mewn i'r freniniaeth, gan ei dad Joas, yn nechreu y 15fed flwyddyn i Amasia. 2 *Bren.* 14. 23. Y mae Joas, brenin Israel, yn marw (15 mlynedd o flaen Amasia) yn fuan ar ol dyrchafiad ei fab i'r orsedd. 2 *Bren.* 14. 17.
3186	823	155	25	11	Genir Uzzia, neu Azariah. 2 *Bren.* 15. 1, 2.
3190	819	159	29	15	Amasia yn ffoi ac yn cael ei ladd

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Proffadau Ysgrythyrol.
			Judah dan lywodraethwyr lleg mlynedd.	Jeroboam yr ail.	yn Lacis. 2 *Bren.* 14. 17—20. 2 *Cron.* 25. 25. Y mae teyrnas Judah dan lywodraethwyr dros 11 mlynedd, gan na ddechreuodd Uzziah deyrnasu hyd y 27ain flwyddyn i Jeroboam yr ail.
3202	807	171	Uzziah 1	27	Uzziah yn 16 mlwydd oed yn dechreu teyrnasu. 2 *Bren.* 15. 1, 2. 2 *Cron.* 26. 1, 3.
3204	805	173	3	29	Hosea yn dechreu prophwydo, fel y bernir. *Hos.* 1. 1, 20. Uzziah yn gorchfygu y Philistiaid, ac ereill. 2 *Cron.* 26. 6, 7.
3205	804	174	4	30	Jonah yn prophwydo (2 *Bren.* 14. 25.) a Jeroboam yn ennill ei holl wlad o law y Syriaid. Y mae Joel ac Amos yn dechreu prophwydo oddeutu y flwyddyn hon. *Joel* 2. 10. *Amos* 1. 1.
3207	802	176	6	32	Y ddaeargryn. *Amos* 1. 1. a 4. 11. *Joel* 2. 10, 11. *Zech.* 14. 5.
3208	801	177	7	33	Yn y flwyddyn hon, fel y bernir, a'r pedair canlynol, y danfonwyd barnau trymion ar Israel a Judah yn olynol: sef, 1. Y lindys.—2. Ceiliogod rhedyn.—3. Pryf y rhŵd.—4. Locustiaid.—5. Sychder mawr. *Joel* 1. 4—20. *Hos.* 4. 3. *Amos* 7. 1—4.
3214	795	183	13	39	Obadiah yn prophwydo, fel y bernir. *Bedford.*
3216	793	185	15	41	Jeroboam yr ail yn marw. 2 *Bren.* 14. 23.
3222	787	191	21	Gwag deyrn o 22ain flynedd yn nheyrnas Israel.	Y mae Jonah yn prophwydo cwymp Ninifeh, yr hyn a gyflawnwyd ym mhen 40 mlynedd. *Jonah* 3. 4. Esaiah yn dechreu prophwydo, fel y bernir. *Esa.* 1. 1.
3239	770	208	38	Zecariah 6 mis. Salum 1 mis.	Y mae Zecariah, mab Jeroboam yr ail, yn teyrnasu y 6 mis olaf o'r 38 flwyddyn i Uzziah. (2 *Bren.* 15. 8—10.) ac a leddir gan Salum, yr hwn a laddwyd ar ol teyrnasu un mis yn nechreu y 39 flwyddyn i Uzziah.
3240	769	209	39	Menahem. 1	Menahem, ar ol lladd Salum, yn

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
					teyrnasu ar Israel. 2 *Bren.* 15. 13—17. Y mae Pul brenin Assyria yn dyfod i wlad Israel ac yn caethgludo rhai o'r ddau lwyth a hanner. 2 *Bren.* 15. 19, 20. 1 *Cron.* 5. 26.
			Uzziah	Menahem	
3249	760	218	48	10	Y mae Menahem yn marw. 2 *Bren.* 15. 22.
				Pecahiah	
3250	759	219	49		Y mae teyrngadair Israel yn wag un flwyddyn, gan na ddechreuodd
3251	758	220	50	1	Pecahiah, mab Menahem, deyrnasu hyd y 50ain flwyddyn i Uzziah. *Bedford.*
3252	757	221	51	2	Lleddir Pecahiah gan Pecah mab Remaliah, ar ol teyrnasu 2 flynedd. 2 *Bren.* 15. 23—25.
				Pecah	
3253	756	222	52	1	Pecah yn teyrnasu. 2 *Bren.* 15. 27. Uzziah yn wahanglwyfus, a Jotham yn llywodraethu. 2 *Bren.* 15. 5. Esaiah yn cael gweledigaeth yn y deml. *Esa.* 6. 1.
			Jotham		
3254	755	223	1	2	Jotham yn dechreu teyrnasu ar ol marwolaeth ei dad, yn yr 2 flwyddyn i Pecah. 2 *Bren.* 15. 32.
3256	753	225	3	4	Sylfaenwyd Rhufain y flwyddyn hon, Ebrill 21.
3258	751	227	5	6	Y mae Jotham yn diwygio crefydd, ac yn adeiladu un o byrth y deml. 2 *Bren.* 15. 35. Y mae Hosea yn prophwydo (*Hos.* 5. 7.) 30 mlynedd cyn caethgludo y deg llwyth gan Salmaneser.
3259	750	228	6	7	Michah yn dechreu prophwydo, fel y bernir. *Mic.* 1. 1.
3262	747	231	9	10	Ninifeh a gymmerir gan Arbaces a Belesis, sef Tiglath-pileser a Baladan, ym mhen 40ain mlynedd ar ol i Jonah brophwydo. *Jonah* 3. 4. *Prideaux Conn. Anno.* 747.
3265	744	234	12	13	Jotham yn dwyn yr Amoniaid dan dreth dros dair blynedd. 2 *Cron.* 27. 5, 6.
			Ahaz		
3269	740	238	1 | 16	17	Pan oedd Resin a Phecah yn parotoi i ryfela yn erbyn Judah, y mae Jotham yn cymmeryd ei fab Ahaz i'r freniniaeth, fel y bernir, ac yn

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd. Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
					marw cyn gweled y drygfyd. 2 *Bren.* 15. 38. a 16. 1. Resin a Phecah yn gwarchae ar Jerusalem heb lwyddo. 2 *Bren.* 16. 5. O'r flwyddyn hon, cyfrifir 65ain mlynedd hyd oni chaethgludwyd gweddillion y 10 llwyth gan Esarhadon. *Esa.* 7. 8.
			Ahaz	Pecah	
3270	739	239	2	18	Ahaz a'i bobl a orchfygir ac a orthrymir yn ddirfawr gan Resin a Phecah. 2 *Cron.* 28. 5—15.
3271	738	240	3	19	Y mae Ahaz yn danfon at Tiglathpileser, yr hwn a laddodd Resin, ac a gaethgludodd drigolion Damascus, a llawer o drigolion y deg llwyth. 2 *Bren.* 16. 7, 8, 9. 2 *Cron.* 28. 16—21. 2 *Bren.* 15. 29.
3272	737	241	4	20	Y mae Ahaz yn aberthu i dduwiau Damascus. 2 *Bren.* 16. 10—18. 2 *Cron.* 28. 22—25. Lleddir Pecah gan Hosea mab Elah, yn yr 20fed flwyddyn er pan ddechreuasai Jotham lywodraethu yn y flwyddyn olaf i Uzziah. 2 *Bren.* 15. 30.
				Gwag-deyrn 10 ml. yn nheyrnas Israel.	
				Hosea	
3280	729	249	12	1	Y mae Hosea mab Elah yn dechreu teyrnasu yn y 12fed flwyddyn i Ahaz. 2 *Bren.* 17. 1.
3282	727	251	14	3	Hezeciah a ddygir i'r freniniaeth gan ei dad Ahaz yn niwedd y 3edd flwyddyn i Hosea. 2 *Bren.* 18. 1. Ond gan fod y 4edd i Hezeciah yn cyfateb i'r 7fed i Hosea, a'i 6ed i'r 9fed i Hosea (2 *Bren.* 18. 9, 10.) y mae yn rhaid fod y flwyddyn gyntaf i Hezeciah yn cyfateb, gan mwyaf, i'r 4edd i Hosea.
			Hezeciah		
3283	726	252	15 | 1	4	Y mae Hezeciah, ym mhen 25 mlynedd ar ol diwygiad Jotham, yn gwneuthur diwygiad mwy. 2 *Cron.* xxix, xxx.
3284	725	253	16 | 2	5	Y mae Ahaz yn marw. 2 *Bren.* 16. 2. Esaiah yn prophwydo yn erbyn y Philistiaid. *Esa.* 14. 28—31.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Breninoedd Israel.	Y Digwyddiadau mwyaf bynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
			Hezeciah	Hosea	
3285	724	254	3	6	Ymae Hosea yn gwrthryfela yn erbyn Salmaneser. 2 *Bren.* 17. 4.
3286	723	255	4	7	Gwarchaeir ar Samaria. 2 *Bren.* 17. 5. a 18. 9.
3288	721	257	6	9	Ym mhen tair blynedd yr ennillwyd hi gan Salmaneser. 2 *Bren.* 18. 10. Y deg llwyth a gaethgludir. 2 *Bren.* 17. 6—23. Yn amser gwarchae Samaria, fel y bernir, y gwnaeth Hezeciah ryfel llwyddiannus yn erbyn y Philistiaid. 2 *Bren.* 18. 8. *Esa.* 14. 29. *Josephus' Antiq. lib.* 9. *c.* 13.
3289	720	258	7		Hezeciah, tybygid, yn y flwyddyn hon yn nacâu talu teyrnged i Salmaneser, a dalesid i'w dad Tiglath-pileser, ac yntau, er amser Ahaz. 2 *Bren.* 18. 7.
3296	713	265	14		Senacherib, mab Salmaneser, yn dyfod yn erbyn Judea, a Hezeciah yn ymostwng iddo. 2 *Bren.* 18. 13—16. Hezeciah yn clafychu, yn gwellhau yn wyrthiol, ac yn cael estyniad o 15 mlynedd at ei einioes. 2 *Bren.* 20. 1—11. *Esa.* 38. 1—8. Michah yn prophwydo ei 3edd bennod. Gwel *Jer.* 26. 18.
3297	712	266	15		Merodach-Baladan, mab Baladan, yn anfon cenadau at Hezeciah. 2 *Bren.* 20. 12, —18. Senacherib yn cymmeryd Asdod ar ei ffordd i'r Aipht (*Esa.* xx.) ac yn anrheithio y wlad hòno dros dair blynedd.
3299	710	268	17		Nahum yn prophwydo. Genir Manasseh.
3300	709	269	18		Senacherib yn dychwelyd o'r Aipht trwy wlad Moab (*Esa.* 16. 14.) yn tori ei ammodau â Hezeciah, yn bwgwth Jerusalem, ac yn colli 185,000 o'i filwyr yn Nob. 2 *Bren.* 19. 35. *Esa.* 10. 32, 33, 34.
3304	705	273	22		Senacherib a leddir gan ei feibion, ac Esarhadon yn teyrnasu yn ei le. 2 *Bren.* 19. 37. *Prideaux's Conn.*
3311	698	280	29		Bu farw Hezeciah ym mhen 15 mlynedd ar ol ei iachâd. *Esa.* 38. 5.
			Manasseh		
3312	697	281	1		Manasseh, mab Hezeciah, yn dechreu teyrnasu. 2 *Bren.* 21. 1.
3314	695	283	3		Y mae yr un yspaid o amser rhwng y diluw

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
			Manasseh	a diwedd y flwyddyn hon, ag oedd rhwng y greadigaeth a diwedd y diluw.
3325	684	294	14	Ar ol marw Tirhacá yr Ethiopiad, y mae 12 o dywysogion yn cyd-lywodraethu yn yr Aipht 15 mlynedd. *Prideaux's Conn.*
3330	679	299	19	Y mae Esarhadon yn chwanegu Babilon at deyrnas Assyria. *Prideaux's Conn. Manasseh* 19.
3333	676	302	22	Esarhadon, neu Asnappar, yn niwedd y flwyddyn hon ym mhen 65 mlynedd o ddechreu y flwyddyn gyntaf i Ahaz, yn caethgludo gweddillion y 10 llwyth, ac yn cyfleu ereill yn eu lle. *Esa.* 7. 8. 2 *Bren.* 17. 24. *Ezra* 4. 2, 10. Y pryd hyn y dygir Manasseh a Sebnah i Babilon. 2 *Cron.* 33. 11. *Esa.* 22. 15—19.
3334	675	303	23	Adferir Manasseh ar ei edifeirwch i'w freniniaeth, a gwneir Eliacim yn benteulu yn lle Sebnah. 2 *Cron.* 33. 12, 13. *Esa.* 22. 20—24. Blinir y cenedloedd yn Samaria gan lewod. 2 *Bren.* 17. 25—28.
3340	669	309	29	Psammiticus, un o'r 12 tywysog yn yr Aipht, wedi dinystrio y lleill, yn traws-feddiannu y deyrnas, ac yn teyrnasu 54 blynedd. *Prideaux's Conn.*
3343	666	312	32	Esarhadon yn marw, a'i fab Saosduchinus yn teyrnasu yn ei le 20 mlynedd. *Prideaux's Conn.*
3363	646	332	52	Saosduchinus, brenin Assyria, yn marw, a Chiniladanus yn dyfod yn ei le. *Prideaux's Conn.*
3366	643	335	55	Manasseh yn marw, a'i fab Amon yn teyrnasu yn ei le, yr hwn ym mhen 2 flynedd a leddir gan ei weision. 2 *Bren.* 21. 18—23. 2 *Cron.* 33. 20—24.
3367	642	336	Amon 1	
3368	641	337	2	
			Josiah	
3369	640	338	1	Josiah yn 8 mlwydd oed a wneir yn frenin yn lle Amon ei dad. 2 *Bren.* 22. 1.
3376	633	345	8	Josiah yn 15 mlwydd oed yn dechreu diwygiad mewn pethau crefyddol. 2 *Cron.* 34. 3.
3380	629	349	12	Josiah yn y 12fed flwyddyn o'i deyrnasiad yn glanhau Judah a Jerusalem o'r delwau, &c. a holl wlad Israel hyd Naphtali. 2 *Cron.* 34. 3—7, 33. 2 *Bren.* 23. 3—20.
3381	628	350	13	Jeremiah yn dechreu ar ei swydd brophwydol 40 mlynedd cyn dinystrio Jerusalem. *Jer.* 1, 2, 3. *Ezec.* 4. 6.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Brenhinoedd Judah.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
			Josiah	
3383	626	352	15	Y mae Nabopolasar, tad Nebuchodonosor, yn gwrthryfela yn erbyn brenin Assyria, ac yn traws-feddiannu Babilon, lle mae yn teyrnasu 21 mlynedd. *Prideaux.* Genir Daniel y prophwyd oddeutu y flwyddyn hon.
3386	623	355	18	Josiah yn cyweirio y deml, yn cael llyfr y gyfraith, sef y pum llyfr a ysgrifenwyd â llaw Moses, wedi ei guddio, fel y bernir, er amser Manasseh. 2 *Cron.* 34. 8—22. Y mae Josiah yn cadw y Pasc. 2 *Bren.* 23. 21, 22, 23.
3393	616	362	25	Y mae Nechus, neu Pharaoh-Necho, yn teyrnasu yn yr Aipht yn lle ei dad Psammiticus. *Prideaux's Ann.* 612.
3397	612	366	29	Ninifeh a ddinystrir gan y Mediaid a'r Babiloniaid, yn ol prophwydoliaethau Nahum a Sephaniah. *Pen.* 2. 13, 14, 15.
3399	610	368	31	Josiah a leddir gan Pharaoh-Necho mewn brwydr yn Megido. 2 *Bren.* 23. 29. Habacuc yn prophwydo, fel y bernir, oddeutu y pryd hyn. *Bedford.*
			Joahaz 3 mis.	Joahaz, wedi teyrnasu tri mis ar ol ei dad, a ddygir gan Pharaoh-Necho i'r Aipht, lle y bu farw. 2 *Bren.* 23. 31, 32, 33.
			Joacim	
3400	609	369	1	Joacim a wneir yn frenin gan Pharaoh-Necho yn lle ei frawd Joahaz. 2 *Bren.* 23. 34—36.
3402	607	371	3	Nebuchodonosor, wedi cael ei ddwyn i ran o'r freniniaeth gan ei dad, yn cyrchu tua Judea, yn niwedd y flwyddyn hon. *Dan.* 1. 1. 2 *Bren.* 24. 10.
3403	606	372	4	Gorchfygir Pharaoh-Necho yn Charchemis. *Jer.* 46. 2. Cymmerir Jerusalem, rhwymir Joacim, ond gollyngir ef ar ammodau. Daniel, ei gyfeillion, ac ereill, yn myned yn gaeth i Babilon. Cyfrifir y 70 mlynedd o gaethiwed Babilon o'r flwyddyn hon. 2 *Bren.* 24. 1. 2 *Cron.* 36. 6. *Jer.* 25. 1. *Dan.* 1. 1—6.
3405	604	374	6	Nabopolasar, brenin Babilon, yn marw. Hon a gyfrifir yn flwyddyn gyntaf i Nebuchodonosor gan y Babiloniaid, a Daniel y prophwyd, a'r 4edd flwyddyn i Jehoiacim gan yr Iuddewon. *Dan.* 2. 1.
3406	603	375	7	Daniel yn dehongli breuddwyd Nebuchodonosor. *Dan.* ii. Joacim yn gwrthryfela,

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Er anwiredd Israel.	Breninoedd Judah.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod, a'r Profiadau Ysgrythyrol.
			Joacim	ar ol gwasanaethu brenin Babilon dair blynedd. 2 *Bren.* 24. 1.
3409	600	378	10	Genir Cyacsares, neu Darius y Mediad, mab Astyages, neu Ahasferus, brenin Media. *Dan.* 5. 31. a 9. 1. Y mae Pharaoh-Necho yn marw, a'i fab Psammis yn teyrnasu yn ei le.
3410	599	379	11	Genir Cyrus, mab Cambyses brenin Persia, o Mandana, merch Astyages, brenin Media.
			Joachin 3 mis.	Lleddir Joacim—yn gwneuthur rhuthr o Jerusalem yn amser y gwarchae, fel y bernir, a Joachin ei fab a wneir yn frenin. Ym mhen tri mis y mae yn rhoddi ei hun a'r ddinas i Nebuchodonosor. Y pryd hyn y caethgludwyd Ezeciel, yn 25 mlwydd oed, a Cis, hen daid Mordecai. 2 *Bren.* 24. 8, 16. *Ezec.* 1. 2. *Esther* 2. 5, 6.
			Sedeciah	Hon oedd yr 8fed flwyddyn i Nebuchodonosor. 2 *Cron.* 36. 9.
3411	598	380	1	Mattaniah, mab ieuengaf Josiah, a wneir yn frenin, a throir ei enw yn Sedeciah. 2 *Bren.* 24. 17, 18.
3415	594	384	5	Y mae Ezeciel yn 30 mlwydd oed yn dechreu prophwydo. *Ezec.* 1. 1. Y mae Psammis, brenin yr Aipht, yn marw, ac Apries, neu Pharaoh-Hophra, ei fab, yn dyfod yn ei le. *Prideaux. Zedec.* 5.
3416	593	385	6	Y mae Sedeciah yn gwneuthur cynghrair dirgel â Pharaoh-Hophra, tybygid, tua diwedd y flwyddyn hon. *Ezec.* 17. 15.
3418	591	387	8	Y mae Sedeciah yn gwrthryfela yn erbyn Nebuchodonosor. 2 *Cron.* 36. 13.
3419	590	388	9	Y mae Nebuchodonosor yn dyfod â'i lu yn erbyn Jerusalem yn y 10fed mis a'r 10fed dydd. 2 *Bren.* 25. 1. *Ezec.* 24. 1, 2.
3420	589	389	10	Y mae y Babiloniaid yn ymadael oddiwrth Jerusalem i fyned i gyfarfod â Pharaoh-Hophra, yr hwn a giliodd yn ol heb ymladd. *Jer.* 37. 5—12. *Ezec.* 29. 1, 2.
3421	588	390	11	Ennillwyd Jerusalem gan frenin Babilon yn y 4ydd mis a'r 9fed dydd. Hon oedd y 19 flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodnosor, yn ol y cyfrif Iuddewig, a'r 17eg, yn ol y cyfrif Babilonaidd. Llosgir y deml a'r ddinas yn y 5ed mis a'r 7fed dydd. 2 *Bren.* 25. 4—8. Caethgludir holl drigolion y wlad, oddieithr rhyw ychydig weddill o dlodion y wlad, y rhai a adawyd dan lywodraeth Gedaliah, fab Ahicam. Sefydlodd y rhai hyn yn Mispah, dinas yn llwyth Benjamin,

trwy ganiatâd brenin Babilon, ac atynt y daeth llawer o'r Iuddewon ag oedd wedi ymguddio neu ddiangc i'r gwledydd cymmydogaethol, ynghyd â Johanan, mab Carea, ac ereill o dywysogion y lluoedd, a wasgaresid pan ddaliwyd Sedeciah yn rhosydd Jericho. 2 *Bren.* 25. 5. *Jer.* 40. 13.

Er nad oedd Nebuchodonosor ei hun o flaen Jerusalem pan gymmerwyd hi (2 *Bren.* 25. 6.) fe ymddengys ei fod wedi rhoddi gorchymyn i benaeth y milwyr am Jeremiah, i fwrw golwg arno, a pheidio gwneuthur niwed iddo, ond gwneuthur iddo yr hyn a ewyllysiai. Wedi derbyn y cyfryw orchymyn, pan gymmerwyd Jerusalem, danfonodd penaeth y milwyr dywysogion anrhydeddus i'w ryddhau o gyntedd y carchardy. *Jer.* 38. 28. Er hyny, rhwymwyd dwylaw Jeremiah, fel y rhan arall o'r gaethglud, gan rai o îs-swyddogion y fyddin, tybygid, y rhai ni wyddent am orchymyn brenin Babilon; ac felly yr arweiniwyd ef gyd â'r gaethglud cyn belled a Ramah yn llwyth Ephraim, lle, fe allai, y daeth i gôf penaeth y milwyr gyntaf am dano (neu y cofiwyd iddo) wedi ei ryddhau o gyntedd y carchardŷ. Canys y mae yn anhawdd barnu iddo gael ei rwymo trwy wybodaeth penaeth y milwyr; ac nid yw yn annhebygol y gallasai ei anghofio yn nghanol ei orchwylion gofalus a phwysfawr. Yn Ramah y rhyddhawyd Jeremiah, yn nghyd â'i was Baruch (fel y mae yn debygol) a chafodd ei ddewis o fyned i Babilon, a chael dyrchafiad yno, neu fyned at Gedaliah i Mispah. Jeremiah, wedi dewis yr olaf, a ollyngwyd ymaith gyda llunaeth a rhodd. *Jer.* 40. 1—6.

Yn y 7fed mis, sef Tisri, yr hwn sydd yn ateb mewn rhan i fis Medi, y daeth Ismael, mab Nethaniah, o'r hâd breninol, a'r etifedd nesaf i'r goron o'r rhai a adawyd, tybygid, a dengwr o bendefigion y brenin; y rhai, mewn gwledd, a laddasant Gedaliah, a'r holl Iuddewon, a'r Caldeaid ag oedd yn cyd-wledda âg ef. Gwnaeth Ismael y weithred waedlyd hon trwy gynghor Baalis, brenin meibion Ammon, at ba un yr oedd wedi ffoi, i'r diben i osod ei hun i fynu yn frenin ar y gweddill a adawyd yn Judah, fel y gellir barnu, pan welai gyfleusdra i hyny. Yn y cyfamser, yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl yn absennol, wedi ymwasgaru i gasglu grawn-sypiau, olifiaid, a ffrwythau ereill, ag oedd y pryd hyny yn addfed. *Jer.* 40. 10. Dranoeth, pan glybu Ismael fod pedwar ugeinwr yn dyfod o Sichem, Siloh, a Samaria, âg offrymau a thus yn eu dwylaw i fyned i'w hoffrymu yn y fan lle safasai y deml yn Jerusalem, cymmerodd arno alaru gyda hwynt, ac a'u harweiniodd i Mispah tan rith eu dwyn at Gedaliah fab Ahicam, ac a'u lladdodd hwynt yn fradychus i gyd ond dengwr a roisant eu trysorau am eu bywydau. Y mae yn anhawdd deall yr achos o'r lladdfa hon, os nad oedd y pedwar ugeinwr hyn wedi gwrthod derbyn Ismael yn dywysog arnynt yn lle Gedaliah. Wedi hyny, pan welodd Ismael nad allai gasglu plaid o'i ochr, caethgludodd gynnifer o'r Iuddewon ag a allodd gael, ynghyd â

merched y brenin Sedeciah, ac a ffôdd tua gwlad meibion Ammon. Ond pan glybu Johanan mab Careah, ac ereill, am weithredoedd gwaedlyd Ismael, erlidiasaut ar ei ol, ac wedi ei oddiweddyd wrth ddyfroedd Gibeon, hwy a waredasant y gaethglud; ond Ismael ei hun ac wyth ereill a ddiangasant oddi arnynt. Gwel *Jer.* 39. 11. 14. a xl, xli.

Cadwyd pedair gŵyl ympryd, bob blwyddyn, dros 70 mlynedd wedi hyny, i goffâu y pethau galarus a ddigwyddodd yn y flwyddyn hon, a'r 9fed i Sedeciah; sef, 1. Yn y 4ydd mis, a'r 9fed dydd, i goffâu cymmeryd Jerusalem yn yr 11eg i Sedeciah. *Jer.* 39. 2.——2. Yn y 5ed mis, a'r 7fed dydd, am losgi Jerusalem a'r deml, yn yr un flwyddyn. 2 *Bren.* 25. 8.——3. Yn y 7fed mis, a'r 30ain dydd,* am ladd Gedaliah, yn yr un flwyddyn.——4. Yn y 10fed mis, a'r 10fed dydd, i goffâu gwaith Nebuchodonosor yn ymosod yn erbyn Jerusalem, yn y 9fed flwyddyn i Sedeciah. Cadwyd yr ymprydiau hyn gan yr Iuddewon yn Babilon, hyd y 4edd flwyddyn i Darius Hystaspis, yr hon oedd y 19eg flwyddyn ar ol y dychweliad o Babilon. Ond gan nad oedd argoel sicr am adferiad y deml hyd y flwyddyn hon, nid oeddynt yn rhoddi i fynu i ymprydio ac i ymostwng fel cynt. Ond yn y flwyddyn hon, gan fod gwaith y deml yn myned ym mlaen yn llwyddiannus, ac yn debyg o gael ei orphen ar frys, trwy orchymyn y brenin, danfonodd yr Iuddewon yn Babilon genadwri at Zechariah a Haggai y prophwydi i Jerusalem, i ofyn a oedd yn angenrheidiol i gadw ympryd y 5ed mis fel cynt. Gwel *Zech.* 7. 1—7. a 8. 19.

Wedi lladd Gedaliah, cymmerodd Johanan mab Careah y blaenoriaeth ar y gweddill o Judah, a rhag ofn dial y Caldeaid am weithredoedd Ismael, a'u harweiniodd, ynghyd â Jeremiah y prophwyd a'i was Baruch, i'r Aipht, yn erbyn gair yr Arglwydd trwy enau Jeremiah. Yn yr Aipht bwriasant ymaith yr hug o ragrith a wisgasent o'r blaen; gwrthodasant yr Arglwydd, ac ymroddasant i eilun-addoliaeth y cenedloedd, yr hyn a barodd i Jeremiah gyhoeddi barnedigaethau yr Arglwydd yn eu herbyn. *Jer.* xlii, xliii, xliv. Nid yw yn hysbys pa beth a ddaeth o Jeremiah ar ol myned i'r Aipht. Bernir iddo farw yn fuan wedi hyn, gan ei fod dros 70 mlwydd oed yn myned yno; wedi prophwydo dros 40 mlynedd, a dioddef carcharau, a llawer o ofidiau trymion. Y mae rhai haneswyr eglwysig yn dywedyd iddo gael ei labyddio gan yr Iuddewon am eu ceryddu am eu heilun-addoliaeth; ac ereill yn dywedyd iddo gael ei ladd gan Pharaoh-Hophra am brophwydo yn ei erbyn: (*Jer.* 43. 8—13.) ond, fel y dywed y dysgedig Prideaux, nid oes dim sicrwydd am y naill na'r llall o'r traddodiadau hyn. *Prid. part* I. *p.* 87.

---

* Ni ddywedir ym mha ddiwrnod o'r 7fed mis y lladdwyd Gedaliah; ond gan fod yr Iuddewon yn cadw gŵyl ympryd ar y 30ain o'r mis hwnw hyd heddyw i goffâu lladd Gedaliah, y mae yn debygol mai ar y dydd hwnw y lladdwyd ef. *Prideaux.*

PENNOD VII.

Sylwadau ar y Pummed Dosparth, i eglurhau a chysoni rhai anhawsderau perthynol i Amserau Breninoedd Israel a Judah, &c.

Dylid sylwi na chyfrifir i freninoedd Israel a Judah ond rhyw yspaid o flynyddoedd cyfain o ran eu hoedran neu amser eu teyrnasiad, er fod, fe allai, ryw faint o amser dros ben y flwyddyn olaf o'u hoedran neu eu teyrnasiad, neu ynte ryw faint yn fyr o gyflawni blwyddyn gyfan.* Er hyny nid oes le i ammeu, tybygaf, nad yw y ddwy Daflen Amseryddol yn y Pummed Dosparth yn rhoi cyfrif cywir o flynyddoedd y breninoedd, gan eu bod mewn cysondeb â'r hanes Ysgrythyrol, fel y gwelir wrth gymharu y naill Daflen â'r llall, a phob un o'r ddwy â'r Ysgrythyrau. Yn neilldnol fe ymddengys fod sail dda i farnu nad eill fod fawr o gamsyniad ynddynt, od oes dim, gan eu bod mewn cysondeb â phrophwydoliaeth Ezeciel, *pen.* 4. 5.† Fe ymddengys buddioldeb yr Ail Daflen o'r Pummed

---

* Am Dafydd yn unig y dywedir iddo deyrnasu saith mlynedd a chwe mis yn Hebron. 2 *Sam.* 2. 11.

† Dylid sylwi, 1. Mai nid mewn gweledigaeth y cyflawnodd y prophwyd yr hyn a adroddir yn y bennod hon, ond yn wirioneddol o flaen llygaid y gaethglud yn ngwlad Babilon, megys arwydd iddynt o warchaëdigaeth Jerusalem a ddechreuodd ym mhen oddeutu pedair blynedd wedi hyny; etto, fe allai, nad oedd y prophwyd yn treulio y cwbl, ond rhyw gyfran o bob dydd i gyflawni yr arwyddion a orchymynwyd iddo.——2. Y mae y 390 o ddyddiau tra y gorweddodd ar ei ystlys aswy i ddwyn anwiredd tŷ Israel, a'r 40 niwrnod ar ei ystlys ddehau i ddwyn anwiredd tŷ Judah, i'w deall mewn dau ystyriaeth, sef yn llythyrenol ac yn brophwydol. Yn gyntaf y mae 390 o ddyddiau, neu oddeutu 13 mis, yn arwyddocâu, mewn ystyr lythyrenol, parhad y gwarchae hyd oni chymmerwyd y ddinas yn yr 11eg flwyddyn i Sedeciah, yn y 4ydd mis. a'r 9fed dydd o'r mis; ac y mae y 40 niwrnod yn arwyddoccau yr yspaid o gymmeriad y ddinas hyd oni losgwyd y deml a'r tai, ac y dryllìwyd muriau Jerusalem o amgylch. Dechreuwyd ar y gorchwyl olaf hwn ym mhen 31 diwrnod ar ol cymmeryd y ddinas, ac y mae yn hawdd barnu nad oedd 9 diwrnod yn ormod amser i ran go fawr o lu y Caldeaid i'w gwblhau; a hyn a wna y 40 niwrnod. Gellir gwrthddadleu i hyn fod parhad y gwarchae yn ól 2 *Bren.* 25. 1—3. a *Jer.* 52. 4—6. yn fwy na 17 mis. Ond i ateb yr wrthddadl, dylid ystyried i freniu Babilon godi gwarchae Jerusalem i fyned i gyfarfod byddin Pharaoh-Necho, a'i ymlid i gyffiniau ei wlad, ac ail wneuthur y gweithiau o flaen y ddinas a ddinystriasid yn ei absen: (*Jer.* 37. 5.) ac ni fyddai yn ormod i roddi 4 mis i'r gorchwylion hyn; canys y dyddiau y bu y ddinas yn warchaedig a gyfrifir yn 390.——Yn ail, mewn ystyr brophwydol: y mae y 390 a'r 40 niwrnod i'w deall mewn ystyr brophwydol am gynnifer o flynyddoedd (adn. 6.) yn diweddu yn nghymmeriad Jerusalem, a llosgiad y deml gan Nebuchodonosor. Y mae yr yspaid cyntaf yn dechreu yn y flwyddyn y gosodwyd i fynu y llol aur gan Jeroboam mab Nebat, a'r ail yn y 13 flwyddyn i Josiah, pan ddechreuodd Jeremiah brophwydo yr holl farnedigaethau a gyflawnwyd yn ninystr Jerusalem. Y mae y Daflen ragflaenol yn dangos y cyflawniad manwl o hyn o ran yr ystyr brophwydol, ac hebddi y mae yn eglur i bwy bynag a graffo arni nad yw yn hawdd i gael amgyffred cywir o amserau breninoedd Israel a Judah.

Dosparth i bob un a graffo arni, ac a'i cymharo â'r testunau crybwylledig. Hebddo ni buasai yn hawdd i gyssoni llawer o bethau ag sydd ar y golwg cyntaf yn ymddangos yn anghytunol â'u gilydd; nac i wybod fod amryw o freninoedd Israel a Judah wedi cael eu dwyn i ran o'r freniniaeth yn amser bywyd eu tadau, tra parhaodd teyrnas y deg llwyth. Yr eiddigedd a'r gelyniaeth ag oedd yn y naill deyrnas tu ag at y llall, a'r gofal ag oedd yn y breninoedd i'w hetifeddion deyrnasu ar eu hol, ac weithiau rhyw amgylchiad neillduol, oedd yn achos o hyny. Ond ar ol diddymu teyrnas y 10 llwyth, nid oes un siampl o hyny ym mreninoedd Judah tra parhaodd eu teyrnas. Wrth sylwi ar yr Ail Daflen o'r Pummed Dosparth, ceir eglurhad o amryw bethau ag sydd yn ymddangos ar y golwg cyntaf megys pe byddent yn gwrthddywedyd eu gilydd yn yr hanes Ysgrythyrol, megys y rhai a ganlyn:

I. Dywedir i Baasa yr hwn a laddodd Nadab mab Jeroboam ddechreu teyrnasu ar Israel yn y 3edd flwyddyn i Asa (1 *Bren.* 15. 28.) ac iddo deyrnasu 24 blynedd, (1 *Bren.* 15. 33.) ac i Elah ei fab deyrnasu yn ei le ar ol marwolaeth ei dad, yn y 26 flwyddyn i Asa. 1 *Bren.* 16. 6, 8. Ond yn 2 *Cron.* 16. 1. dywedir i Baasa ddyfod i fynu yn erbyn Judah yn y 36 flwyddyn o 'deyrnasiad Asa' yr hyn sydd yn ymddangos yn anghyson â'r hyn a adroddwyd o'r blaen.——*Ateb.* Wrth sylwi ar yr Hebraeg fe welir mai nid yr 36 flwyddyn 'o deyrnasiad,' ond o deyrnas Asa a feddylir; sef, o'r rhwyg yn y freniniaeth yn y flwyddyn gyntaf i Rehoboam mab Solomon; canys Rehoboam a deyrnasodd 17 flynedd; Abiah ei fab 3 blynedd; ac yn yr 16 flwyddyn i Asah mab Abiah y gwnaeth Baasa y rhyfel hwn, yr hyn oedd 36 mlynedd er yr ymraniad yn y llwythau, fel y gwelir yn yr Ail Daflen o'r 5ed Dosparth. *Bedford's Chron. p.* 598.

II. Dywedir (1 *Bren.* 16. 23.) i Omri deyrnasu ar Israel yn yr 31 flwyddyn i Asa, ac iddo deyrnasu 12 mlynedd, a 6 o honynt yn Tirsah. Er hyny dywedir (1 *Bren.* 16. 29.) i Ahab fab Omri ddechreu teyrnasu ar ol marwolaeth ei dad, yn y 38 flwyddyn i Asa,——*Ateb.* Omri a ddechreuodd deyrnasu yn union ar ol i Zimri losgi ei hun ym mhalas y brenin yn Tirsah, yn y 27 flwyddyn i Asa; (1 *Bren.* 16. 15, 16.) ond nid oedd mewn cyflawn feddiant o'r freniniaeth hyd yr 31 flwyddyn i Asa, gan fod Tibni mab Ginath yn ymryson âg ef am dani dros bedair blynedd, hyd oni laddwyd Tibni; wedi hyny dechreuodd Omri deyrnasu ei hun yn yr 31 i Asa, ac a barhaodd nes cyflawni 12 mlynedd, ar ol darfod am Zimri yn y 27 flwyddyn i Asa; ac o'r 12 mlynedd hyn, teyrnasodd 6 blynedd yn Tirsah, a 6 blynedd yn Samaria.

III. Ymddengys wrth gymharu amryw fanau â'u gilydd fod Jehoram mab Jehosaphat wedi dechreu teyrnasu dair gwaith: 1. Yn y 17 flwyddyn i Jehosaphat ei dad. Cymharwch 1 *Bren.* 22. 51. 2 *Bren.* 1. 17. 2 *Bren.* 3. 1. â'u gilydd ac â'r Ail Daflen o'r 5ed Dosparth.——2. Yn

y 5ed flwyddyn i Jehoram mab Ahab. 2 *Bren.* 8. 16.——3. Ar ol marwolaeth ei dad Jehosaphat. 2 *Cron.* 21. 1.——*Ateb.* I gael amgyffred gyson o'r amrywiol ddechreuadau hyn o deyrnasiad Jehoram mab Jehosaphat, dylid sylwi iddo gael ei wneuthur yn rhaglaw y waith gyntaf, tybygid, yn y 17 flwyddyn i'w dad Jehosaphat, pan oedd yn myned gyd âg Ahab i ryfel i Ramoth-Gilead, pan wnawd Ahaziah mab Ahab yn rhaglaw yn nheyrnas Israel yr un amser, ac am yr un achos. Profir hyn gan fod y gair yn dywedyd mewn un man fod Jehoram mab Ahab wedi dechreu teyrnasu yn yr ail flwyddyn i Jehoram fab Jehosaphat. 2 *Bren.* 1. 17. Ac mewn man arall fod Jehoram mab Ahab wedi myned yn frenin ar Israel yn y 18fed flwyddyn i Jehosaphat. 2 *Bren.* 3. 1. Y mae yn rhaid gan hyny mai yr un flwyddyn oedd yr ail flwyddyn i Jehoram mab Jehosaphat a'r 18fed i Jehosaphat, gan nad ellir cyfrif 12 mlynedd teyrnasiad Jehoram mab Ahab o un flwyddyn arall. Gan hyny y flwyddyn gyntaf i Jehoram mab Jehosaphat oedd yr 17eg i'w dad.——2. Gwnawd Jehoram mab Jehosaphat yn rhaglaw yr ail waith yn y 5ed flwyddyn i Jehoram mab Ahab, yr hon oedd yr 22ain flwyddyn i Jehosaphat, pan aeth gyda brenin Israel yn erbyn Moab. 2 *Bren.* 3. 6, 7. a 8. 16. O'r pryd hyn y cyfrifir 8 mlynedd i deyrnasiad Jehoram mab Jehosaphat.——3. Dechreuodd deyrnasu ar ol marwolaeth ei dad. 2 *Cron.* 21. 1. Dylid sylwi mai nid ar ol marwolaeth ei dad y lladdodd Jehoram mab Jehosaphat ei frodyr ond yn yr amser cyntaf y gwnawd ef yn rhaglaw. Profir hyn oddiwrth y llythyr a ysgrifenodd Elias ato ychydig cyn ei symudiad i'r nefoedd. 2 *Cron.* 21. 12—15. 2 *Bren.* ii. Yr oedd symudiad Elias o flaen y rhyfel yn erbyn Moab, 2 *Bren.* 3. 5—11. gan mai Eliseus oedd gyd â'r fyddin yr amser hwnw: a sonir am Elias (adn. 11.) megys wedi ei symud, gan hyny nid oedd yr un amser tebycach i Jehoram ladd ei frodyr na phan oedd ei dad yn absennol yn Ramoth-Gilead, yn y 18fed flwyddyn o'i deyrnasiad.

IV. Y mae cryn anhawsder yn ymddangos i gael amgyffred cyson o amserau teyrnasiad Ahab a'i ddau fab Ahaziah a Jehoram, a'i dilynasant yn nheyrnas Israel, wrth eu cymharu â'u gilydd, ac amrywiol amserau o deyrnasiad Jehosaphat. Dywedir i Jehosaphat ddechreu teyrnasu yn y 4edd flwyddyn i Ahab, (1 *Bren.* 22. 41.) ac i Ahab deyrnasu 22 flynedd. 1 *Bren.* 16. 29. Ym mhellach, dywedir i Ahaziah fab Ahab gael ei wneuthur yn frenin yn y 17 flwyddyn i Jehosaphat, a theyrnasu 2 flynedd, (1 *Bren.* 22. 51.) a rhan o honynt ar ol marwolaeth ei dad. 1 *Bren.* 22. 40. Dywedir yn ganlynol i Jehoram fab Ahab, a brawd Ahaziah fyned yn frenin yn y 18fed flwyddyn i Jehosaphat, ac yn yr ail flwyddyn i Jehoram fab Jehosaphat, y rhai oeddynt, fel y dangoswyd yr un flwyddyn. 2 *Bren.* 1. 17. a 3. 1. Fel ag yr oedd y flwyddyn 1af i Jehosaphat yn ateb i'r 4edd flwyddyn i Ahab, felly yr oedd y 17

flwyddyn i Jehosaphat yn cyfateb i'r 20fed flwyddyn i Ahab, o leiaf mewn rhan; a'r 19 flwyddyn i Jehosaphat i'r 22 flwyddyn i Ahab. Ond y mae yn anhawdd deall pa fodd y gallai Ahab deyrnasu cyhyd, gan fod y gair yn dywedyd i Ahaziah mab Ahab gael ei wneuthur yn frenin yn yr 17 flwyddyn i Jehosaphat, a Jehoram ei frawd yn y 18fed flwyddyn i Jehosaphat. Y mae yn ymddangos fel pe buasai Ahab heb deyrnasu dim yn ychwaneg na 19 blynedd, ac Ahaziah ei fab ddim ychwaneg nag un flwyddyn ar ei ol; neu, ynte, os caniatteir 22ain flynedd i deyrnasiad Ahab, fod ei fab Ahaziah wedi marw oddeutu blwyddyn o flaen ei dad. Ond y mae yr ysgrythyr yn dangos yn eglur i Ahaziah ddyfod i'r freniniaeth ar ol marwolaeth ei dad Ahab. 1 *Bren.* 22. 40.——*Ateb.* I gysoni y pethau hyn â'u gilydd ac â'r Ysgrythyrau, tybygid fod Jehosaphat wedi ddechreu teyrnasu yn niwedd y 4edd flwyddyn i Ahab; ac felly fe etyb ei flwyddyn gyntaf, gan mwyaf, i'r 5ed flwyddyn i Ahab; yn yr un modd ei 17eg a'i 18fed flwyddyn i'r 21ain a'r 22ain flwyddyn i Ahab. Hefyd y mae yn rhaid barnu i Ahaziah mab Ahab gael ei wneuthur yn rhaglaw âg awdurdod breninol gan ei dad yn niwedd y 17eg flwyddyn i Jehosaphat, yr hon, gan mwyaf, sydd yn cyfateb i'r 21ain flwyddyn i Ahab, ac iddo deyrnasu un flwyddyn gyfan, sef y 18fed i Jehosaphat, a rhan o'i 19eg blynedd; yr hyn (yn ol dull yr Iuddewon o gyfrif) a gyfrifir yn 2 flynedd. Ond y'mhen ychydig ar ol ei dderchafiad i'r orsedd, syrthiodd Ahaziah o lofft trwy ffenestr o ddellt (2 *Bren.* 1. 2.) tra yr oedd ei dad yn cyrchu yn erbyn Ramoth-Gilead. Gan i Ahaziah gael ei anghymhwyso trwy y codwm i edrych ar ol y llywodraeth, gwnawd Jehoram ei frawd yn rhaglaw yn ei le yn y 18fed flwyddyn i Jehosaphat, yr hwn oedd yn cyfateb, gan mwyaf, i'r 22ain flwyddyn i Ahab. Lladdwyd Ahab yn Ramoth-Gilead, heb gyflawni ei 22ain flynedd. Ac felly y daeth y freniniaeth i Ahaziah, yr hwn oedd glaf yn ei wely, ac a fu byw, hwyrach, rai misoedd ar ol ei dad. Ond gan fod Jehoram yn llywodraethu er pan glafychodd ei frawd, cyfrifir blynyddoedd ei deyrnasiad, sef 12 mlynedd, o'r amser cyntaf y cafodd y llywodraeth. Oddiwrth hyn ymddengys fod yn bosibl i'r holl ddigwyddiadau hyn gymmeryd lle yn y 18fed flwyddyn i Jehosaphat:—1. Clefyd Ahaziah yn Samaria.——2. Derchafiad Jehoram i'r orsedd.——3. Marwolaeth Ahab yn Ramoth-Gilead.

V. Dywedir (2 *Bren.* 8. 17. 2 *Cron.* 21. 20.) fod Jehoram mab Jehosaphat yn 32 mlynedd pan ddechreuodd deyrnasu, ac iddo deyrnasu 8 mlynedd. Yn ol hyny bu farw pan oedd yn 40 mlwydd oed. Ar ol marwolaeth Jehoram, gwnawd Ahaziah ei fab ieuengaf yn frenin yn ei le, ac efe yn fab 42 flwydd pan ddechreuodd deyrnasu; 2 *Cron.* 22. 1, 2. ac os felly, yr oedd yn hŷn na'i dad 2 flynedd, yr hyn nid yw bosibl. ——*Ateb.* Nid ystyr y lle hwnw (2 *Cron.* 21. 1, 2.) yw fod Ahaziah yn 42 flwydd oed pan ddechreuodd deyrnasu, gan nad oedd y pryd hyny

ond 22 flwydd. 2 *Bren.* 8. 26. Gan hyny y mae yn rhaid fod y 42 flwydd yn golygu peth arall; sef, mai mab yr 42 flwyddyn ydoedd er dechreuad teyrnasiad Omri, hen daid Ahaziah. Gwel yr Ail Daflen o'r Pummed Dosparth, dan Omri I. ac Ahaziah I. Yr achos paham y cyfrifir ei deyrnasiad yn wahanol oddiwrth ereill o freninoedd Judah oedd am iddo wneuthur yn ol holl ddrygioni tŷ Omri, a'i fam eilun-addolgar Athaliah, yr hon oedd ferch i Ahab a Jezebel, ac wyres i Omri. 2 *Cron.* 22. 2—4. Gellir sylwi ym mhellach, nad oedd yr Yspryd Glân yn foddlon i wneuthur coffadwriaeth o enw Ahaziah yn nghofrestr hynafiaid Crist yn ol y gyfraith. *Mat.* i. Am yr un achos, sef eu hannuwioldeb, y gadewir allan enwau ei fab Joas, a'i ŵyr Amaziah. *Exod.* 20. 5.

VI. Y mae un anhawsder arall mewn perthynas i ddechreuad teyrnasiad Ahaziah, mab Jehoram, brenin Judah. Yn 2 *Bren.* 8. 25. dywedir iddo gael ei wneuthur yn frenin yn y 12fed flwyddyn i Joram fab Ahab; ond yn 2 *Bren.* 9. 29. dywedir mai yn yr 11eg flwyddyn i Joram fab Ahab yr aeth yn frenin.——*Ateb.* Y mae dau gyfrif i deyrnasiad Joram fab Ahab; un o'r amser y gwnawd ef yn rhaglaw, yn y 18fed flwyddyn i Jehosaphat, pan glafychodd ei frawd Ahaziah oddiwrth y codwm a gafodd trwy y dellt, o ba amser y cyfrifir ei deyrnasiad yn 12 mlynedd; a'r llall pan gafodd y freniniaeth ar ol marwolaeth ei frawd, ym mhen oddeutu blwyddyn ar ol ei wneuthur yn rhaglaw. Felly, yn y golygiad yma, yr un flwyddyn oedd y 12fed a'r 11eg i Joram, yr hon sydd yn cyfateb i flwyddyn teyrnasiad Ahaziah, sef y 12fed i Joram, os cyfrifir er pan wnawd ef yn rhaglaw, a'r 11eg er pan ddechreuodd deyrnasu ar ol marwolaeth ei frawd.

VII. Dywedir i Hosea, mab Elah, ladd Pecah brenin Israel, yn yr 20fed flwyddyn i Jotham; (2 *Bren.* 15. 30.) ond ni theyrnasodd Jotham ond 16 mlynedd ar ol marwolaeth ei dad, gan ddechreu yn yr 2il flwyddyn i Pecah. 2 *Bren.* 15. 32, 33. Ac ymddengys mai yn y 4edd flwyddyn i Ahaz y lladdwyd Pecah. Gwel yr Ail Daflen o'r Pummed Dosparth.——*Ateb.* Yr achos yw, tybygid, fod yr Yspryd Glân yn dewis cyfrif yn ol blynyddoedd Jotham dduwiol yn y pridd, nag Ahaz ei fab eilun-addolgar, er ei fod yn fyw. Y mae yr 20fed flwyddyn i Jotham i'w chyfrif o'r amser y dechreuodd Jotham lywodraethu, yn y flwyddyn olaf i Uzziah ei dad, ar ol ei daraw â gwahanglwyf. 2 *Bren.* 15. 5.

VIII. Y mae anhawsder mawr yn ymddangos wrth gymharu blynyddoedd oedran Ahaz a'i fab Hezeciah. Dywedir (2 *Bren.* 16. 2.) fod Ahaz yn 20 mlwydd oed pan ddechreuodd deyrnasu, ac iddo deyrnasu 16 mlynedd; gan hyny ei oed pan fu farw oedd 36 mlynedd. Dywedir am Hezeciah (2 *Cron.* 29. 1. 2 *Bren.* 18. 2.) ei fod yn 25 mlwydd oed pan ddechreuodd deyrnasu yn y 3edd flwyddyn i Hosea mab Elah,

yr hon oedd oddeutu dwy flynedd o flaen marwolaeth ei dad Ahaz; ac felly nid allai Ahaz fod ddim mwy na naw mlwydd oed pan anwyd ei fab, yr hyn sydd yn ymddangos yn bur annhebygol.——*Ateb.* Gellir cyfieithu 2 *Bren.* 18. 2. fel hyn, 'Mab y bummed flwyddyn ar hugain oedd efe pan ddechreuodd deyrnasu,' &c. ac yr ydys yn barnu mai nid blynyddoedd ei oedran a olygir, ond rhyw amgylchiad hynod oedd wedi digwydd 25 mlynedd cyn i Hezeciah ddechreu teyrnasu. Sylwyd eisoes ar gyffelyb ddull o ymadroddi mewn perthynas i Ahaziah, mab Jehoram, brenin Judah; sef, mai mab yr eilfed flwyddyn a deugain ydoedd, er dechreuad teyrnasiad ei hen daid Omri. Y gweithredoedd cyntaf o eiddo Hezeciah ag sydd genym hanes am danynt, oedd agor drysau tŷ yr Arglwydd, a gwneuthur diwygiad mawr a chyffredinol mewn crefydd. 2 *Cron.* xxix, xxx. Tybygid fod hyn 25 mlynedd er yr amser y dechreuodd Jotham, taid Hezeciah, gyweirio y deml, a diwygio crefydd mewn rhai pethau, yn y 5ed flwyddyn o'i deyrnasiad, fel y gellir casglu wrth gyfrif 25 mlynedd yn ol o'r flwyddyn laf i Hezeciah. Gwel 2 *Bren.* 15. 34, 35. Y mae y geiriau, 'Er hyny ni thynwyd ymaith yr uchelfëydd,' yn dangos fod diwygiad mewn rhan wedi cael ei wneuthur gan Jotham; ond tebygol mai ym mhen 25 mlynedd wedi hyny y gwnawd diwygiad mwy cyflawn gan ei ŵyr Hezeciah, ac y gorphenwyd cyweirio y deml, yr hyn a ddechreuwyd gan Jotham. *Bedford's Chron. p.* 650.

PENNOD VIII.

Am y Prophwydi, Elias ac Eliseus.

Cyn rhoddi hanes Elias, y mae yn angenrheidiol sylwi ychydig ar ansawdd teyrnas y 10 llwyth, mewn perthynas i grefydd, pan godwyd ef i fynu gan yr Arglwydd i geryddu, ac mewn rhan i ddiwygio, y deyrnas eilun-addolgar hòno. Soniwyd eisoes am eilun-addoliaeth y lloi aur a ddygwyd i mewn gan Jeroboam, mab Nebat. Ond fel y mae gwlad, neu berson unigol, wedi dechreu ymlygru âg unrhyw bechod, yn dueddol o ymlygru fwy-fwy, felly y digwyddodd i wlad Israel; canys ym mhen oddeutu 56 mlynedd ar ol gosod i fynu y lloi, chwanegwyd atynt addoliad Baal. Yr oedd Ahab wedi priodi Jezebel, merch Ethbaal, breinn y Sidoniaid, yn amser teyrnasiad ei dad Omri—ond pan ddechreuodd deyrnasu ei hun, i ryngu bodd i'w wraig, gosododd i fynu addoliad Baal, yr hwn oedd duw y Tyriaid a'r Sidoniaid. 1 *Bren.* 16. 29—33. Fel yr annogasai yr Arglwydd i'w brophwydi ddwyn tystiolaeth yn erbyn eilun-addoliaeth y lloi, (1 *Bren.* xiii. a 14. 5—16. a 16. 1—4.) felly y cododd efe Elias i fod yn brophwyd i gyhoeddi ei farnedigaethau, nid yn unig am bechodau Jeroboam, wrth ba rai yr oedd Israel yn glynu, ond yn neillduol am yr eilun-addoliaeth newydd a

ddygasid i mewn yn ddiweddar gan Ahab a Jezebel—nid am ei fod yn waeth na'r cyntaf, ond am ei fod yn chwanegiad at y gau addoliad ag oedd o'r blaen yn y wlad, ac at ei llygredigaethau. Am hyny, dywedir i Ahab wneuthur mwy i ddigio Arglwydd Dduw Israel na holl freninoedd Israel a fuasai o'i flaen. 1 *Bren.* 16. 33.

Yr oedd Elias yn un o drigolion Thisbe, dinas yn Gilead, tu hwnt i'r Iorddonen. 1 *Bren.* 17. 1. Nid oes sôn am ei rïeni, na'i achau, ond tybygid ei fod yn offeiriad o hiliogaeth Aaron, gan ei fod yn aberthu, (1 *Bren.* 18. 31—38.) a chan nad oedd gyfreithlon i neb ond offeiriaid i aberthu ar ol sefydlu y gyfraith seremoniol wrth Sinai. Pa beth oedd ei oed yn dechreu prophwydo, nid yw y gair yn dywedyd; ond tebygol na ddechreuodd cyn bod yn 30 mlwydd oed. *Num.* 4. 3.* Yr ydys yn barnu iddo ddechreu prophwydo yn y 12fed flwyddyn i Ahab, yr hon oedd y 9fed i Jehosaphat, trwy gyhoeddi y farnedigaeth hòno a ddanfonodd yr Arglwydd ar wlad Israel, trwy attal gwlaw a gwlith dros dair blynedd a hanner. 1 *Bren.* 17. 1. *Iago* 5. 17. Cyrhaeddodd y farnedigaeth hon y gwledydd cymmydogaethol mewn rhan, ond nid yn yr un gradd, tybygid, a gwlad Israel. Gan fod y brophwydoliaeth hon, a'r ffyddlondeb a arferodd Elias wrth ei thraethu, wedi cyffroi llid Ahab a Jezebel, gorfu iddo ffoi am ei fywyd i'w wlad ei hun dros yr Iorddonen, ac ymguddio wrth afon Cerith, yr hon sydd yn ymdywallt i gŵr uchaf môr Gennesaret, o du y dwyrain. Yma y porthwyd ef yn wyrthiol gan y cigfrain, ac yfodd o'r afon hyd oni sychodd. Pa hyd y bu wrth afon Cerith, anhawdd yw dywedyd. Wedi hyny aeth Elias trwy orchymyn yr Arglwydd i lettŷa gyda gwraig weddw dlawd yn Sarepta, neu Sarephath, (*Obad.* 20) dinas yn Phœnicia, yn perthyn i Sidon, yn agos i derfyn gogleddol gwlad Canaan. Yma yr arhosodd oddeutu 2 flynedd, *(Heb.)* hyd oni ddaeth gwlaw ar y wlad hono, er na ddaethai etto ar wlad Israel. Ac yn y cyfamser y lliosogwyd yn wyrthiol y blawd yn y celwrn, a'r olew yn yr ystên, ac adgyfodwyd mab y wraig weddw trwy weddïau Elias. 1 *Bren.* 17. 8—24. Tra bu Elias yn ymguddio wrth afon Cerith, ac yn Sarepta, danfonodd Ahab genadon at yr holl deyrnasoedd cymmydogaethol i chwilio am dano, ar fedr ei ladd pe gallasai gael gafael arno.

Yn y drydedd flwyddyn er pan ddaethai i Sarepta, ac oddeutu canol y bedwaredd flwyddyn er pan ddechreuasai y sychder, ymddangosodd Elias i Ahab trwy orchymyn yr Arglwydd wedi clywed ar y ffordd gan Obadiah y perygl o hyny. 1 *Bren.* 18. 1—16. Ahab wedi gweled Elias a haerodd mai efe oedd yr achos o'r farn drom oedd ar Israel—ond Elias a ddywedodd yn ddiarswyd yn ei wyneb, mai y gwir achos o'r farn oedd, yr ymadawiad âg addoliad a gwasanaeth yr Arglwydd, ac eilun-

* Enw Elias yn yr *Heb.* yw Elijahu, hyny yw, *yr Arglwydd yw fy Nuw.*

addoliaeth Baal a'r lloi. I benderfynu y ddadl, pa un ai Baal ai Duw Israel oedd y gwir Dduw, parodd Elias i Ahab gasglu holl brophwydi Baal a'r llwyni, 850 o rifedi, i fynydd Carmel, ar fin Môr y Canoldir, yn llwyth Zabulon; ac y cymmerai efe un bustach, ac yr aberthai, ac y cai prophwydi Baal fustach arall i'w aberthu, a'r Duw hwnw a atebai weddi, trwy ddanfon tân o'r nefoedd i ddifa yr aberth, a gai fod yn Dduw. Cyhoeddwyd hyn i holl Israel; a holl brophwydi Baal a'r llwyni a ddaethant ynghyd i sefyll o blaid eu duw, a chynnifer o Israel ag a allai ddyfod, i weled penderfyniad y ddadl. Ar ol dyfod i ben mynydd Carmel, cyweiriodd Elias yr allor ar ba un yr arferid gynt (cyn gwneuthur y deml) aberthu ebyrth i'r Arglwydd, ac a wnaeth ffos oddi amgylch iddo, ag oedd yn amgylchynu cymmaint o dir a heuai dau fesur o hâd* yn derfyn i'r bobl, fel na phwysent ar Elias, ac fel y caent glywed ei weddïau, a gweled gwyrthiau yr Arglwydd. Wedi parotôi ei aberth, a'r coed oddi tano, gorchymynodd Elias i'r bobl dywallt 12 celyrnaid o ddwfr (a gaed, tybygid, o'r môr, neu afon Cison) ar yr aberth a'r coed. Ond gan fod y ddaear yn galed o herwydd y sychder, rhedodd y dwfr ar hyd ei wyneb, ac a lanwodd y ffos. Wedi rhoddi digon o amser, a phob chwareu tèg i brophwydi Baal, heb un argoel ei fod yn gwrando nac yn sylwi ar waedd ei addolwyr (er fod eu zel cymmaint drosto, a phe buasent yn barod i aberthu eu hunain iddo) Elias a weddïodd, a thân yr Arglwydd a syrthiodd o'r nefoedd, ac a ysodd y poeth-offrwm, a'r coed, a'r cerig, a gwyneb y ddaear, ac a leibiodd y dwfr oedd yn y ffos. Yna yr holl bobl a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a ddywedasant, 'Yr Arglwydd, efe sydd Dduw, yr Arglwydd, efe sydd Dduw.' Ac yn eu gwresogrwydd, trwy annogaeth Elias, daliasant brophwydi Baal, ac a'u lladdasant wrth afon Cison, yn ol y gyfraith yn *Deut.* 18. 20. Wedi symud mewn mesur yr achos o'r sychder, cafwyd gwlaw trwy weddïau Elias. 1 *Bren.* 18. 17—46. Hyn oedd yn yr 16eg flwyddyn i Ahab, yr hon oedd y 13eg i Jehosaphat. Wedi hyny ffôdd Elias o Jezreel, rhag Jezebel, i Beerseba, yn agos i derfyn deheuol gwlad Canaan; yna daith diwrnod i'r anialwch, lle yr eisteddodd dan ferywen, ac a ddeisyfodd gael marw yno, a thrwy flinder ei gorph, a gofid ei feddwl, fe gysgodd; ond erbyn deffroi, fe welai deisen o fara wedi ei chrasu, a phiolaid o ddwfr wrth ei ben, y rhai a ddygasid gan angel yr Arglwydd, yr hwn a ddygodd iddo bryd eilwaith erbyn boreu dranoeth. Yn nerth y bwyd hwnw, cerddodd hyd Horeb, rhan o fynydd Sinai, ac a dreuliodd amryw ddyddiau yno mewn ogof, hyd oni chyflawnwyd 40 niwrnod a 40 nos, hyd oni fwytaodd drachefn, tybygid, ar ol ei ymadawiad o fynydd Sinai. Oddi yno yr aeth trwy orchymyn

---

* Y mesur hwn (yn ol yr *Heb.*) yw Sea, neu Sat, oddeutu tri galwyn. Lle dau Sat oedd cymmaint o dir a hauai chwe galwyn.

yr Arglwydd i eneinio Eliseus, gan amgylchu y Môr Marw, a chroesi yr Iorddonen oddeutu Bethabara (fel y bernir)* i fyned i Abel-meholah, dinas yn hanner llwyth Manasseh, o'r tu yma i'r Iorddonen. Yma yr oedd Eliseus yn byw, ac yn ennill ei fywioliaeth wrth lafurio y ddaear, yr hwn, ar ol cyffyrddiad mantell Elias âg ef, a gafodd ei dueddu i adael pob peth i'w wasanaethu. Eliseus a gyflawnodd, tybygid, y rhan arall o orchymyn yr Arglwydd i Elias, sef eneinio Hazael yn frenin ar Syria, ym mhen oddeutu 9 mlynedd ar ol trosglwyddiad Elias; ac eneiniwyd Jehu, trwy orchymyn Eliseus, ddwy flynedd wedi eneinio Hazael. 1 *Bren.* xix. Tebygol fod Elias yn ymguddio rhag Ahab ar ol eneinio Eliseus o ddwy i dair blynedd, hyd onid aeth trwy orchymyn yr Arglwydd i gyhoeddi barn yn ei erbyn am ladd Naboth, a thraws-feddiannu ei winllan. 1 *Bren.* xx. Tra bu Jehosaphat yn absennol o'i deyrnas gyd âg Ahab yn rhyfel Ramoth-Gilead, y lladdodd Jehoram (a adawyd yn rhaglaw) ei frodyr; am y weithred waedlyd hon y ceryddwyd ef â llythyr gan y prophwyd Elias, yn y flwyddyn olaf o deyrnasiad Ahab; yn yr un flwyddyn, pan oedd Ahaziah mab Ahab am ei ddal, lladdwyd dau dywysog a'u deg a deugeiniau trwy dân o'r nefoedd; ond aeth gyd â'r 3ydd tywysog, yr hwn a ymbiliodd âg ef am ei einioes, ac a ymddangosodd o flaen Ahaziah ar ei glaf wely, ac a gadarnhaodd yr hyn a ddywedasai o'r blaen, y byddai farw o'i glefyd, am iddo anfon cenadau at Baal-zebub, duw Ecron. 2 *Bren.* i. Yn yr un flwyddyn y cipiwyd Elias mewn corwynt i'r nefoedd, heb archwaethu marwolaeth, ar ol i'w weinidogaeth barhau oddeutu 10 mlynedd, o'r 12fed flwyddyn i Ahab. 2 *Bren.* ii. Gellir casglu ei fod y rhan fwyaf o'r amser hyny yn ymguddio rhag Ahab a Jezebel, yr hon a laddodd holl brophwydi yr Arglwydd yn nheyrnas Israel, ond y rhai a guddiwyd rhagddi (1 *Bren.* 18. 4.) neu a ffoisant am eu heinioes. Etto, pan oedd achos Duw yn galw arno, gwynebodd ei elynion yn ddiarswyd.

Eliseus mab Saphat a ddilynodd Elias ac a fu yn gweini yn ei swydd brophwydol oddeutu 59ain blynedd ar ol trosglwyddiad Elias, ond nid yw yn ymddangos ei fod o deulu yr offeiriaid, gan nad oes hanes am ei waith yn aberthu. Dechreuodd ar ei swydd brophwydol yn y flwyddyn y trosglwyddwyd Elias, yr hon oedd y 19eg flwyddyn o deyrnasiad Jehosaphat, a'r eilfed i Jehoram mab Ahab. Derbyniodd, yn ol ei ddeisyfiad, ddeuparth o yspryd Elias, hyny yw, rhan helaeth, neu ran y cyntafanedig (*Deut.* 21. 7.) ac o hyny dangosodd arwyddion eglur trwy wneuthur llawer o wyrthiau. Yn y flwyddyn hon, tybygid, a'r ganlynol, gwnaeth y gwyrthiau hyn:—1. Holltodd ddyfroedd yr Iorddonen â mantell Elias, neu yn hytrach trwy yr hyn ag yr oedd y fantell yn arwyddocau, sef y gallu dwyfol ag oedd yn ei gysgodi ac yn cyd-

* Bedford's Chron. p. 621.

weithio â hi. 2 *Bren.* 2. 14.——2. Y mae yn iachâu dyfroedd Jericho. ——3. Y mae yn melldithio plant y Betheliaid eilun-addolgar, ag oedd yn ei watwor, hwyrach, trwy annogaeth eu rhïeni, am ei fod wedi tystiolaethu am drosglwyddiad Elias i'r nefoedd; gan beri iddo fyned i fynu ar ei ol. Gan ei fod yn eu melldithio yn Yspryd yr Arglwydd, daeth dwy arthes o'r coed, ac a laddasant 42 o honynt. 2 *Bren.* 2. 23, 24. ——4. Y mae yn lliosogi olew y wraig weddw dlawd ddyledog, yn ymyl mynydd Carmel. 2 *Bren.* 2. 25. a 4. 1—7.——5. Y mae yn llettya yn Sunem yn llwyth Issachar, yn nhŷ gwraig oludog, yr hon oedd anmhlantadwy, a'i gwr yn hen. Y mae Eliseus yn addaw mab iddi, yr hwn, tybygid, a anwyd iddi yn niwedd y 19eg flwyddyn i Jehosaphat, neu ddechreu yr 50fed. 2 *Bren.* 4. 8—17.——6. Ar ol i Eliseus ddychwelyd trwy Samaria drachefn i Gilgal, yn amser newyn, y mae yn iachau y cawl trwy fwrw blawd iddo. Yr oedd un o feibion y prophwydi, ag oedd yn perthyn i'r ysgol yn Gilgal, mewn camsyniad wedi casglu arffedogaid o fresych gwylltion,* a'u bwrw i'r crochan wedi eu malu. Wedi i amryw o honynt brofi y cawl, meddyliasant eu bod wedi eu gwenwyno—ond trwy waith Eliseus yn bwrw blawd iddo, iachawyd yn wyrthiol o ran ei flas a'i rinwedd. 2 *Bren.* 4. 38—41. a 2. 25. ——7. Oddeutu yr un amser, tybygid, tra yr oedd y newyn yn parhau, daeth gwr o Baal Salisa, âg ugain o dorthau bychain o haidd, o flaenffrwyth ei gynhauaf, yn anrheg i Eliseus a meibion y prophwydi. Gosodwyd hwynt o flaen cannwr, 'a hwy a fwytasant, ac a weddillasant, yn ol gair yr Arglwydd' trwy enau Eliseus. 2 *Bren.* 4. 42—44.

8. Yn y cyfamser, tra bu Eliseus yn gwneuthur y gwyrthiau hyn, yr oedd y rhyfel yn myned ym mlaen rhwng Syria ac Israel, ar ol y frwydr yn Ramoth Gilead, trwy fod y Syriaid yn anfon minteioedd i anrheithio gwlad Israel. Yn un o'r rhuthrau hyn yr oedd Naaman, tywysog llu brenin Syria, wedi caethgludo llangces fechan o wlad Israel, yr hon oedd yn gwasanaethu gwraig Naaman; yr hon, wedi sylwi fod ei meistr yn wahanglwyfus, a ddywedodd wrth ei meistres fod prophwyd yn ngwlad Samaria a allai ei iachâu o'i wahanglwyf. Naaman wedi clywed hyn a fu yn offeryn, hwyrach, i gael rhyw ychydig yspaid o heddwch, fel y gallai gael iachad. Aeth, gan hyny, âg anrhegion a llythyr oddiwrth frenin Syria at Jehoram brenin Israel. Pa fodd yr iachawyd Naaman, ac y glynodd ei wahanglwyf wrth was y prophwyd, dangosir yn 2 *Bren.* v.

9. Yr oedd iachad Naaman, tybygid, wedi bod yn foddion i liosogi gwrandawyr Eliseus, ac ysgol y prophwydi yn Gilgal, fel yr aeth y

---

* Mae yr *Heb.* yn dangos mai y llysiau a elwir *Coloquintidæ* (yn Saes. *Bitter gourds*) oedd y rhai hyn, y rhai sydd o flas chwerw, ac yn carthu yr ymysgaroedd. *Park. Heb. Lex.* יקפ

lle yn rhy gyfyng; gan hyny awd ynghylch adeiladu lle mwy, ac wrth dori pren wrth afon yr Iorddonen, syrthiodd bwyall un o honynt ag oedd yn fenthyg o'r menybr i'r dwfr; ond wedi i Eliseus daflu cangen i'r fan lle y syrthiasai, nofiodd yr haiarn, a chodwyd hi i fynu o'r dwfr. 2 *Bren.* 6. 1—7.

10. Yn y 3edd flwyddyn i Jehoram brenin Israel, tybygid, yr hon oedd yr 20fed i Jehosaphat, adnewyddir y rhyfel gan y Syriaid yn erbyn Israel; a chan fod Naaman, hwyrach, yn anfoddlon i flaenori y llu yn erbyn gwlad lle cafodd feddyginiaeth, y mae Benhadad ei hun yn flaenor y fyddin, ac yn arfer amryw ddichellion ac ystrywiau rhyfel i gynllwyn am frenin Israel: ond Eliseus a ddatguddiodd y cwbl iddo, fel y tybiodd Benhadad fod bradwr ym mhlith ei gynghoriaid ag oedd yn mynegi ei gyfrinach i Jehoram. Ond pan ddeallodd mai Eliseus oedd yn mynegi y cwbl, a'i fod y pryd hyny yn Dothan, dinas yn llwyth Ephraim, yn agos i Samaria, danfonodd lu mawr o hyd nos i amgylchu y ddinas, ar fedr dal y prophwyd yn y boreu. Pan gododd gwas y prophwyd boreu dranoeth, a gweled meirch a cherbydau yn amgylchu y ddinas, mynegodd hyny yn ddychrynedig i'w feistr, yr hwn a'i gostegodd trwy ddywedyd fod y rhai ag oedd gyda hwy yn amlach na'r rhai oedd gyd â'u gelynion. Ac felly y gwelodd y llangc pan agorwyd ei lygaid. Pa fodd y tarawyd y Syriaid â dallineb, ac yr agorwyd eu llygaid yn Samaria, a'r amgylchiadau canlynol, a adroddir yn 2 *Bren.* 6. 8—23. Ac ni chwanegodd y Syriaid ddyfod mwyach i wlad Israel, hyny yw, yn y flwyddyn hòno.

11. Yn y 4edd flwyddyn i Jehoram brenin Israel, yr hon oedd yr 21ain i Jehosaphat, adnewyddir y rhyfel gan y Syriaid, a gwarcheuir ar Samaria cyhyd nes bod newyn trwm yn y ddinas. Yr oedd Eliseus yno yn y cyfamser. Adroddir yn helaeth am y gwarchae hwn, ac effeithiau arswydus y newyn;* bwriadau gwaedlyd Jehoram yn erbyn Eliseus; prophwydoliaeth Eliseus a'i chyflawniad; y tywysog anghrediniol; y 4 gwahangleifion; ffoedigaeth y Syriaid, a'r achos o hono, yn 2 *Bren.* 6. 24—33. a'r 7fed bennod.——Benhadad a fu fyw oddeutu 7 mlynedd ar ol y ffoedigaeth hon, ond nid yw yn ymddangos iddo ddyfod mwyach i derfynau Israel.

12. Yn y 5ed flwyddyn i Jehoram brenin Israel, yr hon oedd yr 22ain flwyddyn i Jehosaphat, bu farw mab y Sunamees, oddeutu tair blwydd oed, fel y bernir, ac yr adgyfodwyd trwy weddïau Eliseus. O'r flwyddyn hon y cyfrifir y 7 mlynedd newyn tra bu y Sunamees yn ymdaith yn ngwlad y Philistiaid. 2 *Bren.* 4. 18—37.

---

* Gwerthwyd pen asyn am 80 sicl, yr hyn oedd ddeg punt yn ol hanner coron i'r sicl. Y tom colomenod, oedd, fel y bernir, math o ffacbys, a elwir dan yr un enw gan yr Arabiaid hyd heddyw. Pedwerydd ran Cab oedd oddeutu peint o'n mesur ni, a'i bris, 5 sicl yn ateb i 12 swllt a 6 cheiniog.

13. Yn yr un flwyddyn, sef y 5ed i Jehoram, y bu y rhyfel, tybygid, yn erbyn Moab. Er fod Mesa brenin Moab wedi gwrthryfela yn union ar ol marwolaeth Ahab, ni chafodd Jehoram hamdden gan ryfeloedd Syria i droi ei wyneb y ffordd hòno. Ond yn y flwyddyn hon, amcanodd ddwyn Moab drachefn dan yr iau. Yr oedd Jehosaphat, a brenin Edom eî deyrngedwr, yn gynnorthwywyr i Jehoram brenin Israel yn y rhyfel hwn, ac Eliseus y prophwyd gyda hwynt. Cymmerasant eu taith trwy wlad Edom, gan amgylchu cwr isaf y Môr Marw, fel y gallent ymosod ar yr ochr ddeheuol i wlad Moab. Pa fodd y gwaredwyd y tri brenin hyn, a'u byddinoedd, rhag marw o syched trwy offeryndod wyrthiol Eliseus, eu buddugoliaeth ar Moab, a gweithred greulon brenin Moab, yn llosgi yn fyw mab brenin Edom (yr hwn a syrthiasai i'w ddwylaw) ar furiau Cirhareseth, ac yn ngolwg ei dad a'r byddinoedd cyssylltiedig, adroddir yn 2 *Bren.* iii. ac *Amos* 2. 1.——Er i Jehoram brenin Israel a'i gynnorthwywyr ddinystrio dinasoedd Moab i gyd ond Cirhareseth, nid yw yn ymddangos iddo lwyddo y pryd hyn nac wedi hyny i ddarostwng Moab. Y mae hanes y rhyfel hwn allan o drefn amser; ond dylid sylwi mai arfer yr Yspryd Glân yn fynych yn yr Ysgrythyrau yw rhoddi yr holl hanes gyd â'i gilydd, perthynol i ryw amgylchiad a ddechreuir son am dano, er fod, fe allai, amryw flynyddoedd rhwng y rhan gyntaf a'r olaf o hono. Y mae hanes am fywhad mab y Sunamees, a roddir yn union ar ol hanes ei enedigaeth, yn siampl o hyn.

14. Nid oes son am weithredoedd Eliseus dros oddeutu 6 blynedd ar ol y rhyfel yn erbyn Moab, hyd yr 11eg flwyddyn i Jehoram mab Ahab, yr hon oedd y 7fed i Jehoram mab Jehosaphat, pan aeth Eliseus i Damascus i gyflawni gorchymyn yr Arglwydd, a roddwyd i Elias oddeutu 15eg mlynedd o'r blaen. Ceir yr hanes am y daith hon, a pha fodd yr hysbyswyd i Hazael y byddai yn frenin ar Syria, a'r holl amgylchiadau, yn 2 *Bren.* 8. 7—15. Yn y flwyddyn ganlynol, yr hon oedd yr olaf i Jehoram mab Ahab, y dychwelodd y Sunamees a'i mab o wlad y Philistiaid, ar ol cyflawni y 7 mlynedd o newyn yn ngwlad Israel, a daeth at frenin Israel i waeddi am ei thŷ a'i thir ag oedd wedi eu trawsfeddiannu gan ereill yn ei habsennoldeb. Yr oedd Gehazi y pryd hwnw wedi bod yn adrodd i Jehoram am wyrthiau Eliseus, ac, ym mhlith ereill, pa fodd y bywhasai efe fab y Sunamees; gyda hyny, dyma y wraig ei hun yn dyfod gyd â'i mab i ŵydd y brenin, i wneuthur ei chŵyn ynghylch ei thŷ a'i thir; a Gehazi a ddywedodd wrth y brenin, 'Dyma y wraig, a dyma ei mab.' Pa fodd y bu hyn yn foddion i'r wraig gael ei thir yn ol, adroddir yn 2 *Bren.* 8. 1—6.

Yn yr un flwyddyn, sef yr olaf i Jehoram brenin Israel, danfonodd Eliseus un o feibion y prophwydi i eneinio Jehu yn Ramoth-Gilead. Yn fuan wedi hyny y lladdwyd Jehoram, ac Ahaziah brenin Judah, a

dau a deugain o'i geraint, ynghyd â Jezebel, a holl hiliogaeth Ahab. 2 *Bren.* ix. a 10. 1—14. Nid oes sôn am Eliseus wedi hyn dros oddeutu 49 mlynedd, hyd onid aeth Joas mab Joachas, ac ŵyr Jehu, i ymweled âg ef ar ei glaf wely, ychydig cyn ei farw, pan roddodd addewid i Joas drwy saethu dair gwaith am dair buddugoliaeth ar y Syriaid, y rhai a ennillodd efe yn olynol yn y tair blynedd canlynol, ar ol marw Eliseus. Yn y flwyddyn ar ol marw Eliseus, daeth y Moabiaid yn finteioedd i wlad Israel i ryfela, tybygid, mewn cynghrair â'r Syriaid. Yn y cyfamser, dygwyd corph marw i'w gladdu, a chan fod mintai o'r Moabiaid wedi dyfod yn annisgwyliadwy i'r golwg, pan oedd y cynhebrwng wrth fedd Eliseus, agorwyd ef, a rhoddwyd y corph ynddo; ond cyn cael amser i'w gau, adgyfodwyd y marw ar ol cyffwrdd âg esgyrn Eliseus. 2 *Bren.* 13. 14—21. Yr oedd yr Arglwydd, trwy y weithred wyrthiol hon, am ddangos y byddai holl eiriau Eliseus a lefarodd yn ei enw ef yn safadwy. Tebygol fod Eliseus wedi cyrhaedd i henaint têg, gan fod moelni ar ei ben pan alwyd ef i'r swydd brophwydol, a chan iddo fyw wedi hyny oddeutu 59 blynedd. Er cymmaint o annuwioldeb ac eilun-addoliaeth oedd yn nheyrnas y 10 llwyth, etto, y mae yn eglur fod gan yr Arglwydd, yn amser Elias ac Eliseus, ei saith mil ag oedd heb blygu eu gliniau i Baal na'r lloi, fel ag yr oedd, y mae yn debygol, cyn ac wedi hyny.

PENNOD IX.

Am Farwolaeth Ahaziah, Brenin Judah.

Wedi crybwyll am farwolaeth Ahaziah, brenin Judah, yn niwedd y bennod o'r blaen, wrth ddarllen yr hanes Ysgrythyrol, ymddengys fod angenrheidrwydd am ychydig o eglurhad o'r amgylchiadau perthynol i'w farwolaeth. Gellid meddwl, oddiwrth yr hanes yn 2 *Bren.* 9. 27. fod Ahaziah wedi cael ei ladd yn yr un dydd a Jehoram, ei gefnder, brenin Israel—ond wrth ei gymharu â'r hanes yn 2 *Cron.* 22. 9. ymddengys fod Ahaziah, ar ol ffoi ar hyd ffordd tŷ yr ardd, wedi ymguddio yn Samaria, ac i Jehu, wedi chwilio am dano, ei gael yn llechu yno; ac wedi ei gael, danfonodd ef yn rhwym, tybygid, yn ei gerbyd, gan roddi gorchymyn i'w weision ei ladd yn rhiw Gur, gerllaw Ibleam. Er fod gweision Jehu wedi ei glwyfo i farwolaeth yno, etto ni bu farw nes dyfod i Megido; ac oddi yno y dygwyd ef gan ei weision ei hun i gael ei gladdu yn Jerusalem; canys hyny oedd dymuniad Jehu, iddo gael ei gladdu yn ei ddinas ei hun, er mwyn Jehosaphat ei daid.

Y CHWECHED DOSPARTH.

O ddinystr Jerusalem a Theml Solomon, yn yr 16*eg flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor, yn ol y Cyfrif Babilonaidd, a'r* 19*eg yn ol Cyfrif yr Iuddewon, hyd enedigaeth Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin* (Vulgar Era) *yr oedd* 587 *o flynyddoedd. Rhenir yr yspaid hwn yn bedair rhan:* 1 *O ddinystr Jerusalem gan Nebuchodonosor, hyd ddiwedd Ymerodraeth y Babiloniaid,* 49 *mlynedd.*——2. *Tra parhaodd Ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid,* 207 *o flynyddoedd.*——3. *Tra parhaodd Teyrnasiad y Groegiaid,* 301 *o flynyddoedd.*——4. *O Oresgyniad yr Aipht gan Augustus Cæsar, yr hyn a roes derfyn ar deyrnasiad y Groegiaid, hyd flwyddyn enedigol Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin,* 30 *mlynedd.*

Yr 31*ain o deyrnasiad Augustus Cæsar oedd y flwyddyn gyntaf o'r Cyfrif Cyffredin o oed Crist, yr hwn a elwir yn Saesoneg,* The Vulgar Era of Christ's birth, *am ba un y soniwyd o'r blaen yn nechreu y Gwaith hwn. Y flwyddyn* 754 *er sylfaenu Rhufain oedd hon, ac o Oed y Byd* 4009.

Taflen 1, *o'r Chweched Dosparth.*

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Blyn. Breninoedd Babilon.	Y flwyddyn olaf o deyrnasiad y Breninoedd sydd yn ateb i flwyddyn Oed y Byd a chyn geni Crist.
3422	587	1	Y flwyddyn gyntaf ar ol dinystr Jerusalem oedd y 18fed flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor yn ol y cyfrif Babilonaidd, a'r 20fed yn ol cyfrif yr Iuddewon.
3447	562	25	Gweddill teyrnasiad Nebuchodonosor 25ain mlynedd. *Can. Ptol.*
3449	560	2	Efil-merodach, mab Nebuchodonosor, a deyrnasodd ddwy flynedd. *Jer.* 52. 31.
3453	556	4	Neriglissar, brawd yn nghyfraith Efil-merodach, bedair blynedd. *Can. Ptol.*
3470	539	17	Belsassar, ŵyr Nebuchodonosor, a deyrnasodd 17eg flynedd. *Dan.* 7. 1. a 5. 30.
		49	

D. S. Os chwanegir at y 49*ain mlynedd hyn* 19*eg blynedd er y caethgludiad cyntaf, yn y* 4*edd flwyddyn i Jehoiacim, a* 2 *flynedd Darius y Mediad, ceir y* 70*ain mlynedd o gaethiwed yn Babilon.*

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Blyn. Brenin. y Mediaid a'r Persiaid.	Breninoedd y Mediaid a'r Persiaid.
3472	537	2	Darius y Mediad a deyrnasodd 2 flynedd ar ol lladd Belsassar. *Dan.* 5. 30, 31. *Can. Ptol.*
3479	530	7	Cyrus y Persiad, mab Cambyses brenin Persia, nai a mab yn nghyfraith Darius y Mediad, a deyrnasodd 7 mlynedd. 2 *Cron.* 36. 22, 23. *Ezra* 1. 1.
3487	522	8	Cambyses mab Cyrus a deyrnasodd 7 mlynedd a 5 mis, ond cyfrifir iddo 8 mlynedd yn *Nghanon Ptolemy*, gan nad oedd Smerdis y Magiad ond trawsfeddiannydd. Gelwir Cambyses dan yr enw Ahasferus. *Ezra* 4. 6.
		0	Smerdis y Magiad, yr hwn a elwir Artaxerxes. *Ezra* 4. 7. a deyrnasodd 7 mis, yr hyn oedd yn gwneuthur i fynu 8 mlynedd Cambyses, yn ol cyfrif *Ptolemy*.
3523	486	36	Darius Hystaspis, un o saith tywysog Persia, a laddodd Smerdis y Magiad, a wnawd yn frenin trwy ddyfais ei was, ac a deyrnasodd 36ain mlynedd. *Ezra* 4. 24.
3544	465	21	Xerxes, mab Darius, y 4edd ar ol Cyrus (*Dan.* 11. 2.) a deyrnasodd 21ain mlynedd.
3585	424	41	Artaxerexes Longimanus, mab Xerxes, a deyrnasodd 41ain mlynedd. Gelwir ef Ahasferus *Est.* 1. 1. ac Artaxerxes *Ezra* 7. 1. *Neh.* 2. 1.
3604	405	19	Darius Nothus, mab ordderch Artaxerxes, 19eg blynedd.
3650	359	46	Artaxerxes Mnemon, mab Darius Nothus, 46ain blynedd.
3671	338	21	Ochus, mab Artaxerxes, a wenwynwyd ar ol teyrnasu 21ain mlynedd.
3673	336	2	Arogus, mab ieuengaf Ochus, a wenwynwyd ar ol teyrnasu 2 flynedd.
3677	332	4	Darius Godomannus, yr olaf o freninoedd Persia a orchfygwyd gan Alexander Fawr, ar ol teyrnasu 4 blynedd.
		207	

		Blyn. Brenin. Groegaidd.	
			Breninoedd Ymerodraeth y Groegiaid, a Breninoedd Groegaidd yr Aipht.
3685	324	8	Alexander Fawr a deyrnasodd 8 mlynedd ar Ymerodraeth Persia.
3692	317	7	Philip a gyfenwyd Aridæus, brawd ordderch Alexander, 7 mlynedd.
3704	305	12	Alexander Ægus, mab Alexander Fawr, 12 mlynedd.
3724	285	20	Ptolemy Soter, un o bedwar Cadben Alexander Fawr, a gafodd yr Aipht i'w ran, ac a deyrnasodd 20 mlynedd.
		47	

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Blyn. Brenin. Groegaidd.	Breninoedd Ymerodraeth y Groegiaid, a Breninoedd Groegaidd yr Aipht.
		47	
3762	247	38	Ptolemy Philadelphus ei fab 38ain mlynedd.
3787	222	25	Ptolemy Euergetes ei fab yntau 25ain mlynedd.
3804	205	17	Ptolemy Philopator ei fab yntau 17eg flynedd.
3828	181	24	Ptolemy Epiphanes mab Philopator 24ain blynedd.
3863	146	35	Ptolemy Philometor mab Epiphanes 35ain mlynedd.
3892	117	29	Ptolemy Physcon brawd Philometor 29ain mlynedd.
3928	81	36	Ptolemy Lathyrus mab Physcon 36ain mlynedd.
3943	66	15	Alexander, nai Lathyrus, mab ei frawd, 15eg mlynedd.
3957	52	14	Ptolemy Auletes, mab ordderch i Lathyrus, 14eg blynedd.
3978	31	21	Cleopatra merch Auletes 21ain mlynedd, hyd for-frwydr Actium.
		301	Parhaodd teyrnas y Groegiaid 301 o flynyddoedd.
4008	1	30	Teyrnasodd Augustus Cæsar, Ymerawdwr Rhufain, o'r for-frwydr yn ymyl Actium hyd flwydd-yn genedigaeth Crist yn ol y Cyfrif Cyffredin, 30ain mlynedd.
			Fel y gellir gweled fod amrywiol ranau y Chwech-ed Dosparth yn cyfateb i'r swm o'r cwbl, sef 587 mlynedd, ychwanegir
		49	Gweddill blynyddoedd y Babiloniaid, sef 49ain mlynedd, a
		207	Pharhad Ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid 207 mlynedd.
		587	

PENNOD I.

Sylwadau ar y Daflen flaenorol.

Cawsom ein cyfarwyddo hyd ddiwedd y Pummed Dosparth gan yr Ysgrythyrau Sanctaidd, gan mwyaf; ond yn y Dosparth hwn, a'r un canlynol, y mae yn rhaid i ni gymmeryd ein harwain mewn mesur mawr gan yr haneswyr Cenedlig ac Iuddewig; ond yn fwyaf neillduol gan Ganon Amseryddol Claudius Ptolemæus, astronomydd a *mathematician*, o Alexandria, yn yr Aipht, yr hwn oedd yn byw ac yn ei flodau yn amser Marcus Aurelius, yr Ymerawdwr Rhufeinig, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn o oed Crist 161. Cofrestr yw y Canon hwn heb gynnwys dim ond enwau ac amser teyrnasiad breninoedd Babilon, breninoedd y Mediaid a'r Persiaid, y breninoedd Groegaidd, sef Alexander Fawr, ei frawd Philip, a'i fab Alexander Ægus; breninoedd Groegaidd yr Aipht, ac Ymerawdwyr Rhufain, hyd ddiwedd teyrnasiad Antonius Pius, yn y flwyddyn o oed Crist 137. Y mae yn dechreu

gyda theyrnasiad Belesis, neu Baladan, yr hwn a alwyd Nabonasar (am ba un y crybwyllwyd eisoes) ac yn rhoddi blynyddoedd teyrnasiad pob un o'r breninoedd a'r Ymerawdwyr ar gyfer eu henwau. Cytunir gan Amseryddion yn gyffredinol fod Canon Ptolemy (fel y gelwir) wedi cael ei gyfansoddi gyda mawr ffyddlondeb a chywirdeb, a'i fod yn drysor mwy gwerthfawr nag aur, gan na buasai yn bosibl hebddo i wneuthur Amseryddiaeth cyflawn o amserau yr hen Destament. Hebddo ni allasai neb weled pa fodd y cyflawnwyd prophwydoliaeth Jeremiah ynghylch 70 mlynedd caethiwed Babilon, na dangos cyflawniad prophwydoliaeth Daniel am 70 wythnos, ac amryw o bethau ereill, yn y Dosparth hwn a'r nesaf. *Dr. Hales' Chron.*

Fel ag y dilynwyd *Bedford*, gan mwyaf, o'r dechreu hyd ddiwedd y Pummed Dosparth, oddieithr y manau lle yr oedd angenrheidrwydd i ymadael âg ef, felly yn y Dosparth hwn, a rhan o'r nesaf, y dilynir y dysgedig *Prideaux* yn ei waith a elwir *Connection of the Old and New Testament*, yr hwn sydd yn rhoddi hanes amserau olaf yr Hen Destament, o Era Nabonasar, neu Baladan, ynghyd â hanes yr amser rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, yr hyn oedd yspaid o 409 mlynedd cyn geni Crist, os cyfrifir o ddiwedd y 7 wythnos cyntaf o'r 70, pan roddwyd, fel y bernir, y llaw olaf gan Nehemiah i'r diwygiadau yn Jerusalem a ddechreuwyd gan Ezra. Y mae *Prideaux* yn dwyn ei waith ym mlaen hyd groeshoeliad ein Hiachawdwr Crist, lle y mae hefyd yn dibenu y 70 wythnos; ond yn hyn y mae yn gamsyniol, trwy ddiweddu yr wythnosau yn marwolaeth Crist, a thrwy wneuthur oedran Crist yn hŵy o 3 blynedd a hanner na'i wir oed, fel y dangosir ym mlaen. Er hyny, y mae yn rhaid cyfaddef ei fod yn rhoddi y flwyddyn olaf o'r 70 wythnos yn yr amser y dylai fod, a lle y rhoddir hi yn y gwaith hwn. Gwel Daflenau y Chweched Dosparth.

Y mae Daflen flaenorol mewn cysondeb â'r Ysgrythyrau mor bell ag y mae hanes ysgrythyrol yr Hen Destament yn cyrhaedd, ac â'r prophwydoliaethau a gafodd gyflawniad dan amserau y Dosparth hwn, a'r un canlynol. Ond yn yr ail Daflenau o'r Chweched a'r Seithfed Dosparth y ceir amlygrwydd o hyny.

PENNOD II.

Dilyniad o Freninoedd Babilon.

Wedi dwyn hanes Nebuchodonosor hyd amser y caethgludiad i Babilon, yn y bummed bennod o'r Dosparth o'r blaen, gorphenir yma yr hyn sydd yn ol o'i weithredoedd ef a'i ganlynwyr hyd oni chymmerwyd Babilon gan Cyrus. Yn yr 20fed flwyddyn o'i deyrnasiad, yn ol y cyfrif Iuddewig, a'r 18fed yn ol y cyfrif Babilonaidd, y gwnaeth Nebuchod-

onosor, fel y bernir, y ddelw aur yn ngwastadedd Dura, o'r yspail a gasglasai yn ei ryfeloedd yn erbyn yr Iuddewon, er anrhydedd i'w dduw Bel. *Dan.* iii. Gan fod tywysogion, rhaglawiaid, a phendefigion y brenin wedi cael gwys i fod yn bresennol wrth gyssegru y ddelw, y mae lle i farnu fod Daniel hefyd yn bresennol, ac nad ymgrymodd iddi. Yr achos paham na ddarfu i'r gelynion gyhuddo Daniel, yn union gyd â'i dri chyfaill, oedd, y parch mawr ag oedd gan y brenin iddo: yr oeddynt, tybygid, am ddechreu gyd â'i gyfeillion, gan feddwl ei gyrhaedd yntau wedi hyny. Gan i'r tri llangc gael y fath waredigaeth wyrthiol, attaliwyd yr erlidigaeth am y tro hwnw.

Yn yr ail flwyddyn ar ol dinystr Jerusalem, yr hon oedd yr 21ain flwyddyn i Nebuchodonosor yn ol y cyfrif Iuddewig, y daeth efe drachefn i Syria, ac a roes warchae ar Tyrus, yr hwn a barhaodd dros 13 blynedd cyn y gallodd gymmeryd y ddinas. Ithobal oedd y brenin y pryd hyn yn Tyrus. Y ddinas fwyaf hynod oedd Tyrus am fasnach a chyfoeth dros lawer o oesoedd o holl ddinasoedd y dwyrain. Gelwir hi dan yr enw Sor (*Jos.* 19. 29.) ac yr oedd yn cael ei chyfrif yn ddinas gadarn yn amser Josua. Ystyr Sor, neu Tsor, yw *craig*, am iddi gael ei hadeiladu ar graig yn ymyl y môr, lle yr oedd porthladd cyfleus. Adeiladwyd hi gan haid o drigolion Sidon, am hyny y gelwir hi yn ferch Sidon. *Esa.* 23. 12. Yr oedd hi yn y wlad a elwir Phœnicia, ar derfyn gogleddol gwlad Canaan. Wedi adeiladu Tyrus ar y cyfandir, adeiladwyd dinas arall o'r un enw ar ynys fechan, oddeutu hanner milltir oddiwrth y làn, ar gyfer hen Dyrus, 240 mlynedd cyn adeiladu teml Solomon, yn ol tystiolaeth Josephus. (*Antiq. l.* 10. *c.* 11.) Ond ni chyrhaeddodd Tyrus ar yr ynys i fawr o enwogrwydd cyn dinystrio yr hen ddinas ar y cyfandir gan Nebuchodonosor, ar ol yr hir warchae hwn, yn ol prophwydoliaeth Esaiah, *pen.* xxiii. ac *Ezec.* xxvi, xxviii. Ond er i fyddin brenin Babilon wasanaethu gwasanaeth mawr yn erbyn Tyrus, ni chafodd ddim am ei gwaith; canys cludodd y Tyriaid eu holl gyfoeth, a llawer o'r trigolion, mewn llongau i'r ddinas ar yr ynys, a manau ereill, pan welsant fod Nebuchodonosor ar ennill yr hen Dyrus. *Ezec.* 29. 17—20. Y pryd hyn y llwyr ddinystriwyd yr hen ddinas, ac y lladdwyd Ithobal, ei brenin, yn niwedd y gwarchae. *Ezec.* 28. 1—19. *Josephus contra Apion, lib.* 1.) O hyny allan y ddinas ar yr ynys a adwaenwyd wrth yr enw Tyrus, ac a lwyddodd dros amryw oesoedd, hyd oni chymmerwyd hi gan Alexander Fawr, fel y dangosir ym mlaen.

Yn y 3edd flwyddyn o warchae Tyrus, yr hon oedd y 23ain flwyddyn i Nebuchodonosor, y caethgludodd Nebuzaradan yr holl weddillion o'r Iuddewon a fedrai gael gafael arnynt yn ngwlad Canaan, ar ol ffoedigaeth y rhai hyny a aethent i'r Aipht. Ond nid oedd yr holl rifedi ond 745. *Jer.* 52. 30.——Yn yr un flwyddyn, fel y bernir, y darostyng-

wyd yr Ammoniaid, ac y dinystriwyd Rabbath y ddinas freninol (*Jer.* 49. 1—6.) er dial am gynnwys Ismael, yr hwn a laddodd Gedaliah, yn gystal ag am eu gwrthryfelgarwch gynt yn amser Sedeciah, pan oedd brenin Babilon ar fedr eu cospi; ond daeth y coelbren yn gyntaf i Jerusalem, ac ni chafodd hamdden, hwyrach, i wynebu atynt hyd yr amser hwn. A thra parhaodd gwarchae Tyrus, tybygid, yr anrheithiwyd gwledydd y Philistiaid, y Moabiaid, a'r Edomiaid, i gyflawni prophwydoliaeth Jeremiah, *pen.* 25. 20, 21, 22. a xxvii. ac *Ezec.* xxv.

Cymmerwyd Tyrus gan Nebuchodonosor, yn y 34ain flwyddyn o'i deyrnasiad yn ol y cyfrif Iuddewig, ac yn y 26ain flwyddyn o gaethgludiad Jeconiah, fel y gellir casglu oddiwrth Ezeciel, gan mai yn y mis cyntaf o'r flwyddyn ganlynol y mae yr Arglwydd trwyddo yn addaw anrhaith yr Aipht i Nebuchodonosor a'i lu am eu gwasanaeth yn erbyn Tyrus. *Ezec.* 29. 17—20. Y mae *Prideaux* yn dangos fod cadarnhad i wirionedd y rhan hyn o'r amseryddiaeth oddiwrth hanesyddiaeth y Phœniciaid, rhan o ba un a drosglwyddwyd i ni yn ngwaith *Josephus* (*contra Apion. lib.* 1.) Y mae yr hanesyddiaeth hwnw mewn cysondeb â'r hanes Ysgrythyrol ym mhrophwydoliaethau Jeremiah ac Ezeciel, ac hefyd â Chanon Ptolemy. Y mae hanesyddiaeth y Phœniciaid yn dangos fod amryw o lywodraethwyr wedi dyfod yn olynol, ar ol lladd Ithobal, ar Tyrus (yn ddiammeu hòno ar yr ynys) dan yr enw Suffetes, yr un enw a Shophetim, barnwyr Israel, o ran arwyddocâd y gair, ond fod ychydig o wahaniaeth yn y sain. Ar ol i Nebuchodonosor gymmeryd Tyrus, y mae yn dangos fod Baal wedi llywodraethu 10 mlynedd —Ecnibal 2 fis—Chelbes 10 mis—Abbar 3 mis—Metgonus, a Gerastratus 6 blynedd—Balator 1 flwyddyn—Merbal 4 blynedd—ac Hiram 20 mlynedd, yn y 14eg flwyddyn o lywodraeth pa un y mae yr un hanes yn dywedyd i Cyrus ddechreu ei freniniaeth yn Babilon. Wrth roddi y blynyddoedd a'r misoedd at eu gilydd hyd y 14eg flwyddyn i Hiram, y maent yn gwneuthur 36ain mlynedd yn ol eu cyfrif hwy, o gymmeriad Tyrus gan Nebuchodonosor hyd ddechreuad teyrnasiad Cyrus yn Babilon, ac yn hyny y maent yn cytuno â'r Ysgrythyrau; canys yn ol Ezeciel, cymmerwyd Tyrus yn y 26ain flwyddyn o gaethgludiad Jehoiacin, yr hon oedd y 34ain flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor, a'r 34ain flwyddyn o'r 70ain mlynedd o gaethiwed Babilon—felly 36ain mlynedd sydd yn eisieu i gyflawni y 70ain mlynedd, y rhai y mae yr Ysgrythyrau yn dangos a gyflawnwyd yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus.

Yn yr un flwyddyn, yn mha un y cymmerwyd Tyrus, yr arweiniodd Nebuchodonosor ei fyddin i wlad yr Aipht, yr hon a anrheithiodd efe o'r naill gwr o honi i'r llall (hyny yw, o Migdol, neu Magdolum, yn y mynediad i mewn i'r wlad, hyd Syeneh, yr hon oedd y ddinas bellaf yn

yr Aipht uchaf, ar derfyn Ethiopia)* yn ol prophwydoliaeth Ezeciel 29. 10. a 30. 6. Yr hyn a roddes achlysur i frenin Babilon i fyned y pryd hyn i'r Aipht, ac a fu yn foddion o rwyddhau ei goresgyniad, oedd y rhyfel tumewnol rhwng yr Aiphtiaid â'u gilydd. Yr oedd Amasis, pendefig o'r Aipht, wedi codi plaid, a gwrthryfela yn erbyn Apries, neu Pharaoh-Hophra, a'i ymlid o'r wlad, fel y dangosir ym mlaen yn hanes breninoedd yr Aipht.

Y pryd hyn y darfu i Nebuchodonosor ddinystrio ac anrheithio dinasoedd yr Aipht, lladd llawer o'r trigolion, a chaethgludo mwy o honynt i wledydd pellenig ag oedd yn perthyn i freniniaeth Babilon, gan adael Amasis yn frenin ar y gweddill a adawyd yn y wlad.——Bu yr Aiphtiaid mewn caethiwed yn y gwledydd i ba rai y caethgludwyd hwy dros 40 mlynedd, hyd y 4edd flwyddyn i Cyrus. *Ezec.* 29. 12—14.—— Lladdwyd y rhan fwyaf o'r Iuddewon a syrthiasant i ddwylaw Nebuchodonosor yn yr ymgyrch hwn a wnaeth efe yn erbyn yr Aipht; ac nid oedd ond ychydig nifer o'r rhai a aethant yno gyda Johanan mab Cerea, a ddychwelasant i wlad Judah ar ol y caethiwed yn Babilon. *Jer.* 44. 27, 28.

Dychwelodd Nebuchodonosor o'r Aipht i Babilon yn y 36ain flwyddyn o'i deyrnasiad, yn ol y cyfrif Iuddewig, yr hon oedd yr 28ain flwyddyn o gaethgludiad Jehoiacin. Yn y flwyddyn ganlynol, fel y bernir, y cafodd efe y breuddwyd a adroddir yn *Dan.* 4. 4—27. am y pren mawr cysgodfawr, yr hwn a dorwyd i lawr, ac y gadawyd ei foncyff yn y ddaear. Ym mhen blwyddyn ar ol hyny y cyflawnwyd y breuddwyd. *Dan.* 4. 29. Yr oedd y brenin yn sefyll ar ryw le dyrchafedig, yn ei lŷs, neu ei erddi crogadwy, o ba le yr oedd ganddo olwg cyflawn o Babilon a'r holl weithiau aruthr o'i mewn ag yr oedd efe wedi bod yn eu dwyn ym mlaen er dechreuad ei deyrnasiad. Y pryd hyn, wrth edrych ar fawredd ei waith, y balchïodd ei galon, ac y llefarodd â'i enau, gan ddywedyd, 'Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenindŷ yn nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi.' *Dan.* 4. 30. Tra yr oedd y gair yn ei enau, syrthiodd llef o'r nefoedd, yn dywedyd yn ei glywedigaeth ef a'r rhai oedd yn sefyll oddi amgylch iddo, 'Wrthyt ti frenin Nebuchodonosor y dywedir, Aeth y freniniaeth oddi wrthyt.' Ac yn ddisymmwth y syrthiodd i fath o wallgof anghyffredin. Tynwyd oddi wrtho reswm ac anian ddynol, a rhoddwyd iddo natur ac anian anifeilaidd ac oedd yn ei dueddu i ymgrymu i lawr ar ei liniau a'i ddwylaw i bori gwellt y ddaear, ac i ymwrthod â danteithion breninol, er eu cynnyg iddo. *Dan.* 4. 31, 32, 33. Darostyngiad hynod oedd hwn i frenin

---

* Y mae *Prideaux* yn dangos fod eiseu diwygio y cyfieithiad Saesoneg o'r Bibl yn y manau crybwylledig; felly y gellir dywedyd am y cyfieithiad Cymreig, yr hwn, yn lle 'o dŵr Syeneh,' a ddylasai fod 'o Migdol hyd Syeneh.' *Prideaux, part* 1. *p.* 93.

balch: yr hyn sydd yn dangos fod yr Arglwydd yn ffieiddio balchder, a thrais, a gorthrymder, ac y dichon efe eu cospi fel y gwelo yn dda. Bu Nebuchodonosor yn y cyflwr hwn dros 7 mlynedd; ac, hwyrach, wedi colli dawn ymadrodd, a phob dynoliaeth, ond yn unig y llun; ac nid oedd hwnw yn berffaith, canys yr oedd ei flew wedi tyfu fel plu eryrod, a'i ewinedd fel ewinedd adar. Tebygol mai yn ei erddi a chynteddoedd gleision ei lŷs y cadwyd ef tra parhaodd ei anhwyl. Ym mhen 7 mlynedd dychwelodd mor ddisymmwth i'w wybodaeth, ag y collasai hi; a'r defnydd cyntaf a wnaeth o'i synwyr wedi ei gael oedd dyrchafu ei lygaid tu a'r nef, a'i galon mewn gweddi a diolchgarwch ac ymostyngiad i Dduw y nefoedd, gan gydnabod ei fawredd a'i arglwyddiaeth ef, a'i waeledd a'i ddiddymdra ei hun. Nid oes le i ammeu na chafodd ei addysgu gan Daniel am Dduw Israel, a gobaith Israel, sef y Messiah ag oedd i ddyfod: ond ni chafodd yr addysgiadau eu priodol effaith hyd y pryd hyn. Wedi gwybod trwy brofiad mai Duw Israel oedd yr unig wir a bywiol Dduw, efe a gyhoeddodd hysbysiad breninol o hyny i'w ddeiliaid yn holl dalcithiau ei ymerodraeth; ac nid yn unig hyny, ond hefyd at yr holl genedloedd ag oedd y pryd hyny, ac a fyddant ar wyneb yr holl ddaear hyd ddiwedd amser, at ba rai y daw yr hysbysiad hwn. Wedi cael adferiad i'w synwyr, adferwyd ef i'w lywodraeth, a chwanegwyd iddo 'fawredd rhagorol.' *Dan.* 4. 1, 2, 3. a 34—37. Ni bu Nebuchodonosor fyw ond un flwyddyn ar ol ei adferiad; canys efe a fu farw yn y 37ain flwyddyn o gaethgludiad Jehoiacin, yr hon oedd y 45ain flwyddyn o'i deyrnasiad, yn ol y cyfrif Iuddewig, a'r 43ain yn ol y cyfrif Babilonaidd. Gwelir mai 45ain mlynedd oedd teyrnasiad Nebuchodonosor er pan ddaethai gyntaf i Judea wrth ben byddinoedd ei dad, yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim, hyd y 37ain flwyddyn o gaethgludiad Jehoiacin, wrth gymharu 2 *Cron.* 36. 9. â *Jer.* 52. 31. Mab yr wythfed flwyddyn i Nebuchodonosor oedd Jehoiacin pan ddechreuodd deyrnasu, ac ni theyrnasodd ond 3 mis; wrth ychwanegu 37ain flynedd at 8 mlynedd gwna 45ain mlynedd. Ond nid yw Canon Ptolemy yn cyfrif iddo ond 43ain blynedd yn ol Croniclau y Babiloniaid, y rhai oedd yn dechreu cyfrif blynyddoedd teyrnasiad Nebuchodonosor ar ol marwolaeth ei dad Nabopolasar.——Nid yw yr hanes Ysgrythyrol am weithredoedd Nebuchodonosor ond byr; etto y mae yn helaethach na'r holl hanesion cenedlig credadwy, ynghylch ei ryfeloedd. Gellir casglu oddiwrth *Jer.* 25. 8—33. ei fod wedi goresgyn mwy o wledydd nag un brenin a fuasai o'i flaen, fe allai, yn yr holl fyd. Yr oedd y Persiaid dan yr enw Elam, ynghyd â'r Mediaid, wedi eu darostwng ganddo, y rhai a fynasant wasanaeth gan y Babiloniaid yn ol y brophwydoliaeth (*Jer.* 25. 14.) ym mhen 25ain mlynedd ar ol marwolaeth Nebuchodonosor. Cesglir oddiwrth *Dan.* 8. 2. fod Elam neu Persia yn un o daleithiau breniniaeth Babilon. Yr oedd Daniel yno yn y 3edd

flwyddyn i Belsassar, yn Susan, neu Susa, pen dinas y wlad, wedi cael ei osod yn rhaglaw, fel y mae yn debygol, gan Nebuchodonosor, ac wedi aros yno hyd y 3edd flwyddyn i Belsassar, yr hon oedd y 9fed wedi marw Nebuchodonosor; pa faint cyn hyny y buasai Daniel yn Elam, y mae yn anhawdd dywedyd; ond nad oedd yn hir yno ar ol y 3edd i Belsassar, sydd debygol, gan fod y rhyfel wedi dechreu rhwng y Mediaid a'r Babiloniaid cyn i Belsassar ddyfod i'r orsedd: Cyrus y Perşiad a aeth â byddin i gynnorthwyo Cyaxares, ei ewythr brawd ei fam, yr hwn oedd Darius brenin y Mediaid (*Dan.* 5. 31.); ac wedi llwyddo i ryddhau y Mediaid, wedi hyny fe ryddhaodd ei wlad ei hun oddi tan iau y Babiloniaid. Fe allai mai hyny oedd yr achos paham nad oedd Belsassar yn adnabod Daniel, pan safodd o'i flaen i esponio yr ysgrifen-law, (*Dan.* 5. 13, 14.) sef am ei fod wedi treulio llawer o flynyddoedd yn Susan.——Cyn ymadael â Nebuchodonosor, fe fydd yn angenrheidiol i sôn ychydig am ei weithiau mawr yn Babilon, ac oddi amgylch iddi. Y rhai hyn oeddynt, 1. Caerau y ddinas.—2. Teml Belus.—3. Ei balas, a'r gerddi crogadwy.—4. Y muriau a wnaeth i gadarnhau ceulanau yr afon.—5. Y llyn a wnaeth i dderbyn yr afon Euphrates, a'r ffos ddyfr oedd i sychu llif-ddyfroedd yr afon hòno. Gweithiau na wnaed eu cyffelyb gan un brenin o'i flaen, nac ar ei ol, oddieithr gwàl China.

1. Yr oedd caerau Babilon yn 87 troedfedd o drwch, yn 350 o droedfeddau o uchder, ac yn 60 milltir oddi amgylch. Yr oedd y caerau hyn yn bedrongl, a phob ystlys yn 15 milltir o hŷd, wedi eu gweithio trwy *fitumen*, math o byg sydd yn codi o'r ddaear yn y gwledydd hyny, ac yn myned cyn galeted a'r gareg ar ol sychu. O'r tu allan i'r caerau yr oedd ffos ddofn yn llawn o ddwfr, wedi ei gwynebu o bob tu â phriddfeini. O'r clai a godwyd o'r ffos y gwnaed y priddfeini a aeth i wneuthur y caerau. Gan hyny, oddiwrth faintioli y caerau, y deallir fod lled a dyfnder y ffos yn dra mawr. Ym mhob ystlys o'r caerau yr oedd 25 o byrth pres, sef 100 yn y cwbl. Y rhai hyn yr addawodd yr Arglwydd trwy y prophwyd i dòri o flaen Cyrus. *Esa.* 45. 2. Rhwng bob dau borth yr oedd tri o dyrau, a phedwar ym mhedair congl y caerau, a phob un o honynt yn ddeg troedfedd yn uwch na'r caerau. Y tyrau i gyd oedd 250; gan hyny nis gwnaed ond yn y manau lle yr oedd angenrheidrwydd am danynt, gan y buasai mwy o honynt pe buasai tri rhwng pob dau borth yn gyson oddi amgylch. Oddiwrth y 25 porth ym mhob ystlys o'r caerau yr oedd 25 o heolydd, pob un ynghylch 150 o droedfeddi o led, yn arwain yn uniongyrch at y pyrth yn yr ystlys ar ei chyfer. Felly yr ymddengys fod 50 o heolydd, sef 25 yn croesi 25, ac yn gwneuthur onglau union. Heblaw y rhai hyn yr oedd pedair hanner heol, a'r tai wedi eu hadeiladu wrth y caerau yn y pedair ystlys, heb ddim tai yn cyfateb iddynt yn yr ochr arall. Yr oedd y rhai hyn yn 200 troedfedd o led. Yr oedd yr afon Euphrates yn rhedeg trwy ganol

y ddinas o'r gogledd i'r dehau; ar draws pa un yr oedd pont arddercog yn nghanol y ddinas, oddeutu ystâd, neu 220 llath o hŷd (yr hyn oedd lled yr afon) a 10 llath o led. Wrth bob pen i'r bont yr oedd dau balas, sef yr hen un o du y dwyrain, a'r newydd o du y gorllewin. Yr oedd y ddinas yn sefyll mewn gwastadedd ëang o dir bras a ffrwythlawn, a'i gynnyrch o 200 i 300 cymmaint ag a heuid ynddo, mewn blynyddoedd cyffredin. O du y dwyrain i'r afon yr oedd yr hen ddinas, a ddechreuwyd ei hadeiladu gan deuluoedd Noah cyn cymmysgu yr ieithoedd, ac a ddygwyd ym mlaen gan Nimrod, Semiramis, ac ereill; ond y ddinas newydd a adeiladwyd gan Nebuchodonosor ar ei chyfer o du y gorllewin; a'r hen ddinas a adnewyddwyd ganddo, fel na byddai yn anghymhwys i briodoli y cwbl iddo.

Cynllun Babilon, tybygid, a gymmerwyd mewn rhan oddiwrth Ninifeh, yr hon oedd 60 milltir, neu 'daith tri diwrnod,' oddi amgylch. *Jonah* 3. 3. A chan fod Nebuchodonosor gyd â'i dad Nabopolasar, trwy fyddinoedd y Mediaid a'r Babiloniaid, wedi dinystrio y ddinas hòno, meddyliodd, fel y bernir, am wneuthur Babilon gymmaint a hithau, neu fwy: canys Babilon oedd y fwyaf, gan fod hŷd Ninifeh yn fwy na'i lled; ac o herwydd hyny yn sefyll ar lai o dir na Babilon. Diben Nebuchodonosor wrth gaethgludo cynnifer o luoedd o'r gwledydd a ddarostyngodd, oedd pobli Babilon; a'r seiri a'r gofaint (2 *Bren.* 24. 15, 16.) oedd i ddwyn yr adeiladau a'r gweithiau mawr ym mlaen; ac i hyny yr oedd yr aur a'r arian a'r pres yn cael eu defnyddio. 2 *Bren.* 25. 13—17. Er hyny, ni pharhaodd teyrnas y Babiloniaid ddigon o hŷd yn ei mawredd i orphen Babilon yn ol y cynllun a ddarluniasid o honi; canys ym mhen 25 mlynedd ar ol marw Nebuchodonosor, symudwyd eisteddfa yr Ymerodraeth i Susan yn Persia; ac o hyny allan syrthiodd Babilon yn raddol i anghyfannedd-dra. Pan ddaeth Alexander Fawr yno, ym mhen 208 mlynedd ar ol ei chymmeryd gan Cyrus, yr oedd llawer o dir llafur o fewn y caerau. Dywedir nad oedd y tai yn gyssylltiedig â'u gilydd, ond pob un ar ei ben ei hun yn yr heolydd, er mwyn iechyd y trigolion. Felly yr adeiladwyd Rhufain gynt, a Delhi yn yr India, ac amryw o ddinasoedd mawrion yn y gwledydd dwyreiniol yn yr oes bresennol.

2. Cyfrifir teml Bel, neu Belus, ym mhlith gweithiau Nebuchodonosor. Y rhan fwyaf hynod o hon oedd y tŵr a ddechreuwyd ei adeiladu oddeutu amser cymmysgiad yr ieithoedd, yr hwn a adgyweiriwyd ac a helaethwyd ganddo. Dywedir ei fod yn bedrongl, ac yn ystâd (hyny yw, 220 llath) o hŷd yn ei bedair ystlys ar lawr, a chymmaint a hyny yn ei uchder. Yr oedd yn ymddangos fel wyth o dyrau, y naill uwchlaw y llall, yn cyfyngu o'r isaf hyd yr uchaf; ar hyd risiau llydain yr aed i fynu i'w ben, y rhai oedd yn dirwyn oddi amgylch iddo o'r tu allan. O'r tu fewn i'r tyrau yr oedd amryw ystafelloedd a gynnaliwyd

â cholofnau a bwäau meini. Yr ystafell yn y tŵr uchaf oedd y lle mwŷaf cyssegredig. Ar ben y tŵr yr oedd lle gwastad, ag oedd wedi cael ei ddefnyddio tros lawer o oesoedd i wneuthur sylwadau seryddol; canys y Caldeaid oedd y cyntaf o'r cenedloedd a roddasant eu bryd i astudio seryddiaeth. Oddi amgylch y tŵr yma, chwanegodd Nebuchodonosor adeiladau mawrion, y rhai oeddynt yn gwneuthur pedrongl o ddwy ystâd ym mhob ystlys, neu filltir oddi amgylch. Yn y deml hon y rhoddodd Nebuchodonosor lestri y deml yn Jerusalem. *Dan.* 1. 2.

Safodd teml Belus hyd amser Xerxes brenin Persia; yr hwn, ar ei ddychweliad o'i ryfel yn erbyn y Groegiaid, yn y flwyddyn o flaen Crist 478, a'i llwyr ddinystriodd, ac a'i hyspeiliodd o'i holl drysorau, ynghyd â'r ddelw aur a gyssegrasai Nebuchodonosor yn ngwastadedd Dura (*Dan.* 3. 1.) yr hon, yn ol cyfrif *Prideaux*, oedd werth tri miliwn a hanner o bunnau o arian Lloegr. *Esa.* 46. 1, 2.

3. Yn agos i deml Bel yr oedd hen lys breninoedd Babilon, o du y dwyrain i'r afon, yn bedair milltir oddi amgylch: ac ar ei gyfer yr ochr arall i'r afon yr oedd y llys newydd a adeiladodd Nebuchodonosor, yn wyth milltir oddi amgylch. Yr oedd wedi ei amgylchu â thri o furiau cedyrn. Ac o'i fewn yr oedd y gerddi crogadwy, am ba rai y mae llawer o sôn yn ysgrifeniadau y Groegiaid. Yr oeddynt yn bedrongl o 400 troedfedd ym mhob ystlys, a chyn uched a chaerau y ddinas. Yr oedd y pentwr mawr hwn wedi cael ei godi i fynu trwy wneuthur bwäau meini, y naill oddiar y llall, a'i gadarnhau yn y gwaelod â mur o 22 troedfedd o drwch. Yr oedd yn gynnwysedig o rodfëydd, a grisiau o'r naill rodfa i'r llall, yn cyfyngu o'r gwaelod i'r cŵr uchaf. Fel na redai y gwlybwr allan, yr oedd y lloriau wedi cael eu gwneuthur ar y bwäau meini, o gerig o 16 troedfedd o hŷd a 4 o led; ar ba rai yr oedd haen o gyrs a *bitumen*, ac ar hyny ddwy haen o briddfeini wedi eu gweithio trwy forter; ac yn uchaf rhoddwyd dalenau tewion o blwm; wedi hyny cymmaint o drwch o bridd, fel y gallai coed o bob math dyfu i'w maintioli mwyaf. Ar y rhodfa uchaf yr oedd math o beiriant i godi dwfr o'r afon, i ddyfrhau yr holl ardd pan fyddai achos. Dywedir mai i ryngu bodd ei frenines Amyitis y gwnaeth Nebuchodonosor y gerddi hyn, fel y byddai ganddi, yn ngwastadedd Babilon, ryw beth yn debyg i fynyddoedd a choedydd Media, ei gwlad enedigol.

4. Cadarnhaodd y ddinas o bob tu yr afon, trwy wneuthur gwàliau ar hyd y ceulenydd, 20 milltir o hŷd, ac o'r un drwch a chaerau y ddinas. Yr oedd y gwaith hwn yn dechreu ddwy filltir a hanner o du uchaf y ddinas, ac wedi cael ei ddwyn ym mlaen gymmaint a hyny o'r tu isaf i'r ddinas. Yn y gwàliau hyn yr oedd pyrth pres ar gyfer eu gilydd o bob tu yr afon, a grisiau i fyned i lawr at y dwfr, fel y gallai y trigolion fyned mewn cychod o'r naill ochr i'r llall. Yr oedd y pyrth hyn i fod yn agored y dydd, ac yn nghauad y nos.

5. Fel y sychid gwely yr afon i wneuthur y gwàliau ar hyd y ceulenydd, gwnawd llyn o du uchaf y ddinas, yn bedrongl, o 40 milltir ym mhob ystlys, a 160 milltir oddi amgylch; ei ddyfnder oedd 35 troedfedd, yn ol *Herodotus*, a 75 troedfedd, yn ol *Megasthenes*. Tybygid fod y cyntaf yn mesur o wyneb y tir, a'r olaf o ben y pentwr a godwyd i'r ystlysau wrth ei wneuthur. I'r llyn yma y gollyngwyd yr afon tra gwnaed y gwàliau; ac wedi ei gorphen trowyd hi i'w gwely ei hun. Yr oedd y llyn hwn yn ateb diben arall, sef dyfrhau yr holl wlad ar amserau sychion. Ond nid oeddynt yn rhagweled wrth ei wneuthur y byddai yn offerynol i gymmeryd Babilon, ac i foddi rhan fawr o'r wlad, fel y digwyddodd ym mhen 23 blynedd ar ol marw Nebuchodonosor.

Heblaw y llyn, gwnawd dau *ganal* o'r Euphrates i'r afon Tigris. Gan fod yr eira yn nechreu yr haf yn arferol o doddi ar fynyddoedd Armenia, a pheri yr afon i lifo dros ei cheulenydd a gorchuddio y wlad a rhan o'r ddinas dros dri mis o'r flwyddyn, sef Mehefin, Gorphenaf, ac Awst, fel afon Nilus yn yr Aipht, gwnawd y *canalau* hyny yn uchel i fynu ar yr afon i gymmeryd y dwfr o'r Euphrates i'r Tigris. Yr oedd yr isaf o'r ddau *ganal* yn ddigon llydan a dwfn i longau, ac a alwyd Naharmalcha, h. y. *afon y brenin*. Dywedir fod Gobaris, neu Gobrias, un o bendefigion Babilon, yn rhaglaw y dalaeth ac yn oruchwyliwr y gwaith pan y gwnaed; ac fe allai mai hon yw afon Cebar, ar làn pa un y cafodd Ezeciel rai o'i weledigaethau; gan fod Gobar yn lled debyg ei sain i Cebar. Nid yw y sill olaf o'r enw Gobaris ond terfyniad Groegaidd, nad oedd, y mae yn debygol, yn perthyn iddo yn yr iaith Caldaeg. Ac os yw Cebar yn tarddu oddiwrth Gobaris, nid yw yn annhebygol i ran o gaethglud Judah gael ei gosod i wneuthur y gwaith perthynol i'r *canal* neu yr afon hon. *Prideaux's Connect. part.* 1. *p.* 103. *& Poli Synopsis. Ezec.* 1. 1.

Ar ol marw Nebuchodonosor, teyrnasodd ei fab Efil-merodach yn ei le. Fel ag yr oedd ei dad yn rhagori mewn synwyr a deall a rhinweddau breninol, felly yntau a ragorodd mewn ynfydrwydd a drygioni, yn ol arwyddocâd ei enw, sef Merodach *ynfyd*. Un o weithredoedd cyntaf ei lywodraeth oedd rhyddhau Jehoiacin o'r carchar lle buasai 37 flynedd *Jer.* 52. 31—34. Y mae *Jerom* yn dywedyd fod traddodiad ym mhlith yr Iuddewon, i Efil-merodach gael llywodraeth y deyrnas yn amser gwallgof ei dad, ac iddo lywodraethu mor ddrwg fel ag y rhoddodd ei dad ef, ar ei adferiad i'w synwyrau, yn yr un carchar a Jehoiacin; lle dechreuodd y cyfeillgarwch hwnw rhyngddynt, a barhaodd tra bu efe byw. Ym mhen dwy flynedd yr oedd Efil-merodach wedi myned mor annioddefol i'w ddeiliaid o herwydd pob math o ddrygioni, fel ag y lladdwyd ef gan ei frawd yn nghyfraith Neriglissar. Bu Jehoiacin farw ychydig o'i flaen, neu, ynte, a laddwyd gyd âg ef; yr hyn, yn ol barn *Prideaux*, sydd fwyaf tebygol, oddiwrth *Jer.* 22. 30.

Ar ol marw Jehoiacin, cyfrifwyd ei fab Salathiel yn ben mewn enw gan y gaethglud yn Babilon. Ac felly dros lawer o oesoedd, yr oedd un o deulu Dafydd, yn y parthau oddeutu Babilon, a gydnabyddwyd ac a barchwyd fel tywysog gan y gaethglud.

Gellir casglu i'r Mediaid wrthryfela ar ol marw Nebuchodonosor, trwy nacâu talu teyrnged i Efil-merodach; canys pan ddaeth Neriglissar i'r orsedd, gwnaeth barotoad mawr i ryfela yn eu herbyn; yr hyn a fu yn achos i Cyaxares, neu Darius, brenin y Mediaid, alw am gynnorthwy Cyrus, yr hwn, wedi dyfod â 30,000 o Bersiaid, a wnaed yn dywysog byddinoedd cyssylltiedig y Mediaid a'r Persiaid yn y rhyfel a ddechreuodd y pryd hyn, ac a barhaodd oddeutu 20 mlynedd, hyd oni chymmerwyd Babilon. Yr oedd Cyaxares y pryd hyn yn 41 mlwydd oed, a Cyrus yn 40. Neriglissar wedi bod dros dair blynedd yn gwneuthur parotoad i'r rhyfel, yn y 4edd flwyddyn a laddwyd mewn brwydr, a'i fyddin a orchfygwyd gan Cyrus.

Ar ol Neriglissar y teyrnasodd ei fab Laborosoarchod am naw mis, y rhai oedd yn cyflawni y 4edd flwyddyn i'w dad. Yr oedd yn orthrymwr mor greulawn fel y cyd-fwriadodd ei ddeiliaid yn ei erbyn, ac y lladdwyd ganddynt. Dwy weithred o'i greulondeb yn erbyn dau o bendefigion penaf Babilon, Gobrias a Gadates, a drosglwyddwyd i ni mewn hanesyddiaeth. Unig fab y cyntaf a laddodd wrth hela, am iddo lwyddo i ladd bwystfil a fethodd efe. A'r llall a ddyspaddodd, heb un achos arall ond fod un o'i ordderchadon wedi ei ganmol fel dyn hardd. Yr hyn a barodd i'r ddau bendefig i gilio at Cyrus: a buont wedi hyny yn offerynol trwy eu cynghor a'u gwroldeb, i ddrygu y Babiloniaid; ac, yn y diwedd fel y dangosir, i gymmeryd y ddinas.

Ar ol Laborosoarchod, teyrnasodd Nabonadius; yr hwn, yn ol tystiolaeth *Josephus*, a chydsyniad y dysgedigion, oedd y Belsassar a sonir am dano yn *Dan.* v. Gelwir Nebuchodonosor yn dad iddo (adn. 18.) yn ol arfer yr Ysgrythyrau; ond ei daid ydoedd, fel y profir oddiwrth *Jer.* 27. 7. a 2 *Cron.* 36. 20. Mab ydoedd i Efil-merodach, o Nitocris, yr hon, fel y bernir, oedd y frenines (*Dan.* 5. 10, 12, 12.) ag oedd yn adnabod Daniel. Daeth Belsassar yn ieuangc i'r goron, a thra yr oedd yn dilyn ei nwyfiant a'i bleserau, ei fam Nitocris oedd yn cynnal pwysau y llywodraeth; yr hon, yn ol tystiolaeth *Herodotus*, oedd wraig o yspryd a chynneddfau gwrol, y rhai a ddefnyddiodd yn egnïol i gynnal i fynu y freniniaeth tra yr oedd hyny yn bosibl. Dywedir mai hi a orpheuodd rai o'r gweithiau a adawyd yn anorphen gan ei thad yn nghyfraith Nebuchodonosor, yn neillduol caerau y ddinas, a'r gwaith ar ymylau yr afon. Priodolir un gwaith mawr iddi, a hyny oedd ffordd (*tunnel*) o dan wely yr afon Euphrates, o'r naill lys i'r llall, 12 troedfedd o uchder, a 15 o led. Er mwyn gwneuthur hwn, a gorphen gwaith y ceulenydd, trodd yr afon i'r llyn mawr a ddarluniwyd; ac wedi gwneuthur bwa o briddfeini ar

draws yr afon, gorchuddiodd ef â haen o *fitumen*, 6 troedfedd o drwch, a gollyngodd yr afon drosto. Diben y gwaith yma oedd, os cymmerid un o'r llysoedd, fel y gellid diangc i'r llall: canys heblaw fod Babilon fel dwy ddinas gaerog, yr oedd y ddau lys yn amddiffynfeydd wedi eu cadarnhau yn y modd goreu y medrai celfydd dynol yn yr oes hono. Ond wedi y cwbl, ni thyciodd yr holl ragweledïad hwn, gan i Babilon gael ei chymmeryd ar y fath amser, ac mewn modd mor annisgwyliadwy, fel y gwelir yn mlaen.

Yn y flwyddyn gyntaf i Belsassar, yr hon oedd y 34ain flwyddyn ar ol llosgi Jerusalem, a'r 52ain er y caethgludiad cyntaf, yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim, y cafodd Daniel y weledigaeth (*pen.* vii.) am y pedair breniniaeth. Yr oedd Daniel, tybygid, y pryd hyn yn Susan, pen dinas talaeth Elam. Yn y 3edd flwyddyn i Belsassar y cafodd efe, yn yr un lle, y weledigaeth am yr hwrdd a'r bwch gafr. *Pen.* viii. Y mae yn hysbys bron i bawb, mai y pedair breniniaeth ydynt, 1. Y Babiloniaid. *Dan.* 7. 4.——2. Y Mediaid a'r Persiaid. *Dan.* 7. 5. a 8. 3. 4.——3. Y Groegiaid. *Dan.* 7. 6. a 8. 5—8.——4. Y Rhufeiniaid. *Dan.* 7. 7.

Hyd yn hyn yr oedd Daniel yn Susan; ond oddeutu y 6ed flwyddyn i Belsassar; tebygol iddo ddychwelyd i Babilon, pan wrthryfelodd Abradates, tywysog Susan, yn erbyn y Babiloniaid, ac a ochrodd gyda Cyrus. Y pryd hyny yr adferwyd Elam, yn ol prophwydoliaelh Jeremiah, *pen.* 49. 39.

Yn y 5ed flwyddyn i Belsassar, gan fod y Mediaid a'r Persiaid o hyd yn ennill tir arno, aeth â rhan fawr o'i drysor at Crœsus brenin Lydia, ac a logodd fyddin lïosog o Aiphtiaid, Groegiaid, Thrasiaid, a chenedloedd ereill yn Asia Leiaf; ac wedi gwneuthur Crœsus yn dywysog y llu, a rhoddi gorchymyn iddo i ruthro i Media, dychwelodd i Babilon. Ond wedi i Crœsus groesi yr afon Halys, cymmeryd Pteria, un o ddinasoedd y Mediaid, ac anrheithio y wlad oddi amgylch, gorchfygwyd ef mewn brwydr gan Cyrus; ac wedi dychwelyd i Sardis, pen dinas ei wlad, gollyngodd ymaith y cynnorthwyon a gyflogasid, gan orchymyn iddynt ddyfod yn ol yn nechreu y gwanwyn canlynol, gan feddwl na fyddai raid iddo wrthynt yn y cyfamser. Ond Cyrus a ddilynodd ar ei ol, ac wedi gorchfygu ei fyddin ag oedd wan ar ol ymadawiad y lleill, a roddes warchae arno yn Sardis.

Tra bu Cyrus o flaen Sardis, claddodd Abradates a'i wraig Panthea mewn modd anrhydeddus, ac a wnaeth fedd-adeilad ardderchog er coffadwriaeth am danynt wrth yr afon Pactolus, lle safodd dros lawer o oesoedd wedi hyny. Tywysog Susan ydoedd, o dan y Babiloniaid, ond a giliasai at Cyrus, fel y soniwyd, ar yr achlysur hyn. Yr oedd Pauthea, yr hon oedd wraig ragorol o ran ei glendid, wedi syrthio i ddwylaw Cyrus mewn brwydr yn erbyn y Babiloniaid. Ymddygodd Cyrus gyda phob diweirdeb a boneddigeiddrwydd tu ag ati, ac a'i danfonodd

adref at ei gwr. Mènodd hyn gymmaint ar Abradates fel y trôdd at Cyrus. Wedi ei ladd wrth Sardis, syrthiodd Panthea ar ei gorph marw ac a'i lladdodd ei hun, yn ol yr arfer ag sydd etto yn gyffredin yn rhai o wledydd y dwyrain.

Ar ol i Cyrus gymmeryd Sardis, rhoddwyd barn ar Crœsus i gael ei losgi i farwolaeth; yr hwn, pan oedd ar y pentwr coed, a thân yn dechreu enynu ynddo, a ddwys-ocheneidiodd, gan alw deirgwaith ar enw Solon. Philosophydd oedd Solon o Athen, ac un o'r rhai enwocaf yn ei amser am ddoethineb; i ba un y dangosodd Crœsus ei drysorau, gan ddisgwyl y buasai yn canmol ei wynfydedigrwydd. Ond yn lle hyny dywedodd wrtho, 'Nas gallai gyfrif neb yn wynfydedig tra byddai byw, gan na wyddai pa beth a allai ddigwydd iddo cyn ei farwolaeth.' O wirionedd hyn yr oedd Crœsus yn bresennol wedi cael ei argyhoeddi. Ond Cyrus, wedi ei glywed, ac yn chwennych gwybod yr achos paham y galwai ar enw Solon, pan glybu yr hanes, a dosturiodd wrtho; ac nid yn unig arbedodd ei fywyd, ond rhoddodd iddo gynnaliaeth anrhydeddus tra fu byw, ac a'i gwnaeth yn un o'i gynghorwyr penaf. Digwyddodd hyn yn y 9fed flwyddyn i Belsassar, a'r 41 flwyddyn ar ol dinystrio Jerusalem. Ar ol i Cyrus ddarostwng yr holl daleithiau ag oedd yn perthyn i Ymerodraeth y Babiloniaid, efe a wynebodd tua Babilon; ac wedi gorchfygu Belsassar mewn brwydr yn y maes, a warchaeodd arno yn y ddinas, yn nechreu ei 16eg flwyddyn: ond gorchwyl anhawdd oedd cymmeryd Babilon trwy warchae, o herwydd cadernid y caerau, rhifedi y milwyr o'i mewn, a'r amlder o bob math o luniaeth ag oedd yn ddigon i gynnal y ddinas dros 20 mlynedd. Gan hyny yr oedd y trigolion yn gwawdio Cyrus am bob ymgais yr oedd yn ei wneuthur tu ag at ei chymmeryd. Y peth cyntaf a wnaeth Cyrus oedd gwarchglawdd oddi amgylch y ddinas, a ffos lydan a dofn. Ac o'r palmwydd, ag oedd yn y wlad hòno yn tyfu i gan troedfedd o uchder, gwnaeth dyrau uwch na'r caerau, gan feddwl cymmeryd y ddinas trwy ruthr; ond pan welodd nad oedd dim gobaith i'w chymmeryd y ffordd hòno, meddyliodd ei darostwng trwy newyn; ac i'r diben yma rhanodd ei fyddin yn 12 rhan, a rhoddodd bob dosparth i wylio y ddinas ei fis ar gylch. Ond wedi bod yn agos i ddwy flynedd o'i blaen, heb fènu dim arni, meddyliodd am ffordd i'w chymmeryd, yr hon a lwyddodd hyd eithaf ei ddisgwyliad. Deallodd fod gŵyl flynyddol yn agosâu yn Babilon, ym mha un y byddent arferol o ymroddi i loddest a meddwdod, a phob math o annhrefn, ddydd a nos, dros rai dyddiau.* Yr ystryw a ddychymmygodd oedd diyspyddu yr afon a dyfod yn annisgwyliadwy ar y Babiloniaid, trwy y pyrth ag oedd

---

* Gwel *Park. Heb. Lex.* שקה IV. lle mae yn dywedyd mai oddiwrth y gwreiddyn hwn y tarddodd yr enw, Σακεαι ημεραι *Sakcan days*, or Drunken idolatrous feasts of the Babylonians, like the Saturnalia of the Romans.

ar ei hymylau. I'r diben hyny danfonodd fintai o'i filwyr i ben y ddyfr- nos ag oedd yn arwain o'r Euphrates i'r llyn mawr a ddarluniwyd uchod, gan orchymyn iddynt dori yr argae, a gollwng yr afon iddo yn yr hwyr. Yn y cyfamser, rhanodd ei fyddin yn ddwy ran, tan arweiniad Gobrias a Gadates, y ddau bendefig Babilonaidd a grybwyllwyd o'r blaen; un rhan a osodwyd lle yr oedd yr afon yn myned i'r ddinas, a'r llall lle yr oedd yn ymadael â hi; gan beri iddynt ddisgyn i wely yr afon pan fydd- ai y dwfr wedi treiddio digon, ac esgyn i fynu trwy y pyrth i'r ddinas. Ar hanner nos cyfarfuant â'u gilydd, yn ol y cytundeb, ar gyfer llys y brenin; ac wedi cael y pyrth yn agored, ymosodasant ar y gwarcheid- waid ag oedd o'r tu allan i byrth y llŷs. A phan glywodd y rhai ag oedd o'r tu fewn sŵn y lladdfa, agorasant y pyrth i wybod yr achos; ac ar hyny rhuthrodd milwyr Cyrus i mewn, ac a laddasant Belsassar, yn ymladd yn wrol am ei fywyd, ynghyd â'r tywysogion oedd gyd âg ef. Fel hyn yr ennillwyd Babilon, a rhoddwyd terfyn ar y rhyfel a barhasai 21 mlynedd, ac ar Ymerodraeth y Babiloniaid, ag oedd wedi sefyll o'r flwyddyn gyntaf i Baladan, neu Nabonassar, 209 mlynedd.——Dyma yr hanes a roddir gan *Herodotus* a *Xenophon*, dau hanesydd Groegaidd, am waith Cyrus yn cymmeryd Babilon; ac fe ellir dywedyd ei fod yn cytuno i fanyldra mawr â'r hanes a roddir gan Daniel, *pen.* v. ac yn hyny y cyflawnwyd prophwydoliaethau Esaiah, *pen.* 13. 1—17. a 14. 3—23. a 21. 1—10. a xxxiv. a 41. 25. a 45. 1—4. a xlvii. a 48. 20. a 51. 23. *Jer.* 25. 12, 13, 14, 26. a l, li. *Hab.* 2. 5—17.

Ar ol i Cyrus droi yr Euphrates i'r llyn a grybwyllwyd, ni ofalodd i wneuthur i fynu yr argae; ac o'r esgeulusdra hyny y bu mawr niwed i dalaeth Babilon, gan i ran fawr o honi gael ei gorchuddio gan ddwfr; a thrwy hyny aeth yr Euphrates mor fas oddeutu Babilon fel nad allai llongau fyned ar hyd-ddi mwyach. Felly y cyflawnwyd prophwydol- iaeth Esaiah, pen 14. 23.

Fel y deallir trwy ba foddion y daeth Babilon yn raddol i'r anghyf- annedd-dra a ragddywedwyd trwy y prophwydi, rhoddir yma hanes byr o'r achosion a fu yn offerynol i hyny.——1. Symudiad y freninllys o Babilon i Susan, neu Susa, yn Persia.——2. Cymmeriad Babilon gan Darius Hystaspis, yn y 6ed flwyddyn o'i deyrnasiad, a'r 21ain ar ol ei chymmeryd gan Cyrus, pan fu lladdfa fawr o'r Babiloniaid, ac y tyn- wyd llawer o'r caerau i lawr, fel nad oeddynt mwyach ond 50ain troed- fedd o uchder.——3. Adeiladu Seleucia ar yr afon Tigris, gan Seleucus, un o gadpeniaid Alexander Fawr, yn y flwyddyn cyn geni Crist, 293; yr hyn a waghaodd Babilon o'i thrigolion, fel na bu fawr o sôn am dani wedi hyny. Sonir yn helaethach am rai o'r pethau hyn yn eu lle pri- odol. Cadwyd caerau Babilon i fynu, dros amryw oesoedd, gan fren- inoedd Parthia, er mwyn helwriaeth. Yn amser *Jerom*, yn y 4edd gan- rif, nid oedd Babilon ond parc i hela bwysfilod gwylltion, y rhai a gad-

am bob un a laddwyd, ac yn eu plith mab hynaf Psamminitus. Ar ol cymmeryd Memphis, ymostyngodd yr holl wlad i Cambyses. Arbedwyd Psamminitus, a rhoddwyd iddo fodd i fyw yn anrhydeddus; ond pan ddeallodd Cambyses ei fod am adnewyddu y rhyfel, gwnaeth iddo yfed gwaed tarw, ac felly y bu farw, wedi teyrnasu chwe mis ar ol marwolaeth ei dad.

Bu yr Aiphtiaid yn llonydd ar ol hyn dan raglawiaid a osododd breninoedd Persia arnynt dros 39 blynedd, pan wrthryfelasant yn y 35 flwyddyn i Darius Hystaspis. Eu hannogaeth i hyn, oedd y rhyfel ag oedd gan Darius mewn llaw yn erbyn y Groegiaid, a'i aflwyddiant ynddo. Parotôdd Darius fyddin yn erbyn yr Aiphtiaid, ond bu farw yn yr ail flwyddyn o'r gwrthryfel, heb allu gwneuthur dim tu ag at eu darostwng. Daeth Xerxes yn frenin ar Persia yn lle ei dad Darius; ac yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, arweiniodd fyddin yn erbyn yr Aiphtiaid, ac a'u darostyngodd, gan eu dwyn dan iau drymach nag a brofasant erioed o'r blaen: ac wedi gadael ei frawd Achæmenes yn rhaglaw, a ddychwelodd i Susan.

Ym mhen 24 blynedd wedi hyny y gwrthryfelodd yr Aiphtiaid, yn y 5ed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, mab Xerxes, gan wneuthur Inarus, tywysog y Lybiaid, yn frenin arnynt. Pan glybu Artaxerxes am y gwrthryfel hwn, parotôdd fyddin o dri chan mil o wyr i'w ddarostwng. Ond bu Artaxerxes yn dra aflwyddiannus yn nechreu y rhyfel hwn, o herwydd gwroldeb yr Atheniaid ag oedd wedi dyfod i gynnorthwyo yr Aiphtiaid ar fôr a thir. Gorchfygwyd ei lynges ar y môr, a lladdwyd o'i fyddin gan mil o wyr mewn un frwydr, ynghyd âg Achœmenides ei frawd, yr hwn oedd dywysog y llu. Y gweddill a ddiangodd i Memphis, lle y dilynodd y buddugoliaethwyr, ac a gymmerasant ddwy ran o'r ddinas; ond y Persiaid, wedi cilio i'r drydedd, a alwyd y Wal Wen, a warchaewyd dros dair blynedd, hyd oni waredwyd hwy gan y rhai a ddanfonwyd i'w cynnorthwyo. Yn y cyfamser, parotôdd Artaxerxes fyddin arall o dri chan mil, ac a'i danfonodd i'r Aipht, dan arweiniad Megabyzus ac Artabazus. Y canlyniad oedd, codi gwarchae Memphis, a gwared y Persiaid yn y Wal Wen, gorchfygu Inarus mewn brwydr, yr hwn a ffôdd gyd â'r Atheniaid a rhai Aiphtiaid i Biblus, dinas yn yr ynys Prosopitis, a amgylchynwyd gan yr afon Nilus. Yma y gwarchaewyd arno dros flwyddyn a hanner, hyd oni ddarfu i'r Persiaid droi yr afon, a thrwy hyny wneuthur i lynges yr Atheniaid orwedd ar dir sych. Ar hyn, ymostyngodd Inarus a'r Aiphtiaid; ond yr Atheniaid, oddeutu 6000 o rifedi, wedi llosgi eu llongau, a fwriadasant sefyll ar eu hymddiffynfa, a marw â'u cleddyfau yn eu dwylaw. Pan welodd y Persiaid hyn, cynnygiasant iddynt heddwch, a chaniatâd i fyned yn ol i'w gwlad; i hyn y cytunodd yr Atheniaid; ac felly, rhoddwyd pen ar y gwrthryfel, ar ol iddo barhau oddeutu 6 blynedd.

Ond un Amyrtæus a ddiangodd gydà phlaid i ryw leoedd corslyd, lle nid allai y Persiaid ei ddilyn, ac yno y llywodraethodd dros 40 mlynedd, hyd y 10fed i Darius Nothus, mab Artaxerxes Longimanus; a'r wlad, yn y cyfamser, dan raglawiaid breninoedd Persia.

Yn y 10fed flwyddyn i Darius Nothus brenin Persia, gwrthryfelodd Pisuthnes, ei raglaw ar dalaeth Lydia, yn Asia Leiaf; yr hyn, tybygid, a roddodd achlysur i wrthryfel yr Aiphtiaid yn yr un flwyddyn, y rhai y pryd hyn a wahoddasant Amyrtæus o'i gors-leoedd i fod yn frenin ar yr Aipht, lle y teyrnasodd chwe blynedd. Wedi i Amyrtæus ymlid y Persiaid o'r Aipht, gwnaeth barotôad mawr, ynghyd â'r Arabiaid, i'w dilyn i Phœnicia; ond ni lwyddodd wedi myned allan o derfynau ei wlad, fel y bernir, gan fod Herodotus yn dywedyd i'w fab Pausiris deyrnasu ar ei ol trwy ganiatâd y Persiaid. Wedi marw Pausiris ar ol teyrnasu chwe blynedd, dewiswyd Psammiticus yn frenin ar yr Aipht, yn y 4edd flwyddyn i Artaxerxes Mnemon, brenin Persia. Yr oedd o waedoliaeth Psammiticus a deyrnasasai yn yr Aipht rai oesoedd o'r blaen. Teyrnasodd chwe blynedd, ond nid oes coffadwriaeth am yr hyn a wnaeth, ond un weithred a ddylid ei choffâu, er mwyn ei ffieiddio. Amgylchiadau y weithred hon oedd fel y canlyn:—Yr oedd Tamus, llywydd llynges Cyrus yr ieuengaf, yn gweled fod ei fywyd mewn perygl am y rhan a gymmerasai yn y gwrthryfel a fu gan Cyrus yn erbyn ei frawd Artaxerxes Mnemon, am ba un y sonir ym mlaen yn hanes breninoedd Persia. Gan fod Tamus yn Aiphtwr o genedl o ddinas Memphis, ac wedi gwneuthur llawer o gymmwynasau i Psammiticus, pan oedd yn ngwasanaeth y Persiaid, meddyliodd ffoi ato yn ei adfyd, megys i le o ddiogelwch. Gan hyny, rhoddodd ei wraig, ei blant, ei weision, ynghyd a'i drysorau, ar fwrdd llong, ac a hwyliodd i'r Aipht; ond pan glybu Psammiticus ei fod wedi dyfod â chyfoeth mawr gyd âg ef, syrthiodd arno er mwyn ei eiddo, ac a'i lladdodd ynghyd â'i deulu, a'r rhai oll oedd gyd âg ef, oddieithr un mab a alwyd Gäus a ddiangodd o'r lladdfa.

Ar ol Psammiticus y bu Nephereus yn frenin ar yr Aipht dros chwe blynedd. Gellir casglu ei fod yn elynol i'r Persiaid, gan i'r Lacedemoniaid ddeisyfu ei gynnorthwy yn y rhyfel ag oedd ganddynt yn erbyn Artaxerxes Mnemon. Danfonodd iddynt gant o longau i chwanegu eu llynges, a 600,000 o fesurau o ŷd i gynnal eu byddinoedd; ond cymmerwyd y cwbl gan Conon yr Atheniad, ag oedd o blaid brenin Persia, mewn porthladd o ynys Rhodes, i ba un yr oedd yr Aiphtiaid wedi troi i mewn, heb wybod fod y Rhodiaid wedi newid eu hochr.

Yn lle Nephereus y teyrnasodd Achoris ar yr Aipht 13 blynedd. Yn nechreuad ei deyrnasiad ymunodd âg Euagoras brenin Cyprus, a'r Barceaid, pobl o Lybia yn Affrica, mewn rhyfel yn erbyn y Persiaid, y rhai ni chawsant hamdden gan ryfeloedd ereill i wneuthur y parotôad ag oedd angenrheidiol tu ag at ddarostwng yr Aipht, hyd y flwyddyn olaf o

deyrnasiad Achoris, yr hon oedd yr 28ain flwyddyn i Artaxerxes Mnemon. Yr oedd yr Aiphtiaid wedi taflu iau y Persiaid er's 36ain mlynedd. Ond cyn i fyddin y Persiaid allu cyrhaedd yr Aipht, bu farw Achoris, a brenin arall o'r enw Psammuthis a deyrnasodd un flwyddyn ar ei ol, ac un arall o'r enw Nepherites a deyrnasodd bedwar mis. Ar ol Nepherites y teyrnasodd Nectanebus 12 mlynedd. Yn yr eilfed flwyddyn i'r brenin hwn, yr hon oedd yr 31ain flwyddyn i Artaxerxes Mnemon, ymgynnullodd byddin y Persiaid, yn Ace, neu Ptolemais, yn Palestina, yn 200,000 o rifedi, heblaw 20,000 o filwyr llôg o Roegiaid: eu llynges oedd 500 o rifedi, heblaw llestri yn dwyn lluniaeth ac angenrheidiau i'r rhyfel. Eu cais cyntaf oedd cymmeryd Pelusium, ond gan fod Nectanebus wedi cael cymmaint o amser i amddiffyn y lle, nid allodd y Persiaid fènu arno o'r môr nac o'r tir. Ac er iddynt wedi hyny gymmeryd yr amddiffynfa ar geg y gaingc hòno o afon Nilus ag oedd yn arwain i fynu at Memphis; etto, trwy eiddigedd Pharnabazus, tywysog llu y Persiaid, tu ag at Iphicrates yr Atheniad; tywysog llu y Groegiaid, ac ymchwydd blynyddol yr afon Nilus, terfynodd y rhyfel yn aflwyddiannus iawn i'r Persiaid; ac wedi iddynt fyned yn ol i Phœnicia, cafodd Nectanebus lonydd i deyrnasu hyd ddiwedd ei oes.

Ar ol Nectanebus y teyrnasodd Tachos ddwy flynedd. Ar ol dyfod i'r orsedd, gwelodd yr angenrheidrwydd o gasglu ynghyd gymmaint o gadernid ag a allai i amddiffyn ei hun yn erbyn Artaxerxes Mnemon brenin Persia, yr hwn, er iddo aflwyddo gynnifer o weithiau, nid oedd wedi rhoddi i fynu ei fwriad o ddarostwng yr Aipht. I'r diben hyny, anfonodd am gynnorthwy y Lacedemoniaid, cenedl ryfelgar yn Peloponesus, yn nhir Groeg, y rhai a ddanfonasant fyddin i'r Aipht, dan arweiniad Agesilaus eu brenin, yr hwn oedd y pryd hyny dros 80 mlwydd oed. Ond pan welodd Tachos a'r Aiphtiaid ef yn hen ddyn bychan, o bresennoldeb a gwisgiad dirmygedig, hwy a'i diystyrasant, ac ni wrandawent ar ei gynghor mewn dim, er ei fod yn deall mwy am drin byddinoedd a rhyfeloedd nag odid un yn yr oes hòno.

Tra yr oedd Tachos yn Phœnicia, lle yr aethai i gyfarfod y Persiaid, yn lle aros am danynt yn ei wlad ei hun yn ol cynghor Agesilaus, gwrthryfelodd yr Aiphtiaid yn ei erbyn, a gwnaethant Nectanebus, câr iddo, yn frenin yn ei le. Ymunodd Agesilaus â'r gwrthryfelwyr, a gyrwyd Tachos allan o'r wlad.

Wedi i Tachos gilio, cododd Aiphtwr arall yn erbyn Nectanebus, ac a gasglodd fyddin o gan mil o wyr. Cynghor Agesilaus i Nectanebus oedd syrthio arnynt yn union-gyrch, cyn iddynt gael amser i ddysgu milwriaeth. Ond ofnodd Nectanebus fod y cynghor hwn yn tarddu o ddibenion bradwriaethus, ac a adawodd i'w elyn ymgadarnhau i'r fath radd ag i roddi gwarchae arno yn un o'i ddinasoedd. Pan oedd cymmaint o'r gwarch-glawdd wedi cael ei wneuthur fel nad oedd ond digon

o le i'r gwarchaëedig dynu allan eu byddin mewn trefn, dywedodd Agesilaus wrth Nectanebus, mai dyna oedd ei amser i ymladd â'r gelynion, gan y byddai y gwarch-glawdd o bob tu iddo yn eu rhwystro rhag ei amgylchynu. Ymladdwyd brwydr yn ol y cynghor hwn, ym mha un y bu Netanebus yn fuddugoliaethus; ac ym mhen ychydig wedi hyny, cymmerwyd ei wrthwynebwr yn garcharor, ac yntau a sefydlwyd yn y freniniaeth, ym mha un y teyrnasodd 12 mlynedd, hyd oni ddarostyngwyd yr Aipht gan Ochus, brenin Persia, yn y 9fed flwyddyn o'i deyrnasiad, yn y flwyddyn cyn geni Crist 350, a'r 64 flwyddyn er pan ddechreuodd gwrthryfel yr Aipht yn erbyn breninoedd Persia. Ar ol hyny, ni chafodd yr Aiphtiaid frenin o'u cenedl eu hunain hyd y dydd heddyw. Buont tan lywodraeth y Persiaid tra parhaodd eu breniniaeth; wedi hyny dan Alexander Fawr, a breninoedd Groegaidd yr Aipht. Ar eu hol hwy, cymmerodd y Rhufeiniaid feddiant o wlad yr Aipht, yn y flwyddyn cyn geni Crist 30, ac a'i cadwasant 670 mlynedd. Yn y flwyddyn 641 o enedigaeth Crist, cymmerodd y Saraceniaid yr Aipht oddiar Heraclius, Ymerawdwr Caer Cystenyn, ac a'i daliasant 522 o flynyddoedd, pan y gorfu iddynt ei rhoddi i fynu i'r Tyrciaid yn y flwyddyn 1163. Difeddiannwyd y Tyrciaid gan eu gweision y Mamaluciaid yn y flwyddyn 1250. Gosgordd y brenin olaf o'r Tyrciaid, a alwyd Melechsala, oedd y rhai hyn. Caeth-weision o Circassia yn eu dechreuad oeddynt, y rhai a brynasai Melechsala gan eu rhïeni, sef y Tartariaid; o'r rhai hyn y lluniodd osgordd i amddiffyn ei berson, o ddiffyg gwroldeb yn y trefedigion mursenaidd. Ar ryw anfoddlonrwydd, cyd-fwriadasant yn erbyn eu harglwydd ac a'i lladdasant, gan osod un o honynt eu hunain yn frenin ar yr Aipht. Parhaodd llywodraeth y Mamaluciaid 267 o flynyddoedd, ac a ddiweddodd gyda Tumanbai, yr hwn a grogwyd gan Selim, y 9fed Ymerawdwr o'r Tyrciaid, o flaen un o byrth Cairo, yn y flwyddyn 1517. Felly y dygwyd yr Aipht yr ail waith dan lywodraeth y Tyrciaid, fel y mae yn parhau hyd heddyw. Ac felly y cyflawnwyd y prophwydoliaethau, sef y byddai yr Aipht yn 'deyrnas isel,' *Ezec.* 29. 14. ac 'na byddai dywysog mwyach o wlad yr Aipht,' *pen.* 30. 13. ac y byddai Cam yn gystal a Canaan yn ei hiliogaeth i fod yn was gweision i'w frodyr. *Gen.* 9. 25.

Er fod eglwysi Cristionogol blodeuog yn yr Aipht dros rai cannoedd o flynyddoedd ar ol Crist; ni fu, ac nid oes yno, gan mwyaf, ond tywyllwch Mahometanaidd, er pan ddaeth y Saraceniaid a'r Tyrciaid i lywodraethu.

Ni fydd yn ammhriodol i ddibenu yr hanes byr hwn am yr Aipht a'i breninoedd, trwy ddangos pa fath air a roddwyd i'r trigolion gan hen haneswyr, yn gystal a rhai diweddar. Y cyntaf sydd yn eu darlunio yn y cyffredin megys rhai coel-grefyddol a moethus—yn anfilwraidd—yn genedl anffyddlon, yn dywedyd un peth, ac yn meddwl peth arall—

yn wingar—yn greulon yn eu dig—yn lladron, ac yn dioddef pob math o ladrad—yn ddioddefgar mewn poenau, ac er cael eu dirdynu, yn dewis yn hytrach i farw, na chyfaddef y gwir.

Y mae haneswyr diweddar yn eu desgrifio mewn lliwiau duach. Y mae *Thevenot* yn dywedyd fod pobl yr Aipht yn y cyffredin, 'Yn dra drygionus, yn llawn dichellion, yn anfilwraidd, yn ddioglyd, yn rhagrithwyr, yn Sodomiaid, yn lladron, yn fradychus, ac mor awyddus i arian ag i ladd dyn am *faidin*, hyny yw, ceiniog a dimmai.' Nid yw y Dr. *Pocock* yn rhoddi fawr well hanes am danynt. Y mae yn chwanegu un peth, a hyny yw, 'Eu bod yn meddwl fod y drygau mwyaf yn cael eu dilëu pan olchant eu traed a'u dwylaw.' *Newton on the Prophecies, Vol.* I. *p.* 398.

Er hyny, pan ryddheir yr Aipht oddi tan ormesdeyrn y Twrc a thywyllwch Mahometanaidd, pan adnewyddir yr ychydig Gristionogion sydd yno mewn enw, pan ddel cyflawnder y cenedloedd i mewn i eglwys Crist, daw yr Aipht yn eu plith; ac yna y cyflawnir y brophwydoliaeth am dani, 'Bendigedig yw yr Aipht fy mhobl i.' *Esa.* 19. 25.

PENNOD IV.

Sylwadau ar y Caethived yn Babilon, a'r Dychweliad oddi yno.

Y MAE yr arfer ag oedd gan yr Assyriaid a'r Babiloniaid o gaethgludo cenedloedd allan o'u gwlad enedigol, a'u trosglwyddo i wledydd dieithr, yn gofyn ychydig o ystyriaethau.

I. Dylid gwahaniaethu rhwng dibenion yr Arglwydd yn hyn, a bwriadau breninoedd yr Ymerodraethau hyny. Diben yr Arglwydd mewn perthynas i gaethgludiad y deg llwyth, oedd eu cospi am eu heilunaddoliaeth, a'u hymadawiad oddiwrth ei addoliad yn Jerusalem, heb roddi un addewid iddynt o ddychwelyd yn ol i'w gwlad. Yr oedd, trwy hyny, yn dangos cyflawniad o'i air, sef ei fygythiadau trwy Moses a'r prophwydi; a'i fod megys yn rhoddi iddynt lythyr ysgar, ac yn eu diarddel o fod yn bobl iddo, hyny yw, y cyffredinolrwydd o honynt. *Ezec.* xxiii. *Jer.* 3. 8. Ond diben breninoedd Assyria oedd eu diwreiddio o'u gwlad, megys yr unig feddyginiaeth am eu mynych wrthryfelgarwch i'w herbyn—fel na byddai iddynt gael y drafferth a'r draul o arwain byddinoedd i'w darostwng—er mwyn cryfhau y taleithiau cartrefol, trwy wanhau neu ddibobli taleithiau pellenig pan wrthryfelent—gwneuthur elw o honynt trwy werthu llawer yn gaeth-weision—a gwneuthur milwyr o rai o honynt yn eu byddinoedd.

II. Mewn perthynas i gaethgludiad y ddau lwyth, yr oedd yr Arglwydd o'i raslonrwydd yn ymddwyn tu ag atynt mewn modd gwahanol. Ei ddiben oedd eu ceryddu er mwyn gwneuthur lles iddynt yn y diwedd

—fel y mwynhäai y wlad ei Sabbothau, gan fod yr Iuddewon wedi esgeuluso cadw y blynyddoedd Sabbothol, sef un o bob saith, yn ol y gorchymyn. *Lef.* 25. 1—7. a 26. 33, 34, 35. 2 *Cron.* 36. 21. Deuddeng mlynedd a deugain y bu y wlad yn anghyfannedd, ar ol dinystr Jerusalem, hyd y dychweliad yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus. Ond y mae yn ansicr pa un ai rhyw yspaid o amser o flaen y caethiwed yr esgeuluswyd y blynyddoedd Sabbothol, neu ynte ar amserau o wrthgiliad ar eu dyfodiad cyntaf i wlad Canaan. Nid ellir casgln oddiwrth un man, tybygid, o'r Hen Destament, fod blwyddyn Sabbothol yn cael ei chadw, oddieithr yn 2 *Bren.* 19. 20. Ac y mae ammheuaeth pa un ai blwyddyn Sabbothol, ai effaith anrhaith y gelynion, a olygir yn y lle hwnw. Diben arall gan yr Arglwydd oedd eu diddyfnu oddiwrth eilun-addoliaeth; ac er na lwyddodd dim arall o'r blaen, bu y caethgludiad hwn yn feddyginiaeth effeithiol i ateb y diben hyny mewn ystyr allanol i'r holl genedl hyd yr amser presennol. Yr oedd hefyd gan yr Arglwydd, tybygid, ddibenion o raslonrwydd tu ag at y cenedloedd yn y tro hwn; i daenu gwybodaeth o Dduw Israel, ei ddeddfau a'i addewidion grasol yn Nghrist; ac i ddwyn tystiolaeth yn erbyn eu heilun-addoliaeth, a'u pechodau ysgeler o bob math. Nid yn unig cafodd Daniel a'i gyfeillion, Ezeciel ac ereill, ddatguddiadau rhyfedd, ac ymweliadau melus y'ngwlad eu caethiwed, ond buont yn offerynol i ddarostwng hyd yn nod rhai o freninoedd Babilon, i gydnabod mai Duw Israel oedd yr unig wir a'r bywiol Dduw, a gwneuthur coffadwriaeth cyhoeddus o hyny i'w holl ddeiliaid; a thebygol na fu hyny yn ddieffaith ar lawer o honynt.

Ond yr oedd dibenion Nebuchodonosor yn nghaethgludiadau Judah yn hollol wahanol, ond ar yr un pryd yn wasanaethgar i gyflawni bwriadau yr Arglwydd. Yn y caethgludiad cyntaf, yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim, cymmerodd rai o'r hâd breninol a'r tywysogion, megys gwystlon, tybygid, o ufudd-dod y brenin Jehoiacim, a'r wladwriaeth; ar ammod, hwyrach, o'u dychwelyd yn ol, pe buasai yn cael profiad digonol o hyny. Canys nid yw yn ymddangos fod rhifedi mawr o'r Iuddewon wedi cael eu dwyn i Babilon yn y caethgludiad cyntaf. *Dan.* 1. 1—6.

Yr oedd yr ail gaethgludiad yn llawer mwy lliosog yn amser Jehoiacin, neu Jeconiah. Dygodd brenin Babilon y gofaint a'r seiri, fel y sylwyd eisoes, tu ag at ddwyn ym mlaen y gweithiau mawr yn Babilon; rhoddodd y rhyfelwyr yn ei fyddinoedd, i'w gryfhau ei hun, ac i wanhau teyrnas Judah.

Yn y trydydd, a'r caethgludiad olaf, gan fod y clwyf o wrthryfelgarwch yn ymddangos yn anfeddyginiaethol, dygodd ymaith yr holl Iuddewon, a allai gael gafael arnynt, oddieithr yr ychydig dlodion a adawodd dan lywodraeth Gedaliah mab Ahicam, yr hyn oedd weithred o drugaredd yn nghanol barn, gan nad oedd yn chwennych i'r wlad fod yn gwbl anghyfannedd. Ond bwriad yr Arglwydd oedd diwreiddio Judah yn

llwyr allan o'i wlad, fel y rhag-ddywedasai trwy y prophwydi. Gallwn feddwl fod Nebuchodonosor am bobli a chadarnhau Babilon, a'i thaleithiau cartrefol, trwy ddwyn yr Iuddewon, yr Aiphtiaid, ac ereill, gyd â'u golud, i gyfanneddu ynddynt; ac fel na byddai iddo gael y drafferth a'r draul i ddanfon byddinoedd i ddarostwng taleithiau pellenig. Ond pan gymmerwyd Babilon gan Cyrus, ac y symudwyd y breninllys i Susan, yn Persia, yr oedd yn fwy buddiol i'w freniniaeth newydd, i arfer pob moddion i wanhau Babilon, a'i thaleithiau cartrefol; gan hyny, caniatäodd i'r Iuddewon, ac ereill, i ddychwelyd yn ol i'w gwlad, gan ddisgwyl y byddent (fel y bu yr Iuddewon) yn ddeiliaid ffyddlon iddo ef a'i ganlynwyr am ei garedigrwydd iddynt.

Heblaw hyn, y mae yn rhaid i ni farnu mewn perthynas i ddychweliad yr Iuddewon, fod yr Arglwydd yn goruwch-lywodraethu calon Cyrus mewn modd neillduol i wneuthur yr hyn a fynai efe. *Ezra* 1. 1. Ac nid yw yn annhebygol iddo gael ei dueddu i ddangos pob caredigrwydd i'r Iuddewon, os cafodd hysbysrwydd (fel y mae yn debygol iddo gael trwy Daniel) am brophwydoliaeth Esaiah *(pen.* 45. 1—4.) lle mae coffadwriaeth am ei enw, oddeutu can mlynedd cyn ei eni.

Wedi i Cyrus roddi caniatâd, a chyhoeddi hyny trwy ysgrifen, i gynnifer o'r Iuddewon ag oedd yn ewyllysio myned yn ol i'w gwlad, ac adeiladu y deml yn Jerusalem, dychwelodd o honynt ddwy fil a deugain, a thri chant a thriugain; heblaw saith mil, tri chant, a dau-ar-bymtheg ar hugain o'u gweision a'u morwynion. Y cwbl oedd 49,697. Dychwelasant (yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus, a'r flwyddyn cyn geni Crist 536, ar ol cyflawni 70 mlynedd o'r 4edd flwyddyn i Jehoiacim, a 52 mlynedd ar ol dinystr Jerusalem) tan arweiniad Zorobabel, mab Salathiel, mab Jehoiacin; a Jesua, neu Josua yr arch-offeiriad, mab Josadac, mab Seraiah, yr hwn a laddwyd gan Nebuchodonosor yn Riblah, yn Syria. 2 *Bren.* 25. 18. Enw Babilonaidd Zorobabel oedd Sesbassar, i'r hwn y rhoddodd Cyrus awdurdod i fod yn llywydd tan yr enw Tirsatha. Gwel *Ezra* i, ii. a 5. 13—16.

Er mai o Judah, Benjamin, a Lefi, yr oedd y nifer fwyaf o'r gaethglud a ddychwelodd y pryd hwn; etto, nid oes le i ammeu na ddychwelodd rhai o bob un o'r llwythau ereill, naill ai y pryd hwn, neu wedi hyny, gan fod caniatad Cyrus *(Ezra* 1. 2, 3, 4.) ac Artaxerxes *(Ezra* 7. 13.) at holl Israel yn gyffredinol. A dywedir fod rhai o feibion Ephraim a Manasseh yn trigo yn Jerusalem ar ol y caethiwed gyda meibion Judah a Benjamin: 1 *Cron.* 9. 1, 2, 3. Yr oedd Anna y brophwydes o lwyth Aser *(Luc* 2. 36.) ac y mae Paul yn sôn am ei genedl dan yr enw 'deuddeg llwyth.' *Act.* 26. 7.——Y mae yr ystyriaeth hon, sef bod rhai o'r llwythau ereill wedi dychwelyd gyda Zorobabel yn cysoni yr anghytundeb ag sydd rhwng y swm cyffredinol yn *Ezra* 2. 64. a *Neh.* 7. 66. a'r amrywiol ranau; canys y swm cyffredinol o'r gaethglud

a ddychwelodd, yn y ddau le, yw 42,360; ond yr amrywiol ranau, sef rhifedigion yr amrywiol deuluoedd, yn *Ezra*, nid ydynt wedi eu chwanegu at eu gilydd ond 29,818, *Ezra* 2. 3—60. ac yn *Nehemiah* ond 31,031, *Neh.* 7. 8—62. canys bernir fod y rhai ag sydd dros ben y ddau gyfrif lleiaf, o'r llwythau ereill a ddychwelasant, heblaw Judah a Benjamin. Y mae amryw ffyrdd (medd *Prideaux, Conn. part* 1. *p.* 136) i gysoni *Ezra* a *Nehemiah* â'u gilydd; ond pa un sydd oreu, nid yw yn penderfynu, nac yn enwi un o honynt. Hwyrach fod *Ezra* yn rhoddi rhifedi pob teulu fel ag yr oeddynt ar eu dyfodiad cyntaf i Jerusalem, a *Nehemiah* yn rhoddi eu rhifedi fel y cyfrifwyd hwynt ychydig wedi hyny, pan oedd rhai o'r teuluoedd wedi eu chwanegu trwy ddyfodiad ereill atynt o Babilon, neu leoedd ereill, i Jerusalem, a rhai teuluoedd wedi lleihau yn y cyfamser trwy farwolaeth.

PENNOD V.

Am Daniel y Prophwyd.

Cyn myned ym mhellach gyd â'r hanes am ddychweliad yr Iuddewon o Babilon, a'u sefydliad yn eu gwlad eu hunain, ni fydd yn anfuddiol i roddi ychydig hanes am y prophwyd Daniel.

Dygwyd ef i Babilon gyda rhai o'r hâd breninol a'r tywysogion, fel y dywedwyd yn y caethgludiad cyntaf, yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim. Y mae Daniel (pen. 1. 1.) yn dywedyd mai yn y 3edd flwyddyn o deyrnasiad Jehoiacim y daeth Nebuchodonosor o Babilon i roddi gwarchae ar Jerusalem. Ond fel y gwelom Daniel yn gyson â Jeremiah, y mae yn rhaid i ni ddeall mai yn niwedd y 3edd flwyddyn i Jehoiacim y cychwynodd Nebuchodonosor o Babilon i ddyfod i Jerusalem. Yn nechreu ei 4edd flwyddyn yr ennillodd efe y fuddugoliaeth fawr yn Carchemis ar Pharaoh-Necho brenin yr Aipht. *Jer.* 46. 2. Ac yn nechreu yr un flwyddyn y prophwydodd Jeremiah am ei ddyfodiad yn erbyn gwlad Israel (*Jer.* 25. 1, 9.) a chymmerwyd Jerusalem tu a diwedd y flwyddyn, sef yn y 9fed mis, a elwir Cisleu, ar y 18fed dydd o'r mis; ar ba ddiwrnod, yn y flwyddyn ganlynol, y cyhoeddwyd ympryd i goffâu yr aflwydd hwnw (*Jer.* 36. 9.) a chedwir ympryd gan yr Iuddewon i goffâu hyny ar yr un diwrnod hyd heddyw. *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 62.

Bernir fod Daniel oddeutu 18 oed pan ddygwyd ef i Babilon (*Dan.* 1. 4.) ac iddo ef a'i gyfeillion gael eu gwneuthur yn ystafellyddion, neu yn efnuchiaid, yn ol y brophwydoliaeth yn *Esa.* 39. 7. Bu dair blynedd yn dysgu iaith a dysgeidiaeth y Caldeaid, cyn iddo sefyll ger bron y brenin. *Dan.* 1. 5.

Yn yr 2fed flwyddyn i Nebuchodonosor, yr hon oedd y 4edd yn ol y cyfrif Iuddewig, a'r 22ain o oed Daniel, y deonglodd efe freuddwyd y

brenin ynghylch y ddelw fawr, yr hon a fu yn achos o'i ddyrchafiad ef a'i dri chyfaill. *Dan.* ii.

Yn y 6ed flwyddyn o gaethgludiad Jehoiacin, pan oedd Daniel oddeutu 32ain mlynedd, yr oedd wedi cyrhaedd y fath radd o sanct-eiddrwydd a duwioldeb, fel y cyfrifwyd ef yn un o'r tri mwyaf rhagorol a fuasai yn yr eglwys hyd y pryd hyny. Y ddau ereill oedd Noah a Job. *Ezec.* 14. 14, 16, 18, 20. a 8. 1.

Pan oedd Daniel oddeutu 37ain flynedd oed, yr oedd y gair am ei ddoethineb wedi ymledu dros yr holl wledydd, fel yr aeth yn ddihareb. *Ezec.* 28. 3. a 27. 1.——Pan oedd oddeutu 55ain oed, yn y 35ain flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor yn ol y cyfrif Babilonaidd, y dehonglodd efe weledigaeth y brenin, ynghylch tori i lawr y pren mawr a chadarn. *Dan.* iv. Ni bu Nebuchodonosor byw, ar ol ei adferiad i'w synwyrau, fawr gyda blwyddyn, a chan fod yn eglur i Daniel gael ei anfon i Susan yn nhalaeth Elam, neu Persia, y mae yn anhawdd penu un amser tebycach iddo gael ei anfon yno nag ar ol adferiad Nebuchodonosor; gan nad oedd yn hawdd i'w hebgor o Babilon yn amser anhwyl y brenin; a chan nad yw yn debygol y buasai y breninoedd a ddaeth ar ei ol yn gweled cymmaint gwerth yn Daniel ag i'w osod mewn un sefyllfa anrhydeddus. Yr oedd Daniel oddeutu 63ain oed pan aeth i Susan, os aeth yno yn y flwyddyn olaf i Nebuchodonosor.

Pan gafodd Daniel y weledigaeth am y pedwar bwystfil mawr (*Dan.* vii.) sydd yn arwyddocâu y pedair breniniaeth, sef, 1. Y Babiloniaid.——2. Y Mediaid a'r Persiaid.——3. Y Groegiaid.——4. Y Rhufeiniaid; yn y flwyddyn gyntaf i Belsassar, yr oedd oddeutu 70 mlwydd oed. Ni ddywedir ym mha le yr oedd y pryd hyny; ond y mae yn debygol mai yn Elam, lle y cafodd, ddwy flynedd wedi hyny, y weledigaeth am yr hwrdd deu-gorn, sef breniniaeth y Mediaid a'r Persiaid; a'r bwch geifr un-gorn, sef Alexander Fawr; a'r pedwar corn a gododd yn ei le, ar ol ei dori, sef pedair breniniaeth y Groegiaid. *Dan.* viii.

Pa bryd y dychwelodd Daniel o Elam i Babilon, sydd ansicr; ond tebygol na arhosodd yno ar ol i Cyrus ryddhau ei wlad odditan iau y Babiloniaid, yr hyn, tybygid, oedd oddeutu y 6ed flwyddyn i Belsassar, pan ddarfu Abradates, tywysog Susan, gilio oddiwrth y Babiloniaid at Cyrus, ar yr achlysur a adroddwyd o'r blaen. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 116.

Yn y flwyddyn olaf i Belsassar, yr oedd Daniel oddeutu 87ain mlwydd pan ddehonglodd yr ysgrifen-law ar galchiad y pared. *Dan.* v. Yr oedd y brenin wedi clywed sôn am dano, ond nid oedd yn ei adnabod, am iddo dreulio cynnifer o flynyddoedd yn Elam, ac na welsai ef, tybygid, ar ol ei ddychweliad oddi yno. Ond yr oedd yn dra adnabyddus i Nitocris, gwraig Efil-merodach, a mam y brenin, yr hon, fel y bernir, oedd y frenines (*Dan.* 5. 10.) a hysbysodd am dano i Belsassar. *Prideaux's Conn. part.* 1. *p.* 115, 122.

Ar ol i Cyrus gymmeryd Babilon a lladd Belsassar, gosododd ei ewythr Cyaxares, sef Darius y Mediad, ar yr orsedd yn Babilon; rhanwyd y freniniaeth i chwech ugain o daleithiau, dan gynnifer o dywysogion, ar ba rai y gosodwyd tri rhaglaw, ac o'r rhai hyny Daniel oedd y penaf. Yr oedd Daniel, y mae yn debygol, yn adnabyddus i Cyrus, er pan fuasai yn llywodraethu yn Elam, ei wlad enedigol; fe wyddai am ei rinweddau, a'i gymhwysiadau i drin gorchwylion y deyrnas; a thrwy Cyrus, fe allai, y gwnaed ef yn adnabyddus i Darius y Mediad. Parodd dyrchafiad Daniel gymmaint cenfigen iddo, fel y gosodwyd cynllwyn am ei einioes; bwriwyd ef i ffau y llewod, a gwaredwyd ef oddi yno; fel yr adroddir yn *Dan.* vi. Hyn oedd yn y flwyddyn gyntaf i Darius. Yn yr un flwyddyn y deallodd, oddiwrth lyfr y prophwyd Jeremiah, fod y 70ain mlynedd o anghyfannedd-dra Jerusalem bron ar ben; gan hyny, ymroddodd i ympryd a gweddi, i ddeisyf ar yr Arglwydd i gyflawni ei air, trwy adferu ei bobl a'i achos yn Jerusalem. Tra yr oedd yn gweddïo, y danfonwyd yr angel Gabriel i hysbysu iddo fod ei weddïau wedi eu gwrando, ac i fynegi iddo am y 70ain wythnos a fyddai o fynediad y gorchymyn allan, am adferu ac adeiladu Jerusalem, hyd y blaenor y Messiah, ei farwolaeth, a'r cyfammod a wnai â llawer o'r Iuddewon dros un wythnos, sef yr olaf o'r 70ain. *Dan.* ix.

Yn y drydedd flwyddyn i Cyrus, pan oedd Daniel oddeutu 92ain, wedi iddo ddeall fod attalfa ar waith y deml yn Jerusalem, ymroddodd drachefn i ympryd a gweddi, i ddeisyfu ar yr Arglwydd, tybygid, i symud pob rhwystrau oddiar ffordd llwyddiant ei achos yn Jerusalem, yr hyn oedd nes at ei galon na dim arall. Bu yn disgwyl am ateb, neu ryw oleufynag fod ei weddïau yn dderbyniol, nes cyflawni tair wythnos o ddyddiau; yr hyn, tybygid, oedd yn arwyddocâu iddo, na orphenid y deml nes cyflawni 21 mlynedd ar ol y dychweliad yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus.—'Tywysog teyrnas Persia a safodd yn fy erbyn un diwrnod ar hugain,' (*Dan.* 10. 13.) sydd yn arwyddocâu yr un peth, sef y byddai i freninoedd Persia wrando ar elynion yr Iuddewon, i attal gwaith y deml, fel na orphenid nes cyflawni 21 mlynedd. Y 6ed flwyddyn i Darius Hystaspis, pan orphenwyd yr ail deml (*Ezra* 6. 15.) oedd yr 21ain flwyddyn o'r flwyddyn gyntaf i Cyrus pan ddychwelodd y gaethglud i Jerusalem, ac y dechreuasant barotoi defnyddiau tu ag at wneuthur y deml.

Cafodd Daniel y gweledigaethau a'r prophwydoliaethau ag sydd yn y tair pennod olaf o'i lyfr yn yr un amser.

Pa faint o amser y bu fyw ar ol y 3edd flwyddyn i Cyrus sydd anhysbys. Yr oedd y breninllys, tybygid, wedi cael ei symud i Susan yn Elam, gan Cyrus, yn nechreuad ei deyrnasiad ar ol marwolaeth ei ewythr, gan mai hòno oedd ei wlad enedigol, ac nid oes le i ammeu nad aeth Daniel gyd âg ef, ac y bu farw yno ar ol cael y weledigaeth ag sydd yn y tair pennod olaf o'i lyfr. *Dan.* x, xi, xii.

PENNOD VI.

Am Sefydliad yr Iuddewon yn eu Gwlad, ar ol dychwelyd o Babilon.

Wedi i'r gaethglud fod oddeutu 4 mis ar eu taith o Babilon i Judea, daethant i Jerusalem a manau ereill o'r wlad, yn mis Nisan, fel y bernir, yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus, canys dywedir fod yr ail mis o'r flwyddyn ganlynol yn yr ail flwyddyn ar ol eu dyfodiad i Jerusalem. *Ezra* 3. 8. *Prideaux, part* 1. *p.* 137. Cesglir eu bod oddeutu 4 mis ar eu taith, gan fod Ezra, a'r rhai a ddychwelasant gyd âg ef, cyhyd a hyny yn gwneuthur un daith. *Ezra* 7. 8. Ar ol dyfod i Judea, aethant i'w hamrywiol ddinasoedd perthynol i'w teuluoedd a'u llwythau, ac a ddechreuasant adeiladu tai. *Ezra* 2. 1.

Pan ddaeth gŵyl y pebyll yn y 7fed mis, ymgasglasant yn ol y gyfraith i'w chadw yn Jerusalem, ac a adeiladasant yr allor ar ei hen sylfeini, ac offrymasant aberthau. *Ezra* 3. 1—6. A gwnaethant barotöad tu ag at adeiladu y deml. *Adn.* 7.

Yn yr ail mis o'r ail flwyddyn ar ol eu dychweliad, y sylfaenasant dŷ yr Arglwydd. *Ezra* 3. 8—13. Pan wybu pobl y wlad, sef y Samariaid, fod y deml yn cael ei hadeiladu, hwy a ddaethant yn ddichellgar at Zorobabel a'r penau cenedl i gynnyg eu cynnorthwy, gan feddwl rhwystro y gwaith. Ond pan wrthodwyd eu cynnyg, hwy a ymddangosasant yn eu lliw eu hunain, yn elynion i'r Arglwydd, ei bobl, a'i achos; ac a lwyddasant gyda swyddogion Cyrus trwy wobrau, a chelwyddau, i daflu rhwystrau ar ffordd adeiladu y deml tra parhaodd ei deyrnasiad. A phan ddaeth Cambyses mab Cyrus i'r orsedd, yr hwn a elwir Ahasferus (*Ezra* 4. 6.) ysgrifenasant ato lythyrau o achwyniad yn erbyn yr Iuddewon. A'r un peth a wnaethant yn amser Smerdis y Magiad, yr hwn a elwir Artaxerxes (*Ezra* 4. 11.) fel y peidiodd gwaith y deml hyd yr ail flwyddyn o deyrnasiad Darius Hystaspis. *Ezra* 4. 1—24. Bernir fod y gelynion yn llwyddo mwy yn llys Cyrus, gan fod Daniel wedi marw, yn lled fuan, tybygid, ar ol y 3edd flwyddyn o'i deyrnasiad.

Ar ol i waith y deml sefyll oddeutu 14eg blynedd, cododd yr Arglwydd ddau brophwyd i fynu i annog yr Iuddewon i fyned âg ef ym mlaen, sef Haggai a Zechariah. Y cyntaf a ddechreuodd brophwydo yn y 6ed mis o'r ail flwyddyn i Darius Hystaspis (*Hag.* 1. 1. *Ezra* 5. 1.) a'r olaf ym mhen dau fis wedi hyny. *Zech.* 1. 1. Yr oedd y rhwystr mwyaf, ag oedd yn attal gwaith y deml, wedi cael ei dynu oddiar y ffordd trwy ladd Smerdis y Magiad, fel y dangosir yn ei le priodol; er hyny, esgeuluswyd y deml dros flwyddyn a hanner, ar ol dyfodiad Darius Hystaspis i'r orsedd, yr hwn, gan ei fod wedi priodi dwy o ferched Cyrus, oedd barod i gadarnhau pa beth bynag a orchymynasai

efe. Ond ymddengys fod penaethiaid yr Iuddewon y pryd hyn yn gofalu mwy am wneuthur tai cysurus iddynt eu hunain, nag i adeiladu tŷ yr Arglwydd. Yr esgeulusdra hwn a ddygodd farnedigaethau yr Arglwydd arnynt. Attaliwyd y gwlith a'r gwlaw, fel y pallodd holl ffrwyth y ddaear mewn mesur mawr; ac nid oedd bendith na llwyddiant ar ddim a gymmerent mewn llaw. Wedi cael eu hargyhoeddi trwy Haggai, aeth Zorobabel, a Josua, a holl weddill y bobl, â'r gwaith ym mlaen; ac wedi hyny, gwenodd yr Arglwydd arnynt, ac a'u bendithiodd yn holl waith eu dwylaw. *Hag.* i, ii. *Zech.* 8. 9—15.

Pan ddeallodd gelynion yr Iuddewon fod gwaith y deml yn myned ym mlaen yn egniol, llidiasant yn eu herbyn, a danfonasant achwyniad at Tatnai, yr hwn oedd lywydd ar Syria a Phalestina, a'r holl wlad at yr afon Euphrates. Ysgrifenodd Tatnai ar hyn lythyr at Darius Hystaspis, ym mha un y mae yn chwennych gwybod a oedd gorchymyn wedi cael ei roddi gan Cyrus am adeiladu y deml; ac os oedd, a oedd y brenin yn ewyllysio ei gyflawni. *Ezra* v.

Darius, wedi derbyn llythyr Tatnai, a orchymynodd chwilio yn Babilon, lle yr oedd, mewn trysor-gelloedd, yr holl weithredoedd a'r coffadwriaethau a wnaethai Cyrus yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad; a chafwyd mewn cist yn y llŷs yn nhalaeth Babilon (yr hon a elwir yn dalaeth Media, am ei bod y pryd hyny yn ddarostyngedig i'r Mediaid a'r Persiaid)* y gorchymyn a roes Cyrus mewn perthynas i'r deml yn Jerusalem. Ar ol i Darius ysgrifenu ateb i lythyr Tatnai, a chadarnhau ac helaethu gorchymyn Cyrus, aeth gwaith y deml ym mlaen yn llwyddiannus, nes ei gorphen yn y 6ed, a'i chyssegru trwy gadw y pasc yn y 7fed flwyddyn i Darius, yr hon oedd yr 21ain o'r ail flwyddyn i Cyrus. *Ezra* vi.

Rhoddodd Darius y gorchymyn hwn (*Ezra* 6. 6—12.) yn y 4edd flwyddyn o'i deyrnasiad, fel y gellir casglu oddiwrth *Zech.* 7. 1—3. canys yn y flwyddyn hon yr oedd 70ain mlynedd er pan ddinystriwyd y deml, yn yr 11eg flwyddyn i Sedeciah; a phan ddeallodd yr henuriaid ag oedd yn aros yn Babilon fod y deml i gael ei gorphen yn ddirwystr trwy rym y gorchymyn hwn, hwy a anfonasant genadau i Jerusalem i ofyn a oedd yn angenrheidiol iddynt i gadw y gwyliau ympryd fel o'r blaen. Canys, fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd 70ain mlynedd o'r caethgludiad cyntaf yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim, hyd y flwyddyn laf i Cyrus; ac o'r caethgludiad olaf a llosgiad y deml yn yr 11eg flwyddyn i Sedeciah, hyd y 4edd flwyddyn i Darius Hystaspis, pan gaf-

---

* Y mae y dysgedig *Prideaux* yn barnu mai *Ecbatana* a feddylir wrth *Acmetha.* (*Ezra* 6. 2.) Ond ar ymyl y ddalen yn y Bibl cyfieithir ef '*cist.*' Ei arwyddocâd yn *Park. Heb. Lex.* yw '*llestr pridd.*' *Jer.* 32. 14. Tebygol mai yn Babilon y cadwyd ef er amser Cyrus.

wyd gorchymyn cadarn i adeiladu a gorphen y deml, yr oedd hefyd 70ain mlynedd.

Yr 11eg flwyddyn i Sedeciah, pan losgwyd y deml, oedd y 19eg flwyddyn er y caethgludiad cyntaf yn y 4edd flwyddyn i Jehoiacim; a'r 4edd flwyddyn i Darius oedd y 19eg flwyddyn er y flwyddyn gyntaf i Cyrus. Fel hyn y gwelir cysondeb rhwng y caethgludiadau a'r adferiadau.

Nid oes hanes am yr Iuddewon a'u helynt ar ol cyssegru yr ail deml, yn yr Ysgrythyrau, dros yspaid 57 o flynyddoedd, hyd ddyfodiad Ezra i Jerusalem. Ond y mae Josephus (*Antiq. l.* 11. *c.* 4.) yn dywedyd i'r Samariaid attal y deyrnged yr oeddynt yn rhwym i dalu tu ag at gynnal yr addoliad yn y deml, hyd onid aeth Zorobabel gyd âg Ananias a Mordecai, i wneuthur eu cwyn at Darius, yr hwn a ysgrifenodd lythyr gyda hwynt at lywodraethwyr Samaria i beri iddynt yn ddioed ufuddhau i'w orchymyn cyntaf.

Yn y 7fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus,* yr hwn yn llyfr Esther a elwir dan yr enw Ahasferus, y caniatawyd i Ezra ac i gynnifer ag oedd yn ewyllysio o Israel, ac o'r offeiriaid, y Lefiaid, a'r Nethiniaid (gweddill y Gibeoniaid) i fyned o Babilon i Jerusalem. Yr oedd Ezra yn un o feibion Aaron, ac o hiliogaeth Seraiah yr archoffeiriad, a laddwyd gan Nebuchodonosor yn Riblah. Yn yr un flwyddyn y gwnaeth Ahasferus Esther yn frenines yn lle Fasti, wedi bod, fel y bernir, oddeutu tair blynedd o nifer ei ordderchadon. *Est.* 2. 1—16. Er i Ezra gychwyn ar ei daith i Jerusalem yn y mis cyntaf o'r 7fed flwyddyn i'r brenin, ac ni phriodwyd Esther hyd y 10fed mis o'r un flwyddyn, ac ni fynegasai ei chenedl hyd erlidigaeth Haman; etto, tebygol (medd *Prideaux)* iddi fod yn offerynol i gael y caniatâd a roddwyd i Ezra, gan fod arfer gan freninoedd Persia, i roddi cenad i'r gordderchadon ag oedd gymmeradwy ganddynt, i ofyn ar ryw amserau yr hyn a fynent.

Trwy ddyfodiad Ezra y pryd hyn yr adferwyd ac adeiladwyd Jerusalem mewn ystyr ysprydol, neu eglwysig (*Dan.* 9. 25.) trwy ei waith yn cyhoeddi a darllen ysgrythyrau yr Hen Destament, y rhai a osodasai efe mewn trefn, a thrwy osod i fynu ddisgybliaeth eglwysig yn ol y gair. O'r pryd hyn y dechreuir 70 wythnos Daniel, fel y dangosir ym mlaen. Gwel *Ezra* vii—x.

Yn yr 20fed flwyddyn o deyrnasiad Artaxerxes Longimanus, y cafodd Nehemiah genad i fyned i Judea, i adeiladu caerau Jerusalem, pyrth y deml, a thŷ iddo ei hun. Trulliad y brenin ydoedd; ac, o herwydd ei swydd, yn fynych yn ei bresennoldeb. Yn y 12fed flwyddyn o'r brenin hwn, yr oedd Esther wedi hysbysu iddo ei chenedl, pan fwriadodd Haman

---

* Galwyd y brenin hwn gan y Groegiaid gyd à'r enw chwanegol Μακροχειρ, yr hyn yn Lladin yw *Longimanus*, neu *Llaw-hir;* dywedir, pan safai yn syth, fod ei ddwylaw yn cyrhaedd at ei benliniau.

ddinystrio yr holl Iuddewon yn yr Ymerodraeth (*Est.* 3. 9.) ac o hyny allan yr oedd yn barod i ddangos pob caredigrwydd i'r genedl Iuddewig, ym mhob rhan o'i deyrnas, er ei mwyn hi. *Neh.* 2. 1—6. Nid yw hysbys o ba lwyth yr oedd Nehemiah, ond yn unig fod ei henafiaid wedi eu cladḍu yn Jerusalem. *Neh.* 2. 3. Er ei fod wedi cael ei eni mewn gwlad estronol, nid oedd ei gariad at ei genedl, na'i zel dros achos Duw, a llwyddiant crefydd yn Jerusalem, yn llai, os nad oedd yn fwy, nag oedd gan y rhan fwyaf o'r gaethglud a ddychwelasant yno er ys llawer o flynyddoedd. Er cymmaint oedd y gwrthwynebrwydd a gafodd oddiwrth Sanbalat yr Horoniad, llywodraethwr Samaria (*Neh.* 4. 2.) Moabiad o genedl, fel y bernir, o ddinas Horonaim, ac oddiwrth ei gyfeillion; etto llwyddodd Nehemiah i orphen caerau Jerusalem mewn 52ain niwrnod. *Neh.* 6. 15.

Ar ol gorphen caerau Jerusalem, a'u pyrth, dychwelodd Nehemiah yn ol at y brenin cyn pen y flwyddyn, fel y bernir, gan fod amser ei ddychweliad wedi ei bennodi. *Neh.* 2. 6. Gadawodd oruchwyliaeth y ddinas, yn ei absennoldeb, dan ofal Hanani ei frawd, a Hananïah, tywysog y palas, yr hwn, tybygid, oedd y deml, fel y mae yn arwyddocâu, yn *Neh.* 2. 8. Gwel *Neh.* 7. 1, 2, 3. a *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 367.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef yr 21ain i Artaxerxes, dychwelodd Nehemiah o lys Persia, gyd âg awdurdod newydd i fod yn llywodraethwr yn Jerusalem a Judea (*Neh.* 8. 9.) ac i ddywygio a gwneuthur pob peth fel y byddai yr achos yn gofyn. Ei waith cyntaf, ar ol ei ddychweliad i Jerusalem, oedd cynnull y penaethiaid, y tywysogion, a'r holl bobl yno, i'w cyfrif wrth eu hachau, fel y gwnawd ar eu dychweliad cyntaf o Babilon dan arweiniad Zorobabel a Josua. Ei ddiben yn hyn a allai fod i edrych pa faint a gynnyddasent er eu dychweliad cyntaf; i fynu gwybod a oedd neb dan enw offeiriaid yn gweini yn y deml, heb fod o deulu Aaron, neu dan enw Lefiaid, heb fod o lwyth Lefi; ac er mwyn cymmeryd trwy goelbren un o bob deg i gyfanneddu yn Jerusalem. A chan fod y ddinas yn ëang, ond âg ychydig dai ynddi, annogodd Nehemiah y tywysogion i adeiladu tai, a thrigo ynddi. *Neh.* 7. 4, 5. a 11. 1, 2.

Gan fod gwyl yr udgyrn, sef y dydd cyntaf o'r seithfed mis, yn digwydd tra yr oedd y bobl yn Jerusalem (*Neh.* 8. 2.) nid yw yn annhebygol i Nehemiah eu galw ynghyd i gadw yr ŵyl hòno, yn gystal ag er mwyn y dibenion ereill a grybwyllwyd. A chan fod Ezra erbyn hyn, tybygid, wedi gorphen ei orchwyl mawr o ysgrifenu copi teg o'r gyfraith, ac Ysgrythyrau yr Hen Destament, ym mha un y buasai yn llafurio er ys llawer o flynyddoedd, fe ddygodd y gyfraith allan, ac a ddarllenodd o honi o flaen y gynnulleidfa o'r boreu hyd hanner dydd. *Neh.* 8. 2—5. A'r un peth a wnaeth efe yn ngŵyl y pebyll, ym mhen pythefnos wedi hyny, gan ddarllen bob dydd tra parhaodd yr ŵyl. *Neh.* 8. 13—18. Ezra, ar ol gweddio, a bendithio yr Arglwydd, a ddarllenodd y gyfraith

yn yr iaith Hebraeg, a'i gynnorthwywyr a ddarllenasant ac a eglurhas ant i'r bobl yr hyn a ddarllenodd, bob yn rhan, yn yr iaith Galdaeg; gan nad oeddynt yn deall yr iaith Hebraeg, yr hon a gollasant yn nghaethiwed Babilon, fel nad oedd neb ond y rhai a'i dysgai yn ei deall. *Neh.* 8. 3—8.

Wedi i Ezra a Nehemiah weled yr effeithiau daionus ag oedd yn tarddu oddiwrth y dyledswyddau hyn, cyhoeddasant ympryd i'w gadw ar y 24 dydd o'r un mis, deu-ddydd ar ol darfod gŵyl y pebyll, i'r diben o ymostwng ger bron yr Arglwydd am eu pechodau, ac i ymuno mewn cyfammod i ymneillduo oddiwrth y cenedloedd, fel nad ymgymmysgent â hwynt mewn priodasau; i gadw cyfraith yr Arglwydd a roddwyd trwy Moses, yn gystal y foesol a'r seremoniol; a'r cyfammod hwn a seliodd y penaethiaid, ynghyd â'r holl gynnulleidfa, yn feibion ac yn ferched, ag oedd mewn oedran a synwyr i wneuthur hyny. *Neh.* ix, x.

Ar ol i Nehemiah dreulio oddeutu 11eg mlynedd y tro hwn yn ei lywodraeth yn Judea (yr hyn oedd yn gwneuthur 12 mlynedd er ei ddyfodiad cyntaf) dychwelodd i lŷs Persia yn y 32 flwyddyn i Artaxerxes Longimanus. *Neh.* 5. 14—19. a 13. 6. Pa faint o amser y bu yn absennol o Jerusalem y pryd hyn, y mae yn anhawdd penderfynu. Y mae *Prideaux* yn barnu (*Conn. pt.* 1. *p.* 357.) ei fod yn absennol oddeutu pum mlynedd; ac y gall y geiriau 'ym mhen talm o ddyddiau,' (*Neh.* 13. 6.) arwyddocâu yn ol yr *Heb.* 'ym mhen talm o flynyddoedd'—ac nad yw yn debygol y gallai yr eglwys yn Jerusalem ddirywio i'r fath radd ag y darfu mewn llai o amser na phum mlynedd. *Neh.* 13. 4—22.

Oddeutu y pryd hyn, sef y 37 flwyddyn i Artaxerxes, a 428 mlynedd cyn geni Crist, tebygol, y prophwydodd Malachi, yr olaf o brophwydi yr Hen Destament. Bernir hyny gan fod Malachi yn cwyno yn y tair pennod gyntaf o'i brophwydoliaeth, o herwydd yr un llygredigaethau yn yr offeiriaid a'r bobl ag oedd yn eu plith pan ddaeth Nehemiah y tro olaf i Jerusalem.

Ar ol i Nehemiah fod y waith hon oddeutu pedair blynedd yn ei lywodraeth yn diwygio pob llwgr ag oedd wedi ymlusgo i mewn i'r eglwys, bu farw Artaxerxes Longimanus, ar ol teyrnasu 41 mlynedd; a chan fod llawer o ymdynu a thywallt gwaed ym mhlith ei feibion am y goron, dros wyth mis, nes sefydlu Darius Nothus, un o'i feibion ordderch, ar yr orsedd; nid oes hanes, ac nid yw yn debygol, i Nehemiah ddychwelyd mwyach i lŷs Persia, ond iddo dreulio gweddill ei ddyddiau yn Jerusalem. Y weithred olaf o ddiwygiad Nehemiah, a sonir am dani (*Neh.* 13. 28.) oedd esgymmuno un o feibion Joiada mab Eliasib yr arch-offeiriad, ag oedd wedi priodi merch Sanbalat yr Horoniad, gelyn yr Iuddewon. Enw y mab hwn, yn ol tystiolaeth Josephus (*Antiq. lib.* 11. *c.* 7.) oedd Manasseh, i ba un yr adeiladodd ei dad yn nghyfraith deml ar fynydd Garizim, yn agos i Sichem, yn debyg i'r deml yn Jerusalem.

Gwel *Ioan* 4. 20. Y mae *Prideaux* yn rhoddi y weithred olaf hon o ddiwygiad Nehemiah yn y 15fed flwyddyn i Darius Nothus (*Conn. pt.* 1. *p.* 1.) pan oedd y saith wythnos gyntaf o 70 wythnos Daniel yn gyflawn, hyny yw, ym mhen 49 mlynedd ar ol dyfodiad Ezra, yn y 7fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus. Y mae yn profi fod y gair 'arch-offeiriad' (yn *Neh.* 13. 28.) yn ol priodoldeb yr iaith Hebraeg, yn perthyn i Joiada, ac nid i Eliasib; ac oddiwrth Cronicl Alexandria, ag sydd yn rhoddi hanes am yr arch-offeiriaid Iuddewig ar ol y dychweliad o Babilon, y mae yn dangos i Joiada ddechreu ar ei offeiriadaeth ar ol marwolaeth ei dad Eliasib, yn yr 11eg flwyddyn i Darius Nothus. A'r achos paham y mae *Prideaux* yn dewis gosod y weithred hon o ddiwygiad Nehemiah yn y 15fed flwyddyn o'r un brenin, yn hytrach nag un arall, yw, am mai yn hòno y dibenwyd y 7 cyntaf o 70 wythnos Daniel.—— Pa faint o amser y bu Nehemiah fyw ar ol hyn sydd ansicr; ond bernir nad allai fod y pryd hyn, sef yn yr amser y mae yn gorphen ei lyfr, fawr lai na 70 mlwydd oed. Nid yw yn ymddangos fod un llywodraethwr gwladol o Iuddew yn Judea ar ei ol ef, hyd amser y Maccabeaid, y rhai a ddechreuasant lywodraethu oddeutu 243 blynedd ar ol amser Nehemiah. Yn y cyfamser, tra parhaodd breniniaeth y Persiaid, llywodraethwyd Judea gan raglawiaid Syria o ran achosion gwladol, a chan yr arch-offeiriaid mewn pethau crefyddol; ac wedi hyny gan freninoedd Groegaidd yr Aipht a Syria, fel y byddai y naill neu y llall o honynt yn cael meddiant ar Judea, fel y gwelir ym mlaen.

PENNOD VII.

Am Ezra, a'i Waith yn trefnu Ysgrythyrau yr Hen Destament.

Yr oedd Ezra, fel y sylwyd eisoes, yn offeiriad o deulu Aaron, ac o hiliogaeth Seraiah yr arch-offeiriad, a laddwyd gan Nebuchodonosor yn Riblah. 2 *Bren.* 25. 18—21. Gelwir ef yn fab i Seraiah, yn ol dull yr Hebreaid o lefaru, y rhai alwent ŵyrion a gorŵyrion, &c. yn feibion i'w henafiaid. Tebygol y gallai Ezra fod yn ŵyr neu yn orŵyr i'r Seraiah hwnw, gan fod 130 mlynedd er pan laddwyd ef hyd y 7fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, yn nechreuad pa flwyddyn y cychwynodd Ezra o Babilon, gyd âg amryw o benau cenedl yr offeiriaid, y Lefiaid, a'r Nethiniaid, heblaw llawer o'r cyffredin bobl, tybygid, o bob llwyth yn Israel, gan eu bod ar eu dyfodiad i Jerusalem yn offrymu deuddeg o ychain dros holl lwythau Israel. *Ezra* 8. 35.

Er fod y deml mewn ystyr lythyrenol wedi ei hadeiladu, a Jerusalem hefyd mewn rhan; etto, mewn ystyr ysprydol, nid oedd un o honynt wedi eu hadeiladu, hyd oni roddwyd gorchymyn i Ezra i fyned i Jerusalem i wneuthur hyny, trwy sefydlu yr eglwys Iuddewig yn ol cyfraith

yr Arglwydd a roddwyd trwy Moses. Ér fod yr Arglwydd wedi gwneuthur pethau mawrion i'r genedl Iuddewig yn eu dychweliad o wlad eu caethiwed i Jerusalem, ac adferiad y deml, a'r aberthau, a'r gwasanaeth, yr oedd etto y peth mwyaf pwysfawr ac angenrheidiol yn ol, sef *copi* cywir a chyflawn o'r gyfraith, ynghyd â rhanau ereill o Ysgrythyrau yr Hen Destament. Canys er fod ganddynt goffadwriaeth o amryw bethau perthynol i'r aberthau a gwasanaeth y deml, nid yw yn ymddangos fod y gyfraith a'r prophwydi ganddynt, o leiaf yn gyflawn, hyd oni chawsant hwynt trwy lafur Ezra. Gwel *Neh.* 8. 13, 14, 15.

Y mae Iuddewon a Christionogion yn cytuno i briodoli i Ezra y gorchwyl o osod Ysgrythyrau yr Hen Destament yn y drefn ag y maent, gan mwyaf, wedi eu trosglwyddo i ni. (*Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 329.) Gellir barnu i lyfr y gyfraith, sef pum llyfr Moses, a ysgrifenid â'i law ei hun, ac a guddiwyd yn amser cyntaf Manasseh, fel y bernir, ac a gafwyd yn nghudd ym mur y deml wrth ei hadgyweirio, yn y 18fed flwyddyn i Josiah, (2 *Bren.* 22. 8—14.) gael ei ddwyn i Babilon gan un o'r offeiriaid yn amser y caethgludiad, ynghyd â llyfrau Job, Josua, y Barnwyr, Ruth, Samuel, Psalmau Dafydd, y Croniclau ag oedd yn cynnwys hanes breninoedd Judah, y Croniclau ag oedd yn cynnwys hanes breninoedd Israel, a'r holl brophwydi a ysgrifenasant o flaen y caethiwed. Ysgrifenwyd llyfrau prophwydoliaethau Ezeciel a Daniel yn amser y caethiwed, oddieithr y tair pennod olaf o lyfr Daniel, a ysgrifenwyd yn y 3edd flwyddyn i Cyrus. Ysgrifenwyd prophwydoliaethau Haggai a Zechàriah yn yr ail flwyddyn i Darius Hystaspis, yr hon oedd yr 17eg flwyddyn ar ol y dychweliad o Babilon. Ysgrifenwyd llyfr Esther, hwyrach, gan Ezra, o'r hanesion a ddanfonwyd iddo o Persia i Jerusalem, yn lled fuan ar ol y 12fed flwyddyn i Ahasferus, neu Artaxerxes Longimanus. *Est.* 3. 7. Llyfr Nehemiah a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun, o bryd i bryd, o'r 20fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, hyd y 15fed flwyddyn i Darius Nothus, ei fab ordderch, yr hyn oedd yspaid oddeutu 36 mlynedd. Oddeutu amserau olaf Nehemiah y prophwydodd Malachi.—Ond i ddychwelyd at Ezra. Y mae yn eglur mai gwaith mawr a maith oedd hwnw y bu yn llafurio ynddo, oddiwrth feithder yr amser y bu yn ei gylch. Ymddengys ei fod wrth y gorchwyl o ysgrifenu yr Ysgrythyrau pan oedd yn Babilon, canys dywedir ei fod yn 'ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses,' (*Ezra* 7. 6.)—gelwir ef Ezra yr offeiriad, a'r ysgrifenydd, sef ysgrifenydd geiriau a gorchymynion yr Arglwydd, a'i ddeddfau i Israel; (*adn.* 11.) —a bod y gorchwyl mawr ym mha un yr oedd yn llafurio yn hysbys i'r brenin a'i gynghoriaid sydd eglur oddiwrth lythyr y brenin at Ezra, ym mha un y gelwir ef yn 'ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd,' (*Ezra* 7. 11—26.) a dywedir fod cyfraith ei Dduw yn ei law, (*adn.* 14.) hyny yw, yn ei hysgrifenu, ac i'w dwyn i Jerusalem. Ymddengys ym mhell-

ach, fod gwaith Ezra o fawr bwys, ac yn gymmeradwy yn ngolwg y brenin Artaxerxes, gan iddo roddi iddo ei holl ddymuniad, hyny yw, tybygid, nid yn unig awdurdod i ddychwelyd i Jerusalem, ond i chwilio yn llyfr-gelloedd y brenin, y'mhob man lle yr oeddynt, am ysgrifeniadau yr Iuddewon, a ysgrifenasid gan y prophwydi, ac a ddygasid o Judea i Babilon, yn amser y caethiwed. Nid yw yn annhebygol i rai o'r rhai hyn gael eu dwyn i Jerusalem gan y gaethglud yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus, ac mai hyny oedd un o ddibenion Ezra wrth geisio cenad i fyned i Jerusalem, sef i gael gafael ar yr ysgrifeniadau ag oedd yno, fel y gallai orphen y gwaith a ddechreuasai.

Bu Ezra, tybygid, oddeutu 14 blynedd ar ol dyfod i Jerusalem, cyn gorphen y gwaith ag oedd ganddo mewn llaw, sef ysgrifenu copi têg o holl ysgrythyrau yr Hen Destament, oddieithr yr ychydig a chwanegwyd atynt wedi hyny. Canys daeth Ezra i Jerusalem yn y 7fed flwyddyn i Artaxerxes, ac nid yw yn ymddangos i'r gyfraith gael ei darllen yn gyhoeddus hyd ŵyl yr udgyrn, sef y dydd cyntaf o'r seithfed mis, yn yr 21ain flwyddyn i'r un brenin. (Gwel y bennod o'r blaen.) Ac hyd y pryd hyn, nid oedd tadau penaf y bobl, sef yr offeiriaid a'r Lefiaid, yn hyddysg yn ngyfraith Moses, gan iddynt ymgynnull at Ezra yr ysgrifenydd, yr ail ddydd ar ol gŵyl yr udgyrn, i gael eu dysgu yn ngeiriau y gyfraith. A'r pryd hyn y deallasant, oddiwrth *Lef.* 23. 34. fod yr Arglwydd wedi rhoddi gorchymyn am gadw gŵyl y pebyll, yr hon a esgeuluswyd er amser Josua, yn ol manyldra y gorchymyn, fel y gellir barnu. Gwel *Neh.* viii.

1. Y gwaith a wnaeth Ezra, fel y bernir, oedd, wrth gymharu amrywiol gopïau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, diwygio y gwallau ag oedd wedi dyfod i mewn trwy esgeulusdra a chamsyniadau yr ysgrifenyddion.

2. Talfyru Croniclau breninoedd Israel a Judah; canys ysgrifeniadau maith oeddynt, wedi eu hysgrifenu o oes i oes gan amryw ddwylaw yn nheyrnasoedd Israel a Judah. Y mae cyfansoddydd dau lyfr y Breninoedd, ac ail lyfr y Cronicl, yn cyfeirio yn fynych at amryw lyfrau o ba rai y cafodd efe yr hanesion y mae yn eu rhoddi. Ac nid oedd neb mor debyg ag Ezra i wneuthur hyn. Gwel 1 *Bren.* 11. 41. a 14. 29. a 15. 23. 2 *Bren.* 1. 18, &c. 2 *Cron.* 9. 29. a 12. 15. a 32. 32, &c. Os Ezra, fel y bernir, a wnaeth hyn, y mae yn amlwg iddo gael ei ddysgu gan yr Yspryd Glân, pa beth i adael allan, a pha beth i ysgrifenu er budd i'r eglwys hyd ddiwedd amser. Y mae doethineb a daioni Duw yn eglur i'w weled, nid yn unig yn hanesion ac athrawiaethau y Bibl, ond hefyd yn ei faintioli cymhedrol. Pe buasai hanes manwl wedi cael ei roddi o'r amrywiol bethau a ddigwyddasant yn oesoedd yr Hen Destament, buasai y llyfr wedi chwyddo i ormod maintioli i fod yn fuddiol i'r eglwys; buasai allan o gyrhaedd y tlodion, ac ni buasai y byd yn gallu ei gynnwys yn eu côf. *Ioan* 21. 25.

3. Bernir i Ezra chwanegu yr hyn oedd angenrheidiol, i eglurhau y rhan hanesiol o'r Ysgrythyrau, megys yr ymadrodd hwnw yn *Gen.* 22. 14. 'Fel y dywedir heddyw, Ym mynydd yr Arglwydd y gwelir.' A hwnw yn *Gen.* 36. 31. 'Dyma hefyd y breninoedd a deyrnasasant yn ngwlad Edom, cyn teyrnasu brenin ar feibion Israel'—yr hyn ni ysgrifenwyd, tybygid, gan Moses, ond gan ryw un lawer o oesoedd wedi hyny, ar ol bod breninoedd yn Israel.

Yn *Exod.* 16. 35. dywedir, 'A meibion Israel a fwytasant y manna ddeugain mlynedd, nes eu dyfod i dir cyfanneddol: manna a fwytasant nes eu dyfod i gŵr gwlad Canaan.' Ond bu farw Moses cyn i'r manna beidio; gan hyny, geiriau rhyw ysgrifenydd arall yw y rhai hyn. Ac amryw o'r cyffelyb ymadroddion chwanegol sydd i'w gweled yn llyfrau Moses. Y mae yn eglur hefyd i'r bennod olaf o Deuteronomium gael ei chwanegu gan ryw un o dadau yr eglwys ar ol marwolaeth Moses, os nid gan Ezra. Yn yr un modd y darfu i ryw un chwanegu y bennod olaf o lyfr Ezra, fe allai, ar ol ei farwolaeth yntau, yr hyn a ellir ei farnu, gan fod Ezra yn llefaru yn y pennodau o'r blaen yn ei berson ei hun, ond yn yr yr olaf adroddir gan ryw un arall yr hyn a wnaeth Ezra tu ag at ddiwygio yr eglwys o ran y priodasau anghyfreithlon.

4. Bernir i Ezra newid amryw o hen enwau lleoedd, gan roddi yn eu lle yr enwau ar ba rai y gelwid hwynt yn yr oesoedd canlynol, fel y deallai y darllenydd yn well yr hyn a ysgrifenwyd. Dywedir yn *Gen.* 14. 14. i Abraham ymlid y breninoedd 'hyd Dan'—ond enw y lle hwnw oedd Lais, lawer o oesoedd ar ol Abraham, hyd oni ddarfu i'r Daniaid ei ennill, a'i alw 'yn Dan, yn ol enw Dan eu tad.' (*Barn.* 18. 29.) Felly sonir yn fynych am Hebron yn Genesis a Numeri; ond Ciriath-Arba oedd enw y ddinas nes i Caleb ei galw hi yn Hebron, yn ol enw un o'i feibion. A llawer o gyffelyb siamplau a ellid ei chwanegu. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 345. Ar ol i Ezra orphen ei waith yn ysgrifenu yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ysgrifenwyd llawer o gopïau o honynt gan yr offeiriaid a'r Lefiaid; ac fel na byddai prinder o honynt, yr oedd rhyw rai, tybygid, wedi cael eu neillduo at y gorchwyl hwn, yn yr oes hòno, a'r oesoedd canlynol hyd amser Crist, y rhai a alwyd yn Ysgrifenyddion. Ac adeiladwyd synagogau, neu dai o ymgynnulliad, yn yr holl wlad, i'r diben o ddarllen y gyfraith a'r prophwydi i'r bobl, a'u heglurhau yn yr iaith a ddeallent, ar y Sabbothau. Canys y mae yn eglur nad oedd yr arfer o ddarllen y gyfraith mewn addoliad cyhoeddus yn gyffredin o flaen y caethiwed, fel y deallir oddiwrth yr hyn a adroddir am Hilciah yn cael llyfr y gyfraith yn amser Josiah; gan hyny, cesglir nad oedd synagogau i ddarlleu y gyfraith a'r prophwydi o flaen y caethiwed. *Prideaux, pt.* 1. *p.* 373.

Oddiwrth yr hanes a roddir am Ezra, ymddengys ei fod yn ŵr rhagorol am ei dduwioldeb, ei zel dros achos Duw ac anrhydedd ei gyfraith,

ei lafurus gariad, a'i ddiwydrwydd yn y gorchwyl mwyaf ei bwys a'i werth i eglwys Dduw a fu neb erioed yn llafurio ynddo. Wedi bod yn llywodraethwr ar y wlad dros 13 blynedd, rhoddodd le, tybygid, i Nehemiah, pan ddaeth i Judea yn yr 20fed flwyddyn i'r brenin Artaxerxes; er hyny, ni chenfigenodd Ezra wrtho, ond bu yn gynnorthwyol iddo i ddwyn y diwygiad ym mlaen, a ddechreuasai efe ei hun. Bu farw, tybygid, yn lled fuan ar ol gwŷl y pebyll, a gynnaliwyd yn yr 21ain flwyddyn i Artaxerxes, gan nad oes sôn am ei enw wedi hyny. Yr oedd cyssegriad muriau Jerusalem, yr hwn a adroddir yn *Neh.* 12. 27—43. ym mha un yr oedd Ezra yn blaenori (*adn.* 36.) wedi digwydd yn y flwyddyn o'r blaen, sef yr 20fed o'r un brenin. *Neh.* 2. 1. a 5. 14. Wedi hyny ysgrifenodd Nehemiah ei lyfr, yr hwn, ar ol ei farwolaeth, tybygid, a chwanegwyd gyda llyfrau Ezra, Esther, a phrophwydoliaeth Malachi, at Ganon yr Ysgrythyrau, gan un o henuriaid yr eglwys. Priodolir hyny i Simon yr arch-offeiriad, a gyfenwid y Cyfiawn, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn o flaen Crist 292, oddeutu 117 flynedd ar ol amserau olaf Nehemiah. Efe, fel y bernir, a ddygodd achau meibion Zorobabel yn 1 *Cron.* iii. mor isel i lawr ag amserau Alexander Fawr, fel y mae yn hawdd barnu oddiwrth rifedi y cenedlaethau a enwir yn 1 *Cron.* 3. 19—24. Ac yn *Neh.* 12. 22. crybwyllir am ddyddiau Jadua, yr arch-offeiriad, megys dyddiau wedi myned heibio. Ond yr oedd Jadua yn ei swydd yn amser Darius y Persiad, yr hwn a gyfenwid Codomannus, a'r olaf o freninoedd Persia, yn unbenaeth y Mediaid a'r Persiaid; bu Jadua fyw ddwy flynedd ar ol Alexander Fawr, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn cyn geni Crist 323; gan hyny, y mae yn eglur i'r adnod grybwylledig gael ei chwanegu gan ryw un ym mhell ar ol marwolaeth Nehemiah; ond nid oedd neb mor debyg i wneuthur hyny a Simon yr arch-offeiriad, a gyfenwid y Cyfiawn; yr hwn, medd yr Iuddewon, oedd yr olaf o'r chwech ugain henuriaid a lafuriasant yn olynol yn sefydliad y wladwriaeth a'r eglwys Iuddewig ar ol y dychweliad o Babilon. Gwel *pen.* 50. o'r llyfr Apocryphaidd Ecclesiasticus, ym mha un y rhoddir canmoliaeth i Simon yr arch-offeiriad, a *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 573, 574.

PENNOD VIII.

Am y Deng Wythnos a Thriugain, Dan. 9. 24—27.

Y BROPHWYDOLIAETH am y 70 wythnos a draddodwyd i Daniel oddiwrth yr Arglwydd gan yr angel Gabriel, mewn ffordd o atebiad i'w weddïau, yn y flwyddyn gyntaf i Darius y Mediad, oddeutu blwyddyn cyn diweddu y 70 mlynedd o gaethiwed Babilon. *Dan.* 9. 1, 2.—'Deng wythnos a thriugain a derfynwyd ar dy bobl, ac ar dy ddinas

sanctaidd, i ddibenu camwedd, ac i selio pechodau, ac i wneuthur cymmod dros anwiredd, ac i ddwyn cyfiawnder tragywyddol, ac i selio y weledigaeth a'r brophwydoliaeth, ac i eneinio y sancteiddiolaf. Gwybydd gan hyny, a deall y bydd o fynediad y gorchymyn allan am adferu ac am adeiladu Jerusalem, hyd y blaenor Messïah, saith wythnos, a dwy wythnos a thriugain: yr heol a adeiledir drachefn, a'r mur, sef mewn amseroedd blinion. Ac wedi dwy wythnos a thriugain y lleddir y Messïah, ond nid o'i achos ei hun: a phobl y tywysog yr hwn a ddaw a ddinystria y ddinas a'r cyssegr; a'i ddiwedd fydd trwy lifeiriant, a hyd ddiwedd y rhyfel y bydd dinystr anrheithiol: ac efe a sicrha y cyfammod â llawer dros un wythnos: ac yn hanner yr wythnos y gwna efe i'r aberth a'r bwyd-offrwm beidio; a thrwy luoedd ffiaidd yr anrheithia efe hi, hyd oni thywallter y diben terfynedig ar yr anrheithiedig.'—— Gan fod Daniel yn deall, oddiwrth lyfr prophwydoliaeth Jeremiah, y cyflawnai yr Arglwydd ddeng mlynedd a thriugain yn anghyfannedd-dra Jerusalem, a bod y blynyddoedd hyny yn y flwyddyn gyntaf i Darius y Mediad o fewn llai na dwy flynedd i ddyfod i ben; etto, gan ei fod yn gwybod fod yn addas i bechaduriaid i ymostwng ger bron yr Arglwydd, ac mai ei drefn ef yw rhoddi gwaredigaethau i'w bobl mewn ffordd o ateb i'w gweddïau; gan hyny ymostyngodd mewn gweddi ac ympryd, ac a gyffesodd ei bechodau ei hun a phechodau Israel, gan ddeisyf ar yr Arglwydd lewyrchu ei wyneb ar ei gyssegr anrheithiedig. Pan oedd wrth y gorchwyl o weddïo, danfonwyd yr angel Gabriel i hysbysu iddo fod ei weddïau wedi cael eu gwrando. Cafodd addewid o'r hyn ag yr oedd yn ei geisio, sef y byddai i Jerusalem gael ei hadferu a'i hadeiladu, nid yn unig mewn ystyr llythyrenol, ond hefyd mewn ystyr ysprydol. A chafodd hefyd ddatguddiedigaethau chwanegol na ddisgwyliodd am danynt, am ddyfodiad y Messïah, am ba un yr oedd yr eglwys erioed yn disgwyl, a'r gwaith a wnai, a'r amser yr eglurid ef fel y cyfryw i Israel, ac y lleddid ef fel aberth dros ei bobl; ac amryw o bethau ereill perthynol i'r genedl Iuddewig, ag sydd gynnwysedig yn y brophwydoliaeth, er mwyn deall pa un, rhoddir y sylwadau byrion a ganlyn:—

'Deng wythnos a thriugain a derfynwyd ar dy bobl;' fel pe buasai yr angel yn dywedyd, Er fod y 70 mlynedd o gaethiwed bron ar ben, etto gwybydd fod 70 o wythnosau o flynyddoedd wedi eu terfynu ar dy bobl;—hyny yw, fel y cytunir yn gyffredinol, 490 o flynyddoedd, hyd oni thorid i lawr ganolfur y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd, trwy bregethu yr efengyl i'r Cenedloedd, yr hyn a gymmerodd le ym mhen tair blynedd a hanner ar ol adgyfodiad Crist, fel y bernir, trwy waith Saul yn pregethu yr efengyl yn Arabia (*Gal.* 1. 17.) yn y flwyddyn o oed Crist 23.

'Ac ar dy ddinas sanctaidd.' Y mae y geiriau hyn, tybygid, o'r un arwyddocâd a 'dy bobl'—fel y mae dinas yn aml yn arwyddo trig-

olion y ddinas—a Jerusalem, yn fynych, yn arwyddocâu yr holl eglwys Iuddewig mewn ystyr blaenorol. Nid oedd yr eglwys Iuddewig, yn ol y brophwydoliaeth, i gael ei chyfrif yn ‘ sanctaidd,’ hyny yw, wedi ei neillduo i'r Arglwydd, ond hyd ddiwedd y 490 mlynedd. Nid ellir cymmeryd y gair ‘ dinas’ yn yr ystyr llythyrenol, gan na ddinystriwyd Jerusalem hyd y flwyddyn 70 o oed Crist, yr hyn oedd 36 mlynedd ar ol dibenu y 490 mlynedd.

‘ I ddibenu camwedd.’ Hyn a wnaeth Crist trwy ei farwolaeth ar y groes, yn niwedd yr hanner wythnos *(adn.* 27.) pan ddilëodd efe yr ysgrifen-law, yr hon oedd i'n herbyn, ac a'i cymmerodd hi oddiar y ffordd, gan ei hoelio wrth y groes. *Col.* 2. 14. Y pryd hyny y dibenodd efe dalu holl ddyled ei bobl, ac y dinystriodd efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol; *(Heb.* 2. 14.) canys yr oedd ei farwolaeth ef yn achos digonol ac effeithiol i dynu ymaith holl effeithiau pechod oddiar ei holl eglwys, o ran eu heneidiau a'u cyrph, y felldith a'r gospedigaeth, yr euogrwydd a'r arglwyddiaeth, ynghyd â'r bod o bechod.

‘ Ac i selio pechodau.’ Y mae y copïau Hebraeg yn amrywio yma. Yn rhai y darllenir, לחתם i *selio*, ac yn ereill, להתם i *orphen*. Y mae rhai yn cyfieithu (fel yn y Bibl Cymraeg) yn ol y cyntaf, ac ereill (fel yn y Bibl Saesonaeg) yn ol y diweddaf. *Thilon. Medulla.* Os cymmerir yr ystyr o selio, y mae yn arwyddocâu i *attal*, fel yn *Job* 37. 7. hyny yw, dirymu pechodau, fel na byddo iddynt arglwyddiaethu—neu i gau i fynu, fel ffau y llewod, *Dan.* 6. 17. neu y bedd a'r wyliadwriaeth, *Mat.* 27. 66. neu y mae yn arwyddocâu, i *guddio*, fel yn *Ps.* 32. 1. Ond os cymmerir y gair yn yr ystyr olaf, sef i orphen pechodau, bydd bron o'r un arwyddocâd ag i ddibenu camwedd, ac yn eglurhad o hyny, yn ol arfer gyffredinol yr ysgrythyrau o eglurhau mewn geiriau gwahanol yr hyn a ddywedir o'r blaen.

‘ Ac i wneuthur cymmod dros anwiredd.’ Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir ‘ i wneuthur cymmod,’ yn arwyddocâu, gwneuthur cymmod trwy aberth. Y mae yn golygu yr iawn a dalodd Crist dros anwiredd neu bechod ei bobl trwy farw ar y groes, o fewn yspaid y deng wythnos a thriugain. 2 *Cor.* 5. 19.

‘ Ac i ddwyn cyfiawnder tragywyddol.’ Dygodd Crist hwn i'r amlwg wedi myned ar goll o'r byd:—dygodd ef ym mlaen fel Mechnïydd cyffredinol ei eglwys, trwy ei ufudd-dod gwneuthurol a dioddefol, i ateb i gyfiawnder y ddeddf, neu gyfiawnder gofynol; y mae yn gyfiawnder cyfrifol i bob un sydd yn credu yn Nghrist. 2 *Cor.* 5. 21. Y mae yn gyfiawnder tragywyddol am ei fod wedi ei drefnu er tragywyddoldeb yn nghynghor Duw; ac y mae ei barhad i dragywyddoldeb i'r sawl a gaffont, trwy ffydd, hawl ynddo. *Heb.* 9. 12. Trwyddo y cyfiawnhawyd a chyfiawnheir cynnifer ag a waredwyd ac a waredir o ddechreu hyd ddiwedd y byd. Yn yr ystyr olaf y mae yn gyfiawnder oesol, yn ol yr *Heb.*

'Ac i selio y weledigaeth a'r brophwydoliaeth.' Yr un gair sydd yma yn yr *Heb.* am 'selio,' ag yn nechreu yr adnod; ond nid ellir ei gymmeryd yn yr un ystyr. Yr ystyr a ddylid ei roddi yma ar 'selio' yw cyflawni, canys sêl y brophwydoliaeth, neu y weledigaeth, yw y cyflawniad. Cyflawnwyd yr holl brophwydoliaethau am Grist yn ei fywyd a'i farwolaeth ef, o fewn yspaid y 70 wythnos, sef yn y rhan olaf o honynt.

'Ac i eneinio y sancteiddiolaf.' Crist a feddylir wrth y sancteiddiolaf; efe a eneiniwyd i'w swyddau cyfryngol er tragywyddoldeb, yn mwriad ac arfaeth y Tad: ond eneiniad mewn amser, tybygid, a olygir yma, sef ei neillduad cyhoeddus i'w swydd weinidogaethol, trwy ei fedydd a disgyniad yr Yspryd Glân, ynghyd â thystiolaeth y Tad am dano. *Mat.* 3. 16, 17.

'Gwybydd gan hyny, a deall y bydd o fynediad y gorchymyn allan am adferu ac am adeiladu Jerusalem, hyd y blaenor Messïah, saith wythnos, a dwy wythnos a thriugain: yr heol a adeiledir drachefn, a'r mur, sef mewn amseroedd blinion.' Y mae yr adnod hon yn dangos y byddai o fynediad y gorchymyn allan, &c. hyd oni amlygid Crist fel y Messïah, yn amser ei fedydd, 69 wythnos. Rhenir yr yspaid hwn yn ddwy ran, sef saith wythnos, a 62 wythnos. Y saith wythnos gyntaf o'r 70, sef 49 mlynedd, oedd yr amser ym mha un yr oedd yr heol i gael ei hadeiladu drachefn, a'r mur, sef heolydd a muriau Jerusalem yn yr ystyr llythyrenol, ond yn fwyaf enwedigol mewn ystyr ysprydol a chyffelybiaethol. Y mae y saith wythnos gyntaf o'r 70, yn dechreu yn y 7fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, ac yn cynnwys amser goruchwyliaeth Ezra, sef 13 blynedd, a Nehemiah, sef 36 mlynedd. 'Amseroedd blinion' oedd y rhai hyn, o herwydd y llwgr ag oedd wedi dyfod i mewn trwy y priodasau dieithr, a gwrthwynebrwydd gelynion tufewnol ac allanol. Gwel *Ezra* ix, x. a *Neh.* iv, vi.

'Ac wedi dwy wythnos a thriugain y lleddir y Messïah, ond nid o'i achos ei hun;'—hyny yw, wedi 62 wythnos, ynghyd â'r saith wythnos cyntaf, y lleddir, neu, yn ol yr *Heb.* y tòrir ymaith y Messïah, 'nid o'i achos ei hun,' (nid iddo ei hun, *Heb.* ond i'w bobl, ac er eu mwyn.) Nid oedd marwolaeth y Messïah ym mhen 69 wythnos, ond tair blynedd a hanner wedi hyny, yn niwedd yr hanner cyntaf o'r wythnos olaf, fel yr ymddengys yn *adn.* 27. canys 69 wythnos oedd hyd y blaenor Messïah, neu hyd oni eneiniwyd y sancteiddiolaf, pan ddechreuodd Crist ar ei weinidogaeth gyhoeddus.

'A phobl y tywysog yr hwn a ddaw, a ddinystria y ddinas a'r cyssegr;' hyny yw, yr Ymerawdwr Rhufeinig gyd â'i luoedd a ddinystria Jerusalem a'r deml. Nid oedd y Rhufeiniaid wedi dyfod etto, na sôn am danynt dros rai oesoedd wedi yr amser y prophwydodd Daniel. Ond yr oeddynt yn ysgrifenedig yn llyfr rhagwybodaeth anffaeledig Duw, ac i gael y llywodraeth ar y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus, ar ol i frenin-

iaeth y Mediaid a'r Persiaid, ynghyd â breniniaeth y Groegiaid, fyned heibio.

'A'i ddiwedd fydd trwy lifeiriant, a hyd ddiwedd y rhyfel y bydd dinystr anrheithiol:'—'a'i ddiwedd,' hyny yw, y diwedd a wna pobl y tywysog yr hwn a ddaw ar y genedl Iuddewig; neu, 'a'u diwedd,' hyny yw, diwedd y ddinas a'r cyssegr, 'fydd trwy lifeiriant' o farnedigaethau dinystriol ar yr holl wlad. Gwel *Esa.* 8. 7, 8. Y mae yn eglur nad yw dinystr y 'ddinas a'r cyssegr' yn syrthio o fewn cylch 70 wythnos, gan na ddinystriwyd Jerusalem gan y Rhufeiniaid hyd y flwyddyn o oed Crist 70, yr hon oedd 36 mlynedd ar ol dibenu y 70 wythnos. Y mae y dinystr hwn yn cael sôn am dano megis effaith o ladd y Messïah; canys ei ladd ef, ac anghredu ynddo, oedd yn llenwi mesur anwiredd yr Iuddewon, ac yn dwyn dialedd arnynt hyd yr eithaf. Gwel *Mat.* 21. 38—41. a *Mat.* 22. 6, 7. Daeth ei waed ef arnynt ac ar eu plant, yn ol y farn o'u geneuau eu hunain. *Mat.* 27. 25.

'Ac efe a sicrha y cyfammod â llawer dros un wythnos;' hyny yw, y Messïah a sicrha ei gyfammod grasol â llawer o'r Iuddewon dros un wythnos, sef yr olaf o'r 70. Y mae yr wythnos hon yn dechreu gyda gweinidogaeth gyhoeddus Crist, ac yn diweddu dair blynedd a hanner ar ol ei farwolaeth. Tra parhaodd y 7 mlynedd hyn, pregethwyd yr efengyl gan Grist a'i apostolion, gan mwyaf, i'r Iuddewon. Gwel *Mat.* 10. 5. a 15. 24. *Luc* 24. 47. *Ioan* 4. 21. *Act.* 13. 46.

'Ac yn hanner yr wythnos y gwna efe i'r aberth a'r bwyd-offrwm beidio;' hyny yw, Crist trwy ei farwolaeth, ym mhen tair blynedd a hanner ar ol dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus, a ddiryma yr holl aberthau a'r offrymau cysgodol o bob math. Gan mai yn hanner yr wythnos olaf y gwnaeth Crist hyny, y mae yn eglur fod yr hanner arall o'r wythnos yn parhau nes gorphen tair blynedd a hanner ar ol ei farwolaeth ef, fel y dangosir ym mlaen.

'A thrwy luoedd ffiaidd, &c.' Y lluoedd ffiaidd hyn oedd y llengoedd Rhufeinig; gelwir hwynt yn ffiaidd o herwydd eu hannuwioldeb, a'u heilun-addoliaeth. Heblaw eu heilunod ereill, yr oedd y Rhufeiniaid yn arferol o addoli yr eryrod ar ben eu llummanod. *Thilon. Medulla.*

Gan na fyddai yn fuddiol i adrodd amrywiol feddyliau gwyr dysgedig mewn perthynas i'r 70 wythnos, deuir yn uniawn-gyrch at yr hyn sydd, fel y bernir, yn wir eglurhad o honynt.

Y mae yr yspaid hwn yn dechreu, 'o fynediad y gorchymyn allan am adferu ac am adeiladu Jerusalem:'—a chan fod pedwar gorchymyn wedi cael eu rhoddi gan freninoedd Persia mewn amrywiol amseroedd i'r diben hyny, fe fydd yn angenrheidiol i sefydlu ar yr amser hwnw, 'o fynediad y gorchymyn allan,' ag sydd yn unig yn gwneuthur i'r Amseryddiaeth gytuno â'r brophwydoliaeth, a hanesyddiaeth Ysgrythyrol a Phaganaidd.——Y gorchymyn cyntaf a roddwyd yn y flwyddyn

gyntaf i Cyrus, 536 mlynedd cyn geni Crist. *Ezra* 1. 1. Y mae 490 mlynedd o'r flwyddyn hon yn diweddu yn y flwyddyn 46 cyn geni Crist; gan hyny, nid ellir cyfrif yr yspaid hwn o'r flwyddyn gyntaf i Cyrus.

Yr ail orchymyn, a roddwyd gan Darius Hystaspis, oedd gadarnhad o orchymyn Cyrus. *Ezra* 6. 1—12. Ni ddywedir ym mha flwyddyn o'i deyrnasiad y rhoddwyd ef; ond cesglir ar seiliau da mai yn ei 3edd flwyddyn, neu ddechreu ei 4edd, gan i'r henuriaid ag oedd yn Babilon ddanfon cenadon i Jerusalem yn ei 4edd, i ofyn, A oedd yn angenrheidiol iddynt ymprydio, fel y gwnaethent yn y 5ed mis, i alaru am losgi y deml 70 mlynedd o'r blaen. *Zech.* 7. 1, 2, 3. Trwy rym y gorchymyn hwn y gorphenwyd yr ail deml yn niwedd y 6ed flwyddyn i Darius Hystaspis. *Ezra* 6. 15. Y 3edd flwyddyn i Darius Hystaspis oedd y flwyddyn 519 cyn geni Crist. Y mae 490 mlynedd o'r flwyddyn hon yn diweddu yn y flwyddyn 29 cyn geni Crist, yr hyn sydd brawf digonol na ddylid cyfrif yr yspaid hwn o amser rhoddiad yr ail orchymyn, yr hwn, yn wir, oedd adnewyddiad o orchymyn Cyrus yn hytrach na gorchymyn newydd.

Y pedwerydd gorchymyn a roddwyd i Nehemiah, yn yr 20fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, i adeiladu pyrth y deml, a muriau Jerusalem. *Neh.* 1. 1. a 2. 1—8. Y mae 20fed flwyddyn y brenin hwn yn cyfateb i'r flwyddyn 445 cyn geni Crist; ond y mae 490 mlynedd o'r flwyddyn hon yn cyrhaedd yn rhy bell ym mlaen o 13 blynedd i gysoni y brophwydoliaeth â'r Amseryddiaeth, gan eu bod yn diweddu yn y flwyddyn 46 o oed Crist yn ol y Cyfrif Cyffredin.

Gan hyny, y mae yn rhesymol i ddisgwyl, mai o roddiad y trydydd gorchymyn i Ezra, yn y 7fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, y dylid cyfrif y 70 wythnos. *Ezra* vi. Y 7fed flwyddyn i'r brenin hwn oedd y flwyddyn 458 cyn geni Crist; ac y mae 490 mlynedd o'r flwyddyn hon yn diweddu yn y flwyddyn 33 o oed Crist. Wrth sefydlu ar y flwyddyn hon, gwelir fod yr Amseryddiaeth, o ran yr yspaid hwn, mewn cysondeb tra eglur â'r brophwydoliaeth, a phob hanesyddiaeth gywir o'r yspaid hwn, ac yn neillduol â Chanon Ptolemy yr Astronomydd. Gwel yr ail Daflen o'r 6ed Dosparth ar gyfer y blynyddoedd 458, a 409 cyn geni Crist; a'r blynyddoedd 26, 30, a 33 ar ol geni Crist, yn yr ail Daflen o'r 7fed Dosparth.

Nid oedd y ddau orchymyn cyntaf, ynghyd â hwnw a roddwyd i Nehemiah, yn cyrhaedd ddim pellach, gan mwyaf, nag i adeiladu y deml, a Jerusalem a'i muriau, mewn ystyr llythyrenol; ond trwy y gorchymyn a roddwyd i Ezra, yr oedd Jerusalem i gael ei hadferu a'i hadeiladu trwy sefydliad o drefn grefyddol ac eglwysig, yr hyn nid oedd wedi cymmeryd lle cyn dyfodiad Ezra, ond mewn gradd bychan. Gwel *Ezra* 7. 14, 23, 25, 26. Un gorchwyl o fawr bwys a briodolir i Ezra (fel y soniwyd yn y bennod o'r blaen) ag oedd yn tueddu yn fwy na

dim arall 'i adferu ac adeiladu Jerusalem' mewn ystyr yspryd̂ol, oedd casglu a threfnu Ysgrythyrau yr Hen Destament, fel y maent, gan mwyaf, wedi eu trosglwyddo i ni. Y mae y geiriau 'adferu ac adeiladu,' neu rai o gyffelyb arwyddocâd, yn cael eu harfer yn fynych mewn ystyr yspryd̂ol. Gwel *Mat.* 17. 11. *Ps.* 127. 1. a 102. 16. *Zech.* 6. 12. *Diar.* 9. 1. *Act.* 3. 21. a 9. 31. 1 *Cor.* 14. 17. *&c.*——Er hyny, nid wyf yn gwadu na ddylid deall y geiriau 'adferu ac adeiladu Jerusalem' mewn ystyr lythyrenol, hefyd, sef adeiladu heolydd Jerusalem, a muriau o amgylch y ddinas; ond y sefydliad crefyddol ac eglwysig, tybygid, a olygir yn benaf.

Rhenir yr yspaid o 70 wythnos, gan yr angel, yn dair rhan; sef, 7 wythnos, 62 wythnos, ac un wythnos, yr hon a renir yn ei hanner yn ddwy ran.

1. 'Saith wythnos,' neu 49 mlynedd, tra buwyd yn sefydlu trefn wladol ac eglwysig yr Iuddewon, ac yn adeiladu yr 'heol a'r mur' (neu yr 'adfail a'r mur,' *Heb.)* yr hyn a wnawd dan oruchwyliaeth Ezra a Nehemiah. Y mae y 7 wythnos i'w cyfrif o'r 7fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, yr hon oedd y flwyddyn 458 cyn geni Crist, hyd y 15fed flwyddyn i Darius Nothus, yr hon oedd y flwyddyn 409 cyn geni Crist.

2. 'Dwy wythnos a thriugain,' ar ol y 7 wythnos, 'hyd y blaenor Messïah;' hyny yw, hyd oni amlygwyd yr Iesu fel y Messïah gan lais o'r nef yn yr amser y bedyddiwyd ef. *Mat.* 3. 16, 17. *Ioan* 1. 32, 33, 41, 45. Felly, o fynediad y gorchymyn allan, hyd y blaenor Messïah, y mae 69 wythnos, neu 483 o flynyddoedd. Bedyddiwyd Crist pan oedd yn 30 mlwydd oed, yn y 26ain flwyddyn yn ol y cyfrif cyffredin o oed Crist. Yr oedd yr Iesu yn cael ei 30 mlwydd oddeutu amser gŵyl y pebyll (fel y bernir) yr hon oedd yn disgyn yn nechreu mis Hydref. A chan fod cyflawniad manwl i amseroedd prophwydoliaethol (Gwel *Exod.* 12. 41. *Dat.* 9 15.) ni fydd yn anaddas i farnu mai yr un amser o'r flwyddyn y cafodd Ezra y gorchymyn yn y 7fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus. O'r Hydref yn y flwyddyn 458 cyn geni Crist, hyd yr Hydref yn y flwyddyn 26 o oed Crist yn ol y cyfrif cyffredin, y mae 483 o flynyddoedd. Yn yr un modd y gellir barnu fod y '7 wythnos' a'r 'un wythnos,' yn diweddu yn yr un amser o'r flwyddyn ym mha un y rhoddwyd y gorchymyn.

3. 'Un wythnos,' dros ba un yr oedd y Messïah i sicrhau ei gyfammod grasol â llawer o'r Iuddewon. Dywedwyd eisoes fod yr 'un wythnos,' sef yr olaf o'r 70, yn arwyddocâu 7 mlynedd, sef tair blynedd a hanner, tra parhaodd gweinidogaeth gyhoeddus Crist hyd ei farwolaeth yn hanner yr wythnos; a thair blynedd a hanner wedi hyny tra bu yr apostolion yn pregethu yr efengyl i'r Iuddewon yn unig, o fewn terfynau gwlad Israel. Gellir profi oddiwrth yr efengylwyr, yn enwedig Ioan,

wrth sylwi ar ŵyliau y Pasc a fu ar ol bedydd Crist, hyd y Pasc olaf, ym mha un y dioddefodd, mai tair blynedd a hanner y parhaodd ei weinidogaeth gyhoeddus.

Y mae yr hanner olaf o'r 'un wythnos' yn dechreu yn union ar ol croeshoeliad Crist, ac yn diweddu yn yr Hydref o'r flwyddyn 33 o oed Crist yn ol y cyfrif cyffredin. Y pryd hyn y bernir i Saul gyntaf bregethu yr efengyl i'r cenedloedd yn Arabia yn union ar ol ei droedigaeth. Efe a gyfrifir yn apostol mawr y cenedloedd, ac atynt y danfonwyd ef i bregethu yr efengyl yn union ar ol ei alwedigaeth. *Act.* 26. 17, 18. *Gal.* 1. 15, 16, 17.

Y modd i gasglu blwyddyn tröedigaeth Saul sydd fel y canlyn. Y mae yr henafiaid (medd *Petavius Ration. Temp. lib.* 5. *c.* 1.) yn cyduno i weinidogaeth Paul barhau 35 mlynedd o'i dröedigaeth hyd ei ferthyrdod yn y flwyddyn 68 o oed Crist, Chwefror 23, pan oedd Nero yr Ymerawdwr yn dechreu ar ei 14eg flwyddyn. Wrth gyfrif 35 mlynedd yn ol o'r flwyddyn 68, deuir at y flwyddyn 33 o oed Crist, ym mha flwyddyn y mae yr un *Petavius* yn dywedyd i Paul gael ei droi i'r ffydd. *Witsii Vita Pauli. Bedford's Chron.* Nid ellir sicrhau oddiwrth hanesyddiaeth ym mha amser o'r flwyddyn y trowyd Saul, na pha bryd yr aeth i bregethu yr efengyl i Arabia, ond fel y byddo yr Amseryddiaeth yn gyson â'r brophwydoliaeth, rhoddir diwedd yr 'un wythnos' a dechreuad pregethu yr efengyl i'r cenedloedd yn yr Hydref o'r flwyddyn 33.

Y mae y dysgedig *Prideaux* yn rhoddi diwedd y 70 wythnos yn yr un flwyddyn, sef 33 o oed Crist yn ol y cyfrif cyffredin. Ond y mae yn eglur ei fod yn gamsyniol yn hyn, sef trwy osod diwedd 490 mlynedd ym marwolaeth Crist; canys efe a groeshoeliwyd yn y flwyddyn 30 o'r cyfrif cyffredin, fel y profir ym mlaen, ac fel y cyduna Amseryddion diweddar. *Dr. White Diatess.*

Y mae *Prideaux* hefyd yn rhanu yr wythnos olaf o'r 70 yn ddwy ran, trwy gyfrif tair blynedd a hanner i weinidogaeth Ioan Fedyddiwr hyd oni fwriwyd ef i garchar, a thair blynedd a hanner i weinidogaeth Crist hyd ei groeshoeliad. *Prideaux's Conn. pt.* 2. *p.* 669. Ond gellir profi na pharhaodd gweinidogaeth Ioan a Christ yn y cwbl ddim ychwaneg na 4 blynedd. Ym mhellach, gellir gofyn, Ym mha ystyr y peidiodd 'yr aberth a'r bwyd offrwm,' yn niwedd gweinidogaeth Ioan, neu yn nechreu gweinidogaeth Crist? gan fod yn sicr na pheidiasant o ran eu cyfreithlondeb, hyd oni waeddodd Crist 'GORPHENWYD.'

Y mae Archesgob *Usher* a *Petavius* yn dechreu y 70ain wythnos yn yr 20fed flwyddyn i Artaxerexes Longimanus, ac yn eu diweddu yn y flwyddyn 33ain. Ond y mae *Prideaux* yn dangos eu camsyniad trwy lawer o resymau anatebol. Ac fel y maent yn gamsyniol wrth osod dechreuad y 70ain wythnos, felly hefyd yn eu diweddiad o ran hyn, sef

trwy osod eu diwedd yn marwolaeth Crist yn nghanol yr wythnos olaf, gan adael allan y tair blynedd a hanner yn niwedd yr 'un wythnos,' heb eu dwyn i'w cyfrif na gwneuthur dim defnydd o honynt. *Prideaux's Conn. part.* 1. *p.* 263—286.

Amser hynod oedd hwnw pan ddechreuwyd pregethu yr efengyl i'r cenedloedd, pan ddattodwyd canolfur y gwahaniaeth ag oedd wedi bod rhyngddynt a'r Iuddewon dros lawer o oesoedd (*Eph.* 2. 14.) gan hyny, nid yw yn annhebygol fod yr Yspryd Glân yn golygu hyn yn y geiriau yn nechreu y brophwydoliaeth hon, 'Deg wythnos a thriugain a derfynwyd ar dy bobl, ac ar dy ddinas sanctaidd.'

Wedi hyny, wrth gyfranu yr yspaid o 70ain wythnos, y mae yn cymmwyso amrywiol ranau o honynt at amryw bethau pwysfawr ag oedd i ddigwydd ynddynt, fel y dangoswyd—ac yn olaf, y mae yn dibenu y brophwydoliaeth trwy rag-ddywedyd am ddinystr Jerusalem, a'r genedl Iuddewig, megys peth ag oedd i ddigwydd nesaf ar ol darfod yr 'un wythnos'—ond nid yw yn penu pa bryd y byddai hyny.

Y mae hanesyddiaeth eglwysig yn dangos mai yn y flwyddyn 70ain o'r cyfrif cyffredin y dinystriwyd Jerusalem, y deml, ynghyd â lluoedd dirifedi o'r Iuddewon ag oedd y pryd hyny yn Judea, a'r gwledydd cymmydogaethol; yr hyn oedd 40ain mlynedd ar ol marwolaeth Crist. Gwel yr Amseryddiaeth dan y flwyddyn 70ain o oed Crist.

PENNOD IX.

Am y Samariaid.

Ar ol rhoddi terfyn ar deyrnas y deg llwyth, a chaethgludo y rhan fwyaf o honynt gan Salmaneser i Assyria a dinasoedd y Mediaid, yn y 6ed flwyddyn i Hezeciah, a 721 cyn geni Crist, bu y wlad gan mwyaf yn anghyfannedd dros 45ain mlynedd hyd yr 22ain flwyddyn i Manasseh, yr hon oedd 676 cyn geni Crist, ym mha flwyddyn y dug Esarhadon, mab Senacherib, ac ŵyr Salmaneser, 'bobl o Babilon, ac o Cutha, ac o Afa, o Hamath hefyd, ac o Sepharfaim, ac a'u cyfleodd yn ninasoedd Samaria yn lle meibion Israel.' 2 *Bren.* 17. 24. *Ezra* 4. 2. Yr un bobl dan enwau ereill a grybwyllir am danynt *Ezra* 4. 9. ac y mae Asnappar yn enw arall ar Esarhadon, adn. 10.

Ni buant yn hir yn Samaria cyn i'r Arglwydd ddanfon llewod i'w plith, y rhai a laddasant rai o honynt; fel pe buasai yr Arglwydd yn eiddigeddu, am fod etifeddiaeth ei bobl wedi myned 'yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwraeth pob yspryd aflan.' Yr oedd cydwybodau yr eilun-addolwyr hyn yn tystio mai barn oedd y llewod, am nad oeddynt yn adnabod defod Duw y wlad. Gan hyny, anfonasant at Esarhadon, i ddeisyf cael un o'r offeiriaid a gaethgludasid oddi yno, i ddysgu iddynt pa fodd i addoli Duw Israel. Felly yn unol â'u dymuniad danfonwyd

un atynt, yr hwn a drigodd yn Bethel, ac a ddysgodd iddynt pa fodd yr ofnent yr Arglwydd. Er hyny ni ymadawsant â'u heilunod, ond cyssylltasant addoliad yr Arglwydd, y cyfryw a ddysgasent, â'u hen eilun-addoliaeth.

Gwyr Babilon a wnaethant Succoth-Benoth, *pebyll y merched*, ym mha rai yr oedd gwyr a merched yn gwneuthur aflendid er anrhydedd i Mylitta duwies y Babiloniaid, yr un a Gwener neu Fenus y Rhufeiniaid. Gwel *Park. Heb. Lex.* סכ VI.

Gwyr Cuth, neu Cutha (yr hon oedd yr un a Chusestan yn Persia) a wnaethant Nergal, neu arwydd o'r haul, yr hwn, fel y bernir, a addolwyd dan lun ceiliog. Dywedir fod y Persees yn yr India ddwyreiniol, ac sydd wedi deilliaw oddiwrth yr hen addolwyr tân yn Persia, yn rhoi parch crefyddol i'r ceiliog hyd yn nod yn yr oes bresennol. *Park. Heb. Lex.* נרגל.

Gwyr Hanath (rhan o Syria) a wnaethant Asima, neu *y cymmodwr*, fel y mae y gair yn arwyddocâu. Bernir mai eilun ar lun gafr oedd hwn, neu o lun cyfansoddedig o ddyn a gafr, fel Satyriaid Rhufain, a'r duw Pan, i ba rai yr oedd pen a chorph dyn, a chluniau a thraed geifr. Er tywylled oedd y Paganiaid, yr oedd ganddynt ryw fath o amgyffred am yr angenrheidrwydd o gymmod.

A'r Afiaid (cenedl, fel y bernir, yn terfynu ar Hamath) a wnaethant Nibhaz a Thartac. Mae y Rabbiniaid Iuddewig yn dywedyd, mai eilun tebyg i gi oedd Nibhaz, yr un, hwyrach, ag Anubis yr Aiphtiaid, gan yr hwn yr oedd pen ci. Y mae traddodiad ym mhlith yr Iuddewon mai delw ar lun asyn oedd Tartac. Hwyrach mai addoliad y ddelw hon gan y Samariaid eilun-addolgar oedd yr achos i rai o'r cenedloedd ddywedyd yn eu hysgrifeniadau fod yr Iuddewon yn addoli pen asyn yn y sanctaidd sancteiddiolaf yn Jerusalem. *Park. Heb. Lex.* תרתק

A'r Sepharfiaid (trigolion Sepharfaim, dinas yn Syria) a losgasant eu plant i Adramelech, sef *y brenin ardderchog*, ac Anamelech, *brenin y cwmwl*, neu y *cymylau*. Yr un yw y ddau hyn a Moloch, Milcom, neu Cemos, y sonir am danynt yn fynych yn yr Ysgrythyrau.

Nid oes sôn am y Samariaid hyd y dychweliad o Babilon, pan ddaethant yn rhagrithiol at Zorobabel, a phenau cenedl Judah, i ddeisyf cael adeiladu yr ail deml gyda hwynt, i'r diben i rwystro y gwaith. A phan na chaniatawyd iddynt, hwy a wnaethant eu goreu, a llwyddasant hefyd, i attal gwaith y deml dros oddeutu 14 blynedd, hyd ddechreuad teyrnasiad Darius Hystaspis. *Ezra* iv. Wedi hyny buant yn wrthwynebwyr maleisus yn erbyn Nehemiah, yr hwn a ddaeth yn yr 20fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, i adeiladu caerau Jerusalem, ac i wneuthur diwygiad mewn gwlad ac eglwys. *Neh.* iv. a vi.

Tu a diwedd llywodraeth Nehemiah, yr oedd Manasseh, mab i Joiada yr arch-offeiriad, wedi priodi merch i Sanbalat yr Horoniad; a chan na

fynai ufuddhau i ddysgyblaeth Nehemiah, i ysgar â'i wraig genedlig, ymlidiwyd ef o Jerusalem. *Neh.* 13. 28. A chan ei fod yn fab i archoffeiriad, cododd ei dad ynghyfraith iddo deml ar fynydd Garizim, gerllaw Sichem, ar lun y deml yn Jerusalem, lle bu yn gweinidogaethu tra fu byw. Bernir i'r Samariaid o hyn allan ymadael â'u harferion eilun-addolgar, a chydffurfio gan mwyaf â chyfraith Moses. Wedi hyn, os byddai neb o'r Iuddewon dan gerydd am ryw drosedd yn erbyn y gyfraith, ac yn anfoddlon i ufuddhau i'w rheolau, efe a âi at y Samariaid, lle yr oedd pawb o'r cyfryw yn sicr o gael derbyniad croesawus. Ac, mewn amser, aeth eynnifer o Iuddewon gwrthgiliedig atynt, fel ag yr oeddynt, ynghyd â'u hiliogaeth, yn gwneuthur rhan fawr o'r genedl ag oedd yn cyfanneddu yn Samaria. Ac fel yr oeddynt yn genedl gymysglyd, felly hefyd yr oedd eu crefydd. Fel ag y mae amryw gyfeiliornwyr wedi ceisio sylfaenu eu cyfeiliornadau ar ryw ran o'r gair, felly nid oedd y Samariaid heb geisio amddiffyn eu gwaith o adeiladu y deml ar fynydd Garizim, gan fod Moses (*Deut.* 11. 29.) wedi gorchymyn rhoddi y fendith ar fynydd Garizim. *Deut.* 27. 12. *Jos.* 8. 33. Yr elyniaeth rhyngddynt â'r Iuddewon a ddechreuodd ar ol y dychweliad o Babilon, pan roddwyd treth ar Samaria a'r gwledydd cymmydogaethol, gan freninoedd Persia, tu ag at adeiladu y deml yn Jerusalem a chynnal yr addoliad ynddi. Chwanegwyd yr elyniaeth rhwng y ddwy genedl pan adeiladwyd y deml ar fynydd Garizim, a myned o lawer o wrthgilwyr oddiwrth yr Iuddewon at y Samariaid, hyd oni chyrhaeddodd i'r fath radd o gasineb, fel y cyhoeddodd yr Iuddewon yn eu herbyn reg a melldith o'r fath chwerwaf. Gwaharddasant bob math o gyfeillach â hwynt; cyfrifwyd holl ffrwythau eu tir, a phob peth a fwyteid neu a yfid yn eu plith, fel cig moch; a gwaharddwyd i bob un o'u cenedl i brofi o honynt; a chauwyd hwynt allan yn hollol, fel na dderbynid un o honynt i fod yn broselyt i'r grefydd Iuddewig; ac, yn olaf, difreintiwyd hwy o gael rhan yn adgyfodiad y meirw i fywyd tragywyddol, fel pe buasai awdurdod gan yr Iuddewon ar hwnw. *Ioan* 4. 9. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 414.

Gan fod llawer o'r Iuddewon wedi encilio at y Samariaid, yr oeddynt, o herwydd hyny, yn hòni perthynas â Jacob; ac am fod y rhandir a brynodd Jacob gerllaw Sichem, *Gen.* 33. 19. trowyd yr enw Sichem yn Sichar, sef *meddw*, mewn ffordd o wawd, gyda golygiad, fel y bernir, at feddwon Ephraim. *Esa.* 28. 1. *Hos.* 7. 5.

Pan fyddai yr Iuddewon yn llwyddiannus, dywedai y Samariaid eu bod yn tarddu o'r un gwreiddyn; ond pan syrthient i adfyd, eu harfer oedd gwadu pob perthynas â hwynt. Rhoddasant siampl hynod o hyn yn amser erlidigaeth Antiochus Epiphanes; canys pan oedd y brenin creulon hwnw am wneuthur i'w holl ddeiliaid i gydffurfio â'i grefydd eilun-addolgar ei hun, yn benaf er mwyn diddymu y grefydd Iuddewig o'r byd, ni chafodd neb yn fwy hynaws a phlygedig i'w ewyllys na'r

Samariaid, y rhai a ddywedasant mai dieithriaid oeddynt yn y wlad lle yr oeddynt yn trigo, ac a ddeisyfasant gael Jupiter, amddiffynwr dieithriaid, yn dduw iddynt hwy. *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 416. *Josephus's Antiq. lib.* 12. *c.* 7.

Yr oedd gwahaniaeth rhwng y Samariaid a'r Iuddewon yn y tri pheth canlynol:—1. Nid oedd y Samariaid yn derbyn o'r Ysgrythyrau ond pum llyfr Moses, a'r rhai hyny wedi eu llygru o ran yr amseryddiaeth, ac amryw o bethau ereill.—2. Yr oedd y Samariaid yn gwrthod pob math o draddodiadau (o ba rai yr oedd gan yr Iuddewon lïaws mawr) ac yn glynu wrth y gair ysgrifenedig yn unig, y fath ag oedd ganddynt.—3. O ran y lle i addoli. *Ioan* 4. 20. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 416, &c.

Nid oes hanes o bwys am y Samariaid ar ol dechreu adeiladu y deml ar fynydd Garizim yn yr 16eg flwyddyn i Darius Nothus, 408 mlynedd cyn geni Crist, hyd y 4edd flwyddyn, sef y flwyddyn olaf, o deyrnasiad Darius Codomannus, yr olaf o freninoedd Persia.

Y flwyddyn hon oedd 332 cyn geni Crist, ym mha un y cymmerodd Alexander Fawr Tyrus, ar ol gwarchae o saith mis. Pan ddechreuodd Alexander ar warchae Tyrus, danfonodd i'r gwledydd cymmydogaethol am gynnorthwyon o bob math i'w ddwyn ym mlaen. Nid allodd yr Iuddewon ufuddhau i'r gorchymyn hwn o ran cydwybod, o herwydd eu llw o ffyddlondeb i Darius: ond y Samariaid, heb ddim o'r cyffelyb deimladau, a anfonasant iddo wyth mil o wyr. Ar ol cymmeryd Tyrus, daeth Alexander yn erbyn Jerusalem, ar fedr dial ar yr Iuddewon; ond ar eu hymostyngiad (fel yr adroddir ym mlaen) maddeuodd iddynt, ac a'u cadarnhaodd yn eu breintiau gwladol ac eglwysig, gan ryddhau eu gwlad oddiwrth drethi pob seithfed flwyddyn, ar ba un nid oedd gyfreithlon iddynt i hau eu tiroedd. Jadua oedd yr arch-offeiriad y pryd hyn, am enw pa un y coffëir yn *Neh.* 12. 22. gan ryw un ar ol amser Nehemiah, fel y soniwyd o'r blaen.

Y Samariaid, gwedi gweled hynawsedd a haelioni Alexander tu ag at yr Iuddewon, a feddyliasant y caent gymmaint, os nid mwy, o gymmwynasgarwch ganddo, ond ei ofyn, nag a gawsent hwy; gan hyny, wedi iddo ymadael o Jerusalem, daeth y Samariaid i'w gyfarfod, gan ddeisyf arno i anrhydeddu eu dinas a'u teml hwythau â'i bresennoldeb, fel y gwnaethai yn Jerusalem, ac i roddi yr un breintiau iddynt hwy ag i'r Iuddewon. Yr oedd yr wyth mil o'r Samariaid ag oedd ym myddin Alexander yn cyduno yn y deisyfiad hwnw. Pan ofynodd Alexander iddynt, Ai Iuddewon oeddynt, atebasant mai Hebreaid oeddynt, a'u bod yn cadw yr un gyfraith a'r Iuddewon; gan hyny, deisyfasant am ryddhad oddiwrth drethi pob seithfed flwyddyn. Atebodd yntau, nad oedd ganddo, y pryd hyny, amser i chwilio i mewn i wirionedd y pethau a ddywedid ganddynt, ond ar ei ddychweliad o'r Aipht, y cymmerai amser i ymofyn ynghylch eu materion.

Gadawsai Alexander yn llywydd ar Syria a Phalestina Andromachus, un o'i gyfeillion penaf, yr hwn, wedi dyfod i Samaria i sefydlu pethau yno mewn iawn drefn, a wrthwynebwyd gan y dinasyddion, ac a losgwyd ganddynt i farwolaeth gyd â'r tŷ lle yr oedd. Bernir i'r Samariaid wneuthur hyn mewn gwrthryfelgarwch yn erbyn Alexander, am iddo nacâu caniatâu iddynt y breintiau a ofynasant ganddo y flwyddyn o'r blaen. Ond pan glybu yn y flwyddyn ganlynol am y weithred greulon hon, llidiodd yn ddirfawr yn eu herbyn, ac a barodd roddi i farwolaeth bob un ag oedd â llaw yn yr ysgelerder hwnw. Gyrodd yr holl drigolion o'r ddinas, ac a'i poblodd â'r Macedoniaid, gan roddi rhan o'r wlad i'r Iuddewon. Y gweddill o'r Samariaid a adawyd ar ol yr aflwydd hwn a giliasant i Sichem, yr hon o hyny allan a fu yn brif sefyllfa y blaid Samaritanaidd, fel y mae hyd heddyw, dan yr enw Naplous. Ac fel na ddychwelai yr wyth mil o'r Samariaid ag oedd yn ei fyddin yn ol i'w gwlad i ail ennyn y terfysg, sefydlodd hwynt yn Thebais, y dalaeth bellaf yn yr Aipht uchaf. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 423, 499, 500.

Dinystriwyd y deml ar fynydd Garizim gan Ioan Hyrcanus, un o'r tywysogion Maccabeaidd, yn y flwyddyn 130 o flaen Crist, wedi sefyll oddeutu 278 mlynedd. Ond yr oedd gan y blaid Samaritanaidd allor wedi hyny lle y safai y deml, lle yr oeddynt yn aberthu ebyrth yn ol cyfraith y Lefiaid, fel ag y maent yn parhau i wneuthur yn yr un lle hyd heddyw. *Prideaux's Conn. pt.* 2. *p.* 307.

PENNOD X.

Am Deyrnas y Mediaid a'r Persiaid, sef yr Ail o'r Pedair Breniniaeth.

Y Mediaid a'u gwlad, sef Media, a gawsant eu henw oddiwrth Madai, trydydd mab Japheth. Terfynir Media o du y dwyrain â Pharthia, a rhan o Hyrcania—o du y gorllewin gan Armenia fwyaf, a rhan o Assyria—o du y gogledd gan fôr Caspia, a Georgia—ac o du y dehau gan Persia. Yr oedd Persia yn sefyll o du y dwyrain i'r afon Hidecel, neu Tigris, ac yn cyrhaedd i lawr yn y dehau at Lyngclyn Persia. Nid oedd Persia gynt yn cynnwys ond talaeth Elam, a alwyd felly oddiwrth fab hynaf Sem. *Gen.* x. Ond y mae Persia yn bresennol yn wlad ëang iawn, yn cynnwys Media a Pharthia, ac amryw wledydd ereill o fewn ei therfynau, ac yn cyrhaedd o du y dwyrain, cyn belled a'r afon Indus. Y mae yr enw Persiad yn arwyddocâu *gwr march*, am fod byddinoedd y Persiaid yn gynnwysedig, gan mwyaf, o wyr meirch.——Yr oedd y Mediaid a'r Persiaid yn ddarostyngedig dros lawer o oesoedd i'r Assyriaid. Gwrthryfelodd y Mediaid yn erbyn yr Assyriaid yn yr amser y lladdwyd byddin Senacherib yn Judea, yn y 18fed flwyddyn i Hezeciah,

a 710 cyn geni Crist. Y pryd hyn y dewiswyd Deioces yn frenin cyntaf gan y Mediaid, yr hwn, ar ol teyrnasu 53 blynedd, a laddwyd mewn brwydr gan Saosduchinus brenin Assyria, ac a ddilynwyd yn y freniniaeth gan Phraortes ei fab, yr hwn, wedi teyrnasu 22 flynedd, a laddwyd wrth roddi gwarchae ar Ninifeh. Cyaxares, mab Phraortes, a deyrnasodd ar ol ei dad 40 mlynedd. Hwn oedd y brenin a wnaeth gynghrair a chyfathrach â Nabopolasar brenin Babilon, trwy roddi ei ŵyres Amyitis, merch Astyages ei fab hynaf, yn wraig i Nebuchodonosor mab Nabopolasar. Ffrwyth y cynghrair hwn oedd llwyr ddinystrio Ninifeh gan fyddinoedd cyssylltiedig y Mediaid a'r Babiloniaid, yn y 29ain flwyddyn i Josiah, a 612 cyn geni Crist. Yr oedd y Mediaid wedi bod yn wrthryfelwyr ac yn elynion parhaus yn erbyn yr Assyriaid er amser Deioces; ac yr oedd Nabopolasar hefyd wedi gwrthryfela yn eu herbyn trwy draws-feddiannu Babilon iddo ei hun; gan hyny, yr oedd raid i'r Mediaid a'r Babiloniaid ddarostwng yr Assyriaid fel y gallent sicrhau eu hunain yn eu traws-feddiant.

Y dinystr a ddygwyd y pryd hyn ar Ninifeh oedd yn fwyaf neillduol i borthi dial y Mediaid am waith Saosduchinus brenin Assyria yn dinystrio Ecbatana, pen dinas Media, 45ain mlynedd o'r blaen pan laddwyd Deioces. *Prideaux's Conn. part* 1. Ar ol Cyaxares teyrnasodd Astyages 35ain mlynedd. Efe oedd tad Darius y Mediad (*Dan.* 5. 31.) yr hwn a deyrnasodd ar Media 22ain flynedd cyn ennill Babilon, trwy gynnorthwy Cyrus.

Ar ol i'r Mediaid fod yn gynnorthwyol i ddarostwng yr Assyriaid, nid oes le i ammeu na ddarostyngwyd hwythau ynghyd â'r Persiaid dan iau y Babiloniaid, pan ddechreuodd Nebuchodonosor ymgadarnhau yn ei freniniaeth. Er fod haneswyr Paganaidd yn ddistaw ar y pen hwn, gellir casglu oddiwrth yr Ysgrythyrau fod y rhan fwyaf o'r byd ag oedd adnabyddus y pryd hwnw wedi cael ei ddwyn dan iau Nebuchodonosor. Gwel *Jer.* 25. 18—26. a 49. 34—39. *Dan.* 8. 2. *Zech.* 2. 7, 9. Ar ol marwolaeth Nebuchodonosor, a phan ddaeth ei fab Efil-merodach i'r orsedd, gwrthryfelodd y Mediaid yn erbyn y Babiloniaid, fel y mae sail dda i farnu; canys ar ol i Efil-merodach deyrnasu dwy flynedd, lladdwyd ef gan ei ddeiliaid ei hun am ei ddrwg lywodraeth; a'i ynfydrwydd, yn ol arwyddocâd ei enw, ynghyd â'i ddrwg lywodraeth, a roes achlysur i'r Mediaid i daflu yr iau; heblaw hyny, nid oeddent wedi anghofio y rhuthr gelynol a wnaethai i'w gwlad dan rith hela, oddeutu 22ain flynedd o'r blaen, heb wybodaeth na chaniatâd Nebuchodonosor ei dad. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 111. Yn amser y rhuthr hwnw yr oedd Cyrus yn 16 oed, ac wedi dyfod o Persia i Media i ymweled â'i daid Astyages, a'r pryd hyn y dechreuodd Cyrus gyntaf ar y gelfyddyd o filwriaeth, a thrwy ei fedrusrwydd a'i wroldeb ef yr ennillwyd y fuddugoliaeth ar Efil-merodach a'r Babiloniaid.

Yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Cyaxares, neu Darius y Mediad, daeth Cyrus ei nai â byddin o Persia i'w gynnorthwyo yn erbyn y Babiloniaid. Hon oedd y flwyddyn cyn geni Crist 559, a'r gyntaf o deyrnasiad Neriglassar, brenin Babilon. Yr oedd Cyaxares y pryd hyn yn 41 mlwydd oed, a Cyrus yn 40. Parhäodd y rhyfel rhyngddynt â'r Babiloniaid o'r pryd hyn hyd oni chymmerwyd Babilon, oddeutu 21ain mlynedd, (*Prideaux's Conn. part.* 1. *p.* 108.) yr hyn sydd yn cytuno â'r hanes Ysgrythyrol am oed Darius y Mediad pan wnaed ef yn frenin ar Babilon yn union ar ol lladd Belsassar. *Dan.* 5. 31.

Rhyfel oedd hwn o'i ddechreuad rhwng y Mediaid a'r Babiloniaid, ac nid oedd Cyrus a'r Persiaid ond megys cynnorthwyon cyngreiriedig i Darius ynddo; gan hyny, cyfrifwyd pob buddugoliaeth a phob gwlad a ennillai Cyrus yn eiddo i Darius, er mai Cyrus oedd yr offeryn penaf, ac megys enaid y rhyfel; a hyny oedd yr achos pan orphenwyd y rhyfel trwy gymmeryd Babilon, i Darius gymmeryd y freniniaeth. Yn yr un pryd gan Cyrus yr oedd yr awdurdod ar y fyddin, ac efe oedd yn golygu ac yn gofalu fwyaf am faterion y deyrnas: am hyny, yn Nghanon *Ptolemy*, ni chrybwyllir am enw Darius y Mediad, ond Cyrus a roddir nesaf at Belsassar, a chyfrifir iddo naw mlynedd o deyrnasiad, o ba rai y cyfrifir dwy flynedd i Darius, a saith mlynedd i Cyrus.

Ar ol ennill Babilon, pan aeth Darius a Cyrus ynghylch y gorchwyl o sefydlu trefn wladol y freniniaeth, ymofynwyd am Daniel, a gwnaed ef yn drydydd yn y deyrnas, yr hyn yr oedd Belsassar wedi addaw pan ddehonglodd yr ysgrifen-law; (*Dan.* 5. 16.) ond ni fu byw i gyflawni ei addewid, ond cyflawnodd yr Arglwydd hi, canys yn nesaf at Darius a Cyrus efe oedd benaf ar y rhaglawiaid a'r tywysogion. *Dan.* 6. 2.

Ar ol i Cyrus sefydlu pethau yn Babilon, aeth i Persia i ymweled â'i dad a'i fam; ac oddi yno i Media i briodi merch Darius, sef ei unig ferch, ac etifeddes ei deyrnas; ac felly, yn ei hawl hi, cafodd hawl gyfreithlon i'r hyn oll oedd eiddo Darius y Mediad ar ol ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd ar ol iddo deyrnasu dwy flynedd yn Babilon. Wedi hyny teyrnasodd Cyrus saith mlynedd ar holl Ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid. Y freniniaeth hon a arwyddwyd wrth yr hwrdd deu-gorn, ac un o'i gyrn yn uwch na'r llall, a'r uchaf (sef y Persiaid) a gyfodasai yn olaf: *Dan.* 8. 3, 4.—ac hefyd wrth yr ail anifail ag oedd debyg i arth, yn safn pa un rhwng ei ddannedd yr oedd tair asen. *Dan.* 7. 5. Y tair asen oedd, fel y bernir, y Babiloniaid, y Mediaid, a'r Persiaid, y rhai oeddent y naill fel y llall yn ddarostyngedig i ormesdeyrn a chreulondeb breninoedd Persia, amryw o ba rai oedd debycach i eirth creulon nag i ddynion.

Cyfrifir teyrnasiad Cyrus yn 30 mlynedd gan *Cicero* (*De Divinatione lib* 1.) yr hwn sydd yn cyfrif o'r amser y daeth efe â byddin i gynnorthwyo ei ewythr Cyaxares. *Ptolemy* yn ei Ganon Amseryddol, fel y dy-

wedwyd, sydd yn cyfrif iddo naw mlynedd o farwolaeth Belsassar. Y mae *Xenophon* yn cyfrif iddo saith mlynedd ar ol marwolaeth Cyaxares, neu Darius y Mediad. *Cyropæd. l.* 8. Y mae y cyfrifon hyn mewn cysondeb â'u gilydd, fel y gwelir yn yr Ail Daflen o'r Chweched Dosparth.

Yr oedd Cyrus yn un o'r dynion hynotaf yn ei oes am ddoethineb, gwroldeb, a rhinwedd. Treuliodd ei ieuengctid mewn pob math o gampau ac ymarferiadau ag oedd yn tueddu i'w gymhwyso i ddioddef llafur a lludded bywyd milwraidd. Efe oedd yr unig dywysog gwladol, heblaw Josiah, a brophwydwyd am dano wrth ei enw, a hyny o leiaf gan mlynedd cyn ei eni. *Esa.* 45. 1. 1 *Bren.* 13. 2. Nid yw yn annhebygol i Daniel ddangos i Cyrus y brophwydoliaeth hon, ac iddo trwy hyny gael ei annog i ollwng y gaethglud yn ol i'w gwlad, i adeiladu yr ail deml. Ond er iddo gael ei gyfenwi, a'i wregysu gan yr Arglwydd â nerth i ryfel, etto nid yw yn ymddangos iddo gael ei ddwyn i'w adnabod. Bu farw Cyrus yn ei wlad ei hun yn Persia, yn ol tystiolaeth *Xenophon*, yn 70 mlwydd oed, yr hyn sydd lawer mwy tebyg i wir na'r hanes a roddir gan *Herodotus*, *Diodorus Siculus*, a *Justin*, iddo gael ei ladd gyda byddin o ddau can mil o wyr yn ngwlad y Scythiaid. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 166. Sylwyd eisoes i waith y deml, ar ol ei sylfaenu yn yr ail flwyddyn i Cyrus, sefyll trwy achwyniadau gelynion yr Iuddewon.

Cambyses a ddilynodd ei dad Cyrus ym mreniniaeth Persia, ac a deyrnasodd saith mlynedd a phum mis. Ond ni rodiodd yn nghamrau ei dad; canys pa rinweddau bynag oedd yn Cyrus, yr oedd y beiau gwrthwyneb yn amlwg yn Cambyses. Efe oedd yr Ahasferus (*Ezra* 4. 6.) at ba un yr ysgrifenodd gwrthwynebwyr yr Iuddewon achwyniad, fel y rhwystrwyd gwaith y deml holl amser ei deyrnasiad.

Yn y 4edd flwyddyn o'i deyrnasiad y cychwynodd Cambyses i'r rhyfel yn erbyn yr Aipht, at ba un yr oedd wedi gwneuthur parotôad mawr er's tair blynedd, am ba un y soniwyd eisoes mewn rhan yn hanes breninoedd yr Aipht. Gwnaeth lawer o bethau ynfyd a gwallgofus yn y cyrch hwn. Wedi llwyddo i ddarostwng yr Aipht, ymostyngodd y gwledydd cymmydogaethol iddo, trwy ddanfon cenadon âg anrhegion, sef y Lybiaid, y Cyreniaid, a'r Barceaid. O Memphis daeth i Säis, trigfa gyffredinol breninoedd yr Aipht dros lawer o oesoedd. Yma gorchymynodd godi corph Amasis o'r bedd, yr hwn oedd newydd farw ar ddyfodiad cyntaf Cambyses at derfynau yr Aipht. Wedi dangos pob math o ammharch i'r corph marw, parodd ei fwrw i'r tân i'w losgi. Y digofaint ynfyd hwn yn erbyn y gelain farw, sydd yn dangos i Amasis wneuthur rhyw drosedd yn erbyn Cambyses, yr hwn a roddes achlysur i'r rhyfel hwn; ond pa beth oedd, nid yw hysbys. Y pethau hyn a wnaed yn y 5ed flwyddyn o'i deyrnasiad.

Yn ei 6ed flwyddyn, bwriadodd dair cyrch—y gyntaf yn erbyn y

Carthaginiaid—yr ail yn erbyn yr Hammoniaid yn Libya—a'r trydydd yn erbyn yr Ethiopiaid. Ond gan i'r Phœniciaid ommedd ei gynnorthwyo â'u llongau yn erbyn y Carthaginiaid, o herwydd y berthynas ag oedd rhyngddynt, pallodd y bwriad hwnw. Ond yr oedd mewn llawn fwriad i ryfela yn erbyn y ddwy blaid ereill; gan hyny danfonodd genadon ac anrhegion at frenin Ethiopia, i'r diben o ddwyn yn ol hanes am gyflwr a chadernid y wlad. Deallodd y brenin ddiben ei dyfodiad, ac er mwyn talu adref yr anrheg a ddanfonasai Cambyses, danfonodd iddo ei fŵa, gan gynghori iddo wneuthur rhyfel yn erbyn yr Ethiopiaid, pan allai y Persiaid dynu y bŵa hwnw mor hawdd ag y medrent hwy, ac yn y cyfamser i ddiolch i'r duwiau na roddasant erioed ynghalon yr Ethiopiaid i helaethu eu teyrnas dros derfynau eu gwlad. Llidiodd Cambyses yn ddirfawr wrth yr ateb hwn, ac mewn gwyn wallgofus a orchymynodd i'w fyddin gychwyn i'w taith tu a therfynau Ethiopia, heb gymmeryd amser i wneuthur parotôad i geisio y pethau ag oedd angenrheidiol i'r fath daith, ac heb adael neb ond ei gynnorthwyon Groegaidd i gadw yr Aipht mewn trefn yn ei absennoldeb. Ar ol dyfod i Thebes yn yr Aipht uchaf, danfonodd ddeng mil a deugain o'i fyddin yn erbyn yr Hammoniaid* gan orchymyn iddynt anrheithio y wlad a llosgi teml Jupiter Hammon ag oedd ynddi. Ar ol iddynt deithio amryw ddyddiau ar hyd ddiffeithwch tywodog, cododd gwynt deheuol y tywod tra yr oedd y fyddin ar giniaw yn y fath fodd ag i orchuddio a dinystrio y cwbl oll. Yn y cyfamser yr oedd Cambyses yn myned ym mlaen gyd â'r rhan arall o'r fyddin yn erbyn yr Ethiopiaid heb ddim angenrheidiau i'r daith, hyd oni ddarfu iddynt, ar ol bwyta yr holl ysgrubliaid, osod pob degfed dyn trwy goelbren i fod yn ymborth i'r lleill. Erbyn hyn, gwelodd Cambyses yr angenrheidrwydd o ddychwelyd yn ol, ar ol colli y rhan fwyaf o'i fyddin yn y cyrch gwallgofus hwn. Pan ddaeth i Memphis, cafodd y ddinas wedi ymroddi i lawenydd a gorfoledd, a thybiodd eu bod yn llawenhau o herwydd ei aflwyddiant; ond y gwir achos o'r llawenydd oedd ymddangosiad eu duw Apis, sef tarw cyssegredig, yn eu plith; yr hyn, pan ddywedodd y swyddogion wrtho, ni chredodd, ond gorchymynodd eu rhoddi i farwolaeth, megis rhai yn ceisio ei dwyllo â chelwydd. Yna, danfonodd am yr offeiriaid, y rhai a ddywedasant fod eu duw wedi datguddio ei hun iddynt (yr hyn nid oedd yn beth cyffredin) ac mai eu harfer oedd ar y fath achos i ddangos pob arwydd o lawenydd.† I hyn atebodd Cambyses, gan fod eu duw

---

* Yr oedd gwlad yr Hammoniaid yn niffeithwch Libya, oddeutu 200 milldir o'r Aipht tu a'r gorllewin.

† Pen duw yr Aiphtiaid oedd Osiris, yr hwn yr oeddent yn arferol o addoli, nid yn unig tan lun neu ddelw tarw, ond hefyd trwy addoli tarw byw, yr hwn a gadwyd yn nheml Osiris. Y tarw hwn a alwyd Apis yn Memphis, a Mnefis yn Heliopolis. Nodau Apis oedd fod ei gorph i gyd yn ddu, oddieithr ysmotyn gwyn

mor hynaws y chwennychai gael ei weled; ac a orchymynodd ei ddwyn ger ei fron. Ond wedi cael golwg ar y fath dduw, syrthiodd i gynddaredd; ac wedi tynu ei gleddyf, brathodd yr anifail yn ei forddwyd; ceryddodd yr offeiriaid am eu hynfydrwydd, a gorchymynodd eu fflangellu yn dost; a pharodd ladd yr holl Aiphtiaid ym Memphis a gaed yn llawenychu ar yr achos hyn mwyach. Yr Apis a arweiniwyd yn ol i'r deml, lle y dihoenodd, a bu farw o'i archoll.

Dywed yr Aiphtiaid i Cambyses gael ei daro â gwallgof am y weithred hon, yr hon, yn ol eu tyb hwy, oedd y fwyaf ysgeler a wnaed erioed yn eu plith. Ond yr oedd ei weithredoedd ereill, cyn ac wedi hyn, yn well sail i brofi ei wallgofrwydd na'r weithred hon.

Yr oedd i Cambyses un brawd, mab i Cyrus, o'r un fam ag yntau, enw pa un, yn ol *Herodotus*, oedd Smerdis, yr hwn oedd yr unig un yn y gwersyll a fedrai dynu y bŵa a ddanfonasai brenin yr Ethiopiaid. Am hyn cenfigenodd Cambyses wrtho i'r fath radd, fel nad allai ei oddef yn hŵy yn y fyddin; ond danfonodd ef adref i Persia. Ychydig wedi hyn, breuddwydiodd fod un yn dyfod ato, ac yn dywedyd wrtho, fod Smerdis yn eistedd ar ei orseddfainge; a chan ei fod yn barnu hyn yn wir am ei frawd, a gyflawnwyd wedi hyny mewn un arall o'r un enw, danfonodd un Prexaspes, cyfaill cyfrinachol iddo, i ladd ei frawd, yr hyn hefyd a gwblhaodd. A phan alarodd un o chwiorydd Cambyses (ag oedd hefyd yn wraig iddo yn ol arfer lygredig y Persiaid) am farwolaeth ei brawd, rhoddodd iddi y fath ergyd â'i droed yn ei bòl, a hithau yn feichiog o hono, fel y bu farw. Ei henw oedd Meroe, ac oddi wrthi hi y cafodd ynys yn yr afon Nilus, rhwng yr Aipht ac Ethiopia, ei henw. Parodd i amryw o'i ganlynwyr penaf i gael eu claddu yn fyw heb un achos; a beunydd y difethodd rai o honynt. A phan gynghorodd Crœsus (gynt yn frenin ar Lydia) ef yn erbyn y cyfryw greulondeb, gorchymynodd ei roddi i farwolaeth. A phan ddarfu i'r rhai ag oedd wedi derbyn y gorchymyn oedi ei gwblhau hyd dranoeth, gan wybod y byddai i Cambyses edifarhau, dangosodd fawr lawenydd fod Crœsus yn fyw, ond rhoddodd y lleill i gyd i farwolaeth am anufuddhau i'w orchymyn. Fel hyn y treuliodd y 7fed flwyddyn o'i deyrnasiad.

Yn nechreu ei 8fed flwyddyn, gadawodd yr Aipht, i ddychwelyd tu a Persia. Ar ei ddyfodiad i Syria, daeth cenad o Susan i'r fyddin i gyhoeddi Smerdis mab Cyrus yn frenin, ac i ofyn ufudd-dod gan bawb iddo. Fel y dealler yr achos o hyn, dylid gwybod fod Cambyses, pan

---

pedrongl ar ei dalcen. Ond nid yw awdwyr yn hollol yn cyduno ynghylch ei nodau. Pa fodd bynag, wedi cael y cyfryw un ag yr oeddynt yn ei geisio, dygent ef gyda llawenydd mawr i deml Osiris, ac yno yr addolent ef tra byddai byw; a phan fyddai farw, claddent ef gyda pharch a difrifwch mawr; ac ymofynent am un arall yn ei le o'r un nodau, y cyfryw weithiau ni chaid dros amryw flynyddoedd. Hwn oedd cyn-ddelw eilun-addoliaeth y deg llwyth.

oedd yn myned i'r Aipht, wedi gosod Patizithes, un o benaethiaid y Magiaid,* yn oruchwyliwr ar y llywodraeth yn ei absennoldeb. Yr oedd gan hwn frawd ag oedd yn debyg i Smerdis brawd Cambyses, ac o'r un enw; a phan wybu am ei ddienyddiad (yr hyn nid oedd hyspys i bawb) ac nad oedd Cambyses i'w oddef mwyach o ran ei wallgof a'i greulondeb, gosododd ei frawd ar yr orsedd, gan roddi allan mai efe oedd y gwir Smerdis mab Cyrus, ac a ddanfonodd i bob rhan o'r Ymerodraeth i orchymyn rhoddi ufudd-dod iddo. Cambyses wedi holi y genad a ddaethai o Susan, a holi Prexaspes, yr hwn a ddanfonasai i ladd ei frawd, a wybu yn sicr fod ei frawd wedi marw, ac nad oedd hwnw ag oedd ar yr orsedd ddim amgen na Smerdis y Magiad. Gan hyny, galarodd am iddo gael ei gam-arwain i ladd ei frawd, ac a roddes orchymyn i'w fyddin i brysuro ym mlaen i ddarostwng y twyllwr; ond fel ag yr oedd yn myned ar ei geffyl, syrthiodd ei gleddyf o'i wain, ac a roddes archoll iddo yn ei forddwyd, o ba un y bu farw ym mhen ychydig ddyddiau. Cyfrifodd yr Aiphtiaid hyn yn farn gyfiawn arno am ladd eu duw Apis. Pan oedd Cambyses yn yr Aipht, danfonodd at Oracl Butus yn y wlad hòno i ofyn pa beth a fyddai ei dynged, yr hon a ddywedodd, ym mhlith pethau ereill, y byddai farw yn Ecbatana; ac efe yn meddwl am Ecbatana yn Media, a amcanodd gadw ei fywyd, trwy beidio myned yno. Ond pan ddeallodd mai enw y dref lle yr oedd yn gorwedd yn glaf oedd Ecbatana yn Syria, meddyliodd y byddai farw yno; gan hyny, galwodd am benaethiad y Persiaid ag oedd gyd âg ef, ac a hyspysodd iddynt fod ei frawd wedi marw, ac mai Smerdis y Magiad oedd hwnw ag oedd y pryd hyny yn teyrnasu. Annogodd hwynt i beidio ymostwng i'r twyll rhag i'r freniniaeth fyned oddiwrth y Persiaid yn ol at y Mediaid, o ba genedl yr oedd y twyllwr. Ond gan fod y Persiaid yn barnu mai o genfigen at ei frawd yr oedd Cambyses yn dywedyd y pethau hyn, ni chredasant ei chwedl, ond ymostyngasant i'r hwn oedd ar yr orsedd, gan dybied mai y gwir Smerdis ydoedd. A chan fod y Magiad, yn ol arfer breninoedd y dwyrain yn yr amserau hyny, yn ei gadw ei hun yn guddiedig yn ei lys, heb ymddangos i neb ond ei efnuchiaid, a'i swyddogion cyfrinachol, nid oedd yn hawdd i gael allan y twyll.

Cyfrifir wyth mlynedd i deyrnasiad Cambyses gan *Ptolemy* yn ei Ganon, yr hwn nid yw yn crybwyll am Smerdis y Magiad, ym mhlith breninoedd Persia. Ond gwir amser teyrnasiad Cambyses oedd saith mlynedd a phum mis, a'r gweddill o'r 8fed flwyddyn, sef saith mis, a gyfrifir i deyrnasiad y Magiad, yr hwn a elwir dan yr enw Artaxerxes. Ato ef yr ysgrifenodd gwrthwynebwyr yr Iuddewon, a'i ateb a fu yn

* Yr oedd eilun-addoliaeth yn y dwyrain wedi cael ei ranu rhwng y Magiaid a'r Sabiaid. Y Magiaid oedd yn addoli yr haul, a'r tân sanctaidd a gedwid yn llosgi yn wastadol ar eu hallorau yn eu temlau; ond y Sabiaid a addolent amryw fath o ddelwau.

foddion i attal gwaith y deml hyd oni chafwyd caniatâd i fyned âg ef ym mlaen gan Darius Hystaspis. *Ezra* 4. 7—24.

Ond er fod Smerdis fel hyn yn elyn i'r Iuddewon, gwnaeth yr hyn a allodd i ennill serchiadau pawb ereill, er mwyn sicrhau ei draws-feddiant. Rhyddhaodd ei ddeiliaid oddiwrth drethi a gwasanaeth milwraidd dros dair blynedd, a gwnaeth amryw o bethau ereill er budd iddynt, fel ag y bu ei farwolaeth yn achos o alar i lawer o herwydd y cyfnewidiad a'i canlynodd. Cymmerodd Atossa, merch Cyrus, yn wraig iddo (yr hon a fuasai yn wraig i'w frawd Cambyses) fel y gallai deyrnasu yn ei hawl hi os ceid allan nad oedd ganddo ddim hawl ei hun.

Ond magodd y pethau hyn ammheuaeth ym meddyliau llawer mai nid y gwir Smerdis ydoedd. Gan hyny, danfonodd un Otanes at Phedyma ei ferch, un o wragedd y twyllwr, yr hon a fuasai yn wraig i Cambyses, i ofyn iddi, ai Smerdis mab Cyrus oedd yr hwn gyda pha·un yr oedd yn cysgu, neu ynte rhyw un arall. Ei hateb oedd, na wyddai, gan na welsai hi Smerdis mab Cyrus erioed. Yna danfonwyd ati eilwaith, i beri iddi ofyn i Atossa, ai efe ydoedd, ai nad ê, gan nad allai hi fod heb adnabod ei brawd ei hun. Ateb Phedyma i hyn oedd, fod y brenin yn cadw ei wragedd ar wahan, fel nad allai gael gafael ar Atossa i ofyn hyny iddi. Danfonwyd ati y drydedd waith, i beri iddi deimlo y tro nesaf y gorweddai gyda Smerdis, tra byddai efe yn cysgu, a oedd clustiau ganddo. Canys Cyrus a barasai dòri clustiau Smerdis y Magiad am ryw drosedd ag oedd yn haeddu hyny. Wedi gwneuthur yn ol gorchymyn ei thad, danfonodd ateb, ei fod heb glustiau; ac felly daeth yr holl dwyll i'r amlwg. Yna Otanes, a chwech ereill o bendefigion Persia, a ruthrasant i'r palas, ac wedi lladd y traws-feddiannydd, a'i frawd Patizithes, dygasant eu penau allan at y bobl—y rhai, yn eu cynddaredd o herwydd y twyll, a laddasant gynnifer o sect y Magiaid a ddaethant o hyd iddynt y diwrnod hwnw, yr hwn dros hir amser a gadwyd yn ŵyl flynyddol, dan yr enw *Magophonia* (yn Groeg) neu laddiad y Magiaid. Dywedir iddynt gael yr enw hwn mewn ffordd o wawd, gan fod y gair Magiad *(Mige-Gush)* yn Persiaeg yn arwyddocâu un wedi cael tòri ei glustiau. Wedi i'r saith tywysog ladd y traws-feddiannwyr hyn, sef Smerdis a Patizithes, ymgynghorasant am fyned â'r llywodraeth ym mlaen fel ag yr oedd wedi ei sefydlu gan Cyrus; a chytunasant i ddyfod i ryw le pennodol ar gefnau eu ceffylau, ac mai efe a gai fod yn frenin, ceffyl pa un a weryrai gyntaf tu ag at yr haul ar ei godiad. Canys yr haul oedd y duw penaf gan y Persiaid ag oedd yn cael ei addoli yn gystal gan y Sabiaid a'r Magiaid; a chan fod meirch hefyd yn cael eu cyfrif yn sanctaidd i'r haul, yr oedd y tywysogion yn y modd hyn am roddi y mater i benderfyniad yr haul. Yr oedd gwas Darius mab Hystaspis, un o'r saith tywysog, yn gwybod am y cytundeb; gan hyny, dygodd geffyl ei feistr i'r lle gosodedig i lamu caseg y

nos o flaen y cyfarfod. Felly pan ddaeth y tywysogion yno, adnabu ceffyl Darius y lle, a gweryrodd am y gaseg; ar hyny, cyfarchwyd Darius yn frenin gan y lleill, ac a osodwyd ar yr orsedd-faingc, ac a deyrnasodd 36 mlynedd. Ei flwyddyn laf oedd 521 cyn geni Crist. Soniwyd eisoes am ei hynawsder tu ag at yr Iuddewon, yn caniatâu pob rhwyddineb iddynt i fyned â gwaith y deml ym mlaen hyd oni orphenwyd hi yn ei 6ed flwyddyn, a chyssegrwyd hi ar ŵyl y pasc yn y flwyddyn ganlynol. *Ezra* vi. Bernir mai parch i goffadwriaeth Cyrus oedd yr achos iddo gadarnhau y gorchymyn a roddasai efe am adeiladu y deml.

Yn y 5ed flwyddyn o'i deyrnasiad y gwrthryfelodd Babilon, a bu 20 mis yn rhoddi gwarchae arni cyn y gallodd ei darostwng. Meddyliasant am daflu iau y Persiaid ar ol lladd Smerdis y Magiad, a buant bedair blynedd yn gwneuthur pob math o barotôad pan dorasant allan i wrthryfel agored yn nechreu y 5ed flwyddyn i Darius Hystaspis. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 187.

Pan welodd y Babiloniaid eu dinas wedi ei hamgylchu â byddin rhy gref iddynt hwy i wrthwynebu yn y maes, hwy a droisant eu meddyliau at amddiffyn y ddinas yn erbyn y gwarchaewyr hyd yr eithaf; ac i'r diben hyny, llindagasant yr holl rai hyny ag oedd yn anfuddiol i amddiffyn y lle, yn wyr, yn wragedd, ac yn blant; ond yn unig fod cenad i bob gwr arbed un o'i wragedd a garai oreu, ac un forwyn i wneuthur gwaith y tŷ. Am weithred mor waedlyd ni chlybuwyd mewn unrhyw genedl. Felly cyflawnwyd prophwydoliaeth Esaiah yn erbyn Babilon, 'Y ddau beth hyn a ddaw i ti yn ddisymmwth yr un dydd, dieppiledd a gweddwdod: yn gwbl y deuant arnat, am amlder dy hudoliaethau, a mawr nerth dy swynion.' *Pen.* 47. 9.—Ac amryw rybuddion a roddwyd gan y prophwydi o'r gwarchae hwn i'r Iuddewon, fel y byddai iddynt ffoi o Babilon, fel na byddent yn gyfranogion o'i dialeddau. *Esa.* 48. 20. *Jer.* 50. 8. a 51. 6, 9, 45. Ufuddhasant mewn rhan i'r rhybuddion hyn, pan ymadawodd llawer o honynt o Babilon yn y flwyddyn laf i Cyrus; ac nid yw yn annhebygol i lawer gymmeryd rhybudd oddiwrth brophwydoliaeth Zechariah, a gyhoeddwyd oddeutu dwy flynedd o flaen y gwarchae hwn, ac a ddanfonwyd gyda Sareser a Regemmelech ar eu dychweliad i Babilon, fel y mae yn debygol. Gwel *Zech.* 2. 6, 7. a 7. 1, 2.

Ar ol i Darius orwedd blwyddyn a saith mis o flaen Babilon, efe a'i cymmerodd yn niwedd ei 6ed flwyddyn trwy ddichell Zopyrus, un o'i gadbeniaid, yr hwn, wedi tòri ymaith ei drwyn a'i glustiau, ac anafu ei holl gorph â fflangellau, yn y cyflwr hwnw a ffôdd at y Babiloniaid, gan gymmeryd arno ei fod wedi cael yr holl driniaeth hyny oddiar law Darius. Gan fod y dinasyddion yn ei goelio, ymddiriedasant ynddo, ac a'i gwnaethant yn ben-tywysog eu milwyr; ond pan gafodd gyfleusdra, traddododd y ddinas i'w feistr. Ni buasai yn hawdd ei chymmeryd

trwy orthrech, o herwydd cadernid ei chaerau ac amlder o bob peth at ei hamddiffyn. Wedi ennill y ddinas, cymmerodd Darius ymaith ei 100 porth pres *(Jer.* 51. 58.) ac a dynodd i lawr y muriau o 200 cufudd o uchder i 50. Polionodd *(impaled)* dair mil o'r rhai mwyaf enog, ac a faddeuodd i'r lleill. A chan fod y rhan fwyaf o'r gwragedd wedi eu lladd (fel y dywedwyd) yn nechreu y gwarchae, gorfu iddo ddanfon am 50,000 o ferched o daleithiau yr Ymerodraeth i wneuthur y diffyg hwnw i fynu. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 189.

Ar ol darostwng Babilon, gwnaeth Darius borotôad mawr i ryfela yn erbyn y Scythiaid ag oedd yn preswylio rhwng yr afon Danube a'r afon Don, neu Tanais. Y mae rhan o'r wlad hon yn perthyn yn bresennol i'r Tyrciaid, a rhan o honi i'r Rwssiaid. Yr esgus oedd Darius yn roddi allan am y rhyfel hwn, oedd i'r Scythiaid oddeutu 120 mlynedd o'r blaen ruthro i Asia, a chymmeryd oddiar Cyaxares brenin Media, a'r cyntaf o'r enw, ran fawr o'i deyrnas, a'i dal dros 28 mlynedd. Ond y gwir achos oedd chwant i helaethu terfynau ei deyrnas i wledydd Ewrop. I'r diben hwn, casglodd fyddin o saith gan mil o wyr, ac a'u trosglwyddodd dros y môr cul ag sydd rhwng Asia Leiaf ac Ewrop, ar bont o gychod. Wedi darostwng Thrasia, aeth rhagddo tu a'r afon Danube, lle y gorchymynasai i'w lynges, yn gynnwysedig o Ioniaid a chenedloedd Groegaidd ereill yn Asia Leiaf, i ddyfod ato. Wedi croesi 'r Danube ar bont arall o gychod, daeth i wlad y Scythiaid, y rhai a ffoisant o'i flaen trwy amryw wledydd anial ac anghyfanneddol dros dri mis, i'r diben o ddinystrio a newynu ei fyddin. Wedi colli ei hanner, bu dda ganddo ddychwelyd â'r hanner arall, o'r cyrch aflwyddiannus hwn.

Wedi gauafu yn Sardis, a gadael un Otanes yn rhaglaw yn Thrasia, dychwelodd Darius yn y flwyddyn ganlynol i Susa. Yr oedd yr Otanes hwn yn fab i Sisamnes, un o farnwyr breninol Persia yn amser Cambyses, yr hwn a gyhuddwyd iddo ei fod yn gŵyro barn er mwyn gwobr. Parodd Cambyses ei flingo ef yn fyw, a gwneuthur gorchudd i'r orseddfaingc â'i groen; ac wedi gwneuthur Otanes yn farnwr yn lle ei dad, gwnaeth iddo eistedd ar ei groen, fel y gallai, wrth ystyried y gosp, ddysgu osgoi y bai a'i dygodd.

Oddeutu y 13eg flwyddyn o'i deyrnasiad, gwnaeth Darius lynges yn Caspatyrus, dinas yn uchel i fynu ar yr afon Indus; ac wedi gosod Scylacs, Groegwr o Caria, yn llywydd arni, parodd iddo ddisgyn i lawr yr afon i'r môr, a chan hwylio tu a'r gorllewin forio hyd at flaen y Môr Coch, yn agos at y fan lle mae Sues yn sefyll yn bresennol. Wedi bod ddwy flynedd a hanner yn y fordaith hon, dychwelodd Scylacs i Susa, ac a roddodd hanes i'r brenin o'r hyn oll a welodd. Wedi hyny, aeth Darius â byddin i'r India, ac a ddarostyngodd yr holl wlad dan ei lywodraeth. *Est.* 1. 1. wedi ei chymharu â *Dan.* 6. 1. Yr oedd yn arferol

o dderbyn 360 o dalentau aur yn deyrnged o'r wlad hòno, sef talent am bob dydd a gyfrifid y pryd hyny i'r flwyddyn Bersiaeg, yr hyn, yn ol y cyfrif lleiaf, oedd un filiwn a phymtheg a phedwar ugain o filoedd o bunnau o'n harian ni. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 197.

Yn y 19eg flwyddyn i Darius, a 503 cyn geni Crist, yr adferwyd y Tyriaid i'w breintiau gynt, ar ol bod dan orthrymder 70 mlynedd er pan gymmerwyd eu dinas gan Nebuchodonosor yn y flwyddyn 573 cyn geni Crist. *Esa.* 23. 15, 17. Yr achos o'r ffafr hon i'r Tyriaid oedd, fel y bernir, am fod gan Darius achos am gynnorthwy eu llongau yn y rhyfel ag oedd ganddo ar ei law yn erbyn yr Ioniaid a'r Groegiaid.

Yn yr 22ain flwyddyn i Darius, a 500 cyn geni Crist, yr hon oedd y 3edd flwyddyn o'r rhyfel, llosgwyd Sardis, pen ddinas Lydia, ynghyd â theml Cybele, duwies y wlad, gan fyddinoedd cynghreiriedig, yr Ioniaid a'r Groegiaid. A chan mai yr Atheniaid oedd y rhai penaf yn y cynghrair hwn, penderfynodd Darius i'w darostwng, ynghyd â holl dir Groeg. Ac fel na anghofiai, parodd i un o'i weision ddywedyd wrtho dair gwaith bob dydd pan fyddai ar giniaw, 'Syr, Cofiwch yr Atheniaid.'

Yn yr 28ain flwyddyn o'i deyrnasiad, a 494 cyn geni Crist, danfonodd Darius ei fab yn ngyfraith Mardonius i fod yn llywydd yn Asia leiaf, ar yr holl barthau ag oedd yn taro ar y môr, ac i ryfela yn erbyn tir Groeg ar fôr ac ar dîr; ond wedi colli 300 o'u llongau mewn tymhestl, a thros ugain mil o wŷr ag oedd ynddynt, a lladd llawer o'r fyddin, a chlwyfo Mardonius ei hun gan y Thrasiaid, gorfu i'r Persiaid ddychwelyd i Asia leiaf.

Yn y flwyddyn ganlynol, cyn myned â'r rhyfel ym mlaen ym mhellach yn erbyn y Groegiaid, fel y gallai wybod pwy a ymostyngai iddo, a phwy nis gwnai, danfonodd Darius genadau i'w dinasoedd i ofyn daear a dwfr, yr hyn oedd ffurf o ymostyngiad ag yr oedd y Persiaid yn gofyn gan y rhai ag oedd yn dyfod tan eu llywodraeth. Amryw o'r dinasoedd a ymostyngasant yn ol y drefn orchymynedig. Ond pan ddaeth y cenadau i Athen a Lacedæmon, bwriwyd hwy gan y naill i bydew, a chan y lleill i dwll dwfn, a pharwyd iddynt geisio eu daear a'u dwfr oddi yno. Ond wedi hyny, pan ddaethant i dymher mwy pwyllus, edifarhasant am roddi cenadau y brenin fel hyn i farwolaeth, a buasai dda ganddynt wneuthur un math o iawn a allasent.

Yn yr 31ain flwyddyn o deyrnasiad Darius, a 491 cyn geni Crist, daeth ei fyddin i Attica, i wastadedd Marathon, dan arweiniad Hippias y gormesdeyrn, yr hwn oedd yn disgwyl cael ei adferu i'w sefyllfa oruchel yn Athen: ond gorchfygwyd holl fyddin y Persiaid, gan ddeng mil o Atheniaid, dan dywysogaeth Miltiades, a mil o'r Plateaid. Lladdwyd Hippias yn y frwydr, a'r Persiaid a ffoisant i'w llongau, ar ol colli yn y cyrch hwn, trwy y cleddyf, llong-ddrylliad, a moddion

ereill, ddau can mil o wyr, yn ol hanes Trogus. *Prideaux's Conn. pt.* 1. *p.* 208.

Ond ni ddigalonodd Darius er cymmaint oedd ei aflwyddiant yn ei ryfel yn erbyn y Groegiaid. Bwriadodd fyned ei hun wrth ben ei fyddin i'w darostwng. Ar ol bod dair blynedd yn gwneuthur parotôad, ac yn arfogi yr holl Ymerodraeth, torodd rhyfel newydd allan trwy wrthryfel yr Aiphtiaid. Ond fel na rwystrid ef i ddwyn y rhyfel ym mlaen yn erbyn y Groegiaid, bwriadodd ddanfon rhan o'i fyddin yn erbyn yr Aiphtiaid, a myned gyd â'r rhan arall yn erbyn tir Groeg. Ond gan ei bod yn hen arfer ym mhlith y Persiaid, i'r brenin henwi ei ddilynwr yn y frêniniaeth, cyn myned i ryfel, cymhellwyd Darius i wneuthur hyny. Ond nid oedd hyn yn orchwyl hawdd ei gwblhau, gan fod dadl ym mhlith ei feibion i bwy yr oedd yr hawl o deyrnasu yn perthyn ar ol eu tad. Fel hyn yr oedd y mater mewn dadl yn sefyll. Yr oedd gan Darius dri o feibion o ferch Gobrias, wedi eu geni cyn ei wneuthur yn frenin, a phedwar a anwyd o Atossa merch Cyrus wedi hyny. Yr oedd Artabasanes yn haeru mai efe oedd mab hynaf Darius, a Xerxes yn haeru mai efe oedd mab hynaf y brenin. Ond heblaw fod Darius yn dueddol i ryngu bodd Atossa yn y mater hwn, cafodd ei ogwyddo i henwi Xerxes yn ddilynwr iddo, wrth glywed Damaratus, a fuasai yn frenin yn Lacedæmon, ond y pryd hyny yn alltud yn Susa, yn dywedyd mai arfer y Lacedæmoniaid oedd rhoddi y blaenoriaeth i'r plant hyny a anwyd i'w breninoedd ar ol eu derchafiad i'r orsedd, o flaen y plant a anwyd iddynt cyn hyny. Ar hyn enwyd Xerxes yn etifedd y goron. Ond y peth mwyaf hynod yn yr holl ddadl hon, oedd y cariad brawdol a gynnaliwyd rhwng y brodyr tra parhaodd yr ymryson, ac wedi ei benderfynu; canys fel na ddarfu i Xerxes ddirmygu nac ammharchu ei frawd ar ol cael ei gyhoeddi yn etifedd y goron, felly ni ddarfu i Artabasanes laesu yn ei gariad a'i ffyddlondeb i Xerxes tra bu efe byw, a bu farw yn ymladd yn ei wasanaeth yn y rhyfel Groegaidd.

Pan oedd pob peth yn barod i'r rhyfel, syrthiodd Darius yn glaf, ac a fu farw, ar ol teyrnasu 36 mlynedd, a Xerxes a eisteddodd yn heddychol ar yr orsedd, yn y flwyddyn cyn geni Crist 485. Cadarnhaodd i'r Iuddewon eu holl freintiau, yn neillduol hòno o gael teyrnged Samaria tu ag at yr aberthau a'r addoliad yn y deml yn Jerusalem. *Josephus.* Yn yr 2fed flwyddyn o'i deyrnasiad, darostyngodd yr Aipht; ac, wedi gwneuthur Achemenes, un o'i frodyr, yn rhaglaw yno, dychwelodd i Susa.

Ni enwir Xerxes yn y Bibl, ond prophwydir am dano yn *Dan.* 11. 2. Dywedir mai efe fyddai y pedwerydd ar ol Cyrus. 'Wele tri brenin etto a safasant o fewn Persia, a'r pedwerydd fydd cyfoethocach na hwynt oll; ac fel yr ymgadarnhao efe yn ei gyfoeth, y cyfyd efe bawb yn erbyn teyrnas Groeg.' Cafodd Daniel y weledigaeth a gynnwysir yn y tair

pennod olaf o'i lyfr yn y 3ydd flwyddyn i Cyrus. Y mae yr angel yn dywedyd, Wele, tri brenin a safasant etto o fewn Persia; hyny yw, Cambyses, Smerdis y Magiad, a Darius Hystaspis; a'r pedwerydd oedd Xerxes, yr hwn, gan ei fod yn bwriadu darostwng tir Groeg, a wnaeth barotôad mawr ar fôr a thir dros dair blynedd. Gwnaeth gyngrair â'r Carthaginiaid, y rhai a logasant fyddin o dri chan mil o wyr (â'r arian a ddanfonwyd iddynt gan Xerxes) dan dywysogaeth Hamilcar, i'r diben o syrthio ar y Groegiaid ag oedd yn Sicili a'r Ital.

Cychwynodd Xerxes o Susan i'r rhyfel hwn, yn y 5ed flwyddyn o'i deyrnasiad, a 481 cyn geni Crist, gyd â'r fyddin liosocaf a fu erioed gyd â'u gilydd mewn unrhyw oes, yn ol pob hanesyddiaeth ag sydd genym. Wedi gauafu yn Sardis, croesodd yr Helespont ar ddwy bont o gychod, yn gynar yn y gwanwyn canlynol. Bu ei fyddin, ynghyd â'i ysgrubliaid a'i glud, saith niwrnod yn myned drosodd, gan fyned ddydd a nos yn ddidor. Pan ddaeth at Doriscus, dinas wrth geg yr afon Hebrus yn Thrasia, gerllaw pa un daeth ei lynges hefyd, cymmerodd gyfrif o bob un o'r ddau. Ei fyddin ar y tir oedd un miliwn a saith càn mil o wyr traed, a phedwar ugain mil o wyr meirch, heblaw ei gerbydau a'i gamelod, i ba rai os rhoddir ugain mil, bydd y cwbl o'i fyddin ar y tir yn un filiwn, ac wyth can mil o wyr. Yr oedd ei lynges yn gynnwysedig o ddeuddeg cant a saith o longau rhyfel, heblaw tair mil o lestri ereill ag oedd yn dwyn angenrheidiau o bob math. Ar fwrdd y rhai hyn barnwyd fod pum can mil, dwy fil ar bymtheg, chwe chant, a dengwr. Felly yr holl rifedi a ddygodd Xerxes o Asia yn erbyn tir Groeg, oedd dwy filiwn, tri chan mil, dwy fil ar bymtheg, chwe chant a dengwr. Ar ol croesi yr Helespont, chwanegodd at ei fyddin dri chàn mil o wyr, o'r gwledydd a ymostyngasant iddo, a dau cant ac ugain llong at ei lynges, a phedair mil ar hugain o wyr ag oedd ynddynt. Felly, wrth roddi ei holl gadernid at eu gilydd, ar fôr a thir, pan ddaeth at gyfwng Thermopylæ, yr oedd yn ddwy filiwn, chwe chan mil, un fil a deugain, chwe' chant, a dengwr. A bernir fod y gweision, y gwraggedd, yr eunuchiaid, a phob math o bobl ag oedd yn dilyn y gwersyll, yn gymmaint a hyny eilwaith. Felly nid ellai y cwbl fod ddim llai na phum miliwn.* *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 233, *quoting Herodotus, Plutarch, & Isocrates.*

Ni chafodd Xerxes ddim gwrthwynebiad wrth ddyfod trwy Thrasia, Macedonia, a Thessalia, hyd oni ddaeth i le cyfyng a mynyddoedd uchel o bob tu, yn agos i Thermopylæ yn Bœotia. Amddiffynodd Leonidas, brenin Sparta, y cyfwng hwn, â thri chant o'i wyr ei hun, a chynnifer o Roegiaid a wnaeth y cwbl yn bedair mil o rifedi, yn erbyn holl fyddin

---

* Dywedir mai Xerxes oedd y talaf a'r harddaf o'i holl fyddin, ac iddo wylo wrth edrych arni ac ystyried na byddai un o honi yn fyw yn mhen càn mlynedd.

Xerxes, dros ddau ddydd; ond pan ddeallodd fod y Persiaid, ar y trydydd dydd (wedi cael eu harwain ar hyd lwybr dirgel trwy fradwriaeth Groegwr) yn barod i ymosod arnynt o'r tu cefn, gollyngodd ymaith y cwbl ond ei dri chanwr, y rhai a aberthasant eu hunain i farw dros eu gwlad, wrth amddiffyn y cyfwng hwnw; canys lladdwyd hwynt oll ond un, yr hwn, wedi hyny, a fu byw mewn gwarth, hyd oni ennillodd yn ol ei enw da am ei wroldeb yn mrwydr Platea. Lladdwyd o'r Persiaid wrth gyfwng Thermopylæ dros ugain mil o wyr, ac yn eu plith dau frawd i Xerxes.

Ar ol hyn daeth Xerxes trwy Bœotia i Attica, gwlad yr Atheniaid, ym mhen pedwar mis ar ol croesi yr Helespont. Pan ddaeth Xerxes i Athen, cafodd hi yn wag o'i thrigolion, gan fod y gwyr i gyd wedi diangc i'w llongau, ac wedi rhoddi eu gwragedd a'u plant yn y dinasoedd cymmydogaethol, sef Salamis, Ægina, a Trœzene; y rhai oedd allan o gyrhaedd byddin y Persiaid, gan eu bod wedi eu hamgylchynu â'r môr.

Yn y cyfamser chwanegwyd llynges yr Atheniaid â llongau o bob parth o dir Groeg, yn erbyn y gelyn cyffredin, hyd onid oeddynt yn fwy na thri chant o rifedi, dan lywodraeth Themistocles yr Atheniad, ac Eurybiades y Lacedæmoniad, yr hwn oedd y prif lywydd. Ar ol llawer o fân frwydrau ymladdodd llynges y Groegiaid frwydr gyffredinol â llynges y Persiaid, oedd gymmaint bedair gwaith, mewn môr cyfyng yn ymyl ynys Salamis, lle yr ennillodd y Groegiaid y fuddugoliaeth, gan ddinystrio dau cant o longau y Persiaid, heblaw y rhai a gymmerasant. Diangodd y gweddill i oror Asia Leiaf, ac ni wynebodd mwyach ar dir Groeg.

Yr achos o ennill y fuddugoliaeth hon, heblaw medrusrwydd a gwroldeb y Groegiaid, oedd y dewisiad o'r fan lle yr ymladdwyd y frwydr, mewn môr cul rhwng dwy ynys, lle nid oedd digon o le, ond i oddeutu tri chant o longau o un ochr i ymladd yn erbyn cynnifer o'r ochr arall. Ac felly nid allodd y Persiaid ddwyn dim ychwaneg o rifedi o longau i'r frwydr na'r Groegiaid. Pan glywodd Xerxes i'w lynges golli y dydd, ofnodd rhag i'r Groegiaid hwylio at yr Helespont, i rwystro ei ddychweliad i Asia Leiaf; gan hyny, wedi gadael Mardonius â thri chan mil o wyr i ddwyn y rhyfel ym mlaen yn nhir Groeg, prysurodd at yr Helespont gyd â'r gweddill o'i fyddin, ac a auafodd yn Sardis. Gan fod y bont o gychod wedi ei thòri a'i chwalu, bu orfod i Xerxes groesi yr Helespont fel ffoadur, mewn cwch pysgota gwael, wedi dyfod ychydig o fisoedd o'r blaen, mewn rhwysg mawr, wrth ben miliynau o wyr.

Ar ol ymadawiad Xerxes o dir Groeg, gauafodd Mardonius a'i fyddin yn Thessalia a Macedonia, ac yn gynnar yn y gwanwyn o'r 7fed flwyddyn i Xerxes, dychwelodd i Bœotia, ac anfonodd Alexander brenin Macedonia i Athen, i gynnyg ammodau heddwch i'r Atheniaid, gan addaw gwneuthur iawn am y golled a'r niwed a wnaed iddynt y

flwyddyn o'r blaen, a chaniatâd i fyw yn ol eu cyfreithiau eu hunain, a phethau ereill, os cilient oddiwrth gynghrair cyffredinol y Groegiaid. Ond gan nad oedd yr Atheniaid yn foddlon i hyny, llidiodd Mardonius yn ddirfawr; ac wedi dyfod i Attica, llosgodd Athen, ac anrheithiodd yr holl wlad: ond yr Atheniaid, fel o'r blaen, a giliasant o'r ddinas i Salamis, Ægina, a Trœzene. Yn y cyfamser, y Groegiaid, tan arweiniad Pausanius, brenin Lacedæmon, ac Aristides yr Atheniad, chwech ugain mil o rifedi, a ymgasglasant wrth wddf-dir Corinth; ond gan fod y wlad yn y fan hòno yn anfanteisiol (o herwydd y creigiau a'r anwastadrwydd) i wyr meirch a byddin liosog y Persiaid, hwy a giliasant yn ol i wastadedd Bœotia, lle dilynodd y Groegiaid; ac yn ymyl dinas Platea yr ymladdwyd brwydr, ym mha un y dinystriwyd byddin y Persiaid, ynghyd â Mardonius eu tywysòg. Ni ddiangodd o'r fyddin liosog hon (tri chan mil o rifedi) ond deugain mil, tan arweiniad Artabazus, yr hwn, wedi rhagweled y canlyniadau a ddigwyddasant yn ymddygiad annoeth Mardonius, a aethai ymaith o flaen y frwydr, ac a ddiangodd i Asia Leiaf. Ac o hyny allan ni welwyd mwyach fyddin o'r Persiaid y tu yma i'r Helespont.

Oddiwrth y siamplau hyn, a'r cyffelyb, y gwelir pa beth bynag yr amcano gallu a balchder dyn ei gwblhau, mai rhagluniaeth Duw sydd yn llywodraethu y byd yn ol ei ddoethineb ei hun, ac nad yw y rhyfel bob amser yn eiddo y cedyrn.

Ar ol hyn, ffodd Xerxes o Sardis, ac a ddychwelodd i Persia; ond cyn ei ymadawiad, rhoddodd orchymyn i ddinystrio holl demlau y Groegiaid yn Asia Leiaf, fel na ddiangodd un o honynt ond teml Diana yn Ephesus. A pha le bynag y daeth yn y cyrch hwn, ac yn ei ddychweliad o hono, dinystriodd yr holl demlau eilunaddolgar o'i zel i grefydd y Magiaid, y rhai nid addolent un math o eilun ond tân yn unig a gedwid yn llosgi yn wastadol ar yr allorau yn eu temlau. Yr oedd y cenedloedd y pryd hyn wedi ymranu yn ddwy sect, sef y Magiaid a'r Sabiaid; y gyntaf yn addoli tân, a'r llall amryw fath o eilunod. Yr oedd y Magiaid wedi syrthio i warth ar ol i Smerdis (un o honynt) draws-feddiannu coron Persia; ond yn amser Darius Hystaspis, cododd un Zoroastres, twyllwr mor hynod a Mahomet, llawer mwy dysgedig, ac agos mor lwyddiannus. Dywedir ei fod dros ryw amser yn was i Daniel y prophwyd; ac y mae yn eglur oddiwrth ei lyfr ei fod wedi gweled amryw ranau o'r Hen Destament. Gwnaeth Zoroastres fath o ddiwygiad yn nghrefydd y Magiaid, ac a lwyddodd gyda Darius Hystaspis i'w sefydlu yn holl daleithiau Media a Phersia, lle bu yn grefydd sefydledig dros lawer o oesoedd, hyd oni ddaeth Mahometaniaeth i'w disodli; er hyny mae llawer o'r blaid hon etto yn Persia, a rhai yn yr India Ddwyreiniol.

Yr oedd Zoroastres yn dysgu fod un Bod goruchaf, hunan-ymddibynol, a thragywyddol; a bod oddi tano ddau angel, sef angel y goleuni,

ac angel y tywyllwch; y cyntaf yn awdwr pob daioni, a'r llall o bob drygioni: a bod y ddau hyn, trwy gymysgedd o oleuni a thywyllwch, wedi gwneuthur pob peth: a'u bod mewn ymryson gwastadol â'u gilydd; a pha le bynag y byddo angel y goleuni yn drechaf, mai yno y bydd y rhan fwyaf yn dda; a lle byddo angel y tywyllwch yn drechaf, mai yno y bydd y rhan fwyaf yn ddrwg: ac y bydd i'r ymryson hwn barhau hyd ddiwedd y byd; ac yna y bydd adgyfodiad cyffredinol, a dydd barn, ym mha un y telir i bob un yn ol ei weithredoedd. Wedi hyny, angel y tywyllwch a'i ganlynwyr a ânt i'w lle priodol, i ddioddef mewn tragywyddol dywyllwch y gospedigaeth a haeddodd eu drwg weithredoedd; ac angel y goleuni a'i ddisgyblion a ânt i'w lle priodol hwythau, lle derbyniant mewn trygywyddol oleuni y wobr ddyledus am eu gweithredoedd da; ar ol hyny y byddant wedi eu gwahanu dros byth, a thywyllwch a goleuni heb eu cymmysgu mwyach â'u gilydd i dragywyddoldeb. A chan ei fod yn dysgu na chreodd Duw ar y cyntaf ond yr angel da yn unig, ac i'r llall ddyfod ar ei ol trwy ddiffyg daioni, tybygid ei fod wedi dysgu gan yr Iuddewon, ac Ysgrythyrau yr Hen Destament, am gwymp yr angelion a wrthryfelasant trwy annogaeth un o honynt, a'r pethau ereill yn ei ddaliadau ag sydd mewn cyssondeb â'r ysgrythyrau.

Y diwygiad arall a wnaeth yn nghrefydd y Magiaid, oedd, peri adeiladu tân-demlau pa le bynag y deuai. O'r blaen yr oedd eu hallorau dan yr awyr ar benau moelydd ac uchelderau; ond gan fod y tân sanctaidd ag oedd yn llosgi arnynt yn diffodd yn fynych trwy wlawogydd a thymhestloedd, parodd i demlau gael eu hadeiladu uwch eu penau, fel y cedwid y tân i losgi yn wastadol, ac na byddai rhwystr ar yr addoliad. Ac fel yr oedd eu haddoliad cyhoeddus o flaen y tân yn eu temlau, felly yr oedd eu haddoliad neillduol o flaen y tân ar eu haelwydydd; etto dywedent nad oeddynt yn addoli y tân, ond Duw yn y tân. Tybygid fod y twyllwr hwn wedi clywed neu ddarllen am y berth a'r tân ynddi a welodd Moses. Ond er fod y Magiaid yn addoli o flaen y tân, etto prif wrthddrych eu haddoliad oedd yr haul, y perffeithiaf o bob tân, yn eu tyb hwy, lle barnent fod gorseddfaingc gogoniant Duw, a phreswylfa ei bresennoldeb dwyfol mewn modd mwy rhagorol nag un man arall.

Dywedir fod Zoroastres yn philosophydd mwyaf dysgedig yn yr oes ym mha un yr oedd yn byw, a bod yr offeiriaid o *sect* y Magiaid yn rhagori mewn pob math o ddysgeidiaeth ag oedd adnabyddus yn yr oesoedd hyny. Ac oddiwrth hyny y tarddodd fod Magiad yn enw arall am ŵr doeth neu ddysgedig. Pa un a oedd 'y doethion a ddaethant o'r dwyrain' (μαλοι, *magiaid*, yn y Groeg, *Mat.* 2. 1.) wedi bod unwaith o'r *sect* hon, neu, ynte, gelwir hwynt ar yr enw hwnw am ei fod yn enw cyffredin ar ddysgedigion y dwyrain, nid ellir penderfynu. Ond trwy gam-arferiad o'r enw, priodolwyd ef yn yr oesoedd canlynol i rai ag oedd hyddysg mewn amryw fath o ddewiniaeth.

Ar ol i Zoroastres ddychymygu ei grefydd newydd, cauodd ei hun i fynu dros hir amser mewn ogof, lle yr ysgrifenodd ei lyfr, yn cynnwys y datguddiadau a gymmerodd arno dderbyn o'r nefoedd; fel y gwnaeth Mahomet rai oesoedd wedi hyny, cyn cyhoeddi yr Alcoran. Yr oedd ei lyfr pan gyflwynodd ef i Darius Hystaspis (yn y 30 flwyddyn o'i deyrnasiad) yn cynnwys deuddeg rhol o femrwn, a phob un o gàn croen. Yn ei lyfr y mae yn rhoddi yr unrhyw orchymynion a Moses mewn perthynas i anifeiliaid glân ac aflan; i dalu degymau i'r offeiriaid, ac i gadw yr offeiriadaeth yn yr un llwyth, a bod un archoffeiriad; ac i ymgadw rhag pob math o halogedigaeth allanol a thumewnol, ac amryw olchiadau er glanhad. Ond er fod llawer o addysgiadau moesol a manwl yn ei lyfr, yr oedd yn caniatau ffiaidd losgach i'r llwyth offeiriadol, sef nid yn unig fod i frodyr briodi eu chwiorydd, a thadau eu merched, ond hefyd fod i feibion briodi eu mamau eu hunain. A chan fod y teulu breninol yn Persia yn cael eu cyfrif o'r llwyth offeiriadol, ceir mynych siamplau o gyffelyb briodasau anghyfreithlon yn eu hanes.

Pan amcanodd Zoroastres, wedi ei gefnogi âg awdurdod Darius, i wneuthur i Argasp brenin y Scythiaid, a Sabiad zelog, roddi derbyniad i'w grefydd newydd, lladdwyd y twyllwr, ynghyd â phedwar ugain o'i offeiriaid. Yn y 35ain flwyddyn i Darius Hystaspis y digwyddodd hyn. Ac ar ol hyny cymmerodd Darius ei hun yr enw Archimagus, neu arch-offeiriad *sect* y Magiaid.

Mewn perthynas i grefydd Zoroastres, fel pob gau-grefydd arall a fu ac sydd yn y byd, gellir sylwi fod y nodau hyn ym mhlith eraill yn amlwg ynddi:—1. Twyll, neu gymmysg o beth gwir gyda llawer o gelwydd.—2. Gweniaith, cyn cael yr awdurdod freninol o'i phlaid.—3. Defnyddio yr awdurdod freninol, ar ol ei chael, i wneuthur i ereill i ymostwng iddi trwy orthrech.—4. Goddef aflendid buchedd tan rith sancteiddrwydd.

Pwy bynag a ewyllysio weled hanes helaethach am Zoroastres a'r Magiaid, edryched yn *Prideaux's Conn. pt.* 1*st. p.* 211—231.

Ond i ddychwelyd at Xerxes, pan oedd yn myned trwy Babilon i Susa, gwnaeth yr un distryw ar demlau y Babiloniaid ag a wnaethai yn nhir Groeg ac Asia Leiaf, mewn rhan oblegid ei elyniaeth yn erbyn crefydd y Sabiaid, ac hefyd fel y llenwai ei drysordai ag oedd wedi myned yn weigion trwy y draul anferth yn ei gyrch diweddar. Yr oedd dinystr y temlau yn Babilon, a gwaith Xerxes yn eu hanrheithio o'u delwau a'u trysorau, yn gyflawniad o brophwydoliaethau *Esaiah* 21. 9. a *Jeremiah* 51. 44, 47, 52. a 50. 2.

Ar ol dychwelyd i Susa, ymroddodd Xerxes yn hollol i esmwythdra a moethau, ac i borthi ei nwydau a'i wyniau gwarthus; a chan ei fod trwy hyn wedi syrthio i ddirmyg gyd â'r bobl, lladdwyd ef gan Artabanus, cadben ei osgordd, pan oedd yn cysgu yn ei wely, ar ol teyrnasu

21 mlynedd. Wedi hyny, aeth Artabanus at Artaxerxes, trydydd mab Xerxes, ac a ddywedodd wrtho, mai Darius ei frawd hynaf oedd wedi lladd ei dad, a'i fod yn bwriadu ei ladd yntau. Credodd Artaxerxes y chwedl heb chwilio i mewn iddi, ac a redodd i ystafell ei frawd, a thrwy gynnorthwy Artabanus, a'i lladdodd ef yn ddiachos. Yr etifedd nesaf i'r goron oedd Hystaspis, yr ail fab, ond gan ei fod yn absennol yn Bactria, ar ba dalaeth yr oedd yn llywydd, rhoddodd Artabanus y trydydd brawd, sef Artaxerxes, a gyfenwid Llaw Hir, ar yr orsedd, gan fwriadu ei ladd yntau gyd â'r cyfleusdra cyntaf, a chymmeryd y deyrnas iddo ei hun; ond daeth ei fradwriaeth i'r amlwg cyn bod yn addfed i'w gwblhau, a thorwyd ef ymaith yn ol ei haeddiant.

Artaxerxes, a gyfenwid Longimanus, neu Llaw Hir, oedd y brenin hwnw a elwir Ahasferus, yn llyfr *Esther;* fel y mae *Prideaux* yn profi trwy resymau anatebol yn erbyn yr Archesgob *Usher*, yr hwn oedd yn barnu mai Darius Hystaspis oedd yr Ahasferus hwnw; ac yn erbyn *Joseph Scaliger*, yr hwn a fynai mai Xerxes ydoedd. *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 252, 253.

Ar ol i Artaxerxes ddarostwng ei holl elynion ag oedd am wrthwynebu ei ddyrchafiad i'r orsedd, gwnaeth y wledd hòno a grybwyllir am dani yn llyfr *Esther* (pen. i.) ac yn *Josephus (Antiq. l.* 11. *c.* 6.) yn y drydedd flwyddyn o'i freniniaeth, dros gant a phedwar ugain o ddyddiau. Ac ar ol gorphen y dyddiau hyny, gwnaeth wledd fwy rhagorol dros saith niwrnod i'r tywysogion a'r bobl; a Fasti y frenines a wnaeth wledd yn y brenhin-dy i'r gwragedd. Ar y dydd olaf o'r wledd y chwennychodd y brenin i Fasti ddyfod i ddangos ei hun â'r freninol goron ar ei phen, canys yr oedd hi yn rhagori mewn glendid. Ond am na fynai ufuddhau i orchymyn y brenin, hi a ysgarwyd ac a ddifreintiwyd o fod yn frenines; a rhoddwyd gorchymyn i gasglu gwyryfon glân o bob talaeth yn yr Ymerodraeth, fel y gallai y brenin ddewis un o honynt i fod yn frenines yn ei lle hi.

Yn yr amser y gwnaed y casgliad hwn o wyryfon, sef yn y 4edd flwyddyn o'r brenin Artaxerxes, a 461 cyn geni Crist, yr oedd rhyw Iuddew yn byw yn Susan, a'i enw Mordecai; un o hynafiaid pa un, sef Cis o lwyth Benjamin, a gaethgludasid gyda Jeconiah, brenin Judah. Yr oedd Mordecai, tybygid, yn un o borthorion palas y brenin; a chan nad oedd ganddo blant ei hun, fel y bernir, mabwysiadodd a magodd Hadassah, merch ei ewythr brawd ei dad, ag oedd amddifad o'i thad a'i mam. *Esther* 2. 5—7. Gan fod y llangces hon yn weddeidd-dlws, ac yn lân yr olwg, cymmerwyd hi gyd â'r gwyryfon ereill i dŷ y brenin, dan law Hagai ceidwad y gwragedd. Ond ni fynegodd ei chenedl, yn ol gorchymyn Mordecai. Ar ol treulio blwyddyn yn ei phuredigaeth, dygwyd hi i mewn at y brenin, yn y 5ed flwyddyn o'i deyrnasiad, ac a wnaed o nifer ei ordderchadon; a chan iddi gael ffafr yn ei olwg o flaen

yr holl wyryfon, gosododd y deyrn-goron ar ei phen, yn niwedd y 7fed flwyddyn o'i freniniaeth, yn y mis Tebeth, sef y degfed, ac a'i gwnaeth yn frenines yn lle Fasti. Yr oedd Ezra wedi cychwyn i Jerusalem oddeutu deng mis o'r blaen, fel y sylwyd eisoes. *Esther* 2. 16. wedi ei chymharu âg *Ezra* 7. 7, 8, 9.

Yn yr 8fed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, fel y bernir, yr hysbysodd Mordecai i Esther fwriadau Bigthan a Theres, dau o ystafellyddion y brenin, yn erbyn ei fywyd. Bernir fod y ddau hyn wedi bod yn ngwasanaeth Fasti, a'u bod wedi llidio yn erbyn y brenin am eu hysgariaeth. Ar ol i Esther amlygu y peth i'r brenin fel y clywsai, chwiliwyd ef allan, a chafwyd ef yn wir, a chrogwyd y ddau fradwr ar bren, ac ysgrifenwyd yr holl hanes yn llyfr Cronicl y deyrnas. *Esther* 2. 21, 22.

Yn y 12fed flwyddyn o'r un brenin, yr amcanodd Haman ddinystrio yr holl Iuddewon yn Ymerodraeth Persia. Bernir mai Amaleciad o genedl ydoedd, o waedoliaeth Agag a laddwyd gan Samuel. Yr oedd wedi cael ei ddyrchafu i sefyllfa anrhydeddus gan y brenin, yr hyn oedd wedi peri iddo ymchwyddo mewn balchder. Yr oedd pawb yn ymgrymu iddo, yr hyn, yn ol arfer y dwyrain, nid oedd fawr lai na rhoddi y corph yn yr agwedd fwyaf gostyngedig o addoliad. Yr oedd hyn yn fwy o ymostyngiad nag oedd crefydd Mordecai, a'i gydwybod, yn caniatau iddo wneuthur. Gan hyny, bwriadodd Haman ddifetha, nid yn unig Mordecai, ond hefyd holl genedl yr Iuddewon. Hwyrach ei fod yn gwybod am y dinystr a wnaethai yr Iuddewon ar yr Amaleciaid yn amser Saul a Dafydd, a bod yr hen elyniaeth yn berwi yn ei galon am ddial arnynt. Gan hyny, yn y mis cyntaf o'r flwyddyn Iuddewig, sef Nisan, yn y 12fed flwyddyn o'r brenin, galwodd ei ddewiniaid ynghyd, ac a barodd iddynt (yn ol coel-grefydd y cenedloedd) fwrw coelbren ar bob mis yn y flwyddyn, ac wedi hyny ar bob diwrnod ym mhob mis, fel y gallai wybod pa fis, a pha ddiwrnod o'r mis, a fyddai tebygol o fod yn amser *lwcus* i beri ffyniant ar ei amcan gwaedlyd. Syrthiodd y coelbren ar y 13eg dydd o fis Adar, sef y 12fed. Yr oedd yr Arglwydd yn ddiammeu yn goruwch-lywodraethu ei waith yn bwrw coelbren; canys oediad y peth am yn agos i flwyddyn o amser, a roddes gyfleusdra i'r Iuddewon, trwy Esther a Mordecai, i wneuthur pob peth ag oedd yn angenrheidiol tu ag at eu diogelwch. Gwel *Esther* iii. a'r pennodau canlynol; a *Prideaux's Conn. part* 1. *p.* 309, 310.

I gadw coffadwriaeth am y waredigaeth fawr a gawsai yr Iuddewon oddiwrth fwriadau gwaedlyd Haman, ordeiniodd Mordecai a'r frenines Esther, trwy ganiatad y brenin, i gadw gŵyl flynyddol ar ddyddiau Pwrim *(coelbrenau)* sef y 13eg, y 14eg, a'r 15fed o fis Adar. Y 13eg oedd ddydd o ympryd ac ymostyngiad, a'r deuddydd canlynol yn ddyddiau o lawenydd a chyfeddach. *Esther* 9. 17, 19, 21, 22, 27, 31. A'r dyddiau hyn a gedwir yn wyliau gan yr Iuddewon hyd yr amser pres-

ennol. Y 13eg, sef y cyntaf o'r tri diwrnod, a elwir ganddynt yn Ympryd Esther, a'r deuddydd canlynol y maent yn dreulio mewn cyfeddach a meddwdod. Ar yr ŵyl hon, darllenir llyfr Esther, o'r dechreu hyd y diwedd, yn holl synagogau yr Iuddewon. Bob tro yr enwir enw Haman wrth ddarllen, eu harfer yw curo eu dwylaw, a tharo y ddaear â'u traed, a gwaeddi allan, 'Darfydded ei goffadwriaeth.'

Yn yr 16eg flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, a 449 cyn geni Crist, yr heddychodd â'r Atheniaid, ar ol i'r rhyfel barhau heb fawr o osteg 51ain mlynedd, er pan losgwyd Sardis yn yr 22ain flwyddyn i Darius Hystaspis.

Yn yr 20fed flwyddyn i'r brenin Artaxerxes y danfonwyd Nehemiah i Jerusalem, yr hyn a grybwyllwyd eisoes.

Ni ddigwyddodd dim o bwys yn mhreniniaeth Persia hyd ddiwedd teyrnasiad Artaxerxes. Yn ei 34ain flwyddyn, a'r 431 cyn geni Crist, y torodd allan ryfel rhwng yr Atheniaid a'r Lacedæmoniaid, yr hwn a barhaodd 27ain mlynedd, ac a elwir y rhyfel Peloponesaidd. Danfonodd y ddwyblaid genadon at y brenin i ofyn cynnorthwyon.

Oddeutu yr un amser y torodd allan haint trwm iawn, a lledodd dros ran fawr o'r byd. Dechreuodd yn Ethiopia yn Affrica; oddi yno daeth i Lybia a'r Aipht; ac o'r Aipht daeth i Judea, Phœnicia, a Syria; ac o'r parthau hyny, ymledodd dros holl Ymerodraeth Persia, a thir Groeg. Dinystriwyd llawer o'r Atheniaid ganddo, ac ym mhlith ereill, Pericles, un o'r enwocaf o honynt, yr hwn a gadwodd ei barch a'i urddas dros 40 mlynedd, yn Athen, mewn swyddau uchel yn y werin-lywodraeth. Yn amser yr haint hwn y blodeuodd y meddyg enwog Hippocrates, yr hwn oedd yn Athen tra parhaodd. Gwahoddodd Artaxerxes ef i ddyfod i Persia i feddyginiaethu y cleifion o'r haint, gan addaw gwobr mawr iddo; ond ei ateb oedd, nad allai adael y Groegiaid, ei gydwladwyr, i fyned i gynnorthwyo Barbariaid, yr hwn oedd enw ar ba un y galwai y Groegiaid bawb ereill ond eu hunain. Ar hyn, danfonodd y brenin i Cos, dinas Hippocrates, i beri iddynt ei roddi ef i fynu i'w ddwylaw, gan fygwth dinystrio y ddinas a'r ynys os nad ufuddhaent i'w orchymyn. Ond atebodd y dinasyddion, na wnaent er dim bygythion roddi i fynu ddinesydd mor enwog.

Bu farw Artaxerxes Longimanus ym mhen tri mis ar ol dechreu ei 41ain flwyddyn, ac a ddilynwyd yn ei freniniaeth gan Xerxes, yr unig fab ag oedd iddo o'i frenines; ond o'i ordderchadon yr oedd iddo 17eg ereill; ym mhlith pa rai yr oedd Sogdianus, Ochus, ac Arsites. Lladdwyd Xerxes ar ei wely yn ei gwsg a'i feddwdod, gan Sogdianus, ar ol iddo deyrnasu 45ain niwrnod; a Sogdianus a deyrnasodd yn ei le; yr hwn, gan ei fod wedi ymddwyn yn greulon ac yn orthrymus, a lladd un o ystafellyddion ffyddlonaf ei dad yn ddiachos, ac amcanu lladd ei frawd Ochus, a ddieithrodd lawer o'r pendefigion a llywodraethwyr y taleith-

iau oddi wrtho, y rhai a ddewisasant Ochus yn frenin yn ei le. Gan fod gan Ochus fyddin gref i amddiffyn ei hawl, digalonodd Sogdianus, a thaflodd ei bun ar drugaredd ei frawd, yr hwn a'i taflodd i fygu mewn lludw, ar ol teyrnasu 6 mis, a 15eg niwrnod. Dull y dienyddiad trwy fwrw i ludw a adroddir yn 2 *Mac.* 13. 5, 6.

Ar ol marw Sogdianus, meddiannodd Ochus y freniniaeth, ac a newidiodd ei enw yn Darius, at yr hwn y chwanegodd haneswyr y cyfenw Nothus, hyny yw, *bastardd.* Y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad oedd y flwyddyn cyn geni Crist, 428. Teyrnasodd 19eg blynedd. Rhoddir ef yn Nghanon *Ptolemy* yn union ar ol Artaxerxes Longimanus, gan nad yw y Canon hwnw yn crybwyll am neb a deyrnasodd ond rhan o flwyddyn. Cyfrifir wyth mis Xerxes a Sogdianus i wneuthur i fynu yr 41ain flwyddyn i Artaxerxes.

Yr aflwydd mwyaf a ddigwyddodd i Darius yn ei holl fywyd oedd gwrthryfel yr Aipht, a dorodd allan yn y 10fed flwyddyn o'i deyrnasiad. Canys er iddo lwyddo i ddarostwng gwrthryfelwyr ereill, nid allodd ddarostwng yr Aipht, ond collwyd hi oddiwrth Ymerodraeth Persia dros weddill ei deyrnasiad, a holl deyrnasiad hir ei fab Artaxerxes Mnemon, ac ni ennillwyd yn ol hyd y 9fed flwyddyn i Ochus, a deyrnasodd ar ol Artaxerxes Mnemon, yr hon oedd yspaid oddeutu 63ain blynedd.

Yn y 15fed flwyddyn i Darius Nothus, cyn geni Crist 409, y mae *Prideaux* yn dibenu y saith wythnos gyntaf o 70 wythnos Daniel, fel y crybwyllwyd o'r blaen yn yr 8fed bennod o'r Chweched Dosparth.

Yn yr 17eg flwyddyn o'i deyrnasiad, gwrthryfelodd y Mediaid yn ei erbyn; ond wedi eu gorchfygu mewn brwydr, dychwelasant at eu hufudd-dod. Yn yr un flwyddyn, danfonodd ei fab ieuangaf Cyrus, oddeutu 16 mlwydd oed, i fod yn llywydd ar holl daleithiau Asia Leiaf. Efe oedd hoff blentyn ei fam Parysatis, trwy eiriolaeth pa un y cafodd y dderchafiaeth hon, a fu yn y canlyniad er dinystr iddo, fel y dangosir ym mlaen.

Ym mhen dwy flynedd ar ol i Cyrus ddyfod i'w lywodraeth, rhoddodd ddau Bersiad pendefigaidd i farwolaeth, y rhai oedd geraint agos iddo, ac yn feibion i chwaer Darius Nothus, am ddim achos arall, ond am nad oeddent wedi cuddio eu dwylaw yn eu llewys wrth gyfarfod âg ef, yr hyn oedd arwydd o barch a ddangosid i freninoedd Persia. Pan glybu ei dad Darius am hyn, efe a anfoddlonwyd yn ddirfawr, ac a ddanfonodd am Cyrus, dan esgus ei fod yn glaf, a bod arno eisiau ei weled. Ond bu farw Darius yn lled fuan ar ol i Cyrus gyrhaedd i lŷs Persia, ar ol teyrnasu 19 blynedd.

Ar ol marwolaeth Darius Nothus, eisteddodd ei fab hynaf Arsaces ar yr orsedd, ac a gymmerodd yr enw Artaxerxes, at ba un y chwanegodd y Groegiaid y cyfenw Mnemon, sef *cofiadur*, o herwydd hynodrwydd ei

gof. Pan oedd ei dad ar ei glaf-wely, gofynodd iddo, trwy ba foddion y llywodraethodd mor lwyddiannus ac mor hir; ateb y brenin oedd, 'Mai trwy wneuthur ym mhob peth yr hyn oedd gyfiawn tu ag at Dduw a dyn.' Teyrnasodd Artaxerxes Mnemon 46 blynedd; ei flwyddyn gyntaf oedd y flwyddyn 404 cyn geni Crist. Pan oedd yn cael ei urddo yn frenin yn nheml Pasargada yn ol hen arfer breninoedd Persia, bwriadodd ei frawd Cyrus ei ladd ef, a chymmeryd y freniniaeth. Pan gafwyd hyn allan, rhoddwyd Cyrus mewn carchar, a gorchymynwyd ei roddi i farwolaeth. Ond trwy eiriolaeth Parysatis eu mam, arbedwyd ei fywyd, a danfonwyd ef, yn ol ewyllys ei dad, i'w lywodraeth yn Asia Leiaf. Ond dygodd Cyrus ei uchel-fryd a'i yspryd dialgar gyd âg ef, fel y bu achos i'w frawd edifarhau am ei hynawsedd tu ag ato, fel y dangosir ym mlaen.

Cyrus, wedi bwriadu rhyfel yn erbyn ei frawd, a roddodd Clearchus, cadben Lacedæmonaidd, ar waith i godi byddin o Roegiaid i'r diben hyny. Hyn oedd yn yr eilfed flwyddyn i Artaxerxes Mnemon, a 403 cyn geni Crist. Cymmerodd Cyrus arno, ar y cyntaf, ei fod yn myned i ryfela yn erbyn y Thrasiaid; ac wedi hyny, pan giliodd rhai o'r dinasoedd ag oedd dan lywodraeth Tissaphernes at Cyrus, bu hyny yn achos o ryfel rhwng y ddau, a chymmerodd Cyrus achlysur o logi llawer o filwyr dan esgus rhyfela yn erbyn Tissaphernes. Trwy hyny y twyllwyd Artaxerxes, hyd oni chynnullodd Cyrus fyddin ddigon lluosog, yn ei dyb ei hun, i ddwyn ei amcanion i ben o ddiorseddu ei frawd, a gosod ei hun yn ei le.

Yn y 4edd flwyddyn i Artaxerxes, a 401 cyn geni Crist, y cyrchodd Cyrus yn union-gyrch yn erbyn ei frawd, gyda byddin o dair mil ar ddeg o Roegiaid, dan arweiniad Clearchus, heblaw can mil o filwyr ereill; ond y Groegiaid oedd prif gadernid ei fyddin. Yr oedd ganddo hefyd lynges ar y môr dan lywodraeth Tamus, at yr hon y chwanegwyd llynges y Lacedæmoniaid, y rhai oeddynt dan rwymau i Cyrus, am y cynnorthwyon a gawsent ganddo ef. Ond nid oeddent yn cymmeryd arnynt i wybod am ddibenion Cyrus o ryfela yn erbyn ei frawd, rhag os byddai yn aflwyddiannus, iddynt dynu arnynt eu hunain ddigofaint y brenin. Yr oedd Artaxerxes wedi cael clywed y cwbl gan Tissaphernes, yr hwn a aethai i lŷs Persia i fynegi iddo; gan hyny parotôdd fyddin luosog i fyned i gyfarfod ei frawd. Cyfarfu Artaxerxes âg ef yn ngwastadedd Cunaxa, yn nhalaeth Babilon, â byddin o naw can mil o wyr, lle yr ymladdwyd brwydr benderfynol rhyngddynt, ym mha un y lladdwyd Cyrus, wrth ruthro yn rhy bell ym mhoethder y frwydr, pan oedd ei filwyr Groegaidd bron wedi ennill iddo y fuddugoliaeth. Ond ar ol marwolaeth Cyrus, yr oedd y milwyr Groegaidd hyn mewn dygn adfyd, ym mhell oddi cartref, y'nghanol Ymerodraeth Persia, ac wedi eu hamgylchu â lluoedd lluosog y fyddin fuddugoliaethus. Ond trwy eu gwr-

oldeb a'u dewrder, gorchfygasant yr holl anhawsderau ar eu ffordd, ac a wnaethant encil o ddwy fil, tri chant, a phump ar hugain o filldiroedd trwy wledydd gelynol, ac yn ngwydd byddin luosog o Bersiaid ag oedd yn eu dilyn yn yr holl daith, hyd oni ddaethant i'r dinasoedd Groegaidd ar fôr Euxin. Hon oedd yr encil filwraidd fwyaf hynod yn holl hanesion hynafiaeth. Clearchus oedd yr arweinydd yn ei dechreuad; ond wedi iddo ef gael ei dori ymaith trwy fradwriaeth Tissaphernes, dygwyd hi i ben llwyddiannus dan arweiniad Xenophon yr hanesydd Groegaidd, yr hwn, heblaw ei fod yn ysgrifenydd doeth, oedd hefyd yn gadpen dewrwych. Y mae hanes am yr encil hwn a ysgrifenwyd gan Xenophon, wedi ei drosglwyddo i ni, ac wedi ei gyfieithu i'r Saesonaeg. *Prideaux's Conn. part* 1*st. p.* 433.

Ar ol darfod y rhyfel hwn, chwanegwyd yr anghydfod ag oedd wedi bod er ys cryn amser rhwng Statira y frenines, gwraig Artaxerxes Mnemon, â'i mam y'nghyfraith Parysatis, i ba un yr oedd Statira yn edliw gwrthryfel ei mab ieuengaf Cyrus, fel pe buasai hi yn achos o hono. I ddial arni am hyn, a phethau ereill, parodd Parysatis ei gwenwyno trwy y ddyfais ganlynol: Pan oeddynt yn swpera gyd â'u gilydd, yn yr arlwy yr oedd yr aderyn a gyfrifid yn ammheuthyn mawr ym mhlith y Persiaid, yr hwn a ranwyd yn ddwy ran rhyngddi hi â'i merch yn nghyfraith, â chyllell ag oedd wedi ei gwenwyno un tu yn unig; y rhan a dòrwyd o'r tu hwnw o'r gyllell ag oedd heb ei wenwyno, a roddwyd i Parysatis, yr hon a ddechreuodd fwyta yn ddibryder; yr hyn a barodd i Statira fwyta o'r rhan arall heb ddim ammheuaeth; ond y canlyniad a fu iddi farw ym mhen ychydig o oriau. Parodd y golled hon o'i wraig anwylaf dristwch mawr i Artaxerxes, yr hwn, wedi gwybod yr achos, a ddëolodd ei fam i Babilon, lle bu dros rai blynyddoedd; wedi hyny, pan lonyddodd ei alar a'i ddigofaint, caniatâodd iddi ddychwelyd i'r llys, lle yr ennillodd ei hawdurdod arno fel cynt, trwy ei chyfrwysdra yn peidio ei groesi mewn dim, pa un bynag ai da ai drwg, ac a gadwodd ei hawdurdod arno hyd ddydd ei marwolaeth.

Treuliodd Artaxerxes Mnemon y rhan fwyaf o'i deyrnasiad mewn rhyfeloedd yn erbyn y Groegiaid, yr Aiphtiaid, ac ereill, heb fawr o lwyddiant.

Yn y 39ain flwyddyn i Artaxerxes Mnemon, a 366 cyn geni Crist, y lladdodd Johanan, yr arch-offeiriad Iuddewig, ei frawd Jeshua, yn y cyntedd nesaf i mewn o'r deml. Am y weithred ysgeler hon, rhoddwyd dirwy ar y genedl Iuddewig o 50 o *ddrachmau* am bob oen a aberthid yn y deml, yr hyn oedd oddeutu punt, un swllt ar ddeg, a thair ceiniog, o'n harian ni, am bob oen. Amgylchiadau y weithred hon oedd fel hyn:

Yr oedd Jeshua, trwy ffafr Bagoses, rhaglaw Syria, wedi cael caniatâd i fod yn arch-offeiriad yn lle ei frawd Johanan, yr hwn a fuasai yn y swydd dros lawer o flynyddoedd. Gan hyny, pan ddaeth Jeshua i'r

deml i amcanu dechreu ar y swydd arch-offeiriadol, gwrthwynebwyd a lladdwyd ef gan ei frawd Johanan. Pan glybu Bagoses am hyn, daeth i Jerusalem i ymofyn ynghylch y weithred waedlyd hon; a phan oedd yn myned i'r deml i weled y fan lle gwnaed y weithred, yr Iuddewon a fynasent ei attal, rhag halogi y deml, yr hyn a barodd iddo waeddi allan mewn digllonedd, 'Pa beth, onid wyf fi yn fwy pur na chelain yr hwn a laddasoch yn y deml?' Ar hyn, cywilyddio a wnaethant, a gadael iddo fyned i mewn. Parhaodd y ddirwy hon ar y wlad saith mlynedd, sef hyd ddiwedd teyrnasiad Artaxerxes Mnemon. Os ydoedd yn cyrhaedd yr holl ŵyn a aberthid yn feunyddiol, ac ar achosion neillduol, sef y Sabbothau, y newydd-loerau, a'r gwyliau arbenig, yr oedd y ddirwy flynyddol yn 1720 o bunnau, a chwe swllt, a thair ceiniog. *Prideaux's Conn. Ann.* 366. Y mae y weithred hon yn dangos mawr ddirywiaeth crefydd yn yr eglwys Iuddewig y pryd hwnw.

Tua diwedd teyrnasiad Artaxerxes, cyfododd anghydfod ac ymryson mawr yn llys Persia ynghylch y freniniaeth, sef pa un o feibion y brenin a gai deyrnasu ar ei ol. Yr oedd ganddo gant a phymtheg o feibion o'i ordderchadon, a thri o'i frenines, sef Darius, Ariaspés, ac Ochus. I derfynu y ddadl, gwnaeth Artaxerxes ei fab hynaf Darius yn frenin, yn amser ei fywyd. Ond Darius, heb foddloni ar hyn, a fynai gael un o ordderchadon ei dad; a chan na chai, amcanodd fwriadau yn erbyn bywyd ei dad, ac a dynodd 50 o'i frodyr i'r un bradwriaeth. Tiribasus oedd yr hwn a'i hannogodd i hyn, i ba un yr oedd Artaxerxes wedi addaw un o'i ferched; ond gan iddo syrthio mewn cariad â hi ei hun, efe a'i priododd; ac i wneuthur iawn i Tiribasus, addawodd un arall o'i ferched iddo, ond priododd hon hefyd. Y fath losgach ffiaidd a ganiateid y pryd hyny yn Persia, trwy y grefydd wladol. Y ddwy siomedigaeth hyn a lidiodd Tiribasus yn erbyn y brenin, yn y fath fodd ag i annog ei fab i'w ladd; ond pan amlygwyd y bwriad, torwyd ymaith Darius, a'i holl bleidwyr.

Ar ol marwolaeth Darius, nid oedd yr ymryson am y freniniaeth ddim llai nag o'r blaen. Yr oedd gan Ariaspes, Ochus, ac Arsames eu pleidiau i amddiffyn eu hawl. Y ddau gyntaf oedd meibion y brenin o'i frenines, fel y dywedwyd; ond yr olaf oedd fab anwylaf ei dad, o un o'i ordderchadon. Ond Ochus a drefnodd i symud y ddau ereill oddiar y ffordd, i gael y goron iddo ei hun ar ol marwolaeth ei dad. Ariaspes, yr hwn oedd dywysog esmwyth, hygoelus, a ddychrynodd efe yn y fath fodd trwy fygythiadau, a ddygid ato gan eunuchiaid y llys, megys fel pe buasai ei dad am ei roddi i farwolaeth, fel y gwenwynodd ei hun, i ysgoi yr hyn yr oedd yn ei ofni. Ac Arsames a laddwyd gan Harpates mab Tiribasus trwy orchymyn Ochus. Bu farw Artaxerxes Mnemon o alar am farwolaeth ei ddau fab yn 94 oed, ar ol teyrnasu 46 blynedd, yn y flwyddyn cyn geni Crist 359. Cadwodd Ochus farwolaeth ei dad yn

ddirgel am oddeutu deng mis, hyd oni feddyliodd ei fod wedi ei sefydlu ar yr orsedd; ac wedi hyny yr amlygodd ef, ac a gymmerodd arno yr enw Artaxerxes; ond dan yr enw Ochus y sonir am dano gan mwyaf mewn hanesyddiaeth.

Yn y flwyddyn gyntaf i Ochus, a 358 cyn geni Crist, mor gynted ag y gwybuwyd am farwolaeth Ataxerxes, a bod Ochus yn teyrnasu yn ei le, gwrthryfelodd Asia Leiaf, Syria, a Phœnicia, ac amryw o daleithiau ereill, yn ei erbyn, gan gymmaint yr oedd arogl drwg ei enw wedi ymdaenu ar led. Ond buan iawn, o ddiffyg undeb ym mhlith eu gilydd, gorfu i bob un o honynt ymostwng i'r brenin. Ar ol i'r dymhestl hon, ag oedd yn bwgwth dadymchwelyd Ymerodraeth Persia, fyned heibio, ymddygodd Ochus gyda chreulondeb mawr tu ag at bob gradd o ddynion yn y llys, ac ym mhob rhan o'i freniniaeth, heb arbed ei berthynasau agosaf. Parodd gladdu yn fyw ei chwaer Ocha, yr hon hefyd oedd yn fam yn nghyfraith iddo, canys yr oedd wedi priodi un o'i merched. Cauodd un o'i ewythraid gyda chant o'i feibion a'i ŵyrion mewn cyntedd, ac a barodd i'w saethyddion saethu atynt hyd oni laddwyd y cwbl. Tybygid mai tad Sisigambis, mam Darius Codomannus, oedd yr ewythr hwn; canys y mae *Quintius Curtius* yn dywedyd i Ochus ladd 80 o frodyr, ynghyd â'u tad, mewn un diwrnod. Gyd â'r unrhyw greulondeb yr ymddygodd Ochus tu ag at bawb yr oedd ganddo ddim ammheuaeth o'u ffyddlondeb tu ag ato. *Prideaux, pt.* 1. *p.* 467.

Yn yr 8fed flwyddyn i Ochus, a 351 cyn geni Crist, y gwrthryfelodd y Sidoniaid a'r Phœniciaid yn ei erbyn, o herwydd gorthrymder y rhaglawiaid, ac a wnaethant gynghrair â Nectanebus brenin yr Aipht. Gan fod Ochus yn parotôi byddin luosog i ddarostwng yr Aipht, a chan nad oedd un ffordd gyfleus i fyned o Persia i'r Aipht ond trwy Phœenicia, danfonodd Nectanebus un Mentor, Rhodiad o genedl, gyda phedair mil o gyflog-filwyr o Roegiaid, i gynnorthwyo y Phœniciaid, gan obeithio trwy hyny gadw y rhyfel allan o'i wlad ei hun. Bu y Phœniciaid yn llwyddiannus yn y dechreu trwy y cynnorthwyon hyn i yru y Persiaid yn llwyr allan o'u gwlad; ond pan ddaeth Ochus â byddin o dri chan mil o wyr traed, a deng mil ar hugain o wyr meirch, ofnodd Mentor, ag oedd y pryd hyny gyd â'i Roegiaid yn Sidon, i sefyll yn ei erbyn, ac a ddanfonodd at Ochus i heddychu âg ef, ac i gynnyg iddo ei wasanaeth. Derbyniwyd ei gynnyg gyda phob parodrwydd gan Ochus, yr hwn ni bu yn ol o wneuthur iddo bob math o addewidion. Yr oedd Mentor hefyd wedi llwyddo i hudo Tennes, brenin Sidon, i gyd-uno âg ef yn y fradwriaeth hon yn erbyn ei wlad ei hun, i draddodi Sidon i ddwylaw brenin Persia. Yr oedd y Sidoniaid, ar ddynesiad byddin y Persiaid at eu dinas, wedi llosgi eu llongau, fel na byddai un ffordd i neb ddiangc oddiwrth amddiffyniad eu gwlad. Gan hyny, pan welsant eu bod wedi eu bradychu, a bod y gelynion o fewn y caerau, ac nad oedd ffordd o

ddiangfa o'r môr nac o'r tir, ciliasant i'w tai, y rhai a losgasant ynghyd â hwynt eu hunain oll, yn ddeugain mil o wyr, heblaw gwragedd a phlant. Ac ni ddiangodd Tennes y brenin mwy na'r lleill; canys pan welodd Ochus nad oedd ganddo ddim achos am ei wasanaeth mwyach, efe a'i rhoddodd i farwolaeth, yr hyn a haeddodd ei fradwriaeth. Yr oedd cyfoeth mawr o aur ac arian yn Sidon, y rhai a doddwyd yn y fflamau. Gan hyny, gwerthwyd lludw y ddinas am symiau mawr o arian. Ar ol hyn, ymostyngodd Phœnicia i Ochus, ar yr ammodau goreu a fedrent gael, y rhai nid oeddent mor galed ag a fuasent pe buasai Ochus heb brysuro i fyned i'r Aipht.

Ar ol cymmeryd Sidon, daeth deng mil o filwyr llog o dir Groeg, a'r dinasoedd Groegaidd yn Asia Leiaf, at fyddin Ochus, yr hwn a ddanfonasai gennadon i'w cyflogi. Tybygid fod yr Iuddewon wedi ochri gyd â'r Phœniciaid yn eu gwrthryfel yn erbyn brenin Persia; canys ar ol iddo gymmeryd Sidon, daeth i Judea, ac a roddes warchae ar Jericho, ac a'i cymmerodd, ac a gaethgludodd lawer o'r Iuddewon; dygodd rai o honynt gyd âg ef i'r Aipht, ac ereill a ddanfonodd i Hyrcania, gerllaw môr Caspia.

Ar ei ffordd o Judea i'r Aipht, collodd Ochus lawer o'i wyr yn llyn Serbonis. Y mae y llyn hwn yn agos i'r ddyfodfa i'r Aipht o Phœnicia, ynghylch deng milldir ar hugain o hyd. Y gwynt deheu-orllewinol, trwy chwythu y tywod o'r anialwch, oedd yn arfer gwneud math o grystyn ar wyneb y dwfr, mewn ymddangosiad tebyg i dir sych; ond cynnifer a ai arno a lyngcid i fynu ac a golliâ. Ac felly y digwyddodd y pryd hyn i amryw o fyddin Ochus, o ddiffyg arweinyddion cyfarwydd. Ac y mae hanesion o fyddinoedd cyfain a gollwyd yn y lle hwn. Digwyddodd hyn yn y 9fed flwyddyn i Ochus, cyn geni Crist 250. *Prideaux's Conn. part* 1*st. p.* 472. Er fod Nectanebus wedi cael digon o amser i barotôi tu ag at amddiffyn y wlad, ac er fod ganddo fyddin o gan mil o wyr, ac ugain mil o honynt yn Roegiaid, etto ni lwyddodd ei holl ymegniadau i wrthsefyll byddinoedd lluosog Ochus; canys wedi iddo gymmeryd Pelusium (yr hon oedd megys yr agoriad i'r wlad) a Memphis y pen dinas, ymostyngodd y wlad yn gyffredinol iddo, yr hyn pan welodd Nectanebus, efe a gasglodd ei drysorau, ac a ffodd i Ethiopia, ac ni ddychwelodd mwyach i'r Aipht. Efe oedd yr olaf o'r Aiphtiaid a deyrnasodd ar wlad yr Aipht.

Y pryd hyn y llwyr ddarostyngwyd yr Aipht gan Ochus, dinystriodd eu hamddiffynfeydd, yspeiliodd eu temlau, ac a ddychwelodd gyda thrysorau mawr i Babilon, gan adael Pherendates yn llywydd ar wlad yr Aipht.

Danfonodd y Groegiaid yn ol i'w gwlad â gwobrwyau helaeth; ond i Mentor (i'r hwn yr oedd yn fwyaf neillduol yn ddyledus am lwyddiant y rhyfel) efe a roddodd gan talent o arian, gyda llawer o roddion

gwerthfawr, ac a'i gwnaeth yn llywydd ar holl barthau Asia Leiaf ag oedd yn taro ar y môr.

Treuliodd Ochus y rhan arall o'i deyrnasiad, ar ol darostwng yr Aipht, a'r taleithiau a wrthryfelasant, mewn esmwythdra, llwfrdra, a moethau, gan adael y llywodraeth i Bagoas ei hoff eunuch, a Mentor y Rhodiad; y cyntaf a lywodraethodd holl daleithiau Asia Uchaf, a'r olaf y rhai oedd yn perthyn i'r Isaf.

Bu farw Ochus ar ol teyrnasu 21ain mlynedd, o wenwyn a roddwyd iddo gan Bagoas yr eunuch, yn y flwyddyn cyn geni Crist 338. Yr oedd yr eunuch hwn yn Aiphtiad o genedl, a chanddo gariad at ei wlad, a zel mawr dros ei grefydd; ac a wnaeth ei oreu i gael gan Ochus ddangos tynerwch a thiriondeb iddi yn amser ei darostyngiad; ond cymmaint oedd ei ffyrnigrwydd a'i greulondeb, fel nad allodd yr eunuch lwyddo gyd â'i arglwydd i'w attal rhag gwneuthur y fath alanasdra ar y wlad, a dangos y fath ddirmyg tu ag at ei chrefydd, ag a wnaeth argraff ddwys ar ei feddwl, ac a'i cynhyrfodd i ddïal ar ei feistr trwy roddi gwenwyn iddo. Canys heblaw yspeilio y trigolion, eu dinasoedd, a'u temlau, yr oedd Ochus wedi troseddu yn fwy na'r cwbl yn nhyb yr eunuch trwy ladd Apis, y tarw sanctaidd, yr hwn yr oedd yr holl wlad yn ei addoli, trwy beri ei aberthu i asyn. Yr oedd Ochus mor hynod am ei ddiogi a'i lwfrdra ag am ei greulondeb; am hyny y llysenwyd ef gan yr Aiphtiaid, dan yr enw Asyn, yr hyn a'i digiodd mor fawr, fel y parodd ddwyn Apis allan o'i deml, a'i aberthu i asyn; ac wedi hyny, gorchymynodd i'w gôg drwsio ei gig i gael ei fwyta gan ei ganlynwyr. Ond ni orphwysodd dïal Bagoas ar ol gwenwyno Ochus; canys wedi peri claddu corph arall yn ei le, efe a gadwodd gorph Ochus, ac a'i torodd yn dameidiau, i gael ei fwyta gan gathod (am ei fod wedi rhoddi cig Apis i'w ganlynwyr) ac a wnaeth garnau cleddyfau o'i esgyrn.

Gan fod holl awdurdod yr Ymerodraeth yn llaw Bagoas yr eunuch ar ol marw Ochus, gosododd Arses, neu Arogus, yr ieuengaf o blant Ochus, ar yr orsedd, gan ladd y lleill oll. Nid oedd gan Arses ond enw brenin, gan fod y llywodraeth yn cael ei dwyn ym mlaen ym mhob peth yn ol meddwl Bagoas. Gan nad oedd Arses yn foddlon i hyny, bwriadodd dori ymaith yr eunuch am ei fradwriaeth a'i holl ddrygioni—ond bu Bagoas yn mlaen llaw âg ef yn hyn, trwy ei dori ef ymaith, ynghyd â'i holl deulu, ar ol iddo deyrnasu ddwy flynedd.

Ar ol lladd Arses, gosododd Bagoas un Codomannus ar yr orsedd, yr hwn, ar hyny, a gymmerodd yr enw Darius. Efe oedd y pedwerydd o'r enw ym mhlith breninoedd y Mediaid a'r Persiaid. Y cyntaf oedd Darius y Mediad, *Dan.* 5. 31. a 6. 1.—Yr ail oedd Darius Hystaspis, *Ezra* 5. 6. a 6. 1.—Y trydydd oedd Darius Nothus.—A'r pedwerydd oedd Darius Codomannus, *Neh.* 12. 22. yr hwn oedd yr olaf o freninoedd Persia. Nid oedd yn fab i frenin, etto dywedir ei fod o'r hâd

breninol, gan ei fod wedi tarddu o Darius Nothus. Nid oedd ei swydd yn ei ddechreuad ddim uwch na bod yn un o genadon y brenin, i ddwyn ei orchymynion trwy yr Ymerodraeth. Yr achlysur o'i ddyrchafiad oedd fel y canlyn:—Pan oedd Ochus mewn rhyfel â'r Cadusiaid tua diwedd ei deyrnasiad, daeth un allan o'u byddin i gynnyg ymladd brwydr ben-ben â'u dewis ŵr yn holl fyddin y Persiaid; pan ofnodd pawb, cymmerodd Codomannus y rhyswr i fynu, ac a'i lladdodd. Megys gwobr am y gwrolwaith hwn, gwnawd ef yn llywydd ar dalaeth Armenia; ac wedi lladd Arses, dyrchafwyd ef, fel y dywedwyd, i'r orsedd. Ond ni eisteddodd yn hir arni, cyn y gwelodd Bagoas nad oedd debygol i adael iddo lywodraethu, a bod yn foddlon ar enw brenin yn unig. Am hyny, bwriadodd ei symud ef oddiar y ffordd, megys y gwnaethai i'r ddau frenin o'i flaen. Parotôdd wenwyn i'r diben hyny, yr hyn pan ddeallodd Darius, gwnaeth i'r eunuch i'w yfed ei hun. Ac felly y bu farw y bradwr yn ol ei haeddiant trwy ei ystryw ei hunan.

Dywedir fod Darius yn rhagori ar bawb yn Ymerodraeth Persia, o ran harddwch a maintioli ei berson, ac o ran gwroldeb; yr oedd hefyd o ymddygiad addfwyn a boneddigaidd. Ond nid allodd wrthsefyll llwyddiant Alexander, a threfn rhagluniaeth yr Arglwydd yn nadymchweliad Ymerodraeth Persia. Ni chafodd ond prin amser i sefydlu ei hun ar yr orsedd, cyn i Alexander barotôi i'w ddiorseddu. Cyfrifir pedair blynedd i deyrnasiad Darius; ei flwyddyn gyntaf oedd y flwyddyn cyn geni Crist 335.

PENNOD XI.

Hanes Dymchweliad Breniniaeth y Mediaid a'r Persiaid, a Sylfaeniad Breniniaeth y Groegiaid.

Os ymofynir am yr achos gwreiddiol o ryfel Alexander a'r Groegiaid yn erbyn Darius Codomannus, yr hwn a ddibenodd yn nadymchweliad Ymerodraeth Persia, y mae yn rhaid cyrchu yn ol 168 o flynyddoedd at losgiad Sardis gan yr Atheniaid yn y flwyddyn cyn geni Crist 500, a'r 22ain flwyddyn o deyrnasiad Darius Hystaspis, ynghyd â'r amgylchiadau a arweiniodd at hyny, a'r canlyniadau o hono, fel yr adroddwyd mewn rhan yn y dalenau o'r blaen, lle gellir sylwi ar y rhyfedd gyssylltiad rhwng achosion, a'r effeithiau sydd yn tarddu oddi wrthynt, ac ar ragluniaeth yr Arglwydd yn peri i bob achos ddwyn ei briodol effaith yn ei lywodraeth foesol ar y byd. Yr achos paham na allodd y Groegiaid dros amryw oesoedd ddwyn rhyfel i ganol Ymerodraeth Persia, oedd yr ymraniadau yn eu plith eu hunain, a'u rhyfeloedd cartrefol. Ond pan orchfygwyd y Thebaniaid a'r Atheniaid ym mrwydr Cheronea, gan Philip brenin Macedonia, tad Alexander Fawr, ac y dygwyd holl dir Groeg dan ei lywodraeth, galwodd gymmanfa yn Corinth o holl ddinas-

oedd a gwledydd y Groegiaid, ym mha un y dewiswyd Philip yn ben-tywysog eu holl luoedd, i'r diben o wneuthur rhyfel yn erbyn y Persiaid; a rhoddwyd treth o arian a gwyr ar bob dinas i'w ddwyn ym mlaen. Digwyddodd hyn yn y flwyddyn gyntaf i Arses, cyn geni Crist 337.

Yn y flwyddyn ganlynol, danfonodd Philip dri o'i gadbeniaid, Parmenio, Amyntas, ac Attalus, i Asia Leiaf, i ddechreu y rhyfel, gan amcanu eu canlyn ei hunan, i ddwyn y rhyfel i berfedd Ymerodraeth Persia. Ond pan oedd yn barod i gychwyn, lladdwyd ef gartref, wrth gadw priodas ei ferch Cleopatra, yr hon oedd yn priodi Alexander brenin Epirus. Yr oedd Pausanias, pendefig ieuangc o Macedonia, ac un o osgordd Philip, wedi cael ei dreisio mewn dull Sodomaidd gan Attalus, un o gyfeillion penaf y brenin. Gan fod Pausanias wedi cwyno yn fynych wrth y brenin, a chan na wrandawai arno, trodd ei ddial oddiwrth awdwr y weithred at yr hwn ag oedd yn nacâu gwneuthur iawn iddo, ac â'i lladdodd yn nghanol ei bendefigion, ar y ffordd i'r chwareufa *(theatre)*. Sylwir gan *Diodorus Siculus*, fod delwau y deuddeg duwiau a duwiesau, ynghyd â delw Philip ei hun, yn drydedd ar ddeg, yn yr un gwisgiad ardderchog ag oedd am y lleill, yn cael eu dwyn i'r chwareufa o'i flaen, er mwyn anrhydeddu priodas ei ferch. Wrth roddi ei ddelw ei hun ym mhlith delwau ei dduwiau, yr oedd am hòni ei hawl i fod yn dduw: ond pan oedd ei ddelw yn myned i mewn i'r chwareufa, lladdwyd ef gan Pausanias, ac felly y dangoswyd mai dyn marwol, ac nid duw, ydoedd. *Prideaux, pt.* 1. *p.* 478.

Yn fuan ar ol marwolaeth ei dad, galwodd Alexander, yr hwn oedd y pryd hyny yn ugain mlwydd oed, gymmanfa o wledydd a dinasoedd breiniol Groeg, i gyfarfod eilwaith yn Corinth, lle dewiswyd ef gan bawb, ond y Lacedæmoniaid, i fod yn ben-tywysog eu lluoedd yn lle ei dad, i ddwyn y rhyfel ym mlaen yn erbyn y Persiaid. Ond gan fod yn angenrheidiol i Alexander yn gyntaf fyned tu a'r gogledd i roddi pen ar y rhyfel ag oedd ganddo â'r Ilyriaid a'r Tribaliaid, dwy genedl ar yr afon Danube; yn ei absennoldeb, cyd-fwriadodd yr Atheniaid, a'r Thebaniaid, ynghyd â rhai dinasoedd ereill, yn ei erbyn. Ond pan ddychwelodd yn fuddugoliaethus o'r gogledd, ymostyngodd yr Atheniaid, ac amryw ddinasoedd ereill; ond gan fod y Thebaniaid yn sefyll allan, gwarchaeodd ar Thebes, eu pen dinas; ac wedi ei chymmeryd trwy ruthr, efe a'i llwyr ddinystriodd, gan ladd deng mil a phedwar ugain o'r trigolion, a gwerthu y gweddill yn gaeth-weision, sef deng mil ar hugain o nifer. Ar hyn, ymostyngodd holl wledydd Groeg tan ei lywodraeth; ac mewn cymmanfa gyffredinol yn Corinth, efe a ddewiswyd drachefn yn dywysog eu lluoedd yn erbyn y Persiaid, a chyfran pob dinas o wyr ac arian tu ag at y rhyfel a bennodwyd. Digwyddodd hyn yn y flwyddyn gyntaf i Darius, a'r flwyddyn cyn geni Crist 335.

Yn y gwanwyn o'r flwyddyn ganlynol, croesodd yr Helespont, sef y

môr cyfyng rhwng Ewrop ac Asia Leiaf. Nid oedd ei fyddin yn ol y cyfrif mwyaf, ond deng mil ar hugain o wyr traed, a phum mil o wyr meirch. Gyda byddin mor fechan yr anturiodd, ac hefyd a gwblhaodd oresgyniad holl Ymerodraeth Persia, ynghyd â rhan o India. Dywedir nad oedd ganddo yn ei drysorfa ag oedd gyd âg ef pan gychwynodd i'r cyrch hwn, ond deg talent a thriugain (oddeutu £14,437 10*s*. o'n harian ni). Er hyny, gan ei fod yn myned i gyflawni gorchwyl o waith dros yr Arglwydd yn nhrefn ei ragluniaeth, ac i gyflawni ei brophwydoliaethau (er na wyddai hyny) ni fu arno eisieu dim, ac a lwyddodd ym mhob peth tra bu ynghylch y gorchwyl hwnw, ac wedi ei orphen, bwriwyd ef ymaith, am nad oedd yn ceisio gogoniant yr Arglwydd yn ei waith, ac am geisio adferu Babilon, a ddiofrydwyd i ddinystr.

Ym mhen ychydig o ddyddiau ar ol croesi yr Helespont, ymladdodd ei frwydr gyntaf â'r Persiaid, wrth yr afon Granicus, yn nhalaeth Mysia, yn Asia Leiaf, ac ennillodd fuddugoliaeth fawr, er fod mwy na phum gwaith cymmaint o wyr gan y Persiaid nag oedd ganddo ef. Mor ddiystyr oedd parotôad Alexander i ryfela yn erbyn Ymerodraeth Persia yn ngolwg Darius o flaen brwydr Granicus, fel y rhoddodd orchymyn i'w raglawiaid yn Asia Leiaf i'w ddal ef yn fyw, a'i guro â gwïail, ac wedi hyny ei ddwyn ger ei fron. Ond buan iawn y cafodd achos i gyfnewid ei feddwl am dano. Ffrwyth y fuddugoliaeth hon oedd cael meddiant o Sardis a holl drysorau Darius yno, ac ymostyngiad rhan fawr o Asia Leiaf.

Pan oedd Alexander yn myned i roddi ei fyddin yn ei gauaf-leoedd, yn y flwyddyn gyntaf o'i ryfel yn erbyn y Persiaid, caniatâodd i bob un o'i filwyr ag oedd wedi priodi y flwyddyn hòno, i ddychwelyd yn ol i Macedonia, i dreulio y gauaf gyd â'u gwragedd, gan osod tri o gadbeniaid i'w harwain adref, ac i ddychwelyd gyda hwynt ar amser gosodedig yn y gwanwyn canlynol. A chan fod hyn mewn mesur yn ol yr hyn a ddarllenir *(Deut.* 24. 5.) bernir i Alexander ei ddysgu gan ei athraw Aristotl, ac yntau gan Iuddew dysgedig, â pha un y dywedir iddo gyfeillachu.

Yn y 3edd flwyddyn i Darius, cyn geni Crist 333, yn nechreu y gwanwyn, y darostyngodd Alexander Phrygia, ac wedi hyny Lycia, Pisidia, Pamphylia, Paphlagonia, a Cappadocia, y taleithiau hyny o Asia Leiaf ag oedd heb gael eu darostwng yn y flwyddyn o'r blaen, a gosododd raglawiaid arnynt.

Yn y cyfamser, nid oedd Darius yn ol o barotôi tu ag at amddiffyn ei deyrnas. Cynghorodd Memnon y Rhodiad, brawd Mentor a soniwyd am dano o'r blaen, iddo ddwyn y rhyfel i Macedonia, i'r diben o alw Alexander yn ol i amddiffyn ei wlad ei hun. Yr oedd lle hefyd i ddisgwyl y buasai y Lacedæmoniaid, ac ereill o'r Groegiaid, yn uno gyd âg ef yn erbyn Alexander. Gwelodd Darius resymoldeb y cynghor hwn,

ac a benderfynodd ei ganlyn; gan hyny, ymddiriedodd i Memnon am y cyflawniad o hono, ac a'i gwnaeth yn ben-tywysog ei holl luoedd ar fôr a thir, ag oedd wedi eu casglu i'r diben hyny; ac ni allasai wneuthur dewisiad gwell, canys efe oedd y cadben goreu, a'r gwr doethaf ag oedd o ochr Darius. Efe oedd un o'r cadbeniaid ym mrwydr Granicus; a phe buasai y lleill yn gwrando arno, ni chawsid yr aflwydd a ddigwyddodd yno. Canys ei gynghor ef oedd peidio ymladd y frwydr y pryd hyny, ond cilio yn ol ac anrheithio y wlad o flaen y Macedoniaid, fel y byddai raid iddynt gilio yn ol o eisieu cynnaliaeth; ond ni wrandawai y cadbeniaid ereill arno, a thrwy hyny y digwyddodd yr aflwydd a arweiniodd i ddymchweliad Ymerodraeth Persia. Er hyny, ni ymadawodd Memnon oddiwrth achos Darius; ond wedi casglu gweddillion byddin y Persiaid, ar ol brwydr Granicus, ciliodd yn ol yn gyntaf i Miletus, ac oddi yno i Halicarnassus, ac yn olaf i ynys Cos, lle cyfarfu llynges Persia âg ef—hwyliodd oddi yno a chymmerodd yr ynys Chios, ac wedi hyny yr ynys Lesbos i gyd ond y ddinas Mitylene, gan arfaethu myned oddi yno i Eubœa, ac wedi hyny i dir Groeg a Macedonia, y rhai yr oedd efe yn fwriadu wneuthur yn eistedd-le y rhyfel. Ond gan i Mitylene sefyll gwarchae, efe a fu farw o'i blaen, a'i holl amcanion a ddiddymwyd. Ar ol marw Memnon, gan nad oedd gan Darius gadben arall cyffelyb iddo mewn doethineb a gwroldeb i flaenori yn y cyrch a arfaethasai, gorfu iddo ei roddi i fynu. A chan nad oedd ganddo ddim arall i ymddiried ynddynt ond ei fyddinoedd dwyreiniol, casglodd hwynt ynghyd i Babilon, yn chwe chan mil o rifedi, medd *Plutarch*, ac a'u harweiniodd i gyfarfod y gelyn; yr hyn pan glybu Alexander, prysurodd i gymmeryd meddiant o'r bylchau ag sydd yn arwain o Cilicia i Syria, gan arfaethu disgwyl am fyddin y Persiaid, ac ymladd â hi yno. Canys gan nad oedd yn y bylchau cyfyng hyny le mewn un man i dynu allan fwy na deng mil ar hugain o wyr mewn trefn brwydr—yr oedd digon o le i'r Macedoniaid, ond nid oedd le i'r ugeinfed ran o fyddin y Persiaid. Gwelodd rhai o'r Groegiaid ag oedd ym myddin Darius yr anfantais o ymladd yno, ac a'i cynghorasant i fyned yn ol i wastadedd Mesopotamia, a disgwyl ei elyn yno, lle y gallai ei holl fyddin gymmeryd eu rhan yn y frwydr: ond gweniaith gwyr y llŷs, a threfn rhaglunaeth, a barodd na wrandawodd Darius ar y cynghor da hwn. Gwnaethant iddo gredu fod Alexander yn cilio rhagddo, ac mai ei ddyledswydd oedd pwyso ym mlaen i'w gymmeryd, tra y byddai wedi ymddyrysu yn y lleoedd cyfyng hyny. Hyn a annogodd Darius i ymladd yn y cyfyngdir hwn, lle nid allai estyn allan flaen y gâd ddim pellach na'r eiddo y Macedoniaid, o herwydd y mynyddoedd o bob tu; gan hyny, nid oedd ganddo un ffordd arall o drefnu ei fyddin luosog, ond trwy eu gosod yn rhesi y naill o'r tu ol i'r llall. Ond gwroldeb y Macedoniaid wedi tori y rhes gyntaf, a barodd i hòno gilio yn ol ar yr ail, a'r ail ar y trydydd,

ac felly ym mlaen, fel y syrthiodd holl fyddin y Persiaid i annhrefn, a thrwy fod y Macedoniaid yn gwasgu y'mlaen i ddilyn eu mantais, chwanegwyd terfysg y Persiaid, hyd oni yrwyd eu holl fyddin i fföedigaeth; ac o herwydd cyfyngder y cymoedd trwy ba rai yr oeddynt yn ffoi, mathrasant eu gilydd, fel y digwyddodd i fwy farw trwy hyny na thrwy y cleddyf. Diangodd Darius, yr hwn oedd yn ymladdd yn y rhes gyntaf, gyda llawer o anhawsder; ond y gwersyll a'r holl glud, ynghyd â'i fam, ei wraig, a'i blant (y rhai yn ol arfer breninoedd Persia a ddygasai gyd âg ef i'r rhyfel) a syrthiasant i ddwylaw y gelyn; a mwy na chan mil o'r Persiaid a adawyd yn feirw ar faes y frwydr. Ymladdwyd y frwydr hon gerllaw Issus yn Cilicia, oddeutu dechreu mis Tachwedd, yn niwedd y drydedd flwyddyn i Darius; a'r canlyniad o honi i Alexander oedd sicrhau y taleithiau o'i ol, a chwanegu Syria at ei lywodraeth, pen-ddinas pa un oedd Damascus. Yma yr oedd Darius o flaen y frwydr wedi danfon ei drysorau, a'i ordderchadon, tri chant a naw ar hugain o rifedi, ynghyd â llawer o bendefigesau, oedd yn ferched a gwragedd i bendefigion Persia, dan ofal gosgordd. Y rhai hyn oll, ynghyd â'r ddinas, a fradychodd llywydd Damascus i feddiant Alexander, pan glybu am fföedigaeth Darius. Ym mhlith y pendefigesau hyn yr oedd Barsena gwraig weddw Memnon, o lendid rhagorol, yr hon a gymmerodd Alexander i'w wely, a ganwyd iddo fab o honi, yr hwn a alwyd Hercules; ac ar ol hyny, wedi ei alw gan y Macedoniaid i fod yn frenin arnynt, pan oedd yn ddwy flwydd ar bymtheg oed, a laddwyd trwy frad Cassander a Polysperchon, dau o gadbeniaid Alexander Fawr.

Pan oedd Alexander, ar ol brwydr Issus, yn ymdaith gyd â'i fyddin ar hyd oror y môr tua Phœnicia, ymostyngodd pawb iddo, ond nid neb gyda mwy o barodrwydd na'r Sidoniaid. Deunaw mlynedd o'r blaen y dinystriasai Ochus eu dinas, a'r cwbl oedd ynddi. Ond ar ol iddo fyned yn ol i Persia, dychwelodd y rhai hyny o'r trigolion oedd y pryd hwnw yn absennol gyd â'u marsiandïaeth ar y môr, ac a adeiladasant y ddinas. Ond pan ddaeth Alexander i Tyrus, gorfu iddo roddi gwarchae arni dros saith mis cyn y gallodd ei chymmeryd. Nid oedd y Tyriaid yn chwennych ymostwng iddo fel arglwydd, ond ei gael fel cyfaill; gan hyny, anfonasant genadon âg anrhegion iddo, ac angenrheidiau i'w fyddin; ond pan ddaeth gerllaw y ddinas, ni chafodd ddyfod i mewn iddi. Yr hyn a annogodd y Tyriaid i wrthsefyll, oedd cadernid y lle, a'u hyder yn nghynnorthwy eu cynghreiriaid, sef y Carthaginiaid, haid o honynt eu hunain ag oedd wedi sefydlu er rhai oesoedd yn Carthage, yn Affrica, a'r pryd hyn yn genedl gadarnaf o bawb ar y môr. Yr oedd Tyrus y pryd hyny yn sefyll ar ynys oddeutu hanner milltir oddiwrth y fan lle y safasai yr hen Tyrus a ddinystriodd Nebuchodonosor. (Gwel yn hanes y Babiloniaid.) Yr oedd y muriau cedyrn oddi amgylch y

ddinas, wedi eu hadeiladu ar fin y môr, yn gant a hanner o droedfeddi o uchder. Nid oedd gan Alexander un ffordd i agosâu at y ddinas i'w chymmeryd ond trwy wneuthur sarn lydan o'r cyfandir hyd ati. I'r diben hyny, cludodd gedrwydd o Libanus, a bwriodd adfeiliau yr hen Dyrus i'r môr, i gyflawni prophwydoliaeth Ezeciel, *pen.* 26. 12. Trwy ddiwydrwydd llafurus ei fyddin, a'r wlad oddi amgylch, gorphenwyd y sarn ym mhen saith mis, a chymmerwyd y ddinas, er gwaethaf gwrthwynebiad y Tyriaid, a phob math o ystrywiau rhyfel a arferid ganddynt i attal gwaith y sarn, ac i amddiffyn y lle. Y mae y sarn i'w gweled hyd heddyw, o'r un hŷd ag y mae yr hanes yn dywedyd. (*Prideaux quoting Maundrell's Travels, part* 1. *p.* 484).

Nid allodd y Carthaginiaid gynnorthwyo y Tyriaid y pryd hyn, o herwydd rhyw aflonyddwch gartref; er hyny nid ofnodd y Tyriaid fyned â'r rhyfel ym mlaen hebddynt; gan hyny, pan anfonodd Alexander genadau atynt âg ammodau heddwch, hwy a'u taflasant i'r mòr. Etto, rhai o'r Tyriaid, gan ofni y gwaethaf, a ddanfonasant eu gwragedd a'u plant i Carthage.

Lladdodd Alexander wyth mil o'r Tyriaid wrth gymmeryd y ddinas. Gorchymynodd groeshoelio dwy fil o'r rhai a gymmerwyd yn garcharorion;* a gwerthodd ddeng mil ar hugain yn gaeth-weision. Achubwyd pymtheng mil yn ddirgelaidd gan y Sidoniaid mewn llongau wrth gymmeryd y ddinas.

Yr oedd gan y Tyriaid ddelw bres o'r duw cenedlig Apolo, o uchder mawr, a gymmerasid gan y Carthaginiaid o Gela, dinas yn Sicily, yn y flwyddyn cyn geni Crist 405, ac a ddanfonasid ganddynt yn anrheg i Tyrus eu mam-ddinas, lle gosodwyd hi i fynu ac yr addolwyd. Yn amser y gwarchae hwn, breuddwydiodd un o'r dinasyddion, fod Apolo am eu gadael i fyned trosodd at Alexander. I rwystro yr aflwydd dychymmygol hwn, rhwymasant y ddelw â chadwynau o aur wrth allor Hercules, un arall o'u duwiau. Pan gymmerodd Alexander y ddinas, rhyddhaodd Apolo o'i gaethiwed, ac a ddiolchodd iddo am ei fwriad o ddyfod trosodd ato; ac wedi aberthu i Hercules, a gwneuthur llawer o

---

* Y gwir achos o'r creulondeb hwn o eiddo Alexander, oedd, am ei fod wedi cael ei wrthwynebu cyhyd, a chyda chymmaint o wroldeb gan y Tyriaid. Yr esgus a roddodd, oedd, mai cospedigaeth gyfiawn ydoedd arnynt am ladd eu meistriaid; a chan eu bod yn gaeth-weision yn eu dechreuad, mai croeshoeliad oedd y gospedigaeth ag oedd gyfaddas iddynt fel y cyfryw. Yr oedd hyn yn gorphwys ar hen hanes. Canys rhai oesoedd o'r blaen, yr oedd caeth-weision Tyrus wedi cydfwriadu yn erbyn eu meistriaid, a'u lladd i gyd mewn un noswaith (ond Strato, yr hwn a arbedwyd gan ei gaeth-was) a chan briodi eu meistresi, arosasant mewn meddiant o'r ddinas. Arbedwyd teulu Strato, ac yn eu plith Azelmelic brenin Tyrus, ag oedd o'r teulu hwnw, a gadawodd Alexander iddo deyrnasu ar ol iddo ail bobli y ddinas, am mai y teulu hwnw oedd yr unig un yn Tyrus ag oedd heb ddeillio oddiwrth y caeth-weision a laddasant eu meistriaid. *Justin lib.* 18. *c.* 3.

bethau ynfyd a choel-grefyddol, aeth rhagddo tua Jerusalem, mewn llawn fwriad i ddïal ar yr Iuddewon hyd yr eithaf, am nacau danfon cynnorthwyon a lluniaeth i'w fyddin yn y gwarchae o flaen Tyrus. Esgus yr Iuddewon oedd eu llŵ o ffyddlondeb i Darius; ond nid oedd hyny yn llarieiddio dim ar gynddaredd Alexander tu ag atynt. Yn y cyfyngder hwn, ymostyngodd Jadua yr arch-offeiriad (ag oedd yn llywydd ar y wlad dan y Persiaid) a holl Jerusalem gyd âg ef, ger bron yr Arglwydd mewn gweddïau ac ymbiliau. Dywedir i Jadua gael ei gyfarwyddo mewn gweledigaeth liw nos, i fyned i gyfarfod Alexander gyd â'r offeiriaid, yn eu gwisgoedd offeiriadol. A phan aethant yn y modd hyn i'w gyfarfod, cafodd yr olwg arnynt effaith neillduol arno; canys wedi agosâu at yr arch-offeiriad, ymgrymodd Alexander iddo gyda math o barch crefyddol, er mawr syndod a siomedigaeth i'r Syriaid a'r Phœniciaid ag oedd yn bresennol, ac yn disgwyl y buasai yn eu dinystrio yn yr un modd a'r Tyriaid, ac yn awyddus (o'u gelyniaeth i'r Iuddewon) i gael llaw yn y gwaith, gan eu bod wedi dyfod yno i'r diben hyny. Pan oedd pawb yn synu wrth ymddygiad y brenin, gofynodd Parmenio, ún o'i gadbeniaid, iddo, paham yr oedd ef, ag yr oedd pawb yn ymgrymu iddo, yn parchu yr arch-offeiriad Iuddewig yn y modd hyn—atebodd y brenin, nad oedd yn rhoddi y parch hwnw iddo ef, ond i'r Duw hwnw, offeiriad pa un ydoedd. Canys dywedodd, pan ydoedd yn Dio yn Macedonia, ac yn myfyrio pa fodd i ddwyn y rhyfel ym mlaen yn erbyn y Persiaid, ac yn petruso mewn ammheuaeth yn ei gylch, i'r person hwn, sef yr arch-offeiriad Iuddewig, yn yr un wisgiad, ymddangos iddo mewn breuddwyd, a'i annog i roddi heibio bob petrusder, a myned drosodd yn hyderus i Asia, gan addaw y byddai Duw yn arweinydd iddo yn y cyrch hwnw, ac y rhoddai iddo Ymerodraeth y Persiaid. A chan ei fod yn sicr oddiwrth ei wisgiad, a llun ei wynebpryd, mai yr un person ydoedd ag a ymddangosodd iddo yn Dio, yr oedd yn ddiogel ganddo ei fod yn gwneuthur y rhyfel presennol dan arweiniad Duw, ac y byddai iddo, trwy ei gynnorthwy ef, orchfygu Darius, a dadymchwel Ymerodraeth Persia; ac mai am hyny yr oedd yn ei addoli ym mherson ei arch-offeiriad. Ar hyn y trodd Alexander drachefn at Jadua, ac a'i cofleidiodd yn garedig, ac a aeth gyd âg ef yn heddychlon i Jerusalem, ac a aberthodd ebyrth i Dduw yn y deml, lle dangosodd Jadua iddo brophwydoliaethau Daniel *(pen.* 8. 5, 6, 7.) y rhai sydd yn rhag-ddywedyd am ddymchweliad Ymerodraeth Persia, neu yr hwrdd deu-gorn, gan y bwch gafr un-gorn, yr hwn yw brenin Groeg. *Dan.* 8. 21. a 11. 3. Gan hyny, yr oedd yn fwy hyderus nag o'r blaen, heb ammeu dim nad efe oedd y person a olygid yn y prophwydoliaethau hyny. Ar ei ymadawiad parodd i'r Iuddewon ofyn yr hyn a fynent. Gan hyny, gofynasant gael mwynhau eu crefydd, a'u cyfreithiau gwladol, a bod heb dalu teyrnged bob seithfed flwyddyn, am nad oeddynt yn ol eu cyf-

raith i hau na medi y flwyddyn hòno; yr hyn oll a ganiataodd yn rhwydd iddynt. *Joseph. Antiq. lib.* 11. *c.* 8. *Prideaux, pt.* 1. *p.* 487. Adroddwyd eisoes am ei ymddygiad tu ag at y Samariaid.

Aeth Alexander rhagddo tua Gaza, yr hon oedd ddinas gadarn, a byddin gref o'i mewn i'w hamddiffyn, dan lywodraeth Betis, un o eunuchiaid Darins. Gan fod y ddinas hon ar ei ffordd i'r Aipht, yr oedd yn angenrheidiol i'w darostwng; ond nid allodd ei chymmeryd heb warchae o ddau fis, yr hyn a barodd i Alexander greuloni i'r fath radd âg i ladd deng mil o wyr, a gwerthu y lleill, ynghyd â'u gwragedd a'u plant, i gaethiwed. A phan ddygwyd Betis o'i flaen, yn lle ymddwyn yn barchus ac yn foneddigaidd tu ag ato am ei ffyddlondeb i'w arglwydd, a'i amddiffyniad gwrol o'r ddinas, parodd dyllu ei sodlau, a'i rwymo o'r tu ol i gerbyd, a'i lusgo oddi amgylch y ddinas, hyd oni bu farw; gan ymffrostio ei fod yn hyn wedi dynwared Achiles, un o'i henafiaid, yr hwn a lusgodd gorph Hector oddi amgylch Caer Droia, fel y dywed *Homer* y bardd Groegaidd; yr hon oedd siampl greulon, ond yr oedd y dilyniad yn rhagori yn fawr mewn creulondeb.

O Gaza yr aeth Alexander yn union-gyrch i'r Aipht, ac mewn saith niwrnod daeth i Pelusium (dinas yn agos i'r gwddf-dir ag sydd yn cydio Affrica âg Asia) ac oddi yno i Memphis, pen dinas y wlad. Cafodd ei groesawi gan yr Aiphtiaid megys eu gwaredwr oddi tan orthrymder y Persiaid.

O Memphis cymmerodd ei daith i ymweled â theml Jupiter Hammon, oddeutu dau can milltir o'r Aipht, yn niffeithwch Lybia. Danfonodd genadau o'i flaen i wobri offeiriaid y deml i ddywedyd mai mab Jupiter Hammon ydoedd. Yr achos o'r ynfydrwydd hwn ydoedd, am ei fod wedi darllen yn *Homer*, a dychymmygion yr hen amseroedd, fod y rhan fwyaf o'u harwyr *(heroes)* yn cael eu darlunio megys meibion i ryw dduw neu gilydd; gan hyny, nid oedd yntau yn chwennych bod yn ol iddynt yn hyn.

Ar ei ffordd yno, sylwodd ar le cyfleus i adeiladu dinas ar fin Môr y Canoldir, ar gyfer yr ynys Pharus. Yma yr adeiladwyd Alexandria, yr hon a fu dros lawer o oesoedd wedi hyny yn ben dinas yr Aipht, ac yn hir yn benaf yn y dwyrain am fasnach. Democrates oedd yr adeiladydd, yr hwn, yn yr oes hòno, oedd enwog am ail adeiladu teml Diana, yn Ephesus, ar ol iddi gael ei llosgi gan Erostratus. Wedi iddo wneuthur portreiad o furiau, pyrth, ac heolydd y ddinas, parodd Alexander iddo ddechreu ar y gwaith, ac a aeth rhagddo tua theml Jupiter Hammon. Gan fod ei daith gan mwyaf trwy ddiffeithwch tywodog, yr oedd mewn dau berygl, sef cael ei orchuddio gan luchfëydd o dywod, fel byddin Cambyses o'r blaen, a threngu o syched. Gwaredwyd ef a'i wyr trwy gawod o wlaw pan oeddynt ar ddarfod am danynt. Ac yn wir yr oedd yr holl bethau a gymmerodd efe arno i'w gwneuthur, yn gyffelyb i'r

daith hon, mor rhyfygus a pheryglus, ag y darfuasai am dano gan-waith oni buasai rhagluniaeth yr Arglwydd yn ei gadw i gyflawni yr hyn a arfaethasai. Wedi dyfod at deml Jupiter Hammon, ac addoli yno, derbyniodd gan yr Oracl yr hysbysiad yr oedd yn ei geisio, sef ei fod yn fab Jupiter, ac felly yr hònodd ei hun wedi hyn yn ei holl lythyrau, gorchymynion, a chyfreithiau, yn Frenin Alexander mab Jupiter Hammon, gan roddi allan fod y duw hwnw ar lun sarph wedi ei genedlu o Olympias ei fam. Tra yr oedd ef ei hun yn balchïo ac yn ymffrostio yn yr ynfydrwydd gwallgofus hwn, yr oedd pawb arall yn ei ddirmygu am dano. Dangosodd lawer o greulondeb tu ag at y rhai oedd mor annoeth ag hysbysu eu hammheuaeth o'i fabolaeth o Jupiter. Cynnyddodd y dymher hon ynddo, gyd â'i lwyddiant, i'r fath radd ag i gymmeryd arno fod yn dduw, ac i ofyn addoliad gan bawb a nesai ato.

Ar ei ddychweliad o Lybia, daeth i'r fan lle yr oedd Alexandria yn dechreu cael ei hadeiladu, ac a annogodd bobl o amryw fanau i sefydlu yno, i orphen a llenwi y ddinas. Ym mhlith ereill, daeth llawer o Iuddewon yno, i ba rai y rhoddodd ryddid, nid yn unig i fwynhau eu crefydd a'u cyfreithiau, ond gwnaeth eu breintiau dinesig yn ogyfuwch a'r eiddo y Macedoniaid eu hunain, a sefydlodd efe yno. Oddi yno y dychwelodd, a gauafodd yn Memphis; ac yma yn niwedd y flwyddyn hon, sef y 4edd o Darius Codomannus, y mae *Ptolemy* yn diweddu teyrnasiad breninoedd Persia, ac yn dechreu teyrnasiad Alexander yn y dwyrain, sef o'r amser yr adeiladwyd Alexandria yn yr Aipht.

Ar ol i Alexander osod pethau mewn trefn yn yr Aipht, yn y gwanwyn o'r flwyddyn hòno, a gyfrifir yn gyntaf o'i deyrnasiad yn y dwyrain, y 4edd o'r rhyfel, y 6ed er marwolaeth ei dad Philip, a'r flwyddyn cyn geni Crist 331—prysurodd i fyned tu a'r dwyrain i chwilio am Darius. Ar ei daith trwy Palestina, daeth i Samaria, ac a roddodd bawb i farwolaeth ag oedd a llaw ym marwolaeth Andromachus ei raglaw, fel y crybwyllwyd eisoes yn hanes y Samariaid. Ac wedi gosod pethau mewn trefn yn Tyrus, a'r gwledydd cymmydogaethol, aeth gyd â'i fyddin i Thapsacus, dinas wrth yr afon Euphrates: oddi yno, aeth trwy Mesopotamia, rhwng yr Euphrates a'r Tigris, i chwilio am Darius; yr hwn oedd wedi deisyfu yn daer am heddwch dair gwaith; ond pan ddeallodd nad oedd i'w gael, ond ar yr ammod o roddi i fynu yr holl Ymerodraeth, parotôdd i ymladd brwydr arall. I'r diben hyny, casglodd ynghyd i Babilon fyddin o un cant ar ddeg o filoedd; ac oddi yno aeth tu a'r wlad lle safodd Ninifeh. Yno y canlynodd Alexander ef, ac wedi croesi yr afon Tigris, goddiweddodd ef yn ymyl pentref bach a elwid Gaugamela, lle y gorchfygodd fyddin lïosog y Persiaid â deng mil a deugain o wyr mewn gwlad agored, lle nid oedd mantais iddo oddiwrth fynyddoedd i ddiogelu ystlysau ei fyddin, fel ym mrwydr Issus. Ar ol hyn,

ymostyngodd y cyffredinolrwydd o'r taleithiau i'r buddugoliaethwr; ac o hyny allan, arglwyddiaethodd ar holl Ymerodraeth Persia. Ymladdwyd y frwydr hon yn mis Hydref, oddeutu dwy flynedd ar ol brwydr Issus. Gan fod Gaugamela yn bentref bychan o ychydig gyfrif, galwyd y frwydr olaf hon yn frwydr Arbela, y dref nesaf o ddim hynodrwydd, oddeutu deuddeng milltir oddiwrth faes y gwaed.

Ffodd Darius i Media, gan fwriadu casglu byddin arall o daleithiau gogleddol ei deyrnas, i wneuthur un cynnyg yn ychwaneg i adferu ei golled. Erlyniodd Alexander ef cyn belled ag Arbela, lle cymmerodd ei drysor a'i ddodrefn gwerthfawr; a chan fod Darius trwy gyflymdra ei ffoedigaeth wedi myned allan o'i gyrhaedd, dychwelodd i'r gwersyll; ac ar ol rhoddi ychydig orphwysdra i'w fyddin, aeth gyda hi i Babilon. Yr oedd Mazæus, llywodraethwr y ddinas hono, a'r dalaeth berthynol iddi, wedi bod yn un o gad-flaenoriaid Darius ym mrwydr Arbela; ac wedi casglu ynghyd gymmaint ag a allai o luoedd gwasgaredig y Persiaid, enciliodd gyda hwynt i'r lle hwn. Ond ar ddynesiad Alexander, ni feiddiodd ei wrthsefyll, ond traddododd ei hun iddo, ynghyd â'r cwbl oedd dan ei ofal. Yr un peth a wnaeth Bagaphanes, llywodraethwr y castell, lle y cedwid y rhan fwyaf o drysor Darius. Ar ol aros yn Babilon ddeng niwrnod ar hugain, gadawodd Mazæus, megys gwobr am ei fradwriaeth, yn y sefyllfa lle yr oedd, a Macedoniad yn llywodraethwr yn y castell; ac aeth yn gyntaf i Susa, ac oddi yno i Persepolis, pen dinas Ymerodraeth Persia, lle cyrhaeddodd oddeutu canol y Rhagfyr nesaf ar ol brwydr Arbela. Rhoddodd y ddinas i'w hanrheithio i'r milwyr, y rhai a wnaethant laddfa fawr ym mhlith y trigolion. Ni arbedwyd ond y castell a'r palas, heb effeithiau yr anrhaith hwn. Yma y gauafodd Alexander, ac ymroddodd i loddest a meddwdod, o lawenydd am ei lwyddiant a'i fuddugoliaethau. Yn un o'i wleddoedd, pan roesawodd ei gadbeniaid penaf, gwahoddodd hefyd eu gordderchadon gyda hwynt, o ba rai yr oedd Thais yn un, yr hon a fuasai yn butain gyhoedd yn Athen, yr hon, y pryd hyny, oedd yn eiddo Ptolemæus. Pan wresogwyd y gymdeithas gan win, dywedodd y ddynes hon wrth Alexander, mai gwych fyddai llosgi Persepolis, ynghyd â'r palas, i ddial y Groegiaid ar y Persiaid, yn neillduol am waith Xerxes yn llosgi Athen. Derbyniwyd hyn gyda mawr ganmoliaeth ganddynt oll; ac Alexander yn gyntaf, a'r lleill ar ei ol, wedi cymmeryd ffaglau, a ruthrasant allan, a llosgasant y cwbl hyd lawr. Ond pan sobrodd Alexander, bu edifar ganddo. Fel hyn, trwy annogaeth putain feddw, y llosgwyd gan frenin meddw, un o'r palasau godidocaf yn y byd, fel y mae yr adfeiliau yn dangos hyd heddyw, mewn lle yn agos i Shiras, a elwir Chehel-Minar, yn Persia, yr hyn yn iaith y wlad hòno sydd yn arwyddocâu, *Y deugain colofn*, am fod cynnifer, ynghyd â gweddillion ardderchog ereill o'r palas hwnw, i'w gweled etto.

Yn y gwanwyn o'r ail flwyddyn i Alexander, a 330 cyn geni Crist, ar ol i Darius ffoi i Ecbatana yn Media, a cheisio codi byddin arall, dilynwyd ef gan Alexander; yr hyn, pan glybu Darius, aeth tua Bactria, gan feddwl chwanegu ei fyddin â chynnorthwyon newydd. Ond cyn cyrhaedd yno, newidiodd ei feddwl, a phenderfynodd sefyll ei dir i ymladd brwydr â'r lluoedd oedd ganddo, sef oddeutu deugain mil, rhwng gwyr traed a marchogion. Ond pan oedd yn parotôi iddi, gwnawd ef yn garcharor gan ddau o'i bendefigion, Bessus, llywodraethwr Bactria, a Nabarzanes, y rhai, wedi ei roddi mewn cadwynau, a'i gau mewn mèn ddiddos, a ffoisant gyd âg ef tua Bactria—gan feddwl, os dilynai Alexander ar eu holau, i brynu eu heddwch trwy draddodi Darius yn fyw i'w ddwylaw—ond os na ddilynai, eu bwriad oedd ei ladd, cymmeryd meddiant o weddill ei deyrnas, ac adnewyddu y rhyfel. Pan ddaeth Alexander i Ecbatana, deallodd fod Darius wedi myned oddi yno oddeutu wyth niwrnod o'r blaen. Er hyny, dilynodd ar ei ol am un diwrnod ar ddeg yn ychwaneg, hyd oni ddaeth i Rages, dinas yn Media, am ba un y mae mynych sôn yn y llyfr Apocryphaidd Tobit. Deallodd Alexander yn y lle hwn mai gwaith ofer oedd dilyn ym mhellach ar ol Darius; gan hyny, arosodd yma dros ychydig ddyddiau i orphwys ei fyddin, ac i sefydlu ei faterion yn Media. Ac wedi gwneuthur Ocsydates, pendefig o Persia, yn rhaglaw ar y dalaeth hòno, aeth rhagddo i Parthia, lle clybu am y perygl ag yr oedd Darius ynddo oddiwrth y bradwyr hyny, yr hyn a barodd iddo brysuro ar eu hol gyda rhan o'i fyddin, gan adael y rhan arall i ddyfod ar ol, dan arweiniad Craterus. Ar ol ymlid yn ddyfal amryw ddyddiau, goddiweddodd y bradwyr, y rhai, ar hyny, a fynent i Darius fyned ar geffyl, fel y gallent ddiangc yn gyflymach. Ond gan na chaent gan Darius wneuthur hyny, hwy a'i harchollasant â llawer o glwyfau marwol, ac a'i gadawsant i farw yn y fèn. Cafodd Philistratus, un o filwyr Alexander, ef yn y cyflwr hwn; ond yr oedd wedi marw cyn i Alexander allu dyfod i'w olwg. Pan welodd ei gorph, nid allodd ymattal oddiwrth ddagrau; ac wedi bwrw ei gochl drosto, gorchymynodd ei amdoi â hi, a'i ddwyn at Sisygambis ei fam, i Susa, i gael ei gladdu yno âg arwyl freninol, yn nghladdfa breninoedd Persia, a chaniatâodd y draul oedd yn angenrheidiol. Ac felly bu diwedd y brenin Darius Codomannus, a'r Ymerodraeth ar ba un y teyrnasodd, ar ol iddi barhau, o'r flwyddyn gyntaf i Darius y Mediad, 209 mlynedd. Ond gan fod *Ptolemy*, yr Astronomydd, yn dechreu breniniaeth Alexander o'r amser yr adeiladodd efe Alexandria yn yr Aipht, yr hyn oedd ddwy flynedd o flaen marwolaeth Dariús, ni chyfrifir ond 207 mlynedd i barhad Ymerodraeth Persia. Ar ol y weithred waedlyd o ladd Darius, ffôdd Nabarzanes i Hyrcania, a Bessus i Bactria, lle y cyhoeddodd ei hun yn frenin dan yr enw Artaxerxes. Dilynodd Alexander ar ol Bessus, hyd oni ddeallodd ei fod wedi myned yn

rhy bell i'w oddiweddyd; gan hyny, dychwelodd i Parthia, ac a dderbyniodd y wlad hòno dan ei lywodraeth. Wedi hyn, darostyngodd y Mardiaid, yr Ariaid, y Drangiaid, yr Aracausiaid, ac amryw o genedloedd ereill; dros ba rai y tramwyodd yn fuddugoliaethus, yn gynt nag y medr ereill deithio, gan ddilyn ei elynion gyd â'r cyflymdra mwyaf, dydd a nos yn ddidor; fel y darfu iddo unwaith, wrth ymlid ar ol Darius, deithio 40 milltir yn y dydd am un diwrnod ar ddeg. Fel hyn, trwy gyflymder ei deithiau, daeth ar ei elynion, cyn yr oeddent yn ei ddisgwyl, ac a'u gorchfygodd cyn y gallent roddi eu hunain mewn ystum i'w wrthwynebu; yr hyn sydd yn cytuno â phrophwydoliaethau Daniel am dano (*pen.* 7. 6. a 8. 5, 6.) fel y dangosir ym mlaen.

Pan oedd Alexander ym mhlith y Drangiaid, cafwyd allan fod bradwriaeth wedi ei llunio yn erbyn ei fywyd, a bod Philotas mab Parmenio, un o'r cadbeniaid penaf yn y fyddin, yn blaenori ynddo. Am ba achos y rhoddwyd ef a'i gyfrinachwyr i farwolaeth. A pha un y meddyliodd Alexander fod Parmenio yn y cydfwriad, neu yr ofnodd ei ddïal am farwolaeth ei fab, danfonodd i Ecbatana, lle y gadawsai efe ef gyda rhan o'r fyddin i warchawd y trysor ag oedd yno, ac a barodd ei roddi i farwolaeth: yr hyn a barodd fawr anfoddlonrwydd, gan fod Parmenio wedi bod yn un o'i gynnorthwywyr penaf yn ei holl fuddugoliaethau. Ar ol hyn, aeth Alexander etto rhagddo tu a'r gogledd, gan ddarostwng pob man ar ei ffordd cyn belled a mynydd Caucasus, lle yr adeiladodd ddinas, ac a'i galwodd Alexandria, megys amryw ereill, ac a ddibenodd weithredoedd y flwyddyn hon.

Yn y gwanwyn o'r 3edd flwyddyn o deyrnasiad Alexander yn y dwyrain, a 329 cyn geni Crist, dilynodd ar ol Bessus, ac ar ol ei yru allan o Bactria, a sefydlu y dalaeth hòno dan ei lywodraeth, canlynodd ef i Sogdiana, a elwir yn bresennol Cowaresmia, ac a wahenir oddiwrth Bactria gan yr afon Ocsus, yr hon gan ei bod yn fawr a dofn, hyderodd Bessus na allai Alexander drosglwyddo ei fyddin drosti. Ond gan nad oedd un anhawsder yn anorfod i Alexander, medrodd trwy grwyn wedi eu tynlenwi, a moddion cyffelyb, gael ei holl fyddin drosodd—a chan fod canlynwyr Bessus yn anobeithio o'i achos, traddodasant ef yn rhwym i Alexander, yr hwn a'i rhoddodd yn nwylaw Ocsatres, brawd Darius, i gael ei gospi yn y modd y gwelai efe yn oreu, am ei fradwriaeth yn lladd ei frenin. Canys ar ol marwolaeth Darius, rhoddodd yr Ocsatres hwn ei hun i fynu i Alexander, yr hwn a'i derbyniodd i rifedi ei gyfeillion.

Gan fod Sogdiana yn hynod am rywogaeth dda o geffylau, bu dda i Alexander ddyfod yma, gan fod y rhan fwyaf o'r meirch yn ei fyddin, naill ai wedi eu lladd, neu yn annefnyddiol trwy barhad a chyflymdra ei deithiau. Er hyny, ni lwyddodd gymmaint yma ag yn y taleithiau ereill. Canys nid oedd yn bresennol yn ymladd â'r Babiloniaid a'r Pers-

iaid mursenaidd, ond â'r Sogdiaid, y Dahiaid, a'r Massagetiaid, pobl wrol a chaledion, y rhai nid oeddynt i'w gorchfygu ond trwy lawer o anhawsdra. Gan hyny, rhoddodd y dalaeth hon waith blwyddyn i'w darostwng. Yr oedd ei sefyllfa ar yr ochr ddwyreiniol i Fôr Caspia, rhwng yr Afon Ocsus yn y dehau, a'r afon Orcsantes yn y gogledd. Pen dinas Sogdina oedd Maracanda, dinas o ddeng milltir oddi amgylch, yr un a elwir yn bresennol Samarcand, ag sydd yn ben dinas gwlad y Tartariaid Usbec. Yn y wlad yma, oddeutu dechreu y gauaf o'r flwyddyn uchod, lladdodd Alexander ei gyfaill Clitus, yn nghynddaredd ei feddwdod, wedi cael ei gynhyrfu trwy ei eiriau coegion ammharchus, am ba un y beiodd arno ei hun, ac nid heb achos, canys un o'r gweithredoedd mwyaf ysgeler ydoedd o'i holl fywyd. Ar ol darostwng y Sogdiaid, a chynnifer o'r Bactriaid ag oedd wedi gwrthryfela yn ei erbyn, rhoddodd ei fyddin yn ei gauaf-leoedd yn Nautaca dros dri mis.

Yn y 4edd flwyddyn i Alexander, cyn geni Crist 328, pan oedd yn gorwedd yn Nautaca, ac wedi ei ryddhau mewn mesur oddiwrth flinderau rhyfel, syrthiodd mewn cariad a phriododd Roxana, merch Ocsyathres, pendefig o Persia, yr hon oedd un o'r caeth-bendefigesau yn ei wersyll. Yr oedd yn un o'r merched glanaf yn ei hamser, ac yn un o'r mwyaf drygionus, fel yr ymddangosodd wedi hyny oddiwrth ei gweithredoedd, yn neillduol oddiwrth ei gwaith yn lladd merched Darius. Siampl Alexander a fu yn annogaeth i amryw o'r Macedoniaid penaf yn ei fyddin i briodi rhai o'r pendefigesau Persiaidd. Felly y digwyddodd i'r rhan fwyaf o'r gauaf hwnw gael ei drenlio mewn gwleddoedd priodas.

Ond tra yr oedd y pethau hyny yn myned ym mlaen yn y gwersyll, yr oedd pen Alexander ar waith yn llunio cyrch i'r India, fel na byddai ddim yn ol i Bacchus a Hercules, dau o feibion Jupiter, am y rhai y darllenasai yn yr hanesion Groegaidd eu bod wedi arwain byddinoedd i India. A chan ei fod yntau wedi cael ei gyhoeddi yn fab i Jupiter, yr oedd am wneuthur yr un peth; ac yr oedd ganddo ddigon o wenieithwyr yn ei annog i hyny. Oddeutu y pryd hyn y dechreuodd ofyn addoliad megys duw, ac a orchymynodd fod i bawb a ddeuai i'w ŵydd ei addoli, megys y gwnaethant i freninoedd Persia. Ond yr oedd yr ymddygiad hwn yn bur anghymmeradwy gan ei hen gyfeillion, ond nid gan neb yn fwy na Calisthenes y Philosophydd. Yr oedd efe yn gâr i Aristotle, athraw Alexander, ac a ddanfonwyd ganddo i fod gyd â'r buddugoliaethwr ieuangc i'w addysgu pan oedd yn dechreu ar y rhyfel Persiaidd. A chan mai i'r diben hwnw yr oedd yn aros gyd âg Alexander, sef i'w gynghori, a'i ragflaenu rhag pob peth ag oedd yn anaddas iddo, meddyliodd mai ei ddyledswydd oedd dangos iddo y ffolineb a'r ynfydrwydd o fynu addoliad gan ei ddeiliaid. Ond gan na allai Alexander oddef ei hyfdra yn y peth hwn, parodd ei roddi i farwolaeth; yr hon oedd y

weithred ag oedd yn pwyso drymaf ar ei enw da o bob peth a wnaethai, nesaf at ladd Clitus; ac yn wir, os bernir yn iawn, yr oedd yn waeth na hòno; canys pan laddodd Clitus, yr oedd wedi ei wresogi gan win, ac wedi ei gyffroi gan enllib ei dafod, ond gorchymynodd ladd Calisthenes mewn gwaed oer am wneuthur ei ddyledswydd.

Ond cyn iddo gychwyn ar ei gyrch i India, tra bu yn gauafu yn Nautaca, symudodd amryw o lywodraethwyr y taleithiau ag oedd wedi bod yn euog o orthrymu y deiliaid, ac a ddiwygiodd bob peth ag oedd yn eu dolurio, fel na byddai dim achos cyfiawn i derfysgu, a chodi i fynu yn erbyn ei awdurdod mewn un rhan o'r Ymerodraeth yn ei absennoldeb. Cymmerodd ddeng mil ar hugain o feibion penaethiaid y gwledydd a ddarostyngasai, i'w gynnorthwyo yn ei ryfel newydd, ac fel y byddent yn wystlon o ufudd-dod eu rhieni gartref. Yr oedd ei fyddin wrth gychwyn i India, yn chwech ugain mil, o Roegiaid a Phersiaid, heblaw pymtheng mil a adawodd gyd âg Amyntas yn Bactria, i gadw y parthau hyny yn llonydd. Yr oedd llawer o wledydd y pryd hyny o'r tu yma i'r afon Indus ag oedd yn cael eu priodoli i India; yn narostyngiad pa rai y treuliodd yr holl flwyddyn hon; rhai o honynt a orchfygodd, ac ereill a ymostyngasant iddo. Ond nid oedd neb yn rhyngu bodd iddo yn well na'r rhai ag oedd yn ei groesawu megys trydydd mab Jupiter—mor bell yr oedd wedi meddwi â'r dyb wag ac ynfyd o fod yn fab i'r duw dychymmygol hwnw. Ym mhlith y rhai a orchfygodd trwy orthrech, oedd yr Assacaniaid. Ond Cleophis, brenines y wlad, yr hon oedd wraig lân yr olwg, a ryddhaodd ei gwlad trwy ddarostwng ei chorph i drythyllwch Alexander, yr hyn a'i gwnaeth mor warthus ym mhlith yr Indiaid, fel na chafodd ganddynt wedi hyny well enw na'r butain freninol. Ganwyd iddi fab o Alexander, a enwyd ar ol enw ei dad, ac a deyrnasodd ar y parthau hyny, a'i hiliogaeth ar ei ol, dros lawer o genedlaethau.

Yn y 5ed flwyddyn i Alexander, a'r flwyddyn 327 cyn geni Crist, yn gynnar yn y gwanwyn, croesodd yr afon Indus, ar bont o gychod, ac oddi yno aeth tu a'r afon Hydaspes. Rhwng y ddwy afon yr oedd breniniaeth Taxiles, yr hwn a ymostyngodd iddo. Ond o'r tu hwnt i'r afon Hydaspes yr oedd breniniaeth Porus, tywysog gwrol a galluog, yr hwn a ddaeth yn ei erbyn â byddin luosog. Ar ol i Alexander groesi yr afon hòno, ymladdwyd brwydr waedlyd, ym mha un, ar ol lladdfa fawr, y gorchfygwyd byddin Porus, ac efe ei hun a gymmerwyd yn garcharor. Ond Alexander, wedi sylwi ar fawrfrydwch a gweddeidd-dra ei ymddygiad yn ei adfyd, a'i hadferodd i'w freniniaeth, ac a chwanegodd ati, trwy roddi iddo yr holl wlad ag oedd rhwng y ddwy afon Acesinis a Hydraotes, i'r dwyrain i freniniaeth Porus. Wedi croesi yr Hydraotes, teithiodd hyd at yr afon Hyphasis; ac oddi yno, bwriadodd fyned cyn belled a'r afon Ganges. Ond gorfu iddo ymattal rhag myned ym mhell-

ach, gan na fynai ei filwyr ei ganlyn yn hŵy yn ei ymdaith ynfyd a gwallgofus. Gan hyny, wedi codi deuddeg o allorau mawrion ar lan yr afon Hyphasis, yn goffadwriaeth o'i fod yno, teithiodd yn ol at yr Hydaspes, ac a adeiladodd ddinas yn y fan lle gorchfygodd Porus, ac a'i galwodd Nicea, i goffâu ei fuddugoliaeth; ac un arall yn agos iddi dan yr enw Bucephala, er coffadwriaeth am ei geffyl Bucephalus, a fu farw yno. Wrth groesi yr afon Indus y waith gyntaf, rhoddasai orchymyn i barotôi llestri mewn amryw fanau, y rhai, pan ddygwyd at eu gilydd, oedd lynges o ddwy fil o rifedi, o bob maintioli, dan lywodraeth Nearchus. Gorchymynodd Alexander gludo y llynges hon at yr afon Hydaspes, ac wedi rhoddi ei fyddin ynddi, hwyliodd i lawr yr afon hòno i'r Acesenis, ac ar hyd hòno i'r Indus, gan fwriadu dwyn ei arfau a'i fuddugoliaethau cyn belled a'r môr trwy y parthau deheuol o India, ac wedi hyny i ddychwelyd i Babilon. Ar ei ffordd, rhyfelodd â dwy genedl ddewrwych, sef yr Ocsidraciaid a'r Maliaid. Yr oedd y gyntaf yn preswylio lle yr oedd yr Hydaspes yn syrthio i'r Acesinis; a'r olaf lle yr oedd yr Acesinis yn syrthio i'r Indus. Darostyngodd bob un o'r rhai hyn, ond nid heb lawer o anhawsder. Tra yr oedd yn gwarchae ar un o ddinasoedd y Maliaid, bu agos iawn i golli ei fywyd; canys wedi dringo y mur, neidiodd yn rhyfygus i lawr i'r ddinas, ac a glwyfwyd yn agos i farwolaeth cyn y gallodd un o'i ganlynwyr ddyfod i'w gynnorthwyo. Oddi yno, hwyliodd i lawr yr Indus cyn belled a'r môr, gan orchfygu y gwledydd o bob tu i'r afon.

Wrth sefydlu y gwledydd a oresgynasai dan ei lywodraeth, rhoddodd orchymyn i Nearchus, gyda chynnifer o'r llongau ag oeddynt addas i'r fordaith, i hwylio trwy lyngclyn Persia at geg yr afon Euphrates, ac i fynu yr afon hòno i Babilon, tra fyddai efe yn teithio gyd â'r fyddin ar hyd y tir i'w gyfarfod. Cymmerodd ei daith trwy daleithiau deheuol Persia, rhan fawr o'r rhai oedd ddiffrwyth, ac yn llawn o anial-diroedd tywodog. O herwydd hyny, collodd ran fawr o'i fyddin, trwy syched, a newyn, a gwres mawr, fel nad oedd ganddo fwy na'r bedwaredd ran o honi pan ddaeth i Babilon. Ar ei ddyfodiad i Carmania (yn ei 7fed flwyddyn, a 325 cyn geni Crist) teithiodd dros saith niwrnod trwy y dalaeth hòno, gan ymroddi gyd â'i filwyr i feddwdod a phob rhyw ormod rhysedd, ar ddull addolwyr y duw cenedlig Bacchus, mewn ffordd o orfoledd am ei fuddugoliaethau yn India. Canys clywsai fod Bacchus wedi dychwelyd mewn cyffelyb fodd o'i gyrch i'r wlad hòno.

Pan oedd Alexander yn Carmania, clybu am lawer o orthrymderau a ddioddefodd ei ddeiliaid oddiar ddwylaw ei raglawiaid tra bu yn absennol yn India. Y rhai hyn a roddodd efe i farwolaeth, ynghyd â chwe chant o'r milwyr ag oedd offerynau i'w trais a'u gorthrymder; a thrwy hyny, gwnaeth ei lywodraeth mewn mesur mawr yn gymmeradwy i'r gwledydd a oresgynasai.

Pan ddaeth Alexander i Pasargada, cafodd allan fod beddrod Cyrus wedi ei yspeilio o'r trysor oedd ynddo. A chan nad allai gael allan pwy oedd yr yspeilydd, er holi y Magiaid, y ceidwaid, trwy boenau, cyhuddwyd Orsines, llywodraethwr y dalaeth, trwy gam, gan Bagoas, hoff eunuch Alexander, yr hwn a arferid ganddo i wneuthur brynti. Rhoddwyd y Bagoas hwn i Alexander gan Nabarzanes, un o leiddiaid Darius; a thrwy y rhodd hon i ddibenion ysgeler yr achubodd ei fywyd. Yr oedd Orsines yn bendefig anrhydeddus ag oedd wedi gwneuthur llawer o wasanaeth i Alexander, ac ar ei ddyfodiad i'r dalaeth wedi ei anrhegu ef a'i ganlynwyr â rhoddion o werth llawer o filoedd o dalentau. Ond ni roddodd ddim i Bagoas, gan ddywedyd, 'Ei fod yn chwennych anrhydeddu cyfeillion y brenin, ac nid ei Sodomiaid.' Ffromodd yr eunuch yn ddirfawr am hyn, ac a fwriadodd ddinystr Orsines. Wedi cael yr achlysur a soniwyd, cyfleodd gau dystion i'w gyhuddo o yspeilio beddrod Cyrus, a llawer o bethau ereill, ac ni orphwysodd nes cael gan Alexander ei roddi i farwolaeth, yr hon a fernir yn un o'r mwyaf ysgeler o'i weithredoedd.

O Pasargada daeth i Persepolis, lle galarodd am ei ynfydrwydd yn llosgi y ddinas hòno. Oddi yno, teithiodd tua Susa. Ar ei ffordd tu ag yno, cyfarfu â Nearchus a'r llynges; canys y llong-lywydd hwnw, wedi hwylio trwy lyngclyn Persia, ac i fynu yr afon Euphrates, y glywodd fod Alexander ar ei daith yn dyfod tua Susa; gan hyny, hwyliodd yn ol at geg yr afon Pisitigris (yr hon a elwir felly, tybygid, oddiwrth gymmysgiad dyfroedd y ddwy afon, Pison a Hidecel, neu Tigris, â'u gilydd) ac oddi yno i fynu yr afon hòno, at bont yr oedd Alexander i fyned drosti. Yma y cyfarfu byddinoedd y môr a'r tir â'u gilydd. Am hyn yr offrymodd Alexander aberthau o ddiolchgarwch i'w dduwiau, a bu llawenydd mawr yn y gwersyll, ac anrhydeddwyd Nearchus yn ddirfawr am ei arweiniad llwyddiannus o'r llynges trwy gynnifer o beryglon i'r lle hwnw.

Pan ddaeth Alexander i Susa, lle gadawsai y pendefigesau Persiaidd a gaethgludasai, prïododd Statira, merch hynaf Darius, ac a roddodd yr ieuengaf a elwid Drybetes i Hephestion, y penaf o'i gyfeillion; ac yn y cyfamser, rhoddodd y rhan fwyaf o'r lleill, oddeutu cant o rifedi, mewn prïodas i'r penaethiaid ag oedd yn ei fyddin. Gan fod y rhai hyn yn ferched i bendefigion penaf Ymerodraeth Persia, gobeithiodd trwy y prïodasau hyn i uno y Groegiaid a'r Persiaid â'u gilydd yn un genedl dan ei lywodraeth. Cynnaliwyd gwleddoedd prïodas gyda llawer o loddest dros bum niwrnod. Talodd Alexander waddol y pendefigesau o'i drysorau ei hun; ac ar yr un pryd, rhoddodd wobrau helaeth i'r milwyr oedd wedi haeddu oreu ar ei law yn ei ryfeloedd, ac a dalodd ddyledion yr holl filwyr yn ei fyddin hyd ddeng mil o dalentau; ond yn ol *Justin* ac *Arrian*, hyd ugain mil o dalentau. Y symiau hyn, gyd âg

ereill a dreuliodd ar amryw achlysuron, a ddygodd allan o drysorau Darius. Canys o honynt yr oedd wedi rhoddi i gadw yn Ecbatana, yn unig, gant a phedwar ugain a deg o filoedd o dalentau (yr hyn oedd ychwaneg na phymtheg miliwn ar hugain o bunnau o'n harian ni) heblaw yr hyn oedd ganddo yn Babilon, a manau ereill yn yr Ymerodraeth.

Ar ol darfod rhwysg y priodasau, gadawodd gorph mwyaf y fyddin dan ofal Hephestion; a chyd â'r rhan arall, hwyliodd i lawr yr afon Euleus (Ulai, *Dan.* 8. 2, 16. ar làn pa un yr oedd Susa) i lyngclyn Persia, ac oddi yno i fynu yr afon Tigris hyd y ddinas Opis, lle cyfarfu âg Hephestion. Yma y cyhoeddodd trwy yr holl fyddin fod cenad i'r holl Facedoniaid hyny, ag oedd trwy glwyfau ac henaint yn analluog i ryfela, fyned adref i'w gwlad. Ac hysbysodd iddynt ym mhellach ei fod am eu gollwng ymaith gyda gwobrau, a gosgordd i'w diogelu ar y ffordd. Bwriadodd Alexander hyn fel cymwynas iddynt; ond ei filwyr a roddasant liw arall ar y mater, gan hòni ei fod am ymadael â'i gydwladwyr i roddi lle i'r milwyr newydd a godasai o'r taleithiau goresgynedig. Dywedasant, os danfonai rai, yr âi y cwbl adref, ac y cai ef a'i dad Hammon ymladd ei frwydrau eu hunain o'u rhan hwy. Oddiwrth y siampl hon ac ereill yr ymddengys, er cymmaint yr oedd Alexander yn ymffrostio o'i dad dychymmygol Jupiter, fod ei filwyr, fel pawb ereill, yn ei ddirmygu am ei ynfydrwydd. Yr oedd y dymher derfysgaidd hon wedi bod yn magu ynddynt er ys cryn amser. Yr oeddynt yn anfoddlon am ei fod wedi ymroddi i arferion a gwisgiadau y Persiaid, ac o herwydd y priodasau â phendefigesau o'r genedl hòno. Ond yn fwyaf neillduol am iddo gymmysgu y gwyr a godasai o'r taleithiau goresgynedig â'i filwyr Macedonaidd, a dyrchafu y Persiaid i leoedd o anrhydedd ac ymddiried, yn y fyddin a'r taleithiau, yn gystal a'r Macedoniaid. Cospodd Alexander rai o honynt; ond gan nad oedd hyn yn cael effaith i ddarostwng y lleill i ufudd-dod, ciliodd i'w babell, ac a gauodd arno dros ddeu-ddydd. Wedi hyny, ar y trydydd dydd, galwodd ei filwyr newydd o Asia ato, ac a ymddiddanodd yn garedigol â hwy (gan gau y Macedoniaid allan) ac a ddewisodd ei osgordd o honynt. Effeithiodd hyn i ddwyn y terfysgwyr i well tymher; canys wrth weled eu hunain yn cael eu hesgeuluso a'u hamddifadu o'r ffafr a'r caredigrwydd yr oeddynt arferol o fwynhau, daethant at ddrws ei babell â dagrau o edifeirwch, ac a arosasant yno dros ddeuddydd, gan wneuthur ymbiliau gostyngedig am ei faddeuant a'i ffafr. Llwyddodd hyn i beri iddynt ar y trydydd dydd gael derbyniad i'w bresennoldeb, a'i gymmod; ac o hyny allan, ni welwyd ynddynt ddim arwyddion o derfysg na gwrthryfel yn ei erbyn ar un achos.

O Opis aeth Alexander gyd â'i fyddin i Ecbatana yn Media. Yma y collodd ei hoff gyfaill Hephestion, yr hwn a fu farw o dwymyn a ddyg-

odd arno ei hun trwy yfed i ormodedd. Canys yr oedd Alexander gyd â'i ganlynwyr y pryd hyn wedi ymroddi i feddwdod, gan yfed ddyddiau a nosweithiau cyfain. Dywedir fod deugain o honynt ar un tro wedi yfed eu hunain i farwolaeth. Dangosodd Alexander alar mawr ar ol ei gyfaill Hephestion, ac a'i claddodd gyd âg anrhydedd a thraul anghymmedrol, ac hefyd â chreulondeb digyffelyb. Canys parodd groeshoelio ei feddyg, am nad allai feddyginiaethu yr hwn na fynai ufuddhau i'w reolau trwy ymattal oddiwrth gig a gwin a waharddwyd iddo yn ei glefyd.

Yn nechreu ei 8fed flwyddyn, a 324 cyn geni Crist, i gael rhyw ddifyrwch yn ei alar am ei gyfaill, arweiniodd Alexander ei fyddin yn erbyn y Cosseaid, cenedl ryfelgar yn mynyddoedd Media, yr hon nid allai yr un o freninoedd Persia ei darostwng. Wedi eu gorchfygu mewn rhyfel o 40 niwrnod, dychwelodd dros yr afon Tigris tu a Babilon. Pan oedd yn agosâu at y ddinas, danfonodd y Magiaid a brudwyr ereill gynghor ato i beidio dyfod i mewn iddi, gan fod amryw arwyddion yn dangos y byddai ei ddyfodiad yn angeuol iddo. Ond gan ddiystyru y rhybuddion hyn, aeth i mewn i'r ddinas gyd â'i holl fyddin; lle cafodd genadon bron o bob cwr o'r byd yn disgwyl am dano; i ba rai y rhoddodd atebion mewn trefn i bob un yn ei gylch, ac a ofalodd am eu danfon ymaith o'i ŵydd wrth eu bodd.

Tra yr arosodd yn Babilon (yr hyn oedd agos i yspaid blwyddyn cyn ei farw) bwriadodd wneuthur llawer o bethau mawrion; un peth oedd hwylio oddi amgylch Affrica; peth arall oedd chwilio allan y Môr Caspia, a'r gwledydd oddi amgylch iddo. A thu ag at gyflawni y ddau fwriad hyn, yr oedd wedi parotôi llyngesi. Peth arall oedd darostwng yr Arabiaid; a'r pedwerydd peth oedd rhyfela yn erbyn y Carthaginiaid; ac i ddwyn ei fuddugoliaethau cyn belled a cholofnau Hercules (hyny yw, hyd eithaf yr Hispaen tu a'r gorllewin) gan fod ynddo awydd mawr i ddynwared yr arwr hwnw o'r beirdd Groegaidd. Heblaw hyn oll, yr oedd wedi bwriadu adgyweirio ac adferu Babilon i'w hardderchogrwydd gynt. Gan fod Babilon yn rhagori ar bob man arall yn y dwyrain o ran maintioli, ac amlder o bob peth ag oedd yn gweini at angenrheidiau a chysuron bywyd, meddyliodd am ei gwneuthur yn freninllys ei deyrnas; ac i'r diben hwnw, aeth ynghylch y gorchwyl o ddiwygio y pethau ag oedd wedi ammharu. Yr oedd rhan fawr o'r wlad oddi amgylch Babilon wedi boddi, trwy waith Cyrus yn tòri trwy dorlanau yr afon Euphrates, i'w sychu wrth Babilon, pan gymmerodd efe y ddinas hòno. Ac ni cheisiodd Cyrus, nac un o freninoedd y Persiaid ar ei ol (o'u gelyniaeth i'r Babiloniaid) feddyginiaethu y niwed a wnaed i'r dalaeth, i'r ddinas, ac i longwriaeth yr afon. Ymroddodd Alexander yn y lle cyntaf i ddiwygio hyn, ac wedi codi i fynu dorlanau yr afon dros bedair milltir, bu farw cyn i'r gwaith gael ei orphen, ac ni

ofalodd neb am dano ar ol hyny, gan ei fod, y mae yn debygol, yn fwy gorchwyl nag oedd hawdd i'w gwblhau. Ond yr hyn y rhoddodd ei fryd arno fwyaf oedd ail adeiladu teml Belus, neu Bel, yr hon a ddinystriasai Xerxes (fel y soniwyd) ar ei ddychweliad o dir Groeg. Yn y lle cyntaf, gorchymynodd arloesi y lle o'r adfeiliau a'r malurion; ond er fod deng mil o'i filwyr, heblaw y Magiaid, ar waith bob dydd dros ddau fis hyd ei farwolaeth, nid oedd y malurion wedi eu cludo ymaith, yr hyn sydd yn dangos mawredd yr adeiladaeth hòno. Pan ddaeth cylch yr Iuddewon oedd filwyr ym myddin Alexander i weithio yn y gwaith hwn, ni ellid mewn modd yn y byd gael ganddynt roddi cu dwylaw ato, gan nad oedd eu crefydd yn caniatâu iddynt wneuthur un peth tu ag at adeiladu teml eilunod. Ac er i amryw gospedigaethau tost gael eu rhoddi arnynt, etto parhausant i gyd yn ddiysgog yn eu bwriad; gan hyny, Alexander, wedi rhyfeddu wrth eu ffyddlondeb, a'u gollyngodd o'u gwasanaeth, i fyned i'w gwlad eu hunain.

Treuliodd Alexander y rhan fwyaf o'i amser yn Babilon trwy ymroddi i bleserau a moethau y lle, yn enwedig yfed i ormodedd, weithiau dros ddyddiau a nosweithiau cyfain yn ddidor, hyd oni ddygodd arno ei hun dwymyn, o ba un y bu farw ym mhen ychydig ddyddiau, yn yr un modd a'i gyfaill Hephestion. Digwyddodd ei farwolaeth oddeutu canol y gwanwyn o'r flwyddyn cyn geni Crist 323, ar ol iddo deyrnasu wyth mlynedd ar Ymerodraeth Persia, a deuddeng mlynedd a hanner ar ol marwolaeth ei dad Philip, ac yn y 33ain flwyddyn o'i oed. Aeth y gair allan ei fod wedi marw o wenwyn, ond heb fawr o sail iddo. Wedi bod yn eistedd yn hir mewn cyfarfod o gyfeddach a meddwdod, yn union-gyrch gwahoddwyd ef i un arall lle yr oedd ugain yn y gymdeithas; wedi yfed ddwywaith at bob un o honynt, galwodd am y gwpan Herculeaidd, yr hon oedd yn cynnwys chwe chwart o'n mesur ni; efe a'i hyfodd yn llawn at un Proteas, Macedoniad, ac ym mhen ychydig, yfodd ato drachefn yn yr un gwpan. Yn union ar ol yfed y gwpanaid olaf, syrthiodd i lawr yn y fan, ac wedi hyny i dwymyn poeth, o ba un y bu farw.

Ac felly dibenwyd holl fwriadau y tywysog mawr a gwag-ogoneddgar hwn. Ni chafodd neb fwy o lwyddiant nag ef, gan iddo, mewn deuddeng mlynedd a hanner, ddarostwng dan ei lywodraeth yr holl wledydd o fôr Adria hyd o fewn ychydig i'r afon Ganges, yr hyn oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r byd ag oedd y pryd hyny yn adnabyddus. Ac er fod y rhan fwyaf o'i weithredoedd yn ymddangos yn rhyfygus, etto llwyddodd ynddynt oll, gan ei fod yn ddiarwybod yn cyflawni bwriadau yr Arglwydd.

PENNOD XII.

*Eglurhad o'r Prophwydoliaethau perthynol i'r Mediaid a'r Persiaid, ac Alexander Fawr.**

Gelwir Media a Phersia dan yr enwau Cir ac Elam yn *Esa.* 22. 6. Yr oeddent dan lywodraeth breninoedd Assyria, a'u milwyr yn gwasanaethu ym myddinoedd Senacherib pan ddaeth yn erbyn Jerusalem yn amser Hezeciah brenin Judah, fel y gellir casglu oddiwrth *Esa.* 22. ond taflodd y Mediaid, a'r Persiaid hefyd, y mae yn debygol, iau brenin Assyria, ar ol dinystrio ei fyddin, a'i encil gwarthus o wlad Judea, fel y soniwyd eisoes.

Cafodd Daniel amryw olygiadau prophwydoliaethol ar freniniaeth y Mediaid a'r Persiaid. Yn ngweledigaeth y ddelw fawr a welodd Nebuchodonosor, ac a ddehonglodd Daniel, *(pen.* 2.) 'ei dwyfron a'i breichiau o arian' yw y freniniaeth hon. Y mae y weledigaeth o'r ddelw fawr, yn dangos y byddai dirywiaeth yn y pedair breniniaeth ag sydd yn cael eu dal allan ynddi, yr ail o lai o werth na'r gyntaf, a'r drydedd na'r ail, a'r bedwaredd na'r drydedd, o ran rhinweddau moesol—canys hyny yw natur dynol-ryw o ymlygru fwy-fwy hyd oni ddiwygir hwy trwy yr efengyl. Er nad oedd y Babiloniaid i'w canmol am eu rhinweddau, etto yr oeddynt fel aur mewn cymhariaeth i freniniaeth y Mediaid a'r Persiaid, yr hon a gyffelybir i arian. Y mae y ddwy-fron a'r ddwy-fraich yn cyfateb i'r ddeu-bar bobl.

Yn y weledigaeth a gafodd Daniel o'r pedwar bwystfil mawr *(pen.* 7.) ag sydd yn dal allan y pedair breniniaeth ag oedd i effeithio mewn amryw ddull ar gyflwr yr eglwys yn ei hamrywiol amseroedd—yr ail fwystfil sydd yn dal allan freniniaeth y Mediaid a'r Persiaid. *Adn.* 5. 'Ac wele anifail arall, yr ail, yn debyg i arth, ac efe a ymgyfododd ar y naill ystlys, ac yr oedd tair asen yn ei safn ef rhwng ei ddannedd, ac fel hyn y dywedent wrtho, Cyfod, bwyta gig lawer.' Cyffelybir y freniniaeth

---

* Yn y ddelw aur a welodd Nebuchodonosor *(Dan.* 2.) y mae y pen aur (*adn.* 32, 38.) yn arwyddocâu breniniaeth y Babiloniaid, neu y Caldeaid, yr hon oedd ddilyniad o hen freniniaeth yr Assyriaid, pen dinas pa un a fuasai Ninifeh, hyd oni ddinystriwyd hi gan y Mediaid a'r Babiloniaid, fel yr adroddwyd eisoes. Wedi hyny, Babilon a fu yn ben dinas hyd oni chymmerwyd hi gan Cyrus. Yr ail freniniaeth oedd y Mediaid a'r Persiaid, a arwyddocêir gan y ddwyfron a'r breichiau o arian. *(Adn.* 32.) Y bol a'r morddwydydd o bres sydd yn arwyddocâu y drydedd freniniaeth, sef y Groegiaid, yr hon a ddechreuodd gyda theyrnasiad Alexander Fawr yn y dwyrain. Y coesau o haiarn (*adn.* 33.) sydd yn dal allan y bedwaredd freniniaeth, sef y Rhufeiniaid. Y traed, yn cynnwys y bysedd mewn rhan o haiarn; ac mewn rhan o bridd, sydd yn arwyddocâu dilyniad o freniniaeth y Rhufeiniaid, mewn deg breniniaeth, y rhai sydd yn parhau hyd heddyw, am ba rai y ceir achos i sylwi ychwaneg ym mlaen.

hon i 'arth,' yr hwn sydd fwysfil ysglyfaethus a gwangcus, o herwydd ei greulondeb. 'Ymgyfododd ar y naill ystlys,' gan fod y breninoedd i gyd o genedl y Persiaid ar ol y cyntaf, sef Cyaxares, neu Darius y Mediad, yr hwn a fu farw ar ol teyrnasu ddwy flynedd. 'Ac yr oedd tair asen yn ei safn ef rhwng ei ddannedd.' Wrth y tair asen, yn ol barn *Jerome*, *Vatablus*, ac ereill, y golygir y Mediaid a'r Persiaid, ynghyd â'r Babiloniaid, y rhai oedd ddeiliaid y freniniaeth hon. 'Ac fel hyn y dywedent wrtho, Cyfod, bwyta gig lawer.' Y mae y prophwyd Esaiah (*pen.* 13.) yn prophwydo am ddinystr Babilon, a chreulondeb y Mediaid, ac y mae yn hysbys fod y Persiaid yn gynnorthwyol iddynt yn y gorchwyl hwnw. 'Ei bwäau a ddryllia y gwyr ieuaingc, ac wrth ffrwyth bru ni thosturiant: eu llygaid nid eiriach y rhai bach.' *Adn.* 18. Yr oedd Cambyses, Ochus, ac ereill o freninoedd Persia, yn debycach i eirth na dynion. Y mae *Calmet* (ar Daniel) yn sylwi fod llywodraeth y Persiaid yn fwy llym-dost a chreulon nag un arall a wyddom am dani. Y mae y cospedigaethau a arferid ganddynt yn peri arswyd wrth ddarllen am danynt. Etto, er creuloned oeddent, y mae yn rhaid barnu, mai yr Arglwydd mewn cyfiawnder sydd yn rhoddi y gorchymyn, 'Cyfod, bwyta gig lawer.' Efe a barodd iddynt gyfodi o iselder i ddyrchafiad a chadernid mawr, ac a'u gwregysodd er nad adwaenent ef (*Esa.* 45. 5.) i gospi cenedloedd pechadurus, ag oedd wedi addfedu i'r farn a ddaeth arnynt. Ond er fod amryw o freninoedd Persia fel eirth gwangcus yn ysglyfaethu pawb ereill, etto rhoddodd yr Arglwydd yn nghalonau rhai o honynt i fod fel tadmaethod tirion i'w bobl yr Iuddewon, sef Darius y Mediad, Cyrus, Darius Hystaspis, ac Artaxerxes, gwr y frenines Esther; ac attaliodd gynddaredd y lleill yn y fath fodd fel na wnawd fawr o niwed i'r genedl Iuddewig tra parhaodd breniniaeth y Persiaid.

Ar ol i Daniel gael gweledigaeth o'r pedair breniniaeth dan rith pedwar o fwystfilod mawrion, cafodd weledigaeth arall oddeutu dwy flynedd wedi hyny, yn y 3edd flwyddyn i Belsassar, a 553 cyn geni Crist, ym mha un y darlunir dwy o'r breniniaethau hyny, sef y Mediaid a'r Persiaid, a breniniaeth y Groegiaid. *Dan.* viii. Ein gwaith yn bresennol a fydd sylwi ar gymmaint o'r weledigaeth ag sydd yn perthyn i'r hwrdd deu-gorn, a'r bwch geifr un-gorn, er mwyn dangos cyflawniad y brophwydoliaeth yn yr hanes a roddwyd yn y bennod o'r blaen. Ni fydd yn anaddas i sylwi ar ddoethineb a daioni yr Yspryd Glân, yn rhoddi i'r eglwys amrywiol a gwahanol olygiadau o'r breniniaethau hyny yr oedd yr Arglwydd am wneuthur yn offerynau yn ei law i ymgeleddu ac i geryddu ei bobl, dros lawer o oesoedd a chenedlaethau hyd yr amser presennol, a thros rywfaint o amser etto i ddyfod, fel y gellid eu hadnabod yn well, a gweled llaw yr Arglwydd, a chyflawniad ei air, yn y cyfnewidiadau mawrion ag oedd i gymmeryd lle yn nadymchweliad breniniaethau, a dyrchafiad ereill yn eu lle;—yn neillduol i ddangos,

er ei chysur, y byddai yr eglwys yn ddiysgog yn nghanol y terfysgiadau a'r ystormydd garwaf, trwy yr Arglwydd ei chynnaliwr. Canys er i'r Ymerodraethau cadarnaf gael eu treiglo fel mynyddoedd i ganol y môr, ac fel man ûs eu cipio gan gorwynt, etto eglwys Crist, sef teyrnas y gareg, a saif yn nghanol ystormydd, ac wedi gweled diwedd ar yr holl elynion ag oedd yn attal ei llwyddiant, a gynnydda nes bod fel mynydd mawr yn llenwi yr holl ddaear. *Ps.* xlvi. *Dan.* 2. 35. *Dat.* 16. 20.

Yr oedd Daniel y pryd hyn yn nhalaeth Elam, neu Persia briodol, yn Susan, neu Susa, pen dinas y wlad hòno, yn gwneuthur gorchwyl y brenin, hyny yw, cyflawni swydd rhaglaw i'r brenin; ac wedi myned tua glan afon Ulai, neu Eulæus, i fyfyrio, ac i addoli Duw yn y dirgel, fel y gellir barnu (*Dan.* 8. 2.) cafodd weledigaeth o hwrdd deu-gorn, a'r ddau gorn oedd uchel, ac un yn uwch na'r llall, a'r uchaf a gyfodasai yn olaf. *Adn.* 3. Y mae corn yn arwydd o ddyrchafiad, gallu, a gogoniant, yn gyffredin yn yr Ysgrythyrau.

Yn y prophwydoliaethau y mae corn yn arwyddocâu brenin, neu freniniaeth. Y mae yr hwrdd deu-gorn yn arwyddocâu breniniaeth y Mediaid a'r Persiaid, fel y mae yr angel yn esponio. *Dan.* 8. 20. Yr oedd y ddau gorn wedi tyfu yn uchel trwy ddarostwng y Babiloniaid. Yr oedd un corn yn uwch na'r llall, a'r uchaf a gyfodasai yn olaf. Y mae yn eglur mae y Persiaid a feddylir wrth hwn, canys, wedi marw Darius y Mediad, teyrnasodd Cyrus y Persiad, a Phersiaid oedd ei ddilynwyr yn y freniniaeth tra parhaodd. Ac yn Persia yr oedd y pen dinas, yn gyntaf Susa, ac wedi hyny Persepolis. Y mae אֵיל *ail*, y gair *Heb.* am hwrdd, yn tarddu oddiwrth air ag sydd yn arwyddocâu *cadernid;* gan hyny, nid yw yn arwydd ammhriodol o freniniaeth y Mediaid a'r Persiaid, yr hon, trwy ei chadernid, a ddymchwelodd freniniaeth Babilon. Dywedir fod brenin Persia, yn gyffredin, yn gwisgo yn lle coron ben hwrdd o aur, wedi ei harddu â meini gwerthfawr—a bod lluniau o benau hyrddod â dau gorn, y naill yn uwch na'r llall, i'w gweled etto ar y colofnau ym mhlith adfeiliau Persepolis. *Newton on the Prophecies, Vol.* II. *p.* 27.

Dan. 8. 4. Y mae Daniel yn gweled yr hwrdd 'yn cornio tu a'r gorllewin, tu a'r gogledd, a thu a'r dehau.' Tu a'r gorllewin darostyngodd y Persiaid yr holl wledydd hyd fôr Ægea, a therfynau Asia Leiaf, dan arweiniad Cyrus—tu a'r gogledd darostyngasant yr Armeniaid, y Cappadociaid, ac amryw genedloedd ereill—tu a'r dehau darostyngwyd yr holl wledydd ag oedd yn taro ar lyngclyn Persia, ac yn cyrhaedd tu a'r dwyrain cyn belled a'r afon Indus, yn amser Darius Hystaspis—'Fel na safai un bwystfil o'i flaen ef, ac nid oedd a achubai o'i law ef; ond efe a wnaeth yn ol ei ewyllys ei hun, ac a aeth yn fawr;'—yr hyn sydd yn arwyddocâu y byddai i'r Persiaid ddarostwng yr holl wledydd o fewn y terfynau yr oedd rhagluniaeth yr Arglwydd wedi gosod i'w breniniaeth, a dim ym mhellach: canys yr oeddynt bob amser yn af-

lwyddiannus pan geisiasant fyned dros y terfynau gosodedig, megys yn y cyrch hwnw a wnaeth Darius Hystaspis yn erbyn y Scythiaid oedd yn cyfanneddu o du y gogledd i'r afon Danube; ac yn nghyrch Xerxes yn erbyn y Groegiaid.

Ar ol yr hwrdd, y peth nesaf yn y weledigaeth yw y bwch geifr. 'Ac fel yr oeddwn yn ystyried (medd Daniel, *pen.* 8. 5.) wele hefyd fwch geifr yn dyfod o'r gorllewin, ar hyd wyneb yr holl ddaear, ac heb gyffwrdd â'r ddaear; ac i'r bwch yr oedd corn hynod rhwng ei lygaid.' Yr hyn a esponir gan yr angel *(adn.* 21.) 'A'r bwch blewog yw brenin Groeg, a'r corn mawr sydd rhwng ei lygaid ef, dyna y brenin cyntaf.' Y mae gafr yn arwydd cymhwys o deyrnas y Macedoniaid; canys un o'u henwau cyntaf oedd Ægeadæ, hyny yw, *pobl y geifr*. Arferent gynt arwydd yr afr ar eu banerau yn eu holl frwydrau. Galwyd y ddinas lle cladwyd llawer o freninoedd Macedonia dan yr enw Ægeæ, neu *ddinas y geifr*. *Newton on the Prophecies, Vol.* II. *p.* 30. A'r môr gerllaw a elwir môr Ægea. Y mae hefyd yn deilwng o sylw, i fab Alexander o Roxana gael ei alw dan yr enw Alexander Ægus, neu *mab y bwch*. Yr oedd y bwch i ddyfod o'r gorllewin; ac y mae yn eglur fod Macedonia i'r gorllewin o Persia. Efe a ddaeth 'ar hyd wyneb yr holl ddaear,' gan ddarostwng pob peth o'i flaen yn y rhan fwyaf o'r byd ag oedd y pryd hyny yn adnabyddus;—'ac heb gyffwrdd â'r ddaear;' yr hyn sydd yn arwyddo cyflymdra ei deithiau, trwy ba rai yr oedd yn dyfod ar ei elynion yn gynt na'u disgwyliad, fel pe buasai yn ehedeg, yn hytrach na theithio ar hyd y tir. Ac am yr un achos y cyffelybir Ymerodraeth y Groegiaid yn y weledigaeth o'r blaen i lewpard a deu-bar o adenydd. *Dan.* 7. 6.

'Ac i'r bwch yr oedd corn hynod rhwng ei lygaid.' *(Adn.* 5.) Oddiwrth yr amgylchiadau a adroddwyd, y mae yn eglur mai Alexander a gyfenwid Mawr, yw y corn hynod rhwng llygaid y bwch, a'r brenin cyntaf ym mreniniaeth y Groegiaid. Y mae hyd yn nod ei enw o ran ei arwyddocâd yn ddigon priodol i'r hyn a ddywedir am dano yn y brophwydoliaeth; ystyr ei enw yw, '*Un yn gwthio*, neu *yn gyru dynion o'i flaen*.'*

Adn. 6, 7. 'Ac efe a ddaeth at yr hwrdd deu-gorn a welswn i yn sefyll wrth yr afon, ac efe a redodd ato yn angerdd ei nerth. Gwelais ef hefyd yn dyfod hyd at yr hwrdd, ac efe a fu chwerw wrtho, ac a darawodd yr hwrdd, ac a dorodd ei ddau gorn ef, ac nid oedd nerth yn yr hwrdd i sefyll o'i flaen ef, eithr efe a'i bwriodd ef i lawr, ac a'i sathrodd ef, ac nid oedd a allai achub yr hwrdd o'i law ef.' Dangoswyd yn yr hanes pa fodd y darfu Darius Hystaspis a'i fab Xerxes arwain byddinoedd lluosog yn erbyn y Groegiaid, a'u haflwyddiant. Hyn a ddygodd

* Alexander may be derived from *αλεξω, arceo, propello & ανηρ, vir.*

ddïal y Groegiaid ar y Persiaid, ond heb fawr o niwed i Ymerodraeth Persia, o herwydd ymraniadau y Groegiaid; ond pan unwyd hwy dan un pen, sef Philip brenin Macedon, ymunasant mewn cynghrair cyffredinol i ryfela yn erbyn y Persiaid. Ond gan iddo ef farw cyn cwblhau dim, cafodd ei fab Alexander y gorchwyl o gyflawni ei fwriadau. Y mae y brophwydoliaeth yn rhoddi darluniad hynod o ymosodiad Alexander yn erbyn byddinoedd Darius, yn y tair brwydr gyffredinol, ym mha rai y darostyngodd efe holl gadernid Ymerodraeth Persia, sef wrth yr afon Granicus yn Phrygia, wrth gyfwng Issus yn Cilicia, ac yn ngwastadedd Arbela yn Assyria. Y bwch 'a fu chwerw' wrth yr hwrdd, o herwydd holl greulondeb y Persiaid tu ag at y Groegiaid, yn neillduol am i Darius arfer moddion dichellgar i geisio difetha Alexander, trwy gymmyg gwobrau i'w filwyr, a'i gyfeillion cyfrinachol, i'w ladd, trwy gleddyf neu wenwyn. O herwydd hyn y gwrthododd Alexander bob cynnygion o heddwch ar yr ammodau mwyaf manteisiol.

Adn. 8. 'Am hyny y bwch geifr a aeth yn fawr iawn; ac wedi ei gryfhau, torodd y corn mawr.'—Y mae 'y corn mawr' yn y brophwydoliaeth, yn cyfateb i enw y buddugoliaethwr hwnw, a gyfenwid Mawr, nid o herwydd mawredd ei gorph, canys dywedir mai dyn bychan o gorpholaeth ydoedd, ond o herwydd mawredd ei weithredoedd a'i lwyddiant. Wedi darostwng, nid yn unig Ymerodraeth Persia, ond amryw o deyrnasoedd ereill o du y dwyrain i'r afon Indus, bu farw yn ddisymmwth yn Babilon, yn y modd a adroddwyd, a rhanwyd ei freniniaeth yn bedair rhan, fel y dangosir yn y bennod nesaf.

PENNOD XIII.

Breniniaeth y Groegiaid.

Y MAE *Heylin* yn rhoddi cofrestr o 23 o freninoedd a deyrnasasant yn Macedonia, o Caranus hyd ddiwedd teyrnasiad Alexander Fawr, dros yn agos i 500 mlynedd. Nid oedd Philip, tad Alexander, yn gyfiawn etifedd teyrnas Macedonia; ond wedi llywodraethu dros ryw yspaid o amser yn lle ei nai ieuangc Amyntas, mab Perdiccas, ei frawd hynaf, pan welodd ei gyfleusdra, traws-feddiannodd y deyrnas, gan ddiorseddu ei nai, a lladd ei holl frodyr, a phawb ereill ag oedd yn ei wrthwynebu. Yr oedd yn filwr medrus a llwyddiannus; rhyddhaodd ei wlad ei hun oddiwrth ruthriadau yr Ilyriaid, darostyngodd Thrasia, Achaia, a rhan fawr a Pelopenesus, ac a ddewiswyd yn ben cadben ar luoedd y Groegiaid yn y rhyfel a luniasai yn erbyn y Persiaid; ond pan oedd pob peth yn barod iddo gychwyn i'r cyrch hwnw, lladdwyd ef gan Pausanias, fel y dywedwyd; ac ym mhen oddeutu 66 blynedd o'r flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, diwreiddiwyd ei holl hiliogaeth oddiar wyneb y ddaear, trwy drais a brad, fel na bu braidd un o honynt, na'u gwragedd, farw o

farwolaeth naturiol. Canys gan fod Philip wedi sylfaenu ei deyrnas mewn llofruddiaeth, anudon, a bradwriaeth, y pethau hyny a'i dilynodd ef, a'i deulu, nes eu diwreiddio oddiar y ddaear; yr hyn sydd yn dangos, ym mhlith llawer o gyffelyb siamplau, mai 'pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe,' ïe, yn fynych yn y bywyd hwn.

Ar ol marwolaeth Alexander Fawr, am ba un y crybwyllwyd uchod, bu mawr ddadl ac ymryson ym mhlith ei gadbeniaid, dros saith niwrnod, mewn perthynas i lywodraethiad ei deyrnas. Ar y diwedd, cytunwyd i Philip Aridæus, brawd ordderch Alexander, mab Philip, gael yr enw o frenin, dan oruchwyliaeth Perdiccas, un o'r cadbeniaid penaf; ac os genid mab o Roxana, un o wragedd gweddwon Alexander, yr hon oedd yn yr wythfed mis o'i beichiogi, y byddai iddo gyd-deyrnasu gyd âg Aridæus. Pan anwyd mab i Roxana, galwyd ei enw Alexander Ægus; a bu y ddau o dan olygiaeth Perdiccas; canys yr oedd angen ar Aridæus am olygwr cymmaint a'r maban, gan fod pall synwyr arno. Priodwyd Aridæus âg Euridice, merch Amyntas, a ddiorseddwyd gan Philip, fel y dywedwyd. Ond ar ol iddo deyrnasu mewn enw yn unig dros chwe blynedd a saith mis, lladdwyd ef gyd â'i wraig trwy orchymyn Olympias, mam Alexander Fawr, yn y flwyddyn 317 cyn geni Crist. Ar ol ei farwolaeth ef, cafodd Alexander Ægus yr enw o frenin dros saith mlynedd yn ychwaneg, pan laddwyd yntau gyd â'i fam Roxana, trwy fradwriaeth Cassander, llywodraethwr Macedonia, yn nghastell Amphipolis, lle yr oeddynt mewn carchar, yn y flwyddyn 310 cyn geni Crist. Ond y mae *Ptolemy* yr Astronomydd, yn ei Ganon Amseryddol, yn cyfrif blynyddoedd ei deyrnasiad dros bum mlynedd yn ychwaneg, fel pe buasai etto yn fyw, hyd oni ddarfu i bedwar o gadbeniaid Alexander gymmeryd arnynt eu hunain enw breninoedd, ar yr amrywiol barthau o Ymerodraeth Alexander ag oedd wedi digwydd i'w rhan. Canys er i'w gadbeniaid penaf gytuno i ranu ei Ymerodraeth rhyngddynt, etto ni buont foddlon, gan mwyaf, i'w rhanau, yr hyn a'u gyrodd i ryfela y naill yn erbyn y llall. Ac yr oedd un o honynt, sef Antigonus, am gael y cwbl iddo ei hun, ac a fu, dros amser, yn debyg i gwblhau ei amcan. Hyn a barodd i bedwar o'r lleill ymuno mewn cynghrair yn ei erbyn; sef Seleucus, Ptolemy, Cassander, a Lysimachus. Ar ol llawer o ryfeloedd gwaedlyd, lladdwyd y rhan fwyaf o gadbeniaid Alexander, ond y pedwar hyn; ac o'r diwedd, Antigonus a laddwyd ym mrwydr Ipsus yn Phrygia. Ar ol marwolaeth Antigonus, y pedwar tywysog cynghreiriol a ranasant y gwledydd ag oedd dan ei lywodraeth rhyngddynt; ac felly y bu i holl Ymerodraeth Alexander gael eu dosparthu, a'i sefydlu yn bedair breniniaeth. Ptolemy, mab Lagus, a gafodd yr Aipht, Lybia, Arabia, Cœle-Syria, a Phalestina; Cassander, mab Antipater, a gafodd Macedonia a gwledydd Groeg; Lysimachus a gafodd Thrasia, Bithynia, a rhai o'r taleithiau yn Asia

Leiaf ag oedd yn taraw ar yr Helespont a'r Bosphorus; a Seleucus a gafodd Syria, ynghyd â'r holl daleithiau dwyreiniol o'r Ymerodraeth. Dyma bedwar pen y llewpard (*Dan.* 7. 6.) a phedwar corn y bwch geifr. (*Dan.* 8. 8, 22.) Gwel *Dan.* 11. 4.

Er i Daniel grybwyll am y pedwar yn gyffredinol, nid yw ei brophwydoliaethau yn cyfeirio yn neillduol (*Dan.* 11. 5, 45.) ond at ddau o honynt, sef brenin y gogledd, hyny yw, Seleucus a'i hiliogaeth ym mreniniaeth Syria; a brenin y dehau, sef Ptolemy a'i ganlynwyr ym mreniniaeth yr Aipht. A'r achos yw, am mai gyd â'r ddau hyn yn unig y bu gan yr Iuddewon, o herwydd eu cymmydogaeth agos, lawer o ymdriniaeth. Yr oedd Palestina yn gorwedd rhwng yr Aipht a Syria, ac megys asgwrn y gynhen rhwng y ddwy freniniaeth; a'r Iuddewon, megys ŷd rhwng dau faen melin, yn cael eu malurio gan y ddwy blaid. Gan hyny, rhag arwain i ormod meithder, ni roddir, gan mwyaf, ond hanes byr o'r ddwy freninìniaeth hyny yn unig, gan ddangos cyflawniad y prophwydoliaethau wrth fyned ym mlaen.

Ym mhen 12 mlynedd ar ol marwolaeth Alexander yr ennillodd Seleucus Babilon oddiar Antigonus, ac o'r pryd hyny y cyfrifir dechreuad ei freniniaeth, yn y flwyddyn cyn geni Crist 312. Galwyd hiliogaeth Seleucus, yn yr iaith Roeg, Seleucidæ; fel ag y galwyd hiliogaeth Ptolemy yn yr Aipht dan yr enw Lagidæ, oddiwrth Lagus, tad Ptolemy. O'r cymmeriad hwn o Babilon gan Seleucus y cyfrifwyd y prif-nôd hwnw o amser, a elwir *The Era of the Seleucidæ*, neu weithiau *The Era of Contracts*, yr hwn a arferwyd yn y dwyrain dros lawer o oesoedd, gan Iuddewon, Cristionogion, a Mahometaniaid. Hon yw Era breniniaeth y Groegwyr, yn nau lyfr y Maccabeaid. Seleucus a gafodd y cyfenw Nicator, hyny yw, *buddugoliaethwr*, o herwydd ei fuddugoliaethau.

Ym mhen naw mlynedd wedi hyny y cyfrifir dechreuad teyrnasiad Ptolemy yn yr Aipht, yr hwn a gafodd y cyfenw Soter, hyny yw, *iachawdwr*, yn y flwyddyn cyn geni Crist 304, er fod ei lywodraeth yn yr Aipht wedi dechreu yn union ar ol marwolaeth Alexander. Ond gan iddo, yn y flwyddyn 305 cyn geni Crist, yru Antigonus o'r Aipht, a thrwy hyny sefydlu ei hun yn ei freniniaeth, y mae Ptolemy, yr Astronomydd, yn cyfrif y flwyddyn ganlynol yn gyntaf o'i deyrnasiad.

Ar ol llawer o aflwyddiant o ochr Antigonus, dibenwyd y rhyfel mewn brwydr benderfynol yn Ipsus yn Phrygia, ym mha un y cafodd byddin y breninoedd cynghreiriol, tan arweiniad Seleucus a Lysimachus, fuddugoliaeth drwyadl. Lladdwyd Antigonus yn y frwydr, a diangodd Demetrius ei fab i Ephesus, gyda naw mil o wyr; yr hyn oedd y cwbl a allai bigo i fynu o agos i ddeng mil a phedwar ugain a ddygasid i'r maes.

Ymladdwyd brwydr Ipsus yn y 12fed flwyddyn i Seleucus, y 4edd i Ptolemy Soter, 301 cyn geni Crist, a 22ain flynedd ar ol marwolaeth Alexander. Y pryd hyn, ac nid dim cynt, y gellir dywedyd fod pedwar

tywysog, sef y pedwar corn a ddilynodd Alexander, ac a ranasant ei Ymerodraeth rhyngddynt, mewn cyflawn feddiant o'r amrywiol ranau a ddigwyddasant iddynt, yn ol y cyfraniad a wnaethant ar ol brwydr Ipsus. Yn yr holl ddadleuon a'r ymrysoniadau a fu ym mhlith eu dilynwyr wedi hyny mewn perthynas i derfynau eu hamrywiol deyrnasoedd, cyrchasant yn ol, bob amser, at y cynghrair a'r cytundeb a wnaed y pryd hyn rhwng eu hynafiaid.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef 300 cyn geni Crist, yr adeiladodd Seleucus Antiochia yn Syria Uchaf, ar yr afon Orontes, oddeutu 20 milltir oddiwrth Fôr y Canoldir. Galwodd hi Antiochia er coffadwriaeth am ei dad Antiochus; neu, fel y barna rhai, er anrhydedd i'w fab ag oedd o'r un enw. Hon oedd trigfa breninoedd Syria, sef dilynwyr Seleucus, tra parhaodd teyrnas Syria; fel ag yr oedd Alexandria i'r Ptolemeaid, breninoedd yr Aipht, tra parhaodd y deyrnas hòno. Yn Antiochia yn Syria y galwyd y disgyblion gyntaf yn Gristionogion. *Act.* 11. 26. Cyfrifwyd Antiochia yn hanner y ffordd rhwng Caer Cystenyn ac Alexandria yn yr Aipht, ac oddeutu saith can milltir oddiwrth bob an. Adeiladodd Seleucus 16 o ddinasoedd o'r un enw, o ba rai yr oedd Antiochia yn Pisidia yn un. *Act.* 13. 14. Heblaw y rhai hyn, adeiladodd naw dinas a alwyd Seleucia, ar ol ei enw ei hun; o ba rai yr oedd un ar yr un afon ag Antiochia, 15 milltir o'i thu isaf, ac yn borthladd ar Fôr y Canoldir, ar gyfer Cyprus. *Act.* 13. 14. *Heylin.* Ac un arall oedd Seleucia ar yr afon Tigris, o du y gorllewin iddi, oddeutu 40 milltir o Babilon, ar gyfer lle saif Bagdat yn bresennol, ar yr ochr ddwyreiniol i'r Tigris. Dywedir fod gynt chwe chan mil o drigolion yn Seleucia ar y Tigris. Fel y gwaghawyd Babilon o'i thrigolion gan Seleucia, felly Seleucia gan Ctesiphon ac Almadayen, a'r rhai hyn gan Bagdat. Heblaw hyn, adeiladodd Seleucus chwe dinas a alwyd Laodicea, ar ol enw ei fam Laodice. Laodicea, lle yr oedd un o saith eglwys Asia, oedd un o honynt, yn Phrygia, yn Asia Leiaf. Adeiladodd dair dinas o'r enw Apamea, i goffâu am Apama ei wraig gyntaf; ac un o'r enw Stratonica, yn goffadwriaeth am ei wraig ddiweddaf Stratonice. Planodd Iuddewon yn yr holl ddinasoedd hyn, gan roddi iddynt freintiau cydradd â'r Groegiaid a'r Macedoniaid; yn enwedigol yn Antiochia yn Syria, lle yr oeddynt yn gwneuthur rhan mor lïosog o'r ddinas hon, ag yr oeddynt o Alexandria yn yr Aipht. A thrwy hyn y bu i'r Iuddewon ymwasgaru dros holl Syria ac Asia Leiaf.

PENNOD XIV.

Am Syria dan y Groegiaid.

Rhanwyd Syria yn ddwy ran:—1. Syria brïodol, neu uchaf, yn cyrhaedd o'r mynydd Amanus yn y gogledd, i fynydd Libanus yn y

dehau.—2. Cœle-Syria, yn cyrhaedd o Libanus i Anti-Libanus, ac yn cynnwys o fewn ei therfynau Damascus a'i hardaloedd; y rhai, gan mwyaf, oedd yn cynnwys cymoedd dyfnion, a hyn oedd yr achos o alw y wlad dan yr enw Cœle-Syria, neu *Syria Gau*. Galwyd Antiochia dan yr enw Tetrapolis, am ei bod yn gynnwysedig o bedair dinas wedi eu huno â'u gilydd. Y gyntaf o honynt yn unig a adeiladwyd gan Seleucus; yr ail gan y rhai a sefydlasant yma pan wnaed Antiochia yn ben dinas Syria; y drydedd gan Seleucus Callinicus; a'r bedwaredd gan Antiochus Epiphanes. Amgylchwyd pob un o'r rhanau hyn â'i fur priodol ei hun, ac yr oedd caer oddi amgylch y cwbl. Yr oedd y lle yn ddarostyngedig i ddaear-grynfäau, a dioddefodd y ddinas yn fynych lawer trwyddynt. Er hyny parhaodd dros agos i 1600 o flynyddoedd i fod yn brif ddinas y dwyrain, hyd y flwyddyn 1265 o oed Crist, pan gymmerwyd hi oddiar Gristionogion y gorllewin gan Bibars, Sultan yr Aipht, ac a lwyr-ddinystriwyd ganddo. Y mae muriau y pedair rhan, yn gystal a'r un sydd yn amgylchu y cwbl, i'w gweled etto. Ar ol hyny y mae Aleppo wedi codi i fynu i fod yn brif ddinas y parthau hyny. Gelwir gweddillion Antiochia yn bresennol dan yr enw Anthakia. Yr oedd Daphne gynt yn fath o faes pentrefol i Antiochia, hynod am ei lwyni, ei bleserau, a'i lygredigaethau.

PENNOD XV.

Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid.

Yn yr 11eg flwyddyn i Ptolemy Soter, yr hon oedd y 19eg i Seleucus Nicator, a 294 cyn geni Grist, traws-feddiannodd Demetrius, mab Antigonus (a laddwyd y'mrwydr Ipsus) deyrnas Macedonia, ac a deyrnasodd yno 7 mlynedd. Yr oedd Cassander, un o'r pedwar tywysog cynghreiriol, wedi marw yn y flwyddyn 298 cyn geni Crist, ar ol llywodraethu ar Macedonia 19eg blynedd, gan adael tri o feibion o'i wraig Thessalonice, yr hon oedd un o chwiorydd Alexander Fawr, sef Philip, Antipater, ac Alexander. Bu farw Philip ychydig ar ol ei dad, a chododd ymryson rhwng Antipater ac Alexander ynghylch y freniniaeth. Yn yr ymryson, ochrodd Thessalonice gyd âg Alexander y mab ieuengaf, am ba achos y lladdwyd hi gan ei mab hynaf; er ei bod yn erfyn arno, er mwyn y bronau a roisant sugn iddo, i arbed ei bywyd. I ddial ar Antipater am y weithred waedlyd hon, galwodd Alexander am Demetrius i'w gynnorthwyo. Y canlyniad a fu i Antipater orfod ffoi i Thrasia, lle bu farw yn fuan wedi hyny mewn alltudiaeth. Alexander, wedi cael gwared o'i frawd, a amcanodd gael gwared o Demetrius, trwy ddienyddiad; ond bu Demetrius ym mlaen llaw âg ef, trwy ei ladd ef mewn gwledd, yn yr un modd ag yr oedd Alexander wedi bwriadu lladd Demetrius. Ac fel hyn y traws-feddiannodd Demetrius deyrnas Macedo-

nia dros 7 mlynedd, fel y dywedwyd; ond pan ddarfu iddo, yn yr 17eg flwyddyn i Ptolemy Soter, y 25ain i Seleucus Nicator, a 288 cyn geni Crist, gasglu byddin o gan mil o wyr, a pharotôi llynges o bum cant o longau, ar fedr ennill yn ol freniniaeth ei dad yn Asia, y canlyniad a fu iddo golli ei deyrnas ei hun, ac yn y diwedd taflu ei hun ar drugaredd Seleucus, ym meddiant pa un y bu farw.

Yr oedd Seleucus Nicator wedi priodi Stratonice, merch Demetrius, yn ail wraig; ac wedi hyny bu yn wraig i Antiochus ei fab, yn amser ei fywyd. Yr amgylchiadau o'r briodas annaturiol hon oedd fel y canlyn: Gan fod Stratonice yn wraig o lendid rhagorol, syrthiodd Antiochus mab Seleucus mewn cariad â hi, yr hwn, trwy yr attaliadau ag oedd ar y ffordd i fwynhau y gwrthddrych, a gynnyddodd i'r fath radd, nes yr aeth yn glaf i'w wely. Yr oedd arno gywilydd i gyfaddef yr achos; ond ni bu Erasistratus (meddyg Groegaidd oedd yn gweini iddo yn ei glefyd) ddim yn hir cyn gwybod oddiwrth arwyddion, mai cariad oedd achos ei glefyd; ond cariad at bwy ni chyfaddefai y claf. Ond cafodd y meddyg hyn allan wrth graffu yn fanwl ar y gwahanol effeithiau yr oedd dyfodiad pendefigesau y llys yn gael ar y claf. Pan ddeuai Stratonice i mewn i'r ystafell, yr oedd cyfnewidiadau mawr i'w gweled yn wyneb y claf, ac yn ei holl ymddygiad, ac i'w deimlo yn nghuriad rhedwelïau y gwaed *(pulse)*; ond pan ddeuai un o'r lleill i mewn, nid oedd dim o hyn yn digwydd. Wedi gwybod, fel hyn, yr achos o'r clefyd, trefnodd feddygiaeth trwy y ddichell ganlynol: Pan ddaeth Seleucus nesaf i ofyn am iechyd ei fab, hysbysodd y meddyg mai cariad oedd ei glefyd, ac y byddai farw yn ddiau, gan nad oedd yn bosibl iddo gael y gwrthddrych yr oedd yn ei garu. Synodd Seleucus wrth hyn, a gofynodd paham nad allai ei fab gael y gwrthddrych yr oedd yn ei garu. Am ei fod, meddai y meddyg, mewn cariad â fy ngwraig i, ac nid allaf ymadael â hi. Pa beth! onid ellwch ymadael â hi, medd Seleucus, i achub bywyd fy mab anwyl?—pa fodd, gan hyny, y gellwch gymmeryd arnoch fod yn gyfaill i mi? Syr, meddai y meddyg, atolwg, rhoddwch eich hun yn fy lle; a fyddech chwi, sydd yn dad anwyl i Antiochus, yn foddlawn i roddi Stratonice i fynu er ei fwyn? Atebodd Seleucus, gwyn fyd nad allwn adferu iechyd fy mab ar y cyfryw ammod—ymadawn â Stratonice, a phob peth arall, i achub ei fywyd. Gan hyny, meddai Erasistratus, chwi yw yr unig un a all ei feddyginiaethu; canys cariad at Stratonice yw achos ei glefyd, ac nid oes dim arall a all achub ei fywyd ond ei chael hi yn wraig. A chan fod Seleucus yn dymuno, nid oedd yn anhawdd gan Stratonice dderbyn tywysog ieuangc yn ŵr iddi, yn lle hen frenin. Ac felly hi a roddwyd yn wraig i Antiochus, wedi iddi ddwyn plant i'w dad; a hwy a goronwyd yn frenin a brenines Asia Uchaf, ac a ddanfonwyd i lywodraethu yno. Ac o'r briodas aflan hon (y fath ni chlywid yn amser St. Paul, 1 *Cor.* 5. 1. ym mhlith y cenedloedd) y tarddodd y rhes

hòno o freninoedd Syria, a orthrymasant ac a erlidiasant bobl gyfammodol yr Arglwydd yn Judah a Jerusalem, am ba rai y crybwyllir ym mlaen.

Ar ol i Ptolemy Soter deyrnasu 20ain mlynedd yn yr Aipht, dygodd Ptolemy Philadelphus, un o'i feibion o Berenice, i gyfran o'r freniniaeth. Yr oedd Ptolemy Soter, y pryd hyn, dros 80ain oed, a chan ei fod yn disgwyl am ddydd ei farwolaeth, rhoes y goron ar ben ei fab yn amser ei fywyd, fel na byddai dim rhyfel neu ymryson am dani ar ol ei farwolaeth, oddiwrth Ptolemy Ceraunus, ei fab hynaf o'i wraig Euridice; yr hwn, ar hyn, a ffodd o'r Aipht, yn gyntaf at Lysimachus, ac wedi hyny at Seleucus Nicator.

Y flwyddyn gyntaf i Ptolemy Philadelphus oedd y 29ain i Seleucus Nicator, a 284 cyn geni Crist. Tua diwedd y flwyddyn hon, bu farw Ptolemy Soter, yn 84ain oed. Efe oedd y goreu a'r doethaf o'r holl genedl; a gadawodd ar ei ol siampl o gallineb, cyfiawnder, a thynerwch; yr hon ni ddewisodd yr un o'i ddilynwyr i'w chanlyn.

Ychydig cyn ei farwolaeth y dygwyd i Alexandria, o Sinope yn Pontus, ddelw Serapis, yr hon a addolwyd y tu allan i'r ddinas, mewn teml a elwid Serapeum. Addysgwyd Ptolemy, os gwir yw yr hanes, i ddanfon am y ddelw hon, gan ŵr ieuangc a ymddangosodd iddo mewn gweledigaeth. Dywedir fod trigolion Sinope yn anfoddlon i ymadael â'u duw, hyd oni ddarfu i Ptolemy eu hystwytho trwy ddanfon iddynt, yn amser newyn, lynges yn llawn o ŷd. Ac fel yr oedd Serapis yn dduw newydd, felly dygwyd i blith yr Aiphtiaid ddull newydd o addoliad. Hyd amser y Ptolomeaid, nid oedd yr Aiphtiaid yn offrymu aberthau gwaedlyd i'w duwiau; ond arferent eu haddoli yn unig â'u gweddïau, ac arogl-darth. Sadwrn oedd dduw arall a ddygwyd i mewn gan y Ptolomeaid, i ba un hefyd yr aberthwyd ebyrth gwaedlyd. Ond nid oeddynt un amser yn gymmeradwy gan yr Aiphtiaid ag oedd o waedoliaeth digymmysg: ac o herwydd hyny ni adeiladwyd temlau i'r gaudduwiau hyn o fewn y dinasoedd, ond bob amser o'r tu allan i'r caerau; a thybygid mai Aiphtiaid o waedoliaeth Groegaidd oedd yr unig addolwyr ynddynt. Canys ffieidd-dra oedd aberthau gwaedlyd gan yr Aiphtiaid o'r dechreuad. Hyny oedd yr achos i feibion Israel ddeisyf cael myned daith tri diwrnod i'r anialwch i aberthu i'r Arglwydd eu Duw, fel na byddai iddynt aberthu ffieidd-beth yr Aiphtiaid yn ngŵydd eu llygaid, rhag eu llabydddio ganddynt; canys yr oedd y rhan fwyaf o'r creaduriaid a aberthid gan yr Israeliaid yn cael eu haddoli gan yr Aiphtiaid. *Exod.* 8. 25, 26, 27. Y mae *Prideaux*, ar ol *Diodorus Siculus*, yn dywedyd fod Rhufeiniad wedi lladd cath yn ddamweiniol yn yr Aipht, ac i liaws mawr o'r trigolion yn ddiatreg amgylchu y tŷ lle yr oedd, a'i ladd yn ddiarbed, er fod y brenin Ptolemy, a'i bendefigion, wedi gwneuthur eu goreu i lareiddio eu cynddaredd. *Prideaux's Conn. pt.* 2. *p.* 14.

Yr oedd Ptolemy Soter a'i ddilynwyr yn goleddwyr dysgeidiaeth, o'r

fath ag oedd y pryd hyny ym mhlith y Groegiaid. Yr oedd dwy lyfrgell yn Alexandria; un a alwyd Bruchium, yn cynnwys pedwar can mil o lyfrau ysgrifen-law; ac un arall yn rhan o'r Serapeum, yn cynnwys tri chan mil o'r unrhyw. Llosgwyd llyfrgell Bruchium, trwy ddamwain, pan wnaeth Julius Cæsar ryfel yn erbyn yr Alexandriaid, yn y flwyddyn cyn geni Crist 48. A llosgwyd y llyfrgell arall yn Serapeum gan y Saraceniaid, yn y flwyddyn o oed Crist 642. Ac elw, yn hytrach na cholled, i'r byd oedd eu llosgi, gan nad oeddynt, gan mwyaf, yn cynnwys fawr ond dychymmygion coel-grefyddol, eilun-addolgar, ac ynfyd y cenedloedd, am lawer oes a aeth heibio. Ond pa faint bynag o lyfrau o wir hanesyddiaeth a losgwyd ynddynt, nad oeddynt mewn manau ereill, yr oedd colled am y rhai hyny. Yr oedd Johannes Grammaticus, philosophydd o'r blaid Aristotelaidd, yn Alexandria, pan gymmerwyd hi gan y Saraceniaid; a chan ei fod wedi cymmeradwyo ei hun trwy ei ddysgeidiaeth gyd âg Amrus Ebnol As, tywysog llu y Saraceniaid, gofynodd ganddo y llyfrgell freninol yn Alexandria. Atebodd y tywysog, nad allai roddi dim heb ganiatâd Omar y Caliph, neu yr Ymerawdwr. Pan ysgrifenwyd at hwnw, ei ateb oedd, 'Os oedd y llyfrau hyny yn cynnwys yr hyn ag oedd yn gytunol â'r Alcoran, nad oedd dim achos am danynt, gan fod yr Alcoran, o hono ei hun, yn ddigonol i bob gwirionedd: ond, os oeddynt yn anghytunol â'r Alcoran, nad oeddynt i'w goddef.' Ac ar hyny, rhoddwyd gorchymyn i'w difetha. Dosparthwyd hwynt yn danwydd i dwymno y baddau cyffredin *(baths)* yn Alexandria, dros chwe mis, yr hyn sydd brawf o'u lliosogrwydd.

Ar ol marwolaeth Ptolemy Soter, yr oedd dau o'r pedwar tywysog a ranasant Ymerodraeth Alexander rhyngddynt yn fyw etto, sef Lysimachus, a Seleucus Nicator, a phob un o honynt oddeutu 80ain oed. Y rhai hyn a wnaethant ryfel yn erbyn eu gilydd, yr hwn a ddibenodd yn ninystr pob un o honynt. Yr oedd Lysimachus wedi cymmeryd Lysandra, un o ferched Ptolemy Soter, yn wraig i'w fab Agathocles, ac un arall o'i ferched a alwyd Arsinoe, yn wraig iddo ei hun, yr hon a ddygodd iddo amryw blant. Oddiwrth yr amgylchiad hwn, cododd ymryson a chenfigen rhwng y ddwy chwaer, ynghylch y freniniaeth, ar ol dydd Lysimachus. A chan eu bod yn chwiorydd o wahanol famau, sef Lysandra o Euridice, ac Arsinoe o Berenice, yr oedd hyny yn tueddu i chwanegu y gynhen. Pan ddaeth Ptolemy Ceraunus, yr hwn oedd frawd cyfan i Lysandra, i lŷs Lysimachus, fel y soniwyd, ofnodd Arsinoe rhag iddo, ynghyd âg Agathocles a Lysandra, wneuthur plaid rhy gref iddi, a'i difetha hi a'i phlant, ar ol marw Lysimachus; gan hyny, i ochelyd yr hyn oedd yn ei ofni, hi a gyd-fwriadodd farwolaeth Agathocles, ac a ddygodd ei bwriad i ben. Ni pheidiodd a sibrwd yn nghlustiau yr hen frenin fod gan ei fab fwriadau yn erbyn ei goron a'i fywyd, nes iddo ei fwrw i garchar, a'i roddi i farwolaeth. Ar hyn,

ffodd Lysandra, gyd â'i phlant, a'i brawd Ptolemy Ceraunus, at Seleucus Nicator, ynghyd â llawer o gadbeniaid a phenaethiaid Lysimachus, y rhai oeddynt yn ei ofni, ac yn ei ffieiddio, o herwydd ei aml greulonderau; yn enwedigol, am iddo ladd ei fab yn ddiachos. Annogwyd Seleucus, gan y rhai hyn, i ryfela yn erbyn Lysimachus, i'r hyn yr oedd o hono ei hun yn dueddol, am amryw achosion ereill. Gan hyny, daeth o'r dwyrain, gyda byddin lïosog i Asia Leiaf;—cymmerodd Sardis, a holl drysor Lysimachus ag oedd yno. Wedi hyny, yn y flwyddyn ganlynol (sef y 4edd i Ptolemy Philadelphus, y 32ain i Seleucus Nicator, a 281 cyn geni Crist) ymladdwyd brwydr benderfynol mewn lle a elwid Corupedion, yn Phrygia, ym mha un y gorchfygwyd ac y lladdwyd Lysimachus, a'i holl deyrnas a aeth yn eiddo i Seleucus. Gyd â'i wledydd ereill, yr oedd Lysimachus wedi dyfod i feddiant o deyrnas Macedon, oddeutu 7 mlynedd cyn ei farwolaeth. Gan hyny, yr oedd buddugoliaeth Corupedion yn rhoddi achlysur i Seleucus i orfoleddu am ei fod, nid yn unig wedi goroesi holl gadbeniaid Alexander, ond hefyd am ei fod yn fuddugoliaethwr ar y buddugoliaethwyr.

Ond ni pharhaodd ei orfoledd yn hir; canys ym mhen 7 mis wedi hyn y lladdwyd ef yn fradychus gan Ptolemy Ceraunus, yn y 5ed flwyddyn i Ptolemy Philadelphus, a'r flwyddyn cyn geni Crist 280, yn y 33ain flwyddyn o'i deyrnasiad. Yr amgylchiadau o'i farwolaeth oedd fel hyn:

Seleucus, wedi croesi yr Helespont (sef y môr cul rhwng Ewrop ac Asia Leiaf) ar ei ffordd i Macedonia, lle yr oedd yn amcanu treulio gweddill ei ddyddiau, a sylwodd ar ryw hen allor o'r enw Argos. Yr enw a fu yn achlysur i ymofyn llawer yn ei gylch; canys rhybuddiasid ef gan oracl i ochelyd Argos, yr hyn a ddeallodd am Argos, dinas yn Peloponesus. Ond yn nghanol ei holiadau ynghylch yr allor, daeth y bradwr o'r tu ol iddo, ac a'i gwanodd â'i gleddyf, ac a draws-feddiannodd deyrnas Macedonia, trwy fod llawer o filwyr a chyfeillion Lysimachus yn cymmeradwyo y weithred, megys dial am farwolaeth y brenin hwnw. Wedi hyny, priododd Ptolemy Ceraunus ei chwaer Arsinoe, ac a gymmerodd arno fabwysiadu ei dau fab a gawsai o Lysimachus; ond wedi eu cael i'w afael, lladdodd y ddau ar ddydd y wledd briodas; ac, wedi yspeilio eu mam o'r hyn oll ag oedd ganddi, a'i danfonodd i alltudiaeth i'r ynys Samothracia, gyda dwy forwyn yn unig. Yr oedd y Ptolemy hwn yn fab hynaf, fel y dywedwyd, i Ptolemy Soter; ac a ddifeddiannwyd gan ei dad o deyrnas yr Aipht, fel y bernir, o herwydd y naws greulon, annaturiol, oedd ynddo. Yr oedd yn ei weithred yn lladd Seleucus radd mwy o ysgelerder na chyffredin, gan fod Seleucus wedi bod yn noddwr a chymwynaswr iddo, ac wedi addaw ei adferu i deyrnas ei dad yn yr Aipht. Ond ni bu yr anghenfil hwn o ddrygioni fyw yn hir cyn i farn gyfiawn yr Arglwydd ei orddiwes; canys yn y flwyddyn ganlynol (sef y chweched i Ptolemy Philadelphus, cyn geni

yn parotôi i ddanfon byddin arall i ddial marwolaeth Patrocles, danfonodd am y Galiaid i'w gynnorthwyo; y rhai a ddaethant y pryd hyn gyntaf i Asia Leiaf.

Yr oedd Ffraingc yn rhy lawn o drigolion y pryd hyn; gan hyny, aeth rhai cannoedd o filoedd o honynt, yn dair byddin, dan arweiniad eu tywysogion (o ba rai yr oedd Brennus yn un) i geisio trigfanau newydd. Daeth un fyddin i Hungari; un arall i Thrasia; a'r drydedd i Macedonia. Difethwyd y rhan fwyaf o honynt trwy y cleddyf, a newyn, ac afiechyd. Ond llwyddodd un rhan o honynt dan arweiniad Leonorius a Lutarius, i gymmeryd Byzantium (Constantinople) ac i ddwyn y parthau cymmydogaethol dan deyrnged.

Cymmerodd Nicodemes y ddau dywysog hyn, gyd â'u byddinoedd i'w wasanaeth; a thrwy eu cynnorthwy efe a orchfygodd ei frawd Zipætes, ac a roddodd iddynt le i sefydlu yn y rhan hòno o Asia Leiaf, a alwyd wedi hyny, oddi wrthynt, Galatia. At yr eglwysi yn y wlad hon yr ysgrifenodd St. Paul ei epistol at y Galatiaid. Yr oedd y Galiaid o'r un gwreiddyn a'r Cymry, ac yn siarad iaith led debyg. Y mae *Jerome*, yr hwn oedd yn ei flodau oddeutu y flwyddyn 395 o oed Crist, yn dywedyd fod y Galatiaid yn llefaru iaith eu gwlad ddechreuol, sef Fraingc, yn ei amser ef. *Heylin.*

Digwyddodd y sefydliad hwn o'r Galiaid yn Asia Leiaf yn yr 8fed flwyddyn i Ptolemy Philadelphus, y 3edd flwyddyn i Antiochus Soter, a'r flwyddyn cyn geni Crist 277.

PENNOD XVIII.

Am Gyfieithiad y LXX.

O FEWN cylch yr un flwyddyn, sef 277 cyn geni Crist, y mae Archesgob *Usher* yn barnu i'r cyfieithiad Groeg o Ysgrythyrau yr Hen Destament gael ei wneuthur, yr hyn a elwir yn gyffredin Cyfieithiad y LXX, ar ddeisyfiad Ptolemy Philadelphus.

Y mae *Prideaux (Conn. part* 2.) wedi casglu ynghyd yr amrywiol hanesion o'r cyfieithiad hwn, ac yn profi fod llawer o'r pethau a ddywedwyd am dano gan un Aristeas, a'r rhai a ysgrifenasant ar ei ol, yn ffugiol, yn ddychymmygol, ac yn anghyson âg amseryddiaeth cywir. Heblaw hyny, y mae yr hanesion am dano yn gwrthddywedyd eu gilydd yn y fath fodd, fel y mae yn anhawdd gwybod pa beth sydd wir. Y mae yr hanes yn dywedyd fod 72 o gyfieithwyr wedi cael eu danfon at Ptolemy o Judea, chwech o bob llwyth yn Israel; a bod pob un mewn ystafell ar ei ben ei hun yn ynys Pharos, gerllaw Alexandria, ac iddynt orphen y gwaith mewn 72 niwrnod; ac ar ol gorphen y cwbl nad oedd cymmaint a gair o wahaniaeth yn yr holl gyfieithiadau—yr hyn sydd bur annhebygol o fod yn wir. Arweniai i ormod meithder i sylwi ar yr amrywiol

hanesion am y Cyfieithiad hwn. Y mae rhai o'r hynaf o'r esponwyr Iuddewig *(Talmudists)* yn dywedyd mai pump oedd y nifer a fu yn nghylch y gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau Hebraeg i'r Groeg; yr hyn (medd *Prideaux)* sydd fwyaf tebygol. Yn ol barn pawb, yr ydys yn cytuno ar y pethau canlynol:—1. I'r gyfraith yn unig, sef pum llyfr Moses, gael ei chyfieithu yn amser Ptolemy Philadelphus.—2. I'r Cyfieithiad gael ei wneuthur yn Alexandria, fel yr ymddengys oddiwrth gangen-iaith *(dialect)* Alexandria, ag sydd yn y gwaith.—3. Iddo gael ei wneuthur ar amrywiol amserau, a chan amrywiol bersonau, fel yr ymddengys oddiwrth y gwahanol ddull o ymadroddi a welir yn amrywiol lyfrau yr Hen Destament, ac oddiwrth y gwahanol eiriau ag sydd am yr un geiriau Hebraeg mewn rhai manau oddiwrth fanau ereill, a'r manyldra a'r cywreinrwydd ag sydd yn nghyfieithiad rhai llyfrau ragor ereill. Ymddengys fod Cyfieithiad y LXX, fel y gelwir, yn hysbys i ysgrifenwyr y Testament Newydd, am eu bod, yn gyffredin, yn rhoddi y rhanau hyny o'r Hen Destament ag y maent yn cyfeirio atynt, yn ngeiriau Cyfieithiad y LXX. Y mae *Parkhurst*, yn ei Eirlyfr Hebraeg yn sylwi yn fynych ar anghywreinrwydd rhyw ranau o'r Cyfieithiad hwn.

Heblaw hwn, y mae tri o Gyfieithiadau ereill o'r Hen Destament i'r Groeg, a wnaed gan Aquila, Theodotion, a Symmachus. Yr oedd Aquila yn ei ddechreuad yn Bagan, o Synope yn Pontus; ac, fel Simon Magus, wedi ymroddi i ddewiniaeth: ond pan welodd y gwir wyrthiau a wnaed gan Gristionogion, cododd blys ynddo, fel yntau, o fod yn Gristion, gan ddisgwyl derbyn y doniau gwyrthiol. Ond, wedi cael ei siomi o'i ddisgwyliad, dychwelodd at ei rodres-waith i hudo y bobl; am ba achos yr esgymmunwyd ef o'r eglwys. Aeth wedi hyny yn broselyt i'r grefydd Iuddewig; ac ar ol dysgu Hebraeg dan Rabbi Akiba, ag oedd hynod am ei ddysg yn yr oes hòno, aeth ynghylch y gorchwyl o gyfieithu ysgrythyrau yr Hen Destament i'r Groeg. Gwnaeth ddau gyhoeddiad o'r gwaith hwn; y cyntaf yn y 12fed flwyddyn o deyrnasiad Adrian yr Ymerawdwr Rhufeinig, yr hon oedd y flwyddyn 128 o oed Crist. Wedi iddo ail olygu ei waith, gwnaeth ail gyhoeddiad o hono; a hwn yw yr un a arferwyd wedi hyny gan yr Iuddewon Groegaidd ym mhob man yn lle Cyfieithiad y LXX.

Yn fuan ar ol Cyfieithiad Aquila, y gwnaed dau ereill o'r un Ysgrythyrau; y cyntáf gan Theodotion, yn amser Commodus yr Ymerawdwr Rhufeinig; a'r llall, ychydig wedi hyny, gan Symmachus, yn amser Severus a Caracala. Dywedir fod y ddau o heresi yr Ebioniaid. Yr oedd y *sect* hòno yn proffesu credu mai Crist oedd y gwir Fessïah, ond nad oedd ond dyn yn unig. Yr oeddent yn barnu eu bod dan rwymau i gadw cyfraith Moses; gan hyny yr oeddent yn enwaededig; ac am hyny y cyfrifwyd hwynt megys Iuddewon gan Gristionogion union gred. Bernir fod gau ddibenion gan bob un o'r tri hyn, yn eu gwaith o gyf-

ieithu yr Ysgrythyrau; sef, eu gŵyr-droi, fel yr ymddangosent o ochr y pleidiau ag yr oeddynt yn perthyn iddynt. Y mae Aquila yn cyfieithu yn ol llythyren y gair, gan roddi gair am air, heb ofalu am roddi yr ystyr yn ddealladwy, yn ol priodoldeb yr iaith Roeg. Y mae Symmachus, yn y gwrthwyneb, wedi rhoddi dehongliad yn ol ei feddwl ei hun, yn hytrach na chyfieithiad cywir. Ond cymmerodd Theodotion lwybr canol rhwng y ddau, trwy roddi (oreu y medrai) gwir ystyr yr Hebraeg, mewn iaith sathredig a dealladwy. Am hyny, cafodd hwn y blaenoriaeth ym mhlith pawb (ond yr Inddewon yn unig) ar y ddau ereill. A phan welodd y Cristionogion yn y prif oesoedd fod Cyfieithiad y LXX. o lyfr Daniel yn rhy anghywir i'w ddarllen yn yr eglwysi, cymmerasant Gyfieithiad Theodotion o'r llyfr hwnw, i'w Biblau, yn ei le.

PENNOD XIX.

Dilyniad o'r Hanesyddiaeth.

Pan ddechreuodd y Rhufeiniaid gael clod ac enwogrwydd mewn gwledydd pellenig, ar ol iddynt yru Pyrrhus, brenin Epirus, o'r Ital, ar ol rhyfel o chwe blynedd, danfonodd Ptolemy Philadelphus genadon atynt i ddeisyf eu cyfeillgarwch, yr hyn oedd yn rhyngu eu bodd, gan fod brenin mor fawr yn chwennych bod yn gyfaill iddynt. Yn y flwyddyn 274 cyn geni Crist y bu hyn; ac yn y flwyddyn ganlynol, mewn ffordd o gydnabyddiaeth am yr anrhydedd hwn, danfonodd y Rhufeiniaid dri o genadon at Ptolemy, sef Quintus Fabius Gurgis, Cneius Fabius Pictor, a Quintus Ogulinus, i ba rai y rhoddodd y brenin goronau o aur; ond yn lle eu cadw iddynt eu hunain, dodasant hwy ar benau delwau y brenin, ag oedd yn sefyll yn lleoedd cyhoedd y ddinas. Ond ar eu hymadawiad, anrhegwyd hwy gan y brenin â llawer o roddion gwerthfawr, y rhai a dderbyniasant rhag ei ddigio; ond ar eu dyfodiad i Rufain, rhoddasant hwynt yn y trysordy cyffredin, gan ymfoddloni ar yr anrhydedd yn unig o gyflawni eu cenadwri yn ffyddlon dros y wladwriaeth. Er i'r Rhufeiniaid dderbyn i'w trysorfa y rhoddion a draddodasai y cenadon iddi; etto, gan eu bod yn chwennych gwobrwyo y fath siampl o haelioni ac hunan-ymwadiad, rhoddwyd iddynt o'r drysorfa eu llawn werth mewn arian. Yr oedd y cyffelyb rinweddau yn gyffredin ym mhlith y Rhufeiniaid, ym moreuddydd eu gwladwriaeth, cyn iddynt ddechreu ymlygru â moethau a chybydd-dod; a thrwy hyny y gosodasant sylfaen y mawredd a'r cadernid a gyrhaeddasant ato wedi hyny.

Yn y 24ain flwyddyn i Ptolemy Philadelphus, a 261 cyn geni Crist, bu farw Antiochus Soter, brenin Syria, a'i fab Antiochus a gyfenwid Theus, neu *y duw*, a deyrnasodd yn ei le. Mab oedd hwn iddo o Stratonice, am briodas anghyfreithlon pa un y soniwyd eisoes. Pan ddaeth Antiochus Theus gyntaf i'r orsedd, priododd Laodice, ei chwaer ei hun

o'r un tad, yn ol arfer lygredig breninoedd Persia, a Ptolemeaid yr Aipht. Cafodd y cyfenw Theus gan y Milesiaid, trigolion Miletus, yn Asia Leiaf, am eu gwared oddiwrth ormes-lywodraeth un Timarchus, yr hwn a orchfygwyd, ac a laddwyd ganddo; am ba achos yr anrhydeddasant ef megys duw. Yr oedd y cyffelyb anfad weniaith a gau-addoliad yn gyffredin, bron ym mhob oes, ym mhlith y cenedloedd. Ychydig o'r blaen y cyssegrasai trigolion ynys Lemnos ei dad a'i daid yn dduwiau, ac adeiladasant iddynt demlau; a thrigolion Smyrna a wnaethant yr un peth i'w fam Stratonice.

Yn y 26ain flwyddyn i Ptolemy Philadelphus, yr 2fed i Antiochus Theus, a 259 cyn geni Crist, adeiladodd Ptolemy ddinas ar yr ochr orllewinol i'r Môr Coch, yn agos i derfynau Ethiopia; ac a'i galwodd Berenice, ar ol enw ei fam: ac wedi hyny, yn yr un gymmydogaeth, adeiladodd Myos Hormus, am fod yno borthladd mwy cyfleus. Oddi yma y dygwyd, ar gefnau camelod, i Coptus, dinas ar fin afon Nilus, holl farsiandiaeth Arabia, India, Persia, ac Ethiopia; ac oddi yno i lawr yr afon hòno i Alexandria, o ba le y gwasgarwyd hwynt i holl wledydd y gorllewin trwy Fôr y Canoldir; a marsiandiaeth y gorllewin a ddygwyd ar hyd yr un ffordd i'r dwyrain. Fel hyn y sefydlwyd marsiandiaeth y byd yn Alexandria, megys mewn canol-bwynt, a pharhaodd yno dros ychwaneg na dau gant ar bymtheg o flynyddoedd, a bu yn achos o gyfoethogi y ddinas a'r wlad yn ddirfawr: hyd oni chafwyd, ychydig gyda thri chan mlynedd yn ol, ffordd i fyned i'r India heibio y Penrhyn hwnw yn neheubarth Affrica a elwir, *Cape of Good Hope.* Gan fod y ffordd o Coptus i'r Môr Coch trwy ddiffeithwch sych, tywodog, heb ddim dwfr na thai i lettya fforddolion, gwnaeth Ptolemy ddyfrffos, o Coptus, i ddwyn dwfr o afon Nilus ar hyd yr holl ffordd, a thafarndai lle yr oedd ymgeledd angenrheidiol i'w gael i ddyn ac anifail. Yr oedd rhan fawr o'r marsiandiaeth hwn gan freninoedd Judah, o amser Dafydd hyd amser Jehoram mab Jehosaphat, pan wrthryfelodd Edom (2. *Bren.* 8. 20.) a difeddiannwyd hwynt o'r ddau borthladd ag oedd ganddynt yn y wlad hòno ar y Môr Coch, sef Elath ac Eziongaber. Adferwyd y marsiandiaeth hwn gan Uzziah brenin Judah, yr hwn a ailadeiladodd Elath (2 *Bren.* 14. 22.) ond collwyd ef yn llwyr yn amser Ahaz, pan yrodd Rezin brenin Syria yr Iuddewon o Elath, ac a sefydlodd ei bobl ei hun yno. 2 *Bren.* 16. 6.

O'r diwedd, aeth Tyrus yn farchnadyddes y byd, ac a barhaodd felly dros lawer o oesoedd, hyd onid aeth ei marsiandwyr fel tywysogion o ran cyfoeth, a'i chadernid ar y môr yn fwy na'r eiddo breninoedd Assyria a Babilon. *Esa.* xxiii. *Ezec.* xxvii. Ond ffrydiau cyfoeth Tyrus a drowd, yn y modd y dywedwyd, i Alexandria, ac wedi hyny i Venice, Antwerp, ac Amsterdam, yn olynol; ond Llundain, a phorthladdoedd Brydain, oeddent, hyd yn ddiweddar, yn ganol-bwynt marsiandiaeth y byd.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef y 27ain i Ptolemy Philadelphus, gan fod Magas, brenin Cyrene a Lybia, yn heneiddio ac yn gwanhau rhoddwyd terfyn ar y rhyfel a fuasai rhyngddo a'i frawd Ptolemy, brenin yr Aipht, ar yr ammod o roddi ei unig ferch, Berenice, mewn priodas i fab hynaf Ptolemy, ynghyd â'r gwledydd ag oedd dan ei lywodraeth; ac ym mhen oddeutu blwyddyn, bu farw Magas, ar ol llywodraethu ar Lybia a Cyrene 50 mlynedd, cyn gweled cyflawni y cytundeb trwy briodas ei ferch. Ar ol ei farwolaeth, gwnaeth ei wraig Apame ei goreu i dòri y cyfammod, ac a ddanfonodd i Macedonia am Demetrius, mab Demetrius Poliorcetes, gan addaw iddo ei merch yn wraig, gyda Lybia a Cyrene. Ond pan ddaeth Demetrius, syrthiodd Apame mewn cariad âg ef ei hun; a'r canlyniad a fu iddo esgeuluso y dywysoges ieuangc, ac ymroddi i aflendid gyd â'r fam; yr hyn a gyffrodd benaethiaid y wlad, a'r milwyr, i ruthro i ystafell Apame, a'i wânu â'u cleddyfau o flaen ei llygaid, er iddi wneuthur ei goreu i achub ei fywyd. Ar ol hyny, priodwyd Berenice â mab Ptolemy, ac Apame a ddanfonwyd i Syria, at ei brawd Antiochus Theus. Digwyddodd hyn yn y flwyddyn 257 cyn geni Crist, a'r 28ain i Ptolemy Philadelphus.

Pan ddaeth Apame at ei brawd Antiochus Theus, hi a'i cyffrodd i fyned i ryfel â Ptolemy Philadelphus; yr hwn a barhâodd yn hir, er mawr golled i Antiochus, ac a fu yn achlysur i erchyll-waith yn ei deulu, trwy ba un y dinystriwyd ef ei hun, fel y dangosir ym mlaen. Torodd y rhyfel hwn allan yn y 30ain flwyddyn i Ptolemy, y 6ed flwyddyn i Antiochus Theus, a'r flwyddyn cyn geni Crist 255. Ond er iddo barhau oddeutu 6 blynedd, etto nid yw haneswyr wedi trosglwyddo i ni ddim o bwys a ddigwyddodd ynddo, ond ei fod yn achos i amryw o daleithiau dwyreiniol teyrnas Antiochus i wrthryfela yn ei erbyn; yr hyn a roddes ddechreuad i deyrnas y Parthiaid, yn y flwyddyn cyn geni Crist 250. Yr achos oedd hyn: Yr oedd Agathocles, rhaglaw yn Parthia dan Antiochus Theus, gan fod ei duedd at losgach Sodom, wedi gwneuthur cais i borthi ei chwant anaturiol ar ddyn ieuangc o'r enw Teridates. Yr oedd gan hwn frawd a alwyd Arsaces; yr hwn, ynghyd â'i gyfeillion, a ddialodd gam ei frawd, trwy ladd y rhaglaw; ac, wedi casglu byddin, a yrodd y Macedoniaid o'r dalaeth, gan osod ei hun i fynu yn ben ar y wlad. Oddeutu yr un amser gwrthryfelodd Theodotus yn Bactria; ac, o fod yn rhaglaw dan Antiochus Theus, a aeth yn frenin ar y wlad hòno, ym mha un y dywedir fod mil o ddinasoedd. Y siamplau hyn a ddilynwyd gan ereill, fel y collodd Antiochus Theus y rhan fwyaf o'r taleithiau ag oedd ganddo tu hwnt i'r afon Tigris. Digwyddodd hyn (yn ol *Justin, Lib.* 41. *c.* 4.) pan oedd L. Manlius Vulso, a Marcus Attilius Regulus, yn gynghoriaid *(consuls)* yn Rhufain, yn y flwyddyn U. C. 504, yr hon sydd yn cyfateb i'r flwyddyn cyn geni Crist 250. *Dr. Hales's Chron.*

Yn y flwyddyn ganlynol, heddychwyd rhwng Ptolemy Philadelphus âg Antiochus Theus, ar yr ammodau i Antiochus ysgar Laodice, a phriodi Berenice, merch Ptolemy, gan sefydlu teyrnas Syria ar hiliogaeth gwrryw y briodas. Yr ammodau hyn a gyflawnwyd—ysgarodd Antiochus â Laodice, er fod ganddo ddau fab o honi; a Ptolemy a hwyliodd gyd â'i ferch o Pelusium i Seleucia, ar yr afon Orontes, lle cadwyd y briodas gyda rhwysg mawr.

Oddeutu dwy flynedd wedi hyny, bu farw Ptolemy Philadelphus, ar ol teyrnasu 38 mlynedd. Bernir fod ei farwolaeth wedi cael ei phrysuro trwy alar am Arsinoe ei wraig, â'i chwaer hefyd (fel y dywedwyd) yr hon a fu farw ychydig o'i flaen. Gadawodd Philadelphus ddau fab a merch o'i wraig gyntaf Arsinoe, merch Lysimachus; sef Ptolemy Euergetes yr hynaf, a deyrnasodd yn ei le, Lysimachus, a Berenice, yr hon a briodwyd âg Antiochus Theus. Adeiladodd Ptolemy Philadelphus lawer o ddinasoedd yn ei amser, ac adgyweiriodd amryw o hen rai, gan roddi enwau newydd arnynt. O'r cyfryw yr oedd dwy yn Palestina; sef Ace, yr hon a alwyd Acon, yr un ag Accho yn llwyth Aser (*Barn.* 1. 31.) a Rabbath, neu Rabbah meibion Ammon. Y cyntaf o'r rhai hyn a alwodd efe Ptolemais, yr hon a fu gynt yn borthladd enwog, ac sydd etto yn amddiffynfa gadarn, dan yr enw Acre; yr hon, trwy gynnorthwy ein cydwladwyr, a wrthwynebodd yn llwyddiannus yr ymgais a wnaethpwyd yn ddiweddar gan dywysog milwraidd y Ffrangcod î'w chymmeryd.* Rabbah a alwodd Ptolemy dan yr enw Philadelphia. Er cymmaint oedd ei draul, gadawodd gyfoeth mawr yn ei drysorfa ar ei ol. Er fod ganddo ddwy lynges fawr, un yn y Môr Coch, a'r llall ym Môr y Canoldir, a byddin o ddau can mil o wyr traed, a deugain mil o wyr meirch, tri chant o elephantiaid, a dwy fil o gerbydau arfog, heblaw arfau yn ei arf-gelloedd i dri chan mil yn ychwaneg, ynghyd â phob math o beiriannau rhyfel; etto gadawodd yn ei drysorfa saith can mil a deugain mil o dalentau yr Aipht, mewn arian parod; yr hyn, yn arian Lloegr, a wna swm anferth, sef tri chant a thri ar ddeg ar hugain o filiynau o bunnau.† Yr hyn sydd yn dangos mawredd ei gyllidau, a'r elw mawr ag oedd yn dylifo i mewn iddo oddiwrth fod Alexandria yn ganol-bwynt marsiandiaeth y byd. Ond y clod penaf ag oedd yn perthyn i Ptolemy

---

* Yr hyn a fu yn 1799. Ymosodwyd arni, er y pryd hyny, yn llwyddiannus gan lyngesau unedig Lloegr, Rwssia, Awstria, a Thwrci, ar y 3ydd o Dachwedd, 1840, ac a'i darostyngwyd mewn ychydig oriau; yr hon, hyd yn hyn, a gyfrifid yn anorchfygol, ac ydoedd yn amddiffynfa gadarnaf ar arfordir Syria. Yr oedd hi y pryd hyny ym meddiant Mehemet Ali, yr hwn a'i cyhoeddasai ei hun yn annibynol ar Twrci.—Y mae hi yn gorwedd 24 milltir i'r dehau o Tyrus, a 47 i'r gogledd o Jerusalem, a'i phoblogrwydd, meddant sydd oddeutu 20,000.—Cyh.

† Yr oedd talent Alexandria yn 450 o bunnau o arian Lloegr; felly 740,000 o dalentau a wna 333,000,000 o bunnau.

Philadelphus oedd ei waith yn coleddu dysgeidiaeth, a'i fod yn noddwr i ddysgedigion. Dywedir fod saith o'r beirdd Groegaidd, mwyaf enwog o'r oes hòno, yn byw yn ei lŷs; y mae gwaith pedwar o honynt yn parhau etto, sef Theocritus, Callimachus, Lycophron, ac Aratus. Ysgrifenodd y cyntaf fugeil-gerdd, a'r olaf emyn i ddatgan ei glod.

Yn y flwyddyn 246 cyn geni Crist, y 15fed i Antiochus Theus, a'r 1af i Ptolemy Euergetes, pan glybu Antiochus Theus am farwolaeth Ptolemy Philadelphus, symudodd Berenice o'i wely, a galwodd Laodice a'i meibion yn ol ato. Ond gan fod Laodice yn gwybod am dymher anwadal Antiochus, cymmerodd y cyfleusdra o'i wenwyno, rhag iddo gyfnewid, a'i throi hi ymaith, gyd â'i meibion, drachefn. Celwyd ei farwolaeth dros ryw hyd; ac yn y cyfamser ffug-luniwyd gorchymyn megys yn enw Antiochus, trwy ba un y cymmerodd Seleucus, a gyfenwid Callinicus, ei fab hynaf o Laodice, feddiant o'r orsedd, ac a eisteddodd arni ugain mlynedd. Ond gan nad oedd Laodice yn barnu fod diogelwch i'w mab tra byddai Berenice a'i mab fyw, bwriadodd dori y ddau ymaith. Yr hyn, pan glybu Berenice, ffôdd gyd â'i mab bychan i'r noddfa yn Daphne, ag oedd, fel y soniwyd, yn agos i Antiochia.* Ond trwy dwyll y rhai ag oedd yn gwarchae arni, hudwyd hi allan o'r noddfa, a lladdwyd hi â'i mab, ynghyd â'r gweinidogion a ddaethai gyda hi o'r Aipht.

PENNOD XX.

Dilyniad o Eglurkad Prophwydoliaeth Daniel, Pen. 11.

Ym mhriodas Berenice âg Antiochus Theus, a'r canlyniadau erchyll a darddodd oddi wrthi, y cyflawnwyd y brophwydoliaeth a gynnwysir yn y 6ed adnod o'r 11eg bennod o Daniel. 'Ac yn niwedd y blynyddoedd yr ymgyssylltant,' hyny yw, breninoedd yr Aipht a Syria a ymgyfathrachant;—'canys merch brenin y dehau a ddaw at frenin y gogledd i wneuthur cymmod,' neu 'uniondeb,' fel y mae yr Hebraeg yn arwyddocâu; hyny yw, i uniawni yr ymrafaelion, a'r anghydfod ag oedd rhyngddynt;—'ond ni cheidw hi nerth y braich, ac ni saif yntau na'i fraich;' hyny yw, amddifadir hi o bob gallu ac awdurdod, ac yntau, sef Antiochus Theus, ni saif. Ni safodd efe at ei gytundeb; ni safodd, mewn ystyr arall, gan iddo gael ei gymmeryd ymaith trwy fradwriaeth Laodice ei wraig gyntaf;—'eithr rhoddir hi i fynu, a'r rhai a'i dygasant, a'r hwn a'i cenedlodd hi (neu 'yr hwn a genedlwyd o honi,' sef ei mab, *Prideaux)* a'i chymhorthwr,' sef ei thad Ptolemy Philadelphus,

---

* Yr oedd amryw leoedd cyssegredig, bron ym mhob gwlad, ym mhlith y cenedloedd, lle yr oedd drwg-weithredwyr, ac ereill, yn ffoi am nodded, rhag y rhai ag oedd yn ceisio eu heinioes. Benthycwyd yr arfer, tybygid, oddiwrth ddinasoedd noddfa yr Iuddewon.

yr hwn a fu farw ychydig o'r blaen; marwolaeth pa un a agorodd y ffordd i'r holl aflwydd a ddaeth ar ei ferch Berenice. Y mae yr hanesyddiaeth yn esponiad mor eglur ar y brophwydoliaeth, fel nad oedd ryfedd i'r pagan Porphyry daeru i lyfr Daniel gael ei ysgrifenu ar ol cyflawniad y pethau a brophwydir ynddo.

PENNOD XXI.

Dilyniad o'r Hanesyddiaeth.

Pan glybu dinasoedd Asia Leiaf fod Berenice wedi gwarchae arni yn Daphne, tosturiasant wrthi, ac arweiniasant fyddin tu ag Antiochia i'w gwaredu; a'i brawd, Ptolemy Euergetes, a arweiniodd fyddin fwy lïosog o'r Aipht i'r un diben. Ond lladdwyd Berenice, a'i mab, cyn iddynt gyrhaedd i'w hachub; gan hyny ymunodd y ddwy fyddin i ddial eu marwolaeth. Ptolemy nid yn unig a laddodd Laodice, ond a ddarostyngodd Syria a Cilicia; ac, wedi myned dros yr Euphrates, a ddygodd yr holl wlad, cyn belled a Babilon a'r afon Tigris, dan ei lywodraeth; ac a fuasai yn darostwng yr holl daleithiau ereill ag oedd yn perthyn i Ymerodraeth Syria, oni buasai i wrthryfel a dorodd allan yn yr Aipht ei alw ef adref. Gan hyny, wedi gadael rhaglawiaid i lywodraethu y gwledydd a oresgynasai, dychwelodd i'r Aipht âg yspail fawr, sef deugain mil o dalentau arian, a nifer mawr o lestri aur ac arian, yn nghyd â dwy fil a phum cant o ddelwau, ym mhlith pa rai yr oedd llawer o ddelwau yr Aipht, a ddygasid gan Cambyses i Persia. Pan adferwyd y rhai hyn yn ol i'w temlau priodol, ennillodd Ptolemy serch yr Aiphtiaid trwy hyn yn fwy na dim arall—gan eu bod, o bawb, yn genedl fwyaf coel-grefyddol ac eilun-addolgar. Am hyn y rhoddasant iddo y cyfenw Euergetes, sef *gweithredwr* neu *gymmwynaswr da*.

PENNOD XXII.

Eglurhad o Brophwydoliaeth Daniel, Pen. 11. 7, 8, 9.

Felly y cyflawnwyd y brophwydoliaeth yn y 7fed, yr 8fed, a'r 9fed adnodau o'r 11eg bennod o Daniel. Canys Ptolemy Euergetes oedd yr hwn a safodd yn lle Ptolemy Philadelphus, yr hwn oedd 'flaguryn ei gwraidd hi,' sef wedi tarddu o'r un gwreiddyn a Berenice, gan ei fod yn frawd iddi. Efe a ddaeth â llu, fel y dangoswyd, 'i amddiffynfa brenin y gogledd,' ac a wnaeth rymusder, ac a orchfygodd ei ddeiliaid; ac a ddygodd i gaethiwed i'r Aipht eu duwiau hwynt a'u tywysogion, a'u dodrefn anwyl o arian ac aur, ac a barhaodd fwy o flynyddoedd na brenin y gogledd; canys Ptolemy Euergetes a fu byw bedair blynedd ar ol Seleucus Callinicus, fel y dangosir ym mlaen.

PENNOD XXIII.

Dilyniad o'r Hanesyddiaeth.

Pan oedd Ptolemy yn cychwyn i'w gyrch yn erbyn Syria, addunedodd ei frenines, yr hon hefyd a alwyd Berenice, i gyssegru ei gwallt (ym mha un, tybygid, yr oedd llawer o'i harddwch yn gynnwysedig) yn offrwm i'r Zephyrian Venus, sef y dduwies a addolid yn y deml a adeiladasid gan Ptolemy Philadelphus, ar y penrhyn a alwyd Zephyrium, yn ynys Cyprus, er anrhydedd i'w hoff wraig Arsinoe. A chan iddi dderbyn ei gwr yn iach o'i daith hirfaith, hi a dorodd ei gwallt, ac a gyflawnodd ei haddunedd. Ond, ym mhen ychydig wedi hyny, collwyd y gwallt (wedi ei fwrw allan, hwyrach, yn ddiystyrllyd, gan yr offeiriaid) a llid y brenin a gynhyrfodd yn fawr o'r achos, hyd oni ddarfu i un *Conon* o Samos, dysgawdwr gwenieithus, oedd y pryd hyny yn Alexandria, daeru i'r gwallt cyssegredig gael ei gipio i fynu i'r nefoedd; ac, i gadarnhau hyny, dangosodd saith seren, yn agos i Gynffon y Llew, y rhai ni ddygasid o'r blaen i un cydseryddiad, y rhai a hònodd oedd gwallt cyssegredig y frenines. A'r astronomyddion ereill, er mwyn rhyngu bodd i'r brenin a'r frenines, a gydsyniasant yn yr un gweniaith. Ac felly yr aeth Coma Berenices, sef *Gwallt Berenice*, yn un o'r cydseryddiadau, fel y mae hyd heddyw.

Ar ddychweliad Ptolemy Euergetes o'r cyrch yn erbyn Syria, daeth i Jerusalem, ac offrymodd ebyrth o ddiolchgarwch i Dduw Israel; a'r achos o hyny, tybygid, oedd, am i rai o'r offeiriaid ddangos iddo brophwydoliaeth Danièl, a pha fodd y cyflawnasid hi ganddo yn ei gyrch diweddar; gan hyny, gallai farnu ei fod yn rhwym i ddiolch am ei lwyddiant yn hytrach i'r Duw hwnw, oedd, trwy ei brophwyd, wedi rhagddywedyd am dano, nag i dduwiau yr Aipht.

Yn yr eilfed flwyddyn i Ptolemy Euergetes, yr hon oedd y gyntaf i Seleucus Callinicus, a 245 cyn geni Crist, bu Seleucus yn aflwyddiannus iawn yn ei ymgais o ddarostwng dinasoedd Asia Leiaf, ag oedd wedi gwrthryfela yn ei erbyn; canys collodd ei holl lynges trwy ystormydd; ac efe ei hun, gyd âg ychydig o'i ganlynwyr, oedd y cwbl a ddiangasant. Ond yr aflwydd hwn, mewn modd annisgwyliadwy, a fu yn achos o'i dderchafiad o'r cyflwr isel ag yr oedd wedi myned iddo; canys dychwelodd y dinasoedd i'w hufudd-dod iddo o wir dosturi tu ag ato, gan farnu fod ei golled fawr ar y môr yn ddigon o gospedigaeth arno am farwolaeth Berenice.

Yn y flwyddyn ganlynol, ennillodd Ptolemy Euergetes fuddugoliaeth fawr arno mewn brwydr ar y tir; canys wedi colli bron ei holl fyddin, efe a ddiangodd i Antiochia, gyda chyn lleied o ganlynwyr ag o'r blaen.

Ar hyn gwahoddodd Seleucus ei frawd Antiochus, a gyfenwid Hieracs, neu *hebog* (am ei fod am ysglyfaethu yr hyn a allai) i ddyfod i'w gynnorthwy; gan addaw dinasoedd Asia iddo yn wobr am ei wasanaeth. Yr oedd Antiochus, y pryd hyny yn Asia Leiaf, ac yn dywysog ar fyddin, er nad oedd ond 14eg oed.

Ar ol yr ail aflwydd a gafodd Seleucus, ymunodd Magnesia a Smyrna, dinasoedd yn Asia Leiaf, mewn cynghrair, o dosturi a serch tu ag ato, i'w gynnorthwyo â'u holl gadernid. A sylwedd y cynghrair hwn a gerfiasant ar golofn o faen marmor, mewn llythyrenau mawr, yn yr iaith Roeg. Dygwyd y golofn hon, gyd âg ereill, o Asia Leiaf, gan Thomas, Iarll Arundel, yn amser Charles y cyntaf, brenin Lloegr: ac y maent i'w gweled yn yr Olygfa *(Theatre)* yn Rhydychain.

Pan ddeallodd Ptolemy fod Antiochus Hieracs yn dyfod i gynnorthwyo ei frawd, bu foddlon i wneuthur heddwch â Seleucus dros 10 mlynedd. Gwnawd yr heddwch hwn yn y 4edd flwyddyn i Ptolemy Euergetes, yr hon oedd y 3edd i Seleucus Callinicus, a 243 cyn geni Crist.

Ar ol heddychu â Ptolemy, bu raid i Seleucus fyned i ryfel â'i frawd Antiochus Hieracs, yr hwn oedd yn hòni ei hawl i ddinasoedd Asia; ond gan nad oedd Seleucus wedi cael achos am ei gynnorthwy, nid oedd yn gweled angenrheidrwydd i dalu y fath wobr. Bu Seleucus yn aflwyddiannus iawn yn nechreu y rhyfel hwn, ond yn y diwedd cafodd y goreu ar ei frawd; yr hwn, wedi ei yru o'r wlad, a ddiangodd yn y diwedd i'r Aipht, lle y rhoddwyd mewn carchar, yr hwn a dorodd, ac a syrthiodd i ddwylaw lladron, y rhai a'i lladdasant.

Yn yr 11eg flwyddyn i Ptolemy Euergetes, y 10fed i Seleucus Callinicus, a 236 cyn geni Crist, wedi i Seleucus gael gwared o'r rhyfel â'i frawd, aeth gyda byddin tu a'r dwyrain, gan feddwl adferu Parthia, a'r taleithiau ereill oedd wedi taflu yr iau, drachefn dan ei lywodraeth. Ond ni lwyddodd yn ei ymgais, gan fod Arsaces wedi cael cymmaint o amser i sefydlu ei hun, ac i ymgadarnhau yn ei draws-feddiant: gorfu i Seleucus ddychwelyd gyda gwarth a siomedigaeth. Ym mhen 6 blynedd wedi hyny gwnaeth ail gais; ond y tro hwn, heblaw colli y frwydr, cymmerwyd ef yn garcharor gan Arsaces, a bu yn Parthia tra fu byw, yr hyn oedd oddeutu pum mlynedd. Dywedir i Arsaces ymddwyn yn foneddigaidd tu ag ato yn ei gaethiwed. Bu farw o godwm oddiar ei geffyl, yn yr 20fed flwyddyn o ddechreuad ei deyrnasiad, yr 21ain i Ptolemy Euergetes, a 226 cyn geni Crist. Ei wraig oedd Laodice, merch Andromachus, un o dywysogion ei lu. O honi cafodd ddau fab a merch; y meibion oedd Seleucus ac Antiochus, y rhai a deyrnasasant ar ei ol, yn olynol. Rhoddodd ei ferch mewn priodas i Mithridates, brenin Pontus; a Phrygia, yn Asia Leiaf, megys gwaddol gyda hi.

Seleucus, yr hynaf o'r ddau fab, a ddilynodd ei dad ym mreniniaeth Syria, yn yr 22ain flwyddyn i Ptolemy Euergetes, ac a gymmerodd y

cyfenw Ceraunos, hyny yw, *taranwr*, yr hwn oedd yn bur ammhriodol iddo, canys tywysog gwan ydoedd o gorph, meddwl, a chôd; ac yn ei deyrnasiad byr o dair blynedd, ni wnaeth ddim teilwng o goffadwriaeth. Cafodd ei wenwyno trwy fradwriaeth dau o'i brif gadbeniaid, tra yr oedd gyd â'i fyddin yn Phrygia; a chan ei fod yn marw yn ddiblant, ei frawd Antiochus, yn 15eg mlwydd oed, a deyrnasodd yn ei le, yn y 24ain flwyddyn i Ptolemy Euergetes, a'r flwyddyn cyn geni Crist 223. Yn y flwyddyn ganlynol, yr hon oedd y gyntaf i Antiochus (a gafodd, wedi hyny, y cyfenw Mawr, o herwydd mawredd ei weithredoedd) bu farw Ptolemy Euergetes, ar ol teyrnasu 25ain mlynedd, sef pedair blynedd ar ol marwolaeth Seleucus Callinicus; ac felly y cyflawnwyd y brophwydoliaeth (*Dan.* 11. 8.) 'Ac efe a bery fwy o flynyddoedd na brenin y gogledd.' Efe oedd yr olaf o freninoedd Groegaidd yr Aipht, a deyrnasodd gyda dim arwyddion o rinwedd a gweddeidd-dra; anghenfilod mewn drygioni ac aflendid oedd y rhai oll a'i dilynasant. Ar ol heddychu â Syria, fel y soniwyd, helaethodd ei derfyn tu a'r dehau, cyn belled a chwr isaf y Môr Coch, a elwir yn bresennol Cyfyngfor Babelmandel, gan ddarostwng goror y môr hwnw o bob ochr, yn gystal yn Ethiopia ag yn Arabia. Ar ei ol ef teyrnasodd ei fab Ptolemy Philopator, yn yr 2fed flwyddyn i Antiochus Fawr. Cymmerodd yr enw Philopator, hyny yw, *carwr ei dad*, fe allai, fel hûg i geisio cuddio ei ddrygioni, canys cafodd y gair o wenwyno ei dad; ac ni fu yn hir ar yr orsedd cyn iddo ladd ei fam, a'i frawd Magas.

Pan ddaeth Antiochus, a gyfenwid Mawr, i'r orsedd, ar ol trefnu ei faterion gartref, danfonodd Alexander a Molon, dau frawd, i fod yn rhaglawiaid, un ar Media, a'r llall ar Persia; taleithiau Asia Leiaf a roddodd dan ofal ei gâr Achæus, yr hwn a adferodd yno yr hyn a ddygasid oddiar Ymerodraeth Syria, gan Attalus, brenin Pergamus. Ond Alexander a Molon, gan ddiystyru ieuengctid y brenin, a wrthryfelasant, gan osod eu hunain i fynu yn freninoedd yn y taleithiau a ymddiriedwyd iddynt.

Yn y cyfamser, sef y flwyddyn 222 cyn geni Crist, bu daear-gryn mawr yn y dwyrain, yr hwn a wnaeth lawer o ddinystr mewn amryw fanau, yn enwedigol yn Caria, talaeth o Asia Leiaf, ac ynys Rhodes oedd ar ei chyfer. Yn yr olaf, taflwyd i lawr, nid yn unig, y tai a'r caerau oddi amgylch dinas Rhodes, ond y ddelw aruthr o bres, a alwyd Colossus Rhodes, a gyssegrasid i'r haul, ac a gyfrifid yn un o saith rhyfeddodau y byd. Yr oedd y ddelw hon ar lun dyn, yn 105 troedfedd o uchder, a'i holl ranau yn gyfatebol. Yr oedd ei thraed yn sefyll o bob tu porthladd Rhodes, a digon o uchder a lled rhyngddynt i longau ddyfod i mewn yn llawn hwyl. Y celfyddydwr a'i lluniodd oedd un Chares o Lindus, dinas yn Rhodes, yr hwn a fu 12 mlynedd wrth y gwaith. Er i'r Rhodiaid ddanfon cenadon i holl wledydd a theyrnas-

oedd y Groegiaid i ofyn cynnorthwyon tu ag at ei hail godi, a derbyn mwy na phum gwaith gymmaint ag oedd ddigon at y gwaith, ni chodasant y ddelw, gan gymmeryd arnynt fod oracl Delphos yn gwarafun hyny. Gan hyny, gorweddodd yn y man lle syrthiasai dros 894 o flynyddoedd, hyd y flwyddyn o oed Crist 672, pan gymmerwyd Rhodes gan Moawias, 6ed Ymerawdwr y Saraceniaid, yr hwn a werthodd bres y ddelw i Iuddew, yr hwn a lwythodd 900 o gamelod âg ef; ac wrth gyfrif wyth gau pwys i bob camel, yr oedd y cwbl yn 720,000 o bwysau.

Yn y flwyddyn gyntaf i Ptolemy Philopator, a 221 cyn geni Crist, aeth Antiochus Fawr i ryfel âg ef, er mwyn ennill yn ol y taleithiau a ddygasai Ptolemy Euergetes oddiar ei dad Callinicus. Ond cyn y gallai fênu dim ar frenin yr Aipht, gorfu iddo fyned i'r dwyrain yn erbyn Alexander a Molon, y rhai oedd wedi trechu y byddinoedd a ddanfonasid i'w darostwng. Molon, wedi cael ei orchfygu gan Antiochus mewn brwydr, a laddodd ei hun; ac Alexander, a brawd iddo, a alwyd Nicolas, wedi clywed am aflwydd Molon, yn gyntaf a laddasant eu mam, eu gwragedd, a'u plant, ac wedi hyny eu hunain, fel na syrthient i ddwylaw y buddugoliaethwr. Yn y flwyddyn 220 cyn geni Crist y bu hyn.

Ar ol darostwng y gwrthryfel yn y dwyrain, gwrthryfelodd Achæus yn erbyn Antiochus, yn Asia Leiaf; heblaw hyny yr oedd y rhyfel yn erbyn yr Aipht ar ei ddwylaw, ac ni wyddai yn iawn i ba le i droi gyntaf. Penderfynwyd gan ei gynghoriaid mai doethach oedd ceisio ennill yn ol daleithiau cartrefol Syria, cyn cyrchu at y rhai pellenig ag oedd newydd gael eu trawsfeddiannu gan Achæus. Gan hyny, ymosododd Antiochus yn erbyn Seleucia ar yr Orontes, dinas, fel y crybwyllwyd, ar yr un afon ag Antiochia, oddeutu 15 milltir yn îs i waered; ac wedi i'w fyddin wneuthur rhuthr cyffredinol arni, efe a'i cymmerodd, ac a drodd yr Aiphtiaid oddi yno. Wedi hyny, cafodd holl Cœle-Syria i'w feddiant trwy fradwriaeth Theodotus yr Ætoliad, tywysog llu Ptolemy yn y wlad hono; yr hwn, ar yr un pryd, a draddododd Tyrus a Ptolemais i'w ddwylaw, lle yr oedd 40 o longau, heblaw trysordai yn llawn o offerynau rhyfel. Cymmerodd Damascus trwy ddichell: ond gan iddo aflwyddo yn ei ymgais yn erbyn Dora (*Jos.* 11. 2. a 17. 11.) dinas gadarn a phorthladd, gerllaw mynydd Carmel, bu dda ganddo wrando ar gynnyg Ptolemy o ymattal oddiwrth ryfel dros bedwar mis, ac a roddodd ei fyddin i auafu yn Seleucia ar yr Orontes; ac felly y diweddodd y 4edd flwyddyn o'i deyrnasiad, yr hon oedd y 3edd i Ptolemy Philopator, a 219 cyn geni Crist.

Ar ol iddynt aflwyddo i sefydlu ammodau heddwch, ymbarotôdd y ddwy blaid i ryfel yn nechreu y flwyddyn ganlynol. Antiochus a gafodd y goreu o'r rhyfel yn y flwyddyn hon; canys wedi gorchfygu byddin Ptolemy dan arweiniad Nicolas yr Ætoliad, gerllaw mynydd Libanus, ymlidiodd ar ei hol cyn belled a Sidon, gan feddwl rhoddi gwarchae arni.

Ond pan ddeallodd fod y ddinas yn rhy gadarn, o ran gwyr a phob angenrheidiau, arweiniodd ei fyddin i Galilea; ac wedi cymmeryd Philoteria, yn agos i ben gogleddol môr Tiberias, a Scythopolis (neu Bethsan) gerllaw ei ben deheuol, cymmerodd Attabyrium, dinas ar gwr mynydd Tabor, trwy ddichell. Wedi hyny, aeth dros yr Iorddonen i wlad Gilead, ac a gymmerodd feddiant o'r holl wlad a fuasai yn perthyn i'r ddau lwyth a hanner, ynghyd â Rabbath meibion Ammon. Y mae Polybius, hanesydd Groegaidd, yn galw y ddinas hon Rabbathamana, hyny yw, Rabbath Ammon. Ail-adeiladwyd y ddinas hon gan Ptolemy Philadelphus, ac a alwyd (yn ol ei enw) Philadelphia. Amddiffynodd ei hun y tro hwn, yn hir, yn erbyn Antiochus, yr hwn a'i cymmerodd, yn y diwedd, trwy dori ymaith y dwfr oddi wrthi. Gelwir hi dinas y dyfroedd. 2 *Sam.* 12. 27. Ac wedi darostwng yr Arabiaid cymmydogaethol, a gadael pum mil o wyr dan ofal Cereas ac Hippolochus (dau gadben a giliasai ato oddiwrth Ptolemy) yn Samaria, dychwelodd i Ptolemais i auafu.

Yn y 6ed flwyddyn i Antiochus Fawr, yr hon oedd y 5ed i Ptolemy Philopator, a 217 cyn geni Crist, yn nechreu y gwanwyn arweiniasant eu byddinoedd i'r maes. Casglodd Ptolemy ei fyddin i Pelusium, yn cynnwys deng mil a thriugain o wyr traed, pum mil o wyr meirch, heblaw 70 o elephantiaid: ac wedi teithio dros yr anialwch sydd rhwng yr Aipht a Phalestina, gwersyllodd gerllaw Raphia, tref rhwng Rhinocorura a Gaza. Yno cyfarfu Antiochus âg ef â byddin nad oedd fawr lai; canys yr oedd ganddo ddwy fil a thriugain o wyr traed, chwe mil o wyr meirch, a 102 o elephantiaid. Tra bu y ddwy fyddin yn gorwedd ar gyfer eu gilydd, ac yn ymhèru, Theodotus yr Ætoliad, un o gadbeniaid Antiochus (am ba un y soniwyd eisoes) a aeth, gyda dau ereill, yn ddirgelaidd, ar noswaith led dywyll, i wersyll yr Aiphtiaid, gan fwriadu rhoddi terfyn i'r rhyfel trwy ladd brenin yr Aipht. Ond ni ddigwyddodd y brenin fod yn ei babell; gan hyny, wedi lladd ei ben-meddyg, a chlwyfo dau ereill, diangodd yn ddiogel i'w wersyll ei hun, o herwydd y cythrwfl a fu ei ruthr yn achos o hono. Ni bu hir oed ar ol hyn cyn i'r ddau frenin drefnu eu byddinoedd i ymladd brwydr benderfynol. Arsinoe, yr hon oedd chwaer a gwraig Ptolemy, nid yn unig a farchogodd gyd âg ef i galonogi y milwyr o flaen y frwydr, ond cyfranogodd o'i boethder a'i beryglon. Y canlyniad o'r frwydr oedd i Antiochus, gyd âg asgell ddehau ei fyddin, orchfygu yr asgell elynol ag oedd ar ei gyfer, yr hon a erlidiodd yn rhy bell. Yn y cyfamser bu yr Aiphtiaid yn rhy drwm yn erbyn asgell aswy ei fyddin; ac, wedi ei gyru i gilio, syrthiasant ar y rhan hono o'r fyddin oedd yn y canol, ac a'i gorchfygasant. Gwelodd Antiochus ei gamsyniad yn rhy ddiweddar i adferu y frwydr. Collodd ddeng mil yn lladdedigion, a phedair mil yn garcharorion; gyd â'r gweddill, ciliodd yn ol i Antiochia, gan adael Palestina

a Cœle-Syria ym meddiant Ptolemy. Ymladdwyd brwydr Raphia yn yr un amser ag y gorchfygodd Hannibal, y Cynghorydd Rhufeinig, Fflaminius, wrth lyn Thrasimene, yn Hetruria, talaeth o'r Ital.

Wedi i Ptolemy ennill y taleithiau hyn yn ol, ymwelodd âg amryw o'u dinasoedd; ac, ym mhlith ereill, â Jerusalem, lle yr offrymodd lawer o ebyrth i Dduw Israel, a llawer o anrhegion i'r deml. Ond, heb fod yn foddlon i edrych arni o'r cyntedd nesaf allan, tu hwnt i ba un nid oedd gyfreithlon i un cenedl-ddyn fyned, efe a fynai fyned i mewn i'r lle sanctaidd, a'r cyssegr sancteiddiolaf, lle nid oedd neb i fyned ond yr archoffeiriad, unwaith yn y flwyddyn, ar ŵyl y cymmod. Parodd hyn gythrwfl mawr yn y ddinas; a'r offeiriaid a'r Lefiaid, ynghyd â'r holl bobl, a ymgasglasant i geisio attal y brenin, trwy ymresymiadau, erfyniadau, a chroch-lefau, rhag i'r deml gael y fath halogiad. Ond po mwyaf yr attelid, mwyaf yn y byd oedd ei awydd am wasgu ym mlaen, hyd oni tharawyd ef â'r fath ddychryn a therfysg meddwl, fel y dygwyd ef allan yn hanner marw. Ar hyn, ymadawodd o Jerusalem, mewn llid mawr yn erbyn holl genedl yr Iuddewon, gyda llawer o fygythiadau yn eu herbyn. Digwyddodd hyn yn y flwyddyn gyntaf o offeiriadaeth Simon mab Onias, yr ail o'r enw. Dioddefodd yr Iuddewon lawer o flinder oddiwrth Antiochus a Ptolemy, yn yr ymryson ag oedd rhyngddynt am y taleithiau hyn; ac yr oedd eu hen elynion y Samariaid, yn y cyfamser, yn cymmeryd pob achlysur i'w drygu, trwy anrheithio y wlad, caethgludo y trigolion, a'u gwerthu yn gaethweision.

Yr oedd amgylchiadau Antiochus yn gofyn iddo heddychu â Ptolemy, fel y gallai droi ei arfau yn erbyn Achæus; yr hwn, wedi ennill holl Asia Leiaf dan ei lywodraeth, oedd barod i wneuthur cais am Syria, a'r rhanau ereill o'r freniniaeth. Gan hyny, ar ol cytuno i ymattal oddiwrth ryfel am flwyddyn, gwnawd heddwch rhyngddynt ar yr ammod i Antiochus roddi i fynu bob hawl i Cœle-Syria a Phalestina. Yr oedd Ptolemy yn awyddus i gael seibiant oddiwrth ryfel, fel y gallai gael hamdden i ddychwelyd i Alexandria, i ymroddi yn hollol i'w bleserau a'i drachwantau anifeilaidd; ond bu ei ddeiliaid yn bur anfoddlon i'r heddwch, am na ddilynodd ei ergyd, i ddifeddiannu Antiochus o'i holl wlad. A'r anfoddlonrwydd hwn a dorodd allan, y flwyddyn ganlynol, mewn gwrthryfel yn ei erbyn yn yr Aipht.

Pan ddychwelodd Ptolemy i Alexandria, dechreuodd gyflawni ei fygythiadau yn erbyn yr Iuddewon yn y ddinas hòno, am iddo gael ei attal i fyned i'r deml yn Jerusalem. Gwnaeth gyfraith, yr hon a barodd ei hysgrifenu ar golofn gerllaw pyrth ei balas, trwy ba un y gwaharddodd bawb i ddyfod i mewn ato, ond y rhai ag oedd yn addoli yr un duwiau ag ef ei hun; ac felly y cauwyd allan yr holl Iuddewon ag oedd dan angenrheidrwydd i ddyfod ato i geisio cyfiawnder ac amddiffyn.

Trwy orchymyn arall efe a ddifreiniodd yr Iuddewon o fod yn y gradd

uchaf o ddinasyddion, ac a'u gosododd yn y trydydd gradd, sef yr isaf, ym mhlith gwerin yr Aipht. Yr oedd yr Iuddewon wedi bod, er sylfaeniad Alexandria, yn gydradd ac yn ogyfuwch eu breintiau a'r Macedoniaid. Yr ail radd oedd y milwyr llôg, o wledydd ereill, ag oedd yn gwasanaethu yn y byddinoedd. Y trydydd gradd, i ba un y drostyngwyd yr Iuddewon trwy y gorchymyn hwn, oedd trefedigion yr Aipht, ym mhlith pa rai y gorchymynwyd iddynt oll i ddyfod i gael eu cofrestru; ac, ar yr un pryd, i gael eu nodi â haiarn poeth â llun y ddeilen eiddew, yr hon oedd arwydd Bacchus, y duw cenedlig, yr hwn oedd yn y parch a'r bri mwyaf gan y brenin. Ac os byddai neb o honynt heb ufuddhau, y rhoddid ef i farwolaeth. Ond, fel nad ymddangosai yn elyn i'r holl genedl, caniatâodd i gynnifer o honynt a aberthent i'w dduwiau, gadw eu gradd a'u breintiau gynt. Ond, o gymmaint o filoedd o Iuddewon ag oedd yn Alexandria, ni chafwyd ond tri chant i ufuddhau i orchymyn y brenin; y rhai, o herwydd hyny, a ffieiddiwyd gan eu cenedl yn y fath fodd, fel na fynai neb ddim cymundeb neu fasnach â hwynt. Llidiodd y brenin yn ddirfawr o herwydd y gwrthwynebrwydd hwn yn yr Iuddewon, fel y bwriadodd ddifetha yr holl genedl yn yr holl wledydd ag oedd dan ei lywodraeth, gan ddechreu yn gyntaf ar y rhai ag oedd yn ngwlad yr Aipht. Gan hyny, parodd eu casglu hwynt oll i le ëang o'r tu allan i Alexandria, a elwid yr Hippodrome, sef *rhedegfa meirch*, gan fwriadu eu dinystrio â'i elephantiaid. Ond pan ymgasglodd llawer o bobl ar y diwrnod gosodedig i weled y drych, cysgodd y brenin, o achos ei feddwdod y nos o'r blaen, hyd ormod o'r dydd, fel yr oedwyd y gwaith o ddinystr hyd dranoeth. Yr un achos a barodd ei oedi hyd y trydydd dydd, pan ddaeth y brenin; a'r elephantiaid a ddygwyd allan, wedi eu meddwi â gwin cymmysgedig âg arogl-darth, fel ar y ddeuddydd o'r blaen, fel y byddai iddynt gyda mwy o gynddaredd gwblhau y dinystr a fwriadwyd. Yn y cyfamser, ni pheidiodd yr Iuddewon a dyrchafu eu dwylaw mewn taer weddïau i'r nefoedd am waredigaeth; a'r Arglwydd a'u gwrandawodd—canys yr elephantiaid, yn lle rhuthro arnynt hwy, a syrthiasant ar y rhai ag oedd wedi dyfod i weled y drych, ac a laddasant rifedi mawr o honynt. Heblaw hyny, gwelwyd rhyw ymddangosiadau dieithr yn yr awyr, y rhai a barasant ddychryn mawr yn y brenin a'r edrychwyr; yr hyn oll a barodd iddo beidio â'r Iuddewon, a'u hadferu i'w breintiau gynt, trwy alw yn ol y cyfreithiau a gyhoeddasai yn eu herbyn.

Chwanegodd hefyd lawer o roddion a chymmwynasau iddynt, a chaniatâodd iddynt roddi i farwolaeth yr holl Iuddewon a ymadawsant â'u crefydd, y rhai i gyd a laddwyd yn ddiarbed. Crybwyllir am y pethau hyn yn yr ail lyfr a ysgrifenodd *Josephus* yn erbyn Apion, yn y cyhoeddiad Lladin o waith Ruffinus. *Prideaux's Conn. pt.* 2. *p.* 210, 211. *Anno* 216. *Ptol. Phil.* 6.

Yn y cyfamser, llwyddodd Antiochus Fawr yn y rhyfel yn erbyn Achæus, yn y fath fodd ag i ennill yn ol holl Asia Leiaf, ond Sardis, pen dinas y wlad; yr hon, ynghyd â'r castell, a gymmerodd efe trwy ddichell, yn yr 2fed flwyddyn o'r gwarchae. Achæus hefyd a fradychwyd i'w ddwylaw, ac a laddwyd. Wedi gorphen y rhyfel, a sicrhau y wlad dan ei lywodraeth, dychwelodd i Antiochia, yn yr 8fed flwyddyn o'i deyrnasiad, yr hon oedd y 7fed i Ptolemy Philapator, a 215 cyn geni Crist.

Yn yr 11eg flwyddyn o'i deyrnasiad, yr hon oedd y 10fed i Ptolemy Philopator, a 212 cyn geni Crist, trodd Antiochus ei wyneb tu a'r parthau dwyreiniol o'i deyrnas, i ryfela yn erbyn Arsaces, mab i hwnw o'r un enw a sylfaenodd Ymerodraeth y Parthiaid. Llwyddodd Antiochus i ennill Media a Pharthia yn ol, ac i gymmeryd Syringis, prif ddinas Hyrcania, trwy gloddio dan ei muriau. Ond, ar ol i'r rhyfel barhau dair blynedd heb fawr o argoel o allu rhoddi terfyn llwyddiannus arno, heddychodd âg Arsaces ar yr ammod iddo ei gynnorthwyo i ddarostwng y taleithiau ereill ag oedd wedi gwrthryfela yn ei erbyn.

Yn yr 16eg flwyddyn o'i deyrnasiad, yr hon oedd y 15fed i Ptolemy Philopator, a 207 cyn geni Crist, rhyfelodd Antiochus yn erbyn Euthydemus, brenin Bactria, yr hwn oedd wedi ennill y wlad hòno mewn rhyfel oddiar Theodotus, mab i hwnw o'r un enw oedd wedi gwrthryfela yn erbyn breninoedd Syria. Ond gan nad allodd fênu fawr arno ar ol dwy flynedd o ryfel, heddychodd âg ef, a chan roddi un o'i ferched mewn priodas i fab Euthydemus, caniatâodd i'r tad gymmeryd yr enw o frenin Bactria. Ac wedi derbyn ganddo ei holl elephantiaid, megys un o ammodau yr heddwch, aeth dros fynydd Caucasus i'r India, ac a adnewyddodd ei gynghrair â Sophagasenus, brenin y wlad, ac a dderbyniodd oddi wrtho gynnifer o elephantiaid at y rhai a gawsai o'r blaen gan Euthydemus ag a wnaeth y rhifedi yn gant a hanner. Ar ol hyny aeth i Arachosia (yn awr Cabul) a Drangiana, gwledydd gogleddol, gerllaw tarddiad yr afon Indus. Ac oddi yno i Carmania, gwlad yn taraw ar lyngclyn Persia, lle y gauafodd. Dychwelodd trwy Persia, Babilonia, a Mesopotamia, i Antiochia, wedi bod yn absennol saith mlynedd.

Yn fuan ar ol i Antiochus ddychwelyd adref, clybu am farwolaeth Ptolemy Philopator, ar ol teyrnasu ddwy flynedd ar bymtheg. Yr oedd wedi treulio corph cryf, trwy anghymmedroldeb ac anlladrwydd o bob math, cyn iddo fyw hanner ei ddyddiau, yn ol fel y gellid disgwyl. Ei fab Ptolemy Epiphanes, plentyn o bum mlwydd oed, a'i dilynodd yn yr orsedd, dan oruchwyliaeth draws-feddiannol Agathocles, a'i chwaer Agathoclea; yr hon, fel ei brawd, a fuasai yn gweini i drythyllwch Ptolemy Philopator ei dad.

Y flwyddyn gyntaf i Ptolemy Epiphanes oedd y 19eg i Antiochus Fawr, a 204 cyn geni Crist. Yr oedd Agathocles, a'i bleidwyr, wedi celu marwolaeth y brenin, yspeilio y palas o'i drysorau, a bwriadu cyn-

nal eu hunain yn yr oruchwyliaeth tra parhäi mebyd y brenin ieuangc. Ond cyfododd pobl Alexandria yn derfysgol yn eu herbyn; ac, wedi cymmeryd y brenin oddi arnynt, a'u lladdasant, ynghyd â'u holl berthynasau, ger ei fron—yr hyn oedd gospedigaeth deilwng am yr holl ddrygioni a adroddir am danynt.

Yn yr 2fed flwyddyn i Ptolemy Epiphanes, a 203 cyn geni Crist, ymunodd Antiochus Fawr â Philip, brenin Macedonia, mewn cynghrair, i ranu gwledydd brenin ieuangc yr Aipht rhyngddynt. Yr oedd Philip i gael Caria, Lybia, Cyrene, a'r Aipht; ac Antiochus y rhan arall, yn cynnwys yr holl wledydd rhwng Syria a'r Aipht. Gan hyny, aeth Antiochus yn ddioed â byddin i Cœle-Syria a Phalestina; ac, yn y flwyddyn hon a'r ganlynol, a'u hennillodd, ynghyd â'u hamrywiol ddinasoedd, dan ei lywodraeth.

Gan fod y Rhufeiniaid y pryd hyn newydd ennill iddynt eu hunain enwogrwydd o ran eu cadernid mewn arfau, trwy roddi terfyn llwyddiannus i'r ail ryfel a fu rhyngddynt â'r Carthaginiaid, trwy waith Scipio yn gorchfygu Hannibal yn Affrica—danfonodd yr Aiphtiaid atynt, i ddeisyf arnynt i gymmeryd eu brenin ieuangc a'i wledydd dan eu nodded, yn erbyn y ddau frenin gelynol.

Yn y 4edd flwyddyn i Ptolemy Epiphanes, yr hon oedd yr 22ain i Antiochus, a 201 cyn geni Crist, atebodd y Rhufeiniaid i'r genadwri yn garedigol, ac a ddanfonasant dri o genadau at Antiochus a Philip, i hysbysu iddynt eu bod wedi cymmeryd brenin ieuangc yr Aipht a'i wledydd dan eu hamddiffyn, ac i'w rhybuddio nad ymyrent â hwynt. Aeth un o'r tri, sef M. Emilius Lepidus, ym mlaen i Alexandria, trwy orchymyn Senedd Rhufain; yr hwn, wedi gosod y brenin dan olygiad Aristomenes, hen weinidog ffyddlon a phrofedig yn y llŷs, a ddanfonodd Scopas i Ætolia i gyfodi cynnorthwyon i chwanegu y fyddin, i'r diben o wrthwynebu y ddau frenin cynghreiriol.

Antiochus, yn ei 24ain flwyddyn, yr hon oedd y 6ed i Ptolemy Epiphanes, a 199 cyn geni Crist, a aeth i Asia Leiaf, i ryfela yn erbyn Attalus, brenin Pergamus. Yn y cyfamser, ni esgeulusodd llywodraeth yr Aipht ddanfon Scopas â byddin i adferu Palestina a Cœle-Syria; yr hwn a lwyddodd cyn belled ag i ddarostwng Judea, gyd âg amryw o ddinasoedd; ac, wedi rhoddi gwarchawdlu yn y castell yn Jerusalem, dychwelodd i Alexandria i auafu.

Ar ol i Antiochus, trwy gyfryngdod y Rhufeiniaid, orfod ymattal oddiwrth y rhyfel yn erbyn Attalus, daeth, yn y flwyddyn ganlynol, i Cœle-Syria, ac a roddes ddymchweliad mawr i fyddin Scopas, yn ymyl Paneas, gerllaw ffynonau yr Iorddonen; yr hwn, wedi ffoi i Sidon gyda deng mil o wyr, a chael ei warchae yno, a gyfyngwyd arno, trwy newyn, i'r fath radd, fel y bu raid iddo roddi y lle i fynu dan yr ammod warthus o gael bywydau ei wyr yn unig, a dychwelyd yn noeth-lymuniaid i'r

Aipht. Yr oedd yr Aiphtiaid wedi aflwyddo i gyfodi y gwarchae, er iddynt ddanfon cynnorthwyon i'r diben hyny dan dri o'u cad-flaenoriaid goreu.

Gan i Antiochus gael ei wrthwynebu wrth Gaza, rhoddodd y ddinas, ar ol ei chymmeryd, i'w hanrheithio gan ei filwyr; ac wedi sicrhau y mynediadau ag oedd yn arwain o'r Aipht i Palestina, dychwelodd a darostyngodd bob dinas a lle yn Palestina a Cœle-Syria. Derbyniodd Antiochus lawer o garedigrwydd a chynnorthwy gan yr Iuddewon yn y cyrch hwn, o herwydd eu gelyniaeth yn erbyn yr Aiphtiaid, nid yn unig am gyssegr-drais Ptolemy Philopator, a'i greulondeb i'w cenedl yn yr Aipht, ond hefyd am y distryw a'r difrod a wnaethai Scopas yn Palestina y flwyddyn o'r blaen. Cydnabu Antiochus hyn, trwy chwanegu at eu breintiau; yn neillduol, trwy ordeinio na byddai i un dieithr-ddyn fyned i'r cyntedd nesaf i mewn o'r deml yn Jerusalem. Heblaw hyny, yr oedd wedi ennill eu serch trwy lawer o gymmwynasau a wnaethai o'r blaen i'w brodyr yn Babilonia a Mesopotamia, am y gwasanaeth a wnaethent iddo yn ei ryfeloedd dwyreiniol. Yr oedd ganddo gystal tyb am ffyddlondeb yr Iuddewon, fel y danfonodd ddwy fil o deuluoedd o honynt o Babilonia a Mesopotamia, i sefydlu yn Phrygia a Lydia, dwy dalaeth o Asia Leiaf, oblegid rhyw derfysgiadau gwrthryfelgar a fuasai ynddynt. Rhoddodd hwynt yn yr amddiffynfeydd, ac a ranodd iddynt diroedd at eu cynnaliaeth. O'r rhai hyn, gan mwyaf, y tarddodd yr Iuddewon hyny ag oedd wedi ymwasgaru dros holl Asia Leiaf yn amseroedd cyntaf pregethiad yr efengyl.

Ar ol i Antiochus, fel hyn, ddarostwng Cœle-Syria a Phalestina, bwriadodd wneuthur y cyffelyb yn Asia Leiaf, a thrwy hyny adferu Ymerodraeth Syria i'r un maintioli y buasai gan ei hynafiaid, yn neillduol gan Seleucus Nicator, ei sylfaenwr. Ac, fel y gallai gael hamdden i gwblhau y bwriadau hyn, heddychodd â'r Aipht ar yr ammodau o roddi ei ferch Cleopatra mewn priodas i Ptolemy Epiphanes (cyn gynted ag y byddent mewn oedran cymhwys) a Cœle-Syria a Phalestina yn gynnysgaeth gyda hi, ar ddydd ei phriodas. Dywed *Jerome* i'r cytundeb hwn gymmeryd lle yn y seithfed flwyddyn i Ptolemy Epiphanes.

Yn gynnar yn y gwanwyn canlynol, danfonodd Antiochus ei ddau fab, Mithridates ac Ardyes, gyda byddin lïosog, i Sardis. Heblaw hyn, yr oedd wedi parotôi llynges gadarn. Yr oedd T. Quintius Fflaminius, y cad-flaenor Rhufeinig, y pryd hyn yn ngwlad Groeg, yn rhyfela yn erbyn Philip, brenin Macedonia; ac yr oedd Attalus, brenin Pergamus, a'r Rhodiaid, mewn cynghrair â'r Rhufeiniaid yn y rhyfel hwn. A chan fod Antiochus wedi bod mewn cynghrair â Philip er marwolaeth Ptolemy Philopator, brenin yr Aipht, nid oedd le i ammeu mai er mwyn ei gynnorthwyo yn erbyn y Rhufeiniaid yr oedd yn dyfod i'r parthau hyny.

Ond agwedd pethau a gyfnewidiwyd yn fuan wedi hyny, trwy farwolaeth Attalus, a dymchweliad Philip, mewn brwydr yn Cynocephalus, yn Thessalia; yr hyn a'i dygodd i ofyn heddwch gan y Rhufeiniaid, yr hwn a ganiatasant iddo, fel na byddai iddynt gynnal rhyfel â dau dywysog mor alluog a Philip ac Antiochus ar unwaith.

Gan fod Smyrna, Lampsacus, a dinasoedd Groegaidd ereill yn Asia Leiaf, yn deall mai diben Antiochus oedd eu darostwng dan ei lywodraeth, a diddymu eu breintiau gwladol, danfonasant genadwri at y Rhufeiniaid, i ofyn eu nodded a'u cynnorthwy yn ei erbyn. A chan fod y Rhufeiniaid yn ddigon parod i gymmeryd pob achlysur i attal Antiochus rhag estyn ei derfynau tu a'r gorllewin, danfonasant genadau ato, i beri iddo, nid yn unig i adael llonydd i'r dinasoedd Groegaidd, ond hefyd i adferu i Ptolemy, brenin yr Aipht, y dinasoedd a gymmerasai oddi arno yn Asia Leiaf, ac i roddi i fynu y rhai hyny a fuasent yn eiddo Philip, brenin Macedonia. Ond ni wrandawodd Antiochus arnynt o ran y pethau hyn, ac ereill, ag oedd mewn dadl rhyngddynt.

Yn y cyfamser, daeth y gair fod Ptolemy Epiphanes, brenin yr Aipht, wedi marw; gan hyny, prysurodd Antiochus tu a'r wlad hòno, gan feddwl cymmeryd meddiant o honi iddo ei hun. Ond, ar y ffordd, clywodd nad oedd y gair yn wir; gan hyny, wedi gwneuthur cais afliwyddiannus ar ynys Cyprus, trwy gyfarfod âg ystorm fawr ar y môr, dygodd weddillion ei lynges i Seleucia, ac a auafodd yn Antiochia, heb wneuthur dim yn rhagor y flwyddyn hon, yr hon oedd y 27ain o'i deyrnasiad, y 9fed i Ptolemy Epiphanes, a 196 cyn geni Crist.

Yr achos o'r gair a aethai allan am farwolaeth Ptolemy, oedd cydfwriad bradychus yn erbyn ei fywyd, a luniasai gan y cad-flaenor Scopas yr Ætoliad; yr hwn a fwriadodd ladd y brenin, a thraws-feddiannu y goron iddo ei hun. Ond syrthiodd y dinystr a amcanasai i ereill, ar ei ben ei hun, a'i bleidwyr.

Yn yr 28ain flwyddyn i Antiochus, y 10fed i Ptolemy Ephiphanes, a 195 cyn geni Crist, diangodd Hannibal o Carthage at Antiochus i Ephesus. Yr oedd wedi byw yn llonydd yn Carthage 6 blynedd, er pan wnaed yr heddwch rhwng y Carthaginiaid a'r Rhufeiniaid. Ond pan glybu y Rhufeiniaid fod cyfrinach rhyngddo âg Antiochus, i'r diben o ddwyn rhyfel ar yr Ital, danfonasant genadau i Carthage, i chwilio i mewn i'r mater; ac, os caent mai gwir oedd y chwedl, i ofyn i'r Carthaginiaid draddodi Hannibal i'w dwylaw. Ond pan glybu Hannibal am eu dyfodiad a'u neges, gan ofni y canlyniad, achubodd y blaen, a ffôdd mewn llong i Tyrus, ac oddi yno ar hyd y tir i Ephesus. Cafodd Antiochus mewn cryn ofn a phetrusder ynghylch dechreu y rhyfel yn erbyn y Rhufeiniaid; ond, trwy ei resymau a'i annogaethau, cadarnhaodd ei feddyliau i anturio arno, a'r flwyddyn hon a'r ganlynol a dreuliwyd mewn parotôad. Yn y cyfamser, aeth cenadau o'r naill ochr i'r llall,

tan rith ceisio gwneuthur heddwch, ond mewn gwirionedd, i edrych pa beth oedd y naill a'r llall yn ei wneuthur.

Yn y 30ain flwyddyn i Antiochus, y 12fed i Ptolemy Epiphanes, a 193 cyn geni Crist, priodwyd Cleopatra, merch Antiochus, â brenin yr Aipht, yn Raphia, ar gyffiniau deheuol Palestina, yn ol y cytundeb a wnaed oddeutu pum mlynedd o'r blaen. Ychydig wedi hyny, rhoddodd Antiochus un arall o'i ferched mewn priodas i Ariarathes, brenin Cappadocia; ac a gynnygiodd y drydedd i Eumenes brenin Pergamus; yr hwn a'i gwrthododd, yn erbyn cynghor ei frodyr. Ei reswm am wrthod ymgyfathrachu âg Antiochus, oedd, fel y gallai sefyll yn rhydd oddi wrth y rhyfel yr oedd efe yn myned i wneuthur â'r Rhufeiniaid, yr hwn yr oedd efe yn rhagweled a fyddai er dinystr iddo ef a'i bleidwyr; a'r canlyniad a ddangosodd ddoethineb Eumenes.

Dechreuodd y rhyfel hwn yn yr 31ain flwyddyn i Antiochus, y 13eg i Ptolemy Epiphanes, a 192 cyn geni Crist. Dygwyd ef ym mlaen, ar ran Antiochus, gyda llawer o annoethineb ac aflwyddiant, ac a ddibenodd gyda llawer o golled a gwarth iddo, yn y drydedd flwyddyn ar ol ei ddechreu.

Y frwydr benderfynol rhwng Antiochus a'r Rhufeiniaid a ymladdwyd yn agos i Magnesia, dinas yn Lydia, wrth droed mynyd Sypilus. Yr oedd gan Antiochus, yn ol *Livy*, ddeng mil a thriugain o wyr traed, deuddeng mil o wyr meirch, a 54ain o elephantiaid: ond nid oedd gan y Rhufeiniaid, yn y cwbl, fwy na deng mil ar hugain o wyr, dan arweiniad Lucius Scipio, a'i frawd Scipio Affricanus, yr hwn, gan ei fod yn glaf, nid oedd yn y frwydr. Lladdwyd o fyddin Antiochus ddeng mil a deugain o wyr traed, a phedair mil o wyr meirch; cymmerwyd yn garcharorion bedwar cant ar ddeg. Ar ol y frwydr, danfonodd Antiochus i geisio heddwch; yr hwn a gafodd, ar yr ammodau o dalu holl gostau y rhyfel, a rhoddi i fynu Asia oll, cyn belled a mynydd Taurus. Bwriwyd costau y rhyfel yn bymtheg mil o dalentau Eubœa; yr hyn, yn ol £240 i'r dalent, a wna dair miliwn a chwe chan mil o arian Lloegr. Gwel *Prid. Anno* 19, *Ptol. Epiphanes* 15. Y drefn o'r taliad oedd, pum cant o dalentau yn union-gyrch, dwy fil a phum cant o dalentau pan gadarnheid y cytundeb gan Senedd Rhufain, a'r gweddill mewn deuddeng mlynedd, sef mil o dalentau bob blwyddyn. Ar ol talu y pum can talent i Lucius Scipio y Cynghorydd yn Ephesus, rhoddodd Antiochus wystlon i'r Rhufeiniaid am yr hyn oedd yn ol; ac un o honynt oedd ei fab ei hun, yr hwn a deyrnasodd wedi hyny yn Syria, dan yr enw Antiochus Epiphanes.

Gwobrwyodd y Rhufeiniaid eu cynnorthwywyr yn y rhyfel hwn; adferwyd y dinasoedd Groegaidd i'w rhyddid, cafodd y Rhodiaid Caria a Lycia; ac i Eumenes brenin Pergamus, y rhoddwyd yr hyn oll a fuasai yn perthyn i Antiochus yn Asia Leiaf, ond Caria a Lycia. Dywedir i

Antiochus gydnabod ei hun yn ddyledwr i'r Rhufeiniaid am iddynt esmwythau arno, trwy gymmeryd oddi arno lawer o ofal a thrafferth a fuasai arno yn llywodraethu gwlad mor fawr ag Asia Leiaf.

Gan fod Antiochus mewn llawer o anhawsderau i dalu yr hyn a addawsai i'r Rhufeiniaid, aeth i'r taleithiau dwyreiniol o'i deyrnas, i godi y deyrnged ag oedd ddyledus iddo, gan adael ei fab Seleucus i lywodraethu yn Syria yn ei absennoldeb. Pan ddaeth i dalaeth Elymais, yr hon oedd ran o Persia, clybu am drysor mawr ag oedd yn nheml Belus, yn y wlad hòno, yr hwn a yspeiliodd yn y nos; ond pobl y wlad, i ddial arno am ei gyssegr-ladrad, a godasant ac a'i lladdasant, ynghyd â'i holl ganlynwyr, yn y 36ain flwyddyn o'i deyrnasiad, y 18fed i Ptolemy Epiphanes, a 187 cyn geni Crist. Felly y mae *Diodorus*, *Siculus*, *Strabo*, a *Jerome* yn adrodd am ddull ei farwolaeth. Yr oedd yn dywysog o enw canmoladwy am ddynoliaeth, hynawsedd, a chyfiawnder, yn llywodraethiad ei deyrnas; ac, hyd y 50ain flwyddyn o'i oedran, efe a driniodd ei faterion gyd â'r fath gallineb a gwroldeb, fel y cafodd y cyfenw Mawr; ond wedi dechreu tynu y dorch a'r Rhufeiniaid, aflwyddodd ym mhob peth, ac a ddibenodd ei oes yn warthus.

PENNOD XXIV.

Eglurhad o'r Brophwydoliaeth.

Y MAE cymmaint o brophwydoliaethau Daniel yn yr 11eg bennod, a gynnwysir o ddechreu y 10fed adnod hyd ddiwedd y 19eg, yn cyfeirio, gan mwyaf, at weithredoedd Antiochus Fawr, a'r rhyfeloedd a wnaeth yn erbyn Ptolemy Philopator, Ptolemy Epiphanes, a'r Rhufeiniaid—fel y dangosir yn fyr yn yr hyn sydd yn canlyn:

Adn. 10fed. 'A'i feibion a gyffroir, ac a gasglant dyrfa o luoedd mawrion;' hyny yw, meibion Seleucus Callinicus a gyffroir i ddial ar yr Aipht yr holl ddrygau a wnaethai Ptolemy Euergetes ar deyrnas Syria. Y 'meibion' hyn oeddynt Antiochus Fawr, mab Seleucus Callinicus, a'i ŵyr Antiochus Epiphanes, am ryfeloedd pa un y sonir ym mlaen. 'A chan ddyfod y daw un, ac a lifeiria ac a â drosodd.' Y mae hyn yn cyfeirio at ryfeloedd Antiochus Fawr, ym mha rai yr ennillodd Cœle-Syria a Phalestina oddiar Ptolemy Philopator (fel yr adroddwyd) yn y 4edd a'r 5ed flwyddyn o deyrnasiad Antiochus. 'Yna efe a ddychwel ac a gyffroir hyd ei amddiffynfa ef.' Y mae hyn yn golygu dychweliad Antiochus Fawr i Palestina, yn ei 6ed flwyddyn, pan arweiniodd fyddin lïosog cyn belled a Raphia, yn agos i amddiffynfeydd gwlad yr Aipht, gan feddwl, tybygid, i dreiddio i mewn iddi.

Adn. 11eg. 'Yna y cyffry brenin y dehau, ac yr â allan, ac a ymladd âg ef, sef brenin y gogledd; ac efe (sef brenin y gogledd) a gyfyd

dyrfa fawr, ond y dyrfa a roddir i'w law ef,' (sef i law brenin y dehau). Cyflawnwyd hyn yn y fuddugoliaeth a ennillodd Ptolemy Philopator oddiar Antiochus yn Raphia.

Adn. 12fed. 'Pan gymmerer ymaith y dyrfa, yr ymddyrchafa ei galon (sef calon Ptolemy Philopator) ac efe a gwympa fyrddiwn; er hyny ni bydd efe cryf.' Y mae yr adnod hon yn golygu effeithiau buddugoliaeth Raphia ar Ptolemy Philopator, i beri iddo ymddyrchafu, tybygid, yn erbyn yr Arglwydd, trwy ammharchu ei deml, a gorthrymu ac erlid ei bobl. Cafodd y brophwydoliaeth, 'efe a gwympa fyrddiwn,' gyflawniad manwl; canys myrddiwn, neu ddeng mil, oedd nifer y lladdedigion ym mrwydr Raphia, o fyddin Antiochus; er hyny, gan i Ptolemy Philopator heddychu âg ef yn lle dilyn ei ergyd, collodd holl ffrwyth ei fuddugoliaeth, fel na bu gryfach o'i herwydd.

Adn. 13eg. 'Canys brenin y gogledd a ddychwel, ac a gyfyd dyrfa fwy na'r gyntaf, ac ym mhen enyd o flynyddoedd, gan ddyfod a ddaw â llu mawr, ac â chyfoeth mawr.' Cyflawnwyd hyn pan ddaeth Antiochus Fawr, yn yr 20fed flwyddyn o'i deyrnasiad, ac a gymmerodd Cœle-Syria a Phalestina oddiar Ptolemy Epiphanes, brenin ieuangc yr Aipht, yn lled fuan ar ol marwolaeth ei dad. Yr oedd hyn 'enyd o flynyddoedd,' sef ym mhen oddeutu 14eg blynedd ar ol brwydr Raphia, a'r heddwch a ganlynodd.

Adn. 14eg. 'Ac yn yr amseroedd hyny llawer a safant yn erbyn brenin y dehau; a'r yspeilwyr o'th bobl a ymddyrchafant i sicrhau y weledigaeth; ond hwy a syrthiant.' Cyflawnwyd hyn yn ngwaith Antiochus Fawr, a Philip, brenin Macedonia, yn gwneuthur cynghrair i ranu gwledydd Ptolemy Epiphanes, brenin yr Aipht, rhyngddynt—trwy fradfwriad Agathocles ac Agathoclea, i draws-feddiannu ei awdurdod freninol, a bradwriaeth Scopas yn erbyn ei fywyd a'i freniniaeth, fel y dangoswyd. 'A'r yspeilwyr o'th bobl a ymddyrchafant i sicrhau y weledigaeth.' Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir 'ysbeilwyr' yn arwyddocâu, rhai ag sydd yn tori dros y terfynau a'r cyfreithiau a osodir iddynt, fel ag y mae lladron ac yspeilwyr yn gwneuthur. Y mae yn debygol ei fod yn golygu yma, y rhai a wrthgiliasant oddiwrth gyfraith eu Duw, ac a ymunasant â'r Aiphtiaid, ym myddin Scopas, i yspeilio eu cydwladwyr. Ond pa fodd y gellir dywedyd iddynt 'ymddyrchafu i sicrhau y weledigaeth?' Gellir ateb, gan eu bod yn ymddyrchafu yn erbyn Duw a'i gyfraith, yr oeddynt, trwy hyny, yn sicrhau iddynt eu hunain y gosp, y farn, a'r felldith ag y mae y gair dwyfol, neu y 'weledigaeth,' mor fynych yn ei gyhoeddi yn erbyn y cyfryw ddrwg-weithredwyr. Ymddyrchafant i'w dinystr, 'canys hwy a syrthiant.' Dialodd Antiochus arnynt, yn ddiammeu, ar ol gorchfygu Scopas wrth ffynonau yr Iorddonen, ac yn Sidon, pan syrthiodd ei holl fyddin i'w ddwylaw.

Adn. 15fed. 'Yna y daw brenin y gogledd, ac a fwrw glawdd, ac a

ennill y dinasoedd caerog; ond breichiau y dehau ni wrthsafant, na'i bobl ddewisol ef; ac ni bydd nerth i sefyll.' Dangoswyd y cyflawniad o'r rhan hon o'r brophwydoliaeth, trwy yr hyn a wnaeth Antiochus yn y flwyddyn 198 cyn geni Crist, trwy gymmeryd Sidon, Gaza, a'r holl leoedd cedyrn yn Cœle-Syria a Phalestina, er gwaethaf holl gadernid yr Aipht.

Adn. 16eg. 'A'r hwn a ddaw yn ei erbyn ef (sef yn erbyn brenin y dehau) a wna fel y myno, ac ni bydd a saif o'i flaen ef (sef o flaen brenin y gogledd) ac efe a saif yn y wlad hyfryd, a thrwy ei law ef y difethir hi.' Cyflawnwyd yr hyn a ragddywedir yma, yn yr un flwyddyn a'r pethau yn adnod 15fed; canys digwyddodd yn anocheladwy i wlad Palestina gael ei difetha trwy waith Antiochus yn rhoddi gwarchae ar y castell yn Jerusalem, lle y gadawodd Scopas, cad-flaenor yr Aiphtiaid warchawd-lu, trwy wrthwynebiad cyndyn a pharhaus pa un y distrywiwyd bron yr holl ddinas, fel yr ymddengys oddiwrth orchymyn Antiochus at ei raglaw Ptolemy, i'w hadferu o'i chyflwr adfeiliedig. Gwel *Josephus, Antiq. lib.* 12, *c.* 3.

Adn. 17eg. 'Ac efe a esyd ei wyneb ar fyned â chryfder ei holl deyrnas, a rhai uniawn gyd âg ef; fel hyn y gwna; ac efe a rydd iddo ferch gwragedd, gan ei llygru hi, ond ni saif hi ar ei du ef, ac ni bydd hi gyd âg ef.' Nid oes le i ammeu, er nad oes hanes pennodol am hyny, nad oedd gan Antiochus, ar ol ennill Cœle-Syria a Phalestina, fwriad i wynebu tu a'r Aipht gyda 'chryfder ei holl deyrnas;' ac y mae yn debygol i'r Iuddewon, o'u caredigrwydd tu ag ato, a'u gelyniaeth i'r Aiphtiaid, ymuno yn lluoedd â'i fyddinoedd, i'r diben o ddàrostwng gwlad yr Aipht. Ond yr oedd amgylchiadau pethau yn Asia Leiaf, a llwyddiant y Rhufeiniaid yn erbyn ei gynghreiriwr Philip, brenin Macedonia, yn peri iddo adael llonydd i'r Aipht, a throi ei wyneb tu a'r gorllewin. Ac, fel y gallai gael meddiant heddychlawn o'r taleithiau a ennillasai, dros rai blynyddoedd, gwnaeth y cytundeb a soniwyd, o roddi y taleithiau hyny gyd â'i ferch, mewn priodas i Ptolemy Epiphanes, pan fyddai mewn oedran addas i briodi, gan feddwl ei llygru, i fod o'i du ef, yn erbyn ei gwr. Ond cafodd ei siomi yn hyny; canys pan ddaeth yr amser iddi briodi, gadawodd blaid ei thad, ac a lynodd wrth ei gwr. Y mae *Jerome* yn dywedyd i Antiochus lunio y briodas hon gyda dibenion twyllodrus. *Comment. ad. Cap.* 11. *Donielis.* Ac y mae hanesyddiaeth yn dangos iddi uno gyd â'i gwr mewn cenadwri at y Rhufeiniaid, i dystio eu llawenydd am y fuddugoliaeth a ennillasent ar ei thad ei hun wrth gyfwng Thermopylæ, yn nhir Groeg. *Livy.*

Adn. 18fed. 'Yna y try efe ei wyneb at yr ynysoedd, ac a ennill lawer; ond penaeth a bair i'w warth ef beidio, er ei fwyn ei hun, heb warth iddo ei hun; efe a'i dettry arno ef.' Ar ol sefydlu pob peth yn Palestina, trodd Antiochus ei wyneb, fel y dangoswyd, tu ag Asia Lei-

af, ac ynysoedd Môr y Canoldir, ac Ægea, lle yr ennillodd lawer o wledydd ac ynysoedd; ond parodd Lucius Scipio, y penaeth Rhufeinig, i'r gwarth hwnw ag yr oedd Antiochus wedi amcanu ei fwrw ar y Rhufeiniaid, trwy eu gorchfygu, gael ei ddattroi arno ei hun, trwy y fuddugoliaeth wrth fynydd Sipylus, a'r heddwch gwarthus y bu raid i Antiochus ymostwng iddo.

Adn. 19eg. 'Ac efe a dry ei wyneb at amddiffynfeydd ei dir ei hun, ond efe a dramgwydda, ac a syrth, ac nis ceir ef.' Cafodd hyn gyflawniad eglur yn y rhan olaf o hanes Antiochus Fawr a roddwyd eisoes; yn neillduol, yn ei farwolaeth warthus yn Persia.

PENNOD XXV.

Dilyniad o'r Hanesyddiaeth.

Yn y 19eg flwyddyn i Ptolemy Epiphanes, a 186 cyn geni Crist, y teyrnasodd Seleucus Philopator, mab Antiochus Fawr, ar Syria, yn lle ei dad, dros 11eg mlynedd. Gan fod teyrnas Syria wedi ei darostwng mor isel yn amserau olaf ei dad, a'i ddyled o fil o dalentau bob blwyddyn i'r Rhufeiniaid yn ei gadw mor dlawd, nid allodd wneuthur dim yn haeddu coffadwriaeth tra bu yn teyrnasu. Yn y flwyddyn olaf o'i deyrnasiad, danfonodd am ei frawd Antiochus o Rufain i Antiochia, ac a anfonodd ei fab ei hun, Demetrius, yno yn wystl yn ei le. Pan oedd y ddau etifedd nesaf i'r deyrnas, fel hyn, yn absennol, sef un wedi myned i Rufain, a'r llall heb gyrhaedd adref, meddyliodd Heliodorus, trysorydd y brenin, fod ganddo gyfleusdra i draws-feddiannu y deyrnas; gan hyny, rhoddodd wenwyn i Seleucus, o ba un y bu farw. Ynddo ef y cyflawnwyd yr hyn a ddywedir yn

Adn. 20fed. 'Ac yn ei le ef (sef Antiochus Fawr) y saif un a gyfyd drethau yn ngogoniant y deyrnas; ond o fewn ychydig ddyddiau y distrywir ef, ac nid mewn dig, nac mewn rhyfel.' Codi trethi oddiar ei ddeiliaid er mwyn talu dyled ei dad i'r Rhufeiniaid oedd gwaith Seleucus Philopator tra bu yn teyrnasu; a distrywiwyd ef, 'nid mewn dig, nac mewn rhyfel,' ond trwy wenwyn. *Prideaux.*

Yn ei 20fed flwyddyn, yr hon oedd 185 cyn geni Crist, gyrodd Ptolemy Epiphanes ei ddeiliaid i wrthryfel yn ei erbyn, trwy ymroddi i bob rhyw ormod rhysedd ac aflywodraeth. Ac ni ostegwyd heb lawer o anhawsder, trwy ddoethineb a gwroldeb ei ben swyddog Polycrates.

Ar ol darostwng y gwrthryfel yn yr Aipht, bwriadodd ryfela yn erbyn Seleucus Philopator, brenin Syria; ond gan fod hyny yn erbyn meddyliau ei bendefigion, parasant roddi gwenwyn iddo, o ba un y bu farw, ar ol teyrnasu 24ain blynedd, yn y 6ed flwyddyn i Seleucus Philopator, a 181 cyn geni Crist, gan adael y deyrnas i'w fab hynaf, Ptolemy Philometor, yn chwe blwydd oed, dan ofal ei fam Cleopatra.

PENNOD XXVI.

Antiochus Epiphanes, Brenin Syria.

Yn lle Seleucus Philopator, teyrnasodd Antiochus a gyfenwid Epiphanes, yn y 6ed flwyddyn i Ptolemy Philometor, a 175 cyn geni Crist. Yr oedd Antiochus yn Athen, ar ei daith o Rufain (lle buasai dair blynedd ar ddeg) pan glywodd am farwolaeth ei frawd Seleucus, a thrawsfeddiant Heliodorus. Y mae y rhan olaf o'r 11eg bennod o Daniel, o'r 20fed adnod hyd y diwedd, yn golygu Antiochus Epiphanes, yn yr hwn y cafodd gyflawniad. Ond gan fod Antiochus yn gysgod o Anghrist, y mae rhai pethau yn y brophwydoliaeth a gawsant eu cyflawni yn y ddau, fel y dangosir ym mlaen. Er mwyn byrdra, at ba un yr ydym yn ceisio, rhoddir y brophwydoliaeth, bob yn rhan, yn y lle cyntaf; ac, wedi hyny, hanes Antiochus Epiphanes, i'w heglurhau.

Adn. 21ain. 'Ac yn ei le yntau y saif un dirmygus, ac ni roddant iddo ogoniant y deyrnas: eithr efe a ddaw i mewn yn heddychol, ac a ymeifl yn y freiniaeth trwy weniaith.' Yn lle Seleucus Philopator y safodd ei frawd Antiochus, a gyfenwid gan ei wenieithwyr Epiphanes, neu *ardderchog;* ond gan ereill, ag oedd yn barnu yn fwy cywir am dano, Epimanes, *gorphwyllog*, neu *wallgofus.* Y mae y brophwydoliaeth, wrth ei alw yn 'un dirmygus,' fel pe byddai yn golygu ei gyfenw, ac y byddai, mewn gwirionedd, yn gwbl groes iddo yn ei holl ymarweddiad.

Y mae yr angel yn dywedyd wrth Daniel (*Pen.* 10. 21.) mai diben y weledigaeth bresennol, a gynnwysir yn y tair pennod olaf o'i lyfr, oedd mynegi yr hyn a hysbysasid o'r blaen 'yn ysgrythyr y gwirionedd.' Y rhan at ba un yr oedd yr angel yn cyfeirio sydd ysgrifenedig yn yr 8fed bennod o Daniel, am y 'corn bychan.' Ac fel y mae y 'corn bychan' Groegaidd, sef Antiochus Epiphanes, yn brif destun yr 8fed bennod, er mwyn dangos pa un gyda mwy o eglurdeb y dangosir yn nechre y bennod hòno y pethau mwyaf hynod, mewn trefn amser, a ddigwyddai o flaen ei gyfodiad—felly, yn yr un modd, efe yw prif destun yr 11eg bennod, yn nechreu pa un, hyd ddiwedd yr 20fed adnod, y dangosir yn fyr, yn ol trefn amser, y pethau mwyaf hynod a ragflaenasant ei gyfodiad. Dylid gwahaniaethu rhwng y 'corn bychan' Groegaidd a sonir am dano, *Dan.* 8. 9. a'r 'corn bychan' Rhufeinaidd a ragddywedir am dano *Dan.* 7. 8, 23, 24, 25. canys cysgod yw y cyntaf o'r olaf.

I gyssylltu yr hanes â'r hyn a roddwyd eisoes, dylid sylwi fod Antiochus Epiphanes ar ei daith yn dyfod adref (fel y dywedwyd) pan glybu am farwolaeth ei frawd, ac ymgais Heliodorus i draws-feddiannu coron Syria, a bod ganddo blaid gref o'i du—a bod plaid arall o ochr Ptolemy

Philometor, brenin yr Aipht, am ei fod, o du ei fam Cleopatra, yn ŵyr i Antiochus Fawr. Yr oedd y ddwy blaid hyn am ei wrthwynebu, a pheidio rhoddi iddo 'ogoniant y deyrnas.'

Yn y cyfyngder hwn, danfonodd Antiochus am gymnorthwyon at Eumenes, brenin Pergamus, a'i frawd Attalus, trwy ba rai y darostyngwyd Heliodorus. Felly y rhoddwyd iddo, ond 'nid trwy ei nerth ei hun,' (*Dan.* 8. 24.) feddiant 'heddychol' ar goron Syria. Ac wedi dyfod fel hyn 'i mewn yn heddychol,' efe a ymaflodd 'yn y freniniaeth,' ac a ymgadarnhaodd ynddi 'trwy weniaith.' Canys dywedir am dano gan haneswyr credadwy, Rhufeinaidd a Groegaidd,* mai ei arfer oedd crwydro gyda dau neu dri o weision ar hyd heolydd Antiochia, gan gyfarch ac ymddiddan â phob math o ddynion, trefedigion a dieithriaid, a'i roddi ei hun yn gydradd â phawb, ïe, y gwaelaf, y dyhiraf, a'r mwyaf dirmygedig o ddynion. Os clywai am gyfarfodydd o wledda a diotta, âi iddynt heb ei wahodd, ac ymunai gyd â' rhai a fyddent yno, yn eu cwpanau, eu caniadau, a'u campau ynfyd. Weithiau rhoddai am dano ŵn Rhufeinaidd (*Roman Toga*) ac a wnae fel y gwelsai wneuthur yn Rhufain wrth ethol swyddogion gwladol; cyfarchai y dinasyddion yn yr heolydd, ysgydwai law â hwynt, a gofynai iddynt am eu llais ar ddydd yr etholiad. Ac wedi cael ei ddewis weithiau i un swydd, ac weithiau i un arall, efe a eisteddai mewn cadair, yn y farchnadfa, i wrando ac i benderfynu mân ddadleuon ac ymrafaelion a ddigwyddent ym mhlith ei ddeiliaid. Yn ei feddwdod, ei arfer oedd taflu ei arian yn ddyrneidiau ar hyd yr heolydd, i'r werin ymgiprys am danynt.

Ac o herwydd y pethau hyn a'r cyffelyb a adroddir am dano, yr oedd rhai yn ei farnu yn ynfyd, ac ereill yn wallgofus. Ond y mae sail dda i farnu, mai cyfrwysdra a dichell oedd gwreiddyn ei ymddygiad gwenieithus, i'r diben o sicrhau yr orsedd iddo ei hun, yn erbyn hawl gyfiawn ei nai Demetrius, a phawb ereill. Canys dangosodd ei fod fel cynddelw o Anghrist, nid yn unig 'yn wyneb-greulon,' ond hefyd 'yn gwybod damhegion,' sef 'pob dichell anghyfiawnder.' *Dan.* 8. 23. 2 *Thes.* 2. 10. Y mae *Jerome* yn dywedyd iddo ymroddi i bob math o drythyllwch a halogedigaeth, tu hwnt i bawb, a'i fod yn arfer gwneuthur gweithredoedd o buteindra ar gyhoedd o flaen y bobl. Ac oddiwrth yr holl hanes am dano yr ymddengys mai 'un dirmygus' ydoedd.

Adn. 22ain. 'Ac â breichiau llifeiriant y llifir drostynt o'i flaen ef, ac y dryllir hwynt, a thywysog y cyfammod hefyd.'

'Breichiau llifeiriant' yw cadernid, neu luoedd yn llifeirio, gan fod y fraich yn arwydd o gryfder. Y mae yr adnod hon yn dangos yn gyffredinol yr holl ddrwg a wnai Antiochus Epiphanes i'r genedl Iuddewig,

---

* *Polybius, Philarchus, Lyvi, Diodorus Siculus,* and others cited by *Prideaux. Anno* 175. *Ptol. Phil.* 6.

trwy ei luoedd yn llifeirio dros eu gwlad, yn olynol am amryw flynyddau; ac yn neillduol, dienyddiad Onias yr arch-offeiriad Iuddewig. Ond y mae yn debygol fod yn 'nhywysog y cyfammod,' yr hwn, yn *Dan.* 8. 11. a elwir 'tywysog y llu,' olygiad ym mhellach, at y Messiah; yn erbyn pa un ymddyrchafodd ac 'ymfawrygodd' Antiochus, a drylliodd, nid yn unig ei bobl, ond ei wasanaeth a'i addoliad yn Jerusalem a Judea. 'Tywysog y llu,' yw yr un, tybygid, a 'thywysog y tywysogion.' *Dan.* 8. 25.

Pan sefydlwyd Antiochus Epiphanes yn y freniniaeth, daeth Jesus, brawd Onias yr arch-offeiriad, i Antiochia, ac a gynnygiodd i'r brenin 360 o dalentau am yr arch-offeiriadaeth; ac y'mhellach, i ryngu ei fodd, cymmerodd arno yr enw Groegaidd Jason, yn lle Jesus. Am y wobr a addawsai, cafodd y swydd, a diswyddwyd Onias, yr hwn a ddygwyd i Antiochia, lle y lladdwyd ef yn fradychus ychydig o flynyddoedd wedi hyny, fel y dangosir ym mlaen. Am 150 o dalentau yn ychwaneg, cafodd Jason genad gan Antiochus i adeiladu Gymnasium yn Jerusalem, sef math o ysgol i ddysgu i wyr ieuaingc bob math o gampau a chwareüyddiaethau cenedlig; ac Ephebeum, math arall o ysgol, i'w dwyn i fynu yn nysgeidiaeth ac arferion y Groegiaid. Trwy y pethau hyn y llygrwyd y gwyr ieuaingc o'r genedl Iuddewig i radd fawr iawn; a llawer o honynt a ymadawsant â chrefydd ac arferion eu henafiaid, ac a ymroisant i goel-grefydd ac arferion y cenedloedd. Heblaw hyn, am yr un wobr, cytunodd y brenin â Jason iddo wneuthur cynnifer ag a fynai o drigolion Jerusalem yn gyfranogion o freintiau dinesig Antiochia. Dywedir i lawer, hyd yn nod o'r offeiriaid, yn yr amser hwn, esgeuluso gwasanaeth y deml a'r allor, a myned i gyfranogi o'r chwareüyddiaethau a osodwyd i fynu yn Jerusalem. Ac o hyn y tarddodd y fath lygredigaethau, fel y darfu iddynt addfedu i'r barnedigaethau trymion a ddaeth arnynt ym mhen ychydig wedi hyny; y trymaf a ddaeth erioed ar y genedl, oddi eithr y dymchweliadau a gafodd ar law Nebuchodonosor, a Thitus Vespasian. *Prideaux. Dan.* 8. 24.

Yn yr 2fed flwyddyn i Antiochus Epiphanes, yr hon oedd y 7fed i Ptolemy Philometor, a 174 cyn geni Crist, danfonodd Jason, i ryngu bodd i Antiochus, dair mil a thri chant o ddrachmau, i Tyrus, i'r chwareüyddiaethau oedd yn cael eu cynnal yno yn nechreu pob pummed flwyddyn, er anrhydedd i Hercules, neu Malcarthus, y duw penaf yr oedd y Tyriaid yn ei addoli, i'r diben o gael eu rhoddi allan ar aberthau i'r gau dduw hwnw. Ond y cenadau, o gymmaint a hyny yn well na Jason, rhag ofn ymhalogi âg eilun-addoliaeth, a roddasant yr arian i'r Tyriaid i adgyweirio eu llynges.

Yn y flwyddyn ganlynol y bu farw Cleopatra, mam Ptolemy Philometor, a chwaer Antiochus. Tra bu hi byw, hi a lywodraethodd yr Aipht yn enw ei mab, ac a fu yn achos i rwystro yr ymrafael a dorodd

allan ar ol ei marwolaeth rhwng yr Aipht a Syria, ynghylch Cœle-Syria a Phalestina. Canys nid yw yn ymddangos i Antiochus Fawr gyflawni ei gytundeb, trwy roddi y taleithiau hyny i fynu i'r Aipht, ar briodas ei ferch, yn ol un hanes o'r cytundeb; yn ol hanes arall, ni chytunodd Antiochus Fawr ond i roddi hanner trethi y taleithiau hyny i'w ferch. *Prideaux, part* 2. *p.* 150.

Ar ol marwolaeth Cleopatra, rhoddwyd gofal y llywodraeth, a dygiad i fynu y brenin ieuangc Ptolemy Philometor, i Lennæus, pendefig o'r Aipht, a'r eunuch Eulæus. Y rhai hyn, yn nechreuad eu goruchwyliaeth, a anfonasant at Antiochus, i beri iddo, yn ddioed, roddi y taleithiau hyny i fynu i'r Aipht. O'r ochr arall, hònodd Antiochus ei hawl iddynt, fel etifedd Seleucus Nicator, i ba un y digwyddasent yn y cyfraniad cyntaf o Ymerodraeth Alexander, a gwadodd fod ei dad wedi cytuno i'w rhoddi i fynu. Ac ar hyn parotôdd y ddwy blaid i ryfel.

Yn y 4edd flwyddyn i Antiochus Epiphanes, y 9fed i Ptolemy Philometor, a 172 cyn geni Crist, danfonodd Jason yr arch-offeiriad, ei frawd Menelaus i Antiochia, i dalu y deyrnged i'r brenin, a gwneuthur negesau ereill; ond esgeulusodd negesau ei frawd, ac a'i bradychodd, trwy gynnyg 300 o dalentau yn ychwaneg nag a roddasai Jason am yr arch-offeiriadaeth. Ar hyn, rhoddodd Antiochus orchymyn i ddiswyddo Jason, a gosod Menelaus yn ei le. Enw Menelaus ar y cyntaf oedd Onias, yr un enw a'i frawd hynaf, a ddisodlodd Jason; ond, fel yntau, ac am yr un dibenion, cymmerodd arno enw Groegaidd. Pan ddaeth Menelaus i Jerusalem gyda gorchymyn y brenin, gwrthwynebwyd ef a'i blaid gan blaid Jason, a bu raid iddo ddychwelyd yn ol i Antiochia, lle cafodd, trwy ymrwymo i ymwrthod â chyfraith Moses, a glynu wrth grefydd ac addoliad y Groegiaid, y fath gynnorthwy fel nas gallodd Jason ei wrthsefyll; yr hwn, wedi bod yn ei swydd dair blynedd, a ffôdd o Jerusalem at yr Ammoniaid. Bu Menelaus, wedi dyfod i'r arch-offeiriadaeth, gystal a'i air, trwy ymwrthod â'r grefydd Iuddewig, ac arddel addoliad y Groegiaid, a thynu cynnifer ag a fedrai i'r un amryfusedd. Canys nid oedd, er ei fod, o deulu Aaron, yn ewyllysio cael y swydd er mwyn cyflawni y dyledswyddau crefyddol perthynol iddi, ond er mwyn y llywodraeth wladol ag oedd yn nglyn wrthi er's llawer o oesoedd, dan freniniaeth Persia a Groeg.

Ynghylch dechreuad arch-offeiriadaeth Menelaus, y mae yn debygol, y dechreuodd y ddwy fil a thri chant o ddyddiau, tra yr ydoedd 'y gwastadol offrwm' i gael ei attal, a 'chamwedd anrhaith' i barhau, a'r 'cyssegr a'r llu' i fod yn 'sathrfa.' *Dan.* 8. 13. 'Camwedd anrhaith' a gymmerodd le yn gyntaf, wedi hyny peidiodd 'y gwastadol offrwm,' a bu y 'llu yn sathrfa,' fel y cawn weled.

Yn y 5ed flwyddyn i Antiochus Epiphanes, y 10fed i Ptolemy Philometor, a 171 cyn geni Crist, a'r 2fed flwyddyn o arch-offeiriadaeth Me-

nelaus, yr oedd yr arian heb eu talu a gytunasai efe i roddi am ddyfod i mewn i'w swydd; gan hyny, gan fod y brenin yn bwgwth, parodd i'w frawd Lysimachus gymmeryd cymmaint o lestri aur o'r deml ag a fyddai ddigon i dalu y ddyled, a'u gwerthu i'r Tyriaid. Yr oedd y cyssegr-ladrad hwn, tybygid, yn un rhan o'r 'camwedd anrhaith' a olygir yn y brophwydoliaeth. *Dan.* 8. 13. Heblaw hyn, oddeutu yr un amser, rhoddodd Menelaus un Andronicus ar waith, am wobr, i ladd ei frawd Onias yr arch-offeiriad, i le pa un y daethai Jason; gan nad oedd yn ei gyfrif ei hun yn ddiogel yn ei sefyllfa tra byddai ei frawd hynaf yn fyw, i ba un yr oedd yr arch-offeiriadaeth yn perthyn. Yr oedd digofaint Menelaus hefyd y pryd hyn wedi cynhyrfu mewn modd neillduol yn erbyn ei frawd, am iddo anfon ato gerydd llym am ei gyssegr-ladrad. Yr oedd Onias wedi bod mewn alltudiaeth yn Antiochia er's pedair blynedd; a phan ddeallodd fod bwriadau yn erbyn ei fywyd, ffôdd i'r noddfa yn Daphne, gerllaw y ddinas. Ond Andronicus, wedi ei ddenu ef allan trwy addewidion a llwon, a'i lladdodd, i ennill y wobr. Ond gan fod Onias, trwy ei ymarweddiad addas, wedi ennill serchiadau yr Iuddewon a'r Groegiaid yn Antiochia, ymunasant mewn deisyfiad at y brenin, i roddi y lleiddiad i farwolaeth; yr hwn, ychydig wedi hyny, a ddienyddiwyd, trwy orchymyn y brenin, yn y fan lle gwnaethai y weithred. Ar yr un pryd, nid yw yn annhebygol fod Antiochus yn gydsyniol â'r weithred waedlyd o ladd Onias; canys, heb hyny, y mae yn anhawdd deall pa fodd y meiddiasai Menelaus roddi lleiddiad ar waith i ladd y fath ŵr urddasol yn ymyl llŷs y brenin. Yr hyn sydd yn cadarnhau y dyb hon yw, i Menelaus, yr hwn oedd gwreiddyn y drwg, ddiangc yn ddigerydd. Hwyrach nad oedd cospedigaeth Andronicus ond megys hûg i geisio cuddio cydsyniad y brenin, gan fod ei holl fywyd yn dangos nad oedd dim yn rhy ddrwg ganddo i wneuthur. Pan wybu y bobl yn Jerusalem am gyssegr-ladrad Lysimachus, codasant i fynu mewn arfau yn ei erbyn; ac, er fod ganddo dair mil o wyr i'w amddiffyn, lladdwyd ef yn y deml gerllaw y drysorfa a yspeiliasai.

Adn. 23ain. 'Ac wedi ymgyfeillach âg ef, y gwna efe dwyll; canys efe a ddaw i fynu, ac a ymgryfha âg ychydig bobl.' Y mae y rhan gyntaf o'r adnod hon yn golygu, yn gyffredinol, twyll ac anffyddlondeb Antiochus Epiphanes i'w holl addewidion a'i ammodau. Y mae ei holl weithredoedd, cyn belled ag y mae genym hanes am danynt, yn dangos na chadwodd efe ei gytundeb â neb yn hŵy nag a fyddai yn gyfleus iddo ei hun; twyllodd bawb hyd y medrai. Y mae y rhan olaf o'r adnod yn golygu codiad a chynnydd Antiochus, o gyflwr tlawd a gwan, i gadernid a chyfoeth rhagorol. Cafodd ei wlad yn dlawd, ei drysorfa yn wag, ac, o ganlyniad, y fyddin yn ychydig o rifedi. Yr oedd holl daleithiau Asia Leiaf, a fuasai yn perthyn i Syria, wedi cael eu cymmeryd gan y Rhufeiniaid oddiar ei dad, fel y dangoswyd; a chyfarfu â llawer

o anhawsderau yn nechreuad ei deyrnasiad i sefydlu ei hun ar yr orsedd. O herwydd y pethau hyn y gelwir ef yn 'gorn bychan' (*Dan.* 8. 9.) yr hwn 'a dyfodd yn rhagorol tu a'r dehau,' sef yr Aipht—'tu a'r dwyrain,' sef y taleithiau ag oedd yn perthyn i deyrnas Syria yn y dwyrain, a'r hyn a chwanegodd efe atynt—'a thu a'r hyfryd wlad,' sef gwlad Israel, yr hon oedd hyfrydwch a gogoniant yr holl wledydd, o ran ei breintiau crefyddol yn fwyaf neillduol. *Ps.* 48. 2.

Adn. 24ain. 'I'r dalaeth heddychol a bras y daw efe, ac a wna yr hyn ni wnaeth ei dadau, na thadau ei dadau; ysglyfaeth, ac yspail, a golud, a daena efe yn eu mysg: ac ar gestyll y bwriada efe ei fwriadau, sef dros amser.' Y mae dechreu yr adnod wedi ei gyfieithu, tybygid, yn well yn y Saesoneg, ac ar ymyl y ddalen yn rhai o'r Biblau Cymreig, fel hyn, 'Ac yn heddychol y daw efe i leoedd brasaf y dalaeth.' Gan fod taleithiau Cœle-Syria a Phalestina ym meddiant Antiochus er pan ddechreuodd deyrnasu, nid oedd dim gwrthwynebrwydd iddo gan yr Aipht na thrigolion y wlad, o fyned a dyfod fel y mynai. Heblaw hyny, hwyrach fod gair 'heddychol,' wrth ei briodoli i Antiochus, yn golygu y twyll dichellgar oedd yn ei weithredoedd. Dywedai yn dêg â'i enau pan fyddai rhyfel yn ei galon, fel cynddelw gywir o'r bwystfil Anghristaidd, o ba un yr oedd yn gysgod. Gwel Lyfrau y Maccabeaid, a *Prideaux's Conn.* Yn ei amrywiol gyrchfëydd yn erbyn gwlad yr Aipht, a'i ddychweliadau oddi yno, gwnaeth fwy o ddrygau i'r genedl Iuddewig nag un o'i hynafiaid. Y mae ei hanes hefyd yn dangos iddo ysglyfaethu llawer o olud ac yspail, a'u taenu ym mhlith ei filwyr a blaenoriaid ei wlad. Yn ei haelioni, neu wastraff, pa un bynag y gelwir, nid oedd un o'r breninoedd o'i flaen yn gyffelyb iddo.* Ac y mae yn eglur iddo 'fwriadu bwriadau' yn erbyn cestyll, gan iddo ymosod â holl gryfder ei deyrnas yn erbyn amddiffynfeydd yr Aipht. Bwriadodd hefyd fwriadau yn erbyn y deml yn Jerusalem, a'r deml yn Elymais, a'r temlau ereill a yspeiliodd efe, 'sef dros amser,' hyny yw, pan welodd amser cyfleus i gyflawni ei fwriadau; neu, hyd oni ddaeth 'hyd ei derfyn.' *Adn.* 45.

Adn. 25ain. 'Ac efe a gyfyd ei nerth a'i galon yn erbyn brenin y dehau â llu mawr: a brenin y dehau a ymesyd i ryfel â llu mawr a chryf iawn; ond ni saif efe: canys bwriadant fwriadau yn ei erbyn ef.' Yn y flwyddyn y dywedwyd uchod, sef 171 cyn geni Crist, gwnaeth Antiochus Epiphanes ei gyrch cyntaf yn erbyn yr Aipht, a olygir yn yr adnod hon. Nid oedd Ptolemy Philometor y pryd hyn ond un-ar-bymtheg oed, a'i lywodraethwyr heb ddoethineb i drin gorchwylion ei deyrnas. Yr oedd y Rhufeiniaid y pryd hyn mewn rhyfel â Perseus, yr olaf o

---

* Galwyd ef Μεγαλοψυχως, sef *mawr*, neu *eang ei galon;* a Φιλοδωρος, sef, *un yn caru rhoddi rhoddion.*

freninoedd Macedonia; a thrwy hyny heb fodd i anfon cynnorthwyon at frenin yr Aipht. Er hyny, rhag ofn digio y Rhufeiniaid, danfonodd Antiochus genadwri atynt i esgusodi ac i gyfiawnhau y rhyfel oedd ganddo mewn llaw. Ac yn ddiattreg, arweiniodd ei fyddin at gyffiniau yr Aipht, lle yr ymladdwyd brwydr rhyngddo â byddin Ptolemy, rhwng mynydd Casius a Phelusium; ym mha un, Antiochus, wedi ennill y fuddugoliaeth, ni wnaeth ddefnydd arall o honi, ond cadarnhau ei derfynau yn y cŵr hwnw, er mwyn rhwyddhau ei ffordd i'r Aipht yn y flwyddyn ganlynol. Yna y dychwelodd yn ol i Tyrus, ym mha le, ynghyd â'r dinasoedd cymmydogaethol, y rhoddodd ei fyddin yn ei gauaf-leoedd.

Tra bu yn aros yn Tyrus, daeth tri o genadon ato oddiwrth y Sanhedrim, sef cynghor mawr yr Iuddewon o LXX, i achwyn ar Menelaus am y cyssegr-ladrad a wnaethid yn ddiweddar ganddo ef a'i frawd Lysimachus, ac am lawer o drais a gorthrymder a wnaethai yn ei lywodraeth. Wedi gwrandaw eu cwyn, barnwyd Menelaus yn euog; yr hwn, pan ddeallodd hyny, gwobrwyodd Ptolemy Macron, mab Doromenes, rhaglaw y brenin, â swm mawr o arian i eiriol drosto gyd â'r brenin; gyda pha un y llwyddodd gymmaint, fel y trodd i farnu Menelaus yn ddieuog, ac i roddi y cenadon i farwolaeth, megys rhai yn dwyn achwyniad anghyfiawn a maleisus.* Gwel *Dan.* 8. 12.

Ynghylch yr amser yma y gwelwyd, am 40 niwrnod yn olynol, yn Jerusalem, yn yr awyr, arwyddion dieithr o wyr meirch a gwyr traed, wedi eu harfogi âg arfau rhyfel, yn ymosod ar eu gilydd yn finteioedd fel mewn brwydr; y rhai, tybygid, oedd yn rhagddangos yr holl aflwydd a'r dinystr a ddaeth ar y ddinas a'r genedl yn fuan wedi hyny.† Y mae *Josephus* yn tystio fod cyffelyb arwyddion yn weledig ychydig o flaen dinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid.‡ Ac nid oes achos i'w anghredu, gan i Grist ragddywedyd y byddai 'pethau ofnadwy, ac arwyddion mawrion o'r nefoedd,' o flaen y dinystr hwnw. *Luc* 21. 11.

Yn yr 11eg flwyddyn i Ptolemy Philometor, 170 cyn geni Crist, yr hon oedd y 6ed i Antiochus Epiphanes; yr hwn, wedi parotôi yn y gauaf o'r blaen i dreiddio i mewn i wlad yr Aipht, yn y gwanwyn o'r flwyddyn hon, a ymosododd arni ar unwaith ar fôr ac ar dir; ac, wedi ennill brwydr fawr, a gymmerodd Pelusium; ac oddi yno aeth i berfedd y wlad, ac a ddarostyngodd bob lle, ond Alexandria yn unig. Yn y frwydr olaf, yr oedd ar law Antiochus i ddifetha holl fyddin yr Aipht, ond trwy ei waith yn marchogaeth oddi amgylch y maes ar ol ennill y fuddugoliaeth, i attal ei wyr rhag dilyn y lladdedigaeth oedd wedi dechreu, mènodd yr arbediad hwn gymmaint ar yr Aiphtiaid, fel yr ymostyngodd yr holl wlad iddo, ond Alexandria.

---

* 2 Macc. 4. 44—50. † 2 Macc. 5. 2, 3. ‡ De Bell. Jud. 1. 7. c. 12.

Adn. 26ain. 'Y rhai a fwytânt ran o'i fwyd ef a'i difethant ef, a'i lu ef a lifeiria; a llawer a syrth yn lladdedig.' Y mae yr adnod hon yn golygu y golled a gafodd Ptolemy Philometor yn y frwydr olaf a grybwyllwyd am dani, a'r achos a arweiniodd i hyny. Dywedir fod brenin yr Aipht y pryd hyn yn ymddwyn yn bur anaddas i'w sefyllfa ac amgylchiadau yr amser, trwy gadw ei hun ym mhell oddiwrth ei fyddin, a gadael i'w elyn gymmeryd meddiant o'i deyrnas, bron heb ddim ymgais i'w hamddiffyn. Yr achos o hyn oedd ei ddygiad i fynu gan y rhai oedd o'i amgylch, ag oedd yn 'bwyta rhan o'i fwyd ef,' mewn trythyllwch a phob math o foethau, yn enwedig gan yr eunuch Eulæus, yr hwn oedd yn olygwr arno yn ei febyd. A dywedir fod ganddo fwriad yn hyn, fel y gallai, trwy anghymhwyso y brenin i lywodraethu, gadw y llywodraeth yn ei law ei hun.

Adn. 27ain. 'A chalon y ddau frenin hyn fydd ar wneuthur drwg, ac ar un bwrdd y traethant gelwydd; ond ni thycia: canys etto y bydd y diwedd ar yr amser nodedig.' Yn yr ail gyrch a wnaeth Antiochus i'r Aipht, daeth Ptolemy Philometor, trwy ryw foddion, i'w ddwylaw. Ond ni chollodd ei ryddid; canys yr oedd yr ewythr a'r nai yn bwyta ar yr un bwrdd, ac yn ymddiddan â'u gilydd fel cyfeillion. Yr oedd Antiochus yn cymmeryd arno mai lles ei nai yr oedd yn ei geisio yn yr holl ryfel, i'w wared oddi tan olygiad y rhai oedd yn ei ddifetha ef a'i deyrnas. A Philometor, yn ddiau, oedd yn cymmeryd arno ddiolch iddo. Ond, 'traethu celwydd' yr oeddynt; canys bwriad Antiochus oedd cael y deyrnas iddo ei hun; a bwriad brenin yr Aipht oedd ei siomi o'i ysglyfaeth, fel yr ymddangosodd wedi hyny. 'Ni thyciodd' celwyddau Antiochus i ddwyn i ben ei amcanion ar wlad yr Aipht; canys rhoddwyd 'diwedd ar ei waith yn ei hanrheithio pan ddaeth 'yr amser nodedig,' fel y dangosir ym mlaen.

Adn. 28ain. 'Ac efe a ddychwel i'w dir ei hun â chyfoeth mawr; a'i galon fydd yn erbyn y cyfammod sanctaidd: felly y gwna efe, ac y dychwel i'w wlad.' Tra yr oedd Antiochus yn yr Aipht yn ei ail gyrch, ymdaenodd y gair dros Palestina ei fod wedi marw; a Jason, gan feddwl fod iddo y pryd hyn gyfleusdra i ennill yn ol ei sefyllfa yn Jerusalem, a ddaeth yno gyda mwy na mil o wyr; a thrwy gynnorthwy y blaid ag oedd ganddo yn y ddinas, a ymlidiodd ei frawd Menelaus i'r castell, ac a laddodd lawer o'r dinasyddion ag yr oedd yn farnu yn wrthwynebol iddo.

Pan glybu Antiochus yn yr Aipht am hyn, daeth gyda brys i Judea, i ddarostwng y gwrthryfel yr oedd yn tybied oedd wedi cymmeryd lle yn ei erbyn. Ac wedi clywed fod yr Iuddewon yn llawenhau am ei farwolaeth, llidiodd yn ddirfawr yn eu herbyn; ac wedi cymmeryd Jerusalem trwy orthrech, efe a laddodd, mewn tridiau, ddeugain mil o'r trigolion, a gwerthodd gymmaint a hyny yn gaeth-weision i'r cenedloedd cymmydogaethol. Wedi hyny, aeth i'r deml, ac i'r sanctaidd

sancteiddiolaf a'r bradwr drygionus Menelaus yn arweinydd iddo. Ac er mwyn dangos yr ammharch mwyaf i'r grefydd Iuddewig, gorchymynodd aberthu hwch fawr ar allor y poeth-offrwm; ac, wedi gwneuthur isgell o beth o'r cig, parodd i'r holl deml gael ei thaenellu âg ef, i'w halogi. Ac wedi cymmeryd o'r deml allor yr arogl-darth, bwrdd y bara gosod, a'r canwyllbren a saith lusern, y rhai oeddynt i gyd o aur, ynghyd â llawer o lestri ereill o aur, a dodrefn, a rhoddion breninoedd, i gyd o werth 1800 talent o aur; ac wedi gwneuthur y cyffelyb yspail yn y ddinas, dychwelodd i Antiochia gyd âg anrhaith Judea a'r Aipht, gan adael un Philip, Phrygiad o genedl, gwr creulon, yn llywodraethwr yn Judea; Andronicns, yr hwn nid oedd ddim gwell nag yntau, ar Samaria; a Menelaus yn yr arch-offeiriadaeth, yr hyn oedd waeth ganddynt na'r cwbl.

Pan glywodd Jason fod Antiochus yn dyfod o'r Aipht, ffôdd o Jerusalem yn ei ol i wlad yr Ammoniaid, lle cyhuddwyd ef o flaen Aretas y brenin; yr hyn a barodd iddo ddiangc oddi yno. Ac wedi gorfod symud o le i le, yn cael ei ymlid a'i gasâu gan bawb am ei ddrygioni anferth o bob math, ffôdd i'r Aipht, ac oddi yno i Lacedæmonia, lle bu farw yn druenus, ac heb gladdedigaeth, yn siampl hynod o farn Duw.

Yn y 7fed flwyddyn i Antiochus Epiphanes, y 12fed i Ptolemy Philometor, a 169 cyn geni Crist, yr Aiphtiaid, wedi anobeithio am ddychweliad Philometor, ag oedd ym meddiant Antiochus, a urddasant ei frawd, iau nag ef, yn frenin, dan yr enw Ptolemy Euergetes, yr ail. Ond, wedi hyny, rhoddwyd iddo y cyfenw Physcon, mewn ffordd o wawd, hyny yw, *y boliog*, o herwydd y bol mawr a fagasai trwy lythineb a moethau. Ac wrth yr enw hwn, yn fwyaf cyffredinol, y gelwir ef gan yr haneswyr a ysgrifenasant am dano. Pan glybu Antiochus am hyn, cymmerodd achlysur o wneuthur ei drydedd gyrch yn erbyn yr Aipht, tan rith o adferu Philometor i'r orsedd; ond mewn gwirionedd, i'r diben o ddarostwng yr holl wlad dan ei lywodraeth ei hun. Wedi ennill brwydr ar y môr, yn agos i Pelusium, treiddiodd i'r wlad, ac a roddes warchae ar Alexandria. Ar hyn, Physcon, wedi galw cynghor, a anfonodd y cenadau ag oedd y pryd hyny yn Alexandria o amryw wledydd Groeg, i eiriol drosto gyd âg Antiochus, ac i ddeisyf ammodau heddwch. Ond, er iddynt arfer llawer o resymau, ni lwyddasant, gan mai ei benderfyniad oedd i fyned ym mlaen a'r gwarchae. Gan hyny, Physcon a'i chwaer Cleopatra, yn eu cyfyngder, a anfonasant genadwri at y Rhufeiniaid i ddeisyf eu cymhorth. Ychydig wedi hyny, daeth cenadau oddiwrth y Rhodiaid at Antiochus, i ddeisyfu arno i heddychu â Physcon; i ba rai yr atebodd Antiochus, fod y deyrnas yn perthyn i'r brawd hynaf Philometor; ac os galwent ef yn ol i'r goron, y byddai y rhyfel ar ben. Ond nid hyny oedd ei amcam; ond ei fwriad oedd i roddi y ddau frawd yn ben-ben; fel y gallai, ar ol iddynt wanychu eu

gilydd, ysglyfaethu y cwbl iddo ei hun. Canys deallodd nad allai fènu ar Alexandria, ac y byddai raid iddo godi y gwarchae. Gan hyny, wedi ymadael oddi yno, a myned i Memphis, gwnaeth ymddangosiad o roddi yr holl deyrnas yn ol i Philometor, ond Pelusium yn unig, yr hon a gadwodd megys agoriad i ddyfod i mewn i'r wlad pan fyddai amgylchiadau yn addfed i hyny, ac a ddychwelodd i Antiochia. Ni wnaeth Antiochus fawr o bethau yn haeddu sylw yn ei drydydd cyrch yn erbyn yr Aipht; ac yn wir nid yw y brophwydoliaeth yn sylwi ar ddim a wnai ynddi, ond yn unig y byddai iddo ei gwneuthur, gan ei galw yn 'daith olaf,' sef yr 'olaf' a fyddai iddo wneuthur o flaen ei 4edd daith, yr hon oedd y ddiweddaf a wnaeth efe i wlad yr Aipht, am ba un y cawn sôn nesaf.

Adn. 29ain. 'Ar amser nodedig y dychwel, ac y daw tu a'r dehau; ac ni bydd fel y daith gyntaf, neu fel yr olaf.'

Adn. 30ain. 'Canys llongau Cittim a ddeuant yn ei erbyn ef; am hyny yr ymofidia, ac y dychwel, ac y digia yn erbyn y cyfammod sanctaidd: felly y gwna efe, ac y dychwel; ac efe a ymgynghora â'r rhai a adawant y cyfammod sanctaidd.'

Pan ddeallodd Antiochus fod y ddau frawd Philometor a Physcon, yn lle rhyfela â'u gilydd, wedi cytuno i gyd-deyrnasu—a'u bod wedi danfon am gynnorthwyon o wledydd Groeg i'w wrthwynebu, llidiodd yn ddirfawr, a gwnaeth fwy o barotôad nag erioed o'r blaen i ryfela yn eu herbyn.

Gan hyny, yn gynnar yn y gwanwyn o'r flwyddyn 168 cyn geni Crist, yr hon oedd y 13eg i Ptolemy Philometor, a'r 8fed o'i deyrnasiad ei huu, danfonodd lynges i gymmeryd ynys Cyprus, ag oedd yn perthyn i'r Aipht; ac, ar yr un pryd, cychwynodd gyda byddin gadarn, gan fwriadu goresgyn holl wlad yr Aipht. Hon oedd y 4edd, a'r daith olaf a wnaeth efe i'r wlad hòno. Pan ddaeth i Rhinocorura, cyfarfu cenadau âg ef oddiwrth Philometor, i ddeisyfu arno na ddistrywiai ei waith ei hun, ac i adael iddo fwynhau mewn heddwch y goron ag yr oedd yn ei gwisgo trwy ei gymmwynasgarwch ef. Ond atebodd Antiochus ei fod yn elyn i'r ddau frawd, ac na heddychai â hwynt, ond trwy gael meddiant cyflawn o Cyprus, dinas Pelusium, a'r holl wlad ar y gangen hòno o afon Nilus. Wedi pennodi diwrnod i gael ateb, ac heb dderbyn un wrth ei fodd, llifeiriodd gyd â'i fyddin dros yr holl wlad, cyn belled a Memphis; ac, wedi derbyn darostyngiad bron yr holl ddinasoedd ereill, aeth tu ag Alexandria. Pan oedd efe o fewn pedair milltir i'r ddinas, cyfarfu âg ef dri o genadau oddiwrth y Rhufeiniaid, sef Caius Popilius Lænas, Caius Decimius, a Caius Hostilius, y rhai a ddaethant yn unol â deisyfiad llywodraeth yr Aipht, â'r genadwri a anfonasent yn y flwyddyn o'r blaen. Y llongau ym mha rai y daeth y cenadon hyn, ydyw y 'llongau Cittim' a olygir yn y brophwydoliaeth. Pan welodd Antiochus un o'r tri, sef Popilius, a fuasai yn adnabyddus iddo yn Rhufain,

cyfarchodd ef yn garedig, ac a fynasai ysgwyd llaw âg ef; ond gwrthododd Popilius yr arwydd hyny o garedigrwydd, gan ddywedyd y byddai raid iddo wybod yn gyntaf a oedd yn gyfaill i'r Rhufeiniaid, cyn y gallai ei gydnabod megys cyfaill iddo ei hun. Ar ol hyny, rhoddodd yn ei law orchymyn Senedd Rhufain; i ba ùn, ar ol ei ddarllen, dywedodd Antiochus y rhoddai ateb ar ol ymgynghori â'i gyfeillion. Ond Popilius, wedi llunio cylch yn y tywod, â'i ffon, oddi amgylch y fan lle yr oedd Antiochus yn sefyll, a ddywedodd y byddai raid iddo roddi ei ateb cyn symud allan o'r cylch hwnw. Ar hyn, wedi petrnso ychydig, penderfynodd ufuddhau i Senedd Rhufaiu. Wedi hyny, ymddygodd Popilius ato yn ol y cyfeillgarwch a fuasai gynt rhyngddynt. Yr hyn a wnaeth Popilius mor hyf, ac Antiochus mor ymroddgar, oedd y newydd ag yr oedd pob un o'r ddau wedi ei dderbyn am fuddugoliaeth fawr a ennillasai y Rhufeiniaid ar Perseus, brenin Macedonia, trwy ba un y darostyngwyd y freniniaeth hòno i fod yn dalaeth Rufeinig. Gan hyny, dychwelodd Antiochus gyd â'i fyddin o wlad yr Aipht, yn warthus ac yn llidiog, i'w wlad ei hun.

Ar ei ddychweliad trwy Judea, tywalltodd ei lid ar yr Iuddewon, y rhai nid oeddynt wedi rhoddi iddo yr achlysur lleiaf i'w ddigio y pryd hyn. Danfonodd ddwy fil ar hugain o wyr, dan Apolonius, i Jerusalem, dwy flynedd union er pan gymmerasai Antiochus hi o'r blaen, ac y gwnaeth y galanasdra a grybwyllwyd am dano eisoes. Ar ei ddyfodiad cyntaf, ymddygodd Apolonius yn heddychol, gan gelu ei fwriadau hyd y Sabboth canlynol: a phan oedd yr Iuddewon wedi ymgynnull yn eu synagogau, gollyngodd ei fyddin yn rhydd ar y ddinas, gan orchymyn i ladd yr holl wyr, a chymmeryd y gwragedd a'r plant i'w gwerthu yn gaeth-weision. A hyn a wnaethant yn ddiarbed, gan beri i heolydd Jerusalem lifo o waed. Yspeiliasant a llosgasant y tai; tynasant gaerau y ddinas i lawr; ac o'i defnyddiau gwnaethant gastell yn ninas Dafydd, ar gyfer y deml, lle y gosodwyd gwarchawdlu, ac arfau o bob math, ynghyd â lluniaeth ac yspail y ddinas. O'r amddiffynfa hon, ag oedd yn uwch na mynydd y deml, yr oedd y milwyr yn rhuthro ar y rhai oedd yn dyfod yno i aberthu, ac yn cymmysgu gwaed yr aberthwyr â gwaed eu hebyrth, yr hyn a fu yn achos i'r 'offrwm gwastadol' beidio (*Dan.* 8. 11.) ac i Jerusalem fod yn anghyfannedd dros dair blynedd a hanner, hyd oni phurwydd y cyssegr, ac yr ail gyssegrwyd gan Judas Maccabæus. Gwel 1 *Macc.* 1. 29—40. 2 *Macc.* 5. 24—26. *Josephus Antiq. l.* 12, *c.* 7. a *Prideaux's Conn. part* 2, *book* 3, *p.* 175.

'Ac efe a ymgynghora â'r rhai a adawant y cyfammod sanctaidd,' neu, 'Ac efe a *ystyria* y rhai a adawant y cyfammod sanctaidd,' felly y cyfieithir yr un gair *Heb.* yn *adn.* 27.—Cyflawnwyd hyn trwy y parch a'r derbyniad a gafodd yr Iuddewon gwrthgiliedig gan Antiochus. Gwel 1 *Macc.* 1. 43.

Adn. 31ain. 'Breichiau hefyd a safant ar ei du ef, ac a halogant gyssegr yr amddiffynfa, ac a ddygant ymaith y gwastadol aberth, ac a osodant yno y ffieidd-dra anrheithiol.' Dangoswyd eisoes y cyflawniad o'r rhan gyntaf o'r adnod hon. 'Y ffieidd-dra anrheithiol,' o leiaf mewn rhan, oedd delw Jupiter Olympius, a osodwyd i fynu, trwy orchymyn Antiochus Epiphanes, ar allor y poeth-offrwm, am ba un y sonir yn helaethach yn mlaen. Gwel 1 *Macc.* 1. 54—57.

Adn. 32ain. 'A throseddwyr y cyfammod a lygra efe trwy weniaith; eithr y bobl a adwaenant eu Duw, a fyddant gryfion, ac a ffynant'—neu, 'A fyddant gryfion, ac a wnant fawredd,'—'*Shall be strong and do exploits.*' Cyf. Saes.——Y 'troseddwyr' hyn oeddynt yr Iuddewon gwrthgiliedig; y rhai, trwy 'weniaith,' sef addewidion teg Antiochus a'i weision, a lygrwyd i dderbyn defodau ac addoliad eilun-addolgar y Groegiaid. Y bobl ag oedd yn adnabod eu Duw, a thrwy hyny yn cael eu cryfhau i sefyll yn y ffydd, ac i ennill buddugoliaethau mawrion ar fyddinoedd lliosog, â rhifedi bychan o wyr, oedd, mewn ystyr blaenorol, y rhai hyny ym mhlith y genedl Iuddewig a safasant hyd angau, yn amser Antiochus Epiphanes, o blaid y grefydd a draddodwyd iddynt gan Dduw trwy Moses a'r prophwydi, yn neillduol Mattathias o Modin, ei feibion, a'u canlynwyr. 1 *Macc.* ii.

Adn. 33ain. 'A'r rhai synwyrol ym mysg y bobl a ddysgant lawer; etto syrthiant trwy y cleddyf, a thrwy dân, trwy gaethiwed, a thrwy yspail, ddyddiau lawer.' Cyflawnwyd hyn hefyd, mewn ystyr blaenorol, yn Mattathias a'i ganlynwyr, y rhai a fuant ffyddlawn i ddysgu y bobl trwy holl ddinasoedd Judea—ac yn yr amrywiol ddioddefiadau a ddioddefasant yn yspaid gorthrymder ac erlidigaeth Antiochus. Y mae yma hefyd, ynghyd â rhai adnodau canlynol hyd ddiwedd y 39ain, olygiad at erlidigaethau Anghrist, yn ol barn esponwyr yn gyffredin.

Adn. 34ain. 'A phan syrthiant, â chymhorth bychan y cymhorthir hwynt; eithr llawer a lŷn wrthynt hwy trwy weniaith.'

Adn. 35ain. 'A rhai o'r deallgar a syrthiant i'w puro, ac i'w glanhau, ac i'w cànu, hyd amser y diwedd: canys y mae etto dros amser nodedig.'

'A phan syrthiant,'—Yn eu darostyngiad a'u hiselder ni adawodd yr Arglwydd ei bobl; eithr cyfranodd iddynt o gynnorthwyon ei Yspryd, fel nad oeddent yn ymollwng i anobaith yn y brofedigaeth danllyd a fu arnynt yn amseroedd Antiochus, fel y gwelir yn llyfrau y Maccabeaid; nac yn amseroedd Anghrist, fel yr ymddengys oddiwrth amryw hanesion eglwysig. Fe all y 'cymhorth bychan,' heblaw y cymhorth yr oeddynt yn ei dderbyn oddi uchod, olygu y dyrnaid bychan o wyr, trwy ba rai y gwnaethpwyd yr Iuddewon yn amser Antiochus 'yn gryfion mewn rhyfel, i yru byddinoedd yr estroniaid i gilio.' *Heb.* 11. 34. Y rhai a lynasant 'wrthynt trwy weniaith' oedd yr Iuddewon gwrthgiliedig, a

ddanfonwyd gan Antiochus a'i weision i fradychu y ffyddloniaid ag oedd yn ymladd dros gyfraith eu Duw. 1 *Macc.* 1. 43.

'Y rhai deallgar' a syrthiasant yn amser erlidigaeth Antiochus, oeddynt y rhai hyny ni charasant eu heinioes hyd angau, megys Eleazer, a'r saith brodyr a'u mam. 2 *Macc.* vi, vii. *Heb.* 11. 35. Yr oedd yr Arglwydd yn caniatâu, neu yn hytrach yn trefnu yr erlidigaeth hon, fel pob un arall, i'r diben o buro, glanhau, a chànu ei eglwys oddiwrth ei sothach a'i hanmhuredd. *Esa.* 27. 9. 'Hyd amser y diwedd;' hyny yw, hyd yr amser terfynedig ag yr oedd yr Arglwydd yn ei ragwybodaeth a'i ddoethineb yn rhagweled fod yn angenrheidiol i'r brofedigaeth danllyd barhau, i ateb diben ei danfoniad.

Adn. 36ain. 'A'r brenin a wna wrth ei ewyllys ei hun, ac a ymddyrcha, ac a ymfawryga uwchlaw pob duw; ac yn erbyn Duw y duwiau y traetha efe bethau rhyfedd, ac a lwydda, nes diweddu y digter; canys yr hyn a ordeiniwyd, a fydd.' Cyflawnwyd hyn yn y mawr lwyddiant a gafodd Antiochus yn y rhan fwyaf o'i deyrnasiad. A hyny, trwy weithio ar ei lygredd, a barodd iddo ymchwyddo mewn balchder, ac anmharchu, nid yn unig dduwiau y cenedloedd, trwy yspeilio eu temlau, ond hefyd Duw y duwiau, sef Duw Israel, trwy anrheithio a halogi ei deml yn Jerusalem, trwy rwystro ei addoliad, dinystrio llyfrau y gyfraith, a gosod i fynu 'y ffieidd-dra anrheithiol.'

Adn. 37ain. 'Nid ystyria efe Dduw ei dadau, na serch ar wragedd, ie, nid ystyria un duw; canys goruwch pawb yr ymfawryga.' Gellir dywedyd am freninoedd Syria ag oedd yn 'dadau' i Antiochus, fod Duw Israel yn Dduw iddynt hwy mewn ystyr gyffredinol, fel y mae yn Dduw pob cnawd; ac, mewn ystyr mwy neillduol, gan i'r Arglwydd eu dyrchafu a'u cynnal ar orsedd Syria dros lawer o oesoedd. Heblaw hyny, dangosodd rai o freninoedd Syria, ag oedd o flaen Antiochus, barch allanol i Dduw Israel, yn enwedig ei dad Antiochus a'i frawd Seleucus. Nèu, ynte, gellir cyfieithu 'eu tadau,' ac felly ni bydd dim anhawsder; canys y mae y llythyren (ו) a gyfieithir yma yn y rhif unigol, rai gweithiau yn arwyddocâu y rhif lïosog, fel y mae yn hysbys i bawb ag sydd hyddysg yn yr iaith Hebraeg. Ond, os bernir mai yn y rhif unigol y dylid ei ddeall, fe all olygu Israel, neu y 'bobl' a sonir yn *adn.* 33ain. 'Na serch ar wragedd,'—neu, yn hytrach, 'Na dymuniant gwragedd,' sef y Messïah. '*Nor the desire of women.*' Cyf. Saes. Canys fel yr oedd y Messïah 'yn ddymuniant yr holl genedloedd,' *Hag.* 2. 7. ac 'yn ddymuniad Israel' yn hytrach na Saul mab Cis (Gwel 1 *Sam.* 9. 20. ar ymyl y ddalen) felly yr oedd y Messïah yn ddymuniant gwragedd duwiol mewn dwy ystyriaeth:—1. O ran eu disgwyliad hiraethus am ei ymddangosiad yn y cnawd.—2. O ran y dymuniad ag oedd gan rai o honynt i esgor ar hâd y wraig, ag oedd i ysigo pen y sarph. Efe oedd dymuniad Efa; yr hon, megys ereill, heb ddeall yn gyflawn am drefn

cyflawniad yr addewid, a feddyliodd, fe allai, ei bod wedi esgor arno ar enedigaeth Cain. *Gen.* 4. 1. Yr oedd anffrwythlondeb yn warthus ym mhlith y gwragedd Iuddewig, hwyrach, am fod hyny yn eu rhwystro i fod yn rhïeni i'r Messïah, mewn gradd agos neu bell.

Y mae amryw esponwyr wedi barnu fod y geiriau hyn, 'Na serch ar wragedd,' yn cyfateb i'r geiriau hyny yn 1 *Tim.* 4. 3. 'Yn gwahardd priodi:' yr hyn yw un o nodau Anghrist. Yr oedd Antiochus Epiphanes yn ddiammeu yn gysgod o Anghrist mewn amryw bethau, fel y dangosir ym mlaen; ond nid yn hyny, trwy beidio rhoddi 'serch ar wragedd,' gan ei fod wedi priodi, ac yn ymroddi i wragedd lawer. Dylid sylwi fod y prophwyd yn nechreu yr adnod hon yn sôn am dduwiau, sef y gwir Dduw, a gau-dduwiau y cenedloedd; a byddai anghysondeb mawr i ddwyn i mewn y nôd hwnw o Anghrist, sef gwahardd priodi, yn nghanol dryll ymadrodd, lle mae y rhan gyntaf yn sôn am y gwir Dduw, a'r rhan arall am y gau-dduwiau. Os gofynir ym mha ystyr yr ammharchodd Antiochus Epiphanes y Messïah, gellir ateb, mai trwy gymmeryd ymaith yr offrwm gwastadol, a'r holl wasanaeth ag oedd yn ei ragddangos, a thrwy osod i fynu y ffieidd-dra anrheithiol. 'Ië, nid ystyria un Duw.' Dangosodd Antiochus nad oedd ganddo fwy o barch i dduwiau y cenedloedd nag i Dduw Israel, fel yr ymddengys oddiwrth ei waith yn anrheithio temlau yr Aipht, a'r cais a wnaeth i anrheithio teml Diana yn Elymais. Gwel *Dan.* 11. 24. 43. Ac er ei fod wedi rhoddi gorchymyn am un-ffurfiad addoliad trwy holl daleithiau ei deyrnas, etto ni phrofir oddiwrth hyny fod ganddo wir barch i'w gau-grefydd ei hun, gan fod y gorchymyn wedi ei fwriadu yn fwyaf neillduol yn erbyn yr Iuddewon, er mwyn diwreiddio eu crefydd o'r byd—o leiaf, allan o'i deyrnas ei hun.

'Canys goruwch pawb yr ymfawryga,' hyny yw, goruwch pob Duw. Gwel 2 *Thes.* 2. 4. Yr oedd yr addoliad a roddid gan y cenedloedd yn eu hanwybodaeth i'w gau-dduwiau, yn arwydd eu bod yn teimlo effeithiau cydwybod euog, a'u bod yn agored i ddigofaint rhyw alluoedd anweledig oedd yn sylwi ar, ac yn cospi drwg-weithredoedd dynion. Ac yr oedd y moddion trwy ba rai yr oeddynt yn disgwyl eu dyhuddo yn arwyddo rhyw fath o edifeirwch am eu beiau. Y mae gan hyny yn fwy canmoladwy mewn Paganiaid, er ei fod yn gyfeiliornus mewn perthynas i wir wrthddrych addoliad, na thymher y gwatwarwr atheistaidd sydd heb gredu fod un Bod uwch nag ef ei hun. Yn yr ystyr hwn, tybygid, y mae yr Yspryd Glân yn dangos y byddai gradd mwy o annuwioldeb yn y brenin hwn na chyffredin, gan y byddai heb barchu y gau-dduwiau, yn addoliad pa rai y dygwyd ef i fynu.

Adn. 38aïn. 'Ac efe a anrhydedda dduw y nerthoedd yn ei le ef, ïe duw yr hwn nid adwaenai ei dadau a ogonedda efe âg aur, ac âg arian, â meini gwerthfawr, ac â phethau dymunol.' Yn adnod 37ain, dywedir

na fyddai i'r brenin hwn ystyried un duw;—ond yma, dywedir y byddai iddo anrhydeddu 'duw y nerthoedd.' I gysoni hyn, dylem ddeall, hwyrach, na fyddai yr anrhydedd a roddai efe i 'dduw y nerthoedd' yn wirioneddol, ond yn ffugiol, i'r diben o gael achlysur i ddangos ei anmharch i Dduw Israel, ac i erlid ei bobl. Wrth 'dduw y nerthoedd,' tebygol, y dylem ddeall, Jupiter Olympius,* pen duw y Groegiaid, i ba un yr oeddent yn priodoli llawer o 'nerthoedd,'—megys, hollalluogrwydd, hollwybodaeth, ac amryw o ragoriaethau ereill perthynol i'r gwir Dduw. 'Yn ei le ef,' hyny yw, yn lle, neu gyssegr, Duw Israel, lle rhoddodd Antiochus Epiphanes ddelw Jupiter Olympius i fynu ar yr allor bres, o flaen wyneb y deml, yn y cyntedd nesaf i mewn; ac yn ymyl yr allor bres y gwnawd allor arall ag oedd lai, ar ba un y dechreuwyd aberthu ebyrth i'r eilun ar y 25ain dydd o fis Cisleu, tair blynedd i'r un diwrnod ag y purwyd ac ail-gyssegrwyd y deml gan Judas Maccabæus; a 6 mis ar ol i Apolonius ddinystrio Jerusalem, a gwneuthur i'r gwastadol aberth beidio. O hyny allan y galwyd y deml yn Jerusalem dan yr enw, teml Jupiter Olympius, tra parhaodd yr anghyfannedd-dra hwnw. *Prideaux's Conn. part* 2. *p.* 175, 176. 2 *Macc.* 6. 2.

'Yr hwn nid adwaenai ei dadau,'—neu, 'eu tadau,' fel y sylwyd o'r blaen. Neu, yr hwn nid adwaenai ei dadau, sef tadau Antiochus, yn y fan hòno; canys ni fynent i'r ddelw hòno fod yn y deml yn Jerusalem, gan fod rhai o honynt wedi dangos, o leiaf, barch allanol i Dduw Israel, fel y dangoswyd o'r blaen. Ond mwy tueddol wyf i feddwl mai 'eu tadau' yw gwir ystyr y gair Hebraeg, a gyfieithir 'ei dadau.'

'A ogonedda efe âg aur, ac âg arian, â meini gwerthfawr.' Peth arferol ym mhlith y cenedloedd oedd addurno eilunod fel hyn, ac offrymu rhoddion gwerthfawr o aur, &c. er anrhydedd i'r duw i ba un yr oedd y deml wedi ei chyssegru. O herwydd hyn, yr oedd temlau eilunod yn gyfoethog o drysorau.

Adn. 39ain. 'Fel hyn y gwna efe yn yr amddiffynfeydd cryfaf gyda duw dieithr, yr hwn a gydnebydd efe, ac a chwanega ei ogoniant: ac a wna iddynt lywodraethu ar lawer, ac a rana y tir am werth.' Wrth yr 'amddiffynfeydd cryfaf,' deallwn, y deml yn Jerusalem, a'r castell gerllaw iddi, a gadarnhawyd yn y modd cadarnaf trwy orchymyn Antiochus, yn gystal i amddiffyn yr addoliad eilun-addolgar, ac i attal addoliad y gwir Dduw. 'Ac a wna iddynt lywodraethu ar lawer.' Er fod Antiochus yn fwyaf neillduol yn parchu un yn allanol, yr hwn a elwir 'duw dieithr,' etto gan fod yma gyfnewidiad o'r rhif unigol i'r rhif lïosog, gellir casglu fod addoliad amryw o fân dduwiau y cenedloedd wedi cael ei osod i fynu ynghyd âg addoliad Jupiter Olympius, a bod llawer

---

* Ystyr yr enw Jupiter yw, *y tad Jah*, yr hwn yw un o enwau y gwir Dduw, Olympius, *nefol*. Ystyr y ddau enw yw, *Jah, y tad nefol.*

o'r Iuddewon yn ymostwng iddynt, ac yn ufuddhau i'w seremoniau coelgrefyddol. Y mae yr hanesion am yr amseroedd hyny yn dangos mai felly yr oedd. 1 *Macc.* 1. 43—52. a 6. 21—27. 2 *Macc.* 6. 7. *Prideaux's Conn. part* 2. *p.* 177, 179. 'Ac a rana y tir am werth.' Y mae hyn yn golygu, naill ai yr hyn a gyflawnwyd gan Antiochus yn ei amrywiol ruthriadau i wlad Judea, neu, ynte, yr hyn oedd wedi rhoddi gorchymyn am ei wneuthur ac heb allu ei gyflawni yn ol ei fwriad. Ymddengys oddiwrth hanes yr amseroedd hyn, fod trefedigion cenedlig mewn amryw fanau o Judea, y rhai a ddinystriodd Judas Maccabæus, ym mha le bynag y cafodd afael arnynt; ac nid yw yn annhebygol i Antiochus werthu trigfanau yr Iuddewon a ffoisant, neu a laddwyd yn yr erlidigaeth, gan fod ei drysordy yn aml yn wag. 1 *Macc.* 3. 30. Ymddengys fod ganddo fwriad i ddifetha a diwreiddio yr holl Iuddewon allan o'u gwlad, a rhanu eu tiroedd wrth goelbren i'r cenedloedd; ond nid heb 'werth,' y mae yn debygol. 1 *Macc.* 3. 35, 36.

O'r 39ain adnod hyd ddiwedd y 43ain, y mae ail-adroddiad byr o'r pethau a draethasai yr angel o'r blaen o'r 24ain adnod hyd ddiwedd y 30ain o'r 11eg bennod, gyda rhai amgylchiadau yr oedd heb sôn am danynt, megys diangfa 'Edom a Moab, a phenaf meibion Ammon,' o'i law ef. Diangasant rhag y dinystr a ddygodd Antiochus ar wledydd ereill, am eu bod mewn cynghrair âg ef, tybygid, i ddifetha yr Iuddewon. 1 *Macc.* 4. 61. a 5. 1, 2, &c. *Prideaux's Conn. Anno.* 164. Dywedir yn adnod 43ain, 'y Lybiaid hefyd a'r Ethiopiaid fyddant ar ei ol ef,' hyny yw, yn ei fyddinoedd, neu yn deisyf ei heddwch. Dwy genedl oedd y rhai hyn yn terfynu ar wlad yr Aipht; y gyntaf o du y gorllewin, a'r olaf o du y dehau. Er nad oes genym hanes neillduol am hyny, nid yw yn annhebygol fod gan Antiochus filwyr o'r cenedloedd hyn yn ei fyddinoedd, tra bu yn llwyddiannus yn ei ruthriadau i wlad yr Aipht.

Adn. 44ain. 'Eithr chwedlau o'r dwyrain ac o'r gogledd a'i trallodant ef: ac efe a â allan mewn llid mawr, i ddifetha ac i ddifrodi llawer.' Cyflawnwyd hyn pan wrthryfelodd Artaxias, brenin Armenia, tu a'r gogledd, yn erbyn Antiochus, ac yr attaliodd y Persiaid, yn y dwyrain, eu teyrnged oddi wrtho, o herwydd y cyfreithiau a wnaethai, i holl ddeiliaid ei deyrnas gyd-ffurfio âg addoliad y Groegiaid. *Prideaux's Conn. Anno.* 166.

Adn. 45ain. 'Ac efe a esyd bebyll ei lŷs rhwng y moroedd, ar yr hyfryd fynydd sanctaidd: etto efe a ddaw hyd ei derfyn, ac ni bydd cynnorthwywyr iddo.' Cyflawnwyd hyn trwy waith Antiochus yn cadarnhau amddiffynfa Sion (lle gosododd warchawd-lu, fel yr adroddwyd) ac yn meddiannu y deml, yr hon oedd 'ar yr hyfryd fynydd sanctaidd,' rhwng môr y Canoldir, a môr Sodom. Pa fodd y daeth 'hyd ei derfyn,' dangosir ym mlaen.

Ond cyn sylwi ar y cyrch olaf a wnaeth Antiochus i Armenia a Phersia, y mae yn angenrheidiol i fwrw byr olwg ar y digwyddiadau a gymmerasant le yn Judea, ar ol gosod i fynu addoliad y Groegiaid yn y deml yn Jerusalem.

PENNOD XXVII.

Dechreuad y Maccabeaid.

Yn y flwyddyn cyn geni Crist 168, yr hon oedd yr 8fed i Antiochus, a'r 13eg i Ptolemy Philometor, danfonodd brenin Syria swyddogion trwy holl Judea i beri i'r trigolion gyd-ffurfio â'i grefydd eilun-addolgar. Un o honynt, a elwid Apèles, a ddaeth i Modin, dinas yn llwyth Dan, yn neheubarth gwlad Canaan, lle yr oedd Mattathias, offeiriad o ddyddgylch Joarib, ac o deulu Aaron, yn trigo; gwr anrhydeddus, a selog dros gyfraith ei Dduw. Yr oedd yn fab Ioan, fab Simon, fab Asmoneus, oddiwrth ba un y cafodd y teulu, yn yr amseroedd canlynol, yr enw Asmoneaid. *Josephus Antiq. l.* 12. *c.* 8.

Yr oedd Mattathias wedi cilio o Jerusalem i Modin, yn nechreu yr erlidigaeth. Yr oedd iddo bump o feibion, sef Joannan, Simon, Judas a gyfenwid Maccabæus, Eleazar, a Jonathan. 1 *Macc.* ii. Cafodd Judas y cyfenw Maccabæus oddiwrth y geiriau ag oedd ar ei faner, y rhai a gymmerwyd o *Exod.* 15. 11. yn *Heb.* מי כמוך באלים יהוה ' Pwy sydd debyg i ti, O Arglwydd, ym mhlith y duwiau?' O'r llythyrenau cyntaf o'r geiriau *Heb.* y lluniwyd y gair dychymmygol Maccabi. Oddiwrth hyn y galwyd Judas wrth y cyfenw Maccabæus, a'i ganlynwyr Maccabeaid. *Prideaux's Conn. pt.* 2. *p.* 184.

Pan ddaeth Apèles i Modin, hysbysodd i'r bobl ddiben ei ddyfodiad, ac a'u hannogodd i ufuddhau i orchymyn y brenin; yn neillduol annogodd Mattathias, gan farnu, os medrai ennill gwr mor gyfrifol, y byddai i bawb ereill ddilyn ei siampl. Ond ni fènodd na bygythion nac addewidion arno i ymadael â chyfammod ei Dduw. A phan welodd Iuddew yn nesâu at yr allor genedlig i aberthu, wedi ei gynhyrfu gan zel dros y gyfraith, efe a'i lladdodd; ac wedi hyny, trwy gynnorthwy ei feibion ac eraill, lladdodd Apèles a'i ganlynwyr, ac a ffôdd gyd â'i feibion i'r mynyddoedd, lle yr ymgasglodd atynt lawer o'r rhai ag oedd yn dwyn zel dros y gyfraith.

Yn y flwyddyn ganlynol, pan glybu Antiochus fod llawer o'r Iuddewon yn anufuddhau i'w orchymynion, daeth i Judea ei hunan, ac a roddodd amryw o honynt i farwolaeth, trwy lawer o arteithiau poenus. Gwel 2 *Macc.* vi, vii. Pan welodd Mattathias a'i ganlynwyr eu cyfleusdra, daethant allan o'u cuddfeydd, ac a dramwyasant trwy y wlad, gan dynu i lawr yr allorau cenedlig, a pheri enwaedu ar y plant oedd heb enwaediad, a thori ymaith yr holl wrthgilwyr a syrthient i'w dwylaw, ynghyd

â'r holl erlidwyr. Ym mhob man lle llwyddasant, distrywiasant eilun-addoliaeth, ac adferwyd gwir addoliad Duw yn ol y gyfraith. Llawer o lyfrau y gyfraith a gafwyd o ddwylaw y cenedloedd, a gwasanaeth y synagogau a osodwyd i fynu eilwaith. Canys amcan Antiochus yn yr erlidigaeth hon oedd difetha holl lyfrau y gyfraith; gan farnu, os medrai ddifetha y rhai hyny yn llwyr, y syrthiai crefydd yr Iuddewon i lawr o honi ei hun. Mynych yr amcanodd y diafol ddilëu gwir grefydd o'r byd trwy ddifetha yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ac yn wir pe llwyddasai yn hyn, ni buasai dim moddion yn fwy tebygol i ateb y diben; ac, o'r ochr arall, nid oes dim a all ateb y diben i dynu teyrnas y diafol i lawr ond adnabyddiaeth gyffredinol o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Gwel 1 *Macc.* 1. 56, 57. Bu farw Mattathias yn y 146 flwyddyn o deyrnas y Groegiaid, hyny yw, o Era y Seleucidæ. Y mae diwedd y flwyddyn hon yn cyfateb i ddechreu y flwyddyn 166 cyn geni Crist, yr hon oedd y 10fed i Antiochus Epiphanes, y 15fed i Ptolemy Philometor, a'r 1af i Judas Maccabæus. *Prideaux's Conn. part* 2. *p.* 183.

Cyn ei farw, galwodd am ei bum mab; ac wedi eu cynghori i ymladd yn wrol o blaid eu crefydd yn erbyn yr erlidwyr, gosododd Judas yn gadben yn ei le ei hun; a Simon i fod yn gynghorwr iddynt. Claddwyd ef yn Modin, ym meddrod ei dadau; a galar mawr a fu gan y ffyddloniaid yn Israel am dano. 1 *Macc.* 2. 49—70.

Judas, wedi cymmeryd arno y blaenoriaeth, a ddygodd y gwaith ym mlaen, a ddechreuwyd gan ei dad. Cadarnhaodd y dinasoedd a'r amddiffynfëydd a ddaeth i'w ddwylaw, gan roddi ynddynt wyr arfog i'w cadw. Gyd âg ychydig wyr, gorchfygodd a lladdodd, mewn dwy frwydr, ddau o gad-flaenoriaid Antiochus, sef Apolonius a Seron, y naill ar ol y llall, gyda lladdfa fawr o'u byddinoedd. 1 *Macc.* 3. 10—24. Pan glybu Antiochus am y dadymchweliadau hyn, llidiodd yn ddirfawr; ac wedi casglu byddin lïosog, amcanodd fyned yn union-gyrch i Judea, i ddifetha yr holl genedl, a rhanu eu tir i ereill. Ond dau beth yn nhrefn rhagluniaeth a'i rhwystrodd i gyflawni ei fwriadau gwaedlyd. Un peth oedd gwagter ei drysorfa; a'r llall oedd y 'chwedlau o'r dwyrain ac o'r gogledd' trwy ba rai y trallodwyd ef, fel y dangoswyd o'r blaen. Gan hyny, penderfynodd ranu ei fyddin yn ddwy ran; un dan Lysias i fyned yn erbyn yr Iuddewon, a'r llall dano ei hun i fyned i Armenia a Phersia, gan roddi gorchymyn i Lysias i ddiwreiddio yr Iuddewon yn llwyr allan o'u gwlad, a'i rhanu wrth goelbren i ddieithriaid. Parodd llwyddiant Judas i Philip, rhaglaw Judea, ysgrifenu at Ptolemy Macron, rhaglaw Cœle-Syria a Phœnicia, yr hwn a ysgrifenodd at Lysias i beri danfon y fyddin a ymddiriedasid iddo i Judea ar frys. Gan nad oedd Lysias i fyned ei hun y pryd hyn, rhoddodd y rhyfel yn erbyn yr Iuddewon dan olygiad Ptolemy Macron; yr hwn, wedi dewis Nicanor yn gad-flaenor oddi tano ei hun, a roddodd Gorgias,

hen filwr profedig, i fod yn gynnorthwyol iddo. Yr oedd y fyddin ag oedd dan eu llywodraeth, pan ddaeth ynghyd, yn ddeugain mil o wyr traed, a saith mil o wyr meirch, y rhai a wersyllasant yn Emmaus, yn agos i Jerusalem. Heblaw hyn, nid oedd dim llai na mil o farsiandwyr wedi dyfod i'r gwersyll, ynghyd â'u gweision a'u cynnorthwywyr, ar fedr prynu yr Iuddewon na leddid, yn gaeth-weision. Canys yn y ffordd hon yr oedd Nicanor wedi bwriadu talu dwy fil o dalentau ag oedd yn ddyledus oddiwrth Antiochus i'r Rhufeiniaid, yn ol ammodau yr heddwch a wnaethai ei dad, ar ol brwydr mynydd Sipylus. Rhoddodd y gair allan y gwerthai ddeg a phedwar ugain o Iuddewon am un dalent. Yr oedd wedi bwriadu lladd yr holl rai oedd wedi tyfu i fynu i oedran gwyr; ac o'r lleill yr oedd yn amcanu gwerthu, buasai raid iddo gael cant a phedwar ugain o filoedd i godi y swm ag oedd ddyledus i'r Rhufeiniaid. Ac wrth gyfrif pob talent yn £240 o arian Lloegr, fel y dywedwyd uchod, buasai y caethweision yn costio, pob un gyd â'u gilydd £2. 13*s*. 4*c*.

Pan welodd Judas a'i frodyr eu mawr berygl (canys nid oeddynt heb wybod holl fwriadau eu gelynion) ni lwfrhasant, ond ymroisant i ymladd dros eu bywydau, eu cyfraith, a'u breintiau gwladol ac eglwysig, a naill ai gorchfygu neu farw yn yr ymgais. Ond nid esgeulusasant i ymostwng ger bron Duw mewn ympryd a gweddi, i ddeisyf ei gynnorthwy a'i fendith ar eu hymdrechiadau. Nid oedd byddin Judas yn cynnwys ond chwe mil o wyr, yr hon a ranodd efe yn bedair mintai, o bymtheg cant bob un. Blaenorodd un o honynt ei hunan, a gosododd dri o'i frodyr ar y lleill. Ac wedi cyhoeddi yn ol y gyfraith (*Deut.* 20. 5—8.) i'r rhai hyny ag oedd y flwyddyn hòno wedi adeiladu tai, planu gwinllanoedd, ymgredu â gwragedd, a'r rhai ofnus, i ymadael, lleihawyd y fyddin i dair mil. Gwel 1 *Macc.* 3. 56. a 4. 6. 2 *Macc.* 8. 16. Trwy y fyddin fechan hon rhoddodd yr Arglwydd i'w bobl fuddugoliaeth fawr ar fyddin liosog eu gelynion, gan i Judas a'i wyr ladd mwy na naw mil, a chlwyfo y rhan fwyaf o honynt, a gwneuthur yspail o arian y marsiandwyr a ddaethent i'w prynu. 2 *Macc.* 8. 24, 25.

Trwy y llwyddiant hwn, aeth clod ac enw Judas ar led, a chwanegwyd ei fyddin, trwy fod llawer o'r Iuddewon yn cael eu calonogi i ymuno âg ef. Gan hyny, pan ddeallodd Judas fod Timotheus, llywodraethwr y wlad y tu hwnt i'r Iorddenen, ynghyd â Bacchides, un arall o gadbeniaid Antiochus, yn casglu eu lluoedd i'w wrthwynebu, arweiniodd ei fyddin yn eu herbyn, ac a'u gorchfygodd, gan ladd mwy nag ugain mil o honynt, ac ysglyfaethu yspail fawr. 2 *Macc.* 8. 30.

Pan glybu Lysias am yr holl aflwyddiant hyn, a chan wybod bwriad y brenin am ddifetha y genedl Iuddewig, yn nechreu y flwyddyn nesaf (165 cyn geni Crist, yr 2fed i Judas Maccabæus, yr 16eg i Ptolemy Philometor, a'r 11eg i Antiochus Epiphanes) aeth ei hunan i Judea, â

byddin o driugain mil o wyr traed, a phum mil o wyr meirch, ac a wersyllodd gerllaw Bethsura, dinas o'r tu dehau i Jerusalem, ar gyffiniau Idumea. Yno y cyfarfu Judas âg ef, â deng mil o wyr; ac, wedi gwneuthur taer weddi ar yr Arglwydd, cafodd y fuddugoliaeth, gan ladd pum mil o'r gelynion, a gyru y lleill ar ffo; a Lysias a ddychwelodd i Antiochia, gan fwriadu dyfod â byddin lïosocach y flwyddyn nesaf.

Ar ol hyn, gan fod y wlad i gyd ym meddiant Judas, aeth i fynu i Jerusalem, ac a burodd ac a ail-gyssegrodd y deml, ar y 25ain o fis Cisleu, yr hwn sydd yn cyfateb i ran o fis Tachwedd a rhan o fis Rhagfyr. I goffâu hyn, cadwyd y gyssegr-wyl *(Ioan* 10. 22.) yn flynyddol, dros wyth niwrnod, tra safodd y deml. Yr oedd y cyssegriad hwn dair blynedd a hanner ar ol cymmeryd Jerusalem a'r deml gan Apolonius, pan beidiodd y gwastadol aberth *(Josephus Jud. Bell. l.* 1, *c.* 1.) tair blynedd ar ol gosod delw Jupiter Olympius, sef 'y ffieidd-dra anrheithiol' i fynu (1 *Macc.* 1. 59. a 4. 54. 2 *Macc.* 10. 5.) a dwy flynedd ar ol i Judas gymmeryd y blaenoriaeth ar ol marwolaeth ei dad.

Ond er puro y deml, ac adferu yr addoliad yno, yr oedd y castell ar ei chyfer etto yn nwylaw y cenedloedd, y rhai oeddynt yn rhuthro allan i aflonyddu a lladd amryw o'r addolwyr. I rwystro hyn, gosododd Judas ran o'i fyddin i warchae ar yr amddiffynfa hòno; ond gan nad ellai hebgor cynnifer o wyr ag oedd angenrheidiol i'r gorchwyl hwnw, cadarnhaodd fynydd y deml â muriau à thyrau uchel, ac a osododd yn-ddynt warchawdlu i amddiffyn y rhai a ddeuent i addoli yno. *Prideaux.*

Pan glybu y cenedloedd cymmydogaethol am adfcriad Jerusalem a'r deml, cynhyrfwyd eu cenfigen a'u casineb i radd fawr; ac wedi ymgynghori ynghyd, bwriadasant i ymuno â'u gilydd i ddifetha yr holl genedl Iuddewig:—a dechreuasant roddi eu bwriad mewn grym, trwy ladd cynnifer o'r Iuddewon ag oedd o fewn eu terfynau, gan amcanu ymuno âg Antiochus i ddifetha holl had Israel. Ond, trwy ei farwolaeth ef, rhwystrwyd a diddymwyd eu holl amcanion. *Prideaux.*

PENNOD XXVIII.

Divedd gresynol Antiochus Epiphanes.

Ar ol i Antiochus Epiphanes orchfygu Artaxias, brenin Armenia, gwynebodd tua Phersia; ac ar ei daith clybu am drysorau teml Diana yn Elymais, talaeth o'r wlad hòno, ac aeth yno ar fedr ei hyspeilio; ond y trigolion, wedi deall ei fwriad, a ymgasglasant, ac a'i curasant ef ymaith trwy warth, fel y gorfu iddo gilio yn ol i Ecbatana yn Media. Yno y clywodd am aflwyddiant ei fyddinoedd yn Judea, dan Nicanor a Thimotheus, yr hyn a barodd iddo ddychwelyd yn llidiog tu a'i wlad. Pan oedd yn dyfod tua Babilonia, cyfarfu ail genadon, yn mynegi am ddymchweliad gwarthus ei fyddin dan Lysias, ac am adferiad yr addol-

iad yn Jerusalem. Ar hyn, parodd i'w gerbydwr ddyblu ei frys, gan fwgwth cwbl ddinystr yr Iuddewon, at y dyn olaf. Ond, pan oedd y geiriau balch yn ei enau, syrthiodd barn yr Arglwydd arno. 1 *Macc.* 6. 6. 2 *Macc.* 9. 6, 6. Canys tarawyd ef â phla anaele yn ei ymysgaroedd, i wellâu pa un nid oedd yr un feddyginiaeth yn tycio. Er hyny nid oedd yn llaesu dim yn ei lidiawgrwydd nac yn ei frys i ddial ar yr Iuddewon. O'r diwedd cafodd godwm, trwy ddymchweliad ei gerbyd, trwy yr hwn yr ysigwyd ef mor drwm fel y gorfu i'w weision ei roddi ar fath o elor feirch; ond gan nad allai oddef un math o ysgogiad, gorweddodd mewn tref a alwyd Tabæ, ar gyffiniau Persia a Babilonia. Chwanegodd ei glefyd yn y fath fodd fel yr aeth ei boenau yn arswydus ac yn annioddefol. Yn ei gorph, tòrodd allan archoll drewedig yn ei ddirgel-leoedd, o ba un yr oedd lliaws aneirif o bryfed yn dylifo yn wastadol, a'r fath ddrygsawr na allai ef ei hun nac ereill ei ddioddef. Ac nid oedd poenau ei feddwl lai na phoenau ei gorph, o herwydd euogrwydd ei gydwybod am ddrwg-weithredoedd ei fywyd, yr hyn oedd yn ei yru i wallgof. Meddyliodd ei fod yn gweled llawer o ysprydion drwg o'i amgylch, yn ei gyhuddo am holl weithredoedd annuwiol ei fywyd. Gorfu iddo gyfaddef mai llaw farnol Duw oedd arno, yn neillduol am ei holl drais yn erbyn ei deml yn Jerusalem, a'i bobl oedd yn addoli yno. Dangosodd lawer o arwyddion o edifeirwch——addunedodd wneuthur iawn i'r Iuddewon ac i'w teml, am ei holl drais a'i greulondeb—adferu llestri y deml, a chwanegu atynt—cynnal yr holl aberthau ar ei draul ei hun, a gwneuthur arddeliad o'r grefydd Iuddewig. Ond edifeirwch drwg-weithredwr dan y farn ydoedd, heb un sail i feddwl ei fod yn wirioneddol. O'r diwedd, wedi darn fraenu, bu farw o'i glefydau drwg, 'heb law ddynol' arno, ac 'heb gynnorthwywr iddo,' wedi teyrnasu un mlynedd ar ddeg cyflawn.

Gellir sylwi yma, fod amryw o'r erlidwyr mwyaf hynod o eglwys Crist wedi meirw mewn cyffelyb fodd; megys yr Herod cyntaf, yr hwn a laddodd y plant yn Bethlehem; a Galerius Macsimianus, cynnaliwr y 10fed erlidigaeth yn erbyn y prif Gristionogion; a Philip yr ail, brenin yr Hispaen, ac ereill.

Pwy bynag à ewyllysiai weled hanes mwy cyflawn o Antiochus Epiphanes, a'r pethau a wnawd yn ei amser, darllened y 3ydd llyfr o'r ail ran o waith y dysgedig *Prideaux*, a elwir *Connection of the History of the Old & New Testament*, a'r awdwyr ag y mae yn cyfeirio atynt; yn neillduol *Josephus*, a dau lyfr y Maccabeaid.*

---

* Bernir fod llyfr cyntaf y Maccabeaid yn cynnwys hanes cywir a rhagorol, a'i fod yn dyfod yn nes at iaith a dull yr Ysgrythyrau Sanctaidd hanesiol na dim arall ag sydd mewn bod. Ysgrifenwyd ef gyntaf yn y Galdaeg, yr hon a lefarwyd gan yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o gaethiwed Babilon; ym mha iaith y gwelwyd gan *Jerome*, dan y titl, Sharbit Sar Benc El—hyny yw, *Teyrn-wïalen Tywysog*

PENNOD XXIX.

Cyfatebolrwydd y Ddau Gorn Bychan.

Bellach, dangosir ychydig o'r nodau yn mha rai y mae Antiochus Epiphanes, y 'corn bychan' Groegaidd (*Dan.* 8. 9.) yn cyfateb i Anghrist, neu y 'corn bychan Rhufeinaidd' (*Dan.* 7. 8.) yr hwn yw yr awdurdod pen-arglwyddiaethol sydd wedi bod yn llywodraethu yn Eglwys Rhufain er pan osodwyd ef i fynu yno;—ynghyd â chyfatebiad amserau prophwydol y cyntaf i'r olaf. Gwel *Dan.* 8. 9—26. a 11. 21—45. a 7. 8, 11, 24, 25, 26. *Dat.* 11. 2, 3, 7, 8, 9, 11. a 12. 6, 14, 15, 16. a 13. 11—17.

1. Gelwir y ddau yn gyrn bychain, am eu bod, yn eu dechreuad, yn llywodraethu ar wledydd bychain, oedd megys yn weddillion o ddwy ymerodraeth fawr.

2. Cynnyddodd y ddau yn ddirfawr trwy gynnorthwy rhai ereill, a thrwy weniaith, cyfrwysdra, a dichell.

3. Casglodd pob un o honynt lawer o gyfoeth trwy yspeilio llawer o genedloedd, ac yn neillduol trwy yspeilio y cyssegr o'i drysorau gwerthfawrocaf—y cyntaf trwy rym arfau, a dichell; a'r olaf hefyd trwy rym arfau mewn rhan, ond yn fwyaf neillduol trwy yr awdurdod eglwysig a draws-feddiannodd ar gydwybodau dynion.

4. Bu pob un o'r ddau yn haelionus iawn i'r rhai oedd yn cynnal eu hachos, gan daenu yn eu mysg yr ysglyfaeth a'r yspail, mewn rhoddion a gwleddoedd, ac amryw fath o ddifyrwch, i ryngu bodd eu deiliaid: a thrwy hyny y digwyddodd i'r ddau yn fynych waghau eu trysordai. *Robertson's History of Charles* V. ac ereill.

5. Gorchymynodd y ddau i bawb o fewn eu terfynau i gydffurfio† â'u

---

meibion Duw, gyda golygiad at Judas Maccabæus. Y mae yn cynnwys hanes yn agos i 70 mlynedd, o ddechreu teyrnasiad Antiochus Epiphanes (1 *Macc.* 1. 10.) hyd farwolaeth Ioan Hyrcanus (1 *Macc.* 16. 23, 24.) gan ba un, y mae rhai yn barnu, yr ysgrifenwyd, neu gan ryw un trwy ei orchymyn. O'r Galdaeg y cyfieithwyd i'r Groeg, ac ieithoedd ereill.

Y mae ail lyfr y Maccabeaid yn cynnwys amryw ranau wedi eu dodi ynghyd yn anghyson o ran trefn amser; ond gan bwy y cyfansoddwyd sydd ansicr. Nid yw yn dyfod i fynu at gywirdeb a rhagoroldeb y llyfr cyntaf, mewn amryw bethau; ac nid ellir, bob amser, ymddiried iddo, ond lle mae yn cael ei gadarnhau gan y cyntaf, neu awdwyr ereill o gyfrifoldeb. Bernir iddo gael ei ysgrifenu gan Iuddew a fagesid yn yr Aipht, gan ei fod yn sôn am y deml fawr ag oedd yn Jerusalem, i wahaniaethu rhyngddi, tybygid, a'r deml hòno a adeiladwyd yn yr Aipht gan Onias, mab yr Onias a laddwyd gan Andronicus yn Daphne, am ba deml y sonir ym mlaen. 2 *Macc.* 2. 19. *Prideaux's Conn. pt.* 2. *b.* 3. *p.* 187.

† Y mae gorchymyn i gydffurfio âg unrhyw grefydd sefydledig dan boen marwolaeth, neu garchar, neu ddirwy, yn un o nodau crefydd anghristaidd. Os bydd y grefydd sefydledig yn unol ym mhob peth â phortreiad a rheol y gair dwyfol, gellir annog pawb trwy diriondeb i ymuno â hi; ond ym mhellach nis gellir myned, rhag bod yn rhy debyg i Anghrist.

crefydd eilun-addolgar eu hunain, dan boen marwolaeth; a llawer o weithiau bwriadasant ddiwreiddio gwir grefydd a'i phroffeswyr allan o'r byd. Y corn Groegaidd âg wyneb agored a geisiodd ddifétha llyfrau y gyfraith allan o'i deyrnas; ond y corn Rhufeinaidd a wrthwynebodd air y gwirionedd mewn ffordd fwy dichellgar, trwy ei gloi i fynu oddiwrth y llëygion mewn iaith ddieithr, gan haeru fod perygl i ymddiried y Bibl iddynt yn yr iaith gyffredin; a lle bynag y mae yn yr iaith gyffredin, nid yw yn caniatâu i'r werin i'w ddarllen.

6. Fel yr ymfawrygodd y ddau, sef y cynddelw yn gystal a'i ddelw, yn erbyn llu y nefoedd, sef gwir eglwys Dduw; felly hefyd yn erbyn Crist, Tywysog y llu. Ac fel y darfu Antiochus ddwyn ymaith y 'gwastadol aberth,' a gosod i fynu y ffieidd-dra anrheithiol, sef delw Jupiter Olympius, sef 'duw y nerthoedd,' a'i addoliad yn Jerusalem; felly hefyd y dygodd y Pab aberth Crist ymaith, yr hwn yn ei farwolaeth yw gwastadol aberth ei eglwys, ac a osododd i fynu dduw newydd yn ei le, yr hwn ni wyddai tadau yr eglwys, pan oedd yn ei phurdeb, am dano—sef bara, trwy draws-sylweddiad, yn cael ei wneuthur gan yr offeiriaid wrth ei gyssegru yn wir gorph, gwaed, a duwdod Crist, i'r hwn y maent yn rhoddi addoliad, ac yn cyfrif pob rhinwedd a gallu, ac yn gwastraffu llawer o aur ac arian yn y gwasanaeth perthynol iddo.

7. Ac fel y darfu i Antiochus osod 'pebyll ei lys rhwng y moroedd ar yr hyfryd fynydd sanctaidd,' sef yn Jerusalem, rhwng Môr y Canoldir a Môr Sodom; felly hefyd y darfu i Anghrist sefydlu ei hun yn Rhufain, yr hon a fu dros rai oesoedd yn hyfryd fynydd sanctaidd, (*Rhuf.* 1. 8.) ac sydd o ran ei sefyllfa rhwng Môr Adria a Môr Tuscany. Ac fel y daeth Antiochus 'hyd ei derfyn,' heb neb i'w gynnorthwyo, felly y daw Anghrist hyd ei derfyn, sef ei amser terfynedig, ac ni bydd neb a faidd neu a allo ei gynnorthwyo pan ddel dialeddau yr Arglwydd arno ef, ei achos, a'i bleidwyr. *Dat.* 18. 15.

Yn 8fed, ac yn olaf, ymddengys rhyw radd o gyfatebiad rhwng amseroedd prophwydol y ddau gorn hyn â'u gilydd. Er fod yn anhawdd mewn cyfrifon prophwydol, bob amser, i gyrhaedd at sicrwydd diammheuol, etto nid yw yn rhyfyg i chwilio i mewn, a cheisio cael gwybodaeth am ddechreuad a diweddiad yr amrywiol amserau prophwydol y mae yr Yspryd Glân wedi eu datguddio i ni yn y gair. Ond dylai aflwyddiant cynnifer o ddynion dysgedig a doeth ein dysgu i fod yn ochelgar, ac nid yn rhy hyderus yn y gorchwyl hwn.

Yr yspaid cyntaf a gawn ei ystyried yw hwnw a grybwyllir am dano yn *Dan.* 8. 14, 26. sef 'dwy fil a thri chant o ddiwrnodau,' ar ol pa rai yr oedd y cyssegr i gael ei buro. Y mae yr yspaid hwn yn ddwy fil a phedwar cant o ddyddiau yn nghyfieithiad y LXX; ond ni feiddiaf farnu fod y cyfieithiad hwnw yn rhoi y gwir ddarlleniad yma mwy nag mewn manau ereill lle y mae yn gwahaniaethu oddiwrth yr Hebraeg.

Y mae yr yspaid o ddwy fil a thri chant o ddyddiau yn golygu, tybygid, yr amser tra byddai i'r 'gwastadol offrwm' gael ei dynu ymaith, a 'chamwedd anrhaith' i barhau, a'r 'llu a'r cyssegr' i gael eu rhoddi 'yn sathrfa,' yn amser Antiochus Epiphanes. Y maent yn cynnwys chwe blynedd, ac un wythnos ar bymtheg, yn dechreu yn yr ail flwyddyn o arch-offeiriadaeth Menelaus, yr hon oedd y 5ed flwyddyn i Antiochus Epiphanes, pan ddechreuodd 'camwedd anrhaith' trwy waith Lysimachus yn yspeilio llestri y deml; ac yn diweddu yn nghyssegriad y deml gan Judas Maccabæus, yn yr 2fed flwyddyn o'i lywodraeth, yr hon oedd yr 11eg i Antiochus. Y rhan olaf o'r yspaid hwn oedd y tair blynedd a hanner tra dygwyd ymaith y gwastadol aberth, ac y bu y cyssegr a'r llu yn sathrfa, fel y dangoswyd, ac y maent yn cyfateb i'r amser, amserau, a hanner, *Dan.* 12. 7. yr hyn yw yr un yspaid a roddir i'r corn bychan Rhufeinaidd. *Dan.* 7. 25. Y mae esponwyr yn cytuno yn unfryd, tybygaf, fod 'amser, ac amseroedd, a rhan,' yn cyfateb i'r 1260 o ddyddiau, hyny yw, blynyddoedd teyrnasiad y bwystfil Rhufeinaidd; a 42 o fisoedd, dros ba rai yr oedd cyntedd allanol y deml i gael ei sathru gan y cenedloedd, a'r ddau dyst i brophwydo mewn sachlïan, (*Dat.* 11. 2, 3.) a'r wraig i fod yn yr anialwch, sef y wir eglwys dan orthrymder mwy neu lai. *Dat.* 12. 6, 14. Dangoswyd pa bryd y dechreuodd yr amser pan ddygwyd ymaith y gwastadol aberth yn amser Antiochus, a pha bryd y diweddodd; ond y mae llawer o ddadl mewn perthynas i ddechreuad teyrnasiad Anghrist. Y mae y rhan fwyaf o esponwyr yn dechreu teyrnasiad Anghrist yn y flwyddyn o oed Crist 606, pan wnaed y Pab Boniface y 3ydd yn esgob cyffredinol, trwy ganiatâd Phocas, Ymerawdwr Caer Cystenyn; ac yn ol hyny bydd diwedd ei deyrnasiad yn y flwyddyn 1866, os cyfrifir yn ol blynyddoedd cyffredin; ond os yn ol blynyddoedd prophwydol o 360 o ddyddiau, fel y mae sail dda i wneuthur,* bydd ei deyrnasiad yn dibenu yn y flwyddyn 1849. Ond gan fod 'bwystfil,' mewn iaith brophwydol, yn arwyddo un, yn nghyd â'i ganlynwyr, sydd yn meddiannu llywodraeth wladol, y mae ereill yn barnu nad oedd y Pab o Rufain yn deilwng i'w gyfrif yn fwystfil hyd y flwyddyn o oed Crist 756, pan wnaed ef yn dywysog gwladol ar dair talaeth yn yr Ital, trwy haelioni Pepin, tad Charles y Mawr (neu Charlemagne) sef gwladwriaeth Rhufain, yr Exarchat o Ravenna, a theyrnas y Lombardiaid. Wedi meddiannu y tair gwlad hyn, y mae Pabau Rhufain wedi arfer gwisgo coron driphlyg (*triple crown*). A phe baem yn dechreu ei deyrnasiad o'r flwyddyn 756, ni ddiweddai hyd oddeutu y flwyddyn o oed Crist 2000, er cyfrif yn ol blynyddoedd pro-

* Gan fod yr 'amser, amserau, a hanner,' hyny yw, tair blynedd a hanner, yn cyfateb i 1260 o ddyddiau, ymddengys, tybygid, mai blynyddoedd o 360 o ddyddiau yw y 1260 o flynyddoedd teyrnasiad Anghrist.

phwydol o 360 o ddyddiau, yr hyn a fyddai yn rhoddi estyniad arswydus i einioes Anghrist. Gan hyny, mwy tueddol ydym i gydsynied â Mr. *Fleming* (*Rise and Fall of the Papacy*, 1701, *quoted in a Pamphlet styled Prophetic Conjectures*, 1793) yr hwn sydd yn dechreu teyrnasiad Anghrist yn y flwyddyn o oed Crist 552, ym mha flwyddyn y gorchfygodd Justinian, yr Ymerawdwr dwyreiniol, y Gothiaid oedd wedi trawsfeddiannu yr Ital, a gadawodd y wlad, gan mwyaf, tan lywodraeth y Pab. Wrth chwanegu 1260 o flynyddoedd prophwydol at y flwyddyn 552, barnodd Mr. F. y byddai y 4edd phiol (*Dat.* 16. 8.) yn gorphen rhedeg allan, ac yn peri dymchweliad Unbenaeth y Ffrangcod yn y flwyddyn 1794. Y cenedloedd barbaraidd o barthau gogleddol Ewrop a ddadymchwelasant yr Ymerodraeth Rufeinaidd orllewinol, mewn oddeutu 65 mlynedd, sef o'r flwyddyn o oed Crist 410, pan ruthrodd Alaric a'r Gothiaid i'r Ital, ac a gymmerodd Rufain, hyd y flwyddyn 476, pan orchfygwyd Augustulus, yr olaf o Ymerawdwyr Rhufain, gan Odoacer, brenin yr Heruli. Yr amrywiol genedloedd hyny a sylfaenasant ddeg teyrnas ar adfeiliau yr Ymerodraeth orllewinol, y rhai sydd yn cyfateb i fysedd traed delw Nebuchodonosor (*Dan.* 2.) a deg corn y pedwerydd bwystfil. *Dan.* 7. 7. *Dat.* 12. 3. a 13. 1. Y mae ychydig o wahaniaeth ym mhlith gwyr dysgedig mewn perthynas i'r teyrnasoedd a aeth yn gyrn i'r bwystfil, sef y llywodraeth Babaidd yn Rhufain; gan hyny, ni anturiaf i benderfynu pa rai oeddynt, neu ydynt. Ond cymmaint a hyn a allwn ni benderfynu, i bob un o'r teyrnasoedd hyny fyned yn gyrn i'r bwystfil pan ddarfu iddynt ei dderbyn yn ben eglwysig, a rhoddi 'eu nerth a'u hawdurdod' iddo (*Dat.* 17. 13.) ac y bydd iddynt dderbyn 'awdurdod fel breninoedd un awr gyd â'r bwystfil;' (*Dat.* 17. 12.) hyny yw, tybygid, y bydd i'r bwystfil deyrnasu ym mhob un o'r cyrn, a hwythau ynddo yntau, dros 1260 o flynyddoedd. Dylid sylwi mai Paganiaid, gan mwyaf, oedd y cenedloedd barbaraidd a sefydlasant yn yr amrywiol ranau o'r Ymerodraeth orllewinol, oddieithr y Gothiaid, y rhai oeddynt yn rhyw fath o Gristionogion Ariaidd; ac mai bob yn un, y naill ar ol y llall, yr ennillodd Pabau Rhufain hwynt dan eu llywodraeth. Ac ym mhellach, dylid ystyried, er i rai o honynt dderbyn Cristionogaeth yn lled gynnar, megys Clovius brenin y Ffrangcod, yr hwn a fedyddiwyd yn y flwyddyn o oed Crist 496, etto nad allai y Ffrangcod a'u brenin fod yn gorn i'r bwystfil cyn i'r Pab o Rufain fod yn fwystfil ei hun; yr hyn, yn ol barn Mr. *Fleming*, nid oedd cyn y flwyddyn o oed Crist 552. Y mae efe wedi barnu y byddai teyrnasiad y bwystfil ar ben yn y corn hwnw yn y flwyddyn 1794, fel y dywedwyd. Barn Mr. F. a roddes achlysur i feddwl y bydd i'r bwystfil deyrnasu 1260 o flynyddoedd ym mhob un o'r cyrn (*Dat.* 17. 13.) hyny yw, 1260 o flynyddoedd yn y corn cyntaf o'r deg a dyfodd ar ei ben, ac felly yn yr ail, a'r trydydd, hyd yr olaf.

Yn y gradd a'r drefn y cododd y cyrn ar ei ben; yn ol hyny, y mae yn debygol, y syrthiant oddiar ei ben. Ffraingc, tybygid, oedd y cyntaf o'r cyrn, gan fod brenin Ffraingc yn cael ei alw yn fab hynaf yr eglwys. Pa bryd wedi hyny yr aeth amryw o'r teyrnasoedd ereill a sylfaenwyd ar adfeiliau yr Ymerodraeth orllewinol yn gyrn i'r bwystfil o Rufain, y mae yn anhawdd penderfynu; ond tybygid i'r Hispaen fyned yn gorn i'r bwystfil yn y flwyddyn o oed Crist 587,* pan ddarfu Ricared y cyntaf, brenin y Gothiaid yn y wlad hòno, ynghyd â'i holl ddeiliaid, dderbyn y fath grefydd ag oedd gan y Pab y pryd hyny i roddi iddynt. Yr olaf o'r teyrnasoedd hyny a aeth yn gorn i'r bwystfil, tybygid, oedd y Saeson yn Brydain, yn y flwyddyn o oed Crist 596, pan ddaeth Awstin Fynach, gyda gosgordd o ddeugeinwr, at Ethelbert brenin Cent, oddiwrth y Pab Gregory, ac a ddysgodd iddynt y fath Gristionogaeth ag oedd y pryd hyny yn Rhufain. Felly yr ymddengys nad oedd ond 44 blynedd o dyfiad y corn cyntaf ar ben y bwystfil hyd yr olaf o'r deg, a chymmaint a hyny a ellir ei ddisgwyl o gwymp y cyntaf hyd oni byddo i holl surdoes Rhufain gael ei garthu allan o'r teyrnasoedd hyny a fu gynt yn gwneuthur i fynu yr Ymerodraeth orllewinol Rufeinaidd. Ond fel y sylwyd yn fynych, y cyflawniad a rydd yr esponiad goreu ar y prophwydoliaethau; felly ni chynnygir y crybwylliadau uchod mewn perthynas i amserau y bwystfil, a'i gyrn, ond megys tybiadau ansicr, i'w chwilio a'u derbyn, neu ynte eu gwrthod, fel y gwelir achos.

PENNOD XXX.

Dilyniad o'r Hanesyddiaeth.

Yn y flwyddyn 164 cyn geni Crist, y 3edd i Judas Maccabæus, a'r 17eg i Ptolemy Philometor, y teyrnasodd ar ol ei dad yn Syria, Antiochus Eupator, yn blentyn o naw mlwydd oed, dan oruchwyliaeth Lysias.

Yn y cyfamser, Judas Maccabæus, pan ddeallodd fod y cenedloedd cymmydogaethol wedi cyd-fwriadu i ddifetha holl had Israel, a arweiniodd ei fyddin yn erbyn yr Edomiaid, ac wedi lladd 40 mil o honynt ar ddwywaith, aeth dros yr Iorddonen i wlad yr Ammoniaid; ac wedi lladd rhifedi mawr o honynt, a chymmeryd Jasar a'i phentrefydd, dychwelodd i Judea. Timotheus, rhaglaw y wlad hon dan frenin Syria, wedi llidio oblegid yr ymgyrch hwn o eiddo Judas i'w dalaeth, a gasglodd ei holl luoedd, ac a ruthrodd i Judea, gan fwriadu difa holl genedl yr Iuddewon. Ond Judas, wedi gorchymyn eu hachos i'r Arglwydd trwy weddi ac ympryd, a'i cyfarfu, ac ennillodd fuddugoliaeth fawr arno, gan ladd ugain mil a phum cant o wyr traed, a chwe chant o wyr meirch; ac wedi cymmeryd Gazara, dinas o lwyth Ephraim, lle ffoisai Timotheus,

* Heylin's Geog. 202, 203.

hwy a'i lladdasant, ynghyd â'i frawd Chereas, ac Apolophanes, un o flaenoriaid y fyddin. 1 *Macc.* 5. 6, 7, 8. 2 *Macc.* 10. 24—38.

Pan glywodd y cenedloedd oedd yn terfynu ar wlad Gilead am y dymchweliad mawr hwn, ac am farwolaeth cynnifer o'u cyfeillion, ymgasglasant i ddifetha yr holl Iuddewon yn y parthau hyny. A chan syrthio ar yr Iuddewon ag oedd yn ngwlad Tob, o du dwyrain i Gilead, lladdasant fil o honynt, yspeiliasant eu meddiannau, a dygasant eu gwragedd a'u plant i gaethiwed. Ar hyn, ffodd yr Iuddewon oedd yn y parthau hyny i Dathema, amddiffynfa yn ngwlad Gilead, lle gwarchaewyd arnynt gan Timotheus, mab, tybygid, i hwnw a laddwyd. Yn y cyfamser, trigolion Tyrus, Sidon, Ptolemais, a'r manau cymmydogaethol, a ymgasglasant gyda bwriad o ddinystrio yr holl Iuddewon yn Galilea. Yn yr amgylchiadau cyfyng hyn, rhanodd Judas ei fyddin yn dair rhan: gyd â'r gyntaf, o wyth mil o wyr, aeth gyd â'i frawd Jonathan i gynnorthwyo y Gileadiaid; a Simon, brawd arall, a aeth gyda thair mil i Galilea: a'r gweddill a adawyd yn Jerusalem, dan ofal Joseph ac Azarias, rhag ymgyrch y gelynion yn ei absennoldeb. I'r ddau flaenor hyn rhoddodd Judas orchymyn caeth i sefyll yn unig ar eu hamddiffynfa hyd oni ddychwelai efe a'i frawd Simon.

Cafodd Judas a Jonathan lwyddiant rhagorol yn Gilead; canys heblaw rhyddhau eu brodyr yn Dathema, a manau ereill, oddiwrth eu mawr berygl, lladdasant ynghylch wyth mil o fyddin Timotheus, ac a gymmerasant yr holl ddinasoedd lle yr oedd yr Iuddewon yn cael eu gorthrymu; ac wedi lladd yr holl wrrywiaid, yspeiliasant a llosgasant eu dinasoedd, ac a ddychwelasant i Jerusalem. 1 *Macc.* 5. 24—36.

Ac nid oedd llwyddiant Simon yn Galilea fawr lai; canys gorchfygodd ei elynion ym mhob brwydr; ac wrth ymlid y gorthrymwyr hyd at byrth Ptolemais, lladdodd ynghylch tair mil o honynt yn eu ffoedigaeth, ac yspeiliodd eu hyspail. A chan fod yn anhawdd i amddiffyn yr Iuddewon mor bell o Jerusalem, dygodd drigolion Galilea, yn wyr, yn wragedd, ac yn blant, ynghyd â'u heiddo, i wlad Judea, i bobli y parthau hyny a ddiboblwyd yn amser erlidigaeth Antiochus Epiphanes.

Ond ni chafodd y drydedd ran, a adawyd gartref dan ofal Joseph ac Azarias, gyffelyb lwyddiant; canys wedi clywed am ffyniant y ddwy ran arall, gwnaethant ymgyrch aflwyddiannus yn erbyn Jamnia, porthladd ar Fôr y Canoldir, yn groes i orchymyn Judas, a lladdwyd o honynt ynghylch dwy fil, gan Gorgias, un o raglawiaid brenin Syria.

Yn y flwyddyn 163 cyn geni Crist, y 18fed i Ptolemy Philometor, yr 2fed a'r olaf i Antiochus Eupator, a'r 4edd i Judas Maccabæus, daeth Lysias, rhaglaw brenin Syria, wedi clywed am orchestwaith Judas a'i frodyr yn Gilead a Galilea, gyda byddin i Judea o bedwar ugain mil o wyr traed, a holl wyr meirch y deyrnas, ynghyd â phedwar ugain o elephantiaid, gan fwriadu gwneuthur Jerusalem yn breswylfod i'r cen-

edloedd, gwneuthur elw o'r deml fel o demlau y cenedloedd, a rhoddi yr arch-offeiriadaeth ar werth. Dechreuodd y rhyfel trwy warchae ar Bethsura, lle cadarn rhwng Jerusalem ac Idumea. Yno yr ymosododd Judas arno, ac a laddodd o'i fyddin un mil ar ddeg o wyr traed, ac un cant ar bymtheg o wyr meirch, ac a yrodd y lleill ar ffo. Gan hyny, Lysias, wedi blino ar ryfel mor aflwyddiannus, a heddychodd â Judas a'i wyr, trwy gydsyniad Antiochus Eupator, i ba heddwch y bu cenadau y Rhufeiniaid yn offerynol, ag oedd y pryd hyny yn Syria, sef Q. Memmius, a T. Manlius. Yn yr heddwch hwn, diddymwyd cyfraith Antiochus Epiphanes, ag oedd yn rhwymo yr Iuddewon i gydffurfio âg addoliad ac arferion y Groegiaid, a chaniatâwyd iddynt, ym mhob man, i fyw yn ol eu cyfreithiau eu hunain. 2 *Macc.* 11. 1—38.

Ond ni pharhaodd yr heddwch hwn yn hir; canys pan ddychwelodd Lysias i Antiochia, cymmerodd rhaglawiaid y lleoedd cymmydogaethol achlysur drachefn i flino yr Iuddewon, o ba rai Timotheus, Nicanor, ac Apolonius mab Gennæus oedd y blaenaf.

Dechreuodd gwyr Joppa y rhyfel trwy foddi yn y môr ddau cant o Iuddewon ag oedd yn preswylio gyda hwynt. I ddial hyn, ymosododd Judas arnynt yn y nos, ac wedi llosgi eu llongau, lladdodd bawb a gafodd yn y lle. Ac wedi clywed fod y Jamniaid yn bwriadu ymddwyn tu ag at yr Iuddewon yn eu plith yn ol esampl trigolion Joppa, syrthiodd arnynt hwythau liw nos, ac a losgodd eu porthladd, a'r holl longau ag oedd ynddo. 2 *Macc.* 12. 1—9.

Ar ol hyn, galwyd Judas drachefn i gynnorthwyo Iuddewon Gilead yn erbyn Timotheus. Ac wedi gorchfygu byddin o Arabiaid crwydraidd, a elwir Nomades, aeth rhagddo ac a gymmerodd Caspis, dinas gadarn; ac wedi lladd y trigolion ac yspeilio eu golud, dinystriodd y lle. Judas, wedi dyfod i Caraca yn ngwlad Tob, ac heb gael Timotheus yno, a ddanfonodd Dositheus a Sosipater yn erbyn y lleoedd cedyrn yn y wlad hòno, y rhai a ennillasant, ac a laddasant ddeng mil o wyr. Yn y cyfamser, Timotheus, wedi casglu ei holl luoedd ynghyd, sef chwech ugain mil o wyr traed, a dwy fil a phum cant o wyr meirch, a danfon y gwragedd a'r plant, ynghyd â'r glud, i Carnion, dinas gadarn yn Gilead, a wersyllodd yn Raphon, ar afon Jabboc. Yno yr ymosododd Judas arno, ac a laddodd o'i wyr ddeng mil ar hugain, a Thimotheus ei hun a gymmerwyd yn garcharor; ond cafodd ei fywyd a'i ryddid, ar yr ammod o ryddhau y carcharorion Iuddewig ag oedd yn ei feddiant. Gan fod rhan fawr o fyddin Timotheus wedi diangc i Carnion, Judas a'u dilynodd, ac a gymmerodd y lle, ac a losgodd deml y dduwies Atargatis, a'i llonaid o bobl ag oedd wedi ffoi yno am nodded; ac wrth anrheithio y ddinas â thân a chleddyf, lladdodd bum mil ar hugain yn rhagor o fyddin Timotheus. Wedi hyny, casglodd yr holl Iuddewon oedd yn Gilead, a'r manau cyfagos, ac a'u cyfleodd yn y lleoedd ang-

hyfanneddol o Judea, fel y gwnaethai Simon ei frawd yn y flwyddyn o'r blaen, yn ei ymgyrch i Galilea. Yn ei ddychweliad o Gilead, yr oedd yn angenrheidiol i Judas a'i fyddin fyned trwy Ephron, dinas fawr a chadarn, lle rhoddasai Lysias warchawdlu lliosog; a chan nad oedd un ffordd arall ar y dehau neu yr aswy yn gyfleus iddo, erfyniodd arnynt am gael myned trwodd yn heddychol. Ond gan na chaniateid hyny iddo, ymosododd ar y lle, ac a'i cymmerodd trwy ruthr; ac wedi lladd yr holl wrrywiaid hyd bum mil ar hugain, anrheithiodd a dinystriodd y lle; ac wedi croesi yr Iorddonen, daeth i wastadedd Bethsan (a elwid Scythopolis) ac wedi dychwelyd gyd â'i fyddin i Jerusalem, aethant i fynu i'r deml i roddi diolch i'r Arglwydd am y mawr lwyddiant a roddasai efe iddynt, canys er maint eu peryglon, ni chollasid un o honynt. Dychwelasant oddeutu gŵyl y Pentecost, yn y flwyddyn a enwyd olaf. 2 *Macc.* 12. 1—31. 1 *Macc.* 5. 24—54.

Ar ol gŵyl y Pentecost, arweiniodd Judas ei fyddin yn erbyn Gorgias a'r Idumeaid, i ddial colled ei frodyr Joseph ac Azarias, a'r holl flinder a ddioddefasai yr Iuddewon oddiar eu dwylaw. Yn y frwydr a ymladdodd efe â hwynt, amryw o'r Iuddewon a laddwyd, er iddo ennill y fuddugoliaeth. Gan mai y Sabboth oedd y diwrnod canlynol, Judas a'i wyr a'i cadwasant yn Odolam, dinas gerllaw maes y frwydr. A thranoeth pan aethant i gladdu y meirw, cawsant ar bob un o honynt rai o'r pethau a gyssegrasid i eilunod y cenedloedd, y rhai a farnasant yn achos o'u marwolaeth, fel yn achos Achan. Ac wedi codi treth oddiar y fyddin, danfonodd i Jerusalem i brynu ac aberthu ebyrth dros bechod, i lanhau y gwersyll. Y mae awdwr ail lyfr y Maccabeaid (neu ryw un drosto) yn dywedyd i Judas weddïo a gwneuthur cymmod dros y meirw, fel y rhyddheid hwy oddiwrth bechod; (2 *Macc.* 12. 44, 45.) ond nid yw yn annhebygol i ryw un ofer-goelus ychwanegu hyn at yr hanes, er mwyn cefnogi y cyfeiliornad hwnw o weddïo a gwneuthur cymmod dros y meirw, yr hwn a ddygwyd i mewn yn gynnar i'r Eglwys Babaidd. Y mae llawer o bethau ereill o'r cyffelyb i'w gweled yn ail lyfr y Maccabeaid.

Wedi hyny, dygodd Judas y rhyfel i ddeheubarth Judea, ac a darawodd Hebron a'i phentrefydd; yr hon, y pryd hyny, a gyfrifid yn brif ddinas Idumea. Oddi yno aeth i wlad y Philistiaid, ac wedi cymmeryd Azotus (neu Asdod) tynodd i lawr yr allorau, ac a losgodd eu cerfiedig ddelwau; ac wedi gwneuthur yn yr un modd yn holl ddinasoedd ereill y wlad hòno, dychwelodd i Jerusalem gyd âg yspail fawr. 1 *Macc.* 5. 65—68.

Ond gan fod amddiffynfa Acra, neu y castell yn Jerusalem, yn ddraen blin yn ystlysau yr Iuddewon, a llawer o honynt yn cael eu lladd o dro i dro, trwy ruthriadau y gwarchawdlu, wrth fyned i'r deml i addoli, parotôdd Judas bob math o offerynau a pheiriannau rhyfel i gymmeryd

y lle. Parodd hyn i rai o'r Iuddewon gwrthgiliedig oedd yn yr amddiffynfa (gan nad oedd ganddynt obaith am drugaredd os cymmerid y lle) i ddiangc at y brenin i Antiochia, i fynegi iddo am y perygl yr oedd yr amddiffynfa ynddo, ac i ddeisyfu cynnorthwyon. Ar hyn, casglwyd ar frys fyddin o gan mil o wyr traed, ugain mil o wyr meirch, a deuddeg ar hugain o elephantiaid; a'r brenin, ynghyd â Lysias, a'u harweiniasant i Judea, ac a roddodd warchae ar Bethsura, yn nghyffiniau Idumea. Judas, wedi casglu ei wyr ynghyd, er eu bod yn llawer llai na'r gelynion, a ruthrodd arnynt yn y nos, ac a laddodd bedair mil o honynt, ac a giliodd yn ol heb ddim colled cyn iddi oleuo y dydd. Pan wawriodd y dydd, ymosododd Judas ar fyddin y brenin, ac a laddodd chwe chanwr; ond pan ddeallodd mai ei orthrechu a gai yn y diwedd, ciliodd o'r frwydr, ac a ddychwelodd mewn diogelwch i Jerusalem. Yn y frwydr hon lladdodd Eleazar, un o frodyr Judas, elephant, ar yr hwn yr oedd yn tybied fod y brenin, ac yntau a lethwyd i farwolaeth gan y bwystfil yn syrthio arno. Ar ol hyn dychwelodd y brenin at warchae Bethsura, lle darfu y gwarchaëedig, ar ol amddiffyn eu hunain yn wrol, roddi y lle i fynu o herwydd diffyg ymborth, ar yr ammodau o ddiogelwch i'w personau a'u meddiannau. 1 *Macc.* 6. 18—47. 2 *Macc.* 13. 18—22. *Prideaux, Anno.* 163.

Oddi yno arweiniodd Antiochus ei fyddin i Jerusalem, ac a warchaeodd ar y deml; a phan oedd y gwarchaëedig yn barod i roddi y lle i fynu o ddiffyg ymborth, fel yn Bethsura, gwaredwyd hwynt trwy amgylchiad annisgwyliadwy: daeth y gair i wersyll y brenin fod Philip, a adawyd gan Antiochus Epiphanes yn ymgeleddwr ei fab a'i etifedd, wedi traws-feddiannu Antiochia, a chymmeryd arno lywodraeth y deyrnas. Ar hyn rhoddwyd heddwch i'r Iuddewon ar ammodau manteisiol ac anrhydeddus, y rhai a gadarnhawyd gan y brenin ieuangc; yr hwn, wedi myned i mewn i gynteddau y deml, a sylwi ar gadernid y lle, a orchymynodd dynu i lawr y muriau, yn groes i'r cytundeb.

Yr oedd Menelaus yr arch-offeiriad gyd â'r brenin yn yr ymgyrch hwn, gan ddisgwyl cael ei adferu i'w sefyllfa gynt; ond pan ystyriodd Lysias pa faint o anghyfleusderau yr oedd y rhyfel hwn yn achos o honynt, ac mai yr adyn hwn oedd y prif gynhyrfwr o hono, efe a'i cyhuddodd i'r brenin, yr hwn a'i condemniodd i farwolaeth; yr hon a ddioddefodd yn Berea, dinas o Syria, trwy gael ei fygu mewn lludw; yr hon oedd gospedigaeth a arferid roddi ar y rhai a fyddai euog o gyssegrladrad, bradwriaeth, a'r cyffelyb feiau mawrion, o ba rai yr oedd yr adyn truenus hwn yn euog mewn modd neillduol. Ar ei ol ef rhoddwyd yr arch-offeiriadaeth i Almicus, yr hwn hefyd a elwid Jacimus, dyn ag oedd yn gwbl mor ddrwg ag yntau. 2 *Macc.* 14. 3. *Joesphus Antiq. l.* 12. *c.* 15. *& l.* 20. *c.* 8.

Pan ddychwelodd Antiochus Eupator, ynghyd â Lysias, yn ol i

Antiochia, cafodd Philip yn arglwyddiaethu ar y ddinas, yr hwn, wedi ei goresgyn, a yrwyd ymaith, ac a ddifethwyd. 1 *Macc.* 6. 63. *Joseph. Antiq. l.* 12. *c.* 15.

Ond gan na chafodd Alcimus dderbyniad gan yr Iuddewon fel archoffeiriad, am ei fod wedi ymhalogi âg arferion y Groegiaid yn amser Antiochus Epiphanes, gwnaeth ei gŵyn at Demetrius* ar ei ddyfodiad cyntaf i Syria, yr hwn, wrth glywed ei hanes, a lidiodd yn y fath fodd wrth Judas a'i frodyr, fel y parodd i Bacchides, rhaglaw Mesopotamia, fyned yn uniongyrch â byddin i Judea; ac wedi cadarnhau yr archoffeiriadaeth i Alcimus, rhoddodd iddo awdurdod ogyfuwch â Bacchides i ddwyn y rhyfel ym mlaen yn erbyn yr Iuddewon. Ar eu dyfodiad cyntaf i Judea, ceisiasant gael gafael yn Judas a'i frodyr tan rith heddwch. Ond gan eu bod yn gweled y fagl hwy a'i gochelasant, tra daliwyd ereill, ag oedd heb fod mor ochelgar, ac a ddifethwyd ganddynt, ym mhlith pa rai yr oedd triugain o'r Assideaid, ac amryw o'r ysgrifenyddion ac athrawon y gyfraith; fel na chafwyd neb mwyach ond gwrthgilwyr i roddi eu hymddiried ynddynt. Wedi hyny dychwelodd Bacchides at y brenin, gan adael rhan o'r fyddin gyd âg Alcimus, yr hwn, er iddo lwyddo dros dro, ni allodd sefyll yn erbyn Judas a'i wyr. Gan hyny, dychwelodd yntau at y brenin; ac wedi ei anrhegu â choron o aur, dywedodd nad oedd dim gobaith am heddwch, nac iddo sefydlu ei awdurdod, tra byddai Judas yn fyw. Gan hyny danfonwyd byddin arall, dan arweiniad Nicanor, hen elyn yr Iuddewon; yr hwn, gan ei fod wedi cael prawf o wroldeb Judas a'i fedrusrwydd i ryfela, a farnodd mai doethach oedd heddychu nag ymladd âg ef; gan hyny, pan sefydlwyd ammodau heddwch rhwng y ddwy blaid, Judas a Nicanor a ymddiddanasant yn gyfeillgar â'u gilydd. Ond gan nad oedd yr heddwch yn rhyngu bodd Alcimus, aeth y drydedd waith at y brenin, yr hwn, wedi clywed yr amgylchiadau, a wrthododd gadarnhau yr hyn a wnaed, ac a barodd i Nicanor i fyned â'r rhyfel ym mlaen nes lladd Judas, neu ei ddanfon yn rhwym i Antiochia. Gan hyny, gorfu i Nicanor adnewyddu y rhyfel â Judas, yn fawr yn erbyn ei ewyllys.

Yn y flwyddyn 161 cyn geni Crist, yr 20fed i Ptolemy Philometor, yr 2fed i Demetrius Soter, a'r 6ed i Judas Maccabæus, y bu yr adnewyddiad hwn o'r rhyfel yn erbyn yr Iuddewon gan Demetrius. Nicanor, wedi derbyn gorchymyn y brenin, a arweiniodd ei luoedd i Jerusalem, ac a feddyliodd ddal Judas tan rith ymddiddan âg ef yn heddychol, ac ni bu fawr rhyngddo a llwyddo; canys pan ddeallodd Judas fod cynllwyn wedi ei osod iddo, ffôdd o ŵydd Nicanor, ac ni ymddiriedodd ei

---

* Yr oedd y Demetrius yma yn fab i Seleucus Philopator, ac yn nai i Antiochus Epiphanes. Diangodd o Rufain, ac wedi dyfod i Syria, lladdodd Antiochus Eupator a'i ymgeleddwr Lysias, ac a draws-feddiannodd y deyrnas, gan roi allan yn gelwyddog ei fod yn dyfod trwy awdurdod a gorchymyn y Rhufeiniaid.

hun mwyach iddo, ond y rhyfel a aeth ym mlaen rhyngddynt. Y frwydr gyntaf a ymladdwyd yn Capharsalama, ym mha un y collodd Nicanor bum mil o wyr, ac a giliodd gyd â'r gweddill i Jerusalem; lle dialodd am ei aflwyddiant ar un Rasis, un o gynghor yr henuriaid a elwid y Sanhedriin. Yr oedd Rasis yn byw mewn castell yn y wlad, i ba le y danfonodd Nicanor bum cant o wyr i'w gymmeryd; ond wedi gwneuthur amddiffyniad gwrol o'r lle tra gallodd, pan ddeallodd nad allai sefyll yn hŵy, syrthiodd ar ei gleddyf; ond gan ei fod etto yn fyw, bwriodd ei hun i lawr o ben y tŵr; ac efe etto yn fyw, gwthiodd ei law i'r archoll, a chan dynu allan ei ymysgaroedd, efe a'u taflodd at ei elynion, ac a fu farw. 2 *Macc.* 14. 39—46. Y mae yr Iuddewon yn cyfrif Rasis yn ferthyr, ond Awstin yn hunan-leiddiad, fel y mae yn eglur ei fod.

Ar ol hyn ymladdwyd brwydr rhwng yr Iuddewon a'r Syriaid, ym mha un y cafodd Judas fuddugoliaeth drwyadl; canys er nad oedd ganddo ond tair mil o wyr pan ddechreuodd y frwydr, lladdwyd Nicanor a'i holl fyddin o bymtheg mil ar hugain, fel nad oedd un yn weddill i ddwyn y newydd i Antiochia. Pen Nicanor, a'i law a estynasai yn erbyn y deml, a dorwyd ymaith, ac a grogwyd o flaen Jerusalem. 1 *Macc.* 7. 33—50. 2 *Macc.* 15. 1—36. *Joseph. Antiq. l.* 12. *c.* 17.

Judas, wedi cael ychydig seibiant ar ol y fuddugoliaeth hon, a ddanfonodd genadwri at y Rhufeiniaid, i ddeisyf eu hamddiffyn a'u cynnorthwy yn erbyn y Syriaid. Y genadwri a gafodd dderbyniad croesawus gan y Senedd, a gorchymyn a roddwyd i'r Iuddewon gael eu cyfrif yn gyfeillion ac yn gynghreiriaid i'r Rhufeiniaid. A llythyr a ysgrifenwyd oddi wrthynt at Demetrius Soter, yn bwgwth rhyfel yn ei erbyn os na pheidiai a blino yr Iuddewon; ond yr oedd Judas wedi marw cyn i'r cenadon gyrhaedd adref gyda gorchymyn y Senedd. 1 *Macc.* viii. *Justin, lib.* 36. *c.* 3.

Pan glybu Demetrius am ddymchweliad Nicanor, danfonodd Bacchides ac Alcimus drachefn gyda byddin lïosog i Judea, yn erbyn pa un nid oedd gan Judas ond tair mil o wyr; y rhai, wedi brawychu wrth gadernid a rhifedi y gelynion, a'i gadawsant i gyd ond wyth cant. Er hyny, â'r rhifedi bychan hyn, anturiodd ymladd â lluoedd lïosog y gelynion; a'r canlyniad a fu iddo gael ei ladd yn y frwydr. Bu galar mawr am dano yn holl Judah a Jerusalem; a'i frodyr, Jonathan a Simon, a'i claddasant yn anrhydeddus yn meddrod ei hynafiaid, yn Modin.

Un o'r blaenoriaid milwraidd enwocaf oedd Judas Maccabæus a fu erioed mewn unrhyw oes. Codwyd ef i fynu mewn amseroedd blin, ac amgylchiadau cyfyng, i fod yn amddiffynwr ac yn waredwr i'w genedl. Yr oedd ei ffydd a'i wroldeb, a'i lwyddiant cyffredinol mewn rhyfel, mor hynod—ei zel a'i wresogrwydd tu ag at achos crefydd, a'i gariad tu ag at ei frodyr, mor eglur, fel y mae yn debygol na chododd neb cyffelyb iddo yn yr holl yspaid rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Y

gyssegr ♦yl a ddechreuodd efe a anrhydeddwyd gan Grist: a thybygid fod yr apostol yn golygu Judas a'i frodyr ym mhlith y rhai 'a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio.' *Heb.* 11. 34.

PENNOD XXXI.

Dilyniad o Hanesyddiaeth y Maccabeaid.

Ar ol marw Judas cododd y gwrthgilwyr eu penau, ac a wnaethant lawer o derfysg, yr hwn a ychwanegwyd trwy fod newyn trwm yn y wlad. Alcimus a'i blaid a orthrechodd bleidwyr y Maccabeaid, y rhai a roddwyd i farwolaeth ym mha le bynag y caid gafael arnynt; yr hyn a barodd fod blinder ac adfyd Israel yn drymach nag a brofasant mewn un amser er pan ddychwelasant o gaethiwed Babilon; ïe, nag yn amseroedd erlidigaethus Antiochus Epiphanes. 1 *Macc.* 9. 23—27.

Yn y cyfyngder hwn, dewiswyd Jonathan yn dywysog yn lle Judas ei frawd; yr hwn, wedi casglu gwyr, a giliodd i gorsleoedd yr Iorddonen, ac a safodd ar ei amddiffynfa, gan nad oedd ganddo ddigon o gryfder i wynebu y gelyn yn y maes. Yn y flwyddyn ganlynol, yr hon oedd 160 cyn geni Crist, yr 21ain i Ptolemy Philometor, y 3edd i Demetrius Soter, a'r 1af i Jonathan, bu farw Alcimus, yr hwn a fu yn achos o fawr flinder i Isrāel. Yr oedd wedi gwneuthur amryw gyfnewidiadau, a dwyn llawer o lygriadau i mewn, er mwyn gwneuthur crefydd yr Iuddewon yn fwy tebyg i arferion y cenedloedd. Yr oedd gwàl isel a elwid Chel, er amser y prophwydi Haggai a Zechariah, yn gwahanu rhwng y rhan gyssegredig o fynydd y deml a'r ddigyssegredig, dros ba un nid oedd neb dienwaededig i fyned. Gorchymynodd Alcimus dynu y wàl hon i lawr; ond tra gwnaed hyny, tarawyd ef â llaw Duw â'r parlys, a bu farw yn ddisymmwth. 1 *Macc.* 9. 54—56. *Lightfoot of the Temple, Chap.* 17.

Pan welodd Bacchides fod Alcimus wedi marw, er mwyn pa un y daethai i Judea, dychwelodd i Antiochia, a chafodd yr Iuddewon lonyddwch oddiwrth y Syriaid dros ddwy flynedd. Yr achos, fel y bernir, oedd fod Demetrius wedi derbyn llythyr y Rhufeiniaid, y rhai yr oedd arno ofn eu digio, rhag na chai eu caniatâd i deyrnasu ar Syria. Yr oedd y llythyr hwn, yn nhrefn rhagluniaeth, yn achos o waredigaeth fawr i Israel, ac yn ateb yr un diben a'r buddugoliaethau mwyaf a ennillasai Judas.

Yn y flwyddyn 158 cyn geni Crist, y 23ain i Ptolemy Philometor, y 5ed i Demetrius Soter, a'r 3edd i Jonathan, ar ol dwyn materion yr Iuddewon i ryw radd o drefn, cynhyrfwyd cenfigen y blaid elynol, fel y danfonasant i Antiochia, ac y cawsant gan y brenin ddanfon byddin

liosog i Judea, dan lywodraeth Bacchides; yr hwn, er mwyn terfynu y rhyfel mewn byr amser, a ysgrifenodd at ei bleidwyr yn Judea, i ddal Jonathan a'i gyfeillion i gyd mewn un noswaith. Ond bu Jonathan ym mlaen llaw â'r cydfwriadwyr, gan ddal a lladd deg a deugain o honynt, fel y diddymwyd eu bwriad; a chan sefyll ar ei amddiffynfa, gyd â'i frawd Simon, â lluoedd bychain, parodd gymmaint o aflonyddwch i Bacchides fel y blinodd ar y rhyfel, ac y digiodd i'r fath radd wrth yr awdwyr o hono fel y lladdodd amryw o honynt; ac, wedi heddychu â Jonathan, ymadawodd o'r wlad, ac a dyngodd na ddrygai yr Iuddewon mwyach tra byddai byw; a bu cystal a'i air. Ar ol hyn, trigodd Jonathan yn Micmas, dinas o lwyth Benjamin, o fewn naw milltir i Jerusalem; a chan ddiwreiddio y gwrthgilwyr o'r wlad, diwygiodd pob peth yn ol y gyfraith. 1 *Macc.* 9. 58—73.

PENNOD XXXII.

Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid yn yr Aipht a Syria.

Yn y flwyddyn 154 cyn geni Crist, y 27ain i Ptolemy Philometor, y 9fed i Demetrius Soter, a'r 7fed i Jonathan, Demetrius brenin Syria, wedi adeiladu castell gerllaw Antiochia, a'i gadarnhau â phedwar o dyrau, a gauodd ei hun ynddo, ac a ymroddodd yn hollol i syrthni a meddwdod. Esgeulusodd orchwylion ei deyrnas, ac ni wrandawai ar un achos a ddygid ato, fel y syrthiodd y llywodraeth i fawr annhrefn, yr hyn a barodd i'w ddeiliaid gydfwriadu i'w ddiorseddu. Ac er iddo gael hysbysrwydd o'r cydfwriad, nid allodd ei attal; canys trwy ystryw un Heraclides, a fuasai yn un o gyfeillion cyfrinachol Antiochus Epiphanes, ac yn drysorydd iddo yn nhalaeth Babilon, cafwyd gwr ieuangc o waedoliaeth isel yn ynys Rhodes, o'r enw Balas, yr hwn a drwsiwyd i fynu ac a ddysgwyd gan Heraclides i hòni ei hun yn fab i Antiochus Epiphanes, ac o ganlyniad yn etifedd i goron Syria. Ac wedi cael gan freninoedd yr Aipht, Pergamus a Cappadocia, i gydnabod ei hawl, dygwyd ef i Rufain, ynghyd â Laodice, yr hon oedd wir ferch i Antiochus Epiphanes, er mwyn rhoi gwell lliw ar y twyll. Er fod Senedd Rhufain yn gweled mai twyllwr oedd Balas, etto cymmaint oedd eu gelyniaeth yn erbyn Demetrius, hwy a gadarnhasant ei hawl i freniniaeth Syria, ac a ganiatasant iddo gasglu byddin i'w amddiffyn. Gan hyny, hwyliodd Balas gyd â'r milwyr a godasai; ac, wedi cymmeryd meddiant o Ptolemais yn Palestina, a gymmerodd arno yr enw Alexander, gan hòni ei hun yn fab Antiochus Epiphanes; a llaweroedd, o'u casineb i Demetrius, a heidiasant ato.

Dygodd hyn Demetrius allan o'i gastell i gasglu ei luoedd: a chan fod y ddwy blaid yn barnu fod cynnorthwy Jonathan o fawr bwys,

ceisiodd y ddau frenin ei gael o'u hochr. Yn gyntaf ysgrifenodd Demetrius lythyr ato, trwy ba un y gosodwyd ef yn flaenor ar ei fyddin yn Judea, ac y gorchymynwyd rhoddi i fynu iddo ef y gwystlon oedd yn y castell yn Jerusalem, y rhai a roddwyd yno er mwyn sicrhau ffyddlondeb eu tadau a'u cyfeillion i Demetrius. Gan hyny, wedi i'r gwarchawdlu ag oedd yn y castell gael sicrwydd am orchymyn y brenin, rhoddwyd i fynu y gwystlon oedd yn y castell i Jonathan. Trwy hyn ychwanegwyd cadernid Jonathan yn ddirfawr, fel y syrthiodd yr amddiffynfëydd trwy yr holl wlad i'w feddiant, ond Bethsura, a'r castell yn Jerusalem, ym mha un nid oedd nemawr ond Iuddewon gwrthgiliedig; y rhai, gan nad oeddynt yn gobeithio am drugaredd, a farnasant nad oedd dim well na sefyll ar eu hamddiffynfa hyd yr eithaf. Jonathan a sefydlodd yn Jerusalem, gan ei chadarnhau o bob ochr, ac a ail gododd y muriau oddi amgylch mynydd y deml a fwriwyd i lawr gan Antiochus Eupator.

Pan glybu Alexander Balas am yr hyn a wnaethai Demetrius tu ag at ennill Jonathan o'i blaid, yntau hefyd a ddanfonodd ei gynnygion ato, trwy ba rai y caniatâodd iddo fod yn arch-offeiriad yr Iuddewon, a chael ei alw yn gyfaill i'r brenin; a danfonodd iddo goron o aur, a gwisg o borphor, yr hon nid oedd gyfreithlon i neb wisgo ond tywysogion a phendefigion o'r gradd uchaf. Yr hyn, pan glybu Demetrius, danfonodd yr ail waith at Jonathan i gynnyg rhoddion a rhagorfeintiau tra rhagorol iddo, os deuai i'w gynnorthwyo. Ond wrth adgoffa pa fath elyn creulon a fuasai Demetrius i'r Iuddewon, a pha faint o ddrygau a wnaethai iddynt, ac nad oedd sail ddigonol i hyderu ar ei addewidion, penderfynwyd gwneuthur cynghrair âg Alexander.

Yn y flwyddyn 153 cyn geni Crist, yr 28ain i Ptolemy Philometor, a'r 10fed i Demetrius Soter, cymmerodd Jonathan yr arch-offeriadaeth, trwy ganiatâd Alexander Balas, ac a ddechreuodd weini yn ei swydd ar ŵyl y pebyll, yn yr wythfed flwyddyn o'i dywysogaeth, ar ol bod y swydd yn wag saith mlynedd, er marwolaeth Alcimus. O hyny allan bu yr arch-offeiriadaeth, ynghyd â'r llywodraeth wladol, yn nheulu yr Asmoneaid tros amryw genedlaethau, hyd amser Herod. Yr oedd y swydd arch-offeiriadol wedi bod yn nheulu Josadac er y dychweliad o gaethiwed Babilon, hyd Onias y trydydd o'r enw; yr hwn, fel y dywedwyd, a ddisodlwyd gan Jason ei frawd, megys yntau gan Menelaus, un arall o'i frodyr. Alcimus wedi hyny a gymmerodd y swydd trwy orchymyn brenin Syria. Y mae Josephus (*Antiq. l.* 15. *c.* 3.) yn dywedyd nad oedd Jonathan o'r teulu arch-offeiriadol; ac wrth hyn y mae yn amcanu dywedyd nad oedd o deulu Josadac, er ei fod o deulu Aaron, gan ei fod o ddyddgylch Jehoiarib, yr hwn oedd y cyntaf o'r 24 dosparth o feibion Aaron. 1 *Cron.* 24. 7. 1 *Macc.* 2. 1. Yr oedd Onias, mab Onias y trydydd, wedi ffoi i'r Aipht, lle yr adeiladodd deml yn ol cyn-

llun y deml yn Jeruslem, am ba un y cawn sôn ym mlaen; gan hyny, i deulu yr Asmoneaid, y mae yn debygol, yr oedd yr hawl gyfreithlon yn perthyn o weini yn y swydd arch-offeiriadol, yr hon a gymmerodd Jonathan y pryd hyn trwy ganiatâd Alexander, a chydsyniad cyffredinol y genedl Iuddewig.

Yn y flwyddyn ganlynol, ymladdwyd y frwydr gyntaf rhwng y ddau frenin ag oedd yn ymryson am goron Syria; a Demetrius a ennillodd y fuddugoliaeth: ond ni chafodd ddim llesâd oddi wrthi. Canys yn fuan yr adgyweiriwyd colled Alexander trwy gynnorthwy y breninoedd ag oedd o'i blaid, ynghyd â Jonathan a'r Rhufeiniaid. A phlaid Demetrius a wanhawyd trwy fynych enciliadau oddi wrtho. Gan hyny, rhag ofn y gwaethaf, danfonodd ei ddau fab, Demetrius ac Antiochus, i Cnidus, megys i le o ddiogelwch.

Yn y flwyddyn 150 cyn geni Crist, yr 31ain i Ptolemy Philometor, y 1af i Alexander Balas, a'r 11eg i Jonathan, ymladdwyd brwydr benderfynol rhwng Demetrius ac Alexander, ym mha un yr ennillodd Alexander y fuddugoliaeth, a Demetrius a laddwyd. Gan hyny cafodd Alexander feddiant o deyrnas Syria, lle teyrnasodd bum mlynedd. Ar ol ei ddyrchafiad i'r freniniaeth, priododd Cleopatra, merch Ptolemy Philometor, yr hon a ddygwyd iddo gan ei thad i Ptolemais. Gwahoddwyd Jonathan i'r briodas; a gwnawd ef yn dywysog ar holl luoedd Alexander, a rhoddwyd iddo sefyllfa anrhydeddus yn ei lŷs.

PENNOD XXXIII.

Am Deml Onias yn yr Aipht.

Yn y flwyddyn 149 cyn geni Crist, y 32ain i Ptolemy Philometor, yr 2fed i Alexander Balas, a'r 12fed i Jonathan, adeiladwyd teml yn yr Aipht, yn nhalaeth Heliopolis, o fewn 24 milltir i Memphis, gan Onias, mab Onias a laddwyd gan Andronicus yn Daphne. Pan gafodd yr Onias hwn ei siomi yn ei ddisgwyliad o gael yr arch-offeiriadaeth ar ol marwolaeth Menelaus, ar ddyrchafiad Alcimus i'r swydd, ffôdd at Ptolemy Philometor i'r Aipht, yr hwn a'i dyrchafodd i'r lleoedd mwyaf anrhydeddus yn ei lŷs a'i fyddinoedd; canys heblaw ei fod yn filwr glew, yr oedd hefyd yn fedrus i drin gorchwylion y deyrnas. A than ei oruchwyliaeth ef, ac Iuddew arall o'r enw Dositheus, y bu teyrnas yr Aipht y rhan olaf o deyrnasiad Philometor; trwy ganiatâd pa un yr adeiladodd efe y deml hon yn ol cynllun y deml yn Jerusalem; a rhoddwyd iddo ef a'i hiliogaeth y fraint o weini fel arch-offeiriaid ynddi. Tueddwyd y brenin i ganiatâu hyn trwy waith Onias yn hòni y byddai y cyfryw deml yn gadernid i'w deyrnas, trwy rwystro yr Iuddewon ag oedd yn yr Aipht i fyned i Jerusalem i addoli, ac annog llawer o honynt i ymadael â Judea, a manau ereill, a sefydlu yn yr Aipht. Ond cafodd fwy o

anhawsder i foddloni meddyliau yr Iuddewon, y rhai oedd yn barnu yn gywir, nad oedd yn gyfreithlon i aberthu ond ar yr allor yn Jerusalem. I lonyddu eu meddyliau ar y pen hwn, dangosodd Onias iddynt brophwydoliaeth Esaiah, *pen.* 19. 18, 19. 'Y dydd hwnw y bydd pum dinas yn nhir yr Aipht yn llefaru iaith Canaan, ac yn tyngu i Arglwydd y lluoedd: dinas distryw y gelwir un. Y dydd hwnw y bydd allor i'r Arglwydd yn nghanol tir yr Aipht, a cholofn i'r Arglwydd gerllaw ei therfyn hi.' Ac er fod y brophwydoliaeth hon yn golygu amseroedd yr efengyl, etto llwyddodd i'w twyllo, trwy beri iddynt gredu mai yn yr amser hwnw y byddai cyflawniad iddi, trwy ei waith ef yn adeiladu y deml hòno. Ac i wneuthur ei dwyll yn debycach i wir, trwy newid un llythyren yn y gair *Heb.* הרס *distryw*, efe a'i gwnaeth yn חרס *yr haul.* Trwy hyny yr oedd yn ymddangos yn fwy tebygol fod cyflawniad i'r brophwydoliaeth yn y dyddiau hyny, gan fod Heliopolis, yn yr iaith Roeg, yn arwyddocâu *dinas yr haul,* gerllaw pa un yr adeiladwyd teml Onias. Er mwyn cefnogi y twyll hwn, ac i amddiffyn y deml sismatic-aidd hon, dygwyd llygriad mwy yn *adn.* 19. i gopïau y LXX, y rhai sydd yn cyfieithu πολις Ασεδεκ κληθησεται μια πολις, hyny yw, *dinas cyfiawnder y gelwir un ddinas,* yn lle *dinas distryw.* Yr hyn (medd *Prideaux, pt.* 2. *p.* 266.) sydd yn profi mai gan yr Iuddewon Aiphtaidd ag oedd yn addoli yn nheml Onias y gwnawd Cyfieithiad y LXX.

Heblaw y deml hon, adeiladodd Onias ddinas oddi amgylch iddi, dan yr enw Onion. Dinystriwyd y ddwy trwy orchymyn Vespasian yr Ymerawdwr Rhufeinig, ym mhen 224 blynedd ar ol eu hadeiladu.

PENNOD XXXIV.

Terfysg rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid.

Ynghylch y pryd hyn y bu terfysg mawr rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid yn Alexandria, ynghylch y ddadl ag oedd rhyngddynt pa un ai yn Jerusalem ai yn mynydd Gerizim yr oedd y lle i addoli. Cynnyddodd y cythrwfl i'r fath radd fel y bu i'r ddwy blaid godi arfau y naill yn erbyn y llall. I benderfynu yr ymrafael, pennodwyd diwrnod gan y brenin Ptolemy a'i gynghor, i bob un o'r pleidiau ddanfon eu hamddiffynwyr i ddadleu dros eu pwngc. Ond dadleuwyr y Samariaid, o ddiffyg profiadau a rhesymau digonol o blaid eu teml, a roddwyd i farwolaeth megys gwneuthurwyr y terfysg.

PENNOD XXXV.

Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid yn Syria.

Yn y flwyddyn 148 cyn geni Crist, y 33ain i Ptolemy Philometor, y 3edd i Alexander Balas, a'r 13eg i Jonathan—Alexander, wedi cael

meddiant, fel y dywedwyd, o goron Syria, a ymroddodd i foethau, syrthni, a phuteindra, gan ymddiried llywodraeth y deyrnas i un Ammonius, yr hwn a ymddygodd gyda llawer o orthrymder a chreulondeb. Rhoddodd Laodice, chwaer Demetrius Soter (yr hon a fuasai yn wraig i Perseus brenin Macedon) i farwolaeth, ynghyd âg Antigonus, mab i Demetrius, yr hwn a adawyd ar ol pan ddanfonwyd ei frodyr i Cnidus, fel y soniwyd; a hyny a wnaeth i'r diben i gadarnhau gorsedd ei arglwydd; ond ni thyciodd iddo, fel y dangosir ym mlaen. Canys trwy ei drais a'i greulondeb, gwnaeth yr holl ddeiliaid yn elynion iddo ef ac Alexander. Pan hysbyswyd hyn i Demetrius, mab i Demetrius Soter, yr hwn oedd yr hynaf o'r ddau frawd a ddanfonwyd i Cnidus, casglodd fyddin i ymladd am orsedd ei hynafiaid. Dygodd hyn Alexander allan o blith ei ordderchadon, i geisio amddiffyn ei hun; wedi rhoddi llywodraeth Antiochia i Hierax a Diodotus, yr hwn hefyd a elwir Tryphon, arweiniodd ei luoedd i'r maes; a phan glybu fod Apolonius, ei raglaw yn Cœle-Syria a Phœnicia, wedi ochri gyda Demetrius, danfonodd am ei dad yn nghyfraith, Ptolemy Philometor, i'w gynnorthwyo.

PENNOD XXXVI.

Dilyniad o Hanesyddiaeth y Groegiaid yn yr Aipht a Syria.

Yn y flwyddyn 145 cyn geni Crist, y 1af i Ptolemy Physcon yn yr Aipht, y 1af i Demetrius Nicator, a'r 16eg i Jonathan, ar ol marw Philometor, cytunwyd i Physcon, brenin Cyrene, briodi Cleopatra, gwraig weddw ei frawd, a theyrnasu ar yr Aipht, ac iddo ddwyn i fynu fab Philometor i deyrnasu ar ei ol. Cymmerodd arno y cyfenw Euergetes, hyny yw, *gweithredwr da;* ond yr Alexandriaid a'u troisant yn Cacergetes, hyny yw, *gweithredwr drwg;* canys efe oedd y gwaethaf, y creulonaf, a'r mwyaf dirmygedig o'r holl Ptolemeaid a deyrnasasant yn yr Aipht. Ond galwyd ef yn gyffredin wrth y llysenw Physcon, hyny yw, *y boliog,* o herwydd ei fol mawr. Lladdodd ei nai, ym mreichiau ei fam Cleopatra, ar ddydd ei briodas, ac a aeth rhagddo mewn cyffelyb greulondeb, gan ladd rhai am feiau bychain, ereill heb ddim bai, fel y gallai gael eu heiddo, ac ereill o herwydd ammheuon disail; a llawer o'r rhai a'i galwasant i'r goron oedd y rhai cyntaf a ddienyddiwyd ganddo.

Ac nid oedd pethau fawr well yn nheyrnas Syria. Gan fod Demetrius yn ieuangc ac anghyfarwydd, ymddiredodd lywodraeth y deyrnas i Lasthenes, a fuasai yn gynnorthwyol, trwy y milwyr llôg a godasai yn Creta, i ennill coron Syria iddo. Ond trwy annoethineb a drwg-lywodraeth hwn, collodd Demetrius serchiadau y rhai a fuasent yn ei gynnorthwyo pe buasai heb roddi achos i'w dieithrio oddi wrtho.

Yn y cyfamser, gan fod pob peth yn llonydd yn Judea, rhoddodd

Jonathan warchae ar y castell yn Jerusalem. Ac er i achwyniadau gael eu danfon at Demetrius yn erbyn Jonathan am hyn, etto pan aeth at y brenin i Ptolemais, efe a lwyddodd trwy ei anrhegion haelionus a'i ymddygiad doeth, i ddistewi ei gyhuddwyr, ac i sicrhau ei hun yn ei ewyllys da. Am dri chant o dalentau, rhyddhaodd Jonathan yr holl wlad dan ei lywodraeth oddiwrth bob math o doll a theyrnged, ac a gafodd gan y brenin dair gwladwriaeth yn ychwaneg, a fuasai yn perthyn i Samaria. Pan ddychwelodd Demetrius i Antiochia, aeth ym mlaen yn ei greulondeb a'i ynfydrwydd, nes dieithro ei ddeiliaid oddi wrtho, a'u gwneuthur yn addfed i wrthryfel.

Meddyliodd Diodotus, yr hwn, wedi hyny, a alwyd dan yr enw Tryphon, ac a fuasai yn llywodraethwr ar Antiochia dan Alexander Balas, fod amgylchiadau yn addfed i wneuthur cais i roi coron Syria ar ei ben ei hun. Gan hyny, aeth i Arabia, at Zabdiel, i geisio Antiochus mab Alexander, i'w osod i fynu yn erbyn Demetrius, ac i hòni ei hawl ef i'r freniniaeth, gyda bwriad o'i ladd, a theyrnasu ei hun yn ei le. Ond ni bu Zabdiel foddlawn, ar y cyntaf, i'w roddi i fynu.

Yn y cyfamser, yr oedd Jonathan yn myned ym mlaen â'r gwarchae yn erbyn y castell yn Jerusalem: ond gan nad oedd yn gallu mènu arno, danfonodd genadwri at Demetrius i ddeisyf arno i alw adref y gwarchawdlu. Gan fod Demetrius, y pryd hyn, yn gyfyng arno, o herwydd gwrthryfel yr Antiochiaid, addawodd wneuthur hyny, a llawer mwy, os anfonai Jonathan gynnorthwyon iddo yn erbyn ei ddeiliaid gwrthryfelgar. Gan hyny, danfonodd Jonathan iddo, yn ddioed, dair mil o wyr; y rhai, trwy orchymyn y brenin, a losgasant ran fawr o Antiochia, ac a laddasant ynghylch can mil o'r trigolion. Ar hyn, ymostyngodd y lleill; a'r Iuddewon a ddychwelasant, gyd âg yspail fawr, i'w gwlad.

Ond Demetrius, wedi ei ryddhau oddiwrth y perygl presennol, ni chadwodd un o'r ammodau a wnaethai â Jonathan, yr hyn a ddieithrodd yr Iuddewon oddi wrtho, fel pawb ereill.

Yn y flwyddyn 144 cyn geni Crist, yr 2fed i Physcon a Demetrius, a'r 17eg i Jonathan—Tryphon, wedi llwyddo, naill ai trwy addewidion neu wobrau, i gael gan Zabdiel i roddi Antiochus, mab Alexander Balas, yn ei ddwylaw, dygodd ef i Syria, ac a hònodd ei hawl i'r goron. Ar hyn, dylifodd ato luoedd mawrion o'r cyfryw a wnaethai Demetrius yn elynion, ynghyd â'r hen filwyr a ollyngasai ymaith; y rhai, wedi ennill buddugoliaeth fawr arno, a chymmeryd Antiochia, a osodasant Antiochus ar orsedd breninoedd Syria, gan roddi arno y cyfenw Theos, hyny yw, *dwyfol.*

Ochrodd Jonathan gyd â'r brenin newydd, yr hwn a bentyrodd lawer o wobrau, urddas, a rhagorfreintiau arno. A Simon ei frawd a wnawd yn ben-tywysog lluoedd y brenin, o ysgol Tyrus (mynydd a elwid felly) i derfynau yr Aipht, ar yr ammod iddo ef a'i frawd amddiffyn ei hawl

i'r freniniaeth. I ddial ar yr Iuddewon am newid eu hochr, rhuthrodd byddin Demetrius i Galilea; yr hon a orchfygwyd gan Jonathan; a Simon a ennillodd Bethsura, ym mha un yr oedd gan Demetrius warchawdlu ag oedd yn peri blinder mawr i'r holl wlad oddi amgylch. Pan ddychwelasant i Jerusalem, adeiladasant wàl oddi amgylch y castell, lle yr oedd gwarchawdlu brenin Syria, fel na chaent ddim ymborth neu angenrheidiau; yr hyn a barodd iddynt, yn y diwedd, i roddi y lle i fynu. Ychydig wedi hyny y cymmerwyd Jonathan yn garcharor, gan Tryphon, yn Ptolemais, trwy ddichell; ac wedi bod mewn dalfa tros ryw yspaid o amser, rhoddwyd ef i farwolaeth yn ngwlad Gilead. Parodd Tryphon hefyd ladd Antiochus mab Balas, gan roddi allan ei fod wedi marw o'r gareg; a chyhoeddodd ei hun yn frenin Syria yn ei le. Bu galar mawr ar ol Jonathan: a Simon ei frawd a gymmerodd y llywodraeth wladol a'r arch-offeiriadaeth yn ei le.

Yn y flwyddyn 143 cyn geni Crist, y 3edd i Ptolemy Physcon, y 3edd i Demetrius Nicator, a'r 1af i Simon—ar ol i'r Rhufeiniaid nacâu cadarnhau hawl Tryphon i goron Syria, er iddo eu hanrhegu â delw aur o fuddugoliaeth, gan beri ysgrifenu enw y brenin a laddasai ar yr anrheg, ymladdwyd brwydr rhwng byddinoedd Demetrius a Tryphon, gerllaw Ptolemais, ym mha un y gorchfygwyd byddin Demetrius, dan arweiniad Sarpedon. Ond milwyr Tryphon, wedi dychwelyd o erlid ar ol eu gelynion i ymyl y môr wrth Ptolemais, â orchuddiwyd â llanw disymmwth; yr hwn, wedi treio mor gyflym ag y daeth, a adawodd y cyrph meirw ar y traeth, a llawer o bysgod yn gymmysgedig â hwynt. Ar hyn, dychwelodd gwyr Sarpedon, ac a gasglasant y pysgod; ac megys arwydd o'u diolchgarwch a offrymasant ebyrth i Neptune, duw y môr, gan eu bod heb adnabod y gwir awdwr o'r wyrth. *Prideaux, quoting Strabo and Athenæus, Anno.* 143.

Gan fod yr Iuddewon wedi cael digon o achos i ddigio wrth Tryphon a'i blaid, gwnaethant gynghrair â Demetrius, gan ei anrhegu â choron o aur. Yntau a sefydlodd y dywysogaeth wladol a'r arch-offeiriadaeth ar Simon, ac a ryddhaodd y wlad oddiwrth bob math o doll a theyrnged. O'r pryd hyn y dechreuwyd cyfrif ym mhob cytundeb neu weithred, yn ol blynyddoedd llywodraeth Simon.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef 142 cyn geni Crist, gorfu i'r gwarchawdlu yn y castell yn Jerusalem roddi y lle i fynu o ddiffyg ymborth. Yr oedd wedi bod yn ddraen blin yn ystlysau yr Iuddewon er ys 26 blynedd, er pan roddasai Antiochus Epiphanes fil o wyr ynddo. A rhag iddo beri blinder mwyach, nid ymfoddlonasant yn unig ar fwrw y castell i lawr, ond gwastadhasant y mynydd ar ba un y safasai.

Yn y flwyddyn 141 cyn geni Crist, y 5ed i Ptolemy Physcon, y 5ed i Demetrius Nicator, a'r 3edd i Simon, aeth Demetrius i'r dwyrain, ar fedr adferu y taleithiau rhwng yr afonydd Euphrates ac Indus drachefn

dan ei lywodraeth, y rhai oedd wedi eu goresgyn gan y Parthiaid. Gadawodd y rhan fwyaf o Syria ym meddiant Tryphon; yr hwn, yr oedd yn barnu, a fyddai hawdd iddo orchfygu ar ol dychwelyd yn fuddugoliaethus o'r dwyrain. Ond er iddo yn y dechreu ennill llawer o fuddugoliaethau oddiar y Parthiaid, yn y diwedd cymmerwyd ef yn garcharor, a'i holl fyddin a ddifethwyd. Mithridates oedd brenin Parthia y pryd hyn, sef y 4edd o Arsaces, yr hwn a sylfaenodd deyrnas y Parthiaid, yn y flwyddyn 250 cyn geni Crist, yn amser Antiochus Fawr. Ar ol gorchfygu Demetrius, yr afon Ganges yn y dwyrain, a'r Euphrates tu a'r gorllewin, oedd terfynau ymerodraeth y Parthiaid. Ymddygodd Mithridates yn foneddigaidd tu ag at Demetrius yn ei gaethiwed. Rhoddodd Rhodaguna, un o'i ferched, yn wraig iddo, ac a'i danfonodd i Hyrcania, gan roddi modd iddo fyw fel brenin.

Pan glywodd Cleopatra, gwraig Demetrius, ei fod wedi priodi Rhodaguna, ysgarodd ei hun oddi wrtho, ac a anfonodd i gynnyg ei hun a choron Syria i'w frawd Antiochus, a gyfenwid Sidetes, hyny yw, *yr helinr*. Derbyniodd y cynnyg; ac wedi lanio yn Syria, a gorchfygu Tryphon (yr hwn a ddaliwyd, ac a laddwyd) efe a deyrnasodd naw mlynedd yn Syria. Bu yn elyn i'r Iuddewon, ac amcanodd eu darostwng dan ei lywodraeth. Yn y flwyddyn cyn geni Crist 135, lladdwyd Simon a dau o'i feibion, gerllaw Jericho, gan Ptolemy mab Abubus, ag oedd wedi priodi un o'i ferched. Yr oedd yr adyn bradychus hwn wedi gwneuthur cynghrair dirgel âg Antiochus Sidetes, ac wedi cael addewid o fod yn llywodraethwr yn Judea. Yr oedd Ptolemy wedi gwahodd ei dad a'i frodyr yn ngyfraith i wledd, ac ar ol idddynt yfed yn dda, parodd eu lladd, ynghyd â'u canlynwyr; ac a ddanfonodd filwyr i ladd Ioan a gyfenwid Hyrcanus, un arall o feibion Simon; yr hwn, wedi clywed am alanas ei dad a'i frodyr, a syrthiedd arnynt, ac a'u lladdodd hwynt oll. Wedi hyny prysurodd Ioan i sicrhau Jerusalem a mynydd y deml yn erbyn ymgais Ptolemy, ac a wnawd yn arch-offeiriad ac yn dywysog gwladol yn lle ei dad.

Yn fuan wedi hyny, daeth Antiochus Sidetes, ac a warchaeodd ar Jerusalem, ac a gyfyngodd arni mor drwm fel na bu fawr rhyngddo a'i darostwng trwy newyn. Gan fod gŵyl y pebyll yn agosâu, danfonodd Hyrcanus at y brenin i ofyn seibiant oddiwrth ryfel tra parhai yr ŵyl, yr hyn a ganiatâodd yn rhwydd; ac nid yn unig hyny, ond anfonodd anifeiliaid a phethau angenrheidiol i'r aberthau. Wrth weled hynawsedd y brenin, danfonodd Hyrcanns ato i ddeisyf heddwch, yr hyn a ganiatâwyd iddo ar ammodau. Tynwyd caerau Jerusalem i lawr, ac ymrwymodd Hyrcanus i dalu 500 o dalentau (fel na adferid yr amddiffynfa lle yr oedd y gwarchawdlu ar gyfer y deml) a theyrnged am Joppa, a dinasoedd ereill ag oedd gan yr Iuddewon allan o Judea. Yn y 9fed mis ar ol marw Simon y bu hyn, pan oedd y ddinas wedi dyfod

i gyfyngder mawr o eisiau ymborth. A chan fod hyn yn hysbys yn ngwersyll y brenin, yr oedd amryw yn ei annog i gymmeryd y cyfleusdra hwn i ddifetha yr holl genedl—'cenedl,' meddent, 'a yrwyd allan o'r Aipht, am eu bod yn ffiaidd yn ngolwg Duw a dynion—cenedl sydd yn cyfrif holl ddynolryw, heblaw eu hunain, yn elynion—heb fwyta nac yfed, na chymdeithasu ond â'u plaid eu hunain—heb addoli yr un duwiau, ond dilyn arferion a chrefydd wahanol oddiwrth bob cenedl arall: ac am hyny y dylent gael eu tori ymaith yn llwyr, fel gelynion cyhoeddus yr holl fyd.' Y mae *Diodorus Siculus* a *Josephus (Antiq. l.* 13. *c.* 16.) yn dywedyd mai o drugaredd a hynawsedd Antiochus y bu na ddifethwyd y genedl Iuddewig y pryd hyn. Ond diammau yr Arglwydd, yr hwn y mae calonau breninoedd yn ei law, a weithiodd y tynerwch hwn ynddo. *Prideaux's Ann.* 135.

Yn y flwyddyn 131 cyn geni Orist, y 15fed i Ptolemy Physcon, a'r 5ed i Ioan Hyrcanus, gwnaeth Antiochus Sidetes gyrch yn erbyn y Parthiaid, dan esgus o ryddhau ei frawd Demetrius o gaethiwed. Yr oedd Hyrcanus gyd âg ef, ac wedi cael rhan yn y buddugoliaethau a ennillasai, a dychwelodd adref gyd â'i filwyr yn orfoleddus yn niwedd y flwyddyn: ac Antiochus a wasgarodd ei fyddin ar hyd y wlad yn eu gauaf-leoedd, yr hon a orthrymodd y trigolion i'r fath radd, fel y cydfwriadasant i'w difetha i gyd yn yr un diwrnod. Lladdwyd Antiochus a'r holl lïaws a ddygasai o Syria, yn agos i bedwar can mil, rhwng milwyr, gweision, cogau, cerddorion, a phuteiniaid, fel na ddiangodd prin un yn ol. Yr oedd Phraates brenin Parthia, ar ol cael ei orchfygu gan Antiochus mewn tair brwydr, wedi rhyddhau Demetrius Nicator, a'i anfon i Syria i honi ei hawl i'r freniniaeth, gan ddisgwyl y buasai hyny yn galw Antiochus yn ol i'w wlad. Ond ar ol difetha Antiochus a'i fyddin tu hwnt i'w ddisgwyliad, danfonodd Phraates fintai o wyr meirch ar ol Demetrius, i'w ddwyn yn ol i gaethiwed: ond gan fod y bwriad yn hysbys iddo, gwnaeth Demetrius y fath frys fel nad allent ei oddiweddyd cyn iddo fyned dros yr Euphrates i derfynau Syria, lle y teyrnasodd yr ail waith dros bum mlynedd.

Trwy y terfysgiadau a gododd yn nheyrnas Syria ar ol marwolaeth Antiochus Sidetes, achubodd Hyrcanus y cyfleusdra o helaethu ei derfynau; ac ar ol hyn ni bu efe nac un o'i ddilynwyr yn ddarostyngedig i un o freninoedd Syria na'r Aipht, wedi bod y wlad dan orthrymder tost oddiwrth y naill neu y llall o honynt dros wyth ugain mlynedd. Ar ol hyn syrthiodd teyrnas Syria i fawr annhrefn, ac ymraniad a barhaodd dros oddeutu 32ain o flynyddoedd, hyd oni flinodd y deiliaid ar y rhyfeloedd dinystriol a darddasant oddiwrth hyny, a daethant i benderfyniad o ymwrthod yn llwyr â hiliogaeth y Seleucus cyntaf, a dewis Tigranes, brenin Armenia, yn frenin; yr hwn a deyrnasodd arnynt trwy

raglawiaid 18 mlynedd, hyd oni wnaed Syria yn dalaeth o'r ymerodraeth Rufeinig gan Pompey.

Yn y flwyddyn 117 cyn geni Crist, bu farw Physcon; a'i fab, Ptolemy Lathyrus, a deyrnasodd yn ei le yn yr Aipht.

Treuliodd Ioan Hyrcanus y rhan olaf o'i fywyd mewn heddwch a mawr lwyddiant. Ond cafodd ei anfoddloni gan rai o flaenoriaid y Phariseaid, yr hyn a barodd iddo gilio at blaid y Saduceaid; yr hyn oedd arwydd ddrwg o ran ei grefydd. Bu farw yn y flwyddyn 107 cyn geni Crist, a'r 29ain o'i lywodraeth.

PENNOD XXXVII.

Am y Pleidiau Crefyddol ym mhlith yr Iuddewon.

Wedi crybwyll am y Phariseaid a'r Saduceaid yn y rhan olaf o hanes Ioan Hyrcanus, rhoddir yn y bennod hon ychydig hanes am danynt, a'r pleidiau crefyddol ereill ag oedd yn ngwlad Canaan yn amser Crist. Y pleidiau hyn oedd bump:—1. Y Samariaid. 2. Y Phariseaid. 3. Y Saduceaid. 4. Yr Esseniaid. 5. Yr Herodianiaid.

1. Nid oedd y Samariaid ar y cyntaf ond Paganiaid yn addoli amryw dduwiau (2 *Bren.* 17. 29, 30, 31.) ac wedi hyny yn addoli Duw Israel mewn dull llygredig, ynghyd â'u gau-dduwiau; ac felly y parhausant hyd amser Manasseh, dâw Sanbalat yr Horoniad; yr hwn, wedi ei ymlid ymaith gan Nehemiah (*pen.* 13. 28.) a aeth gyd âg Iuddewon gwrthgiliedig ereill at y Samariaid: ac wedi adeiladu teml ar fynydd Gerizim, a ddysgodd iddynt roi heibio eu heilun-addoliaeth, ac i addoli yn ol cyfraith Moses, llyfrau pa un, o'r holl ysgrythyrau, yr oeddynt yn eu derbyn. O'r diwygiad hwn, o'r fath ydoedd, gellir cyfrif y Samariaid yn blaid grefyddol o fewn terfynau gwlad Canaan.

2. Y blaid liosocaf o'r Iuddewon oedd y Phariseaid. Y mae ei henw yn tarddu oddiwrth y gair Caldaeg פרס hyny yw, *i ddidoli;* canys yr oeddynt yn proffesu eu bod yn ddidoledig oddiwrth bechodau a phechaduriaid. Heblaw holl ysgrythyrau yr Hen Destament, yr oeddynt yn derbyn traddodiadau yr henuriaid, ac yn credu yr adgyfodiad, a bod angel ac yspryd. Yn ol *Josephus (Bell. Jud. l.* 2. *c.* 12.) nid oedd yr adgyfodiad, yn ol barn rhai o honynt, ond math o adgyfodiad Pythagoreaidd, sef trosglwyddiad eneidiau y meirw i gyrph ereill, i gael eu geni gyda hwynt. Oddiwrth yr adgyfodiad hwn yr oeddynt yn cau pawb allan ag oedd hynod am eu drygioni; eneidiau pa rai a drosglwyddid, yn ol eu tyb bwy, yn union ar eu hymadawiad o'r corph, i ddioddef cospedigaeth dragywyddol. Ond am feiau bychain, tybiasant fod yr eneidiau yn cael eu cospi yn y cyrph a gymmerent nesaf. Yn unol â hyn, tybygid, y gofynodd y disgyblion mewn perthynas i'r dyn

dall o'i enedigaeth, 'Pwy à bechodd, a'i hwn ai ei rïeni, fel y genid ef yn ddall?' *(Ioan* 9. 1.) a'r farn oedd gan yr Iuddewon am Grist, mai Ioan Fedyddiwr neu Elias ydoedd, neu un o'r prophwydi. Ond nid yw yn debygol mai hyn oedd barn yr Iuddewon yn gyffredinol, gan nad ydynt, yn eu holl lyfrau sydd mewn bod yn bresennol, yn dysgu dim amgen am yr adgyfodiad a'r farn a ganlyn, nag a gredir gan Gristionogion. Y mae yr Iuddewon, ar ol dinystr Jerusalem, gan mwyaf, o sect y Phariseaid. Cynnwysir eu traddodiadau yn y Talmud,* (gair yn arwyddocau dysgeidiaeth) gwaith hirfaith o 12 o lyfrau mawr unplyg *(folio)* yr hwn y maent yn eu parchu yn fwy nag ysgrythyrau yr Hen Destament, fel y Pabyddion ynghylch eu traddodiadau hwythau. Sonir yn fynych yn yr Efengylwyr am y cyfreithwyr a'r ysgrifenyddion, ond nid fel pleidiau gwahanol, gan eu bod, gan mwyaf, o sect y Phariseaid.

3. Y Saduceaid a gawsant eu henw, yn ol barn *Prideaux*, oddiwrth y gair *Heb.* צדקים hyny yw, *cyfiawn*, ac nid oddiwrth Sadoc, disgybl Antigonus o Soco, yn ol dychymmyg awdwyr y Talmud. Nid oedd y Saduceaid yn derbyn ond pum llyfr Moses. Yr oeddynt yn ymwrthod â thraddodiadau dynol, gan farnu fod yn ddigon o gyfiawnder i gadw llythyren y gyfraith; a thybygid eu bod ar y cyntaf yn rhagori ar eu gwrthwynebwyr y Phariseaid. Ond wedi hyny derbyniasant athrawiaethau ereill, trwy ba rai yr aethant yn sect hollol anghrefyddol. Canys gwadasant adgyfodiad y meirw, a bod angel nac un yspryd arall ond Duw, yr hwn yr oeddynt yn cydnabod oedd yn llywodraethu y byd trwy ei ragluniaeth, fel y creasai trwy ei allu; ac mai yn y byd hwn yn unig yr oedd yn cospi ac yn gwobrwyo dynion. Yr oeddynt yn gwadu arfaeth, ac yn dal ewyllys rydd ym mhob dyn i wneuthur da ac i ymattal oddiwrth ddrwg. Oddiwrth hyn y tarddodd, pan eisteddent mewn barn ar ddrwg-weithredwyr, eu bod am roddi y ddedfryd galetaf yn eu herbyn. *Joseph Antiq. l.* 20. *c.* 8. Y lleiaf o rifedi o'r holl bleidiau

---

* Y llyfrau a elwir dan yr enw Talmud sydd yn cynnwys traddodiadau dychymmygol a choelgrefyddol yr Inddewon. Dychymmygodd y dysgawdwyr cyfeiliornus, yn yr oesoedd tywyll rhwng y dychweliad o Babilon a dyfodiad Crist, fod Moses, pan dderbyniodd y gyfraith ar ben mynydd Sinai, ar yr un pryd wedi derbyn yr esponiad o honi o enau yr Arglwydd, yr hwn a draddododd efe i Aaron a'i feibion, a'r 70 henuriaid; y rhai, wedi adrodd bedair gwaith yr hyn a glywsent gan Moses, a'i traddodasant i holl gynnulleidfa Israel. Y traddodiadau hyn a alwent y gyfraith eneuol *(the oral law)* yr hon sydd fwy yn nghyfrif yr Iuddewon na'r gyfraith ysgrifenedig. Ac y maent fel caseg eira, wedi bod yn ychwanegu o oes i oes. Oddeutu canol yr ail ganrif ar ol Crist y casglwyd hwynt ynghyd gyntaf gan un Rabbi Judah Haccadosh, hyny yw, *y sanctaidd*, blaenor yr athrofa yn Tiberias, yn Galilea. Y gwaith hwn a alwyd Mishnah, sef *traddodiad.* Ysgrifenwyd esponiad ar hwn gan amryw ddysgedigion Iuddewig dan yr enw Gemara, hyny yw, *y cyflawniad.* Y ddau hyn gyd â'u gilydd yw y Talmud, yr hwn yw rheol grefyddol yr Iuddewon.

crefyddol oeddynt; ac, yn gyffredin, y mwyaf cyfrifol a'r cyfoethocaf o'r Iuddewon. Ac ym mhlith y cyfryw y ceir dynion o gyffelyb ddaliadau Epicureaidd ym mhob oes a chenedl. Bernir i sect y Saduceaid gael ei thori ymaith yn ninystr olaf Jerusalem, gan nad oes sôn am danynt wedi hyny dan yr enw hwnw.

4. Plaid arall o grefyddwyr ym mhlith yr Iuddewon oedd yr Esseniaid, y rhai a gawsant eu henw oddiwrth y gair Groeg οσιος, hyny yw, *sanctaidd*. Y mae *Josephus* (*Antiq. l.* 18. *c.* 1.) yn dywedyd eu bod yn un o'r tair plaid grefyddol a fuasai ym mhlith yr Iuddewon er yr hen amseroedd. Y ddwy ereill oedd y Phariseaid a'r Saduceaid. Yr Esseniaid a ymneillduasant oddiwrth y Phariseaid tan rith diwygwyr. Yr oeddynt yn hynod am hunan-ymwadiad, a disgyblaeth lem a manwl. Yr oeddynt yn dal arfaeth, ac yn gwadu ewyllys rydd. Yr oeddynt yn dal anfarwoldeb yr enaid, ond yn gwadu adgyfodiad y corph. Nid oeddynt yn priodi, nac yn cadw gwasanaethwyr; ond yn byw mewn math o frawdoliaethau, lle yr oedd pob peth yn gyffredin. Ni phrynent ac ni werthent; ond rhoddent i deithwyr, o'u plaid eu hunain, bob peth anghenrheidiol. Er nad oeddynt yn priodi, cymmerent blant pobl ereill i'w dwyn i fynu yn eu daliadau a'u disgyblaeth. Danfonent eu rhoddion i'r deml, ond ni offrymient aberthau. Yr oeddynt yn byw ar eu penau eu hunain, mewn lleoedd anial, ac yn cynnal eu hunain wrth lafurio y ddaear, heb ddyfod ond yn anaml i gymmanfaoedd cyhoeddus o bobl. A hyn yw yr achos, fel y bernir, nad yw yr Efengylwyr yn sôn am danynt. Nid oedd eu rhifedi yn amser *Josephus*, ychydig o flaen dinystr Jerusalem, ond oddeutu pedair mil.

5. Y bummed sect ym mhlith yr Iuddewon, a'r hon a gododd olaf, oedd yr Herodianiaid, a gawsant eu henw oddiwrth yr Herod cyntaf, a gyfenwid Mawr. Oddi wrtho ef yr oeddent wedi dysgu yr egwyddorion gau a elwir 'surdoes Herod,' (*Marc* 8. 15.) trwy ymroddi i fywyd penrhydd, ac arferion eilun-addolgar, er mwyn rhyngu bodd i Ymerawdwyr Rhufain a'u rhaglawiaid; megys codi temlau er anrhydedd i Augustus Cæsar, a gwneuthur llawer o bethau yn groes i'r gyfraith. Yr oedd y Saduceaid wedi cofleidio tybiau ac arferion yr Herodianiaid; canys yr hyn a elwir yn 'surdoes y Saduceaid,' *Mat.* 16. 6. a elwir yn 'surdoes Herod,' *Marc* 8. 15. Yr oedd yr Herodianiaid, yn groes i'r Phariseaid, yn barnu, nid yn unig ei bod yn gyfreithlon i dalu teyrnged i Cæsar, ond hefyd i ddilyn llawer o arferion llygredig y cenedloedd. Etto nid yn y cyntaf ond yn yr olaf yr oedd eu surdoes yn gynnwysedig.

Wrth ystyried llygredigaethau a chyfeiliornadau y pleidiau hyn, ag oedd yn gwneuthur i fynu bron yr holl genedl Iuddewig, y mae yn eglur fod gwir grefydd yn brin yn amser Crist, fel yn yr oesoedd tywyll cyn hyny. Gan fod awdwyr dau lyfr y Maccabeaid, *Josephus*, ac ereill,

sydd yn rhoi hanes am yr amseroedd hyn, yn amddifaid, nid yn unig o yspryd prophwydoliaeth, ond hefyd o wir dduwioldeb, nid rhyfedd fod y wir eglwys a'i haelodau heb ddyfod dan eu sylw. Dibenir yr hanes am y pleidiau gwahanol hyn, trwy sylwi, nad yw yn annhebygol fod y gwr goludog yn y ddammeg *(Luc* xvi.) wrth y pum brodyr yn golygu y pleidiau crefyddol hyn. Y gwr goludog, tybygid, yw y genedl Iuddewig, yn oludog mewn breintiau. Y 'porphor a'r llïan main' oedd y gwisgoedd offeiriadol—y 'byd da yn helaethwych beunydd' oedd yr ebyrth, y bwyd a'r diod-offrymau, &c. Profir hyn am ei fod yn hòni ei berthynas âg Abraham, a bod Moses a'r prophwydi gan ei frodyr, y rhai ni chredasent i'w tystiolaethau am Grist, nac ychwaith er iddo adgyfodi oddiwrth y meirw. Am hyny y gwiriwyd ofnau y gwr goludog, a phlant y deyrnas a fwriwyd allan, a'r cenedloedd, y rhai a feddylir wrth Lazarus, a dderbyniwyd i'r eglwys, ac i fynwes Abraham i'r nefoedd, ar ol cael meddyginiaethu eu cornwydydd, sef eu drwg-foesau, &c. Y mae Lazarus *(La azar)* yn arwyddocâu *un digymhorth.* 'Y cŵn' oedd y dysgawdwyr cenedlig ag oedd yn hytrach yn llyfu nag yn iachâu y briwiau. 'Wrth ei borth' sydd yn arwyddo y tu allan iddo, fel yr oedd y cenedloedd dros lawer oes. Gwel *Mat.* 8. 11, 12. *Ezec.* 16. 10—13.

PENNOD XXXVIII.

Dilyniad o Hanes yr Asmoneaid a Breninoedd yr Aipht.

Yn y flwyddyn 106 cyn geni Crist, a'r 11eg i Ptolemy Lathyrus, cymmerodd Aristobulus y llywodraeth yn Judea, yn lle ei dad Ioan Hyrcanus. Efe oedd y cyntaf a wisgodd goron, ac a gafodd enw brenin ar y genedl Iuddewig ar ol y dychweliad o Babilon. Ni theyrnasodd ond un flwyddyn, ac ymddygodd yn dra chreulon tu ag at ei fam a'i frodyr. Ei fam a laddodd trwy ei newynu, am iddi hòni hawl i lywodraethu yn ol ewyllys ei gwr. Parodd ladd ei frawd Antigonus, er iddo ryfela yn llwyddiannus drosto yn erbyn yr Itureaid, am fod ei wraig y frenines, a rhai o wyr y llys, yn sibrwd yn ei glustiau fod ganddo fwriadau yn erbyn ei goron a'i fywyd. Cadwodd dri ereill o'i frodyr yn ngharchar tra fu byw. Syrthiodd i glefyd, a bu farw dan loesion cydwybod euog o'r fath ni chlybuwyd yn aml; a'i frawd, Alexander Jannæus, a gymmerodd y freniniaeth, ac a deyrnasodd 27 mlynedd. Oddeutu yr un amser y cododd anghydfod yn yr Aipht, rhwng Cleopatra a'i mab Ptolemy Lathyrus, fel y gorfu iddo ffoi am ei fywyd i ynys Cyprus, o ba le y cyrchwyd Alexander ei frawd i'r Aipht i deyrnasu yn ei le; a Lathyrus a deyrnasodd yn Cyprus.

Yn nechreu teyrnasiad Alexander Jannæus, bu rhyfel rhyngddo a Ptolemy Lathyrus, yr hwn a ddaeth â deng mil ar hugain o wyr i gyn-

northwyo trigolion Ptolemais yn erbyn Jannæus ag oedd yn gwarchae ar eu dinas. Ar ol gwneuthur rhyw fath o heddwch rhyngddynt, pan ddeallodd Lathyrus fod Jannæus wedi danfon i'r Aipht am gynnorthwy Cleopatra, adnewyddwyd y rhyfel, ac ymladdwyd brwydr waedlyd gerllaw yr Iorddonen, ym mha un y collodd Jannæus y fuddugoliaeth, a deng mil ar hugain o wyr, heblaw carcharorion. Adroddir gweithred greulon a wnaeth Lathyrus yn y prydnawn ar ol ennill y fuddugoliaeth. Lladdodd y gwragedd a'r plant ag oedd yn y pentrefi cymmydogaethol; ac wedi darnio eu cyrph, rhoddodd hwynt mewn efyddynau ar y tân i'w berwi, i beri arswyd yn y trigolion rhag ei fyddin, fel pe buasent yn ymborthi ar gnawd dynion. Ar ol hyn tramwyodd Lathyrus trwy y wlad, gan ei hanrheithio mewn modd gresynol; a chan nad oedd gan Alexander Jannæus rym i'w wrthynebu, buasai wedi ei lwyr ddifetha, oni buasai i Cleopatra ddyfod i Judea i'w gynnorthwyo.

Treuliodd Alexander Jannæus y rhan fwyaf o'i deyrnasiad mewn rhyfeloedd: ond y rhyfel cartrefol rhyngddo â phlaid y Phariseaid a barodd iddo fwyaf o flinder. Parhaodd y gwrthryfel hwn chwe blynedd, ym mha un y lladdwyd mwy na deng mil a deugain o'r gwrthryfelwyr. Wedi ennill brwydr benderfynol arnynt yn y 19eg o'i deyrnasiad, a lladd y rhan fwyaf, ffôdd y gweddillion i'r ddinas gadarn Bethome, yr hon a ennillodd yn y flwyddyn ganlynol. O'r carcharorion a gymmerodd yn y lle, dygodd wyth cant i Jerusalem, y rhai a groeshoeliodd mewn un dydd, ac a laddodd eu gwragedd a'u plant o flaen eu llygaid pan oeddynt yn hoeliedig ar y prenau; yr hyn oedd greulondeb na chlybuwyd am ei fath ym mhlith y cenedloedd mwyaf barbaraidd. A cherllaw y dienyddle gwnaeth wledd i'w wragedd a'i ordderchadon, fel y gallent borthi eu llygaid wrth edrych ar arteithiau y trueiniaid. Ar ol hyn, ffôdd y gweddillion o'r gwrthryfelwyr o'r wlad, a chafodd Alexander lonydd ganddynt hyd ddiwedd ei oes.

Yn y flwyddyn 89 cyn geni Crist, a'r 17eg i Alexander Jannæus, lladdodd Alexander, brenin yr Aipht, ei fam Cleopatra, â'i law ei hun. Yr oedd hi wedi bwriadu ei ladd ef. Am y weithred hon y gyrwyd Alexander i alltudaeth, a galwyd Ptolemy Lathyrus drachefn i'r freniniaeth, ym mha un y teyrnasodd saith mlynedd, hyd ddiwedd ei oes.

Yn y flwyddyn 88 cyn geni Crist, a'r 18fed i Alexander Jannæus, y claddodd Anna y brophwydes ei gwr, ar ol bod yn briod âg ef saith mlynedd. *Luc* 2. 36, 37.

Yn y flwyddyn 81 cyn geni Crist, a'r 25ain i Alexander Jannæus, bu farw Ptolemy Lathyrus brenin yr Aipht, a'i nai Alexander, mab i'r Alexander a laddodd ei fam, a deyrnasodd yn ei le.

Yn y flwyddyn 79 cyn geni Crist, bu farw Alexander Jannæus. Gadawodd ddau fab, Hyrcanus ac Aristobulus, ond rhoddodd lywodraeth y deyrnas i Alexandra ei wraig tra byddai hi byw, ac i ba un bynag

o'i meibion a ddewisai hi i deyrnasu ar ei hol. Bu farw yn y gwersyll pan oedd yn gwarchae ar Ragaba, castell yn ngwlad y Gerasaniaid. Ei gynghor i'w wraig cyn iddo farw, oedd, celu ei farwolaeth nes cymmeryd y castell, ac wedi hyny i arwain y fyddin yn orfoleddus i Jerusalem, gyd â'i gorph marw, a'i roddi ym meddiant penaethiaid y Phariseaid, llid a dial pa rai yr oedd hi yn ofni, o herwydd yr holl ddrwg a wnaethai ei gwr iddynt. Os gwnai hyn, ac hysbysu iddynt ym mhellach ei bod yn bwriadu llywodraethu y deyrnas ym mhob peth yn ol eu cynghor, dywedodd wrthi y byddai iddi, nid yn unig sicrhau claddedigaeth anrhydeddus iddo ef, ond hefyd sefydliad diogel iddi ei hun ac i'w meibion yn y llywodraeth. Felly y gwnaeth, ac felly y digwyddodd, fel y dywedasai. Gwnawd Hyrcanus, yr hynaf o'r meibion, yn arch-offeiriad pan oedd yn 33ain blwydd oed. *Josephus Antiq. l.* 13. *c.* 23.

Yn y flwyddyn 72 cyn geni Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin, a'r 7fed i Alexandra, y ganwyd Herod a gyfenwid Mawr. Yr oedd yn fab i Antipas, neu Antipater, pendefig o Idumea, a rhaglaw dan Alexander Jannæus ac Alexandra, yn y wlad hòno. Felly o ran ei genedl yr oedd Herod yn Idumead, neu Edomiad, ac o ran ei grefydd yn Iuddew, fel yr oedd yr holl Idumeaid y pryd hyny. *Josephus Antiq. l.* 14. *c.* 2.

Yn y flwyddyn 70 cyn geni Crist, bu farw Alexandra, yn y 73ain flwyddyn o'i hoed, wedi llywodraethu naw mlynedd ar ol ei gwr. Traws-feddiannodd Aristobulus, ei mab ieuengaf, y deyrnas, trwy gynnorthwy y blaid ag oedd elynol i'r Phariseaid; yr hyn a fagodd ryfel cartrefol rhwng y ddau frawd. Ar ol ymladd brwydr gerllaw Jericho, ym mha un yr aeth y rhan fwyaf o filwyr Hyrcanus drosodd at ei frawd, cytunwyd i Hyrcanus roddi i fynu y freniniaeth a'r arch-offeiriadaeth i'w frawd; yr hyn a roddes derfyn i orthrymder y Phariseaid, a fuasai yn drwm ar y wlad er marwolaeth Alexander Jannæus. Teyrnasodd Aristobulus chwe blynedd a chwe mis.

Yn y flwyddyn 65 cyn geni Crist, a'r 5ed i Aristobulus yr ail, yr Alexandriaid, wedi blino ar lywodraeth Alexander, a'i gyrasant i alltudaeth, ac a alwasant Ptolemy Auletes (hyny yw, *y pibydd)* i'r freniniaeth. Yn yr un flwyddyn gwnawd Syria yn dalaeth Rufeinig gan Pompey, ym mhen 258 mlynedd o'r flwyddyn 1af i Seleucus Nicator.

PENNOD XXXIX.

Aristobulus ac Hyrcanus.

Y PRYD hyn, sef yn y flwyddyn 65 cyn geni Crist, yr oedd llawer o derfysgiadau yn Judea, y rhai a gawsant eu dechreuad oddiwrth uchelfryd Antipater tad Herod; yr hwn, trwy ddarostyngiad Hyrcanus, mab hynaf Alexander Jannæus, a gollodd bob gobaith o ddyrchafiaeth iddo

ei hun a'i deulu. Gan hyny rhoddodd ei synwyr ar waith i lunio ffordd i adferu Hyrcanus i'r orsedd. Ac yn y diwedd efe a lwyddodd yn ei ymgais, trwy gynnorthwy Pompey a'r Rhufeiniaid, i ddarostwng Aristobulus, trwy ei gymmeryd yn garcharor, ar ol gwarchae arno dros dri mis ym mynydd y deml. Cymmerwyd y deml y pryd hyn gan Pompey, yn y flwyddyn 63 cyn geni Crist, oddeutu canol yr haf; ac ar yr un diwrnod yr oedd yr Iuddewon yn cadw gwŷl ympryd, am gymmeriad Jerusalem a'r deml gan Nebuchodonosor yn yr 11eg i Sedeciah. Lladdwyd 12 mil o wyr yn y deml wrth ei chymmeryd y waith hon. Ar ol dibenu y rhyfel hwn, tynodd Pompey gaerau Jerusalem i lawr, ac adferodd Hyrcanus i'r arch-offeiriadaeth, ac i fod yn dywysog gwladol, trwy dalu teyrnged i'r Rhufeiniaid; ond ni adawodd iddo wisgo coron, na helaethu ei derfynau tu hwnt i Judea. Ond er fod Hyrcanus fel hyn yn cael y llywodraeth mewn enw, gan Antipater, tad Herod, yr oedd yr awdurdod mewn gwirionedd. Dygwyd Aristobulus a'i ddau fab, Alexander ac Antigonus, a dwy o'i ferched, yn garcharorion, tua Rhufain. Ond diangodd Alexander ar y ffordd, ac a ddychwelodd i fagu terfysgiadau yn Judea.

Yn y flwyddyn 58 cyn geni Crist, gyrwyd Ptolemy Auletes i alltudaeth gan yr Alexandriaid, o herwydd y trethi trymion a wasgodd oddi wrthynt i wobri gwyr mawr Rhufain; a gosodwyd ei ferch Berenice ar yr orsedd: yr hon, yn gyntaf, wedi priodi Seleucus Cybiosactes, un o hiliogaeth Seleucus Nicator, a'i rhoddodd i farwolaeth, o herwydd ei yspryd gwael a'i duedd i fudr elw; ac wedi hyny a briododd Archelaus, tywysog Comana yn Pontus, ac arch-offeiriad y lleuad.

Yn y flwyddyn ganlynol, yr hon oedd y 7fed i Hyrcanus yr ail, cododd Alexander, mab Aristobulus, derfysg mawr yn Judea, trwy geisio cael adferiad o'r freniniaeth i'w dad, neu iddo ei hun. Gan fod Hyrcanus yn rhy wan i'w wrthwynebu, galwodd am gynnorthwy Gabinius, y rhaglaw Rhufeinig ar Syria, yr hwn a ostegodd y gwrthryfel, ac a sefydlodd ddull newydd o lywodraeth, gan osod i fynu fath o bendefig-lywiaeth yn lle breniniaeth. Gosododd i fynu bum llys barnol mewn amrywiol ranau o'r wlad, a phob un yn anymddibynol y naill ar y llall. Ac yr oedd eu barn ar bob achos yn benderfynol. Ar ddymuniad yr Iuddewon eu hunain y gwnaed hyn, y rhai oedd wedi blino ar orthrymder y llywodraeth freninol, yn neillduol yn amser Alexander Jannæus. Ond ym mhen oddeutu deng mlynedd adferwyd y dull breninol o lywodraeth, gan Julius Cæsar, i ryngu bodd i Antipater a'i feibion; canys hwy a gawsant yr awdurdod, er i Hyrcanus gael yr enw o frenin.

Tua diwedd y flwyddyn 56 cyn geni Crist, diangodd Aristobulus, gyd â'i fab Antigonus, o Rufain, ac a gododd derfysgiadau newydd yn Judea; ond wedi ei orchfygu a'i glwyfo, cymmerwyd ef yn garcharor,

gyd â'i fab, a danfonwyd hwynt eilwaith i Rufain. Ond er mwyn Alexandra, gwraig Aristobulus, a'i chymmwynasau i'r Rhufeiniaid, gollyngwyd ei mab Antigonus yn rhydd, i ddychwelyd i Judea.

Yn yr un flwyddyn yr adferwyd Ptolemy Auletes i'w orsedd yn yr Aipht, gan Gabinius, a Marc Antoni, un o'r triwyr a ranasant wedi hyn Ymerodraeth Rhufain rhyngddynt. Y ddau ereill oedd Lepidus, ac Octafianus, yr hwn wedi hyny a alwyd Augustus Cæsar. Ar ol lladd Archælaus mewn brwydr, rhoddodd Ptolemy Auletes ei ferch Berenice i farwolaeth, am iddi anturio gwisgo y goron yn ei absennoldeb.

PENNOD XL.

Dilyniad o'r Hanesyddiaeth.

Yn y flwyddyn 51 cyn geni Crist, a'r 13eg i Hyrcanus yr ail, bu farw Ptolemy Auletes, ar ol teyrnasu 14 blynedd; a'i fab hynaf, bachgen dan oed, a'i ferch hynaf, Cleopatra, a ddyrchafwyd i'r orsedd yn yr Aipht. Ond ym mhen oddeutu pedair blynedd, cododd anghydfod rhwng Cleopatra a'i brawd, gan fod pob un o honynt am deyrnasu ei hunan. Yn y rhyfel a dòrodd allan rhyngddynt am yr orsedd, ennillodd Cleopatra Julius Cæsar o'i hochr, trwy roddi ei chorph at ei wasanaeth. Pan oedd y brawd yn ffoi ar ol colli brwydr, boddwyd ef yn afon Nilus; a Cleopatra a deyrnasodd ei hunan 17 flynedd.

Yr oedd Pompey, yn y flwyddyn 48 cyn geni Crist, wedi cael ei orchfygu gan Julius Cæsar mewn brwydr fawr yn ngwastadedd Pharsalia, dinas yn Thessalia; ac wedi ffoi mewn llong at oror yr Aipht, danfonodd at Ptolemy, brawd Cleopatra, i ddeisyf ei nodded. Ac yr oedd ganddo sail dda i'w ddisgwyl, am y buasai yn un o'r offerynau penaf i adferu ei dad Ptolemy Auletes i'r orsedd o'i alltudaeth. Ond yn lle rhoddi derbyniad i Pompey, cynghorwyd i'w roddi i farwolaeth, rhag digio Julius Cæsar, yr hwn oedd wedi cyrhaedd i'r Aipht y pryd hyn, gan ymlid ar ol Pompey; yr hwn a wahoddwyd yn dwyllodrus i ddyfod i'r làn mewn cwch a ddanfonwyd i'w geisio; ond rhoddodd brenin yr Aipht orchymyn i'w ladd yn y cwch cyn iddo gyrhaedd y làn. Torwyd ei ben, a'i gorph a adawyd heb gladdedigaeth, hyd oni ddaeth un Philip (caethwas i Pompey a gawsai ei ryddid ganddo) yn ddamweiniol heibio, ac a'i llosgodd ar grug angladdawl, a wnaeth o goed cwch drylliedig ag oedd yno gerllaw. Pan ddygwyd ei ben at Julius Cæsar i Alexandria, efe a wylodd, ac a drôdd oddi wrtho, ac a barodd ei gladdu yn anrhydeddus. Yr oedd Julius Cæsar (yr hwn oedd y cyntaf o Ymerawdwyr Rhufain) wrth gymmeryd plaid Cleopatra, brenines yr Aipht, wedi dwyn arno ei hun y rhyfel mwyaf peryglus a fuasai erioed ynddo; a darfuasai am dano, oni buasai iddo gael ei

achub trwy gynnorthwyon prydlawn. Daeth Antipater, tad yr Herod cyntaf, yn y cyfyngder hwn, yn un o'r rhai cyntaf i'r Aipht, gyda thair mil o wyr i'w gynnorthwyo. A hyn oedd un o'r achosion penaf o'i ddyrchafiad ef a'i deulu, gan y Rhufeiniaid, i'r mawredd a'r urddas a gawsant wedi hyny.

PENNOD XLI.

Antigonus ac Hyrcanus.

Yn y flwyddyn 47 cyn geni Crist, yr 17eg i Hyrcanus yr ail, a'r 5ed i Cleopatra, pan ddaeth Julius Cæsar i Syria, ar ol gorphen y rhyfel yn yr Aipht, ymddangosodd Antigonus, mab Aristobulus yr ail, ger ei fron, i hòni ei hawl i freniniaeth ei dad trwy lawer o resymau. Ond amddiffynodd Antipater, yr Idumead, hawl Hyrcanus yn fwy effeithiol. Barnwyd Antigonus yn ŵr terfysglyd; a gorchymynodd Cæsar i Hyrcanus gael yr arch-offeiriadaeth a'r dywysogaeth wladol. Diddymwyd y pendefig-lywiaeth a osodasai Gabinius i fynu, a sefydlwyd y penarglwyddiaeth eilwaith yn Hyrcanus. Dygwyd hyn i ben trwy Antipater, yr hwn oedd ŵr, nid yn unig o wroldeb rhagorol mewn rhyfel, ond hefyd o ddoethineb mwy na chyffredin i drin materion gwladol, gyda gradd nid bychan o ddichell a chyfrwysdra i ddyrchafu ei hun a'i deulu i sefyllfaoedd o elw ac anrhydedd. Yr oedd ganddo, erbyn hyn, o'i wraig Cyprus, bedwar o feibion wedi tyfu i fynu; sef, Phasaelus, yr hynaf, Herod, yr ail, Joseph, y trydydd, a Pheroras, yr ieuengaf; heblaw un ferch a elwid Salome, yr hon a fagodd lawer o gynhenau yn y teulu, fel yr ymddengys ym mlaen.

PENNOD XLII.

Dechreuad Dyrchafiad yr Herod Cyntaf.

Yn y flwyddyn a enwyd olaf, gwnaed Sextus Cæsar, câr i Julius Cæsar, yn rhaglaw Syria; Phasael, yr hynaf o feibion Antipater, yn llywodraethwr Jerusalem, odditan Hyrcanus; a Herod, ei ail fab, yn llywodraethwr Galilea, ac efe yn 25 mlwydd oed. Yn fuan ar ol ei ddyrchafiad syrthiodd ar fintai o ladron, ag oedd yn blino Galilea a'r parthau cymmydogaethol; ac wedi dal amryw o honynt, ynghyd â'u blaenor Hezeciah, rhoddodd hwynt oll i farwolaeth. Ond er fod hyn yn cael ei gymmeradwyo bron gan bawb yn y parthau hyny, cymmerodd rhai, o genfigen wrth lwyddiant Antipater a'i feibion, achlysur i gyhuddo Herod ger bron Hyrcanus am ladd y lladron heb holiad cyfreithlon. Gan hyny, rhoddwyd gwŷs i Herod i ateb drosto ei hun ger bron y Sanhedrim. Pan ddaeth o'u blaen mewn gwisg o borphor, a chyda gosgordd o wyr arfog, eisteddasant i gyd yn ddistaw gan ofn,

ond un a elwid Sameas, neu Shammai, yr hwn a geryddodd Herod am ddyfod mewn gwisgiad mor anaddas i droseddwr, a chyda llu arfog. Yna trôdd at Hyrcanus a'r llŷs, ac a'u ceryddodd am eu llyfrdra, ac a rag-ddywedodd, 'Er eu bod y pryd hyny am arbed Herod rhag ei ofn, y deuai yr amser pan ni wnai efe eu harbed hwy.' Ac felly y digwyddodd; canys pan ddaeth Herod i'r orsedd, rhoddodd bob un o honynt i farwolaeth, ond y Sameas hwn, a'i athraw Pòlio; ac ni ddiangodd Hyrcanus ei hun, fel y dangosir.

Yn y flwyddyn 44 cyn geni Crist, cafwyd cenad gan Julius Cæsar i adeiladu caerau Jerusalem, a dynwyd i lawr gan Pompey. Ar y 15fed dydd o fis Mawrth yn y flwyddyn hon y lladdwyd Julius Cæsar, yn y Senedd-dy yn Rhufain, trwy gydfwriad amryw o'r Seneddwyr—yr hon oedd yn weithred ysgeler, annheilwng iawn; yn neillduol gan fod y prif weithredwyr ynddi wedi derbyn llawer o gymmwynasau oddiar law Cæsar. Yr oeddent hwy yn barnu mai gweithred rinweddol a chlodfawr ydoedd, i ryddhau eu gwlad oddiwrth ormeswr ag oedd wedi sylfaenu ei fawredd ar adfeiliau y werin-lywodraeth. Ond dangosodd cyfiawnder dialeddol fod barn yr Arglwydd yn wahanol: canys goddiweddodd bob un o'r lleiddiaid, fel na ddiangodd un o honynt heb gael ei dòri ymaith, naill ai trwy ei law ei hun, neu gan ereill. Julius Cæsar oedd y cyntaf o'r Rhufeiniaid a wnaeth gais i ddarostwng Prydain, yn y flwyddyn 55 cyn geni Crist: ond er iddo orchfygu ein hynafiaid mewn rhai brwydrau, yn ol ei hanes ei hun *(Cæsar's Comment)*, etto ni chafodd hamdden i wneuthur un sefydliad yma. Ac ni ddaeth y Rhufeiniaid i wneuthur cais ar ein hynys hyd y flwyddyn o oed Crist 43, pan ddygwyd hi gyntaf dan eu hiau, yn y 3edd flwyddyn o'r Ymerawdwr Claudius Cæsar.

Yn y flwyddyn 43 cyn geni Crist, rhoddodd Cassius, un o leiddiaid Julius Cæsar, drethi trymion ar Syria, Judea, a Phœnicia, i dalu traul y rhyfel ag oedd ganddo ef a'i gyfeillion yn erbyn plaid Augustus Cæsar. Gofalodd Antipater, a'i feibion, i dalu yr hyn oedd yn disgyn ar y gwledydd oedd dan eu gofal. Ond gan fod Gophna, Emmaus, Lyda, Thamna, a rhai dinasoedd ereill, yn hwyrfrydig i dalu, gwerthwyd y trigolion i dalu y dreth. Yn yr un flwyddyn y gwenwynwyd Antipater, tad Herod, trwy frad Malichus, y swyddog nesaf ato yn y llywodraeth, er mwyn cael ei le. Ond yn fuan wedi hyny y lladdwyd yntau gan Phasael, mab Antipater.

Yn y flwyddyn 42 cyn geni Crist, gorchfygwyd lleiddiaid Julius Cæsar, ym mrwydr Philippi, yn Macedonia, gan Octafianus a Marc Antoni. Yn yr un flwyddyn gwnaeth plaid Antigonus, mab ieuengaf Aristobulus, yr ail gais aflwyddiannus i'w ddyrchafu i'r orsedd. Gorchfygwyd ef mewn brwydr gan Herod; yr hwn, ar ol hyny, a ddychwelodd yn orfoleddus i Jerusalem.

Yn y flwyddyn 42 cyn geni Crist, danfonodd Marc Antoni, un o'r triwyr ag oedd y pryd hyn yn llywodraethu Ymerodraeth Rhufain,* ei holl wyr meirch i Palmyra† (Tadmor 2 *Cron.* 8. 3, 4.) i gymmeryd ei hyspail yn lle eu cyflog. Y mae adfeiliau ardderchog y ddinas hon yn profi ei godiowgrwydd gynt. Yr oedd yn sefyll 127 milltir i'r gogledd o Damascus, a thaith diwrnod y tu yma i'r afon Euphrates. Ond cafodd Antoni ei siomi o'r ysglyfaeth; canys y trigolion, wedi clywed am ei fwriad, a symudasant eu teuluoedd a'u cyfoeth i'r ochr arall i'r Euphrates; ac wedi cilio y gelynion, dychwelasant yn ol, ac a'u rhoisant eu hunain dan nodded y Parthiaid; a hyn fu yn brif achos o'r ail ryfel rhyngddynt a'r Rhufeiniaid. Canys, er mwyn dial am y rhuthr hwn, danfonodd y Parthiaid yn y flwyddyn ganlynol fyddinoedd i anrheithio Asia Leiaf a Syria; ac wedi cymmeryd Sidon a Ptolemais, danfonasant fyddin i Judea, yn ol cytundeb blaenorol, i wneuthur Antigonus yn frenin ar y wlad, ar ba un y teyrnasodd o'r pryd hyn dair blynedd. Cymmerwyd Hyrcanus a Phasael yn garcharorion, trwy ddichell y Parthiaid. Hyrcanus, wedi tòri ei glustiau, i'w anaddasu i'r archoffeiriadaeth, a ddanfonwyd i Seleucia, ar yr afon Tigris; a Phasael a gurodd ei ymenydd allan yn erbyn muriau ei garchar. Ymladdwyd llawer o frwydrau gwaedlyd rhwng plaid Herod ac Antigonus, yn y wlad, ac yn nghanol Jerusalem a'r deml, hyd ŵyl y Pentecost yn y flwyddyn 40 cyn geni Crist. Ac er i Herod ennill llawer o honynt, gorfu iddo gilio o'r wlad. Aeth yn gyntaf i Petra, at Malchus, brenin Arabia, am nodded, yr hwn nis derbyniodd rhag ofn digio y Parthiaid: wedi hyny ffôdd i Alexandria yn yr Aipht. Yn y flwyddyn hon gyrwyd y Parthiaid yn ol i'w gwlad, ar ol cael eu gorchfygu gan Fentidius, tywysog llu Antoni, mewn dwy frwydr fawr.

Tua diwedd y flwyddyn hon, hwyliodd Herod o Alexandria i Rufain, lle y llwyddodd gyd âg Antoni, Octafianus, a'r Senedd, i gael ei wneuthur yn frenin Judea, a chyfrif Antigonus yn elyn i'r Rhufeiniaid. Ni bu Herod ond saith niwrnod yn Rhufain yn cwblhau y gorchwyl hwn; a thiriodd yn Ptolemais cyn diwedd y flwyddyn, heb fod ond tri mis ar ei daith ar fôr a thir, yn myned a dyfod. Ar ei ddyfodiad cyntaf i Judea, dechreuodd y rhyfel trwy gynnorthwy y Rhufeiniaid yn erbyn Antigonus.

Yn y flwyddyn 38ain cyn geni Crist, y 3edd i Antigonus, a'r 14eg i Cleopatra, dygodd Herod fyddin lïosog i'r maes, ac a roddes warchae ar Jerusalem. Yn y cyfamser, aeth i Samaria, i briodi Mariamne, merch Alexander, mab Aristobulus yr ail, o Alexandra, merch Hyrcan-

---

* Y ddau ereill oedd Octafianus (a alwyd wedi hyny Augustus Cæsar) a Lepidus.

† Cafodd y ddinas ei henw Hebraeg a Lladin oddiwrth y palmwydd ag oedd yn tyfu gerllaw iddi.

us yr ail. Yr oedd yn bendefiges o lendid a rhinweddau rhagorol; a chan ei bod o deulu yr Asmoneaid, tybiodd Herod y byddai yr Iuddewon yn fwy cymmodlawn âg ef er ei mwyn.

PENNOD XLIII.

Herod yn dechreu teyrnasu.

Yn y flwyddyn 37ain cyn geni Crist, a'r 15fed i Cleopatra, cymmerwyd Jerusalem gan Herod, trwy gynnorthwy Sosius rhaglaw Syria, a'r Rhufeiniaid oedd dano, ar ol gwarchae o oddeutu 6 mis.* Cymmerwyd Jerusalem a'r deml y waith hon ynghylch canol yr haf, 26ain o flynyddoedd i'r un diwrnod y cymmerasid hi gan Pompey, ar ŵyl ympryd a gedwid i goffâu ei chymmeriad gan Nebuchodonosor. *Prideaux's Annis* 38. 37. *Josephus Antiq. l.* 14. *c.* 8. & 28. *Bell. Jud. l.* 1. *c.* 5.

Lladdodd y Rhufeiniaid nid yn unig y milwyr yn y ddinas, ond y trigolion o bob gradd ac oedran, hyd oni addawodd Herod swm mawr o arian i Sosius i'w harbed rhag cael eu llwyr ddinystrio. Antigonus a'i traddododd ei hun i Sosius, ac wedi cael ei ddwyn ger bron llys barnol yn Antiochia, condemniwyd ef i gael tori ei ben. Ynddo ef y terfynodd teyrnasiad yr Asmoneaid, ar ol parhau o ddechreuad llywodraeth Judas Maccabæus 129ain o flynyddoedd.

Cyfrifir i deyrnasiad Herod 34ain blynedd o'r cymmeriad hwn o Jerusalem, pan gafodd gyflawn feddiant o'r deyrnas; a 37ain o flynyddoedd o'r amser pan urddwyd ef yn frenin gan Senedd Rhufain. *Josephus Antiq. l.* 17. *c.* 11.

Ar ol ei sicrhau ar yr orsedd, rhoddodd Herod rai o'r blaid oedd elynol iddo beunydd i farwolaeth; ac, ym mhlith ereill, holl gynghorwyr y Sanhedrim, ond Shammai a Hilel. Yr oedd y ddau hyn, tra parhaodd y gwarchae, yn annog y bobl i ymostwng i Herod, gan ddywedyd nad oedd ganddynt ddim arall i ddisgwyl ond cael eu traddodi i'w ddwylaw i'w cospi am eu pechodau. Ond y rhan arall o'r Sanhedrim oedd ffyrnig yn ei erbyn, gan groch-lefain, 'Teml yr Arglwydd, Teml yr Arglwydd,' gan ddisgwyl arbediad i'r ddinas er mwyn y deml. *Jer.* 7. 4.

O'r ddau a arbedwyd gan Herod, sef Hilel a Shammai, yr oedd y cyntaf yn flaenor, a'r llall yn nesaf ato, yn y Sanhedrim a ffurfiwyd gan Herod ar ol difetha yr un o'r blaen. Ar ol Hilel, dilynodd ei fab Simeon ef yn ei swydd fel blaenor y Sanhedrim; yr hwn, fel y bernir,

---

* Y mae y 3edd flwyddyn i Antigonus yn diweddu, a'r gyntaf i Herod yn dechreu, yn nghanol yr haf o'r flwyddyn 37ain cyn geni Crist. Ond gan mai trefn yr Amseryddiaeth hwn yw dechreu blynyddoedd teyrnasiad breninoedd yn Ionawr, dechreuir y flwyddyn gyntaf i Antigonus yn Ionawr o'r flwyddyn 40ain cyn geni Crist, er na ddechreuodd mewn gwirionedd, hyd ganol yr haf o'r flwyddyn hòno.

oedd yr un a gymmerodd Grist yn ei freichiau. *Luc* 2. 25—29. Ar ol Simeon y blaenorodd ei fab Gamaliel, yr hwn a roddodd y cynghor yn *Act.* 5. 38, 39. wrth draed pa un y dygwyd Paul i fynu. *Act.* 22. 3. Heblaw fod Hilel yn flaenor y Sanhedrim, yr oedd yn golygu athrofa yn cynnwys mil o ddisgyblion. Y mwyaf rhagorol o honynt oedd Jonathan Ben Uzziel, a ysgrifenodd esponiad Caldaeg ar y prophwydi; Oncelos a ysgrifenodd gyffelyb esponiad ar bum llyfr Moses, ychydig o'i flaen. Gelwir gwaith pob un o honynt dan yr enw Targum, sef *dehongliad.* Bernir fod y ddau hyn wedi ysgrifenu oddeutu amser genedigaeth Crist. Y maent yn esponio y prophwydoliaethau am y Messïah yn yr un modd a Christionogion.

Yn y flwyddyn 36ain cyn geni Crist, a'r 2fed i Herod, gwnawd Ananelus, offeiriad o Babilonia, yn arch-offeiriad yn lle Antigonus. Yn yr un flwyddyn, rhyddhawyd Hyrcanus yr ail, gan frenin Parthia, o'i garchar yn Seleucia. Cafodd barch mawr gan yr Iuddewon, y rhai oedd mor lïosog yn y gwledydd hyny ag yn Judea, a modd i fyw fel brenin. Ond pan glybu fod Herod wedi ei sefydlu yn y freniniaeth, cododd hiraeth arno i ymweled â'i wlad enedigol, gan ddisgwyl derbyniad croesawus gan Herod; yr hwn hefyd a'i gwahoddodd i ddyfod, ar ol clywed am ei fwriad, fel y gallai ei roddi i farwolaeth pan gai amser cyfleus i hyny; canys yr oedd yn ofni rhag iddo, ar ryw dro ar bethau, gael ei ddyrchafu drachefn i'r orsedd. Ymddygodd Herod tu ag ato gyda phob ymddangosiad o barch dros amser ar ol ei ddychweliad; ond, ym mhen oddeutu 6 blynedd, lluniodd rith gyhuddiad yn ei erbyn, fel pe buasai yn cydfwriadu gyda Malchus brenin Arabia, ac a'i rhoddodd i farwolaeth, pan oedd dros 80ain mlwydd oed.

Yn y flwyddyn 35ain cyn geni Crist, a'r 3edd i Herod, diswyddwyd Ananelus, a dyrchafwyd Aristobulus, brawd Mariamne, llangc 17eg oed, i'r arch-offeiriadaeth yn ei le. Dygwyd hyn i ben trwy daer ddeisyfiad Mariamne, gwraig Herod, a'i mam Alexandra; ynghyd âg eiriolaeth effeithiol Cleopatra brenines yr Aipht, i'r hon ni feiddiai Herod nacâu dim, rhag digio Antoni. Parodd hyn heddwch dros ychydig yn nheulu Herod; ond ni adawodd tymher aflonydd Alexandra iddo barhau yn hir, canys gweithiodd yn ddirgel gyda Cleopatra i gael y freniniaeth hefyd i'w mab, o'r hon yr oedd yn etifedd cyfiawn ar ol Hyrcanus ei daid. Ond pan hysbyswyd y gyfrinach i Herod, cyfyngodd ar ryddid Alexandra, gan ei chadw o fewn terfynau y llŷs. Hithau, gan ystyried ei hun mewn math o garchar, a luniodd ddyfais i ddiangc gyd â'i mab Aristobulus i'r Aipht. Llogodd long yn y porthladd nesaf, i ba un yr oedd hi a'i mab i gael eu dwyn mewn eirch. Cafodd Herod hysbysrwydd o'r hyn oedd yn myned ym mlaen, a gadawodd iddynt gyflawni eu bwriad mewn rhan; ond, pan oeddynt ar y ffordd, daliwyd a dygwyd hwynt yn ol i Jerusalem: a chan na feiddiai ddial arnynt yn gyhoeddus

rhag ofn Cleopatra, cymmerodd arno faddeu iddynt: ond o'r pryd hyn penderfynodd i gael gwared o'r dyn ieuangc y cyfleusdra cyntaf; yr hyn hefyd a gwblhaodd yn y modd canlynol. Ar ol gŵyl y pebyll yn y flwyddyn hon, gwahoddwyd Aristobulus gan Herod i wledd yn Jericho. Ar ol ciniaw aeth amryw o osgordd Herod i ymolchi mewn pysgodlyn, ac annogwyd Aristobulus i ymolchi gyda hwynt; ond cyn gynted ag y daeth i'r dwfr, ymaflwyd ynddo gan y rhai ag oedd yno o'i flaen, trwy orchymyn Herod, a throchwyd a daliwyd ef cyhyd dan y dwfr, dan rith chwareu, nes y boddodd. Ceisiodd Herod gan bawb i gredu mai damwain oedd marwolaeth Aristobulus. Gwnaeth draul mawr ei gladdedigaeth, ac ymddangosodd fel galarwr, gan dywallt llawer o ddagrau. Ond gwelodd a ffieiddiodd pawb ei ragrith; ond yn neillduol Alexandra, yr hon ni fynai ei chysuro am y golled o'i mab. Danfonodd lythyrau i'r Aipht at Cleopatra, i ddeisyf arni i eiriol gyd âg Antoni i alw Herod i gyfrif am y llofruddiaeth. Ac ni bu Cleopatra yn ol o wneuthur hyny, gan fod ganddi awydd i gael meddiant o deyrnas Herod iddi ei hun. Gan hyny rhoddwyd gwŷs i Herod i ymddangos ger bron Antoni a Cleopatra i ateb i'r cyhuddiad. Ond trwy eiriau teg ac anrhegion gwerthfawr, diangodd Herod rhag y gospedigaeth oedd ddyledus iddo; ac i foddloni Cleopatra, rhoddodd Antoni Cœle-Syria iddi yn lle Judea. Wrth gychwyn i'w daith i ateb i'r cyhuddiad, yr oedd Herod wedi ymddiried gofal ei deulu i'w ewythr Joseph, gan roddi gorchymyn iddo i ladd Mariamne os rhoddid ef i farwolaeth, rhag i neb ei mwynhau ar ei ol, yn enwedig Antoni. Canys clywsai ei fod yn ymserchu ynddi, ac ofnodd rhag y byddai iddo ei roddi ef i farwolaeth er mwyn ei chael. Bu Joseph mor annoeth a dadguddio y gyfrinach hon i Mariamne; yr hyn a barodd iddi hi a'i mam Alexandra i ddigio yn ddirfawr wrth Herod. Yn fuan wedi hyny, daeth hanes fod Herod wedi cael ei roddi i farwolaeth; a bwriadodd Alexandra i sicrhau y deyrnas iddi ei hun a'i theulu. Ond ar gefn hyny daeth llythyrau oddiwrth Herod i hysbysu ei fod nid yn unig yn fyw, ond mewn cymmeradwyaeth mawr gyd âg Antoni. Pan ddychwelodd Herod, mynegodd ei chwaer Salome iddo am y cyfeillgarwch oedd rhwng Joseph a Mariamne, ac am weithredoedd Alexandra. Rhoddodd Joseph i farwolaeth mewn gwŷn eiddigedd, heb ganiatau iddo gymmaint a dywedyd gair drosto ei hun; ac Alexandra a fwriodd i garchar. Wedi unwaith fwriadu lladd Mariamne â'i law ei hun, eafodd wedi hyny foddlonrwydd o'i diniweidrwydd, a deisyfodd arni i faddeu ei hygoeledd byrbwyll.

Yn y 33ain flwyddyn cyn geni Crist, y 5ed i Herod, a'r 19eg i Cleopatra, torodd rhyfel allan rhwng Octafianus a M. Antoni. Yr achos penaf o hono oedd am fod pob un o honynt am gael llywodraeth yr ymerodraeth Rufeinig iddo ei hun. Ar ol dwy flynedd o barotôad, yn y drydedd flwyddyn ymladdwyd môr frwydr gerllaw penrhyn Actium, yn

môr Adria. Antoni a Cleopatra, wedi colli y fuddugoliaeth, a ddiangasant ar hyd y môr i Alexandria, ac a ddilynwyd gan Octafianus. Y canlyniad a fu i Antoni syrthio ar ei gleddyf, a Cleopatra a barodd farwolaeth iddi ei hun trwy frathiad asp, math o neidr briodol i'r Aipht, gwenwyn pa un sydd yn peri marwolaeth ym mhen tair awr, heb ddim poen, mewn trwm-gwsg. Ar ol ei marwolaeth, gwnaed yr Aipht yn dalaeth o'r ymerodraeth Rufeinig, ym mhen 301 o flynyddoedd o'r flwyddyn olaf o freniniaeth y Mediaid a'r Persiaid; ac ynddi y terfynodd breniniaeth y Groegiaid, sef y drydedd; a'r bedwaredd oedd y Rhufeiniaid, y rhai a'i dilynasant. Dywedir i Octafianus, y pryd hyn, ddarostwng yr Aipht mewn un mis, sef hwnw a alwyd gynt gan y Rhufeiniaid Secstilis, ond o herwydd yr amgylchiad hwn a newidiwyd i Augustus, trwy ddeddf y Senedd. Ac y mae enw y mis hwn yn sefyll hyd heddyw *August*, yn Saesonaeg, ac Awst yn Gymraeg. Yr oedd y mis o'i flaen, sef Quintilis, wedi cael ei newid o'r blaen i Julius *(July)* er anrhydedd i Julius Cæsar. Ac ychydig wedi hyny, newidiwyd enw Octafianus i Augustus Cæsar, trwy ddeddf y Senedd.

Pan oedd Augustus yn ymlid ar ol Antoni tu a'r Aipht, cyfarfu Herod âg ef yn ynys Rhodes; ac yn ei gyfarchiad, wedi rhoddi ei goron o'r neilldu, cyfaddefodd yr hyn oll a wnaethai i Antoni, a'r hyn a gynnygiasai wneuthur erddo pe buasai yn derbyn ei gynghor. Dywedodd ei fod yn rhwym i wneuthur hyny er mwyn y cyfeillgarwch a fuasai rhyngddynt; a'i fod yn barod i'w wasanaethu ef gyd â'r un ffyddlondeb, os barnai hyny yn deilwng o'i dderbyniad. Y canlyniad a fu i Augustus beri iddo wisgo ei goron, a chadarnhaodd ef yn ei freniniaeth. Rhoddodd Herod iddo anrhegion gwerthfawr, a bu mewn mwy o gymmeradwyaeth gyd âg ef nag un arall o freninoedd teyrngedol yr ymerodraeth, tra fu byw.

Er fod Herod yn llawen am lwyddiant ei daith, etto trôdd y cwbl yn chwerwder iddo pan ddychwelodd, trwy y blinder a gafodd yn ei deulu, trwy ymddygiad dieithr digofus ei wraig Mariamne. Yr achos oedd am ei fod wedi rhoddi gorchymyn i un Sohemus i'w rhoddi hi a'i mam Alexandra i farwolaeth, a sicrhau y freniniaeth i'w frawd Pheroras, os rhoddid ef ei hun i farwolaeth gan Augustus, fel yr oedd yn ofni. Er fod y gorchymyn hwn wedi cael ei roddi yn gyfrinachol, etto dadgudd-iodd Sohemus y peth i Mariamne, a hyn oedd yr achos o'i hymddygiad tu ag at Herod ar ei ddychweliad. Magodd hyn eiddigedd yn Herod tu ag at Mariamne, yr hwn a chwanegwyd trwy ddichellion a chelwyddau ei chwaer Salome. Y canlyniad a fu i Mariamne gael ei dwyn ger bron llys barnol; yr hwn, i ryngu bodd i Herod, a roddodd farn marwolaeth arni, er nad oedd dim ond dychymygion yn ei herbyn. Ond ar ol i gynddaredd Herod gael ei ddiffodd â gwaed Mariamne, ei gariad tu ag ati a ddychwelodd yn ei rym mwyaf; ac ar hyny y canlyn-

odd y fath ddrych o chwerw edifeirwch, fel na welwyd prin ei gyffelyb. Nid oedd dim llonyddwch iddo na dydd na nos, hyd oni yrwyd ef i wallgof. Galwai am dani wrth ei henw, a pharai i'w weision i'w dwyn hi ato, fel pe buasai etto yn fyw.

Yn y flwyddyn 28ain cyn geni Crist, y 10fed i Herod, a'r 3edd i Augustus Cæsar, y bu haint trwm iawn yn Judea, yr hwn a ddygodd ymaith rifedi mawr o bob gradd o ddynion. Edrychodd pawb ar hyn megys barn oddiwrth Dduw am farwolaeth Mariamne; a chwanegodd galar ac anhwyl Herod i'r fath radd fel y ciliodd i Samaria, ac y syrthiodd i glefyd trwm. Tra bu yn gorwedd yn glaf yma, cydfwriadodd Alexandra, mam Mariamne, i gymmeryd gafael yn y freniniaeth, dan esgus o'i sicrhau i feibion Mariamne o Herod, pe buasai yn marw. Ond pan ddychwelodd i Jerusalem ar ol gwellhau, gorchymynodd ei rhoddi i farwolaeth; ac ynddi y dibenodd teulu yr Asmoneaid.

Ar ol hyn cymmerodd Herod ryddid i wyro oddiwrth y gyfraith, ac i ymroddi i amryw ddefodau ac arferion cenedlig. Bu hyn yn achos o gydfwriad yn erbyn ei fywyd gan ddeg o ddynion, o'u sêl i'r grefydd Iuddewig. Ond y bradwriaeth a hysbyswyd iddo, a'r bradwyr a roddwyd i farwolaeth trwy yr arteithiau mwyaf poenus.

Yn y flwyddyn 25ain cyn geni Crist, y 13eg i Herod, a'r 6ed i Augustus Cæsar, y bu sychder mawr, ynghyd â newyn a haint, yn Judea, a fu yn achos marwolaeth i lawer o'r trigolion. Yn y cyfyngder hwn, toddodd Herod ei holl lestri aur ac arian; ac wedi eu bathu, danfonodd hwynt i brynu ŷd i'r Aipht, lle yr oedd amlder mawr o hono y pryd hyn. A chafodd ddigon nid yn unig i'w ddeiliaid ei hun, ond hefyd i'w gymmydogion yn Syria. A chan fod y diadellau defaid wedi cael eu difetha gan y sychder, fel nad oedd digon o wlan i ddilladu y trigolion erbyn y gauaf, danfonodd am gymmaint o wlan o wledydd ereill, fel y bu darpariaeth helaeth am ddillad cyn dyfod yr oerfel. Trwy hyn ennillodd Herod serchiadau ei ddeiliaid dros ychydig; ond buan y dychwelodd at greulondeb a gorthrymder, yr hyn ni buasent yn eu goddef, oni buasai Augustus yn blaid iddo.

Yn y flwyddyn 23ain cyn geni Crist, y 15fed i Herod, a'r 8fed i Augustus Cæsar, y rhuthrodd Candace, brenines Ethiopia yn Affrica, gyda byddin lïosog i Thebais, talaeth o'r Aipht Uchaf, ac a gymmerodd Syene, ac amryw leoedd ereill, gan ddwyn y milwyr ag oedd ynddynt i gaethiwed. Ond Petronius, rhaglaw yr Aipht, wedi ei gorchfygu mewn brwydr, a'i hymlidiodd o'r Aipht, ac a dreiddiodd dros 800 milltir, hyd Napata, pen dinas ei gwlad; yr hon wedi iddo ddinystrio, ac heb allu myned ym mhellach o herwydd y gwres a'r diffaethfaoedd tywodog, dychwelodd i Alexandria gyda llawer o filoedd o gaethion, wedi gadael gwarchawdlu o 400 o wyr yn Premnis, un o'r amddiffynfeydd cryfaf yn Ethiopia. Pa un ai hon oedd y Candace dan ba un yr oedd yr

eunuch (*Act.* 8. 27.) ai un arall o'r un enw a'i dilynodd yn y freniniaeth, ni ellir bod yn sicr.

Yn y flwyddyn ganlynol y dechreuodd Herod adeiladu Cæsarea, yr hon a alwyd o'r blaen Tŵr Straton, er anrhydedd i Augustus Cæsar. Bu 10 mlynedd yn ei hadeiladu. Gwnaed y porthladd o feini o faintioli aruthr, wedi eu cludo o bell; a rhai o honynt yn 50 troedfedd o hŷd, yn 18 o led, a 9 o drwch, a sylfaenwyd yn y môr, mewn dyfnder o 20 gwrhyd. Yn Cæsarea yr oedd trigfa gyffredinol y rhaglaw Rhufeinig ar ol alltudio Archelaus. *Act.* 23. 33. Yn yr un flwyddyn y danfonodd Herod ei feibion Alexander ac Aristobulus o Mariamne, i Rufain i gael dygiad i fynu; a llettywyd hwynt yn llŷs Augustus.

PENNOD XLIV.

Herod yn adgyweirio yr ail Deml.

Yn y flwyddyn 20 cyn geni Crist, a'r 18fed i Herod, er mwyn ennill serchiadau yr Iuddewon a gollasai, ac i adael coffadwriaeth o'i enw, yn union ar ol gŵyl y pasc yn y flwyddyn hon, dechreuodd Herod barotôi defnyddiau tu ag at adeiladu ac adgyweirio y deml yn Jerusalem; yr hon, mewn treigl oesoedd a niwed rhyfeloedd, oedd wedi anmharu i gryn radd. *Josephus Antiq. l.* 15. *c.* 14.* Tynwyd i lawr ac ail-adeiladwyd yr hyn a alwyd yn briodol y deml, mewn 18 mis; ac ym mhen 8 mlynedd yn ychwaneg y gorphenodd Herod yr hyn yr oedd wedi arfaethu ei wneuthur i'r deml. Ond dygwyd ym mlaen yr adeiladau perthynol iddi yn y cynteddau o'i hamgylch yr holl amser hyd enedigaeth Crist, a thra bu ar y ddaear, a thros lawer o flynyddoedd wedi hyny, hyd amser y rhaglaw Gessius Fflorus, pan drowyd 18 mil o weithwyr allan o waith; yr hyn a fu yn achos o'r terfysgiadau a'r gwrthryfel a ddiweddasant yn ninystr Jerusalem a'r deml. O ŵyl y pasc yn y flwyddyn hon hyd y pasc cyntaf o weinidogaeth Crist, yr oedd 46 blynedd union. *Ioan* 2. 20. Er hyny ni chyfrifir teml Herod yn drydedd deml gan y dysgawdwyr Iuddewig. Ymddengys oddiwrth *Egesippus* (*l.* 1. *c.* 35.) ac wrth gymharu amryw fanau o *Josephus* â'u gilydd (*De Bell. Jud. l.* 1. *c.* 16. *Antiq. l.* 20. *c.* 8. a *l.* 15. *c.* 14.) na wnaeth Herod ond adgyweirio teml Zorobabel; ond yr adeiladau oddi amgylch y cynteddau, efe a'u gwnaeth o newydd. Er fod Herod yn ceisio anrhydedd iddo ei hun yn hyn, etto trefnodd Duw ef er anrhydedd i'w Fab, yr hwn oedd Arglwydd y deml, ar ei ymddangosiad yn y cnawd.

---

* Y mae *Prideaux* yma, er ei fod yn gyffredin yn olrhain pob peth gyd â'r manyldra mwyaf, wedi gwyro oddiwrth wirionedd yr hanesyddiaeth a'r amseryddiaeth, trwy osod dechreuad gwaith Herod yn adeiladu y deml yn y flwyddyn 17 cyn geni Crist, a'r 21ain i Herod, er mwyn dibenu y 70 wythnos ym marwolaeth Crist.

Yn y flwyddyn 14 cyn geni Crist, a'r 24ain i Herod—yr aeth gyda byddin a llynges i Asia Leiaf, i gynnorthwyo Agrippa, un o gyfeillion penaf Augustus Cæsar, yn ei ryfel yn erbyn y Bosphoriaid. Ar ol dwyn y rhyfel i ddiwedd llwyddiannus, cafodd Herod gan Agrippa adferiad i'r Iuddewon yn Asia Leiaf ac ynysoedd Groeg o'r rhagorfreintiau a roddasid iddynt gan freninoedd Syria. Dywedwyd eisoes i Antiochus, a gyfenwyd Mawr, drosglwyddo dwy fil o deuluoedd Iuddewig o Babilonia i Asia Leiaf. Yr oedd eu hiliogaeth y pryd hyn mewn gorthrymder mawr oddiwrth y trigolion cenedlig; ond trwy eiriolaeth Herod cawsant ryddhad oddiwrth y pethau oedd yn eu blino. Ar ei ddychweliad i Jerusalem, adroddodd Herod i'r Iuddewon ei lwyddiant yn achos eu brodyr pellenig; ac ym mhellach i ryngu bodd iddynt, maddeuodd y bedwaredd ran o'u trethau, yr hyn a dderbyniwyd ganddynt gyda mawr orfoledd a diolchgarwch.

Yn y blynyddoedd olaf o'i fywyd ni chafodd Herod ond gofidiau parhaus oddiwrth ei deulu. Yr oedd ei feibion, Alexander ac Aristobulus, yn datgan yn gyhoeddus eu bwriad o ddial ar y rhai a fuasai yn offerynol i ddienyddiad eu mam Mariamne. Am hyn, wedi eu cyhuddo ger bron llŷs barnol, trwy orchymyn Herod hwy a lindagwyd yn Samaria, a alwyd y pryd hyn dan yr enw Sebaste, er anrhydedd i Augustus, yr hwn yn yr iaith Roeg a alwyd Sebastos, sef *addoladwy*. Yn y flwyddyn 6 cyn geni Crist, a'r 32 i Herod, y bu hyn. Yn yr un flwyddyn, ym mis Mehefin, y cafodd Zacharïas y weledigaeth yn y deml (*Luc* 1.) am ba un y mae traethiad byr ym mlaen. Ym mhen chwe mis ar ol i Elizabeth ymddwyn, ymddangosodd yr angel Gabriel, yn niwedd mis Rhagfyr yn y flwyddyn hon, i Mair Forwyn yn Nazareth, i hysbysu iddi am genedliad yr Arglwydd Iesu gan yr Yspryd Glân.

Yn y flwyddyn 5 cyn geni Crist, a'r 33ain i Herod, galwyd ar yr Iuddewon yn Palestina i gymmeryd llw o ffyddlondeb i Augustus Cæsar, a Herod. Ond gwrthododd oddeutu saith mil o'r Phariseaid, gan dybied nad oedd gyfreithlon iddynt dyngu ffyddlondeb i un tywysog nad oedd o waedoliaeth Israel. Am hyn rhoddodd Herod ddirwy trwm arnynt, yr hwn a dalodd gwraig Pheroras brawd Herod drostynt o'i zel i'r *sect* hòno. Er mwyn ei gwobrwyo am y gymmwynas, cymmerodd rhai arnynt i brophwydo, y byddai i'r Arglwydd drosglwyddo y goron o deulu Herod i hiliogaeth Pheroras o'r wraig hon, yr hyn a roes achlysur i rai geiriau a gweithredoedd gwrthryfelgar ym mhlith y bobl. Pan glybu Herod am hyn, trwy ei chwaer Salome, rhoddodd amryw o'r Phariseaid i farwolaeth, heblaw amryw yn ei deulu ei hun. Ganwyd Ioan Fedyddiwr oddeutu cyhydedd y gwanwyn, a gŵyl y pasc yn y flwyddyn hon. Yn y cyfamser cauwyd teml Janus yn Rhufain, yn arwydd o heddwch cyffredinol trwy y byd. Yr oedd pyrth y deml hon yn agored yn amser rhyfel, ac yn gauad yn amser heddwch. Yr oedd

hyn yn fath o rag-ddarpariaeth pur addas i ddyfodiad Tywysog heddwch i'n byd ni; canys ganwyd ef yn Bethlehem oddeutu y cyhydedd Hydref ar ŵyl y pebyll yn y flwyddyn hon.

PENNOD XLV.

Augustus Cæsar yn trethu yr Ymerodraeth Rufeinig.

Yr oedd Augustus oddeutu tair blynedd o'r blaen, sef yn y flwyddyn 8 cyn geni Crist, wedi rhoddi gorchymyn i drethu yr holl Ymerodraeth Rufeinig (yr hon oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus) hyny yw, i gymmeryd cyfrif o'r holl bersonau a'u meddiannau, i'r diben i'w trethu. Yr oedd y swyddwyr i ba rai yr ymddiriedwyd y gorchwyl hwn yn nhalaeth Syria, o ba un yr oedd Judea yn rhan, wedi bod yn ei gylch dros dair blynedd, pan alwyd am Joseph, a Mair ei wraig ddyweddiedig, o Nazareth yn Galilea i Bethlehem dinas Dafydd, am eu bod o dŷ a thylwyth Dafydd. Gan fod gwahaniaeth y llwythau yn parhau etto, y mae yn debygol i'r holl Iuddewon yn Judea fyned at eu llwythau a'u trigfanau priodol i gael eu trethu y pryd hyn. Sentius Saturninus, rhaglaw Syria, oedd yn goruwchwylio y trethiad hwn (yn ol tystiolaeth *Tertulian)* yn y gwledydd perthynol i'r dalaeth hòno. Ond er i ddesgrifiad o'r personau a'u meddiannau gael ei wneuthur yn y flwyddyn hon, ni thalwyd y trethau gan yr Iuddewon i'r Rhufeiniaid hyd y 12fed flwyddyn wedi hyny, pan ddiorseddwyd Archelaus mab Herod, ac y gwnaed Cyrenius yn rhaglaw ar Syria. Enw Rhufeinig Cyrenius oedd Publius Sulpitius Quirinus, yr hwn yr oedd y Groegiaid, yn ol eu dull o lefaru, yn ei alw Cyrenius. *Luc* 2. 1, 2. Y mae y pethau perthynol i enwaediad Crist, ei gyflwyniad i'r Arglwydd yn y deml, a thystiolaeth Simeon ac Anna am dano, mor hysbys fel nad rhaid ymhelaethu am danynt. Ar ol cyflawni pob peth yn ol deddf yr Arglwydd, dychwelodd Joseph a Mair gyd â'r Iesu i Nazareth, eu dinas gartrefol, lle cyrhaeddasant oddeutu diwedd y flwyddyn 5 cyn geni Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin. *Luc* 2. 39.

Tua diwedd y flwyddyn 4 cyn geni Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin, yn y 34ain i Herod, a'r 27ain i Augustus, y daeth y doethion o'r dwyrain i Jerusalem, am ba rai y mae sylwad ym mlaen ar ol y Cysondeb, &c. Wedi cael eu cyfarwyddo i Bethlehem, ac heb gael yr Iesu yno, arweiniwyd hwynt gan y seren i Nazareth. Ac wedi addoli yr Iesu, ac offrymu eu hanrhegion (trwy ba rai y cafodd ei rïeni fodd i ffoi gyd âg ef i'r Aipht) hwy a rybuddiwyd mewn breuddwyd i ddychwelyd i'w gwlad ar hyd ffordd wahanol oddiwrth yr un y daethant ar hyd-ddi. Pan siomwyd Herod trwy na ddychwelodd y doethion i Jerusalem, danfonodd wyr i'w cyrchu yn ol, tybygid, ar hyd y ffordd y daethant i Judea; a chan na chawsant hwynt, gorchymynodd ladd y plant yn Bethlehem

a'i chyffiniau, o ddwy flwydd oed a than hyny. Yn y cyfamser, rhybuddiwyd Joseph mewn breuddwyd i ffoi i'r Aipht gyd â'r mab bychan a'i fam, gan fod yr Arglwydd yn rhagweled y byddai i Herod ei geisio i'w ddifetha. Gan hyny, ymadawodd Joseph gyda hwynt yn y nos, heb fynegi i neb i ba le yr oedd yn myned. Ychydig wedi hyny, tybygid, clywodd Herod fod y plentyn yr oedd yn ceisio ei ddifetha yn Nazareth, i ba le yr anfonodd i'w ladd: ond ni allodd neb yno ddywedyd dim amgen na'i fod wedi cael ei symud oddi yno lle nis gwyddent. Gellir casglu y pethau hyn oddiwrth *Mat.* ii.

PENNOD XLVI.

Marwolaeth Herod, &c.

Oddeutu dechreu y flwyddyn ganlynol, sef y 3edd o flaen y Cyfrif Cyffredin o enedigaeth Crist, syrthiodd Herod i'r clefydau blin, o ba rai y bu farw ychydig cyn gŵyl y pasc, yn y 70ain flwyddyn o'i oed, ac yn y 34ain flwyddyn o'i deyrnasiad, os cyfrifir o farwolaeth Antigonus; ond y 37ain er pan urddasid ef yn frenin gan Senedd Rhufain, fel y mae *Josephus* yn dywedyd mewn amryw fanau o'i lyfr. Pan oedd Herod yn ei glefyd, dychwelodd ei fab Antipater o Rufain (lle buasai i geisio sicrhau y goron iddo ei hun ar ol marwolaeth ei dad) heb wybod am y cyhuddiadau oedd yn ei erbyn ynghylch parotôi gwenwyn i'w dad; ac ar ei ddyfodiad rhoddwyd ef yn ngharchar; ac wedi ei ddwyn ger bron llys barnol, profwyd y peth yn ei erbyn, a rhoddwyd ef i farwolaeth bum niwrnod o flaen marwolaeth ei dad. Daeth y gair fod Herod wedi marw cyn ei fod; yr hyn a roddodd achlysur i amryw o'r Iuddewon yn Jerusalem i ruthro i ddinystrio amryw bethau a osodasai i fynu yn groes i'r gyfraith, er mwyn rhyngu bodd i'r Rhufeiniaid. Ym mhlith pethau ereill, tynasant i lawr yr eryr euraidd oddiar un o byrth y deml, ac a'i torasant yn ysgyrion. Daliwyd dau flaenor yn y terfysg, sef Judas a Mathias, ynghyd â 40 ereill, y rhai a ddygwyd i Jericho, lle yr oedd y brenin yn gorwedd yn glaf. Y blaenoriaid a losgwyd yn fyw, a'r lleill a ddienyddiwyd. Pan oedd Herod yn agosâu at ei ddiwedd, dychymmygodd fwriad mor ofnadwy na ddaeth ei gyffelyb, hwyrach, i galon neb. Gan ei fod yn gwybod casineb yr Iuddewon tu ag ato, meddyliodd na byddai dim galar ar ei ol, ond yn hytrach llawenydd cyffredinol. Fel na byddai eisieu galarwyr ar ei ol, danfonodd am holl benaethiaid ei deyrnas i ddyfod ato; a phan ddaethant, cauodd arnynt yn y *Circus*, math o chwareu-le crwn, a muriau uchel o'i amgylch; a gwnaeth i'w chwaer Salome, a'i gwr Alexas, addaw trwy lŵ i ddanfon y milwyr i mewn atynt i'w rhoddi oll i farwolaeth, pan byddai efe ei hun farw. 'Trwy hyn,' meddai, 'y caf alarwyr i'm harwyl trwy yr holl wlad.' Ond er gwaethed oedd Salome a'i gwr, ni allasant fyned trwy y fath

orchwyl gwaedlyd, ond gollyngwyd pawb yn rhyddion. Yr oedd arwyddion neillduol o farn yr Arglwydd ar Herod yn ei glefyd, fel y mae *Eusebius* yn adrodd o *Josephus:* ' Yr oedd ei glefyd yn ychwanegu fwy fwy mewn poenau dirfawr oddiwrth Dduw, yr hwn oedd yn dial arno am yr amryw ddrygau anferth a fuasai yn euog o honynt. Yr oedd twymyn araf arno; yr hwn, er nad oedd yn deimladwy i radd fawr oddi allan, etto oddi mewn yr oedd yn llosgi gyda phoethder angherddol. Heblaw hyn, yr oedd ganddo y fath awydd i fwyd nad oedd dim digoni arno. Yr oedd ei goluddion yn gorfriwedig, a'i ddoluriau yn ddirfawr. Yr oedd ei draed wedi chwyddo, ac o honynt y tarddai math o lŷd gwydn disglaer. O gor-friw wedi tori allan yn ei ddirgeloedd, yr oedd pryfed a llau yn llifeirio. Ei anadl oedd fyr a drewedig, a pheswch blin arno. Daeth dirgryniadau yn holl ranau ei gorph, y rhai a roisant derfyn ar ei fywyd truenus yn y byd hwn.' Yr oedd ei boenau mor annioddefol fel yr amcanodd frathu ei hun â chyllell; ond rhwystrwyd ef gan un o'r gweision. *Josephus. Prideaux.* Y mae yn deilwng o sylw fod amryw erlidwyr wedi marw mewn cyffelyb fodd.

Fel y gallo y darllenydd wahaniaethu rhwng amryw o deulu Herod o'r un enw, rhoddir yma ychydig hanes am ei hiliogaeth. Yr oedd gan yr Herod cyntaf, a gyfenwyd Mawr, naw o wragedd, a phlant o saith o honynt. O Mariamne, o deulu yr Asmoneaid, y cafodd Alexander ac Aristobulus; y rhai, fel eu mam, a roddodd i farwolaeth. O Doris y cafodd Antipater, yr hwn a ddienyddiwyd bum niwrnod o flaen ei farwolaeth ei hun. O Malthace y cafodd Archelaus, yr hwn a'i dilynodd yn yr orsedd, (*Mat.* 2. 22.) a Herod a gyfenwyd Antipas, tetrarch Galilea, a Pherea. *Mat.* 14. 1, 3, 6. *Marc* 6. 14. *Luc* 3. 1. a 8. 3. a 9. 7. a 13. 31. a 23. 7. O Cleopatra y cafodd Philip, tetrarch Iturea a gwlad Trachonitis. *Luc* 3. 1. O Mariamne, merch Simon yr archoffeiriad, y cafodd Herod Philip, yr hwn a elwir Philip yn *Mat.* 14. 3. *Marc* 6. 17. yr hwn a briododd Herodias ei nith, yr hon a'i gadawodd i briodi ei hewythr arall, sef Herod Antipas. Aristobulus, mab Herod Fawr o Mariamne, a briododd Berenice, ac a gafodd o honi fab a merch, sef Herod a gyfenwyd Agrippa, yr hwn a laddodd Iago brawd Ioan (*Act.* 12. 2.) a Herodias, yr hon a briododd ei hewythriaid, ac a gafodd Salome o'r cyntaf. Hon a ddawnsiodd ger bron Herod Antipas, ac a gafodd ben Ioan Fedyddiwr yn wobr. Gwnaed Herod Agrippa, brawd Herodias, yn frenin ar holl deyrnas ei daid, yr Herod cyntaf, gan Claudius Cæsar, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, yr hon oedd y flwyddyn 41 o oed Crist, am ei fod yn offerynol, tra yr oedd yn Rhufain, i rwyddhau ffordd Claudius i'r orsedd ar ol marwolaeth Caius Caligula. Ar ol teyrnasu dair blynedd, yswyd ef gan bryfed yn Cæsarea. *Act.* 12. 19—24. *Joseph. Bell. Jud. l.* 2, *c.* 10. Yr Herod Agrippa hwn oedd dad i Agrippa, a'i chwiorydd Berenice a Drusila. *Act.* xxvi. Ar

ol marwolaeth Herod Agrippa, gwnaed Judea drachefn yn dalaeth Rufeinig, dan raglawiaeth Cuspius Fadus. Ond rhoddwyd y wlad fechan a alwyd Chalcis, yn Syria, i'w fab Agrippa, gyd âg enw brenin.

PENNOD XLVII.

Archelaus mab Herod.

Rhanodd Herod, a gyfenwyd Mawr, ei wledydd rhwng ei feibion, yn ol ewyllys a wnaeth ychydig cyn ei farwolaeth. Cafodd Archelaus Judea, Idumea, a Samaria, gyd âg enw brenin, trwy ganiatâd Augustus Cæsar, at ba un y cyrchodd i Rufain ar ol marwolaeth ei dad. Ond cyn iddo allu cychwyn, lladdodd yn agos i dair mil o'r Iuddewon yn y deml, y rhai a godasent derfysg am na roddid cyfiawnder yn erbyn y rhai a fuasent yn achos o farwolaeth y rhai a dynasent i lawr yr eryr auraidd. Y mae *Josephus (Bell. Jud. l.* 2, *c.* 2, 3.) yn dywedyd fod terfysgiadau a gwrthryfeloedd yn holl wlad Archelaus tra bu yn absennol yn Rhufain, y rhai ni allai Quintilius Farus, y blaenor milwraidd Rhufeinig, eu gostegu heb dywallt llawer o waed, a chroeshoelio yn agos i ddwy fil. Y flwyddyn ym mha un y bu farw Herod, sef y 3edd cyn geni Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin, oedd y gyntaf o deyrnasiad Archelaus, i ba un y cyfrifir deng mlynedd; ond nid yn gyflawn, gan iddo gael ei ddiorseddu gan Augustus yn ei 10fed flwyddyn.

Yn y flwyddyn 1af i Archelaus, rhybuddiwyd Joseph mewn breuddwyd i fyned o'r Aipht, gyd â'r Iesu a'i fam, i dir Israel. Ond pan glybu fod Archelaus yn teyrnasu yn lle ei dad, ofnodd fyned trwy Judea; gan hyny, amgylchodd y Môr Marw, tybygid, ac aeth trwy y wlad tu hwnt i'r Iorddonen i Nazareth yn Galilea. *Mat.* 2. 22, 23.

Y 4edd flwyddyn i Archelaus, yr 31ain i Augustus Cæsar, a'r 4009 o oed y byd, oedd blwyddyn enedigol Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin a sefydlwyd gan Dionysius Exiguus, fel y dangoswyd, yr hyn oedd ynghylch $4\frac{1}{4}$ blynedd ar ol gwir amser ei enedigaeth, fel y profir ym mlaen. Ac yn hyn y mae yr holl Amseryddion diweddar, gan mwyaf, yn cytuno. Y flwyddyn hon yw y 1af o'r 7fed Dosparth.

Yn y 10fed flwyddyn o'i deyrnasiad, cafodd Archelaus wŷs i fyned i Rufain, i ateb i'r cyhuddiadau a wnaed yn ei erbyn am ei ddrwg-lywodraeth. Deolwyd ef i Fienne yn Ffraingc, a gwnaed Judea yn dalaeth Rufeinig.

Taflen 2, o'r Chweched Dosparth, yn dangos y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant ynddi, ac yn cynnwys 587 o flynyddoedd.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Brenhinoedd Babilon.		Er Caethglud Judah.	Y Digwyddiadau mwyaf hynod yn y Chweched Dosparth, gyd â'r Proffadau.
3422	587	Nebuchodonosor	20	20	Nebuchodonosor yn dychwelyd o Babilon ar ol dinystr Jerusalem; yn gwneuthur y ddelw aur, (*Dan.* 3. 1.) yn ei 20fed flwyddyn yn ol y Cyfrif Iuddewig, ond y 18fed yn ol Cyfrif y Babiloniaid. Jeremiah a gweddillion Judah yn myned i'r Aipht. *Jer.* 43. 5, 6, 7.
3423	586		21	21	Nebuchodonosor yn dychwelyd i Palestina, ac yn rhoddi gwarchae ar Tyrus, ar y cyfandir, dros 13 blynedd. *Ezec.* 29. 17, 18.
3436	573		34	34	Ar ol cymmeryd Tyrus, yn y 26ain flwyddyn o gaethgludiad Jehoiacin, y mae yn cyrchu i'r Aipht. *Ezec.* 29. 17—20.
3438	571		36	36	Ar ol anrheithio yr Aipht, a gwneuthur Amasis yn frenin yn lle Pharaoh-Hophra, dychwelodd i Babilon. *Ezec.* xxx.
3439	570		37	37	Pharaoh-Hophra a leddir gan Amasis. *Ezec.* 31. 18.
3440	569		38	38	Nebuchodonosor yn colli ei synwyrau dros saith mlynedd.
3446	563		44	44	Adferir ef i'w synwyr a'i freniniaeth. *Dan.* iv.
3447	562		45	45	Nebuchodonosor yn marw, a'i fab, Efil-merodach, yn teyrnasu.
3448	561	Efil-merodach	1	46	Rhyddheir Jehoiacin o garchar yn y 37 flwyddyn o'i gaethgludiad. 2 *Bren.* 25. 27. *Jer.* 52. 31—44.
3449	560		2	47	Efil-merodach a leddir, a Neriglissar, gwr ei chwaer, yn teyrnasu yn ei le yn Babilon. *Prideaux.*
3450	559	Neriglissar	1	48	Yn y flwyddyn laf i Neriglissar, dechreuodd Cyaxares, neu Darius y Mediad, deyrnasu yn Media. Cyrus yn dwyn cynnorthwy i'r Mediaid yn erbyn y Babiloniaid.
3453	556		4	51	Lleddir Neriglissar gan Cyrus mewn brwydr, a Laborosoarchod ei fab a leddir gan ei ddeiliaid, ar ol teyrnasu naw mis.
3454	555	Belsassar	1	52	Nabonadius, neu Belsassar, mab Efil-merodach yn dechreu teyrnasu.
3461	548		8	59	Cyrus yn gorchfygu Crœsus wrth yr afon Halys, ac yn cymmeryd Sardis a Chrœsus ynddi. *Prideaux.*
3469	540		16	67	Cyrus, ar ol darostwng amryw wledydd, yn rhoi gwarchae ar Babilon yn nechreu y flwyddyn hon.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Brenin. Babilon a Persia.		Er Caethglud Judah.	Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
3470	539	Belsas.	17	68	Cyrus yn cymmeryd Babilon, ac yn lladd Belsassar tua diwedd y flwyddyn. *Dan.* 5. 30.
3471	538	Dar. Med.	1	69	Darius y Mediad a wneir yn frenin Babilon. *Dan.* 5. 31.
3472	537		2	70	Darius y Mediad yn marw, a Cyrus yn teyrnasu. Y 70 mlynedd o gaethiwed Babilon yn diweddu.
3473	536	Cyrus	1		Yr Iuddewon yn dychwelyd dan Zorobabel a Josua. *Ezra* 1. 1.
3474	535		2		Dechreuir adeiladu yr ail deml. *Ezra.* 3. 7—13.
3475	534		3		Rhwystrir y gwaith trwy achwynion y Samariaid. *Ezra* 4. 4, 5.
3477	532		5		Daniel yn marw yn y flwyddyn hon, fel y bernir, oddeutu 91 oed.
3479	530		7		Cyrus yn marw yn 70 oed. *Prideaux.*
3480	529	Cambyses	1		Cambyses mab Cyrus yn teyrnasu. Gelwir ef Ahasferus yn *Ezra* 4. 6. Safodd gwaith y deml tra teyrnasodd. *Ezra* 4. 5.
3483	526		4		Cambyses yn darostwng yr Aipht, a wrthryfelasai yn ei erbyn.
3484	525		5		Ac yn gwneuthur cyrch aflwyddiannus yn erbyn Ethiopia.
3487	522		8		Cambyses yn marw, ar ol teyrnasu saith mlynedd a phum mis; a Smerdis y Magiad trwy dwyll yn traws-feddiannu y deyrnas.
		Smerdis, 7 mis.			Smerdis, yr hwn a elwir Artaxerxes, *Ezra* 4. 7. ar ol teyrnasu saith mis, a laddwyd gan saith tywysog Persia. *Prideaux.*
3488	521	Darius Hystaspis	1		Darius Hystaspis, un o saith dywysog Persia, yn ennill y deyrnas trwy weryriad ei geffyl—yn dechreu teyrnasu. *Ezra* 4. 5. *Zech.* 7. 1. *Hag.* 1. 1.
3489	520		2		Y mae yn rhoi caniatâd i adeiladu y deml. *Ezra* 5. 13, 14, 15. a 6. 1—14. *Hag.* 1. 1. *Zech.* 1. 1.
3490	519		3		Tatnai a'i gyfeillion yn ysgrifenu at Darius i wybod ei ewyllys ynghylch adeiladu y deml. *Ezra* 5. 6—17.
3491	518		4		Darius yn peri chwilio, ac yn cael gorchymyn Cyrus, yr hwn a gadarnhaodd; a gwaith y deml a aeth ym mlaen. *Ezra* 6. 1—12. Y mae 70 mlynedd er dinystr Jerusalem a theml Solomon. *Zech.* vii.
3493	516		6		Babilon yn gwrthryfela a gymmerir gan Darius, ar ol gwarchae o 20 mis. Yr ail deml a orphenir ac a gyssegrir. *Ezra* 6. 15—20.
3506	503		19		Adferir Tyrus i'w breintiau gynt ym mhen 70 mlynedd ar ol ei dinystrio gan Nebuchodonosor. *Esa.* 23. 15, 17.
3517	492		30		Zoroastres (y twyllwr mwyaf a fu yn y dwyrain ond Mahomet) yn dyfod i Susa, ac yn ennill Darius a'i

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Breninoedd Persia.		Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
		Darius Hystaspis		benaethiaid oddiwrth grefydd y Sabiaid at y Magiaid.
3522	487		35	Lleddir ef a 80 o'i offeiriaid. Yr Aipht yn gwrthryfela.
3523	486		36	Darius yn ordeinio i'w fab Xerxes fod yn frenin ar ei ol, ac yn marw.
3524	485	Xerxes	1	Xerxes yn cadarnhau i'r Iuddewon eu breintiau. *Josephus.*
3426	483		3	Ar ol darostwng gwrthryfel yr Aipht, y mae yn parotôi i ryfela yn erbyn y Groegiaid.
3529	480		6	Ar ol gauafu yn Sardis gyd â'r fyddin fwyaf lliosog yn hanes y byd, y mae yn dyfod i dir Groeg; ac wedi aflwyddo ar fôr a thir, yn dychwelyd yn warthus i Sardis.
3531	478		8	Xerxes yn anrheithio teml Bel yn Babilon, a themlau ereill. *Esa.* 21. 9.
3544	465		21	Wedi myned yn ddirmygus gan ei ddeiliâid, lleddir ef yn ei wely gan Artabanus.
3545	464	Artaxerxes Longimanus	1	Artaxerxes Longimanus, neu *Llaw Hir*, trydydd mab Xerxes, yn teyrnasu yn lle ei dad. Efe oedd Ahasferus llyfr Esther.
			3	Ar ol gorchfygu ei frawd Hystaspis, gwnaeth y wledd a grybwyllir yn *Est.* 1. 3. Difreinir Fasti. *Est.* 1. 10—22.
3548	461		4	Cesglir y gwyryfon, ac Esther yn eu plith. *Est.* 2. 3, 8.
3551	458		7	Ezra yn myned i Jerusalem yn y mis cyntaf, sef Nisan, trwy orchymyn y brenin, ym mhen 78 mlynedd ar ol y flwyddyn gyntaf i Cyrus. O'r flwyddyn hon y mae y 70 wythnos (*Dan.* ix.) i'w cyfrif. Gwneir Esther yn frenines yn y 10fed mis, sef Tebeth. *Ezra* 7. 8, 9, 14. *Est.* 2. 16.
3552	457		8	Mordecai yn datguddio bradwriaeth Bigthan a Theres. *Est.* 2. 21, 22, 23.
3556	453		12	Haman yn bwriadu dinystr yr Iuddewon, yn syrthio i'r ffos a gloddiasai, a Mordecai yn cael ei ddyrchafu. *Est.* 3. 1, &c.
3564	445		20	Danfonir Nehemiah i Jerusalem; adeiladir y caerau. *Neh.* i, ii.
3565	444		21	Nehemiah yn pobli Jerusalem, ac yn diwygio gwlad ac eglwys. Ezra, wedi bod amryw flynyddau yn ysgrifenu ysgrythyrau yr Hen Destament, yn eu darllen yn gyhoeddus. *Neh.* viii.
3576	433		32	Nehemiah yn dychwelyd i lŷs Persia. *Neh.* 5. 14. a 13. 6.
3580	429		36	Malachi yn prophwydo oddeutu yr amser yma.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Breninoedd Persia.	Long.	Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
		Artax.		
3581	428		37	Nehemiah, fel y bernir, yn dychwelyd i Jerusalem. *Neh.* 13. 7. Genir Plato y philosophydd Groegaidd.
3585	424		41	Artaxerxes yn marw, a'i fab ordderch Darius Nothus, sef y basdardd, yn sefydlu ei hun ar yr orsedd.
		Darius Nothus		
3586	423		1	Darius Nothus yn dechreu teyrnasu. *Prideaux.*
3600	409		15	Y mae y saith wythnos o'r 70 yn diweddu, ar ol sefydlu cyflwr gwladol ac eglwysig yr Iuddewon gan Ezra a Nehemiah. *Dan.* 9. 25.
3601	408		16	Adeiladir y deml ar fynydd Garizim, gan Manasseh, daw Sanbàlat, a mab Joiada yr arch-offeiriad. *Neh.* 13. 28. *Ioan* 4. 21.
3604	405		19	Darius Nothus yn marw; a'i fab, Artaxerxes Mnemon, yn teyrnasu yn ei le.
		Artaxerxes Mnemon		
3605	404		1	Gorphenir y rhyfel Peloponesaidd rhwng y Lacedæmoniaid a'r Atheniaid, ar ol parhau 28 mlynedd, trwy gymmeriad Athen.
3606	403		2	Cyrus, rhaglaw Asia Leiaf, yn gwrthryfela yn erbyn ei frawd Artaxerxes, ac yn bwriadu ei ddiorseddu.
3608	401		4	Gorchfygir a lleddir Cyrus ym mrwydr Cunacsa, yn nhalaeth Babilon. Encil y deng mil Groegiaid, dan dywysiad Xenophon.
3610	399		6	Rhoddir Socrates i farwolaeth yn Athen, trwy yfed sûg cegid, am ddysgu nad oedd ond un Duw.
3625	384		21	Genir Aristotl y philosophydd Groegaidd.
3643	366		39	Johanan yr arch-offeiriad yn lladd ei frawd Josua yn y deml, a'r rhaglaw Persiaidd yn gosod dirwy drom ar Judea am saith mlynedd.
3649	360		45	Y 14 wythnos o'r 70 yn diweddu yn y flwyddyn hon.
3650	359		46	Artaxerxes yn marw yn 94 blwydd oed, a'i fab Ochus yn teyrnasu.
		Ochus		
3651	358		1	Gwrthryfeloedd a therfysgiadau mawrion yn Ymerodraeth Persia.
3653	356		3	Genir Alexander Fawr, mab Philip brenin Macedon.
3659	350		9	Ochus, ar ol cymmeryd a dinystrio Sidon, yn darostwng yr Aipht.
3661	348		11	Plato, y philosophydd Groegaidd, yn marw, yn 80 mlwydd oed.
3671	338		21	Bagoas yn gwenwyno Ochus, ac yn dyrchafu Arogus i'r orsedd.
		Arogus		
3672	337		1	Philip, brenin Macedon, a wneir yn gadben y Groegiaid yn y rhyfel yn erbyn y Persiaid.
3673	336		2	Arogus a wenwynir gan Bagoas, yr hwn a ddyrchafodd Darius Codomanus i'r orsedd. Philip, brenin Macedon, a leddir gan Pausanias, a'i fab Alexander yn teyrnasu yn ei le.
		Darius Codomanus.		
3674	335		1	Darius Codomanus yn gwneuthur i Bagoas yfed y

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Breninoedd y Groegiaid.	Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
		Darius Codomanus	gwenwyn a barotoisai iddo ef. Alexander Fawr yn cael ei wneuthur yn gadben y rhyfel yn erbyn y Persiaid yn lle ei dad.
3675	334	2	Alexander yn ennill brwydr Granicus yn Asia Leiaf.
3676	333	3	Y mae yn ennill brwydr Issus yn Cilicia.
3677	332	4	Ac yn cymmeryd ac yn dinystrio Tyrus a Gaza; a gwlad yr Aipht yn ymostwng iddo. Terfynir Ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid.
		Alexander Fawr	
3678	331	1	Alexander yn gorchfygu Darius mewn brwydr benderfynol gerllaw Arbela yn Assyria.
3679	330	2	Lleddir Darius yn ei fföedigaeth gan Bessus.
3685	324	8	Alexander, wedi darostwng amryw wledydd, yn dychwelyd i Babilon, ac yn marw trwy yfed i ormodedd; a'i frawd ordderch, Philip Aridæus, a wneir yn frenin mewn enw yn unig.
		Philip Aridæus	
3686	323	1	Cadbeniaid Alexander Fawr yn rhanu taleithiau yr Ymerodraeth yn eu plith, yr hyn sydd yn magu llawer o ryfeloedd o hir barhad.
3688	321	3	Aristotl yn marw.
3692	317	7	Lleddir Philip Aridæus, a'i wraig Euridice, gan Olympius, mam Alexander Fawr.
		Alexander Ægus	
3693	316	1	Alexander Ægus yn teyrnasu mewn enw yn unig.
3694	315	2	Ptolemy, Seleucus, Cassander, a Lysimachus, yn erbyn Antigonus. Dyma y pedwar corn. *Dan.* 8. 8.
3698	311	6	Yr 21 wythnos o'r 70 yn diweddu.
3699	310	7	Cassander yn lladd Alexander Ægus, a'i fam Roxana. Er hyny y mae Ptolemy yn ei ganon yn cyfrif pum mlynedd yn ychwaneg iddo, fel pe buasai etto yn fyw, sef hyd y flwyddyn 1af i Ptolemy Soter.
3704	305	12	Antigonus, ar ol cyrchu i'r Aipht, yn cael ei yru yn ol gyda mawr golled.
		Ptolemy Soter	
3705	304	1	O'r flwyddyn hon cyfrifir teyrnasiad Ptolemy Soter yn yr Aipht.
3708	301	4	Gorchfygir a lleddir Antigonus ym mrwydr Ipsus.
3709	300	5	Seleucus Nicator yn adeiladu Antiochia yn Syria, yr hon a fu wedi hyny yn ben dinas teyrnas Syria.
3716	293	12	Ac yn adeiladu Seleucia ar y Tigris.
3724	285	20	Ptolemy Soter yn gwneuthur ei fab ieuengaf, Ptolemy Philadelphus, yn frenin yn yr Aipht.
		Ptolemy Philadelphus	
3725	284	1	Ptolemy Soter yn marw, yn 84 oed. Addoliad Serapis a ddygir i'r Aipht.
3729	280	5	Lleddir Seleucus Nicator gan Ptolemy Ceraunus, ar ol teyrnasu 33 blynedd, a'i fab, Antiochus Soter, yn teyrnasu yn Syria.
3732	277	8	Ysgrythyrau yr Hen Destament a gyfieithir i'r Groeg gan y LXX.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Bren. Groegaidd yr Aipht.		Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
3747	262	23	Ptolemy Philadelphus	Yr 28 wythnos o'r 70 yn diweddu.
3748	261	24		Antiochus Soter yn marw; a'i fab, Antiochus Theus, yn teyrnasu yn Syria.
3759	250	25		Amryw o'r taleithiau dwyreiniol yn gwrthryfela yn erbyn Antiochus Theus, ac Arsaces yn sylfaenu breniniaeth y Parthiaid.
3760	249	36		Antiochus Theus yn ysgar Laodice, ac yn priodi Berenice, merch Ptolemy Philadelphus. *Dan.* 11. 6.
3762	247	38		Y mae Ptolemy Philadelphus yn marw; a'i fab Ptolemy Euergetes, yn teyrnasu yn yr Aipht.
3763	246	1	Ptolemy Euergetes	Lleddir Berenice a'i mab gan Laodice, yr hon a leddir gan Ptolemy Euergetes, yr hwn a ennillodd ran fawr o deyrnas Syria. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i Seleucus Calinicus yn Syria.
3784	225	22		Seleucus Calinicus, wedi ei gymmeryd yn garcharor gan Arsaces brenin Parthia, yn marw o godwm oddiar ei geffyl; a'i fab, Seleucus Ceraunos, yn teyrnasu yn Syria.
3787	222	25		Ptolemy Euergetes yn marw; a'i fab, Ptolemy Philopator, yn teyrnasu. Hon oedd y gyntaf i Antiochus Fawr yn Syria.
3788	221	1	Ptolemy Philopator	Rhyfel yn tori allan rhwng Ptolemy Philopator ac Antiochus Fawr.
3781	218	4		Antiochus Fawr yn darostwng Galilea, Samaria, &c.
3782	217	5		Philopator yn rhoddi dymchweliad mawr i Antiochus Fawr yn Raphia.
3796	213	9		Y 35 wythnos o'r 70 yn diweddu yn y flwyddyn hon.
3804	205	17		Antiochus Fawr yn dychwelyd i Antiochia, wedi bod yn absennol saith mlynedd, yn rhyfela yn y dwyrain. Ptolemy Philopator yn marw.
3805	204	1	Ptolemy Epiphanes	A'i fab, Ptolemy Epiphanes, yn bump oed, yn cael ei urddo yn frenin.
3806	203	2		Antiochus Fawr yn gwneuthur cynghrair â Philip, brenin Macedon, yn erbyn brenin yr Aipht.
3807	202	3		Y Rhufeiniaid yn cymmeryd plaid brenin yr Aipht.
3812	197	8		Antiochus Fawr yn myned i Asia Leiaf i ryfela yn erbyn y Rhufeiniaid.
3816	193	12		Ptolemy brenin yr Aipht yn priodi merch Antiochus Fawr. *Dan.* 11. 17.
3817	192	13		Antiochus Fawr yn colli brwydr Magnesia, a'r rhyfel rhyngddo a'r Rhufeiniaid yn dibenu.
3822	187	18		Antiochus Fawr a leddir yn Persia; a'i fab, Seleucus Philopator, yn teyrnasu yn Syria dros 11 mlynedd.
3828	181	24		Ptolemy Epiphanes a wenwynir; a'i fab, Ptolemy Philometor, yn chwe blwydd oed, yn ei ddilyn yn y freniniaeth.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Bren. Groegaidd yr Aipht.		Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
3829	180	Ptolemy Philometor	1	Teyrnasiad Ptolemy Philometor yn dechreu dan oruchwyliaeth ei fam Cleopatra.
3834	175		6	Seleucus Philopator, brenin Syria, a wenwynir; a'i frawd, Antiochus Epiphanes, yn teyrnasu yn ei le.
3838	171		10	Onias yr arch-offeiriad a leddir trwy fradwriaeth ei frawd Menelaus. Antiochus Epiphanes yn gwneuthur ei gyrch cyntaf i'r Aipht.
3839	170		11	Yn gwneuthur ei ail gyrch i'r Aipht.
3840	169		12	Yn gwneuthur ei drydydd cyrch i'r Aipht.
3841	168		13	Yn gwneuthur ei bedwerydd cyrch i'r Aipht. Yn dinystrio Jerusalem, ac yn dechreu erlid yr Iuddewon, a Mattathias a'i feibion yn amddiffyn eu hunain.
3844	165		16	Judas Maccabæus yn ennill Jerusalem, yn puro ac yn ail-gyssegru y deml.
3845	164		17	Antiochus Epiphanes yn marw yn druenus; a'i fab, Antiochus Eupator, yn teyrnasu yn ei le. Y 42ain wythnos o'r 70ain yn diweddu.
3848	161		20	Lleddir Judas Maccabæus; a'i frawd Jonathan yn cymmeryd ei le.
3860	149		32	Adeiladir teml yn yr Aipht gan Onias, ar lun teml Jerusalem.
3863	146		35	Ptolemy Philometor yn marw; a'i frawd Physcon yn teyrnasu yn yr Aipht.
3864	145	Ptolemy Physcon	1	Y mae Physcon yn llywodraethu yn greulon.
3865	144		2	Lleddir Jonathan yn fradychus gan Tryphon; a'i frawd Simon yn dyfod yn ei le.
3874	135		11	Lleddir Simon; a'i fab, Ioan Hyrcanus, yn cymmeryd ei le.
3892	117		29	Ptolemy Physcon yn marw; a'i fab Ptolemy Lathyrus yn ei ddilyn yn yr orsedd.
3893	116	Ptolemy Lathyrus	1	Ptolemy Lathyrus, ynghyd â'i fam Cleopatra, yn dechreu teyrnasu.
3894	115		2	Y 49 wythnos o'r 70 yn diweddu yn y flwyddyn hon.
3902	107		10	Ioan Hyrcanus yn marw; a'i fab Aristobulus yn cymmeryd enw brenin yn gyntaf o deulu yr Asmoneaid.
3903	106		11	Aristobulus yn marw; a'i frawd Alexander Jannæus yn ei ddilyn yn y freniniaeth.
3923	86		31	Alexander Jannæus yn rhoi terfyn i'r rhyfel cartrefol, ac yn croeshoelio 800 o'r gwrthryfelwyr.
3926	83		34	Y Syriaid, wedi blino ar y rhyfeloedd cartrefol, yn gyru ymaith y breninoedd o hiliogaeth Seleucus Nicator, ac yn gwahodd Tigranes i deyrnasu arnynt.
3928	81		36	Ptolemy Lathyrus yn marw; a'i nai Alexander yn teyrnasu yn ei le.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.		Ymerawdwyr Rhufain.	Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
3929	80	Alexander	1	Alexander, brenin yr Aipht, yn priodi Berenice, merch Lathyrus; yn ei lladd, ac yn teyrnasu ei hunan 15eg mlynedd.
3930	79		2	Alexander Jannæus, brenin ac arch-offeiriad yr Iuddewon, yn marw; a'i wraig Alexandra yn teyrnasu yn ei le naw mlynedd.
3939	70		11	Alexandra yn marw; a'i mab ieuengaf Aristobulus yn teyrnasu yn ei lle chwe'blynedd a chwe mis.
3943	66		15	Alexander, brenin yr Aipht, yn cael ei yru i alltudiaeth; a Ptolemy Auletes, mab ordderch Lathyrus, a wneir yn frenin. Yr 56ain wythnos o'r 70ain yn diweddu yn y flwyddyn hon.
3944	65	Ptolemy Auletes	1	Y mae Pompey yn gwneuthur Syria yn dalaeth Rufeinig.
3949	60		6	Y triwyr, Pompey, Crassus, a Julius Cæsar, yn ymuno i ranu yr awdurdod yn yr ymerodraeth Rufeinig rhyngddynt.
3957	52		14	Ptolemy Auletes yn marw; a'i fab Ptolemy, yn fachgen ieuangc, gyd â'i chwaer Cleopatra, a ddyrchefir i'r orsedd.
3958	51	Cleopatra	1	Cleopatra yn 17 oed yn dechreu teyrnasu gyd â'i brawd.
3961	48		4	Julius Cæsar yn gorchfygu Pompey yn Pharsalia.
3963	46		6	Ail-adeiladir Carthage a Corinth. Julius Cæsar yn diwygio Calender y flwyddyn.
3965	44		8	Lleddir Julius Cæsar yn y Senedd-dy yn Rhufain.
3966	43		9	Y triwyr, Octafianus, Lepidus, ac Antoni, yn ymuno â'u gilydd.
3967	42		10	Gorchfygir Brutus a Chassius, dau o leiddiaid Cæsar, yn Philippi.
3969	40		12	Gwneir Antigonus yn frenin ar Judea gan y Parthiaid, a Herod gan Senedd Rhufain.
3972	37		15	Herod yn cymmeryd Jerusalem, ac Antigonus a ddienyddir.
3978	31		21	Ymleddir môr-frwydr Actium rhwng Octafianus ac Antoni. Antoni a Cleopatra yn lladd eu hunain.
3979	30	Augustus Cæsar	1	Octafianus a alwyd wedi hyny dan yr enw Augustus Cæsar, yn darostwng yr Aipht yn y mis Sextilis, a alwyd wedi hyny Awst, er anrhydedd i Augustus.
3986	23		8	Candace, Brenines Ethiopia, yn gwneuthur rhuthr i'r Aipht.
3989	20		11	Herod, yn y 18fed flwyddyn o'i deyrnasiad, yn dechreu adeiladu ac adgyweirio teml Zorobabel. O'r flwyddyn hon y mae 46 blynedd i'r pasc cyntaf o weinidogaeth Crist. *Ioan* 2. 20.
3992	17		14	Y 63ain wythnos o'r 70ain yn diweddu yn y flwyddyn hon.

Oed y Byd.	Cyn geni Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	Digwyddiadau yn y Chweched Dosparth.
3999	10	Augustus Cæsar 21	Herod yn gorphen ac yn cyssegru y deml ym mhen 9½ mlynedd o'r pasc yn ei 18fed flwyddyn.
4001	8	23	Yn y flwyddyn hon rhoddodd Augustus orchymyn am drethu yr ymerodraeth Rufeinig; yr hwn a fu dair blynedd cyn cael ei gyflawni yn Bethlehem.
4003	6	25	Zacharias yn cael y weledigaeth yn y deml (*Luc* i.) oddeutu diwedd mis Mehefin, a Mair Forwyn yn cael ei chyfarch gan yr angel ym mhen chwe mis wedi hyny.
4004	5	25	Genir Ioan Fedyddiwr oddeutu gŵyl y pasc, a Iesu Grist oddeutu gŵyl y pebyll, yn y flwyddyn hon.
4005	4	27	Y doethion yn dyfod o'r dwyrain. Lladd y plant yn Bethlehem. Joseph a Mair yn ffoi i'r Aipht gyd â'r Iesu.
4006	3	28	Herod yn marw ychydig o flaen y pasc; ac Archelaus yn teyrnasu yn ei le. Joseph yn dychwelyd o'r Aipht gyd â'r Iesu a'i fam. Y 65ain wythnos o'r 70ain yn diweddu yn y flwyddyn hon.
4008	1	30	Hon yw y flwyddyn o flaen hono ym mha un y gosodir genedigaeth Crist yn ol y Cyfrif Cyffredin, yr hwn sydd yn dechreu Ionawr y 1af o'r flwyddyn 4009 o oed y byd, oddeutu 4¼ ar ol gwir amser ei enedigaeth, fel y dangoswyd.

Y SEITHFED DOSPARTH.

O'r flwyddyn gyntaf o Oed Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin, hyd oni or phennyd ysgrifenu Llyfrau Canonaidd y Testament Newydd, cyfrifir 98 *mlynedd: canys dywedir, ar ol i Ioan ysgrifenu y Datguddiad yn ynys Patmos, yn y flwyddyn o Oed Crist* 96, *iddo ysgrifenu ei Efengyl, ar ddymuniad Esgobion Asia, yn y flwyddyn* 98, *oddeutu tair blynedd cyn ei farwolaeth.* Bedford's Chron. p. 768. *Er hyny, tybygid, oddiwrth* Dat. 1. 2. *mai y Datguddiad a ysgrifennyd yn olaf.*

Taflen 1, *o'r Seithfed Dosparth.*

Oed y Byd.	Ar ol geni Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.
4009	1	Yr 31ain i Augustus Cæsar oedd y gyntaf o'r Cyfrif Cyffredin o oed Crist.
4022	14	Teyrnasodd Augustus ar ol hyny ddeng mlynedd ei hunan, a thair blynedd gyda Tiberius, i gyd 13eg blynedd. Bu farw Augustus Cæsar Awst y 19eg, yn y flwyddyn o oed Crist 14.
4045	37	Tiberius Cæsar a deyrnasodd ar ol Augustus 22ain flynedd, 6 mis, 27ain niwrnod. Bu farw Mawrth 16eg, yn y flwyddyn o oed Crist 37.
4049	41	Caius Caligula a deyrnasodd 3 blynedd, 10 mis, a 18 niwrnod. Lladdwyd ef Ionawr 24, yn y flwyddyn 41.
4062	54	Claudius Cæsar a deyrnasodd 13 blynedd, 8 mis, ac 20 niwrnod. Bu farw Hydref 13, yn y flwyddyn 54.
4076	68	Nero a deyrnasodd 13 blynedd, 7 mis, a 26 niwrnod. Lladdodd ei hun Mehefin 9, yn y flwyddyn 68.
4077	69	Galba a deyrnasodd saith mis, a saith niwrnod, ac a laddwyd Ionawr 15, yn y flwyddyn 69. Otho a deyrnasodd 3 mis, a 2 ddiwrnod, ac a laddodd ei hun Ebrill 16, yn y flwyddyn 69. Vitelius a deyrnasodd 8 mis, a 5 diwrnod, ac a laddwyd Rhagfyr 20, yn y flwyddyn 69.
4087	79	Fflavius Vespasian a deyrnasodd 9 mlynedd, 6 mis, a 4 diwrnod. Bu farw Ionawr 24, yn y flwyddyn 79.
4089	81	Titus Vespasian a deyrnasodd 2 flynedd, 7 mis, ac 20 diwrnod. Lladdwyd ef Medi 13, yn y flwyddyn 81.
4104	96	Domitian, brawd Titus, a deyrnasodd 15 mlynedd, a 5 diwrnod. Bu farw Medi 18, yn y flwyddyn 96.
4106	98	Nerva a deyrnasodd un flwyddyn, 4 mis, ac 8 niwrnod. Bu farw Ionawr 26, yn y flwyddyn 98. *Petavius.*

D. S. Y mae blynyddoedd oed y byd, ac ar ol geni Crist, yn y Daflen hon, yn cyfateb i'r flwyddyn olaf o deyrnasiad pob un o'r Ymerawdwyr.

PENNOD I.

Ynghylch gwir Amser Marwolaeth Herod Fawr.

Y MAE yn angenrheidiol sefydlu blwyddyn marwolaeth Herod lle y rhoddir hi yn y Daflen ragflaenol, sef y flwyddyn 3 o flaen y Cyfrif Cyffredin o enedigaeth Crist, er mwyn bod mewn cysondeb â *Josephus* a'r pedwar Efengylwr. Canys pe rhoddid ei farwolaeth yn y flwyddyn 4 cyn geni Crist, fel y mae amryw Amseryddion enwog wedi gwneuthur, byddai ei oed ac amser ei deyrnasiad yn llai o un flwyddyn nag a gyfrifir iddo gan *Josephus* mewn amryw fanau o'i waith. Ym mhob man lle mae yn sôn am barhad teyrnasiad Herod, y mae yn dywedyd iddo deyrnasu 34 blynedd ar ol marwolaeth Antigonus, a 37 ar ol cael ei wneuthur yn frenin trwy ddeddf y Senedd, ac iddo farw yn y 70 flwyddyn o'i oed. Ond ni ymddengys gwirionedd yr Amseryddiaeth, a'i gysondeb âg hanesyddiaeth credadwy, ond trwy osod ei farwolaeth yn nechreu y flwyddyn 3 o flaen y Cyfrif Cyffredin o enedigaeth Crist. Pe gosodid marwolaeth Herod yn y flwyddyn 4, ychydig o flaen y Pasc, ni byddai Crist yn llawn 6 mis oed y pryd hyny; yr hyn fyddai yn rhy fychan o amser i wneuthur yr holl bethau a adroddir gan Matthew o enedigaeth Crist hyd farwolaeth Herod; sef taith y doethion o'r dwyrain i Jerusalem, Bethlehem, a Nazareth. Heblaw hyny, bu Herod gryn amser yn glaf o'r clefyd y bu farw, fel nad allai ofalu fawr am orchwylion ei deyrnas. Ond gellir casglu ei fod mewn iechyd cyffredinol pan ymddiddanodd â'r doethion. Ond yr wrthddadl fwyaf ei phwys yn erbyn gosod marwolaeth Herod yn y flwyddyn 4, pan nad allai Crist fod yn 6 mis oed, yw, y gorchymyn i ladd y plant yn Bethlehem, 'o ddwy flwydd oed a than hyny, wrth yr amser yr ymofynasai efe yn fanwl â'r doethion.' *Mat.* 2. 16. Yr oedd y doethion, yn ddiammeu, wedi dywedyd wrth Herod eu bod yn barnu i Grist gael ei eni oddeutu yr amser yr ymddangosodd y seren gyntaf iddynt; ac yn ol yr hysbysrwydd hwnw y rhoddodd Herod ei orchymyn. Ond trwy osod ei farwolaeth yn y flwyddyn 3 o flaen y Cyfrif Cyffredin, bydd Crist yn agos i flwydd a hanner oed y pryd hyny, yr hyn sydd oed mwy cyson mewn perthynas i'r plant yn Bethlehem. Yn wir, pe symudid amser genedigaeth Crist flwyddyn yn ol, sef o'r flwyddyn 5, lle gosodir ef yn ei briodol le, i'r flwyddyn 6, fe ellid, trwy hyny, gysoni oed y plant a laddwyd yn Bethlehem âg amser marwolaeth Herod, er ei roddi yn y flwyddyn 4; oud byddai yn anghyson â *Josephus*, fel y dangoswyd, ac â *Luc* 3. 23. ac â *Ioan* 2. 20. canys ni byddai Crist ond 29 mlwydd oed yn yr amser y mae Luc yn dywedyd ei fod yn 30; ac yn y Pasc cyntaf o weinidogaeth Crist ni fuasai ond 45 mlynedd er pan ddechreuasid adeiladu teml Herod. Ac ni fyddai y 15fed flwyddyn i Tiberius Cæsar yn

cyfateb i'r 30 flwyddyn o oed Ioan Fedyddiwr pan ddechreuodd ar ei weinidogaeth yn ol y gyfraith. *Luc* 3. 2. Yn lle y 15fed flwyddyn buasai yn 14eg. Ond trwy osod marwolaeth Herod yn y flwyddyn 3 o flaen y Cyfrif Cyffredin o enedigaeth Crist, y mae yr holl bethau anghyson hyn yn cael eu gochelyd, a'r Amseryddiaeth mewn cysondeb â'r hanesyddiaeth Efengylaidd, ac hefyd â *Josephus.* Er hyny ni ddylid celu fod un rheswm yn ymddangos yn gryf o blaid gosod marwolaeth Herod yn y flwyddyn 4, sef y diffyg ar y lleuad; yr hwn, y mae *Josephus* yn dywedyd, a ddigwyddodd ychydig o flaen marwolaeth Herod Fawr; ac y mae *Petavius* a'r Dr. *Hales* yn dywedyd iddo ddigwydd Mawrth 13eg, yn y flwyddyn Iuliaidd 42, a 750 er adeiladu Rhufain, yr hon sydd yn cyfateb i'r flwyddyn 4 o flaen y Cyfrif Cyffredin. Ond, i hyn gellir ateb, nad yw casgliadau ac ol-gyfrifon y dysgedigion mwyaf mewn perthynas i ddiffygiadau y lleuad, a newydd a llawn-lloerau, yn y cyn-oesoedd, bob amser yn gywir, nac yn gytunol â'u gilydd; yn ol tystiolaeth *Petavius,* a'r un y Dr. *Hales, Chron. Vol.* 1. *p.* 205, *quoting Petavius, Vol.* 2. *p.* 235. Ac y mae *Bedford (Chron. p.* 740.) yn cadarnhau na ddigwyddodd yr un diffyg ar y lleuad o flaen y Pasc yn y flwyddyn 4; ond bod un yn y flwyddyn 3, Ionawr 20fed, dri mis o flaen y Pasc. Ac yn y flwyddyn 3 y mae efe yn rhoddi lladdiad y plant yn Bethlehem, a marwolaeth Herod.

PENNOD II.

Ynghylch y 15fed Flwyddyn i Tiberius Cæsar. Luc 3. 1.

Y MAE yn angenrheidiol i gyfrif y 15fed flwyddyn hon i Tiberius o'r amser y dygwyd ef i mewn i gyfran o'r llywodraeth ymerodraethol ynghyd âg Augustus, er mwyn cysoni yr Amseryddiaeth â hanesyddiaeth Efengylaidd. Y mae *Velleius Paterculus* yn dywedyd mai tair blynedd o flaen marwolaeth Augustus y dygwyd Tiberius i ran o'r llywodraeth ar daleithiau yr Ymerodraeth, Awst 28, yn yr 41 flwyddyn o deyrnasiad Augustus, yr hon oedd yr 11eg o'r Cyfrif Cyffredin o oed Crist, a 764 er sylfaeniad Rhufain. *Macknight's Harmony, quoting Vell. Paterc. l.* 2. *c.* 21. Yn ol y cyfrif hwn yr oedd y 15fed flwyddyn i Tiberius, er pan ddechreuasai deyrnasu gyd âg Augustus, yn diweddu Awst 28, yn y flwyddyn 26 o'r Cyfrif Cyffredin, ac yn y 12fed flwyddyn o deyrnasiad Tiberius ei hunan. Yr achos o gamsyniad *Dionysius Exiguus,* a'r rhai a'i dilynasant, oedd cyfrif y 15fed flwyddyn i Tiberius o'r amser y dechreuodd deyrnasu ar ol Augustus. Trwy hyny gosododd flwyddyn genedigaeth Crist dair blynedd ar ol y gwir amser; a *Beda,* ym Mrydain (medd y Dr. *Hales)* a chwanegodd un flwyddyn at y camsyniad, trwy osod blwyddyn genedigaeth Crist yn y flwyddyn gan-

lynol i hòno, ym mha un y sefydlasai *Dionysius* hi; ac o hyny y tarddodd fod genedigaeth Crist wedi cael ei osod bedair blynedd a rhyw faint yn rhagor ar ol y gwir amser.

Yn y 15fed flwyddyn i Tiberius Cæsar y daeth gair yr Arglwydd at Ioan Fedyddiwr, pan ddechreuodd ar ei weinidogaeth, ac efe yn llawn 30 mlwydd oed, oddeutu Cyhydedd y Gwanwyn, a gŵyl y Pasc, yn y flwyddyn 26 o'r Cyfrif Cyffredin. Gwel *Num.* 4. 3, &c. Trwy olgyfrif o'r 15fed flwyddyn i Tiberius, ymddengys i Ioan gael ei eni yn y flwyddyn 5 o flaen y Cyfrif Cyffredin, lle gosodir ei enedigaeth yn y Daflen ragflaenol: a chan fod Crist yn cael ei eni yn yr un flwyddyn Iuliaidd ag Ioan, chwe mis ar ei ol, ymddengys ei fod yntau yn 30 mlwydd yn yr un flwyddyn ag Ioan, pan ddechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus ar ol ei fedydd. Pe bernid fod y 15fed flwyddyn i Tiberius, y mae Luc yn sôn am dani, yn dechreu yn union ar ol marwolaeth Augustus, parai anghysondeb rhwng yr Amseryddiaeth a hanesyddiaeth yr Efengylwyr. Byddai raid sefydlu genedigaeth Ioan Fedyddiwr un flwyddyn, a genedigaeth Crist flwyddyn a hanner ar ol marwolaeth Herod Fawr; a buasai 49 mlynedd yn y Pasc cyntaf o weinidogaeth Crist, yn lle 46, er pan ddechreuasai Herod adeiladu y deml. *Ioan* 2. 20.

PENNOD III.

Ynghylch yr Amser o'r Flwyddyn ym mha un y ganed Crist ac Ioan Fedyddiwr.

Gan fod Ioan Fedyddiwr wedi cael ei eni chwe mis o flaen Crist, pe gwyddem amser genedigaeth Ioan, byddai yn hawdd gwybod amser genedigaeth Crist. Gan fod hen dadau yr eglwysi Lladinaidd a Groegaidd yn barnu mai arch-offeiriad oedd Zacharias tad Ioan, a'i fod yn gweini yn ei swydd ar ŵyl fawr y cymmod, y 10fed dydd o'r 7fed mis, sef Tisri, oddeutu diwedd Medi, pan gafodd y weledigaeth yn y deml, *Luc* 1. 11. a chan eu bod yn barnu i Elisabeth feichiogi y 25ain o Fedi, sefydlasant amser genedigaeth Ioan y 25ain o Fehefin, yn y flwyddyn ganlynol, a genedigaeth Crist y 25ain o Ragfyr, yn niwedd yr un flwyddyn. *Bedford, p.* 416. Ond y mae gwyr dysgedig yn yr oesoedd diweddar, wrth chwilio i mewn yn fanylach i'r pethau hyn, wedi cael allan yr amserau pan oedd pob un o'r 24 dosparthiad yn gweini yn eu cylchoedd yn y deml, yn ol gosodiad Dafydd. 1 *Cron.* 24. 7—18. a 28. 13. A chan nad oedd yr arch-offeiriad yn perthyn i un o'r 24 dosparth o'r offeiriad cyffredin, y mae yn eglur nad oedd Zacharias, yr hwn oedd o ddyddgylch, neu ddosparthiad, Abia, yn arch-offeiriad.

Dechreuodd y 24 dosparthiad o'r offeiriaid ar eu gwasanaeth pan gyssegrwyd teml Solomon ar ŵyl y pebyll, yn y mis Ethanim, neu Tisri, yn y 12fed flwyddyn o'i deyrnasiad. Canys oedodd Solomon gyssegriad y deml yn agos i flwyddyn, am achosion neillduol; a thybygid, am ei fod yn rhagweled y deuai Mab Duw i deml ei gnawdoliaeth ar ŵyl y pebyll. Gwel 1 *Bren.* 6. 37, 38. a 8. 2, 63. a 8. 27. 2 *Cron.* 6. 18. Yr oedd y 24 dosparthiad yn gweini gyd â'u gilydd ar y tair gŵyl arbenig; ac, fel y bernir, yn yr wythnos ym mha un yr oedd gŵyl y cymmod yn digwydd. Ac ar y Sabboth cyntaf ar ol gŵyl y pebyll yr oedd y dosparthiad cyntaf, sef yr eiddo Jehoiarib, yn dechreu ar ei wasanaeth; a'r ail yn dyfod yn ei le ar yr ail Sabboth; ac felly yn olynol hyd ŵyl y Pasc, pan fyddai y 24 dosparthiad wedi bod yn gweini, pob un ei wythnos, ar gylch, yn ngwasanaeth y deml. Ar y Sabboth cyntaf ar ol gŵyl y Pasc yr oedd dosparthiad Jehoiarib yn dyfod i mewn eilwaith. Parhaodd trefn y 24 dosparthiad o hyd, oddieithr pan rwystrwyd ef yn y caethiwed yn Babilon. Yn y dychweliad o'r caethiwed hwnw, ni ddychwelodd ond pedwar o'r dosparthiadau. *Ezra* 2. 36—39. Rhanodd pob un o'r rhai hyn eu hunain yn chwe rhan; a'r rhai newyddion a gymmerasant enwau yr hen ddosparthiadau ag oedd heb dychwelyd. 1 *Macc.* 2. 1. *Prideaux, Ann.* 536. Wedi hyny parhaodd trefn y dosparthiadau yn ddidòr hyd ddinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid, oddieithr pan rwystrwyd ef gan ryfeloedd a therfysgiadau gwladol. *Life of Josephus, page* 1.

Er mwyn gwneuthur amseryddiaeth yr Efengylwyr yn gyson â'u hanesyddiaeth, y mae yn angenrheidiol i farnu fod Zacharias o ddyddgylch, neu ddosparthiad, Abia, sef yr 8fed, yn gweini yn ei swydd yn yr 8fed wythnos ar ol gŵyl y Pasc, yn y flwyddyn 6 cyn geni Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin; yr hwn oedd ei ail dro o weini yn ei ddyddgylch er gŵyl y pebyll y flwyddyn o'r blaen, ac yn digwydd oddeutu diwedd Mehefin. Yn ganlynol i hyn, ganwyd Ioan Fedyddiwr oddeutu gŵyl y Pasc, yn y flwyddyn 5 o flaen y Cyfrif Cyffredin, a Christ ym mhen chwe mis wedi hyny, fel y dangoswyd yn y Daflen ragflaenol. Ond pe bernid i Zacharias gael y weledigaeth y tro cyntaf o'i weinidogaeth ar ol gŵyl y pebyll, yn y flwyddyn 7 o flaen y Cyfrif Cyffredin, byddai raid gosod genedigaeth Ioan a Christ chwe mis o flaen yr amser ym mha un y gosodir hwynt; sef genedigaeth Ioan oddeutu gŵyl y pebyll, yn y flwyddyn 6, a genedigaeth Crist oddeutu gŵyl y Pasc, yn y flwyddyn 5 o flaen y Cyfrif Cyffredin; ac yn ol hyny ni buasai Crist ond 30 mlwydd union yn y Pasc cyntaf o'i weinidogaeth gyhoeddus; yr hyn ni fyddai mewn cysondeb â hanes yr Efengylwyr. Canys y mae Luc yn dywedyd fod Crist yn 30 mlwydd pan fedyddiwyd ef. Ac ar ol bod ddeugain niwrnod yn yr anialwch (*Mat.* 4. 2.) dychwelodd at Ioan i Bethabara (*Ioan* 1. 29.)—casglodd ddisgyblion (*Ioan* 1. 37—49.)

daeth i Cana Galilea, ac oddi yno i Capernaum, lle yr arosodd rai dyddiau cyn myned i ŵyl y Pasc, sef y laf o'i weinidogaeth gyhoeddus. Gan nad allai yr holl bethau hyn gael eu gwneuthur mewn fawr lai o amser na chwe mis, y mae yn canlyn fod Crist yn 30 mlwydd a chwe mis yn y Pasc hwn. Ac yn ol hyny y sefydlir amser ei enedigaeth yn, neu oddeutu gŵyl y pebyll, a genedigaeth Ioan Fedyddiwr oddeutu gŵyl y Pasc, yn y flwyddyn 5 o flaen y Cyfrif Cyffredin. Fel ag yr oedd Crist yn sylwedd i ŵyl y Pasc trwy ei farwolaeth, felly trwy ei enedigaeth a'i gnawdoliaeth, cyflawnodd un rhan o arwyddocâd ysprydol gŵyl y pebyll, pan ddaeth y Gair tragywyddol megys i babellu yn y cnawd. *Ioan* 1. 14. *Testament Groeg.* Canys fel ag yr oedd y gwyliau arbenig yn adgoffa pethau ag oedd wedi digwydd yn yr Aipht ac yn yr anialwch, felly hefyd yr oeddent yn rhagddangos pethau ag oedd i gael eu cyflawni yn a chan Grist. Canys fel yr oedd gŵyl y Pasc yn coffâu y waredigaeth rhag yr angel ag oedd yn lladd y cyntafanedig, a'r waredigaeth o'r Aipht; gŵyl y Pentecost yn coffâu rhoddiad y gyfraith oddiar Sinai; a gŵyl y pebyll yn coffâu trigfa Israel mewn pebyll, y dwfr o'r graig, a'r holl drugareddau a gawsant yn yr anialwch—felly hefyd yr oedd gŵyl y Pasc yn gysgod o Grist ein pasc ni, a aberthwyd drosom ni; gŵyl y Pentecost yn gysgod o roddiad yr Yspryd Glân ar y dydd hwnw, ac o ysgrifenu y gyfraith ar galonau yr apostolion a'r eglwys yn gyffredinol; a gŵyl y pebyll yn gysgod o ymddangosiad Mab Duw yn y cnawd, ac o'r dyfroedd bywiol a'r doniau sydd yn dylifo o hono ef. *Ioan* 7. 2, 37, 38. *Bedford, p.* 416.

D. S. *Yn yr Ail Daflen o'r Seithfed Dosparth, rhoddir y Digwyddiadau perthynol iddo yn y drefn ganlynol, ym mha un y gosodir blwyddyn Oed y Byd, ac Oed Crist yn ol y Cyfrif Cyffredin, ynghyd â blwyddyn Ymerawdwyr Rhufain, ar gyfer pob digwyddiad. Sylwyd eisoes, os tynir unrhyw flwyddgn o Oed Crist o Oed y Byd ar ei gyfer, mai* 4008 *fydd y gweddill; ond os chwanegir unrhyw flwyddyn cyn geni Crist at flwyddyn Oed y Byd, y swm fydd* 4009; *a'r achos o hyny a ddangosnyd yn nechreu y gwaith hwn.*

Taflen 2, o'r Seithfed Dosparth.

Y Flwyddyn 4009 o Oed y Byd oedd y gyntaf o Oed Crist yn ol y Cyfrif Cyffredin, ond y 5ed o'i wir oed, yr 31ain i Augustus Cæsar, a'r 4edd i Archelaus.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
4013	5	Augustus Cæsar 35	Y mae y 66 wythnos o'r 70 yn diweddu.
4015	7	37	Archelaus, yn y 10fed flwyddyn o'i deyrnasiad, yn cael ei ddiorseddu am ei ddrwg-lywodraeth, a'i ddeol i Vienne yn Ffraingc.
4016	8	38	Danfonir Cyrenius i fod yn rhaglaw ar Syria, a Coponius yn rhaglaw ar Judea, gyda gorchymyn i gymmeryd meddiant, yn enw Augustus, o'r hyn oll a fuasai yn perthyn i Archelaus. Y pryd hyn y talwyd trethi gan yr Iuddewon gyntaf i Ymerawdwyr Rhufain (*Luc* 2. 2.) yr hyn a fu yn achos o wrthryfel yn Galilea. *Act.* 5. 37.
4017	9	39	Gan fod Crist yn 12 mlwydd oed ar ŵyl y pebyll yn y flwyddyn o'r blaen, y mae yn rhaid gosod ei fynediad gyd â'i rïeni i ŵyl y Pasc a sonir am dani yn *Luc* 2. 41—49. yn nechreu y flwyddyn hon.
4018	10	40	Danfonir Marcus Ambivius i fod yn rhaglaw Judea yn lle Coponius. *Josephus Antiq. l.* 18. *c.* 3.
4019	11	41	Dygir Tiberius Cæsar gan Augustus (Awst 28.) i gyfran o'i lywodraeth ar daleithiau yr Ymerodraeth. O'r pryd hyn y mae yn rhaid cyfrif y 15fed flwyddyn o deyrnasiad Tiberius. *Luc* 3. 1.
4020	12	42	Mae y flwyddyn 1af o gyd-deyrnasiad Tiberius yn diweddu Awst 28. Y 67 wythnos o'r 70 yn diweddu.
4021	13	43	Gwneir Annius Ruffus yn rhaglaw Judea yn lle Ambivius. *Josephus.*
4022	14	44	Augustus Cæsar yn marw y 19eg o Awst, yn agos i 76 oed, ar ol teyrnasu o'r fôr-frwydr wrth Actium 44 blynedd o fewn 14 diwrnod, ac o honynt dair blynedd ond naw diwrnod gyda Tiberius.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
4023	15	Tiberius Cæsar 1	Tiberius Cæsar yn dechreu teyrnasu, yr hwn a deyrnasodd ar ol Augustus 27 mlynedd, 6 mis, a 27 niwrnod. Y mae yn danfon Valerius Gratus i fod yn rhaglaw Judea yn lle Annius Ruffus, lle mae yn aros 11 mlynedd.
4027	19	5	Y 68 wythnos o'r 70 yn diweddu.
4031	23	9	Gratus y rhaglaw yn symud Annas, tad yn nghyfraith Caiaphas, o'r arch-offeiriadaeth, wedi bod 15 mlynedd yn ei swydd, ac yn gosod Ismael, mab Ffabius, yn ei le. *Josephus.*
4032	24	10	Gwneir Eleazar, mab Annas, yn arch-offeiriad yn lle Ismael. *Josephus.*
4033	25	11	Symudir Eleazar o'i swydd i roi lle i Simon, mab Camith. *Josephus.*
4034	26	12	Joseph a gyfenwid Caiaphas a wneir yn arch-offeiriad yn lle Simon, a Pontius Pilat yn rhaglaw yn lle Gratus. Hon oedd y 15fed flwyddyn i Tiberius Cæsar, er pan ddechreuasai deyrnasu gyd âg Augustus. Yr oedd Ioan Fedyddiwr yn 30 mlwydd yn y gwanwyn, a Christ yn 30 yn yr hydref, o'r flwyddyn hon, pan fedyddiwyd ef, ac y dechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Y mae y 69 wythnos o'r 70 yn diweddu, a'r 70 yn dechreu ar ŵyl y pebyll yn y flwyddyn hon.
4038	30	16	Yn y flwyddyn hon yr oedd y 4ydd Pasc, a'r olaf o weinidogaeth Crist, pan aberthwyd ef, ein Pasc ni, drosom ni, yn hanner yr 'un wythnos,' sef yr olaf o'r 70, pan oedd gwir oed Crist yn 33 blwydd a hanner.*
4039	31	17	Erlidir yr eglwys yn Jerusalem, a llabyddir Stephan. Gwasgerir yr eglwys, gan mwyaf, o Jerusalem, ond yr apostolion; a'r gair a bregethir yn Judea a Samaria gan y rhai a wasgarwyd. *Act.* 8. 1—5.

* Barnodd *Ignatius* mai tair blynedd oedd parhad gweinidogaeth Crist; ond er na chytunir âg ef yn hyny, ni fydd flin gan y darllenydd i glywed ei farn am Grist. Yr oedd yn un o dadau hynaf yr eglwys, ac yn ddisgybl i Ioan yr Efengylwr, ac yn esgob Antiochia. Dioddefodd ferthyrdod yn nheyrnasiad Trajan, yr Ymerawdwr Rhufeinig, yn y flwyddyn o oed Crist 107. Y dystiolaeth ganlynol a drosglwyddwyd i ni yn ei Epistol at y Traliaid. Dr. *Hales'* Chron.

"Duw y Gair, wedi byw yn y byd dri o ddegau o flynyddoedd, a fedyddiwyd gan "Ioan yn wirioneddol, ac nid yn ffugiol; ac ar ol iddo bregethu yr efengyl dair "blynedd, a gwneuthur arwyddion a rhyfeddodau, efe, y Barnwr, a farnwyd gan "yr Iuddewon bradychus a Pilat; a ffiangellwyd, a gernodiwyd, a boerwyd arno, "a wisgodd goron o ddrain, a gwisg borphor; a gondemniwyd, a groeshoeliwyd yn "wirioneddol, nid yn ffugiol, neu yn ymddangosiadol, neu mewn twyll; efe a fu "farw yn wirioneddol, ac a gladdwyd, ac a gyfodwyd oddiwrth y meirw," &c.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
4040	32	Tiberius Cæsar 18	Y mae yr efengyl yn ymledaenu hyd Phœnicia, Cyprus, ac Antiochia yn Syria, heb gael ei phregethu etto i neb ond yr Iuddewon. *Act.* 11. 19.
4041	33	19	Saul ar ei ffordd i Damascus yn cael tröedigaeth. Y mae yn myned i Arabia i bregethu yr efengyl i'r Cenedloedd. *Act.* 9. 1—9. a 26. 16, 17, 18. *Gal.* 1. 16, 17 Rhyw bryd tua diwedd y flwyddyn hon, fel y byddo yr Amseryddiaeth yn gyson â'r brophwydoliaeth, ac â hanesyddiaeth eglwysig, y mae yn rhaid gosod diwedd yr 'un wythnos,' sef yr olaf o'r 70, tra bu yr efengyl yn cael ei phregethu i'r Iuddewon yn unig. *Luc* 24. 47. O'r flwyddyn hon hyd y flwyddyn 68 o Oed Crist, a'r 14eg o deyrnasiad Nero, y mae 35 mlynedd; yr hyn, yn ol tystiolaeth haneswyr eglwysig, oedd parhad gweinidogaeth yr apostol Paul. *Petavius.* Gwel yr hyn a ysgrifenwyd ar y 70 wythnos, a'r Ail Daflen o'r Chweched Dosparth, o'r flwyddyn o Oed y Byd 3551, &c.*

* Y mae yr hyn a ganlyn o waith *Eusebius*, esgob Cæsarea, ag oedd yn ei flodau oddeutu y flwyddyn 200 o oed Crist, yn bur addas mewn perthynas i barhad gweinidogaeth Crist, a'r 'un wythnos,' sef yr olaf o'r 70. Er na chytunir â'i dyb fod Crist wedi aros gyd â'i ddisgyblion dair blynedd a hanner ar ol ei adgyfodiad, cyn ei esgyniad i'r nefoedd; etto y mae ei olygiad ar yr 'un wythnos,' gan mwyaf, wedi rhoddi cymmaint boddlonrwydd i mi, fel nas gallaf lai na'i roddi yma, air am air, fel ag y mae yn Amseryddiaeth y Dr. *Hales*, Vol. I. p. 199, 200.

"Traddodir mewn hanesyddiaeth, fod yr holl amser y bu ein Hiachawdwr yn "dysgu ac yn gwneuthur gwyrthiau yn dair blynedd a hanner, yr hyn yw hanner "wythnos (o flynyddoedd). Dengys Ioan yr Efengylwr hyn i bawb a graffant yn "fanwl ar ei Efengyl. Gellir cyfrif gan hyny yr holl amser yr arosodd gyd â'i apos-"tolion o flaen ei ddioddefaint, ac ar ol ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, yn 'un "wythnos' o flynyddoedd: canys y mae yn ysgrifenedig iddo ymddangos i bawb o "flaen ei ddioddefaint, yn gystal disgyblion a'r rhai nid oeddent ddisgyblion; ym "mha amser, trwy ei athrawiaeth a'i wyrthiau hynod, y dangosodd alluoedd ei "Dduwdod i bawb, heb ddim gwahaniaeth, yn gystal Iuddewon a Groegwyr: ac "hefyd, ar ol ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, yr oedd gyd â'i ddisgyblion a'i "apostolion, fel y mae yn rhesymol i feddwl, yr un faint o flynyddoedd; gan ei "fod yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod, a dywedyd y pethau a berthynent "i deyrnas Dduw, fel y mae yn Actau yr Apostolion. Gan hyny, hyn yw yr 'un "wythnos' o flynyddoedd a olygir yn y brophwydoliaeth, tra y sicrhaodd efe y "cyfammod â llawer, sef trwy gadarnhau y cyfammod newydd o bregethiad yr "efengyl. A phwy oedd 'y llawer' y sicrhaodd efe y cyfammod iddynt? Yn ddi-"ammeu, ei ddisgyblion a'i apostolion, a'r holl Hebreaid hyny a gredasant ynddo. "Ym mhellach, 'yn hanner yr wythnos' ym mha un y sicrhaodd efe y cyfammod "a ddatguddiwyd i'r 'llawer,' y dygwyd ymaith yr aberth a'r bwyd-offrwm, ac y

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
4042	34	Tiberius Cæsar 20	Y mae Saul yn dychwelyd o Arabia i Damascus (*Gal.* 1. 17.) lle bu 'lawer o ddyddiau.' *Act.* 9. 19—23.
4044	36	22	Saul yn diangc o Damascus, ac yn dyfod i Jerusalem, ym mhen 3 blynedd ar ol ei dröedigaeth. *Act.* 9. 24—28. *Gal.* 1. 18. Ar ol aros 15 niwrnod yn Jerusalem gyd â'r apostolion, pan gynllwynodd yr Iuddewon Groegaidd yn erbyn ei fywyd, aeth i Cæsarea, ac oddi yno i Tarsus yn Cilicia, ei le genedigol. *Gal.* 1. 18—21. *Act.* 9. 29, 30. Yn y flwyddyn hon, tybygid, y mae Petr yn iachau Æneas, yn cyfodi Dorcas, ac yn pregethu yr efengyl i Cornelius. *Act.* 9. 32—43. a x. Tua diwedd yr un flwyddyn, rhoddir gwŷs i Pilat i ateb am ei ddrwglywodraeth yn Judea, ym mhen deng mlynedd o'i ddechreuad. *Josephus, Antiq. l.* 18. *c.* 5.
4045	37	23	Tiberius Cæsar yn marw yr 16eg o Fawrth, yn y 78ain flwyddyn o'i oed. Cyrhaeddodd Pilat i Rufain ychydig ar ol ei farwolaeth; a dywedir iddo ladd ei hun yn y 3edd flwyddyn i Caius Caligula.
4046	38	Caius Caligula 1	Caius Caligula oedd fab i Germanicus o Agrippina, merch Agrippa a Julia merch Augustus Cæsar. Gollyngir Herod Agrippa, ŵyr Herod Fawr, o garchar yn Rhufain, a rhoddir iddo gan Caius Caligula, dywysogaeth ei ewythr Philip, ynghyd â hono a fuasai yn eiddo Lysanias. *Josephus, Antiq. l.* 18. *c.* 8. Annogodd hyn Herod Antipas a'i wraig Herodias, chwaer Herod Agrippa, i gyrchu i Rufain i ofyn gan Caligula am chwanegiad at ei dywysogaeth; ond yn lle cael ychwaneg, collasant yr hyn oedd ganddynt, ac alltudiwyd hwynt i Lyons, yn Ffraingc, am eu bywyd. *Josephus.*
4047	39	2	Caius Caligula yn gorchymyn i'w ddeiliaid ym mhob man i'w addoli fel Duw; y mae yr Iuddewon yn anufuddhau. *Josephus, Bell. Jud. l.* 2. *c.* 9.
4048	40	3	Caius Caligula a leddir gan Chereas, Ionawr 24, ar ol iddo deyrnasu dair blynedd, deng mis, a deunaw niwrnod. *Petavius.*

" dechreuodd y 'ffieidd-dra anrheithiol;' gan mai yn nghanol yr wythnos yma, ar " ol tair blynedd a hanner o'i waith ef yn dysgu, pan ddioddefodd, y rhwygwyd " llen y deml oddi fynu hyd i waered, fel y dygwyd ymaith o'r amser hwnw (mewn " effaith) yr aberth a'r bwyd-offrwm oddi wrthynt, ac y dechreuodd y 'ffieidd-dra " anrheithiol' yn y deml, gan fod y gallu amddiffynol ag oedd wedi bod yn gwylio " ac yn gwarchawd y lle (sanctaidd) o'r dechreuad hyd y pryd hwnw wedi ei adael " yn anghyfannedd." *Euseb.* Demonst. Evang.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
4049	41	Claudius Cæsar 1	Claudius Cæsar a wobrwyodd Herod Agrippa, trwy ei wneuthur yn frenin ar holl wledydd ei daid Herod Fawr, am fod yn offeryn i'w ddyrchafiad i'r orsedd. Wedi bod yn detrarch am agos i 4 blynedd, teyrnasodd 3 blynedd, hyd oni yswyd ef gan bryfed. *Act.* xii.
4050	42	2	Oddeutu y pryd hyn y galwyd y disgyblion yn Gristionogion gyntaf yn Antiochia. *Act.* 11. 26. *Esa.* 65. 15.
4051	43	3	Agabus, fel y bernir, yn prophwydo am y newyn dros yr holl Ymerodraeth Rufeinig. *Act.* 11. 28. Darostyngir Brydain yn y flwyddyn hon gan Claudius Cæsar, mewn 16 diwrnod, heb frwydr na thywallt gwaed. Blaenor byddin Claudius yn y cyrch hwn oedd Plautius. Ni bu Claudius chwe mis cyflawn o'i gychwyniad hyd ei ddychweliad o'r ymgyrch hwn. Ni wnaethai un o Ymerawdwyr Rhufain gais ar Brydain er amser Julius Cæsar hyd y flwyddyn hon. *Sueton. & Petavius.*
4052	44	4	Y newyn a brophwydodd Agabus yn dechreu, ac yn parhau dros rai blynyddoedd. *Sueton. in Claudio. Josephus, Antiq. l.* 3. *c.* 15. *Witsii Vita Pauli.* Danfonir Barnabas a Saul â chynnorthwyon o Antiochia i Jerusalem. *Act.* 11. 28, 29, 30. Herod Agrippa, wedi lladd Iago, a charcharu Petr, yn cael ei ysu gan bryfed, yn Cæsarea; a'i deyrnas yn cael ei gwneuthur yn dalaeth o'r Ymerodraeth dan Cuspius Ffadus, y rhaglaw. *Joseph. Bell. Jud. l.* 2. *c.* 10. *Act.* xii. Barnabas a Saul, wrth ddychwelyd o Jerusalem i Antiochia, yn cymmeryd gyda hwynt Ioan a gyfenwid Marc. *Act.* 12. 25. Saul a Barnabas, wedi cael eu neillduo i bregethu yr efengyl i'r Cenedloedd, yn hwylio o Seleucia ar yr Orontes, i Cyprus. Wedi dychwelyd Sergius Paulus i'r ffydd, y mae Saul gyntaf yn cymmeryd yr enw Paul. Y mae Matthew, fel y bernir, yn ysgrifenu ei Efengyl oddeutu y flwyddyn hon. *Bedford, p.* 760. Ac yn y flwyddyn hon y bernir i Paul gael ei gipio i'r drydedd nef, 14eg blynedd cyn iddo ysgrifenu yr Ail Epistol at y Corinthiaid. *Bedford, p.* 760. *Witsii Vita Pauli.*
4053	45	5	Ioan Marc yn ymadael â Paul a Barnabas, ac yn dychwelyd i Jerusalem (*Act.* 13. 13.) lle, trwy orchymyn Petr, fel y bernir, y talfyrodd Efengyl Matthew, gan osod pethau yn fwy yn ol trefn amser. Bernir hyn, gan fod Marc wrth adrodd yr un pethau yn

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			arfer, gan mwyaf, yr un geiriau Groeg ag sydd yn Matthew. Y mae *Tertulian* yn priodoli Efengyl Marc i Petr. *Bedford, p.* 760.
4055	47	Claudius Cæsar 7	Paul a Barnabas, wedi cyflawni eu gweinidogaeth yn yr amrywiol wledydd o Cyprus ac Asia Leiaf a enwir yn *Act.* xiii, xiv. yn dychwelyd i Antiochia, lle maent yn aros 'dros hir amser.' *Act.* 14. 28. *Bedford, p.* 760.
4056	48	8	Cododd ymryson yn eglwys Antiochia ynghylch yr enwaediad. *Act.* 15. 1.
4057	49	9	Paul a Barnabas, ynghyd â Titus, yn myned o Antiochia gyda chenadwri at yr apostolion yn Jerusalem; y rhai sydd yn penderfynu nad oedd y Cenedloedd yn rhwym i gadw y ddeddf seremoniol. *Act.* xv. Yr oedd 14 blynedd o ddechreu y flwyddyn hòno ym mha un yr aeth Paul gyntaf i Jerusalem ar ol ei dröedigaeth, hyd ddiwedd y flwyddyn hon. *Gal.* 2. 1. Y mae Herod, brenin Chalcis, yn marw; ac Agrippa ei nai, mab yr Herod a dòrodd ben Iago, a gorŵyr Herod Fawr, yn teyrnasu yn ei le. Hwn oedd y brenin Agrippa ger bron pa un yr amddiffynodd Paul ei hun. *Josephus, Bell. Jud. l.* 2. *c.* 11. Gwneir Ffelix yn rhaglaw Judea yn lle Cuspius Ffadus. *Josephus.*
4058	50	10	Y mae Petr yn dyfod i Antiochia, lle mae efe a Barnabas yn cael eu beio am eu rhagrith ynghylch pethau seremoniol. *Gal.* 2. 11—15. Barnabas, wedi ymrafaelio â Paul, yn cymmeryd Ioan Marc, ac yn hwylio i Cyprus; a Paul gyda Silas yn tramwy trwy Syria a Cilicia. *Act.* 15. 36—41. Paul yn dyfod i Derbe a Lystra, lle cafodd Timotheus, ac a'i cymmerodd gyd âg ef i'r gwaith. *Act.* 16. 1, 2, 3.
4059	51	11	Paul a Silas, ynghyd â Timotheus, yn myned trwy Phrygia, Galatia, a Mysia, i Troas. *Act.* 16. 5—10. Y mae Luc yr Efengylwr, ac ysgrifenydd yr Actau, yn dyfod i Troas at Paul a'i gyfeillion, ac yn cyddeithio gyda hwynt; canys y pryd hyn y mae efe gyntaf yn llefaru megys un o'r gymdeithas. *Act.* 16. 10—17. O Troas y maent yn mordwyo i Macedonia, ac yn dyfod i Philippi (*Act.* 16. 11—15.) lle yr ydys yn barnu i Luc aros oddeutu 7 mlynedd, hyd y flwyddyn 58, i gadarnhau yr eglwys; ac, hwyrach, i ddilyn ei alwedigaeth feddygol; ond yn benaf i ysgrifenu ei Efengyl, a'r Actau hyd yr amser yma, o'r defnyddiau a gasglasai, ac a gawsai gan Paul. Cymharer *Act.* 16. 17. â 20. 5, 6. Yn

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			y ddau le hyn y mae Luc yn llefaru fel un o'r gymdeithas; ond yn yr hanes ag sydd rhyngddynt, fel un ag oedd yn absennol, ac yn adrodd yr hyn a glywsai.* *Bedford.*
4060	52	Claudius Cæsar 12	Paul a Silas, wedi ymadael â Philippi, yn tramwy trwy Amphipolis, ac Apolonia, yn dyfod i Thessalonica a Berea, ac oddi yno i Athen a Corinth, ar hyd goror môr Ægea. *Act.* xvii. O Athen danfonodd Paul Timotheus, a Silas hefyd, tybygid, yn ol i Thessalonica, i gadarnhau yr eglwys yno. 1 *Thes.* 3. 1—6. Y mae Silas a Timotheus yn dychwelyd at Paul i Corinth, o ba le y mae yn ysgrifenu ei Epistol 1af at y Thessaloniaid, yn eu henwau hwynt ill trioedd. 1 *Thes.* 1. 1. *Act.* 18. 5. Y mae Claudius Cæsar yn gorchymyn i'r Iuddewon fyned o Rufain. *Act.* 18. 2. *Suetonius in Claudio.* Bernir i'r Cristionogion gael eu gyru gyda hwynt. *Witsii Vita Pauli.* Y mae Paul yn aros yn Corinth flwyddyn a chwe mis.
4061	53	13	Gwneir Gàlio, brawd Seneca, yn rhaglaw Achaia, a dygwyd Paul ger ei fron. *Act.* 18. 12. 17. Paul yn ysgrifenu ei Ail Epistol at y Thessaloniaid o Corinth. 2 *Thes.* 1. 1.
4062	54	14	Yn nechreu y flwyddyn hon y mae Paul, ynghyd â Priscila a'i gwr Acwila, yn hwylio o Cenchrea, un o borthladdoedd Corinth, ac yn dyfod i Ephesus, lle

* Yn yr 11eg flwyddyn i Claudius Cæsar, a'r 51 o oed Crist, y darostyngwyd Deheubarth, a rhan fawr o Ogledd Cymru gan y Rhufeiniaid, ym mhen oddeutu wyth mlynedd ar ol dyfodiad cyntaf Claudius i Brydain. Un Ostorius oedd y blaenor Rhufeinig y pryd hyn yn y wlad yma. Cymmerodd Caractacus, neu Caradog, tywysog y Silures, neu yr Iselwyr, yn garcharor, ac a'i dygodd i addurno ei fynediad gorfoleddus i Rufain *(triumph).* Yr oedd yr Iselwyr yn cyfaneddu Siroedd Henffordd, Mynwy, Morganwg, Brycheiniog, a Chaerfyrddin, neu ranau o honynt. Pen dinas eu gwlad oedd Caerlleon ar Wysc, yr hon a alwyd Isca Silurum gan y Rhufeiniaid. Yn llyfr Trioedd Ynys Brydain, gelwir Caractacus dan yr enw Caradog Freichfras, mab Cynfelyn, prif dywysog Brydain yn amser Augustus Cæsar, a'i ddilynwr Tiberius. Ar ol i Caradog wrthwynebu y Rhufeiniaid dros wyth mlynedd, gorchfygwyd ef gan Ostorius, a thraddodwyd ef iddo trwy fradwriaeth ei lysfam Cartismandua, yr hon a alwyd Cyrtisfinddu gan y Cymru. *Baxter's Glossary, quoting Camden's Britt.* Y mae araeth Caradog ger bron Claudius Cæsar, fel y mae wedi ei throsglwyddo i ni gan Tacitus *(Annal. l.* 12. *sect.* 37.*)* yn dangos y fath wroldeb a mawrfrydwch yspryd, fel na welir yn aml ei gyffelyb. Cafodd y fath effaith ar Claudius fel y gollyngwyd ef, a'i wraig, a'i frodyr, yn rhyddion o'u cadwynau. Dychwelodd Ostorius, ond nid allodd ddarostwng y Silures yn llwyr tra fu byw. Yr achos o'u hystyfnigrwydd oedd am fod y gair wedi myned ar led iddo ddywedyd na orphwysai nes dilëu eu henw o blith dynion.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			ni arosodd fawr y tro hwn, am ei fod yn prysuro i fyned i Jerusalem erbyn gŵyl y Pasc. *Act.* 18. 18—21. Wedi glanio yn Cæsarea, aeth i Jerusalem; oddi yno daeth i Antiochia yn Syria, lle treuliodd dalm o amser; wedi hyny tramwyodd trwy Galatia a Phrygia, gan gadarnhau yr eglwysi. *Act.* 18. 21, 22. Y mae Apolos yn dyfod i Ephesus (*Act.* 18. 24—28.) a Phaul hefyd, eilwaith, tua diwedd y flwyddyn, lle yr arosodd dair blynedd yn pregethu yr efengyl; sef tri mis yn y synagog, dwy flynedd yn ysgol Tyrannus, a naw mis mewn manau ereill. *Act.* 19. 1—12. a 20. 31. Y mae Claudius Cæsar yn marw Hydref 13eg, yn y flwyddyn hon, o wenwyn a roddwyd iddo gan ei wraig Agrippina, ar ol teyrnasu 13 blynedd, 8 mis, ac 20 diwrnod; a Nero a deyrnasodd yn ei le, ac efe yn 17eg flwydd oed. *Petavius.*
4063	55	Nero 1	Y mae Paul yn pregethu yn ysgol Tyrannus y flwyddyn hon a rhan o'r nesaf. Y mae Nero yn rhoddi i frenin Agrippa ran o Galilea, a thair dinas y tu hwnt i'r Iorddonen, sef Tiberias, Taricheæ, a Julias. *Josephus, Antiq. l.* 20. *c.* 5.
4065	57	3	Y mae Paul yn arfaethu yn yr yspryd daith trwy Macedonia ac Achaia, ac oddi yno i Jerusalem; gan fwriadu, wedi hyny, i weled Rhufain. Y mae yn anfon Erastus a Timotheus o'i flaen i Macedonia, ac yn aros ei hun dros amser yn Asia. *Act.* 19. 21, 22. Yn y cyfamser daeth Apolos, Stephanas, Ffortunatus, ac Achaicus, at Paul, â llythyr oddiwrth eglwys Corinth; yn ateb i ba un yr ysgrifenodd ei Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, gyd â'r tri olaf o'r brodyr a enwyd, ynghyd â Thimotheus, a ddychwelasai o Macedonia. 1 *Cor.* 7. 1. a 4. 17. a 16. 12, 17. Mai o Ephesus yr ysgrifenwyd yr epistol hwn sydd eglur odiwrth 1 *Cor.* 16. 8. Gan hyny nid yw ol-ysgrifen yr epistol hwn yn gywir mwy na rhai ereill. Oddeutu yr un amser, ac o'r un lle, y bernir i Paul ysgrifenu ei Epistol at y Galatiaid.
4066	58	4	Yr oedd Paul wedi bwriadu aros yn Ephesus hyd ŵyl y Pentecost yn y flwyddyn hon (1 *Cor.* 16. 8.) ond gyrwyd ef oddi yno, tybygid, yn gynt na'i ddisgwyliad trwy erlidigaeth Demetrius, y gôf arian. *Act.* 19. 23—41. Y mae Paul yn ymadael o Ephesus i fyned i Macedonia. *Act.* 20. 1. Daeth i Troas ar ei ffordd yno. 2 *Cor.* 2. 12, 13. Pan oedd Paul yn Macedonia y waith hon, ysgrifenodd, fel y bernir

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			ar seiliau da, ei Ail Epistol at y Corinthiaid, o Philippi, gyda Titus a Luc. Y mae ol-ysgrifen yr epistol hwn yn gywir. Y mae Paul yn dilyn ei gyfeillion, yn dyfod i dir Groeg, ac yn gauafu dros dri mis yn Corinth. *Act.* 20. 3. 1 *Cor.* 16. 5, 6. Hon oedd y drydedd waith iddo fod yn Corinth. 2 *Cor.* 12. 14. Nid oes sôn yn yr Actau am ei ail daith yno, mwy nag amryw ereill. Tra bu Paul yn gauafu y waith hon, sef y 3edd, yn Corinth, ysgrifenodd ei Epistol at y Rhufeiniaid, yr hyn sydd eglur oddiwrth *Rhuf.* 15. 25. wedi ei gymharu âg *Act.* 19. 21. a *Rhuf.* 16. 1, 2. Pan oedd Paul ar fedr hwylio o Cenchrea i Syria, parodd cynllwyn yr Iuddewon iddo ddychwelyd trwy Macedonia, a mordwyo o Philippi i Troas ar ol gŵyl y Pasc, gyda Luc, yr hwn sydd yn awr yn llefaru gyntaf fel un o'r gymdeithas, er pan adawyd ef yn Philippi yn y flwyddyn o oed Crist 51. *Act.* 20. 3—6. Yn y flwyddyn hon y bernir i'r Aiphtwr hwnw, sef un o Iuddewon yr Aipht, godi terfysg yn Judea; yr hwn, wedi hudo llawer o bobl i'w ganlyn i fynydd yr olew-wydd, a addawodd iddynt y gwnai efe trwy air yn unig i gaerau Jerusalem syrthio i lawr, fel y byddai ffordd rydd iddynt i fyned i'r ddinas. Pan glybu Ffelix y rhaglaw am eu dibenion terfysglyd, syrthiodd arnynt gyd â'i filwyr, ac a laddodd 400 o honynt, ac a gymmerodd 200 yn garcharorion: ond diangodd yr Aiphtwr. *Act.* 21. 38. *Joseph. Antiq. l.* 20. *c.* 6.
4067	59	Nero 5	Paul, wedi hwylio o Philippi oddeutu diwedd Mawrth neu ddechreu Ebrill, a laniodd, fel y dywedwyd, yn Troas, gyda Luc, yr hwn o'r pryd hyn ni ymadawodd â Paul hyd ei ddyfodiad i Rufain, fel y gellir casglu oddiwrth ei waith yn llefaru hyd ddiwedd yr Actau fel un o'r gymdeithas. *Act.* 20. 6. hyd *pen.* 28. 16. Paul yn dyfod trwy amryw fanau a enwir yn *Act.* 20. 6—38. a 21. 1—8. i Cæsarea, ac oddi yno i Jerusalem, lle yr oedd wedi arfaethu bod, 'os bai bosibl iddo, erbyn dydd y Sulgwyn,' yn niwedd Mai neu ddechreu Mehefin, yr hyn hefyd a gwblhaodd, fel y gellir casglu oddiwrth *Act.* 21. 27. lle mae 'y saith niwrnod,' tybygid, yn arwyddocâu saith niwrnod yr ŵyl. Y pryd hyn y dechreuodd y ddwy flynedd o orthrymderau a charchar Paul yn Judea, dan y rhaglaw Ffelix. *Act.* 21. 17. hyd 24. 27. Oddeutu y flwyddyn hon yr ysgrifenodd Iago ei Epistol, fel y bernir, a Petr ei Epistol 1af. *Bedford, p.* 764.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
4069	61	Nero 7	Portius Ffestus yn rhaglaw yn lle Ffelix, yr hwn a ddiswyddwyd, ac a alwyd i roi cyfrif am ei ddrwg-lywodraeth. *Joseph. Antiq. l.* 20. *c.* 7. Daeth Ffestus i'r dalaeth oddeutu gŵyl y Sulgwyn. *Act.* 21. 17. a 24. 27. Paul yn cychwyn i'w fordaith oddeutu tri neu bedwar mis wedi hyny, fel y gellir casglu oddiwrth 'amser yr ympryd,' *Act.* 27. 9. yr hwn, fel y bernir, oedd gŵyl y cymmod, sef y 10fed dydd o'r 7fed mis Iuddewig, pan oedd morio yn beryglus o herwydd y gwyntoedd hydrefol. Tua diwedd y flwyddyn hon y bu llong-ddrylliad Paul yn Melita, yn awr Malta, lle yr arosodd dri mis, hyd ddechreu y flwyddyn ganlynol. *Act.* xxvii. a 28. 1—11.*
4070	62	8	Daeth Paul i Rufain oddeutu mis Chwefror, lle bu yn ei dŷ ardrethol ei hun ddwy flynedd, dan gadwraeth milwr, yn pregethu y gair yn ddiwahardd. *Act.* 28. 16, 30, 31. Ffestus y rhaglaw yn marw yn Judea, ac Albinus yn cymmeryd ei le; ond cyn iddo gyrhaedd i'r dalaeth, y mae Ananus yr arch-offeiriad

* Yn y flwyddyn 61 o oed Crist, a'r 7fed i Nero, y digwyddodd gwrthryfel Boadicea, neu Buddug, gwraig weddw Prasutagus, brenin yr Iceni cenedl o'r Brytaniaid yn cyfanneddu y rhan hono o'r wlad ag sydd rhwng Lincoln a Llundain. Yr oedd Buddug a'i merched wedi dioddef amharch a thrais gan y Rhufeiniaid, yr hyn a'i cyffrôdd gyd à'r holl wlad i daflu yr iau, ac i lwyr ddial arnynt. Tra bu Paulinus Suetonius, y rhaglaw Rhufeinig, yn darostwng ynys Môn, syrthiodd Buddug a'i deiliaid ar y Rhufeiniaid yn ei absennoldeb, ac a laddasant o honynt 70,000. Ond dialodd Suetonius ar y Brytaniaid trwy ladd 80,000: a Buddug, fel na syrthiai i ddwylaw y buddugoliaethwr a derfynodd ei bywyd trwy wenwyn. Y mae hanes lled helaeth am y rhyfel hwn, a hwnw yn Môn, yn *Tacitus, Annal. l.* 14. *sect.* 29,—38. Ar ol hyn nid oes hanes i'r Brytaniaid yn y rhan ddeheuol o'r ynys aflonyddu fawr ar y Rhufeiniaid trwy geisio taflu yr iau. Ond ni allodd y Rhufeiniaid lwyr ddarostwng trigolion Iscoed Celyddon, neu Scotland. I geisio attal eu rhuthriadau, gwnaeth Severus yr Ymerawdwr Rhufeinig wàl o fôr i fôr ar derfyn eu gwlad, lle yr oedd gulaf, oddeutu y flwyddyn 207; yr hon, mewn hanesion Cymreig, a elwir gwàl Sefer. Bu Severus farw yn Nghaer Efrog yn y flwyddyn 211. Bu y Rhufeiniaid yn llywodraethu ym Mrydain oddeutu 364 blynedd, o'r flwyddyn 43 o oed Crist, hyd oddeutu y flwyddyn 407, yr hon oedd y 12fed i Honorius yr Ymerawdwr Rhufeinig, pan alwyd y llengoedd Rhufeinig o Brydain i amddiffyn yr Ymerodraeth rhag rhuthriadau amryw genedloedd barbaraidd ag oedd yn dylifo i mewn iddi yn olynol o barthau gogleddol Ewrop. Victorinus oedd y rhaglaw Rhufeinig olaf ym Mrydain. Ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid, llywodraethwyd y Brytaniaid gan ormesdeyrniaid; ac anrheithiwyd y wlad gan y Pictiaid a'r Scotiaid mewn mynych ruthriadau dros oddeutu 40 mlynedd, hyd oni waboddwyd y Saeson yn y flwyddyn 449; y rhai, wedi gorchfygu yr anrheithwyr, a orchfygasant y rhai oedd wedi eu cyflogi, ac a feddiannasant bob yn ychydig yr holl ran ddeheuol o'r ynys, ond Cymru.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			yn rhoddi Iago Leiaf, brawd yr Arglwydd, ac awdwr yr Epistol cyffredinol, i farwolaeth trwy ei labyddio, dan gyhuddiad o gabledd. Am y weithred hon y trowyd Ananus o'i swydd gan y brenin Agrippa, gan yr hwn yr oedd yr awdurdod y pryd hyn ar y gwisgoedd arch-offeiriadol, a thrysor y deml. *Josephus, Antiq. l.* 20. *c.* 8.
4071	63	Nero 9	Yr ydys yn barnu ar seiliau da i Paul ysgrifenu 5 o epistolau tra parhaodd ei rwymau cyntaf yn Rhufain, sef y 2 flynedd a grybwyllir yn *Act.* 28. 30. sef, 1. Yr Ail Epistol at Timotheus* ar ei ddyfodiad i Rufain. 2 *Tim.* 4. 16, 17.—2. Yr Epistol at yr Ephesiaid.—3. At y Philippiaid.—4. At y Colossiaid.—5. At Philemon, yr hwn oedd yn byw yn Colosse. Ac ar ei ryddhad o'i rwymau cyntaf, ysgrifenodd ei Epistol at yr Hebreaid o Rufain, neu ryw barth o'r Ital. *Heb.* 13. 24. *Wits. Vita Pauli.*
4072	64	10	Yn nechreu y flwyddyn hon, bernir i Paul gyda Thimotheus hwylio o'r Ital i Judea, *Heb.* 13. 23. ac iddo gymmeryd Creta ar ei ffordd, a sefydlu Titus yn olygwr ar yr eglwys yno: ac, o Judea, iddo ddyfod i Asia Leiaf; a chyda manau ereill i Colosse, yn ol ei fwriad; *Philem.* 22. ac oddi yno i Nicopolis yn Epirus, o ba le yr ysgrifenodd yr Epistol at Titus. Ond, os cyfaddefir y gwir, nid oes dim sicrwydd am helynt Paul ar ol ei ryddhau o'i rwymau cyntaf yn Rhufain, sef y 4 blynedd olaf o'i fywyd. *Bedford. Wits. Vita Pauli.* Yn y flwyddyn hon y rhoddodd Nero Rufain ar dân; a thrwy fwrw y bai ar y Cristionogion, dechreuodd yr erlidigaeth gyntaf o'r deg.
4073	65	11	Gessius Fflorus yn dyfod yn rhaglaw Judea, yn lle Albinus, ac yn gorthrymu yr Iuddewon tu hwnt i fesur; yr hyn, mewn rhan fawr, a'u hannogodd i'r gwrthryfel a ddibenodd yn ninystr Jerusalem. *Jos. Bell. Jud. l.* 2. *c.* 13.
4074	66	12	Yr Iuddewon o Cæsarea yn cwyno ger bron Nero yn erbyn y Groegiaid, eu cyd-ddinasyddion, am y rhwystr a'r dirmyg a roddwyd i'w haddoliad a'u crefydd. Rhoddwyd barn o blaid y Groegiaid; yr hyn a yrodd yr Iuddewon bron i wallgof, ac a bar-

* Nid yw yn hysbys pa bryd yr ysgrifenwyd yr Epistol Cyntaf at Timotheus. Ond y mae yn debygol iddo gael ei ysgrifenu o Macedonia, pan oedd Paul yn ei ail daith i Corinth, am ba un nid oes air o sôn yn yr Actau. Yr oedd Timotheus gyda Paul yn ei daith gyntaf a'i drydedd i Corinth; gan hyny, fe allai mai yn ei ail daith yr ysgrifenwyd yr Epistol Cyntaf at Timotheus.

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			odd i'r rhyfel Iuddewig dori allan. *Jos. Bell. Jud. l.* 2. *c.* 13 *&* 14.
4075	67	Nero 13	Gan fod Cestius Gallus yn aflwyddiannus yn y rhyfel Iuddewig, danfonir Vespasian yn ei le i fod yn rhaglaw Syria, ac i ddwyn y rhyfel ym mlaen yn Judea. *Jos. Bell. Jud. l.* 3. *c.* 1. Petr yn ysgrifenu ei ail epistol, fel y bernir, oddeutu y flwyddyn hon. *Bedford.*
4076	68	14	Yn y flwyddyn hon dychwelodd Paul i Rufain ar ol llaesu yr erlidigaeth, ac a roddwyd i farwolaeth gan lywodraethwyr y ddinas, trwy gael tori ei ben, y 23 o Chwefror, tra yr oedd Nero yn absennol yn nhir Groeg. Dywed rhai haneswyr i Petr hefyd ddioddef merthyrdod yn yr un amser a lle, trwy gael ei groeshoelio a'i ben i waered. Ond y mae ereill, ar well seiliau, yn dywedyd mai yn un o wledydd y dwyrain y cafodd Petr ei ddienyddio, ac na bu erioed yn Rhufain. *Bedford.* Y mae Nero yn lladd ei hun Mehefin y 9fed, a Galba yn teyrnasu yn ei le 7 mis a 7 niwrnod.
4077	69		Lleddir Galba, y 15fed o Ionawr, gan Otho; yr hwn, ar ol teyrnasu 3 mis a 2 ddiwrnod, a laddodd ei hun Ebrill yr 16eg. Vitelius a deyrnasodd yn lle Otho 8 mis a 5 diwrnod, ac a laddwyd Rhagfyr yr 20fed.
4078	70	Vespasian 1	Dewiswyd Vespasian yn ymerawdwr gan y fyddin yn lle Vitelius. Llaesodd y rhyfel yn erbyn yr Iuddewon dros ychydig, am fod gan Vespasian wrthddrych mwy yn ei olwg na darostwng yr Iuddewon. Pan gawsant ychydig seibiant oddiwrth ryfela â'r Rhufeiniaid, dinystriasant eu gilydd yn waeth na bleiddiaid. Danfonir Titus gan ei dad Vespasian, o Alexandria yn yr Aipht, yn nechreu y flwyddyn hon, i roi gwarchae ar Jerusalem. *Jos. Bell. Jud. l.* 5. *c.* 6. Yr oedd gŵyl y pasc yn agosâu, ac agorwyd pyrth Jerusalem i'r Iuddewon ag oedd yn dyfod i'r ŵyl o bob parth o'r byd: a Titus, yn y cyfamser, oedd yn aros yn llonydd gyd â'i fyddin, o fewn ychydig filltiroedd i Jerusalem; gan farnu, tybygid, mai llai o waith a gai i oresgyn y ddinas, trwy fod cynnifer o gegau yn myned i mewn. Ar ol iddynt fyned i gyd i mewn i'r ddinas, gwarchaeodd arnynt; a buan iawn y trymhaodd y newyn. Llosgwyd y deml y 10fed dydd o Awst; ar yr un diwrnod, medd *Josephus*, ag y llosgwyd hi gan Nebuchodonosor. Ar ol cymmeryd y ddinas isaf yr 8fed dydd o Fedi, cymmerwyd yr uchaf, sef dinas Dafydd. Gwnawd y cwbl

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			yn gydwastad â'r llawr, ond tri o dyrau a adawyd i ddangos cadernid y lle. Bu farw yn y gwarchae trwy gleddyf, newyn, a haint, un cant ar ddeg o filoedd; cymmerwyd 97,000 yn garcharorion, y rhai a werthwyd yn gaeth-weision; heblaw miloedd dirifedi a laddwyd yn y rhyfel hwn wrth gymmeryd dinasoedd cedyrn y wlad. *Jos. Bell. Jud.* Felly cyflawnwyd yr hyn a rag-ddywedasai Moses a'r prophwydi, ynghyd â Christ ei hun. Daeth digofaint arnynt hyd yr eithaf, nid cymmaint am ladd, ag am anghredu a gwrthod 'y Cyfiawn.' *Iago* 5. 6. O'u genau eu hun y barnwyd hwynt, a daeth ei waed ef arnynt, ac ar eu plant, y'mhen 40 mlynedd ar ol eu croch-lefain. Y mae *Josephus* yn dywedyd mai yn yr ail flwyddyn i Vepasian y cymmerwyd Jerusalem; ac felly yr oedd, os cyfrifir o'r amser cyntaf y cyhoeddwyd ef yn Ymerawdwr gan ei fyddin; ond yn ei flwyddyn gyntaf, os cyfrifir o farwolaeth Vitelius, yr hon oedd y flwyddyn 70 o oed Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin. Mewn perthynas i'r Cristionogion yn Jerusalem a Judea, y mae traddodiad gan haneswyr eglwysig iddynt ffoi mewn pryd oddiar ffordd y dinystr i Pella, dinas yn hanner llwyth Manasseh, y tu hwnt i'r Iorddonen, yn ol rhybydd Crist. *Marc* 13. 14. *Eusebii Eccles. Hist. l.* 3. *c.* 11. Ond tebygol iddynt ffoi i amryw fanau.
4087	79	Vespasian 10	Vespasian yn marw Mehefin 24, wedi teyrnasu ar ol Vitelius 9 mlynedd, 6 mis, a 4 diwrnod; a'i fab Titus a deyrnasodd yn ei le.
4088	80	Titus 1	Yn y flwyddyn hon y bu tarddiad anghyffredin o fynydd llosg Vesuvius, yn neheubarth yr Ital, trwy ba un y gorchuddiwyd ac y llwyr ddinystriwyd dwy ddinas, sef Herculaneum a Phompeii, ynghyd â'r holl wlad o'u hamgylch, gan afon danllyd o sylwedd toddedig *(lava)* yn llifeirio o berfedd y mynydd. Yn y blynyddoedd diweddar y mae amryw wedi bod yn tirio at y dinasoedd hyn, a chael y tai a'r ystafelloedd o'u mewn, ac ynddynt rai pethau gwerthfawr a chywrain, a rhai llyfrau ysgrifen-law ag sydd debyg i fod yn ddefnyddiol i ddysgeidiaeth.
4089	81	2	Titus yn marw Medi 13, ar ol teyrnasu 2 flynedd, 2 fis, ac 20 niwrnod, nid heb ammheuaeth o gael ei wenwyno gan ei frawd Domitian. Ymddygodd Titus gyd â'r fath hynawsedd ac addfwynder tu ag at bawb, hyd yn nod ei elynion, fel y parodd ei farwolaeth golled a galar cyffredinol am dano. Un o'i ddywediadau

Oed y Byd.	Oed Crist.	Ymerawdwyr Rhufain.	
			oedd, 'na ddylai neb fyned ymaith yn drist o wydd tywysog.' Unwaith, ar swper, adgofiodd na wnaethai gymmwynas i neb y diwrnod hwnw; gan hyny, galarodd, gan ddywedyd, 'O gyfeillion, myfi a gollais ddiwrnod.' Siampl hynod mewn Pagan, a ddylai beri cywilydd ar lawer a elwir yn Gristionogion. Yr oedd ymddygiad da Titus tra bu yn teyrnasu yn fwy hynod, gan na fu yr un o Ymerawdwyr Rhufain yn fwy llygredig na chreulon cyn dyfod i'r orsedd. *Sueton.*
4090	82	Domitian 1	Domitian a deyrnasodd 15 mlynedd a phum diwrnod. Gormesdeyrn creulawn ydoedd, a'r mwyaf ysgeler o holl Ymerawdwyr Rhufain. Er hyny gorchymynodd i'w ddeiliaid ei addoli fel duw.
4099	91	10	Oddeutu y flwyddyn hon y bernir i Ioan ysgrifenu ei Epistol I. ac yn fuan wedi hyny yr II. a'r III. *Bedford.*
4103	95	14	Yn y flwyddyn hon, neu yr un o'i blaen, y bernir i Domitian godi yr ail erlidigaeth yn erbyn y Cristionogion; ym mha un, ar ol bwrw Ioan i bair o olew berwedig, heb dderbyn dim niwed, y deolwyd ef i ynys Patmos yn Môr y Canoldir, lle yr ysgrifenodd ei Ddatguddiad yn y flwyddyn hon, neu yr un ganlynol. *Petavius, Jerome, Tertulian.*
4104	96	15	Lladdwyd Domitian yn ei ystafell wely Medi 18, yn y flwyddyn hon, a Cocceius Nerva, henafgwr pendefigaidd, a ddewiswyd yn Ymerawdwr yn ei le.
4105	97	Nerva 1	Nerva, ar ei ddyrchafiad i'r orsedd, a ddiddymodd gyfreithiau Domitian, ac adferodd y meddiannau a gymmerasai trwy drais. Dywedir i Ioan ddychwelyd i Ephesus ar ol marw Domitian.
4106	98	2	Nerva a fabwysiadodd Trajan, ag oedd yn rhaglaw yn yr Almaen, i fod yn ddilynwr iddo yn yr Ymerodraeth. Bu farw Nerva yn nechre y flwyddyn hon, Ionawr 26, ar ol teyrnasu 1 flwyddyn, 4 mis, ac 8 niwrnod; a Trajan a'i dilynodd yn yr orsedd. Yn y flwyddyn hon dywedir i Ioan ysgrifenu ei Efengyl, ar ddymuniad esgobion Asia Leiaf, o herwydd cynnydd cyfeiliornadau y Cerinthiaid, y Nicolaiaid, a hereticiaid ereill, ag oedd yn gwadu Duwdod Crist, neu ynte ei wir ddyndod a'i ddioddefiadau. *Bedford, quoting Euseb. Eccles. Hist.* Ond wrth ystyried yr hyn a ddywed Ioan, *Dat.* 1. 2. tebygol yw iddo ysgrifenu ei Efengyl o flaen y Datguddiad. Bernir i Ioan farw yn y flwyddyn 100 o oed Crist, a'r 3edd i Trajan.

RHAGDRAETHAWD

I GYSONDEB Y PEDWAR EFENGYLWR.

AM Y PEDWAR EFENGYLWR, Y DEUDDEG APOSTOL, A RHAI PERSONAU EREILL A GRYBWYLLIR AM DANYNT YN Y PEDAIR EFENGYL.

PENNOD I.

Am y Pedwar Efengylwr.

MATTHEW.

Matthew *(Heb. rhodd)* y publican, neu Lefi, oedd fab i Alpheus, neu Cleophas, a Mair, yr hon a elwir yn chwaer i fam yr Iesu *(Ioan* 19. 25.) ond bernir mai ei chyfnither ydoedd, gan fod yr Iuddewon yn arfer galw perthynasau agos yn frodyr a chwiorydd. Yr oedd gan Matthew dri o frodyr o nifer y 12 apostol, heblaw ei hun; sef Judas a gyfenwid Lebbæus a Thadeus, a ysgrifenodd yr epistol sydd ar ei enw; Iago Leiaf, a Simon y Cananead, yr hwn hefyd a gyfenwid Zelotes. Gelwir Lefi, neu Matthew, yn fab Alpheus. *Marc* 2. 14. Dywedir fod Iago (sef y lleiaf) yn fab i Alpheus, a Mair. *Mat.* 10. 3. a 27. 56. A dywedir fod Judas a gyfenwid Lebbæus a Thadeus, yn frawd i Iago (leiaf). *Judas* 1. Gelwir Iago, a Joses, a Simon, a Judas, meibion Alpheus neu Cleophas, a Mair chwaer Mair Forwyn, yn frodyr i'r Iesu, sef cyfyrdyr, fel y bernir. *Mat.* 13. 55. Gan nad oes grybwylliad am enw Lefi yn eu plith, nid yw yn annhebygol iddo ymadael â thŷ ei dad rai blynyddoedd cyn i drigolion Nazareth ddangos eu rhagfarn yn erbyn yr Iesu, a chymmeryd swydd publican. Y mae gwyr Nazareth yn dywedyd fod chwiorydd yr Iesu, sef ei gyfnitheroedd, gyda hwynt y pryd hyny *(Mat.* 13. 55.) gan hyny gellir nid yn unig gasglu, ond profi, nad oedd y rhai a elwir yn frodyr iddo yn cartrefu y pryd hyny yn Nazareth, gan fod tri o honynt, o leiaf, o nifer y 12 apostol, ac yn dilyn yr Iesu, wedi gadael pob peth er ei fwyn. Y mae sail dda i farnu mai Nazareth oedd cartref Cleophas a Mair, a lle genedigol eu plant: ond gan i'r Iesu symud oddi yno ym mhen ychydig ar ol dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus i Capernaum, felly, tebygol yw, i Cleophas a'i deulu ymadael â'r ddinas annuwiol erlidigaethus hòno, a sefydlu yn Cana yn Galilea. Bernir fod y briodas yn Cana *(Ioan* 2.) yn nhŷ Cleophas, am fod mam yr Iesu a'i frodyr, neu ei gefndyr, yno, ac am fod Simon, un o honynt, yn cael ei gyfenwi y Cananead, am ei fod yn preswylio yn y ddinas

hòno pan alwyd ef i fod yn apostol. Rhoddwyd y cyfenw hwnw arno ef yn hytrach na'i frodyr, i wahaniaethu rhyngddo a Simon mab Jona, a gyfenwyd Petr.

Bernir fod Matthew yn cael ei alw yn bublican* am ei fod yn derbyn toll, neu borth-lôg, yn y porth *(ferry)* yn Capernaum, ar yr ochr orllewinol i lyn Genesareth, am drosglwyddo teithwyr i'r amrywiol ddinasoedd a manau ar yr ochr arall, neu yr un ochr. *Marc* 2. 13, 14. Y mae lle i gasglu iddo ymgyfoethogi yn ei alwedigaeth; ond nid yw yn ymddangos mai trwy anghyfiawnder. *Marc* 2. 15. *Luc* 5. 29. Yr oedd Matthew wedi bod yn wrandawr, tebygol, os nid yn ddisgybl o'r blaen, pan alwodd Crist arno wrth y dollfa, i'w ddilyn yn ddiwahan, i'w gymhwyso i'r weinidogaeth a'r apostoliaeth. Gellir casglu fod ei alwad ychydig o flaen yr ail basc o weinidogaeth Crist, ar ol iachâu y claf o'r parlys a ddygid gan bedwar; ac ym mhen ychydig ar ol galw Petr ac Andreas, Iago ac Ioan, i'r apostoliaeth. *Mat.* 9. 1—9. *Marc* 2. 1—14. *Luc* 5. 18—28. *Gwel y Cysondeb.*

Bernir i Matthew ysgrifenu ei Efengyl yn gyntaf un o'r pedwar, oddeutu y flwyddyn 44 o'r Cyfrif Cyffredin o oed Crist, cyn i amryw o'r apostolion ymadael o Jerusalem i fyned i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd. Ysgrifenodd Matthew, fel yr Efengylwyr ereill, yn yr iaith Roeg; ond cyfieithwyd ei Efengyl ef yn lled fuan, gan ryw un, i'r Hebraeg, er mwyn yr Iuddewon dysgedig oedd heb gredu. *Lightfoot.*——Nid yw Matthew yn glynu yn gyson at drefn amser o ddiwedd *pen.* 4. hyd *pen.* 14; wedi hyny y mae, gan mwyaf, yn adrodd pethau yn ol trefn amser. Tybygid mai ei fwriad oedd i ymadael â threfn amser yn y rhan grybwylledig o'i Efengyl; canys wedi iddo ddywedyd *pen.* 4. 23. i'r Iesu fyned o amgylch holl Galilea gan ddysgu ac iachâu, y mae yn gyntaf yn rhoddi esampl o'i ddysgeidiaeth, trwy roddi adroddiad lled helaeth o'i bregeth ar y mynydd, fel y gallai y darllenydd farnu am ei ddysgeidiaeth mewn manau ac ar amserau ereill. *Mat.* v, vi, vii. Wedi hyny y mae yn rhoddi ynghyd amryw wyrthiau hynod o iachâd, ond nid yn

---

* Publican, yn ol ystyr priodol y gair, yw *casglydd trethi.* Yr oedd dau fath o bublicanod ym mhlith y Rhufeiniaid; sef, 1. Y rhai oedd yn oruchwylwyr ar drethi, neu gyllidau, yr amrywiol ranau o'r Ymerodraeth.—2. Y rhai oedd oddi tanynt yn eu casglu. Yr oedd y cyntaf yn cael eu cyfrif yn anrhydeddus, a'r ail yn warthus, o herwydd eu mynych orthrymderau. Ond, ym mhlith y genedl Iuddewig, yr oedd anair a gwarth yn nglyn wrth yr alwedigaeth yn gyffredinol, am eu bod yn barnu nad oedd gyfreithlon i dalu trethi i genedloedd estronol. Pen publicanod ym mhlith yr Iuddewon oedd y rhai ag oedd yn ymrwymo i dalu swm pennodol o arian am drethi rhyw randir neu diriogaeth; ac yn gosod rhanau o honynt i ereill, y rhai oeddynt y publicanod cyffredin. A rhwng y ddwy blaid yr oedd y wlad yn ddarostyngedig i lawer o drais a gorthrymder. Yr oedd math arall o bublicanod, ag oedd yn aros wrth benau pynt, llidiardau, a phyrth môr Genesareth, i dderbyn toll, neu borth-lôg, gan deithwyr. O nifer y rhai olaf y bernir fod Matthew; a Zacchëus o nifer y pen-publicanod. *Lightfoot.*

hollol yn ol trefn amser. *Mat.* viii, ix. Y mae gwagle, tybygid, o oddeutu 6 mis yn gystal yn Matthew ag yn Marc, o fynediad Crist i ŵyl y pebyll, sef yr olaf yn ei weinidogaeth, hyd ei gychwyniad i fyned i'r pasc olaf; ond llenwir hwn gan Luc. *Gwel y Cysondeb.* *Luc* 9. 51—62. a 18. 15, 16, 17.——Y mae yn debygol i Matthew ymadael o Jerusalem yn lled fuan ar ol ysgrifenu ei Efengyl, i fyned at y cenedloedd. Dywedir iddo bregethu yr Efengyl yn Ethiopia yn Affrica, lle dioddefodd ferthyrdod.

MARC.

Marc (enw Lladinaidd yn arwyddo *boneddigaidd)* neu Ioan a gyfenwid Marc, oedd nai Barnabas, mab Mair ei chwaer. *Act.* 12. 12, 25. *Col.* 4. 10. Tybygid mai yn Jerusalem y ganwyd ac y magwyd ef, gan fod tŷ ei fam yno; ac iddo gael ei ddychwelyd i'r ffydd trwy weinidogaeth Petr. 1 *Petr* 5. 13. Pa un ai oedd o nifer y 70 disgybl ai nid oedd, ni ellir bod yn sicr; ond nid yw yn annhebygol, gan i'r Yspryd Glân ddewis dau o'r 12 apostol, sef Matthew ac Ioan, iddo ddewis dau, sef Marc a Luc, o nifer y 70 disgybl, i ysgrifenu Efengylau.

Pan aeth Saul a Barnabas o Antiochia yn eu taith gyntaf, yn y flwyddyn o oed Crist 45, i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd, yr oedd Ioan a gyfenwid Marc yn weinidog iddynt; ond cyn gorphen y daith, ymadawodd o Perga yn Pamphylia, ac a ddychwelodd i Jerusalem. *Act.* 13. 5, 13. Y pryd hyn, fel y bernir, yr ysgrifenodd Marc yr Efengyl sydd ar ei enw, tan olygiad a thrwy gyfarwyddiad yr apostol Petr, trwy dalfyru Efengyl Matthew, geiriau Groeg pa un y mae yn fynych yn eu harfer. Y mae yn ysgrifenu yn ol trefn amser, oddieithr gwledd Lefi, a'r amgylchiadau a ddigwyddasant ynddi, a dammegion y brethyn a'r costrelau a draethodd Crist y pryd hyny. Wedi sôn am alwad Lefi, y mae yn ychwanegu yr hanes am ei wledd, er na ddigwyddodd hyd yn agos i 8 mis wedi hyny, er mwyn rhoddi y cwbl o hanes Matthew gyd â'u gilydd. Pan oedd Paul a Barnabas, oddeutu y flwyddyn o oed Crist 50, yn myned i ymweled â'r eglwysi a blanasent yn y daith gyntaf, cododd anghydfod rhyngddynt o achos Marc, fel yr ymadawsant â'u gilydd, ac aethant i wahanol deithiau. Paul a ddewisodd Silas, neu Silvanus; a Barnabas a gymmerodd Marc yn gydymaith. *Act.* 15. 37—40. Rhyw bryd ar ol gorphen y daith hon, aeth Marc gyda Phetr i Babilonia, lle yr oedd y corph mwyaf o Iuddewon o un wlad ond Judea. O Babilon, neu Babilonia, yr ysgrifenodd Petr ei epistol cyntaf, oddeutu y flwyddyn o oed Crist 60, pan oedd Marc gyd âg ef. 1 *Petr* 5. 13. Yn fuan wedi hyny daeth Marc o Babilonia at Paul i Rufain, fel yr ymddengys oddiwrth yr epistol at y Colossiaid *(pen.* 4. 10.) yr hwn a ysgrifenwyd yn y flwyddyn 62, tua diwedd yr ail flwyddyn o garchariad Paul yn Rhufain. Ar ol gorphen rhwymau cyntaf Paul yn Rhufain, ymadawodd Marc oddi wrtho i fyned i Asia Leiaf, i Colosse, tybygid,

ac i Ephesus; *Col.* 4. 10. 2 *Tim.* 4. 11. lle yr oedd pan ysgrifenodd Paul ei ail epistol at Timotheus o Rufain, yn ei ail rwymau, yn y flwyddyn 67, oddeutu blwyddyn o flaen ei ferthyrdod. *Bedford.** Pa un a aeth Marc gyda Thimotheus i Rufain yn ol dymuniad Paul, ai nid aeth, y mae yn anhawdd penderfynu. Dywedir i Marc dreulio y blynyddoedd olaf o'i fywyd yn pregethu yr efengyl yn Affrica gyda mawr lwyddiant, ac iddo ddioddef merthyrdod yn Alexandria.

LUC.

Luc (Lucas, Lucius, enw Lladinaidd yn arwyddo *goleu, disglaer)* oedd, fel y bernir, yr un â Lucius o Cyrene *(Act.* 13. 1.) a Lucius yn *Rhuf.* 16. 21. yr hwn y mae Paul yn ei alw yn un o'i geraint, sef ei *gyd-genedl,* fel y mae y gair Groeg yn arwyddo. Y mae yn eglur fod Luc gyda Phaul yn Corinth pan ysgrifenodd ei Epistol at y Rhufeiniaid, yn y flwyddyn 58, ac y mae yn ei enwi yn ol dull Rhufeinaidd. *Edr. Act.* 20. 1—6. Yr oedd Paul wedi ei ddanfon gyd â'r Ail Epistol at y Corinthiaid o Philippi, ac a'i dilynodd ar fyrder. 2 *Cor.* 8. 18. a 13. 1.

Wedi cael ei eni, tybygid, yn Cyrene yn Affrica, y mae yn debygol iddo gael ei ddygiad i fynu yn Jerusalem, yn yr athrofa oedd yn perthyn i synagog y Cyreniaid. *Lightfoot.* Gyda rhanau ereill o ddysgeidiaeth, dysgodd physygwriaeth, gan ei fod yn cael ei alw, 'Luc y physygwr anwyl.' *Col.* 4. 14. Dychwelwyd ef i'r ffydd, tybygid, yn amser gweinidogaeth gyhoeddus Crist, gan fod yn debygol mai efe ei hun oedd un o'r ddau ddisgybl oedd yn myned i Emmaus. Gan ei fod yn enwi Cleophas, ac yn celu enw y llall, y mae yn anhawdd deall yr achos os nad efe ei hun oedd hwnw. Bernir fod Luc yn un o'r 70 disgybl, am mai efe yn unig o'r pedwar Efengylwr sydd yn rhoddi hanes am eu danfoniad, eu cenadwri, eu llwyddiant, a'u dychweliad at Grist, tybygid, i fwyl y pebyll i Jerusalem, sef yr olaf o'i weinidogaeth. Pan gododd yr erlidigaeth oddeutu amser merthyrdod Stephan, chwalwyd Luc ac ereill o Jerusalem; ac ar ol teithio trwy Judea, Samaria, a Phœnicia, sefydlasant dros amser yn Antiochia yn Syria; lle cafodd Luc, tybygid, gydnabyddiaeth â Theophilus, pendefig y bu efe yn offerynol, tybygid, i'w ddychwelyd i'r ffydd yn Nghrist; i ba un, wedi hyny, y cyflwynodd ei Efengyl, ac Actau yr Apostolion. Dechreuodd gyd-deithio â Phaul pan oedd yn Troas, yn y flwyddyn 51, ac aeth gyd âg ef i Macedonia a Philippi, canys y pryd hyny y mae Luc gyntaf yn ysgrifenu megys un o'r gymdeithas. Gellir casglu iddo aros y pryd hyn yn Philippi oddeutu 7 mlynedd, yn ysgrifenu ei Efengyl (o ddefnyddiau a gafodd gan Paul ac ereill, fel y bernir, ac a gasglasai ei hun) yn pregethu yr

---

* Y mae *Witsius (Vita Pauli)* yn barnu mai yn rhwymau cyntaf Paul yn Rhufain yr ysgrifenodd yr Ail Epistol at Timotheus.

Efengyl; ac, hwyrach, yn arfer ei gelfyddyd feddygol, heblaw pregethu. Ac nid yw yn annhebygol iddo ysgrifenu hefyd y rhan gyntaf o'r Actau y pryd hyn, o ddefnyddiau a gawsai gan Paul ac ereill; yr hwn a orphenodd yn amser carchariad cyntaf Paul yn Rhufain.

Dychwelodd Paul i Macedonia a Philippi yn y flwyddyn 58, o ba le yr ysgrifenodd ei Ail Epistol at y Corinthiaid, ac a'i danfonodd gyda Thitus a Luc, yr hwn nid oedd achos ei enwi, ond yn unig hysbysu mai y brawd hwnw ydoedd, yr hwn yr oedd ei glod yn (neu *am)* yr Efengyl trwy yr holl eglwysi. 2 *Cor.* 8. 18. Gan hyny nid oes le i ammeu i Luc ysgrifenu a chyhoeddi ei Efengyl rhwng y blynyddoedd 51 a 58. Cymharer *Act.* 16. 17. â 20. 5, 6. *Edrych yr Ail Daflen o'r Seithfed Dosparth, yn y blynyddoedd* 51 *a* 58.

Y mae Luc yn ei Efengyl, 'wedi dilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad, yn ysgrifenu mewn trefn,' ond nid mor gyson â Marc yn ol trefn amser, etto yn y drefn a arfaethasai, ac a ddysgwyd iddo gan yr Yspryd Glân. Gellir barnu ei fod yn ysgrifenu âg Efengylau Matthew a Marc o'i flaen, gan ei fod yn gadael allan ac yn ychwanegu amryw bethau, ac er hyny yn cadw cysondeb cyffredinol â hwy. Y mae Luc yn dangos arwyddion neillduol o ddysgeidiaeth, yn ei iaith a'i ddull o ysgrifenu.

IOAN.

Ioan y Difeinydd, a'r disgybl anwyl, a ysgrifenodd ei Efengyl yn olaf o'r pedwar Efengylwr. Y mae *Bedford* yn barnu iddo ysgrifenu ei Efengyl ar ol ei Ddatguddiad, yn y flwyddyn 98; ond tybygid oddiwrth *Dat.* 1. 2. mai y Datguddiad a ysgrifenwyd yn olaf.

Iago (neu Jacob) ac Ioan *(gras* neu *drugaredd yr Arglwydd)* oeddynt feibion Zebedeus (Zabdi) a Salome, o Bethsaida, fel y tybir, a physgodwyr gyd â'u tad ar fôr Galilea. Yr oedd Ioan ar y cyntaf yn un o ddisgyblion Ioan Fedyddiwr; ac yn un o'r ddau, tybygid, a aeth i ymddiddan â'r Iesu ar ol ei ddychweliad o'i brofedigaeth yn yr anialwch, ac a gredodd yn un o'r rhai cyntaf mai Iesu oedd y Messïah; Andreas oedd y llall. *Ioan* 1. 37—40. Galwyd ef gyd â'i frawd oddiwrth eu tad a'u rhwydau, i fod yn bysgodwyr dynion *(Marc* 1. 19, 20.) oddeutu tri mis o flaen yr ail basc o weinidogaeth Crist. Yr oedd wedi bod o'r blaen gyda Christ, ynghyd âg ereill o'i ddisgyblion, oddeutu 8 mis, yn Judea, ar ol y pasc cyntaf, yn bedyddio y rhai a gredent yn Nghrist. *Ioan* 4. 1, 2. Cafodd Petr ac Iago ac Ioan eu hanrhydeddu uwchlaw yr apostolion ereill, i fod yn fwy cyfrinachol gyda Christ ar amryw achosion neillduol. *Marc* 5. 37. a 9. 2. a 14. 33. Y mae yn debygol, gan fod Ioan yn celu ei enw yn ol ei arfer, mai efe ei hun oedd y 'disgybl arall' oedd yn canlyn yr Iesu gyda Simon Petr, a'r un a'r gwr ieuangc oedd yn ei ddilyn i lŷs yr arch-offeiriad, i ba un yr oedd yn adnabyddus, gan iddo hòni ei hun yn ddisgybl i'r Iesu. *Ioan* 18. 15.

Marc 14. 51. *Edrych y Cysondeb.* Ioan yn unig o'r deuddeg a safodd wrth groes yr Iesu, ac oedd gyd â'r cyntaf wrth ei fedd ar ol ei adgyfodiad.

Bernir iddo aros gyd â'r apostolion yn Jerusalem oddeutu 15 mlynedd ar ol esgyniad Crist, hyd farwolaeth Mair ei fam, pan aeth i Asia Leiaf, lle bu yn offerynol i adeiladu amryw eglwysi, yn neillduol saith Eglwys Asia; ac ysgrifenodd ei Epistolau, ei Efengyl, a'r Datguddiad rhwng y blynyddoedd 91 a 98, er fod ereill yn amrywio yn hyn. Wedi diangc yn wyrthiol o bair o olew berwedig, i ba un y bwriasid ef yn Rhufain trwy orchymyn yr Ymerawdwr Domitian, deolwyd ef, yn y flwyddyn 95, i ynys Patmos; o ba le, ar ol ysgrifenu y Datguddiad, dychwelodd i Ephesus, lle treuliodd weddill ei ddyddiau, hyd oni chyrhaeddodd 100 mlwydd oed. Bu farw o *apoplexy* medd rhai, yn y flwyddyn o oed Crist 100, a'r drydedd o'r Ymerawdwr Trajan. Yn ol hyn, yr oedd yn 30 oed pan ddioddefodd Crist; parhaodd ei weinidogaeth ar ol hyny 70 mlynedd, a bu fyw ar ol dinystr Jerusalem 30 mlynedd. Ysgrifenodd ei Efengyl yn neillduol i brofi Duwdod a gwir ddynoliaeth Crist, yn erbyn cyfeiliornadau Ebion, Cerinthus, y Nicolaiaid, a'r Gnosticiaid; y rhai y mae efe yn eu galw yn anghristiau (1 *Ioan* 2. 18.) a thwyllwyr lawer. 2 *Ioan* 7. Y mae Efengyl Ioan yn drysor tra gwerthfawr i eglwys Crist, wedi ei hysgrifenu yn gyson yn ol trefn amser, gan mwyaf, yn ol trefn y gwyliau arbenig yn ngweinidogaeth Crist. Wedi gweled gwaith y tri Efengylwr cyntaf, cymmerodd lwybr gwahanol oddi wrthynt, gan adrodd y pethau, y gwyrthiau, a'r ymddiddanion ni chrybwyllwyd, gan mwyaf, ganddynt hwy. Y mae wedi ysgrifenu gyda gwylder, dwysder, a symlrwydd sanctaidd; ac wedi treiddio i'r fath ddyfnderoedd o dduwinyddiaeth fel y mae yr enw *Difeinydd,* a roddwyd gan rai o dadau y brif eglwys, yn dra theilwng iddo. Nid oes le i ammeu na thraddododd Ioan swm a sylwedd ei Efengyl, ac hwyrach lawer mwy o eiriau a gwyrthiau Crist yn ystod ei weinidogaeth, cyn ei hysgrifenu; a hyny oedd un achos i weinidogion yr eglwys y pryd hyny ei annog i'w hysgrifenu, neu gyhoeddi yr hyn oedd ysgrifenedig ganddo o'r blaen.

Y mae rhagluniaeth ddoeth a daionus yr Arglwydd tu ag at ei eglwys i'w gweled, nid yn unig trwy roddi yr ysgrythyrau sanctaidd yn rheol ffydd ac ymarweddiad i'w eglwys, ond hefyd yn y byrdra cynnwysfawr â pha un yr ysgrifenwyd hwynt.

PENNOD II.

Am y Deuddeg Apostol.

O'r deuddeg apostol yr oedd pedwar, fel y dywedwyd, yn feibion i Alpheus, neu Cleophas, a Mair a elwir yn chwaer (yn ol arfer yr Iuddewon) i Mair mam yr Iesu; ond, tybygid, mai ei chyfnither ydoedd. *Ioan* 19. 25. Y rhai hyn oeddynt Matthew, neu Lefi y publican, Iago Leiaf (*Mat.* 27. 56.) Judas a gyfenwid Lebbæus a Thadeus (*Judas* 1. *Luc* 6. 16. *Mat.* 10. 3.) a Simon y Cananead, yr hwn hefyd a gyfenwir Zelotes. *Luc* 6. 15. Gelwir meibion Alpheus a Mair yn frodyr, sef yn geraint agos, i'r Iesu. *Mat.* 13. 55, 56.

Yr oedd dau yn feibion Zebedeus (Zabdi, *rhan, cynnysgaeth)* a Salome, sef Iago ac Ioan, o Bethsaida, fel y tybir, y rhai a gyfenwid gan Grist Boanarges, yn ol y Syriaeg; yr hyn yn Hebraeg a fyddai *Bene reges*, sef *meibion y daran*, o herwydd y grym a'r awdurdod dwyfol oedd yn cydfyned â'u gweinidogaeth.

Yr oedd tri ereill o Bethsaida; sef y ddau frawd Simon ac Andreas, meibion Jona, a Philip. *Ioan* 1. 44.

Yr oedd dau (heblaw Simon) o Cana yn Galilea; sef Thomas a Nathanael, yr hwn a alwyd Bartholomeus, mab Talmai, neu Tolmai. *Ioan* 21. 2.

A'r hwn a enwir olaf o'r deuddeg oedd Judas Iscariot, mab Simon, yr hwn a'i bradychodd. Y mae dadl ynghylch y cyfenw Iscariot; y mae rhai yn barnu mai *gwr o Cirioth*, neu Cerioth, yw ystyr Iscariot. Yr oedd dinas o'r enw Cirioth yn llwyth Judah. *Jos.* 15. 25. Y mae ereill yn barnu y gall y gair arwyddo *arffedog ledr;* ym mha un, tybygid, yr oedd Judas yn dwyn y gôd. Neu, ynte, y gall arwyddo *tagu*, neu *dagiad (strangulation)* gyda golygiad at ei waith yn ymgrogi. *Lightfoot.* Ond y tyb cyntaf sydd debycaf i wir.

Soniwyd eisoes am ddau o'r deuddeg, sef Matthew ac Ioan; ac yn yr hyn a ganlyn rhoddir hanes byr am y naw ereill, ac am Matthias, a ddewiswyd yn lle Judas Iscariot.

1. SIMON.

Simon mab Jona, oedd, fel ei frawd Andreas, ac ereill o'r apostolion, yn un o ddisgyblion Ioan Fedyddiwr ar y cyntaf. Credodd yn Nghrist, tybygid, trwy dystiolaeth ei frawd Andreas. Cyfenwyd ef Cephas gan Grist; yr hyn, yn Syriaeg, sydd yn arwyddo yr un peth a Phetr yn Groeg, sef *careg*, o herwydd ei ffydd, am ei fod, trwyddi hi, fel maen yn yr adeilad, yn gorphwys ar Grist, sylfaen yr eglwys. *Ioan* 1. 41, 42. *Mat.* 16. 16, 17, 18. 1 *Petr* 2. 4, 5, 6. Er i Petr gael ei ystwytho i bregethu yr efengyl i Cornelius, ac ereill o'r cenedloedd oedd yn ei dŷ,

oddeutu 2 flynedd ar ol i Saul bregethu yn Arabia, etto yr oedd ei duedd yn gryfach, ac felly yr ymddiriedwyd iddo gan yr Arglwydd, i bregethu yr efengyl i'r enwaediad. *Gal.* 2. 7. Arosodd Petr, gan mwyaf, yn Jerusalem, oddeutu 20 mlynedd ar ol esgyniad Crist. Yr oedd yno gyd âg Iago ac Ioan yn y flwyddyn o oed Crist 48, a'r 8fed i Claudius, pan anfonwyd Paul a Barnabas gyda Titus at henuriaid yr eglwys yn Jerusalem, oddiwrth yr eglwys yn Antiochia yn Syria, o herwydd y ddadl a godasai ynghylch y ddeddf seremoniol. *Gal.* 2. 1, 9. *Act.* 15. 2.

Dwy flynedd wedi hyny, fel y bernir, cawn Petr yn Antiochia. *Gal.* 2. 11. Nid yw yn annhebygol iddo fyned y pryd hyn i Asia Leiaf i bregethu yr efengyl i'w frodyr o'r enwaediad yn Pontus, &c. Ar ol planu amryw eglwysi yn y parthau hyny, aeth i Babilonia, lle yr oedd y corph mwyaf o Iuddewon nesaf at Judea, gan gymmeryd Marc a Silfanus, neu Silas, gyd âg ef. Oddeutu y flwyddyn 62 ysgrifenodd ei Epistol Cyntaf, o Babilonia, at eglwysi Pontus, &c. gyda Silfanus; 1 *Petr* 5. 12. ac yn lled fuan wedi hyny ei Ail Epistol, tybygid, gyda Marc, ychydig o flaen ei ferthyrdod yn y wlad hòno. 2 *Petr* 1. 14. Nid oes dim tystiolaeth sicr fod Petr erioed yn Rhufain; gan ei fod yn weinidog yr enwaediad, a'i weinidogaeth, gan mwyaf, ym mhlith ei frodyr yn Judea, a'r rhai o honynt oedd ar wasgar, y mae yn hollol annhebygol, ac yn llwyr anghredadwy, iddo fyned i ben dinas y cenedloedd i blanu eglwys, ac i fod yn esgob cyntaf ynddi, fel yr haera Eglwys Rhufain. Y mae yn hawdd profi na bu Petr yn Rhufain o flaen y flwyddyn 58, pan ysgrifenwyd yr Epistol at y Rhufeiniaid; a gellir casglu ei fod wedi myned i Babilonia cyn y flwyddyn hòno, ac na ddychwelodd mwyach i'r parthau gorllewinol.

2. ANDREAS.

Andreas (enw Groeg yn arwyddo *cryfder* a *gwroldeb*) a bregethodd yr efengyl, fel y dywedir, yn Scythia, Ethiopia, Asia Leiaf, Thrasia, Macedonia, a thir Groeg, lle y croeshoeliwyd ef yn nheyrnasiad Vespasian yr Ymerawdwr Rhufeinig.

3. THOMAS.

Thomas, a gyfenwid Didymus (*Heb.* תאום Gemellus, *un o ddau efaill:* Didymus yw y gair Groeg am *efaill*) a weinidogaethodd yn yr India Ddwyreiniol, ac hyd eithafoedd y dwyrain, ac a ddychwelodd genedl y Braminiaid (*Brahmins*) i'r ffydd, yn ol tystiolaeth yr hynafiaid. *Alstedius.*

4. BARTHOLOMEUS.

Bartholomeus a bregethodd yn gyntaf yn Lycaonia, wedi hyny yn Syria ac India, ac yn olaf yn Armenia, lle dioddefodd ferthyrdod trwy orchymyn Astyages, brenin y wlad, trwy gael ei flingo yn fyw, yr hwn oedd ddull o ddienyddiad arferol ym mysg y Persiaid. *Alstedius.*

5. PHILIP.

Dywedir i Philip (enw *Gr. carnor meirch*) bregethu 20 mlynedd yn Scythia, ac wedi tramwy trwy Asia Leiaf, iddo gael ei groeshoelio yno, gyd â'i ddwy ferch. *Alstedius.*

6. IAGO.

Iago (yr un enw a Jacob, *disodlwr*) brawd Ioan, a laddwyd â'r cleddyf gan Herod Agrippa, ŵyr yr Herod cyntaf, yn Jerusalem, yn y flwyddyn 44, a'r 4edd i Claudius Cæsar. *Act.* 12. 1, 2.

7. IAGO Y LLEIAF.

Iago a gyfenwid *Leiaf*, a *Chyfiawn*, gan yr eglwys, mab Alpheus, yr hwn a elwir brawd yr Arglwydd *(Gal.* 1. 19.) a arosodd fel un o flaenoriaid yr eglwys yn Jerusalem, hyd oni roddwyd ef i farwolaeth gan Ananus yr arch-offeiriad yn y flwyddyn 62, yr hwn am y weithred waedlyd hòno a ddiswyddwyd ym mhen 3 mis gan y brenin Agrippa hwnw, ger bron pa un yr amddiffynodd Paul ei hun. Ysgrifenodd ei Epistol Cyffredinol, fel y bernir, oddeutu dwy flynedd cyn ei farwolaeth. Y mae *Josephus* yn barnu fod dienyddiad Iago Leiaf, gan ei fod yn ŵr mor gyfiawn, yn un o'r achosion am ba rai y dinystriwyd Jerusalem.

8. JUDAS.

Judas, a gyfenwid Lebbæus *(calonog, gwrol)* a Thadeus *(cyffeswr)* oedd frawd Iago Leiaf, a'i frodyr. Efe a ddysgodd y Cenedloedd yn gyntaf yn Mesopotamia, a Phontus; wedi hyny aeth gyd â'i frawd Simon i Persia, lle rhoddwyd ef i farwolaeth gan yr offeiriaid Paganaidd. Bernir iddo ysgrifenu ei Epistol oddeutu y flwyddyn 66, pedair blynedd o flaen dinystr Jerusalem, at ba un y mae, hwyrach, yn cymhwyso prophwydoliaeth Enoch. *Adn.* 14, 15.

9. SIMON Y CANANEAD.

Simon y Cananead, o Cana yn Galilea, a gyfenwir Zelotes (am ei fod unwaith o blaid y Zelotiaid ag oedd yn erbyn talu teyrnged i estron genedl; neu, ynte, fel y mae yn debycach, o herwydd ei zel a'i wresogrwydd yn achos Crist a'r Efengyl) a gyhoeddodd yr Efengyl yn yr Aipht, Libya, Cyrene, Persia, yn Ynys Brydain (fel y dywed rhai, ac ammheuir gan ereill) o ba le y dychwelodd i flaenori ar yr eglwys yn Judea, lle croeshoeliwyd ef yn 120 mlwydd oed, ac yn olaf o'r deuddeg apostol. *Alstedius Thesaur. Chronol.*

10. MATTHIAS.

Matthias oedd, fel y bernir, yn un o'r 70 disgybl. Pregethodd yr Efengyl yn Ethiopia, lle, wedi ei labyddio, y torwyd ymaith ei ben.

Wrth ystyried y gwledydd a enwyd, trwy ba rai y teithiodd yr apostolion, y mae yn hawdd deall eu bod wedi cwblhau gorchymyn

ein Harglwydd, trwy bregethu yr Efengyl yn y rhan fwyaf o'r holl fyd, a hyny cyn dinystr Jerusalem, wedi dechreu eu gweinidogaeth yno ac yn Judea. *Mat.* 28. 19, 20. *Marc* 16. 15. *Luc* 24. 47. *Mat.* 24. 14.

PENNOD III.

Am Mair a gyfenwid Magdalen.

Y MAE sail dda i farnu, mai yr un a Mair chwaer Lazarus oedd Mair Magdalen. Cafodd ei chyfenw, meddir, oddiwrth Magdala, dinas yn Galilea, lle buasai yn byw, tybygid, cyn dyfod i fyw gyd â'i brawd yn Bethania. Neu, ynte, y mae ei chyfenw yn arwyddo un ag oedd yn arfer plethiad gwallt. Ond nid yw yn debygol y buasai yr Efengylwyr yn arfer enw ag oedd yn arwyddo gwarth, ar ol ei dychweliad oddiwrth ei drwg foesau. Y mae yr ysgrifenwyr Iuddewig yn sôn am Mair Magdalen megys un hynod am aflendid ei buchedd yn nyddiau Iesu o Nazareth. Dywedent ei bod yn wraig i un Papus mab Judah, yr hwn oedd yn arfer ei chloi mewn ystafell, pan elai oddi cartref, i'w hattal rhag godinebu. Cesglir oddiwrth y rhesymau canlynol, mai yr un oedd Mair Magdalen a Mair chwaer Lazarus:—1. Bernir mai yn Jerusalem yr oedd Crist yn cadw gŵyl y pebyll ar ol yr ail basc pan ddaeth dau o ddisgyblion Ioan Fedyddiwr i ofyn, 'Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod? ai un arall yr ydym yn ei ddisgwyl?' *Luc* 7. 19. Ar ol gorphen yr ŵyl daeth i Bethania, ar ei daith i Galilea, lle yr oedd Lazarus, a'i chwiorydd Mair a Martha, ac hefyd Simon y Pharisead, yr hwn oedd yr un (fel y bernir) a Simon y gwahanglwyfus, yr hwn a iachasid gan Grist o'i wahanglwyf, ac oedd yn ddisgybl iddo. Pan oedd Crist yn bwyta yn nhŷ Simon, daeth rhyw bechadures ag oedd wedi cael argyhoeddiad, edifeirwch, a maddeuant, heb wybod i Simon, fe allai trwy weinidogaeth Crist, yn yr ŵyl oedd newydd fyned heibio. Golchodd draed yr Iesu â'i dagrau, sychodd hwynt â gwallt ei phen, cusanodd hwynt, ac a'u hirodd âg enaint. Er nad yw Luc yn ei henwi wrth roddi yr hanes yn niwedd *pen.* 7. y mae, tybygid, yn ei henwi yn nechreu *pen.* 8. dan yr enw Mair Magdalen, o ba un y bwriasai yr Iesu saith gythraul.——2. Y mae Ioan (*pen.* 11. 2.) yn coffâu gweithred y wraig hon, tybygid, yn eneinio traed yr Iesu yn nhŷ Simon, ac yn ei phriodoli i Mair chwaer Lazarus; canys ni fyddai yn gyson â threfn hanesyddiaeth i farnu fod Ioan yn cyfeirio at gyffelyb weithred yr hon ni chyflawnwyd rai misoedd ar ol adgyfodi Lazarus. Heblaw hyny, dylid sylwi fod y gair Groeg αλειψασα, yn arwyddo yr amser a aeth heibio, ac yn ol ei briodol ystyr a ddylai gael ei gyfieithu, 'yr hon a *eneiniasai.*' *Ioan* 12. 3.——3. Os nad oedd Mair Magdalen yr un â Mair chwaer

Lazarus, y mae yn anhawdd deall yr achos o ddistawrwydd yr Efengylwyr yn ei chylch, gan nad yw yn debygol iddi absennoli ei hun oddiwrth Grist yn ei farwolaeth, ar ol dangos cymmaint cariad iddo yn ei fywyd. ——4. Gellir casglu oddiwrth eiriau Crist (*Ioan* 12. 7.) 'Erbyn dydd fy nghladdedigaeth y cadwodd hi hwn,' mai yr un oedd Mair chwaer Lazarus a Mair Magdalen. Yr oedd hi wedi defnyddio rhan o'r pwys enaint i eneinio traed yr Iesu ar swper yn nhŷ Lazarus chwe diwrnod cyn y pasc; a rhan eilwaith i eneinio ei ben pan oedd ar swper yn Bethania yn nhŷ Simon y gwahanglwyfus deuddydd cyn y pasc, *Mat.* 26. 2—12. *Ioan* 12. 2, 3, 4. a'r gweddill a gadwodd erbyn dydd claddedigaeth Crist, er nas gwyddai fod hwnw mor agos pan lefarodd efe y geiriau, ac er nas cafodd gyfleusdra i gwblhau ei bwriad. Gan fod Crist wedi rhagddywedyd am ddydd ei gladdedigaeth, ac y byddai gan Mair chwaer Lazarus law yn y darpariaeth tu ag at hyny, ni ellir mewn modd yn y byd farnu iddi esgeuluso gwneuthur y gorchwyl olaf hwnw o garedigrwydd tu ag at yr Iesu, i barotôi per-aroglau i eneinio ei gorph marw gyd â'r gwragedd ereill. Ond nid yw yr Efengylwyr yn sôn ond am dair o wragedd o'r enw Mair ag oedd gyd â'r Iesu yn ei ddioddefiadau olaf, ac yn gofalu am ddangos parch dyladwy i'w gorph marw; sef Mair mam yr Iesu, Mair mam Joses ac Iago Leiaf, yr hon oedd wraig Cleophas, neu Alpheus, a Mair Magdalen, yr hon, yn ol pob tebygolrwydd, oedd yr un a Mair chwaer Lazarus. A hyn oedd barn tadau yr eglwys, medd *Baronius*. Gwel *Lightfoot*.

CYSONDEB Y PEDWAR EFENGYLWR,

Ynghyd â'r Amserau a'r Lleoedd perthynol i'r pethau a draethir ynddynt; yn neilldnol y Gwyliau arbenig i ba rai y cyrchodd CRIST *gyd á'i Ddisgyblion tra parhaodd ei weinidogaeth gyhoeddus yma ar y ddaear; ynghyd â Sylwadau Eglurhaol.*

An

Gwir a geni

1½ fl

6

Gwir o

40 ni

1 fl

	2. 13—15.		Joseph a Mair gyd â'r Iesu yn ffoi i'r Aipht.			Yr Aipht.
	2. 16—18.		Herod yn lladd y plant yn Bethlehem.			
2 flwydd.	2. 19—23.		Joseph a Mair gyd â'r Iesu yn dychwelyd o'r Aipht i Nazareth.			
12½ mlwydd			Yr Iesu yn myned gyd â'i rieni i ŵyl y pasc.	2. 40—52.		Jerusalem.
29½ mlwydd	3. 1—12.	1. 1—8.	Ioan Fedyddiwr yn dechreu ei weinidogaeth yn 30 mlwydd oed.	3. 1—18.		Diffaeth-wch Judea.
30 mlwydd.	3. 13—17.	1. 9—11.	Bedyddir Crist gan Ioan yn afon yr Iorddonen.	3. 21—23.		Bethabara.
	4. 1—11.	1. 12, 13.	Crist yn ymprydio 40 niwrnod, a'i demtio.	4. 1—13.		Anialwch.
			Ioan Fedyddiwr yn tystio am Grist, ac am dano ei hun.		1. 19—28.	Bethabara.
			Crist yn dychwelyd at Ioan Fedyddiwr, a phump o ddisgyblion Ioan yn credu ynddo.		1. 29—51.	Bethabara.
			Y briodas yn Cana, 4 diwrnod wedi hyny.		2. 1—11.	
Y pasc laf, 30 mlwydd a 6 mis.			Crist gyd â'i fam a'i frodyr, &c. yn myned i Capernaum		2. 12.	
			o'i weinidogaeth gyhoeddus.		2. 13—25.	Jerusalem.
			Ymddiddan Crist â Nicodemus ar yr ŵyl.		3. 1—21.	Jerusalem.
			Crist yn aros 8 mis yn Judea, a'i ddisgyblion		3. 22. a 4. 2.	
			yn bedyddio. Ioan bedydd-		3. 23—36.	
			io yn Ainon, ac yn n Grist.			
4 mis o flaen yr 2 basc ar ol y gyssegr-ŵyl.	4. 12.	1. 14, 15.	Crist yn dychwelyd t Galilea, ar ol carchariad Io 4 mis o flaen yr ail basc.	3. 19, 20.		
			Y wraig, ac amryw ereill yn Sichar, yn credu ynddo.		4. 1—42.	Sichem.
			Ar ei ddychweliad y mae yn pregethu yn synagogau Galilea gyda mawr dderbyniad.	4. 14, 15.	4. 43.	
	4. 13—17.		Crist yn diangc yn wyrthiol o Nazareth, yn dyfod i Capernaum, gan fyned trwy Cana. (c)	4. 16—30.	4. 44—46.	
31 mlwydd.			Crist yn gwneuthur ail arwydd yn Cana, trwy iachau mab y pendefig yn Capernaum.	4. 31.	4. 46—54.	Cana Capernaum.

Amser.						Lle.
Gwir oed C 3 mis o fl yr ail ba						Llyn Genesareth.
						Capernaum.
						Capernaum.
						Capernaum.
			y clar o r parlys a dugyid gan bedwar.			Capernaum.
	9. 9.	2. 13, 14.	Galwad Matthew, neu Lefi, mab Alpheus.	5. 27, 28.	5. 1—47.	Capernaum.
31 mlwydd, a 6 mis. Yr ail basc.	12. 1—8.	2. 23—28.	Iachau y dyn claf wrth lyn Bethesda, &c. Crist yn esgusodi ei ddisgyblion am dynu tywys ar y Sabboth, ar eu taith o'r ŵyl. (D)	6. 1—5.		Jerusalem.
7 niwrnod ar ol y pasc.	12. 9—13.	3. 1—5.	Ar Sabboth arall iacheir y dyn â'r llaw wywedig.	6. 6—11.		
	4. 25.	3. 7—12.	Torfeydd mawrion o amryw wledydd yn dyfod at Grist; yntau yn eu dysgu o long, fel y clywent, ac na wasgent arno.			Capernaum.
	v, vi, vii.	3. 13—19.	(E) Crist yn dewis y 12 apostol, ac yn pregethu y bregeth ar y mynydd; ac wedi hyny yn disgyn i wastadtir, ac yn iachau y cleifion yn y tyrfaoedd hyny.	6. 12—49.		Llyn Genesareth.
	8. 5—13.		Iacheir gwas y canwriad.	7. 2—10.		Agos i Capernaum.
			Crist ar ei daith, tybygid, i ŵyl y pebyll, yn cyfodi mab y wraig weddw o Nain.	7. 11—17.		Capernaum. Nain yn Galilea.

	11. 2—30.		(F) Crist yn ateb Ioan Fedyddiwr, &c.	7. 18—35.		Jerusalem.
32 mlwydd, gŵyl y peb. y nesaf ar ol			Ac yn bwyta yn nhŷ Simon y Phariseaid; lle mae yn maddeu pechodau gwraig yn y ddinas.	7. 36—50.		Bethania.
yr ail basc.	12. 14—37.	3. 22—30.	Crist, yn ei daith trwy bob dinas a thref, yn iachau dyn cythreulig, dall, a mud; ac yn ceryddu cabledd y Phariseaid.	8. 1—3.		Galilea.
	12. 38—45.		Ceryddir y Phariseaid am geisio arwydd, &c.			
	12. 46—50.	3. 31—35.	Crist yn dangos fod ei wir ddisgyblion fel ei berthynasau agosaf.	8. 19—21.		
	13. 1—53.	4. 1—34.	Crist mewn llong yn traethu i'r bobl ar y lan ddammeg yr hauwr ac amryw ereill.	8. 4—18.		Llyn Genesareth.
Ar ol gŵyl y pebyll, amser hau.	8. 18—27.	4. 35—41.	Crist yn gorchymyn myned dros y llyn, ac Ysgrifenydd ac un arall yn cynnyg ei ganlyn. Ystorom, &c.	8. 22—25.		
	8. 28—34.	5. 1—20.	Iachau un o'r ddau ddieflig yn agos i Gadara.	8. 26—39.		
	9. 10—17.	2. 15—22.	Y wledd yn nhŷ Lefi, a'r ymddiddanion yno.	5. 24—39.	(G)	Capernaum.
	9. 18—26.	5. 22—43.	Iachau y wraig a'r diferlif gwaed; cyfodi merch Jairus.	8. 41—56.		Capernaum.
	9. 27—31.		Crist yn agor llygaid dau ddeillion.			Capernaum.
	9. 32—34.		Iachau dyn mud cythreulig, a'r Phariseaid yn cablu drachefn.			
	13. 54—58.	6. 1—6.	Crist yn myned drachefn i Nazareth, ac yn athrawiaethu yn y synagog. Rhwystrwyd hwy ynddo.			Nazareth.
Oddeutu y gyssegr-ŵyl	10. 1—42.	6. 7—13.	Danfoniad y deuddeg apostol, a'r addysgiadau perthynol i'w swydd. Ceir yr achos o'u hanfoniad yn *Mat.* 9. 36—38.	9. 1—6.		
	11. 1.		Aeth Crist hefyd i ddysgu yn ninasoedd Galilea.			
32 mlwydd, agos i'r 3ydd pasc.	14. 6—12.	6. 21—29.	Dienyddiad Ioan Fedyddiwr, ar ol bod oddeutu 14 mis yn ngharchar, pan oedd y 3ydd pasc yn agosâu.			Machærus, gerllaw y Môr Marw.

Amser.	Matthew.	Marc.	Y pethau y traethir am danynt.	Luc.	Ioan.	Lle.
Gwir oed Crist.	14. 1, 2.	6. 14—16.	Herod, wedi clywed am fwy o wyrthiau na chyffredin a wnaethid gan Grist a'i apostolion, yn barnu fod Ioan Fedyddiwr wedi cyfodi o feirw.	9. 7—9.		Galilea.
		6. 30—32.	Yr apostolion yn dychwelyd, ac yn mynegi i Grist am eu gweithredoedd a'u hathrawiaeth. Yn myned mewn llong i le anghyfannedd i orphwys enyd.	9. 10.		Agos i Bethsaida.
Agos i'r 3ydd pasc.	14. 13—21.	6. 33—44.	Y torfeydd yn eu gweled, ac yn eu rhagflaenu. Yr Iesu yn tosturio wrthynt, yn eu dysgu, a'u hiachâu: ac yn eu porthi â phum torth a dau bysgodyn.	9. 11—17.	6. 1—14.	
	14. 22—36.	6. 45—56.	Crist yn esgyn i'r mynydd i weddio, yn rhodio ar y môr, yn dyfod i'r llong, a'r disgyblion yn cyffesu ei Ddnwdod. Yn iachâu y cleifion yn ngwlad Genesareth.		6. 15—21.	Môr Genesareth.
Ar ol y 3ydd pasc.			Crist yn athrawiaethu i'r torfeydd a borthel ond y deuddeg.		6. 22—71.	Capernaum.
32 mlwydd, a 6 mis.	15. 1—20.	7. 1—23.	ydd ddychwelyd o'r ar y disgyblion am .c.			
	15. 21—28.	7. 24—30.	rus a Sidon yn iachanaan.			
	15. 29—31.	7. 31—37.	ac yn esgyn i fynydd lle yr iachäodd bob af; ac ym mhlith eral dywedyd arno.			
	15. 32—39.	8. 1—10.	yr un lle, tybygid, y 00 â saith dorth ac ychydig bysgod bychain.			

	16. 1—4.	8. 11, 12.	Wedi dyfod mewn llong i barthau Magdala, dinas ar yr ochr orllewinol o'r llyn, gerllaw pa un yr oedd Dalmanutha, dinas arall, y mae y Phariseaid drachefn yn gofyn ganddo arwydd o'r nef.		
32 mlwydd, a 6 mis.	16. 5—12.	8. 13—21.	Crist yn rhybuddio ei ddisgyblion yn y llong i ymogelyd rhag surdoes y Phariseaid a'r Saduceaid, sef rhagrith a phenrhyddid, &c.		Llyn Genesareth.
Ar ol y Sydd pasc.		8. 22—26.	Y mae Crist yn iachâu dyn dall yn agos i Bethsaida.		
	16. 13—28.	8. 27—38.	ist yn ngwlad Cæsarea ffynonau yr Iorddonen. Y mae Crist yn rhagddywedyd ei ddioddefaint, a'i adgyfodiad; ac yn annog i hunan-ymwâdiad.	9. 18—27.	Cyffiniau Cæsarea Philippi.
	17. 1—13.	9. 2—13.	Gwedd-newidiad Crist ar fynydd, tybygid, yn ngwlad Cæsarea Philippi.	9. 28—36.	Mynydd gerllaw Cæsarea Phil.
	17. 14—21.	9. 14—29.	Wedi dyfod i lawr o'r mynydd y mae yn iachâu y bachgen â'r yspryd mud a byddar.	9. 37—42.	
	17. 22, 23.	9. 30—32.	Ar ei daith o Cæsarea Philippi i Capernaum, y mae Crist eilwaith yn rhagfynegi am ei ddioddefiadau, a'i adgyfodiad.	9. 43—45.	Galilea.
	17. 24—27.		Crist yn gwneuthur gwyrthiau i dalu y dreth. (1)		Capernaum.
	18. 1—35.	9. 33—50.	Y disgyblion, wedi bod yn ymddadleu am y blaenoriaeth, a geryddir gan Grist, &c. Ateb Crist i Ioan ynghylch un oedd heb eu dilyn.	9. 46—50.	
Agos i ŵyl y pebyll, y nesaf ar ol y Sydd pasc.			Crist yn myned i ŵyl y pebyll trwy Samaria, yn gwahardd dial ar y Samariaid, ac yn gwrthod y rhai oedd yn cynnyg ei ganlyn yn ammodol.	9. 51—62.	Samaria.

Amser.	Matthew.	Marc.	Y pethau y traethir am danynt.	Luc.	Ioan.	Lle.
Gwir oed Crist. 33 blwydd.			(K) Y 70 disgybl a anfonir bob yn ddau o flaen wyneb Crist i'r amrywiol fanau lle yr oedd Crist ar fedr myned ar ei daith i'r ŵyl, neu wrth ddychwelyd yn ol.	10. 1—16.		
Gŵyl y pebyll nesaf ar ol y 3ydd pasc.			Wedi anfon ei ddisgylion a'i frodyr o'i flaen, o ba rai yr oedd rhai yn apostolion, y mae Crist ei hun yn myned i ŵyl y pebyll. Y Phariseaid am ei ddal. Nicodemus yn ei amddiffyn.		7. 2—53.	Jerusalem.
			Crist yn cilio y nos i fynydd yr Olew-wydd, ac yn dyfod bob boreu i'r deml i ddysgu y bobl. Y wraig a ddaliwyd mewn godineb. Rhai yn credu, ereill yn codi cerig i'w labyddio. Crist yn achub ei hun yn wyrthiol, trwy wneuthur ei hun yn guddiedig.		8. 1—59.	Jerusalem.
Gŵyly Peb.			Crist yn iachâu y dyn a anesid yn ddall. Yr ymddiddanion ar yr achos hwnw.		9. 1—41. 10. 1—21.	Jerusalem.
			Y mae y 70 disgybl yn dychwelyd at Grist, tybygid, i ı Jerusalem.	10. 17—24.		Jerusalem.
Gŵyly Peb.			Gofyniad y ateb Crist, trwy esampl y i blith lladron.	10. 25—37.		Jerusalem.
Ar ol Gŵyl y Pebyll.			Crist, wrth ddyfneweiya o r ŵyl, yn llettya gyda Lazarus, a'i chwibrydd Martha a Mair	10. 38—42.		Bethania.
			Y mae Crist drachefn yn dysgu ac yn annog ei ddisgyblion i weddïo.	11. 1—13.		Ar y daith o'r ŵyl.
			Wedi bwrw allan gythraul mud, y Phariseaid fel o'r blaen yn cablu, &c.	11. 14—26.		
			Y mae gwraig o'r dyrfa yn canmol Crist.	11. 27, 28.		
			Crist yn pregethu am Jonah, brenines Seba, y Ninifeaid; goleuni a thywyllwch.	11. 29—36.		

	Ar ol y bregeth gwahoddir ef i giniaw gan un o'r Phariseaid. Y mae yn rhyfeddu nad ymolchasai Crist; yr hyn a roddodd achlysur iddo i feio ar ragrith y Phariseaid a'r cyfreithwyr.	11. 37—54.	
	Yn y cyfamser, y mae Crist yn pregethu i fyrddiwn o bobl am ragrith, ac amryw bethau a draddodasai yn ei bregeth ar y mynydd, ac ar achosion ac amserau ereill.	12. 1—50.	Ar y daith o ŵyl y pebyll.
3 blynedd ar ol dechreu ei weinidogaeth.	Yn yr un amser y mynegwyd i Grist am y Galileaid a laddasai Pilat yn yr ŵyl, tybygid, ag oedd newydd fyned heibio, &c. Yr oedd tair blynedd y pryd hyn wedi myned heibio er pan ddechreuasai Crist ei [illegible] (L)	13. 1—9.	
	Crist yn uniawni y wraig a grymwyd 18 ml.	13. 10—17.	Hwyrach yn Capernaum.
	Y mae eilwaith yn traethu dammegion yr had mwstard a'r surdoes.	13. 18—21.	
	Y mae Crist yn myned, tybygid, i'r gyssegr-ŵyl. (M)	13. 22.	Ar y daith i'r gyssegr-wyl, trwy Galilea.
	Ateb Crist i'r gofyniad, Ai ychydig yw y rhai cadwedig? Dywediad Crist am Herod, &c.	13. [illegible]—35.	
	Crist yn nhŷ un o'r Phariseaid yn iachâu y claf o'r dropsi; yn sylwi ar y gwahoddedigion, &c. Dammeg y swper mawr. Ei gynghorion i'r rhai oedd yn cerdded gyd âg ef i'r ŵyl.	14. 1—35.	Tŷ penaeth o'r Pharis.
	Dammegion y ddafad a gollasid, y darn arian, a'r mab afradlon.	15. 1—32.	Ar y daith trwy Samaria i'r gyssegr-ŵyl.
	Dammeg y goruchwyliwr anghyfiawn; ceryddu rhagrith a chybydd-dod y Phariseaid; dammeg y gwr goludog a Lazarus.	16. 1—31.	

Amser.			
Gwir oed C			
33 blwyd			
Y gysse			
wyl ar o			
3ydd pas			
Agos i'			
4ydd pa			
	19. 3—12.	10. 2—12.	pasc ym mna un y dioddefodd. (N) Yn ymddiddan â'r Phariseaid ynghylch ysgar.
	19. 13—15.	10. 13—16.	Yn rhoddi ei ddwylaw ar blant bychain.
	19. 16—30.	10. 17—31.	Yn dysgu gwr ieuangc goludog.
	20. 1—16.		Dammeg y gwr o berchen tŷ yn cyflogi [illegible].
	20. 17—19.	10. 32—34.	Crist, wedi croesi yr Iorddonen, yn wynebu tua Jerusalem, ac yn mynegi drachefn am ei ddioddefaint, &c. a'r disgyblion heb ddeall.
	20. 20—28.	10. 35—45.	Salome, mam Iago ac Ioan, yn deisyf gan Grist iddynt y swyddau uchaf yn ei freniniaeth.

Ioan.	Lle.
22.	Jerusalem.
	Y deml.
23—42.	Bethabara.
1—54.	Ephraim.
	Y wlad tu hwnt i'r Iorddonen.
	Judea.

			Crist yn iachâu dyn dall wrth nesâu at Jericho.	18. 35—43.		Jericho.
			Mae yn myned i dŷ Zaccheus, lle traethodd, tybygid, ddammeg y 10 gwas, a'r deg punt.	19. 1—27.		
	20. 29—34.	10. 46—52.	Wrth fyned allan o Jericho mae yn iachâu dau ddyn dall, a Bartimëus yn un o honynt.			
6 diwrnod cyn y pasc.			Yr Iuddewon yn petruso ynghylch dyfodiad Crist i'r ŵyl.		11. 55—57.	
Dydd Sad. 5 niwrnod cyn y pasc.			Chwe diwrnod cyn y pasc y mae yn dyfod i Bethania. Mair yn eneinio ei draed. Judas yn grwgnach.		12. 1—11.	Bethania.
Dydd Sul.	21. 1—17.	11. 1—11.	Pum niwrnod cyn y pasc. Crist yn marchogaeth i Jerusalem, yn puro y deml, &c. Yn llettya yn Bethania.	19. 28—48.	12. 12—50.	Jerusalem.
	21. 18, 19.	11. 12—19.	Pedwar diwrnod cyn y pasc, y mae Crist yn dychwelyd i Jerusalem, yn melldithio y ffigysbren; eilwaith, tybygid, yn puro y deml, ac yn llettya yn Bethania. (o)			Jerusalem. Bethania.
D. Mawrth cyn y pasc.	21. 20—22.	11. 20—26.	Tri diwrnod cyn y pasc, y mae y disgyblion wrth fyned i Jerusalem yn sylwi fod y ffigysbren wedi llwyr grino, a'r Iesu yn dangos natur ffydd a gweddi.			Ar y ffordd o Bethania.
D. Mawrth cyn y pasc.	21. 23—27. 21. 28—32.	11. 27—33.	Crist yn dysgu y bobl. Yr arch-offeiriaid yn gofyn am ei awdurdod, ac yntau ynghylch Ioan Fedyddiwr.	20. 1—8.		Y deml.
Dydd Mawrth cyn y pedwerydd pasc.			Y mae yn traethu dammeg y ddau fab.			Y deml.
	21. 33—46.	12. 1—12.	Ar yr un amser, ychwanegodd ddammeg y winllan.	20. 9—19.		Y deml.
	22. 1—14.		Dammeg priodas mab y brenin.			Y deml.
	22. 15—46.	12. 13—37.	Y maent yn ceisio ei rwydo ef yn ei ymadrodd. Arian y deyrnged. Y Saduceaid. Y cyfreithiwr. Gofyniad Crist ynghylch y Messiah, &c.	20. 20—44.		Y deml.

Amser.					
Gwir oed C 33 bl. a 6 o D. Maw cyn y 4 pa	Nos Iau.	20. 20—29.	14. 17—21.	Yn yr hwyr y mae Crist yn bwyta y pasc gyd â'i ddisgyblion. Y mae ymryson yn cyfodi yn eu mysg am y flaenoriaeth; yr hyn, tybygid, a roddodd achlysur i Grist i roddi iddynt esiampl o ostyngeiddrwydd,	22. 14—18. 22. 21—30.	13. 1—30.	Yr orwch-ystafell yn
	Nos Fercher cyn y pas.						
	Dydd Ie y 14eg o Nisan.						

			trwy olchi eu traed. Y mae Crist yn pennodi Judas fel bradwr, ac yntau yn myned allan.(P)			Jerusalem.
	26. 26—29.	14. 22—25.	Crist yn ordeinio sacrament Swper yr Arglwydd.	22. 19, 20.		
	26. 31—35.	14. 27—31.	Gan fod Judas wedi myned allan at yr archoffeiriaid, y mae Crist yn hysbysu am ei ogoneddiad trwy ddioddefiadau, y byddai iddynt oll gael eu rhwystro ynddo, ac y gwadai Petr ef, &c.	22. 31—34.	13. 31—38.	Yr oruwch-ystafell.
			Y mae Crist yn cysuro ei ddisgyblion, yn traethu dammeg y winwydden, &c. yn eu rhybuddio am erlidigaethau, yn addaw danfon y Diddanydd, &c. ac yn gweddïo drostynt a thros yr eglwys hyd ddiwedd y byd, &c.		xiv, xv, xvi. a xvii.	Yr oruwch-ystafell.
	26. 30.	14. 26.	Wedi canu hymn (R) yn yr oruwch-ystafell, y maent yn myned allan i fynydd yr olew-wydd.	(Q)		
			Ond cyn myned allan y mae yn eu rhybuddio am y brofedigaeth a ddeuai arno ef a hwythau, ac yn eu hannog i ddarparu nwyf a chôd neu, y	22. 35—38.		
	26. 36—56.	14. 32—52.	Y pethau mane (	22. 39—53.	18. 3—12.	Gethsemane
Nos Iau, oddeutu 10 o'r gloch.	26. 57—75.	14. 53—72.	Y maen Annas disgyb Petr i mewn, yr hwn a wadodd Grist dair gwaith cyn i'r ceiliog ganu ddwy waith. Y gau-dystion. Y maent yn barnu Crist yn euog o gabledd, &c.	22. 54—65.	18. 13—27.	Tŷ Annas. Tŷ Caiaphas

Amser.	Matthew.	Marc.	Y pethau y traethir am danynt.	Luc.	Ioan.	Lle.
Gwir oed Crist. 33 bl. a 6 mis. Oddeutu 5 o'r gloch boreu Ddydd Gwener.	27. 1.	15. 1.	(T)Gyd â'r dydd boreu dranoeth, dygir ef i Gyngor y LXX. Ar ol ail holiad, barnwyd ef yn euog o farwolaeth, am iddo ddywedyd mai efe oedd y Crist, Mab y dyn, a Mab Duw.	22. 66—71.	18. 28.	Cynghor y LXX.
	27. 2.	15. 1.	Wedi rhwymo yr Iesu, arweinir ef at Pilat i'r dadleudŷ.	23. 1.	18. 28.	Llys Pilat.
Oddeutu 6 o'r gloch y boreu.	27. 11—14.	15. 2—5.	Wedi ei gyhuddo a'i holi ger bron Pilat, nid yw yn cael dim bai ynddo. Pan glybu mai Galilead oedd yr Iesu, danfonodd ef at Herod.	23. 2—7.	18. 29—32.	
			Holi, diystyru, a gwatwor Crist gan Herod a'i filwyr.	23. 8—12.		
	27. 15—25.	15. 6—14.	Dygir ef eilwaith ger bron Pilat; yr hwn, gan nad oedd yn cael dim bai ynddo, oedd am ei ollwng yn rhydd. Y mae gwraig Pilat yn ei [illegible]a fydded i ti a wnelych â'r cynawn nwnw.' Yntau am ollwng yr Iesu yn rhydd, a'r Iuddewon yn gofyn Barabbas, &c.	23. 13—24.	18. 33—40.	Llys Pilat.
	27. 26—31.	15. 15—20.	Fflangellu yr Iesu; ei goron ddrain, a'r gwatwor.		19. 1—3.	
			Pilat yn dwyn yr Iesu allan at yr Iuddewon, yn gwisgo y goron ddrain, &c. yn tystio nad oedd yn cael ynddo ddim bai, &c, etto yn ei roddi i'w hewyllys.		19. 4—15.	
	27. 3—10.		Judas yn edifarhau, ac yn ymgrogi, &c. (U)			
9 o'r gloch boreu ddydd Gwener.	27. 31—38.	15. 20—28.	Traddodir yr Iesu i'w groeshoelio. Y mae yn dwyn ei groes; a chan ei fod, tybygid, gan y chwerw driniaeth a gawsai, yn ymddangos fel pe buasai yn analluog i'w	23. 35—34.	19. 16—24.	Ar y ffordd i Galfaria neu Golgotha.

			dwyn ei hunan, cymhellwyd Simon o Cyrene i'w dwyn gyd âg ef. Merched Jerusalem yn wylo, &c. Y ddau ddrwgweithredwr a arweiniwyd gyd âg ef i Galfaria; lle y croeshoeliasant ef a hwythau, &c. Rhann ei ddillad. Ei ditl.			Calfaria.
	27. 39—44.	15. 29—32.	Y mae yr Iuddewon yn ei gablu a'i wawdio, ac un o'r lladron, yr hwn a geryddir gan y llall. Yr ymddiddan rhwng Crist a'r lleidr edifeiriol.	23. 35—43.		Calfaria.
			Tra yr oedd Ioan y disgybl anwyl, Mair mam yr Iesu, Mair gwraig Cleophas, a Mair Magdalen, a'r holl ddisgyblion, yn sefyll wrth groes yr Iesu, y mae yn gorchymyn ei fam i ofal Ioan.		19. 25—27.	Calfaria.
12 o'r gloch.	27. 45.	15. 33.	Y tywyllwch gwyrthiol, o'r chweched hyd y nawfed awr. (Y)	23. 44, 45.		
3 o'r gloch prydnawn.	27. 46—50.	15. 34—37.	Ynghylch y nawfed awr, dywedodd yr Iesu, 'Y mae syched arnaf,'—ac a ddolefodd, 'Eloi, Eloi,' &c. Wedi llefain â llef uchel, 'Gorphenwyd,' &c. efe a drengodd.	23, 46.	19. 28—30.	Calfaria.
	27. 51—54.	15. 38, 39.	Rhwygir llen y deml;(AA) y ddaear yn crynu, y meini a holltir, a'r beddau a agorwyd. Y canwriad yn credu mai Mab Duw oedd yr Iesu.	23. 47.		
	27. 55, 56.	15. 40, 41.	Safodd ei gydnat o hirbell, yn edrych ar ddioddefiadau Crist.	23. 48, 49.		
Oddeutu 5 o'r gloch prydnawn Gwener.	27. 57—61.	15. 42—47.	Torir esgeiriau y lladron;(BB) gwànir ystlys yr Iesu; Joseph o Arimathea yn tynu ei gorph i lawr, yn ei amdoi gyd â'r peraroglau a ddygasai Nicodemus, ac yn ei ddodi yn ei fedd newydd ei hun, yr hwn a selir â'r maen.	23. 50—55.	19. 31—42.	Bedd Joseph o Arimathea.

Amser.	Matthew.	Marc.	Y pethau y traethir am danynt.	Luc.	Ioan.	Llc.
Gwir oed Crist. 33bl.a6mis.			Y mae y gwragedd yn dychwelyd i Jerusalem i barotôi pêr-aroglau i eneinio corph yr Iesu, ac yn gorphwys y Sabboth.	23. 56.		
Dydd Sad.	27. 62—66.		Tranoeth y mae yr arch-offeiriaid yn gofyn ac yn cael gwyliadwriaeth i wylio y bedd hyd y trydydd dydd.			
Oddeutu 4 o'r gloch boreu dydd Sul.	28. 1.	16. 1, 2.	(cc) Wedi darfod y Sabboth chwech o'r gloch ddydd Sadwrn, y mae y gwragedd yn dyfod at y bedd, gyd â'r pêr-aroglau a barotoisent, cyn codi haul dranoeth; ond Mair Magdalen a'r Fair arall a ragflaenasant y lleill.	24. 1.	20. 1.	Wrth y bedd
	28. 2—4.	16. 3, 4.	Ond cyn eu dyfod yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi adgyfodi (a llawer o gyrph y saint, *Mat.* 27. 52, 53.) a'r ceidwaid wedi ffoi yn ddychrynedig ean ofn, oblegid y ddaear-gryn r angel a dreiglasai ac oedd yn eistedd ar y maen.	24. 2.	20. 1.	Wrth y bedd
	28. 5—7.	16. 5—7.	Y mae y ddwy Fair yn edrych i mewn i'r bedd, ac yn gweled angel yn eistedd o'r tu dehau; hwythau yn dychrynu, yntau yn dywedyd, 'Nac ofnwch—nid yw efe yma. Deuwch, gwelwch y fan,' &c. Y maent yn mynd i'r bedd, a'r angel yn peri iddynt i fynegi i'w ddisgyblion am &c.	24. 3.		
			Wedi dyfod allan o'r bedd gwelsant ddau angel arall yn sefyll yn eu hymyl, ac yn dywedyd, 'Paham yr ydych yn ceisio y byw ym mysg y meirw? Nid yw efe yma. Cofiwch pa fodd y dywedodd,' &c.	24. 4—8.		Wrth y bedd

28. 8.	16. 8.	Y mae Mair Magdalen a Mair mam Iago Leiaf yn rhedeg ar frys oddiwrth y bedd, yn cyfarfod, tybygid, â Joanna a Salome, a'r lleill, ac yn myned gyda hwynt i fynegi i'r 11 am y pethau hyn (heb gyfarch neb ar y ffordd gan frys a dychryn a syndod) a'u geiriau yn ymddangos ar y cyntaf fel gwegi.	24. 9—11.	20. 2.	Ar y ffordd oddiwrth y bedd.
		Y mae Petr ac Ioan wedi clywed hanes Mair Magdalen, &c. yn rhedeg at y bedd, yn cael y llieiniau wedi eu gosod yn drefnus, a'r napcyn a fuasai am ei ben wedi ei blygu mewn lle arall, yn credu, ac yn dyfod â'r hanes at y lleill.		20. 3—10.	Wrth y bedd
	16. 9—11.	M 'edi dychwelyd at y bedd, yn wylo, yn ymostwng i'r l dau angel yn eistedd un y mnoo pen i r oedd, yn dywedyd, 'Paham yr wyt yn wylo?' Hithau yn ateb, 'Am iddynt ddwyn fy Arglwydd ymaith,' &c. Wrth glywed sŵn un yn cerdded, hi a droes drach ei chefn, ac a welodd yr Iesu yn sefyll; ond nis adnabu, gan dybied mai y garddwr oedd. Ond ar ol iddo lefaru wrthi, 'O wraig, paham yr wyt yn wylo?' a'i galw wrth ei henw, hi a'i hadnabu, ac a syrthiodd i lawr, ac a'i haddolodd; gan feddwl, tybygid, am gofleidio ei draed. Yntau yn dywedyd, 'Na chyffwrdd â mi; eithr dywed i'm brodyr,' &c. Hithau yn myned i fynegi iddynt yr hyn a welsai, ond ni chredent. (DD)		20. 11—18.	Wrth y bedd

Lle.	
y ffordd wrth y wedd.	
	Isalem.
	mus.
	Isalem.

Amser	
Gwir oed 33bl. a6	
	Yn yr h o'r dydd o'r wyth

		Ym mhen yr wythnos, ymddangosodd yr Iesu a Thomas gyda hwynt, pan y gwelodd ac y credodd.		20. 26—29.	Jerusalem.
28. 16—18.		Yr 11eg yn myned i Galilea i'r mynydd lle yr ordeiniasai yr Iesu, lle y gwelwyd ef gan fwy na 500 brodyr. Rhai yn credu ac yn ei addoli, ac ereill yn ammeu. 1 *Cor.* 15. 6.			
		Y mae yr Ies d waith i saith o'i erias.		21. 1—23.	
		Gwelwyd ef			
28. 19, 20.	16. 19, 20.	Wedi hyny n Jerusalem, o ba i Bethania, ac i o ba le yr esgynodd i fynu i'r netoedd yn eu gŵydd hwynt, wedi rhoddi gorohymynion iddynt, a bod yn weledig iddynt ddeg o weithiau, o leiaf, yn y 40 niwrnod y bu efe ar y ddaear ar ol ei adgyfodiad. *Act.* 1. 3—12.	24. 49—53.		
		Diwedd-glo i'r Pedwar Efengylwr.		21. 24, 25.	

SYLWADAU EGLURHAOL.

(A) Mewn perthynas i ddwy linach Iesu Grist, a sonir am danynt yn *Mat.* i. a *Luc* iii. y mae esponwyr yn unfryd yn cytuno fod cryn anhawsder, ar y golwg cyntaf, i'w cysoni â'u gilydd, ac â 1 *Cron.* 3. 16—19. a manau ereill o'r Hen Destament sydd yn crybwyll am henafiaid Crist. A hyn a roddodd achlysur i amryw ysgrifenwyr Paganaidd, megys *Celsus*, *Porphyry*, a *Julian*, a rhai Cristionogion mewn enw, hyd heddyw, i gablu a chyhuddo y ddau Efengylwr o dwyll ac anghysondeb. Ond dylem ystyried fod gan Matthew a Luc wahanol ddibenion wrth gyfansoddi llinach Crist.

1. Diben Matthew oedd dangos mai yr Iesu oedd etifedd teyrn-gadair Dafydd a Solomon trwy Joseph ei dad cyfrifol, yn ol cyfraith a chyfiawnder; er mwyn egluro cyflawniad yr addewidion a'r prophwydoliaethau mewn perthynas i deyrnas ysprydol Crist. *Ps.* 89. 3, 4. a 132. 11. *Esa.* 9. 7. Canys pa un bynag y golygir Crist fel mab cyfrifol neu fabwysiadol i Joseph, yr oedd yn etifedd iddo; ac o ganlyniad, i Dafydd a Solomon, yn ol y gyfraith.

2. Diben Luc oedd dangos fod Crist yn fab Dafydd ac Abraham yn ol y cnawd, trwy Mair ei fam. Y mae yn olrhain achau Crist o Eli tad Mair Forwyn, at Nathan mab Dafydd, ac at Abraham, i ddangos cyflawniad yr addewidion a roddwyd iddynt (*Gen.* 12. 3. a 22. 18. 2 *Sam.* 7. 12. 1 *Bren.* 9. 5.) ac at Adda, i ddangos mai Crist oedd had y wraig, gwir sylfaen holl obaith yr eglwys; ac at Dduw, i brofi ei fod yn Fab Duw trwy dragywyddol genedliad, yn gystal ag yn Fab y dyn. Canys y mae y gair 'Fab' yn llinach Luc, o hyd i'w briodoli i Grist, yr hwn oedd fab Eli, fab Nathan, fab Dafydd, fab Adda, fab Duw. Dylai y geiriau 'mab (fel y tybid) i Joseph, fab Eli,' *Luc* 3. 23. gael eu hysgrifenu â'r cromfachau yn cynnwys o'u mewn y gair 'mab' a'r enw 'Joseph;' fel hyn, (mab, fel y tybid, i Joseph) fab Eli; ac felly bydd y gair 'Fab' yn briodol i'r Iesu o ddechreu hyd ddiwedd y llinach. Edrych *Poli. Syn.* a *Lightfoot.* Mab Eli, sef ei ŵyr, o ran ei ddyndod, a Mab Duw o ran ei Dduwdod. Ni enwir Mair yn llinach Matthew ua Luc, am mai arfer yr Iuddewon yn eu hachau oedd enwi yn unig y tadau, neu eu cynddrychiolwyr yn olynol. Y mae Matthew yn gadael allan bedwar o freninoedd Judah; sef Ahaziah, Joas, ac Amasiah, ynghyd â Joacim tad Jeconiah, o herwydd eu heilun-addoliaeth, a'u mawr annuwioldeb: fel y gadewir enw Dan allan yn *Dat.* vii. ac enw Simeon yn *Deut.* xxxiii. ac enw Joab o blith cedyrn Dafydd. Y mae Matthew yn cyfrif 42ain

genedlaeth o Abraham hyd Grist, gan gyfrif y cyntaf a'r olaf; ac yn eu dosparthu yn dair rhan, a 14 cenedlaeth y'mhob dosparth. Os gwrthddadleuir fod enw Jeconiah yn diweddu yr ail ddosparth ac yn dechreu y trydydd, dylid ystyried fod Jeconiah yn nechreu y trydydd dosparth yn cael ei roddi yn lle enw Assir ei fab, a anwyd iddo yn ei rwymau, fel y mae yr enw yn arwyddo; canys Assir oedd tad Salathiel. Os gwrthddadleuir nad oedd Zorobabel yn llinach Matthew yn fab Zalathiel, ond nai iddo, gellir ateb, mai cynddrychiolwr Salathiel oedd Zorobabel, a gafodd yr anrhydedd ar ei ol o'i gyfrif yn dywysog Judah gan y gaethglud yn Babilon: canys arfer yr Iuddewon oedd galw dilynwr yn y freniniaeth yn fab i'w ragflaenwr, er nad oedd yn fab naturiol; fel y gelwir Zedeciah yn fab i Jeconiah am iddo deyrnasu ar ei ol, er fod yn hysbys mai ei ewythr brawd ei dad oedd Zedeciah. 1 *Cron.* 3. 16. *Hag.* 2. 2. Os gofynir paham y cyfrifir yr Iesu ym mhlith y cenedlaethau, a'r olaf o honynt, yn llinach Matthew, gan na chenedlodd feibion yn ol y cnawd, dylid ystyried mai ei brif ddiben yn ysgrifenu y llinach hwn oedd arwain ein meddyliau at deyrnas a chenedlaeth ysprydol Crist. *Esa.* 9. 7. a 53. 10. *Ps.* 22. 30, 31, &c.

Yr ydys yn barnu fod Zorobabel a Salathiel, mab Neri, yn llinach Luc, yn bersonau gwahanol oddiwrth y rhai hyny o'r un enwau yn llinach Matthew: neu, ynte, os yr un rhai oeddynt, fod llinachau Mair a Joseph wedi cyfarfod a chyfathrachu â'u gilydd oddeutu amser cyntaf caethiwed Babilon. Mewn perthynas i Cainan mab Arphaxad (*Luc* 3. 36.) y mae y dysgedigion yn unfryd yn cytuno na fu y fath un erioed mewn bod, gan nad oes hanes am dano ond yn nghyfieithiad y LXX, a thebygol na roddodd Luc ei enw yn ei linach pan ysgrifenodd, gan fod *copïau* o'i Efengyl hebddo. Tebygol i ryw un ei roddi i mewn wedi sylwi ei fod yn nghyfieithiad y LXX, y rhai nid ydynt i'w canmol am ychwanegu at yr ysgrythyrau Hebraeg mewn llawer o fanau ereill, a gadael llawer o honynt allan; a chyfnewid, neu gamsynied, yr ystyr mewn aneirif fanau. Edrych *Lightfoot*.

(B) Y mae amryw bethau mewn perthynas i'r 'doethion' a ddaethant o'r dwyrain i ymofyn am Grist yn deilwng o'n hystyriaeth:—1. Pwy oeddynt.—2. O ba le y daethant.—3. Pa beth oedd y seren a'u harweiniodd.——1. Y doethion hyn oeddynt o *sect* y Magiaid, ym mha un y cymmerodd Zoroastres arno wneuthur rhyw fath o ddiwygiad yn amserau Darius Hystaspis, brenin Persia, fel y crybwyllwyd eisoes; canys gelwir hwy dan yr enw (μαγοι) Magiaid. Ym mhlith y *sect* hon yr oedd, gan mwyaf, holl ddoethineb a dysgeidiaeth y dwyrain. Yr oedd yr enw Magiad yn ngwledydd y dwyrain yn barchus, a bron o'r un ystyr a philosophydd ym mhlith y Groegiaid; er fod rhai o honynt yn arfer dewiniaeth, fel yr aeth yr enw Magiad o'r un arwyddocâd a dewin.——

2. Yr ydys yn barnu iddynt ddyfod o Persia, lle yr oedd y corph mwyaf o *sect* y Magiaid. Nid yw yn annhebygol iddynt ddarllen ysgrythyrau yr Hen Destament, yn neillduol y prophwydoliaethau am Grist a'i deyrnas; ac iddynt gael eu dysgu gan rai o'r Iuddewon oedd ar wasgar yn eu gwlad am eu harwyddocâd, a bod yr amser o'u cyflawniad yn agosâu. Gallai hyn fagu hiraeth a dymuniad ynddynt i weled y Person rhyfedd hwn, sef Duw-ddyn, a brenin Iuddewon a Chenedloedd.——
3. Ar ol bod y pethau hyn yn gweithredu ar eu meddyliau dros ryw yspaid o amser, gwelsant gorph tanllyd yn yr wybr, tebyg i seren, ac a gawsant hysbysrwydd, trwy ysprydoliaeth yr Yspryd Glân, mai arwydd ydoedd o enedigaeth y brenin yr oeddynt yn ei ddisgwyl. A thrwy barhad o'r arwydd, deallasant mai bwriad yr Arglwydd oedd iddynt fyned dan arweiniad yr arwydd tanllyd o'u gwlad i weled y sylwedd o hono.

(c) Y mae yn eglur na thrigodd Crist yn Nazareth (lle magesid ef, ac y bu fyw nes cyrhaedd ei 30 mlwydd oed) ar ol dechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus; ac nid yw yn ymddangos iddo fyned yno yn achlysurol i arfer ei weinidogaeth ond dwywaith ar ol ymadael oddi yno.

1. Y waith gyntaf ym mhen oddeutu blwyddyn a dau fis ar ol ei ymadawiad oddi yno i fyned i gael ei fedyddio gan Ioan Fedyddiwr. Y waith hon daeth Crist i Nazareth o Sichar (*Ioan* iv.) ac a gyflawnodd yr hyn a adroddir am dano yn *Luc* 4. 16—30. Y mae Matthew (4. 13.) yn sôn yn unig am ei ymadawiad o Nazareth, heb grybwyll am yr amgylchiadau a ddigwyddasant yno. Y mae Ioan (4. 44.) yn cyfeirio yn eglur at ddyfodiad Crist i Nazareth y waith hon (er nad yw yn ei henwi) trwy adrodd tystiolaeth Crist a draethodd efe am dani, sef, 'Nad ydyw prophwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun.' O Nazareth aeth Crist y waith hon i Cana, lle gwnaeth ail arwydd trwy iachâu mab y pendefig yn Capernaum, *Ioan* 4. 46—54. am ba un y crybwyllir gan Ioan yn unig. Yr oedd Crist y pryd hyn yn myned i Capernaum, lle gwnaeth ei gartref, gan mwyaf, tra parhaodd ei weinidogaeth a'i fywyd, ar ol cael prawf o ddrygnaws erlidigaethus ei ddinasyddion ei hun. Gwel *Ioan* 1. 46.

2. Crybwyllir am ymweliad Crist â'i ddinas neu ei wlad ei hun, sef Nazareth, yr ail waith ar ol dechreu ei weinidogaeth, gan Matthew (13. 54—58.) a Marc (6. 1—6.) Nid yw Luc na Ioan yn sôn dim am ddyfodiad Crist i Nazareth y waith hon. Yr oedd hyn oddeutu y gyssegrŵyl nesaf ar ol yr ail basc, ac ynghylch blwyddyn ar ol mynediad Crist i Nazareth y waith gyntaf. Ymddengys hyn, gan mai y peth nesaf a sonir am dano gan Marc (yr hwn, gan mwyaf, sydd yn ysgrifenu yn ol trefn amser) yw danfoniad y 12 apostol bob yn ddau. *Marc* 6. 7—13. Gan fod eu dychweliad yn ol at Grist ychydig o flaen porthi y pum mil, a grybwyllir am dano gan y 4 Efengylwr, yr hyn oedd ychydig o flaen y

Sydd pasc, a chan eu bod rai wythnosau, tybygid, yn cyflawni eu gweinidogaeth, nid oes le i gamsynied fawr wrth osod ail fynediad Crist i Nazareth oddeutu y gyssegr-ŵyl yn yr ail flwyddyn o'i weinidogaeth.

(D) Y mae yn eglur mai ar y Sabboth cyntaf ar ol gŵyl y pasc y bu i'r Iesu fyned gyd â'i ddisgyblion trwy yr ŷd, sef yr haidd ag oedd y pryd hyny yn addfed yn ngwlad Canaan. Gelwir y Sabboth hwn yn *Luc* 6. 1. δευτερο πρωτον, a gyfieithir, '*Yr ail brif Sabboth;*' ac yn y *Cyf. Saes.* '*The second Sabbath after the first.*' Ond, tybygid, nad yw yr un o'r ddau gyfieithiad mor ddealladwy ag y byddai ddymunol. I eglurhau hyn, dylid deall fod saith wythnos, sef 49 diwrnod, o'r ail ddydd ar ol Sabboth gŵyl y pasc, hyd y dydd cyntaf o ŵyl y pentecost, yr hwn oedd y 50ain dydd trwy gyfrif yr ail ddydd ar ol y Sabboth yn ngŵyl y pasc. Yr oedd yr holl Sabbothau rhwng y pasc a'r pentecost yn cael eu henwau oddiwrth yr ail ddydd ar ol y Sabboth yn ngŵyl y pasc, fel y canlyn:—1. Δευτηρο πρωτον, y Sabboth cyntaf o'r ail ddydd ar ol y Sabboth gŵyl y pasc.—— 2. Δευτερο δευτερον, yr ail Sabboth o'r ail ddydd ar ol Sabboth y pasc.—— 3. Δευτερο τριτον, y trydydd Sabboth o'r ail ddydd ar ol Sabboth y pasc, &c. Ar y 14eg dydd o fis Nisan, yr oedd rhaid bwyta y pasc yn yr hwyr; y 15fed dydd oedd y dydd cyntaf o ŵyl y bara croyw.

Tranoeth ar ol y Sabboth yn wythnos y pasc yr oedd yr ysgub gyhwfan, sef blaen-ffrwyth cynhauaf yr heiddiau, yn cael ei chyhwfanu i'r Arglwydd, yn arwydd o ddiolchgarwch, ac yn gysgod o adgyfodiad Crist, yr hwn a adgyfododd dranoeth wedi y Sabboth Iuddewig yn wythnos y pasc. Ac yr oedd y tranoeth hwnw yn ail ddydd trwy gyfrif y Sabboth ag oedd yn ei ragflaenu. Ac o'r tranoeth hwnw yr oedd raid iddynt gyfrif 7 wythnos, a thranoeth wedi y 7fed Sabboth oedd dydd y pentecost, sef y 50ain dydd. *Lef.* 23. 6, 11, 15. Yr oedd gŵyl y pentecost, neu ŵyl yr wythnosau, yn goffadwriaeth o roddiad y gyfraith foesol oddiar fynydd Sinai ar y 50ain dydd, trwy gyfrif (fel y dylid) o dranoeth ar ol y Sabboth cyntaf a ddigwyddodd ar ol bwyta y pasc yn ngwlad yr Aipht; ac yr oedd yr ŵyl hon hefyd yn gysgod o roddiad yr Yspryd Glân ar ddydd y pentecost, yr hwn oedd 50ain dydd ar ol adgyfodiad Crist, pan ysgrifenwyd y gyfraith ar galonau yr apostolion ac ereill, mewn llythyrenau mwy eglur nag erioed o'r blaen. *Lightfoot, Bedford.*

(E) Cytuna *Lightfoot*, ac ereill, fod *Luc* 6. 20—48. yn rhoi talfyriad o bregeth Crist ar y mynydd, a gynnwysir yn *Mat.* v, vi, vii. Ymadawodd Matthew, tybygid, yn fwriadol a threfn amser yn y rhan gyntaf o'i Efengyl, fel y crybwyllwyd yn y *Rhag-draethawd.* Diben Luc, hwyrach, yn rhoi talfyriad, oedd, am fod Matthew wedi ysgrifenu mor gyflawn, ac am ei fod yn bwriadu adrodd ym mlaen amryw bethau o'r un natur a lefarodd Crist wedi hyny ar amryw achlysuron. Y mae yr amgylchiadau

o'r blaen ac ar ol y bregeth hon, yn Matthew a Luc, yn dangos yn eglur mai ar ol yr ail basc y traddododd Crist hi. Y mae Marc a Luc yn rhoi enwau y 12eg apostol yn yr amser y neillduwyd hwynt, yn union o flaen pregethu y bregeth ar y mynydd, er nad yw Marc wedi rhoi dim o honi. Ond nid yw Matthew yn rhoi eu henwau hyd yr amser y danfonwyd hwynt i bregethu, yr hyn oedd oddeutu wyth mis ar ol eu neillduad i fod yn apostolion. *Mat.* x.

(F) Y mae yn debygol fod Crist ar ei daith i ŵyl y pebyll, y nesaf ar ol yr ail basc, pan gyfododd efe fab y wraig weddw o Nain, yr hon oedd ddinas yn agos i derfyn gogleddol Samaria, ac ar ei ffordd i Judea a Jerusalem. Aeth y gair am y wyrth hon o flaen Crist i holl Judea, ac i glustiau Ioan Fedyddiwr, yr hwn oedd yn ngharchar yn Machærus, amddiffynfa o'r tu hwnt i'r Iorddonen, yn agos i ben gogleddol môr Sodom. O'r lle yma nid allai fod fawr fwy nag ugain milltir i Jerusalem. Gan hyny danfonodd Ioan Fedyddiwr ddau o'i ddisgyblion at Grist i'r ŵyl yn Jerusalem, tybygid, ar y genadwri a adroddir yn *Mat.* xi. a *Luc* vii. Y mae gofyniad Crist, 'Pa beth yr aethoch allan i'w weled?' yn ddigon priodol i drigolion Jerusalem, y rhai a aethant at Ioan Fedyddiwr i'w weled, ac i ofyn iddo, Ai efe oedd y Crist? &c. *Ioan* 1. 19—22. Y mae y geiriau, 'doethion a deallus,' a lefarodd Crist ar ol ymadawiad cenadon Ioan yn briodol hefyd i lawer o drigolion Jerusalem; canys yma yr oedd y Sanhedrim, a'r corph mwyaf o ddysgedigion y wlad. Y mae *Lightfoot*, ar seiliau da, tybygid, yn barnu mai yn Bethania, yn nhŷ Simon y gwahanglwyfus, yr oedd yr Iesu, ar ei ffordd i wŷl y pebyll, pan ddaeth Mair chwaer Lazarus, a'r un, fel y bernir, a Mair Magdalen, i olchi ei draed â'i dagrau. A chan fod amser hau yn Judea yn lled fuan ar ol gŵyl y pebyll, y mae yn debygol mai yn yr amser hwnw y traethodd Crist ddammeg yr hauwr, cyn pen nemawr o ddyddiau ar ol ei ddychweliad o'r ŵyl.

(G) Y mae galwad a gwledd Lefi, neu Matthew y publican, yn cael eu rhoddi gyd â'u gilydd gan yr Efengylwyr Matthew, Marc, a Luc, er mwyn rhoddi yr holl hanes perthynol iddo gyd â'u gilydd. Ond yr oedd ei alwad a'i wledd ar wahanol amserau; ei alwad yn union ar ol iachâd y dyn claf o'r parlys, a ddygid gan bedwar, ychydig o flaen yr ail basc, a gwaith y disgyblion yn tynu y tywys ar yr ail brif Sabboth; a'i wledd, a'r ymddiddanion ynddi, oddeutu wyth mis ar ol ei alwad, yn union o flaen iachâu y wraig â'r diferlif gwaed, a chyfodi merch Jairus, ychydig o flaen y gyssegr-ŵyl nesaf ar ol yr ail basc. Gwledd Lefi yw bron yr unig beth yn Efengyl Marc ag sydd heb fod yn ol trefn amser.

(H) Nid oes le i ammeu nad oedd y Phariseaid a ddaethai o Jerusalem yn ol tystiolaeth Matthew (15. 1.) a Marc (7. 1.) wedi dyfod y pryd hyn

o'r 3ydd pasc o weinidogaeth Crist. Gellir casglu nad aeth Crist i'r ŵyl hon, am yr achosion a roddir gan Ioan (7. 1.)

(I) Bernir bron yn unfryd am y dreth y gwnaeth Crist wyrth i'w thalu, mai yr hanner sicl ydoedd ag yr oedd pob Iuddew dros 20 oed yn rhwym i dalu at wasanaeth y tabernacl tra safodd, ac wedi hyny at wasanaeth y deml. *Exod.* 30. 12—16. Yr oedd yr hanner sicl oddeutu 15 ceiniog o'n harian ni. Ar ol dinystrio y deml yn Jerusalem, bu orfod i'r Iuddewon dalu y dreth hon tu ag at gynnal teml Jupiter yn Rhufain. *Josephus.* Yr oedd Crist yn ei ymddiddan â Phetr ynghylch y dreth hon, yn dangos ei fod yn rhydd oddi wrthi, gan ei fod yn Fab Duw, yr hwn oedd frenin y deml; er hyny, rhag eu rhwystro, efe a'i talodd.

(K) Crybwyllwyd eisoes yn y *Rhag-draethawd*, mai Luc yn unig o'r 4 Efengylwr sydd yn adrodd ynghylch anfoniad y 70 disgybl. Fel ag y mae y 12 apostol yn golygu 12 llwyth Israel, felly y mae y 70 disgybl yn golygu rhifedi meibion Jacob yn myned i'r Aipht, y rhai oeddynt yn benau cenedl i gynnifer o deuluoedd. Am hyn y dewiswyd 70 o henuriaid i gynnorthwyo Moses; yr hyn oedd dechreuad y cynghor mawr ym mhlith yr Iuddewon, sef y Sanhedrim, ag oedd 70 o rifedi. Yn newisiad y 70 disgybl yr oedd hefyd olygiad at y cenedloedd; canys 70, neu 72, oedd rhifedi penau cenedl yr holl genedloedd, fel y gwelir yn *Gen.* x. O'r rhai hyn y mae yn rhaid tynu un, sef Heber, tad yr Hebreaid; ac yna y gweddill fydd 71. Er fod un yn rhagor yn nifer teuluoedd y cenedloedd nag oedd yn nifer teuluoedd Israel, y mae Moses (*Deut.* 32. 8.) yn golygu y ddau megys o'r un rhifedi.

Nid oes le i ammeu nad oedd Crist yn gwynebu at ŵyl y pebyll, sef y nesaf o flaen y pasc olaf o'i weinidogaeth, pan anfonodd efe y 70 o'i flaen bob yn ddau i'r amrywiol fanau yr oedd efe ar fedr myned iddynt ar ei ffordd i'r ŵyl, ac yn ei ddychweliad o honi. Gwel *Luc* 9. 51. *Ioan* 7. 2, 6, 10. A dychweliad y 70 at Grist, tybygid, oedd yn Jerusalem, ar yr ŵyl. Pan oedd Crist yn dychwelyd o'r ŵyl, llettyodd gyd â'i ddisgyblion yn Bethania, yn nhŷ Lazarus a'i chwiorydd; lle y llettyasai, tybygid, wrth ddychwelyd o ŵyl y pebyll yn y flwyddyn o'r blaen. Y mae, fel y sylwyd eisoes, gwagle oddeutu 6 mis yn Efengyl Matthew, a Marc; sef, o fynediad Crist i ŵyl y pebyll hyd ei fynediad i'r pasc olaf. Pa beth oedd yr achos o'r gwagle hwn nid yw hysbys, mwy nag am lawer o bethau ereill a adewir allan gan y naill, ac a roddir i mewn gan y lleill. Pa fodd bynag, llenwir y diffyg hwn gan Luc, o *pen.* 9. 51. hyd *pen.* 18. 15.

(L) Wrth graffu yn fanwl ar yr hanes Efengylaidd, ac ar yr amrywiol amserau y'mha rai yr athrawiaethodd ac y gweithredodd Crist, yn neilldual y gwyliau arbenig, ceir gweled achos digonol i farnu mai o ŵyl y

pebyll, y nesaf at y pasc olaf, yr oedd Crist yn teithio tua Galilea pan fynegwyd iddo (yr hyn oedd yn hysbŷs iddo o'r blaen) am laddiad y Galileaid yn y deml, &c. Bernir eu bod o blaid Judas y Galilead, yr hwn oedd wedi codi gwrthryfel rai blynyddoedd o'r blaen yn yr amser y dechreuwyd talu trethi i'r Rhufeiniaid, ar ol deol Archelaus. Lladd y Galileaid hyn, fel y bernir, oedd yr achos o'r gelyniaeth rhwng Herod Antipas, tetrarch Galilea, a Philat. Rhoddodd y galanas hwn, ynghyd â dinystr y 18 trwy gwymp tŵr Siloam, achlysur i draethu dammeg y ffigysbren diffrwyth. *Luc* 13. 6—9. Yr oedd tair blynedd o weinidogaeth Crist er pan fedyddiwyd newydd fyned heibio y pryd hyn; gan hyny, nid oes le i ammeu nad oedd Crist yn cyfeirio at yr amser y buasai efe a'i apostolion yn llafurio ym mhlith y genedl Iuddewig, heb`gael dim ffrwyth oddiwrth y rhan fwyaf o honynt. Am hyny mae perchen y winllan, sef y Tad, yn dywedyd, 'Tòr ef i lawr,' &c. Ond y mae Crist, y Mab, yn eiriol drostynt, 'Gâd ef (sef hwy) y flwyddyn hon hefyd,' &c. Y mae yn eglur fod ffrwyth ei eiriolaeth ef y pryd hyn, ac ar y groes, wedi ymddangos cyn diwedd y 4edd flwyddyn, trwy ddychweliad llawer o filoedd o'r Iuddewon ar ddydd y pentecost, ac wedi hyny, hyd oni ddygwyd rhai myrddiynau o honynt i gredu yn yr Arglwydd Iesu. Ond pan beidiodd y genedl Iuddewig a dwyn y ffrwythau o edifeirwch a ffydd, wedi hyny, hwy a dorwyd i lawr trwy y Rhufeiniaid, megys offrynau yn llaw ddialeddol yr Arglwydd.

(M) Gan fod Crist y pryd hyn (*Luc* 13. 22.) yn ymdeithio tua Jerusalem, a chan nad oedd yn arfer myned yno ond ar y gwyliau arbenig, os gofynir pa ŵyl oedd hon yr oedd yn myned iddi, y mae yn rhaid ateb mai y gyssegr-ŵyl ydoedd, sef y nesaf o flaen y pasc ym mha un y croeshoeliwyd ef. Yr oedd yr ŵyl hon oddeutu dau fis ar ol gŵyl y pebyll, a phedwar mis o flaen y pasc.

(N) Y mae Matthew (19. 1.) a Marc (10. 1.) yn dangos fod Crist yn ei daith olaf i'r pasc ym mha un y dioddefodd, yn lle myned i Judea trwy Samaria, yn ol ei arfer, wedi myned yno trwy y wlad o'r tu hwnt i'r Iorddonen; yr hon wedi iddo ei chroesi, y mae yn dyfod i Jericho, ac oddi yno i Bethania a Jerusalem. Y mae yn deilwng o sylw nad oes un o'r Efengylwyr yn dywedyd dim a wnaeth neu a athrawiaethodd Crist yn Galilea y tro olaf y bu yno ar ol dychwelyd o'r gyssegr-ŵyl olaf y bu ynddi. Ond y mae yn eglur nad allai arosiad Crist yn Galilea y tro hwn fod ond byr; canys ar ol y gyssegr-ŵyl olaf (*Ioan* 10. 22.) ni ddychwelodd yn uniongyrch i Galilea, yn ol ei arfer, gan ei fod yn rhagweled clefyd a marwolaeth Lazarus, ac yn bwriadu ei adgyfodi; gan hyny, ciliodd oddiar ffordd yr Iuddewon ag oedd yn ceisio ei ladd cyn ei amser, i Bethabara tu hwnt i'r Iorddonen. Oddi yma y cyrchwyd ef trwy genadon

oddiwrth chwiorydd Lazarus. Ac ar ol adgyfodi Lazarus, ciliodd eilwaith i Ephraim; dinas, fel y bernir, yn llwyth Benjamin *(Lightfoot)* lle bu gyd â'i ddisgyblion dros ychydig amser. Oddi yno aeth i Galilea, lle nid allai gael fawr o amser i aros, gan fod y pasc olaf yn agosâu.

(o) Wrth graffu ar yr hanes Efengylaidd, gellir casglu fod Crist wedi puro y deml o'r cyfnewidwyr arian, &c. ddwywaith; sef, 1. Pum niwrnod o flaen y pasc.—2. Pedwar diwrnod o flaen y pasc. Y mae Ioan (12. 1, 12.) yn dywedyd i'r Iesu ddyfod i Bethania chwe diwrnod cyn y pasc; a thranoeth iddo farchogaeth yn orfoleddus i Jerusalem, yr hyn oedd bum niwrnod o flaen y pasc. Ar ol dyfod gyda gorfoledd mawr i Jerusalem, dywed Matthew (21. 12, 13.) a Luc (19. 45, 46.) iddo fyned yn uniongyrch i'r deml, i fwrw allan y prynwyr a'r gwerthwyr. Er nad yw Marc (11. 11.) yn sôn yn bennodol am y weithred hon o buro y deml ar y pummed dydd, gellir casglu oddiwrth ei eiriau, 'ac wedi iddo edrych ar bob peth o'i amgylch,' iddo ei chwblhau. Yn yr hwyr o'r pummed dydd cyn y pasc, dyehwelodd gyd â'i ddisgyblion i Bethania. Tranoeth, sef pedwar diwrnod cyn y pasc, wrth fyned o Bethania i Jerusalem, melldithiodd Crist y ffigysbren diffrwyth; ac wedi myned i'r deml, bwriodd allan y rhai a werthent ac a brynent, &c. gan ddywedyd yr un geiriau a'r diwrnod o'r blaen. Marc yn unig o'r pedwar sydd yn sôn am y weithred olaf hon. *Pen.* 11. 12—17. Mewn perthynas i waith Crist yn melldithio y ffigysbren, y mae amryw ddadleuon ac ymresymiadau gan wyr dysgedig, y rhai nis gellir eu hadrodd yma, rhag arwain i ormod meithder. Y mae Marc yn sylwi, 'Nad oedd amser ffigys,' hyny yw, amser casglu ffigys; fel y mae 'amser ffrwythau,' *Mat.* 21. 34. yn arwyddo amser casglu ffrwythau; gan hyny, yr oedd gan yr Arglwydd Iesu le i ddisgwyl ffigys, gan fod yr amser i'w casglu heb ddyfod etto, er ei fod yn agosâu. Dylid sylwi ym mhellach, fod dau fath o ffigysbrenau yn Judea, sef cynnar a diweddar; y cynnar yn dechreu addfedu oddeutu gŵyl y pasc, a'r diweddar oddeutu gŵyl y pebyll. Am y cyntaf y mae crybwylliad yn *Esa.* 28. 4. *Jer.* 24. 2. a *Mic.* 7. 1. ac am yr olaf yn *Num.* 13. 23. a *Mat.* 24. 32. Tebygol mai o rywogaeth y cynnar yr oedd y ffigysbren hwnw at ba un y cyrchodd yr Iesu. Yr oedd y ffigysbren diffrwyth yn dal allan y genedl Iuddewig, ag oedd gyflawn o lawer o bethau yn cyfateb i ddail, heb ddim ffrwythau ffydd ac edifeirwch o ran y corph mwyaf. Cyflawnwyd y felldith arnynt yn ninystr Jerusalem; crinasant, a gwywodd eu dail, sef yr hyn oll ag oeddynt yn ymffrostio o'u plegid fel eglwys.

(p) Y mae hir ddadl wedi bod er's llawer o oesoedd ynghylch y diwrnod ar ba un y bwytâodd Crist y pasc olaf gyd â'i ddisgyblion; y

mae rhai yn dywedyd iddo ei fwyta ar y 13eg, ac ereill ar y 14eg (fel y gwnaeth mewn gwirionedd) ond bod yr Iuddewon wedi oedi ei fwyta hyd y 15fed o fis Nisan. Yr achos o'r amrywiol dybiau hyn oedd y diffyg o iawn ddeall rhai ymadroddion a arferir gan Ioan mewn perthynas i'r pasc olaf o weinidogaeth Crist, ac ymgais i'w gysoni â'r Efengylwyr ereill; (Gwel *Ioan* 13. 1. a 18. 28. a 19. 14, 31, 32.) ond wrth geisio ei gysoni â hwynt, y maent yn ei wneuthur yn anghyson. Nid rhaid ond ychydig sylwadau i benderfynu y pethau sydd mewn dadl:—1. Nid oes air o sôn yn yr Efengylwyr i Grist fwyta y pasc o flaen yr Iuddewon; ac nid oes le i ammeu na fwytaodd efe ef ar yr un diwrnod a hwythau, sef y 14eg o fis Nisan, 'ar yr hwn yr oedd rhaid lladd y pasc,' a'i fwyta, yn ol y gyfraith. *Luc* 22. 7. *Exod.* 12. 6. Gelwir y dydd hwn, 'y cyntaf o ŵyl y bara croyw,' *Mat.* 26. 17. *Marc* 14. 12. mewn ystyr ammhriodol, am fod y bara croyw yn cael ei barotôi i'w fwyta yn yr hwyr, a'r oen pasc yn cael ei ladd rhwng y ddau brydnawn, sef rhwng 12 a 6 o'r gloch; hyny yw, oddeutu 3 o'r gloch brydnawn, ar yr un amser ag y rhoddodd Crist i fynu yr yspryd; etto nid oedd y 14eg i'w gyfrif yn un o saith niwrnod yr ŵyl, yr hon oedd yn dechreu yn yr hwyr o'r 14eg dydd, ac yn diweddu yn yr hwyr o'r 21ain dydd. *Exod.* 12. 15, 18. Gan hyny, mewn ystyr priodol, y 15fed dydd oedd y dydd cyntaf o ŵyl y bara croyw, sef y cyntaf o saith niwrnod yr ŵyl. *Lef.* 23. 4, 5.——2. Yr achos o'r dadleuon a grybwyllwyd yw, am nad yw rhai esponwyr wedi craffu yn ddigon manwl ar wir ystyr y gair pasc yn yr amrywiol fanau lle yr arferir ef gan yr Efengylwyr, yn enwedigol gan Ioan.—1. Y mae y pasc weithiau yn arwyddocâu yr oen pasc a fwytêid, ynghyd â'r defodau perthynol, a gedwid ar y 14eg dydd. *Exod.* 12. 21. *Num.* 9. 5.—2. Y mae yn aml yn arwyddo holl ddyddiau yr ŵyl. 2 *Cron.* 35. 18. Gwahaniaethir rhwng y pasc, a gŵyl y pasc, nen ŵyl y bara croyw. Yr oedd y pasc ar y 14eg dydd, a'r ŵyl oedd yn dechreu ar y 15fed dydd. *Lef.* 23. 5, 6. *Num.* 28. 16, 17. Yn unol â'r sylw olaf y dylid deall yr hyn a ddywedir (*Ioan* 13. 1, 2, &c.) am y swper a fwytaodd Crist gyd â'i ddisgyblion cyn gŵyl y pasc; hyny yw, ar y 14eg dydd, yr hyn oedd o flaen yr ŵyl; canys er fod rhai gwyr dysgedig yn dywedyd i'r gwrthwyneb, y mae yn eglur i bawb a graffo ar yr amrywiol amgylchiadau a adroddir—am waith Crist yn golchi traed ei ddisgyblion, am Judas, ac am Petr, ac a'u cymharo â'r manau cyferbyniol yn yr Efengylwyr ereill—mai swper y pasc oedd hwnw ar ol pa un y golchodd Crist draed ei ddisgyblion.——3. Y mae sail ddigonol i farnu fod y gair 'pasc' yn *Ioan* 19. 14. yn arwyddo Sabboth y pasc, fel y mae hyd heddyw ym mhob gwlad Gristionogol. 'A darpar-ŵyl y pasc oedd hi.' Y darpar-ŵyl oedd y 15fed dydd, pan farnwyd Crist gan Pilat,

ac y croeshoeliwyd ef, a'r Sabboth canlynol oedd yr 16eg (yn dechreu chwech o'r gloch brydnawn o'r 15fed dydd) pan orphwysodd Crist yn y bedd. Nid yw y gair 'darpar-ŵyl' i'w ddeall yn gyffredin ond am ryw gyfran o'r diwrnod o flaen y Sabboth Iuddewig; sef, oddeutu tair awr o flaen Sabbothau cyffredin; ond yr oedd y diwrnod o flaen Sabboth y pasc i gyd yn gyfan yn cael ei gyfrif yn ddarpar-ŵyl, 'canys mawr oedd y dydd Sabboth hwnw.' *Lightfoot, Vol. 2. p.* 358. Wrth gymharu *Ioan* 19. 14, 31. â'u gilydd, y mae yn eglur mai yr un diwrnod oedd 'darpar-ŵyl y pasc' a darpar-ŵyl Sabboth y pasc, sef y 15fed dydd, a'r cyntaf o ŵyl y pasc. A hyny oedd yr achos paham nad âi yr Iuddewon i'r dadleudy *(Ioan* 18. 28.) rhag eu halogi gan Pilat a'i filwyr, a thrwy hyny anghymhwyso eu hunain i fwyta (nid yr oen pasc, canys yr oeddynt wedi bwyta hwnw er y nos o'r blaen, ond) yr aberthau hedd, neu y pasc-aberthau, fel y gelwid hwynt, *Deut.* 16. 2. 2 *Cron.* 35. 8. ar y dydd hwnw, yn neillduol y dydd Sabboth ag oedd yn canlyn, ynghyd â holl ddyddiau yr ŵyl. *Vide Poli Synopsin. Johan.* 18. 28.

Y mae dadl eilwaith ynghylch Judas fradwr, pa un a ddarfu iddo gyfranogi o swper yr Arglwydd ai peidio. Yn ol yr hanes a roddir yn Matthew, Marc, ac Ioan, y mae sail ddigonol i farnu na ddarfu; ond oddiwrth *Luc* 22. 21—23. gellid meddwl ar y golwg cyntaf ei fod wedi cyfranogi o hono; ond fel na byddo Luc yn anghyson â'r Efengylwyr ereill, y mae yn angenrheidiol i farnu ei fod wedi adrodd yr hyn a gynnwysir yn yr adnodau crybwylledig ychydig allan o drefn amser, gan ei fod am roddi yr hanes am swper y pasc, a swper yr Arglwydd gyd â'u gilydd, cyn adrodd geiriau Crist am fradwriaeth Judas, y rhai a lefarodd efe tu a'r rhan olaf o swper y pasc. *Piscator in Pol. Syn.* Y mae sail dda i farnu nad oedd y tamaid a wlychodd Crist yn y ddysgl ac a roddodd i Judas, fel y gwnaeth, tybygid, i'r disgyblion ereill yn y cyfamser, yn un rhan o swper yr Arglwydd, ond un o'r defodau perthynol i swper y pasc. Bernir mai yn y saig a elwid *charoseth* y gwlychodd Crist y tamaid. Saig tew oedd hwn o bethau melus a chwerw wedi eu curo a'u cymmysgu â'u gilydd gyda finegr, yn goffadwriaeth o'r clai a'r priddfeini yn ngwlad yr Aipht. *Lightfoot, Vol.* 1. *p.* 963. Ar ol y tamaid hwn yr aeth Judas allan gan gywilydd, digofaint, ac euogrwydd, wedi deall fod ei fradwriaeth yn amlwg i Grist; gan hyny, nid oes le i ammeu nad aeth cyn i'r Arglwydd ordeinio ei swper olaf, er na wyddai yr un o'r disgyblion ond Ioan, nac yntau yn hollol, yr achos o'i fynediad, gan eu bod yn barnu iddo fyned i brynu rhyw bethau angenrheidiol erbyn yr ŵyl ag oedd yn dechreu boreu dranoeth, neu i roi peth i'r disgyblion tlodion ag oedd, fe allai, wedi dyfod gyda Christ yn y fintai i gadw yr ŵyl; canys trysorydd y gymdeithas oedd Judas fradwr. *Ioan* 13. 21—30.

(q) Y mae Crist yn niwedd y 14eg bennod o Ioan yn dywedyd, 'Codwch, awn oddi yma;' yr hyn a roes achlysur i rai esponwyr i farnu mai y geiriau hyn oedd y diweddglo i ymadroddion Crist yn yr oruwch-ystafell, ac iddo lefaru y xv. xvi. a'r xvii. ar y ffordd i ardd Gethsemane; ond y mae *Ioan* 18. 1. yn dangos mai ar ol llefaru y geiriau a gynnwysir yn y pennodau hyn, ynghyd â'r xiii. a'r xiv. yr ymadawodd Crist o'r oruwch-ystafell yn union ar ol canu yr hymn. *Mat.* 26. 30. Ei ddiben yn llefaru y geiriau 'Codwch,' &c. oedd, tybygid, i'w rhybuddio i ymbarotôi i ymadael o'r oruwch-ystafell, i gasglu eu pethau ynghyd; ac wedi iddynt wneuthur hyny, fel y mae yn debygol, eisteddodd drachefn, a llefarodd y tair pennod a ganlyn.

(r) Mewn perthynas i'r hymn a ganodd Crist gyd â'i ddisgyblion, y mae gwyr dysgedig yn dywedyd, ar ol ysgrifenwyr Iuddewig, mai yr arfer wrth fwyta swper y pasc oedd i ganu yr hymn a alwent *Hallel*, hyny yw, *cân o foliant*, yn cynnwys 6 o Psalmau; sef, o ddechreu *Ps.* 113. hyd ddiwedd *Ps.* 118. Rhanent y rhai hyn yn ddwy ran; y rhan gyntaf, yn cynnwys *Ps.* 113. a 114. a ganent o flaen bwyd, a'r pedair olaf ar ol bwyta yr oen, ac yfed y bedwaredd a'r gwpan olaf o'r gwin. Ond bernir na chanodd Crist y rhan olaf nes darfod iddo orphen ei swper ei hun.

Yr oedd y Psalmau hyn yn dra addas i'w canu ar swper y pasc, y rhan gyntaf yn coffâu y waredigaeth o'r Aipht, &c. ond ni chanwyd y rhan olaf, yn neillduol *Ps.* 116. a'r 118. erioed gyda mwy o addasrwydd a phriodoldeb na chan Grist a'i ddisgyblion yn yr oruwch-ystafell, gan eu bod yn Psalmau prophwydoliaethol am danō ef, ei ddioddefiadau, ei farwolaeth, ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, a'r ffrwythau melus sydd yn tarddu i'r eglwys oddi wrthynt. Pwy dafod a all byth ddatgan, neu galon amgyffred, y teimladau nefolaidd a sanctaidd oedd yn meddiannu ei enaid cyfiawn wrth ganu y gân orfoleddus hon ag oedd yn perthyn mor agos iddo ef a'i eglwys yn yr amgylchiadau yr oedd ynddynt? *Vide Pol. Syn. in Mat.* 26. 30.

(s) 'Y disgybl arall,' *Ioan* 18. 15. oedd Ioan, awdwr yr Efengyl; yr hwn sydd yma, fel mewn amryw o fanau ereill, yn celu ei enw, o ran gwylder a gweddeidd-dra. Y mae yn ei alw ei hun dan yr enw 'disgybl arall.' *Ioan* 20. 2. Pa fodd yr oedd yn adnabyddus i Caiaphas yr arch-offeiriad, nid yw mor hysbys; nid oddiwrth ddim cyfeillgarweh a fuasai rhyngddynt; ond, tybygid, am ei fod yn ei adnabod fel un a welsai o'r blaen yn fynych gyd â'r Iesu yn y deml, ac ar hyd heolydd Jerusalem, bob amser yn agos at ei berson, o herwydd y cariad mawr oedd ganddynt tu ag at eu gilydd. Neu, ynte, yr oedd Ioan wedi ei wneuthur ei hun yn adnabyddus iddo y noswaith hòno trwy

gyfaddef ei fod yn un o ddisgyblion yr Iesu. Pan ddaliwyd yr Iesu yn yr ardd, amcanodd Petr amddiffyn ei Arglwydd â'r gleddyf; ac wedi hyny, efe, ynghyd â'r holl ddisgyblion a ffoisant: ond Petr ac Ioan a ddychwelasant, ac a'i canlynasant; Petr o hirbell, ond Ioan, wedi goddiweddyd y fyddin, a aeth i mewn gyd â'r Iesu i lŷs yr arch-offeiriad. Gwyddai Ioan fod Petr yn canlyn o'u lled-ol; am hyny aeth allan, o dosturi, i ymofyn am dano; a thrwy ganiatâd y ddrysores, a'i dug i mewn i'r cyntedd o flaen llŷs yr arch-offeiriad, lle yr oedd y gweision wrth dân yn ymdwymno: a chan fod drws y llŷs yn agored, yr oedd yn hawdd gweled a chlywed yr hyn oedd yn myned ym mlaen yno; ac felly y clywodd yr Iesu Petr yn ci wadu, ac a edryehodd arno i goffâu iddo yr hyn a ragddywedasai.

(T) Gellir casglu wrth gymharu yr Efengylwyr â'u gilydd fod yr Iesu wedi bod dan holiad bum waith ar ol ei ddal yn yr ardd cyn iddo gael ei gondemnio i'w groeshoelio, yn y drefn ganlynol:—1. Wedi ei ddwyn yn gyntaf at Annas yr ail-offeiriad, danfonodd ef heb ei holi yn rhwym at Caiaphas yr arch-offeiriad. Dechreuodd yr holiad hwn, tybygid, oddeutu 10 o'r gloch nos Iau; a pharhaodd nes i'r ceiliog ganu ddwywaith, ac i Petr wadu ei Arglwydd dair gwaith. *Marc* 14. 30. Yn Matthew, Luc, ac Ioan, y dywedir y byddai iddo ei wadu dair gwaith cyn canu o'r ceiliog; hyny yw, cyn i'r ceiliog orphen canu, ac felly ni bydd dim anghysondeb yn yr Efengylwyr. Ar ol yr holiad hwn aeth Caiaphas a'r cynghor i orphwys dros ychydig oriau: ond nid oedd gorphwysdra i'r Iesu; canys y gwyr oedd yn ei ddal, sef y gweision a'r swyddogion, a'i hammharchasant ac a'i cablasant. *Luc* 22. 63—65.——2. Pan aeth hi yn ddydd, dygwyd Crist i ail holiad o flaen y cynghor, oddeutu 5 o'r gloch boreu ddydd Gwener, gan fod brys arnynt i fyned trwy y gorchwyl gwaedlyd ag oedd ganddynt mewn llaw cyn 9 o'r gloch y boreu, pan oedd raid offrymu y gwastadol aberth, heblaw y pasc-aberthau. *Luc* 22. 66—71. *Mat.* 27. 1. *Marc* 15. 1.——3. Dygwyd yr Iesu i drydydd holiad, o flaen Pilat, oddeutu 6 o'r gloch y boreu. *Ioan* 18. 28. a 19. 14. Dangoswyd eisoes yn nechreu y gwaith hwn fod y 6ed awr, yn Efengyl Ioan, yn cyfateb i 6 o'r gloch y boreu, gan ei fod yn cyfrif oriau y diwrnod yn ol arfer y Rhufeiniaid, ond yr Efengylwyr ereill yn ol arfer yr Iuddewon. *Pol. Syn.*——4. Danfonwyd Crist gan Pilat at Herod a gyfenwid Antipas, i'w bedwerydd holiad. *Luc* 23. 6—11.——5. Dygwyd ef yr ail waith ger bron Pilat, yr hyn oedd ei bummed holiad; pan gondemniwyd ef i gael ei groeshoelio, cyn darfod y 6ed awr; hyny yw, tybygid, ychydig cyn 7 o'r gloch o'r boreu. *Ioan* 19. 1—16. Hoeliwyd ef ar y groes am 9 o'r gloch y boreu, pan fyddai y gwastadol aberth boreuol yn cael ei offrymu. *Marc* 15. 25. Parhaodd y tywyllwch gwyrthiol o 12

hyd 3 o'r gloch brydnawn, pan roddodd yr Iesu i fynu yr yspryd. *Mat.* 27. 45. *Marc* 15. 33. *Luc* 23. 44.

(u) Y mae Matthew (27. 9, 10.) yn priodoli i Jeremiah yr hyn ni cheir mewn un rhan o'i lyfr, ond yn unig yn *Zech.* 11. 12, 13. Yr ydys yn cyfaddef yn unfryd gan yr holl esponwyr er ys llawer oes fod yma anhawsder mawr anhawdd i'w gysoni i foddlonrwydd. Y mae *Pol. Synops.* yn crybwyll am amryw ffyrdd trwy ba rai y mae y dysgedigion wedi llafurio tu ag at hyny. Y mae rhai yn barnu fod y brophwydoliaeth hon wedi cael ei thraddodi gyntaf gan Jeremiah; ac, er na chasglwyd gyd â'r prophwydoliaethau ereill sydd dan ei enw, ei bod mewn côf gan yr eglwys, neu, ynte; mewn ysgrifen, hyd amser Zechariah, yr hwn a'i rhoddodd ym mhlith ei brophwydoliaethau ei hun. Canys bernir fod y prophwydi wedi traethu ac ysgrifenu mwy o brophwydoliaethau nag sydd wedi eu trosglwyddo i ni dan eu henwau. Gwel *Ioan* 20. 30. a 21. 25. *Judas* 14. Sylwir hefyd fod Zechariah wedi defnyddio prophwydoliaethau a Galarnad Jeremiah mewn amryw fanau ereill. Y mae *Zech.* 1. 4. yn golygu *Jer.* 18. 11. a 35. 15. a *Zech.* 1. 6. yn cyfeirio at *Galar.* 2. 17. a *Zech.* 3. 8. at *Jer.* 23. 5, &c. Arweiniai i ormod meithder, ac ni byddai fuddiol i adrodd amrywiol ffyrdd trwy ba rai y mae yr esponwyr yn ymbalfalu i geisio dad-ddyrysu yr anhawsder.

(v) Y mae tri o'r Efengylwyr, Matthew, Marc, a Luc, yn crybwyll am y tywyllwch a ddigwyddodd dros y tair awr olaf o ddioddefaint Crist ar y groes. Gan mai diben Ioan wrth ysgrifenu ei Efengyl, oedd, gan mwyaf, i adrodd y pethau a adawyd allan gan yr Efengylwyr a ysgrifenasai o'i flaen; felly ni farnodd yn angenrheidiol i sôn am y tywyllwch, gan eu bod hwy wedi gwneuthur hyny eisoes. Y mae amryw bethau perthynol iddo yn deilwng o sylw:—1. Nid oedd y tywyllwch hwn yn tarddu oddiwrth ddiffyg ar yr haul trwy achosion naturiol, gan fod y lleuad y pryd hyny yn y llawn, sef y 15fed dydd o'r mis; a chan fod yr Iuddewon ar ol y dychweliad o Babilon yn cyfrif amser yn ol misoedd lleuadol, ac yn eu cysoni â blwyddyn yr haul trwy fis ychwanegol, yr hwn a alwent *Fe-Adar*. Ac y mae yn hysbys i bawb ag sydd hyddysg yn y rhan hon o ddysgeidiaeth, na ddichon fod diffyg ar yr haul yn ol trefn natur ond yn amser newidiad y lleuad; gan hyny yr oedd y tywyllwch hwn yn wyrthiol.——2. Nid yn Judea yn unig y bu y tywyllwch hwn, ond 'ar yr holl ddaear;' etto, deallwn mai yn y rhanau o'r ddaear lle yr oedd hi y pryd hyny yn ddydd; gan fod yr haul yn ol trefn natur yn llewyrchu ar y naill hanner o'r byd, tra byddo yn nos yn y llall.——3. Y mae tystiolaethau amryw hanesyddion Paganaidd a Christionogaidd yn profi cyffredinolrwydd y

tywyllwch a'r ddaear-gryn a ddigwyddasant yn amser dioddefaint Crist. Ond dylid sylwi fod yr hanesyddion Paganaidd yn galw y tywyllwch hwn yn ddiffyg ar yr haul, heb ddeall mai tywyllwch gwyrthiol ydoedd. Y mae *Phlegon*, hanesydd Groegaidd, wedi ysgrifenu fel y canlyn: 'Yn y 4edd flwyddyn o'r 202 Olympiad, y bu diffyg ar yr haul, y mwyaf o'r holl rai a glybuwyd o'r blaen am danynt, fel y daeth nos ar y chweched awr o'r dydd, a'r ser a ymddangosasant yn y nefoedd; daear-gryn mawr hefyd a ddymchwelodd ran fawr o Nicea yn Bithynia.' Y mae y 4edd flwyddyn o'r 202 Olympiad yn cyfateb i'r flwyddyn o Oed y Byd 4038, yr hon yw y flwyddyn ym mha un y gosodir marwolaeth Crist yn yr 2 Daflen o'r 7fed Dosparth o'r Amseryddiaeth hwn: ac y mae yn deilwng o sylw fod yr hanesydd Paganaidd yn dywedyd i'r tywyllwch ddechreu yn yr un awr ag y dywed yr Efengylwyr. Y mae *Eusebius*, yr hanesydd eglwysig, yn crybwyll am dystiolaeth *Thalus*, hanesydd Groegaidd arall, mewn perthynas i'r ddaear-gryn, a'i heffeithiau ar Nicea. Y mae *Tertulian*, un o dadau y brif eglwys, yn ei *Amddiffyniad o'r Cristionogion*, yn crybwyll am y tywyllwch cyffredinol a ddigwyddodd yn amser dioddefaint Crist, ac yn dywedyd wrth y llywiawdwyr Rhufeinig, 'Fod hanes am dano i'w weled yn Nghoffadwriaethau yr Ymerodraeth.' Hefyd y mae *Lucian* y merthyr, yn *Eusebius*, yn dywedyd fod y dystiolaeth hon yn y Coffadwriaethau hyny. Y mae dywediad *Dionysius* (yr hwn oedd y pryd hyny yn Bagan, ond wedi hyny a aeth yn Gristion) yn dra hynod. Wrth sylwi ar y tywyllwch gwyrthiol hwn pan oedd yn ngwlad yr Aipht yn yr amser y dioddefodd Crist, dywedir iddo dori allan yn y geiriau hyn, 'Naill ai mae y Duwdod yn dioddef, neu yn cyd-ddioddef gyd â'r hwn sydd yn dioddef.'

Os gofynir pa bethau yr oedd y tywyllwch yn arwyddocâu? Atebir, mai arwydd ydoedd, 1. O dywyllwch yr Iuddewon.——2. O ysgelerder y weithred o groeshoelio Crist, fel pe buasai yr haul a'r holl greadigaeth, ond dyn yn unig, yn gwisgo eu galar-wisgoedd, ac yn crynu o herwydd yr ammharch a'r anfri a ddangoswyd i'w Creawdwr.——3. O'r tywyllwch a'r digofaint dwyfol ag oedd yn gorchuddio enaid y Cyfryngwr. *Ps.* 88. 6, 7.

(AA) Mewn perthynas i lèn y deml a rwygwyd oddi fynu hyd i waered pan roddodd yr Iesu i fynu yr yspryd, dylid sylwi ar y pethau canlynol:—1. Yr oedd yn terfynu rhwng y lle sanctaidd a'r cyssegr sancteiddiolaf; yn 20 cufydd o led ac o hŷd; hyny yw, deg llath bob ffordd, yn ol hanner llath i'r cufydd.——2. Yn nheml Solomon yr oedd mur o gufydd ei drwch, ac un llèn yn ei guddio y tu nesaf i'r lle sanctaidd, i wahanu rhyngddo â'r cyssegr sancteiddiolaf. Ond yn yr ail deml yr oedd dwy lèn, heb yr un mur; a gwagle o gufydd o led rhyngddynt,

a'r llèni yn crogi oddiwrth yr un trawst, fel y mae ysgrifenwyr Iuddewig yn unfryd yn cytuno. Y ddwy hyn y mae yr Efengylwyr yn alw yn un llèn; ac felly hefyd *Josephus*, am eu bod mor agos i'w gilydd, ac am nad oeddynt o ran eu diben ond megys un llèn.——3. Yr oedd y llèni hyn yn cael eu newid unwaith bob blwyddyn; yr hen rai yn cael eu cymmeryd ymaith, a rhai newydd yn cael eu gosod yn eu lle. Eu defnydd oedd edafedd o bedwar lliw; sef glas, porphor, ac ysgarlad, ac edafedd gwyn o fein-llin; yr oedd yr edafedd, o bob lliw, yn chwe chaingc, wedi eu gwau ar anwe o rawn, ym mha un yr oedd pob edef yn cynnwys deuddeg a thriugain o rawn cyfrodedd. A chan fod llun cerubiaid o waith cywraint wedi eu gweithio yn ngwahanlen y tabernacl (*Exod.* 26. 31.) a'r deml gyntaf (2 *Cron.* 3. 14.) nid oes le i ammeu nad oeddynt yn yr un modd wedi eu gweithio yn ngwahanlen yr ail deml. Yr oedd, nid yn unig o wneuthuriad cywraint a thra godidog, ond hefyd o drwch, cryfder, ac uchder anghydmarol. Nid oedd dim nerth dynol a allasai ei rhwygo, er ceisio yn y cŵr isaf. Ond pan gafodd yr angelion cedyrn o nerth, sydd yn gwneuthur ei air ef, orchymyn, rhwygasant y llèn, neu y llèni hyn, yn haws nag y torodd Samson y rhaffau oddiam ei freichiau. Pa fath syndod a dychryn a ddaliodd y ddau offeiriad ag oedd y prydnawngwaith hwnw yn trwsio y llusernau, ac yn llosgi arogl-darth ar yr allor aur, ynghyd â'r offeiriaid ereill ag oedd yn offrymu y pasc-ebyrth yn y cyntedd, pan y gwelsant ac y clywsant fod llèn y deml wedi ei rhwygo heb un llaw ddynol. Oni buasai y llèn ar lygaid eu meddyliau, fel y mae ar y genedl hyd heddyw, diammeu y buasai y weithred ryfedd hon yn eu harwain i ystyried y diben a'r sylwedd o honi. *Lightfoot's Temple, Pol. Syn.*

Yr oedd rhwygo llèn y deml yn arwyddocâu, 1. Rhwygiad, neu ddrylliad natur ddynol Crist, sef ei gorph a'i enaid, ar y groes. Fel ag yr oedd rhwygo llèn y deml yn agor ffordd i'r cyssegr sancteiddiolaf, felly yr oedd dioddefiadau Crist ar y groes yn agor ffordd, 1. Iddo ef ei hun, fel arch-offeiriad mawr ei eglwys; ac, 2. I bob un a gaffo ran ynddo, i'r nefoedd, sef y gwir gyssegr. *Heb.* 10. 20.——2. Yr oedd yn arwyddo diddymiad yr holl seremoniau Iuddewig.——3. Dattodiad canolfur y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd, fel y byddent yn un corph yn Nghrist. *Eph.* 2. 14, 15.——4. Yr oedd Duw, trwy rwygo llèn y deml, yn rhoi arwydd o'i ddigofaint am weithred ysgeler yr Iuddewon yn croeshoelio Crist, ac yn dangos ei fod am ymadael â'r deml, yn ol arfer gyffredin yr Iuddewon o rwygo eu dillad, megys arwydd o ddigofaint, anfoddlonrwydd, neu alar. *Pol. Syn.*

(BB) Ni thorwyd esgeiriau Crist, er fod y milwyr wedi amcanu gwneuthur hyny; er mwyn cyflawni yr ysgrythyr, 'Ni thorir asgwrn o hono.' *Exod.* 12. 46. Fel nad oedd un o esgyrn yr oen pasc, yr hwn

oedd gysgod o Grist, i gael ei dori, felly ni thorwyd un o esgyrn Crist, yr hwn oedd y sylwedd o'r cysgod hwnw; i arwyddo, tybygid, na byddai i un o aelodau ei eglwys, yr hon yw ei gorph ysprydol ef, gael ei dori oddi wrtho. Er iddo dywallt ei waed, safodd yn Grist cyfan i'w holl eglwys, ac felly y bydd byth.

(cc) Gan fod yr Efengylwyr wrth adrodd am y pêr-aroglau i eneinio corph yr Arglwydd Iesu, a'r amgylchiadau perthynol i'w adgyfodiad, yn ymddangos ar y golwg cyntaf fel pe byddent yn amrywio oddiwrth eu gilydd yn yr hanes y maent yn ei roddi, y mae yn orchwyl o fawr bwys a thra angenrheidiol i'w cysoni â'u gilydd, fel y byddo genym amgyffred eglur ein hunain o'r tystiolaethau a roddir am adgyfodiad Crist; ac fel y byddo genym ateb i roddi i wrthddadleuon anghredinwyr.

1. Mewn perthynas i'r pêr-aroglau a'r enaint, y mae Luc (23. 55, 56.) yn dywedyd i'r gwragedd a ddaethai gyd â'r Iesu o Galilea i Wyl y Pasc eu parotôi cyn y Sabboth. Ond y mae Marc (16. 1.) yn dywedyd i Mair Magdalen, a Mair mam Iago, a Salome, eu prynu wedi darfod y dydd Sabboth. Nid oes dim gwrthddywediad nac anhawsder yn hyn:—1. Yr oedd rhai o'r gwragedd ag oedd yn bwriadu cael llaw yn y gorchwyl o eneinio corph yr Arglwydd Iesu, wedi prynu y pêr-aroglau cyn y Sabboth, sef cyn machlud haul ddydd Gwener, fel y dywed Luc; a'r tair a enwir gan Marc wedi eu prynu ar ol darfod y Sabboth, sef ar ol machlud haul ddydd Sadwrn; canys o hwyr i hwyr y cyfrifai yr Iuddewon eu dyddiau.——2. Neu, os prynodd yr holl wragedd ryw ran o'r pêr-aroglau a'r enaint cyn y Sabboth, gallai y tair a enwir gan Marc brynu eilwaith ryw gyfran ar ol y Sabboth.

2. Y mae anghysondeb yn ymddangos yn Marc (16. 2.) wrth ei gymharu â'r hyn a ddywedir gan yr Efengylwyr ereill, mewn perthynas i amser dyfodiad y gwragedd at y bedd. Dywed Marc fod yr 'haul wedi codi.' Dywed Matthew (28. 1.) ei bod hi 'yn dyddhâu i'r dydd cyntaf o'r wythnos,' pan ddaeth Mair Magdalen, a'r Fair arall, sef Mair mam Jose, gwraig Cleophas, at y bedd. Y mae Luc (24. 1.) yn dywedyd i'r gwragedd ddyfod â'r pêr-aroglau at y bedd ar y cynddydd. Dywed Ioan (20. 1.) i Mair Magdalen ddyfod at y bedd y boreu o'r dydd cyntaf o'r wythnos, 'a hi etto yn dywyll.' Y mae Matthew, Luc, ac Ioan, mewn cysondeb â'u gilydd mewn perthynas i amser dyfodiad y gwragedd at y bedd; ac ymddengys yn eglur fod hyny cyn codi haul, neu cyn ei ymddangosiad. Ond dylid sylwi nad oes dim anghysondeb yn Marc â'r lleill wrth graffu ar ei eiriau yn yr iaith Roeg. Yn lle, 'a'r haul wedi codi,' dylesid cyfieithu, 'a'r haul yn codi,' fel yn y cyfieithiad Saesonaeg, '*And at the rising of the sun;*'

canys gellir dywedyd yn ddigon priodol fod yr haul yn codi cyn y gwelïr, pan y bydd hi yn llwyd-oleu. Edrych *Test. Gr.*

3. Y mae amrywiaeth yn hanes yr Efengylŵyr mewn perthynas i'r gwragedd a ddaeth gyntaf at y bedd:—1. Dywed Luc i'r gwragedd a ddaethai gyd â'r Iesu o Galilea ddyfod ar y cynddydd at y bedd, gan ddwyn y pêr-aroglau.——2. Marc a ddywed mai Mair Magdalen, a Mair mam Iago, a Salome, wedi prynu pêr-aroglau, a ddaethant yn foreu iawn at y bedd 'i eneinio' yr Iesu.——3. Matthew a ddywed i Mair Magdalen, a'r Fair arall, yr un a Mair mam Iago, a Jose, ddyfod 'i edrych y bedd.'——4. Ond nid yw Ioan yn crybwyll am un o'r gwragedd ond Mair Magdalen yn unig yn dyfod at y bedd. Er fod yma amrywiaeth yn yr hanes, nid oes dim anghysondeb.

Etto nid oes mwy o amrywiaeth nag a ellid ei ddisgwyl mewn pedwar hanesydd yn adrodd am ddigwyddiad a chynnifer o amgylchiadau yn nglyn wrtho ag oedd adgyfodiad Crist:—1 Mewn perthynas i hanes Luc (24. 1.) dylid sylwi nad yw yn enwi y gwragedd a ddaeth at y bedd; etto cesglir oddiwrth *Luc* 23. 55. mai y gwragedd a ddaethai gyd â'r Iesu o Galilea oeddynt; ac oddiwrth *Luc* 24. 1—10. fod gwragedd ereill, tybygid, o Jerusalem a Judea, gyda hwynt; a bod Mair Magdalen, Joanna, gwraig Chusa goruchwyliwr Herod, a Mair mam Iago yn dair o honynt. Y mae yn eglur fod amryw o'r gwragedd wedi cychwyn at y bedd, er mwyn cyflawni y weithred o gariad a fwriadasant i gorph marw eu Harglwydd; ond lluddiwyd hwynt ar ol clywed gan Mair Magdalen, a'r Fair arall, ei fod wedi adgyfodi.——2. Oddiwrth hanes Marc, gellir barnu fod y gwragedd wedi cychwyn yn ddwy fintai at y bedd; a bod Mair Magdalen, Mair mam Iago, a Salome, yn y fintai gyntaf.——3. Oddiwrth hanes Matthew, gellir meddwl fod i'r fintai olaf oddiweddyd y gyntaf cyn cyrhaedd at y bedd; ac ar ol iddynt ymgynghori a'u gilydd, iddynt benderfynu i ddanfon dwy o'u nifer, sef, 'Mair Magdalen a'r Fair arall, i edrych y bedd;' sef, i edrych a oedd yn ddiogel iddynt fyned yno; canys nid yw yn annhebygol i rai o honynt glywed am y wyliadwriaeth, er nad oedd y peth yn hysbys i bawb.——4. Er nad yw Ioan yn sôn ond am Mair Magdalen yn dyfod at y bedd, a bod yn eglur oddiwrth Matthew fod y Fair arall gyda hi, etto nid yw hyny yn gwanhau dim ar dystiolaeth Ioan; gan mai arfer gyffredin haneswyr yw rhoddi enw yr un a fyddo yn benaf, neu yn flaenaf, mewn gorchwyl, er y gall fod un arall, neu ragor, yn y gymdeithas. Yr oedd hynodrwydd yn perthyn i Mair Magdalen: yr oedd yn hynod mewn drygioni cyn cael gras; ac ar ol hyny yn hynod am ei chariad tu ag at ei Harglwydd. Heblaw hyny, yr oedd yn hynod o herwydd y rhagorfraint a gafodd o weled yr Arglwydd yn gyntaf un ar ol ei adgyfodiad o feirw.

Yr amgylchiadau ereill perthynol i'r adgyfodiad a roddir mewn trefn yn y *Cysondeb*, fel na bydd dim anhawsder i gael amgyffred cywir o honynt.

(DD) 'Ni chredent.'—Er fod Mair Magdalen wedi gweled yr Iesu ar ol ei adgyfodiad, a'i glywed yn llefaru wrthi yn ei lais arferedig, a phrofi rhinwedd ei eiriau yn ei chalon; ac ar ol i'r gwragedd ereill ei weled ef, ac, ynghyd â Mair Magdalen, fynegu hyny i'r 11eg disgybl, 'Eu geiriau a welid yn eu golwg hwynt fel gwegi, ac ni chredasant iddynt.' Ac y mae yr adroddiad ffyddlawn am anghrediniaeth Thomas, un o'r deuddeg, ac ammheuaeth rhai o'r 500 a welsant yr Iesu ar ol ei adgyfodiad yn Galilea, ynghyd âg amryw bethau o'r un natur, yn profi i bob cydwybod dyn mai haneswyr di-ddichell a di-dwyll yw y pedwar Efengylwyr.

(EE) Rhifedi gwyliadwriaeth (κουστωδια) medd *Theophylact Pol. Synops. Mat.* 27. 65. oedd 60 o filwyr yn gyffredin; a chan fod Pilat yn dywedyd, 'Ewch, gwnewch mor ddiogel ag y medroch,' nid yw yn debygol iddo leihau dim arni, wrth ystyried lliosogrwydd disgyblion yr Iesu. Ni fu, hwyrach, erioed yn y byd gelwydd a chyn lleied o rith gwirionedd ynddo a hwnw a roddwyd gan yr arch-offeiriaid yn ngenau y milwyr a fuasai yn gwarchawd y bedd; 'Dywedwch, Ei ddisgyblion a ddaethant o hyd nôs, ac a'i lladratasant ef, a nyni yn cysgu.'

1. Os cysgu yr oeddynt, pa fodd y gwyddent pwy a'i lladratâodd? ——2. Nid rhyfedd i'r arch-offeiriaid roi arian lawer i'r milwyr i'w hannog i ddywedyd wrth yr Iuddewon mai cysgu yr oeddynt; canys ni feiddient gyfaddef hyny i'r rhaglaw pe buasent euog o hono, rhag ofn y gospedigaeth a fuasai yn ddyledus iddynt yn ol disgyblaeth filwraidd y Rhufeiniaid. Etto yr oedd perygl i'r chwedl ddyfod i glustiau Pilat (ac nid oes lle i ammeu na ddaeth) am hyny y mae yr arch-offeiriaid yn dywedyd, 'Os clyw y rhaglaw hyn, ni a'i perswadiwn (ni a'i dyhuddwn) ac a'ch gwnawn chwi yn ddiofal.' Clybu Pilat gan y milwyr, fel mae sail dda i farnu, yr amgylchiadau o adgyfodiad Crist; ond nis cyhoeddodd, ac ni cheisiodd attal y chwedl gelwyddog rhag ymledaenu, er mwyn rhyngu bodd i'r arch-offeiriaid a henuriaid yr Iuddewon; ac nid yw yn annhebygol iddynt ei wobrwyo yntau, fel y milwyr, i gelu y gwir, yn erbyn ei gydwybod. Dywed *Tertulian* (un o dadau y brif eglwys) fod Pilat o ran ei gydwybod yn Gristion; ac iddo ddanfon hanes at Tiberius Cæsar am yr holl bethau perthynol i Grist.——3. Mor annhebyg i wirionedd oedd i ychydig o bysgodwyr diarfog anturio i wyneb gwyliadwriaeth o wyr arfog er mwyn lladrata corph marw eu hathraw! I ba ddiben? Er mwyn peri i'r byd gredu

ei fod wedi adgyfodi, medd yr Iuddewon. Ond pwy yn ei swynwyrau a fuasai byth yn credu ar y fath seiliau?——4. Heblaw hyny, gan fod y disgyblion wedi clywed yr Iesu yn dywedyd yn fynych y byddai iddo adgyfodi y trydydd dydd ar ol ei farwolaeth, er fod eu ffydd yn wan i gredu hyny, etto y mae yn eglur nad oeddynt heb ryw radd o ddisgwyliad am hyny. *Luc* 24. 21. Ac yr oedd yr Iuddewon yn gwybod, ac wedi dywedyd hyny wrth Pilat; gan hyny, gyda pha wyneb y gallent haeru fod ei ddisgyblion wedi rhagflaenu y trydydd dydd i ddwyn corph eu Harglwydd? Yr oedd gelynion a chyfeillion yn disgwyl am y trydydd dydd; a phe buasai yn codi o'r bedd yn gynt, ni buasai yn eirwir, ac ni allasai neb gredu tystiolaeth yr apostolion am dano. Oni buasai llen ar lygaid y genedl Iuddewig, buasent yn gweled trwy yr hug deneu a gwael â pha un y gorchuddiwyd chwedl yr arch-offeiriaid.——5. Mor annhebyg i wirionedd oedd i'r milwyr gysgu mor drwm na buasai cymmaint ag un yn dihuno wrth swn y maen yn cael ei dreiglo oddiar enau y bedd!——6. Ond os dygwyd corph yr Iesu o'r bedd, dyweded yr Iuddewon, pa fodd y digwyddodd i'r llieiniau ag oedd am dano gael eu gadael ar ol? Pe buasai y disgyblion yn ei ladrata, buasent yn cymmeryd y llieiniau hefyd, gan y buasai yn gofyn cryn amser i'w dattod oddiam y corph, os ystyriwn ddull yr Iuddewon o amdoi cyrph meirwon; sef, amgylchu y traed a'r dwylaw, sef yr holl aelodau, â rhwymynau lliain, tebyg i rwymynau plant bychain; a'r corph yr un modd; a dodi napcyn, neu gadach, ar y wyneb a'r pen. Gan fod Lazarus wedi cael ei rwymo fel hyn, ni buasai yn gallu cerdded er iddo gael ei adgyfodi oni buasai iddo gael ei ryddhau. Gwel *Ioan* 11. 44.——7. Y mae *Justin* y merthyr yn dywedyd mewn dau fan o'i waith fod y Sanhedrim, neu y Cynghor Iuddewig o LXX, wedi danfon cyhoeddiad at yr Iuddewon trwy yr holl fyd, sylwedd pa un oedd yn hysbysu fel y canlyn; sef, 'Bod rhyw *sect* ddi-dduw, a di-gyfraith, wedi codi oddiwrth ei hawdwr, sef Iesu, rhyw dwyllwr o Galilea, yr hwn a groeshoeliasom ni; ond ei ddisgyblion a'i lladratasant o'r bedd yn y nos; ac y maent yn twyllo dynion trwy ddywedyd iddo adgyfodi oddiwrth y meirw, ac iddo esgyn i'r nefoedd.' A thrwy y modd hwn, hwyrach, y 'taenwyd y gair hwn ym mhlith yr Iuddewon hyd y dydd heddyw,' fel y dywed Matthew. Gwel *Pol. Synops.*

(FF) 'Ac wele, dau o honynt oedd yn myned—i dref a elwid Emmaus.' Un o'r ddau oedd Luc ei hun, fel y bernir, yr hwn sydd yn celu ei enw, fel Ioan. Er nad oedd gyd â'r Iesu o ddechreuad ei weinidogaeth; ac, o herwydd hyny, yn nechreu ei Efengyl y mae yn adrodd yr hyn a glywsai gan y deuddeg apostol, neu rai o honynt (*Luc* 1. 3.) etto gan fod sail dda i farnu ei fod o nifer y 70 disgybl, gan mai

efe yn unig o'r pedwar Efengylwr sydd yn rhoddi hanes am eu hanfoniad bob yn ddau; gellir meddwl ei fod, wedi hyny, yn adrodd amryw o bethau a adawyd allan gan y lleill, o'i wybyddiaeth ei hun; ac mai Cleophas, hwyrach, a fuasai yn arfer cyd-deithio âg ef wrth gyflawni ei weinidogaeth.——Yr oedd dwy dref o'r enw Emmaus; un yn agos i Tiberias, wrth lyn Genesareth, yn Galilea; a'r llall, a enwir yn y testun, yn Judea, yn 60 ystad (oddeutu 7½ milltir) oddiwrth Jerusalem. Cafodd y ddwy eu henw oddiwrth ffynonau o ddyfroedd poethion ag oedd ynddynt (חמאי *ex* חם & מים). *Jos. Bell. Jud.* 4. 1. & 7. 26. *Pol. Syn.*

(GG) Gellir casglu rhyw ychydig o briodoleddau cyrph y saint sydd yn y nefoedd, a'r rhai a ânt yno ar ol yr adgyfodiad cyffredinol, oddiwrth yr hyn a adroddir am gorph gogoneddus yr Arglwydd Iesu. 'Nid amlygwyd etto beth a fyddwn; eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo.'—1. Wedi bod yn gorph anianol, ar ol ei adgyfodiad aeth yn gorph ysprydol. 1 *Cor.* 15. 44.——2. Yr oedd yn medru bod yn weledig, neu yn anweledig, yn ol ei ewyllys ei hun. *Luc* 24. 31.——3. Yr oedd yn gallu dyfod i'r ystafell lle yr oedd y disgyblion wedi ymgasglu ynghyd rhag ofn yr Iuddewon, a'r drysau yn gauad: *Ioan* 20. 19—26. ac oddiwrth hyn gellir casglu y gallasai ddyfod o'r bedd heb dreiglo y maen oni buasai am roi pob tystiolaeth o'i adgyfodiad.——4. Er iddo fwyta ac yfed gyd â'i ddisgyblion ar ol adgyfodi i gadarnhau eu ffydd, etto y mae yn sicr nad oedd ac na bydd achos iddo ef, nac i un o gyrph y saint, am fwyd na diod na dim o angenrheidiau y bywyd marwol hwn, i dragywyddoldeb. *Luc* 24. 41—43. *Mat.* 22. 30.——5. Pan esgynodd i'r nef, yr oedd yn gwneuthur hyny trwy briodoledd naturiol i gorph ysprydol; ac, hwyrach na chamsyniem pe dywedem ei fod yn fwy naturiol iddo esgyn i'r nefoedd na rhodio ar wyneb y ddaear. *Luc* 24. 51. *Phil.* 3. 21. 1 *Thes.* 4. 17.

DANGOSEG

O'R

PETHAU MWYAF NODEDIG A SONIR AM DANYNT YN Y GWAITH HWN.

A

Abibalus, brenin cyntaf y Tyriaid, *tu dalen* 141.

Abiathar yn cael ei ddiswyddo o'r archoffeiriadaeth, 153.

Abraham, achos a diben ei alwad, 50—53.

Absalom, ynghylch pwys ei wallt, 146—y mae yn llunio gwrthryfel yn erbyn ei dad—yn cael ei ladd, &c. *ibid.*

Adoniah a Joab yn cael eu rhoddi i farwolaeth, 153.

Ahaziah, eglurhad o'r amgylchiadau mewn perthynas i'w farwolaeth ef, 225.

Aipht, darluniad byr o'r wlad, ei therfyniadau, ei ffrwythlondeb, ei rhaniad, &c. 69—72. Ei breninoedd a'i rhyfeloedd, 194, 195, 196. Cyflawniad o farnedigaethau yr Arglwydd yn ei herbyn, 242—247. Ei chyflwr presennol o ran moesau ei thrigolion, &c. 247, 248.

Alcimus a'i blaid yn erlid y Maccabeaid, &c. 391.

Alexander yn cael ei ddewis yn bentywysog y Groegiaid i ddwyn y rhyfel ym mlaen yn erbyn y Persiaid, 303—ymostyngiad holl wledydd Groeg tan ei lywodraeth, *ibid*—y mae yn croesi yr Hellespont gyda byddin fechan, ac ychydig arian, 304—y mae yn ennill buddugoliaeth Granicus, &c. *ibid*—y frwydr gerllaw Issus yn Cilicia, a'r canlyniad manteisiol o honi i Alexander, 306—ymostyngiad y Sidoniaid, &c. i Alexander, *ibid*—y gwarchae yn erbyn Tyrus, a'i chymmeriad, 307—ar ei ffordd i Jerusalem yn cyfarfod ac yn ymgrymu i Jadua yr arch-offeiriad, 308—ei greulondeb i wyr Gaza, 309—yn peri adeiladu Alexandria, ac yn hòni ei hun yn fab Jupiter Hammon, &c. 310—yn myned rhagddo, ar ol sefydlu pethau yn yr Aipht, i chwilio am Darius, yn croesi yr afon Tigris, ac yn ennill buddugoliaeth ar fyddin lïosog o'r Persiaid, yn ymyl pentref bach a elwid Gaugamela, *ibid*—yn dilyn ar ol Darius, yn dyfod i Persepolis, ac yn rhoddi y ddinas i'w hanrheithio, heb arbed ond y castell a'r palas, 311—trwy annogaeth y butain Thais, yn llosgi Persepolis, *ibid*—yn myned rhagddo ar ol Darius, yn dyfod o hyd iddo, ac yn ei gael wedi marw; yn gorchymyn ei gladdu yn Susa àg arwyl freninol, &c. 312—yn myned ym mlaen yn ffuddugoliaethus, 313—yn llunio cyrch i'r India, yn ceisio addoliad gan ei ddeiliaid, ac yn rhoddi Callisthenes ei athraw i farwolaeth am ddangos iddo y ffolineb o geisio ei addoli, 314, 315—yn croesi yr afon Indus, ei lwyddiant yn India, &c. a'i ddychweliad i Susa, 316, 317—yn priodi Statira, merch hynaf Darius, yn Susa, ac yn rhoddi merched ereill Darius i benaethiaid ei fyddin, priodasau pa rai a gynnaliwyd gyda llawer o loddest dros 5 niwrnod, 317—yn ymadael à Susa, ac yn hwylio i lawr yr afon Euleus i lyngclyn Persia, ac oddi yno i fynu yr afon Tigris, hyd Opis, ac oddi yno i Ecbatana yn Media, yn gorchfygu y Cosseaid, yn dychwelyd dros yr afon Tigris tua Babilon, 318, 319—tra yr oedd yn Babilon, bwriadodd hwylio oddi amgylch Affrica, chwilio allan y Môr Caspia, darostwng yr Arabiaid, a rhyfela yn erbyn y Carthaginiaid, &c. &c. 319—yn ymroi i feddwdod a phob moethau, ac yn marw yn Babilon yn y 33eg flwyddyn o'i oed, 320.

Alexander Ægus yn dilyn Alexander Fawr yn y llywodraeth, yn cael ei ladd gyd â'i fam Roxana gan Cassander, 326.

Alexander Balas yn lladd Demetrius mewn brwydr benderfynol, ac yn cael meddiant o deyrnas Syria, 395—yn ymroddi i syrthni a phuteindra, 397.

Alexander Jannæus yn teyrnasu yn Judea yn lle ei frawd Aristobulus, 405—yn rhyfela â Ptolemy Lathyrus, ac yn cael ei orchfygu, 406—Cleopatra yn ei gynnorthwyo, &c. *ibid*—y rhyfel rhyngddo a phlaid y Phariseaid, a'i greulondeb tu ag at y carcharorion, &c. *ibid*—ei farwolaeth, *ibid*—ei gynghor ynghylch celu ei farwolaeth, &c. 407.

Alexander, brenin yr Aipht, yn lladd ei fam Cleopatra, ac yn cael ei alltudio, &c. 406.

Alexander, mab i'r hwn a laddodd ei fam, yn teyrnasu yn lle Ptolemy Lathyrus, 406—yn cael ei yru i alltudiaeth, &c. 407.

Alexandra, ar ol llywodraethu naw mlynedd ar ol ei gwr Alexander Jannæus yn Judea, yn marw, 407.

Am yr Yspaid Iulïaidd, 17.

Am waith y chwe diwrnod yn nghreadigaeth y byd, &c. 22—25.

Am y patrieirch cyn y diluw, 27, 28, 29.
Am y diluw ac arch Noah, 29, 30, 31.
Amalec, ei sefyllfa, &c. 76.
Ammon, ei sefyllfa, &c. 77.
Amryw anhawsderau yn cael eu cysoni mewn perthynas i amserau breninoedd Israel a Judah, 213—218.
Amser, ei raniad i ddyddiau, wythnosau, misoedd, a blynyddoedd, &c. 1—10—ynghylch ei gyfraniad yn y 4ydd Dosparth, 65—69.
Amserau hynod, megys yr Olympiadau, Amser sylfaenu Rhufain, Amser Nabonassar, Era y Seleucidæ, Era Dioclesian, Era yr Hegira, 13—18.
Anialwch, darluniad o hono, a hanes teithiau Israel trwyddo, 73, 74, 75.
Anna y brophwydes yn claddu ei gwr, 406.
Antigonus yn ceisio cael yr ymerodraeth iddo ei hun, ac yn cael ei ladd ym mrwydr Ipsus yn Phrygia, 326.
Antiochus Soter, mab Seleucus Nicator, yn priodi Stratonice, gwraig ei dad, tra yr ydoedd ei dad yn fyw, 330—yn teyrnasu yn lle ei dad, 335—wrth sicrhau iddo ei hun y taleithiau dwyreiniol, yn colli ei fyddin, &c. *ibid*—ei farwolaeth, &c. 338.
Antiochus Theus, yn dechreu teyrnasu, 338—yn cael ei annog gan ei chwaer Apame i fyned i ryfel â Ptolemy Philadelphus, er mawr golled iddo, &c. 340—y mae yn heddychu â Ptolemy, &c. 341—yn cael ei wenwyno gan Laodice, 342.
Antiochus Fawr yn teyrnasu ar Syria, 346—yn rhyfela yn erbyn Ptolemy Philopator, 347—yn gorchfygu byddin Ptolemy, ac yn ennill amryw ddinasoedd, *ibid*—yn colli brwydr wedi hyny, ac yn cilio yn ol i Antiochia, 348, 349—yn heddychu à Ptolemy, ac yn ennill yn ol holl daleithiau Asia Leiaf, ond Sardis, 349—yn ymuno â brenin Macedonia i ranu gwledydd yr Aipht rhyngddynt, 352—yn ennill serch yr Iuddewon, 353—yn heddychu â'r Aiphtiaid, &c. *ibid*—yn rhyfela yn erbyn y Rhufeiniaid, 354—hanes y frwydr benderfynol, &c. 355—yn cael ei ladd am yspeilio teml Belus, &c. 356.
Antiochus Epiphanes yn teyrnasu yn lle Seleucus Philopator, 359—y mae yn gysgod o Anghrist, *ibid*—y brophwydoliaeth yn *Dan.* xi. o'r 20fed adnod hyd ddiwedd y bennod, yn cael ei chyflawni ynddo, &c. 359—375—ei ddiwedd gresynus, 379.
Antiochus Eupator yn teyrnasu ar Syria yn lle ei dad Antiochus Epiphanes, 385.
Antiochus Theos yn cael ei wneuthur yn frenin ar Syria, 398—yn cael ei ladd gan Tryphon, 399.
Antiochus Sidetes yn cael teyrnasu ar Syria, yn lladd Tryphon, yn gwarchae ar Jerusalem, ac yn heddychu âg Ioan Hyrcanus, 400—yn gwneuthur cyrch yn erbyn y Parthiaid, ac yn dychwelyd yn fuddugoliaethus, 401—ac yn cael ei ladd, &c. *ibid*.
Antigonus, mab Aristobulus, yn hòni ei hawl i orsedd Judea o flaen Julius Cæsar, &c. 410—yn cael ei osod yn y freniniaeth gan y Parthiaid, &c. 412—yn cael tori ei ben, 413.
Antipater, tad Herod, yn cael ei wenwyno, 411.
Ararat, lle y gorphwysodd yr arch, 35.
Archelaus, mab Herod, yn teyrnasu yn Judea, ei hanes, &c. 423.
Aristobulus yn llywodraethu yn Judea yn lle ei dad Ioan Hyrcanus, 405—ei greulondeb, &c. *ibid*—a'i farwolaeth resynus, *ibid*.
Aristobulus, mab ieuengaf Alexander Jannæus, yn ymryson â'i frawd Hyrcanus, ac yn traws-feddiannu teyrnas Judea, 407—y mae yn cael ei gymmeryd yn garcharor, ac yn diangc, 408—yn dychwelyd, ac yn codi terfysg yn Judea, ond yn cael ei orchfygu drachefn, *ibid*.
Arsaces, neu Artaxerxes Mnemon, yn cael ei dderchafu i orsedd Persia ar ol ei dad Darius Nothus, 295—ei frawd Cyrus yn ceisio ei ladd, yn rhyfela yn ei erbyn, ac yn cael ei ladd, 296—y mae yn alltudio ei fam Parysatis am wenwyno ei wraig Statira, 297—yr anghydfod yn llys Persia ynghylch pwy fyddai yr etifedd, 298—ei farwolaeth, *ibid*.
Assyria, darluniad o'r wlad, ei breninoedd a'i rhyfeloedd, &c. 177—187.
Artaxerxes Longimanus (yr un âg Ahasferus yn llyfr Esther) yn cael yr orsedd ar ol ei dad Xerxes, 292—yn difreinio Fasti y frenines, ac yn dyrchafu Esther, 293—y rhyfel Peloponesaidd, 294—haint trwm dros ran fawr o'r byd, *ibid*—ei farwolaeth, *ibid*.
Augustus Cæsar yn trethu yr ymerodraeth Rufeinig, 420.

B

Babel, cymmysgiad yr iaith yno, 39, 40.
Babilon, ei breninoedd a'i rhyfeloedd, &c. 187, 193—darluniad byr o'r ddinas, cryfder ei chaerau, y gerddi crogadwy, &c. a chyflawniad y prophwydoliaethau mewn perthynas i'w chymmeriad gan Cyrus, 229—242—sylwadau ar y caethiwed yno, a'r dychweliad oddi yno, 248—251.
Babiloniaid, eu gwrthryfel, a'u darostyngiad gan Darius Hystaspis, 283.
Bagoas, hoff eunuch Ochus brenin Persia, yn gwenwyno ei feistr, &c. 301—y mae yn lladd plant Ochus, oddieithr Arses yr ieuengaf, yr hwn y mae yn osod yn frenin, ond yn cadw y llywodraeth yn ei

law ei hun, i'r hyn y mae Arses yn anfoddlon, ac o herwydd hyny y mae Bagoas yn ei ladd yntau hefyd, 301—yn gosod Codomannus yn frenin yn lle Arses, yn ceisio gwenwyno Codomannus, yr hwn, pan ddeallodd, a wnaeth i Bagoas ei yfed, 302.

Basan, *Gwel* Gwlad Og.

Berenice, gwraig Ptolemy Euergetes, yn cyssegru ei gwallt i'r Zephyrian Venus, 344.

Berenice, merch Ptolemy Auletes, yn cael ei gosod i lywodraethu ar ol alltudiaeth ei thad, 408.

Blynyddoedd Lleuadol ac Iuliaidd, 10, 11, 12.

Bwa yn y cwmwl, neu yr enfys, 35.

C

Cam, sylwadau ar feldith Noah mewn perthynas iddo a'i hiliogaeth, 36, 37. lle eu preswylfod, 44, 45, 46.

Cambyses yn dilyn Cyrus yn y freniniaeth—yn rhyfela yn erbyn yr Aipht—hefyd, yn erbyn y Carthaginiaid, yr Hammoniaid yn Libya, a'r Ethiopiaid—yn lladd ei frawd Smerdis, &c. 278, 278, 280.

Canaan, darluniad o'r wlad, a'i rhaniad mewn amrywiol oesoedd, 77—87.

Cassius, un o leiddiaid Julius Cæsar, yn gosod trethi trymion ar Syria, Judea, a Phœnicia, 411.

Cedorlaomer a'i gyfeillion, a'r rhyfel yn ei amser ef, 53, 54.

Ceres, planed a ganfuwyd gan Mr. Piozzi, 2.

Clearchus, arweinydd dechreuol y Groegiaid yn yr encil hynod o 2325 milltir, 297.

Cleopatra, merch Antiochus, yn priodi brenin yr Aipht, 355.

Cleopatra, gwraig Demetrius Nicator, yn ysgar ei hun oddiwrth ei gwr, ac yn cynnyg ei hun a choron Syria i Antiochus Sidetes, 400.

Cleopatra a'i brawd yn teyrnasu yn yr Aipht, yn ymryson am y goron, a thrwy gynnorthwy Julius Cæsar yn gorchfygu ei brawd, &c. 409.

. Codomannus yn cael ei wneuthur yn frenin Persia gan Bagoas, ac yn newid ei enw yn Darius, 301—yr achos o'i ddyrchafiad, &c. 302.—*Edrych* Darius Codomannus.

Coma Berenices, hanes ei dechreuad i fod yn un o'r cyd-seryddiadau, 344.

Crist, ynghylch yr amser o'r flwyddyn y ganed ef ac Ioan Fedyddiwr, 436.

Cynllun bychan o ddau gyntedd teml Solomon, gyd âg eglurhad o hono, 170.

Cyfatebolrwydd y ddau gorn bychan, 381—385.

Cyfieithiad y LXX, 336.

Cyrus, ei ryfeloedd yn erbyn Babilon, &c. 229—242—dilyniad o'i hanes, &c. 277, 278.

Cyrus, mab ieuengaf Darius Nothus, yn cael ei wneuthur yn llywydd ar Asia Leiaf, ei greulondeb, &c. 295—yn ceisio lladd ei frawd Arsaces, 296—ei fywyd yntau yn cael ei arbed trwy eiriolaeth ei fam Parysatis, *ibid*—yn rhyfela yn erbyn ei frawd, ac yn cael ei ladd, *ibid*.

D

Daear, y 3edd blaned yn nghyfansawdd yr haul *(solar system)* 1, 2.

Daear-gryn mawr yn y dwyrain, 346.

Dafydd yn cael ei eneinio—yn lladd Goliath—dechreuad ei gyfeillach à Jonathan—yn ffoi i Nob, ac wedi hyny i Gath—yn gwaredu Ceilah—yn tori cwr mantell Saul, ac yn cymmeryd ymaith ei waywffon a'r llestr dwfr—yn preswylio yn Siclag—ei gyfyngdra o achos llosgi Siclag, &c.—yn ymlid ar ol yr Amaleciaid, ac yn eu dinystrio oddieithr pedwar cant, 132—139—yn cael ei eneinio yn frenin ar holl lwythau Israel—yn ennill tŵr y Jebusiaid, ac yn cyrchu yr arch o Ciriath-jearim, &c. 140, 141, 142—yn darostwng y Moabiaid a'r Syriaid—Toi, brenin Hamath, yn danfon anrhegion ato, ac efe yn eu hoffrymu, ynghyd à'r aur, a'r arian, &c. a anrheithiasai oddiar ei elynion, at waith y deml, 143—y mae mewn perygl o gael ei ladd gan Isbibenob, brawd Goliath y Gethiad, &c.—y mae yn dangos caredigrwydd i Mephiboseth—yn godinebu gyda Bathseba, a'r drwg a fygythiasai yr Arglwydd yn dechreu tori allan yn ei deulu, 143—145—y mae yn peri rhifo y bobl, a'r canlyniad galarus o hyny—yr anghysondeb rhwng y cyfrif yn 2 *Sam.* xxiv. â'r un yn 1 *Cron.* xxi. 149—yn peri eneinio Solomon yn frenin yn ei le—yn rhoddi gorchymyn ynghylch dosparthiadau y Lefiaid i gyflawni amrywiol wasanaeth pan adeiladid tŷ yr Arglwydd, 151—yn cynnull holl dywysogion Israel i Jerusalem—yn cynghori Solomon ei fab, yn ei annog i adeiladu y deml, ac yn rhoddi iddo bortread o honi—ac yn marw, 152, 153.

Dagon yn syrthio o flaen yr arch, 127.

Daniel y Prophwyd, ei hanes, a'r amrywiol ddigwyddiadau yn ei amser ef, 251, 252, 253.

Darius y Mediad, a Cyrus, yn gorchfygu y Babiloniaid, ac yn sefydlu trefn wladol y freniniaeth, 277.

Darius Hystaspis yn ail ddarostwng y Babiloniaid, &c. 283—yn rhyfela yn erbyn y Scythiaid, 284—yn adferu y Tyriaid i'w breintiau, 285—yn rhyfela yn erbyn y Groegiaid, *ibid*—ei farwolaeth, 286.

Darius Nothus, *Edr.* Ochus.

Darius, mab Artaxerxes Mnemon, yn bwriadu yn erbyn bywyd ei dad, ac yn cael ei dori ymaith, ynghyd à'i holl bleidwyr, 298.

Darius Codomannus yn cael ei wneuthur yn frenin Persia gan Bagoas, 301—yr achos gwreiddiol o ryfel Alexander a'r Groegiaid yn ei erbyn, 302—adroddiad o amryw frwydrau rhwng Darius ac Alexander, 303—311—marwolaeth Darius a'i gladdedigaeth, 312.

Deborah a Barac yn gwaredu Israel o law y Canaaneaid, 119.

Deioces, brenin y Mediaid, yn cael ei ladd wrth roddi gwarchae ar Ninifeh, 276.

Demetrius yn traws-feddiannu Macedonia, yn parotôi llynges i fyned i Asia, yn colli ei deyrnas, ac yn taflu ei hun ar drugaredd Seleucus, 329.

Demetrius yn traws-feddiannu teyrnas Syria, gan ladd Antiochus Eupator, a'i ymgeleddwr Lysias, 390—yn ymroi i syrthni a meddwdod, 393—yr ymryson rhyngddo ac Alexander Balas am y deyrnas, yntau yn cael ei ladd yn y frwydr, 395.

Demetrius Nicator yn ceisio adferu y taleithiau rhwng yr afon Euphrates ac Indus, &c. yn cael ei gymmeryd yn garcharor gan y Parthiaid, a'i holl fyddin yn cael ei difetha, &c. 399, 400—yn dychwelyd adref, ac yn teyrnasu yr ail waith, 400.

Diodotus a alwyd Tryphon yn gwneud cais i gael coron Syria ar ei ben ei hun, 398.

Diwygiad Nehemiah, hanes am dano, 258.

Doethion o'r dwyrain yn dyfod i Jerusalem, 420.

E

Edom, ei sefyllfa, &c. 76.

Ehwd yn gwaredu Israel o law y Moabiaid, 118.

Eli, dechreuad ei lywodraeth, &c. 124.

Elias ac Eliseus, eu hanes, a'r amrywiol bethau hynod a ddigwyddasant yn eu hamser, 218—225.

Encil *(retreat)* hynod y Groegiaid o 2325 milltir, trwy wledydd gelynol, ac yn ngŵydd byddin lïosog o Bersiaid ag oedd yn eu dilyn, 297.

Erasistratus, meddyg Groegaidd, yn ceisio ar Seleucus Nicator i roddi ei wraig Stratonice yn wraig i'w fab Antiochus, 330.

Esponiad ar y 70 wythnos a sonir am danynt yn *Dan.* 9. 24—27. 263—271.

Esseniaid, plaid grefyddol ym mhlith yr Iuddewon, hanes eu crefydd, 404.

Ezra, ei waith yn trefnu ysgrythyrau yr Hen Destament, 259—263.

F

Fenus, neu Gwener, yr ail blaned yn nghyfansawdd yr haul, 2.

Festa, planed newydd a ganfuwyd gyntaf gan Dr. *Olbers*, 1807, 2.

G

Gabinius yn gosod i fynu bendefig-lywiaeth yn Judea, 408—Julius Cæsar yn ei ddiddymu, 410.

Galiaid, eu dyfodiad cyntaf i Asia Leiaf, 335—eu bod o'r un gwreiddyn a'r Cymry, &c. *ibid.*

Gedeon yn gwaredu Israel o law y Midianiaid, &c. 120, 121.

Georgium Sidus, neu Herschel, y bellaf o'r holl blanedau yn nghyfansawdd yr haul, 3.

Gomer, ei hiliogaeth, &c. 42, 43.

Groegiaid, hanes eu teyrnas ar ol marwolaeth Alexander Fawr, 326.

Gwerth yr aur a'r arian, &c. a offrymwyd yn ewyllysgar at waith y deml yn ol arian Lloegr, 152.

Gwener, *Gwel* Venus.

Gwlad Og, brenin Basan, ei sefyllfa, &c. 77.

H

Haman, ei hanes, &c. yn ceisio difetha yr holl Iuddewon, &c. 293.

Hanes dymchweliad breniniaeth y Mediaid a'r Persiaid, a sylfaeniad breniniaeth y Groegiaid, 302—320.

Hannibal yn diangc o Carthage at Antiochus i Ephesus, ac yn ei annog i fyned ym mlaen â'r rhyfel yn erbyn y Rhufeiniaid, &c. 354.

Haul, ei faintioli, a'i briodoleddau, 2.

Heliodorus yn gwenwyno Seleucus Philopator, 359.

Herschel, *Edr.* Georgium Sidus.

Herodianiaid, hanes eu hegwyddorion, 404.

Herod Fawr, ail fab Antipater, yn cael ei eni, 407—yn llywodraethwr Galilea, ac yn cael gwŷs i ymddangos ger bron y Sanhedrim, &c. 410—y rhyfel rhyngddo a phlaid Antigonus, 411—yn gorfod cilio o'r wlad—yn hwylio tua Rhufain, ac yn llwyddo gan y Rhufeiniaid i gael ei wneuthur yn frenin—yn gwarchae ar Jerusalem, ac yn ei chymmeryd—yn priodi Mariamne, &c. 412, 413—ei ddyfais i gael gwared o Aristobulus, &c.—yn cael gwŷs i ymddangos ger bron Antoni am y llofruddiaeth, 415—ar ol môrfrwydr Actium y mae yn cyfarfod âg Octafianus (sef Augustus Cæsar) ac yn cael ei gadarnhau yn frenin Judea, 416—yn rhoddi Mariamne i farwolaeth, a'i chwerw

edifeirwch o herwydd hyny, *ibid*—haint trwm yn Judea, 417—Herod yn syrthio i glefyd trwm, yn gwellhau, ac yn rhoddi Alexandra, mam Mariamne, i farwolaeth, &c. *ibid*—sychder a newyn yn Judea—Herod yn toddi ei holl lestri aur ac arian, i brynu ŷd, &c. *ibid*—yn adeiladu Cæsarea, 418—yn adeiladu ac yn adgyweirio y deml yn Jerusalem, *ibid*—yn myned i Asia Leiaf i gynnorthwyo Agrippa, 419—ac yn rhoddi ei feibion, Alexander ac Aristobulus, i farwolaeth, *ibid*—hanes ei farwolaeth yntau, 421—hanes ei hiliogaeth, 422—ynghylch gwir amser ei farwolaeth, 434, 435.

Hippocrates, y meddyg enwog, yn cael ei wahodd i Persia gan Artaxerxes, &c. 294.

Hophni a Phinees, meibion Eli, eu hannuwioldeb a'u marwolaeth, 126, 127.

Hyrcanus, mab Alexander Jannæus, yn cael ei wneuthur yn arch-offeiriad, 407—y rhyfel rhyngddo a'i frawd Aristobulus ynghylch yr orsedd, &c. *ibid*—yn cael ei gynnorthwyo gan Antipater, tad Herod, *ibid*—yn cael ei sicrhau yn yr arch-offeiriadaeth, a'r dywysogaeth wladol, gan Julius Cæsar, 410—y mae yn cael ei orchfygu a'i gymmeryd yn garcharor gan y Parthiaid, 412—yn dychwelyd o'i gaethiwed, ac yn cael ei roddi i farwolaeth gan Herod, 414.

I a J

Jabin, brenin Canaan, yn gorthrymu Israel, 119.

Jacob, ei oed ar amrywiol amserau, 56—rhifedi ei feibion yn myned i'r Aipht, 57.

Jadua, yr arch-offeiriad Iuddewig, yn cyfarfod âg Alexander Fawr, 308.

Jair yn flaenor ar Israel, 122.

Japheth, ei feibion, a lle eu preswylfod, &c. 42, 43.

Jephthah yn flaenor ar Israel, ac yn eu gwaredu o law meibion Ammon, 122—ymddygiad yr Ephraimiaid tu ag ato, 123.

Jeroboam, ei bechod, &c. 174, 175.

Ioan Hyrcanus yn syrthio ar Ptolemy a'i ganlynwyr, ac yn dial arnynt am farwolaeth ei dad a'i frodyr, 400—yn cael ei wneyd yn arch-offeiriad ac yn dywysog yn lle Simon ei dad, *ibid*—hanes y cytundeb rhyngddo ac Antiochus Sidetes, trwy ba un yr achubwyd Jerusalem a'i thrigolion, *ibid*—yn cynnorthwyo Antiochus yn erbyn y Parthiaid, 401—ei farwolaeth, 402.

Ioan Fedyddiwr yn cael ei eni, 419—ynghylch yr amser o'r flwyddyn y ganed ef, 436.

Job, ei hanes, &c. 59, 60.

Johanan yr arch-offeiriad Iuddewig yn lladd ei frawd Jeshua yn y cyntedd nesaf i mewn o'r deml, 297, 298.

Jonathan mab Saul, ei farwolaeth, 139.

Jonathan brawd Judas yn cael ei wneud yn dywysog ar yr Iuddewon, 392—yn cael ei wneud yn flaenor ar fyddin Demetrius, 393—y mae yn gwneuthur cynghrair âg Alexander Balas ac yn cael yr arch-offeiriadaeth, 394—yn gwarchae ar y castell yn Jerusalem, 397—yn cael ei ladd gan Tryphon, 399.

Joseph, ei oed pan safodd y tro cyntaf o flaen Pharaoh, 56.

Josua yn cymmeryd y llywodraeth ar ol Moses, yn danfon yr yspiwyr—yn parotôi i fyned tros yr Iorddonen—yn gorchymyn enwaedu ar yr holl wrrywiaid oedd heb eu henwaedu—yn cynnal y Pasc yn Gilgal—yn gwarchae ar Jericho, ac yn ei diofrydu—yr aflwyddiant o flaen Ai—yn cael ei dwyllo gan y Gibeoniaid—yr haul a'r lleuad yn sefyll heb fachludo, &c.—ei farwolaeth, &c. 105—113.

Isboseth yn cael ei wneuthur yn frenin ar Israel, 140—y rhyfel rhyngddo a Dafydd—mae yn cael ei ladd gan ei weision, *ibid*.

Israel, eu gorthrymder yn yr Aipht, 58—hanes eu teithiau yn yr anialwch, 73, 74, 75—maent yn ymlygru ar ol marwolaeth Josua, a'r Arglwydd yn eu ceryddu, 114, 115—eu heilun-addoliaeth ar ol marw Gedeon, 121.

Judas y Maccabead yn gwaredu yr Iuddewon, yn puro y deml, ac yn adferu yr addoliad yn Jerusalem, 378, 379—yn rhyfela yn fuddugoliaethus yn erbyn y cenedloedd cymmydogaethol, 385—yn gorchfygu byddin o Arabiaid, 387—yn danfon i Jerusalem i aberthu ebyrth dros bechod, ac i lanhau y gwersyll, 388—adroddiad o amryw frwydrau, 388, 389, 390—yntau yn cael ei ladd, 391.

Iuddewon, eu sefydliad yn eu gwlad ar ol dychwelyd o Babilon, yn dechreu sylfaenu y deml, a'r Samariaid yn eu rhwystro, 254—Darius yn rhoddi gorchymyn i fyned ym mlaen á'r gwaith, 256.

Julius Cæsar yn cael ei helpio yn brydlon gan Antipater, 410—y mae yn rhoddi cenad i adeiladu caerau Jerusalem, 511—yn cael ei ladd yn y Senedd-dy, *ibid*—efe oedd y cyntaf o'r Rhufeiniaid a wnaeth gais i ddarostwng Prydain, *ibid*.

Juno, planed newydd a ganfuwyd gan Mr. Harding, 2.

Jupiter, neu Iau, y bummed blaned yn nghyfansawdd yr haul, 3.

L

Leonidas, brenin Sparta, a 4000 o wyr, yn gwrthsefyll byddin liosog Xerxes, 287.

Lysimachus a Seleucus Nicator yn ymryson ynghylch ymerodraeth Alexander, hanes yr ymryson, 332.

M

Maccabeaid, hanes eu dechreuad, &c. a'u llwyddiant yn erbyn Antiochus, &c. 376—379.

Magnesia a Smyrna, dinasoedd yn Asia Leiaf, yn ymuno i gynnorthwyo Seleucus Callinicus yn erbyn Ptolemy Euergetes, 345.

Mair Magdalen, ei hanes, &c. 362.

Marc Antoni yn danfon ei wyr meirch i Palmyra i gymmeryd ei hyspail yn lle eu cyflog, 412.

Mars, neu Mawrth, y bedwaredd blaned yn nghyfansawdd yr haul, 3.

Mediaid a'r Persiaid, eu hanes, &c. 275—302.

Memnon y Rhodiad, ei gallineb, a'i ffyddlondeb i Darius Codomannus, 304, 305.

Mephiboseth, mab Jonathan, yn cael ei eni, 136.

Mercuri, y blaned gyntaf yn nghyfansawdd yr haul, 2.

Midian, tad y Midianiaid, pwy oedd, a lle ei breswylfod, 75, 76.

Midianiaid yn gorthrymu Israel, 119.

Moab, ei sefyllfa, &c. 76.

Môr Coch, y fan lle yr aeth yr Israeliaid trwyddo, &c. 72.

Mordecai yr Iuddew, ei hanes, &c. 292, 293.

N

Naomi a'i merch yn nghyfraith yn dychwelyd o wlad Moab, 117.

Nearchus gyda llynges Alexander, yn hwylio o'r afon Indus trwy Lyngclyn Persia, at geg yr afon Euphrates, i gyfarfod byddin fuddugoliaethus Alexander, 316—yn clywed fod Alexander ar ei daith tua Susa, yn hwylio yn ol at geg yr afon Pisitigris, ac oddi yno i fynu yr afon hòno, lle y cyfarfu âg Alexander, yr hwn a'i hanrhydeddodd yn ddirfawr am ei arweiniad llwyddiannus o'r llynges trwy gynnifer o beryglon, 317.

Nectanebus yn danfon 4000 o gyflogfilwyr o Roegiaid, dan arweiniad Mentor, i gynnorthwyo y Phœniciaid yn erbyn y Persiaid, 299—bradwriaeth Mentor, *ibid.*

Nehemiah yn cael cenad i fyned i Judea i adeiladu caerau Jerusalem—yn dychwelyd yn ol i Persia—ac wedi hyny yn dyfod drachefn i Judea i fod yn llywodraethwr ar y wlad, 256, 257.

Newyn dros dair blynedd yn amser Dafydd, 148.

Nimrod, ei hanes, &c. 41.

Ninifeh yn cael ei llwyr ddinystrio gan fyddinoedd y Mediaid a'r Babiloniaid, 276.

Noah, ei hophwydoliaeth, 336.

O

Ochus yn cael ei wneuthur yn frenin Persia, ac yn newid ei enw yn Darius, 295—yr Aipht yn gwrthryfela yn ei erbyn, *ibid*—hefyd y Mediaid, *ibid*—y mae yn gwneuthur ei fab Cyrus yn llywydd ar holl daleithiau Asia Leiaf, *ibid*—ei farwolaeth, &c. *ibid.*

Ochus, mab ieuengaf Artaxerxes Mnemon, yn cael yr orsedd ar ol ei dad, 298—amryw daleithiau yn gwrthryfela yn ei erbyn, 299—ei anferth greulondeb, *ibid*—y Sidoniaid a'r Phœniciaid yn gwrthryfela yn ei erbyn, ac yntau yn eu darostwng, *ibid*—y mae yn colli llawer o'i wyr yn llyn Serbonis, 300—yn darostwng yr Aipht, yn ymroi i foethau yn ei ddyddiau olaf, ac yn cael ei wenwyno gan ei hoff eunuch Bagoas, 301.

Octafianus a Marc Antoni yn gorchfygu lleiddiaid Julius Cæsar, 411—yn ymryson à'u gilydd am yr ymerodraeth, 415—Octafianus yn ennill môr-frwydr Actium, *ibid*—yn darostwng yr Aipht, ac yn ei gwneuthur yn dalaeth Rufeinig, 416—yn newid ei enw yn Augustus Cæsar, *ibid.*

Onias, am ei deml yn yr Aipht, 394.

Osiris, pen duw yr Aiphtiaid, ei hanes, 279.

Othniel yn gwaredu Israel o law Cusan, 116.

P

Pallas, planed newydd a ganfuwyd gan Dr. *Olbers*, 2.

Paradwys, ei sefyllfa, &c. 25, 26, 27.

Parysatis yn gwenwyno Statira, gwraig Artaxerxes Mnemon, ac yn cael ei deol i Babilon—yn cael caniatâd i ddychwelyd i lŷs Persia, 297.

Parthiaid, dechreuad eu teyrnas, 340.

Pausanias yn lladd Philip, tad Alexander Fawr, 303, 325.

Peleg, yn ei amser ef y rhanwyd y ddaear, 38.

Phariseaid a Saduceaid, hanes eu hegwyddorion, 402.

Philip Aridæus yn frenin ar ol Alexander Fawr, 326—lladdwyd ef a'i wraig trwy orchymyn Olympias, mam Alexander Fawr, *ibid.*

Phraates, brenin Parthia, yn rhyddhau Demetrius Nicator, ac yn ei ddanfon ef adref, &c. 401.

Pompey a'r Rhufeiniaid yn darostwng Aristobulus, yn cymmeryd y deml, yn tynu caerau Jerusalem i lawr, ac yn adferu Hyrcanus, &c. 408.

Pompey, wedi cael ei orchfygu gan Julius, yn danfon at Ptolemy, brawd Cleopatra, i ddeisyf ei nodded, ond yn cael ei ladd yn dwyllodrus, &c. 409.

Prophwydoliaethau mewn perthynas i'r Mediaid a'r Persiaid, ac Alexander Fawr, 321—325.

Prophwydoliaeth Daniel, Pen. xi. 334, 342, 343, 356, 359, 360—375.

Ptolemy Soter, dechreuad ei deyrnasiad, 327—yn rhoddi cyfran o'r freniniaeth i'w fab Ptolemy Philadelphus, 331—ei farwolaeth, *ibid*—hanes eilun-addoliaeth ei ddeiliaid, eu dysgeidiaeth, llosgiad eu dwy lyfrgell, &c. 332.

Ptolemy Philadelphus, ei hanes, &c. 331—y rhyfel a fu rhyngddo ac Antiochus Theus, 340—yn adeiladu Ptolemais, ac amryw ddinasoedd ereill—ei farwolaeth, &c. 341.

Ptolemy Ceraunus yn ffoi o'r Aipht at Lysimachus yn gyntaf, ac wedi hyny at Seleucus Nicator, 331—yn lladd Seleucus Nicator yn fradychus, 333—yn priodi ei chwaer Arsinoe—ei greulondeb tu ag ati a'i dau fab—y mae yn cael ei gymmeryd yn garcharor gan y Galiaid, a'i ddryllio yn ddarnau, 333, 334.

Ptolemy Euergetes yn teyrnasu yn lle ei dad Ptolemy Philadelphus, 341—yn danfon byddin i Antiochia i wared ei chwaer o law Laodice, &c. 343—ei farwolaeth, 346.

Ptolemy Philopator yn teyrnasu ar ol ei dad Ptolemy Euergetes, 346—yn ennill buddugoliaeth ar Antiochus Fawr, yn ymweled â Jerusalem, ac yn offrymu ebyrth i Dduw Israel—yn ceisio myned i'r cyssegr sancteiddiolaf, ac yn bwgwth yr Iuddewon am ei attal, &c. 348, 349—yn heddychu âg Antiochus, ac yn dechreu dial ar yr Iuddewon, 349—yr Arglwydd yn eu gwaredu, &c. 350—ei farwolaeth, &c. 351.

Ptolemy Epiphanes, ei fab, yn dechreu teyrnasu, 351—yn danfon i ofyn cynnorthwy y Rhufeiniaid yn erbyn Antiochus, &c. 352—ei farwolaeth, &c. 359.

Ptolemy Physcon, brenin Cyrene, yn dechreu teyrnasu yn yr Aipht, ac yn cymmeryd arno yr enw Euergetes, &c. 397.

Ptolemy Lathyrus yn teyrnasu yn lle ei dad Ptolemy Physcon, 402—ei greulondeb ar ol gorchfygu Alexander Jannæus, 406—ei farwolaeth, *ibid*.

Ptolemy Auletes yn cael ei alw i freniniaeth yr Aipht, 407—yn cael ei yru i alltudiaeth, 408—yn cael ei adferu i'r orsedd, ac yn rhoddi ei ferch Berenice i farwolaeth am anturio gwisgo y goron, &c. 409—ei farwolaeth, *ibid*.

R

Rasis, un o'r Sanhedrim, hanes ei farwolaeth, 391.

Rhagdraethawd i Gysondeb y Pedwar Efengylwr—am y deuddeg apostol, a rhai personau ereill a grybwyllir am danynt yn y pedair Efengyl, 453—462.

Rhufeiniaid, dechreuad eu clod a'u henwogrwydd, &c. 338—ac yn cymmeryd plaid Ptolemy Epiphanes yn erbyn Antiochus a brenin Macedonia, 352—ac yn cynnorthwyo amryw ddinasoedd Groegaidd yn erbyn Antiochus, 354.

Rhyfel rhwng Octafianus a Marc Antoni, 415.

S

Saduceaid, hanes eu crefydd, &c. 403.

Sadwrn, y chweched blaned yn nghyfansawdd yr haul, 3.

Samgar yn gwaredu Israel o law y Philistiaid, 118.

Samson, yr hanes am dano, 124, 125.

Samuel, dechreuad ei lywodraeth a'i arch-offeiriadaeth, 125, 128—ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, 137.

Samariaid eu hanes, &c. 271—275—eu crefydd, 402.

Sameas, neu Shammai, yn ceryddu Herod o flaen y Sanhedrim, &c. 411.

Saul, dechreuad ei deyrnasiad, a'r amrywiol ddigwyddiadau yn ei amser ef, 129—139.

Seba, ei wrthryfel, 147.

Sextus Cæsar yn cael ei wneud yn rhaglaw Syria, 410.

Seleucus yn ennill Babilon oddiar Antigonus—ac o'r cymmeriad hwn o Babilon y cyfrifwyd y prif-nod hwnw a elwir *Era y Seleucidæ*—yn cael y cyfenw Soter, 327—ac yn adeiladu Antiochia yn Syria Uchaf—hefyd amryw o ddinasoedd ereill, &c. 328.

Seleucus Callinicus yn teyrnasu yn lle ei dad Antiochus Theus, 342—ei aflwyddiant wrth geisio darostwng dinasoedd Asia Leiaf, 344—y mae yn heddychu â Ptolemy Euergetes—yn ceisio adferu Parthia a'r taleithiau dwyreiniol yn ol, ond yn aflwyddo—yn cael ei gymmeryd yn garcharor, ac yn marw o godwm oddiar ei geffyl, 345.

Seleucus Ceraunos yn teyrnasu yn Syria ar ol ei dad Seleucus Callinicus, 345—yn cael ei wenwyno trwy fradwriaeth dau o'i brif gadbeniaid, 346.

Seleucus Philopator yn teyrnasu ar Sýria yn lle ei dad Antiochus Fawr, 359 yn cael ei wenwyno gan Heliodorus, *ibid*.

Sem a Japheth, sylwadau ar fendith Noah mewn perthynas iddynt, 37.

Sem, ei feibion, a lle eu preswylfod, 47, 48, 49.

Ser cynffonog, a sefydlog, 3.

Sidoniaid, 40,000 o wyr o honynt, heblaw gwragedd a phlant, yn llosgi eu hunain yn eu tai, rhag syrthio i ddwylaw y Persiaid, 299, 300.

Simon, brawd Judas y Maccabead, ei lwyddiant yn Galilea, &c. 386.

Simon yn cael y dywysogaeth wladol a'r arch-offeiriadaeth ar ol Jonathan, 399—yn cael ei ladd, ynghyd â dau o'i feibion, gan Ptolemy mab Abubus, 400.

Smerdis y Magiad yn teyrnasu yn Persia—yn cael ei ladd gan bendefigion Persia am ei dwyll, 281, 282.

Sodoma a Gomorrah, &c. sylwadau ar eu dinystr, 54, 55, 56.

Sogdianus yn cael ei daflu i fygu mewn lludw gan ei frawd Ochus, 294, 295.

Solomon yn dechreu teyrnasu &c. 153.

Sylwadau ar amrywiol ddigwyddiadau yn y Pedwerydd Dosparth, megys ymgyrch meibion Dan yn erbyn Lais, a rhyfel Gibeah, oed Samuel yn marw, y deg mlynedd o newyn yn ngwlad Canaan, oed Dafydd pan eneiniwyd ef gan Samuel, y tair blynedd o newyn yn amser olaf Dafydd am ei waith yn rhifo y bobl, a'r amrywiol ddosparthiadau a wnaeth Dafydd o'r offeiriaid, &c. 102—105.

Syria dan y Groegiaid, darluniad byr o honi, &c. 328.

Syria yn myned yn dalaeth Rufeinig, 407.

Syria, darluniad byr o honi, a'i phrif ddinas Damascus, 87.

T

Teml Solomon, ei sylfaeniad, a'r darluniad o honi, &c. 154—170.

Terfysg rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid, 396.

Theódotus yr Ætoliad yn ceisio lladd Ptolemy Philopator yn ei wersyll, 348.

Tiberius Cæsar, ynghylch y 15fed flwyddyn o'i deyrnasiad, 436.

Tryphon, yn ddichellgar, yn lladd Antiochus a Jonathan, ac yn cyhoeddi ei hun yn frenin ar Syria, 399—yr ymladdfa rhyngddo â Demetrius, yn colli llawer o'i filwyr trwy lanw disymmwth, *ibid.*

X

Xenophon, yr hanesydd Groegaidd, yn arwain byddin y Groegiaid, ar ol lladd Clearchus, yn yr encil hynod o 2325 milltir, 297.

Xerxes yn cychwyn i ryfela yn erbyn y Groegiaid, gyd â'r fyddin liosocaf a fu erioed, 287—yn croesi yr Helespont, ac yn dyfod i Athen, 288—yr ymladd rhwng llongau y Groegiaid a'r Persiaid, *ibid*—Xerxes yn dychwelyd yn brysur at yr Helespont, ac yn ei chroesi fel ffoadur, *ibid*—ar ol amryw frwydrau, mae y rhan fwyaf o'i fyddin liosog yn cael ei dinystrio, ac yntau yn dychwelyd i Persia, 289—y mae yn distrywio holl demlau y Groegiaid yn Asia Leiaf, ond teml Diana yn Ephesus, *ibid*—hefyd, temlau y Babiloniaid, ac yn eu hanrheithio o'u delwau, &c. 291—yn ymroi i esmwythder a moethau, ac yn cael ei ladd gan Artabanus, *ibid.*

Xerxes, mab Artaxerxes Longimanus, yn teyrnasu 45ain niwrnod, ac yn cael ei ladd yn ei gwsg a'i feddwdod gan Sogdianus, 294.

Y

Ymraniad rhwng Israel a Judah, yn amser Rehoboam, 173, 174.

Z

Zoroastres yn sefydlu crefydd y Magiaid yn Media, 289—ei egwyddorion, a'i lwyddiant yn taenu ei gyfeiliornadau, 290, 291.

DANGOSEG I'R TAFLENAU AMSERYDDOL.

Taflen o'r flwyddyn Hebreaidd wedi ei chymharu â'r flwyddyn Iulïaidd, *tu dalen* 6.

Taflen eglurhaol o'r holl Daflenau, 20.

Taflen 1. o'r Dosparth Cyntaf, yn cynnwys 1657 o flynyddoedd; sef, o greadigaeth y Byd hyd ddiwedd blwyddyn y Diluw, gyd â'r profiadau ysgrythyrol, 21.

Taflen 2. o'r Dosparth Cyntaf, yn cynnwys y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant yn y Dosparth hwn, 32.

Taflen 1. o'r Ail Ddosparth, yn cynnwys 426 o flynyddoedd; sef, o'r Diluw hyd oni roddwyd yr addewid i Abraham yn Ur y Caldeaid, 33.

Taflen 2. o'r Ail Ddosparth, yn cynnwys y pethau mwyaf nodedig yn y Dosparth hwn, 49.

Taflen 1. o'r Trydydd Dosparth, yn cynnwys 430 o flynyddoedd; sef, o roddiad yr addewid i Abraham hyd ymadawiad Israel o'r Aipht, 50.

Taflen 2. o'r Trydydd Dosparth, yn cynnwys y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant yn y Dosparth hwn, gyd â'r profiadau ysgrythyrol, 61, 62, 63.

Taflen 1. o'r Pedwerydd Dosparth, yn cynnwys 487 o flynyddoedd; sef, o ymadawiad Israel o'r Aipht hyd oni orphenwyd teml Solomon, 64.

Taflen 2. o'r Pedwerydd Dosparth, yn cynnwys y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant yn y Dosparth hwn, gyd â'r profiadau ysgrythyrol, 88—102.

Taflen 1. o'r Pummed Dosparth, yn cynnwys 421 o flynyddoedd; sef, o orpheniad teml Solomon hyd gaethgludiad y ddau lwyth i Babilon, 172, 173.

Taflen 2. o'r Pummed Dosparth, yn cynnwys y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant ynddo, gyd â'r profiadau ysgrythyrol, 197—210.

Taflen 1. o'r Chweched Dosparth, yn cynnwys 587 o flynyddoedd; sef, o ddinystr Jerusalem a theml Solomon gan Nebuchodonosor hyd enedigaeth Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin, 226, 227, 228.

Taflen 2. o'r Chweched Dosparth, i eglurhau y Daflen Gyntaf o'r Dosparth hwn, yn cynnwys y pethau mwyaf hynod a ddigwyddasant ynddo, gyd â'r profiadau ysgrythyrol, 424—432.

Taflen 1. o'r Seithfed Dosparth, yn cynnwys 98 o flynyddoedd; sef, o'r flwyddyn gyntaf o Oed Crist, yn ol y Cyfrif Cyffredin, hyd oni orphenwyd ysgrifenu Llyfrau Canonaidd y Testament Newydd, 433.

Taflen 2. o'r Seithfed Dosparth, yn cynnwys y digwyddiadau perthynol iddo, &c. 439—452.

BALA, ARGRAPHEDIG GAN R. SAUNDERSON.